


This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at http://books.google.com/

nd by Park & Son, Newtown

Celt 142.50



Harvard College Library



FROM THE GIFT OF

ERNEST BLANEY DANE

(Class of 1892)

OF BOSTON

FOR ENGLISH LITERATURE

Y


TRAETHODYDD.

AM Y FLWYDDYN 1854.

LLYFR X.

DINBYCH:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN THOMAS GEE.
MDCCCLIV.

~~Phil 867~~
Celt 142.50
*



Gift of
Ernest B. Dane
of Boston.

DANGOSEG.

IONAWR.

EBRILL.

GORPHENAF.

HYDREF.

Y TRAETHODYDD.

HOWEL HARRIS.

[*The Life and Times of* HOWEL HARRIS, Esq., *the first Itinerant Preacher in Wales. By the* Rev. EDWARD MORGAN, M.A., *Vicar of Syston, Leicestershire.* Holywell. 1852.]

Y MAE y Parchedig Edward Morgan yn teilyngu parch a diolchgarwch oddiar ein llaw ni, y Cymry, am y llafur y mae wedi bod ynddo i ddwyn rhai o enwogion ein gwlad i sylw y deyrnas a'r byd Cristionogol. Mae Mr. Morgan wedi ymgymeryd â'r gorchwyl hwn gyda'r awyddfryd hwnw sydd yn tarddu oddiar deimlad o gariad ac unfrydedd tuag at ei wrthddrychau. Er fod rhagluniaeth wedi ei daflu i eigion Lloegr, eto nid yw wedi colli calon ac ysbryd Cymro. Mae yn hawdd deall pa le y mae cartrefle ei feddwl, ac mai teimlad estron allan o wlad ei enedigaeth yw y teimlad cryfaf sydd yn ei feddiannu. Y mae efe wedi yfed yn ehelaeth o ysbryd yr hen ddiwygwyr Cymreig; a gŵr o'r fath yma oedd eisieu i ddyweyd eu hanes i'w hŵyrion a'u gorŵyrion. Er mai offeiriad yw Mr. Morgan, eto y mae yn trin ei fater gyda haelfrydedd a dibartïaeth, ag sydd yn galw am ein cydnabyddiaeth mwyaf gwresog, ac yn cynhesu ein calon ato mewn teimladau o wir barch. Rhaid dyweyd fod ganddo destunau digon uchel a swynol i alw am y galluoedd cryfaf atynt, a digon teilwng o'u medrusrwydd a'u hymdrechion campusaf i'w darlunio; a buasai yn warth tragywyddol ar Gymru pe gollyngasid y fath gyfnod hynod yn hanes ein gwlad, ag a gymerodd le yn y Diwygiad Methodistaidd, i fyned i dywyllwch, heb alw sylw y byd Cristionogol ato, oblegid yr ydym yn credu mewn gwirionedd mai "mawr allu Duw oedd hwn." Bellach ni bydd hyn felly. Mae "*Memoirs of the Rev. Thomas Charles, of Bala;*" "*Ministerial Records of the Rev. Griffith Jones, Llanddowror, and Daniel Rowlands, Llangeitho;*" a'r "*Memoirs of Howel Harris, Esq.*"—oll o dan law Mr. Morgan, wedi cadw coffadwriaethau y goreuwyr hyn rhag syrthio i dir anghof, ac ennill sylw neillduol ein cymydogion yn Lloegr a'r Alban, ynghyd âg America, at y gwaith mawr a wnaeth yr Arglwydd yn Nghymru trwyddynt. Mawr barch ynte a fyddo i'n cyfaill, Mr. Morgan. Mae y Cymry yn ddyledwyr iddo, meddwn eto; gwnaeth ei oreu, ac yn yr ysbryd goreu, i lenwi bwlch yn ein hanesiaeth eglwysig; a pheth sydd gan neb i'w wneyd ond canmawl pan fo dyn ar ei oreu. Nid oes arnom eisieu yn ychwaneg ond i awdwr parchus y llyfr gwerthfawr hwnw, "Methodistiaeth Cymru," wneuthur anrheg o hono i eglwysi y deyrnas gyfunol mewn gwisg Seisnig; a byddwn wrth ein bodd wedi hyny, dan yr ystyriaeth o fod yn hysbys i'n brodyr yn mhob man, o'r bron, am yr hyn a wnaeth Duw i'w bobl.

Buom yn gofidio cyn hyn na buasai rhyw goffâd teilwng o Howel Harris—fel y diwygiwr enwog a gwrol, ag oedd y cyntaf i anturio i'r maes, yn ngwyneb llygredigaeth, tywyllwch, a ffyrnigrwydd yr oes, er ymosod ar y caerau cadarnaf o eiddo teyrnas y tywyllwch yn ein gwlad—wedi ymddangos ar dudalenau y "Traethodydd," a theimlem raddau o euogrwydd na chymerasom ein hysgrifell i fyny at hyn o orchwyl cyn yma—ond digon—amgylchiadau a'n lluddiodd—gwell hwyr na hwyrach; ac wele ni yn awr yn ymaflyd yn y gorchwyl o geisio gwneyd yr anghen i fyny.

Ganwyd Howel Harris yn Nhrefecca, Ionawr 23, 1714. Yr oedd ei dad yn berchenog ar dyddyn bychan yn y man lle yr adeiladwyd wedi hyny yr adeilad mawr yn mha un y bu teulu Harris yn byw, ag sydd yn awr yn cael ei ddefnyddio fel mangre yr athrofa. Un o dri brawd ydoedd, bob un o honynt yn hynod yn ei ffordd ei hun. Yr oedd Joseph Harris, yr hynaf, yn ŵr o gynneddfau cryfion a gwybodaeth eang. Ysgrifenodd amryw draethodau ar seryddiaeth a rhifyddiaeth. Llanwai swydd o dan y llywodraeth, ac yr oedd yn ŵr mawr yn ei ddydd. Thomas Harris, yr ail fab, a aeth i fyny i Lundain, ac yno ennillodd gyfoeth mawr, yr hyn a'i galluogodd i brynu rhandiroedd helaeth Tregunter, yn nghymydogaeth Talgarth. Y trydydd a'r ieuengaf ydoedd Howel. Derbyniodd fanteision addysg hyd nes yr oedd yn ddeunaw mlwydd oed, pryd y bu ei dad farw, ac y trodd yntau i gadw ysgol i blant. Ymddengys ei fod yn lleneyn ofer a gwyllt y pryd hyn, gan ddilyn y "lliaws i wneuthur drwg." Trwy yr ysgol, beth bynag, daeth yn gydnabyddus â rhai o fawrion yr ardal, a thrwy eu dylanwad a'u haddewidion hwy, cafodd y fantais o fyned i'r brifysgol yn Rhydychain, gyda golwg ar fod yn offeiriad; ond yr oedd dylanwadau eraill yn gweithio yn meddwl Harris y pryd hyn, a drodd oferedd ac annuwioldeb Rhydychain yn annyoddefol yn fuan. Pan yn un mlwydd ar hugain oed, yn ngwanwyn y flwyddyn 1735, ymddengys ei fod o dan argraffiadau crefyddol dwys, fel y penderfynodd ddilyn buchedd newydd. Yn yr agwedd yma nesaodd ymlaen ar Sabboth y Pasg i gyfranogi o Swper yr Arglwydd. Yr oedd ei feddwl yn gyffröus eisoes; profasai ddiflasdod nid bychan ar ei ddull annuwiol yn byw; yr oedd egwyddor o edifeirwch ar waith yn ei galon; felly, pan ar ei liniau wrth yr allor, wrth adrodd y geiriau canlynol,—"Eu coffa sydd drwm genym, eu baich sydd annhraeth ei oddef," &c., disgynodd y fath argyhoeddiad i'w feddwl, fel y bu ar fedr codi oddiar ei liniau ac ymadael, rhag ei fod yn nesâu at fwrdd yr Arglwydd â chelwydd yn ei enau. Cafodd beth y pryd hyny na chollodd mohono byth. Dyma ydoedd adeg ei dröedigaeth; ac y mae y man lle yr ymwelodd Ysbryd Duw yn achubol â'i enaid i'w weled ac yn cael ei nodi allan yn Eglwys Talgarth heddyw. Mae y cofnod hwn o'r amgylchiad, ynghyd â'r man dyddorol yma, yn werth ei osod i lawr, o herwydd mai dyma y wreichionen fechan a ymddangosodd gyntaf, ac a dorodd allan yn dân angerddol, wedi hyny, trwy ogledd a deheudir Cymru, yn y diwygiad rhyfedd hwnw ar grefydd a roddodd fod a ffurfiad i gorff y Trefnyddion Calfinaidd, ac a fu hefyd yn gymaint o foddion adfywiad a chynnyrch ar grefydd yn mysg enwadau eraill, nes y mae y Dywysogaeth erbyn heddyw, mewn cymhariaeth i wledydd eraill, megys "gardd yr Arglwydd." Fel hyn y canai William Williams, Pant-y-celyn:—

"Pan 'roedd Cymru gynt yn gorwedd
Mewn rhyw dywyll farwol hûn,

Heb na phresbyter na 'ffeiriad,
  Nac un esgob yn ddi-hun;
Yn y cyfnos tywyll pygddu
  Fe ddaeth dyn, fel mewn twym iâs,
Yn llawn gwreichion goleu tanllyd,
  O Drefecca fach i ma's.

'Nawr mae 'n gorwedd yn y graian,
  Mewn lle tywyll dystaw iawn,
Harris gynt â'i waedd ddihunodd
  Weinidogion lawer iawn;
Can's trwmgwsg oddiwrth yr Arglwydd
  Oedd fel diluw 'n llanw 'n lân,
Yn y dydd cyhoeddodd Howel,
  I fod Nini' 'n myn'd ar dân.

Dyddiau ag 'roedd Ralph ac Eben,
  Draw yn Scotland oer ar dân;
Whitefield g'lonog fry yn Lloegr
  Yn cyhoeddi 'r 'fengyl lân;
Harris, Rowlands, a rhyw 'chydig,
  Yna yn Nghymru yn seinio i maes
Weithiau o Sina, weithiau o Sïon,
  Hen ddirgelion dwyfol ras."

Er iddo golli y teimladau bywiog a gawsai ar Sabboth y Pasg yn fuan, eto ni chollodd efe byth mo'r "egwyddorion nefol ras" a brofodd yn y tro hwnw. Nis gallwn wneyd yn well, fe allai, na dodi i lawr ychydig o hanes ei brofiad tua'r amser hyn; ac yn y fan yma gallwn sylwi mai nid profiad cyffredin oedd profiad Howel Harris. Yr oedd yn ŵr o feddwl gwresog, penderfynol, a grymus; ac y mae ei holl hanes ysbrydol yn arddangos yr un nodweddiadau o wresogrwydd, penderfyniad, a grym. Fel hyn yr ysgrifenai:—

"*Ebrill 20fed.*—Dododd Rhagluniaeth lyfr yn fy llaw, ac mi a edrychais i bob rhan o hono, fel help i hunan-ymholiad; ac argyhoeddid fi fy mod yn mhob cangen o'm dyledswydd tuag at fy Nuw, fy hunan, a'm cymydog, yn ddiffygiol ac yn euog. Yr un prydnawn, cyfarfyddais â llyfr arall wedi ei ysgrifenu gan *Bryan Duppa* ar y gorchymynion, a hwn a fu yn foddion i ddyfnhau fy argyhoeddiadau. Po mwyaf y darllenwn, mwyaf yn y byd o oleuni ysbrydol a lewyrchai i'm meddwl, gan ddadguddio eangder y gyfraith, ac yn fy ngalw i gyfrif, nid yn unig o herwydd pechodau cyhoeddus, ond fy edrychion a'm dybenion yn mhob dim a feddyliwn, a siaradwn, ac a weithredwn. Yna gwelais yn eglur fy mod i wedi fy ninystrio am byth."

Pwy oedd y Bryan Duppa uchod nis gwyddom, ac ni chawsom y fantais o weled ei waith erioed. Bu Harris mewn cryn dywydd am ei gyflwr am yspaid o amser; ond ar y Sulgwyn, yn mis Mai (nid Mehefin, fel y dywedir yn "Methodistiaeth Cymru:" gwel *tudal.* 74), cafodd ddadguddiad neillduol i'w feddwl o'r Arglwydd Iesu, a llanwyd ef â dyddanwch a llawenydd annhraethadwy a gogoneddus. Fel hyn y dywed:—

"*Mai 25ain*, 1735.—Mi aethum at fwrdd yr Arglwydd dan bwys euogrwydd a grym fy mhechodau; ond argyhoeddwyd fi gan yr Ysbryd Glân i Grist farw troswyf, a bod fy holl bechodau wedi eu gosod arno. Cefais fy hun yn rhydd o flaen gorsedd cyfiawnder, ac yn llys fy nghydwybod; ac y mae fy ffydd yn profi ei gwirionedd trwy y tangnefedd, y llawenydd, y gwyliadwriaeth, y casineb at bechod, a'r ofn i ddigio Duw, a weithiodd hi ynof fi. Dechreuais yn awr fod yn fwy hapus, ac nis gallwn beidio a dyweyd wrth y bobl ar fy ffordd adref o'r eglwys, y Sulgwyn hwnw, fy mod i yn gwybod fod fy mhechodau wedi eu maddeu.

Mor ddwfn oedd fy argyhoeddiad o hyn, fel nad oedd dim a allai beri i mi ammheu."

Ymroddodd lawer i ympryd a gweddi; ac yn Mehefin cafodd ymweliad neillduol drachefn, yn ol yr hanes canlynol:—

"*Mehefin* 18*fed*, 1735.—Pan ar weddi ddirgel, teimlais fy nghalon yn ddisymmwth yn toddi ynof fi fel cwyr, o flaen Duw, o gariad at Dduw fy Iachawdwr. Teimlais nid yn unig gariad a thangnefedd, ond *hiraeth* i'm dattod a bod gyda Christ; ac yr oedd llef yn eigion fy enaid na wyddwn am dano o'r blaen, fel hyn —Abba Dad, Abba Dad. Nis gallwn beidio a galw Duw yn Dad i mi; gwyddwn mai ei blentyn ef oeddwn, a'i fod yn fy ngharu. Yr oedd fy enaid yn llawn, ac ar ben ei ddigon, ac yn dywedyd, 'Digon, digon, cefais fy moddloni; dyro i mi nerth, a mi a'th ddilynaf trwy ddwfr a thân.'"

Maeddwyd ef gan ammheuon ac ofnau ar ol hyn, ond derbyniodd gysuron mawrion gan yr Arglwydd; ac ar y cyfan yr oedd yr amser hwn yn amser o ddyddanwch annhraethol iddo.

"Nis gallwn siarad am ddim," meddai, "ond am bethau ysbrydol, a hyn yn fuan a ddygodd ddirmyg a gwawd arnaf. Bob dydd yr oedd rhai yn fy ngwawdio, ac eraill yn tosturio wrthyf. Ceisiai rhai fy nychrynu, ac eraill fy nenu â chynghorion rhy debyg i ddoethineb y byd hwn. Meddyliwn yn fynych am ymguddio oddiwrth fy nghyfeillion, gan ofni dim yn fwy na bod yn adnabyddus i'r byd. Hyn a barodd i mi roddi i fyny fy nghyfeillach â llawer, a gwrthod pob cynnyg er fy nyrchafu yn y byd. Gwerthais yr hyn oll a feddwn, a rhoddais i'r tlodion; ac ymhlith pethau eraill, y cyfryw ddillad ag a farnwn yn anweddus i Gristion. Gwelais mai peth ofnadwy oedd peidio a chymeryd Duw ar ei air yn ol y gair hwnw, 'A phob un a'r a adawodd dai,' &c. 'er mwyn fy enw i, a dderbyn y can' cymaint, a bywyd tragywyddol a etifedda efe.' Ar yr addewid hon, gorchymynais fy nghorff a'm henaid i'w ofal am byth. O'r amser hyny hyd yn awr, mi allaf ddywedyd mai bywyd ffydd fu fy mywyd i, gan ddadleu o'i flaen fy mod i yn pwyso yn gwbl ar ei addewidion gwerthfawr. Cefais ef bob dydd yn ffyddlawn i'w air, ac na chywilyddir y sawl a ymddiriedant ynddo. Yn fy holl anghenion, nid oedd genyf le i droi iddo ond at ei addewid; ac yn hòno yn unig, mae yn rhaid i mi dystio i mi gael digon."

Gwasgodd cyflwr gresynus y wlad yn drwm ar ei feddwl, a dechreuodd lefaru wrth ei gymydogion am eu perygl, ac yn erbyn eu drwg fucheddau. Meddai,—

"Nis gallwn ymattal rhag dywedyd wrth bawb a allwn am eu perygl. Angeu a barn oedd prif destunau fy ymddyddan. Gosodais addoliad teuluaidd i fyny yn nhŷ fy mam; ac ar foreuau Sabbothau, rhai o'm cymydogion a ddeuent i'm gwrandaw yn darllen y llithoedd a'r salmau; a phrydnawn y Sabboth a dreuliwn mewn ymddyddan â'r cyfeillion hyny y cyffyrddasai yr Arglwydd â'u calon, er eu dwyn i ganfod eu perygl. Yr oedd tân Duw yn awr yn llosgi yn fy enaid, ac nis gallwn orphwys na dydd na nos heb wneuthur rhywbeth tros fy Nuw a'm Hiachawdwr. Yr oedd amser mor werthfawr yn fy ngolwg, fel nas gwyddwn pa fodd i'w dreulio er ei ogoniant a lles eneidiau. Pan yn unig, ni wnawn ddim ond darllen, gweddïo, ac ysgrifenu. Nid oeddwn yn ofni dim, er fod fy mywyd mewn perygl oddiwrth fygythion rhai a garent y tywyllwch yn fwy na'r goleuni. Fel hyn y treuliais haf y flwyddyn 1735."

Yn nechreu Tachwedd o'r flwyddyn hon, cafodd Harris fodd i fyned i Rydychain, gydag addewid am ddyrchafiad wedi dyfod oddiyno; ond ni bu yno yn hir cyn iddo gael diflasdod ar annuwioldeb y lle, a dychwelodd i Gymru at y gwaith mawr i ba un y codasai yr Arglwydd ef. Nid oedd awyr crefydd Rhydychain ddim yn cytuno â'i ysbryd. "Treuliwn," meddai, "y rhan fwyaf o'm hamser mewn gweddi ddirgel, neu mewn

addoliad cyhoeddus." Ar ei, ddychweliad adref, dechreuodd fyned o dŷ i dŷ, nes ymweled â phob teulu o'r bron yn y plwyf yn mha un y ganed ef, ynghyd â'r plwyfydd cymydogaethol. Taenodd y son am dano, a chasglodd lliaws mawr ynghyd, fel ag yr oedd y tai yn rhy fach i'w cynnwys. Yr oedd awdurdod yn cydfyned â'r gair, a llawer a waeddent am faddeuant o'u pechodau. Cyffrodd y gelyn ar hyn, a chynhyrfodd, nid yn unig y werin, ond yr ynadon a'r offeiriaid yn ei erbyn: fel hyn y bu gorfod arno i roi y dull hwn heibio dros amser. Fel hyn y bu yn gweithredu hyd nes y cynghorwyd ef gan gyfaill i agor ysgol yn Nhrefecca, yr hyn a wnaeth tua diwedd yr haf yn y flwyddyn 1736.

Mae yn amlwg nad oedd gan Harris yr un amcan mewn golwg ond gwneuthur lles i eneidiau dynion; gwelsai hwynt mewn enbydrwydd, ac ennynodd tân yn ei fynwes i ragflaenu eu dystryw. Yr ydym yn hollol o'r un meddwl ag awdwr "Methodistiaeth Cymru," nad "oedd ganddo un dychymyg am fod yn flaenor ar sect newydd, nac ymaflyd yn y weinidogaeth trwy drais ac afreolaeth." Cyfrifai ei hun yn eglwyswr; a phrawf nad oedd hyny mewn enw yn unig, yw, yr arferai ei deulu fyned bob Sabboth i'r gwasanaeth yn Eglwys Talgarth, hyd ac ar ol ei farwolaeth. Symudodd yr ysgol o Drefecca i eglwys y plwyf, a llawer a gyrchent yno ato i'r dyben o gael cyfarwyddyd yn achos eu heneidiau. Tua'r amser hyn y dechreuodd efe y cymdeithasau neillduol, a elwir y *societies*, yn ol cynllun a gawsai o waith Dr. Woodward ar y pen hyny; a dyna ddechreuad y cyfarfodydd neillduol ag sydd wedi bod mor fendithiol er cynnaliaeth crefydd ysbrydol yn ein gwlad. Mae yn debyg mai mewn pentref bychan a elwir *Erwood*, ar y ffordd rhwng Talgarth a Llanfair Muallt, y ffurfiwyd y gymdeithas neillduol gyntaf.

O barth i'w weinidogaeth y pryd hyn, meddai Harris;—"Rhoddid testun fy mhregeth i mi trwy ryw gyffroad uniongyrchol ac anghyffredinol ar fy meddwl; nis gallwn orphwys—anghenrheidrwydd a osodid arnaf i fyned i ddeffroi eneidiau. Ofnwn rhag i eraill fyned a dilyn fy esiampl o ddybenion gau. Ond wedi myned â'r achos ger bron Duw mewn gweddi, nerthwyd fi i fwrw fy holl ofal ar yr Arglwydd Iesu Grist, ac i fod yn foddlawn i gymeryd fy ngharcharu a'm poenydio, gan fod yn hyderus y profwn ef yn gyfaill ffyddlawn yn mhob cyfyngder, yn angeu, ac i dragywyddoldeb."

Yn nechreu yr haf, 1737, bu yn llefaru yn nhŷ rhyw ŵr boneddig o swydd Faesyfed, yr hwn a anfonasai ato i'r perwyl hyny; a thua diwedd y flwyddyn bwriwyd ef allan o'r ysgol yn y llan, yr hyn a fu yn foddion i rwyddhau ei ffordd i fyned i bregethu yma a thraw, pa le bynag y caffai alwad. Yr oedd yn ddiflin ac yn effro yn ei ymdrechiadau, a thyrfaoedd yn cyrchu i'w wrandaw yn mhob man.

Tua'r amser hyn, sef y flwyddyn 1738, y clywodd Harris son am Rowlands, Llangeitho, gyntaf. Bu yn awyddus iawn am dymmor, wedi clywed am y grymusderau ag oedd yn cydfyned â gweinidogaeth Rowlands, i'w wrandaw. Cafodd y cyfleusdra cyn bo hir, yn Defynog, swydd Frycheiniog, tra yr oedd Rowlands ar ei daith yn pregethu yn y parthau hyn. Tua'r un amser hefyd y daeth son am Whitefield gyntaf i Gymru. Derbyniodd Harris lythyr oddiwrtho, er ei fawr galondid, yn ei annog i fyned ymlaen â'i waith. Yr oedd y bobl erbyn hyn yn sychedu am ei weinidogaeth, ac nid oedd iddo lonyddwch mwyach; ac felly, trwy y

cynnaliaeth a gawsai i'w ysbryd oddiwrth lythyr tymmorol Whitefield, ac awydd y bobl i'w wrandaw, aeth rhagddo ar hyd a lled y wlad, yn ngwyneb gwrthwynebiadau, bygythion i'w gosbi, a therfysgoedd gan y werinos gyffredin. Yn nechreu y flwyddyn 1739, yr ymwelodd efe â'r Gogledd am y tro cyntaf; a thaith erlidigaethus a gafodd. Mae yn ymddangos nad aeth efe ddim pellach na'r Bala y tro hwn; ac iddo, pan yn agos i Cemmaes, swydd Drefaldwyn, gael ei gymeryd i fyny gan farchog y sir, ynghyd âg offeiriad y plwyf, a dau ustus heddwch, ond ei ollwng yn rhydd ar ol ei ddwrdio a'i fwgwth; ac mai y tro hwn y pregethwyd gyntaf gan Fethodist yn Llanuwchllyn a'r Bala, ac y dechreuwyd Methodistiaeth Gogledd Cymru gyntaf yn Llanbrynmair. Mae dydd-lyfr Harris yn cadarnhau tyb awdwr "Methodistiaeth Cymru," mai Llanbrynmair oedd y man lle y pregethodd efe gyntaf yn sir Drefaldwyn, ar ei ffordd i'r Bala, yn y flwyddyn 1739. Yr ydym hefyd o'r un farn ag ef o barth i amseriad ail ymweliad Harris â'r Gogledd, ac mai yn y flwyddyn 1741 y cymerodd hyny le, ac nid, fel y tybia Senex yn yr hen "Drysorfa," yn y flwyddyn 1739, na 1740; ac mai ar yr ail daith hon yr aeth efe gyntaf i sir Gaernarfon. Ar ei ddychweliad o'r Bala, pregethodd yn Ninas Mawddwy, ac aeth ymlaen i Machynlleth; ond yno cafodd driniaeth chwerw. Tueddir ni i roddi yr hanes yn gryno, yn ol ei ddarluniad ei hun. "Ar fy nyfodiad cyntaf i'r dref, mi a ddeallais nad oedd gan neb ewyllys i'm derbyn. Pa fodd bynag, mi a gynnygiais y pregethwn ar yr heol i'r neb a ewyllysiai fy ngwrandaw. Yna, wedi fy ngosod i sefyll ar ryw ffenestr neu ddrws agored, mewn rhyw adeilad uwchlaw y bobl, myfi a ddechreuais lefaru. Ond gorfu i mi roddi heibio yn fuan, gan swn y dyrfa yn bloeddio, bwgwth, tyngu a rhegu; a chan y ceryg, neu unrhyw beth arall, cyntaf i law, a luchient ataf. Ac yn enwedig, daeth ataf gyfreithiwr, â'r fath ddigter a chynddaredd yn ei wedd, a'r fath iaith uffernol yn ei enau, a phe bai ei enw yn lleng. Yr oedd gydag ef foneddwr ac offeiriad, o'r un dymher ac iaith, yn flaenoriaid ar y werin. Gollyngodd un o honynt ergyd o law-ddryll ataf, ond ni chefais niwed; ond gorfu arnaf fyned i ganol y werin i'r heol, heb ddysgwyl y diangwn byth yn fyw o'u plith, gan fod pob ymddygiad o'r eiddynt yn fy mwgwth â marwolaeth. Ond ni ddaethai fy awr i eto; ac er i mi gael triniaeth arw ganddynt, mi a gefais fy ngwared yn rhyfedd o'u dwylaw. O'r diwedd, un o'r terfysgwyr a dueddwyd i geisio fy ngheffyl; a chan gynted yr esgynais ar ei gefn, gwnaent sylw o'r ffordd a gymerwn, a daethant drachefn i'm cyfarfod, gan ddechreu fy lluchio eilwaith â choed ac â cheryg, nes i'r Arglwydd fy ngwared allan o'u dwylaw."

Yn y flwyddyn hon hefyd, fe aeth i Lundain, lle y cafodd olygiadau cyflawnach ar drefn yr iachawdwriaeth, trwy ymddyddanion â chyfeillion crefyddol yno. Dychwelodd i Drefecca yn ystod yr haf, ac wedi hyny ymwelodd â swydd Henffordd, lle y bu yn llefaru wrth dyrfa a ganfu wrth eu chwarëyddiaethau mewn gŵylmabsant, ar y ffordd. Oddiyno, cyfeiriodd ei lwybr, dan bregethu, tua'r Fenni a Phont-y-pool. Yn y lle olaf hwn, cymerwyd ef i fyny gan ustus heddwch, a gorfu arno roddi mechniafon i ateb y sessiwn yn Mynwy, mis Awst canlynol. Yn y cyfamser, aeth i bregethu i Bristo, &c., ac oddiyno trwy holl siroedd y Deheudir. Daeth i Mynwy erbyn yr amser gosodedig, ond trwy gynnorthwy cyfeillion o Lundain, Caerloew, &c., cafodd ei ryddhau. O Mynwy, aeth eilwaith y flwyddyn hon trwy siroedd y Deheudir. Yn yr haf, 1740, cyfarfu â Mr.

Seward, yn y Bontfaen, swydd Forganwg. Teithiai Mr. Seward hefyd i bregethu, ac aeth trwy lawer o dywydd. Dyoddefodd ferthyrdod yn y Gelli mewn ychydig amser ar ol hyn. Tarawodd ryw ddyhiryn ef ar ei ben, tra yn pregethu, fel y syrthiodd i lawr yn hanner marw yn y fan, a threngodd yn fuan oddiar effaith yr ergyd, gan erfyn, cyn marw, na wnai neb erlyn y dyn a'i tarawsai. Mae yr argraff ar ei gareg-fedd, yn monwent Cersop, ger y Gelli, fel y canlyn :—

"Here lyeth the body of William Seward, of Badsey, in the county of Worcester, Gent., who departed this life, Oct. the 22nd, 1742. Aged 38.

'To me to live is Christ, and to die is gain.'—*Phil.* chap. i. 21va.

'If earth be all———————,
Why o'er and o'er a beaten path
You walk and draw up nothing new;
Not so our martyred seraph did,
When from the verge of Wales he fled.' "

Bu Seward yn gyfaill i Harris wrth deithio trwy Gaerdydd, Cas'newydd, &c., a Mynwy. Yn Cas'newydd, rhuthrodd y werinos arnynt yn ffyrnig. Yn Caerlleon-ar-Wysg, cafodd Seward ergyd ar ei lygad tra yn llefaru, a fu yn achos iddo golli goleuni y llygad hwnw. Yn Mynwy, cawsant lawer o anmharch. Aethant oddiyno i Gaerloew; a thra yno, ar y Sabboth, aeth Harris, yn ol ei arfer, i Eglwys St. Nicholas, i dderbyn sacrament Swper yr Arglwydd. Cafodd ymweliad neillduol oddiwrth yr Arglwydd tra yr oedd wrth y bwrdd, yn ail-ennyn pob gras ynddo, ac yn cryfhau ei enaid i fyned rhagddo yn ngwaith ei Arglwydd. O Gaerloew, aeth tua swydd Faesyfed, lle y cymerwyd ef i fyny drachefn, wrth lefaru mewn gŵylmabsant, a gorfu arno roddi mechniafon i ymddangos yn y sessiwn chwarterol. Ond pan y daeth ymlaen, pleidiwyd ef gan ryw ŵr boneddig, yr hwn a roddasai ddadleuwr i ddadleu ei achos, a chafodd ddyfod yn rhydd.

Yn nechreu y flwyddyn 1741, aeth ar ei ail daith tua'r Gogledd; ond gan fod hanes yr ymosodiad arswydus arno y tro hwn yn y Bala a sir Gaernarfon mor hysbys, ni a awn heibio, gan gyfeirio y darllenydd at yr ymddyddan dyddorol rhwng Scrutator a Senex, yn yr hen "Drysorfa," a hefyd "Methodistiaeth Cymru;" *tudal.* 99, &c., cyf. i.

Yn yr haf canlynol, cafodd ei alw i Lundain. Aeth trwy Bristo, ac amryw o drefydd Lloegr; ac wedi aros rai misoedd yn y brifddinas, dychwelodd i Gymru yn y flwyddyn 1742. Gwelwn oddiwrth yr hanes uchod, mai gweithiwr llafurus a diwyd ydoedd, a'i holl enaid wedi ymroddi at y gorchwyl o achub eneidiau dynion. Gwynebai fel milwr dewr ar fyddinoedd y gelyn, a phregethai Grist wedi ei groeshoelio yn ngwyneb gwawd, anmharch, erlidiau, ac angeu. Rhydd y darluniad canlynol o'i brofiad ryw ddychymyg i ni o'r tywydd mawr y cyfarfyddodd gwas yr Arglwydd âg ef yn ei ymdrechion apostolaidd i bregethu Crist i'r bobl. Meddyliem fod yma fwy o olyniad apostolaidd yn hyn nag a all cannoedd a hònant hawl swyddol iddo ei ddangos. "Treulid fy nerth corfforol," meddai, "gymaint gan lafur parhaus, ddydd a nos, fel pan yr awn o flaen cynnulleidfa, nas gallwn yn fynych sefyll o'r bron, nes y cawn gymhorth i ddadleu yr addewid hòno, 'Y rhai a ddysgwyliant wrth yr Arglwydd, a adnewyddant eu nerth,' pryd y teimlwn fod genyf nerth digonol mewn meddwl a chorff i'm dwyn trwy fy ngwaith."

Yr oedd ei bregethau yn frawychus dros ben y pryd hyn. Ni chlywid am ddim ond dystryw a damnedigaeth, tebyg i bregeth Jona i'r Ninifeaid. Dywedir nad arferai gymeryd un testun o'r Bibl, pan yn pregethu; neu os cymerai, ni enwai efe ddim mo'r lle yr oedd i'w gael. Ar y cyntaf, ni chaed yr awgrymiad lleiaf ganddo am drefn Duw i achub—dim ond cyhoeddi barnedigaeth noeth uwch ben y trigolion; ond newidiodd hyn yn fuan, a dygai falm Calfaria gydag ef i'w gymhwyso at y briwiau a agorasai o'r blaen. Y canlyniad oedd, i lawer gael eu dwysbigo yn eu calon, a'u deffroi i ymofyn am ddiogelwch rhag y llid oedd ar ddyfod. Yn unol â hyn y cana Williams:—

"Yn y daran 'r oedd e'n aros,
 Yn y cwmwl 'r oedd ei le;
(Ysbryd briw, drylliedig, gwresog,
 Sy'n cael cynghor Brenin ne')
Ac yn saethu oddiyno allan
 Fellt ofnadwy iawn eu rhyw,
At y dorf aneirif dywyll
 Yn eu pechod oedd yn byw.

Gorfu gwrando ei eiriau geirwon,
 Cadarn yw awdurdod nen;
Os gwrth'nebu wna pechadur,
 Trymach cwymp hi ar ei ben,
Dilyn ergyd a wnaeth ergyd
 Nes gwneyd torf yn foddlon d'od,
At yr Iesu mewn cadwynau,
 Fyth i ddilyn ôl ei dro'd.

Gwerin fawr o blant pleserau
 Y pryd hwnw gafodd ffàs,
Ag na â tra fyddo anadl
 O'u hysbrydoedd ddim i maes;
'Roedd ei eiriau dwys sylweddol
 Heb eu meddwl 'mlaenllaw 'r un,
Yn gymhwysedig gan yr Ysbryd
 I gyflyrau bob rhyw ddyn.

Gwell na hwyl serchiadau natur,
 Arg'oeddiadau o ddyfnach rhyw,
Saethau 'n glynu ac yn gwneuthur
 Calon galed, ddrwg, yn friw;
Ac yn dodi 'r ddeddf i rwymo
 A rhei'ny mewn cadwynau tyn,
Ag y darfu i efengyl bywyd,
 Roi iddynt ryddid wedi hyn."

Yn y flwyddyn 1739, y cyfarfyddodd Harris â Whitefield gyntaf; ac yn Caerdydd y cafodd y glewion hyn yr hyfrydwch o gyfarfod â'u gilydd am y waith gyntaf, pan yr oedd Harris wedi teithio trwy rai o siroedd y Deheudir, ar ei ffordd adref o'i daith yn y Gogledd. Mae llythyr o eiddo Whitefield ar gael, ag sydd yn rhoi hanes yr amgylchiad hwn, ac y mae mor ddyddorol nas gallwn ei attal oddiwrth ein darllenydd.

"*Caerdydd, Mawrth* 7-8, 1739.

"Wedi i mi ddyfod o S——, siriolwyd fi yn fawr trwy gyfarfod â'm hanwyl frawd Howel Harris; yr hwn, er nas adnabyddwn o ran ei berson, eto oeddwn yn ei garu yn ymysgaroedd Iesu Grist, a thros yr hwn y cawsai fy enaid ei dynu allan mewn gweddi lawer gwaith. Canwyll yn llosgi ac yn goleuo a fu efe yn y parthau hyn—gwrthglawdd yn erbyn annuwioldeb a llygredigaeth yr oes, a phleidiwr diorphwys o efengyl Iesu Grist. Y mae Duw wedi tueddu ei feddwl er's tair neu bedair blynedd i fyned oddiamgylch i wneuthur daioni. Y mae yn awr dros 25 mlwydd oed. Bu ddwywaith yn ceisio urddau esgobol, yn gymaint a'i fod yn mhob modd yn gymhwys; ond cafodd ei wrthod, dan yr esgus anwireddus ei fod o dan oed, er ei fod y pryd hyny yn ddwy ar hugain a hanner. Cynnygiodd ei hun drachefn tua mis yn ol, ond dodwyd ef heibio yr ail waith. Er hyn, yr oedd, ac y mae, yn benderfynol i fyned ymlaen â'i waith, ac y mae wedi dangos zel ymroddgar a diflin yn ngwasanaeth ei Feistr.

Dros dair blynedd (fel y dywedodd efe wrthyf â'i enau ei hun), y mae wedi bod yn pregethu ddwywaith yn mron bob dydd, am dair neu bedair awr ynghyd. Y mae wedi ymweled â saith o siroedd, gan ei wneuthur yn orchwyl arbenig i fyned i ŵylmabsantau, a throi dynion oddiwrth y fath bethau gweigion. Mae tafarnwyr, ffidleriaid, a thelynwyr lawer (yn debyg i Demetrius gynt), yn crochlefain yn uchel yn ei erbyn, am yspeilio eu crefft hwy. Pregethir llawer yn ei erbyn, a bygythir ef â chosb, ac anfonir hedd-geidwaid *(constables)* i'w ddal;

ond y mae wedi ei fendithio gan Dduw â gwroldeb anwrthwynebol. Mae yn derbyn ar y pryd oddiuchod, a pharha i fyned ymlaen yn gorchfygu ac i orchfygu. Y mae o'r ysbryd mwyaf hael, yn caru pawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist; ac am hyny, cyfenwir ef gan bobl ragfarnllyd yn *Ddissenter*. Dirmygir ef gan bawb sydd yn caru meluschwant yn fwy na charu Duw; ond y mae Duw wedi bendithio ei lafur yn fawr. Mae llawer yn ei alw yn dad ysbrydol iddynt, ac yn barod (yr wyf yn credu) i ddodi eu heinioes i lawr trosto. Llefara yn gyffredin allan ar y maes, neu oddiar ryw fur, neu fwrdd, neu rywbeth arall, ac ar brydiau eraill mewn tŷ. Y mae wedi sefydlu yn agos i ddeg ar hugain o *societies* yn Neheudir Cymru, ac y mae y maes hwn yn ymhelaethu beunydd! Y mae yn llawn o ffydd, ac o'r Ysbryd Glân.

Pan y gwelais ef gyntaf, ymglymodd fy nghalon âg ef. Yr oedd arnaf eisieu derbyn rywfaint o'i dân ef, ac â'm holl galon y rhoddais iddo ddeheulaw cymdeithas. Wedi i mi ei gyfarch, a rhoddi cynghor gwresog i'r bobl, y rhai a'm dilynasant hyd fy llety, ni a dreuliasom y gweddill o'r prydnawn mewn cyfrinach felus â'n gilydd, trwy adrodd y naill i'r llall am yr hyn a wnaethai yr Arglwydd i'n heneidiau. Cynhesai fy nghalon fwy na mwy. Bendigedig a fyddo Duw! y mae ysbryd rhagorol yn ymddangos yn gweithio yn Nghymru, ac yr wyf yn credu y bydd ffrwythau gweledig, cyn bo hir, i'w canfod oddiwrtho. Ar ol llawer o ymddyddan cysurus ac annogaethol, ni a osodasom ein gliniau i lawr mewn gweddi, a rhoddodd Duw i ni eangiad calon yn y gorchwyl hyny. Wedi hyny, ni a gymerasom ychydig swper, ac wedi canu hymn, aethom i'r gwely, gan foliannu a bendithio Duw am ein dwyn ni wyneb yn wyneb. Nid oes ammheuaeth genyf, nad oedd Satan yn eiddigeddu wrth ein hapusrwydd; ond yr wyf yn gobeithio, trwy nerth Duw, y gwnawn ni i'w deyrnas ef siglo. Mae Duw yn caru gwneyd pethau mawrion trwy offerynau gwael, fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o ddynion."

Mae y llythyr uchod yn rhoddi i ni ddarlun go gywir o Howel Harris a Whitefield hefyd. Dau o'r un ysbryd tanbaid, zêl tros Dduw, ac ymroddiad penderfynol a hollol at achos y Gwaredwr, ac eneidiau dynion, oedd y darluniwr a'r gwrthddrych a ddarluniai. Ymadawodd Whitefield y dydd canlynol, ar ol pregethu yn Nghaerdydd, i fyned i Bristo; ac y mae yn debyg i Harris fyned gydag ef, ac oddiyno i'r brifddinas.

Yn fuan wedi hyn, cafodd Harris gyfleusdra i wrandaw ar Wesley, yn Bristo; a'r canlyniad a fu, iddynt ddyfod yn gyfeillion calon, ac yn gydlafurwyr ymdrechgar. Rhoddodd Harris wahoddiad i Wesley i ymweled â'r Dywysogaeth, yr hyn a wnaeth fwy nag unwaith. Pan yn Llundain, yn y flwyddyn 1740, cyfarfyddodd â Charles Wesley; ac wele ei dystiolaeth ef am Harris, wedi ei dynu o'i ddyddlyfr, dyddiedig Mai 8fed, 1740.

"Fe adroddodd ei brofiad o flaen y gymdeithas. O! y fath fflam a ennynwyd! Nid oes neb yn llefaru yn fy nghlyw i fel y llefara y dyn hwn. Y fath dadmaeth a anfonodd Duw atom! Y mae yn wir wedi ei ddysgu gan y Bugail da i ddwyn yr ŵyn yn ei fynwes. Y fath gariad! Y fath awdurdod! Y fath symledd! Yr oedd yn anwrthwynebol."

Gallem liosogi y tystiolaethau hyn; ond gwelir eisoes o ba fath ysbryd, doniau, a chymhwysderau oedd yr offeryn hwnw a ddefnyddiodd Duw i ddeffroi Cymru o'i chysgadrwydd, a'i galw oddiwrth ei hofergoelion a'i hanfoesoldeb i wasanaethu y Duw byw.—Mae holl hanesiaeth eglwysig yn dangos, pan fo gan y Creawdwr ryw waith penodol i'w wneuthur, ei fod yn codi offerynau cymhwys at y gwaith hwnw, ac mai gwaith priodol i'r amser yw y gorchwyl y mae yn roddi yn llaw ei weision yn mhob oes. Yr oedd eisieu gwroldeb a llymder Ioan Fedyddiwr, i fod yn rhagredegwr

y Messia ar derfyn y ddwy oruchwyliaeth. Yr oedd raid cael dysgeidiaeth, ymroddiad, dewrder, a medrusrwydd Paul, i fod yn apostol y cenedloedd. Ni wnai neb arall mo'r tro, ond gŵr o'r ysbryd diofn hwnw, fel Luther, a ddywedai, "Mi a äf i *Worms*, pe byddai yno gynnifer o ddiafliaid yn cydfwriadu i'm herbyn, ag sydd o briddlechau ar benau y tai," i gychwyn y Diwygiad Protestanaidd. Ac yr oedd eisieu gŵr o'r un eondra, glewder, ymroddiad, a zêl, i wynebu ar lygredigaethau oesol Cymru, a dal yn wrol yn ngwyneb erlidigaethau a gwrthwynebiadau cynddeiriog cenedl galed ac annuw, wrth ddynoethi eu pechod a'u gwarth,—y fath un oedd Howel Harris. Yr oedd ef i raddau helaeth yn rhydd oddiwrth ofn dyn, a dangosai y gwroldeb mwyaf mewn cyfyngderau a pheryglon, digon i lethu dynion cyffredin. Dodwn yma i lawr, ddau neu dri anghreifftiau o hyn,—"Yn Casnewydd," meddai, "rhuthrodd y werindorf arnom gyda'r digllonedd a'r ffyrnigrwydd eithaf. Rhwygasant lawes fy nghôb (*coat*) ymaith yn gwbl, aethant â'm mhenguwch (*periwig*) ymaith, ac yr oeddwn yn y gwlaw. O! mor felus oedd sefyll yn bennoeth o dan ddirmyg Crist! Wedi cael dystawrwydd, mi a barheais i lefaru—ond yn fuan, wele hwy yn crochlefain drachefn; a thra yr oedd rhai yn fy lluchio âg afalau a baw, yr oedd eraill yn taflu ceryg. Cefais un ergyd ar fy nhalcen, yr hyn a barodd iddo chwyddo, ynghyd â'r gwaed i lifo. Mynai llawer o'm cyfeillion i mi roddi i fyny yn y cythrwfl, ond nid oeddwn foddlawn i wneyd hyny, nes y gostegai yr ystorm, ac y gogoneddid Duw yn nadymchweliad Satan."

Eto,—

"Cyrhaeddasom dref Mynwy, a chawsom fod y *races* yno, a gwreng a boneddig ynghyd yn ein herbyn. Fel y dechreuais bregethu ar ben bwrdd, gyferbyn â Neuadd y dref, lle yr oedd y Duc B——, ac Arglwydd A——, ynghyd â nifer mawr o foneddigion a boneddigesau ar giniaw, rhoisant orchymyn i guro y *drum* wrth ein hymyl. Er hyny, nerthwyd fi i barhau i bregethu yn erbyn rhedegfeydd a'r *balls*, a'r cyfarfodydd llawen, a'r godineb, a'r maswedd, a'r meddwdod. Parhaodd y *drum* i guro, a'r dorf i'm lluchio âg afalau, ac eirin, a cheryg, ac â chi marw."

Yr oedd y brawd Seward (cyfaill Harris) yn ofni cael niwed; ond dyoddefodd yr ystorm yn dawel, gan ddywedyd, "Gwell yw dyoddef hyn nag uffern."

Tua'r flwyddyn 1741, cynnaliwyd un o'r sassiwnau cyntaf yn nhref Llanymddyfri. Yr oedd Rowlands, a Williams, a Howel Davies, wedi myned yno i ddechreu y cyfarfod,—ond cododd tymhestl o erlidigaeth yn y fan, ac mor ddychrynllyd ydoedd, fel y cododd Williams, ac y dywedodd—"Frodyr, y mae yn anmhosibl i ni fyned ymlaen yma yn nghanol y fath swn a dwndwr; gadewch i ni fyned tua Phant-y-celyn, a chadw y sassiwn yno;" ac felly, yno yr aethant. Ond ar y ffordd, pwy a'u cyfarfu ond Harris, yr hwn a ofynodd iddynt yn syn, "Gyfeillion, i ba le yr y'ch chwi yn myned?" "I Bant-y-celyn," meddai Williams, "canys nid allwn ni ddim myned i Lanymddyfri; yr ydym mewn perygl o golli ein bywydau yno!" "Bywyd, bywyd," meddai yntau, "dyna i chwi fywyd er mwyn Crist; awn i gyd yn ol, hwy a gânt y corff gwael yma o'm heiddo i." Felly hwy a ddychwelasant i Lanymddyfri, a Harris yn flaenor arnynt. Efe a esgynodd yn uniongyrchol i'r esgynlawr, a dywedodd gyda'r fath rym a difrifwch, "Gweddïwn!" fel y bu pawb yn ddystaw yn y fan. Yna,

gweddïodd gyda'r fath awdurdod, gwresogrwydd, a thaerineb, fel y gorchfygwyd y bobl; a chymerodd cyfnewidiad mawr le ar eu hagwedd hwy oll. Cafodd y pregethwyr bob hamdden i draethu eu cenadwri, a dangoswyd sobrwydd a dyfalwch mawr trwy y cyfarfod, heb neb yn achosi blinder. Dro arall, pan oedd Harris yn pregethu, pwyntiodd dyn ei lawddryll ato, a thynodd yn y *trigger*, ond ni tharawodd y fflint dân. Gwnaeth hyn ddwywaith neu dair, tra yr oedd Harris yn edrych arno. Yna dywedodd wrth y dyn, yn ei ddull diofal ei hun, "Trowch y dryll ffordd arall, ac fe allai yr ä yr ergyd allan." Fe wnaeth y dyn hyny, a'r ergyd a aeth allan yn y fan.

Wele eto ddarn o lythyr o eiddo Harris, ag sydd yn ddarlun bywiog o'r ysbryd aiddgar a dewr, â pha un y meddiennid ef,—

"Fy anwyl Gydfilwr,—

Derbyniais lythyr yr wythnos ddiweddaf oddiwrthych, ac yr wyf yn cymeryd y cyfleusdra cyntaf i'w ateb. A allaf fi anghofio fy anwyl frawd, yr hwn, nid yn unig a aned o hâd breninol, ond sydd yn milwrio yn yr un rhyfel, ac wedi ei anfon ar yr un neges? Bydded i ddaear, uffern, pechod, a Satan, ymuno â'u gilydd; tydi ŵr Duw,—tydi, dywysog y Duw byw, estyn allan dy law, ac yn nerth y Goruchaf, ni a awn trwy y dyfroedd—ni a sathrwn ar ysgorpionau, ni a fuddygoliaethwn yn y fflamau—ni a orfoleddwn, ac a neidiwn tros bob mur,—ni a awn i mewn ac a feddiannwn gwlad dda yr addewid. Cerdd ymlaen, tydi, genad Arglwydd y lluoedd,—ymorchesta—yr Arglwydd, yr Arglwydd Hollalluog, yr Iesu gogoneddus sydd yn teyrnasu ar bob byd; y mae yn llywodraethu ac yn goruwch-lywodraethu bob peth, ïe, hyd yn nod pethau niweidiol, a dichellion diafol. . . . . I'r frwydr—i'r frwydr, fy mrawd,—bloeddia, nac arbed,—sathra y gelyn dan wadn dy droed, fel gorchfygwr galluog; gâd iddo wybod fod dy weinidogaeth yn dwyn argraff fawr y nefoedd arni—mai nid arfau cnawdol yw dy arfau, ond nerthol trwy Dduw—gorfoledda a chana yn nghanol y cwbl, canys y mae pob peth yn dda,—pob peth yn eiddoch chwi."

"Yn mhob màn 'r oedd son am dano,
Diafol ar ei ol yn rhuo,
Cân i'r meddwon ydoedd yma,
Saethent ato am y cynta';
Gwawd, celwyddau, erlid, senau,
Fwrient arno yn gawodau;
Ond llawenhau yntau wnai,
Pan teilwng cai ei gyfri',
Gyda'r holl dduwiolion gwmni,
Oddef g'wradwydd gyda 'r Iesu."

Gan fod dechreuad y cymdeithasfaoedd Cymreig yn dwyn cysylltiad âg enw Howel Harris, byddai yn anmhriodol i ni beidio a gwneuthur crybwylliad am hyn. Mae yr *Association* wedi cario mwy o ddylanwad ar ein gwlad nag a all un sefydliad arall hòni hawl iddo. Addefir hyn gan bawb; ac, fel y canlyniad, ceisir codi cyfarfodydd o'r cyffelyb ymhlith enwadau eraill, heblaw y corff y perthynent fel sefydliadau neillduol iddo; ac y mae hyd yn nod y Llanwyr mor ostyngedig a dilyn ol traed yr hen Fethodistiaid yn eu *clerical meetings*, er bod y fath gyfarfodydd mor belled ag yw y dwyrain oddiwrth y gorllewin oddiwrth "Ganonau" yr Eglwys, a'r "Llyfr Gweddi Gyffredin." Buom yn meddwl cyn hyn, y carem weled rhyw un yn cymeryd i fyny fel testun i ysgrifenu arno, "*Athroniaeth y Cymanfaoedd Cymreig.*" Mae pawb am *athroniaeth* y dyddiau hyn, ac addefwn yn rhwydd nad ydym ninnau mor annibynol a meiddio bod yn

wahanol i'r cyffredin. Clywn am "Athroniaeth y meddwl," "Athroniaeth sefyllfa ddyfodol," "Athroniaeth hanesyddiaeth," a "Hanesiaeth Athroniaeth," "Athroniaeth crefydd," ac "Athroniaeth anghrefydd," a phaham na chaem ni "Athroniaeth Methodistiaeth," neu rywbeth o'r fath? Gobeithiwn y cymer rhyw un o ysgrifenwyr medrus y "Traethodydd" y pwnc mewn llaw. Gallai draethu ar achosion y gwahanol sefydliadau a threfniadau perthynol i'r "corff," elfenau hanfodol ei gyfansoddiad, &c. Ond ni cheisiwn ni ehedeg mor uchel yn bresennol; digon i ni wneyd crybwylliad neu ddau o hanes dechreuad ein cymanfaoedd.

Ymddengys mai yn Watford, swydd Forganwg, y cynnaliwyd yr *Association* gyntaf, ar y 5ed o Ionawr, 1742. Whitefield yn y gader; ac yn bresennol, Rowlands, Harris, Powell, Williams, Humphreys, Cennick. Cynnaliwyd un wedi hyny yn Llanddeusant, sir Gaerfyrddin; Chwefror 3ydd, 1742. Mae yn debyg, nad oedd y cyfarfodydd hyn yn cofleidio ond cylch bychan, gan y darllenwn am gymdeithasfa yn Nhrefecca, Chwefror 7, 1742; ac un arall yn y Dyffryn, swydd Drefaldwyn, Chwefror 17, 1742; ac eraill yn Llanwrtyd, a Glan-yr-afon-ddu, Mawrth 1af, 1742.

Yr *Association* gyffredinol gyntaf a gynnaliwyd yn Watford, Ebrill 6ed, 1743, pryd y llywyddwyd y cyfarfod gan Whitefield; ac yr oedd yn bresennol, Williams, Pant-y-celyn, Harris, Jenkins, James, Beaumont, Hughes, T. ac I. Lewis, T. Williams, Adams, a Davies, gweinidog Annibynol:—Penderfynwyd yn hon, ar fod i Harris fod yn arolygwr tros Gymru, a myned i Loegr, pan y byddai galwad; penderfynwyd hefyd ar fod Cyfarfodydd Misol yn cael eu cynnal yn mhob sir, yn gynnwysedig o un gweinidog ordeiniedig, fel cymedrolwr, ynghyd âg arolygwr y dosbarth a'i gynnorthwywyr; a bod yr *Association* chwarterol nesaf i fod yn Nhrefecca, ar y Mercher cyntaf ar ol dydd canol haf. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi a phregeth gan Whitefield, yr hwn a lefarodd â nerth mawr ar y geiriau hyny, "Ac Enoch a rodiodd gyda Duw." Rhoddai y cynghorwyr hanes rheolaidd o'u llafur, ac o'r *societies* ag oedd o dan eu gofal. Mae rhai o'r hanesion hyn yn dra dyddorol, fel y gellir gweled yn y rhai a ddyfynwyd gan awdwr "Methodistiaeth Cymru." Tra y cyfeiriwn ein darllenydd at y gwaith rhagorol hwnw, ar yr un pryd, temtir ni i osod ychydig o esiamplau o'u blaen, er dangos pa fath Gristionogion oedd crefyddwyr yr oes hono.

"Yn Llanon, &c., y mae amryw o eneidiau anwyl yn llawn o zêl a chariad, ac yn cynnyddu fwyfwy. Mae yno dywalltiad anghyffredinol o'r Ysbryd ar rai o honynt. Gorfodir hwy yn fynych i waeddi allan o dan deimlad o ddaioni yr Arglwydd—'Bendigedig a fyddo Duw a'r Iesu.'"

"Yn Nghasteddnedd y maent yn fwy na choncwerwyr trwy yr Hwn a'u carodd."

"Yn Creunant, Palleg, a'r Gnap, y maent yn lled sych, oddieithr rhai."

"Yn Llansamlet, y maent dan deimlad o'u llygredigaethau. Nid oes ond dau sydd yn mwynhau rhyddid; hyderwyf, er hyny, fod yr Arglwydd yn gwneuthur pethau mawrion iddynt. Amen."

"Cyfarfyddais â'r praidd yn Prendergast ac Usmaston (swydd Benfro), tua 25 o nifer. Disgynodd cariad Duw arnom fel cawod, nes ein boddi mewn môr o lawenydd a chariad."

"Yn Nghastellnedd, nis gallant fwyta, nac yfed, na chysgu, gyda dim cysur, nes cael yr Hwn y mae eu henaid yn ei garu. Bod heb bresennoldeb Duw sydd yn wir drallodus iddynt."

"Yn Cwmdu (swydd Frycheiniog), mae ganddynt gymaint o bresennoldeb yr

Arglwydd, ar brydiau, fel nas gallant beidio a gwaeddi allan, 'Arglwydd, digon yw.' Teimlant gymaint mewn gweddi ddirgel, fel y dymunant nad ymadawont, nes eu dattod a bod gyda Christ."

Gofidus genym orfod troi o honom oddiwrth y pethau dyddan hyn at amgylchiadau galarus yr "ymraniad rhwng Harris a Rowlands." Oddiwrth y cwbl a allem gasglu yn ysgrifeniadau Harris, mae yn rhaid i ni broffesu ein hargyhoeddiad llwyr ei fod ef yn eithaf cywir ei ddybenion, ac yn gweithredu oddiar gydwybod yn y tro chwerw hwn. Mae yn ddigon eglur iddo fyned i eithafion yn ei ymadroddion ar Berson Crist. Yr oedd "yn ŵr o dymher gwresog," fel ei desgrifir yn y "Drysorfa," "a pha beth bynag a gymerai le yn ei feddwl, yr oedd yn ei dderbyn ac yn ei ddilyn gyda bywiogrwydd poethlyd." Cafodd, neu tybiodd iddo gael, golygiadau newydd a gogoneddus ar fawredd a gogoniant person yr Iachawdwr. "Anghenrheidrwydd a osodwyd arnaf," meddai, "i bregethu y gwirionedd mawr hwnw a ddadguddiodd efe i'm henaid fy hun, sef rhyfeddol ymostyngiad Duw." Hyn a barodd i rai o'i frodyr ei wrthwynebu, gan farnu, wrth ei fod yn dyweyd fod "Duw wedi marw," fod ei athrawiaeth yn anysgrythyrol, ac yn tueddu at Sabeliaeth. "Fel yr oedd fy ysbryd yn cynnyddu fwyfwy," meddai Harris, "wrth weled gogoniant y Duw-ddyn hwn (yr hwn a welais erbyn hyn yn amlwg, yn ddychryn cythreuliaid, yn hyfrydwch angelion, ac yn wir ac unig obaith pechaduriaid truenus), yna dechreuais ganfod gwrthwynebiad mawr a chryf i'm gwaith yn pregethu ei Dduwdod a'i farwolaeth ef, &c., yn enwedig yn Nghymru."

Mae yn bur debyg, fel yr awgryma awdwr "Methodistiaeth Cymru," iddo ymosod ar ei frodyr "fe allai yn anfrawdol," o herwydd eu gwrthwynebiad iddo, o herwydd "yr hyn a farnai oedd wedi ei ddadguddio iddo:" eto tueddir ni i feddwl fod cryn dipyn o anfrawdgarwch wedi cael ei ddangos tuag at Harris o'r ochr arall; ac iddynt, yn lle ceisio ei arwain yn dyner, neu gydoddef âg ef ychydig, chwerwi yn eu hysbryd hwythau, ac ymosod arno yn ffyrnig, nes o'r diwedd iddynt ddwyn yr ymraniad i benderfyniad mewn cymanfa yn Llanidloes, yn y flwyddyn 1751. Gellir gweled ysbryd Harris yn ystod yr ymrafael hwn yn y llythyr canlynol o'i eiddo at Rowlands:—

"*Llundain, Ionawr 4ydd*, 1747.

FY ANWYL, ANWYL FRAWD,—

Hyderaf y caiff hwn chwi yn edrych ar y dirgelwch mawr, Duw wedi ei wneyd yn ddyn. At hyn mae yn rhaid i ni ddyfod. Dyma ddiwedd pob gwybodaeth, a gwreiddyn pob hapusrwydd. O fy mrawd! bydded i ni fod am byth wedi ein boddi mewn syndod a rhyfeddod. Yn awr, yn y weithred o ysgrifenu, fy enaid a dawdd o'm mewn, a theimlwyf fy mod yn hiraethu cael ymadael â'r corff hwn o bechod, i gael golwg ar y weledigaeth weddnewidiol hon. A elwch chwi fi M——— neu A———? Na ato Duw; bywyd fy enaid ydyw, ac nid pluen benthyg; nid dychymyg penboeth, ond fy nedwyddwch sylweddol. O! yr Iawn mawr! pa bryd y boddir ni yn ei ddyfnderoedd diwaelod, &c., &c.

Ydwyf, fy anwylaf frawd a'm cydlafurwr, gyda'm parch mwyaf calonog i'r brawd Williams, ynghyd â'r holl frodyr a'r *societies*, gan hiraethu eich gweled oll,

Yr eiddoch, yn y rhwymau goreu tros byth,

HOWEL HARRIS."

Mor felus yw y dyfynion canlynol yn nghanol y chwerwder bustlaidd:—

"*Gorphenaf 2il*, 1748.

FY ANWYLAF FRAWD ROWLANDS,—

Yr ydym oll wedi tristâu yr Ysbryd Glân, a'n ffafriodd ni gymaint; ac yr ydym wedi annog yn fawr i Sanct yr Israel ddadguddio ein noethder. O fy mrawd! mae yn ddâ i ni ei fod yn Dduw uwchlaw pawb, wedi ymwisgo â'n cnawd ni. I'r llwch bydded i ni fyned, a suddo i lawr, ie, i ddyddymdra. Bydded i ni ymafael yn ein cariad cyntaf, a myned allan yn unol mewn calon, geiriau, a gweithredoedd."

Effeithiodd yr ymraniad yn niweidiol; yr oedd gan Harris a Rowlands eu "pobl;" aeth y ddwyblaid i ymryson â'u gilydd, hyd nes y "drylliwyd y cymdeithasau bychain ar hyd y wlad, ac yr aeth crefydd yn gwbl i'r dim mewn llawer o ardaloedd lle yr oedd ymddangosiad golygus wedi bod unwaith." Ciliodd Harris i'w dŷ ei hun, ar ol dwy flynedd ar bymtheg o lafur diflin trwy Gymru, a llawer o Loegr; ac felly cyfyngwyd ei ddefnyddioldeb; ond yr oedd ei ysbryd yn parhau yr un mor wresog yn y gwaith, a phregethai yn gyffredin ddwywaith neu dair yn y dydd yn Nhrefecca i'r sawl a ddeuent i wrandaw arno. At hyny cyfeiria Williams pan y cana,—

"Y mae gweddi cyn y wawrddydd
Yn Nhrefecca ganddo fe,
'R amser bo trwm-gwsg freuddwydlwyd
Yn teyrnasu 'n llawer lle;
A chyn llanw 'r bol o fwydydd
Fe geir yno gynghor prudd,
A chyn swper, gweddi a darllen,
Tri addoliad yn y dydd.

Cym'rwch 'siampl pen-teuluoedd
Gadw pen addoliad llawn,
Gweddi ac addysg yn y boreu,
Gweddi ac addysg y prydnawn;
Boed eich eglwys yn y gegin,
Neu y parlawr, fel bo lle;
Ac nes gwneuthur fel gwnaeth yntau,
Peidiwch a'i gondemnio fe."

Yn Ebrill, 1752, gosododd sylfaen yr adeilad presennol yn Nhrefecca, yr hon, wedi ateb y dyben o fod yn gartrefle cysurus i lawer o bererinion Sïon, sydd yn awr yn cynnwys yr athrofa; ac mor gymhwys ydyw i hyny a phe bai wedi ei hadeiladu ar y cyntaf i'r perwyl hyn yn unig; ac y mae fel hyn yn ddarparle i bregethwyr ieuainc, tuag at iddynt fyned allan a chyhoeddi yr efengyl hòno ag oedd mor agos at galon Harris ei hun. Y mae hyn fel y dylai fod; a hyderwn y caiff Trefecca fod eto yn ffynnonell o ba un y llifa allan ddyfroedd y bywyd i filoedd ar ddarfod am danynt.

Tybiai Harris ei fod yn ymosod ar orchwyl, yn nghodiad yr adeilad yn Nhrefecca, ag oedd yn unol âg ewyllys Duw, yn gymaint ag y byddai, yn y tymmor erlidigaethus hyny, yn fanteisiol i gasglu y saint gwasgaredig i'r un man, lle y caent foddion gras cyson, a diogelwch rhag eu gelynion. "Fe'm cymhellwyd i adeiladu," meddai, "gan yr un ysbryd ag a'm danfonodd o amgylch i bregethu" Fe allai fod esiampl Frank yn Germany, yr hwn hefyd oedd cynllun Whitfield yn codi ei *orphan house* yn Georgia, yn dylanwadu arno, ac yn tueddu ei feddwl i wneuthur yn gyffelyb. Beth bynag, yr oedd ei hyder yn gryf yn ei Arglwydd, a chredai ei fod yn rhoi arwyddion o'i foddlonrwydd iddo: "ni ddefnyddiais foddion yn y byd i gael cymaint a swllt, ond ymbil yn ostyngedig ar Dduw, a hyderu yn yr

addewid, yr hon yr ymddiriedwn arni am pob peth amserol ac ysbrydol. Yn fynych mewn caledi ynghylch pethau amserol, ac eisieu ugain punt neu hanner cant, neu gant, ac heb un lle genyf i droi ato am gymhorth, ond at yr addewid—yr Arglwydd, heb fy llaw i, hyd y cyfyngdra eithaf, ïe, y pryd hyny hefyd, a ymddangosai o gŵr na allasai neb ddysgwyl; rhai yn rhoddi, a rhai yn anfon i mi ddeg neu ugain, neu gant o bunnau, er y byddent yn byw 70 neu 80 milltir oddiwrthyf."

Gorphenwyd yr adeilad yn 1753, ac ymgasglodd yno rifedi mawr o bob parth o Gymru, arosodd llawer dros ystod eu bywyd; ac eraill a ddychwelasant adref at eu teuluoedd. Yr oedd cynnifer a chant yn sefydlog yno yn 1754, heblaw llawer a ddeuent yn achlysurol. Daeth amryw o deuluoedd yno, gan mwyaf o'r Gogledd, yn y flwyddyn 1755, a chymerasant ffermydd yn y gymydogaeth, er mwyn cael cyfle i wrandaw Harris; deuai rhai â meddiannau ganddynt, ac ereill yn dlodion, a derbyniai y cwbl i mewn. Fe ddywedir fod y teulu ar un pryd yn naw ugain o rifedi, cyfarfyddai â hwy dair gwaith bob dydd, fel y gwelsom, i'w cynghori a gweddïo gyda hwynt,—a thystir am danynt, mai rhai hynod mewn duwioldeb oeddynt, a bod Trefecca yn fath o baradwys ysbrydol.

Tua'r flwyddyn 1759, cynnygiwyd iddo, gan rai o foneddigion swydd Frycheiniog, swydd neu gommisiwn yn *militia* y sir hono, yn gymaint a bod y deyrnas hon mewn rhyfel â'r Ffrancod y pryd hyny, a chryn fraw wedi goresgyn y wlad. Felly, cymerodd arno swydd milwr, ac a ymunodd â'r *militia* yn y flwyddyn 1760, gan ddwyn pedwar ar hugain o'r teulu gydag ef, gyda'r bwriad i wasanaethu yr Arglwydd yn hyn fel ag yn mhob peth arall. Yr oedd deuddeg o'r gwŷr hyn ar ei draul ef ei hun. Wedi cael swydd banerwr (*ensign*) yn gyntaf, gwnaed ef wedi hyny yn gadben. Bu dair blynedd yn y *militia*, yn symudol mewn gwahanol fanau yn Lloegr, a chafodd gyfleusderau i bregethu lle bynag yr aent. Buont yn aros yn Yarmouth, Bideford, Torrington, Barnstaple, a Plymouth, dros dymmor. Wedi hyn dychwelasant i Drefecca, ac yno y treuliodd Harris weddill ei fywyd gyda'i deulu. Yn y tymmor hwn, cymerodd amgylchiad arall le, ag sydd wedi hynodi Trefecca, heblaw ei fod yn breswylfod Howel Harris. Yr oedd yr Iarlles Huntingdon yn dra chydnabyddus â Harris; a buasai ar ei meddwl hi er ys rhai blyneddau sefydlu Coleg i ddysgu gwŷr ieuainc, gyda golwg ar eu cymhwyso i'r weinidogaeth. Mae amryw o lythyrau yr iarlles at Harris yn awr ar gael, ac yn arddangos pa mor uchel y safai Harris yn ei golwg. "Miloedd ar filoedd o ddiolchiadau calon am y gweddïau yn Nhrefecca," meddai yn un o honynt. Terfyna un arall fel y canlyn, "Ydwyf, yn y modd mwyaf cywir a serchog, yn mhob cariad a diolchgarwch Cristionogol,—yr eiddoch, S. Huntingdon."

Penododd yr iarlles ar Drefecca, fel mangre y coleg; a chymerodd le, a elwir Trefecca Isaf, o fewn lled dau gae i gartrefle Harris, dan ardreth ganddo i'r dyben. Adgyweiriodd yntau yr hen adeilad yn y flwyddyn 1767—8, ac agorwyd y coleg ar y 24ain o Awst, 1768, dydd genedigaeth yr iarlles, pryd y pregethodd Whitefield ar *Ecsod.* xx. 24.

Y mae hanes cyfarfodydd cylchwyl gyntaf y coleg, yn hynod o ddifyrus, ond yn rhy faith i ni ei ddodi i lawr yma; digon yw cyfeirio ein darllenydd at "Methodistiaeth Cymru;" *tudal.* 396—7, o'r gyfrol gyntaf.

Yr oedd Daniel Rowlands yn y gylchwyl hon; yr hyn sydd brawf fod yr hen deimladau anghysurus wedi diffoddi erbyn hyn, a bod gwir barch

yn aros yn meddyliau ei frodyr at Harris, fel dyn duwiol a defnyddiol; ac y mae yn hyfryd clywed Harris yn dyweyd, pan y clywodd fod Rowlands ar fin marw, "Teimlais y fath gariad ato, nas gellid ei ddesgrifio mewn geiriau. Yn wir, teimlais gymaint, fel y gallwn roddi fy einioes i lawr ddeng mil o weithiau trosto, pe bai yn bosibl ei adferu."

Arferai Harris i fyned i'r coleg bob dydd, dros hir amser, i gynghori ac ymddyddan â'r gwŷr ieuainc; a threuliai yr iarlles lawer o'i hamser gyda Harris bob blwyddyn i edrych ar ol y sefydliad.

Ond yr oedd terfyn einioes y gŵr hynod hwn yn nesâu. Bu farw ei wraig yn y flwyddyn 1770, ac yntau a anmharodd yn raddol yn ei gorff; cafodd wasgfeuon dirfawr yn yr wythnosau diweddaf o'i fywyd, ond er hyny ymdrechai i bregethu a chynghori y teulu. Mae cenadwri a thystiolaeth ddiweddaf Howel Harris, ynghyd â'i eiriau diweddaf, yn hynod a chyffrous tros ben, ac yn dra theilwng o'u cofnodi; ond teimlwn fod ein hysgrif wedi myned yn rhy faith eisoes, a bod yn bryd i ni dynu tua'r dyben. Dodwn yma rai o'i ymadroddion olaf, fel esiampl o'r ysbryd a'i meddiannai:—"Yr wyf heddyw mewn poen dirfawr, ac yn wan iawn, a phob peth sydd o'm hamgylch yn bethau diflas genyf; er hyny, y mae fy ysbryd yn llefain, O! fy anwyl Dad, a ydwyt ti yn dyfod i daro yr ergyd ddiweddaf? yr wyf yn teimlo angeu yn dyfod yn nes nes. O! tyred, tyred, tyred, na âd i mi fod yn glaf o hiraeth:—os ydyw fy ngwaith wedi darfod, cymer fi adref; O! prysura dy ddyfodiad! a gâf fi ddyfod i'r *lle* yr wyt yn dadguddio dy ogoniant, dy gariad, a'th ddyoddefiadau! O! cymer fi adref, adref, canys dyeithr ydwyf yma, ac wedi fy nyddyfnu oddi wrth bob peth dan haul." Eto,—"Yr ydwyf yn cael rhyddid neillduol i lefain am fyned oddiyma i'r gogoniant; ac yr ydwyf hefyd yn pwyso arno mewn modd nas gwnaethum erioed o'r blaen, ac megys â'm gafael am wddf fy Nuw a'm Tad, yn gystal a chusanu ei draed, gan lefain, 'Yr ydwyf yn awr *ynot* ti, ymhlith yr ysbrydoedd gogoneddus—Tydi yw fy nefoedd yn oes oesoedd.'" "O! mor hawddgar yw genyf yr arwydd lleiaf o fod angeu yn agosâu; y mae pob argoel o ddynesiad angeu yn llawenydd ac yn fywyd i mi yn wir. O! y fath etifeddiaeth yr wyf mewn gobaith o gael ei meddiannu yn mhen tipyn bach; yr wyf yn fy rhoddi fy hun i fyny i ewyllys fy anwyl Arglwydd, i wneuthur fel y myno â mi; ond yn gymaint ag iddo fy ngharu â chariad neillduol, nis gâd efe fi yn hir." "Yr wyf yn meddwl im' gael sicrwydd y caf fyned adref yn fuan, trwy ei fod wedi dangos i mi ei ogoniant, hyny yw, ei ogoniant iddo fy ngharu bechadur tlawd yn wir; fy nghyfiawnhau, a'm hachub, a'm golchi yn ei waed, ac hefyd ddyrchafu ac anrhydeddu y fath un tlawd, truenus ag wyf fi." Drachefn,—"Yr wyf yn teimlo fod fy ysbryd yn ymbil o flaen dy orseddfainc, ac yn cael rhyddid i ddywedyd fod fy ngwaith wedi darfod; myfi a redais fy ngyrfa, ac a orphenais fy nhystiolaeth; pa beth yn ychwaneg sydd yn aros i mi i'w wneuthur, ond dyfod adref at fy Nuw, fy Nuw, fy Nuw, fy anwyl Dduw a'm Tad, a'm cyfaill yn wir!"

Pan y cafodd sicrwydd gyntaf fod ei ymadawiad yn agos, efe a ddywedodd "Bendigedig a fyddo Duw, y mae fy ngwaith wedi darfod, ac yr wyf yn gwybod fy mod yn myned at fy anwyl Dduw a'm Tad; canys efe a gafodd fy nghalon, ïe, fy holl galon." Drachefn a thrachefn y traethai, "Dyma ganlyn yr Iesu; yr ydym ni wedi dyfod i fynydd Sïon, yr wyf fi ar fynydd Sïon yn wir; myfi a welais ogoniant mawr yn y dyn Iesu o'r

blaen, ond nid oedd ond fel dim at y peth a welaf yn awr! Dyma wir ganlyn Iesu." A llawer o ymadroddion cyffelyb, efe a hunodd, ac a orphwysodd oddiwrth ei lafur, Gorphenaf 21ain, 1773, yn 60ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn agos i fwrdd yr allor, yn Eglwys Talgarth, yn y fàn lle yr argyhoeddwyd ef o bechod. Mae traddodiad yn nghymydogaeth Talgarth hyd heddyw, ag sydd yn cadarnhau yr hyn a ddywedwyd gan yr hybarch Jay, yn ei bregeth yn Nghapel Surrey, Llundain; sef, darfod rhoddi ei weddillion yn y bedd heb y gwasanaeth arferol—nad allai yr offeiriad ddarllen y gwasanaeth, o herwydd ei deimladau—iddo estyn y llyfr i arall, ac iddo yntau fethu a myned ymlaen—ei estyn i'r trydydd, ond nad allai hwn ychwaith ei ddarllen; ac felly, ei ddodi yn y ddaear heb y ffurf arferol: ond, fel y dywed Mr. Jay, "gyda dagrau ac ocheneidiau tyrfa fawr, yr hyn oedd yn llawer gwell."

Mae ein calon yn llawn, a charem ei harllwys, ond rhaid ymattal. Uwch ben coffadwriaeth dechreuydd hynod Methodistiaeth Cymru ni a ddywedwn, beth bynag, yn iaith y Parch. Thomas Charles, awdwr y bywgraffiad yn yr hen "Drysorfa," "Llanwed Duw y byd â'r cyfryw genadon yn fuan, ac arloesed yr eglwys o ddynion hunanol, cysglyd, marwaidd, sydd, dan enw cenadon Crist, yn ei diffrwytho, ac yn ei gofidio! Llwynogod cyfrwys ydynt, sydd yn difwyno y gwinllanoedd. Y maent yn gofalu mwy am eu helw, eu parch, a'u hesmwythder eu hunain, nag am achub eneidiau anfarwol, sydd ar fin colledigaeth dragywyddol. Nid felly Mr. Harris: bedydd tanllyd o'r nefoedd a ennynodd fflam angerddol yn ei enaid, ag oedd yn gorchfygu pob rhwystr o'i flaen. Llanwed Duw y byd â'i fath!"

"Mil o bethau gafwyd ynddo
  Ragor na geir yn y rhai
Sydd yn ysgwyd pen a gwawdio,
  Ac yn dwbl gofio ei fai:
Yn lle ysgafnder, coeg-ddigrifwch,
  Cleber wag, gynnefin iawn,
Am waith Iesu byddai Harris
  Yn ymddyddan foreu a nawn.

Cwsg i lawr yn Eglwys Talgarth,
  Lle nad oes na phoen na gwae;
Ti gei godi i'r lan i fywyd
  Sy'n dragywyddol yn parhau;
Gwell i ti gael gorphwys yna
  Blith dra phlith â'r pryfed mân,
Na chael mil o demtiasynau
  At y deng mil ge'st o'r blaen."

DYFODIAD YR EFENGYL I YNYS PRYDAIN.

CREDWN nad oes un wlad odditan y nef dan gryfach rhwymedigaethau i grefydd Mab Duw na'r wlad i'r hon yr ydym ni yn perthyn. Pan y gwawriodd Cristionogaeth gyntaf ar ororau ein hynys orenwog, ymdroai ei phreswylwyr anwar mewn cyflwr o farbareidd-dra erchyll; eisteddent "yn mro a chysgod angeu." Yr oedd eu ffydd yn gorphwys ar draddodiadau

oedranus, ynfyd, a niweidiol. Ymlynent wrth grefydd ag oedd yn eu rhwymo i ddilyn arferion a defodau creulawn dros ben. Yn ganlynol, yr oedd dyfodiad yr efengyl i'w plith, yn rhywbeth anwyl, fel toriad gwawr y boreu ar ol noswaith hirfaith a thywyll; ac yn fendigedig fel ymweliad y gwanwyn gyda 'i wyrddlesni a'i flodau, ar ol gauaf llwm a dryghinog. Dygwyddiad ydoedd i'w gofio hyd byth, gyda diolchgarwch diffuant i'r Duw Mawr, yr hwn sydd yn trefnu achosion, ac yn gwylio dros amgylchiadau gwledydd y ddaear.

Bellach, amcenir dodi ger bron y darllenydd, grynodeb o hanes y dygwyddiad pwysig dan sylw. Nid yw y gorchwyl yn un annifyr, er fod yn perthyn iddo anhawsderau o gryn bwys. Gŵyr y darllenydd ond odid, fod hanes cychwyniad Cristionogaeth yn Mrydain wedi bod yn fater o ymgecraeth a dadl am oesau lawer. Meddylia amryw o brif ddysgedigion yr oes bresennol, megys rhai o'u cynoeswyr, nad ellir haeru dim gyda sicrwydd mewn perthynas i'r pwnc, ymhellach na hyn, sef, ddarfod i Gristionogaeth gael ei dwyn drosodd i blith ein hynafiaid anwybodus yn foreu iawn, fe allai cyn, neu rywbryd yn fuan wedi, terfyniad yr oes apostolaidd. Yn ol barn y rhai hyn, ynfydrwydd perffaith ydyw i neb ymgeisio at fynu gwybod pwy oeddynt y cenadau cyntaf a fu yma yn llafurio yn achos yr efengyl, nac i ba wlad neu genedl y perthynent hwy. Tybient fod eu henwau, eu coffadwriaeth, a'u hanes, yn rhwym o orwedd dros byth yn guddiedig dan dywyllwch nad ellir ei chwalu. Ond yr ydym ni, fel eraill, yn dygwydd coleddu syniadau gwahanol ar y pwnc. Credwn nad ydyw hanes dygiad Cristionogaeth i'r ynys hon ddim yn beth anghyrhaeddadwy neu anmhosibl, wedi y cyfan a wnaethpwyd gan ysgrifenwyr ofergoelus y canoloesoedd tuag at ansefydlu a chamarwain meddyliau dynion yn ei gylch. Y mae yn eithaf sicr ddarfod i ryw bersonau neu gilydd flaenori yn y gwaith o sefydlu crefydd yr efengyl yn Mrydain; ac onid naturiol yw casglu y byddai i enwau y personau hyny barhau mewn bri ymhlith ein hynafiaid am oesau lawer? Onid rhesymol yw meddwl y gwneid ymdrech ganddynt i fytholi coffadwriaeth yr amgylchiadau cysylltiedig â dyfodiad Cristionogaeth i'w gwlad? Yr oedd gan y Cristionogion cyntefig yn Mrydain yn union yr un manteision i argraffu ffeithiau pwysig o'r fath ar feddyliau eu plant ac eraill, ag sy genym ninnau yn yr oes bresennol. Ac nis gallwn ammheu am foment na byddai iddynt wneuthur y defnydd goreu o'r cyfryw fanteision. Mor annhebyg ydyw, y gadawsent hwy i enwau y gwroniaid hyny, a feiddient ddyfod drosodd i'w plith ar y cyntaf i ddadblygu baner Calfaria ac i gyhoeddi gweinidogaeth y cymmod iddynt, i ymlithro i dir anghof yn fuan! Yr ydym yn coelio y byddai iddynt yn hytrach ewyllysio i'r son am eu llafur dreiglo ymlaen o oes i oes, ac y mynent hwy eneinio eu coffadwriaeth dros amser cenedlaeth a chenedlaeth. Trosglwyddid y traddodiad yn eu cylch o dad i fab, gyda gofal ac aiddgarwch neillduol. Naturiol yw meddwl hefyd y byddai i ddynion edrych ar y cyfryw draddodiad am oesoedd fel peth cysegredig iawn, a theilwng hefyd i fod ar gof a chadw "Tra môr, tra Brython." Ond, rywfodd neu gilydd, aeth y traddodiad dan sylw ar goll. Mewn adeg o ddirywiad crefyddol, ac yn nghanol cyffroadau yr oesoedd, gallasai ddygwydd felly yn hawdd. Erbyn hyn, ni hanfodai hanes cychwyniad Cristionogaeth yn Mrydain, ond yn unig mewn hen ysgrif-gofion, na feddyliai neb am edrych i mewn iddynt. Yn ganlynol, buwyd am dymmor heb un math o

hysbysrwydd cywir ynghylch y mater. Ni wyddid yn iawn o ba le, na thrwy ba foddion, y cyrhaeddasai yr efengyl drosodd yma. Yn y man, dechreuai dynion ymofidio o herwydd hanfodiad y fath ddiffyg. Ystyrid mai peth rhyfedd ac annedwydd oedd, fod yr amgylchiadau cysylltiedig â tharddiad yr eglwys yn Mrydain, yn gorwedd dan y fath blygion o dywyllwch. Yr oedd gwledydd eraill yn gallu ymffrostio iddynt hwy ar y cyntaf dderbyn eu ffydd mewn canlyniad i lafur rhyw un o'r apostolion, neu ryw rai o'u cydlafurwyr. Pa fodd y dygwyddasai mor dra gwahanol i hyn gyda golwg ar Ynys Prydain? Teimlid ei bod yn rhy anhawdd ymgynnal yn wyneb y fath anffawd tost. Rhaid oedd i'r bwlch a adawsid yn wag gan draddodiad, gael ei lenwi i fyny â dychymygion ofer. Os nad oedd hysbysrwydd teg i'w gael ynghylch enwau y cenadau a fu yma yn llafurio gyntaf, yr oedd yn rhaid *dyfeisio* pwy oeddynt. Bu ysgrifenyddion ofergoelus lawer yn traethu eu galluoedd dychymygol i'r graddau eithaf, mewn trefn i gyflawni y diffyg y cyfeiriwyd ato uchod; ychwanegid traddodiad at draddodiad ganddynt, a thaflent ffug-chwedlau gwirionllyd yn bentyrau ar eu gilydd. Blaenorid yn y cyfryw orchwyl gan fynachod y canol-oesoedd. Gweithredai y mynachod yn hyn, mae yn ddiau, dan ddylanwad teimladau eiddigeddus, ac er mwyn gwasanaethu dybenion plaid. Yr oedd y teimlad drwg a hanfodai rhwng y Cymry a'r Saxoniaid, ar ol peri i'r ddaear gael ei mwydo â gwaed dynion ar lawer o achlysuron, yn awr yn fyw, ac yn ffaglu hefyd yn nghelloedd yr hen fynachlogydd. Yn ganlynol, yr oedd gan bob plaid ryw dyb neu dybiau gwahanol gyda golwg ar y mater dan sylw. Nis gellir ammheu nad oes rhywfaint o wirionedd traddodiadol yn sail i rai o'r hanesion a ledanid ganddynt; ond am y crynswth o honynt, nis gallant fod o un defnydd ond i'w deol "i'r wadd ac i'r ystlumod." Ni feddyliasid am eu cyhoeddi i'r byd, ond yn unig mewn amseroedd o anwybodaeth dwfn ac ofergoeledd gwarthus. Yn y canol-oesoedd, y fath ydoedd agwedd pethau, fel y ceid digon o ddynion i roddi crediniaeth barod i'r hanesion mwyaf anhygoel. Nid oedd yr un traddodiad yn rhy orwyllt, fel na cheid rhywrai i'w faentumio. Mynych yr anurddid llênyddiaeth y cyfnod dan sylw gan yr haeriadau mwyaf ynfyd a disail. Yr oedd cywirdeb hanesyddol yn beth na ofelid cymaint am dano; a dyna paham, yn un peth, y tywalltwyd allan y fath gefnllif rhyfedd o ffug hanesion a chwedlau, gyda golwg ar ddygiad Cristionogaeth i Ynys Prydain. Mewn cwr arall o'r traethawd hwn, fe elwir sylw pellach at y rhai mwyaf credadwy a phoblogaidd o'r traddodiadau hyny ag a ledanwyd ar wahanol amserau yn mherthynas i'r mater sy dan sylw genym.

Ond i fyned ymlaen. Gadawodd llênyddion mympwyol y canol oesoedd y pwnc o hanes cychwyniad Cristionogaeth yn Mrydain megys y cawsant ef, yn nghanol tywyllwch caddugawl ac annhreiddiadwy. Bellach, nid ymddangosai y cysgod lleiaf o obaith y buasai i neb lwyddo i gael allan hysbysrwydd credadwy mewn perthynas iddo. Yn nyddiau Usher a Stillingfleet, pa fodd bynag, fe dywalltwyd ffrwd o oleuni ar yr hanes, ac fe ddygwyd llawer o bethau ag oeddynt o'r blaen yn guddiedig ac ammheus, gyda golwg ar y mater, allan i eglurder a sicrwydd. Y mae llênyddiaeth hanesiol ein gwlad yn ddyledus i'r enwogion a enwyd uchod, am wasanaeth o'r fath bwysicaf. Ond wrth ysgrifenu ar hanes tarddiad yr eglwys yn Mrydain, ymddengys i ni eu bod hwy, fel eraill o'u cydoeswyr, yn llafurio dan un anfantais nodedig. Yr oedd yr hen draddodiadau Cymreig, y rhai a geir

yn "Nhrioedd Ynys Prydain," yn llwyr anadnabyddus iddynt. Yr ydys yn credu mai dygwyddiad dedwydd i lênyddiaeth y Cymry ydoedd darganfyddiad yr hen gofion hanesiol at y rhai y cyfeirir. Cawsant eu cyhoeddi yn y "*Myvyrian Archaiology of Wales,*" yn y flwyddyn 1801; a dywedir yno iddynt gael eu crynöi gan Thomas Jones o Dregaron, allan o hen ysgrifau yn 1601. Y maent yn weithion o hynafiaeth diammheuol, ac nis gall fod un rheswm penderfynol gan neb dros wrthod na dirmygu eu hawdurdod. Y mae yr hanes a geir ynddynt am ddyfodiad Cristionogaeth i'r ynys hon, megys y cofir, yn dra gwahanol i ddim a geir ynghylch y mater mewn un gwaith arall. Ac yn ddiddadl, os oes hanes teilwng o dderbyniad fel un credadwy i'w gael yn mherthynas i'r pwnc yn rhywle, coelio yr ydym mai yr hanes a adroddir yn y Trioedd ydyw hwnw. Nid peth dibwys yn ein golwg ni yw yr ystyriaeth mai dyma y farn a goleddir yn gyffredinol gan ein cenedl ni yn yr oes bresennol. Nis gwyddom am un ysgrifenydd Cymreig o fri, yr hwn a feddylia am haeru dim i'r gwrthwyneb. Am y Seison, ac eraill na wyddant am hawliau na theilyngdod ysgrifeniadau yr hen Gymry, nid oes achos rhyfeddu eu bod yn coleddu opiniynau gwahanol i ni ar y pwnc—y mae yn rhydd iddynt eu barn. Gallant faentumio y tybiau a welont hwy yn oreu; dewiswn ninnau ein llwybr, ac ymdrechwn ddangos iddynt eu bod yn aros yn nhir cyfeiliornad.

Wrth fwrw golwg dros ysgrifeniadau awdwyr diweddar, ar yr ochr arall i'r ddadl, yr ydym yn cael eu bod yn gwahaniaethu mewn barn oddiwrth eu gilydd, a hyny nid yn unig yn mherthynas i'r pleidiau drwy offerynoliaeth pa rai y cafodd Cristionogaeth ei phlanu yn Mrydain, ond hefyd gyda golwg ar y wlad o ba un yr anfonid hwynt allan. Tybia rhai ddarfod i'n hynafiaid, ar y cyntaf, dderbyn eu ffydd o ryw gŵr o Asia. Dyma farn y dysgedig Neander. Yn ei "Hanesyddiaeth Eglwysig" (cyf. i, tudal. 117), yr ydym yn cyfarfod â'r nodiadau canlynol:—"Y mae hynodrwydd yr Eglwys Brydeinig yn mhen oesau ar ol ei sefydliad yn gwrthbrofi yr haeriad iddi darddu o Rufain, canys mewn llawer o ddefodau hi a ymadawodd oddiwrth arferion Eglwys Rhufain, gan gytuno yn llawer agosach gydag Eglwysi Asia Leiaf. Am dymmor hir, hi wrthsafodd awdurdod y Babaeth Rufeinig. Ymddengys y dynoda yr amgylchiad hwn ddarfod i'r Brytaniaid dderbyn eu Cristionogaeth mewn modd uniongyrchol, neu ynte anuniongyrchol, drwy Gâl[1] o Asia Leiaf, yr hyn ydoedd gwbl hawdd a dichonadwy, drwy y cyfathrach trafnidiol a hanfodai rhyngddynt â'r Cyfandir." Tybia eraill, yn gymaint a bod genym bob lle i gasglu ddarfod i drigolion tir Gâl dderbyn Cristionogaeth o flaen trigolion Ynys Prydain, fod ystyriaeth o'r cyfathrach a hanfodai rhwng y ddwy wlad yn ddigon i roddi cyfrif am hyny o arwyddion bywyd Cristionogol a geid ymhlith ein hynafiaid yn yr oesoedd boreuaf. Ystyria Mr. Hallam drachefn, barn yr hwn sydd o gryn awdurdod mewn ymchwiliadau hynafiaethol, nad ydyw yr anrhydedd o drosglwyddo crefydd Crist i'r wlad hon yn perthyn i Gâl, ond mewn rhan yn unig; fod peth o hono yn perthyn i Itali yn ogystal. Fel hyn y mae yr ysgrifenwyr dysgedig, at ba rai y cyfeirir, am i'w darllenyddion gredu fod "hanes dygiad Cristionogaeth i Ynys Prydain," yn bwnc a orwedda eto yn nghanol caddug o ansicrwydd. Ystyriant, ac i ni wneuthur defnydd o ymadroddion un o honynt hwy eu hunain, ddarfod i

[1] Gâl oedd yr enw wrth ba un yr adwaenid *Ffrainc* yn yr oesau gynt.

had anllygredig y gair gael ei ddwyn drosodd yma, drwy foddion anadnabyddus i ni yn yr oes hon, ac iddo syrthio i dir, wedi ei gyfaddasu i'w dderbyn gan law y Goruchaf, rywbeth yn gyffelyb i'r modd y darfu iddi ddygwydd gyda golwg ar yr hadau hyny, oddiwrth ba rai y graddol ymledodd yr hen fforestau mawrion, yn y rhai y caffai ein cyndadau achles pan yn ffoi rhag digllonrwydd y gorchfygwyr Rhufeinig. Ychydig amser yn ol, fe gyhoeddodd Cymdeithas y Traethodau Crefyddol gyfrol fechan,[1] o waith y Parch. Dr. Alexander, o Edinburgh, ar darddiad a helyntion yr eglwys gyntefig yn Mrydain, yn yr hon y mae yr awdwr dysgedig yn taflu awdurdod yr hen hanesion Cymreig, gyda golwg ar y pwnc, o'r neilldu yn hollol. Wedi mynegu ei farn ar nodwedd ffug-chwedleuaidd yr hanesion amrywiol a roddir am gychwyniad Cristionogaeth yn Ynys Prydain, â rhagddo yn nhudalen 113, i sylwi fel y canlyn;—"Rhaid i ni gan hyny ymfoddloni ar gydnabod fod dechreuad yr eglwys yn Mrydain, yn guddiedig mewn tywyllwch annhreiddiadwy. Gwyddom fod, yn y parth deheuol o'r ynys, o leiaf, Gristionogion brodorol, a hyny yn foreu iawn. Ond o ba le y daeth y goleuni hyd atynt, nis gallwn gasglu, ond yn unig gyda rhyw radd o debygolrwydd, tra yr ydym yn y tywyllwch yn hollol gyda golwg ar y pleidiau drwy offerynoliaeth pa rai y cafodd ei ddwyn." Sylwa yr awdwr ymhellach, nad yw yr eglwys yn Mrydain wedi bod yn fwy anffodus yn y golygiad yma nag eglwysi enwog eraill. "Nis gwyddom," eb efe, "pwy a ddygodd yr efengyl i Affrica, ac a sefydlodd yr eglwysi yn y wlad hòno, y rhai yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth oeddynt mor nodedig o glodfawr. Yr ydym mewn anwybodaeth gyda golwg ar sylfaenydd eglwysi Gâl, y rhai a hynodid mor foreu am sancteiddrwydd a gwroldeb eu merthyron. Nis gwyddom pwy a gyhoeddodd yr efengyl gyntaf, hyd yn nod yn Itali, na pheth oedd dechreuad Eglwys Rhufain ei hun; canys y mae y chwedlau a fynai hi i'r byd eu credu ar y pen hwn mor wirionllyd a dim a geir yn rhyw un o'r hen groniclau mynachaidd. Y gwirionedd yw, ychydig iawn a wyddom mewn trefn gyson am ledaniad boreuol yr efengyl." Gwyddom fod y syniadau uchod yn hollol gyd-daro âg archwaeth llawer o brif hynafiaethwyr yr oes bresennol. Dodasom hwynt i mewn yn y rhan yma o'r traethawd, er mwyn rhoddi i'r darllenydd fantais i wybod beth a feddylir ac a draethir gyda golwg ar y pwnc, o'r tuallan i derfyngylch y byd Cymreig. Y mae ei feddwl bellach yn gydnabyddus â phrif anhawsderau y gorchwyl a gymerwyd mewn llaw genym. Gŵyr hefyd beth a gredir gan eraill; a pheth a feddylir genym ninnau ynghylch hanes dyfodiad yr efengyl i Ynys Prydain.

Disgynwn bellach i wneuthur yn hysbys y cynllun a fwriadwn ei ddilyn wrth ymwneyd â'r pwnc rhagllaw. Sylwn yn y lle cyntaf, Ar y moddion drwy y rhai y gwnelai dwyfol ragluniaeth barotoi Ynys Prydain i fod yn faes llafur cenadol. Yn ail, Amcenir profi ddarfod i wawr Cristionogaeth dori ar yr ynys hon rywfaint o amser cyn terfyniad yr oes apostolaidd. Yn drydydd, sylwir ar y gofyniad, Pwy oedd y cenadau cyntaf a fu yma yn llafurio yn achos yr efengyl. Yn bedwerydd ac yn olaf, Ymofynir pa

[1] "*The Ancient British Church:*"—*Monthly Series.* Llyfryn rhad a dyddorol; cynnwysa sylwedd yr hyn a geir ar y mater yn ngweithiau mwy gorchestol Usher, Stillingfleet, Henry Thackeray, ac eraill. Tra yr ymueillduwn oddiwrth amryw o'i olygiadau, nis gallwn yma lai na chydnabod ein rhwymau i'r awdwr talentog am ei lafur. Y mae ei waith yn arddangos medr a dysg. Nid ychydig yw y fantais a'r budd a dderbyniasom oddiwrth ei ddarlleniad.

lwyddiant a ddilynodd eu gweinyddiadau, a pha gefnogaeth a allasent hwy dderbyn o le arall, i fyned ymlaen gyda'r gwaith o sefydlu crefydd Mab Duw yn yr ynys hon.

I. Dygwyddiadau Rhagbarotoawl.

Y mae y Duw Mawr, yr hwn sy gyfoethog o drugaredd, wedi rhagordeinio y byddai Ynys Prydain, rywbryd yn yr oesoedd a ddeuai, yn brif nawddle Cristionogaeth ar y ddaear. Yr oedd had y deyrnas nefol i ddisgyn yma yn foreu, ac i ddwyn ffrwyth lawer er gogoniant i'r Goruchaf. Yr oedd dylanwad moesol i gael ei ddwyn i weithrediad o fewn ein gororau, effeithiau pa un, yn mhen amser, ydoedd i ymdaflu yn dònau bendithfawr dros wledydd a chyfandiroedd lawer. Ond pa fodd yr ydoedd y cyfryw ddybenion goruchel i gael eu sicrhau? pa fodd yr oedd y gwaith i gael ei ddechreu? Ychydig amser cyn ymgnawdoliad ein Gwaredwr, yr ydoedd Derwyddiaeth yn teyrnasu dros yr ynys gyda rhwysg arbenig. Hi gawsai dymmor maith i ymsefydlu yn y tir. Yr ydoedd ei hegwyddorion wedi gwreiddio yn ddwfn yn serchiadau y boblogaeth. Credid fod ei hathrawiaethau yn dwyn argraff dwyfoldeb. Cyflwynid pob anrhydedd a bri i'r amrywiol swyddogion derwyddol; sef y beirdd, yr ofyddion, a'r derwyddon. Perchid hwynt megys duwiau. Yr oedd eu dylanwad mewn pethau gwladwriaethol, yn gystal ag mewn pethau crefyddol, yn fawr a goruchel. Hwynthwy oedd i ofalu am yr aberthau cyhoeddus a neillduol, deongli daroganiadau, a therfynu dadleuon. Bod dan felldith esgymundod y Derwyddon ydoedd gosbedigaeth ofnadwy. Nid oedd y dyn a wrthodai ufuddhau i'w dedfryd i gael cyfranogi yn yr aberthau, nac i fwynhau y pleser o ymgyfeillachu â neb; ynfydrwydd hefyd fyddai i'r cyfryw feddwl am geisio cyfiawnder yn llys cyfraith. Oddiwrth ddynion yn perchenogi y fath ddylanwad ag a berchenogid gan y Derwyddon, y mae yn amlwg nas gallasai crefydd Crist, ar ei hymddangosiad cyntaf yn yr ynys hon, ddysgwyl am ddim arall amgen na'r gwrthwynebiad ffyrnicaf. Ond erbyn i "gyflawnder yr amser" ddyfod oddiamgylch, wele, yr ydoedd Derwyddiaeth wedi derbyn dyrnod marwol, a'r Derwyddon wedi colli braich ddeheu eu hawdurdod; ac oni bai iddynt ddygwydd felly, tebygol ydyw y cyfarfuasai y cyn-Gristionogion yn Mrydain â'r blinderau echryslonaf. Nid oes le i ammheu na wnaethid pen am danynt ar unwaith, megys ag y gwneid yn ddiweddar âg arddelwyr Cristionogaeth yn ynys waedlyd Madagascar, lle y bwrid y truenusion anffodus a gorthrymedig i'r tân, a thros erchyll glogwyni. Effeithiodd rhwysg arfau y Rhufeiniaid yn yr ynys hon, er rhagflaenu y fath drychineb tost. Diau iddi ddygwydd fel hyn yn ol cynghor "Arglwydd y lluoedd," yr hwn a fedr ystwytho penderfyniadau ymherawdwyr y ddaear, a phlygu cynddaredd eu llengoedd arfog, pan y myno, i gwblhau y dybenion goruchelaf, ac i helaethu terfynau tir Emmanuel. Ddarfod i weithrediadau y buddygoliaethwyr Rhufeinig effeithio yn y modd cryfaf, er parotoi ffordd yr Arglwydd yn Mrydain, sydd wirionedd a gredir yn gyffredinol. "Ymddengys," medd Dr. Smith,[1] "mai palmantu ffordd i ddwyn Cristionogaeth i mewn oedd y dyben mawr oedd gan ragluniaeth i'w sicrhau yn y gwledydd hyn, drwy fuddygoliaethau y Rhufeiniaid, er fod yn eu calon ddinystrio a thori ymaith genedloedd nid ychydig." Nid anmhriodol a fydd i ni, gan hyny, dreulio ychydig amser i wneuthur rhai

[1] "*Gaelic Antiquities*:" tudal. 84.

crybwyllion yn mherthynas i hynt arfau y Rhufeiniaid yn yr ynys hon, yn flaenorol i'r amser pan y llewyrchodd goleuni Cristionogaeth ar gyflwr ei thrigolion.

Goresgynwyd Ynys Prydain gan y Rhufeiniaid ar fwy nag un achlysur. Yr ymosodiad cyntaf arni, oedd yr un a wnaethpwyd gan Julius Cesar. Llywyddid y llengoedd Rhufeinig, ar y pryd, ganddo ef ei hunan. Yr oedd yr ymherawdwr hwnw, ar lawer cyfrif, yn un o'r dynion rhyfeddaf a welodd y byd erioed. Yr oedd yn fedrus fel ysgrifenydd, ac yn hyawdl fel areithiwr: ymhlith plant gwragedd ni chyfododd rhyfelwr mwy penderfynol a llwyddiannus nag efe. "*Veni, vidi, vici,*" eb efe, ar un achlysur; ac y mae y *bulletin* anfarwol hwn o'i eiddo yn rhoddi i ni drem effeithiol ar goethder ei chwaeth a thanbeidrwydd ei athrylith. Dyfod, gweled, a gorchfygu, y byddai Julius Cesar yn ddiwahan. Yr oedd ei uchelfrydedd yn gryf, a'i syched am fuddygoliaeth yn angerddol. Yr oedd yn ei galon lethu iawnderau cenedloedd lawer, a darostwng y byd odditan yr iau Rufeinig; ymgyrhaeddai at uchafiaeth cyffredinol. Mynai i'w fanerau chwifio yn awelon pob gwlad dan y nef. Yr oedd ei rwysg a'i lwyddiant yn annhraethol fawr; ac fe oruwchreolwyd y cyfan gan law dwyfol ragluniaeth er dwyn pethau i'r cyfryw agwedd ar y ddaear ag a fyddai yn ffafriol iawn i ledaniad crefydd yr Arglwydd Iesu Grist ymhlith plant dynion, pan y deuai "cyflawnder yr amser" i ben. Bu ei ymweliad â Phrydain yn gynnyrchiol o'r canlyniadau pwysicaf. Effeithiodd y tro yn rhyfedd ar sefyllfa y Brytaniaid y pryd hwnw, yn gystal ag ar eu tynged gyffredinol o hyny allan. Yr oedd yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanesiaeth Ynys Prydain: gyda y dygwyddiad dan sylw y mae ei hanes hi yn dechreu; canys prin y mae yn iawn dywedyd fod iddi le ar lechres hanesyddol y byd cyn adeg ei goresgyniad gan Julius Cesar. Ond mae o bwys cofio mai nid iddo ef, nac i neb o'i gydoeswyr, y perthyna yr anrhydedd o ddarganfod yr ynys. Yr oedd ei hanfodiad, a llawer o'i chynnyrchion, yn adnabyddus i rai o'r gwledydd er's oesoedd lawer cyn ei ddyddiau ef. Ymddengys mai y Phœniciaid oeddynt y bobl gyntaf i ddyfod ymlaen i ffurfio cydnabyddiaeth â thrigolion Prydain. Sefydlwyd cyfathrach drafnidiol rhyngddynt yn foreu, a pharhaodd am dymmor maith. Meddylia rhai ddarfod i rai o longau Phœnicia, ar ol treiddio drwy y moroedd gogleddol, ddyfod o hyd i'r ynys hon gryn bum cant o flyneddau cyn Crist. Bu Phœnicia am gryn amser yn wrthddrych syndod eiddigeddus yr holl wledydd. Yr ydoedd felly ar gyfrif eangder ei masnach a helaethrwydd rhyfeddol ei chyfoeth. Er nad oedd ond gwlad fechan mewn arwynebedd, eto yr oedd ei dylanwad yn eang; a cheid fod ei llongau hi yn aredig tònau yr holl foroedd. O'r diwedd machludai gogoniant Phœnicia. Ar ol hyn, deua y Groegiaid ymlaen, ac ychydig yn ddiweddarach, y Rhufeiniaid hefyd, i gynnal i fyny y fasnach â Phrydain. Pa ryw argraff a adawyd ar feddyliau y Brytaniaid yn ganlynol i'w gwaith yn ymgyfathrachu â'r cenedloedd a enwyd, nid yw yn hysbys. Hyn sydd sicr, fod eu cyflwr cyffredinol yn parhau i fod yn gyflwr o anwybodaeth a barbareidd-dra gresynol. Trigent mewn bythynod iselwael o goed, wedi eu dwbio â chlai; ymwisgent yn annhaclus, mewn dillad wedi eu gwneuthur o grwyn gwylltfilod ac anifeiliaid eraill, ar gnawd pa rai yr ymborthent. Am amaethyddiaeth ni wyddent ond ychydig, tra yr ydoedd arferion a chelfyddydau cymdeithas wareiddiedig yn gwbl ddyeithr iddynt. Er fod eu

gwlad yn cael ei chylchynu gan y moroedd, a'i chyfoethogi gan lynoedd a chan afonydd mordwyol lawer, eto nid oeddynt yn meddu llongau; ac am y badau a gynllunid ganddynt, nid oeddynt ond taclau anghelfydd ac o'r gwneuthuriad distadlaf.

Y fath ydoedd cyflwr y Brytaniaid pan y deuai Julius Cesar a'i fyddinoedd drosodd i oresgyn eu gwlad. Dygwyddai hyny yn y flwyddyn 55 cyn cred. Ymddengys nad oedd yr ymosodiad hwn o eiddo y Rhufeiniaid ddim yn un cwbl ddiachos, oblegid daethai i glustiau Cesar, fod y Brytaniaid yn arfer cynnorthwyo gelynion Rhufain yn eu holl ryfeloedd yn nhir Gâl. Ac fe gofir fod y "Trioedd" yn cynnwys mynegiad ag sydd yn dwyn tystiolaeth i gywirdeb y ffaith dan sylw. Nid yw yn debyg, gan hyny, y buasai i'n hynafiaid ddwyn arnynt eu hunain ddialedd y llengoedd Rhufeinig mor gynnar, oni buasai iddynt ymyryd yn gyntaf â materion na pherthynai iddynt.

Ni bu ymweliad cyntaf yr ymherawdwr o Rufain â'r ynys hon, ond o fyr barhad, ac ni threiddiodd efe nemawr o filltiroedd oddiwrth lân y mor. Y fath oedd y gwrolder ffyrnig gyda pha un y gwrthwynebid ef gan y brodorion, fel mai gydag anhawsdra dirfawr y cadwai efe i fyny anrhydedd ei enw fel rhyfelwr. Cafodd fod y barbariaid yn llawer gwell milwyr nag y meddyliasai efe eu bod. Gadawodd yr ynys y waith hon yn mhen tair wythnos. Gellid meddwl fod yn dda gan yr ymherawdwr allu dychwelyd yn ol y tro hwn, dan unrhyw amgylchiadau ag a'i cadwai rhag suddo i warth yn ngolwg ei gydwladwyr a'i ddeiliaid.

Y flwyddyn ganlynol, yn mis Mai, daeth Julius Cesar allan drachefn i wneuthur ail-ymosodiad ar Ynys Prydain. Yr oedd ganddo at ei wasanaeth y waith hon wyth gant (800) o longau, a deng mil ar hugain (30,000) o filwyr. Tiriodd yn Deal, megys y gwnaethai efe y tro o'r blaen. Arosodd yn yr ynys y waith bresennol am yspaid pedwar mis. Yn y cyfamser dygwyddodd amryw frwydrau gwaedlyd rhyngddo a'r brodorion. Blaenorid lluoedd Prydain gan y dewr Caswallon, yr hwn mewn medr milwrol nid oedd ddim rhyw lawer yn ol hyd yn nod i Cesar ei hun. Pa fodd bynag, yn ngwyneb gwrolder anhyblyg y Rhufeiniaid ar y naill law, ac anffyddlondeb nifer o'r taleithiau Brytanaidd ar y llaw arall, fe drodd y fantol yn ei erbyn, a gorfu arno ddeisyf ammodau heddwch. Yr oedd llwyddiant y Rhufeiniaid, wedi y cyfan, ymhell oddiwrth fod yn gyfartal i helaethder dysgwyliadau eu blaenor. Y mae yr hyn a ddywed Tacitus gyda golwg ar ryfel-gyrchoedd Julius Cesar yn Mrydain yn ddesgrifiad cywir o gyfanswm y llwyddiant a ennillodd efe. Fel hyn y sylwa Tacitus:—"Y cyntaf o'r Rhufeiniaid yr hwn a ddaeth i Brydain gyda byddin ydoedd y dwyfol Julius; ond er iddo drwy ymladd llwyddiannus weithio dychryn i fynwesau y trigolion, a gwneuthur ei hunan yn feistr yr arfordir, gellir dywedyd iddo yn hytrach ddangos y wlad i'w olafiaid, na'i chyflwyno drosodd iddynt." Y man pellaf y bu Cesar ynddo ydoedd St. Albans, yn swydd Hertford, yr hwn le a gyrhaeddid ganddo drwy anialwch o rwystrau. Dychwelodd oddiyno drwy Lundain, ac yn ol i Deal, o ba le y mordwyodd efe drosodd i'r cyfandir, gan adael Ynys Prydain mewn cyflwr o ddarostyngiad i'r llywodraeth Rufeinig.

Bellach yr ydoedd agorfa lydan wedi cael ei wneuthur i wybodaethau rhagorolaf y Cyfandir ymdywallt i mewn i blith ein hynafiaid. Dygasid hwynt i gysylltiad agos â thrigolion y parth hwnw o Ewrop, pa un, ar yr

adeg dan sylw, ydoedd yn brif gartrefle dysg, a chelfyddydau, a gwareiddiad y byd. Ar ol y dygwyddiadau a gofnodwyd genym yn y tudalenau blaenorol, ychydig a wyddom mewn trefn gyson ynghylch helyntion y Brytaniaid, am yn agos i gan' mlynedd, heblaw hyn, sef iddynt barhau i fod mewn cyflwr o ddarostyngiad i lywodraeth Rhufain. Ond ar derfyn yr yspaid hwnw o amser a enwyd uchod, fe dorodd gwrthryfel allan, a chyn hir yr oedd yr ynys yn oddaith drwyddi. Dygai y gwrthryfel dan sylw agos gysylltiad â dyfodiad Cristionogaeth i mewn. Bu iddo y canlyniadau pwysicaf. Ac fel hyn y bu gyda golwg ar y tro: ar ddyfodiad Gwydyr, mab Cynfelyn, i orsedd Prydain, gwrthodai y tywysog hwnw dalu teyrnged i'r Rhufeiniaid; o herwydd paham, fe benderfynodd yr Ymherawdwr Claudius Cesar anfon allan fyddin nerthol i oresgyn y wlad; yr hon fyddin a osodwyd dan lywyddiad cadfridog medrus o'r enw Aulus Plautius. Hwyliodd Plautius drosodd i Brydain yn y flwyddyn 43 o oed Crist. Glaniodd yn ddirwystr. Ar ol iddo gyda'i fyddinoedd dreiddio ychydig i'r wlad, cyfarfu â byddin o'r Brytaniaid, y rhai a flaenorid gan yr enwog Caractacus; neu fel y gelwir ef gan y Cymry, "Caradawc ap Brân." Bu ymladdfa waedlyd rhwng y lluoedd, a throdd y fuddygoliaeth o du y Rhufeiniaid. Dilynwyd yr ymladdfa hon gan amryw ymladdfeydd ffyrnigwyllt eraill. Cyn hir, deuai yr Ymherawdwr Claudius ei hun drosodd, a chydag ef adgyfnerthiad lliosog o filwyr. Nid aeth nemawr o amser heibio, heb i frwydr arall ofnadwy o waedlyd gymeryd lle, yn yr hon y bu y Rhufeiniaid yn orchfygwyr megys cynt. Yn fuan ar ol hyn, dychwelai yr ymherawdwr i Rufain, gan adael Plautius a Vespasianus yn flaenoriaid yr ymgyrch yn erbyn y Brytaniaid. Ond gan fod iddynt yn wrthwynebydd y byth-glodfawr Caradawc, yr oedd eu sefyllfa ymhell o fod yn un bleserus. Hanesiaeth a ddywed iddynt orfod ymladd cryn ddeuddeg ar hugain o frwydrau wedi hyn. Y fath ydoedd gwroldeb adamantaidd yr hen Frytaniaid,—y cyfryw oedd annibyniaeth eu hysbryd, fel na wyddent yn iawn pa bryd y byddent yn orchfygedig.

Ond o'r diwedd, ar ol cyflawni gorchestion lawer, ac arddangos dewrder digyffelyb, fe ymostyngai y rhan fwyaf o lwythau yr ynys i lywodraeth y Rhufeiniaid. Am yr Esyllwyr, pa fodd bynag, sef pobl Gwent a Morganwg, a'r ardaloedd cyfnesol, y rhai oeddynt dan lywodraeth uniongyrchol Caradawc,—am y bobl hyn, ni fynent ymostwng, na thrwy deg, na thrwy hagr. Yn ngwlad yr Ordovices yr ymladdodd Caradawc ei frwydr olaf â'r Rhufeiniaid. Ar foreu dydd yr ymgyrch nodedig, pa un ydoedd i sefydlu tynged gwlad y Brytaniaid, yr ydym yn cael fod ein gwron dewrwych yn anerch ei filwyr, gan eu cynhyrfu i wroldeb, drwy ddywedyd, "Hwn yw'r dydd, a hon yw'r frwydr, naill ai o berchenogi rhyddid, neu ynte o ddechreuad caethiwed tragywyddol." Ond wedi pob ymdrech, y Rhufeiniaid a orfuant y waith hon eto. Cwympodd yr enwog a'r mawreddig Caradawc, ac enhuddwyd gobeithion goreu ei eofn gydwladwyr! Ffôdd Caradawc ei hun at Aregwedd Goeddlawg, brenines y Brigantwys, yr hon mewn gwarthus ac ysgeler fodd a'i traddododd mewn cadwynau i'r Rhufeiniaid yn y nawfed flwyddyn ar ol dechreuad y rhyfel yn Mrydain. Cymerwyd ei wraig a'i ferch hefyd yn garcharorion; ac am ei frodyr, rhoddai y rhai hyn eu hunain i fyny i ddwylaw eu gelynion yn wirfoddol.

Diwrnod mawr yn Rhufain oedd y diwrnod pan wnelai Caradawc ei ymddangosiad o flaen gorsedd yr ymherawdwr. Nid llai oedd y gorfoledd a

amlygid ar yr achlysur, yn ol tystiolaeth Tacitus, na phan y dygwyd Syphax yno gan Scipio, neu Peres gan L. Paulus, neu neb un o'r breninoedd a ddarostyngasid trwy rym arfau y Rhufeiniaid, ac a ddygasid i Rufain yn garcharorion. Yr oedd clod Caradawc wedi ymestyn dros y gwledydd, ac yr ydoedd yn enwog hefyd drwy yr Eidal oll. Teimlid awydd cyffredinol, gan hyny, am gael trem ar y gwron ardderchog, yr hwn a heriasai fyddinoedd yr ymherodraeth dros gynnifer o flyneddau. Pan osodid ef i sefyll o flaen gorsedd Claudius Cesar, ni ddangosai yr arwydd lleiaf o wendid, ac ni chollai efe ddim o annibyniaeth ei ysbryd, megys y gwnaeth rhai o'i berthynasau. "Yr oedd genyf feirch, rhyfelwyr, arfau, cyfoeth," eb efe, "a phwy ryfeddod os oeddwn yn teimlo yn anfoddlawn i'w colli." Terfynai ei araeth drwy gyfarch yr ymherawdwr, a dywedyd, "Pe buaswn yn ymddarostwng yn uniongyrch, ni fuasai na fy nghyflwr i, na dy ogoniant di yn ymenwogi, ac anghof a ganlynasai fy narostyngiad; eithr yn awr os arbedi fi yn ddiniwed, byddaf yn anghraifft dragywyddol o diriondeb."[1]

Bellach, yr oedd adeg iachawdwriaeth Ynys Prydain—amser ei hymweliad hi—yn ymyl. Trwy gyfryngdod y dygwyddiadau a gofnodwyd genym yn y tudalenau blaenorol, yr oedd gwaith mawr a phwysig wedi cael ei wneuthur er parotoi ffordd yr Arglwydd, ac er prysuro adeg sefydliad Cristionogaeth yn ngwlad ein tadau. O ran pwysfawredd, nid y lleiaf o'r dygwyddiadau hyny oedd caethgludiad Caradawc a'i deulu i Rufain. Yr oedd daioni i ddeilliaw o hyn. Gall dwyfol ragluniaeth pan y myno, dynu melusder allan o'r goruchwyliaethau chwerwaf, a pheri i lwybrau geirwon drygfyd ein tywys i erddi blodeuog hawddfyd. Nid ydoedd y patriarch Joseph i gael ei wneuthur yn llywydd ar wlad yr Aipht, ac yn iachawdwr i bobl lawer yn amser newyn a chyni, heb iddo yn gyntaf oddef cael ei dynu drwy y pydew a'r carchar. Nis gwyddom yn iawn "beth sydd dda i ddyn yn y bywyd hwn," gan fod dygwyddiadau, a ystyrir genym yn rhai anffodus iawn, weithiau yn esgor ar y canlyniadau dedwyddaf. A phwy a all ammheu nad oedd gan ragluniaeth law yn y gwaith o anfon Caradawc a'i deulu i Rufain, ac na chymerai hyny le fel y byddai i rai o honynt gael eu dwyn i gyfarfyddiad â chrefydd Mab Duw yn ei phurdeb cynhenid? Yr oedd sain peraidd yr efengyl wedi cyrhaedd y brifddinas er's talm. Dilynid gweinyddiadau yr apostolion yno, megys yn mhob lle arall, gyda nerth arbenig. Deffröid ystyriaethau tyrfaoedd. Cristionogaeth oedd pwnc mawr y dydd. Nis gallasai Caradawc a'i deulu fod yn Rhufain yn hir heb i rai o honynt ddyfod i wybod rhywbeth am "y ddysg newydd hon." Dichon y caent hwy, yn achlysurol, gyfle i wrandaw ar apostol mawr y cenedloedd ei hun, yn traddodi geiriau y bywyd tragywyddol, ac yn "ymresymu am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd." Yn ngwyneb yr adfyd a ddaethai arnynt, mor naturiol yw credu, y byddai iddynt ymwasgu â dysgyblion yr addfwyn Oen, gan gredu i ddwyfoldeb y grefydd hòno, pa un a ystyrir yn mhob oes fel prif ddyddanwch yr amddifad, ac fel cysegr sancteiddiolaf y trallodedig.

Y mae yn hysbys fod canolfur y gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Groegwyr—rhwng had Abraham a chenedloedd eraill—wedi ei symud oddiar y ffordd erbyn hyn. Yr oedd Mab Duw wedi ymddangos yn y cnawd, i ddwyn cyfiawnder tragywyddol i mewn, ac i dynu ymaith bech-

[1] "Hanes Cymru;" gan Carnhuanawc: tudal. 74.

ddau y byd. Nid oedd nemawr o amser wedi myned heibio er pan welid Ef yn dyoddef, yn gwaedu, ac yn trengu. Ac wedi cwblhau o hono y gwaith a roddasid iddo i'w gyflawni, rhoddodd ar ei ddysgylion i fyned allan i'r byd, gan gyhoeddi yr efengyl "i bob creadur." Yn unol â gorchymyn eu Harglwydd, fe ymroddai yr apostolion i gyflawni dyledswyddau eu gweinidogaeth gyda phenderfyniad anorchfygol. Gwyddent pa beth yr oeddynt yn ei gylch, ac i bwy yr oeddynt wedi credu. Teimlent fod y gwirionedd o'u plaid, ac fod nerthoedd y byd a ddaw o'u plaid, ac fod Duw tragywyddoldeb o'u plaid. Ystyrient fod yn ngallu eu Brenin i osod pob peth drwy y ddaear a'r nefoedd dan orfodaeth i gydweithio er daioni iddynt. Ennill ei ffafr Ef ydoedd prif nod eu bywyd. Er mwyn sicrhau ei gymeradwyaeth, hwy ddewisent angeu o flaen einioes, a chyfrifent ddyoddefiadau merthyrdod yn fwy golud na choronau ac na theyrnwialen tywysogion!

Amcanai yr apostolion at bethau mawrion a rhyfedd. Yr oedd ganddynt y dybenion goruchelaf mewn golwg. Ymgyrhaeddent at ddwyn gwasanaeth addoliadol pob teml gysegredig drwy y byd i fythol waradwydd. Mynent ddryllio pob allor, ond allor Calfaria, a glanhau y ddaear oddiwrth yr eilunod oll—gollwng carcharorion y cadarn mewn rhydddeb, diorseddu duw y byd hwn, troi wyneb y ddaear y ffordd arall! Y fath oedd y dybenion mawrion ag ydoedd mewn golwg gan y dynion sanctaidd hyn. Nid rhyfedd oedd fod tyrfaoedd yn gwawdio; canys peth newydd ar y ddaear oedd hyn. Cyn hir, pa fodd bynag, fe argyhoeddid meddyliau dynion fod apostolion Cristionogaeth wrthi *o ddifrif;* ymlaen gyda 'u gwaith yr elent hwy drwy bob rhwystr a gwrthwynebiad; ni chymerent eu camarwain gan wenau mwyaf deniadol y byd, na 'u dychrynu gan ruthriadau ffyrnicaf ei erlidigaethau; medrent fod yn llawen dan y gorthrymderau mwyaf, ac yn ddyoddefgar yn nyfnderoedd carcharau. Yr oedd eu penderfyniad i gyflawni y gwaith a ymddiriedasid iddynt mor anghyfnewidiol a'r ddeddf sydd yn peri i'r afonydd redeg tua 'r môr. Pregethu yr efengyl oedd eu gwaith a'u hyfrydwch penaf; yr oedd cariad Crist yn eu cymhell i fyned rhagddynt. Cynniweirient drwy y gwledydd, gan hyf-gyhoeddi iachawdwriaeth i bell ac i agos drwy waed Crist. Yn y cyflawniad o'u swydd, hwy fuont yn ffyddlawn hyd angeu; ac yr oedd yr un gwroldeb adamantaidd, yr un zêl benderfynol yn achos yr efengyl, yn nodweddu eu brodyr a'u cydweithwyr yn gyffredinol. Bedyddid hwynt oll â'r un ysbryd nefol; eu harwyddair ydoedd,—Y BYD I GRIST.

Ac fe welodd Duw yn dda goroni ymdrechiadau y gweision hyn o'i eiddo â llwyddiant digyffelyb; "Yn ddiau i'r holl ddaear yr aeth eu sŵn hwy, a'u geiriau hyd derfynau y byd." Canfyddid fod gair yr Arglwydd yn anorchfygol. Goleuwyd y byd megys ar unwaith; yr oedd i Gristionogaeth arddelwyr yn mhob dinas a gwlad; chwythai anadl bywyd dros gyfandir marwolaeth gyda dwyfol effeithiau; clywid lleferydd Mab Duw gan dyrfaoedd aneirif, y rhai a safasant ar eu traed "yn llu mawr iawn." Trwy lafur yr apostolion a'u cydweithwyr, fe ffurfiwyd "cenedl sanctaidd" ar y ddaear,—"pobl briodol" i Dduw,—dynion "awyddus i weithredoedd da." Cyffro mor fawr a hwn ni chymerasai le erioed o'r blaen. Daeargryn moesol ydoedd yn ysgwyd yr holl genedloedd. O flaen oraclau Cristionogaeth, fe darewid yr eilunod â mudandod, ac fe suddai y duwiau cenedlaethol i warth a dirmyg. Yr ydoedd rhagfarnau ac ofergoelion pobl-

ogaidd yn prysur ddifianu ymaith o flaen gwres dysgleirdeb haul mawr y gwirionedd. Yn mhob lle, dilynid gweinidogaeth yr apostolion gyda nerth dwyfol. Yr oeddynt megys wedi eu bedyddio â'r Ysbryd Glân, ac â thân.

Fe soniwyd eisoes am ymddangosiad boreuol Cristionogaeth yn Rhufain. Bu Paul yno dros Grist yn genad mewn cadwyn. Sefydlwyd yno Eglwys Gristionogol yn ymyl gorsedd Cesar; daeth yr eglwys hòno yn mhen amser i fod yn enwog o herwydd ei ffydd, ac yn glodfawr ar gyfrif ei hymlyniad wrth y gwirionedd; bu am dymmor yn ymddangos yn gadarn ac yn ogoneddus, fel dinas ar fryn; bendithiwyd hi â gweinyddiadau dynion, "y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt;" cafodd paganiaeth y brifddinas deimlo oddiwrth ei dylanwad hi cyn hir; canfyddid yn ei haelodau y cyfryw arddangosiad o gysondeb, zêl, a chariad dwyfol, ag a laddai elyniaeth miloedd. Bu yr eglwys yn Rhufain yn fendith annhraethol i'r byd; ac oddiwrthi hi, y mae yn ddiddadl, y llifeiriodd goleuni a bywyd Cristionogol i blith ein hynafiaid yn yr ynys hon.

Nis gallem ymattal rhag gwneuthur y nodiadau blaenorol ar ledaniad boreuol Cristionogaeth, yn ganlynol i lafur apostolion ein Harglwydd, er mai prin, hwyrach, yr ystyria rhai eu bod yn berthynasol i'r mater mewn llaw; gwasanaethant i ddangos, pa fodd bynag, nad peth anhygoel ydyw ddarfod i grefydd Mab Duw weithio ei ffordd i fysg y Brytaniaid, a hyny mor foreu a dyddiau yr apostolion.

II. PROFION O'R FFAITH DDARFOD I GRISTIONOGAETH GYRHAEDD YNYS PRYDAIN RYWBRYD CYN TERFYNIAD YR OES APOSTOLAIDD.

Tra mae ysgrifenwyr dysgedig yn mawr amrywio yn eu barnau gyda golwg ar y flwyddyn neillduol yn yr hon y dechreuid ar y gorchwyl o efengyleiddio trigolion yr ynys hon, cydnabyddir yn lled gyffredinol i'r gwaith gael ei ddechreu rywbryd o fewn terfynau yr oes a enwyd genym. Y mae ysgrifeniadau amryw o awdwyr y cynoesoedd yn cynnwys tystiolaethau ag ydynt yn profi hyny tuhwnt i bob dadl. Nid dibwys yn ein golwg ydyw y dystiolaeth ganlynol o eiddo Tertullian, er nad ydyw yn mynegu dim yn benderfynol ynghylch adeg sefydliad Cristionogaeth yn ein hynys. "Yn mhwy arall," eb efe, wrth ysgrifenu yn erbyn yr Iuddewon, "yn mhwy arall, ond yn Nghrist, yr hwn eisoes a wnaeth ei ymddangosiad, y mae yr holl genedloedd yn credu? canys ynddo y credodd y bobloedd mwyaf amrywiog, Parthiaid, Mediaid, Elamitiaid, preswylwyr Mesopotamia, Armenia, Phrygia, Cappadocia, y rhai a drigant yn Pontus, Asia, Pamphylia, a'r Aipht, y rhai a breswylient yn y parth hwnw o Affrica, ag sy tuhwnt i Cyrene, Rhufeiniaid a brodorion, ac hyd yn nod Iuddewon yn Jerusalem, a chenedloedd eraill; ïe, tylwythau gwahanol y Getuliaid, a llawer o diriogaethau y Mooriaid, holl daleithiau Yspaen, gwahanol breswylwyr tir Gâl, *a rhanau o Brydain y rhai na chyrhaeddwyd gan y Rhufeiniaid, ond a ddarostyngwyd i Grist;* hefyd y Sarmatiaid, Daeiaid, Germaniaid, a'r Scythiaid, yn gystal a phobloedd, ynghyd â thaleithiau eraill lawer ag ydynt yn anadnabyddus i ni, ac nas gallwn eu nodi allan;—yn y cyfan o ba rai y mae enw y Crist ag sydd eisoes wedi dyfod, yn teyrnasu." Blodeuai Tertullian, megys y cofir, oddeutu diwedd *yr ail ganrif.* Oddiwrth y dyfyniad blaenorol o'i waith, canfyddir fod Cristionogaeth wedi ennill derbyniad cyffredinol yn yr ynys hon erbyn ei ddyddiau ef; awgryma fod yr efengyl wedi treiddio ymhellach nag y

gwnaethai llengoedd Rhufain. Yr oeddynt hwy, fel y gwyddom, wedi llwyddo i gario eu buddygoliaethau ymhell ac yn agos, a sefydlu eu hawdurdod dros y cyfan o'r prif daleithiau; ond mynega Tertullian, fod crefydd Crist wedi cymeryd meddiant hefyd o gyrion eithaf y wlad. Arwydda fod, hyd yn nod y conglau pellenig hyny yn llawn o ddychweledigion yr Arglwydd. Rhaid fod yn y rhanau hyny o Brydain lwyddiant helaeth a chyffredinol wedi bod o du yr efengyl, cyn y cawsai Tertullian ei hun yn rhydd i haeru eu bod wedi *eu darostwng i Grist*. Y mae yn werth cofio, fod y dystiolaeth dan sylw yn dygwydd mewn gwaith ag y byddai o bwys neillduol fod y cyfan o'r haeriadau cynnwysedig ynddo yn seiliedig ar wirionedd *pur a diammheuol*. Gwyddai yr ysgrifenydd yn dda am graffder a chyfrwysdra ei wrthwynebwyr; ac nis gallai, oblegid hyny, lai na theimlo ei bod yn anghenrheidiol i bob hòniad o'i eiddo fod yn gyfryw ag nas gallai ei elynion mo 'u dymchwelyd na 'u gwrthbrofi. Yr oedd helyntion y Brytaniaid, ynghyd â sefyllfa Cristionogaeth yn eu plith, yn bethau rhy adnabyddus i'r byd yn yr amser hwnw, i neb ysgrifenydd o fri i feddwl am haeru dim yn amryfus yn mherthynas iddynt. Yr ydoedd Tertullian, megys y sylwa Stillingfleet, yn berchen deall rhy gyflym a threiddgraff i wneuthur ei hunan yn agored i wawd yr Iuddewon, drwy grybwyll am ddychweliad y Brytaniaid, megys y gwnelai, os gwyddid nad oeddynt yn Gristionogion ar y pryd. "Mor waradwyddus," eb efe, "yr ymddangosai gwaith un a fynai brofi mai Pabyddiaeth yw y grefydd gyffredinol, drwy nodi allan, ymhlith y cenedloedd a'i harddelant, nid yn unig yr Ital a'r Yspaen, ond hefyd Prydain Fawr, a Denmark, a Sweden! Nid llai oedd y gwrthuni, gan hyny, o brofi teyrnasiad cyffredinol Crist, drwy enwi Gâl a Phrydain, gyda 'r cenedloedd a arferent addoli Crist, os nad oedd Eglwysi Cristionogol mewn hanfodiad yn eu mysg hwynt ar y pryd."[1] Gellir ei hystyried, gan hyny, fel ffaith ddiammheuol, fod yr ynys hon wedi ei dwyn dan ddylanwad efengyl Crist, a hyny yn gyffredinol, cyn diwedd yr eilfed ganrif. Oddiwrth hyn, onid naturiol yw casglu, ddarfod i Gristionogaeth gael ei dwyn drosodd yma yn *foreu iawn?* oblegid amlwg yw, mai nid gwaith a ellid ei gyflawni ar unwaith ydoedd lladd rhagfarnau crefyddol pobl fel y Brytaniaid, a diddyfnu eu meddyliau oddiwrth y grefydd hòno ag oedd yn anwyl iddynt, fel bywyd ei hunan;—crefydd eu gwlad, a chrefydd eu tadau. Nid heb gyfarfod âg anhawsderau dirif yr ennillai Cristionogaeth ei buddygoliaethau yn Mrydain; yr oedd amser maith yn ofynol iddi i weithio ei ffordd i'r parthau hyny ag oedd yn rhy bell i'r Rhufeiniaid feddwl am eu darostwng a'u meddiannu. Pe na chrybwyllasai neb o awdwyr y cynoesoedd ond Tertullian yn unig am ddychweliad y Brytaniaid i ffydd Crist, buasai ei dystiolaeth unigol ef yn ein rhwymo i gredu ddarfod i Gristionogaeth ddechreu gwreiddio yn Mrydain yn foreu iawn, fe allai mor foreu a dyddiau yr apostolion.

Y dystiolaeth nesaf y cawn alw sylw y darllenydd ati, ydyw eiddo Eusebius, yr hanesydd eglwysig, yr hwn a flodeuai yn y bedwaredd ganrif. Y mae hon yn bwysicach ac yn fwy i'r pwrpas hefyd na thystiolaeth Tertullian. Yr ydys i ddal mewn cof fod gan Eusebius y manteision rhagorolaf i gyrhaedd hysbysrwydd credadwy ynghylch lledaniad boreuol Cristionogaeth yn Mrydain. Ac y mae genym sicrwydd ei fod yn meddu yr awyddfryd cryf i fanwl chwilio pob hanes ag oedd yn dwyn cysylltiad

[1] "*Antiquities*:" tudal. 51.

â llwyddiant yr efengyl drwy y gwledydd oll. Y mae Jerome yn adrodd am dano yr hanes a ganlyn:—"Pan ddaeth yr Ymherawdwr Cystenyn i Cesarea," eb efe, "cymhellodd yr esgob i ddeisyfu rhywbeth a fyddai o fantais i'r eglwys yn Cesarea. Dywedir i Eusebius ateb, nad oedd yr eglwys mewn angen am un math o ffafrau, gan ei bod yn meddu pob cyfoeth ag oedd reidiol; ond ei fod ef ei hun yn ddarostyngedig i ddymuniad parhaus am fynu sicrwydd ynghylch yr hyn a wnaethpwyd gan farnwyr olynol yn erbyn y saint drwy yr holl ymherodraeth Rufeinig, a hyny drwy chwilio yr ysgrif-gofion cyhoeddus gyda gofal neillduol; ac erfyniai am i'r ymherawdwr orchymyn ar fod i ranau o'r ysgrifeniadau hyny gael eu hanfon iddo o'r llyfrgell gyhoeddus, fel y caffai wybod beth a ddyoddefasid gan ferthyron; yn mha dalaeth neu ddinas; gan bwy farnwr; ar ba ddiwrnod; a chyda pha ryw wroldeb y cymerent hwy eu coroni â merthyrdod. Yn ganlynol, gan ei fod yn adroddydd galluog, ysgrifenodd hanes yr Eglwys Gristionogol; ac fel awdwr hanesyddol, croniclodd orchestion y cyfan, braidd, o'r rhai a ddyoddefasant ferthyrdod yn yr holl daleithiau Rhufeinig."[1] Y mae yn eithaf sicr fod Eusebius yn mwynhau ffafr neillduol yr ymherawdwr Cystenyn; ac oblegid hyny yr ydoedd at ei ryddid ar bob adeg i gasglu yr hysbysrwydd a fynai o'r ffynnonellau mwyaf pur a diammheuol. Derbyniai gynnorthwy mynych tuag at fyned ymlaen gyda'i efrydiau hanesyddol oddiwrth yr ymherawdwr ei hun, naill ai yn bersonol, neu ynte drwy lythyr. Nis gallai Cystenyn lai na theimlo dyddordeb neillduol yn holl hanes yr eglwys yn Mrydain, nid yn unig ar gyfrif y ffaith ei fod yn arddel Cristionogaeth, ond hefyd am ei fod o haniad Brytanaidd. Y mae cymaint o hynodrwydd yn perthyn i hanes Helen, ei fam, fel yr ydys dan brofedigaeth i'w adrodd yma. Fe'n hysbysir gan rai haneswyr, mai merch ydoedd i un a gadwai westy, ar fin un o'r ffyrdd Rhufeinig yn yr ynys hon, ac iddi ennill serchiadau cadflaenor o'r enw Constantius Chlorus, yr hwn mewn modd anrhydeddus a ymunodd â hi mewn priodas. Y forwynig hon, heb fod ganddi gyfoeth, ond ei hawddgarwch personol, a ddaeth yn mhen amser i fod yn fam i ymherawdwr y byd. Pan ystyriom, gan hyny, y cysylltiad a hanfodai rhwng Cystenyn â Phrydain, ac am y gefnogaeth a roddai efe i lafur ymchwiliadol Eusebius, canfyddir ar unwaith fod gan yr ysgrifenydd clodadwy hwnw bob mantais ragorol i feddu y wybodaeth gywiraf ynghylch hanes Cristionogaeth dros y byd, ac yn neillduol felly yn yr ynys hon. O herwydd paham, yr ydym yn ystyried fod y dystiolaeth a gynnwysir yn y dyfyniad canlynol, pa un a gymerir allan o'r gwaith a ysgrifenid ganddo mewn amddiffyniad i Gristionogaeth, yn teilyngu pob derbyniad. Mewn cyfeiriad at lafur a llwyddiant yr apostolion, ysgrifena Eusebius fel y canlyn:—"Ymhellach, ystyrier hyn hefyd. Os oeddynt (yr apostolion) yn dwyllwyr rhagrithiol, yr oeddynt ar un pryd yn ddynion diddysg, ac yn perthynu yn hollol i'r bobl gyffredin; ie, gallai un ddywedyd, braidd, mai barbariaid oeddynt, gan nad oeddynt yn gwybod am un iaith ond eiddo y Syriaid. Pa fodd, gan hyny, y daethant hwy i allu treiddio drwy yr holl fyd? Trwy ba ryw wroldeb meddwl y meiddient hwy anturio ar y fath orchwyl? Ac wedi iddynt ei ddechreu, drwy ba allu y llwyddent hwy? Gallem ganiatau, y byddai hyd yn nod i wladyddion trwsgl, wrth fyned oddiamgylch i dwyllo a chael eu twyllo, wneuthur rhywfaint o argraff yn eu goror eu hunain, drwy beidio gadael y mater yn

[1] "*Epist. ad Chromatium et Heliodorum.*"

llonydd. Ond fod iddynt bregethu yr Iesu i bawb, a chyhoeddi ei weithredoedd nerthol Ef mewn gwlad a thref—fod i rai o honynt gymeryd meddiant o Rufain ei hun, brenines a phenaeth y dinasoedd—fod i eraill gymeryd teyrnas y Persiaid, ac i eraill drachefn feddiannu teyrnasoedd yr Armeniaid, y Parthiaid, ac hyd yn nod y Scythiaid; fod i rai hefyd dreiddio i derfynau eithaf y ddaear a gwlad yr Indiaid, ac i eraill groesi y môr i'r Ynysoedd Brytanaidd, fel y gelwir hwynt—am y fath bethau nis gallaf gredu eu bod yn ddichonadwy eu heffeithio gan ddynion, yn neillduol gan bersonau distadl a diwerth; llai fyth y gellid eu cyflawni gan ddrwg-ddynion a thwyllwyr." Oddiwrth y dyfyniad uchod, canfyddir yn amlwg, fod Cristionogaeth yn hysbys yn yr ynysoedd hyn *cyn* terfyniad yr oes apostolaidd; canys fe awgrymir iddi gael ei dwyn i mewn yn nyddiau yr apostolion, os nad drwy weinyddiadau rhai o honynt.

Cyfarfyddir â thystiolaeth gyffelyb hefyd, yn ngwaith Theodoret, Esgob Cyprus, yr hwn a flodeuai yn nechreuad y bummed ganrif. Y mae Gildas drachefn, yr hwn yw yr hynaf o'r haneswyr Prydeinig, yn cadarnhau yr un peth, sef, ddarfod i Gristionogaeth wawrio ar yr ynys hon o fewn terfynau yr oes apostolaidd. Rhydd ar ddeall i ni i hyny ddygwydd dan deyrnasiad Nero, ac oddeutu amser y gwrthryfel ffyrnig a dòrodd allan yn erbyn gormes-lywodraeth y Rhufeiniaid, drwy annogiad y frenines Boadicea, neu *Buddug*, fel y gelwid hi gan y Cymry. Ar ol cyfeirio at sefyllfa adfydus y Brytaniaid, a'r gorthrymderau a ddyoddefasant drwy ddwylaw y gorchfygwyr Rhufeinig, y mae Gildas yn gwneuthur defnydd o'r ymadroddion canlynol:—" Yn y cyfamser, pan oedd yr ynys hon yn druenus gan oerni rhewllyd, megys pe buasai wedi ei halltudio i gongl ddirgeledig o'r ddaear, ac ymhell oddiwrth yr haul gweledig, fe ganiataodd Crist iddi ei oleuni, sef ei gyfreithiau,—Crist, y gwir haul, yr hwn, nid yn unig o ffurfafen amser, ond hefyd o uchder y nefoedd, ac ymhell o gyrhaedd cyfnewidiadau amser, a arddangosodd ei belydrau ysplenydd i'r byd cyffredinol, yn y cyfnod olaf o deyrnasiad Tiberius Cesar, megys y gwyddom, pan y lledanid ei grefydd yn ddiwrthwynebiad, gan i'r tywysog a enwyd, a hyny yn groes i ewyllys y senedd, fwgwth cosbi â marwolaeth y rhai a ddygent gam-achwyniad yn erbyn ei filwyr ef, hyny yw, arddelwyr Cristionogaeth."[1] Nis gall fod un anhawsder neillduol ar ein ffordd i ddyfod i benderfyniad boddhaol gyda golwg ar briodol ystyr yr ymadroddion uchod o eiddo Gildas: y mae yr ysgrifenydd yn eglur arwyddo ddarfod i oleuni Cristionogaeth lewyrchu ar gyflwr gresynol y Brytaniaid yn yr amser a gymerai le rhwng dyfodiad Aulus Plaudius drosodd yn nyddiau Claudius, a'r frwydr a ddygwyddai rhwng Buddug a Suetonius Paulinus. Awgryma hefyd i lwyddiant cyffredinol gymeryd lle o du yr efengyl yn nyddiau yr apostolion, ac yn ddilynol i dueddiadau cyfeillgar a haelfrydig yr ymherawdwr Tiberius Cesar; yn ystod teyrnasiad yr hwn y goddefid i grefydd Crist gael ei lledanu yn ddiwrthwynebiad. Ac y mae y syniadau hyn o'r eiddom, gyda golwg ar eiriau Gildas, yn hollol gyd-daro â golygiadau Esgob Stillingfleet yn eu cylch, i ba rai y talasai yr ysgrifenydd dysgedig hwnw y sylw manylaf. Yr oedd Gildas yn ysgrifenu rywbryd tua chanol y chweched ganrif. Crybwyllwyd eisoes mai efe oedd y cyntaf o'n haneswyr. "O'r holl ddysgedigion," medd y Parch. T. Price, yn ei "Hanes Cymru," tudal. 366, "a hanfodasant ymhlith ein cenedl yn y

[1] "*Gildas Historia*:" adran viii. *Stevenson*.

cynoesoedd, nid oes llafurwaith un hanesydd wedi disgyn atom, oddieithr Gildas, ac yntau a draddoda i ni mor lleied o amgylchiadau ei oes, a gwna ei waith nemawr i ni, oddieithr ychwanegu ein galar nad oes genym gyflawnach ysgrifenydd." Ychydig a wyddom am helyntion ei fywyd, heblaw mai mynach ydoedd, fel y dywedir, o gôr Cattwg; a thebygol ydyw iddo, yn niwedd ei einioes, fyned drosodd i Lydaw, lle y bu farw, ac y claddwyd ef. Ond nid oes a fynom, ar hyn o bryd, ond â'i dystiolaeth ynghylch dyfodiad Cristionogaeth i Ynys Prydain, yr hon dystiolaeth a ddygid ganddo, y mae yn ddiddadl genym, yn unol â'r grediniaeth gyffredinol a goleddid gan Gristionogion Prydain yn y chweched ganrif, gyda golwg ar yr amgylchiad.

Ymddengys fod y tystiolaethau a ddodwyd ger bron genym, yn y tudalenau blaenorol, yn profi tuhwnt i bob dadl, i'r efengyl weithio ei ffordd i'r ynys hon rywbryd o fewn terfynau yr oes apostolaidd. Braidd nad allem gasglu hyny, hyd yn nod oddiwrth dystiolaeth Tertullian. Am Eusebius a Theodoret, y maent hwy yn cadarnhau y peth yn y modd egluraf, tra mae Gildas drachefn yn myned ymhellach, ac yn nodi allan y cyfnod neillduol pan gymerai hyny le. Defnyddiai ymadroddion ag ydynt yn ein harwain i gredu ddarfod i Gristionogaeth gael ei dwyn i mewn dan deyrnasiad Nero, rywbryd oddeutu, neu yn hytrach cyn amser gwrthryfel Boadicea, yr hyn a ddygwyddai yn y flwyddyn 61 o oed Crist.

Y mae yn eglur, gan hyny, fod yr hyn a ddywed y "Brut," a rhai hen hanesion eraill—sef, mai yn amser y Brenin Lles ap Coel, yr hwn hefyd a elwir, Lleurwg, a Lleufer Mawr, y pregethwyd yr efengyl yma gyntaf—yn llwyr gyfeiliornus ac annheilwng o grediniaeth. Nis gellir ammheu na bu llwyddiant lled helaeth ar grefydd yn nyddiau y brenin hwnw. Ond prin y gallwn gredu ei fod mor wyrthiol o fawr ag y mynega rhai ei fod. Y mae yr ysgrifenydd bywiog, ffraethlym hwnw, er anghraifft, G. Ap Arthur, neu Sieffre o Fynwy, fel yr arferir ei alw ef weithiau, ar ol crybwyll am waith y Pab Eleutherius yn anfon Ffagan a Dwyfan drosodd yma, yn unol â chais Lles Ap Coel, yn myned rhagddo i fynegu ddarfod i'r brenin hwnw dderbyn bedydd Cristionogol, ac i'r holl deyrnas ddilyn ei esiampl. Sylwa hefyd fod llwyddiant y cenadon hyny y fath, fel ag y darfu iddynt orchfygu a dinystrio Paganiaeth drwy yr ynys oll, cymeryd meddiant o'r temlau paganaidd, eu cysegru i wasanaeth Duw, a'u llenwi â chynnulleidfaoedd Cristionogol. Mynega ymhellach, iddynt gael yn yr ynys wyth ar hugain o offeiriaid, a thri o archoffeiriaid; y rhai, ar ol eu tröedigaeth, a dderbyniasant urddau eglwysig, ac a grëwyd ganddynt yn esgobion ac archesgobion. Nis gallwn ystyried fod y cyfan o'r haeriadau hyn yn seiliedig ar wirionedd. Eto nid yw yr holl hanes i'w ddiystyru a'i droi o'r neilldu, megys y gwnaed gan rai. Yn ei "Hanes Cymru;" tudal. 166, sylwa y Parch. T. Price fel y canlyn:—"Am hanfodiad y Brenin Lles ap Coel, nid oes achos idd ei ammheu, canys dangoswyd eisoes fod y cyfryw benaethiaid yn cael aros mewn meddiant o'u hawdurdod yn amser y Rhufeiniaid. Ac er nad yn ei amser ef y dygpwyd Cristionogaeth i mewn, eto dichonadwy yw fod rhyw sail i'r haeriad ynghylch y tröedigaeth cyffredinol yn ei amser, yn gystal a'i haelioni i'r eglwys." A chyda y nodiadau pwrpasol hyn o eiddo hanesydd Cymru, y gwnawn derfynu yr ysgrif bresenol, gan adael y ddau fater arall hyd y rhifyn nesaf o'r "Traethodydd."

ATHRYLITH A GWEITHIAU MR. ROBERT DAVIES, NANTGLYN.

GWALL sydd yn perthyn i amryw o awdwyr Cymreig yw cyfansoddi ar ormod o frys, a chymeryd rhy ychydig o amser i ddiwygio eu gweithiau a'u coethi. Mae rhai mor wirion a meddwl fod cyflymder mewn cyfansoddi o fwy o bwys nag ansawdd y peth a gyfansoddir. Y maent yn anghofio mai y fresychen, ac nid y dderwen, sydd yn tyfu gyflymaf. Ni fyddai raid i neb fod ar frys mawr wrth gyfansoddi, yn yr oes hon; canys y mae digon o lyfrau da a drwg ar gael eisoes. Nid oes, pa fodd bynag, unrhyw alwad neillduol am ychwaneg o'r diweddaf. Gallwn aros yn ddigon hawdd wrth awdwr fel y caffo amser i wneyd y peth goreu a fedro. Nid rhyw waith diwrnod neu ddau oedd y "Coll Gwynfa," neu "Hamlet," neu unrhyw beth yn Seisneg na Chymraeg yr anfoddlonir iddo farw a chael ei anghofio.

Meddai un fenyw y digywilydd-dra i ddyweyd iddi allu cyfieithu awdl o Horace tra y bu yn trwsio ei gwallt.[1] Ymddengys fod enwogion gynt yn cymeryd trafferth fawr gyda'u gweithiau cyn eu gollwng i'r byd. Cymerai Rousseau lafur mawr gyda'i ysgrifau cyn eu cyhoeddi; dywedir fod ei ddiwygiadau yn ei ysgrifau yn lliosocach na'r eiddo Alexander Pope. Mynega Dr. Johnson fod ol diwygiadau lliosog ar weithiau Milton. Ni chredai neb byth, meddai un awdwr, y drafferth ddirfawr gymerodd Pope gyda'i gyfieithiad o Homer. Yr oedd gan Bembo ysgrif-fwrdd â deugain o raniadau ynddo, drwy y rhai yr oedd ei ganiadau yn myned, y naill ar ol y llall, ar amser penodol; a derbynient ryw gyfnewidiad bob tro y newidient eu lleoedd. Dywed Joseph Warton, yn ei draethawd ar Pope, fod Waller wedi cymeryd y rhan fwyaf o un haf i gyfansoddi cân o ddeg pennill. Dywed Warton hefyd, fod ysgrifau Voiture, Sarassin, a La Fontaine, wedi costio iddynt lafur dirfawr. Galwai Buffon athrylith yn amynedd. Ysgrifenodd Shakspeare ei "*Merry Wives of Windsor*," a'i "*Hamlet*," drosodd ddwywaith. Byddai Dryden yn diwygio ei waith yn fanwl, pan na fyddai yn ysgrifenu ar frys er mwyn cael tamaid o fara. Cymerodd un ganiad i Boileau, yr hon nad ydyw ond tri chant a chwech a deugain o linellau o hyd, un mis ar ddeg i'w chyfansoddi, a thair blynedd i'w diwygio! Yr oedd deng mlynedd wedi myned heibio rhwng y cynllun byr cyntaf o'r "*Traveller*," gan Goldsmith, a'i gyhoeddiad; ac fe'i hadysgrifenwyd yn y cyfamser ddwy neu dair gwaith drosodd. Dywed Esgob Perry nad oedd prin linell yn ngweithiau barddonol Goldsmith fel yr ysgrifenwyd hwy yn wreiddiol. Cyfansoddwyd cofiant Gibbon naw gwaith. Attaliai Addison y wasg, pan fyddai argraffiad cyflawn o'r "*Spectator*" agos wedi cael ei weithio allan, er cael dodi arddodiad neu gysylltiad i fewn o'r newydd. Diwygiodd Dr. Johnson bob argraffiad newydd o'r "*Rambler*." Yr oedd Akenside, Cowper, Moore, a Byron, yn ofalus iawn pa beth a ollyngent o'u dwylaw. Dywedir y byddai Horace yn cynghori beirdd i gadw eu gweithiau heb eu cyhoeddi am naw mlynedd. Cyfaddefai Beattie

[1] "*Chambers' Edinburgh Journal.*"

wrth Syr William Forbes, ei fod ef yn ystyried yn briodol gadael y darnau a gyfansoddai yn ei ymyl am beth amser; oblegid ei fod ef yn well beirniad ar ei waith ar ol ei anghofio, na phan fyddai yn newydd ar ei feddwl. Yr ydym wedi bod yn sylwi, gyda gofid, lawer gwaith, fod ol gormod o frys ar gyfansoddiadau rhai o'n beirdd goreu yn Nghymru; a'u bod yn ymddiried gormod yn yr enw a'r clod a gawsent gan eu cydwladwyr, heb gofio fod oesau dyfodol i sefyll uwch ben eu cynnyrchion. Un o brif ddiffygion Mr. Robert Davies, fel cyfansoddwr, oedd gollwng pethau yn rhy rwydd drwy ei ddwylaw, heb goethi digon arnynt, megys yr ymdrechwn ddangos yn yr ysgrif hon; a dyna brif fai Dewi Wyn.

Ganwyd Robert Davies yn yr Henfryn, tyddyn bychan ger Nantglyn, swydd Dinbych, yn y flwyddyn 1769. Ni chredai neb y gwaith a gawsom i gael ychydig o hanes ei gychwyniad allan i'r byd, yr hyn sydd yn wers i bob dyn cyhoeddus i ofalu am ddodi ei hanes ei hun ar glawr; canys ymddengys nad aeth ef i nemawr drafferth gyda hanes ei fywyd. Enw ei dad ydoedd Dafydd Davies: a Robert ydoedd y mab hynaf a feddai: yr oedd ei dad yn rhyw fath o brydydd. Bu iddo dri o feibion ac un ferch; ac ymddengys iddo ymadael â'r Henfryn, ac adeiladu tŷ ar y tir cyffredin, yn y lle a elwir Waen Nantglyn; ond bu farw yn fuan ar ol gorphen y tŷ; a gadawyd ei weddw a'i blant yn amddifaid mewn amgylchiadau lled isel. O herwydd nad oedd Robert yn fachgen iach a chryf, cymerodd y cymydogion ofal am dano, a rhwymasant ef yn brentis o ddilledydd gydag un Hugh Morris, yr hwn fyddai yn arferol a gweithio ar hyd y tai, megys y mae yn arferiad mewn rhai o barthau Cymru hyd y dydd hwn. O ychydig i ychydig daeth y dawn prydyddol oedd yn Robert Davies i'r golwg, a chyfansoddai rigymau doniol i hwn a'r llall ar amryw achlysuron, yn enwedig os digwyddai rhyw dro trwstan yn y gymydogaeth. Yr oedd prydydd o fri mawr yn y dyddiau hyny: efe oedd ceryddwr y bobl, a'u dysgyblwr am bob anfoes. Dychrynai rhagddo fel rhag dewin; ac ofnid ei geryddon yn fwy na [illegible], neu felldithion gwrach y rhibyn. Nid oedd pregethu yr efengyl wedi dyfod i gario cymaint o ddylanwad cyffredinol yn Nghymru y dyddiau hyny ag y mae yn bresennol; ac nid oedd yn yr Eglwys Wladol ond pob marweidd-dra a difaterwch. Nid ydoedd y bobl yn prisio nemawr mwy mewn dim a ddywedai yr offeiriaid nag oeddynt yn prisio yn y [illegible] ar ben y clochdŷ. Yn llaw y prydydd yr oedd y dylanwad yn mhob cymydogaeth: ac ofnid ef yn fwy nag yr ofnid Duw. Cafodd Robert Davies fantais fawr i ddyfod i sylw; ond taliad go salw a gai prydydd y pryd hwnw am ei drafferth. Nid mewn arian, ond mewn diod frag y byddai yn cael ei gydnabod am ei lafur yn y dyddiau hyny. Yr oedd tuedd ddrwg yn hyn oll. Yr oedd y prydydd yn cael ei gyrchu gyda'i orchwyl i ennill ei fara beunyddiol; ac yr oedd yn cael ei ddwyn i [illegible], ac i eistedd yn nghymdeithas oferddynion halogedig. Darostyngwyd hyn y ddawn farddonol yn meddyliau llaweroedd, yn enwedig o'r rhai a gyffroid drwy weinidogaeth yr efengyl yn y dyddiau hyny; a chafodd pob bardd ei gadw o'r neilldu am flynyddau, ac edrychid arno gyda chryn amheuaeth yn mysg proffeswyr crefydd. Byddai Robert Davies, wrth fyned ar hyd y tai, yn hoff iawn o rigymu i bob peth; gorfyddai i'r bobl a wahoddai ei feistr ac yntau atynt i weithio edrych ati, ac onide, byddent yn destun cân yn uniongyrchol, nes yr aeth o'r diwedd yn gas gan bobl ei weled yn dyfod atynt. Ar ol gorphen ei amser gyda

Hugh Morris, aeth at un Dafydd Pierce, Llansannan; ond yr oedd yr ysfa brydyddol oedd ynddo yn tori allan mor fynych ac angerddol ar bob achlysur, fel y gorfu iddo ymadael âg ef. Ni ddilynodd lawer ar ei gelfyddyd ar ol hyny; ond troes yn gwbl at farddoniaeth, yr hyn oedd yn fwy cydweddol â'i chwaeth. Aeth son am dano ymhell ac yn agos fel prydydd; a chyrchai llawer ato er cael ganddo brydyddu iddynt. Cyfansoddai garolau, a cherddi i ofyn rhoddion a chymwynasau, dros ei gymydogion ac eraill. Derbyniai y gydnabyddiaeth arianol erbyn hyn, a llawnder o ddiod a chiod am ei lafur. Ni chyhoeddodd nemawr o waith o'r natur yma yn ei gasgliadau; canys yr oeddynt, lawer o honynt, yn lled annirwd, a gwallus o ran iaith a syniadau. Cyfansoddodd interliwd, ond ni lwyddodd yn y gangen hon yn debyg i Thomas Edwards, a'i gyfoedion. Nid oes hanes iddo gael diwrnod o ysgol erioed; ac wrth ystyried ei anfanteision boreuol, yr oedd yn syndod iddo gyrhaedd i'r fath enwogrwydd fel ieithydd a bardd.

Drwy ryw amgylchiadau anhysbys i ni, ymunodd â'r Trefnyddion, yn addoldŷ y Waen, a phriododd wraig weddw, merch i Edward Parry, o Dan y Fron, Llansannan, pregethwr gyda'r Methodistiaid, yr hon oedd y pryd hwnw yn cadw un o'r ysgolion rhad y golygai Mr. Charles drostynt; ond y mae yn debygol fod dysgyblaeth yr enwad hwnw, ar y pryd, yn rhy lem ganddo. Gadawodd hwynt yn fuan, a throdd yn erlidus yn eu herbyn byth wedi hyny. Bu iddo bedair o ferched, y rhai ydynt oll yn fyw, y rhai a gawsant swm o arian ar ei ol. Yr oedd efe yn ddysgybl hoff gan Thomas Edwards, megys yr ymddengys oddiwrth amryw Ganiadau; a rhagorai yn fuan gymaint ar ei athraw, mewn trefn a chywirdeb iaith, ag y rhagorai ei athraw arno yntau mewn athrylith. Dywedir yn y "*Biographical Sketches*," gan Williams, i Robert Davies symud i Lundain yn y flwyddyn 1800, ac iddo ddyfod yn gydnabyddus â noddwyr llênyddiaeth Gymreig, y rhai oeddynt yn perthyn i Gymdeithas y Gwyneddigion, a'i fod ef yn fardd i'r gymdeithas hono fwy nag unwaith. Parodd afiechyd ei deulu iddo symud o'r brifddinas yn mhen pedair blynedd; a daeth i Nantglyn, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth. Bu Owain Myfyr yn dirion wrtho yn yr amgylchiad hwnw. Ni wnaeth mynediad Robert Davies i Lundain fawr o ddaioni iddo ef, mwy nag i lawer dyn ieuanc a aeth yno ar ei ol, yn ei gysylltiad â'r Cymreigyddion. Gallasid meddwl, wrth glywed son am y Cymreigyddion, fod yn Llundain ryw golofnau cedyrn o blaid y Gymraeg; ac fod yno weithredoedd nerthol yn cael eu cyflawni o du llênyddiaeth; fod urddas Milton, hyfrydwch per athrylith Goldsmith, cadernid Dryden, pwynt a dichlynder Pope, syniadau pwysig Johnson, purdeb a choethder Addison, yn cael eu taflu i'r cysgod yn lân gan yr enwogion a ymgyfarfyddent i siarad Cymraeg yn ninas Llundain; a bu meddwl am ardderchogrwydd y gymdeithas, lle yr ydid cynnifer o *lionc* destunau, yn hudoliaeth i lawer bachgenyn diniwed a difeddwl fyned i'w plith, gan dybied ei fod, drwy hyny, yn cyrhaedd yr orsaf uchaf ar gopa Parnassus; ond troes allan yn siomedigaeth fawr i laweroedd. Byddai rhoi darluniad o'r ysgrud (*skeleton*) a welsom ni, dan enw Cymreigyddion, ychydig flyneddau yn ol, yn ddigon i beri i'r deallus chwerthin nes codi poen yn ei ystlysau. Yr ydym yn clywed fod hyny o weddillion gwasgaredig sydd wedi aros wrth eu gilydd o'r sefydliad a fu yn bwrw ei ewyn ar hyd ein cyhoeddiadau Cymreig, o flwyddyn i flwyddyn, yn meddu yr aidd o gadw pethau megys

ag yr oeddynt, ond fod y cwbl yn troi yn ffaeledigaeth. Y mae eu hymroddiad o du * * * pa fodd bynag, mor aiddgar ag erioed.

Cyhoeddodd Robert Davies gyfrol fechan o'i waith barddonol yn y flwyddyn 1798. Cyhoeddodd lyfryn barddonol arall cyn gadael Llundain, tua'r flwyddyn 1803. Nid ydym yn cofio pa flwyddyn y daeth ei argraffiad cyntaf o'i Ramadeg allan. Y "Diliau Barddas," y mae yn debyg, oedd y peth diweddaf a ddaeth o'i law, yn y flwyddyn 1827. Bu ein bardd farw Rhagfyr 1af, 1835.

Gan y dysgwylir mewn ysgrif fel hyn fwy o ddarluniad o'r dyn a'i athrylith, nag o amgylchiadau neillduol ei fywyd, hyderwn y bydd y talfyriad a roisom yn foddhaol gan ein darllenwyr. Ein dyben wrth chwilio i gychwyniad dyn, a'i ddyfodiad graddol ymlaen yw, nid er ei waradwyddo, nac er boddhau chwaeth heintiol ffugrodreswyr cenfigenllyd sydd yn cael mwy o hyfrydwch wrth chwilio i achau dynion cyhoeddus, a gwneyd y gymwynas o ddwyn ar gof iddynt hwy ac eraill pa beth a fuont, nag a gânt o destun llawenydd wrth eu gweled yn myned rhagddynt, gan adael eu cyfoedion gan' milltir ar ol yn yr anhynodrwydd a'r cysgodion sydd yn gweddu iddynt; ond er dangos fel y gweithia athrylith ei ffordd drwy bob anhawsder. Yr oedd Dysgawdwr mewn Duwinyddiaeth (D. D.) unwaith, yr hwn a ddygasid i fyny ar y cyntaf yn löwr, yn mhen blyneddau wedi iddo adael y "*mandrel,*" ac eistedd yn nghader athraw, yn sefyll uwchben pwll glo, gan edrych i lawr. Cyfaill iddo, yr hwn oedd gerllaw, a ofynai beth oedd ef yn ei wneyd. "Edrych yr wyf," ebe yntau, "ar bellder y ffordd, a hyd y gadwyn, sydd o waelod y pwll yma i gader yr athraw yn ——." Nid anmhriodol, y mae yn wir, yw i ddyn gadw golwg ar "y graig y naddwyd ef o honi, ac ar geudod y ffos y cloddiwyd ef o honi;" ond nid ydyw pethau fel hyn i gael eu cadw ger ei fron yn dragywydd wedi iddo ddyfod i lenwi cylch mwy ac uwch, a hyny gan rai yr oedd efe yn gydnabyddus â hwynt yn nyddiau maboed ac ieuenctid, ond sydd nyd yma heb allu codi yn uwch na "cheudod y ffos." Ystyriem hyn yn radd o hyfder gormodol, ac yn drosedd ar reolau moesau da, ac nid oes ond ffŵl a sonia am y fath beth. Ni waeth pa beth a fu dyn; ac nid oes achos holi nac ymofyn pa beth a fu efe, os na fyddir drwy hyny am gymeryd mantais i ddangos fel y gall athrylith weithio i sylw drwy bob rhwystr; ond pa beth yw efe yn bresennol yw y pwnc. Y mae R. Davies wedi ei anfarwoli mewn cylch arall erbyn hyn sydd yn anfeidrol fwy ac uwch na chylch y gwnïadur; tra y mae lluoedd o foneddigion y nodwydd ddur, a gydoesent âg ef, ac eraill a godasant ar ei ol ef, wedi eu hebargofi hyd yn nod yn y cymydogaethau y ganwyd hwynt, o ran dim cyhoeddus a wnaethant erioed. Clywsom fod rhywrai o feirdd Arfon yn edliw ei grefft i Robert Davies tuag amser Eisteddfod Dinbych; ond dylasent gofio mai nid fel dilledydd, ond fel ieithydd a bardd yr oedd efe yn gweithredu y pryd hwnw.

Y mae "Gramadeg" Robert Davies wedi bod yn gymeradwy yn hir yn Nghymru; ond gan mai egluro deddfau oedd yn bod eisoes yr oedd efe, nid ydyw yn teilyngu clod ond cȁn belled ag yr oedd ei egluriadau ef yn cyrhaedd. O'n rhan ein hunain, gallwn fynegu yn rhwydd i ni gael llawer o addysg yn "Ieithadur" y bardd; ond teimlem bob amser fod rhyw bethau ar ol ynddo. Y mae yn anhawdd cael eglurhad gwell ar ranau ymadrodd a chystrawiaeth nag sydd ynddo; ond nid ydyw yr awdwr yn disgyn yn

ddigon isel at yr anwybodus, gan ei dywys gerfydd ei law. Go ychydig o gyfarwyddiadau at gyfansoddi sydd ynddo, ac ystyried pob peth. Nid ydyw efe wedi myned fawr o'r llwybr cyffredin. Y mae efe yn dyweyd fel y clywodd bob un yn dyweyd o'i flaen, heb gynnyg un llwybr i oleuo mwy ar ddeall yr efrydydd gyda golwg ar gyfansoddiad. Ar y cyfan, y mae yn llyfr da; ac y mae y rheolau barddoniaeth sydd ynddo yn eglur ac yn ddealladwy; ond gan mai fel bardd y mae a wnelom ni yn fwyaf ag ef, gadawn ei "Ieithadur" yn bresennol. Nid allwn restru Robert Davies yn y cylch barddonol yn ymyl Dewi Wyn. Nid oes llawer o eangder, nac uwchder, na dyfnder, yn ei waith; ond y mae rhanau gwahanol ei athrylith yn fwy cyfartal. Nid ydyw yn creu mellt nac yn peri daeargryn; nid ydyw yn ein cipio i ardaloedd y corwynt, nac yn ein synu uwch ben dyfnderoedd y rhyferthwy. Bardd agos atom ydyw yn feunyddiol, heb ymwisgo â chwmwl, nac ehedeg ond ychydig yn mröydd nwyfre. Y mae llawer o ddelw yr hen feirdd arno. Y mae yn cyfansoddi yn bert ac yn darawiadol. Y mae llawer o deimlad yn rhedeg drwy ei ganiadau rhyddion, a llawer o ergydion synwyrlym yn ei ganiadau caethion; ond y mae yn gwneyd gormod o ddefnydd o eiriau llanw er cyrhaedd cynghanedd. Nid ydym yn gwybod i ni weled cynnifer yn ngwaith neb, a olygir yn fardd o'r radd uchaf, ar lawer o gyfrifon, ag a welsom ganddo ef Nid ydyw yn unrhyw syndod canfod pethau o'r fath yn nghyfansoddiadau rhai nad oes ynddynt ddim i'w hynodi o ran meddyliau: ond y maent yn hollol anfaddeuadwy yn ngwaith beirniad ac athraw fu ar y maes cyhyd fel gwr o enwogrwydd uwchlaw y cyffredin. Yr oedd efe ar ei darawiad cyntaf trwy y wasg yn cyfansoddi yn gryfach ac yn goethach nag ydoedd ddeng mlynedd ar hugain ar ol hyny. Yr oedd ei awen yn fwy dilwgr y pryd hwnw, a'i feddwl yn fywiocach; ni wnaeth cyfeillachu cymaint â beirdd oedd yn offeiriaid, a'r rhai hyny heb fod yn byw yn oes y Gymdeithas Lwyrymattaliol, ond mawr niwed i'w feddwl ac i'w chwaeth. Nid ydoedd efe yn ei ddyddiau goreu yn meddu golygiadau eang; ond yn nghymdeithas y rhai a ddilynai, aeth yn fwy crebachlyd nag erioed. Yr oedd efe ar y cyntaf yn ddyn o synwyr cryf, a'i olygiadau yn graff ac yn afaelgar; ond ymhell cyn diwedd ei oes yr oedd ei dymher wedi chwerwi, a'i gyfeillach wedi myned yn hollol ddiwerth. Yr oedd efe agos yn ddigon gwirion i feddwl nad oedd gan neb hawl i gyffwrdd â'r iaith a'i barddoniaeth, yn enwedig i ysgrifenu Gramadeg ynddi, ond efe ei hun. Nid oedd fawr o duedd meithrin beirdd ieuainc ynddo. Buasai yn well ganddo roddi hergwd i un o honynt nes y buasai yn cilio yn ei ol, na rhoi unrhyw gynnorthwy iddo fyned rhagddo. Ond os dygwyddai y cyfryw un fod yn lledu ei babell dan yr ywen, ac yn hoff o dŷ'n y fynwent, yr oedd digon o swyn yn hyny i leddfu tipyn ar ei ysbryd gydag ymgeiswyr ieuainc. Tynai y son am fedrusrwydd rhywun tuallan i gylch ei gymeradwyaeth ef ffrwd o ddifriaeth oddiwrtho fuasai yn ddigon i'w andwyo am byth, pe ei farn ef fuasai safon yr oes; ond yr oedd dynion i'w cael yma ac acw, hyd yn nod yn ei amser ef, y rhai ni oddefent i farn Robert Davies, o Nantglyn, fyned ond am yr hyn ydoedd o wir werth.

Y gwir yw, ni fu nemawr o lun dyn arno ar ol Eisteddfod Dinbych, yn yr hon y barnodd awdl druenus y Dryw yn well nag awdl Dewi Wyn. Collodd y wlad ei hymddiried ynddo i raddau mawr; a chymerodd yntau y dosbarth offeiriadol yn gyfeillion o hyny allan. Treuliodd y rhan fwyaf

o'i amser "o blas gŵr da bwy gilydd," ac ar hyd tai cyhoeddus. Byddai yn myned i farchnad Dinbych mor ddigoll, bob wythnos, os byddai gartref, a phe buasai ganddo bum iau o ychain i'w gwerthu bob tro.

Teimlodd Dewi Wyn a'i gyfeillion roddiad y wobr i'r Dryw yn siomedigaeth aruthrol; megys y teimlir y peth hyd y dydd hwn. Yr oedd y cam a wnaed yn gam goleu; oblegid nid ydoedd awdl y Dryw yn deilwng o gael ei dodi ar yr un bwrdd ag awdl Dewi. Dylasai gael ei hwtio o'r gystadleuaeth gyda dirmyg. Nid oes ynddi na chynghanedd, nac iaith, na meddwl, cymhwys i'w gosod mewn ymrysonfa. Saif yn warth ar goffadwriaeth Robert Davies a'i gydfeirniaid yn mheu mil o oesau. Os oedd efe yn ormod o bleidiwr i wŷr yr "amgrysau" a'r "diogwyr" i dderbyn syniadau Dewi ynghylch yr egwyddorion sydd erbyn heddyw yn cael eu pregethu ar benau tai, dylasai attal y wobr yn gwbl, gan roi cyfleusdra i'r ymgeiswyr ail gynnyg ar ol i'r beirniaid fynegu eu hanghymeradwyaeth; neu, buasai yn well i'r Gwyneddigion werthu y tlws darparedig, fel hen arian, a pheidio a son byth am y pwnc, na rhoi y wobr a berthynai mor gyflawn i Dewi am y fath rimyn dienaid a dirmygedig ag yw awdl y Dryw. Er nad allwn, megys y mynegasom o'r blaen, gymeradwyo llawer o bethau yn awdl Dewi Wyn, ac nad ydym yn ei olygu ef yn berffaith, mwy na rhyw ddyn arall, nac yn golygu ei awdl yn gyfanwaith teg ar y fath destun godidog, eto gallwn bigo mewn pedair llinell o honi fwy o wir farddoniaeth ar y testun nag sydd yn holl rigwm truenus y Dryw! Nid ydym yn golygu ein hunain wrth son am dani ond fel rhai yn ergydio ar gelain; ond eto yr ydym yn rhwym o gyfeirio at amgylchiadau Eisteddfod fythgofiadwy Dinbych, yn 1819, gan fod gwrthddrych ein sylw wedi ei gydwau mor lwyr â hi, ac yn weithredydd penaf yn y feirniadaeth, fel y byddo yn esiampl i'r oes hon, ac i'r oesau a ddeuant, o'r pwys mawr o weinyddu cyfiawnder yn mhob cystadleuaeth. Clywsom rai yn chwyrnu, braidd, ar ol pob Eisteddfod a gynnaliwyd wedi hyny; ond methwyd a dangos i gamwri cyffelyb gael ei wneyd byth yn un man. Nid ydyw clywed dynion siolwag fydd wedi barnu eu gwaith eu hunain yn oreu cyn gweled gwaith neb arall ar y testun, ac fydd wedi cymeryd trafferth fawr arnynt eu hunain i geisio darbwyllo y pwyllgor, cyn yr eisteddfod, mai naill ai anwybodaeth y beirniad, neu fympwy ynddo, a ettyl iddynt hwy gael yr anrhydedd o ennill, yn un rhyfeddod. Ychydig iawn o'r grwgnachwyr a'r tuchanwyr sydd yn meddu y gwrolfrydigrwydd i ddyfod drwy y wasg, gan nad faint o fedrusrwydd a briodolant iddynt eu hunain yn y dyddiau hyn; ond, ar ol Eisteddfod Dinbych, yr oedd anfoddlonrwydd y wlad yn rhuthro fel llosgwy difaol ar hyd pob cymydogaeth drwy Gymru oll. Ni wneir, yn bresennol, ond chwerthin am ben dyn fyddo yn dyweyd ei fod yn cael cam, am y gwyddis mai tra anfynych, yn gymhariaethol, y gwneir cam â neb; ond y pryd hwnw yr oedd y wlad oll fel pe buasai wedi cydgyfodi yn erbyn camwri Eisteddfod Dinbych. Edrychid ar y sefydliad, am yr hawg wedi hyny, fel cyfleusdra i godi offeiriaid dinod, fuasent yn marw heb i neb ond ychydig gymydogion wybod eu bod wedi byw erioed, i sylw; ac nad oedd wiw i unrhyw anghydffurfiwr ymgais am dlws. Ac ni chreuasid ail hyder yn y wlad byth, oni buasai i Robert Davies gael ei fwrw o'r neilldu am amser fel llestr heb hoffder ynddo, ac i'r hybarch Walter Davies gael ei ddewis yn feirniad yn ei le. Ystyrid gwaith Gwallter Mechain yn ymaflyd yn y dafol, yn Eisteddfod Gwrecsam, fel cyfnod newydd ar ein

gwlad, ac ar ein barddoniaeth ; ac nid ydym yn gwybod i ddim ammheuaeth gael ei choleddu o berthynas i'w farn, ar ddim o bwys, wedi iddo ddyfod at y llyw. Gwnaeth ef fwy, yn ddiammhau, at feithrin beirdd ieuainc mewn barn a chwaeth, nag a wnaeth ei holl gyfoedion gyda eu gilydd.

Ceisiai Robert Davies chwerthin camwri Eisteddfod Dinbych ymaith ; ond yr oedd yn amlwg ei fod ef yn teimlo o herwydd yr amryfusedd ar hyd ei oes ; ac, yn wir, nid allai beidio amlygu ei deimladau. Peth pwysig yw i ddyn dynu y rhan fwyaf oleuedig o wlad am ei ben. Pe byddai yn ddyn o haiarn nid allai lai na theimlo, yn enwedig os byddai ynddo ymwybodolrwydd nad ydyw ar yr iawn. Wrth i Robert Davies gael ei hir boeni, ceisiai droi y llif yn ei ol gyda 'r englynion hyn :—

"Pa ryw sil sy'n preswylio—min Arfon ?
Mae'n oerfel eu gwrando ;
Beirdd trwst tribandrwst bendro,
Nid beirdd braint cymaint o'u co'.

Eu swydd er's mwy na blwyddyn,—bâr ddewis
Bardduo fy nghoryn ;
A'n Baal i'w roi ar bolyn,
A'u duw aur yw Dewi Wyn.

Galwant fi yn gi ac yn gas—yn ddyn dwl
Heb ddawn "Diliau Barddas,"
Yn gler gwlad—pob enwad bas,
Crach eferddyn crych f' urddas.

Ond fi sydd iach mor ddigrachen,—difai,
A Dafydd o'r Gaerwen,
Wyf ddi-ddig, ddi genfigen,
Gall fy mhwyll a gwell fy mhen.

Bog y lol â'i big i lawr—fel saeth
Fol sythawg eu blaenawr,
Gwyddan gorniog egwyddawr
Dyma hi, sef y V fawr.

Nododd ei waith a'i newidio—hir les
Fo yr elusen iddo,
Gall altro pan fyno fo,
Neud at a'i newid eto.

Arall fu anghall fe wys—o Eifion
Efo 'i delyn "wythfys,"
Y delyn genir, dilys,
A dwy fawd a thri dan fys.

Ai nid eithaf tri nod wythawd—deru
O doraeth ei cheudawd ?
Fe deru hon wiwlon wawd
Bem eithaf o bum wythawd."

Nid oes fawr o ddim yn yr englynion hyn heblaw amlygiad o ansawdd ysbryd Robert Davies ar y pryd ; sef, dangos fod dywediadau beirdd Arfon yn ei ddolurio. Anffawd dost a fu Eisteddfod Dinbych.

Y mae y "Diliau Barddas," sef y gwaith diweddaf a gyhoeddodd y bardd, yn cynnwys, y mae yn debyg, yr holl waith a chwennychai efe fod ar gael dan ei enw ; gan hyny yn y gwaith hwnw yr ymaflwn er bwrw golwg drosto. Y mae efe yn dechreu y llyfr gydag awdl i Dduw. Nid ellir dyweyd fawr yn ei chylch, heblaw ei bod yn ddynwarediad glew o ddull yr hen feirdd. Gan nad oes enw wrthi, yr ydym yn cymeryd yn ganiataol mai efe yw ei hawdwr. Dilynir hon âg englyn ar *Mat.* xvii. 5, sef, "Hwn yw fy anwyl Fab." Y cwbl a allwn ni fynegu yw fod yn well genym yr adnod na'r englyn. Yna cawn "Awdl ar y pedwar mesur ar hugain o amryw ditlau neu enwau ysgrythyrol ein Harglwydd Iesu Grist." Y mae yn amlwg nad oedd gan yr awdwr ddim mewn golwg yn yr awdl hon ond cywreinrwydd y gynghanedd. Y mae efe wedi dilyn yr enwau yn ol llythyrenau yr egwyddor, gan gymeryd trafferth fawr, yn ddiammhau, i gael gan bethau ateb i'w gilydd. Meddyliem mai un o gampau ei ieuenctid yw yr awdl hon. Yn nesaf i'r awdl yma daw "Awdl ar farwolaeth ein diweddar frenin, Sior y Trydydd." Ar ol bod dan law y beirniad, a'r athraw dyfnddoeth, Walter Mechain, ni ddysgwylir i ni fynegu llawer yn ei chylch ; ond, fe allai, y goddefir i ni gymeryd ein rhyddid, a dyweyd ein meddyliau am dani. Rhaid i ni addef ein bod wedi cyfnewid cryn lawer yn ein golygiadau arni er pan glywsom hi yn cael ei darllen yn

Eisteddfod Gwrecsam, yn 1820. Meddyliem y pryd hwnw na chlywsem ddim tebyg iddi erioed; ac na chaem glywed byth ddim a ragorai arni; ond nid ydyw yn gwbl fel y tybiem yn moreu ein hoes. Y mae ynddi lawer o linellau tarawiadol, ac y mae yn cynnwys hanes marwolaethau y teulu breninol yn lled fanwl; ond yn ein tyb ni y mae yn mawrhau gormod ar Sior III. Y mae yn dyweyd—

"Sior Drydydd eilfydd i'w oes—ni chafwyd,
Na chyfuwch Deyrn eirioes;
Na'i dirionach drwy einioes,
Na gallu mwy, na gwell moes."

* * * * *

"Y goreu ydoedd o'r goreuadon,
Gorau rheolwr o'r gwir wyr haelion,
Gorau amynedd o'r gwiw rai mwynion,
Gorau gwr ystig, ac y gwir Gristion
Gorau, a gorau Gwron—a wisgodd,
Neu erioed a gariodd euraid goron."

* * * * *

"Duw Ion a'i rhoddes dano—bu'n enwog,
Ben anwyl i'n llywio,
Ef un modd a'i daliodd, do,
Ac oes hir i'n cysuro."

Yr oedd y bardd dros ei ben yn athrawiaeth yr hawl ddwyfol. Rhai o'r darnau goreu a mwyaf effeithiol yn yr alarnad yw y cyfeiriad at rydd-had y caethion:—

"I dduon Affrig oedd yn nyffryn
Caethiwed caled, mal rhwyg gelyn,
Rhodd ddedwyddol fu rhyddid iddyn',
Sior a roddes des dewiswyn,
Ei arch emawg orchymyn—na'u caethid,
Dyna ryddid a Duw'n ei wreiddyn."

"Iubili ein Rhi i'r rhai'n,—yn uchel,
Sy'n achos llawensain
Hyd heddyw, perl yw pur lain,
Wyn bryd, yn nghoron Brydain."

"Torwyd datodwyd tidau—gwyr Affrig
Er hoffrwydd i'w breintiau,
Acw, O dyned fu'r cadwynau!
Elwa dynion, ail eidionau!
Ni bu cyllill neu bicellau
Yn darwain noethach driniaethau;
Sior fu rydd rwygydd yr iau—dadglymodd,—
Llwyddodd ei allweddau."

Dywed gyda golwg ar ryfeloedd:—

"Trechwyd, bygylwyd, pob gelyn—ar dir
Ac ar don i'w erbyn,
O'r Ind boeth greisionboeth syn
Draill awchlaif, hyd rew Llychlyn."

'Dygwyd i lawr grochfawr frig
Y gwarsyth lew o Gorsig,
A'i ddiwedd, gorwedd wrth gain,
Brawdol drugaredd Brydain,
A Sior, ein hoff flaenor fflwch,
Dyhuddai'r byd â heddwch."

Nid ydyw y bardd yn profi fod y rhyfeloedd yn gyfreithlawn yn eu cychwyniad; ond y mae yn barnu fod rhagluniaeth drostynt. Am y priodoldeb o gadwyno "y llew o Gorsig" mewn ynys yn nghanol y môr mawr, a golygu hyny yn drugaredd, gadawn i'r deallus farnu. Y mae y llinellau ar y Fibl Gymdeithas yn dda; ond ni fynegodd y bardd pa symiau a roddes Sior at y gymdeithas hòno:—

"Dir nesodd i'w deyrnasiad
Amlder goleuder i'n gwlad;
Bu'n ffyddlon foddion di far
I air Duw euraw daear;
Carai anfon caer wynfyd,
Bibl i bawb o bobl y byd."

Nid ydyw fod mwy o gymdeithasau wedi eu sefydlu yn nheyrnasiad Sior yn un prawf fod ei fawrhydi wedi rhoi dim at eu cynnorthwyo. Nid ydym yn cofio i ni weled ei enw ar restr y tanysgrifwyr erioed. Ennillodd yr awdl hon y gamp, a sonid llawer am dani ar y pryd; eto, os edrychir yn fanwl i'w chyfansoddiad, gwelir fod ynddi lawer o eiriau llanw; ac fod y bardd yn ngwisg y gynghanedd ar ei oreu yn cyrhaedd y nôd. Nid ydym wrth hyn yn meddwl haeru nad y hi oedd yr oreu ar y testun; ond dylasai fod yn llawer gwell nag ydyw am yr arian, ac am yr anrhydedd a gafodd y bardd drwy iddo ennill y gamp. Heb fyned i drafferth fawr, gallwn nodi lluoedd o linellau gweiniaid dros ben; megys,—

"Troes cur, mal hollti mur main,
Trister pryd tros dir Prydain."

Pa beth sydd a fyno "mal hollti mur main" (meini), a "chur," a "thrister?" Synwyr y llinellau yw

"Troes cur ———
Trister pryd tros dir Prydain,"
* * *

"Tra fu 'n teyrnasu trwy nodd,
Gwir gof, ei garu gafodd;"

sef,

"Tra fu 'n teyrnasu trwy nodd,
——— ei garu gafodd."

"A'l garu a fu un fodd—o gymaint
Poen henaint, pan hunodd;"

sef,

"A'i garu a fu un fodd—o gymaint
——— pan hunodd."
* * *

"Dydd mal cynt urddynt eurdda—yn Sabbath
Seibiant a gorphwysdra;"

sef,

"Dydd mal cynt ——— yn Sabbath
Seibiant a gorphwysdra."

"Dydd gollyngdod, ddefod dda,
Dydd gefyn nad oedd gyfa;"

sef,

"Dydd gollyngdod ———
Dydd gefyn nad oedd gyfa"

"Ar ol hyn o araul haf,
Deuai gwiw a dig auaf;

Ein tywysoges, lles llawn,
Siarlot Augusta sirlawn;
Wyres Sior, aeres iraidd,
Prydain goron, gron o'r gwraidd;
Ys gywirferth, rwysg eurfawr,
Ethol un, a aeth i lawr."

Dyma wyth o linellau wedi eu defnyddio i fynegu fod Siarlot, y dywysoges, wedi marw! Pe dodid y synwyr, a dim ond hyny, ymddangosent fel hyn:—

"Ar ol hyn o araul haf,
Deuai gwyw a dig auaf;
Ein Tywysoges ———
Siarlot Augusta ——
——— aeth i lawn."

* * * *

"I'w gwlad, ac i'w thad yn goeth iach—hoff ryw
I'w phriod agosach;
Ni bu o deulu da ach,
Un gain ail nag anwylach."

sef,

"I'w gwlad ac i'w thad ———
I'w phriod agosach;
Ni bu ———
Un ail nag anwylach."

Y mae y bardd yn defnyddio deuddeg llinell i fynegu am farwolaeth Dug Cent, yr hyn a allasai wneyd yn llawn mor effeithiol mewn pedair, neu chwech. Pwynt y llinellau oll yw,—

"Och! ail dwyn—annychwel daith,
Brenin a'i fab ar unwaith."

A phwynt y ddwy linell hyn yw,—

"Och —— dwyn
Brenin a'i fab ar unwaith."

Cafodd drafferth fawr, yn ddiau, yn dodi yr englyn canlynol wrth ei gilydd:—

"Na Sior, wiw flaenor nef wlith—nid allai
Nod ollawl diledrith;
I'w ddeiliaid fod plaid i'w plith,
Neb undyn o fwy bendith."

yr hwn a ellir ei gynnwys yn y geiriau canlynol:—

"Na Sior —— nid allai
———————
I'w ddeiliaid fod ——
Neb —— o fwy bendith.

Ymddengys yr englyn canlynol yn deg ar yr olwg gyntaf, ond ychydig iawn y mae yn gynnwys:—

"Trechwyd, bygylwyd pob gelyn—ar dir
Ac ar don i'w erbyn;
O'r Ind boeth, greisionboeth syn,
Draill awch laif, hyd rew Llychlyn."

sef,

"Trechwyd, bygylwyd pob gelyn—ar dir
Ac ar don i'w erbyn;
O'r Ind boeth ———
——— hyd rew Llychlyn."

Y mae yn syn genym orfod cyfarfod â llinell fel a ganlyn, yn ngwaith cadeirfardd:—

"Serch cynnar yn glodgar glau;"

"Clodgar glau!"

Y mae y llinell,—

"Bibl i bawb o bobl y byd."

wedi ei hanfarwoli; ond rhyfedd y bont ddigrif a wnaeth y bardd i fyned ati; sef,—

"Camai anfon caer wynfyd,
Bibl i bawb o bobl y byd."

Pa beth yw "caer wynfyd?" Yr ydys yn gadael lliaws o linellau ar ol, sydd hynod o weiniaid a direswm; megys,—

"Arf i'n cadw ar fainc ydoedd."

Os ydoedd Sior yn offeryn i'n cadw, ai nid gormod yw dyweyd ei fod ef yn "arf?"

Ystyrir yr awdl hon yn un o brif orchestion y bardd, a derbyniodd am dani ugain punt, a'r tlws.

Y mae ganddo mewn cywydd marwnad i Watkin Williams, Ysw., amryw linellau â'r unrhyw anaf arnynt; megys,—

"Tores angau, trais ingwedd,
Golofn gwlad i barthiad bedd;"

sef,

"Tores angau, ———
Golofn gwlad i barthiad bedd;"

Nid ydym yn gallu canfod yn eglur pa beth sy gan "barthiad" i wneyd yn y linell.

"Colled drwy'n tir, rhandir rhestr,
Dir golled rhandir Gallestr."

Pa beth yw "rhandir rhestr?"

"Watkin glaer, teg enw ei glod,
Yswain Williams, iawn waelod."

Pa beth yw "teg enw ei glod?"

"Gŵr rhinweddus, clodus, clau;"

hen darawiad can hyned a dyddiau Huw Jones, o Langwm.

Y mae rhai llinellau tlws yn y cywydd hwn; megys,—

"I'r ddwysir o'i urddasedd,
Galar fu gloi ar ei fedd;
Cloi 'n brigog swyddog mawr serch,
Cloi 'n ynad mewn clai Nanerch;
Man rhoddwyd, mae'n wir heddyw,
Dyn i'w fedd a'i enw da 'n fyw;
Nid hawdd cael ynad heddwch,
Fyth ei ail ef, aeth i lwch;
Canol wr rhwng cwyn y wlad,
A'i gilydd pan fo'i galwad;
Os hedd gaiff tangnefeddwr,
Hedd a gaiff yr haeddog wr."

Y mae yr englyn canlynol, o'i "Awdl ar Gariad at ein Gwlad," yn dangos fod y bardd yn meddu llygad yn gweled anian; megys,—

"Teyrnas ac enaint arni—yw Prydain,
Pob rhadau sydd ynddi,
Gwiw seiliwyd gwregys heli,
Yn ddyfrgylch o'i hamgylch hi;"

ond y mae yn pallu mewn glewder a faidd gydfyned âg anian; oblegid nid oes unrhyw gysondeb mewn dyweyd fod gwregys o ddwfr wedi ei "seilio;" nid "seilio" ond tywallt dwfr y byddir: ac y mae "seilio" gwregys, yn ddrwg dros ben; canys rhwymo gwregys fuasai y mwyaf priodol.

Gwnaeth y bardd egni mawr, y mae yn amlwg, i gael

"Ffynnon bur ffon ein bara"

i fewn i'r englyn cyntaf yn ei "Awdl diolchgarwch am y cynauaf:"—

"Beirddion trigolion tir Gwalia—ffraethlef,
Am ffrwythlawn gynaua',
Molianwn ddi dwn Dduw da,
Ffynnon bur ffon ein bara."

Ystyr "twn" yw toredig; esgyrn twnion, *splintered bones;* bara twn, *broken bread;* pa reswm, heblaw eisieu cynghanedd, a allasai gymhell y bardd i ddwyn y fath air i'r fath gysylltiad? Duw di dwn; Duw heb ei dori, neu ei rwygo!

Pa briodoldeb a all fod mewn son am "ffynnon" i ffon ein bara?

"Naf eleni 'n felynwyn—gywreiniol
Goronodd y flwyddyn;
Nis caed yd yn oes co' dyn,
Mawrdda bwys mor ddibeiswyn."

Sylwedd y ddwy linell olaf yw,

"Nis caed yd yn oes—dyn
——— mor ddibeiswyn."

* * *

"Nid yn ol nod anaele,
Ein pechod trwst, llwch o'n lle,
Ond yn ol pur dosturi
Y gwnaeth Duw 'n hawdd nawdd a ni;"

sef,

"Nid yn ol ————
Ein pechod ————
Ond yn ol pur dosturi
Y gwnaeth Duw —— i ni."

Trueni na fuasai yr un ddelw ag a welir ar y pennill canlynol, ar yr Awdl drwyddi:—

"Er hwyl i frig yd yr haul fore gododd,
Eilwaith cawodau 'n forau ddyferodd,
Yna taranau—natur a wenodd,
Eilchwyl i'w orchwyl haul iach lewyrchodd,
Pob elfen uwchben o'i bodd—fu wastad
Gywir ar hwyliad Gwr a'i rheolodd."

Y mae y pennill uchod yn athronyddol; ond gallasem wneyd heb "er hwyl" yn ddigon hawdd; a gallasai y bardd wneyd hefyd, oni buasai fod arno eisieu cynghanedd.

"Dywalliad chwyniad a chau—llafur dyn,
Llaw fawr Duw ddyg ffrwythau,
Hir gynydd yr eginau,
Duw ne'n hyn a dyn yn hau."

Y mae yr englyn uchod yn dwyn i'n cof englyn gorchestol Gutyn Peris ar yr un testun; sef,

"A'r lle rhoed i'r llawr hadau—Ior a'i nawdd
A'i rinweddol wyrthiau,
Roi gynydd i'r eginau—
Llaw Dduw 'n hyn—llaw Adda 'n hau."

Y mae yn Awdl y Cynauaf darawiadau byrion tlysion yma ac acw; y mae yn well drwyddi na Marwnad Sior; ac y mae llai o rifedi o eiriau llanw ynddi, ond ber iawn ydyw ar destun mor helaeth. Ymddengys y bardd fel pe byddai yn arswydo pan gyfyd ei awen ei hasgell, ac y bo ar fedr cymeryd gwibdaith drwy y ffurfafen; y mae yn disgyn yn ei ol yn swta. Y mae fel pe byddai arno ofn i'w anadl ballu, ac i rywbeth fyned dros ei lygaid, os ehed ychydig yn uwch na'r bryniau sydd yn ei gylchynu.

Ni chyfansoddodd ond ychydig iawn ar ragoroldeb "Gwybodaeth a dysg;" ond y mae rhai o'r pennillion a wnaeth o'r fath mwyaf dillyn; megys,

"Esgorodd croth addysg eirian—ei doeth
Wybodaethau allan,
Ei gwawl gynt fu gwael a gwan,
Helaethodd yn haul weithian.

* * *

Dysg Ewrob da wasgarodd
Niwl Affrig, Amerig, un modd
Asia; daeth goleufa 'r Glob
O ser llewyrchus Ewrob.

* * *

Gwyddis ris is yr oes hon,
Daear gil a'i dirgelion;
Amgylchfod y greigrod gron,
Uchelwerth dlys ei chalon:
Banau 'r byd a'i bryd o'r bron,
Isel wyddir sylweddion,
Amryw anian tân gwynt twrdd,
Daear agwrdd dwr eigion."

* * *

Haul dysg er hyloewed oedd
Yn cynesu 'r cynoesoedd,
Glanach yw i'r goleuni
Dirgeloedd i'n oesoedd ni;
Chwiliwyd amlygwyd i'r lan
Wyth'enau dyfnwaith anian;
Natur y niwl yn toi 'r nef,
Olwynion pell y wiwnef,
Cymylau agweddau gwynt,
Dirgel ffyrdd y pedwargwynt,
Ufelfellt crombil folfawr
Wybrddu yn llewyrchu 'r llawr,
Taranau twrf nadau 'r nen,
Iaith ebrwydd y boeth wybren."

Y mae llinellau pert yn ei gywydd i anerch y Gwynoddigion yn 1800, ar ei fynediad i Lundain;—

"Daethum gan hir ymdeithiaw,
Amryw dreigl o Gymru draw,
I Lundain gywrain gaerau,
Llawen dref, wyllt, llawn o drofau;

Tref ethol ragorol gain,
Seirian bryd, seren Brydain;
Ail y twr yn ngwlad diriawn
Babel gynt yn boblog iawn;
Pob heol beidiol o hon,
Drwy 'i gilydd yn drigolion;
Duon a gwynion yn gwau,
A llawer o bob lliwiau;
Cymanfa helfa hwylfyd,
Pob llin byw pob lle 'n y byd;
O'r diwedd yn awr denais,
O swn pob Gwyddel a Sais."

Trueni fod yn y llinellau eiriau llanw; megys, "gywrain gaerau, hwylfyd."

Ar ol cyfarch yr aelodau penaf wrth eu henwau, y mae yn dymuno i'w coffadwriaeth barhau,

"Hyd y dydd y rhedo dwfr,
Hyd bo pen ysgrifenu,
Hyd bo gwyn yn derbyn du,
Hyd try llu troellau awyr
A hyd, pa g'yd? pwy a'i gwyr?

Nid ydyw y llinellau a ddyfynwyd yn hollol lân oddiwrth eiriau llanw, megys y gwel y deallus; ond y mae ynddynt rai tarawiadau rhagorol. Y cywydd ar olygiad rhyfel, yr hwn a gyfansoddwyd ganddo yn lled fuan ar ol dyfod i sylw, yw un o'r pethau goreu a wnaeth ein bardd yn ei oes. Y mae y gynghanedd yn gref, yr iaith yn bur, a'r meddyliau yn wir farddonol ac yn rymus. Gan ei fod yn beth mor ammeuthyn, dodwn ran o hono ger bron y darllenydd. Nid ydyw hwn eto ond lled fyr ar y testun :—

"Cenedl yn mhen cenedl cawn,
A chroeslid beilch echryslawn;
Merthyrdod a braendod bron,
Dyna gleiddrwydd dynion!
Gwŷr gwaedlyd hefyd o'u hol,
Eang wacau angeuol;
Dinasoedd lle dynesant,
Trwch waith yn oddaith a wnant;
Gwragedd trwy gur a ogwymp,
Acw yn eu tai cyn eu tymp,
Cleddyfir, plygir y plant,
Er gwenu ar a'u gwanant!
Maesdrefi lle 'mesyd rhyfel,
Noethir yr holl dir lle del;
Edn ni thrig mewn coedwig gau,
Gan dwrf egniad arfau;
A thon ergydion yn gwau,
Trwy ennyn eu taranau.
Dynion hyfion dihefeirch,
Ar lidiog ruddfaog feirch;
A'u rhuthr i'r frwydr yn uthrawl,
Eon rhwng ergydion gwawl.
A dynion yn feirwon fydd,
A'u gwaed hyd eu hegwydydd;
Coluddion yn fwyd cleddyf,
Gyda 'i swch a gwaed a ŷf!
Rhai 'n rhif uwch dylif y dôn,
Freg rwygant frig yr eigion.
Ymdreiniant am wyw drysor
Ar ymchwydd mawrchwydd y mor;
Caid eraill mal cyd arwyr,
Yn ddewrion enwogion wyr;
A'u cynnwrf megys twrf tòn,
Erlynant ar olwynion;
Cawri byd mewn cerbydau,
A'u swn yn echrys nesau.
I'r fyddin mewn eirf addas;
Yn chwiwio'r cledd ochrawg glas,
Wrth chwyrn floedd udgyrn ŷdd ant
Ys diau'r maes a doant;
Gan archolli, llosgi, lladd,
Ac amlwg lidiog ymladd;
Rhai cyfodir gwedi 'r gwaith,
Uchelion yn uwch eilwaith;
Eraill uchel dan gel gau,
Gostyngir i gist angau;
Pob clorian glân ragluniad,
Bwysa lle mantola'r Tad:
'A laddo, ef a leddir,'[1]
A gadwo 'n iach a geidw 'n wir."

Y mae gan ein bardd lawer iawn o gyfansoddiadau ar farwolaeth cyfeillion, ac eraill, y rhai nad allant fod o fawr ddyddordeb cyffredinol.

[1] *Deut.* xxxii. 39.

Trueni yw llenwi llyfrau â defnyddiau o'r fath. Y mae marwnad yn burion peth ar ei phen ei hun, ac y mae dodi dwy neu dair mewn casgliad yn ddigon goddefol; ond pan orfyddir eu rhifo wrth y deg, a'r ugain, a'r tair neu bedair ar hugain, y mae hyny yn ormod. Yr ydym yn cael dros ugain yn y "Diliau Barddas;" ac amryw o honynt i wrthddrychau nad oeddynt yn adnabyddus ond yn eu cymydogaethau eu hunain yn unig.

Y mae ei englynion ar ol Periglor Llangar yn rhai go dda. Y maent yn lled lân oddiwrth eiriau llanw; ond y mae efe yn gwneyd cryn ymdrech i gael y llinell,—

"Udgorn pres at grynhoi praidd,"

i fewn. Y mae efe yn eu cloi yn dlws, os eir heibio i'r drydedd linell o'r englyn diweddaf:—

"Mewn henaint teg mae'n huno—yn Llangar
A llengel bridd arno;
O allor Grist i'r llawr gro,
Gwr Duw oedd—gair da iddo."

Y mae ei "Gywydd Myfyrdod ar Ffydd" yn un o'i gynnyrchion boreuol, fe allai, pan oedd efe yn aelod gyda'r Trefnyddion. Nid ydyw ei "Englynion ar y Bibl," ond canolig iawn; megys y tystia y llinellau canlynol:—

"Darlun o Naf, rhadaf rhin
Dwyfroneg ein Duw frenin."

sef,

"Darlun o Naf ———
Dwyfroneg ein Duw ———."

"Gwir deg o'r greadigaeth,
Gaerawg nef, a'r gwr a'i gwnaeth."

sef,

"Gwir deg o'r greadigaeth,
——— a'r gwr a'i gwnaeth."

"Yr Ysbryd Glân, dreiddlan dro,
Sylweddol fu sail iddo;"

sef,

"Yr Ysbryd Glân —— ——
Sylweddawl fu sail iddo."

"Drych yw hwn, gwelwn argoeliad—ein bod,
A'n bydol, ddechreuad,
Holl euogrwydd ein llygriad,
Ddu nod twyll, yn Adda 'n tad,"

sef,

"Drych yw hwn ——————— ein bod
A'n bydol ddechreuad,
Holl euogrwydd ein llygriad
————— —— yn Adda 'n tad."

"Newyddair heb heneiddio—â diau
Nef a daear heibio,
Cyn llithr i'r llawr, dramawr dro,
At henaint iot o hono;"

sef,

"Newyddair heb heneiddio—â diau,
Nef a daear heibio,
Cyn llithr i'r llawr — ——
———— ——— iot o hono."

Nid allwn weled priodoldeb yn yr ymadrodd,—

"Dau glan Destamentau mawl,
Dau ewyllys Duw ollawl."

Nid ydyw "dau destamentau" yn rheolaidd o ran iaith; nid ydyw "clau" a "mawl" ond llanw; ac y mae son fod gan Dduw ddau ewyllys, sef un yn yr Hen Destament, a'r llall yn y Newydd, yn swnio yn ddyeithr.

"Adroddiad mor berffaith drwyddo—da oll
Nad ellir rhoi ato,
Na dwyn chwaith, glanwaith ei glo,
Urdd ei werth, air oddiwrtho;

sef,

"Adroddiad mor berffaith drwyddo—da oll
Nad ellir rhoi ato
Na dwyn chwaith ———
——— air oddiwrtho."

Trueni fod y llinellau a nodwyd wedi cael eu beichio yn gymaint â geiriau gwael a dialw am danynt. Y mae rhywbeth yn lled gywrain yn yr englyn diweddaf oll:—

"Llyfr dechreu gorau i gyd—llyfr diwedd,
Llafar Duw i'r hollfyd,
Llyfr nef a daear hefyd,
Llyfr ar ben holl lyfrau 'r byd."

Y mae rhai tarawiadau difyrus yn y "Cywydd coffa hen Ddefodau y Cymry;" ond nid oes dim ynddo yn fawreddog. Nid ydyw hwn yn hollol rydd oddiwrth eiriau afreidiol; rhy faith i'w nodi bob yn un ac un. Y mae cryn bertrwydd yn y llinellau hyn:—

"O fonedd, bonedd beniaid,
O gedyrn, cedyrn eu caid;
Os cyfeillion llon i'w llys,
Cyfeillion cyfa' 'wyllys;
Os gelynion, gloewon gledd,
Gelynion hyd gelanedd;
Mwyn wrth fwyn mewn eorth fyd,
Anfwyn wrth anfwyn ynfyd."

Nid allwn sefyll wrth gefn pob llinell yn y dyfyniad uchod; megys,—

"Os gelynion gloewon gledd;"

nid ydyw "gloewon gledd" ond llanw; ac nid oes un mymryn o anghen am "mewn eorth fyd;" ac ni welsid yr ymadrodd ond yn unig er cyflenwi y gynghanedd.

Rhaid i ni fyned heibio amryw englynion heb eu henwi; canys y mae genym dir lawer iawn i'w dramwy; ond nid allwn, yn y gofod a ddysgwyliwn, ond prin enwi pethau y carasem gael manylu arnynt.

Nid oes yn y "Cywydd ar ddewrder Caradog," ond adroddiad sychlyd o hanes, wedi ei osod mewn cynghanedd. Nid ydyw hwn yn rhydd oddiwrth y gwallau arferol; ac y mae ynddo un o natur arall hefyd; megys,—

"Tra Caradog freiniog frig;"

Dybryd sain.

Y mae gan Robert Davies, yn ei gasgliad, "Gywydd rhwng Calfin ac Armin;" ond nid oes dim llawer ynddo heblaw amlygiad fod pob un dros ei blaid ei hun.

Nid ydyw ei "Gywydd o hanes Owen Glyndyfrdwy," ond canolig; ac

ynddo eiriau tebyg i'r hen frawdoliaeth diarddeledig; megys, "blinder blwng;" "brifwawd brawd;" "ffrydwaed ffrau;" "dirfawr don;" "blaenri blin;" "deg wiwfawr;" "di warth da win;" "ddiwarth hawl;" "dreiglaidd groes;" "frwg i'w fri;" "cydfodd cain;" "frydnaid fron;" "sigiad sain," "glain y glod;" "frydwedd fron;" "gywrain g'oedd;" "mygredd maith;" "dewrfodd dig;" "firain fodd." Gallesid dysgwyl i ŵr o enw Robert Davies, gan fod ganddo y fath arwr, a chan ei fod ef wedi cael y fath brofiad, lunio arwrgerdd ar Owain Glyndyfrdwy, fuasai yn ogoniant i'n hiaith a'n cenedl; ond yn lle hyny wele i ni gywydd cul a drwg yr olwg arno, yn llawn o eiriau ac ymadroddion heb eu heisieu. Yr oedd yr awdwr wedi myned i feddwl y gwnelai unpeth y tro os byddai ei enw ef wrtho.

Y mae mwy o ysbryd yn y ddau englyn canlynol, nag sydd yn y cywydd oll:—

"Owen is Corwen wasgarwr—Saeson,
Er's oesoedd bu'n arwr;
Heddyw 'n isel ddinaswr,
Lle Owen deg sy'n llyn dwr!

Bod dylluanod llwynin—y gwelir
Ac ol curfa dryghin;
Marwddwr yn lle beirdd Merddin,
A gwern gyrs lle bu gyrn gwin."

Mor debyg ydynt i englynion campus Ieuan Brydydd Hir, ar Lys Ifor Hael;

"Llys Ifor Hael, gwael yw'r gwedd—yn garnau
Mewn gwerni mae'n gorwedd;
Drain ac ysgall mall a'i medd,
Mieri lle bu mawredd.

Yno nid oes Awenydd—na beirddion,
Na byrddau llawenydd;
Nac aur yn ei magwyrydd,
Na mael, na gwr hael a'u rhydd.

I Ddafydd 'wenydd anian—oer ofid
Rhoi Ifor mewn graian;
Y llwybrau gynt lle bu'r gân,
Yw lleoedd y dylluan.

Er bri arglwyddi bur glod—eu mawredd
A'u muriau sy'n darfod;
Lle rhyfedd i falchedd fod,
Yw teiau yn y tywod."

Nid ymddengys fod gan ein hawdwr unrhyw gynllun yn nhrefniad ei waith. Y mae yn dechreu gydag awdlau; ac wedi hyny dilyna cywyddau ac englynion ac awdlau, fel y dygwyddont. Buasai yn drefnusach i bob dosbarth fod ar ei ben ei hun. Y mae cymaint o debygoliaeth mewn englynion marwnadol a dyhuddiadol, fel y maddeua y darllenydd am i ni fyned heibio i liaws o'r rhai hyn heb eu henwi; ond yn unig fynegu fod pertrwydd arferol gan y bardd ynddynt, heb gynnifer o'r geiriau llanw arferol.

Yr oedd Robert Davies yn gyfieithydd go dda; megys y dengys amryw ddarnau sydd yn y "Diliau Barddas." Nid anenwog yw ei gyfieithiad o'r "*Messiah*," gan Pope; ond y mae yr acenion yn lled ddrwg ganddo mewn rhai llinellau. Dodwn ddyfyniad gerbron, er dangos gystal yr oedd y bardd yn gallu gosod meddyliau Pope yn y Gymraeg:—

From Jesse's root behold a branch arise
Whose sacred flower with fragrance fills the skies.
The ethereal spirit o'er its leaves shall move,
And on its top descends the mystic dove.
Ye heavens! from high the dewy nectar pour,
And in soft silence shed the kindly shower!
The sick and weak the healing plant shall aid,
From storm a shelter, and from heat a shade.
All crimes shall cease, and ancient fraud shall fail,
Returning Justice lift aloft her scale;
Peace o'er the world her olive wand extend,
And white robed innocence from heaven descend.
Swift fly the years, and rise the expected morn,
Oh spring to light, auspicious Babe be born!
See, nature hastes her earliest wreaths to bring,
With all the incense of the breathing spring.
See, lofty Lebanon his head advance,
See, nodding forests on the mountains dance:
See, spicy clouds from lowly Saron rise,
And Carmel's flowery top perfume the skies!

Y CYFIEITHIAD.

Blaguryn o gyff Jesse ryw fore dyf yn fawr,
A'i flodau'n perarogli, nes llenwi nef a llawr;
Y nefol ysbryd arall, chwyf dros ei ddail o draw,
Ac ar ei frigyn uchel y g'lomen ddirgel ddaw!
Chwi nefoedd hidlwch fendith anfarwol wlith i lawr,
Cyfiawnder pur defnynwch, mewn mwyn dawelwch mawr,
I'r claf a'r gwan gweinydda'r pren bywiol yma les,
Rhag tymhestl yn ymguddfa, cysgodfa rhag y gwres.
Fe dderfydd pob cyflafan, hen dwyll a'n lân i lawr,
Cyfiawnder gan dderchafu a saif i fyny 'n fawr;
Trwy'r byd ymestyn gwialen yr olewydden hedd,
Din'weidrwydd pur a ddisgyn o'r nef yn wyn ei wedd.
Chwai heded y blyneddau, dwyrea'r foreu wawr,
O tardd i'r goleu allan, ganer di'r Maban mawr.
Gwel anian mewn prysuriad yn dwyn anrhegiad rhydd,
A phob rhyw beraroglau o deg anadlau'r dydd;
Gwel fynydd hardd Libanus yn codi 'i barchus ben,
Gwel y fforestydd uchel yn arddel dawns y nen;
Gwel fygdarth perlysieuol o Saron freiniol fry,
A phen blodeuog Carmel bersawrus uchel sy'.

Pe buasai efe heb ymgais at unrhyw gynghanedd, cawsai fwy o ryddid i wneyd cyfiawnder â'r gwreiddiol. Y mae ei gyfieithiadau o Emyn Luther, "Cwymp y Dail," gan Esgob Horne; a'r "Meudwy," gan Parnel; yn cael eu hystyried yn lled wych. Rhown ddyfyniad o "Gwymp y Dail:"—

"Chwi forwynion uchel feilchion,
Ar eich gwyn a'ch cochion wawr,
Gwelwch ni fu gynt mewn harddwch,
Gyda'r meirw 'n llwch y llawr.

Crin gybyddion effro dyfal,
Gwelwch ben eich gofal trwm;
Cwympwyd ni o'n huchelfaoedd,
Gadaw 'n lleoedd gwedi 'n llwm.

Meibion parch yn uchel hedeg,
Mewn clodfoledd teg eu gwawr;
O! mor fuan cwymp yr ucha',
Gan yr awel leia i lawr.

* * * *

"Ie'nctid teg heb deimlo blinfyd—
Iach a hyfryd dan y ne',
Na rowch goel i'r wybren loewaf,
Haf rydd i'r cynauaf le.
Dadau parchus, benau llwydion,
Trowch olygon oddi draw;
Cofiwch fod y gwyn gynauaf,
Yn addaw gauaf llwm gerllaw."

* * *

"Ar bren pur y bywyd perffaith,
Rho dy obaith ddyn di-lyth;
Hwn yn unig ddyg bob amser,
Ddalen bur heb wywo byth."

Y mae ei englynion ar "Nid dim ond Duw;" "Heb Dduw heb ddim, a Duw a digon;" "Dy weision yw pob peth;" "Oes y dyn ni chanlyn y da;" a'r "Erfyniadau," yn cynnwys rhai syniadau gwychion; ond nid ydyw ei feddergryff o radd uchel. Y mae Robert ab Gwilym Ddu yn rhagori arno yn ddirfawr yn hyn; er anghraifft, pethau mor salw i dalu am eu tori ar feddau yw y rhai canlynol:—

"Sylwn, edrychwn ar dri—o enwau
Fu unwaith byw 'n heini;
Sef, merch deg foreudeg fri,
Da rin, a dau rïeni."

sef,

"Sylwn, edrychwn ar dri—o enwau
Fu unwaith byw 'n heini;
Sef merch deg ————
———— a'i ———— rhïeni."

Nid yr enwau fu byw'n heini, ond y ferch a'r rhïeni; ac nid priodol dyweyd "dau rïeni" mwy na dyweyd dau ddynion; oblegid y mae rhïeni yn y rhif liosog.

"Tair Ann i'r un man ran meth—yr einioes
Arweiniwyd yn gydbleth;
A'r tair Ann, o'r un plan pleth,
Ydyw Ann a'i dwy eneth."

Pwy a all wneyd synwyr o'r englyn hwn, os sylwir ar ystyr geiriau? Y meddwl a geisir osod allan yw, fod y tair Ann wedi eu harwain i'r un man; ond i ba beth y dygwyd "yn gydbleth" o'r un "plan pleth" i fewn? Y ffordd gyntaf y gwnaed yr englyn oedd—

"A'r tair hyn fel plisgyn pleth
Ydyw Ann a'i dwy eneth."

Y mae yn debyg mai y linell ddiweddaraf a ddaeth i feddwl y bardd gyntaf, a'i fod wedi ffaelu cael dim oedd well i ateb iddi.

Nid ydyw englynion y bardd ar farwolaeth "Glan y Gors," ond rhai canolig iawn. Pwy ddysgwyliasai weled llinellau mor weinion a chyffredin a'r rhai canlynol mewn marwnad i ŵr mor enwog?

"Un o ber awen barod—ydoedd Glan
Duedd glwys fyfyrdod;
Dull yr oes mewn hyfoes nod,
Da canodd yn deg hynod."

"Er ei fod traddod rhwydda;"

Pa beth yw "traddod rhwydda?" Y mae yn rhaid i Robert Davies gael geiriau llanw, a hen darawiadau cyffredin, yn marwnad Iolo Morganwg

hefyd; megys, "ddifancoll fodd;" "rhif y rhawg;" "cof arweiniad;" "ddwys gadarn ddysgeidiaeth." Buasid yn dysgwyl rhywbeth amgenach na hyn.

Y mae y "dyfaliad o Seisneg Pope," yn lled dda: a'r "Gân ar ffolineb swyngyfaredd" yn rhagorol:—

"Nid yw cyrchu i ffynnonau,
Coelio llwydd neu aflwydd ddyddiau,
Gweled rhyw wylltfilod croesion,
Na dirgelwch adar goelion;
Oll ond tarddiad a llawn tuedd,
O gyfeiriad swyn gyfaredd.

Myned heibio Ceidwad enaid,
Am ddaioni gan ddewiniaid;
Mae pob pechod o'r fath yma,
Yn drosedd o'r gorchymyn cynta',
Am roi cais am unrhyw gysur,
Yn lle Duw i wella dolur.

* * *

Ac nid Satan na'i alluon
Losgodd ddefaid Job a'i weision;
Er rhoi cenad i'r gwynt chwythu
Ar y tŷ a'i ddadymchwelu;
Ni roes Duw ei lyw elfenol,
O'i law ei hun erioed i ddiafol.

* * *

Nid eill swyn na chyfareddau,
Symud clwyf na dwyn doluriau;
Cael dirgelion na'u hamlygu,
Codi tymhestl na'i hiselu;
Nis gall un offeryn diafol
Na neb ond Duw weithredu 'n wyrthiol.

Pa mor ofer yw 'r dych'mygion
Gwag diseiliau am ysbrydion!
Gosod ofnau a dychryndod
Ar rai bychain am fwbachod;
Ofni Duw yn llwybr i'w blentyn,
Dyna ddylai dyn ei ddilyn.

* * *

Beth yw dewin, brud, na hudol?
Neb ond Duw sydd Hollwybodol.
Beth yw offrwm mewn ffynnonau?
Trefniad Duw yw rhagluniaethau.
Tra Duw fel hyn sy'n llywio'r cyfan,
'D oes dim ond dŵr yn Ffynnon Elian."

Y mae gan ein bardd liaws o garolau, y rhai ydynt yn dwyn delw y carolau a gyfansoddid yn ei ddyddiau ef yn helaeth. Y mae yr athrawiaeth yn debyg i'r hyn a bregethid gan y Trefnyddion cymedrol yn y dyddiau hyny. Y mae ynddynt rai tarawiadau melus dros ben. Y mae eu tuedd oll i ddangos i ddyn ei drueni drwy y cwymp, a'i godiad drwy aberth y Ceidwad.

Yr ydym yn cofio fod bri mawr yn cael ei roddi ar garolau Robert Davies bymtheng mlynedd ar hugain neu ddeugain mlynedd yn ol; ac er dangos un mor hynod ydoedd, cofféid y pennill canlynol gyda syndod:—

"A dyma'r hyfryd foreu
Newyddion goreu i gyd,
Y daeth y doethaf Fab gorucha'
I barthau isa'r byd.
A phardwn gyda phurdeb,
Boddlondeb yn ei law;
Sinai ddigllon a'i melldithion,
I gyd a droison draw;
Ac yn y nefoedd fry,
Rhyfeddol ddawns a fu,
Rhwng pedair merch y Drindod,
Pob un yn ymgyfarfod.[1]
Yn Nghrist mewn cymmod cu;
Angylion gloewon glân,
Fu 'n gosod iddo gân
Mewn preseb ac iselwch
Nhwy welsant bryd ei degwch,
Duw heddwch diwahan."

[1] *Salm* lxxxv. 10.

Y peth y synid ato yn fawr oedd i'r bardd son am "bedair merch y Drindod;" cymeradwyid yr ymadrodd yn fawr gan rai; ond fe'i collfarnid gan eraill, yn enwedig y son am "ddawns" yn y nef; canys yr oedd y telynau a'r crythau dan farn condemniad arswydus y pryd hwnw; ac yr oedd

yr hen bobl yn casau hyd yn nod "y wisg a halogid gan y cnawd." Tua'r blyneddau cyntaf y daeth y Wesleyaid i Gymru, a'r hawg wedi hyny, bu yn ddadl boeth ynghylch "y wir athrawiaeth;" a byddai plant yn dadleu â'u gilydd yn dost; ac at y profion cedyrn eraill a ddygid gan blant oedd o du Calfiniaeth, y mae yn gof genym ei fod yn cael ei ddyweyd fod Eglwys Loegr o du yr athrawiaeth iachus; ac yn ychwanegol at hyny fod yr holl brydyddion i gyd yn eu carolau yn Galfiniaid. Y mae yn gof genym gyda y gradd o ddigofaint y gorfuwyd derbyn y newydd fod gan y Wesleyaid un oedd yn ochri atynt, sef "Dafydd o Ruddlan;" ond troid hyn heibio yn bur fuan trwy ddyweyd fod Thomas o'r Nant wedi ei flingo ef yn fyw gyda'i ganiadau duchan, ac nad oedd yn werth son am dano ef mwy. Yr ydym yn crybwyll y pethau hyn er mwyn dangos beth oedd yn myned ymlaen ddyddiau ein maboed. Yr oedd carolau yn amser Robert Davies yn fwy clir nag oeddynt yn nechreu y ganrif y ganed ef ynddi. Yr oeddynt wedi colli eu ffurfioldeb a'u sychder Eglwysyddol. Mewn gair, yr oedd carol da ac iach yn y ffydd, "yn gystal a phregeth" gan bobl. Yr oedd rhyw eneiniad yn dilyn llaweroedd o honynt. Fe genid pennill fel yr hwn a ganlyn nes y byddai muriau hen lanau, a thai cyfarfod yr Ymneillduwyr yn diasbed:—

"Ond er ei waelder ar y llawr,
Mae 'n fawr un fodd,
Mae pob trysorau tan ei zêl,
Goruchel rodd;
Mae 'n Hollgyfoethog enwog un,
Yn gadarn dwr i gadw dyn,
Mae pob cyflawnder ynddo 'i hun
I Adda a'i had:
Mae 'n fywyd meirwon i ail fyw,
Mae 'n feddyg llon i'r fron sy 'n friw,
Gwisg lawn i'r noeth, a chyfan yw,
A chyfiawnhad.

Os dynion heddyw 'n gyhoedd
Am nefoedd ydym ni,
Trown i'w chcisio trwy iachuswerth,
Fawr aberth Calfari;
Gadawn ein cyfiawnderau,
A'n cymhwysiadau, os oes,
Ac awn â'n gwaeledd yn ddigelu,
Tan gredu at Oen y groes;
Rhaid iddo er ei glod
Yn gyfan feddyg fod,
Ni thâl daioni dynol,
Na hunan anwahanol,
O tan ei nefol nod;
Mawr yw y môr o waed
O ystlys Iesu gaed,
A phechaduriaid mawrion.
O dan ddoluriau duon,
Yn wynion ynddo wnaed."

Y mae y pennill canlynol wedi cael llawer o ryfeddwyr:—

"Gwirionedd o'r ddaear a ddeuodd,
O'r groth fe wir darddodd Mab Duw;
Neu'n hytrach o'r bedd lle gorweddodd,
Er marw cyfododd yn fyw;

Cyfiawnder o'r nefoedd edrychodd,
  Boddlonodd pan gwelodd y gwaed;
Os cauwyd porth Eden â'r cleddyf,
  Yn Iesu porth newydd a wnaed;
Y gwanaf, tylotaf, êl ato,
  Mae hynod o groeso i'r rhai gred,
Er cefnu mae'r Iesu'n ymryson
  I gyfhwrdd afradlon fe red."

Gallem dybio fod y pennill hwn wedi ei wneyd pan oedd y bardd yn nyddiau ei ieuenctid, cyn i farug yr Eglwys Wladol a'i hia ei orchuddio.

Tra yr ydym yn ymddifyru wrth wasgu "Diliau" y bardd yn ei ganeuon crefyddol, fe dorir ar ein hyfrydwch drwy iddo ddodi ger ein bron "Awdl ar farwolaeth Dug Caerefrog," yr hon sy, fel y gallesid dysgwyl, wrth gofio pwy oedd y testun, yn sych ac yn ddiadeiladaeth dros ben. Y mae y bardd fel pe byddai yn gwneyd ei egni i osod y duc allan yn bob peth ond yr hyn ydoedd mewn gwirionedd. Wfft! i'w chwaeth yn dodi y fath rigwm rhwng ei garolau a'i emynau. Yr ydym yn gobeithio, os byth y cyhoeddir "Diliau Barddas" eto, y cymerir gofal am ei ddosbarthu yn well nag y gwnaeth y bardd ei hun.

Y mae yn dilyn y farwnad hon "Englynion coffadwriaeth Dafydd Ionawr," y rhai nid ydynt yn meddu ar lawer o deilyngdod, ac ystyried y gwrthddrych y galorid ar ei ol; Englynion ar Bregethu yr Efengyl; ac Englynion i'r Iesu; wedi hyny y mae ganddo restr o emynau ar wahanol destunau; ac y mae rhai o honynt yn dda iawn:—

Y CRISTION AR WELY ANGEU.

"Dysgwyl 'rwyf yr awr i'm dattod,
  Mae gollyngdod im' ger llaw;
Fy ngolwg ar y byd sy 'n pallu,
  Gwelaf haul yn t'w'nu draw;
Clywaf ddrysau 'r pyrth yn agor,
  Gwelaf oror gwlad fy Nuw,
Clywaf uchel lais cerubiaid.
  Yn galw f'enaid yno i fyw."

GWAHODDIAD AT GRIST.

"Clywch eneidiau blin crwydredig,
  Pell o wynfyd pur y nef,
Trowch at Iesu croeshoeliedig,
  Ffowch i'w glwyfau anwyl ef;
Dowch i'r afon goch lifeiriol
  Darddodd allan ar y bryn,
Gwaed i olchi 'r edifeiriol,
  Dwfr i gânu 'r dua'n wyn."

BRENIN Y GOGONIANT.

"O'r bedd yn fyw cyfododd Crist,
  Dyrchafodd Iesu uwch y byd,
Mae holl alluoedd uffern drist
  Yn gaethion ganddo ef i gyd.

I'w breswylfeydd tu fewn i'r llen,
  Angylion a'i croesawant ef;
'Chwi uchel byrth dyrchefwch ben,
  'Ac ymagorwch ddrysau 'r nef.'

Eich bârau pwysig, byrth y wawr,
  Ryddhewch, dattodwch gyda brys,
A Brenin y gogoniant mawr,
  A ddaw i mewn i'w nefol lys.

Pwy yw Brenin gogoniant? pwy?
  Yr hwn orchfygodd ar y llawr,
Rhoes i'w elynion farwol glwy',
  Ac Iesu yw 'r gorchfygwr mawr.

Pwy yw Brenin gogoniant? pwy?
  Iôr cadarn yw, uwch pawb yn ben,
Brenin y saint, nid oes ei fwy,
  Bendigaid Dduw tros byth, Amen."

TEILWNG YW 'R OEN.

"Cydunwn â'r angylion fry
  I foli 'n Arglwydd glân;
Deng mil o filoedd honynt sy,
  Ond un i gyd yw 'r gân.

Teilwng yw r Oen, medd llu y nef,
  Fu farw'n hardd ei fri;
Teilwng yw 'r Oen, rhown ninnau lef,
  Fu farw trosom ni.

Yr Iesu mawr sy deilwng iawn
  O bob rhyw barch a bri,
Anrhydedd, bendith, gallu llawn,
  Pell uwch ein gallu ni.

Mae pawb yn plygu glin i lawr,
  Ynghyd mewn hyfryd hoen,
I'r hwn sydd ar yr orsedd fawr,
  Gan foli 'r addfwyn Oen."

AR RAN O'R SALM III.

"Mor aml yw 'r rhai, O Arglwydd Ion!
  Sydd yn elynion imi?
A llawer iawn i'm herbyn sydd,
  O ddydd i ddydd yn codi.

Dywedant na chaiff f'enaid i,
  Dduw ynot ti ddim iechyd;
Ond ti 'n Iachawdwr imi sydd,
  Ac yn Ddyrchafydd hefyd.
Ar Dduw fy Ior y rhoddais lef,
  Gwrandawodd Ef fy ngweddi;
Clybu fy llais o'i sanctaidd lys,
  Mae 'n felus im' ei foli.
Gorweddais, cefais felus gwsg,
  Deffrois o drymgwsg wedi;
Canys yr Arglwydd oedd yn dwr,
  Ac yn gynnaliwr imi.
Pe codai fyrddiwn o wŷr gau,
  Mewn arfau i'm dyfetha,
Byth ni frawychai f'enaid byw,
  Yr Arglwydd yw fy noddfa.
Cyfod, O Arglwydd, achub fi,
  Ac ateb di f'erfynion;
Wrth rymus air fy Mhrynwr da,
  Diflanu wna 'ngelynion."

AR RAN O'R SALM V.

"Fy ngweddi, Arglwydd, clyw heb ball,
  A deall fy myfyrdod;
Fy Nuw, a'm Brenin erglyw fi,
  Can's atat ti 'r wy'n dyfod.

Yn fore gwrando fi fy Naf,
  Yn fore galwaf arnat;
Fy ngolwg fry cyfeirio wnaf'
  Mewn gweddi troaf atat.

Duw pur a sanctaidd ydwyt ti,
  Nid ewyllysi gamwedd;
Preswylio gyda thi ni chânt,
  Y rhai a wnant anwiredd.

I'th dŷ y deuaf fi, fy Ner,
  Yn amlder dy drugaredd;
Addolaf tua'th sanctaidd lys,
  Bydd felus fy ngorfoledd."

Tua'r flwyddyn 1809, gwnaeth gân a alwai, "Gwaedd uwch ben Brydain," yn yr hon y gesyd fod y

"Farn o ryfel fawr iawn ofid,
Drwy gur a llid gerllaw;"

ac mai ein dyledswydd oedd myned dan arfau, os byddai galw. Dyna oedd cred y rhan fwyaf o'n pregethwyr a'n beirdd y dyddiau hyny; ond y mae rhyfel a thywallt gwaed yn cael edrych arno mewn goleu gwahanol gan laweroedd yn yr oes hon.

Y mae ganddo "Groesawiad Heddwch," a wnaed yn y flwyddyn 1815. Dadgenid llawer, gynt, ar ei gân o gynghor i'w frawd, yn 1797, wrth iddo gychwyn i Lundain.

"Tydi newisol frawd hyfrydol,
  Yn ol awyddol waith,
Sy'n myn'd i Lundain gywrain gaerau,
  Filldirau pell o daith;
Dinas boblog, foddog, fawr,
  Da deg wedd odidog wawr,
Heb iddi harddwaith gemwaith gymar
  Fawr le ar ddaear lawr."

Cynnwysa y gân amryw gynghorion dwys; ond nid ydyw hon yn rhydd oddiwrth eiriau llanw.

Cyfansoddodd farwnad hefyd i'r un gwrthddrych, yr hon oedd ar bob tafod hoff o farddoniaeth gynt. Y mae mewn dull o ymddyddan rhwng y byw a'r marw:—

BYW.

"Fy anwyl union frawd un galon
  Davies dirion p'le 'r eist di?
Synu 'r wyf os wyt yn gorwedd,
  Gwaela' gwedd o'm golwg i,
Gwel'd y llwybrau wnest eu tramwy,
  A'th gyfeillion drwy 'r holl dre'
Methu gwel'd dy wyneb llawen
  Yma 'n Llundain mewn un lle;
Ai pell yw 'r daith y'th alwyd iddi,
  A'n gadaw ni; ai gwiw dy nol?
Down yn barod, i'th gyfarfod,
  Er mwyn dyfod yma 'n d'ol.

MARW.

Taw a wylo, mrawd, ti weli,
  Meddaf iti 'r modd a fu,
Angau prysur dros ei feistyr,
  Draw sy'n eglur droes i nhŷ;
Ataf daeth heb ofyn cenad,
  Fe wnaeth fy mrad yn eitha 'mron,
At fy nghalon yr ergydiodd,
  Yna tôrodd holltodd hon:
Troes fi i garchar daear dywyll,
  Lle diganwyll wedi 'i gau,
Annedd unig pridd a cheryg
  Nid gwiw cedd cynnyg ei nacâu."

Y mae y gân hon yn llawn o'r syniadau mwyaf dwys. Am y priodoldeb o osod geiriau yn ngenau marw, barned y deallus. Yr oedd y Dr. Johnson yn groes i hyn.

Y mae tlysni a dwysder yn yr englynion "Myfyrdod yn mysg y Beddau:"—

"Meirwon yw 'r gwychion wŷr gynt—ni lynodd
Lawenaf o honynt;
Fy nheidiau, nhadau 'r un hynt,
A 'mrodyr meirw ydynt.

"Dygwyd yr un a'm dygodd—i fywyd,
A'r fwyaf a'm maethodd;
Y llaw i'm twymnaw a'm todd,
Lawer awr a lwyr oerodd."

Y mae ei efelychiad o "*Life's but an Inn,*" yn naturiol.

"Nid ydyw 'r byd ond gwesty,
Neu megys llety llawn,
Boreufwyd rhai gymeran',
Ac heibio 'n fuan iawn,
Arosant eraill giniaw,
Ar hyny heibio 'r ânt,
Rhai hynaf ond swperu,
Ac yna cysgu wnant."

Y mae yn ei "Gynghor i Gyfaill i ochel Meddwdod," ergydion i'r byw, er nad oedd y bardd yn aelod o Gymdeithas Llwyrymattaliad:—

* * *

"Mae 'r cwrw fel agoriad,
Fe wna ddattodiad dyn,
Yn rhyddi chwantau maglau mwygledd,
A llygredd o bob llun;
Rhoi 'r synwyr ar le serth,
Rhoi 'r cry' i anafu ei nerth,
A'r goreu 'i addysg gyr y ddiod
O'i wybod yn ddi werth;
Mae gormod cadarn ddiod
Fel cawod am ben calch,
Yn mygu a chwyddo, gwynio gwenwyn,
Aml feddwyn boldyn balch;

* * *

Nid oes i'r meddwyn, meddaf,
Annoethaf, gwaethaf, gwŷn,
Glod gan eraill glyd gynnarwch,
Na heddwch ynddo 'i hun;
Mae 'n rhoddi fel mewn rhych,
Ei holl synwyrau 'n ngwlych,
Ei gest yn gors a'i safu yn golsyn,
A'i wddf yn solfyn sych.

* * *

Pa ddywenydd? pa ddaioni
Sy 'n hwyr o gwmni i'w gael?
Dim ond yfwyr, carwyr, cwrw,
Cynnulleidfa ac enw gwael;
Llety 'r glwth a'i gegrwth gân
Llety 'r tyngwr naill du 'r tân;
Cludfa clwyf pob nwyf neu afiaeth,
Magwraeth yma a gân."

Y mae yn ei englynion "Anghlod i ormod o Win," yr englyn canlynol:—

"Gormoddiad sy 'n gyru meddwyn—i golliant,
Nas gall hunan-ddiffyn;
Mawr fawr fai nad allai dyn,
Arbed peth fo i'w erbyn!"

Y mae yn ei englynion ar "Air yn ei amser," ffraethder mawr:—

"Amserol tarddiol air teg—dyn o rym,
Dyna rodd helaethdeg,
Anhawdd yw cael un o ddeg,
A'i edwyn yn ei adeg.

"Llawer un yn llwyr anwar—ni sieryd
Amserol air doethgar,
Ac wedi barn gyda bâr
Rhydd ddeuddeg rhy ddiweddar."

Buasai yn well genym heb "dyn o rym," a "llwyr anwar;" canys y maent yn hacru y llinellau.

Ni chynnwysa y llyfr oddiyma i'r diwedd, heblaw y pennillion ar wagedd y byd, a'r tri rhybudd, ond ychydig o anerchiadau, ac englynion ar destunau, megys "Amwisg Awrlais;" "Trigolion y Byd;" "I'r Ganwyll;" "Pennillion pedwar Tymmor y Flwyddyn," &c. Ar y cyfan, y mae "Diliau Barddas" yn gyfrol dda o ran ei thuedd.

Nid ydym yn gweled yn fawr o gamp i ddyn gyfansoddi oddeutu tri chant neu bedwar o dudalenau mewn oes, a chanddo ddim arall i'w wneyd. Y mae yn rhaid fod llawer o amser wedi ei gamdreulio yn rhywle; ond y mae yn debyg fod llawer o ddarnau wedi eu cyfansoddi gan Robert Davies sydd heb fod ar gof. Iddo ef y priodolir "Ewyllys Adda," yr hwn sydd yn parhau yn ei boblogrwydd hyd y dydd hwn gyda llaweroedd. Clywsom rai englynion o'i gyfansoddiad, y rhai nid ydynt yn y "Diliau Barddas;" megys yr englyn i Johanna Southcote:—

"Yr Efa gynta' fu gaeth—fall o rym,
Felly 'r ail ysywaeth,
Ond ar ol ei marwolaeth,
Druan oedd, drewi a wnaeth."

Englyn i un o hen filwyr Syr Watkin, a ymffrostiai yn ei orchestion, yn Iwerddon, yn codi plant bach ar flaenau bidogau, yr hwn oedd yn boenus dros ben mewn ewmpeini yn crefu ar Robert Davies wneyd englyn iddo. Gwnaeth yntau yr englyn canlynol:—

"Byd sych, yn fynych heb fwyd,—na dillad,
Deallwch rhag anwyd;
Heb dy, gwely, nag aelwyd,
Dyma yw llun yr hen Dwm Llwyd."

Efe a ennillodd y gamp gydag englyn yr awyren, yn Eisteddfod Dinbych, yn 1828:—

"Awyren, belen, glud bali—drwy chwa,
Derch hynt hyd wybreni;
Nwyf wib long, ban nawf, heb li',
A llaw dyn yn llyw dani."

Ennillodd ar y testun, chwe' englyn ar Duges Kent, a'r Dywysoges Victoria, yn Eisteddfod Beaumaris, yn 1832. A chafodd y wobr am y cywydd goreu ar "Ddafydd yn canu y delyn o flaen Saul," yn yr eisteddfod hòno.

Bu Robert Davies yn barnu mewn ychydig o eisteddfodau ar ol Eisteddfod Dinbych; ond edrychid arno gydag ammheuaeth. Nid boddlawn iawn oedd y beirdd ar ol Eisteddfod y Wyddgrug, yn 1823, yn yr hon y cafodd John Blackwell gyfleusdra i dori ffigiwr fel areithiwr a bardd. Iddo ef y dyfarnodd Robert Davies a'r Dryw y wobr am yr awdl oreu ar "Faes Garmon." Meddylid fod Blackwell yn ymgeisio am y gader, ac am fyned yn berson, ar yr un pryd. Pa un bynag a oedd hyny yn bod neu beidio, fe lwyddodd yn y ddau gais. Nid oedd neb o'r beirdd yn ammheu dim o berthynas i alluoedd John Blackwell mewn "canu rhydd;" ond yr oedd yn gryn syndod iddynt ei weled yn gallu neidio i'r gader mor ddiseremoni, a hwythau yn tybio mai prin y gallai efe wneyd englyn heb feiau gwahanddedig cerdd dafod ynddo. Yr oedd llawer o bethau digrif yn cael eu mynegu o berthynas i gyfansoddiad yr awdl hòno; sef, mai Blackwell oedd wedi tynu y cynllun, ond mai dyn arall oedd ganddo yn cynghaneddu y gwaith; eithr nid ydym ni yn sefyll dros gywirdeb yr hyn a

[illegible]; a chafodd drws agored [illegible]. Y mae yn gof genym i [illegible] yr eisteddfod; sef,—

> "[illegible]
> [illegible]
> [illegible]
> [illegible]
> "[illegible]—a'r Dryw,
> [illegible]
> [illegible]
> [illegible]"

[illegible] ar y bardd. Ni [illegible] y pethau yma, oni buasai fod [illegible] Blackwell. [illegible] siarad, fod Blackwell, [illegible] i fyny yn ol sect [illegible] wedi ei wisgo â [illegible] heb ddim ammheuaeth [illegible]. [illegible] hwy mai tuag amser Eisteddfod y Wyddgrug [illegible]. Ond yr oeddym ni wedi ei weled [illegible] bardd yn Eisteddfod Gwrecsam, yn 1820, a'r [illegible] a oedd ganddo awen. Gallai ef [illegible] a [illegible] ei awdl â hi; sef cael ei barnu yn orau yn Eisteddfod y Wyddgrug: a gallai hyny fel symudiad y bolltau oddiar ei [illegible] "o [illegible] dysgeidiaeth" yn Rhydychain. Os [illegible] yn deg, cyfiawnder â'r ymgeiswyr aflwyddiannus, ac â'r [illegible] ei chyhoeddi rhag blaen, yn lle ei chadw cyhyd o'r golwg. Gwyr pawb fod John Blackwell yn well bardd ar ol dyfod o'r athrofa, nag ydoedd pan yn dilyn ei gelfyddyd yn y Wyddgrug. Pe cawsai yr awdl ei chyhoeddi cyn iddo ef gael ei anfon i Rydychain, buasai y wlad yn dawelach ei meddwl ei fod ef wedi ennill yn anrhydeddus; ac ni edrychasid ar Robert Davies, a'r Dryw, gyda'r fath ammheuaeth ag y gwneid yn yr amgylchiad yma: oblegid nid ydyw yr awdl, yr awr hon, wedi yr holl oediad yn ei chyhoeddiad, yn rhydd oddiwrth wallau anafus cerdd dafod, beth bynag yw rhagoroldeb ei meddylddrychau: ac anfynych iawn y gwobrwyid unrhyw awdl y pryd hwnw a fyddai yn groes i'r rheolau sefydledig, gan nad beth fyddai ei rhagoriaethau ar gyfrifon eraill, os na fyddid yn gwneyd tsafr â dyn. Pe chwilid gyda llusern, ac ni fyddai raid iddi fod yn llusern oleu iawn ychwaith, gwelid mai nid llawer o gymeriadau cyhoeddus yn ein gwlad sydd wedi dyfod i fyny yn anrhydeddus yn llygad haul, heb fod rhyw gastiau wedi cael eu chwareu, naill ai ganddynt hwy eu hunain yn ddirgel, neu gan eraill drostynt, er eu dwyn i sylw, ac er eu cadw mewn sylw. Y cymeriad a ennillir, heb yn waethaf, yn nanedd cenedl, yw y goreu am wisgo wedi y cwbl, ac nid yr hwn y mae yn rhaid wrth bwff yn awr a phryd arall er ei godi a'i gadw yn ngŵydd y byd.

Bydd yn rhoi difyrwch mawr i ni weithiau weled cyfeillion "yn cosi eu gilydd" yn y cyhoeddiadau. Y mae pob dyn teilwng yn ymddiried i'w weithredoedd i'w ganmawl yn y pyrth; ac nid â led ei droed byth i

ganmawl er cael cyfleusdra i dderbyn canmoliaeth yn ol. Y wlad sydd i benderfynu safle pob un, ac nid cyfeillion neillduol na pherthynasau. Y mae rhai yn myned mor wastraffus yn eu canmoliaethau i ryw rai a garant, ac er ateb rhyw ddybenion dwbl iddynt eu hunain, nes beirniadu gwaith awdwyr sydd heb erioed ddyfod drwy y wasg. Y mae hyn yn cario canmoliaeth yn rhy bell i'r anwybodus beidio ei weled; oblegid nid all y beirniad fynegu ei farn ond ar beth sydd gyr ei fron mewn argraff; ac nid ydyw y farn a rydd efe ond ei farn bersonol ei hun wedi y cwbl.

Os dywedasom ddim yn y tudalenau blaenorol sydd â thuedd ynddo i ddolurio teimladau cyfeillion y bardd, y mae yn ddrwg genym hyny: ond nid oedd genym ddim help; canys yr ydym yn barnu mai cyfiawnder â'r oes sydd yn codi yw mynegu yn onest ein golygiadau ar gymeriadau cyhoeddus, gan adael i'r wlad farnu pa un ai cywir ai peidio yw ein syniadau. Y mae barn y wlad yn wahanol i'r hyn a feddylia cyfeillion mynwesol am eu heilunod; ac oni bai hyn, â'i rhai dynion yn ynfyd, ac yn wrthddrychau y dylid eu dodi dan ofal rhywrai, o herwydd yr effaith a gai gwagfolawd arnynt, yr hyn a wastreffir gan ddynion disynwyr a digydwybod. Y mae gan bob awdwr ei gylch priodol ei hun; ac nid am yr un peth y mae pawb yn ganmoladwy. Ein bwriad ni yw ymdrechu dal y dafol yn deg, gan roi i bob un y rhagoriaeth neu y rhagoriaethau a berthyn iddo; a nodi allan bob peth beius, fel na wnelo ymgeiswyr ieuainc reolau o wendidau, nac efelychiad o ddiffygiadau awdwyr sydd yn cael eu gosod fel cynlluniau o flaen yr oesau dyfodol.

NEWMAN YN ERBYN NEWMAN; NEU, Y GWRTHGREDWR A'R GORGREDWR.

Dodir enw y ddau frawd uchod fel cynnrychiolwyr dwy gyfundrefn o opiniynau, y rhai y maent hwy wedi hynodi eu hunain fel dadleuwyr drostynt—dwy gyfundrefn y gellir, yn ddibetrus, eu dynodi fel prif heresiau y byd Cristionogol (fel ei gelwir) yn y dyddiau hyn. Ein hamcan ar hyn o bryd, ydyw bwrw byr olwg ar y ddwy gyfundrefn, a alwn *Gwrthgrediaeth*, a *Gorgrediaeth*. Ond fe allai nad anmhriodol fyddai dywedyd ychydig am *y ddau frawd* a osodir i'w dynsodi, gan eu bod mor adnabyddus i'r byd darllengar fel athrawon a dysgawdwyr y ddwy.

Dichon, pe buasai genym ddesgrifiad o ansoddau meddyliol, galluoedd, tymherau, a thueddiadau boreuol y ddau frawd, y gallesid rhoddi rhyw fath o gyfrif athronyddol am y gwahanol gyfeirnod a gymerodd y naill i'r llall, pan dyfasant i addfedrwydd oedran. Yr oeddynt yn feibion yr un tad a mam; cawsant yr un addysgiadau teuluaidd yn eu mabanoed; cawsant yr un manteision dysgeidiaeth yn eu hieuenctid; dygid y ddau i fyny i'r offeiriadaeth yn yr Eglwys Sefydledig; graddiwyd y ddau yn Rhydychain; ymddangosai fod y ddau yn feddiannol ar alluoedd a thalentau i ragori; ac oddiwrth yr holl bethau hyn, gallesid dysgwyl y buasai gyrfa bywyd y ddau yn cydredeg yn gyffelyb. Ond ymadael ac ymwa-

hanu a wnaethant. Marchogodd meddwl un megys ar gefn ffydd, gan hollol ymwadu â rheswm, ac ymaith âg ef, heb na ffrwyn na genfa, nes y gyrodd i diroedd poethion a gwylltion pob hygoeledd ac ofergoeledd, lle nad oes na chlawdd, na therfyn, na phen draw, na dyben, o'i flaen. Marchogodd y llall, yntau, ar gefn rheswm noeth, gan hollol ymwrthod â ffydd, ac ymaith âg yntau ffordd arall, i anialdiroedd o dywyllwch ammheuon, petrusder, ac ansicrwydd; i ddiffaethleoedd oerllyd, rhewllyd, gwrthgrediaeth. Crwydra yn yr anialwch mawr ac ofnadwy hwn, lle y mae "syched, ond nid oes dwfr;" newyn, ond nid oes manna i'w dori; seirff tanllyd ac ysgorpionau ddigon i'w frathu, ond yr un sarff bres i edrych ati am feddyginiaeth.

"Gwrandewch ar yr Eglwys, ac ymwrthodwch â rheswm," medd un. "Gwrandewch ar reswm, ac ymwrthodwch â'r Eglwys, ac â'r ysgrythyr hefyd," medd y llall. "Na cheisiwch na deall, na rhesymu, nac amgyffred dim oll; ond credwch bob peth oll, heb ammheu dim, ar a ddywedo yr Eglwys wrthych," medd y naill. "Na chredwch ddim oll a ddywedo na'r Bibl na'r Eglwys chwaith wrthych; ond gwrandewch ar lais eich rheswm a'ch dealltwriaeth yn unig," gwaedda yr un arall. "Ymaith â rheswm fel peth ofer, a gwaeth na diles," dywed y cyntaf. "Ymaith â ffydd fel peth ynfyd a thwyllodrus," dywed yr olaf. Y mae ffydd Newman y *gor*gredwr wedi llofruddio ei reswm, a rheswm Newman y *gwrth*gredwr wedi llofruddio ei ffydd. Y mae *ffydd* y cyntaf yn drachwantus fwyteig; ond taflod ei genau fel yr eiddo yr estrys, heb ynddo ddim synwyr archwaethol—hi a lwnc goed, a sofl, a cheryg, a haiarn, a lledr, a phob peth a ddodo "yr Eglwys" yn ei chyrhaedd; ac ymddengys bod ei chylla yn gallu derbyn a threulio y cwbl fel eu gilydd, fel y mae ei hygoeledd gorphwyllog yn cael maeth a chynnydd trwyddynt. Y mae *rheswm* yr olaf, yntau, â'i archwaeth a'i gylla yn afiachus a gwanaidd, a'r tamaid a geisio fwyta a llyncu yn glynu yn ei wddf, fel y mae yn ei daflu i fyny drachefn. Mewn un peth, y mae sefyllfa y ddau yn gyffelyb—y mae y ddau yn glaf o afiechyd marwol.

Newman yr hynaf, mewn gwirionedd, ydyw tad heresi Rhydychain; yr hon a gamenwir *Puseyaeth*, canys *Newmaniaeth*, neu, os mynwch, *Newmania*, y dylesid ei galw; canys Dr. Newman, ac nid Dr. Pusey, ydoedd ei hapostol a'i harchoffeiriad cyntaf a phenaf. Dygwyddodd yn hyn, fel yn achos darganfyddiad arddrych orllewinol y ddaear. I Columbus, mewn gwirionedd, y perthyn anrhydedd ei darganfyddiad cyntaf, ond gŵr arall, Americus Vespasius, a ladrataodd yr anrhydedd o osod ei enw arni. Felly y dygwyddai rywfodd i'r heresi hon gael ei galw ar enw Dr. Pusey, yn lle ar enw Newman, gwir etifedd yr anrhydedd, os anrhydedd yw.

Canolbwnc ffydd y gorgredwr, megys yr awgrymwyd eisoes, ydyw, "yr Eglwys." Cydnabydda awdurdod yr ysgrythyr yn unig, am fod "yr Eglwys" yn erchi hyny; a derbynia a chreda yr ysgrythyr fel y mae "yr Eglwys" yn ei deall. Abertha ei reswm, ei ddeall, a'i farn bersonol, ar allor gwasanaeth ei ffydd yn yr Eglwys. Y mae yr Eglwys yn anffaeledig, ac ni all gyfeiliorni. Ei ddyledswydd ef ydyw credu pa beth bynag a ddywedo hi, heb ymofyn na chwilio dim pa un ai "ydyw y pethau hyn felly," neu beidio; canys rhaid eu bod, gan fod yr Eglwys yn tystiolaethu. Dyrchafa yr Eglwys fel hyn uwchlaw yr ysgrythyr, canys y hi sydd yn rhoddi awdurdod yn nhystiolaeth yr ysgrythyr. Gan hyny, drachefn, y

mae holl draddodiadau a darbodiadau yr Eglwys o ogyfuwch hawl ac awdurdod a'r eiddo yr ysgrythyr ei hun. Y mae yr oll a ysgrifenodd ac a draddododd y tadau yn yr ail, y drydedd, a'r bedwaredd ganrif, yn haeddu yr un derbyniad ag a haedda ysgrifeniadau Paul, a Phedr, ac Iago, ac Ioan. Ofer i chwi geisio dangos gwrthuni y fath dybiaeth i'r gorgredwr, drwy brofi fod y tadau yn fynych yn croes daeru yn erbyn eu gilydd, ac yn fynych iawn yn anghyson â hwy eu hunain. Efe a ddywed wrthych yn sobr iawn, gan droi gwyn ei lygad tua'r nef, "gwell ydyw credu nac ymresymu." Na thybier ein bod yn dyfeisio yr ymadrodd i'w osod yn ngenau y gorgredwr, ond cymerwyd ef o'i enau ef ei hunan; ei unig ddadl dros y gobaith sydd ynddo ydyw. Dywed ein bod mor rhwymedig i gredu y tadau, a gosodiadau yr Eglwys, ag ydym i gredu Cristionogaeth ei hunan; ac mai yr un peth fyddai i ni fod yn anffyddiaid, ag fyddai i ni ymwrthod â'r athrawiaeth o olyniad apostolaidd.

Wedi i feddwl unwaith ddechreu gogwyddo yn y ffordd hon, nid oedd anghen am brophwyd neu ddewin i ragfynegu ei dynged. Nid oedd un lle y tu yma i Rufain a wnelai y tro yn orphwysfa iddo. Yr hen Fabilon Fawr hono o eglwys ddirywiedig, syrthiedig, a aethai "yn drigfa cythreuliaid, ac yn nyth pob aderyn aflan ac adgas," o hygoelion ac ofergoelion, oedd yr unig le a ddygymmodai â'i ysbryd ac â'i elfen ef. Ei genau hi yn unig oedd yn gallu traethu digon o fawrhydri a chabledd, am anffaeledigaeth ei hawdurdod, hynafiaeth ei ffydd, apostoliaeth ei hoffeiriadaeth, ac amledd ei gwyrthiau, i foddloni a digoni gwanc ei fympwyon hygoelus. Rhedodd lliaws mawr o ddysgyblion ieuainc y Newmania yno o flaen eu hathraw, Newman ei hunan. Dilynid hwy ganddo yntau, ymhen amser, a mawr oedd y croesaw a gafodd, a'r llawenydd a barai hyny iddo yntau. Efe yn awr yw un o brif apostolion yr "eglwys sanctaidd" hono; darlithia ar ei gwyrthiau, a rhinweddau rhyfeddol esgyrn ei seintiau, ei chreiriau, ei delwau, a'i seremoniau. Ni phetrusa gyhoeddi bod genym cystal awdurdod i gredu yn ngwirionedd gwyrthiau y "*Winking Madonna*," y "*Bleeding Statue*," yr "*Holy Coat of Treves*," a'r oll a gofnodir yn nghroniclau gwyrthiau yr eglwys, ag sydd genym i gredu yn ngwirionedd y gwyrthiau a gofnodir yn y Testament Newydd! Ac a wyddoch chwi, gydwladwyr hoff, y mae dysgyblion yr athraw hwn yn dra lliosog yn Nghymru y dyddiau hyn, yn hau efrau ei egwyddorion gyda diwydrwydd mawr. Y maent yn rhy gyfrwys a gochelgar i'w haddef a'u cyhoeddi yn llawn a chroew eto, ond ymdrechant barotoi meddyliau y bobl o dipyn i beth i'w derbyn a'u cofleidio. Y maent eisoes wedi myned yn ddigon hyfion, rai o honynt, i ddadgan yn eu pregethau fod y Bibl yn llyfr peryglus i'w ddodi yn nwylaw y werin, ac mai athrawiaeth felldigedig ydyw hono, sydd yn dadleu bod hawl gyfartal gan bob dyn i chwilio, darllen, a myfyrio gair Duw trosto ei hun: mai o enau yr eglwys y mae y werin i dderbyn y gair, ac y dylai fod yn foddlawn ar yr hyn a welo hi yn dda ac yn ddoeth ei roddi o hono iddi, a derbyn hyny hefyd yn ol yr eglurhad a ddyry yr eglwys arno. Dyna wir hanfod a sylwedd Pabyddiaeth; a dyna yr egwyddorion a ddyfal daenir yn ddirgel a chyhoeddus gan yr offeiriadaeth Buseyaidd yn Nghymru, y dyddiau hyn. Nid can' milltir o R——n, ac nid can' mlynedd, na chan' wythnos yn ol, y traddodwyd pregeth yn cynnwys y syniadau uchod; a chan iddynt beri cryn gyffroad yn mysg y praidd, anfonwyd am offeiriad arall o eithaf gorllewinbarth

y wlad, i draddodi pregeth er cadarnhau athrawiaeth ei frawd, fel yn ngenau y ddau dyst Puseyaidd, y byddai safadwy bob gair.

Nid all dim fod yn fwy gwahanol a chroes i'r ffydd a ofyna yr efengyl, na ffydd gibddall, estrysaidd y gorgredwr o Rufain a Rhydychain. "Chwiliwch yr ysgrythyrau." "Profwch yr ysbrydion." "Dywedyd yr wyf wrthych, megys wrth rai synwyrol, bernwch chwi y peth yr wyf yn ei ddywedyd?" medd hi. Cyhoedda ei thystiolaethau, a dwg ymlaen ei phrofion, a geilw ar bob dyn i'w chwilio, eu pwyso, a'u barnu.

Geilw ar y dyn, nid i ymwadu ac ymwrthod â'i reswm, pan yn gwrandaw arni hi, ond i alw allan holl alluoedd ei reswm a'i ddealltwriaeth i'w hystyried. Tystia iddo bethau uwchlaw galluoedd ei reswm i'w dirnad, eu hanigyffred, a'u cysoni; ond cynnygia brofion teg i'w reswm o'u gwirionedd, fel y gallo eu credu heb ymwrthod â'i reswm, a bod yn dawel ei feddwl ar sail dda, nad ydynt, er eu bod uwchlaw dirnadaeth ei reswm ef, yn groes i reswm mewn gwirionedd; er nas gall eu cysoni, nad ydynt, er hyny, yn anghyson. Ac oni bai fod pethau fel hyn yn y dystiolaeth efengylaidd, ni byddai lle i ffydd weithredu, nac angen am dani; ac o ganlyniad, ni byddai lle i ddysgu a phrofi ufudd-dod y creadur i'w Greawdwr.

Fel creadur rhesymol, gweithredydd rhydd, moesol, cyfrifol trosto ei hun, yr ymdrinia yr efengyl â dyn. Ffydd resymol, ufudd-dod a gwasanaeth rhesymol, a ofyna ganddo. Archa i'w chredadyn hi fod yn "barod bob amser i roi rheswm i bob un a ofyno ganddo, am y gobaith sydd ynddo gydag addfwynder ac ofn."

Moddion cynnyrchiad y ffydd a ofyna yr efengyl, ydyw gair Duw yn unig:—"Ffydd sydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw." Daw â thystiolaeth ddwyfol, a phrofion dwyfol o wirionedd y dystiolaeth hono, i'w gosod o flaen rheswm a dealltwriaeth y meddwl, fel na byddo ei ffydd am ei fywyd tragywyddol i bwyso ar ddoethineb ddynol, ond ar "nerth Duw." Ond Rhufain a Rhydychain a fynant ddwyn "agoriad y gwybodaeth," gair Duw, o ddwylaw dynion. Mynant dynu llygaid a chlustiau rheswm y dysgybl yn gyntaf peth; yna gwthiant i lawr ei wddf bob amryfusedd ac ofergoelion afresymol; a gwnant iddo eu llyncu a'u credu dan yr enw, "dirgeledigaethau yr Eglwys." Os byth y gofyna, "Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?" Dywedant wrtho, na pherthyn iddo holi ac ymresymu, ond credu; a'r foment y dechreua ammheu dim, ei fod yn peryglu iachawdwriaeth ei enaid. Nid ffydd yn Nghrist, ffydd yn nhystiolaeth Duw, ydyw hon; ond ffydd yr Anghrist, ffydd yn yr Eglwys, ffydd mewn defodau a thraddodiadau dynol, mewn seremoniau, ac ordeiniadau cnawdol; mewn gair, "amryfusedd cadarn i gredu celwydd" ydyw.

Nyni a adawn y *gorgredwr* ar hyn o bryd (ond fe allai y dywedwn air am dano eto cyn terfynu) i drafod ychydig ar ei frawd, y *gwrth*gredwr; canys fel y mae *Father* Newman, a'r *Professor* Newman yn ddau frawd yn ol y cnawd, y mae y ddwy gyfundrefn y gosodem hwy i'w cynnrychioli, yn ddwy *chwaer* hefyd yn ol yr ysbryd, er mor annhebyg i'w gilydd yn eu hymddangosiad. Neu, hwyrach mai mwy priodol eu galw y fam a'r ferch. Arweinia Babyddiaeth, neu Buseyaeth (canys yr un peth ydyw) yn naturiol i wrthffyddiaeth; credu pobpeth, i ymwrthodiad â phob crediniaeth. Nid annhebygol ydyw mai duwinyddiaeth hygoelus y brifysgol, i'r hon dduwinyddiaeth yr oedd ei frawd yn brifddysgawdwr, a arweiniodd y Newman

ieuangaf i dir gwrthgrediaeth. Ac os ydym yn cofio yn iawn, canys nid ydyw y llyfr wrth law genym, efe a ddywed rywbeth felly ei hunan yn ei "*Phases of Faith.*" Y mae rheswm, wedi ei wasgu a'i orthrymu fel hyn, o'r diwedd yn ymgodi ac yn dial ei gam ar y gallu a'i treisiodd, fel y gwna deiliaid llywodraeth gaeth a thra-awdurdodol, godi mewn gwrthryfel yn erbyn yr awdurdodau a'u gorthrymant. Plentyn gorthrymder a thrais ydyw gwrthryfel mewn gwladwriaeth bob amser; ac os dygwydd i'r blaid orthrymedig gael y llaw uchaf yn yr ymryson, nid oes wybod yn y byd pa gyflafanau a gyflawna. Felly rheswm, yntau, ar ol ei gaethiwo a'i gadw tanodd am dymmor, pan unwaith y cydnabyddo y meddwl ei uchafiaeth a'i awdurdod, efe a geisia ddileu oddiar wyneb y ddaear bob math o ffydd fel eu gilydd, fel ei elynion ef, ac a gyflawna bob rhusedd a champwri afresymol ac anfad.

Y mae Pabyddiaeth yn Ffrainc a Germani wedi magu pryfaid o anffyddiaeth, annuwiaeth, a holldduwiaeth, ag ydynt er ys blyneddau lawer bellach yn cnoi ac yn bwyta eu hymysgaroedd. Yn Ffrainc yn neillduol, braenodd ac ymadgysoddodd i annuwiaeth gyffredinol ymron; yn Germani, i hollddwiaeth. Ymlidiodd rhywbeth dan yr enw rheswm, bob ffydd yn llwyr o'r terfynau. Gall gwrthgrediaeth yn y gwledydd hyny ddefnyddio geiriau Rahel gynt, gan ddywedyd, "Ymdrechais ymdrechiadau gorchestol â'm chwaer, a gorchfygais."

Ni pherthyn i'r Proffeswr Newman yr enw o fod yn dad i'r gyfundrefn wrthgredol, fel y mae i'w frawd yr enw o fod yn dad i'r llall yn Rhydychain, eithr dysgybl diweddar i'r gyfundrefn ydyw ef: y mae hi yn hen gyfundrefn. Gwnaeth swn mawr yn Lloegr yn yr ail ganrif ar bymtheg, a dechreu y ddeunawfed, yn nyddiau yr hen ddysgawdwyr Tindal, Hobbs, Bolingbroke, Gibbon, Hume, ac eraill. Trosglwyddwyd ei hegwyddorion trosodd i'r Cyfandir; ac yn ddiweddar dychwelodd yn ol i'r wlad hon o Germani, ar ffurf a gwedd newydd, gydag amryw ychwanegiadau ati; canys er y myn ei hathrawon diweddar mai darganfyddiad o'r eiddynt hwy ydyw y gyfundrefn hollrinweddol hon, sydd, dybygid, i lwyr-feddyginiaethu afiechyd meddwl y byd, ac fel gwialen Aaron i lyncu holl wiail y swynwyr gynt, erbyn ei chwilio, fel y dangosodd Tholuck ac eraill, yr hen Saesnes hòno gynt ydyw hi, wedi ei Germaneiddio gan Schelling, Hegel, a Strauss, ac eraill o honynt. Gwrthwynebir Cristionogaeth â'r un dadleuon yn hollol ag a ddygai yr hen anffyddwyr Seisnig yn ei herbyn, ond yr ymdrechir eu gosod allan mewn dull gwahanol, er mwyn cael gwell mantais i hòni gwreiddioldeb; canys ymffrostia y dysgawdwyr hyn yn fawr eu bod hwy yn dwyn pethau newyddion, cuddiedig er seiliad y byd, i oleuni, y rhai a gloddiasant allan o fwngloddiau gwir athronddysg, drwy efrydu a rhesymu. Cymerant arnynt eu bod yn myned i ddwyn y tryblith i iawn drefn, i adferu pob peth i'w le, a dangos i'r byd y ffordd dra rhagorol i fyned rhag ei flaen i deml gwir wybodaeth, rheswm, a doethineb. Y maent yn wir wreiddiol mewn un peth, fodd bynag; hyny yw, mynant gael eu hystyried yn Gristionogion da, er eu holl ymdrechion i geisio cloddio dan seiliau Cristionogaeth. Haerant eu bod wedi puro a pherarogli y grefydd Gristionogol, a gwneyd mwy o wasanaeth iddi nag a wnaethai neb erioed o'u blaen hwy; ac ar yr un pryd, cyhoeddant nad oedd gwyrthiau y Testament Newydd, profion penodol dwyfolder y grefydd hon, yn ddim oll, ond naill ai lledrithion dychymygol, neu gudd-chwedlau (*illusions or mythologies*), ac nad yw

[illegible] yr hanesion am [illegible] yn unig [illegible] "[illegible]" Homer, neu Chwedlau [illegible]. [illegible] fel [illegible] mewn [illegible], [illegible] yn [illegible] i [illegible] gyffredinol dynolryw. Y mae [illegible] yn [illegible] i [illegible], ac am hyny y mae gwyrth yn [illegible] annmhosibl. [illegible] ac na bydd byth, [illegible] yn unig, [illegible] mewn [illegible] [illegible] fug-chwedl ddyfeisiedig. "Gallwn hyf[illegible] [illegible] Strauss [illegible], [illegible], [illegible] am angelion ac [illegible] [illegible] yn unig fel pethau annichonadwy eu bod yn [illegible] y [illegible] yn wrth-[illegible] i'r deddfau [illegible] a chyffredinol a [illegible] gwrs dygwyddiadau." Nid ydyw yr achos cyntaf [illegible] yn cyfodd [illegible] o [illegible], mewn un [illegible] ar [illegible]. Ni [illegible] ddwyn profion o hyn; felly, [illegible] i [illegible] ac ar [illegible] y natur. Ond pwy neu pa beth yw "yr achos cyntaf" yn [illegible] y gyf-[illegible] hon? Wel, y mae wedi ei adeiladu ar [illegible] â'r gred [illegible] Duwdod, fel Bod personol, annibynol ar natur. Natur yw eu Duw hwy Duw yw pob peth, ac y mae pob peth yn Dduw, neu yn rhan o'i hanfod nid yw pob peth a welir ond gwahanol ffurfiau ac amlygiadau o hono. Rhan o'r hanfod gyffredinol hon ydyw enaid dyn, ac nid bodolaeth [illegible], i gael ei lyncu i fyny yn fuan yn yr hanfod fawr gyffredinol. Nid yw yr hanfod hwn, er ei fod yn Dduw, yn fod personol, yn meddu [illegible], gallu, ac ewyllys annibynol; llywodraethir y greadigaeth gan ddeddfau natur yn hollol; ac eto, enaid yr holl greadigaeth ydyw yr hanfod cyffredinol hwn! Gwadant hanfodiaeth bersonol y Gwaredwr o [illegible]. "Nid yw Crist yn ddynsawd," medd Strauss, "ond [illegible] hyny ydyw, *dyndodiaeth*. Wele, yn yr hil ddynol, y Duw-[illegible]! Wele blentyn y forwyn weledig, a'r Tad anweledig!—hyny yw, plentyn [illegible] a meddwl! Wele y Gwaredwr, y Prynwr, yr Un [illegible]. Wele yr hwn sydd yn marw, yn adgyfodi drachefn, yr hwn sydd yn esgyn i'r nefoedd! Credwch yn y Crist hwn!—yn ei farwolaeth, a'i adgyfodiad; felly, cyfiawnheir dyn gyda Duw!" "A dyma'r ffoleddau [illegible] a gynnygir fel gwir ddeongliadau o'r hanesiaeth efengylaidd," medd Muller!

Wel, wel, y mae'n ddadl a ddinystriwyd, a pha beth a wna y creadur tlawd [illegible], [illegible]? Dyma y rhesymolwr wedi dodi ei drosol o dan wadn [illegible] ei ffydd a'i [illegible], a'i dymchwelyd i'r llwch. Nid yw yr oll a [illegible] ac a [illegible] fel ffeithiau sicr ond cudd-chwedlau wedi eu dyfeisio [illegible] y dywedir iddynt gymeryd lle; ac eto dywedir nad oedd gan y [illegible] o honynt yr un amcan drygionus i dwyllo eu darllenwyr. Nid [illegible] yn [illegible] i neb gymeryd y pethau fel ffeithiau hanesyddol, [illegible] y modd mwyaf difrifol mai y pethau a welsent â'u llygaid, ac a glywsent â'u clustiau, ac a gredasent â'u calonau, a lefarent ac a [illegible]. O [illegible] resymwr! yr wyt ti yn ynfydu—llawer o [illegible] a'n dy yru di yn ynfyd! Os aeth y gorgredwr yn benwan, yn [illegible], ac yn [illegible] yn ei hygoeledd—yn sicr ddigon, aethost tithau yn [illegible], yn [illegible], ac yn benbwl gwallgof ac ofer yn dy resymau, a'th "galon [illegible] a dywyllwyd; pan dybiaist dy fod yn ddoeth ti a aethost yn ffwl."

"[illegible] i ni ystyried yn fyr," medd Proffeswr Rogers, "rai o brofion Cristionogaeth. Ac mewn trefn i osod yr achos ger bron mewn dull mwy newydd,

nyni a gawn nodi prif benau y profion, nid i ddangos pa bethau y mae y dadleuydd tros Gristionogaeth yn addef wrth gredu yn ei gwirionedd, ond pa bethau raid i'w gwrthgredwr eu credu wrth gredu mai nid gwirionedd ydyw.

Yn gyntaf ynte, gyda golwg ar wyrthiau y Testament Newydd, pa un bynag ai fel lledrithiau cywrain i dwyllo synwyrau dynion ar y pryd, ac a gyflawnid felly gan y personau tybiedig yn yr adroddion am danynt,—ynte fel cuddchwedlau dyfeisiedig mewn amser ar ol hyny, y golygir hwynt. Pa bynag, meddwn, ai y naill neu y llall, nid ellirg wadu na buont lwyddiannus a buddygol y tuhwnt i ddim arall erioed yn hanesyddiaeth consuriaeth na ffugchwedlaeth. Rhaid i'r gwrthgredwr gredu fel y canlyn.—Ar y dybiaeth flaenaf, rhaid iddo gredu bod nifer fawr o wyrthiau ymddangosiadol, yn cynnwys yr argoelion mwyaf rhyfeddol;—megys, adferiad y claf, y dall, y byddar, y cloff, a chyfodiad y marw i fywyd, wedi eu *hactio* liw dydd goleu, yn nghanol lliaws o elynion maleisus, eu bod wedi eu cydnabod gan bawb oedd yn bresennol, ac iddynt orthrechu ar unwaith y rhagfarnau cryfaf, a'r elyniaeth ddyfnaf. Gwahaniaethai y rhai a dderbynient a'r rhai a wrthodent eu tystiolaeth yn unig mewn un peth,—sef, pa un ai o'r nef ai o uffern y tarddent. Rhaid iddo gredu bod y rhai a fuont fel hyn mor lwyddiannus yn y fradwriaeth anghyffredinol hon yn erbyn synwyrau dynion, a rheswm cyffredin, yn Iuddewon Galileaidd, o'r fath ag y mae hanesyddiaeth gyffredinol y tymmor hwnw yn eu gosod allan;—yn anwybodus, anllythyrenog, a dinod, ac uwchlaw y cwbl, yn llawn o ragfarn blaenorol, fel eu cydwladwyr oll, o blaid y grefydd, yr hon, yn gystal a holl grefyddau araill y byd, y meithrinent yn awr yr amcan o'i dyddymu,—rhaid iddo gredu ddarfod iddynt drwy appelio at y lledrithion rhyfedd hyn yn ngwyneb yr Iuddewon a'r Groegwyr, fel profion eglurlawn o wirionedd dadguddiad newydd, a galw, ar y sail hòno, ar eu cydwladwyr i roddi i fyny grefydd a gydnabyddent yn ddwyfol, ac ar bob cenedl arall, i roddi heibio eu cyfundraethau o ofergoelion ag nad oeddynt braidd yn ddim llai parchus yn eu golwg, nag oedd crefydd yr Iuddew ganddo ef, ddarfod iddynt, meddwn, lwyddo yn gyflym a rhyfeddol yn yr anturiaethau hynod hyn; ac mewn yspaid ychydig flyneddau, heb nac arfau, awdurdod, cyfoeth, na dysgeidiaeth, iddynt fuddygoliaethu i raddau helaeth iawn ar bob rhagfarnau, athroniaeth, ac erlidigaeth; ac yn ystod tri chan' mlynedd iddynt gymeryd meddiant cyflawn o demlau yr eilunod gwrthodedig yn mysg amryw genedloedd. Rhaid iddo gredu ymhellach, bod yr ymdrechwyr cyntefig hyn yn y twyllrithiau mawrion hyn ar y byd, yn gweithredu, nid yn unig heb un cymhelliad penodol, ond yn erbyn pob cymhelliad o'r fath; eu bod yn cyndyn gynnal i fyny y dianwadalwch dyfal a hirbarhaol hwn mewn twyll dielw iddynt, nid yn unig tra ynghyd gyda'u gilydd, ond hefyd pan ar wahan y naill oddiwrth y llall, mewn gwahanol wledydd,—o flaen gwahanol frawdleoedd,—dan bob math o arholion a chroesholion, ac er gwaethaf y rhwymau, ffrewyllau, y cleddyf, y groes, a'r stanc; bod y rhai a ennillent i ymuno â hwy yn yr achos yn glynu fel hwy eu hunain yn yr un gyndyn grediniaeth o'r unrhyw chwedlau cyfrwys; ac er bod ganddynt liaws mawr o gydgyfranogion yn eu cydfradwriaeth hynod, y buant bob amser yn ffortunus i ryddhau eu hunain a'u cydlafurwyr oddiwrth unrhyw arwydd o wendid yn yr achos, nac o anffyddlondeb y naill tuag at y llall; ac yn olaf, bod y dynion hyn, er eu holl anwybodaeth, yn meddu digon o alluoedd a gwreiddioldeb meddwl i ddyfeisio y trefniant aruchelaf a phuraf o foesoldeb a gyhoeddwyd erioed i'r byd,—a'r digywilydd-dra echrys i'w bregethu, er eu bod yn gydwybodol mai twyllo yr oeddynt, a'r peth sydd ryfeddach eto, yr anghysondeb o ymarfer a byw yn ol y trefniant hwn eu hunain.

Ar yr ail dyb,—bod y gwyrthiau hyn naill ai yn frudiau o ddwfn ddyfeisiau ffugiol, neu yn guddchwedlau dygwyddiadol wedi eu clytio wrth eu gilydd yn achlysurol wedi yr amser y dywedir iddynt gymeryd lle; rhaid i'r gwrthgredwr, ar y dybiaeth flaenaf, bod hyd yn nod llwyddiant byrbarhaol mewn llênyddiaeth ffugiol, pan y mae rhagfarnau i'w gwrthwynebu, yn un o'r pethau mwyaf anfynychaf a ddygwyddant; ac eto ddarfod i'r ffugiau hyn—gorchwyl dyfeisiol amryw feddyliau, y rhai a wnant yr honiadau mwyaf uchel a hyfion,—ac e

anghenrheidrwydd, a gynhyrfent wrthwynebrwydd yr Iuddew a'r Groegwr, ddarfod iddynt, meddwn, fod yn llwyddiannus er y cyfan, y tuhwnt i bob dychymyg, i ennill dylanwad ar galonau plant dynion; a darfod iddynt barhau i hud-dwyllo, trwy ymddangos yn berffaith hollol fel rhai yn traethu gwirionedd syml, diaddurn, ac adeiladu eu trefniant â dygwyddiadau dyfeisiedig, wedi eu trefnu a'u gosod yn y modd mwyaf cywreingelfyddgar ar sail gwir hanesyddiaeth —parhau, meddwn, i hud-dwyllo fel hyn y meddyliau craffaf a galluocaf ymhlith gwahanol genedloedd, a thrwy y gwahanol oesau; tra ar yr ail dyb, rhaid iddo gredu, fod dygwyddiad a damwain wedi peri i'r ffug-chwedlau hyn ymddangos yn gwbl hollol fel ffeithiau hanesyddol cywir; ar y naill dybiaeth neu y llall, rhaid iddo gredu (yr hyn sydd anfeidrol fwy rhyfedd) ddarfod i'r byd, pan oedd y ffugiau hyn yn cael eu cyhoeddi, ac yn absennoldeb y ffeithiau a haerent fel gwirioneddau, oddef iddo ei hunan gael ei ynfydu i gredu eu gwirionedd; ac y gweithredai fel hyn yn wyneb erlidigaeth oddiallan, yn gystal ag yn erbyn rhagfarn tufewnol; a bod (syndod yw meddwl, fel yr addefa, hyd yn nod Strauss ei hunan) yr ymchwilion hanesyddol manylaf, yn dwyn y casgliad hwn o ffugiau, neu guddchwedlau o fewn deg-ar-hugain neu ddeugain mlynedd i'r amser yn yr hwn y dywedant bod y gwyrthiau a'r rhyfeddodau hyn wedi cymeryd lle; rhyfeddodau y gwyddai y byd gelynol na welsai ef hwynt erioed, ond y rhai y penderfynai er hyny eu credu, yn erbyn pob tystiolaeth, rhagfarn, ac erlidigaeth; Yn ychwanegol at hyn oll, rhaid i'r gwrthgredwr gredu bod y dynion a ddyfeisiant ac a gasglant y ffugion hyn, wedi eu defnyddio fel cyfrwng i gyhoeddi y moesoldeb penaf; ac er eu bod y twyllwyr mwyaf peryglus a niweidiol, eto, eu bod yn galw yn eu pregethau am y cywirdeb a'r gonestrwydd llwyraf! Yn sicr gallem ddywedyd wrth yr hwn a allo lyncu yr holl anghyfdybiau hyn,—ac nid ydynt ond cyfran fechan o'r hyn a ellir osod i lawr—gallem ddywedyd wrtho, meddwn, 'O wrthffyddiwr, mawr yw dy ffydd!'

Ar y dybiaeth nad all y naill na'r llall o'r damcaniaethau hyn, pa un bynag ai y ledrithiol neu y gudd-chwedlog, os cymerir pob un ar ei phen ei hun, yn gallu rhoi cyfrif am yr holl ryfeddodau goruwchnaturiol a adroddir yn y Testament Newydd; yna rhaid i'r gwrthgredwr a bwyso ar y ddwy dybiaeth, gredu yn eu tro bob un o'r damcaniaethau gwrthwynebol hyn; ac yna, gyda mwy o rym fyth, gallwn waeddi, " O wrthgredwr, mawr yw dy ffydd!"

Hen lyfr cyndyn, anhyblyg, anhydwyth ydyw y Bibl, wedi 'r cwbl. "Y gwlaw a ddisgynodd, a'r llifeiriaint a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythasant, ac a ruthrasant arno" trwy yr oesoedd, ond ni syrthiodd, ni ysgogodd, ac ni fenwyd arno yn y radd leiaf. Myrdd o Falaamiaid a gyrchasant i benau bryniau a mynyddoedd, i geisio cyrchu dewiniaeth a swynion, a chyhoeddi cyfaredd a melldithion yn ei erbyn; ond nid oedd na swyn, na dewiniaeth, na melldith, nag ewyllys, na gallu, nac un offeryn a lwyddai i'w erbyn. Gwnaeth yn euog bob tafod a gyfodai i'w erbyn mewn barn. Pa le y mae y doethion, yr ysgrifenyddion, ymholwyr y byd hwn, y rhai, o bryd i bryd, a ymosodasant ar y gorchwyl o geisio taeru, dadleu, a rhesymu y Bibl a Christionogaeth allan o'r byd? Mawr fu eu llafur i geisio profi yr ysgrythyrau a'r ffydd Gristionogol yn wendid ac ynfydrwydd; ond profodd y gwendid a'r ynfydrwydd hyny eu hunain yn gryfach ac yn ddoethach na hwy; buant feirw, a darfu eu coffadwriaeth gyda hwynt. "Gorweddant ynghyd yn y pridd, a'r pryfaid a'u gorchuddia hwynt;" a phydra eu hysgrifeniadau a'u hegwyddorion yr un modd; "Ond gair ein Duw ni a saif byth."

Ennillodd gwrthffyddiaeth, neu holldduwiaeth Germani, nifer o ddysgyblion yn Lloegr, yn y blyneddau diweddaf. Y mae yr heresi hon, fel pob heresi arall o'i blaen, yn "dadymchwelyd ffydd rhai." Cyfieithir

llyfrau yr athrawon Germanaidd i ryw fath o faldorddiaith wrthun, rhwng Allmaeneg a Seisneg—rhyw faldordd gymysglyd,

"Nad oes na dawn na deall chwaith
A all ei dirnad ddim."

Dynwareda y dysgyblion Seisnig, hyd y gallant, briod-ddull eu hathrawon Germanaidd o lefaru ac ysgrifenu, gan wneuthur math o fwmïod o honynt eu hunain. Myn y newyddianod hyn gael eu hystyried yn feddylwyr dwfndreiddiol. Ni wna "yr hen wirionedd, yr hwn oedd genym o'r dechreuad," mo'r tro i'w boddloni hwy. Y maent hwy wedi meddwl, a threiddio i bethau. Gwna yr hen Gristionogaeth y tro yn burion i'r werin —i feddyliau cyffredin, beision; ond nid iddynt hwy. "Ië," meddant, "y mae ar y byd anghen mawr am ymddangosiad rhyw enaid mawr—rhyw brophwyd a dysgawdwr, yr hwn a allo ymsuddo i ddyfnderoedd ymwybodolrwydd yr enaid dynol, a llefaru nes deffro a dyrchafu y meddwl dynol allan o laid y twyll a'r hudoliaeth ag mae wedi suddo iddynt yn mhob man." Dywedant, gyda golwg ar Gristionogaeth, bod yr oll a gredir gan ddynolryw, yn cael ei gredu ar seiliau pwdron; na wna yr hen resymau a'r dadleuon tros y gred hòno mo'r tro ddim yn hwy; ac y mae pob un o honynt fel am awgrymu, a chael gan y byd feddwl, bod yr *enaid mawr—y prophwyd a'r dysgawdwr*, wedi ymddangos yn ei berson ef.

Y mae amryw o gyfeillion yr hen wirionedd yn Lloegr—dynion o feddyliau ofnus, pruddglwyfaidd, yn arswydo, fel Eli gynt, dros arch Duw, rhag i'r dyfroedd afiach hyn wenwyno y colegau, a llwyddo ac afiachau yr athrawiaeth; ac y mae amryw o athrawon y colegau, Vaughan, Harris, Rogers, ac eraill, wedi bod, ac yn parhau yn ymdrechwyr glewion, yn eu cadeiriau athrofaol, a thrwy y wasg, "yn mhlaid y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint." Ond ni raid ofni am dynged "yr hen wirionedd;" y mae ynddo ef, fel yr oedd gyda'r hen arch gynt, awdurdod a ryddha ei hun o ddwylaw y Philistiaid hyn, ac a'i dwg adref yn fuddygoliaethus o dir y gelyn.

Ymddengys fod gwrthgrediaeth, o'r diwedd, wedi ei gweithio i'w therfynau eithaf, a'i bod yn awr yn ei hymdrech olaf. Ymosododd yn erbyn Cristionogaeth yn mhob rhith a ffurf y gallai ymlunio iddynt. Daeth allan ar y cyntaf fel gelyn cyhoeddus, gan fytheirio heriadau, ac ysgwyd ei gwaewffon fawr, a sicrhau y byddai iddo roddi cnawd yr efengyl yn fwyd i fwystfilod y ddaear, ac ehediaid y nefoedd; ond syrthiodd cawr ar ol cawr, a chareg lefn oddiar làn yr afon bur a ddaeth allan o'r orseddfainc yn suddedig yn ei dalcen. "O, y Galilead! ti a'm trechaist!" ebe Julian y Gwrthgiliwr—un o elynion boreuol Cristionogaeth—pan oedd yn syrthio yn angeu; ac nid annhebyg oedd iaith y rhan fwyaf o honynt ar ei ol. Wedi hollol fethu fel gelyn agored, proffesedig, daw gwrthgrediaeth ymlaen yn y dyddiau hyn dan rith cyfaill. Cymer arno fod ganddo fawr a gwir barch i'r Bibl; mai ei amcan ydyw golchi wyneb Cristionogaeth oddiwrth yr aflendid a'r llychwin a daflodd camddeongliadau athrawon camsyniol arno, a'i ddangos yn ei wir brydferthwch i'r byd. Nesâ fel hyn ato, yn gyffelyb i Joab gynt yn cyfarch Amasa, gan ddywedyd, "A wyt ti yn llawen, fy mrawd?" gan ymaflyd yn ei farf âg un llaw i'w gusanu, a'i frathu â'r cleddyf oedd yn y llaw arall, dan y bummed ais, fel y bu efe farw. Felly yn union y mynai y Joab hwn wneyd â Christionogaeth; ond "ei gleddyf a ä yn ei galon ei hun, a'i fwäau a ddryllir."

Ond â'r gorgredwr neu hygoeledd Puseyaeth. "surdoes ysgrifenyddion a Phariseaid," Rhufain a Rhydychain, y mae a wnelom ni yn Nghymru yn benaf. Oddi yno y deilia y lledrith sydd yn ymdaenu dros y wlad y dyddiau hyn. O fwg y pydew hwnw, megys yr hwn a welodd Ioan gynt, y daeth allan locustiaid, â cholynau yn eu cynffonau, i wanu a gwenwyno meddyliau dynion. Ymlusgant i deiau, gan ysgwyd eu cynffonau peryglus, "a thrwy ymadrodd teg a gweniaith, ceisiant dwyllo calonau y rhai diddrwg." Mawr y fost a wnant o'u hawdurdod apostolaidd, ond rhyw awdurdod dros ryw bum mis, amser byr a therfynol, ydyw, fel yr awdurdod a gafodd locustiaid Ioan; canys ni ddichon iddynt barhau yn hir, cyn y byddo "eu hynfydrwydd yn eglur i bawb." Ond dylai gwyliedyddion ein Sion fod yn effro i rybuddio, a dangos y perygl.

Oni ddylai y wasg Gymreig lefaru yn hyfach a noethach ar y mater hwn? Beth a fyddai i garedigion yr efengyl, gynnyg gwobr o ugain punt am y traethawd goreu ar ddrygau Puseyaeth, yn cynnwys hanes dechreuad a chynnydd yr heresi, ystranciau ei hoffeiriadaeth—ei hegwyddorion gwrthefengylaidd, ei honiadau ynfyd a chableddus, &c.? Y traethawd i gael ei drefnu yn bennodau; pennod ar bob mater a wnelai draethodyn o werth ceiniog neu ddwy, fel y gellid ei ddosbarthu yn mysg y werin yn gyffredinol, yn gystal a'i gyhoeddi yn llyfr gyda'i gilydd? Ac hefyd cynnyg deg punt o wobr am y gân oreu ar yr un testun, wedi ei chyfansoddi yn yspryd a nerth gwatwareg Elias o brophwydi Baal, ar ben Carmel gynt? Beth a fyddai hyn, meddwn, rhwng ychydig o gyfeillion goludog y ffydd Brotestanaidd? Am y gallu, nid oes achos petruso am foment, a hyderwn bod yr ewyllys yn barod hefyd, ond gosod y peth ger bron. Pwy a deimla ar ei galon i gynnyg ei bum punt, neu ei ddwy, neu un, i'r drysorfa hon i gychwyn? Pe deuai rhyw un ymlaen i ddechreu, dilynai eraill ei esiampl. Ymddangosodd amryw o erthyglau ar dduwinyddiaeth Rhydychain o bryd i bryd yn y "Traethodydd;" ond ychydig o'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o gael eu dallu ganddi a ddarllenant y "Traethodydd." Y mae corff y boblogaeth allan o gyrhaedd ei ddylanwad ef, i raddau helaeth, fel y mae yn anghenrheidiol cael rhyw gyfrwng arall i fyned at y bobl; y maent hwy yn myned at y bobl, "yn ymlusgo i deiau," gan adael eu llysnafedd ar eu holau fel malwod ymhob lle y gallant. Ni phetrusant daenu a chyhoeddi, nid yn unig yr honiadau mwyaf dirmygus am eu hawdurdod apostolaidd eu hunain—ac mai hwy yn unig sydd yn meddu yr awdurdod hono i bregethu, a gweinyddu ordinhadau yr efengyl; ond hefyd, anwireddau noethion maleisus ar yr Ymneillduwyr. Y mae "y Cymro," fel anghraifft, yn rhy isel a gorwael i wneyd y sylw lleiaf o hono; gormod o anrhydedd iddo ef fyddai gosod traed arno. Ond pan y mae gŵr urddasol fel Esgob Llandaff, yn myned o amgylch, i Lundain a lleoedd eraill, i gyhoeddi mewn cyfarfodydd cyhoeddus, bod Ymneillduaeth Cymru yn suddo y genedl i bob anfoes a thrueni—na ddysgir dim yn eu haroithfaoedd ond terfysg a gwrthryfel—mai eu hamcan ydyw ffurfio cydfradwriaeth i ddymchewlyd yr allor a'r orsedd, a phethau cyffelyb,—y mae yn bryd, ac y mae yn rhaid cau eu safnau. Dysgodd rhai o hen dadau y bedwaredd ganrif, a daliodd Eglwys Rhufain ef fel un o erthyglau ei ffydd,—"mai gweithred rinweddol ydyw twyllo a dyweyd celwydd, pan y gellir dwyn daioni yr eglwys ymlaen drwy hyny." A'r gred hon, dybygid, y mae y clerigwyr hyny yn tawelu eu cydwybod, y rhai sydd yn

cyhoeddi am Ymneillduwyr Cymru, bethau nas gallant fod heb wybod, eu bod yn hollol groes i'r gwirionedd. *Pious frauds*—celwyddau duwiol—er gwasanaeth yr eglwys—gan hyny, yr oeddynt nid yn unig yn oddefol, ond yn rhinweddol. Onid ydyw y tadau yn dywedyd hyn? Waeth beth a ddywedo yr apostolion yn erbyn anwiredd a thwyll, a dilyn chwedlau cyfrwys; y mae y tadau yn cyfreithloni y peth; ac y mae amgylchiadau yr eglwys yn y dyddiau presennol yn Nghymru yn gyfryw nas gall olynwyr yr apostolion ei hamddiffyn ac ymladd o'i phlaid, heb arfer celwyddau duwiol o'r fath hyn.

Y mae y rhai a gyhoeddant y cyfryw gelwyddau—byddont hwy esgobion, neu pwy fyddont—i'w trin, nid fel dynion camsyniol, drwy anwybodaeth ac amryfusedd, y rhai y dylid arfer pob tynerwch wrth geisio eu hargyhoeddi a'u darbwyllo, ond yn y dull y triniai yr apostolion athrawon gau a thwyllwyr eu dyddiau hwy, y rhai a ddywedent "gelwydd mewn rhagrith, gan fod â'u cydwybodau wedi eu serio â haiarn poeth;" a'r rhai nid arbedai yr apostolion eu ffrewyllu â'r ymadroddion cryfaf a llymaf a allasai iaith eu hebgor. Hwyrach mai tad cyntaf y ffordd hon o enllibio Ymneillduwyr, ydoedd Haman, fab Hammadetha yr Agagiad, yn amser Esther gynt. Yr un camgyhuddiadau, o ran sylwedd, beth bynag, a ddug y "Gwir Barchedig Dad" o Landaff, yn erbyn Ymneillduwyr Cymru yn awr, ag a ddygai y tad Haman yn erbyn yr Ymneillduwyr Iuddewig gynt: "A Haman a ddywedodd wrth Ahasferus, Y mae rhyw bobl wasgaredig a gwahanedig ymhlith y bobloedd, trwy holl daleithiau dy freniniaeth; a'u cyfreithiau sydd yn ymrafaelio oddiwrth yr holl bobl, ac nid ydynt yn gwneuthur cyfreithiau y brenin; am hyny, nid buddiol i'r brenin eu goddef hwynt. O bydd boddlawn gan y brenin, ysgrifener am eu dyfetha hwynt; a deng mil o dalentau arian a dalaf ar ddwylaw y rhai a wnant y weithred hon, i'w dwyn i drysorau y brenin." Medr y galon a allo lunio enllibiau a chamgyhuddiadau, fel y rhai a gynnwysa y rhan gyntaf o araeth Haman, fyned ymlaen i ladd a dyfetha y rhai hyny a enllibir felly yn rhwydd iawn. Ond ni chaniatâ amgylchiadau yr oes a'r amser presennol i esgob, na neb arall, fyned i lys Victoria, nac i senedd Prydain Fawr, i ofyn am ysgrifen i awdurdodi dyfetha Ymneillduwyr mwyach. Nid oes gan yr esgob, druan, ond ymbil ar ei gyfeillion am ddeng mil o dalentau arian i adeiladu a gwaddoli eglwysi, a chynnorthwyo y *Pastoral Aid Societies*, er ceisio dyfetha Ymneillduwyr ei esgobaeth. Oes anghyfleus iawn ydyw yr oes bresennol i'r ysbryd hwn i fyw ynddi. Dyddiau y dirwyo, y carcharu, y ffangellu, hollti trwynau, crogi a llosgi dynion, oedd dyddiau ei wynfyd ef. Rhaid iddo ymfoddloni weithian ar enllibio, camgyhuddo, a dywedyd pob drygair a allo ddyfeisio yn erbyn gwrthddrychau ei gas. Nid rhyfedd yn y byd ydyw clywed yr ysbryd truan hwn yn cwyno, bod "y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn."

DAMHEGION ESOP.

GAN NICANDER.

[illegible]

YR ARTHES A'R TEITHWYR.

Mewn gwlad yn y gogledd,
F[illegible] [illegible] neu [illegible],
Mewn [illegible] [illegible].
Ymdeithiai dau gyfaill ryw dro;
A [illegible] a'u cyfarfu,
Dan [illegible] [illegible],
Ond Arthes fawr [illegible],
Brenhines bwystfilod y fro.

Y naill a chwim-ddringodd heb aros,
Fel gwiwer, i goeden gyfagos,
Heb feddwl ddim cymmaint ag unwaith
Pa beth fyddai ffawd ei gydymmaith.—
Ni raid i ti, ddarllenydd, feio 'i wendid;
'Run modd y gwnaethit ti dy hun, ond odid.

Fe welai 'r llall nad oedd dim dichon weithian
Drechu 'r Arthes flewog,
Ac yntau wedi ei adael wrtho 'i hunan
Gan ei gyfaill ofnog.
Pa beth a wnaeth, ond syrthio ar ei wyneb,
Gan gym'ryd arno nad oedd ynddo chwŷth
Tybiodd y byddai hynny yn ddoethineb:—
Ni chyffwrdd eirth à dim corph marw byth.
A daeth yr Arthes atto,
Mewn awydd am ei chinio,
Gan roi ei ffroenau wrtho,
A throi, a throi, a s'wyro
A oedd e 'n farw ai peidio
Mewn difrif, ynte cogio,
A'i ail-arogli drosto,
Ei ben a'i draed a'i ddwylo,
A gwthio 'i thrwyn o dano,
A'i droi a'i droi e 'r eiltro,
Nes oedd hi 'n hollol goelio
Nad oedd dim bywyd ynddo;
Ac yna 'n ddig, dan ruo,
I ffordd yr aeth oddi yno,
Heb roi i'r dyn na brath na briw
Annedwydd i'w niweidio.

Ar ol i'r Arthes fyn'd o'r golwg ymaith,
O frig y pren disgynai 'r chwim gydymmaith;
"'Roedd cogio marw," meddai wrth y llall,
"Mewn cyfryw gyflwr yn ymddygiad call.
"Wrth ei gweled hi 'n d'arogli·
"Bob yn rhan, a'th droi a'th drosi,
"'Roedd dychryn ar fy nghalon am dy fywyd."
"Oedd, oedd, mi w'rantaf," ebe 'r llall yn sychlyd.

"Oedd, wir," eb yntau; "ond peth lled ddigrifol,
"Rhaid addef, oedd ei gwel'd mor gyfrinachol
"Yn gosod wrth dy glust ei safn a'i thrwyn,
"Fel i roi rhybudd, neu i ddweyd ei chŵyn.
"Dymunwn, braidd, gael gwybod,
"Os nad yw 'n awr yn ormod
"O 'sgafnder ac o 'smaldod,
"Beth all'sai Mam yr Arthod
"Ddywedyd yn dy glybod;
"Ond odid nad rhyw gyngor gwâr
"I ochel bâr bwystfilod."—
"Rhoes gyngor im'," medd yntau, "i lwyr ochelyd
"Y dyn a fo mor wael a llwfr ei anian
"A ffoi oddi wrth ei gyfaill, pan fo drygfyd,
"A'i adael ef i 'mdaro wrtho i hunan."

XXIV.

Y MUL, A'R LLEW, A'R LLWYNOG, YN HELA.

1 Aeth Mul a Llew a Llwynog gynt i hela
Ynghŷd, a buant yn llwyddiannus iawn;
Ac wedi darfod, aethant i giniawa;
'Roedd hyny tu a diwedd y prydnhawn.

2 Yr helfa oedd i fod yn giniaw iddynt,
Pob un i gael ei ran ei hun o hono:
Archodd y Llew i'r Asyn rannu rhyngddynt
Yr helfa 'n deg a chyfiawn, heb ddim ffafrio.

3 Rhanodd y Mul yr yspail yn dair rhan
Gyfartal; hyn, dybygai ef, oedd weddaidd;
Y Llew mewn llid a'i llarpiodd yn y fan,
I ddysgu iddo foesau mwy bon'ddigaidd.

4 Ac ebe 'r Llew, "Wel, Madyn, arnat ti
"Mae rhannu 'r helfa rŵan: rhanna 'n iawn."
Y rhannau a farnasai 'r Mul i'r tri,
Fe 'u casglodd Madyn yn un pentwr llawn,

5 Heb gadw iddo 'i hun ond tammaid bach,
Rhyw fymryn bychan bychan, lleia' 'riôed:
Dymuno 'r ydoedd gael myn'd adre 'n iach
I ffau ei gyd-lwynogod yn y coed.

6 "Wel, dyna rannu teg a chyfiawn, Madyn,"
Medd wrtho 'r Llew; "attolwg pwy a'th ddysgodd
"I rannu cyn gyfiawned?" "Cwymp yr Asyn,"
Medd yntau, "dyna 'r wers a'm cyfarwyddodd."

A glywaist ti a gânt Rhiwall?
Bydd ddoeth wrth anffawd arall;
Gyd â'th gryfach bydd gall.

XXV.

Y GWYLLTFILOD A'R EPPA.

Yr oedd y Llewod a'r Dywalgwn ffyrnig
Yn ymladd hyd y gwaed ynghanol coedwig;
Ac ni bu 'riôed ymladdfa mwy echryslon,
Yr ysgrechfeydd a'r rhuo 'n fferru calon

Yr holl fwystfilod eraill; eirth a baeddod
A bleiddiaid ar lewygu gan ddychrynadod.
Pan oedd yr ymladd chwyrn a'r brwydro boethaf,
A'r ymgrafangu dig a'r cnoi 'n fileiniaf,
Fe waeddodd Eppa o ben pren uchelfrig,
"Hai, hai! gyfeillion, byddwch fwyn a diddig;
"Chwi ymladdasoch ddigon oll, 'does bosib';
"Bydd hyn, 'rwy'n ofni 'n fawr, yn achos enllib
"I'r holl gym'dogaeth; bellach ymgymmodwch;
"Ysgydwch ddwylaw 'n ffrindiol: heddwch, heddwch!
"Oh! peidiwch, druain bach! â lladd eich gilydd,
"A rhowch eich arfau i lawr, da chwi, rhag c'wilydd."
Attebodd e 'n ddirmygus un o'r Llewod,
"Tydi ryfygus Eppa, dal dy dafod;
"Gwell gennym ganwaith farw na chymmodi
"Wrth gyngor a phregethiad ffŵl o Fwngci."

XXVI.

Y GLOWR A'R PANNWR.

'Roedd Glöwr gonest, wedi ennill eiddo,
A phrynu tŷ, yn trigo gynt yn Mrymbo,
Neu Fostyn, Fflint, neu Fagillt, ni waeth p'r un,
Nis gwyddai Esop chwaith yn iawn ei hun;
Enwasai ef ryw waith glo Groeg, mi w'rantaf,
Yngwlad Achaia, neu yn Asia leiaf.
'Waeth p'le fo mangre Dammeg gywir gymmen,
Mae 'n llawn mor wir yn Magillt ag yn Athen.—
Yr oedd y tŷ 'n rhy fawr i'r gwr ei hunan;
(Os na bydd teulu, pa lesâd yw arian?)
Cyfarfu Bannwr oedd gymydog iddo,
A brethyn gwyn o dan ei gesail gantho.
(Adgofied y darllenydd mwyn mai *cannu*
A fyddai gwaith y Panwŷr gynt, nid *pannu*.)
Ac ebe 'r Glöwr wrtho, "Prynais dŷ
"Cysurus, ehang; ac 'rwy'n gwneyd mor hy
"A chynnyg it', am hyn a hyn y mis,
"'Stafell; ni bydd ymrafael am y pris.
"Dyn unig ydwyf heb na gwraig na phlant,
"Ti wyddost; mae 'r tŷ 'n ddigon i gryn gant.
"'Rwyt tithau 'n ddigon unig; os cyttuni,
"Ni gawn yn aml ein gilydd yn gwmpeini."
Attebai 'r llall, â gwên ar gwrr ei wefus,
"'Rwy'n bur rwymedig; ond yr ydwy'n ofnus,
"Ar ol i mi drafferthu 'n cannu 'm heiddo,
"Y byddit tithau 'n debyg o'u pardduo."

XXVII.

Y LLEW MEWN CARIAD.

Fe syrthiodd Llew mewn serch
Ag unig, wylaidd, ferch
Bwthynwr yn y goedwig;
A meiddai 'r gwylltfil ffyrnig
Ei gofyn gan ei thad;
Ni chym'rai ddim naccâd.
Ond nid oedd hwnnw, (ac wrth reswm hefyd,)
Yn dewis dim o'r fath gyfathrach enbyd.

Ond os gwrthodai, 'roedd y Llew yn bygwth
Ei gospi'n dost â phwys ei lid disymmwth.
Rhwng ofn a gobaith, yn ei fraw a'i gyni,
Dyfeisiai'r tad y cynllun hwn i'w siommi :—
"Wel, wel," medd wrth y Llew, "mae'n odiaeth fraint,
"I ddyn tylawd gael urddas o'r fath fraint
"A bod yn dad ynghyfraith
"(Ac nid 'wy 'n arfer gweniaith)
"I frenin y bwystfilod,
"A'th gael wrth law i'n gwarchod,
"Yn un o'r teulu,
"Rhag ein drygu
"Gan arth na blaidd na ilewpard yn y wlad;
"Yr wy'n bwriadu rhoi fy nghaniattâd.
"Ond, ardderchoccaf frenhin, pur ddigalon,
"Wrth wel'd dy ddannedd a'th ewinedd llymion,
"Ydyw dy ddarpar gwraig,
"Rhag it' ei gwneyd yn saig
"Ryw ddydd, i dorri'th newyn,
"Neu mewn digofaint sydyn,
"Megis pe llarpit ewig wan yn pori,
"Ac ymddifadu ei thad a'i mam o honi.
"Ti gei fy nghydsyniad,
"Os rhoi i mi gennad
"I dorri 'th ewinedd
"A thynnu dy ddannedd."

A hyn cydsyniai 'n llawen iawn y Llew
Torrwyd ei 'winedd oll hyd at y blew,
A thynnwyd ei ddannedd heb oedi,
Ol a blaen, â gefail bedoli.
Yna medd wrtho, "Moes yn awr heb wad
"I mi dy eneth." Ond cymmerai 'r tad
Yn awr i'w law ffon gref o ruddin derwen,
A churai 'r Llew direswm draws ei ledpen
A nerth ei ddwyfraich; nid oedd enbyd bellach
Gael brath na chrafiad gan y bwystfil mantach;
Ymlusgai 'r Llew i'w ffau gan ruo 'n gethin,
Heb ganddo i 'mddïal ddim un dant nac ewin.
A glywaist ti a gânt Monwys?
Fel y bo'th dir, tyn dy gwys;
Os nad wyt gryf, bydd gyfrwys.

XXVIII.

YR HAUL A'R GWYNT.

Cyfododd dadleu gynt
Cydrhwng yr Haul a'r Gwynt,
Ryw ddiwrnod ar Gynhauaf,
Pa 'r un o'r ddau oedd gryfaf.
I dorri ymaith bob dadleuaeth ofer,
Bwriasant fath o goelbren ar y matter;
Mai hwnnw oedd y trechaf
A fedrai lwyddo gyntaf
I wneyd i deithiwr, oedd yn myned heibio,
Dynnu ei gochl oedd ar y pryd am dano.
Dechreuai 'r Gwynt;—fe aeth i'r Gogledd rewllyd,
A chwythodd byffiau oerion a dryccinllyd.

I wyneb yr ymdeithydd; yntau 'n dŷn
Gwasgai ei wisg o'i gwmpas herwydd hyn.
Fe droai 'r Gwŷnt i'r dwyrain, llewin, de';
Tynhâu ei gochl yn fwyfwy 'r oedd efe:
Po cryfa' 'chwythai 'r Gwŷnt, yn dynnach etto
Y gwasgai 'r dyn o hyd ei wisg am dano.—
Yn awr cymmerai 'r Haul y dyn mewn llaw;
Distawai 'r Gwŷnt, nesâi 'r cymmylau draw;
Disgynai ar y teithiwr ffrwd o wres
Mwyglaidd a mwll drwy 'r wybren lawn o dês:
Ai 'r gochl i'r dyn yn anoddefol faich;
Tynnodd hi ymaith, cariai hi ar ei fraich.
Yr haul a drechodd:—ac o hynny allan
Gwelpwyd fod hyn yn reddf mewn dynol anian,
Mai mwy effeithiol ar ein holl serchiadau
Yw denu 'n deg na chwythu bygythiadau.

CERDDORIAETH GREFYDDOL CYMRU.

Yr ydym yn credu y gellir sicrhau yn ddibetrus nad oes yr un werin ar wyneb daear wedi gwneyd cymaint o gynnydd mewn cerddoriaeth yn ystod y pymtheng mlynedd olaf ag ydyw y Cymry. Y fath gyfnewidiad dirfawr sydd wedi cymeryd lle ar ol cyhoeddiad y "Gramadeg Cerddoriaeth!" Cyn hyny, ychydig iawn oedd o Fôn i Fynwy, yn ymhoni eu bod yn deall y gelfyddyd; ac o'r ychydig hyny, nid oedd ond ambell un yn gwybod dim pellach nag am yr amserau—y dull o guro amser—defnydd y gwahanol arwyddnodau—a thipyn am y cyweiriau; ac am drawsddodiad, a thrawsgyweiriad, yr oeddynt yn ddyfnderoedd o'r fath, fel mai un o fil a anturiai eu plymio. Ond erbyn hyn, y mae cannoedd a miloedd yn eithaf hyddysg yn y pynciau yma, ac nid ychydig o'n cydwladwyr sydd yn gyfarwydd yn holl egwyddorion hanfodol y gelfyddyd. Yn wir, ychydig o gymydogaethau sydd yn awr yn Nghymru, nad oes yno rywrai cymhwys i fod yn athrawon cerddorol. Dyna yn fyr, un tu y ddalen; ond y mae tu arall iddi. Nid yw Cymru wedi myned rhagddi mewn *chwaeth* gerddorol, fel y buasai yn ddymunol, nac fel y gallasai, nac ychwaith fel y dylasai. Un peth yw deall *rheolau* y gelfyddyd; peth arall yw dirnad ei *hawen*. Un yw y ffurf allanol; a'r llall yw y bywyd oddifewn. Y mae yn ddigon hawdd barnu y corff, heb allu ffurfio drychfeddwl yn y byd am yr ysbryd; ac yn y peth olaf, y mae Cymru yn awr yn fwyaf diffygiol. Ac yma, y mae yn rhaid i ni gydnabod, ein bod, i raddau, wedi ein siomi yn ein dysgwyliadau. Yr oeddym yn hyderu y buasai ein cenedl, erbyn hyn, wedi myned rhagddynt yn fwy at berffeithrwydd, ac nid wedi aros cyhyd gydag egwyddorion cyntaf y wybodaeth. Cawsom gyfleusdra yn ddiweddar i glywed lliaws o gynnulleidfaoedd y Dywysogaeth yn canu; ac, oddieithr ychydig o eithriadau, yr oedd y tonau a genid yn brawf o ddiffyg mawr mewn chwaeth. Yr oedd *rhai* yn bur wahanol; yr oedd y tonau yn wir gerddoriaeth, yr oedd y dadganiad yn ysbryd a dullwedd y cyfansoddiadau, ac felly, yr oedd y rhan yma o'r addoliad yn effeithiol ac yn

brydferth dros ben. Ond yr oedd y rhan fwyaf o lawer y fath ag y gallesid tybio nad oedd neb yn y Dywysogaeth yn gwybod dim am natur cerddoriaeth.

Ond na feddylied y darllenydd ein bod yn golygu fod Cymru ar ol rhanau eraill y deyrnas yn hyn; byddai hyny yn gam â ni. Na, y mae cerddoriaeth grefyddol yn ddigon isel a dichwaeth trwy 'r Deyrnas Gyfunol; ac nid ydym yn ammheu am fynyd, nad yw ar y cyfan, lawn cystal, ie, yn well yn Nghymru, nag yn unrhyw barth arall. Ond y mae yno ymhell ar ol i'r hyn ddylai fod. Yr ydym yn rhoi hyn yn erbyn arweinwyr y canu yn fwy na'r cynnulleidfaoedd; er mai wrth ddrws y gwahanol gyfundebau crefyddol y mae y bai yn gorwedd yn benaf, fel y cawn ddangos cyn diwedd ein hysgrifau. Nhw ddylai ymyryd â'r achos, a'i ddiwygio, a'r peth lleiaf a allant wneyd fyddai rhoi help llaw i hyny. Ar yr un pryd, ein tyb ni yw, nad oes un cyfundeb yn Nghymru a wna hyny na'i anturio chwaith; a gallem roddi rhesymau dros ein golygiad; ond nid â chyfundebau crefyddol, fel y cyfryw, mae a fynom, ond â'n brodyr cerddorol: a'n gorchwyl fydd dangos iddynt hwy beth yw gwir gerddoriaeth grefyddol, neu, mewn geiriau eraill, pa fath donau ddylai tonau yr addoliad fod.

Wrth gychwyn ar ein gorchwyl, yr ydym yn teimlo ein hunain dan anfantais fawr, am nad yw cerddorion ein gwlad wedi efrydu fawr ar gerddoriaeth fel celfyddyd awengar. Yn wir, ychydig iawn o hyn sydd mewn unrhyw wlad. Cymerwn Lundain yn esiampl, lle mae yr ysgolion cerddorol goreu, a'r talu uchaf am wersi yn y gelfyddyd, o un man yn y byd; mor lleied wedi y cyfan, o wir addysg a gyfrenir! A oes ar ein darllenydd eisieu prawf o hyn? Sylwed ar y gerddoriaeth a ddefnyddir yn gyffredin yn ysgolion y brifddinas fel gwers-lyfrau—y caneuon, y *quadrilles*, y *polkas*, yr holl ynfydrwydd cerddorol—aml ddarn yn hollol anweddus mewn ystyr foesol i feddwl ieuanc a thyner ei ddysgu, a'r cwbl bron yn hollol amddifad o athrylith a syniadau cerddorol. Beth pe baem yn rhoddi anghraifft i'n darllenydd o'n hathrawon cerddorol? a gallwn sicrhau fod yr un sydd o flaen ein golwg ymhell uwchlaw y dosbarth mwyaf cyffredin a honynt. Cafodd addysg gan athrawon Germanaidd yn gystal a rhai Seisnig. Y mae bellach yn driugain mlwydd oed, ac wedi treulio ei holl flyneddau yn athraw cerddoriaeth. Y mae wedi cyhoeddi llawer o'i waith ei hun, ac yn eu plith lyfr helaeth ar egwyddorion y gelfyddyd. Nid yw ychwaith yn hollol amddifad o chwaeth. Wel, ychydig o wythnosau yn ol, galwodd gyda ni, a dangosodd y darnau oedd ganddo yn awr yn eu parotoi i'r wasg; dangosodd hefyd y cyfansoddiad olaf a ddaeth ganddo o'r wasg, ac yr oedd yr enw a'r cyfansoddiad lawn mor uchawdurol a'u gilydd. Yn wir, nid allasai yr awdwr lai na gwneyd esgusawd wrth ei thynu allan—"*The upside-down Polka!*" ac yr oedd yr enw yn eithaf priodol. Yr oedd yr awdwr wedi dyfeisio i'r un nodau ffurfio dau *Bolka*; un wrth ddal un pen o'r papyr i fyny, ac un arall wrth droi y pen arall i fyny. "Y mae yma lawer o gywreinrwydd yn nhrefniad y nodau; ond nid allech amcanu braidd at ddim arall." "Rhywbeth dyeithr yn y dull," meddai yntau, "neu hynod yn yr enw, sydd yn myned. Y mae tros saith gant o gopïau o hwn wedi eu gwerthu mewn ychydig o wythnosau." Tros saith gant, mewn mor lleied amser, o gyfansoddiad nad oedd yr awdwr yn amcanu cyfleu un drychfeddwl trwyddi; ac eto yr oedd y ddyfais o'i llunio yn "*upside down*" yn

rhoi mwy o werth ynddi mewn gwirionedd, na'r rhan fwyaf a ddefnyddir mewn ysgolion. Ac eto, dyma y sothach a chwareuir trwy flynyddau addysg, gan y miloedd sydd yn ein hysgolion, ac wedi ymadael â'r ysgol hefyd, ac oddiwrth ba rai, o gwrs, y maent yn ffurfio eu barn a'u chwaeth. Nid fel hyn y mae gyda'r celfyddydau awengar eraill; ond y gwir yw, dosbarth anwybodus iawn yw athrawon cerddorol yn gyffredin, fel y cawn achlysur i sylwi eto cyn diwedd ein hysgrifau.

Nid yw ein cyfeillion cerddorol yn Nghymru ychwaith wedi myned rhagddynt yn hyn, fel y buasai yn ddymunol; a'r diffyg yma yw yr anfantais i ni gario allan ein hamcan presennol. Yr ydym yn cydnabod fod y Cymro ieuanc dan raddau o anfantais, am nad yw y pynciau hyn wedi eu trin yn helaeth yn ei iaith gynhenid. Yr oeddym yn hyderu y buasem cyn hyn yn gallu cyfeirio y cerddor ieuanc at draethawd cyflawn ar y mater; ond i wneyd y diffyg i fyny goreu y gellir, gadewch i ni ei gyfeirio at y traethawd ar natur ac elfenau cerddoriaeth, yn y ddau argraffiad cyntaf o "Ramadeg Cerddoriaeth" Glan Alarch, y "Traethawd ar Gerddoriaeth Grefyddol y Cymry," yn y "Traethodydd," 1850; ac hefyd yr ysgrifau ar "Arlunio." Ein darllenydd sydd yn hysbys a'r Seisneg, ac am ddeall y pwnc dan sylw, cynghorem i ddarllen yn astud ddarlithiau Syr J. Reynolds, *Allison on Taste ; Burke on the Sublime and Beautiful ;* darlithiau Barry, Opie, a Fuseli; a'r hen awdwr anwyl Longinus, canys gall gael hwnw yn awr mewn diwyg Seisnig, am swllt. Goreu po fwyaf a ddarlleno o weithiau fel y rhai hyn; a chan' cywilydd i'r *athraw* cerddorol fod hob eu darllen, a'u hefrydu yn fanwl; ond er dim, darlllened Reynolds. Yna, fe all ein canlyn yn ein beirniadaeth, a barnu drosto ei hun.

Cyn myned ymhellach, dymunem i'r cerddor ieuanc sylwi mai trwy gymhariaeth y mae cyrhaedd syniadau eang a chywir ar bob peth. Er anghraifft, y mae yn annichon i'r dyn ganfod gwir brydferthion na diffygion ei fro enedigol heb gael golwg ar fröydd eraill. Os nad yw erioed wedi gweled ond golygfeydd ei fabandod, y mae ei lygaid yn y peth hyn heb erioed eu hagoryd. Cyn y gall feirniadu gydag un math o gywirdeb ar yr ardal yn mha un y magwyd ef, rhaid iddo deithio i ardaloedd a gwledydd eraill; a goreu po fwyaf, canys fe rydd hyny fwy o ddefnyddiau cymhariaeth iddo. Ond na cham ddealled y darllenydd ni, trwy gasglu ein bod yn golygu fod teithio ynddo ei hun yn ddigon i wneyd un yn feirniad: O na, rhaid fod yn ei feddwl a'i galon ef ryw gynnifer o egwyddorion fydd yn ei alluogi i gymharu y bröydd a'r gwledydd hyn â'u gilydd—onidê, buasai cystal iddo aros gartref; yn wir, buasai yn well iddo; canys yr effaith a ga arno ef, odid fawr, fydd ei wneyd yn *lob*. Wel, y mae yr un egwyddorion yn gymhwys yn perthyn i gerddoriaeth. Cyn y gallwn ni feirniadu caniadaeth grefyddol Cymru, yn fwy na'i daear, rhaid i ni wybod rhyw gymaint am ganiadaeth bröydd, gwledydd, ac oesoedd eraill, ac yna eu cymharu â'u gilydd; a thrwy hyn y deuwn i ganfod eu prydferthion a'u anafau. Ond cofied ein darllenydd mai nid cymhariad mympwyol neu direol a wna y tro; O na! y mae deddfau mor bendant ac anghyfnewidiol yn perthyn i fyd y crebwyll ag sydd i'r byd defnyddiol. Y mae y celfyddydau awengar wedi eu seilio ar egwyddorion mor sefydlog a hanfodol i natur ag ydyw gwyddoriaeth ei hun, ond yn unig fod yn rhaid eu cyrhaedd ar hyd ffordd wahanol—ffordd, y mae yn wir, anhawddach i'w dilyn; a ffordd y mae iaith yn pallu cyn myned ymhell ar y daith.

Eto i gyd, y mae yno ffordd, ac y mae yn amlwg a diddadl i bawb yn y cychwyn; ond cyn hir y mae yn esgyn ac yn myned mor nwyfreaidd fel y mae yn annichonadwy ei dangos o bell. Gellir ei theimlo â'r ysbryd, ond nid ei darlunio â geiriau.

Yn awr, ein gorchwyl fydd arwain ein darllenydd i adolygu y caniadaeth a ddefnyddiodd eglwys Crist mewn gwahanol oesoedd a gwledydd, er mwyn cael mantais i feirniadu caniadaeth grefyddol Cymru yn y dyddiau hyn. Ein hamcan fydd, nid rhoddi hanes cyflawn y gerddoriaeth Gristionogol; byddai hyny yn ormod o orchwyl o lawer i ddalenau y "Traethodydd;" ond nodi ei phrif gyfnodau, a sylwi ar y cynnyrchion hyny fu yn gynnelwau (*models*) o bryd i bryd. Fe allai y gellir eu rhestru yn bur gywir i dri dosbarth—henafol, diwygiadol, a diweddar.

Y DOSBARTH CYNTAF.

CANIADAETH HENAFOL EGLWYS CRIST.

Y cwestiwn blaenaf sydd yn ymgodi yn y meddwl ymchwilgar yma ydyw, O ba le y cafwyd tônau cyntaf yr eglwys? neu, mewn geiriau eraill, Beth oedd ffynnonell caniadaeth gyntefig Cristionogion? Tyb duwinyddion yn gyffredin, ynghyd â rhai cerddorion, ydyw, i'r tônau a'r geiriau ddeilliaw o'r un ffynnon, sef oddi wrth yr Iuddewon; ond barn y cerddorion mwyaf dwfn mewn hanesiaeth cerddorol yw, fod y geiriau yn Iuddewig, ond y gerddoriaeth yn genedlig. Yr ydym ninnau yn credu fod lle cryf i ddal fod y ddwy elfen yn yr eglwys er y cyntaf; ond bod yr olaf wedi gorfyw y gyntaf, a'r ddwy wedi eu llwyr golli er ys canrifoedd lawer. Y mae yn ddigon amlwg fod gan yr Iuddewon ryw fath o dônau, a rhei'ny yn cael eu defnyddio yn grefyddol. Fe ganodd ein Ceidwad a'i ddysgyblion fawl cyn myned allan i fynydd yr Olewydd,—a pheth na roddem pe bae yn ddichonadwy cael gafael ar y dôn a gynhesodd yr oruwchystafell y noswaith ryfedd hòno; er, fe allai, ei bod lawer llai ei dylanwad, ynddi ei hun, nag aml dôn sydd wedi cynhesu capelydd Cymru yn ystod y can' mlynedd diweddaf. Canodd Paul a Silas ryw dôn o fawl yn y carchar; ac yr oedd yr eglwysi apostolaidd yn cael eu hannog a'u dysgu i ganu Salmau, a hymnau, ac odlau ysbrydol, a hyny yn ol rheol a threfn.

Yr oedd y paganiaid hefyd yn canu i'w heilunod. Nid oedd un genedl yn yr oes apostolaidd wedi dylanwadu cymaint ar feddwl y byd â'r Groegiaid; ac nid oedd un genedl mor enwog o ran cerddoriaeth. Y mae digon o brofion fod y Cristionogion yn yr oesau cyntaf, wedi benthyca oddiwrth eu cerddoriaeth; nid yn unig wedi defnyddio eu halawon, ond hefyd amryw o'u dulliau. Ac yn amser Cwstenyn, dygwyd offerynau a dawnsio i mewn i'r gwasanaeth crefyddol, fel llawer o ddefodau paganaidd eraill, a hyny trwy orchymyn yr ymherawdwr. Byddai aros i adolygu yr holl amgylchiadau hyn yn ein cario yn rhy bell, ac yn ein cadw yn rhy faith oddiwrth ein hamcan presennol. Ond cofied ein darllenydd nad oedd yr eglwysi Cristionogol cyntaf ddim yn unffurf yn eu caniadaeth yn fwy nag mewn pethau eraill allanol.

Pa un bynag ai elfen Iuddewig yntu y genedlig oedd fwyaf yn nghaniadaeth gyntaf yr eglwys, y mae y ddwy wedi eu colli, fel y cawn achlysur eto i sylwi. Ac yn wir, nid oedd dim yn bod y pryd hwnw a allasai wasanaethu Cristionogaeth yn hir. Yr oedd y ffurf newydd ac ysbrydol yr oedd Crist a'i apostolion wedi dwyn crefydd iddi, a thywalltiad yr

Ysbryd Glân ar y credinwyr, i ddadblygu holl gynneddfau a theimladau goraf y natur ddynol i'r fath raddau, nad oedd yr un ffurf gerddorol mewn arferiad y pryd hwnw yn alluog i'w dadganu. Yr oeddynt oll yn rhy ddaearol, ar un llaw, ac yn rhy anghelfydd ar y llaw arall. Mor belled ag y gellir barnu oddiwrth weddillion yr oesoedd cyn cred, yr oedd cerddoriaeth ymhell yn ol i'r celfyddydau awengar, a hyny, fe allai, am nad oedd wedi bod yn gelfyddyd annibynol, ond cynnorthwyol i farddoniaeth. Fel hyn yr oedd ymhlith y ddwy genedl fwyaf eu bri a'u dylanwad—yr Aiphtiaid a'r Groegiaid—ac y mae cael syniadau clir ar hyn yn anghenrheidiol i wneyd chwareu teg â chaniadaeth yr eglwys. Wel, nid oes eisieu i ni geisio portreadu yr hen Aipht, sut y cododd i enwogrwydd bore—ei chelfyddyd gorchestol—ei hathroniaeth ddwfn—ei hysgolion enwog, lle bu dysgedigion gwledydd blaenaf y byd yn ymofyn gwybodaeth—y ffrydiau rhyfedd, fel y Nilus ei hun, fu am oesoedd lawer yn gwrteithio y genedl, a lle bu y meddyliau mwyaf o blith cenedloedd eraill yn tori eu syched—y dylanwad maith a gafodd fel addysgfa yr hil ddynol; canys y mae y ffeithiau hyn, odid fawr, yn ddigon hysbys i'r darllenydd; ond ein pwnc ni yw ei hysbysu mai cantorion gwael oedd yr Aiphtiaid, ac nad oedd dim yn eu caniadaeth i agor, a phuro, a dyrchafu y meddwl. Yn wir, fel y dywed hanesydd Groegaidd, "yr oedd eu cerddoriaeth yn gynnwysedig yn fwy mewn sŵn, nag mewn peroriaeth." Nid ydyw eto yn bur swynol; ar yr un pryd, fe allai, fod canig y cychwyr ar y Nilus, yr hon a genir ganddynt yn ddibaid, bron nos a dydd, yn fwy rheolaidd a pheroriaethol na dim a glywid trwy'r holl wlad, pan ydoedd yn ei gogoniant cyntefig. Dyma hi—



Aeth Groeg lawer iawn uwchlaw yr Aipht yn y celfyddydau awengar, yn gystal ag mewn athroniaeth. Pe barnem ei cherddoriaeth, yn unig oddiwrth yr adroddion a gawn am ei heffeithiau yn ngwaith eu hawduron eu hunain, gellid meddwl fod seiniau Orpheus lawn mor gelfyddgar a swynol a cherfluniau Phidias; ond os yw yn iawn barnu oddiwrth yr ychydig weddillion a dybir sydd wedi aros er dyddiau y cawri hyny, rhaid i ni dynu casgliad gwahanol iawn. Ac yn wir, gallem roddi rhesymau boddhaol i ni dros gredu fod cerddoriaeth hyd yn nod Groeg ei hun yn wael mewn

cymhariaeth i'r eiddom ni. Y darn Groeg mwyaf cerddorol, os yw yn Roegaidd hefyd, yw yr un a ddarganfuwyd gan Burette, yn llyfrgell Montfaucon. Y mae wedi ei chyfaddasu at eiriau o waith Pindar; ac mewn nodiant hynafol. Mewn nodiant diweddar, cana fel hyn:—



Heb i ni chwanegu ar hyn, caniataer i ni ddyweyd, mor belled ag y mae hanes cerddoriaeth yn rhoi mantais i ni farnu, gallwn benderfynu nad oedd cerddoriaeth unrhyw wlad, yn amser cychwyniad Cristionogaeth, ddim byd yn gymhwys i amlygu syniadau a theimladau y grefydd newydd fel yr oedd i gael ei dadblygu. Yr oedd y gyfundraeth Gristionogol i agor o flaen y byd y fath syniadau cyfoethog a mawreddus, y fath deimladau pur ac haelfrydig, na wyddai Iuddewon na chenedloedd ddim am danynt o'r blaen—syniadau a theimladau, o ba rai yr oedd Cristionogion i adeiladu iddynt eu hunain gerddoriaeth gymhwys i'w hamgylchiadau. Ac felly bu: y mae hanes caniadaeth yr eglwys yn brawf anwadadwy o hyny.

Cyn i ni gychwyn ein beirniadaeth, y mae eisieu i'r darllenydd gadw yn ei gof, fod "iaith sain" yn cael ei gwneyd i fyny o saith o seiniau, y naill yn canlyn y llall yn rheolaidd; ac mai o'r rhai hyn y cyfansoddir pob darn o beroriaeth a chynghanedd. Dyma nhw—



Rhaid iddo gofio hefyd fod yr adeilad gerddorol yn sylfaenedig ar gysonedd, yr un fel a'r holl gelfyddydau awengar; gan hyny, nid gosod y seiniau hyn unrhyw ffordd a wnai y tro, ond rhaid iddynt ganlyn eu gilydd fel y bo cymmesuredd yn yr holl gyfansoddiad. Rhaid i'r naill gymmal gyfateb i'r llall, fel ag y mae holl ranau natur; acheb y cyfatebiad yma, fe fydd diffyg mireinedd (*beauty*) yn y cyfansoddiad, ac o ganlyniad, diffyg swyn i bob meddwl gwir goethedig. Y mae y cyfochredd sydd mewn barddoniaeth wedi ei seilio ar yr un egwyddor, mor belled ag y mae yn myned; ac fe allai y canfydda y darllenydd o yn fwy rhwydd, ar hyn o bryd, oddiwrth anghraifft farddonol na dim arall:—

"Rhyw anghelfydd brydydd bran
O Eifionydd wyf finnau,
Fe'm ganwyd o fam gynnil
O fewn hon, wyf un o'i hil;
A phrydydd, hoff ei rediad,
Addfwyn, o hon oedd fy nhad.
Ond heddyw, gwn nad dyddan
Yw fy llais, mi gollais gan.
Fy hon serchawg, fryniawg fro
Ni chaf ond prin ei chofio.
Nid yfir o Dwyfawr iach
Darfu difyr dwrf Dwyfach.
Aeth y garn ymaith o gof,
Bryn Engan, bron i anghof:
Ac nid oes am oes i mi
Un gobaith am Langybi.
Fy enaid am Eifionydd
Mewn hiraeth ysywaeth sydd."

Yma, nid all y darllenydd lai na sylwi fod pob dwy fraich yn ateb i'w gilydd, fel "y naill beth wedi ei wneyd ar gyfer y llall;" ac y mae swyn y llinellau uchod yn tarddu bron yn gwbl o hyny. Nid yw y rheol hon yn cael ei chadw cystal mewn rhai o'r mesurau caeth ag ydyw mewn cywydd; ond canfyddir hi lawn cystal, os nad gwell, mewn mesurau emynol. Mewn mesur hir y mae y ddwy linell nesaf i'w gilydd yn cyfateb; fel hyn:—

"Mae moroedd a mynyddoedd maith
Yn seinio maes mewn eglur iaith,
A'r holl greaduriaid o bob rhyw,
Yn dyweyd mai rhyfedd iawn yw Duw."

Yn y mesur cyffredin, y mae y cyfochredd yma yn dygwydd bob yn ail linell; fel hyn:—

"Awn bechaduriaid at y dwr,
A darddodd ar y bryn;
Ac ni gawn yfed byth heb drai
O'r ffrydiau gloew hyn."

Yn yr un modd, rhaid i bob darn o gerddoriaeth gael cymesuredd yn ei holl ranau. Yn yr wython, neu ddilyniad rheolaidd o wyth o nodau, y mae yn sefyll fel hyn:



Y mae y ban cyntaf yn cynnwys pedwar o nodau; tôn gyfan rhwng y cyntaf a'r ail; tôn gyfan rhwng yr ail a'r trydydd; a hanner tôn rhwng y trydydd a'r pedwerydd. Y mae y ban olaf yn gymhwys yr un fath; ac felly y mae y ddau yn cyfateb i'w gilydd. Y mae y ddau gyda'u gilydd yn cyfansoddi yr hyn a elwir y raddfa naturiol yn y cywair llon; ac y mae yn annichonadwy cael alaw mwy perffaith. Trefniad arall ar yr wython sy fel hyn:—



Y mae y ban cyntaf yma eto yn cynnwys pedwar o nodau; tôn gyfan rhwng y cyntaf a'r ail; hanner tôn rhwng yr ail a'r trydydd; a thôn gyfan rhwng y trydydd a'r pedwerydd. Felly hefyd y mae y ban arall, ac y mae y ddau gyda'u gilydd yn cyfansoddi yr hyn a elwir y raddfa naturiol yn y cywair lleddf. Ar y ddwy raddfa yma y mae yr holl gelfyddyd yn dibynu.

Gyda y sylwadau rhagbarotoawl hyn nyni a derfynwn ein hysgrif bresennol.

CHRISTMAS EVANS.

Y MAE dyn o dueddfryd meddylgar a barddonol, ar achlysuron yn hoffi rhoddi ffrwyn i'w gyffroadau meddyliol, i'w goddef am adeg i ymdroi yn ei fynwes, fel y goddefa y goedwig gymeryd ei hysgwyd yn mreichiau y gwynt, heb wneuthur unrhyw ymdrech ei hunan i symud, ond yn unig ymollwng i gymeryd ei siglo a'i süo fel baban mewn cryd, er ei difyrwch a'i fwyniant ei hunan yn unig—neu gellir dywedyd ei fod yn gwbl mor ddidaro drosto ei hun a'r rhosyn ar foreu haf, pan y goddefa gymeryd addurno ei ben porphoraidd gan y gwlithos â myrdd o berlau tryloewon. Gwelir y dyn hwn yn yfed barddoniaeth i'w enaid mor ddiboen, ag y dywedir y bwytäai Thomson, y bardd, ffrwythydd addfed—sef â'i ddwylaw yn ei logellau. Anadla ysbrydoliaeth yr awen mor ddidrafferth ag yr anadla pobl Arfon yr awelon oddiar y mynyddoedd; ymloddesta ar weledigaethau dychymygol, fel yr ymloddesta darfelydd yr arlunydd athryl-

ithgar ar brydferthion swynol glanau y Rhine, neu ar glogwyni addurnol yr Wyddfa. Dyma yr adeg y cenfydd hollwrthddrychau mwyaf dymunol a mawreddig aniau wedi eu huno, a'u heffeithio yn ddwys ar deimladau bywiog a chrebwyll farddonol yr awenydd, pryd y bydd i'r gwrthgyfarfyddiad ddylanwadu y naill ar y llall, nes o'r diwedd y bydd cyfansoddiad yr athrylithgar wedi ei wneyd i fyny yn un swyn anwahanedig, heb fod unrhyw gysylltiad rhyngddo a'r byd drwg presennol; oblegid mae wedi ei symud ar edyn gwawl dychymyg i rodio glanau Pison a Hafilah, yn mangre iesin dedwyddwch.

Dynion o'r tueddfryd yma ydynt yn gyffredin yn hoff o ymweled â thrigfanau gwroniaid, ac o weled y cymydogaethau hyny a gysegrwyd gan athrylith. Dyma ydyw eu prif hyfrydwch. Mae cysgod rhyw enw mawr neu gilydd bob amser yn tywyllu eu henwau hwynt eu hunain, ac yn eu cadw yn rhy fynych i ymdroi dan eu dwylaw o eisieu hunan-oleu. Y dref, y tŷ, yr ardd, a'r llyfrgell, lle y cyfanneddai yr enwogion hyn, y rhai trwy eu gweithiau a'u dysgasant gyntaf i feddwl ac i deimlo, ydynt iddynt hwy yn fanau uchawdurol (*classic*); lleoedd sydd yn rhy gysegredig i'w cerdded heb ddattod yr esgidiau oddi am y traed. Dyma lle y gwelir hwynt, yn rhodio ac yn syllu o'u hamgylch, wedi eu cwbl lyncu i fyny, nid yn gymaint gan hynodrwydd y deml lle yr addolant, a chan y duwiau a ddygir i gof. Gwasanaethant, fel dewines Endor, i godi oddiwrth y meirw y prophwydi a roddwyd o ran eu cyrff yn y gweryd; a braidd na ddysgwyliant, fel Saul gynt, i'w hysbrydoedd ddadlenu i'w meddyliau ddirgelion bywyd, neu ddyrus oruchwyliaethau y byd dyfodol.

Mae pob gradd o ddynoliaeth yn barod i dalu gwarogaeth i wroniaid eu gwlad. Nis gallant beidio gwneuthur hyny, oblegid mae y teimlad wedi ei blanu yn gynreddf ddofn yn mhob enaid rhesymol. Gallai nad ydyw pawb yn feddiannol ar farddoniaeth y tueddfryd a ddarluniwyd uchod; eto, mae pob dyn, a phob meddwl yn llawn o'r ofergoeledd â pha un y mae yn gynnwysedig. Dywedir pan y glaniodd Kossuth gyntaf yn Southampton, fod pob dosbarth yn barod i beryglu eu bywydau braidd er mwyn cael cyfleusdra addas i syllu ar ei berson. Yn mysg y miloedd hyny oedd yn bresennol, yr oedd yno hen wrageddos, ac anwybodusion, na ddeallent, ac nad oedd ganddynt yr amgyffrediad lleiaf o'r rhagoriaethau hyny a'i hanfarwolodd fel amddiffynydd iawnderau Hungari, eto, credent, ar dystiolaethau eraill, ei uchafiaeth arwraidd, ac fel y cyfryw, a syrthient i lawr i dalu gwarogaeth iddo. Mor gynted ag y gwelir gwron genym (pa un a fynwn ai peidio), attynir ein holl enaid gan ei ddymgyrchiant (*magnetism*). Tarewir ni âg aruthredd gan yr olygfa, yn debyg fel y tarewir trigolion gwastattir Lloegr â braw, pan gyntaf y tremiant ar glogwyni gwyllt Penmaen Mawr, ac ar arucheledd mynyddoedd Eryri. Pe y cyfarwynebem â dyn o athrylith anferthol, o weithrediadau moesol a meddyliol cawraidd, o rym dirnadaeth anfesurol, ac o gymeriad dyngarawl, cyfiawn, a phur, llenwid ein natur â'r cyffroadau mwyaf cynhyrfus o flaen y fath bresennoldeb mawreddig. Byddai fel pe y ffurfiem gydnabyddiaeth agos âg un o elfenau nerthol anian; fel pe y cymdeithasem â dyscyrchiant (*gravitation*) ei hunan! Plygai y mwyaf gwargaled ei ben; ymostyngai y gliniau mwyaf gweriniaethol i lawr; mae y natur ystyfnicaf yn llawn teyrngarwch o flaen yr arwyr hyn!

Darllenasom hanes llongddrylliad unwaith, lle yr achubwyd bywyd y

llywydd yn unig, trwy iddo nofio i làn ynys unigol; ond mor fuan ag y glaniodd, cymerwyd ef yn garcharor gan breswylwyr y wlad; gwnaed ef yn flaenor ar eu byddinoedd, a chyn hir, etholwyd ef yn frenin arnynt. Ac ar ol treulio blyneddau yn y freniniaeth, llwyddodd rhyw fodd i ddianc yn ol i'w wlad; ond rywbryd cyn ei farw, fe dalodd ymweliad â'r ynys drachefn; pan y deallodd fod yr anwariaid dan yr argraff mai wedi myned yn ol i drigfanau y duwiau yr ydoedd; ac addolid ef ganddynt fel duw ag ydoedd goruwch eu duwiau dychymygedig hwy. Yr oedd wedi chwyldroi addoliad duwiau y tadau; ac yr oedd ei eilun wedi cael ei orseddu yn un o'u prif demlau—uwchlaw y rhai eraill oedd yno. Mae hyn yn profi ymlyniad diysgog y natur ddynol wrth eu gwroniaid, a'u teyrngarwch i'w henwau.

Gwasanaetha y sylwadau blaenorol i ddangos mai rhyw deimladau cyffelyb a'n cymhellodd ninnau i alw sylw darllenwyr y "Traethodydd" at athrylith a nodweddiad yr hybarch Christmas Evans.

Dygwyddodd i ni, un tymmor haf, pan ar ymweliad â'n tref enedigol, fod yn rhodiana ger llaw y maes lle yr arferai y Bedyddwyr gynnal eu Cymanfa Flyneddol. Ac wrth fyned heibio i'r lle, cyfarfyddasom â hen frawd duwiol oedd yn cofio dyfodiad cyntaf Christmas Evans i Fon. Dechreuodd ymgomiaw yn felus am hynodrwydd rhyfedd ei ddawn. Darluniai ef fel pregethwr, gyda'r fath gywirdeb tarawiadol, nes dwyn ar gof i ni yr unig adeg y clywsom ef yn anerch cymanfa. A phan adawyd ni gan yr hen gyfaill i'n myfyrdodau ein hunain, nis gallem lai nag eistedd i lawr ar hen aradr oedd gerllaw, i adfywio ein cof am y tro y cawsom y fraint a'r hyfrydwch o glywed yr hen wron yn dadglymu rhyfeddodau trefn gras i dorf liosog ar y maes oedd o'n blaenau.

Yr oedd cymaint o son a dysgwyliadau am dano gan drigolion y lle, fel yr oeddym ni, er nad oeddym ond pur ieuanc, yn barod i dderbyn argraffiadau annileadwy o'i berson, ei ddull, a'i hyawdledd. Dygwyddai y cyfarfod gael ei gynnal ar foreu pur ddysglaer yn mis Gorphenaf. Oddeutu deg o'r gloch, gwelid tyrfaoedd yn casglu o bob cŵr o ynys Môn, ac yn myned i mewn i'r cae trwy y gwahanol byrth oedd wedi eu hagoryd i'r perwyl ar yr achlysur. Yr oedd yr hin mor dawel fel y gallesid clywed swn yr afonig yn süo yn berseiniol dan hen graig y Ferwyllt. Gan fod y maes yn sefyll ar le mor uchel, yr oedd y golygfeydd a welid oddiar yr esgynlawr, rai o honynt, yn ddyddorol, a'r lleill yn arddunol uwchlaw desgrifiad. O'r tu cefn iddi, safai addoldy Cildwrn, lle y llafuriodd ein harwr, yn benaf, am yn agos i ddeugain mlynedd o'r rhan fwyaf llwyddiannus a dysglaer o'i oes. Gerllaw yr oedd Nant y Pandŷ, lle yn llawn swyn ar gyfrif ei unigedd, prydferthwch y coed ieuainc a dyfai yno, yn gystal a miwsig yr afonig a ymddolenai mor adluniaidd trwy y dyffryn. Er fod Llangefni o'r golwg, braidd yn guddiedig yn y pant, eto gallesid cael golwg ar dŵr yr eglwys a'i hamgylchoedd, y rhai ydynt brif addurniadau y gymydogaeth. Ac nid yn fynych y cyfarfyddir â llethr mwy prydferth na hon yn Môn, yn neillduol wrth syllu arni o'r pen gogleddol o'r dref. Ymddengys y persondŷ a'r gerddi fel pe yn grogedig fel gerddi Babilon gynt, ac yn amgylchynedig â'r gwysglwyni harddaf a mwyaf amliwiog. Ond y prif olygfeydd a welid oddiar yr esgynlawr oeddynt fynyddoedd cribog yr Eryri. Cyrhaeddent yn un gadwen arddunol o'r naill gwr o'r wlad i'r llall, yn codi eu penau duon fel cymylau yn y gauaf;

ond ar y boreu hwnw o haf, yr oedd y cwrlid a wisgent mor wyrdd a thelaid ag y gallasai y rhedyn gleision a blodau y grug eu gwneyd. Yr oeddbron yn annyoddefol o wresog a mwll; ond yr oedd coeden neu ddwy gerllaw yn llawn dail, o dan gysgod cangau pa rai y gwelid rhai hen bobl lleg a lluddedig, â'u gwallt yn arianaidd, yn gorphwys am yspaid cyn dechreu yr oedfaon. Adfywid eu cyrff ychydig gan yr awel deneu leddf a chwythai dros eu hwynebau; ond adlonid eu hysbrydoedd yn fwy gan y dysgwyliadau a fwynhaent o gael cyfleusdra i glywed llais yr hen Gristmas unwaith eto, yn cyhoeddi yn felus am fuddygoliaeth y groes i fyd colledig. Clywid yn eu mysg un hen ŵr, oedd wedi dyfod o gymydogaeth Amlwch, yn adrodd wrth ddau neu dri o'i gymydogion oedd wedi cydgerdded âg ef y boreu hwnw, fel yr oedd agwedd pethau wedi cyfnewid er pan y clywodd yr hen Gristmas Evans yn pregethu gyntaf ar lân y dwfr, ger llaw y Fedw. "Yr oeddwn i, y pryd hwnw," meddai, "yn ddyn ieuanc hollol anllythyrenog ac anystyriol;" eto dywedai ei fod yn cofio yn dda mai am y gwallgofddyn yn ngwlad y Gadareniaid y pregethai. A thra yr ymgomiai yr hen bererinion hyn â'u gilydd, parhau i liosogi yr oedd y dyrfa; a gwelid hwythau o'r diwedd, er maint eu blinder, yn tynu yn nes at yr esgynlawr. A chan i ni lwyddo gyda phlant eraill, trwy ychydig o drais, y mae yn wir, i gael lle i eistedd ar ben ystyllen a darddai allan o waelod y *stage*, nis gallem lai na thaflu golwg ar y gwahanol gymeriadau oedd wedi ymgasglu at eu gilydd. Wrth edrych ar y dorf, gwelem ei bod wedi ei chyfansoddi gan mwyaf o lafurwyr o'r pentrefi cyfagos, ac o amaethwyr a'u teuluoedd o'r wlad oddiamgylch. Y dosbarth diweddaf yma oeddynt berchenogion y rhan liosocaf o'r cerbydau a'r certwyn, a achosai y fath anghyfleusdra ymhlith godreuon y dorf. Yr oedd yno grefftwyr lawer hefyd, wedi gwisgo yn drwsiadus, ac i'w gwahaniaethu oddiwrth y llafurwyr a'r mwnglowddwyr, yn gymaint a bod wynebau y rhai blaenaf yn llwytach, ac yn arddangos mwy o graffder meddwl, chwaeth mwy coethedig, synwyr cyffredin cryfach, a gwybodaeth cyffredinol helaethach; pryd yr hynodid y lleill gan eu hwynebau iachus, eu hysgwyddau llydain, eu dull dyeithrol o lygadrythu ar bawb, yn gystal a'u hysgogiadau amrosgo wrth rygnu cerdded. Yr oedd yno hefyd lawer o ferched ieuainc teg yr olwg, ac yr oedd y gwylder a achosai iddynt wrido a gostwng eu penau, wrth ddynesu at ymyl y dorf, yn tueddu i chwanegu eu glendid, ac i borphori y rhosyn a brydferthai mor hardd eu gruddiau iesin. Chwyfiai yr ysnodenau yn ormodol, fe allai, o amgylch eu penau, i foddio chwaeth yr hen bobl; ac fe allai hefyd, fod eu meddyliau yn sefyll yn ormodol ar ysbleneidd-dra y gŵn stwff newydd amliwiog oedd am danynt y tro cyntaf ar y pryd. Yr oedd yno lu mawr iawn hefyd o lanciau gweini wedi ymwisgo mewn gwasgodau cochion, y rhai oeddynt guddiedig, braidd, â botymau cyrn gwynion. A chariai pob un o honynt ffon onen ystwyth yn ei law. Oddiamgylch ymyloedd y dorf, yr oedd llawer o blant yn fwy aflonydd a thrystfawr nag yr oedd yr achlysur yn galw fe allai. Ond y dosbarth mwyaf dyddorol ar y maes oeddynt yr hen wragedd a'r hen famau duwiol oedd yn bresennol. Ac nid rhyfedd fod y chwys yn dyferu i lawr eu hwynebau, gan fod am danynt wnau stwff mor dewion, neu wn-gwely (*bedgown*) mor wresog a llaes; a charient ar eu breichiau fantelli trymion o frethyn cartref, ag oeddynt ddigon o faich i geffyl cyffredin i'w cludo. Dyma y dosbarth anhawddaf i'w hebgor mewn cymanfaoedd; oblegid hwy

yn gyffredin sydd yn cario yr hwyliau ar ba rai y chwytha yr awelon nefol, nes cludo gwenau yr Anfeidrol ar waith y cyfarfodydd. A gwyddent hwythau o'r goreu, nad rhyw gymanfa gyffredin oedd hon, gan fod Christmas Evans i sefyll fel cenad o ladmerydd rhwng Duw a'r bobl.

Ond i fyned ymlaen, heb sylwi ar y bregeth rymus a bregethwyd gan y brawd cyntaf, prysurwn i ddwyn sylw y darllenydd at Christmas Evans, yr hwn a ddeuai ymlaen yn nesaf i anerch y dorf. Mawr oedd y cynhwrf a achosodd ei ymddangosiad ger gwydd y bobl. Methai yr hen bobl a pheidio sisial, y naill yn nghlustiau y llall, gan adrodd eu gwahanol farnau, pa un ai ydoedd yr hen wron yn ymddangos yn hynach neu yn deneuach na phan ymddangosai pan oedd yn y wlad y tro diweddaf. Clywem un hen chwaer yn dyweyd, â'r dagrau yn dawnsio ar ei gruddiau, "Na, yn wir, mae yn edrych cystal ag erioed." Tra yr oedd yr hen chwiorydd hyn yn sibrwd wrth eu gilydd ynghylch ymddangosiad ei ddyn oddiallan, troisom ninnau ein golwg i geisio ffurfio barn arno. Rhyw olwg lled chwith oeddym ni yn gael ar ei gorff. Ymddangosai, fel y dywed Brutus, yn bur hapus am dano, "fel pe buasai wedi ei gyfansoddi dranoeth ar ol brwydr o wahanol aelodau y lladdedigion." Yr oedd ei ben yn anferthol o fawr, ei dalcen yn uchel a llydan; ac yr oedd llafur ac oedran mawr wedi aredig rhychau lled ddyfnion arno y pryd hyny. Nis gellir dyweyd fod adluniad ei wynebpryd yn berffaith yn ol y ffurf Groegaidd; tueddai ymhell at yr afluniaidd a'r hagr: ond prin y gallai neb gredu hyny pan ddechreuai lefaru, o'r hyn lleiaf yr ydym yn sicr na theimlai neb mo hyny wrth wrandaw arno. Meddyliem, wrth graffu, fod rhyw anghyfartalwch neillduol rhwng ei ddyn oddiallan a'i ddyn oddifewn. Ymddangosai fod ei enaid wedi ei drawsfudo o'r corff a ddarparwyd gyntaf iddo; oblegid ni welwyd erioed y fath annhebygolrwydd rhwng cymheiriaid ag ydoedd rhwng corff a meddwl Christmas Evans. Gellid, gyda phriodoldeb mawr, ddywedyd, pan eu priodwyd â'u gilydd, eu bod wedi eu hieuo yn anghymharus. Gellid dysgwyl, oddiwrth ei nodweddiad feddyliol, oddiwrth ei ddychymyg ramantawl, nwyfreawl, a bywiog, a allai wisgo y gwrthddrychau mwyaf ysbrydoledig â'r ddelwant o sylweddoliaeth prydferthaf, y buasai y corff, y wynebpryd, a'r dynodiant (*expression*), yn cyfateb. Ond nid felly y dygwyddodd i bethau ymddangos i ni y pryd hyny. Cymaint ydoedd pwysau ei gorffolaeth anferth, fel y crynem rhag y taflai y *stage* ar ein penau wrth ysgogi. Yr oedd y fath gyflawnder o gnawd o'i amgylch, i gynnwys ac i fod yn etifedd pob afiechyd a phoen, oddieithr y boen o ddyoddef oddiwrth esgyrn dolurus. Gallasem ni feddwl y treuliasai clefyd rai wythnosau cyn cyrhaedd at y rhai hyn, gan faint tewdwr y cnawd a'i hamgylchynent. A chofiwn i ni obeithio ar y pryd, pa mor enwog a rhagorol bynag ydoedd Christmas Evans, fod rhywun yn ddigon teilwng i ddattod carai ei esgidiau, gan fod mynyddoedd o anhawsderau rhyngddo ef a gallu cyflawni y gorchwyl pwysig hwnw ei hunan. Ond er mor drwm a thew ydoedd, ymddangosai yn feddiannol ar lawer iawn o hoewedd a bywiogrwydd; a gellid dyweyd mai mewn canlyniad i feddu ysbrydoedd hapus, ac nid i loddesta, y cynnyddodd mor wyrthiol mewn corffolaeth; ac nad oedd ysgogiadau a gweithrediadau rhydd ei feddwl ddim yn cael eu llyffetheirio i'r graddau lleiaf gan ei gorff trymaidd. Rhaid i longau mawrion gael balasarn trwm wrth gychwyn i'r cefnfor cyn y gallant fod yn ddiberygl. A gallai mai rhaffau trymion, cyfaddas i fordeithiau ac

ehediadau anturiaethus ei ysbryd, ydoedd ei sylweddoliaeth bwysig ef wedi y cyfan. Dywedasom nad oedd dynodiant ei wynebpryd yn rhagbrofi ei alluoedd; anghofiasom y pryd hyny hynodrwydd rhyfeddol ei lygad molltenol, yr hwn ydoedd mor llachar a "dysglaer amrantau y boreu." A phan ennynid ef gan wresogrwydd ei ddrychfeddyliau, a chan zêl ei ysbryd brwdfrydig, byddai y pryd hyny ddigon o wynias ynddo i oleuo cynnulleidfaoedd yn fflamiau angerddol o dân goleuedig.

Ar ol i'n harwr godi ar ei draed, rhoddodd un o bennillion tarawiadol Williams allan i ganu. Seiniai lleisiau uchel a soniarus y dorf yn awr yn beraidd; chwyddent tua 'r diwedd, nes adsain yn orfoleddus yn y creigiau oeddynt gerllaw; wedi hyny diflanai ymaith, fel pe yr ymgiliai ar adenydd yr awelon i ymgymysgu âg anthemau yr engyl yn y wlad fry. Ar ol gorphen canu a chael hyd i'r testun, daliai y Bibl o flaen ei lygad, a darllenai y geiriau a ganlyn mewn llais cryf a seinfawr, yn ddigon uchel i bawb i'w glywed:— "Ac felly yr âf i mewn at y brenin, yr hwn beth nid yw gyfreithlawn; ac o derfydd am danaf, darfydded." Rhagymadroddai yn fyr ac i bwrpas, gan wneuthur, fel, ys dywedai ef, yr arferai Rowlands, Llangeitho, wneyd, "cynnyrchu rhyw ddrychfeddwl cyffrous, fel blwch bychan, cyn agor blwch mawr y bregeth." Rhanai ei destun yn naturiol a thestunol, i ddau neu dri o brif faterion. Ar ol cael seiliau teg i'r adeiladaeth, elai ymlaen gyda'i bwnc yn rhwydd a digyffro, fel pe buasai wedi penderfynu, cyn dechreu, llywodraethu ei ddarfelydd â llymder manylaidd yr athronydd; ac ymddangosai yn ofalus rhag cael ei lithio gan yr arallegau a ymgynnyglent i'w feddwl. Dechreuai ymresymu a chadarnhau ei osodiadau â beirniadaeth lled fanylaidd, gan ddangos, ar y pryd, gydnabyddiaeth helaeth â golygiadau a barnau gwahanol esbonwyr ac awdwyr dysgedig yr *old school*. Ond mor fuan ag y dechreuodd gael ei wresogi gan y mater, teimlai nad allai gadwyno ei ddarfelydd yn hwy. Torai yr ymresymiad yn fyr, oblegid mae y drychfeddyliau yn dechreu gorlwytho ei ymenydd erbyn hyn. Rhaid, bellach, roddi ymarllwysfa iddynt, onidê gwnant, fel llwynogod Samson, roddi gwenith ei faterion ar dân, ac wedi hyny ni bydd ganddo ymborth i'w gynnyg i'r bobl. Ymddangosai yr hen wron mor drwsgl gyda llurigau trymion arbwylliant, ag ydoedd Dafydd gynt pan roddid arfwisgoedd Saul am dano. Ond edrychwch arno yn awr, ar ol dechreu ymollwng gyda'i dueddfryd cynnwynol. Ymddangosai fel pe buasai rhyw gronfa fawr yn tori yn ddisymwth. Mae ei lygad mawr yn llawn bywyd, awchlymder, ac anesmwythdra, fel pe byddai yn awyddus i ddyfod allan o'i grain. Byrlymai y fath gawodydd o ddesgrifiadau, nes y bu agos iddo a boddi y bobl â gorlifiant. Ymddangosai pawb erbyn hyn yn glustiau i gyd. Peth bychan yw dywedyd fod pob enaid yn gwrandaw gydag astudrwydd; yr oedd yno bawb yn teimlo hefyd; ac yr oeddynt yn gorfod dangos hyny, gan mor rymus ydoedd y dylanwadau nefol a ddilynai hyawdledd y llefarwr.

Am yr hen chwiorydd, yr oeddynt hwy erbyn hyn yn nghanol y môr, yn gorfoleddu ac yn canmawl nes rhwygo yr awyrgylch â sain cân a moliant. Yr oedd yr hen frodyr a'r hen bregethwyr, hwythau, yn yfed yn helaeth o winoedd melus Escol a dywalltid iddynt o lestr arian yr hen Gristmas. Pan ydoedd yn nghanol ei wresogrwydd mwyaf yn darlunio caethiwed y genedl Iuddewig, ac yn tynu addysgiadau ynghylch y caethiwed ysbrydol ag yr oedd holl blant Adda ynddo trwy y cwymp, dywedai cyfaill i ni a

safai ar y pryd yn agos at y gader lle yr eisteddai yr hybarch John Elias, fod ei lygaid yn llawn dagrau, "a'i fod yn cael ei ysgwyd fel coedwig o flaen awel o wynt cryf." Mewn gair, yr oedd pawb wedi eu trydanu gan y peiriant gwefrol ag ydoedd yn gweithio ar yr esgynlawr. Os oedd yno rai yn ddigon o athronyddion i ymattal rhag gwaeddi, nid oedd yno ond ychydig o greigiau allent ymattal rhag wylo yn hidl. A'r rhai oedd yn gallu llwyddo i attal eu dagrau rhag treiglo, oeddynt, er hyny, yn wrthddrychau y cynhyrfiadau mewnol mwyaf cyffrous. Teimlai rhai o honynt i'r fath eithafion, meddynt hwy eu hunain, nes colli pob teimlad corfforol am adeg. Prin y gwyddent pa un ai ar y ddaear ynte ar un o'r ser y sangent. Yr oedd hyawdledd anwrthwynebol yr areithydd wedi cydio gafael mor dŷn yn eu teimladau a'u *nerves*, fel na feiddient symud troed na llaw, rhag yr achosai yr ysgogiad lleiaf iddynt syrthio mewn llewyg ar y maes, neu roddi y fath ymarllwysfa i'w teimladau cynhyrfus nes brawychu yr holl dorf.

Ond gadawn y gynnulleidfa am fynydyn, a thrown i edrych pa fath olwg sydd ar y llefarwr ar yr esgynlawr? Mae yn awr fel yr eryr yn esgyn yr uchelion, neu "fel angel yn ehedeg yn nghanol y nef." Sylwch ar ddynodiant ei wynebpryd: mae fel wyneb Moses ar ol dyfod i waered o'r mynydd. Gwrandewch ar rym dwfn a soniarus ei lais: mae "fel swn llawer o ddyfroedd," yn boddi y clyw â seiniau pereiddiaf cerddoriaeth. Ni cheisia foddio ein llygaid âg ysgogiadau teleidiol areithydd. Nid oedd ganddo unrhyw ystum yn yr areithfa amgen nag estyn ei law at y dorf weithiau. Nid ymddibynai ef ar agweddau a symudiadau corfforol i wneyd argraff ar ei wrandawyr. Cyfoethogrwydd tanllyd ei ehediadau a gynhyrfai yr enaid â'r fath swyn cyffroadol. Gosodai holl ymherodraeth y Jehofa dan deyrnged i egluro ac i gymhwyso ei faterion. Gallai mewn amrantiad ddwyn perlau gwerthfawrocaf athrylith i addurno ac i gyfoethogi ei arddull a'i fater. Yr oedd ganddo lygaid a allai ganfod pob peth gwerthfawr yn meusydd gwyrddion llênyddiaeth; a chynneddfau a'i galluogai i brydferthu a gwisgo yr hyn yr ymaflai ynddo; a'r ddawn fwyaf ysblenydd i'w traddodi yn y modd goreu. Yr oedd symledd ei holl feddylddrychau mor fawr fel y gorfodid y mwyaf anwybodus i'w ganlyn a'i ddeall. Yr oedd y fath nwyfiant, gloewder, a bywiogrwydd yn ei ddesgrifiadau, nes rhwymo meddyliau yr holl ieuenctyd i'w wrandaw gyd â'r astudrwydd mwyaf. A hawliai ei alluoedd gwreiddiol sylw a gwarogaeth ddyfnaf y dysgedig. Ond ei dduwioldeb difrycheulyd, a'i zêl hunanymwadol, ydoedd dirgelwch mawr ei lwyddiant fel areithydd Cristionogol. Daliai y gymdeithas agosaf â'i Dduw bob amser, a rhedai gwythïen euraidd gras trwy ei holl gyflawniadau dirgelaidd a chyhoeddus. Efengyleiddrwydd ei faterion, gwresogrwydd ei ysbryd, a serchogrwydd ei enaid, oeddynt achosion penaf yr effeithiau rhyfeddol a ddilynai ei hyawdledd digyffelyb.

Wrth derfynu y bregeth hon, cymerodd achlysur i gyfrif y blyneddau oeddynt wedi treiglo er pan anerchodd pobl Môn y waith gyntaf. Cyfeiriai yn y dull mwyaf toddedig at y lluoedd pregethwyr ac enwogion oeddynt wedi myned i orphwys oddiwrth eu llafur o'i flaen. Ac awgrymai, yn rhai o'i appeliadau i'r anedifeiriol, "na chaent weled ei wyneb *ef* mwy." Yr oedd ei eiriau yn brophwydol. Ni welwyd mohono yn dringo yr esgynlawr yn Llangefni wedi hyny. Ond prin y gallwn gredu mai dyma y tro

diweddaf yr ymwelodd â'r fangre hon. Nis gallwn lai na chredu ddarfod i'w ysbryd pur, ar ei fynediad o Abertawe i lawenydd ei Arglwydd, daflu golwg, o'r hyn lleiaf, i oedi ei awr, fe allai, uwch ben Cildwrn a'r manau hyny yn ynys Môn a wnaed yn gysegredig gan ei zêl a'i hyawdledd.

Ar ol fel hyn ddyhysbyddu ein holl wybodaeth am Christmas Evans fel areithydd, ni awn ymlaen i roddi braslun o'r dygwyddiadau hynotaf a gymerasant le yn ei fywyd a'i daith trwy yr anialwch.

Mab ydoedd Christmas Evans i grydd tlawd yn mhlwyf Llandysul, Aberteifi, yr hwn fu farw gan adael gwraig a theulu bychan heb ddim ond yr [illegible] mwyaf ar eu cyfer. Cymerwyd Christmas fychan ar y pryd i dŷ ei ewythr, lle y cyfarfyddodd â'r esgeulusdod mwyaf, oddi eithr ar yr [illegible] y [illegible] ef gan y gweision, ac y derbyniai y triniaethau mwyaf [illegible] gan ei gyfaeddrachwr, mewn ffordd o gerydd am iddo gael ei [illegible] y mae yn [illegible] y cytunai y naill a'r llall o honynt i arfer moddion i'w [illegible] yn ei le (nid am ei fod wedi colli ei le), i'w ddysgu i fod yn fachgen [illegible], fel yr arferir dyweyd, trwy arfer y goruchwyliaethau chwerwaf at y [illegible]. Ni [illegible] erioed fynyd o ysgol—nid oedd Ysgolion Sabbothol y pryd hyny yn y wlad—ac yr oedd ar ei ewythr cydwybodol [illegible] yn [illegible] a diogelyd trwy ei anfon i unrhyw ysgol [illegible]. [illegible] Christmas i fyny yn llanc yn y sefyllfa druenus yma; [illegible] Cymraeg trwy gymhorth teiliwr rhwyddgalon [illegible] y lle.

[illegible] efe i wasanaeth rhyw [illegible]: a phan oedd yn y lle hwn, daeth yn wrthddrych [illegible] ei gyfiwr, a throes ei wyneb i dŷ Dduw am [illegible]. Ni bu yn hir yn aelod eglwysig heb gael ei [illegible]: "[illegible]," fel yr arferir geirio y peth [illegible] gweinidogaethol enwogion y [illegible]. [illegible] o'r Gogledd i ymsefydlu ar [illegible] sir Gaernarfon; ac ufuddhaodd [illegible] mewn cysylltiad â Christmas Evans. [illegible] ei enaid athrylithgar [illegible] Robert Roberts, [illegible] i fywyd (o ran [illegible] y cymmod. [illegible] mai cul iawn [illegible] Bu mewn tywydd mawr am [illegible].

[illegible] yr achosion o'r holl [illegible] ei enaid i'r fath [illegible] am burdeb a [illegible] ddyledsgaethau [illegible]. Mae yn anhawdd [illegible], ynte [illegible] eglurwyd, [illegible] ar wir[illegible] taerion a [illegible]. Ond pa

[illegible] Alpha [illegible]

beth bynag ydoedd natur yr ymladdfeydd mewnol hyn, a pha faint bynag o boen a achosasant iddo ei hunan, bu y byd er ei ennill trwyddynt. Faint bynag a gollodd ef mewn hapusrwydd meddwl, fe ennillodd yr eglwys Gymreig lawer trwy y profiad a gyrhaeddodd yn yr ymdrechfa. Er nad oes ond un drws i deyrnas nefoedd, eto chwilia dynion am amrywiol fynedfeydd, yn hytrach nag ymwthio trwy y porth cyfyng. Mae rhai wedi ymddiried y gwaith hwn i'w tadau a'u mamau bedydd, neu i ddyferion sanctaidd yr offeiriad apostolaidd; a'r lleill, fe allai, i'r dybiaeth eu bod yn ddiogel o'r tu fewn i'r cyfammod Abrahamaidd, gan eu bod yn had neu hiliogaeth y genedl etholedig; pryd y gellid barnu wrth ffrwythau eraill eu bod yn berffaith foddlawn ar yr hyn a wnaed *arnynt* (ond nid *ynddynt*) pan gladdwyd hwynt trwy drochiad yn nyfroedd yr afonig; pryd y mae y naill a'r llall wedi esgeuluso y "ffordd newydd a bywiol a drefnwyd trwy y llen, sef ei gnawd Ef." Ond fe ffodd Christmas Evans oddiwrth "y llid a fydd," i agenau y "gair sydd yn haeddu pob derbyniad." Chwalwyd yr ammheuon a'r dyryswch o'i feddwl pan y darfu "i'w ryfeddol oleuni ef" wasgaru y cymylau a guddient "y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab." Bu y llen ar ei lygaid am fisoedd lled faith; ond fe "rwygwyd y gorchudd" rhwng Aberglaslyn a Maentwrog, a throes y "tywyllwch yn oleuni dydd, a'r pethau ceimion yn uniawn" yn y gymydogaeth byth gofiadwy hòno. Yr oedd wedi cael ei siglo yn greulawn am fisoedd cyn hyn, fel llestr mewn ystorm, gan ei resymau ei hunan; ond "bu tawelwch mawr" i'w enaid ar ol i'r Iesu lefaru "tangnefedd" wrtho. Mae yn deilwng o sylw fod yr enwogion dysgleiriaf a ymddangosasant erioed yn yr Eglwys Gristionogol, wedi teimlo mai trwy lawer o anhawsderau y mae myned i mewn i deyrnas Dduw. A phan ystyriom am y nerth a ennillasant wrth ymdrechu, dylem ddiolch am y goruchwyliaethau trwy ba rai eu profwyd mor galed. Pa fodd y gallesid uno galluoedd eryraidd a dysgeidiaeth eang Paul, â'r gostyngeiddrwydd mwyaf hunanymwadol a feddiannai, oni buasai yr hyn a gyfarfyddodd ar y ffordd i Damascus? Pa le buasai cadernid Luther yn y gwirionedd, dwfn dreiddiadau Dr. Owen i drefn gras, cywreinrwydd ysbrydoledig Bunyan yn "Nhaith y Pererin," efengyleiddrwydd profiadau Christmas Evans, oni buasai y goruchwyliaethau cyfyng a gyfarfyddasant yn nechreuad eu gyrfaoedd crefyddol?

Ar ol llafurio ymhlith y canghenau hyn am yspaid yn llai llwyddiannus nag y gallesid dysgwyl, derbyniodd alwad i symud i ynys Môn. Ceir yn ysgrifenedig ganddo ef ei hunan achosion ei aflwyddiant yn Lleyn. Yn un peth, "Diffyg archwaeth efengylaidd at y weinidogaeth, yn lle ysbryd sur a chondemniol. Diffyg duwioldeb hefyd yn gweithredu yn esiamplaidd yn yr aelodau. A diffyg callineb i ymdrin âg achosion teyrnas Crist yn drefnus." Symudodd oddiyno i Langefni, yn Môn, lle y gwasanaethodd fel bugail ar holl eglwysi yr ynys am flyneddau meithion gyda gweithgarwch, hunanymwadiad, a llwyddiant, uwchlaw dim a glywyd sôn am dano trwy offerynoliaeth un dyn er dyddiau Paul. Adeiladwyd deunaw o leoedd addoliad tan ei ofal. Bu trwy ei lafur ei hunan yn brif offeryn i dalu eu dyled. Teithiodd trwy siroedd y Deheu unwaith bob gwanwyn am flyneddau i gasglu at dalu y llogau, arwystliaid (*mortgages*) hawl, &c. Dysgwyliai pawb wrth yr hen apostol i gyfarfod â threuliadau arianol y lleoedd hyn, yn gystal ag am ofalu y caent eu digoni â bara ysbrydol ar y Sabbothau. Gwasanaethodd hwynt am ugain mlynedd am 17*p*. yn

y [illegible] ac am y [illegible] a [illegible] yno, am 30 punt! Eithr er [illegible] yn [illegible] fel y cawn ddangos [illegible] yn [illegible] achos teilwng!

Ond er mor [illegible] y bu yn yr Min, eto cyfarfyddodd âg an-[illegible] yno. [illegible] y bu agos i Sandemaniaeth ei gael [illegible]. [illegible] myned heibio yr ymladd-[illegible] a'r [illegible] Sandemaniaid yn [illegible], oblegid iddo ddyoddef mwy ei [illegible] yr [illegible] na dim a'i cyfarfyddodd. [illegible] yn [illegible] crefydd o blith yr eglwysi, [illegible] am yspaid ganddynt. Dyma ei [illegible] ef ei hunan ar y mater:—

"Collodd fy nghalon yn ol rywfodd, fel y collais dystiolaeth cydwybod dda. Nos Sabbothau, wedi bod yn [illegible] yn [illegible] a [illegible] wyneb am gyfeiliornadau y [illegible], [illegible] fy nghydwybod [illegible] yn [illegible], ac yn dannod i mi fy mod wedi colli yr agosrwydd at, a rhodio gyda Duw; a bod rhywbeth gwerthfawr yn eisieu genyf yn awr. Atebwn innau fy mod yn gwneyd yn ol y gair. Ond parhau i edrych yr oedd, fod rhywbeth gwerthfawr yn eisieu. Yr oeddwn i wedi cael fy yspeilio i raddau helaeth o *ysbryd gweddi*, ac o *ysbryd pregethu*. Rywfodd, gyrodd y trefniant Sandemanaidd bethau ysgafn teyrnas nefoedd yn fwy yn fy nghylwg na'r pethau trymaf; collais y nerth yr hwn a wisgai fy meddwl â zêl ac â hyder, a thaerni yn y pulpud am ddychweliad eneidiau at Grist."

Mae brawd lled agos i'r ellyll a'i blinai ef wedi ymddangos yn ddiweddar yn llawer o eglwysi y Gogledd eto, dan yr enw Campeliaeth. Ac y mae yn bwgwth cario yr un dylanwad gwenwynllyd ar achos y Bedyddwyr yn llawer man y dyddiau hyn ag a wnaeth y llall yn amser Christmas Evans. Pan ymwelodd yr ysgrifenydd yn ddiweddar â'r manau hyny lle y mae y doctoriaid anffaeledig hyn yn lliosogi, daeth i'w gof ddarluniad Christmas Evans o'r Sandemaniaid. Er na fynem wneuthur cyfeiriadau personol at fath yn y byd o bobl yn ein sylwadau, eto bydd yn anmhosibl i'r darllenwyr hyny sydd yn gydnabyddus â'r manau lle mae yr egwyddorion hyn wedi gwreiddio ddyfnaf, beidio gweled y tebygolrwydd neillduol a fodola rhwng Campbeliaid y dyddiau hyn a'r Sandemaniaid a ddesgrifir gan Christmas Evans. Fe allai nad ydyw eu hegwyddorion yr un, ond y mae y cymeriadau yn cyfateb yn rhyfedd. Dyma ei ddarluniad ef o'r olaf:—

"Yr ysbryd oedd yn cerdded trwyddo (Sandemaniaeth) ydoedd yn cyd-daraw âg archwaeth y sawl a dybygem ni o'r blaen yn bobl lled ddiweddi a dideimlad, ac yn dra amddifad o serchogrwydd crefyddol; neu wresogrwydd yn yr ysbryd, a thaer weddi, ac aberth a moliant. Yn y chwyldroad hwn aeth yr olaf ymlaenaf. Darfu i'r bobl hyn droi allan yn siaradwyr mawrion yn erbyn gwresogrwydd mewn crefydd, ac aethant mewn un-dydd-un-nos yn barchedicaf o'r brodyr, ac edrychid arnynt fel rhai o dan gynnydd gwyrthiol."

Dewisa y naill a'r llall o'r bobl hyn hinsawdd oer Greenland i fyw ynddo. Nis gallant anadlu, mewn ystyr grefyddol, heb gael awyr oerllyd y pegynau. Nid oes dim ond yr ia tragywyddol a wna y tro iddynt. Llesmeiriant yn y fan os daw ychydig o wresogrwydd yr efengyl yn agos atynt. Ond pechod anfaddeuol yr efengyl Gampbelaidd ydyw ymarfer â moddion gras yn ngŵydd y byd annychweledig! Peth rhyfygus o'r mwyaf ydyw gweddïo un amser: ond y mae yn ganmil mwy felly os gelwir ar

Dduw yn mhresennoldeb yr anedifeiriol![1] Os rhaid goleuo y ganwyll, gofaler am ei dodi *dan* lestr, ac nid mewn canwyllbren, rhag iddi oleuo i *bawb* sydd yn y tŷ. Os byddir am i'r goleuni lewyrchu, gofaler am iddo beidio gwneyd hyny *ger bron dynion.*

Oerodd ysbryd Christmas Evans i raddau helaeth yn rhew ac eira Sandemaniaeth. Ond nid yn hir y gallodd ef fyw yn Siberia; daeth yn ol eilwaith yn lled fuan i hinsawdd gynhes y groes a Chalfaria. Ond derbyniodd ef lawer o fudd a lleshâd er hyny oddiwrth y chwyldroadau hyn. Teimlodd yr anghenrheidrwydd i gloddio am sylfeini dyfnach i'w egwyddorion, fel na byddai yn agored rhagllaw i gael ei chwythu gyda phob awel o ddysgeidiaeth. Daeth, mewn canlyniad i hyn, yn dduwinydd dyfnach a mwy cyflawn, ac yn fwy cadarn yn yr ysgrythyrau. Llafuriodd hefyd i ëangu cylch ei wybodaeth. Daeth trwy ymdrech i allu deall ei Destament Groeg, trwy gymhorth geiriaduron. Penderfynodd i ffurfio cydnabyddiaeth â'r Hebraeg, a llwyddodd yn yr amcan hwnw hefyd i raddau, trwy gymhorth geiriadur Parkhurst. Dechreuodd efrydu yr hen dduwinyddion Puritanaidd hefyd yn fwy diwyd nag erioed, nes o'r diwedd iddo feistroli eu gweithiau mwyaf dyrus. Yr oedd ganddo ef hoffder mawr bob amser at yr hen gawri hyn. Gwelid yn ei lyfrgell fechan holl gyfrolau bwlcus Dr. Owen, a Howe. Yr oedd yn hoff hefyd o drafod dalenau hynafol a Rabbinaidd Dr. Gill, yr hwn a'i cynnysgaethodd â llawer ffugchwedl o femrwn ofergoelus y Talmud. Nid peth bychan oedd i ddyn o chwaeth farddonol Christmas Evans gloddio yn meusydd sychion, dadleuol, ac arbwyllol yr hen dduwinyddion. Dyma yr achos fod ei bregethau bob amser mor gyfoethog o faterion cedyrn, yn gystal a darfelyddiaeth hedegog. Yr oedd ganddo ef archwaeth a'i galluogai i fwyta ymborth iachus, serch iddo gael ei ddwyn ger ei fron ar ddysglau prenau, yn gystal ag ar lestri aur. Oblegid rhaid addef mai sych iawn yw arddull llawer o'r awdwyr galluog hyn. Credent hwy, na chyrhaeddid byth mo'r gwirionedd wrth dynu tuag ato trwy lwybrau difyrus y dyffryndir; gwnaent hwy am y ffordd uniawn, serch y gorfyddai iddynt groesi aml i fynydd, a thros y lleoedd mwyaf anial a disŵyn yn eu cynniweirfeydd duwinyddol. Pe yr efelychid ein gwron yn fwy yn hyn gan efrydwyr y dyddiau presennol, ceid egwyddorion mwy safadwy yn seiliau i'n barnau crefyddol nag a fedd llawer o honom. Gwnae i lawer melin wag hefyd falu a chynnyrchu gwell defnydd ymborth na *skeletons* y farchnadfa bregethwriaethol. Gwelid yr un cyfnewidiad yn ein cynnyrchion meddyliol ag a welir yn achlysurol wrth ymweled â'r creigydd noeth a llymaidd hyny yn Eryri, a ymddangosant yn wahanol yn awr rhagor na pheth oeddynt yn amser ein tadau. Gwelid y manau hyny, a wrthodai gynnyrchu dim ond grug a rhedyn yn dwyn cnydiau toreithiog o wenith. Byddai eu myfyrio mor effeithiol i lanhau a chyfoethogi corsydd meddyliol â'r triniaethau gwrteithiol a arferwyd gan amaethwyr Môn i ffrwythloni y morfeydd brwynog ac anobeithiol sydd ar lanau afon Malldraeth.

Ond ar ol treulio yn agos i ddeugain mlynedd yn ynys Môn, cododd

[1] Yr ydym yn ofalus rhag camddesgrifio golygiadau y bobl hyn. Nid ydym yn gwybod yn benderfynol, pa un a goleidir yr holl olygiadau hyn gan Alexander Campbell ei hunan; ond yr ydym yn sicr y gwneir hyny gan lawer ymhlith y Bedyddwyr a alwant eu hunain ar ei enw. Clywsom y rhai mwyaf gwybodus o honynt yn amddiffyn y syniadau anefengylaidd hyn drachefn a thrachefn. Ac nid mewn conglau y dadleuent o'u plaid; ond yn gyhoeddus yn yr Ysgolion Sabbothol, a manau eraill!

plaid yn ei erbyn yn rhai o'r eglwysi, fel y bu gorfod iddo ymadael â'r gwinllanoedd hyny, a blanwyd â'i law ei hun, a'r lle y bu yn gwrteithio ac yn dyfrhau am flynyddau meithion, nes gweled yr un wedi myned yn fil a'r gwael yn genedl gref.

Derbyniodd alwad yr adeg hon i fugeilio eglwys Caerffili, yn Morganwg. Treuliodd ddwy flynedd yma yn lled lwyddiannus ar y cyfan, nes y coddodd gwrthwynebwyr iddo yn y lle hwn hefyd, yr hyn a achosodd iddo dderbyn galwad i gymeryd gofal yr eglwys Gymreig yn Nghaerdydd. Bu yn [illegible] a llafurus dros ben, yr holl amser y bu yno. Parotodd cynnifer a [illegible] o'i bregethau i'r wasg yn ystod y ddwy flynedd yr arosodd yn y lle. Ond cyfododd gwrthwynebwyr iddo yno hefyd yn fuan ar ol ei sefydliad yn y dref hon yr hyn a'i tueddodd i symud drachefn, er mor [illegible] yn eu mysg i droi pechaduriaid at Dduw.

[illegible] yn ol i'r Gogledd eilwaith, a sefydlodd ar eglwys wan a [illegible] yn Nghaernarfon. Ymddengys fod sefyllfa pethau yn mysg y [illegible] mor anghysurus ag y gallasai y gelyn eu gwneyd. [illegible] ef ei hun yr hyn a ganlyn am danynt:—

"[illegible] i Dduw am ei ras i mi yn y lle hwn. Yr [illegible] erchyll: ie, trigfan y dreigiau, lle y gwnant eu [illegible]. Nis gwn pa beth a wel yr Arglwydd fod yn [illegible] ei ras. *Y pechod o [illegible], ac [illegible]* [illegible] enbyd a gyfarfyddais yn y dref hon."

Yr [illegible] yn dechreu heneiddio yn fawr, ac yn [illegible]. Teimlai ei hunan ei fod yn tynu yn nes at [illegible]." Y pryd hyn yr ysgrifenodd ac y cyhoeddodd "Y [illegible]," [illegible] gwir doddedig i ffarwelio â [illegible]. Ond er [illegible] a'i henaint, cymerodd daith [illegible] Caernarfon. Ond ni lwyddodd i orphen y daith hon. Pregethodd ei bregeth olaf yn nghapel y Bedyddwyr Seisnig yn Abertawy, [illegible] nerthol a ganlyn;—

"Yr [illegible] ar ddydd y Pentecost; a [illegible] ar y llynges fawr. Dros [illegible] yn myned ymlaen, gan "y tân, y [illegible] a llonyddodd y tân [illegible] wedi eu cymeryd gan y [illegible]."

[illegible] frodyr, "*This is my last sermon.*" [illegible] i ganmawl y Ceidwad [illegible] mor glaf nes ei [illegible] ei ymddatodiad wedi dyfod. Ac [illegible] yn fwy parod i [illegible]. Pan oedd dyfr[illegible] a'r [illegible] olaf ar ymdori [illegible] y brodyr oedd yn yr [illegible] wedi llafurio yn y [illegible] a dyma yw fy [illegible] wedi llafurio yno heb waed yn y [illegible]. Os edrychwch [illegible] golledigaeth; ond edrychwch [illegible] ar yn gadwedig trwyddo ef."

Yna, fel y dywedai Mr. William Rees yn ardderchog—"Cymerai un o bennillion Williams, o Bant y celyn, i hollti dyfroedd yr Iorddonen." Adroddai y dernyn a ganlyn mewn llais gorfoleddus,

"O gyfiawnder pur tragywyddol!
O gyfiawnder maith didrai!
Rhaid i'm henaid noeth newynllyd
Gael yn fuan dy fwynhau:
Dyma'r wisg ddysglaerwen oleu,
Cuddia 'm noethni hyd y llawr,
Fel nad ofnwyf byth ymddangos
Mwy o flaen dy orsedd fawr."

Mewn difrif, onid oedd hwn yn ymadawiad dedwydd? Pa anffyddiwr a fwynhaodd y fath orfoledd yn y bwlch cyfyng, ag a fwynhaodd yr hen filwr hwn i Iesu Grist? Nid ydym yn gwybod i ni gyfarfod â dim cyffelyb iddo yn hanes marwolaeth neb o ffyddloniaid Sion. Yr oedd ar y pryd, ugeiniau o filldiroedd oddicartref pan yr aeth "i gartrefu gyda'r Arglwydd." Yn y flwyddyn 74eg o'i oedran, cymerwyd ei ysbryd, oedd ychydig is na'r angelion, i gymysgu ei belydrau gyda'r sêr dysglaerwych hyny oedd yn perthyn i'r un dosbarth heulawg ag yntau. Gorchest ydyw peidio teimlo yn foddlawn a hapus wrth adfyfyrio ar symudiadau arddunol fel hyn. Gorphwysodd oddiwrth ei lafur wedi cyrhaedd oedran teg, wedi gorphen ei waith, ac wedi ennill serch yr holl Dywysogaeth. Gall y bobl hyny na lwyddwyd erioed i'w hudo i ymserchu yn neb enwogion eraill, pa mor ddysglaer bynag y byddo eu hathrylith ac angelaidd eu cymeriadau, wrando ar ddyn yn canmawl Christmas Evans, heb ffrochi a digio. Yr oedd yr holl ffeithiau hyn yn tueddu i wneuthur y fath ymadawiad yn amgylchiad i'w fwynhau, yn hytrach nag i alaru o'i herwydd. Mae dagrau a galarnadau yn anamserol yma. Y maent yn anghyson â syber addfed yr olygfa. Gyda llawenydd, ïe, gyda gorfoledd, yr edrychwn ar ei enaid mawreddog a phur yn cael ei ddwyn yn mreichiau engyl i gwmni agosach â'r Oen, am ogoniant pa un y soniodd mor fynych, mor felus, ac mor wresog, i ganmawl y gogoniant dyglaerwych a daenir o amgylch yr orseddfainc wen fawr, ac i fwynhau y cwmpeini seraphaidd, yn nghymdeithas urddasol pa rai yr ymddangosai eisoes fel wedi ei naturioli. Nid ydyw galar yn gweddu i'r amgylchiad hwn. Oblegid pwy wylai wrth edrych ar yr afonig fechan, sydd yn ymdrechu ymddyfnhau ac ymledu yn nolenau ei chynniweirfeydd, o'r diwedd yn llwyddo i gyrhaedd dyfroedd dyfnion yr eigionau, nes cael ei gwneyd yn ddrych llydan a dysglaer i'r ser? Pe gwelem un o'r ser yna, a fenthyca ddysgleirdeb ei goleuni, yn cael ei llyncu o'r golwg gan lewyrchiadau yr haul, a'r haul wedi hyny yn suddo o'r golwg yn ngogoniant mwy claer y Duwdod, oni wnai y fath olygfa greu llawenydd mwy digymysg yn ein mynwes, na phe caniateid i ni sefyll uwch ben creadigaeth y seren hono? ac er, fe allai, na byddai yno ddim cydganu, fel ar adeg ei gwawriad genedigol, eto, creai y fath ddygwyddiad arddunol fwy o syndod yn mynwesau meibion Duw na'r amgylchiad blaenaf. Fel hyn y bu farw Christmas Evans, un o ser claerwych Cymru, yr hwn a dderbyniodd angeu mor dawel a gorfoleddus i'w freichiau ag y derbynia y ffurfafen i'w mynwes y

"Lloer anwadal ei llun,"

A chlywid hiraeth a galar yn cael eu hanerch fel y canlyn ar y pryd,—

"'Nawr rwy 'n gweled, medd llawenydd
Mai myfi a bia 'r gân,
Fi yw 'r môr, chwi yw 'r afonydd,
Rhedwch imi yn ddiwahan.

Ond rhyw waith anorphenol iawn fyddai ysgrifenu am Christmas Evans heb son am hynodrwydd rhyfeddol ei nodweddiad. Addefa pawb mai rhyw *phenomena* ydoedd ei athrylith, ond nid ydoedd ronyn yn rhyfeddach na'i gymeriad pur ac urddasol fel dyn a Christion. Yr ydym yn amcanu ceisio dangos mewn ysgrif ddyfodol ei fod yn gwbl ar ei ben ei hun fel athrylithur yn Nghymru; ond byddai ein desgrifiad o Christmas Evans yn druenus o anmherffaith heb sylwi fod ei nodweddiad yr un mor hynod. Byddai y fath amcan yn gyffelyb i seryddwr a glywsom yn ddiweddar yn traddodi darlith ar yr haul, yr hwn a ddarluniai, gyda hyawdledd neillduol, ei ddysgleirdeb llachar, heb son dim am dano fel ffynnonell fawr goleuni a gwres, a dylanwad rhyfeddol ei lewyrchiadau ar y gyfundraeth heulawg. Drwg genym na allasem fanylu mwy uwch ben y rhan yma o'n gorchwyl, ond ni oddefa ein terfynau ddim rhagor na chrybwyllion byrion ar hynodrwydd nodweddiad ein gwron. Annogwn ein darllenwyr i fyfyrio ei gymeriad trwy ddarllen yn fanwl ei gofiant dyddorawl a ysgrifenwyd gan Mr. Morgan, Caergybi, yn gystal a'r un Seisneg a ysgrifenwyd gan y diweddar D. Rhys Stephen.

Wrth ddarllen y ddau lyfr uchod, y nodwedd gyntaf a ddaw i'r golwg ydyw ei *ddyngarwch* a'i *haelionusrwydd*. Dywed ei fywgraffydd am un anghraifft neillduol o hyn a ddygwyddodd pan yr oedd yn ynys Môn. Yr oedd brawd crefyddol, a'i deulu, wedi bod yn glaf am amser maith, ac wedi syrthio i ddyled dwfn. Daeth ar ofyn Christmas Evans yn ei gyfyngder, rhoddes yntau yr unig bunt oedd yn ei feddiant iddo yn y fan. Beïid ef ychydig am y peth gan ei wraig (er yr ymddengys mai benyw o'r un ddelw haelionus a'i gwr ydoedd hithau), "oblegid," ebe hi, "nid oes genym arian i brynu ymborth erbyn y Sabboth." "O," atebai yr hen batriarch, yr hwn oedd bob amser yn llawn ffydd, "fe ddaw o rywle cyn hyny." Ac fe ddaeth hefyd o rywle braidd yn wyrthiol. Tynodd ei wisg oddiam dano dro arall i gadw Gwyddel rhag yr oerni, a gwnaeth yr un peth bryd arall o dosturi at wisg dlawd Iuddew dychweledig. Pan nad oedd yn derbyn ond 30p. yn y flwyddyn am ei lafur, cyfranai 1*p*. bob blwyddyn at y Gymdeithas Feiblau, a 10s. at y Gymdeithas Genadol, a'r un swm at Athrofa y Fenni! Mae hyn yn ddigon i godi gwrid i wyneb llawer o weinidogion yr efengyl yn Nghymru sydd yn meddu llawer o dda y byd hwn, y rhai sydd lawer mwy amddifad o ysbryd haelionus yr hen Gristion enwog yma nag ydynt o'r athrylith a'i hynodai. Ofnwn fod rhai pregethwyr yn ystyried y dylai eu swydd eu hesgusodi hwy rhag cyfranu at achosion da; ond y maent yn camsyniad eu dyledswydd yn fawr, feddyliem ni. Ystyriwn y dylai pob gweinidog gael ei gynnal yn gysurus fel pob dyn arall; ond ystyriwn ar yr un pryd, os ydyw rhagluniaeth y nef wedi eu bendithio â chyfoeth y byd hwn, y dylent roddi degwm o hono i'r Arglwydd yn ewyllysgar fel dynion eraill. A phe, fel Christmas Evans, y gwnaent aberthu yn achlysurol i gyfranu i'r anghenus, ac i gymdeithasau da eraill uwchlaw eu gallu; a byddai hyn yn llawer o gymhorth i'w gwrandawyr annychweledig i gredu eu gwir anfoniad gan Dduw i waith y weinidogaeth.

Yr oedd dyngarwch Christmas Evans, fel ei ddarfelydd, yn reddfol yn

ei natur. Rhanai y tamaid olaf â'r Gwyddel Pabyddol, os credai ei fod mewn anghen. Gwnai dda, nid yn unig i deulu'r ffydd, ond i bawb o'r hil ddynol, boed ef Sais neu Iuddew. Pob dyn, pa mor ddirmygedig bynag y byddai ei genedl, pa mor resynol bynag y byddai ei sefyllfa, ffiaidd ei ddoluriau, a gwarthus ei bechodau, a ganfyddai, mor fuan ag y cyfarfyddai â Christmas Evans, fod un galon ddynol, o'r hyn lleiaf, ar ba un y gallai orphwys gydag ymddiriedaeth cyflawn brawd. Nid ysgrifenu ar antur yr ydym wrth ddefnyddio iaith fel hyn, ond dwyn ger bron ein darllenwyr ffeithiau sydd mor wirioneddol a bodoldeb y tystiolaethau a'u cadarnhant. Bwyd a diod, ac nid rhyw fath o wythoniaeth ydoedd dyngarwch gydag ef. Barnai, neu yn hytrach teimlai, fod yn ddyledswydd ar weinidogion yr efengyl flaenori mewn dangos eu tueddfryd haelionus ac elusengar, yn gystal ag annog eraill i hyny. Ac yr oedd haelionusrwydd cyson ei gyfraniadau at achosion crefydd, ynghyd â'r aberthau mynych a wnai i borthi a dilladu y tlawd, a hyny pan nad oedd ei gyflog ddim llawer mwy na'r hyn a dreulir gan ambell offeiriad i gadw ei geffyl, yn profi yn eglur hynodrwydd y nodweddiad rhyfeddol yma o'i gymeriad.

Nodwedd arall a'i hynodai ydoedd ei *faddeugarwch*. Gallasai Christmas Evans arfer geiriau y Salmydd ganwaith gyda llawer mwy o briodoldeb nag yr arferir y geiriau yn fynych; "Hefyd y gŵr oedd anwyl genyf, yr hwn yr ymddiriedais iddo, ac a fwytaodd fy mara, a ddyrchafodd ei sawdl i'm herbyn." Derbyniodd y fath driniaethau chwerwon oddiar law y rhai a gamalwent eu hunain yn frodyr iddo, ag a fuasai yn temtio Pedr waedwyllt ganwaith i weddïo yn daer am dân o'r nef i'w difa. Rhaid addef nad ydyw Cymru yn enwocach mewn dim nag yn ei hesgeulusdod o'i henwogion; ond nid cymaint a esgeuluswyd ar Christmas Evans gan ei gydgenedl ag a faeddwyd arno gan ei frodyr ei hunan. Ymddygwyd ato gan yr anwariaid hyn, nid yn unig yn anghristionogol, ond yn hollol annynol. Llawer o son sydd wedi bod am greulonderau brenines Madagascar; ond pan ystyriom amgylchiadau pethau yn Môn pan erlidiwyd yr hen wron, Christmas Evans, oddiyno, tueddir ni i alw y baganes hono yn oen diniwed mewn cymhariaeth i'r erlidwyr Cristionogol (?) hyn. Pan ofynwyd i weinidog o Gymro, yn ddiweddar, gan weinidog enwog gyda'r Bedyddwyr Seisnig (yr hwn oedd yn dra hysbys yn hanes amgylchiadau bywyd Christmas Evans), o ba le yr ydoedd yn enedigol? Atebai yntau, "mai o ynys Môn, yn Ngogledd Cymru." "O ynys Môn?" gofynai yntau eilwaith; "gobeithio, nad ydych yn perthyn i'r dynion annynol hyny a amcanasant at ferthyrdod arafaidd yr hen Gristmas Evans; oblegid," meddai, "os ydych, ni wiw i chwi feddwl am bregethu yn fy mhulpud i, bid a fyno." Dengys hyn, gyda pha echryslondeb yr edrycha ein brodyr y Seison ar y creulonderau hyny. Ond gan y teimlwn raddau lled fawr o anhawsder i gadw ein tymherau o fewn terfynau wrth ysgrifenu ar y mater yma, gadawn i Mr. Morgan, ei fywgraffydd ffyddlawn, adrodd yr hanes. Ac os bydd rhywrai yn ddigon penglogaidd, ar ol darllen yr hyn a ganlyn, i anghytuno â'r sylwadau cymedrol blaenorol, cynghorem hwynt i roddi heibio y gorchwyl o farnu neb na dim byth ond hyny, gan y dylai barn gyflawni ei swydd bwysig bob amser yn nghwmni cydwybod.

"Erbyn hyn," medd Mr. Morgan, "yr oedd gofidiau yn parhau i bentyru ar Mr. Evans, o ddydd i ddydd. Anhawdd ydyw genym ddilyn pethau o fewn cylch yr amser hwn, hyd ymadawiad ein hanwylaf frawd o Fôn; ond gan mai

cofiant am dano ef sydd yn cael ei ysgrifenu, a bod rhan o'r ofidiau mwyaf llymdost wedi cyfarfod âg ef yn yr amser dywededig, a bod cofnodiad o'r amgylchiadau wedi eu rhoddi ar lawr ganddo ef ei hun, nis gallaf, a gwneyd tegwch â'r achos, fyned dros yr amgylchiadau heb wneyd un sylw o honynt. Dyma olygiad Mr. Evans ar fel yr oedd pethau yn sefyll:—Yr oedd efe wedi claddu ei wraig, yr hon a fu dros gymaint o amser yn ymgeledd gymhwys iddo; yr oedd ei iechyd wedi gwanhau, defnyddioldeb ei unig lygad braidd a'i golli ar ol y daith i'r Deheudir i gasglu, a'i holl gyfansoddiad yn bygwth suddo."

"Yr wyf yn synu llawer," meddai yr hen wron erlidigaethus yn ei ddydd-lyfr, "na buaswn yn syrthio i'r bedd yn y tro hwn a ddaeth arnaf yn fy henaint, ynghyd â phentyrau o ofidiau o bob math; ond daliwyd fi i fyny gan yr Arglwydd. Yr oedd hyder cadarn yn fy meddwl fod i mi lawer o waith i'w wneyd dros Dduw, gyda dyoddef, cyn marw. Yr oeddwn, dim ond myned i'r pulpud, megys yn cael fy nghodi i baradwys, uwchlaw fy holl drallodion, nes y byddwn yn anghofio fy nhrallod, a'm brodyr caredig gyda mi, fel y teimlwn nerth yn fy ngwendid wrth lafurio dros yr achos."

Ond er gwaethaf pob ymgais a thaerineb o eiddo yr hen frodyr ffyddlawn, Richard Rowland a John Michael, o du eu hen frawd, profwyd fod creulondeb anghristionogol a diddynoliaeth ei wrthwynebwyr yn drech na hwynt.

"O'r diwedd," meddai yn ei ddydd-lyfr, "trodd y penderfyniad i mi ymadael â Môn, yn afiachus fel yr oeddwn. Yr oeddwn fel Jacob yn gadael ei dad a'i fam, ac yn myned â'i ffon yn unig gydag ef dros yr Iorddonen; felly yr oeddwn innau yn ymadael â'r eglwys y gweddïais, ïe, yr ymdrechais â Duw dros ei llwyddiant, ac y llafuriais agos i ddeugain mlynedd gyda hi, yn awr yn ymadael heb feddu dim o'r byd hwn, ond y ceffyl oedd o danaf, ac ychydig arian yn fy llogell; a phrin y gallaswn ddyweyd fod y rhai hyny yn rhydd genyf."

Methasom a dal heb dywallt dagrau wrth ddarllen yr hyn a ganlyn, gan ei fywgraffydd ynghylch yr amgylchiad:—

"Golygfa ddigon dor-calonus oedd hon,—gweled hen weinidog a fu yn llafurio cyhyd, ac o gymaint o ddefnydd, yn awr yn gorfod ymadael o dan yr amgylchiadau hyn. Wedi casglu cymaint dros y tai addoliad; ac wedi teithio cynnifer o weithiau i'r Deheudir, er gwasanaeth i'r achos, yn Môn yn neillduol; ac wedi myned trwy gynnifer o beryglon; teithio dros gynnifer o flyneddau; *ac yn awr llawer yn dal eu haddunedau yn ol, er dial ar eu hen dad yn yr efengyl;* a llawer eraill ag oeddynt yn proffesu eu bod o'i ochr, yn gwneyd ond ychydig ymdrech gyda alarad; ac yntau, fel Dafydd gynt, yn ymadael o wlad ei ryfeloedd a gelynion yr achos, ac o'i ddinas, megys, heb wybod a gawsai byth weled 'arch Duw a'i babell' yn Môn drachefn."

Ond er mor chwerw ydoedd y triniaethau a dderbyniodd oddiar law y Monwysiad, dyma ei iaith faddeugar ef ei hunan, mewn cyfeiriad at yr amgylchiadau anghysurus uchod, pan dderbyniodd alwad oddiwrthynt drachefn i ddyfod i lafurio eilwaith yn eu mysg:—

"Yr oedd galwad daer arnaf i ddyfod yn ol i Fôn; ond pa fodd bynag, er fod genyf lawer o gyfeillion yno, a bod rhai a fu greulawn wrthyf i'm gyru oddi yno, yn nghorff saith mlynedd o amser wedi cael tro, trwy ragluniaeth rasol a cheryddol Duw;—rhai trwy alaru yn ddwys am eu hymddygiadau tuag ataf; rhai a'r byd wedi troi yn eu herbyn, ac wedi syrthio i warth, ac eraill wedi eu symud trwy angeu; nid oeddwn yn cael gogwyddiad i fyned yno. Ond gwelais nad yw yr Arglwydd yn ein dyddiau ni heb ddangos ei anfoddlonrwydd yn ei ragluniaeth am y cam a wneir â'i genadon, y rhai sydd yn dal allan ei ogoniant. Dymunaf nas cyfrifir yn y farn i neb a wnaeth yn annymunol â mi yn Môn, Caerffili, a Chaerdydd; ond y cânt edifeirwch yma, a thrugaredd gan yr Arglwydd yn y dydd hwnw, hyd yn nod Alexander y gof copr ei hun."

Nodwedd arall a berthynai i Christmas Evans yn arbenig ydoedd *rhyddfrydigrwydd eang* ei olygiadau am dduwiolion ac enwogion o wahanol farnau iddo ei hunan. Beïir y Bedyddwyr yn lled gyffredin am feddiannu mwy na'u cyfran gyfreithlawn o ragfarn yn erbyn y duwiolion a wahaniaethant oddiwrthynt yn eu hegwyddorion; ond ni feiddiodd neb ddyfod â'r cyhuddiad yma yn erbyn Christmas Evans. Fel y dywed Brutus am dano, "Yr oedd digon o le yn ei enaid mawr ef i gynnwys holl dduwiolion o bob enwad." Yr oedd yn Fedyddiwr mor benderfynol a chadarn â neb; ond er y dygai fawr zêl dros y dwfr, ac er y safai yn lled dŷn yn erbyn cymundeb cymysg, eto arferai yr iaith hawddgaraf a mwyaf brawdol am dduwiolion yr holl enwadau crefyddol ar yr un pryd. Yr hyn, dybygid, sydd wedi dinystrio dylanwad y Bedyddwyr yn Ngogledd Cymru ydyw, dallbleidiaeth crefyddol. Ni wiw celu y gwir: y maent wedi gwneyd yr ordinhad bwysig o fedydd yn wrthddrych gwawd ac adgasrwydd lluoedd, trwy eu dull cecrus a chnawdol o'i hamddiffyn. Yn lle ei chredu a'i chofleidio mewn ysbryd addfwyn a llonydd, y maent wedi bod yn euog o'i chodi yn fath o fwgan brain, fel y mae llawer i'w gweled yn ffoi am eu bywyd oddiwrthi hi a hwythau, ei chofleidwyr. Dywedai gwalch o rydd-gredwr wrthym yn ddiweddar, wrth son am nodweddion y gwahanol enwadau yn Nghymru, "ei fod ef yn hoffi y Bedwyddwyr cystal â neb hyd nes y dechreuant ddadleu ar fedydd. Y pryd hyny," meddai, "gwelir yr hawddgaraf ei ysbryd o honynt yn myned i'r tymherau mwyaf cas a chynddeiriog." Gobeithiwn ei fod yn arfer gormodiaeth; ond rhaid addef y posiblrwydd fod ryw sail i'r achwyniadau cyffredinol hyn, a ddygir yn eu herbyn fel corff o bobl. Yr oedd pethau yn gyffelyb yn Lloegr, hyd nes y daeth Robert Hall, â'i 'ysgrifell a'i dafod hyawdl, i arferyd dull gwahanol, wrth ymdrin âg egwyddorion bedydd. Clywsom am ymddyddan a gymerodd le unwaith rhyngddo âg un o'i ddiaconiaid, yr hwn oedd yn Fedyddiwr lled gul a rhagfarnllyd.—"Mr. Hall," meddai, "dysgwyliwn y bydd agwedd wahanol ar achos y Bedyddwyr yn y dref yma, ar ol eich cael chwi yma. Gellwch chwi amddiffyn y gwirionedd yn erbyn y Taenellwyr yna gyda y fath dalent a boneddigeiddrwydd nes eu hennill atom ni." "Wel, syr," meddai Mr. Hall, "rhyw ddysgwyliadau lled wanaidd sydd genyf fi ar y pen yna; oblegid nid oes modd i mi gael y brodyr y Taenellwyr i'm haddoldy, tra bo chwi, syr, a'ch cyffelyb, yn cymeryd y fath drafferth i'w cadw draw â'ch sychddadleuon a'ch cecraeth parhaus ynghylch bedydd." Mae yn anrhydedd gan yr ysgrifenydd gael ei ystyried yn un o'r Bedyddwyr. Creda yn drwyadl mai hwy sydd yn fwyaf ysgrythyrol eu golygiadau am yr ordinhado fedydd; ond fel ei chwaer o'r un enwad a ymwelodd yn ddiweddar âg "Aelwyd" ryfeddol "F'ewythr Robert," gwell ganddo *Gwacer*, er ei fod yn gwadu pob math o fedydd, na Bedyddiwr, os bydd yn byw yn benrydd ac anghrefyddol. Fel y dywedodd un ysgrifenydd galluog, ystyriwn yn drueni "fod yr Iorddonen yn derfyn rhwng llwythau Israel." Er na fynem ychwaith, ar un cyfrif, symud yr Iorddonen o'i lle, eto purion fyddai genym weled ei hollti, nid yn unig pan fydd yr Eliasiaid ar eu taith i'r trigfanau nefol, ond hefyd ar yr achlysuron hyny, pan fydd anghen am gynnorthwy y llwythau hyny o'r tuhwnt i'r Iorddonen tuag at ddarostwng yn llwyr yr Ammoriaid a'r Amaleciaid—gelynion cyffredin holl lwythau Israel—o'r wlad.

Edrycher, er anghraifft, fel y mae meddwdod a diota yn gwneuthur

[illegible] "Nid oes arnom ni, sydd yn proffesu crefydd, eisieu rhyw [illegible] feddyginiaeth fel y Gymdeithas Ddirwestol yna i'n cadw yn sobr." Wel, a ydyw yn annhebygol cael y gwir gan neb? Mae yna rai llwyrymattalwyr gonest a gweithgar yn y Deheu. Dacw Mr. Daniel Davies, Abertawy, a Mr. John Jones (Mathetes), Caersalem Newydd, gan y Bedyddwyr; dacw Mr. David Rhys, Llanelli, a Mr. William Edwards, Aberdâr, gan yr Annibynwyr; dacw eto Mr. William Evans, Ton yr efail, ac eraill, gan y Methodistiaid. Paham na ddeuant hwy ymlaen i ddyweyd wrthym pa fodd y mae pethau yn sefyll gyda golwg ar y pwnc dirwestol yma? Nacânt ein hateb, gan nad allant wneyd hyny heb adrodd ffeithiau a dynai warth tragywyddol ar enwau llawer o'u brodyr gwrthddirwestol. Ofnwn pe yr adroddent yr holl wir, y gorfyddai iddynt gyfaddef mai proffeswyr crefydd, ie gweinidogion yr efengyl, ydyw yr attegion cadarnaf a fedd y fasnach feddwol yn Neheudir Cymru y dydd heddyw! Gwyddom nad ydym yn ysgrifenu ar antur, ac ni fynem ychwaith gael ein camddeall. Nid cyhuddo proffeswyr y Deheu o feddwdod yr ydym; ond dyweyd yr ydym mai *hwy* ydyw gelynion mwyaf llwyddiannus sobrwydd, oblegid eu bod mor benderfynol o elyniaethol i'r moddion goreu a ddarganfyddwyd erioed tuag at roddi terfyn hollol ar y fasnach feddwol yn ein gwlad. Gwna y dull gwawdus a ddefnyddir gan lawer o broffeswyr a phregethwyr o son am ddirwest, a'u hymlyniad cyndyn wrth yr arferiad "o yfed yn gymedrol," fel yr arferant ddyweyd, dueddu llawer mwy tuag at gynnal i fyny yr arferiad dinystriol a ddilyna, na *sprees* mwyaf mochynaidd meddwon proffesedig! Dadleuon hedyddyn wir! tra mae lleisiau mor uchel yn galw ar i weinidogion o bob enwad i bregethu ar destun cynhyrfus Paul—"Cyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd!"

Dichon y dywed rhai o'n beirniaid, ein bod wedi gadael ein testun, a myned i grwydro ymhell oddiwrth Christmas Evans. Na, na, cadwasom

ein golwg yn lled ddiysgog yr holl amser ar ein gwron; a dyma yr oeddym yn amcanu ddywedyd yn awr: ni buasai Christmas Evans byth yn esgeuluso ymuno â duwiolion o bob enwad i wneuthur rhuthriad penderfynol ar elynion cyffredin achos Mab Duw, ymhlith pob enwad yn Nghymru. Gall dynion gwir fawr bob amser fforddio anghofio gwirioneddau ysgafnach, er mwyn ymuno â'r rhai a wahaniaethant â hwy mewn pethau mwy eu pwys, a'u canlyniadau. Dynion disylw, o wybodaeth gyfyng, o amgyffredion byrion, ag y gellid gwasgu eu holl enaid i blisgyn cneuen, a wrthodant yn gyffredin ymuno â'r rhai a wahaniaethant â hwynt, er mwyn llesoli eu cyd-ddynion, a gogoneddu eu Duw. Dynion o ddoniau ac athrylith, megys John Foster, Robert Hall, Williams o'r Wern, a Christmas Evans, yn gyffredin, a hynodir o ran haelfrydigrwydd eu syniadau am dduwiolion eraill.

Ond cyn gadael y mater yma, goddefer i ni geisio treiddio a deall achosydd mawr y nodwedd yma yn nghymeriad Christmas Evans. Cyn y mae yn bosibl rhagori yn y gras hwn, rhaid meddiannu duwioldeb bersonol *o radd uwch ein hunain*. A dyna lle yr oedd dirgelwch rhagoriaeth y nodwedd yma yn Christmas Evans. Mae llawer crefyddwr yn meddu ar ras yn y galon, heb fod yn rasol yn yr ysbryd wrth gyfathrachu âg eraill. Mae y fettel yn bur ynddynt, ond nid ydyw wedi ei dymgyrchu (*magnetized*), ac o ganlyniad, nid ydyw yn attynu dim. Cyn y gellir attynu cariad ein brodyr atom ni, rhaid i ni fod yn feddiannol ar yr harddwch hwnw yn ein cymeriad â'n swyna ni atynt hwy. Yr oedd Christmas Evans yn meddu, nid yn unig "wreiddyn y mater" yn ei enaid, ond "ffrwythau yr ysbryd" yn ei fywyd; yr oedd gras a chariad ar ei dafod, a phrydferthwch sancteiddrwydd yn addurno ei holl ddyn oddiallan. Yr oedd wedi ei berffeithio gymaint ar ddelw ei Feistr, fel yr oedd yn denu serch a hawddgarwch pob Cristion, boed ef o'r enw, o'r tueddfryd, ac o'r genedl a fyno.

"Thoughts crowd upon me; and 'twere seemlier now
To stop, and yield our teacher's gracious thanks,
For the pathetic records which his life
Hath to us given, in *deeds* of heartfelt truths,
Lending to patience, where affliction strikes
To hope and love; to confident repose
In God; and reverence for the dust of man.
O, could we copy his mild virtues, then
What joy to live; what blessedness to die."

Y LLYTHYR AT Y RHUFEINIAID.

A SYLFAENWYD yr eglwys yn Rhufain gan apostol? Nid yw hyny yn debygol; oblegid yn 1af, yr eglwysi eraill at ba rai y mae llythyrau wedi eu cyfeirio, cawn yn yr Actau pwy a'u sylfaenodd; a thebygol yw pe buasai apostol wedi sylfaenu yr eglwys yn Rhufain, na buasai hyny yn dianc yn ddisylw.

2il. Y mae yn amlwg, oddiwrth yr amgylchiadau yn niwedd y llythyr, fod yn perthyn i'r eglwys yno rai oeddynt yn Nghrist o flaen Paul: y mae yn llawn mor amlwg oddiwrth yr Actau, nad oedd cyfiawn gweinidogaeth un o'r apostolion y pryd hyny, o leiaf, yn [illegible] na Gwlad Canaan, ynghyd â rhyw ychydig [illegible] cymydogaethol.

3ydd. Gellir casglu hyn hefyd oddiwrth rai ymadroddion yn y 15fed bennod o'r llythyr at y Rhufeiniaid: "Ac felly gan ymorchestu i bregethu yr efengyl, nid lle yr enwid Crist, fel nad adeiladwn ar sail un arall;" a'r un a ganlyn: "Eithr yr awrhon, gan nad oes genyf le mwyach yn y gwledydd hyn, a hefyd bod arnaf hiraeth er's llawer o flynyddau am ddyfod atoch," &c. Y mae yn amlwg fod Paul wedi bwriadu y cyntaf o'r rhai hyn i fod yn esgusawd (*apology*) dros ei waith yn peidio myned i Rufain, gan mai ei reol a'i ymgais ef ydoedd treiddio i wledydd lle nad ydoedd Crist wedi ei bregethu o'r blaen, a bod y cyfryw leoedd yn galw am ei ymdrechion yn fwy na'r manau yr hanfodai Cristionogaeth ynddynt yn barod, megys yr ydoedd yn Rhufain; ond oddiwrth yr ymadrodd arall a ddyfynwyd, gallwn gasglu nad ydoedd yn ddyledus am ei sylfaeniad i unrhyw apostol, amgen, pa fodd y cydsafai y dymuniad cryf a broffesir yn y naill adnod, a'r uchelgais a addefir yn y llall. Felly, buasai yn trawsweddu am bregethu Crist, nid lle yr oedd yr Eglwys Gristionogol wedi ei sylfaenu gan apostol, ac ar yr un pryd yn dymuno yn hiraethlawn talu ymweliad i Rufain, er fod yr eglwys yno wedi ei sylfaenu gan apostol, yr hyn sydd yn wrthddywediad. Wrth ystyried y pethau hyn, ynghyd â'r ffaith fod yr eglwys yn Rhufain wedi cyrhaedd y fath gyhoeddusrwydd ag ydoedd, a hyny mor foreu, ymddengys mai yr atebiad mwyaf rhesymol a ellir ei roddi i ofyniad arall, sef, Pwy a'i sylfaenodd? ydyw yr hyn a ganlyn:

Fod Cristionogaeth wedi ei dwyn yno gyntaf gan y dyeithriaid hyny o Rufeinwyr, y rhai y dywedir eu bod yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost; a'i bod yn ganlynol i hyny, wedi ei meithrin gan bersonau oeddynt wedi dyfod i Rufain, o wahanol barthau, y rhai a ddychwelasid yn benaf o dan weinidogaeth Paul, yr hyn, ymhlith pethau eraill, a gyfrifa am y gydnabyddiaeth oedd rhwng yr apostol â chynnifer oedd yn yr eglwys, megys yr ymddengys oddiwrth ei anerchiadau.

A oedd yr eglwys yn Rhufain yn gyfansoddedig yn benaf o Iuddewon, ynte o genedloedd? O genedloedd yn benaf, mae'n debygol: y mae yn naturiol i ni gasglu felly oddiwrth yr hyn a ganlyn. Yn y bennod gyntaf o'i lythyr, fe ddywed, gan iddo gael ei alw i bregethu i'r holl genedloedd, ei fod wedi ei alw i bregethu iddynt hwythau hefyd y rhai oeddynt yn Rhufain. Y mae yn deilwng o ystyriaeth fod y Groeg τὰ ἔθνη a arferir yma am y cenedloedd, yn cael ei arfer yn y Testament Newydd yn unig i'w gwahaniaethu oddiwrth yr Iuddewon, yr hyn a ddengys na buasai un grym yn nghasgliad Paul, oni buasai fod yr eglwys a ffefrid â'i lythyr yn gyfansoddedig yn benaf o genedloedd. Yn *adn.* 13eg o'r un bennod, cawn y geiriau hyn, "Fel y cawn rhyw ffrwyth ynoch chwi, megys ag yn y cenedloedd eraill;" yn gymaint a dywedyd, "fel y cawn ryw ffrwyth ynoch chwi y cenedloedd yn Rhufain, megys ymhlith cenedloedd eraill." Ymddengys yr un peth oddiwrth *pen.* xv. 16; "Fel y byddwn weinidog i Iesu Grist at y cenedloedd," &c., fel y byddai offrymiad y cenedloedd yn gymeradwy, hyny yw, y rhai oeddynt yn Rhufain: fe wneir y dybiaeth hon yn dra thebygol hefyd, gan amryw ymadroddion yn *pen.* xi.

A oedd yr eglwys yn Rhufain yn un liosog? os ydoedd, pa fodd y cysonir hyny âg *Actau* xxviii. 22. Ymddengys oddiwrth yr hyn a ddywedir yn nechreu y llythyr, ynghyd â'i osgo cyffredinol, ei bod yn lliosog. Y mae yr anghysondeb ymddangosiadol yn gorwedd yn hyn. Os oedd yr eglwys yno yn lliosog a blodeuog, pa fodd y gallasai y rhai y siaradai Paul gyda hwynt yn Rhufain, fradychu cymaint anwybodaeth o honi hi a'i daliadau? A pha fodd y gallasai y ffaith, fod y sect hòno yn cael yn mhob man ddywedyd yn ei herbyn, gydsefyll â'r hyn a ddywedir gan Paul, sef, bod eu ffydd yn gyhoeddus drwy yr holl fyd? I'r cyntaf, gellir ateb, gan fod yr eglwys yn Rhufain yn gyfansoddedig yn benaf o genedloedd, a bod y personau y crybwyllir am danynt yn yr Actau yn Iuddewon, nid yw yn debygol, er iddi fod yn flodeuog, y buasai yn tynu llawer o'u sylw hwy. Heblaw hyny, ymddengys oddiwrth y gair a ddefnyddir i osod allan y Cristionogion, sef αἵρεσις, fod y dynion hyn yn ystyried fod y ffydd Gristionogol yn rhywogaeth o Iuddewiaeth; os felly, er fod yr eglwys yn Rhufain yn eithaf adnabyddus iddynt, eto o herwydd ei bod gan mwyaf yn eglwys o genedloedd, edrychid arni ganddynt yn rhywbeth tra gwahanol i'r hyn oedd dan eu sylw ar y pryd. I'r olaf gellir ateb, na feddyliai Paul, yn ei ganmoliaeth i'r eglwys yno, ddim mwy na bod eu ffydd yn gyhoeddus ymhlith Cristionogion trwy yr holl fyd.

A fu Pedr yn Rhufain cyn i'r llythyr hwn gael ei ysgrifenu? Nid yw yn debygol. Casglir hyn oddiwrth y ffaith na wneir cyfeiriad at y fath beth gan Paul yn ei lythyr, na chan Luc yn ei hanes.

O ba le, a pha amser yr ysgrifenwyd ef? Yn *pen.* xv. 25, 26, ysgrifena yr awdwr fel hyn: "Ac yr awrhon yr wyf fi yn myned i Jerusalem, i weini i'r saint; canys rhyngodd bodd i'r rhai o Macedonia ac Achaia wneuthur rhyw gymhorth i'r rhai tlodion o'r saint sydd yn Jerusalem." Yn 1 *Cor.* i. 2, dymuna ar i'r eglwys yn Corinth wneyd y casgliad hwn yn barod erbyn yr amser yr elai atynt, yr hwn amser sydd yn cyfeirio at ailymweliad o'i eiddo â hwynt; oblegid y mae yn amlwg oddiwrth y llythyr ei hun ei fod wedi bod yno cyn ei ysgrifenu. Yn 2 *Cor.* ix. 2, canfyddwn ei fod wedi cyrhaedd cyn belled â Macedonia yn ei gyfeiriad atynt; ond oddiwrth yr ymadroddion cyntaf a ddyfynwyd, gwelir ei fod wedi derbyn y casgliad hwn yn gyflawn, ac yn dychwelyd gydag ef i Jerusalem. Gan hyny, rhaid fod y llythyr wedi ei ysgrifenu ar ddiwedd ei ail ymweliad â thir Groeg. Tybir iddo gael ei ysgrifenu o Corinth, a hyny, oddiwrth fod Gaius, yr hwn a breswyliai yn Corinth (1 *Cor.* i. 14) yn anfon anerch at y Cristionogion yn Rhufain. Hefyd, dywedir fod Erastus yn oruchwyliwr y ddinas o'r hon yr ysgrifenwyd; ond ymddengys, oddiwrth 2 *Tim.* iv. 20, ei fod ef yn byw yn Corinth. Yn *Actau* xix. 21, cyfeirir at yr un daith, ac yn *pen.* xxiv. at ei dyben. Oddiwrth yr hanes yno, gwelir i'r apostol, ar ol gorphen y daith hon a dychwelyd i Jerusalem, gael ei ddal a'i garcharu am ddwy flynedd, hyd oni ddaeth Ffestus yn lle Ffelix. Cymerodd hyn le yn ol hanesiaeth gyffredin yn y flwyddyn 60 O. C. Tyner y ddwy flynedd carchariad o hyn, fe'n dygir i'r flwyddyn 58; ar y pasg yn yr un flwyddyn yr oedd Paul yn Philippi, wedi treulio tri mis yn nhir Groeg, yr hyn a ddwg amseriad y llythyr i ddiwedd y flwyddyn 57.

Pa beth oedd dyben ac achlysur ei ysgrifeniad?

Y mae yn ofynol i ni ystyried fod y dyben yn un peth, a'r achlysur yn beth arall. Diffyg talu sylw priodol i hyn, mae'n debyg, a barodd i rai

ddywedyd, mai y prif beth yn ngolwg yr apostol ydoedd cymmodi â'u gilydd y pleidiau Iuddewig a chenedlig oedd yn gwneyd i fyny yr eglwys yn Rhufain. Ond y mae hyn yn darostwng ac yn cyfyngu gormod ar yr amcan. Nid yw yn ymddangos mewn un modd yn debygol fod ymrafael cyhoeddus wedi tori allan yn eu plith: nid oes gyfeiriad at y fath beth yn y llythyr, ac ni chydsafai y cyfryw dybiaeth â'r ganmoliaeth a roddir iddynt yn ei ddechreu. Addefir yn rhwydd fod yn eu plith elfenau anghydfod, yn tarddu yn naturiol o fod yr eglwys wedi ei gwneyd i fyny o Iuddewon a Chenedloedd—y cyntaf, er yn Gristionogion gwirioneddol, er hyny, o herwydd eu hymlyniad wrth, a'u parch i, ddeddf Moses, yn talu sylw i bethau a farnai yr olaf yn wrthwyneb i ysbryd rhydd yr efengyl. Eto, hyd yn nod yn y rhan hòno o'r llythyr ag y dygir hyn yn fwyaf i'r golwg, mor dyner ydynt yr ymadroddion a ddefnyddir, fel y mae yn naturiol casglu eu bod wedi eu bwriadu i attal rhwyg, yn hytrach na'i gyfanu—i ragflaenu anghydfod, yn hytrach na'i wella; gan hyny, nid teg galw hyn yn brif amcan y llythyr. Y mae hwnw yn uwch ac yn fwy cyffredinol. Yr oedd yr apostol, fel y dywed ef ei hunan, yn hiraethu am fyned atynt er's llawer o flyneddau, ïe wedi arfaethu hyny yn fynych, fel y gallai gyfranu iddynt ryw ddawn ysbrydol fel eu cadarnhëid. Ac yn ychwanegol at y rhwymedigaeth y teimlai ei hun dani i'r Rhufeiniaid ymhlith cenedloedd eraill, yr oedd sefyllfa Rhufain, fel meistres y byd a chyrchfa trigolion y gwahanol wledydd, ac felly y dylanwad a gai llwyddiant crefydd ynddi ar leoedd eraill, yn peri fod ei awydd yn fwy i'w cadarnhau yn athrawiaeth yr efengyl. Felly, gan hyny, wrth weled ei fod wedi ei luddias gan amgylchiadau i fyned atynt hyd yn hyn, a bod ymweliad â hwynt mewn amser dyfodol yn ansicr, fe ddefnyddia y cyfleusdra presennol i roddi iddynt, trwy gyfrwng y llythyr hwn, draethawd manwl ac eglur ar drefn fawr yr efengyl, fel ag i wneyd i fyny am ei absennoldeb personol. Ond er mai hyn yma ydyw amcan mawr y llythyr, dilys yw fod gan yr awdwr, wrth gyfeirio ato, olwg ar amgylchiadau neillduol yr eglwys; a bod hyd yn nod y rhan athrawiaethol o hono wedi derbyn ei ffurf i raddau oddiwrthynt. Fel y crybwyllwyd o'r blaen, yr oedd yr eglwys yn gyfansoddedig o Iuddewon a Chenedloedd; ac mewn gwirionedd, y ffaith syml hon oedd wrth wraidd yr holl wahaniaethau a allasent fod yn eu plith; edrychent ar yr efengyl o safleoedd (*standing-points*) gwahanol, ac yn y cyfwng rhyngddynt yr hanfodai elfenau anghydfod ac ymrafaelion; gan hyny wrth egluro trefn yr efengyl y mae yr apostol yn dwyn yr Iuddew a'r cenedl-ddyn at eu gilydd; profa yr angenrheidrwydd am dani, oddiwrth fod y naill fel y llall yn yr un cyflwr colledig, a thuag at gyfranogi o'i bendithion, yr oedd yn rhaid i'r ddau gyfarfod yn yr un man—"Yr hwn a gyfiawnhâ yr enwaediad wrth ffydd, a'r dienwaediad trwy ffydd:" dengys eu bod yn un yn eu colledigaeth, ac yn un hefyd yn eu cadwedigaeth; felly i'r graddau y credid yr athrawiaeth hon, i'r graddau hyny y cedwid yr eglwys mewn undeb a brawdgarwch.—Fel hyn y mae gwirioneddau cyffredinol yn cael eu trin fel ag i gyfarfod amgylchiadau neillduol,—is-amcanion yn cael eu hateb wrth gyrchu at y prif-amcan: neu mewn geiriau eraill, achlysur ysgrifeniad y llythyr yn cael ei lyncu i fyny yn y dyben mawr.

PENNOD I.

Y mae yr oll, o'r adnod 1af hyd ddiwedd y 15fed, yn ffurfio arweiniad i

mewn i'r llythyr; a chan mai un amcan mawr sydd gan yr apostol trwyddo, a bod ei holl fryd wedi ei sefydlu ar hwnw, byddai yn annaturiol casglu fod yr adnodau arweiniol hyn wedi eu hamcanu i un pwrpas amgen na bod yn wasanaethgar i'w gyrhaedd; ymddengys, gan hyny, mai yr hyn oedd yn ngolwg yr awdwr yn y gyfran hon o'r bennod, ydoedd, ennill ewyllys da y rhai oedd yn Rhufain—ymweithio i'w serchiadau; ac felly, sicrhau derbyniad diragfarn i'w genadwri. Yn y lle cyntaf, y mae yn gosod i lawr ei awdurdod apostolaidd; "Paul gwasanaethwr Iesu Grist, wedi ei alw i fod yn apostol, ac wedi ei neillduo i efengyl Duw:" ac yma y cawn anghraifft o'r hyn sydd yn nodwedd perthynol i'w ddullwedd ef, sef, ei ymadawiad (*digression*) sydyn oddiwrth ei fater. Pan y deuai yn ddamweiniol ar draws rhyw wirionedd pwysig, nid hawdd oedd ganddo ei adael, heb yn gyntaf arllwys o'i gwmpas ryw gymaint o'r meddyliau oedd yn dygyfor ynddo; ac yn wir, yr oedd ganddo y fath doraeth o honynt, fel nad oedd ganddo amser i'w trefnu, i'w gwisgo mewn diwyg ddyheig, i ymholi yn mha le a ffurf eu gosodai. Y mae hyn yn peri fod ei ysgrifeniadau weithiau yn afreolaidd, a'u hamcan yn aneglur; y mae y troadau sydd yn ei ffordd yn peri nid ychydig o anhawsder ar brydiau i gael allan y lle y cyfeiria ato; felly hefyd yn y fan hon, wedi crybwyll am yr efengyl, yr oedd yn rhaid iddo cyn ei gadael, gael dywedyd ei bod wedi ei haddaw trwy y prophwydi, mai ei gwrthddrych ydoedd Mab Duw; ei fod yntau drachefn o hâd Dafydd o ran y cnawd, ac wedi ei egluro yn Fab Duw mewn gallu, yn ol ysbryd sancteiddiad trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw. Ac yna, yn y 7fed adnod, y mae yn gorphen ei gyfarchiad, "At bawb sydd yn Rhufain," &c. Yn yr adnodau canlynol, dadgana ei ddiolchgarwch i Dduw o herwydd fod eu ffydd yn gyhoeddus drwy yr holl fyd; hysbysa y lle arbenig oeddynt yn gael yn ei weddïau, a'r hiraeth dwfn a deimlai am eu gweled. Fel hyn, wrth ystyried cynnwys y rhan hon o'r bennod, nis gallwn lai na barnu fod gan yr apostol, o dan y ffurf anfwriadol a berthyna iddi, amcan er hyny i barotoi meddyliau deiliaid yr eglwys yn Rhufain gogyfer â'r hyn yr oedd ar fedr ei draethu. Yn y lle cyntaf, yr oedd ei swydd ef, fel un wedi ei alw i fod yn apostol, yn hawlio eu sylw hwythau fel rhai wedi eu galw i fod yn saint; yn yr ail le, buasai ymddygiad gwahanol oddiwrthynt yn anghydweddol â'r cymeriad uchel a ennillasant; ac yn olaf, yn dra annheilwng o'r gofal a broffesai am danynt, a'r dyddordeb a deimlai yn eu llwyddiant. Yn *adn*. 16eg, y mae yn cael achlysur i ddwyn i mewn destun pwysig ei lythyr; ac er mai hwn yn y pennodau dyfodol sydd yn llyncu ei holl enaid, ac yn dwyn allan ei holl ymadferthoedd, eto, y mae yn ei osod i lawr yma mewn modd disymwth, syml, a diymhongar, fel rheswm am ei barodrwydd i bregethu yr efengyl iddynt hwythau hefyd, y rhai oeddynt yn Rhufain. Y mae yr un peth i'w weled trwy gorff yr epistol—dwg y darllenydd gydag ef heb ddyweyd yn mlaen llaw i ba le—gesyd ei bethau ger bron yr edrychydd yn ddirybudd, nes ei daro yn fwy effeithiol; yn lle addaw pethau mawr heb eu gwneyd, ei arfer ef yw eu gwneyd heb eu haddaw. Y mae yr un sydynrwydd i'w weled yn y lle hwn hefyd; "Felly hyd y mae ynof fi, parod ydwyf i bregethu yr efengyl i chwithau hefyd y rhai ydych yn Rhufain;" "Canys nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist: oblegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu." Y mae yr adnod hon, fe welir, yn ffurfio y symudiad (*transition*) at bwnc mawr ei ymdriniaeth; sef, iachawd-

wriaeth dyn, a'i hystyried yn allanol (*objectively*), a'i tharddiad yn Nuw; o'i hystyried yn dumewnol (*subjectively*) yn cael ei derbyn gan ffydd. Fel rheswm am yr haeriad hwn o barth i'r efengyl, dygir ymlaen *adn*. 17; "Canys ynddi hi y dadguddir cyfiawnder Duw o ffydd i ffydd;" "cyfiawnder Duw," yn hon, yn gyferbyniol â "gallu Duw er iachawdwriaeth," yn yr un flaenorol, ac "o ffydd i ffydd" yn cyfateb i "bob un sydd yn credu." Llawer o wahanol esboniadau sydd wedi eu rhoddi ar yr ymadrodd "o ffydd i ffydd;" ond pa beth bynag a ddichon fod ei ystyr, rhaid ei fod yn gynnwysedig yn yr ymadrodd, "Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd," a ddyfynir o'r Hen Destament i'w gadarnhau, yr hwn ni feddylia, mae'n debygol, ddim ychwaneg na bod iachawdwriaeth dyn o'i dechreu i'w diwedd, neu gyfiawnhad os mynir, fel rhan benodol o honi, yn hollol o ffydd; fe ddichon, er hyny, fod yr ymadrodd "o ffydd" yn fwy cyffredinol, ac wedi ei fwriadu i nodweddu y cyfiawnder ynddo ei hun; ac "i ffydd" yn dynodi y cyfiawnder yn y cymhwysiad o hono at y dyn, fel un yn cael ei ddadguddio i berchen ffydd.

Ar ol gosod i lawr yn fyr drefn yr efengyl i gyfiawnhau pechadur, cyn helaethu dim ychwaneg arni, y mae yn dangos yr anghenrheidrwydd oedd ar y byd am y fath gynllun: profir hyn ganddo oddiwrth ei gyflwr moesol. Yn y bennod gyntaf, cyfynga ei hun at y cenedloedd fel yn cyfansoddi y dosbarth lliosocaf o'r boblogaeth, gan ddechreu ei ymresymiad yn *adn*. 18, fel y canlyn:—"Canys digofaint Duw a ddadguddiwyd o'r nef," &c. Y mae yn amlwg fod y cysylltair, *canys*, yn arwain i mewn reswm am yr hyn a ddywedwyd yn yr adnod o'r blaen, sef, cyflwr o gyfiawnhad ger bron Duw yn gyrhaeddadwy yn unig trwy ffydd; mai hyn yw y gwirionedd sydd amlwg, "Canys, &c:" mor bell ydyw dynion o ennill cymeradwyaeth y Goruchaf, yn annibynol ar *gyfiawnder* Duw, yr hwn a ddadguddir o ffydd i ffydd, fel ag y mae *digofaint* Duw wedi ei ddadguddio o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion; cyfiawnder Duw a digofaint Duw ydynt wedi eu gosod yn wrthgyferbyniol i'w gilydd, a'r un gair hefyd a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r ddau, yr hyn sydd wedi ei fwriadu, dybygid, i osod allan y meddwl mewn ffurf mwy grymus a bywiog; ïe, er meddu y gwirionedd, yr oeddynt trwy anghyfiawnder yn ei attal. Y mae ychydig o amwysedd yn y gair *attal* yn y fan hon, yn gymaint a'i fod yn cael ei ddefnyddio am gadw unrhyw beth oddiwrth arall, neu rwystro unrhyw beth neu berson i weithredu yn ol ei duedd naturiol: yr ystyr olaf sydd yn cyfateb oreu i'r gair Groeg, κατέχω, ac felly yn golygu, nid gwaith yr athronwyr cenedlig yn cadw y gwirionedd oddiwrth y werin, ond eu gwaith oll, a'u cymeryd yn y cyfanswm o honynt, yn attal—yn cau i fyny mewn, a thrwy anghyfiawnder—y gwirionedd oeddynt yn ei feddu, rhag iddo gael ffordd rydd i ennill llywodraeth ar eu meddyliau, a dangos ei hun yn eu bucheddau. Ymddengys fod gweddill y bennod yn cael ei ddefnyddio i brofi y gosodiadau cynnwysedig yn yr adnod dan sylw; sef, fod digofaint Duw wedi ei ddadguddio o'r nef, &c., a bod y rhai oedd yn agored iddo yn attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder; ond wrth fyned ymlaen gyda hyn, y mae yr apostol yn newid eu trefn, gan brofi yr olaf o'r ddau yn gyntaf, yr hyn sydd yn cymeryd i mewn y pum' adnod dilynol. Dangosir yn gyntaf oll, yn y 19eg a'r 20fed, fod y gwirionedd ganddynt, "O herwydd yr hyn a wyddir (nid yr hyn a ellir ei wybod) am Dduw, sydd eglur ynddynt hwy;" ystyr gyffredinol τὸ γνωστὸν

ydyw, "yr hyn a wyddir;" nid oes genym ychwaith un sail oddiwrth yr arferiad cyffredin o hono yn y Testament Newydd i'w gyfieithu yn wahanol; a hefyd ni byddai iddo felly ateb dyben yr apostol cystal, oblegid son y mae efe, nid am yr hyn a allasai y cenedloedd wybod, ond am eu gwaith yn camddefnyddio y wybodaeth oedd ganddynt: y meddwl, gan hyny, yw, fod y wybodaeth allanol (*objective*) hono, pa un a argraffwyd gan Dduw ar y greadigaeth, a'r hon hefyd oedd yn wasgaredig ymhlith dynolryw yn gyffredinol, yn eglur ynddynt hwythau; canys yr oedd anweledig bethau Duw, sef ei dragywyddol allu ef a'i ddwyfoliaeth, i'w gweled oddiwrth neu trwy (yr hyn sydd yn cyfateb yn well i feddwl ἀπὸ, na'r arddodiad *er*) greadigaeth y byd hyd onid oeddynt yn ddiesgus. Yn *adn.* 21, y mae yn dwyn ymlaen y wybodaeth a ddangoswyd ei bod yn eu meddiant, ac yn ei chysylltu â'r camddefnydd oeddynt yn ei wneyd o honi; a thra y mae trwy hyn yna yn cyfiawnhau yr haeriad o'u bod yn ddiesgus, y mae ar yr un pryd yn gorphen y prawf o'u bod yn attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder. Yna yn *adn.* 24, dychwela yn ol at y gosodiad cyntaf, sef, bod digofaint Duw wedi ei ddadguddio o'r nef, yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion; nid wedi ei ddadguddio yn erbyn dynion ar gyfrif y pethau hyn, er fod hyny yn wir; nid ychwaith yn erbyn yr oll o annuwioldeb ac anghyfiawnder, yr hyn ni chaniateir gan absennoldeb y fannod yn yr iaith wreiddiol: y mae'r meddwl yn fwy penodol (*definite*), ac yn golygu yn erbyn, neu ar gyfer pob math o annuwioldeb; hyny yw, fod Duw yn yr amlygiad o'i ddigofaint, nid yn unig yn cosbi, ond hefyd yn cyfaddasu y gosbedigaeth at natur y bai. Ond i ni ddilyn yr apostol hyd *adn.* 31, ceir gweled fod y meddwl hwn yn cael ei gario allan yn dra eglur; megys ag yr oeddynt hwy yn *anmharchu* Duw, trwy newid ei ogoniant i lun dyn llygredig, fel cosb am hyn, rhoddes Duw hwythau i fyny i *anmharchu* eu cyrff eu hunain; am eu gwaith, trwy eu heulun-addoliaeth, yn *newid* gwirionedd Duw yn gelwydd, rhoddes yntau hwythau i fyny fel ag i *newid* yr arfer anianol i'r hon sydd yn erbyn anian; ac megys yr oedd yn *anghymeradwy* ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth, rhoddes Duw hwythau i fyny i feddwl *anghymeradwy*. Yna, y mae yn diweddgloi y bennod gyda'r sylw eu bod, er gwybod cyfiawnder Duw, fel yn rhwymo y rhai a wnant y cyfryw bethau i ddyoddef marwolaeth, nid yn unig yn eu gwneyd eu hunain, ond hefyd yn eu cymeradwyo mewn eraill; megys ag yr oedd digofaint Duw yn erbyn eu hannuwioldeb yn cael ei amlygu mewn ffordd ag oedd yn dyfnhau eu trueni, felly hefyd yr oeddynt hwythau o'u hochr eu hunain, hyd yn nod wrth gyflawni y pethau hyny ag oeddynt yn ganlyniadau y gosb, yn mwyhau eu heuogrwydd; gan hyny, rhaid oedd iddynt gael rhyw ffordd amgen nag un oedd ganddynt i ennill ffafr y Duwdod.

PENNOD II.

Dyben yr ail bennod, fel y gyntaf, yw dangos, oddiwrth gyflwr llygredig dynolryw, yr anghenrheidrwydd am gynllun yr efengyl i gyfiawnhau. Gwneir hyn yn y bennod gyntaf, gyda golwg ar y byd cenedlig; yn yr ail, gyda golwg ar yr Iuddewon. Y mae y bennod hon yn dechreu gyda'r geiryn Διο, yr hwn sydd yn ei chysylltu â'r un flaenorol, ac yn cynnwys fod yr hyn a'i dilyna yn gasgliad naturiol oddiwrth yr hyn a ddywedasid o'r blaen. Ar ol i'r apostol, yn y bennod gyntaf, roddi rhestr o'r pechodau

dychrynllyd a arferid gan y cenedloedd, fe'i gorphena gyda sylw ag sydd yn mawr drymhau eu bai; sef, eu bod, nid yn unig yn gwneyd y cyfryw bethau eu hunain, ond hefyd yn cydymfoddloni â'r rhai oedd yn eu gwneuthur hwynt, a hyny er gwybod fod y rhai a wnaent y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth: ond yn y bennod hon, y mae yn myned ymhellach fyth, gan nodi allan radd uwch o euogrwydd hyd yn nod na hyny;—dyn yn meddu cymaint o oleuni fel ag i fod yn alluog i farnu eraill—i anghymeradwyo a chondemnio eu gweithredoedd—ac eto yn gwneyd yr un pethau ei hunan. Os oedd y cyntaf yn ddiesgus, gan hyny [illegible] rhaid ei fod ef felly: wrth farnu arall, yr oedd yn ei gondemnio ei hun. Yn y rhan flaenaf o'r bennod hon, ymddengys fod yr apostol yn gosod i lawr wirioneddau cyffredinol; eto, y maent o'r fath natur fel nas gallwn lai na barnu fod ganddo, wrth wneyd dewisiad o honynt, olwg ar yr Iuddew. Y mae yn dangos y gwirioneddau, neu y gosodiadau hyn, yn y fath fodd eglur ac anwrthwynebol, fel nad oedd gan yr Iuddew ddim i'w wneyd, dybygid, ond addef eu cywirdeb; ac fel hyn, y mae yr apostol yn dynesu ato mewn modd pwyllog, tawel, a gochelgar, gan gymeryd gofal i beidio a chyffroi ei ragfarn; ac yn y diwedd, cymhwysa y gwirioneddau cyffredinol hyn at ei amgylchiad neillduol ef. Honir ganddo, yn gyntaf, fod barn Duw yn ol gwirionedd—fod ei ymwneyd â dynion yn cael ei lywio gan gyfiawnder tragywyddol. Ar ol gosod i lawr y gwirionedd hunan-dystiol (*self-evident*) hwn, â ymlaen i ddangos, trwy ofyn cwestiwn, afresymoldeb y syniad y byddai i'r hwn a farnai arall am wneuthur y cyfryw bethau ag a enwasid, ddianc yn ddigosb, er cyflawni yr un pethau ei hunan: y mae barn Duw yn ol cyfiawnder (ἀλήθειαν). "Ond a wyt ti yn tybied, O ddyn, yr hwn wyt yn barnu y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau, a thithau yn gwneuthur yr un pethau, y diengi di rhag barn Duw?" Y mae y σε yn rhoddi ar ddeall fod y ddau syniad yn ymddangos i'r apostol yn groes hollol i'w gilydd, ie, yn gymaint felly, fel yr oedd cymeryd y fath fantais ar ddaioni Duw, y camddefnydd mwyaf o hono, ac y byddai i'r person hwnw a ddiystyrai olud ei ddaioni ef, heb ei deimlo yn ei dywys i edifeirwch, "drysori iddo ei hun ddigofaint erbyn dydd digofaint, a dadguddiad cyfiawn farn Duw; yr hwn a dâl i bob un yn ol ei weithred." Y mae hyn yn adfynegiad o'r meddwl sydd yn yr ail adnod, ond yn cael ei osod allan yma mewn modd mwy penodol (*definite*); wedi derbyn ei ffurf oddiwrth yr adnodau blaenorol. Fod barn Duw yn ol gwirionedd, a gynnwys ynddo y meddylddrych y tâl efe i bob un yn ol ei weithred; os felly, ofer i'r hwn oedd yn barnu (ὁ κρίνων) feddwl dianc rhag barn Duw. Wrth egluro y gosodiad hwn, y mae yr apostol yn cymeryd achlysur, am y waith gyntaf yn y bennod hon, i wneyd defnydd o enw yr Iuddew, ond eto mewn cysylltiad â'r cenedl-ddyn; ac fel hyn, symuda yn raddol oddiwrth osodiadau cyffredinol at amgylchiadau neillduol;—i'r rhai a geisient ogoniant, anrhydedd, ac anllygredigaeth, fe roddai Duw fywyd tragywyddol; ond i'r rhai a wnaent ddrwg, drallod ac ing: yr Iuddew yn gyntaf, a'r Groegwr hefyd. Y gweithreda efe yn y fath fodd sydd amlwg, "Canys (γάρ) nid oes derbyn wyneb ger bron Duw;" gan nad yw dderbyniwr wyneb, yna, wrth ffurfio barn mewn perthynas i weithredoedd dyn, fe gymer o dan ei ystyriaeth hefyd yr amgylchiadau yn mha rai eu cyflawnwyd; felly, byddai i'r manteision a feddiannai dyn, os camddefnyddid hwy ganddo, wneuthur ei ddedfryd yn fwy llym ac annyoddefol; "Oblegid cynnifer ag a bechasant

yn ddiddeddf a gyfrgollir hefyd yn ddiddeddf, a chynnifer ag a bechasant yn y ddeddf a fernir wrth y ddeddf." Canlyniadau y farn hon a adewir i'w penderfynu i gydwybod y rhai a anerchai, yr hyn nis gallai fod yn ddim amgen na'u cyfrgolli yn yr un modd; "Canys nid gwrandawyr ond gwneuthurwyr y ddeddf a gyfiawnhëir." Y cenedloedd a fernid am eu gweithredoedd yn ol y graddau o oleuni a fwynhaent, y rhai, yn absennoldeb deddf ddadguddiedig, oeddynt ddeddf iddynt eu hunain, a'u cydwybod yn dwyn tystiolaeth o'u mewn, yr hon a barhäai i gyflawni ei swydd hyd, ac yn y dydd, y barna Duw ddirgeloedd dynion. Ar ol gosod i lawr y gwirioneddau hyn mewn dull goleu a nerthol, y mae yn myned ymlaen yn *adn.* 17 i'w cymhwyso at yr Iuddew yn bersonol; "Wele, Iuddew y'th elwir, ac yr wyt yn gorphwys yn y ddeddf, ac yn gorfoleddu yn Nuw," &c.; ond er yr holl oleuni a fwynhëid ganddynt, eto cyflawnent y pechodau hyny a gondemnient mewn eraill. Heb fyned yn fanwl dros y desgrifiad a roddir yma o'r Iuddew, gwelir ar unwaith ei fod yn cyfateb yn hollol i'r hwn oedd yn barnu (ὁ κρίνων) yn nechreu y bennod; felly, gan ei fod ef yn diystyru golud daioni Duw—gan fod barn Duw yn ol gwirionedd—a chan y talai i bob dyn yn ol ei weithred, yr oedd ef, yr Iuddew, yn benodol yn agored i'r un farn. Yn niwedd y bennod, y mae yn gwneyd ychydig o sylwadau ar enwaediad—yn gymaint a'i bod yn ordinhad ag y cysylltai yr Iuddewon â hi lawer o bwysigrwydd, ac yn rhoddi hawl hefyd i'r mwynhad o'r lleill—gan ddywedyd y byddai o les yn unig ar y dybiaeth y byddai i'r person a enwaedid gadw y ddeddf, amgen, â ei enwaediad yn ddienwaediad; ïe, ychwaneg, y cenedl-ddyn, os cadwai y ddeddf, a'i condemniai ef. Megys yr oedd yr apostol wedi dybenu ei osodiadau cyffredinol trwy ddywedyd y bydd i Dduw, yn y dydd olaf, farnu *dirgeloedd* (κρυπτὰ) dynion, felly yn awr, y mae yn diweddu ei gymhwysiadau neillduol trwy ddywedyd mai yr hwn sydd yn y *dirgel* (ἐν τω κρυπτω) sydd Iuddew, a bod ei gymeradwyaeth ger bron Duw yn gynnwysedig, nid mewn cyflawniadau allanol, modd y tybiai yr Iuddew yn gyffredin, ond mewn purdeb calon; felly, yn yr amddifadrwydd o'r ansawdd yma yr oedd ef, fel y cenedl-ddyn, yn agored i ddigofaint Duw.

PENNOD III.

Yr apostol, yn ymwybodol o'r gwrthddadleuon i ba rai yr oedd athrawiaeth y bennod flaenorol yn agored, yn nechreu hon, a ddwg yr unrhyw ymlaen ei hunan, gan ymroddi hyd ddiwedd y seithfed adnod i'w hateb. Os yw yr Iuddew a'r cenedl-ddyn ar yr un tir, gyda golwg ar eu Cyfiawnhad ger bron Duw, "Pa ragoriaeth, gan hyny, sydd i'r Iuddew?" Etyb y gofyniad hwn trwy ddywedyd mai iddynt hwy yr ymddiriedwyd am ymadroddion Duw; "Oblegid beth? (τι γαρ) os anghredodd rhai, a wna eu hanffyddlondeb (ἀπιστία) hwy ffyddlondeb Duw yn ofer?" Y mae fod y cysylltair γὰρ yn nechreu yr adnod hon, yn tueddu i brofi, iddi gael ei bwriadu gan yr apostol nid fel gwrthddadl yn erbyn, ond yn hytrach fel cadarnhad o'r adnod flaenorol; y mae fod y μὴ yn nechreu y gofyniad, yn dangos fod yr apostol yn ymwrthod yn hollol â'r meddwl sydd ynddo, ac yn ffordd fwy effeithiol i osod allan ei anghymeradwyaeth o hono; ymddengys mai yr hyn a ganlyn yw tuedd yr adnodau dan sylw. Y mae rhagoriaeth yn perthyn i'r Iuddew, &c. Canys ymddiriedwyd iddynt hwy am ymadroddion Duw; ïe, y mae hyn yn wir, er i rai droi allan yn anffydd-

iawn, "Oblegid beth? os anghredodd rhai, a wna eu hanffyddlondeb hwy ffyddlondeb Duw yn ofer?" Na wna, mewn un modd (Μὴ γένοιτο): gan mai hyn yw y ffaith, gan nad yw ffyddlondeb Duw yn cael ei ddinystrio gan anffyddlondeb dyn, yna, y mae gwirionedd yr *adnod* 1af a'r 2il, yn sefyll yn ddigryn. Y mae *adn.* 4, yn rhoddi achlysur i'r gofyniad a gynnygir yn *adn.* 5. Ond os yw ein hanghyfiawnder ni yn canmawl cyfiawnder Duw, pa beth a ddywedwn? Ai anghyfiawn yw Duw, yr hwn sydd yn dwyn arnom ddigofaint?" Y mae yr hyn sydd yn sail i'r gofyniad uchod, er nad wedi ei ddywedyd yn uniongyrchol, eto, yn gorwedd yn ystyr yr adnod flaenorol; canys os arosai Duw yn eirwir, er i bob dyn fod yn gelwyddog, sicr yw, y byddai i'r amgylchiad hwnw wneuthur ei ffyddlondeb yn fwy amlwg; mewn geiriau eraill, byddai i anghyfiawnder dyn, yn ol iaith y 5ed adnod, ganmawl cyfiawnder Duw; ond pa beth yw y casgliad naturiol oddiwrth hyn yma? Bod Duw yn anghyfiawn yr hwn sydd yn dwyn arnom ddigofaint? Nage, mewn un modd; amgen, pa fodd y barna Duw y byd? Y gwnai efe hyny, oedd yn ffaith a gredid gan yr Iuddewon yn gyffredinol; ond yr oedd y dybiaeth fod Duw yn anghyfiawn pan yn dwyn digofaint, a'r grediniaeth y barnai efe y byd, yn hollol anghyson â'u gilydd. Golygir y 7fed adnod, gan rai yn ail-adroddiad o'r wrthddadl a ddygwyd yn mlaen yn *adn.* 5, ond a attaliwyd yn sydyn gan *adn.* 6. Ond y mae y cysylltair γὰρ, yn y fan hon eto, yn arwyddo yn wahanol; sef, fod yr adnod yma, ynghyd â'r un ganlynol, yn cael eu defnyddio fel profion ychwanegol o destun (*subject*) y gwadiad sydd yn eu rhagflaenu, "Canys os bu gwirionedd Duw drwy fy nghelwydd i yn helaethach i'w ogoniant ef (yr hyn y mae yn rhaid addef ei wirionedd), paham y'm bernir innau eto megys pechadur? Ac nid yn hytrach, &c., gwnawn ddrwg fel y dêl daioni?" Y mae y ddwy adnod hyn, gellid tybied, yn cadarnhau yn uniongyrchol y meddwl sydd yn gynnwysedig yn niwedd yr adnod o'r blaen; sef, "pa fodd y barna Duw y byd?" ac felly yn dal cysylltiad anuniongyrchol â'r cwestiwn mawr o barth i gyfiawnder Duw. Haera yr apostol yn *adn.* 6, fod y syniad o fod Duw yn anghyfiawn wrth gosbi yr anghyfiawnder hwnw trwy ba un y canmolid ei gyfiawnder ef, yn anghyson â'i waith yn barnu y byd; yn yr adnodau canlynol, dengys pa fodd yr ydoedd felly; oblegid, y syniad uchod, o'i gario allan a'i ddilyn i'w eithafion, a ddeuai i'r un peth a hyn:—"Paham y'm bernir innau eto megys pechadur? Ac nid yn hytrach gwnawn ddrwg fel y del daioni?"—yr hyn ar unwaith a ddymchwelai lywodraeth Duw, ac a ddinystriai foesau dyn. Nid oedd y cyfryw olygiad a hwn yn galw am unrhyw wrthbrawf, gan ei fod ynddo ei hun yn wrthun ac afresymol; yn unig, ychwanega fod damnedigaeth y dynion a goleddent y cyfryw dybiau yn gyfiawn. Wedi iddo, fel hyn, gilio ychydig oddiwrth ei destun, yn y 9fed *adnod*, adgymera ei safle flaenorol, gan gadarnhau fod sefyllfa ysbrydol yr Iuddew a'r cenedl-ddyn yr un; yna, dwg ymlaen dystiolaethau o'r Hen Destament i wirio hyn, a phrofa fod y cyhuddiadau cynnwysedig ynddynt i'w cymhwyso at yr Iuddew yn bersonol; "oblegid, pa bethau bynag y mae y ddeddf yn eu dywedyd, wrth y rhai sydd dan y ddeddf y mae hi yn eu dywedyd: fel y cauer pob genau," &c. "Canys (Διότι) trwy weithredoedd y ddeddf, ni chyfiawnhëir un cnawd yn ei olwg ef." Rhag ofn y dichon i'r darllenydd ofyn, Paham y dodwn *canys* yn nechreu yr adnod hon, yn lle *o herwydd?* Yn gymaint a'i fod yn gosod gwedd ychydig yn wahanol arni, dywedwn, mai

dyna ydyw ystyr y gair διότι, yr hwn sydd yn ddeilliedig o διὰ, ὅ, a τί; ac heblaw hyny, dyna'r meddwl sydd iddo yn y gwahanol fanau yr arferir ef yn y Testament Newydd: gwel *Luc* ii. 7; xxi. 28; i. 13; ac *Act.* xviii. 10. Felly, gan hyny, y mae yr apostol yma, ar ol cyrhaedd y casgliad pwysig yr oedd ei lygaid yn gyfeiriedig ato, sef nad allai dyn gael ei gyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf, yn ei ddwyn ymlaen yn ffurf rheswm; yr hwn, er ei fod yn gasgliad naturiol oddiwrth yr adnodau a'r pennodau blaenorol, eto, os caniatëid ef, ydoedd yn rheswm am yr hyn a ddywedasid yn niwedd *adn.* 19; "Canys trwy y ddeddf y mae adnabod pechod:" cyfiawnhad trwy y ddeddf, ac adnabod pechod trwy y ddeddf, ydynt ddau beth cwbl groes i'w gilydd, fel y mae hi wrth roddi yr olaf, yn cau allan y cyntaf. Ar ol iddo hyd yn hyn, aros ar yr ochr nacaol i'r cwestiwn, yn *adn.* 21, fe gymera yr ochr gadarnhaol, gan ddal allan gyfiawnder Duw—cyfiawnder heb, yn annibynol ar (χωρίς νομου), y ddeddf; er hyny, yn cael dwyn tystiolaeth iddo gan y ddeddf a'r prophwydi; ac un drwy ffydd, yr hyn sydd yn nodwedd arbenig perthynol iddo, i'w wahaniaethu oddiwrth un trwy y ddeddf; hwn, medd yr apostol, a ddadguddir "i bawb, ac ar bawb a gredant." Rhai, er mwyn gochel yr anhawsder sydd ynglŷn â'r ymadrodd diweddaf hwn, a gysylltant "i bawb" â'r prifair *dadguddir* neu *eglurir*, ac a ddeallant y ferf *sydd*, yn rhagflaenu "ar bawb." Ac yna, y meddwl yw hyn,—fod cyfiawnder Duw yn cael ei egluro yn yr efengyl *i bawb*, a'i fod *ar bawb* a gredant. Diau fod hyn yn wir; ond hwyrach mai gwell i ni yn y diwedd yw cymeryd yr adnod fel y mae, a deall "i bawb a gredant," fel yn golygu, sail gyffredinol y derbyniad o hono, ac "ar bawb a gredant," y sicrwydd y cymer hyn le, ond cael yn y dyn yr ammod gofynedig; ac fel rheswm am yr un a'r unig gynllun hwn o gyfiawnhad, fe noda allan y ffaith fod pawb yn ddiwahaniaeth wedi syrthio yn fyr o gymeradwyaeth (δόξης) Duw. Ar ol dangos mai sail dumewnol y cyfiawnder hwn yw ffydd, ä ymlaen i'w ystyried yn allanol, fel yn tarddu o rad ras Duw, ac yn dyfod trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu; ac fel y byddai iddo gael derbyniad mwy gwresog gan yr Iuddew, hysbysa ei fod yn cael ei gynnwys hyd yn nod yn y trefniant Iuddewig. Ymddengys i ni, mai hyn yna yw ystyr *adn.* 25. Y mae y gair ἱλαστήριον, a gyfieithir yma yn *iawn*, yn cael ei gyfieithu yn *Heb.* ix. 5 yn *drugareddfa:* hefyd, y mae y gair προέθετο, a gyfieithir yma yn *osododd*, yn gyfansoddedig o πρὸ, *o flaen*, ac yn cael ei gymhwyso at amser yn gystal a lle; a τίθημι, *gosod;* felly, dybygem, gellid darllen yr adnod fel hyn, "Yr hwn a osododd Duw o'r blaen (dan yr hen oruchwyliaeth) yn drugareddfa (oblegid fod y drugareddfa yn cynnrychioli Crist yn ei iawn, a'r prynedigaeth sydd trwyddo), i ddangos ei gyfiawnder ef yn mhasiad heibio (πάρεσιν) y pechodau a wnaethid o'r blaen, &c. I ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn." Dylid sylwi mewn cysylltiad â'r arddodiaid εις a προς a ddefnyddir yn yr adnodau hyn gyda'r gair a gyfieithir yn "*i ddangos*," fod y cyntaf yn golygu yn fwyaf uniongyrchol y canlyniad, a'r olaf y dyben mewn golwg; yna yr ystyr yw hyn—fod y gosod yn drugareddfa dan yr hen oruchwyliaeth, fel ag (εις) i ddangos cyfiawnder Duw yn ei waith, trwy ei ddyoddefgarwch yn pasio heibio i bechodau, fod hyn wedi cymeryd lle gyda golwg ar (προς) yr amlygiad o'i gyfiawnder (nid y briodoledd o gyfiawnder, ond ei gyfiawnder a gyfrifir i bechadur, amgen, byddai yr hyn a ganlyn yn fynycheb) y pryd hwn, dan yr efengyl, fel ag i

fod [illegible] yn gyflawn, yr hyn a [illegible] yn yr adnod flaenorol; ac yn ol yr adnod hon, yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu. Ar ol iddo yn y modd yna cau allan yr athrawiaeth fawr o gyfiawnhad drwy ffydd, y mae yna yn tynu casgliadau ymarferol oddiwrthi. Yr ydoedd yn cau allan ymffrost, "Canys [illegible] ac nid [illegible] a ddarllenir yn y llawysgrifau goreu, yr hyn a wna yr adnod, nid fel yn ein testun Cymraeg, yn gasgliad, ond yn rheswm; yr ydym ni yn cyfrif mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn heb weithredoedd y ddeddf." Gan fod hyn yn cymeryd lle trwy ffydd, rhaid ei fod yn cau allan bob ymffrost mewn gweithredoedd. Yr un athrawiaeth hefyd a roddai derfyn ar bob uchafiaeth cenedlaethol, gan ei bod yn dwyn y cenedl-ddyn a gredai i'r un berthynas â Duw a'r Iuddew: "Gan mai un Duw sydd, yr hwn a gyfiawnhâ yr enwaediad wrth ffydd, a'r dienwaediad trwy ffydd." Ac hyd yn nod gyda golwg ar y ddeddf ei hunan, yn lle ei dirymu, yr oedd yn ei chadarnhau.

FFERYLLIAETH HEN A DIWEDDAR.

Y MAE yn ddiammheuol fod llawer rhy fach o sylw yn cael ei dalu yn gyffredin gan genedl y Cymry i wyddoniaeth naturiol. Er ein bod yn byw yn oes y gwyddonau a'r celfyddydau; er ein bod yn ddyledus i wyddoniaeth am ran fawr o'n cysuron personol, o'n dedwyddwch teuluol, ac o'n henwogrwydd gwladol, eto ystyrir hi yn gyffredin, genym ni, fel yn perthyn wrth fraint a chyfraith i ddynion eraill; ac mewn canlyniad, gadewir i eraill fyned i mewn i'w theml i chwilio ei thrysorau ac i fwynhau yr anrhydedd a'r clod o'u dwyn i'r amlwg. Y canlyniad yw, pan y mae cenedloedd eraill yn gorfoleddu yn eu llênwyr gwyddonol a'u darganfyddiadau rhyfedd, gadewir Cymru i suddo yn ddisylw i anenwogrwydd, am nad oes neb o'i meibion yn ddigon hyf i ddyfod i faes gwyddoniaeth i ymdrechu am y goron o anrhydedd a bri a roddir ganddi i'w gwŷr.

Ni charem, ac ni feiddiem, ddyweyd nad oes gan y Cymry feddyliau; ac ni ddywedwn chwaith nad oes llawer o honynt yn meddwl; eto, braidd na ddywedem fod gormod o unrhywiaeth, yn gyffredin, yn nhestunau ein myfyrdodau; a'r canlyniad yw, y mae llawer o hender yn ein cynnyrchion. Os bydd un oes ar ol y llall yn cyfyngu ei hymchwiliadau i ryw ychydig o bethau neillduol, y mae yn rhaid cael meddyliau mwy galluog nag sydd yn syrthio i ran plant dynion yn gyffredin, cyn cael allan yn barhaus bethau digon newydd a dyddorol i gadw nwyf y meddwl rhag ymoeri. Oblegid unrhywiaeth gormodol testunau ein myfyrdodau, yr ydym, o angenrheidrwydd, yn llafurio o dan yr anfantais o orfod cymeryd golwg gul a chrebachlyd ar y pethau y meddyliwn am danynt. Y mae testunau myfyrdod yn dal cysylltiad mor agos â'u gilydd, fel y mae yn ofynol, cyn cael golwg gyflawn a phriodol ar un, i edrych ar lawer.

Gwyddom fod cenedl y Cymry wedi bod yn enwog yn ei myfyrdodau duwinyddol er's oesau. Gall ymffrostio yn ei hesbonwyr, ei geiriadurwyr, a'i duwinyddion, yn gystal ag unrhyw genedl dan y nefoedd. Tra pery son am dduwinyddion Lloegr, Ffrainc, Germani, ac America, bydd y meibion

a sugnasant ei bronau hi yn cael y lle blaenaf yn eu plith. Y mae enwegrwydd ei duwinyddion yn gyfryw, fel y mae bellach yn ddiareb, fod duwinyddiaeth yn naturiol i Gymro. Ac y mae yr ystyriaeth o hyn yn ein gwneuthur i eiddigeddu dros ein cenedl, am ei bod mor bell yn ol mewn pethau eraill. Gwyddom mai duwinyddiaeth yw y wybodaeth fwyaf angheanrheidiol i'w meddu; ond gwyddom hefyd mai nid rhan fach fyddai gan wybodaeth o elfenau gwyddoniaeth i wneyd ein myfyrdodau duwinyddol yn fwy blasus a grymus. Coethai ein chwaeth, eglurai nerth awgrymiadau gwyddonol yr ysgrythyrau, a rhoddai newydd-der a blas i'n cynnyrchion meddyliol.

Y mae llawer o bethau i'w dywedyd yn esgusodol am ein hanwybodaeth, fel cenedl, o egwyddorion gwyddoniaeth. Dichon y dywed rhai, nad oes llyfrau gwyddonol yn ein hiaith, na chyfleusdra i'w hastudio, pe byddent. Ac heblaw hyny, fod cymaint o anhawsdra i ddeall gwahanol gangenau gwybodaeth, fel nad oes yr un tebygolrwydd yr ad-dalent i neb am eu hastudio, er cael gwybodaeth gyffredinol. Mewn perthynas i'r cyntaf, nis gwyddom pa le y mae y bai. Gwyddom nad oes genym lyfrau ar wyddoniaeth yn ein hiaith; a gwyddom hefyd nad gwiw i'n cyhoeddwyr eu cyhoeddi, os na chant gefnogaeth ein darllenwyr. Y mae yn dda genym fod cyhoeddwr y "Traethodydd" mor anturiaethus a chynnyg rhes o weithiau gwyddonol i'n sylw; ond ni charem glywed, fod ei ymdrechion yn myned i'r llawr o eisieu cymhorth." Os rhoddir cefnogaeth briodol gan y darllenydd, nid oes genym ammheuaeth na chawn lyfrau priodol gan ein cyhoeddwyr. Mewn perthynas i'r ail wrthddadl, gallwn ddywedyd, fod myned trwy anhawsderau gwyddoniaeth yn daledigaeth ynddo ei hunan. Rhydd nerth adnewyddol i'r meddwl, a lleinw y fynwes â gorfoledd buddygwr ar ol brwydr. Gobeithio fod peidio astudio peth, oblegid ei fod yn anhawdd, yn colli tir yn Nghymru; oblegid y mae tuedd naturiol ynddo i wanychu y meddwl ac i grebachu yr amgyffredion.

Er fod esgeulusdra wedi bod i raddau helaeth ynghylch holl gangenau gwyddoniaeth; eto meddyliwn fod mwy felly wedi bod ynghylch fferylliaeth nag unrhyw gangen arall. Ystyrir hon yn gyffredin fel cangen gysegredig i'r ychydig a'i hastudiant fel galwedigaeth; a byddir mor ofalus i adael y cyfan o'r ffrwythau a dyfant arni heb eu cyffwrdd, a phe byddent yn cael eu gwarchod gan gleddyfau tanllyd ysgwydedig. Nid ydym yn dysgwyl i bawb i'w hastudio yn ymarferol fel crefft; gadawn hyny i'r fferyllydd wrth deitl, gan y buasai mwy o offerynau yn angheanrheidiol i hyny nag y gallasai pawb eu pwrcasu; ond meddyliwn y dylai pawb ei hastudio fel gwyddor, gan ei bod yn dal cysylltiad uniongyrchol â chysur personol pob dyn; a meddyliwn y buasai gwybod rhyw ychydig o'i hegwyddorion, yn foddion effeithiol i gadw ieuenctyd ein talaeth rhag ymlygru gyda'r myglys a'r bibell, y trewlwch a'r cwpan.

Y mae braidd yn fwy o syndod fod fferylliaeth yn cael ei hesgeuluso yn fwy nag unrhyw gangen arall; pan y meddyliom am amledd a natur y gweithrediadau a alwant ein sylw tuag ati. Y maent yn aml, ac yn ein hymyl. Nid ydyw y greadigaeth ei hunan ond rhyw fferyllfa (*laboratory*) ogoneddus a dieilfath, yn mha un y mae rhagluniaeth yn ddiflino yn dwyn gweithrediadau fferyllyddol yn y blaen. Nid ydyw y corff dynol chwaith ond rhyw fân-ddarlun (*miniature*) o'r cyntaf, yn mha un y mae gweithrediadau fferyllyddol, hynod o gywrain a phwysig, yn myned yn y

blaen; ar reoleiddiwch a chysondeb y rhai y mae dedwyddwch a diogelwch ein bywyd, i raddau pell, yn ymddibynu. Yn ngoleuni yr haul, yn angerdd y fellten, yn nghyfansoddiad y gwlaw, ac yn ffurfiad y gwlith, yn nhyfiad y blodeuyn, ac yn nhreuliad y graig, yn llosgiad y tân, ac yn niffoddiad yr unrhyw gan ddwfr tywalltedig, y mae genym brofion o weithrediadau y wyddor dan sylw. Mewn gair, y mae pob anadliad a gymerwn yn gysylltiedig â gweithrediadau fferyllyddol, ac yn galw yn uchel arnom i ystyried yr hyn sydd yn cymeryd lle. Mewn canlyniad, onid ydyw yn hynod, fod mor lleied o astudio wedi bod ar fferylliaeth yn ein plith. Yr hyn a wyddir, gan amlaf, am y wyddor, ydyw yr hyn a ddylai fod wedi cael ei osod o'r neilldu er's llawer blwyddyn gan wybodaeth gywirach. Rhyfeddod, er esiampl, ydyw clywed a gweled llawer yn ein plith yn siarad ac ysgrifenu am "*bedair* elfen natur," pan y mae y wyddor wedi ychwanegu nifer eu helfenau i ragor na thriugain er's llawer dydd; ac wedi dangos ymhellach nad ydyw y pedair y siaredir am danynt gan lawer o honom yn elfenau un o honynt.

Ni oddefai ein terfynau i ni yn bresennol, i gymeryd arnom y gorchwyl o roddi eglurhad manwl o'i hegwyddorion; ond bwriadwn roddi o flaen y darllenydd ryw ychydig o'i hanes yn ei gwahanol gyfnodau, y cysylltiad agos sydd rhyngddi a'r gwyddonau eraill, a'r celfau pwysicaf, yn gystal, a'r goleuni y mae yn ei roddi ar dduwinyddiaeth naturiol. Ofnwn, y gallwn fod ar lawer amgylchiad yn sych, gan nad ydyw ein hiaith wedi ei hystwytho eto i wyddoniaeth; ond nid oes genym ddim i'w wneyd ond dymuno ar y darllenydd i ymarfer amynedd, gan addaw ar yr un pryd, i fod mor ddarllenadwy ag a allwn.

Y mae yr hanes a roddir o fferylliaeth, yn ymranu yn naturiol i dri chyfnod neillduol:—Y cyfnod cyntaf, hyd derfyn oes yr *alchemists;* yr ail, hyd wrthbrofiad athrawiaeth y *phlogiston;* yr olaf o hyny hyd yn awr. Dywedyd llawer ar bob un o'r cyfnodau yma, a'n harweiniai tuhwnt i'n terfynau priodol; eto, gan y byddai hyny yn ddangoseg effeithiol o ddadblygiad y wyddor—ei dechreuad—y gwahanol gyfeiliornadau y syrthiodd ei phleidwyr iddynt—a'i hymweithiad graddol i'w thir priodol ei hun—cymerwn fras olwg ar bob un o honynt.

Y mae llawer o wahanol farnau yn bodoli mewn perthynas i ddechreuad y wyddor dan sylw. Y mae rhai o'i choleddwyr yn awyddus i'w rhoddi i mewn ymhlith y gwyddorau cyntaf a goleddwyd gan blant dynion: ac i'r dyben o wneyd y gosodiad yma mor gredadwy ag sydd yn bosibl, y maent yn ceisio ei brofi trwy ffeithiau ysgrythyrol. Y mae yn hysbys fod Tubal Cain yn weithydd pob cywreinwaith, pres a haiarn. Oddiar hyn, ymresymir gan rai, ei fod o anghenrheidrwydd yn gwybod rhywbeth am fferylliaeth delidaidd (*metallurgic chemistry*) o leiaf; gan mai haiarn a phres, o bawb eraill, yw y metteloedd mwyaf anhawdd eu cael allan o'u mwnau. Heblaw hyny, dywedir fod Tubal Cain wedi adeiladu dinas; ac y mae rhai yn dywedyd fod hyn yn profi yn eglur fod metteloedd mewn bri a defnydd cyn ei amser ef. Ond, beth bynag a ddywedom am hyn, y mae yn eglur nad oes genym ond casgliadau sylfaenedig ar debygolrwydd mewn perthynas i goleddiad fferylliaeth gan y cynddiluwiaid; ac yn sicr, bach ydyw ein gwybodaeth am dani am oesoedd lawer gwedi y dylif.

Ond er fod llawer o dywyllwch yn gorchuddio ei dechreuad, eto, y mae lle cryf i feddwl mai yn yr Aipht y coleddwyd hi gyntaf gwedi yr

amgylchiad difrifol hwn. Sylfeinir y dyb hon ar darddiad tebygol yr enw cyffredin a roddir arni, sef *chemistry*. Yn ol rhai, y mae yn dyfod oddiwrth Cham, mab Noah, am y tybiant mai un o'i hiliogaeth ef a'i hastudiodd gyntaf. Eraill a dybiant ei fod yn tarddu o *Chemica*, un o hen enwau yr Aipht, oblegid mai yn yr Aipht y dechreuodd. Modd bynag, gan nad pa un ydyw tarddiad gwreiddiol y gair, y mae yn eglur fod y blaenaf yn cytuno â'r olaf i'n dwyn i feddwl mai yr Aipht oedd ei lle genedigol; gan y gwyddom mai hiliogaeth Cham oedd yr Aiphtiaid. Y mae Suidas, hen ysgrifenydd Groegaidd, yn dywedyd yn eglur ei bod o darddiad Aiphtaidd; a'i bod yn cael ei harfer yno mor fuan a'r drydedd ganrif o leiaf. Ond, a chaniatâu ei bod felly, eto, nid ydym i feddwl fod eu fferylliaeth hwy yn gwbl yr un a'n heiddo ni yn bresennol. Cymerent hwy y gair, ar y cyntaf, mewn ystyr llawer helaethach na ni, a deallent wrtho yr hyn a ddeallir genym ni yn bresennol wrth philosophyddiaeth naturiol. Yn mhen rhyw gymaint o amser wedi hyny, daeth y gair i arwyddo y gelfyddyd o weithio mewn mettel; a mawr oedd yr anrhydedd a'r clod a roddent i'r rhai oeddynt yn gyfarwydd ynddi. Yr oeddynt yn cael eu hystyried fel y rhai a wnaethant fwyaf o ddaioni o bawb i'r hiliogaeth ddynol. Cyfodid delwau i'w coffadwriaeth, cysegrid temlau i'w hanrhydedd, ac yn y diwedd cyfodid hwy i blith y duwiau eu hunain. Cyhyd ag y parhao *myth* yr Aipht, bydd son am Hermes Trismegestus. Ond fel ag y mae bob amser yn dygwydd, daeth yr enw o fod yn gyffredin i fod yn fwy penodol, ac o'r diwedd, daeth i arwyddo y *gelfyddyd o weithio aur ac arian*.

Dyma gyfnod pwysig yn ei hanes. O dan y ffurf yma y coleddwyd hi gan y Groegiaid; oddiyma derbyniwyd hi, o dan yr un ffurf, gan yr Arabiaid, ac wedi rhoddi iddi yn gyntaf yr enw o *Alchemy* trosglwyddasant hi i ran orllewinol Ewrop; a hyd y dydd heddyw y mae fferylliaeth yn dwyn arwyddion ar ei hwyneb ei bod wedi bod yn ymdaith yn nhir yr Arabiaid. Nid yw yr enwau *alcohol*, *alkali*, ac *alembic* ond enwau Arabaidd.

Credai yr *Alchemist* ei bod yn bosibl cael aur o bob mettel, a'r unig anhawsdra i wneyd pob peth yn aur, ydoedd, yr anhawsdra o gael gafael ar gareg y philosophydd; ond cael hon, meddent hwy, buasai, trwy ei rhinwedd a'i heffeithioldeb, yn troi y defnyddiau mwyaf diwerth yn aur o'r fath buraf. Dywedent mai trwy ddadguddiad dwyfol yn unig yr oedd yn bosibl cael gafael arni, a'i bod mewn canlyniad yn bechod rhyfygus i ddadguddio dim yn ei chylch. Siaradent mewn iaith ffugiol, ac arferent yn eu hysgrifeniadau ffugyrau na ddeallid gan neb ond eu hunain; heb unrhyw amcan mewn golwg ond cyfoethogi eu hunain, ar draul twyllo eu cyddynion: ac mor bell ag yr oedd aur yn myned, meddyliwn eu bod wedi cael cystal ffordd i'w gasglu, a phe buasent wedi cael gafael ar gareg y philosophydd ei hunan. Cawsant y bobl at eu hewyllysiau, am yspaid hir o amser, hyd nes daeth yr argraffwasg i droi eu celfyddyd yn chwerthinfa, ac i wasgar goleuni gwyddoniaeth gywir yn ddigon cryf i yru adar tywyllwch y canol oesau i gilio.

Yr oedd llawer o bethau wedi addfedu meddyliau i dderbyn y cyfnewidiad hwn, ond nid dim yn fwy na haeriadau gormodol yr *Alchemists* eu hunain. Dywedent, fel y nodasom yn barod, eu bod yn alluog i wneuthur pob peth yn aur trwy effeithiau careg y philosophydd; credid hwy gan lawer, a thrwy hyny galluogwyd dynion diegwyddor i gasglu cyfoeth

iddynt eu hunain trwy dwyllo y rhai a gymerent eu twyllo, sef y cybydd a'r ofergoelus. Ac nid hyn yn unig, ond dywedent hefyd eu bod wedi cael gafael ar *elixir* bywyd, a'u bod, mewn canlyniad, yn alluog nid yn unig i droi mettel yn aur, ond hefyd i adferu iechyd dadfeiliedig, ac i estyn hoedl dyn ar y ddaear cyhyd ag y dymunent. Profodd hyn yn foddion mwy effeithiol i dwyllo na'r cyntaf, yn gymaint ag y mae bywyd yn werthfawrocach nag aur, hyd yn nod yn ngolwg y cybydd ei hunan; a chymaint oedd yr amryfusedd, fel ag y cymerai yr *Alchemists* eu hunain eu twyllo yn hyn. Credent y peth a ddymunent; a dywedir am Paracelsus, y mwyaf o honynt, yn nechreuad yr unfed ganrif ar bymtheg, ei fod yn ymffrostio yn y darganfyddiad o'r *elixir proprietatis*, fel y galwai ef, ac mewn canlyniad siaradai am fyw cyhyd a Methuselah. Modd bynag, gommeddodd angeu a gwireddu ei ddywediadau, a bu farw yn 47 oed. Gyrodd y dyn hwn *Alchemy* yn rhy bell, a gwrthbrofodd yn ei farwolaeth yr hyn a ddywedodd yn ei fywyd. Y canlyniad yw, siglwyd sylfeini *Alchemy* gan ymddygiadau y mwyaf o'i herwyr; ac oddiar hyn, gyda'r eithriad o Van Helmont ac un neu ddau eraill, cafodd ffug-fferylliaeth syrthio i'r llawr heb amddiffynydd.

Y mae yn ymofyniad cyffredin, a ydyw *Alchemy* wedi gwneyd daioni i fferylliaeth, ai nid yw? Ar un llaw y mae'n rhaid dywedyd, fod honiadau ei choleddwyr wedi creu llawer o ragfarn yn erbyn yr olaf; ond, ar y llall, y mae lle i feddwl na buasai fferylliaeth ddim mor uchel ymhlith y gwyddorau heddyw, pe na bai y flaenaf wedi bod. Cynnifer ag a gredent ei bod yn ddichonadwy i gael allan gareg y philosophydd, ac *elixir* bywyd, rhoddent eu hunain i fyny i astudio priodoleddau gwahanol ddefnyddiau, ac i wneyd prawfiadau (*experiments*) o honynt, a thrwy hyny cafwyd llawer o bethau pwysig i'r golwg, pa rai a wasanaethasant yn helaeth i brysuro camrau fferylliaeth mewn oesau diweddarach. Nid yw pob drwg yn ddrwg i gyd; yr ydym hyd heddyw yn defnyddio llawer o'r enwau a roddwyd gan yr Alchemiaid ar sylweddau, megys, *spirit of wine*, *spirit of salt*, *spirit of hartshorn*, *aqua regia*, &c.

Yr ydym yn dyfod yn awr i'r ail gyfnod yn ei hanes. Y mae hwn yn cyrhaedd o ddymchweliad *Alchemy* hyd wrthbrofiad athrawiaeth y *phlogiston*. Yn awr rhyddhawyd hi o lyffetheiriau ei gwddf, sef careg y philosophydd ac *elixir*, a chafodd gyfleusdra i weithio ei hunan yn y blaen, i gymeryd ei lle ymhlith y gwyddorau a'r celfau mwyaf eu bri. Cymerodd Iuddew dysgedig, o'r enw John Joachim Beecher, afael ar y ffeithiau a gasglwyd gan yr Alchemiaid; trefnodd hwynt, purodd hwynt oddiwrth y ffolineb â pha rai yr oeddynt yn gymysgedig, a thrwyddynt rhoddodd ffurf newydd i fferylliaeth. Cyhoeddodd ei waith a elwir "*Physica Subterranea*," yn Frankfort, yn y flwyddyn 1669. Er cyhoeddiad y llyfr hwn, y mae bywyd newydd a natur newydd wedi eu rhoddi i fferylliaeth. Cafodd ryddhad hollol o gadwynau twyll a ffug: ac oddiar hyny, y mae ei chynnydd wedi bod yn eglur i bawb. Tra yr oedd yn sylfaenedig ar sylfeini anmhriodol, a thra y coleddwyd hi i ddybenion gau, yr oedd gwendid a chryndod yn perthyn iddi; ond yn awr, tra y mae yn sefyll ar ei thiriogaeth ei hun, ac yn cael ei defnyddio i chwilio am y gwirionedd, ymgyfyd mewn gogoniant, rhydd urddas philosophaidd i'w meibion, a chymhorth a hwylusdod i'w chwiorydd gwyddonol i fyned yn y blaen.

Yr oedd gan Beecher ddysgybl o fri ac enwogrwydd anghyffredin, o'r

enw Ernest Stahl. Meddai lawer o ragoriaethau ei athraw, a thra ragorai arno mewn cywirdeb a barn. Cymerodd hwn y gorchwyl mewn llaw o wneyd diwygiadau pellach, ac o ddwyn eu gwybodaeth fferyllyddol i fwy o ffurf (*system*). Gwyddom mai ychydig o ddaioni a wneir gan unrhyw wyddor, os na bydd wedi cael ei dwyn i ffurf briodol yn gyntaf. I'r dyben o ddwyn fferylliaeth i drefn neu ffurf briodol, meddai Ernest Stahl ar bob cymhwysder anghenrheidiol. Grymusder, manylwch, a chywirdeb, oeddynt briodoleddau naturiol ei feddwl. Yr oedd ei athraw, Beecher, wedi dangos y ffordd iddo i fyned yn y blaen; teithiodd yntau ar hyd-ddi yn fywiog. Ond wrth athronyddu, heb ffeithiau digonol i'r gwaith, syrthiodd i gamgymeriad wrth geisio egluro athrawiaeth llosgiad (*combustion*), yr hyn a fu yn faen tramgwydd ar ffordd fferylliaeth am lawer o flyneddau wedi ei farwolaeth. Os dygwydd i un o enwogrwydd syrthio i gamgymeriad, hir y byddir cyn rhoddi ei gyfeiliornad heibio gan ei ddysgyblion; ac y mae athrawiaeth y *phlogiston* yn ddangoseg tarawiadol o'r ffaith. Gyrodd enwogrwydd Stahl yr athrawiaeth mor ddwfn i feddyliau ei ganlynwyr, fel ag yr oedd blyneddau lawer yn ofynol cyn ei diwreiddio. Cyhoeddwyd hi gyntaf oddeutu dechreu y ddeunawfed ganrif (1723), ac ychydig a wnaed yn ystod yr hanner can' mlynedd canlynol, yn rhagor na chadarnhau, estyn, ac esbonio ei gyfeiliornad.

Gan ein bod wedi cwrdd âg athrawiaeth y *phlogiston*, y mae yn ofynol dywedyd rhyw ychydig er ei hegluro. Meddylir wrthi, yr eglurhad a roddwyd gan Stahl ar achosion llosgiad. Dywedai fod defnydd neillduol yn bodoli o'r enw *phlogiston*, ac fod pob peth wrth ymuno â hwn yn cael ei wneyd yn llosgadwy; ac fod ymryddhad y defnydd yma oddiwrth y corff â pha un y byddai mewn cysylltiad bob amser yn achosi llosgiad. Er fod rhai pethau, yr amser hwnw, yn ymddangos yn ffafriol i'r dybiaeth, eto y mae yn rhaid dywedyd ei bod, fel pob cyfeiliornad arall, wedi achosi llawer o ofid i'r hen fferyllwyr. Parchent yr athrawiaeth oblegid eu parch i Stahl, er eu bod yn llafurio o dan lawer o anhawsdra i gymmodi llawer o ffeithiau â hi. Wedi cael gwybodaeth ragorach, y mae llawer o ddywedyd yn ei herbyn; ond er nad ydym yn credu yn yr athrawiaeth ein hunain, eto er gwneuthur cyfiawnder â Stahl, gallwn ddywedyd nad ydyw pob peth a ddywedir yn ei herbyn yn dal ei chwilio. Dywedir gan rai, nas gall llosgiad fod yn effaith ymryddhad unrhyw ddefnydd, oblegid y mae metteloedd, bob amser, yn drymach wedi eu llosgi na chyn hyny. Ymddengys gwendid yr wrthddadl, os ystyriwn ei bod yr un mor naturiol i fettel drymhau ar ymryddhad *phlogiston* ag ydyw ar ymuniad *oxygen*, os meddyliwn fod y cyntaf yn ysgafnach, a'r olaf yn drymach na'r awyr, fel y mae ar ymchwiliad. Canlyniad athrawiaeth y *phlogiston* oedd mabwysiad o drefn gyfeiliornus ac anmherffaith i enwi uniadau (*combinations*) y gwahanol elfenau; trefn a orfododd ein hen fferyllwyr i lafurio o dan lawer o anhawsderau, nas gŵyr y fferyllwr diweddar ond ychydig am danynt.

Yn y flwyddyn 1774, modd bynag, cafwyd allan gan Dr. Priestley, fod llosgiad i'w briodoli, nid i ymryddhad *phlogiston*, ond i uniad defnydd arall o'r enw *oxygen*, yr hwn a gafwyd allan ganddo ef. Gwedi llawer o brawfiadau gan Lavoisier, profwyd yn ddiymwad mai dyma oedd y gwir achos. Mewn canlyniad, taflwyd y cyntaf o'r neilldu, a mabwysiadwyd yr ail yn ei le; ac y mae yn syndod i bob un cyfarwydd â fferylliaeth

gymaint o effaith gafodd y darganfyddiad yma ar y wyddor sydd genym dan sylw. Diflanodd athrawiaeth Stahl gan rym y goleuni newydd. Gwelwyd fod yr hen ddull o enwi uniadau yn rhy gyfyng, anmherffaith, a direol; ac ymgodwyd i chwilio dull mwy philosophaidd, cywirach, a hawddach yn ei le. I'r dyben yma, nid digon oedd cael enw ar bob uniad; ond yr oedd eisieu cael enw a ddynodai natur yr uniad, yn gystal a'r elfenau o ba rai y buasai yn cael ei wneyd i fyny. Er hwylusdod i bob astudiwr mewn fferylliaeth, y mae y rheol amcanedig wedi ei chael allan ar egwyddorion syml, cywir, a galluog ymestyniad (*expansion*), mor belled ag y gofynir gan ddarganfyddiadau fferyllwyr hyd derfyn amser. Er nad oes genym ond deg nod mewn rhifyddiaeth, eto gallwn, trwy ddyfais syml o'u lleoli, arwyddo trwyddynt y rhifedi mwyaf y gellir meddwl am danynt. Yr un fath y mae gyda fferylliaeth; ond cael enw gwahanol ar bob un o'r elfenau, gallwn, trwy reolau syml a chryno, ffurfio enwau philosophaidd ar eu holl uniadau â'u gilydd. Y mae fferylliaeth yn llawer nes ymlaen nag unrhyw wyddor yn hyn. Ychydig o enwau anghysylltiadol (*arbitrary*) sydd eisieu arnom yma; pan y mae y cof yn cael ei orlwytho mewn cangenau eraill o wybodaeth âg enwau aflafar a direol. Yn awr y mae fferylliaeth yn rhydd o'r cyffion a rwystrasant unrhyw gynnydd mawr yn yr oesau a aethant heibio:—y mae yn annibynol ar *alchemy* yr hynafiaid,—gadawodd ser-ddewiniaeth (*astrology*) o'r neilldu, â pha un y bu mewn cysylltiad am amser hir—y mae careg y philosophydd ac *elixir* bywyd yn mysg y dychymygion a fu,—y mae ei dull o enwi ei chynnyrchion wedi ei sylfaenu ar sylfeini priodol, ac ymrodia yn awr yn ben uchel yn mysg y gwyddorau a'r celfau, gan daflu goleuni ar waith Duw mewn creadigaeth, a chyfrana addysg a doethineb i'r neb sydd yn ewyllysio eu derbyn.

Yn awr, yr ydym wedi dyfod i oes euraidd fferylliaeth. Nid oedd yr oesau a aethant heibio ond rhagredegyddion i ryddhau y ffordd i'w dyfodiad i mewn, ac i barotoi meddyliau er ei groesawu; ac mewn cyferbyniad iddi nid oeddynt amgen na haiarn a phres mewn cyferbyniad i'r aur coethedig. Pob peth a wnaed o'r blaen, nid ydoedd ond rhywbeth i brofi ei harfau cyn eu dwyn i'r maes i gyflawni gwyrthiau, braidd, yn yr oes bresennol. Y mae diwygiadau a darganfyddiadau yr oes hon mewn fferylliaeth yn gyfryw, fel ag y maent wedi adnewyddu amgylchiadau cymdeithas; y maent wedi rhoddi cyfleusdra a gallu i'r peiriannwr i ddiwygio ei beiriannau, ac i'r celfyddydwr i ddilyn ei gelfyddyd yn fwy hwylus ac effeithiol; mewn gair, y maent wedi achosi cyfnewidiad er gwell yn yr *holl* gelfyddydau, ac esbonio gwahanol ar lawer pwnc mewn gwyddoniaeth. Yn mysg darganfyddiadau yr oes hon, y mae Syr John Herschel yn nodi,—1. Darganfyddiadau elfenau agos, os nid eithaf cyrff, ac eangiad rhifus yr elfenau adnabyddus i oddeutu 60 o nifer. 2. Gweithiad allan athrawiaeth gwres cudd (*latent heat*) gan Dr. Black; a'r holl ganlyniadau pwysig, yn mysg y rhai y mae athrawiaeth gywir yr ager-beiriannau. 3. Sefydliad deddf cyfartaleddau penodol (*definite proportions*) Wenzel, ar ei brawfiadau ei hun, ynghyd âg eiddo Richter; pa un wedi hyny a osodwyd allan yn fwy destlus yn namcaniaeth (*theory*) ronynol Dalton. 4. Penderfyniad cywir o bwysau gronynol y gwahanol elfenau fferyllyddol; am yr hyn yr ydym yn ddyledus gan mwyaf i Berzelius. 5. Cyffelybiad nwyau (*gases*) a tharth; trwy yr hyn yr ydym yn cael ein harwain i ystyried y cyntaf fel amgylchiadau neillduol yr olaf. 6 Sefydliad deddfau cyfuniad nwyau a

tharth mewn cleingiau (*volumes*) penodol, gan Gay Lupar. 7. Y darganfyddiad o effeithiau fferyllyddol trydaniaeth; ynghyd â gweithrediad dadglymiadol y garn foltaidd (*voltaic pile*), gan Nicholson a Carlisle; a phethau eraill mewn cysylltiad â hyn, gan Berzelius, Hisinger, a Davy. 8. Cyflead dadglymiad fferyllyddol i holl wrthddrychau natur fywiol a difywyd. 9. Cymhwysiad fferylliaeth i weithrediadau dirif yn y celfau. 10. Sefydliad y cysylltiad agos ag sydd yn hanfodi rhwng cyfansoddiad fferyllyddol a ffurf risialaidd (*crystaline*) gan Haüy a Vaquelin; ynghyd â diwygiadau Mitcherlich, Rose, ac eraill.

Yn awr, ofnwn fod y darllenydd yn barod i'n difenwi am ei ddwyn fel hyn trwy ddyffryn esgyrn sychion ffeithiau, ac yn barod a chondemnio fferylliaeth fel gwyddor ddiaddysg a difudd. Gallasem, fe ddichon, adael llawer ffaith heb ei henwi, a thrwy hyny fod yn llawer mwy darllenadwy: ond gwyddom, pan y byddom yn gosod ffeithiau o'r neilldu, oblegid eu bod yn sychion, yr ydym ar yr un pryd yn ein hamddifadu ein hunain o lawer o fanteision, i edrych ar, a rhyfeddu y pethau mawrion a ddygwyd oddiamgylch mewn cysylltiad â'r ffeithiau hyny. Y mae yn anhawdd dringo y mynydd; ond wedi ei ddringo, yr ydym yn cael golwg hyfrytach ar ogoniant y bröydd nas gallem ei chael heb hyn. Gallasem, tra yn aros ar y ddoldir, gael adeiladaeth a phleser wrth edrych ar y blodau yn eu gwisgoedd amryliw ac amryfath, y naill fel yn ymorchestu i guddio gogoniant y llall trwy ddysgleirdeb ei ogoniant ei hun; ond erbyn myned trwy y drafferth o ddringo i ben y clogwyn, cawn olwg gysylltiadol a chyfan arnynt i gyd; byddant oll fel yn cytuno i gysegru eu gogoniant unigol i wneyd golygfa ddigon swynol a dyddan i dalu am y drafferth o ddringo i'w gweled. I'r hwn sydd yn alluog o dynu addysgiadau oddiwrth ffaeleddau pobl eraill, y mae hanes fferylliaeth yn sicr o fod yn fuddiol; tra ar yr un pryd, y mae yn debyg o barotoi meddyliau llai diwylliedig i dderbyn y rhifiad (*enumeration*) o'i ffrwythau addfetaf a diweddaraf gyda mwy o flas.

Yn awr, cymerwn olwg mwy ymarferol ar y wyddor hon; ac edrychwn arni, yn flaenaf, mewn cysylltiad âg iechyd. Y mae pawb yn ystyried iechyd yn werthfawr, a chroes i deimlad a dymuniad pawb ydyw y drychfeddwl o'i golli; ac felly y mae yr hyn sydd yn dysgu i ni wersi pwysig er ei gadw a'i adferu yn ddiammheuol yn deilwng o'n hystyriaeth ddifrifolaf. Y mae iechyd a bywyd yn ymddybynu i raddau pell ar weithrediadau fferyllyddol, ac mor fuan ag y byddo fferylliaeth ein cyfansoddiadau yn cael ei rhwystro, y mae iechyd yn cael ei golli, a'r bywyd yn cael ei beryglu. Y mae fferylliaeth wedi gosod deddfau er cadw iechyd, nas gallant oddef eithriadau; a dysg mewn ychydig fynydau wersi mor bwysig ag a ofynent flyneddau i'w dysgu trwy ymarferiad. Prif ffynnonellau afiechyd ydyw y cylla a'r gwaed. Os bydd y rhai hyn yn anmharus, nid hir y bydd iechyd yn aros. Y mae afreoleiddiwch yn y cylla o anghenrheidrwydd yn dwyn anmhuredd i'r gwaed, ac anmhuredd yn y gwaed yn darostwng dyn i fod yn agored i'r ymosodiadau mwyaf angeuol. A hysbys ydyw mai fferyllyddol ydyw gweithrediadau y cylla; ac felly, pan y mae deddfau fferylliaeth yn cael eu hesgeuluso y mae anhwyldeb o anghenrheidrwydd yn cymeryd lle.

Er egluro rhyw ychydig ar y gosodiad yma, dywedwn, ein bod yn cael ein dysgu fod yr ymborth yn cael ei dreulio yn y cylla trwy gymhorth

[illegible] Car-penter, [illegible] fferyllyddol. [illegible] ar ymborth, [illegible] mae'r gradd [illegible] y cyfansoddiad. Ac y mae yn [illegible] yn gyfartal i [illegible] y corff [illegible] a gymerir i mewn; ac felly, os [illegible] o anghen-[illegible]—yn [illegible] ar yn rhwystr i'r [illegible] mewn amser [illegible] yn ol [illegible] fferyllyddol, i [illegible]. Gwydd-om fod [illegible], rai [illegible] achosion eraill; eto, gallwn ddywedyd nad ydyw, pan yn [illegible] yr achos hwn, ond gwrthglawdd a gyfodwyd gan natur yn erbyn [illegible]. Mewn cyssylltiad â hyn, gallwn ddywedyd wrth y rhai a [illegible] amhrealiad eu hymborth, na ddylent un amser fwyta rhagor nag y gallent drealio gyda rhwyddineb, pa mor lleied bynag y byddo. Y mae synwyr yn yr hen ddiareb, "Y mae ychydig yn dda yn well na llawer yn ddrwg."

Dysgir ni hefyd fod puredd y gwaed yn ymddibynu yn uniongyrchol ar weithrediadau fferyllyddol. Yn ei gylchrediad trwy y corff y mae y gwaed yn cael ei lwytho â *charbon* i gymaint graddau, fel ag y mae ei goch naturiol yn ymlduo; yr hyn sydd yn arwydd o ammhuredd: ond, gyda phob anadliad, y mae gweithred fferyllyddol yn myned ymlaen yn yr ysgyfaint, y mae yr *oxygen* a anedlir yn ymuno â *charbon* y gwaed—a phan y danfonir yr anadl allan, y mae rhyw gymaint o ammhuredd y gwaed yn cael ei ddanfon ymaith yn yr egr carbonaidd (*carbonic acid*) a ffurfiwyd oddifewn. Y canlyniad yw, po fwyaf o *oxygen* a gymerir i mewn, hyd fesur neillduol, pureiddiaf fydd y gwaed, a diogelaf fydd yr iechyd. Y mae y ffaith hon yn amlwg, os edrychwn ar wyneb yr aradwr ar y maes, mewn cyferbyniad i eiddo y myfyriwr yn ei lyfrgell. Y mae y naill, yn ddiarwybod iddo ei hunan, yn drachtio elfenau iechyd yn mhuredd yr awel; a'r llall, trwy esgeulusdra rai gweithiau, yn sugno gwenwyn i'w gyfansoddiad, trwy anadlu yn rhy hir awyr ddrewedig. Y mae y naill yn dangos puredd ei waed, elfen bywyd, yn nghochni ei wyneb; a'r llall yn dadguddio hadau afiechyd yn nglesni ei wedd—canlyniad anocheladwy ammhuredd y gwaed. Y mae rhai, gan gymaint eu hawydd i fod yn ddysgedig, yn cau eu hunain mewn cell gyfyngedig am oriau lawer ynghyd, heb ystyried fod eu hymddygiad mor sicr o ddinystrio y cyfansoddiad a phe lluncent ar unwaith yn cymeryd y gwenwyn ffyrnicaf. Y mae fferylliaeth yn ein dysgu y dylem bob amser anadlu awyr bur, ac y mae profiad yn tystio, pan yr esgeulusir ei gwers, fod yn rhaid dyoddef ei cherydd.

Y mae hyn yn ein harwain yn naturiol i sylwi ar y perygl sydd yn gyssylltiedig âg aros yn rhy hir mewn tai gorlanw, heb awyriad priodol. Y mae pob anadliad, nid yn unig yn dyhysbyddu yr awyr o *oxygen*, ond hefyd yn gwneyd egr carbonaidd; a chredir fod dyn cyffredin yn gwneyd oddeutu 40,000 o fodfeddi cubaidd o hono bob pedair awr ar hugain. A chan fod yr egr hwn, yn effeithio yn wenwynllyd ar y cyfansoddiad, y mae yn eglur nad diogel ydyw aros mewn lleoedd felly yn hir, heb gyfleusdra i ddwyn ymaith yr egr, ac i ddwyn *oxygen* i mewn yn ei le. Y mae gwahanol brawfiadau wedi eu gwneyd ar greaduriaid er profi hyn; ac er gofid y mae genym hanes am fodau dynol wedi eu gosod mewn amgylchiadau mor

dorcalonus fel y mae y canlyniadau yn profi yr un peth. Dywedir fod 146 o fodau dynol wedi eu cau i fyny, un prydnawn, mewn daeargell yn Fort William, yr hon a elwid y *Black hole*, yr hon a fesurai 18 troedfedd wrth 14, heb ond dau dwll bychan, yn unig; er cael awyr. Erbyn y boreu, yr oedd y cyfan wedi marw, ond ugain, sef y rhai a safent yn ymyl y tyllau, ac a gawsant awyr iachus i deneuo yr awyr wenwynllyd. Y mae damweiniau beunyddiol yn dygwydd oblegid yr achos hwn. Mynych y mae personau yn syrthio yn farw mewn cyfarfodydd lliosog: ac wrth ystyried meithder llawer o'n cyfarfodydd mawrion, ynghyd â'r diofalwch a ddangosir i gael awyriad priodol, y mae yn rhyfedd na fuasai mwy o ddamweiniau felly wedi cymeryd lle.

Y mae fferylliaeth yn ein dysgu fod y gwenwyn yma yn cael ei gynnyrchu gan lawer o achosion gwahanol; yr ydym eisoes wedi nodi anadlu; ac mewn ychwanegiad at hyny, gallwn nodi tânau, tomenydd, heplesiad (*fermentation*), ac eginiad a thyfiad llysiau. Llawer ydynt y bywydau a gollwyd trwy esgeulusdra i symud trwy awyriad effe thiau niweidiol y rhai hyn. Yn Ffrainc, y mae cynneu tân mewn ystafell gauedig yn ddull cyffredin o hunanladdiad. Wedi cynneu y tân, ymorweddant i lawr, hyd nes y byddo yr ystafell wedi ei llenwi â'r egr carbonaidd a gynnyrchir, ac yn fuan daw yn ddigon cryf i'w gwneyd yn analluog i gyfodi ond hyny. Y mae hyn yn dangos y perygl sydd o gysgu mewn ystafell â thân, os bydd y mwg dwll yn tynu yn anmherffaith: a chan fod tomenydd yn cynnyrchu llawer o'r egr hwn, yr ydym yn gweled y rheswm dros ddywedyd y dylent gael eu cadw ymhell oddiwrth anneddau, ac y dylai ein tai gael eu cadw yn lân. Wrth feddwl am yr achosion hyn, nid ydym yn rhyfeddu fod afiechyd yn dilyn budreddi a baw mor gyffredin; ac ni ddylem edrych ar ymweliadau y geri marwol âg anneddau ansyber fel damweiniau, ond yn hytrach fel canlyniadau uniongyrchol canlyniadau neillduol.

Nid ydyw y ffeithiau hyn ond ychydig o'r gwersi a ddysgir gan fferylliaeth, ac o'r manteision a ddeilliant, er cadw iechyd, oddiwrth adnabyddiaeth o'i deddfau. Ond, y mae gan fferylliaeth law effeithiol nid yn unig er cadw iechyd, ond hefyd, er ei adferu mewn amgylchiadau neillduol, pan y byddom wedi ei golli. Fel yr ydym wedi gweled yn barod, yr oedd fferylliaeth a meddyginiaeth yn myned law-law yn y canol oesau, ac yr oedd yn anhawdd gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall. Ond yn awr, er fod y gwahaniaeth wedi cael ei wneyd yn amlwg, eto, nid ydyw y cysylltiad wedi ei dori; ond y mae y flaenaf yn parhau i wasanaethu yr olaf yn fwy ffyddlawn ac effeithiol nag erioed; y mae trwy ei darganfyddiadau wedi galluogi yr olaf i wneuthur defnydd o gyfferi mwy effeithiol, ac o lawer yn llai poenus a pheryglus. Oblegid eu hanwybodaeth o fferylliaeth, gorfodid yr hynafiaid i wneyd defnydd o lawer o bethau diwerth, oblegid nas gwyddent ddigon i dynu y gwerthfawr oddiwrthynt. Er's amser yn ol, rhoddid rhysgl Peru (*Peruvian bark*) i glaf mewn twymyn; a thrwy hyny, gorfodid ef i gymeryd wns o bren; ond yn awr, tynir y gwerthfawr o'r diwerth, rhoddir *quina* i'r claf, a gadewir y pren ar ol. Esiampl arall a nodwn yw y ganlynol:—"Yn y flwyddyn 1812, sylwyd gan M. de Courtois, llaw-weithydd craig halen (*saltpetre*) yn Paris, fod y llestri telidaidd (*metallic*) a ddefnyddiai i dynu *soda* o ludw gwymon y môr yn rhydu yn rhyfedd; ac wrth chwilio am yr achos, darganfyddodd un o'r elfenau mwyaf pwysig mewn fferylliaeth—*iodine*. Deffrowyd ei

gywreinrwydd; a chafodd allan fod y defnydd newydd i'w olrhain i'r môr lysiau, o ludw pa rai y ceir un o brif ranau sebon, ac yn y diwedd i ddwfr y môr. Wedi hyn cafwyd ef allan mewn mŵnau a ffynnonau halen, a chwiliwyd am dano mewn pob peth cysylltiedig â'r môr, ac ymhlith eraill mewn ysbwng. Ond am lawer o amser cyn hyny, yr oedd lludw ysbwng yn cael ei ddefnyddio yn llwyddiannus, i wellhau un o'r anhwylderau mwyaf annymunol a phoenus a flinant y teulu dynol—y llyngroni (*wen*). Yn yr amser hwnw, nid oedd dim yn wybyddus am *iodine;* ond wrth ganfod y defnydd hwn yn y lludw a ddefnyddient fel meddyginiaeth, meddyliwyd y gallai fod yn effeithiol i wella yr afiechyd, a phrofwyd yn fuan fod y dyb yn ffaith, a bod *iodine* yn feddyginiaeth ragorol i wellhau y llyngroni.[1]"

Y mae physygwriaeth yn ddyledus eisoes i fferylliaeth am ran helaeth o'r gogoniant a berthyn iddi; ac yn sicr, nis gwyddom beth yw y flaenaf heb yr olaf. Y mae yr olaf yn llawforwyn mor effeithiol i'r flaenaf fel ag y mae'n anhawdd dychymygu y gallai fodoli yn annibynol arni. Y mae y rhan fwyaf o'r clefydau a'n blinant yn olrheinadwy i achosion fferyllyddol, ac nid dichonadwy ydyw gwybod beth ydyw priodoleddau y cyfferi a ddefnyddiwn er adferiad, os na fyddwn yn gwneyd defnydd o gynnyrchion y wyddor dan sylw; y mae mor ddiogel i ymddiried ein bywydau, ar gefnfor garw, i ddwylaw anwybodus o ddeddfau y llong a'r cwmpawd, ag ydyw derbyn meddyginiaeth o law un anwybodus mewn fferylliaeth. Mae'n wir nad ydyw yn alluog i wasanaethu physygwriaeth mor bell ag y dychymyga yr Alchemiaid, trwy wneyd *elixir* bywyd i wrthweithio ymosodiadau brenin braw; eto, sicr yw, ei bod yn alluog o'i gwasanaethu yn llawer effeithiolach nag y meddylir yn bresennol. Pan yr astudir mwy ar fferylliaeth y cyfansoddiad dynol, y mae'n ddiammheuol y byddir yn alluog i wellhau, gyda rhwyddineb, yr hyn a ystyrir yn bresennol yn anfeddyginiaethol; y mae ymresymu oddiar gyfatebiad yn ein hawdurdodi i ddywedyd felly. Y mae yr oes hon yn cyflawni yr hyn a ddygai arwyddion anmhosiblrwydd er's canrif yn ol; ac nid yw y gorchestion a gyflawnir yn awr ond rhag-redegyddion i ddywedyd fod pethau mwy ar gymeryd lle. Nid oes genym ammheuaeth, pan y telir mwy o sylw i'w gwersi meddyginiaethol, na fydd yr oes yn hwy o lawer o flyneddau, mewn cyferbyniad i'r hyn ydyw yn bresennol. Y mae'n ffaith a brofir trwy ystadegau fod yr oes ddynol wedi cael ei hestyn gryn lawer er's canrif yn ol, yn gymaint felly, fel ag y mae y tafleni a gyfrifwyd er's oddeutu 70 i 80 mlynedd yn ol yn fyrach o lawer na chyfartalwch yr oes bresennol; ac y mae yn ddiammheuol fod cilio oddiwrth yr hyn a waherddir, ac ymgadw at y gwersi ffug-feddyginiaethol a ddysgir gan y wyddor hon, wedi bod un un o'r moddion mwyaf effeithiol i ddwyn hyn oddiamgylch. Y mae yn ffaith mai ychydig o'r rhai a weithient yn llaw-weithfeydd nodwyddau, er's ychydig amser yn ol, oeddynt yn alluog i gyrhaedd deugain mlynedd: methid ar y cyntaf a chael allan yr achos, hyd nes y dadguddiwyd gan fferylliaeth fod y mân lwch a gyfodai o'r dur, ac a anedlid gan y gweithwyr, yn effeithio yn niweidiol ar yr ymysgaroedd. Mewn canlyniad, rhoddwyd bodolaeth i ddyfeisiadau er cadw ymaith y llwch; ac yn awr, trwy wisgo mwgwd (*mask*) gwyfrog o ddur magnetaidd, y mae y mân

[1] "*Hoblyn's Chemistry.*"

ronynau yn cael eu casglu ynghyd, a'r ymysgaroedd yn cael eu diogelu rhag yr hyn a brofai o'r blaen yn niweidiol i'r cyfansoddiad.

Yn awr, edrychwn ar fferylliaeth mewn cysylltiad âg amaethyddiaeth. Ychydig a feddylir gan yr hwsmon fod llawnder ei gwpbwrdd, a phwys ei gôd, yn ymddibynu yn uniongyrchol ar weithrediadau y wyddor tan sylw, ac nad yw ei lafur ei hunan ond teyrnged a ofynir gan ei deddfau, er gweithio yn effeithiol er ei leshad; nid ydyw ffrwythau ei ardd, na chynnyrch ei feusydd, ond cynnyrchion fferyllyddol rhagluniaeth, ac nid ydyw yntau ond gweithiwr yn ei fferyllfa, a wobrwyir yn gyffredin yn ol graddau ei ddiwydrwydd a'i lafur. Y mae yn bosibl i'r amaethydd, gan ei fod wedi ei ddysgu gan lawer o flyneddau o brofiad, i gyfodi cnydau toreithiog, er yn anwybodus o'i deddfau; ond nis gallwn ei gyfrif yn llawer gwell, tra felly, na phe buasai yn gweithio oddiar reddf, fel creadur direswm, ac nid oddiar ddeall, fel y dylai creadur rhesymol wneyd; y mae ei anwybodaeth o elfenau fferylliaeth yn ei ddarostwng i fod yn agored i lawer o gamsyniadau, ac yn ei amddifadu o'r pleser sydd yn ddeillio oddiwrth wybod y rheswm paham y gweithiwn fel hyn ac fel arall.

Un o brif ddyledswyddau yr amaethydd ydyw teilo yn dda; ond cyn y gellir gwneyd hyny yn effeithiol, y mae'n ofynol cael gwybodaeth o fferylliaeth ei gaeau, yn gystal ag eiddo yr hadau yr amcana roddi ynddynt; heb hyn, gall fyned i draul a thrafferth er gwrteithio cae neillduol, a gall fod y gwrtaith wedi'r cyfan yn hollol anmhriodol er ei wellhau, er y buasai yn sicr o wneyd daioni mewn cae arall. Fel hyn, y mae yn dinystrio ei amgylchiadau trwy draul yr achlesiad anmhriodol, a'r golled o daflu hadau drudfawr i ddaear anmharotoedig ac anaddas i'w derbyn; a'r diwedd fydd condemnio ei dyddyn fel un rhy anffrwythlawn i ad-dalu y drafferth o'i drin. Mynych y mae hyn yn cymeryd lle; gan hyny, priodol ydyw y wers a ddysgir gan fferylliaeth, *y mae gwrtaith a hadau neillduol i gael eu rhoddi i diroedd neillduol.*

Nid yn unig yr ydym yn agored, oblegid ein hanwybodaeth o fferylliaeth, i ddefnyddio gwrtaith anmhriodol, ond hefyd i adael y gwrtaith a fyddai yn briodol i gael ei gludo ymaith gan y llifeiriant, neu i aros yn ddiddefnydd ar ein ffordd, am nad ydym yn gwybod ei werth. Yn gyffredin, tom creaduriaid ydyw ein prif wrtaith; a thra y mae yr amaethydd yn ofalus i'w gasglu, y mae yn gadael y trwnc i redeg ymaith fel peth diwerth, heb ystyried ei fod yn golledwr o lawer o bunnoedd yn y flwyddyn oblegid y gwastraff hwn. Gallwn gael rhyw ddrychfeddwl am werth trwnc tomllyd anifeiliaid, oddiwrth y ffeithiau canlynol: y mae Mr. Chadwick yn dywedyd am foneddwr o'r enw Mr. Baker, o Muirdroackwood, fod ganddo saith ar hugain o erwau o flaen ei dŷ, mor anffrwythlawn fel na's gallai ar y cyntaf gynnal rhagor arnynt na dwy fuwch; mewn ystabl gerllaw y tŷ, cedwid deugain o wartheg a phedwar o geffylau. Cadwodd dail y gwartheg mewn pydew cyfleus, ac wedi ei deneuo yn briodol, dyfrhaodd ddwy erw ar hugain o'r tir âg ef, a phump erw yn rhagor âg ysgarthion ei dŷ a'r olchfa (*scullery*): yr oedd y cynnyrch dilynol mor fawr, fel y galluogwyd ef wedi hyny i borthi pedwar a deugain o greaduriaid ar yr hyn a gynnaliai ond dau o'r blaen.[1] Pa mor anhygoel bynag y mae y ffaith hon yn ymddangos ar y cyntaf, yr ydym yn cael ein

[1] "*Bud. Chem. Fownes's.*"

gorfodi i'w chredu pan yr ystyriom y gwerth y mae darganfyddiadau o briodoleddau fferyllaidd hylifau tomllyd wedi osod arnynt yn ddiweddar. Dywedir gan y Proffeswr Miller, o'r *King's College*, fod gwerth oddeutu 64*p*. o hylif tomllyd yn cael ei golli yn ddyddiol trwy *un* geuffos yn y brifddinas, yr hon a elwir *The King's Scholar's Pond;* ac y mae Mr. Fownes o'r farn fod gwerth 433,879*p*. yn cael ei golli yn flynyddol trwy *holl* ddyfrffosydd y brifddinas.

Ond, y mae fferylliaeth yn ein dysgu, nid yn unig beth sydd yn werthfawr fel gwrtaith, ond hefyd i ba fath dir y mae felly, ac at gynnyrchu pa ffrwythau. Nodi y gwahanol diroedd a'i hachlesoedd mwyaf priodol, sydd fwy nag y caniata lle i ni wneyd yn bresennol; ond wrth fyned heibio, gallwn ei gosod i lawr fel rheol, *mai y gwrtaith goreu er cynnyrchu unrhyw gnwd neillduol, ydyw tail y creaduriaid a ymborthasant ar gnwd o'r un natur o'r blaen.* Y mae tail y moch a borthwyd ar bŷs a chloron yn well na dim er codi y cyfryw ffrwythau eto; ac y mae tail yr anifail a fagwyd ar wair ac erfin yn cynnwys ynddo holl ranau cyfansoddol gwair ac erfin, ac felly yn well na dim arall er cynnyrchu y rhai hyn. Y mae ysgarthion gwlyb neu sych y corff dynol yn cynnwys ynddo lawer iawn o sylweddau mwnawl yr holl hadau, ac ystyrir hwynt mewn canlyniad fel y gwrtaith rhagoraf. Mewn perthynas i diroedd a hadau, gallwn ddywedyd, mai angheurheidiol yw fod y pridd yn alluog o roddi digon o ymborth mwnaidd i'r cnwd a fwriedir godi, priodol yn ei natur, a digon mewn graddau er ei alluogi i gyrhaedd perffeithrwydd; er esiampl, dylai yr amaethydd wybod, wrth drin tir i godi cloron, y dylai gynnwys calch a *photash*, gan fod y cloron yn perthyn i'r llysiau calchog o ran eu dail, ac i'r dosbarth potasaidd o ran eu hadau.

Y mae fferylliaeth eto yn dysgu yr amaethydd, nid yn unig i achlesu'n briodol, ond hefyd i ddewis olyniad (*rotation*) i'r hadau. Dysgir ni fod rhanau mwnawl hadau yn gwahaniaethu, ac fod pob hedyn, yn ol ei natur ei hun, yn codi gronynau priodol i'w anghenrheidiau o'r ddaear; mewn canlyniad, trwy hir lafurio gall fod y ddaear yn anmhriodol i gyfodi un math o gnwd, pan ar yr un pryd y mae'n meddu pob peth anghenrheidiol er cyfodi cnwd o natur arall. Felly y mae o bwys i ni wybod pa gnydau ydynt yn briodol i ganlyn eu gilydd mewn tiroedd neillduol. Y mae trefn yr olyniad yn ymddibynu ar natur y tir, ac ar natur yr hadau cyntaf a heuir ynddo; ac felly byddai tu hwnt i'n terfynau priodol ni i roddi rheolau penodol i bob tir a phob had: nis gellir gwneyd hyn, heb adnabyddiaeth gywir o natur y tir, ac eiddo yr hadau fyddont wedi bod yno. Yr unig reswm paham y nodwn y ffaith, ydyw, fel y gallom ddangos yr anghenrheidrwydd sydd i'r amaethydd astudio egwyddorion fferylliaeth.

Mewn cysylltiad â pheirianwaith, y mae fferylliaeth ddiweddar wedi dwyn oddiamgylch chwyldroadau mewn ystyr, ac wedi galluogi y peiriannydd i wasanaethu ei gyd-ddynion yn effeithiolach ac yn rhatach nag erioed. Y mae wedi rhoddi galluoedd mudiadol yn ei law, pa rai ydynt yn ddigon nerthol i ysgwyd y greadigaeth; ac wedi esbonio iddo y deddfau trwy ba rai y cymerant eu troi i wasanaethu ein hanghenion yn dawel ac ufudd. Mewn cyfeiriad at hyn y mae Syr John Herschell wedi ysgrifenu llinellau mor odidog, fel nas gallwn wrthsefyll y brofedigaeth o'u benthycio. Wedi bod yn siarad am nerth pylor, y mae'n dywedyd, "Ond y mae fferylliaeth yn ein cynnysgaethu â moddion i alw i weithio mewn

tarawiad, alluoedd o natur annrhaethol mwy dychrynllyd nag eiddo pylor. Y mae galluoedd aruthrol y gwahanol gyfansoddiadau taranllyd (*fulminating*) yn gyfryw, fel nad ydyw yn briodol i'w cymharu i ddim ond i fwystfilod afrywiog, nerth pa rai sydd wedi herio pob rheolaeth er budd, neu yn hytrach i ysbrydion cythreulig, wedi eu galw allan trwy swynion y dewin; pa rai a ddangosant allu dinystriol ac anorchfygol, yr hwn a'i gwna yn llawen i gau ei lyfr, ac i dori ei hudlath (*wand*), fel ammod diangfa ddïogel o'r ystorm a gyfodwyd ganddo ei hun. Nid ydyw y galluoedd yma eto wedi eu darostwng i'n dybenion, beth bynag a fyddant ar ol hyn. Ond yn ngalluoedd ymchwyddol y nwyau (*gases*) wedi eu rhyddhau yn araf ac yn rheolaidd o gymysgiadau fferyllyddol, yr ydym yn cael llu o alluoedd israddol i'r cyntaf, ond nerthol nodedig, a galluog o gael eu troi i amrywiaeth o ffurfiau defnyddiol, fel ag y byddo amgylchiadau yn galw.[1] Fel esiampl o'r cyntaf, nodwn uniad *oxygen* a *hydrogen* trwy offerynoliaeth tân; ac o'r olaf, nodwn drōedigaeth dwfr i agerdd. Er y byddai agerdd yn un o'r galluoedd mwyaf nerthol a dychrynllyd pe byddai yn cael ei gynnyrchu ar unwaith, eto, trwy ddeddfau fferyllyddol dygir ef allan yn raddol, fel y gallo dyn gael mantais i'w droi, drwy gyfryngau priodol, i wasanaethu ei ddybenion ei hun.

Y mae cysylltiad agos rhwng fferylliaeth a'r celfau yn gyffredinol. Er cael golwg gryno a chyflawn o'r manteision oddiar ei chyflead atynt, nis gallwn wneyd yn well na benthycio ychydig yn rhagor oddiar yr awdwr gorddysgedig a nodasom ddiweddaf. "Y mae trawsffurfiadau fferylliaeth," ebe fe, "trwy y rhai yr ydym yn cael ein galluogi i droi y defnyddiau a ymddangosant ar yr olwg gyntaf fel y rhai mwyaf diles, i sylweddau pwysig yn y celfau, yn agor yn ddyddiol o'n blaen ffynnonellau cyfoeth a chyfleusdra, o'r rhai ni feddai yr oesau o'r blaen yr un dychymyg; a pha rai ydynt wedi bod yn roddion purion gwyddoniaeth i ddyn. Y mae pob cangen o gelfyddyd wedi teimlo ei dylanwad, ac y mae esiamplau newyddion yn cael eu dwyn yn feunyddiol i'n sylw o'r adnoddau (*resources*) diddiwedd a weithir i'r amlwg gan y wyddor ryfedd hon, yn y rhanau mwyaf anffrwythlawn o natur. Pwy, er esiampl, a allai ddychymygu, y buasai carpiau lliain yn alluog o roddi *mwy na'u pwysau o siwgr*, trwy offerynoliaeth un o'r egrau rhataf a hawddaf eu cael—y sulphuraidd? Y gallai esgyrn sychion fod yn ystordy maeth, galluog o gael eu cadw am flyneddau, a pharod i roddi i fyny yr ymborth yn y ffurf gymhwysaf i gynnal bywyd, ar gymhwysiad agerdd atynt—yr hwn sydd yn cymeryd rhan mor helaeth yn ein holl weithrediadau, neu o egr rhad a pharhaol?—i fod blawd llif yn alluog o gael ei droi i sylwedd a ddwg debygolrwydd agos i fara; ac er ei fod yn ddiau yn llai blasus nag eiddo càn, eto, nid yw mewn un modd yn annerbyniol, ac y mae yn iachus a threuliadwy, yn gystal ag yn feithrinol neillduol.[2] Pa gynnildeb a ddygwyd i mewn yn yr holl weithiau, yn mha rai y mae gweithredyddion fferyllyddol yn cael eu defnyddio gan wybodaeth gywir o'r cyfartaleddau yn mha rai y mae elfenau natur yn ymuno, ac o'u galluoedd i ddileoli eu gilydd. Pa berffeithrwydd yn yr holl gelfau, yn mha rai y mae tân yn cael ei ddefnyddio, naill ai yn ei gyfleadau mwyaf nerthol (fel, er esiampl, yn nhoddiad metteloedd, trwy

[1] "*Introd. to Nat. Phil.;*" tudal. 63.

[2] Mewn nod ar waelod y ddalen, y mae yr ysgrifenydd hwn yn dywedyd—"y dylai y darganfyddiad hon, a wnaeth newyn y peth nesaf i annichonadwy, gael mwy o sylw nag y mae wedi gael."

ddwyn i mewn doddyddion (*fluxes*) priodol, trwy y rhai yr ydym yn cael holl gynnyrch y mŵnau yn eu ffurf mwyaf pur), neu, yn ei ffurfiau mwyaf esmwyth, fel y mae pan y purir siwgr......; a miloedd o gelfau eraill, enwi pa rai fyddai yn waith blinedig."[1]

Deuwn yn awr i edrych ar fferylliaeth mewn cysylltiad â duwinyddiaeth naturiol. Gallem ddywedyd ryw ychydig am ei gwasanaethgarwch i egluro rhanau o'r ysgrythyr; ond gan ein bod yn ewyllysio dywedyd ychydig yn hytrach ar ei defnyddioldeb i egluro natur, ac i ddangos Duw yn ei waith, gadawn ei chysylltiad â'r Bibl, gan gyfeirio y darllenydd am sylwadau ar ei defnyddioldeb yn y cysylltiad hwn at "*Hitchcock's Religion of Geology:*" adran i. Pob peth ag sydd yn tueddu i esbonio natur, ac i daflu goleuni ar ei gweithrediadau, sydd ar yr un pryd yn taflu goleu ar briodoleddau naturiol ei Chrëwr. Y mae Duw wedi argraffu ei briodoleddau naturiol ar natur, ac nid oes eisieu ond darllen natur yn iawn cyn eu gweled. Y mae priodoleddau natur yn gymhlethedig yn ei eiddo ef, ac y mae yn anhawdd esbonio y blaenaf heb weled yr olaf. Y mae llawer o dudalenau yn perthyn i natur; ac y mae pob un o honynt naill ai yn dangos rhywbeth newydd mewn perthynas i gymeriad y Crëwr, neu yn argraffu yn ddyfnach ar y cof yr hyn a ddysgwyd mewn tudalenau eraill. Ac nid ydyw y gwahanol wyddonau ond cynnifer o esboniadau ar y tudalenau a astudir; pob un o honynt yn fwy neu lai defnyddiol yn ol cywirdeb a diwydrwydd yr esbonwyr o'r rhanau dewisedig. Fel esboniad cywir o natur, ac mewn canlyniad, i ddangos gogoniant y Crëwr, meddyliwn fod fferylliaeth â'r hawl flaenaf i'n sylw o'r holl wyddonau eraill. Mewn canlyniad, er cymmodi rhai meddyliau â fferylliaeth, ac er dwyn eraill i'w charu yn fwy, gosodwn i lawr ychydig o'r gwersi a ddysgir trwy y wyddor yma am Dduw.

Y mae yn rhoddi profion neillduol o'i *ddoethineb*. Dywedwyd gan Job am Dduw: "Cadarn o gadernid a doethineb yw Efe." Y mae fferylliaeth yn drylawn o ffeithiau er profi y gosodiad. Y mae amledd a phriodoldeb y ffeithiau yn gyfryw fel ag yr ydym ni yn ei theimlo yn anhawdd i benderfynu pa un i osod i lawr fel esiampl. Ar un olwg y mae hon yn well, ar olwg arall y mae y llall yn rhagori; ond yn awr cyfyngwn ein hunain ac edrychwn ar ei ragddarpariaeth i gadw yr awyr yr un o ran ei briodoleddau fferyllyddol yn brawf o'i ddoethineb. Y mae y pwys mwyaf yn ymddibynu ar fod hyn yn cael ei wneyd yn effeithiol. Gan fod priodoleddau fferyllyddol yr awyr, yn *awr*, yn gyfryw ag ydynt yn gwasanaethu yn effeithiol er cynnaliaeth pob peth byw, a chysur pob perchen teimlad, y mae yn eglur y buasai y canlyniadau trymaf yn dilyn y cyfnewidiad lleiaf. Ac oni bai fod darpariaeth briodol wedi cael ei gwneyd gan ddoethineb anfeidrol, y mae yn ffaith eglur iawn y buasai ei briodoleddau yn cael eu newid yn uniongyrchol. Y mae yr awyr yn cael ei wneyd i fyny, yn benaf, o *oxygen* a *nitrogen*. Y mae y flaenaf yn gwneyd i fyny oddeutu un ran o bump o'r awyr, a'r llall yn gwneyd i fyny y gweddill. Y mae y flaenaf yn anhebgorol i fywyd; y mae yn rhaid ei chael neu drengu. Pob peth sydd yn anadlu sydd yn anadlu *oxygen*, a phob peth sydd yn ymlosgi a ymlosga yn yr un elfen. Ond y mae pob anadliad a roddir yn troi rhan o'r awyr, fel y dywedasom yn barod, i egr carbonaidd; ac y mae yr un defnydd

[1] "*Introd. Nat. Phil.;*" tudal. 63.

gwenwynllyd yn cael ei gynnyrchu yn feunyddiol gan ein tânau, ein tomenydd, &c. Mewn canlyniad, oni bai fod rhywbeth i wrthweithio effeithiau y rhai hyn, buan iawn y darfyddai *oxygen* yr awyr, a cheid egr carbonaidd yn ei le. Ond y mae Duw, bob amser, wedi rhoi y naill beth ar gyfer y llall, fel na chaffai dyn ddim ar ei ol Ef! Ac i'r dyben o droi yr egr hwn i'w elfenau priodol, *oxygen* a *carbon*, ac i wneyd y blaenaf yn addas i gael ei adanadlu, y mae wedi gorchuddio wyneb y ddaear â llysiau, pa rai a gymerant i mewn iddynt eu hunain yr hyn sydd yn niweidiol i fywyd anifeilaidd, ac a roddant allan yr hyn sydd anghenrheidiol er ei gynnaliaeth, sef *oxygen*. Pe gofynem i'r dyn anwybodus o fferylliaeth, beth ydyw defnyddioldeb llysiau, byddai yn barod i ateb, nad ydynt dda i ddim ond i borthi bywyd anifeilaidd â'u sylwedd, ac i harddu wyneb y ddaear â'u prydferthwch. Ond y mae y fferyllydd yn canfod llaw a dyben Duw i raddau pellach, ac yn gweled ei fod yn gwneyd defnydd o honynt i buro yr awyr a anedlir.

Y mae effeithiolaeth y ddarpariaeth hon yn gyfryw, fel ag yr ydym oddiar brofion priodol yn cael allan fod priodoleddau fferyllyddol yr awyr yr un yn awr ag oeddynt ddeunaw cant o flyneddau yn ol. Dywed Mr. Fownes, fod yr awyr a gauwyd mewn llestri cauedig yn adfeilion Pompeii, am gyfnod mor faith ag a nodasom, yr un yn hollol a'r hwn a anadlwn yn bresennol, o ran cyfartaledd ei elfenau cyfansoddol. Mewn cysylltiad â'r drefn yma o buro yr awyr, gallwn ddywedyd fod dyn, er cymaint ei falchder, yn ddyledus i'r llysiau, fel offerynau yn llaw Duw, am yr awyr y mae yn anadlu. Rhyfeddwn fawredd doethineb y Crëwr yn rhoddi y naill beth ar gyfer y llall.

Hefyd, cawn brofion trwyddo o ddaioni y Crëwr. Gan fod natur a'i deddfau yn ymddibynu ar ei ewyllys ef, gallasai mor hawdd ordeinio i'r olaf i weithio er gofid ac anghysur i ddynion yn gystal ag iddynt fod er mantais a budd. Nid oes genym yr un rheswm i'w roddi dros eu bod fel y maent yn hytrach nag fel arall, yn rhagor nag fel hyn y rhyngodd bodd yn ei olwg. Mor bell ag yr ydym yn gweled, y mae pob peth yn gweithio yn y fath fodd ag sydd yn tueddu i ddwyn y graddau helaethaf o ddaioni, ac mor lleied ag sydd yn ddichonadwy o boen. Gallasai beri fod graddau helaethach o egr carbonaidd yn gymysgedig âg elfenau yr awyr, fel ag i wneyd anadlu yn boen, er nad yn ddigon felly i beri marwolaeth, pe yr ewyllysiai; ond y mae ei ddaioni fel wedi dysgu ei ddoethineb i adranu yr elfenau mewn graddau cymhwys, i gydweithio er cysur a daioni ei greaduriaid. Yn sicr, y mae, yma ac acw, wedi gadael rhyw gymaint o'r defnydd gwenwynllyd yma, i aros mewn lleoedd neillduol, fel y gallem gael y fantais, yn awr ac eilwaith, i weled yr effeithiau niweidiol a ganlynent, pe na byddai ei ddaioni trwy ddoethineb anfeidrol wedi gosod deddfau addas er ei gadw mewn graddau priodol o deneudra. Dywedir wrthym fod ogof lled hynod yn yr Eidal, o'r enw "*Grotto del cone*," ar lawr yr hon y mae egr carbonaidd i'r dyfnder o ddeunaw modfedd; uwchlaw hyn y mae yr awyr yn bur ac iachus. A dyn i mewn i'r ogof, a daw allan yn ddiangol, gan fod ei enau yn ddigon uwchlaw y perygl; ond os dilynir ef gan gi, neu ryw greadur isel arall, syrthia i lawr yn ddideimlad, ac os na symudir ef i maes yn fuan, y mae yn sicr o drengu. Nid yw hon ond un o lawer o effeithiau cyffelyb mewn natur; ac y maent i gyd yn eu hiaith yn dywedyd, mai daioni yr Arglwydd yw yr achos na

ffurfai yr awyr yn orlenwedig o elfenau marwolaeth, ac nid o gysur ac o fywyd fel yn awr.

Y mae daioni Duw yn ymddangos, nid yn unig yn ei waith yn attal drygau o'r fath a nodasom: ond hefyd y mae trwy ddeddfau fferyllyddol yn gwneyd i un elfen ddinystrio dinystrioldeb y llall; ac yn eu huno â'u gilydd i fod yn ddefnyddiol fel cynnorthwy i wasanaethau angenrheidiau bywyd. Nodwn esiampl gyffredin fel esiampl. Y mae pawb yn gyfarwydd â halen, ac oblegid hyny nodwn ef i egluro y gosodiad. I'r tlawd a'r cyfoethog y mae yn ddefnyddiol: y mae y naill a'r llall yn hoffi cael ychydig o hono ar eu byrddau gyda eu hymborth angenrheidiol; ac y mae pawb yn barod i fabwysiadu geiriau Job, os na fydd eu bwydydd wedi cael graddau priodol o hono: "A fwyteir peth diflas heb halen? a oes flas ar wŷn wy?" Ond ychydig a feddylir o ba beth y mae y daioni a'i rhoddodd wedi ei wneyd. Meddylir yn gyffredin mai defnydd syml anghyfansoddol ydyw; ond trwy ymchwiliadau y fferyllydd, ceir allan ei fod yn cael ei wneyd i fyny o ddwy elfen wahanol. Gelwir y naill *chlorine*, a'r llall *sodium*; a phrofir fod y naill a'r llall yn wenwynllyd i'r eithaf, os cymerir hwynt i'r cylla; ond trwy eu huno â'u gilydd, y mae gwenwyn y naill yn cael ei ladd gan y llall. Y mae cymeryd golwg arwynebol ar bethau, yn ddigon i'n dwyn i gredu fod yr Arglwydd yn ddaionus; ond pan y byddom yn edrych ar gyfansoddiad mewnol y pethau hyny, yr ydym yn gweled llawer mwy o nerth yn y dywediad, "Daionus yw yr Arglwydd i bawb."

Y mae fferylliaeth yn ddangoseg effeithiol o'i *allu* a'i *nerth*. Dywedasom yn barod fod gan fferylliaeth adnoddau digon nerthol i ysgwyd y cread; ac os felly, beth a feddyliwn am allu yr hwn a greodd natur a'i nerthoedd, sydd yn ffrwyno angerdd yr elfenau â'i ewyllys, ac yn troi eu cynddaredd i wasanaethu ei ddybenion ei hun. Hysbys ydyw, nad ydyw daeargrynfâau, trwy ba rai y mae y ddaear yn siglo fel meddwyn, ond gweithrediadau fferyllyddol; felly, er nad yw gallu crëedig yn ddigon i osod allan anfeidroldeb gallu y Creawdwr, eto, meddyliwn fod *graddau* helaethach o'r gallu hwnw yn cael eu dangos trwy fferylliaeth nag unrhyw wyddor arall. Y mae yn wir fod daeareg yn dangos profion o alluoedd ofnadwy a dychrynllyd; eto, meddyliwn fod yr holl alluoedd hyny yn effeithiau gweithrediadau fferyllyddol rhagluniaeth y nefoedd. Fel hyn y mae fferylliaeth yn ddrych rhagorol i weled tragywyddol allu y Creawdwr ynddo.

Yn ddiweddaf, gallwn ddywedyd mai gwers bwysig a ddysgir gan fferylliaeth ydyw, *nad oes dim yn y greadigaeth yn cael ei ddifodi*. Nid ydym yn dywedyd nad yw hi yn bosibl i ddifodiad gymeryd lle; gan nad yw difodi i Dduw ond peidio ymarfer ei allu i gynnal: ond mor bell ag y mae ymchwiliadau fferyllwyr wedi myned, yr ydym yn cael sicrwydd digonol nad oes yr un dyddymiad *yn* cymeryd lle. Ar yr olwg gyntaf, y mae dyddymiad yn ymddangos yn fwy *tebyg* mewn fferylliaeth nag mewn dim arall; gan ei bod yn alluog o droi sylweddau celyd a theimladwy i nwyau anweledig annheimladwy: eto, y mae y wyddor hon yn rhoddi terfyn uniongyrchol ar bob dychymyg o'r fath a ymgyfyd yn y meddwl, gan ei bod yn bosibl i'r fferyllydd i gasglu y defnyddiau anweledig hyny, a dwyn o honynt sylwedd teimladwy a chaled fel y cyntaf. A chan fod hyn yn ffaith mewn perthynas â defnydd (*matter*), mor bell ag yr ydym yn deall yn bresennol, y mae yn rhoddi lle cryf i ymresymu, oddiar debygolrwydd a chyfatebiad, nad oes yr un tebygolrwydd fod

dyddymiad i fod ar ysbrydion chwaith; ac felly mai ofer yw y dyb y bydd eneidiau yn cael eu dyddymu yn uffern ar ddiwedd rhyw gyfnod penodol. Nid yw hyn ond tebygolrwydd; ond y mae i debygolrwydd ei werth.

NODIADAU AR LYFRAU.

The British Jews. By JOHN MILLS.

NID yw yr arferiad o roddi y ganmoliaeth eithaf i bob llyfr a ddaw dan sylw, yn ateb un dyben daionus. Yn lle codi y llyfr, y mae yn tueddu yn hytrach i greu gwrthdarawiad yn ei erbyn; ac yn fynych nid heb sail. Ond gobeithiwn fod y "Traethodydd" wedi bod ar y cyfan yn lled gymedrol a didueedd; ac na chyhuddir ni o ormodiaith, os dywedwn fod Mr. Mills wedi dangos ei hun yn fwy cydnabyddus âg arferion a defodau yr Iuddewon na neb a fu o'i flaen. Pe na buasai wedi gwneyd dim er pan anfonwyd ef i Lundain, ond cyfansoddi y llyfr hwn, ni fuasai yr anturiaeth yn ofer mewn un modd. Y mae yn achos llawenydd i'r Methodistiaid Calfinaidd fod ganddynt genadwr mor alluog yn llafurio yn mysg y genedl hono, o'r hon yr hanodd Crist yn ol y cnawd. Nis gallasai wneuthur dim oedd yn fwy gwasanaethgar i ddybenion y genadaeth: oblegid y mae yn amlwg, oddiwrth gyhoeddiadau yr Iuddewon eu hunain, fod y llyfr hwn wedi agor y drws i'r awdwr gael mynedfa at feddyliau y genedl. Er mwyn y rhai hyny o'r Cymry sydd mor dueddol i ddilyn y Seison, gallwn ychwanegu fod ein cydwladwr wedi derbyn cymeradwyaeth unfrydol oddiwrth nifer liosog o'r adolygiadau Seisnig.

A Grammar of the Welsh Language, based on the most approved systems. By the Rev. THOMAS ROWLAND.

ER fod cenedl y Cymry, meddir, yn un o'r rhai hynaf yn yr holl fyd, ac er fod eu hiaith, fe allai, yn un o'r rhai ardderchocaf dan haul, eto, nid ydynt ond dechreu ar y gorchwyl o ysgrifenu gramadegau. Ein meddwl yw, nad ydynt ond dechreu ysgrifenu dim yn werth ei alw yn ramadeg. Hyd yn ddiweddar, nid oedd genym un reol i ddangos y gwahaniaeth rhwng *sydd*, *yw*, *mae*, ac *oes*; nac ychwaith o barth yr holl rywiogaethau o frawddegau ymddibynol. Ond y mae Mr. Rowland wedi cychwyn yn yr iawn gyfeiriad. Nid gramadeg o'r iaith Seisneg wedi ei gyfieithu a'i draws-gymhwyso at y Gymraeg yw ei lyfr; ond gramadeg o'r iaith Gymraeg yn ei holl deithi a'i dulliau priodol ei hun, er ei fod wedi ei ysgrifenu yn Seisneg. Ceir yma holl esgyrn yr iaith, nid yn unig ar wahan, ond hefyd yn eu perthynas â'u gilydd; a theflir goleuni ar y cymalau bychain sydd yn cysylltu yr aelodau â'u gilydd Dymunem sylw neillduol at ei ddosbarthiad o'r *clauses*. Er fod hyn wedi ei ddwyn i arferiad o'r blaen mewn ieithoedd eraill, meddyliem y gall fod yn newydd i'r rhan fwyaf o'r Cymry. Un peth yn ychwanegol a ddymunem ei weled, sef y rheswm am bob rheol. Yr ydym yn hoffi gwybod, nid yn unig pa fodd y mae y peth yn bod, ond paham y mae felly. Wrth olrhain y rheolau yn fanwl, ceir eu bod yn tarddu oddiwrth ychydig o resymau gwreiddiol; ac y mae golwg ar hyn yn dangos y cwbl mewn tre'n a phrydferthwch. Cymerwn un anghraifft er mwyn egluro ein meddwl. Arferir *sydd* mewn rhai gosodiadau cadarnhaol, megys "Arthur sydd filwr;" ond pan dröir yr un gosodiadau yn nacaol, y mae yn rhaid arfer *yw*, megys "Arthur nid yw filwr." Y mae hyn yn ymddangos yn afreoleidd-dra; ond erbyn gweled y rheswm, y mae yma drefnusrwydd perffaith. Y rheol wreiddiol ydyw, fod yn rhaid arfer *yw* pan gymerir y mynegiad (*predicate*) mewn ystyr arbenig a phenodol. Yn awr, y mae yn rheol mewn rhesymeg fod y mynegiad i'w gymeryd yn ei ystyr gyflawn a phenodol bob amser mewn gosodiadau nacaol. Pan ddy-

wedir, "Arthur nid yw filwr," y mae y gair milwr yn arwyddo pob milwr. Yr ydym yn cymeryd pob milwr sydd mewn bod i mewn i'r cyfrif, ac yn dywedyd nad yw Arthur yn perthyn i'r dosbarth. O'r tu arall, wrth ddywedyd "Arthur sydd filwr," nid ydym yn cymeryd y gair yn ei ystyr helaethaf; hyny yw, nid ydym yn cymeryd holl ddosbarth y milwyr i mewn dan y gair; ond llefaru yr ydym am un yn unig allan o'r dosbarth. Nid yw yr anghraifft yma ond un o lawer; ond fel egwyddor gyffredin, mewn gramadeg, yn gystal a phob cangen arall o wybodaeth, gellir penderfynu nad oes un effaith heb ryw achos, nac un reol heb ryw reswm.

Gems of English Verse, with Translations in Welsh.
[*Tlysau Barddoniaeth Seisnig, wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg*]

Y mae amryw o argraffwyr Cymru yn ddigon anturiaethus, ond yn ddiffygiol mewn ysbryd barn; a thrwy hyny y mae eu hanturiaethau yn aflwyddiannus. Ond y mae Mr. Spurrell yn deall arwyddion yr amserau, ac yn gwybod pa beth i'w gyhoeddi. Mae y llyfr destlus hwn yn werth ei brynu, pe na byddai un dyben mewn golwg ond meddiannu casgliad o'r caniadau goreu o waith y beirdd Seisnig. Ond heblaw hyny, ceir yma gyfieithiadau o honynt ar y ddalen gyferbyniol. Y cyfieithydd mwyaf rhwydd yn ddiau yw Talhaiarn. Y mae ei gyfieithiad yn darllen mor naturiol a phe buasai yn gyfansoddiad gwreiddiol. Y nesaf ato yw Davies, Castell-hywel. Ond un o'r rhai goreu am roddi yr ystyr, yr holl ystyr, a dim ond yr ystyr, yw Iorwerth Glan Aled.

Grammar of the Welsh Language. Second edition, enlarged.

Er nad yw y gramadeg hwn mor ddyfnddysg ag un Mr. Rowland, dichon ei fod yn fwy hylaw, ac yn fwy dealladwy i'r cyffredin. Y mae ynddo hefyd rai rheolau, nad ydynt yn y llall. Ni fyddai dim yn fwy addysgiadol i'r dysgybl ieuanc na chymharu y ddau. Cofied nas gall ddeall un iaith yn iawn heb ddeall gramadeg yn drwyadl, a bod dysgu un iaith yn ramadegol yn help at ddysgu ieithoedd eraill.

Gweledigaethau y Bardd Cwsg. Gan Elis Wynne. Argraffiad newydd, gyda nodiadau eglurhaol, gan D. Silvan Evans.

Yr oedd Mr. Spurrell o'r blaen wedi cyhoeddi "Drych y Prif Oesoedd;" ac yn awr dyma ein hen gyfaill, "Y Bardd Cwsg," mewn diwyg hardd. Gobeithiwn yr ä ymlaen eto i argraffu "Hanes y Ffydd," a llyfrau buddiol eraill. Ei argraffiadau ef yw y rhai goreu sydd wedi ymddangos eto; a chredwn yr arosant felly am hir amser.

Llyfr y Prophwyd Eshaiah, wedi ei gyfieithu o newydd, a'i drefnu (cyn agosed ag y dichon) yn ol yr Hebraeg, gan y Parchedig Thomas Briscoe, S. T. B.

Bwriadwn roddi erthygl ar y cyfieithiad hwn yn y rhifyn nesaf; ond yn y cyfamser, y mae yn ddyledswydd arnom dalu ein diolchgarwch i'r awdwr am ei waith, ac yn enwedig am ei ddwyn allan yn yr iaith Gymraeg. Y rhai sydd am ddysgu Hebraeg a gânt yma gynnorthwy neillduol, gan y gallant wybod yn hawdd wrth ei ddarllen pa eiriau yn y ddwy iaith sydd yn cyfateb i'w gilydd.

DINBYCH: ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.

Y TRAETHODYDD.

CYFLAWNDER Y DUWDOD.

"Oblegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol."
Colossiaid ii. 9.

Mae yr apostol yn y pennodau hyn yn arddangos gogoniant person a chyfryngdod yr Emmanuel, a hyny i'r dyben o gadarnhau eneidiau y Colossiaid yn eu hymlyniad wrtho. Nid anmhosibl ydyw, fod yr hyn oedd ar y cyntaf yn achlysur iddynt dderbyn yr efengyl yn fwy chwannog, erbyn hyn wedi troi yn demtasiwn i gofleidio rhyw bethau eraill ag oedd yn anghyson â hi. Mae dysgedigion, pa fodd bynag, yn dywedyd wrthym, fod yn y byd cenedlig, yn bur gyffredin yn yr oes hon, ryw anesmwythyd am y gwirionedd. Yr oedd dynion coethedig, hyd yn nod yn mysg y paganiaid, a'u hysbryd a'u hyder wedi colli o grefydd eu hynafiaid—pryder ynghylch y dyfodol wedi deffroi yn eu mynwesau, ac *instincts* crefyddol eu natur yn dyheu am ryw ddadguddiad eglurach o Dduw, ac am fwy o wybodaeth a sicrwydd am y byd anweledig. Parai yr ysfa yma i aml un o honynt gofleidio Cristionogaeth. Ond ar y cyntaf, cyn i'r efengyl nawseiddio eu hysbryd yn drwyadl, yr oeddynt mewn enbydrwydd yn fynych rhag cael eu llygru oddiwrthi drachefn. Canys os byddai eu syniadau wedi eu lefeinio yn flaenorol â philosophi eu hoes, a'u hawyddfryd am newydddeb yn parhau, yr oedd yr ysbryd afiach hwnw yn tueddu i wrthweithio gwirioneddau yr efengyl yn eu meddyliau, ac yn eu parotoi i gofleidio yn hytrach orchymynion ac athrawiaethau dynion fel pethau mwy cydnaws âg archwaeth bresennol eu calonau. I'w meddyliau hwy, ymddangosai addysg y gau-athrawon Iuddewig yn uwch doethineb a dirgelwch; ac yn eu hymattaliadau fwy o berffeithrwydd a defosiwn nag a gyflwynid i'w sylw yn nghrefydd syml ac ymarferol yr Arglwydd Iesu. Oddiwrth awgrymau yr apostol yn y llythyr hwn, fe ellid casglu, dybygid, fod yn Colossa, a pharthau eraill o Asia Leiaf, rai Cristionogion o dueddiad fel yma. Ac heblaw hyny, erbyn hyn yr oedd y gau-athrawon crybwylledig wedi ymlusgo i'w mysg—dysgawdwyr o'r un chwaeth a hwy eu hunain, ac yn addaw eu perffeithio mewn doethineb a chrefydd. Er nad oedd y dynion yma, o bosibl, yn gwrthod Cristionogaeth yn hollol, eto, yr oeddynt yn ei hadffurfio i ateb i'w mympwy eu hunain, ac yn dwyn i mewn i'r eglwysi syniadau ac arferion cwbl ddinystriol i'w hysbryd a'i hamcanion. Fe ellid meddwl eu bod yn ymffrostio yn nirgeledigaethau eu crefydd, ac o'u cymundeb â'r byd ysbrydol —yn hòni cydnabyddiaeth âg angelion, gan eu hystyried yn wrthddrychau addoliad a pharch; ac mewn trefn i gymdeithasu yn fwy dirwystr â dirgeledigaethau doethineb, ac â'r byd anweledig, gwaharddent bob boddhâd i'w synwyrau corfforol. "Na chyffwrdd, nac archwaetha, na theimla." Yr

oedd y pethau hyn oll, yn eu barn hwy, "yn llygredigaeth wrth eu harfer;" tyb, fe allai, ag oedd yn cyfodi oddiwrth rai o'u syniadau philosophaidd hwy eu hunain, yn gystal ag oddiwrth y gyfraith Iuddewig, i ba un yr oedd yr athrawon hyn yn gobeithio bob yn ychydig allu dwyn y Cristionogion yn gaeth.

Amcan yr apostol, gan hyny, yn y llythyr hwn ydyw gwreiddio a chadarnhau y Colossiaid yn Nghrist. Wrth geisio at hyn mae yn cadw ei lygaid yn gyson ar y cyfeiliornadau hyny ag oedd yn fwyaf tebyg o fod yn fagl iddynt; ond yn lle eu hateb bob yn un ac un, mae yn hytrach yn annelu at y gwreiddyn cyffredinol o honynt yn eu meddyliau, sef deddfoldeb eu calonau, ynghyd â'r ysbryd hygoelus hwnw a ymgymysgai, dybygid, yn ormodol â'u holl dueddiadau crefyddol. Dengys mai yn Nghrist yn unig y mae holl gyflawnder y bywyd ysbrydol yn drysoredig; a bod credinwyr "wedi eu cyflawni ynddo ef," ac mor berffaith o ran gras a breintiau, fel nad oes arnynt eisieu cymhorth dim arall. A ydyw y gau-athrawon, fel pe dywedasai yr apostol, yn eich cymhell i'ch enwaedu, ac am eich arwain i ymorphwys yn y ddeddf a'i haberthau am heddwch â Duw a maddeuant pechodau? Mae y cyfan mor afreidiol ag ydyw o ofer:—"Yr ydych chwi wedi eich cyflawni ynddo ef." Yn Nghrist, "mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau. A chwithau, y rhai oeddych ddyeithriaid a gelynion mewn meddwl drwy weithredoedd drwg, yr awr hon hefyd a gymmododd efe, yn nghorff ei gnawd ef trwy farwolaeth, i'ch cyflwyno chwi yn sanctaidd ac yn ddifeius, ac yn ddiargyhoedd, ger ei fron ef. Yn yr hwn hefyd y'ch enwaedwyd âg enwaediad nid o waith llaw, trwy ddyosg corff pechodau y cnawd yn enwaediad Crist, wedi eich cydgladdu âg ef yn y bedydd." Ynddo ef, yr ydych wedi cael, nid yn unig sylwedd yr enwaediad yn ngwaith ei Ysbryd ef ar eich calonau, ond yr ydych hefyd wedi cael arwydd newydd o'r gwaith hwnw yn enwaediad Crist, neu yr enwaediad Cristionogol, sef bedydd; ac felly nid yw yr efengyl wedi eich gadael yn ol am un ddawn ysbrydol. Ac os yw y gau-athrawon yn eich dysgu i gredu mai yn y corff yn unig y mae gwreiddyn pob llygredigaeth, a bod y diafol yn ymgysylltu âg ef yn ei flysiau anianol i gaethiwo plant dynion i'w dinystr; ac am hyny yn eich galw, mewn trefn i fod yn ddiogel rhag ei ddylanwad, nid yn unig i groeshoelio y cnawd drwg, ond hefyd i gystuddio y cnawd gwan—hyny yw, i ymattal oddiwrth fwydydd, ac i beidio arbed y corff, na rhoi bri ar ddim ag sydd yn dwyn boddhad i'r tueddiadau naturiol—"na thwylled neb chwi." Pa faint bynag o grefydd ac o rith doethineb sydd yn ymddangos yn y pethau hyn, nid yw y cwbl ond athrawiaeth ddynol a gwag. Yr ydych chwi wedi eich cyflawni yn Nghrist, "wedi eich gwaredu o feddiant y tywyllwch, a'ch symud i deyrnas anwyl Fab Duw, yr hwn yw pen pob tywysogaeth ac awdurdod;" a'r hwn, drwy ei farwolaeth, sydd wedi yspeilio y tywysogaethau hyny o'u gallu i niweidio ei bobl, gan orfoleddu arnynt ar y groes. Ynddo ef a'i arfogaeth yr ydych yn gyflawn yn erbyn cynllwynion y diafol—yn alluog i farweiddio y cnawd, a diffodd holl bicellau tanllyd y fall, heb fenthyca un arfogaeth i'r perwyl hwnw allan o arfdy y cnawd, a mympwy dynol. "Am hyny na farned neb arnoch chwi am fwyd neu am ddiod, neu o ran dydd gwyl, neu newydd-loer, neu Sabbothau; y rhai ydynt gysgod pethau i ddyfod; ond y corff sydd o Grist." O'r ochr arall, gallasai yr apostol ychwanegu, a dywedyd, Os yw y gau-athrawon yn mawrygu angelion da yn eich golwg, cofiwch fod Mab

Duw wedi etifeddu enw mwy rhagorol na'r oll o honynt. Efe yw "delw y Duw anweledig, cyntafanedig pob creadur: canys trwyddo ef y crëwyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear." Ceisio eu cyfryngaeth hwy rhyngoch a Duw sydd sarhâd arno ef; ac wrth eu haddoli yr ydych yn dwyn sarhad arnoch eich hunain, oblegid yn Nghrist mae eich personau yn gydstâd â hwy, a'ch natur wedi ei chodi yn annhraethol uwchlaw iddynt, ac yn cael ei mawrygu ganddynt hwy eu hunain yn undeb ei berson ef, yr hwn y mae holl angelion Duw yn ei addoli. Ond fel pe dywedasai Paul, os am ychwaneg o gydnabyddiaeth a chyfeillach â hwynt yr ydych yn hiraethu, undeb â Christ yw yr unig ffordd i hyny—ynddo ef, fel Pen cyffredinol, y mae yr holl bethau yn y nefoedd ac ar y ddaear wedi eu cymmodi â'u gilydd, a'u crynhoi ynghyd. Wrth ddyfod at Grist, yr ydych yn dyfod at fyrddiwn o angelion, yn aelodau o'r un eglwys, ac i fwynhad o'r un ysbryd nefol yn ei gwasanaeth a'i haddoliad hi.

Fel hyn yr ymdrechai yr apostol drwy gorff y llythyr cylchynol hwn, i sefydlu eneidiau y Cristionogion yn Colossa, a'r trefydd oddiamgylch, yn nghrefydd y Gwaredwr. Dangosai hefyd, os oedd eu meddyliau yn ysu am ychwaneg o wybodaeth, fod digon i'w boddloni ynddo ef. Tra nad oedd gan y gau-athrawon ymffrostgar ond rhith doethineb i'w chynnyg iddynt; yr ydoedd o'r ochr arall wir ddoethineb, a dyfnder golud doethineb, yn ymagor ger bron eu dirnadaeth yn yr efengyl. Mynasai iddynt beidio a chamddeall ei amcan, a meddwl ei fod ef, wrth ddiystyru honiadau beilchion y gau-athrawon o barth i'w philosophi a'u gwybodaeth, yn dibrisio gwybodaeth ei hunan, nac am ladd eu syched hwythau am wybodaeth; i'r gwrthwyneb, nid oedd dim y teimlai yn fwy awyddus am dano na'u perffeithiad ynddi. Y cwbl a fynasai ydoedd, eu cadw i yfed o'r iawn ffynnon: a gwyddai fod ynddi y fath ddyfnderoedd fel y gallai fod yn hyderus i'w cymhell i yfed yn ehelaeth. "Canys," medd efe, "mi a ewyllysiwn i chwi wybod pa faint o ymdrech sydd arnaf er eich mwyn chwi, a'r rhai yn Laodicea, a chynnifer ag ni welsant fy wyneb i yn y cnawd; fel y cysurid eu calonau hwy, wedi eu cydgysylltu mewn cariad, ac i bob golud sicrwydd deall, i gydnabyddiaeth a dirgelwch Duw, a'r Tad, a Christ; yn yr hwn y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig." Paham ynte, fel pe dywedasai yr apostol, y bydd i neb eich twyllo chwi âg ymadrodd hygoel? Chwi a welwch eich bod wedi eich cyflawni yn mhob ystyr yn Nghrist. "Megys gan hyny y derbyniasoch Grist Iesu yr Arglwydd, felly rhodiwch ynddo ef: wedi eich gwreiddio a'ch adeiladu ynddo ef, a'ch cadarnhau yn y ffydd, megys y'ch dysgwyd, gan gynnyddu ynddi mewn diolchgarwch. Edrychwch na bo neb yn eich anrheithio trwy philosophi a gwag dwyll, yn ol traddodiad dynion, yn ol egwyddorion y byd, ac nid yn ol Crist. Oblegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol."

Ni a allwn fod yn sicr fod Cristionogion yn ein hoes ninnau mewn perygl oddiwrth yr un gelynion a Christionogion yr oes apostolaidd; ac yn wir, nid annhebyg ydyw fod ein peryglon ni yn y wlad yma oddiwrthynt hwy yn myned yn fwy yn feunyddiol. Mae rheswm anianol eto, o dan yr enw philosophi, yn hòni ei awdurdod a'i allu ei hunan yn y pethau ag sydd o Ysbryd Duw; ac yn ol ei arfer yn eu barnu yn ffolineb: tra mae traddodiadau dynol, hwythau, o'r ochr arall, yn gosod i fyny hynafiaeth, arferion, ac opiniynau y naill ddyn, neu ddynion y naill oes, fel awdurdod anffael-

ethig mewn crefydd i ddynion ac eraill. Mae y naill yn dywedyd yn uchel, Fel hyn y dywed natur a rheswm: a'r llall, Fel hyn y dywed yr Eglwys neu y Tadau. Ond y mae gan un o'r ddwy ochr heb na chlust i wrandaw, na thafod i ofyn nac i ddywedyd, Pa beth a ddywed yr ysgrythyr? neu, Pa beth a ddywed yr Arglwydd Dduw? Na, ffrwyth gelyniaeth y galon ddynol at wirionedd yr efengyl ydyw y cyfan o gyfeiliornadau y byd Cristionogol. Ac felly y maent oll yn ddieithriad—philosophi a thraddodiadau, er maint yw y gwahaniaeth sydd rhyngddynt a'u gilydd, ac er mor ddiystyriol yw y naill o'r llall, yn cytuno i guddio ac iselu y Gair Dwyfol, ac yn enwedig i arwain meddyliau dynion oddiwrth y drefn a ddadguddia i gadw pechaduriaid, sef gras penarglwyddiaethol Duw, person a chyfryngdod Iesu Grist, a gwaith nerthol ei Ysbryd ef yn y saint. Pa fodd bynag, heb ymdroi yn hwy fel yma, ein hamcan ni bellach, dros ychydig amser, a fydd ceisio, yn ol esiampl yr apostol Paul yn y llythyr hwn, at wreiddio ac adeiladu ein darllenwyr ieuainc yn Nghrist a'r efengyl. Ni a ddymunem allu gwneyd rhywbeth tuag at gadw eu cydwybodau yn blygedig i'w awdurdod ef yn ei air, ac i ennill eu calonau i ymsefydlu ar ei haeddiant am fywyd tragywyddol. Ac ni a gyrchwn, yn ol ein gallu, at yr amcan hwn, yn gyfelyb ag yr oedd yr apostol ei hunan yn cyrchu ato yn yr epistol yma, sef trwy geisio arwain y meddwl i olwg gogoniant Iesu Grist, a chyflawnder Dwyfol ei berson a'i gyfryngdod. I'r dybenion yma, ni a geisiwn, yn gyntaf, eangu meddyliau ein gilydd am gyflawnder y Duwdod, y perffeithrwydd a briodolir iddo yn y geiriau hyn, yr hwn, y mae yn rhaid i ni ddeall, sydd yn cynnwys ei holl briodoliaethau: cyflawnder y Duwdod—holl gyflawnder y Duwdod. Bydded i'r darllenydd gofio o hyd wrth ein dilyn fod y cyflawnder hwn yn y dyn Crist Iesu; neu, bod y Duw ag y byddwn ni yn son am dano wedi ymddangos yn y cnawd.

Yr ydym yn darllen yn y Bibl, chwi a wyddoch, am y môr a'i gyflawnder, ac am y byd a'i gyflawnder; ond nid yw y pethau hyn ond megys dyferion o'r cyflawnder ag yr ydym ni yn awr yn son am dano. Cyflawnder y Duwdod! Meddyliwch, i ddechreu, am yr hynodrwydd sydd yn perthyn i'w hanfod ef, y Duw mawr. Mae y cyflawnder yma yn gyflawnder un ag sydd yn bodoli mewn natur dragywyddol anghenrheidiol o'r eiddo ei hun, heb ddechreu na diwedd iddo. Yr ydym yn cydnabod nas gallwn amgyffred ond ychydig am y syniadau goruchel ag y mae ymadroddion o'r fath yma yn gynnwys. Ar yr un pryd mae yn rhaid, dybygem, ein bod yn dirnad rhywbeth am eu hystyr; oblegid mae mynyd o ymresymu â ni ein hunain yn argyhoeddi ein meddyliau mai felly y gorfodir ni i gredu am y Bod bendigedig, ac ni oddefa ein rheswm, mwy na'n cydwybod, i ni feddwl i'r gwrthwyneb. Yr ydym yn sicr am danom ein hunain (ac felly am bob peth arall) nad oeddym yn bod erioed, ac mor sicr a hyny ein bod yn bodoli yn bresennol. Wel ynte, gan fod rhywbeth yn bod yn awr nad oedd yn bod yn wastad, mae yn rhaid i ni gredu, gan na ddichon dim roddi bod iddo ei hun, fel y mae rheswm yn ein dysgu i benderfynu, fod rhyw Un yn bod erioed, yr hwn a roddes mewn amser fodolaeth i bob peth arall. Felly, dyma ni wedi cael Bod diddechreu a thragywyddol, a hwnw yw Duw. Drachefn, mae yn amlwg fod y Bod tragywyddol yma yn hanfodi o hono ei hun heb achos iddo. Ac megys nad oes iddo wneuthurwr, nis gall fod iddo gynnaliwr; mewn geiriau eraill, mae yn Fod annibynol. Ar bwy yr ymddibynai Duw? Ai ar Dduw arall?

Nid oes Duw ond efe, nid adwaen efe yr un. Ac am bob peth creadigol, maent hwy yn ymddibynu arno ef, ac felly nid oes iddo ef i ddibynu arno ond dim; a dibynu ar ddim yw bod yn annibynol. Felly yr ydym yn cael ein cydgau i'r ffydd, neu i'r dirgelwch mawr yma,—bod un tragywyddol Dduw yn bod, ac yn bod o anghenrheidrwydd. Ni roddes fod iddo ei hun, ac nis derbyniodd fod gan neb arall: felly nid i ewyllys na dewisiad mae yn ddyledus am dano mewn un modd; ac os nad i ddewisiad, i ba beth ynte ond i anghenrheidrwydd ei natur ei hunan? Nis gallasai ac nis gall Duw ond bod. Mae hyn yn ymddangos i ni yn anhawdd, ond y mae y syniadau gwrthwyneb yn fwy felly. Ac fel y dywed y diweddar Robert Hall ar y mater hwn, "Yr ydym yn rhwym, gan hyny, o ddewis yr anhawsdra lleiaf o'r ddau; neu yn hytrach i ddewis anhawsder yn lle anmhosiblrwydd, dirgelwch yn lle ynfydrwydd; ac felly gorphwysa ein meddwl yn y gwirionedd mawr hwn."

Ond yr ydym ni yn prysuro at yr amcan oedd genym mewn golwg, ac ni ddymunem alw y darllenydd i ystyried pa beth, yn mhob ystyr, a raid i gyflawnder y fath un a hwn fod. Onid yw yn rhesymol meddwl am dano, fod ei fywyd yn annherfynol—ei nerth yn hollalluogrwydd, a'i ddoethineb a'i synwyr tuhwnt i'w chwilio allan; mewn gair, (os yw y gair yn addas) ei fod yn feddiannol ar bob rhyw, a gradd eithaf pob rhyw, berffeithrwydd ynddo ei hun! Yr ydym ni yn barod i dybied, pe na buasem wedi clywed dim am y Duw bendigedig, ond yn unig ei fod yn bod erioed, ac o anghenrheidrwydd, y buasai yn naturiol i ni gasglu oddiwrth hyny yn unig fod yn rhaid ei fod ef yn un mawr, a'i gyflawnder yn anchwiliadwy. A'r un modd, wedi cael yr amlygiadau gogoneddusaf o hono, mewn natur a gras, mae yn hawdd genym gredu eto fod yn y fath un ogoniant mwy ofnadwy, a'i fod yn ei holl berffeithiau goruchel a bendigedig uwchlaw pob bendith a moliant. Dylem gofio hefyd, wrth feddwl am Dduw, nad yw yr oll ag sydd ynddo ef ddim amgen, na dim llai, nag ef ei hun. Nid pethau damweiniol iddo, ychwanegol ato, neu addurn ar ei natur, yw ei briodoliaethau; ond y natur hòno ei hunan ydynt. Nid cynneddfau palledig ynddo, ond ei hanfod. Felly llefara yn y Bibl am dano ei hun. "Duw, cariad yw." "Myfi yw y gwirionedd; myfi yw y bywyd:" "deall ydwyf fi; mi biau nerth." A phan y tystia wrthym yn ei air ei fod yn tyngu i'w allu, i'w sancteiddrwydd, ac i'w fywyd, nid yw ond yr un peth a phan yw yn dywedyd mewn manau eraill, ei fod yn tyngu iddo ei hun. Ynddo ef, nid yw natur, hanfod, a phriodoliaethau, ond yr un peth. Yn Nuw, Duw yw y cyfan. Ond heb ymhelaethu: ni a dybiem nad yw cymeryd trem weithiau yn y dull yma ar briodoliaethau naturiol y Jehofah ddim yn anfuddiol; oblegid pan y byddo y meddwl yn arswydo ac yn boddi mewn syndod, wrth syllu ar ddirgelwch ei hanfod, mae yn troi yr amser hono gyda mwy o chwaeth a melusder i fyfyrio arno yn ei briodoliaethau moesol. Wrth gofio cariad a gras y fath un, mae yn llawenhau; tra mae yr ystyriaeth o'i fawrhydi anamgyffredadwy yn ei ddysgu i lawenhau mewn dychryn.

Hwyrach yr eangid gronyn ar ein meddyliau am gyflawnder y Duwdod, pe gallem ond ymsyniad yn fwy sicr am y Jehofah fel un ag oedd yn ddigon i'w ddedwyddwch ei hunan er tragywyddoldeb. Nis gallwn ddirnad hyn eto, mae yn wir; ond mae yn rhaid i ni gredu mai felly y mae yn bod. Ac, fel y dywed Mr. Charles yn y "Geiriadur Ysgrythyrol," "Mae yn hyfryd credu, meddwl, a myfyrio, am y Duw mawr, er nas gallwn ei

amgyffred." Wrth wneyd cyfammod âg Abraham, mae yn galw ei hun, "Duw hollalluog," neu yn hytrach, "holldigonol." Pa beth ydym i'w ddeall wrth y fath enw? Onid yw yn ein dysgu ni i feddwl am un â'i ddigonedd yn codi o hono ei hun, heb dderbyn dim gan neb arall; ac un â'i ddigonedd yn gwasanaethu iddo ei hun, hyny ydyw, i'w ddedwyddwch, fel nad oes arno eisieu dim gan neb? Yn wir, nid oes gan neb ddim i'w roddi i Dduw, fel ag i ychwanegu dim at ei gyflawnder a'i berffeithrwydd. "Oblegid o hono ef, a thrwyddo ef, y mae pob peth. Ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll." Troi, gan hyny, at ei greadur am help neu gyfarwyddyd, ni byddai yn ddim amgen ynddo ef na throi at yr eiddo ei hunan, ac at hwnw lle nad yw ond terfynol ac annherffaith. Ond nid yw Duw, ac nid rhaid iddo, ymddibynu ar neb arall. Mae ynddo, a hyny o hono ei hun, gyflawnder digonol i'w holl berffeithiau goruchel. "Dyma wybodaeth ry ryfedd i ni; uchel yw, ni fedrwn oddiwrthi." Nid yw dyn, nac un creadur, yn ddigon i'w ddedwyddwch ei hunan. Mae ganddo alluoedd i fwynhau dedwyddwch, mae yn wir, a galluoedd mawrion hefyd; ond buasai yn well iddo fod hebddynt o lawer, na bod yn eu meddu, oddieithr iddo gael ychwaneg i'w roddi ynddynt, ac i'w diwallu, nag sydd ganddo ef ynddo ei hun. "Pwy bynag," medd un awdwr, "a ymneilldua i'w feddwl ei hun am hapusrwydd, a gaiff brofi ei hunan yn fuan yn druenus; fe deimla yn garcharor hyd oni chaniatäer iddo fyned ar led, ac ymuno mewn serch ac ymddiried â rhywbeth allan o hono ei hun." Ac felly yr ydym yn gweled plant dynion yn barhaus; tra byddo eu gobaith am hapusrwydd yn fyw, maent yn edrych am dano allan o honynt eu hunain. Dyheua y cybydd am gyfoeth, a'r athronydd am wybodaeth; ac er nad yw y byd hwn, yn ei holl amrywiaeth, yn ddigonol i wneyd y creadur yn ddedwydd, eto, ni byddai troi, hyd yn nod oddiwrth y byd, iddo ei hunan, yn ddim amgen na pherffeithiad ebrwydd ar ei drueni. O mor dlawd yw dyn, pan y byddo ei gyfeillach â phob peth oddiallan iddo ei hun wedi darfod! "Nis gall fod," medd yr awdwr uchod, "amgenach drych o salw drueni na'r dyn, yr hwn ag sydd wedi ei gyfyngu yn hollol iddo ei hun, heb feddu dim o'r teimladau hyny, pa rai sydd yn cysylltu meddwl wrth feddwl, a chalon wrth galon, ac yn ddyeithr i'r cydnewidiad hwnw o dynerwch a serchogrwydd ag sydd yn ffynu yn wastad rhwng ysbrydoedd cyffelyb i'w gilydd, yr hyn yw gwir fwyniant cymdeithas." Mae pob dyn meddylgar, ond odid, yn teimlo fod hyn yn wirionedd. Ac hwyrach mai dyma un achos ein bod mor barod i ddychymygu yn aml fod llawer o ddedwyddwch y Creawdwr ei hunan yn cyfodi oddiwrth ei waith yn creu, yn cynnal, ac yn cymdeithasu â'i greaduriaid. Ond yn wir, nid yw hyny ond syniad plentynaidd am y tragywyddol YDWYF, yr hwn y mae ffynnon ei ddedwyddwch ynddo ei hun. Dychymygwch yn awr, dros fynydyn, fod y greadigaeth wedi diflanu a darfod, a bod yr holl eangderau difesur heb neb na dim yn preswylio ynddynt ond Duw; a meddyliwch am y Duw hwn fel hyn er tragywyddoldeb, yn hanfodi ynddo ei hun; yn yr anghyfannedd-dra arswydlawn, a'r unigrwydd anamgyffredadwy, heb berthynas rhyngddo â neb, na chymundeb âg un meddwl, ond â'i feddwl goruchel ei hunan! O! pa fodd yna yr oedd y Jehofah yn byw? Yr ydym ni, wrth feddwl am dano, o dan y fath olygiad arswydol, yn teimlo aethau oerion yn ein meddiannu. A brofai ef ddim gwall nac ymddifadrwydd? Na; ond yn ngeiriau y Salmydd, gallem ddywedyd, "Digonolrwydd llawenydd oedd ger

ei fron, ac ar ei ddeheulaw yr oedd digrifwch yn dragywydd." Yr ydoedd yn hunan-ddigonol, ac felly yn fendigedig ynddo ei hun yn oes oesoedd: y Personau goruchel yn ymhyfrydu yn eu gilydd, fel cyfranogion o'r un natur a rhagoriaethau dwyfol; ac yn cydymhyfrydu yn y cynghor hedd, a'r arfaethau tragywyddol—actau gwreiddiol a diddechreu anfeidrol gariad, doethineb, a daioni y natur hòno! Gwir yw, fod Duw yn ymhyfrydu yn ei weithredoedd; ond nid fel pethau yn ychwanegu dim at ei ddedwyddwch; ond yn hytrach fel ffrwyth ei gynghor tragywyddol, ac amlygiad o'r hyn ydyw ef ynddo ei hun. Am gyfeillach neu wasanaeth ei greadur, nid rhaid iddo wrthynt. A ydyw ef yn Fod deallus? Mae ynddo ddigon o berffeithrwydd i'w ddeall ei hun. A ydyw yn Fod cymdeithasgar? Mae digon iddo i gymdeithasu âg ef ynddo ei hun. Ac os cariad yw, mae tegwch a daioni y Duwdod yn ddigon i'w gariad ei hunan. Mae y Meddwl mawr yn amgyffred, ac felly yn gallu mwynhau y Gwrthddrych mawr; a'r Gwrthddrych mawr yn llenwi y Meddwl mawr, fel nas gall fod arno eisieu mwy. Wel, gregyn mân y llawr, beth meddwch chwi? Onid yw y môr yma yn ddigon i'ch cyflawni? Beth meddi di, gredadyn, am y fynyd pan y dywedodd y Duw hwn wrth dy enaid, "Myfi a fyddaf yn Dduw i ti?" A pha beth hefyd am y tymmor sydd eto o dy flaen, pan y bydd ei gyflawnder dwyfol yn ymagor yn fwy eglur ger bron dy ddirnadaeth, ac yn llenwi dy serchiadau? Oni byddi yn ddigon hyfryd?

Ond i fyned ymlaen. Mae yr Arglwydd eto yn dangos ei hun yn ei weithredoedd mewn creadigaeth a rhagluniaeth. Ac am fynyd, yn bresennol, ni á geisiwn edrych arno ymhellach drwy gyfrwng yr amlygiadau yma o'i ogoniant a'i gyflawnder dwyfol. Mae hyn, o bosibl, yn haws, a mwy dymunol i'n meddyliau nag ydyw syllu arno ynddo ei hun; oblegid yma, ni a'i canfyddwn ef megys wedi dyfod o'r eithafion dyeithrol, ac yn sefyll yn y perthynasau agosaf â bodau creadigol o bob math; a thrwy y perthynasau hyny, a'i ymddygiadau tuag at ei greaduriaid ynddynt, mae cynghor ei ewyllys a phriodoliaethau ei natur wedi eu dwyn yn fwy eglur i olwg ein meddyliau. Ni a wyddom nad oedd y greadigaeth yn bod erioed, ac megys nad oedd bosibl iddi roi bod iddi ei hun, felly hefyd yr oedd yn anmhosibl i neb arall roddi bod iddi heb fod achos ei bod hi ynddo ef. Pa fawredd bynag, gan hyny, sydd i'w ganfod ynddi, mawredd ei Gwneuthurwr ydyw y cyfan. Ac ni a allwn fod yn sicr, os yw doethineb, gallu, a daioni y Creawdwr yn ymddangos yn rhyfeddol yn y pethau a wnaeth efe, eu bod yn fwy, ac yn annhraethol fwy felly ynddo ef ei hun; canys mae yn rhaid i ni benderfynu nad yw yn ngallu natur greadigol arddangos y fath un a Duw i berffeithrwydd.

Ychydig, mae yn wir, a allwn ni ganfod o ryfeddodau y greadigaeth. Ar yr un pryd, er na byddo genym ond meddwl anghyfarwydd, a'r llygad noeth yn unig, i edrych ar weithredoedd Duw, eto, mae syllu arnynt felly gyda y radd leiaf o astudrwydd, yn cynnyrchu syndod a defosiwn yn ein meddyliau. Y fath fawredd, lliosogrwydd, ac amrywiaeth, sydd yn ymddangos ynddynt! "Dyrchefwch eich llygaid i fyny," medd y prophwyd, "ac edrychwch pwy a greodd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi; efe a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau; gan amlder ei rym ef, a'i gadarn allu, ni phalla un." Ac os ydyw y blaned yr ydym yn byw arni yn rheol i farnu wrthi am y planedau eraill, mae yn rhaid i ni benderfyny o barth i'r bydoedd mawrion uwch ben, pa rai sydd yn ein cylchynu yn

yr eangderau difesur, a pha rai, i'n golwg ni, sy'n ymddangos bron mor ddysglaer a lliosog a gwlith y bore, fod pob un o honynt yn meddu ei hawyr, a'i daear, a'i dyfroedd, fel yr eiddom ninnau, a phob un o'r elfenau hyn drachefn yn cynnwys trigolion yn aneirif. Ac ni a allem ddychymygu fod y meddwl duwiolfrydig yno, megys yn y byd hwn, yn synu rhyfeddodau y Creawdwr; ac wrth synu yn cael ei gyffroi drwy ddefosiwn ei ysbryd i gydymuno â chyfan-gân gyffredinol y greadigaeth; ac yn gyffelyb i'r Salmydd gynt, yn tori allan i ganu, "Mor lliosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb; llawn yw y ddaear o'th gyfoeth. Felly y mae môr mawr, llydan: yno mae ymlusgiaid heb rifedi, bwystfilod bychain a mawrion. Yno yr ä y llongau: yno mae y lefiathan, yr hon a luniaist i chwareu ynddo. Y rhai hyn oll a ddysgwyliant wrthyt; am roddi iddynt eu bwyd yn ei bryd. A roddech iddynt a gasglant: agori dy law, a diwellir hwynt â daioni."

Drachefn; mae gweithredoedd natur mor hynod am liosogrwydd eu hamrywiaeth ag ydynt am liosogrwydd eu rhifedi. Mae rhyw egwyddorion cyffredinol yn perthyn iddynt, mae yn wir, trwy ba rai y profir eu cyfathrach â'u gilydd, ac yr amlygir eu bod oll yn gynnyrchion yr un llaw Ddwyfol, eto, maent yn dra gwahanol o ran eu hymddangosiadau allanol, ac yn aml mae y gwahaniaeth hwnw i'w ganfod yn rhedeg i'r fath gysgodion tyner a manylaidd, fel ag y mae y llygaid yn blino yn ei olrhain, ac iaith yn pallu wrth geisio ei ddarlunio—ffaith ag sydd ar unwaith yn profi cywreindeb a thynerwch y llaw hòno, pa un ag sydd fel hyn yn gwisgo naturiaeth â'r fath ogoniant. Meddyliwch, er esiampl, am y bywyd llysieuol; mae hwn yn tryfritho wyneb y ddaear, ac yn taflu ei hunan allan yn mhob lliw a ffurf o brydferthwch. A'r un modd y mae y bywyd anifeilaidd. Er fod y creaduriaid sydd yn meddu arno yn ddirifedi, eto, mae yn debyg na cheir dim cymaint a dau o honynt yn gwbl yr un fath a'u gilydd. Ac nis gallwn lai na rhyfeddu gwaith y Creawdwr, wrth feddwl mor amrywiol ydyw y dullweddau hyny ag y mae yr un egwyddor o einioes yn ei gymeryd. O ran ffurf, anian, a maintioli, y maent yn rhedeg i bob eithafion o anghyffelybrwydd; o'r blaidd ysglyfaethus hyd at yr oen diniwed; ac o'r elephant anferth ar y maes, i lawr hyd at y gwraint sydd yn ysu ar gefn y llaw. Ac os trown ni drachefn yn ein hystyriaethau, i syllu yn fwy arbenig ar ryw gyfran neillduol o weithredoedd Duw, ni bydd ein syndod yn ddim llai. Mae y distadlaf o honynt, hyd yn nod y pryfyn sydd o dan ein traed, yn fyd o ryfeddodau ynddo ei hunan. Oblegid, meddyliwch am fynyd ar ba beth yr ydych yn edrych; nid amgen nag ar lwchyn, y mymryn lleiaf o'r ddaear, wedi ei droi yn greadur byw a theimladwy: ac wrth chwilio ei gyfansoddiad i'r manylrwydd, yr ydys yn cael nad oes un aelod, ïe, na'r migwrn lleiaf, anghenrheidiol i wasanaeth y fath greadur, yn ddiffygiol ynddo; ond yn mhob modd mae wedi ei orphen mor berffaith, ac yn aml, ei addurno mor wych, fel y mae yn anhawdd gwybod pa un ai yn ffurfiad yr haul sydd yn dysgleirio yn y nef, ai ynte yn y gwibedyn bychan, yr hwn sydd yn chwareu y prydnawngwaith hafaidd yn ei belydrau, y mae doethineb a gallu y Creawdwr i'w synu yn fwyaf. Ac Efe, yr hwn a wnaeth y cyfan, sydd yn eu cynnal hwynt. "Gan agoryd ei law," fel y dywed y Salmydd, "mae yn diwallu pob peth byw o'i ewyllys da." Er eu bod yn cwhwfan, fel eu gwelir, ar wyneb y greadigaeth yn aneirif, eto nid oes calon un o honynt yn rhoi cymaint a churiad, na chymal i un o

honynt yn ysgogi unwaith drwy holl anian faith i gyd, hebddo Ef, yn yr hwn y maent yn byw, yn symud, ac yn bod. Canfyddir llaw Duw ar ysgythredd y graig, yn dysgu yr eryr i wneyd ei nyth; ac yn mherfedd yr anialwch, yn gofalu am wyau yr estrys ddiddeall. Mae ef yn coleddu ewigod y maes, a geifr gwylltion y creigiau, yn gwybod y misoedd a gyflawnant hwy, ac yn eu gwylio pan yn bwrw lloi. Ac os meddyliwch chwi, drachefn, am y byd anweledig, mae Duw goruwch oll a thrwy oll yn hwn hefyd. Pa sawl gelyn cryf a maleisus mae yn gadw mewn terfynau yma? a pha sawl myrddiwn o'i blant, mewn gwahanol amgylchiadau, mae yn waredu, yn gynnal, ac yn gysuro, ar bob mynydyn? Mewn gair, mae "yn oludog i bawb ag sydd yn galw arno:" a thybygid nad yw amser yn ei holl oesoedd, ac anian o dan ei holl amrywiaeth, ond megys cyfleusderau iddo ef, yr Hollgyfoethog, i ddangos ei hun a'i gyflawnder gogoneddus.

Ond ofer i ni geisio darlunio. Yr ydym yn sicr mai po dyfnaf y treiddir i ddirgelion y greadigaeth, y canfyddir fod doethineb a daioni ei Gwneuthurwr yn myned yn fwyfwy. Mae natur a rhagluniaeth yn ymuno, ac megys ar eu hegni, yn gosod allan gyflawnder Duw. Yn yr uchelderau fry, a'r dyfnderau obry, o'r naill eithafion i'r greadigaeth hyd yr eithafion gwrthwyneb iddi, mae yr Ysbryd tragywyddol yn ffynu drwy y cyfan—yn wreiddyn eu bywyd a'u holl ysgogiadau, ac yn llywodraethu arnynt yn fwy sicr a hollol nag y mae ysbryd dyn ar ei ysgogiadau corfforol. "I ba le yr äf oddiwrth dy Ysbryd?" meddai y Salmydd duwiol, "ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd? Os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt ti; os cyweiriaf fy ngwely yn uffern, wele di yno. Pe cymerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr, yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw."

"Os yw golygfeydd natur ynddynt eu hunain (medd un awdwr), yn fawr ac arddunol, pa faint mwy eu hurddasir yn ein golwg, wrth feddwl am y gair hwnw, yr hwn a alwodd o ddyddymdra eu holl ardderchogrwydd; y ddoethineb hòno ag sydd yn rheoli dros y cyfan, a'u holl nerthol ysgogiadau; a'r hon sydd yn crynhoi cynnifer o ryfeddodau i'r abwydyn sydd yn marw o dan ein traed, ag i wneuthuriad a llywodraethiad goleuadau y nefoedd! Y fath swyn a'r fath brydferthwch a ychwanegir at ddysgleirdeb y ffurfafen serenol, at ffyrnig gysonedd y moroedd cynhyrfus, at olygfa siriol meusydd a llwyni o dan belydrau haul y boreu, trwy'r ystyriaeth o'r tragywyddol Ysbryd, yr hwn sydd yn dystaw dreiddio drwy holl anian, ac a ymddengys yn dadguddio ei anfarwol fodolaeth, ac yn rhoi allan ei ddwyfol lais, yn nghanol holl ysgogiadau a holl sŵn y greadigaeth."

Ond nid ymhelaethwn ar y pen hwn. Yr ydym bellach yn myned i droi sylw y darllenydd at un amlygiad arall, yr olaf a'r helaethaf a wnaeth y Duw bendigedig o hono ei hun i'w greaduriaid, sef, yn Nghrist, a gwaith mawr y prynedigaeth. Wedi y cyfan, nid oedd y Creawdwr yn ngwaith y greadigaeth ond megys yn rhagbarotoi i ddangos ei hunan yn hwn. Ac fe allesid gofyn i ser y bore, pan y cydganent mewn gorfoledd ar sylfaeniad y gwaith hwnw, A ydych chwi yn awr yn addoli ac yn mawrhau y Creawdwr? Chwi a gewch weled pethau mwy na rhai hyn. Nid oes yma ond yn unig codi i fyny y chwareu-fwrdd, ar ba un y mae y Jehofah, yr hwn nad ydych chwi eto ond yn dechreu ei adnabod, yn bwriadu cyflawni ei amcanion tragywyddol, a dangos ei hunan a chyflawnder gogoneddus ei natur i'ch meddyliau. Mae yn sicr fod yr Ysgrythyrau yn llefaru am

brynedigaeth yr eglwys, nid fel peth wedi ei gyflawni yn unig er mwyn yr eglwys ei hunan, ond yn hytrach fel amlygiad o Dduw i'w holl deulu. Yn ol iaith yr apostol, "Fel y byddai yn hysbys i'r tywysogaethau ac i'r awdurdodau, yn y nefolion leoedd, drwy yr eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw." Cyn cael y dadguddiad yma o'r Bod mawr, "y Duw anweledig" y gelwid ef er y cyfan. Nid oedd ond rhanau bychain o'i ffyrdd ef wedi eu gwneyd yn adnabyddus i'w greaduriaid, ac ychydig mewn cymhariaeth a wyddai y penaf o honynt am dano; a hyny, nid yn gymaint gyda golwg ar yr hyn ydoedd ef ynddo ei hun, ond gyda golwg ar yr hyn oedd i gael ei amlygu iddynt hwy o hono ef yn mherson a chyfryngdod yr Emmanuel. "Ni weledd neb Dduw erioed; yr Unig-anedig Fab yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd ef." Hwnw mewn modd arbenig. Mae hwnw, yn ei berson a'i gyfryngdod, "yn ddelw y Duw anweledig," ac yn ddelw mor berffaith o hono, fel y dywedir fod y neb sydd yn ei weled ef yn gweled y Tad. Ac oddiwrth iaith fel hyn, mae yn rhaid i ni gasglu fod yn Nghrist ryw amlygiadau yn cael eu gwneuthur o'r Duw mawr, ag sydd yn annhraethol tuhwnt i ddim a wnaed o'r blaen mewn creadigaeth na rhagluniaeth. Ni ddywedir, ac nis gellir dywedyd am un creadur, nac am yr oll o honynt ynghyd, eu bod yn ddelw y Duw anweledig, na bod y neb sydd yn eu gweled hwy yn gweled Duw. Dyma, yn mysg eraill, un o'r rhesymau paham yr oedd yr Arglwydd o'r dechreuad yn gwahardd mor bendant roddi addoliad crefyddol i ddim a wnaethai, na gwneyd llun dim a'r sydd yn y nefoedd uchod, nac a'r sydd yn y ddaear isod i'w gynnrychioli nac i'w arddangos ef ei hun: canys nid oes un creadur yn un man ag mae yn bosibl iddo, yn gywir a theilwng, bortreadu na gosod allan y Duwdod anfeidrol i'w gydgreaduriaid. Ond y mae hyn wedi ei wneuthur yn Nghrist. Yma fe gaed delw weledig o'r Duw anweledig, ïe, y fath ddelw o hono ag y gellir ei haddoli; oblegid y mae Duw ei hunan ynddi, ac yn cael ei arddangos trwyddi yn berffaith ac yn ogoneddus i feddwl yr addolwr.

I'r dyben o ddeall hyn yn well, dylem ystyried cyfansoddiad person Crist fel Duw-ddyn, a dybenion ei ddyfodiad i'r byd. Cariwn gyda ni, gan hyny, ein syniadau blaenorol am fawrhydi Duw, ac awn hyd Bethlehem a Chalfaria, i edrych ar y Duw hwn yn faban yn y preseb, ac yn marw ar y groes. "Ynddo ef," medd ein testun am y Gwaredwr, "y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol." Yn ddiau mae hyn yn beth newydd ar y ddaear, ac yn olwg ryfedd ar Dduw. Cyflawnder—holl gyflawnder y Duwdod yn nghorff—hyny yw, yn y dyn Crist Iesu. Mae y ffaith hon, a'i dybenion, nid yn unig yn amlygiad uwch o'r priodoliaethau hyny yn y Duwdod mawr ag oeddynt yn adnabyddus eisoes, ond wedi dwyn i'r golwg ddwfn ddirgelion ei gynghor, a goludoedd o berffeithrwydd yn ei natur, megys ymostyngiad, trugaredd, cariad, a gras,—pethau nad oedd creadigaeth na rhagluniaeth wedi yngan dim am danynt. A ddywedwch chwi wrthym ni, fod Duw yn rhyfedd yn ei weithredoedd, ac yn ddiau, yn fwy rhyfedd drachefn ynddo ei hun? Wel, bydded felly, —rhyfeddaf oll, ynte, ydyw fod y Duw hwn wedi ymddangos yn y cnawd. Pa fath bynag ydyw ynddo ei hun, mae yn preswylio bellach mewn pabell ddynol, ïe, preswylia yr Arglwydd ynddi byth. Nid mewn rhyw arwydd weledig, fel yn y deml gynt, nac ychwaith drwy ei Ysbryd a'i ras, megys y mae yn trigo yn ei bobl; na, ond y mae holl gyflawnder y Duwdod—

hyny yw, y natur ddwyfol ei hunan—yn preswylio yn sylweddol yn nghorff ei gnawd Ef: y Duwdod a'r ddynoliaeth mewn undeb â'u gilydd, a hwnw yn gyfryw undeb, fel nad yw Mab Duw, a'r dyn Crist Iesu, ond un person! Mae y Bibl weithiau, wrth ymdrin â'r mater hwn, yn gosod y ddwy natur megys mewn cyferbyniad â'u gilydd, ac yn y goleu hwnw yn arddangos y pellder anfeidrol sydd rhwng y naill a'r llall, a thrwy hyny yn dysgu ein meddyliau i ryfeddu yn fwy ei berson ef, yn yr hwn y maent wedi eu huno. Felly dywedir fod yr hwn a wnaeth y bydoedd wedi cael ei wneuthur ei hunan yn gnawd, o wraig, a than y ddeddf. "Yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw; eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion: a'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu y groes." A ydoedd yn bosibl i'r Duw mawr amlygu mwy o ymostyngiad o'i ochr ei hun, a gosod mwy o ogoniant a bri ar natur ei greadur? Na, mae yn sicr genym fod y Bod Dwyfol yma wedi mawrhau, a dyfod mor agos at ei greadur ag y mae yn ddichonadwy, wrth natur pethau, iddo ddyfod. Beth bynag ydyw ynddo ei hun, fel y sylwyd eisoes, mae bellach o'n cyfathrach ni, ac yn un o honom, ac nis gall ddiystyru dywedyd wrth ddyn, abwydyn y llwch, Fy mam a'm chwaer wyt. O Emmanuel! ti a gyflawnaist lawer o weithredoedd nerthol a gwyrthiau mawrion ar ein daear ni; ond wedi y cyfan y wyrth ryfeddaf oeddit ti dy hun! "Yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd."

Ymhellach, ni a ddylem ystyried i ba ddyben y bu hyn. Yr ydym yn darllen, pan aeth Samuel i Bethlehem gynt, heb ei ddysgwyl, ddarfod i henuriaid y ddinas godi i'w gyfarfod, a gofyn iddo yn ddychrynedig, "Ai heddychlawn dy ddyfodiad di?" "Heddychlawn," meddai y prophwyd, "mi a ddaethum i aberthu i'r Arglwydd." Ond wele un mwy na Samuel yn Bethlehem heddyw. Ai heddychlawn dyfodiad hwn yno? A ddaeth efe i'r byd i ddamnio y byd, ai ynte fel yr achubid y byd trwyddo ef? i ddinystrio eneidiau dynion ynte i'w cadw? Ond cyn i ni ofyn, mae y Gwaredwr wedi ateb, "Heddychlawn, heddychlawn! Mi a ddaethum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach. Daethum i aberthu i'r Arglwydd—i ddybenu camwedd, ac i selio pechodau, ac i wneuthur cymmod dros anwiredd, ac i ddwyn cyfiawnder tragywyddol." Ei ddybenion yn cymeryd dynoliaeth ydoedd i farw ynddi; gwneyd iawn digonol dros bechodau ei bobl, ac felly agor ffordd anrhydeddus i'r cyflawnder hwnw, pa un ag oedd eisoes yn trigo yn eu natur hwy, i redeg drwyddi i ymgeleddu eu personau ac i ddiwallu eu holl anghenion; eu gwneyd yn ddiogel a chyflawn yn eu hundeb âg ef ei hun, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll. O! ryfedd oruchwyliaeth! "Pe buasai yr holl fodolion," meddai un ysgrifenydd, "yn treulio yr holl oesau i geisio dychymygu am ryw weithred trwy ba un y gallasai Duw arddangos ei gariad, ac o ganlyniad ei fawredd, i'r holl fydoedd, nid wyf yn credu y gallasent ddarganfod dim i'w gymharu â hynyma, sef ei fod ef wedi dyfod yn ddyn i'n hachub ni!" Mae pob amlygiad arall o Dduw yn dangos hwn yn fwy rhyfedd, tra mae hwn yn taflu pob un arall i'r cysgod. Yr oedd gallu a doethineb Duw, fel y buom yn sylwi eisoes, wedi dyfod i'r golwg yn y greadigaeth, ac eraill o berffeithiau ei natur drwy y cwymp, ac yn ei ymddygiadau at greaduriaid syrthiedig fel Llywodraethwr y byd; ond wedi y cwbl, yr oedd ynddo ogoniant mwy rhyfeddol.

Ond yn Nghrist, a dygiad yr eglwys i ogoniant a dedwyddwch tragywyddol trwyddo, mae ei holl briodoliaethau yn ymddangos mewn cydweithrediad gogoneddus, ac yn gweithredu hefyd o dan y fath amgylchiadau ag sydd yn eu harddangos yn eu cyflawnder a'u hanfeidroldeb. Yma canfyddir doethineb Duw yn ddyfnder golud doethineb, a'i ddaioni, o dan arweiniad y ddoethineb hono, yn ymarfer ei hunan hyd yr eithaf. Pa ddyfais uwch a ddichon doethineb lunio? Beth mwy a ddichon daioni anfeidrol ei gyflawni? Edrych ar ei wyrthiau ef, bechadur! Mae wedi dwyn Duw tragywyddoldeb i natur ei greadur, a hyny mewn trefn i farw drosto a'i waredu o'i drueni; ac yna, wedi gwneuthur cymmod drwy waed ei groes ef, gweinyddu trwyddo ef, mewn ffordd o drugaredd a gras, heddwch a maddeuant i'r troseddwr euog ac annheilwng, heb gymylu yr un o briodoliaethau eraill y Jehofah. O am adnabod Duw yn Nghrist! Ar y dadguddiad hwn, y mae y deml ysbrydol yn cael ei hadeiladu; dechreuad gwir grefydd yn ysbryd pechadur ydyw; a dyma fydd testun cân yr holl eglwys i dragywyddoldeb. Mae yr hen greadigaeth bellach wedi syrthio mewn cymhariaeth i anghof; saint ac angelion hefo eu gilydd yn cydedrych mewn syndod, ac yn gorfoleddu yn dragywydd yn yr amlygiadau mwy rhyfeddol o ogoniant a chyflawnder y Duwdod yn Nghrist a'r greadigaeth newydd.

Ond bellach yr ydym ni yn gollwng ein darllenwyr gyda y ddau sylw canlynol, mewn ffordd o gymhwysiad. Hwyrach y bydd i'r anystyriol a'r difraw ddarllen y sylwadau blaenorol rywbryd. Ac wrtho ef, ni a ddymunem ddywedyd,—Dyma y Duw y pechaist di yn ei erbyn! Efe, yr hwn y buom ni mewn gwendid yn son am dano, ydyw yr un y darfu i ti ymwrthod â'i lywodraeth, a chymeryd dy ewyllys, hyny ydyw, dy chwaeth a'th fympwy anwadal dy hunan, yn rheol dy fywyd a'th ymddygiadau, yn lle ei ewyllys ef, y Brenin tragywyddol. Dyma y Duw ag yr ydwyt yn dy anwybodaeth a'th falchder wedi ei anghofio ddyddiau aneirif! Ti a addefi ei fod yn bod, o bosibl; ond fe ellid meddwl bron dy fod yn gwneuthur hyny yn bwrpasol i gael y pleser o'i ddirmygu. O mor lleied o effaith y mae dy syniadau am dano yn ei gael ar dy feddyliau! Onid ydwyt yn ei addef yn fawr, ac eto yn byw heb ei ofni? yn ei addef yn dda, ac eto yn byw heb ei garu, nac ymhyfrydu ynddo? Ac os ar unrhyw bryd y bydd dy gydwybod yn deffro, ac yn gwasgu am gael dy galon i gydymffurfiad â dy farn, nid yw hyny yn gwneyd dim ond cynhyrfu dy elyniaeth ato yn gynt, a pheri i'th ysbryd godi yn fwy cyflym mewn gwrthryfel yn ei erbyn ef, ac yn erbyn pob syniad bywiol am dano o fewn dy fynwes. Mewn gwirionedd, yr ydwyt cystal a dywedyd wrtho, y bydd raid iddo naill ai ymadael o dy feddwl di o gwbl, neu ynte, foddloni ar fod yno yn unig yn rhyw *idea* ddifywyd, heb addoliad, ufudd-dod, nac aberth oddiwrthyt ti. O mor annaturiol yw gweled creadur fel hyn wedi troi yn erbyn ffynnon ei hanfod a'i wir ddedwyddwch! "Paham," medd y Salmydd, "y dirmyga yr annuwiol Dduw!" Ti elli fod yn sicr, bechadur, megys nad oes genyt ond dirnadaeth anmherffaith am fawredd y Jehofah, felly nad wyt yn dirnad ond ychydig, ie, mewn cymhariaeth ddim, pa beth a wnaethost wrth bechu yn ei erbyn ef!

Ond gan obeithio dy fod eisoes i fesur yn deimladol o hyn yma, mae genym air i'w ddywedyd wrthyt ymhellach fel pechadur edifeiriol. A dyma fe,—Mae y Duw hwnw ag yr ydym wedi bod yn son wrthyt am

dano, ac yn erbyn yr hwn yr ydwyt ti wedi troseddu, yn awr yn yr efengyl yn cyflwyno ei hunan, yn nghyflawnder ei ddaioni a'i ras, yn iachawdwriaeth a rhan i dy fath di. Pan y dywedir fod holl gyflawnder y Duwdod yn Nghrist, meddylir ei fod ynddo, nid fel Person Dwyfol yn unig, ond fel Cyfryngwr a Phen yr eglwys. Ac fel y cyfryw, mae y cyfan o'i gyflawnder wedi ei drysori ynddo ar gyfer ei bobl, ac mewn trefn i ddiwallu eu hanghenion. Felly y mae Iesu Grist yn yr efengyl yn dwyn yr ystyriaeth yma fel rheswm dros ei waith yn galw pechaduriaid ato ei hun am achubiaeth. "Trowch eich wynebau ataf fi holl gyrau y ddaear, fel eich achuber; canys myfi sydd Dduw, ac nid neb arall." Fel pe dywedasai, Er eich bod yn dorf aneirif, a phechodau ac anghenion pob un o honoch yn fawrion a lliosog, eto trowch eich wynebau ataf fi. Os yw cyflawnder y Duwdod yn ddigonol i gyflawni eich rhaid, a boddloni eich dymuniadau, mae hwnw yma at eich gwasanaeth. "Canys myfi sydd Dduw, ac nid neb arall." O fy enaid, edrych ar Iesu! ynddo ef mae Duw wedi dyfod yn agos iawn atat ti. Cei gymdeithasu âg ef yma yn dy natur dy hunan, a thrwyddi gyfranogi o'i gyflawnder anhysbydd. Yn Nghrist, wedi iddo yn gyntaf amlygu ei ogoniant, a gosod allan gyfoeth ei natur ger bron dy feddyliau, y mae y Duw mawr, yn ol yr amlygiad hwnw, yn cyflwyno ei hunan i dy ffydd, ac yn barod i ddywedyd wrth dy enaid anghenog a phryderus, Tro dy wyneb yma; myfi, yr hwn ydwyf hyn oll, a fyddaf yn yr oll ag ydwyf yn Dduw i ti. Pa beth yn ychwaneg a elli ddymuno? Mae hyn yn ddigon heb iechyd, cyfoeth, na mawredd y byd hwn—digon yn wyneb euogrwydd ac annheilyngdod—digon mewn amser ac i dragywyddoldeb. "Os oes digon o ras i bechaduriaid yn y Duw hollddigonol," medd Dr. Owen, "mae digon yn Nghrist. Onid yw yn ateb i ni yn ein holl gyfyngderau? Beth yw ein heuogrwydd terfynol ni yn ei ymyl ef? Dangoswch i mi y pechadur yr hwn a ddichon ledu ei anwireddau hyd fesurau (os gallaf ddywedyd felly) y gras hwn. Mae yma drugaredd ddigon i'r mwyaf, i'r hynaf, a'r cyndynaf o droseddwyr." "Paham, tŷ Israel, y byddwch feirw."

Pan y byddom yn rhodio weithiau ar fin y môr, wedi enciliad y llanw, yr ydym yn canfod ei geulanau a godrau y mynyddoedd oddi amgylch iddo, yn llawn ogofeydd a thyllau cilfachog, oll â'u safnau yn agored a gwag o ddwfr; a'r ymlusgydd adgas yn troi yn y cwterydd lleidiog. Ond yn y man drachefn, yr ydym yn-gweled y llanw yn dychwelyd; yn nawsio i mewn, yn wylaidd megys ar y cyntaf, drwy y rhigolau dirgel; ac yn llenwi y naill agen ar ol y llall; ond yn ebrwydd bydd pob gwrthuni wedi ei guddio, a phob cilfach yn llawn, y cyfan wedi ei ordoi â chyflawnder dyfroedd. Yn gyffelyb i hyn y mae y cristion wedi profi. Heb Dduw, yr oedd ei galon yn wag ac afreolaidd; ac mor annigonol ydoedd pethau y byd hwn i allu llenwi ei ddymuniadau, ag ydyw yr aberig fechan yr hon sydd yn colli yn y tywod i lenwi gwely yr eigion. Ond bendigedig a fyddo Duw! mae'r *tide* megys wedi troi; y cyflawnder dwyfol erbyn hyn yn treiddio trwy ysbryd y credadyn. Beth oedd ei aileni ef, dybygech chwi, ond y llanw yma yn dechreu dyfod i mewn? Beth ydyw ei gyflawni ef o lawenydd ac o'r Ysbryd Glân, o ffrwythau cyfiawnder, ac o wybodaeth ewyllys Duw yn mhob doethineb a deall ysbrydol; beth hefyd, ond y llanw yn dyfod i mewn, y dyfroedd bywiol megys yn chwyddo fwyfwy, ac yn dychwelyd gyda nerth i'w hen sianel! O'r diwedd daw yn ben llanw.

Bydd holl anghenion a dymuniadau y credadyn wedi eu cyflawni am byth; ei enaid yn llawn o wybodaeth yr Arglwydd, megys y mae y dyfroedd yn toi y môr. Yn yr hanes olaf sydd genym am dano yn y Bibl, mae wedi cyrhaeddyd hwnt i angeu a'r bedd, ac yn cael ei adael yn y cyflwr hwnw ag y bydd DUW IDDO MWYACH OLL YN OLL.

PABYDDIAETH AC ANFFAELEDIGRWYDD.

[Y traethawd canlynol a ysgrifenwyd gan y diweddar Barch. EVAN MORGAN, Caerdydd. Pan ydoedd ar y pryd yn analluog gan wendid corfforol i weinidogaethu yn gyhoeddus, nid oedd yn foddlawn heb wneuthur rhywbeth i ddangos ei deimlad Protestanaidd ac efengylaidd yn adeg "*aggression*" y Pab a'r Cardinal Wiseman, a'r cynhwrf o'r herwydd trwy Loegr a Chymru. Y mae yr ysgrif hon yn ymosod ar fywyd ac enaid Pabyddiaeth, a byddai yn ddymunol i'r Cymry yn gyffredinol, yn y fath ddyddiau a'r rhai hyn, fod yn hyddysg yn y materion a drinir ynddi. Gadawsom hi yn hollol fel ei hysgrifenwyd gan ein hanwyl gyfaill trancedig; a diau y bydd yn dda gan laweroedd gyfarfod â hyn o weddillion ar ei ol.]

PE bwriadasai yr Arglwydd i ryw ddyn fod yn benaeth ysbrydol yr holl fyd, y mae yn dra thebyg y buasai y cyfryw fwriad wedi ei hysbysu—nid yn anamlwg, ond yn erthygl bendant o fewn i'r dystiolaeth sanctaidd, heb un rhwystr i'r byd ei ddeall, na sail i ammhëusrwydd godi yn erbyn ei wirionedd. Yn y lle blaenaf, buasai galwad am y cyfryw ddadguddiad, er mwyn rhwymo duwiolion yr oes apostolaidd i blygu i lywodraeth eu penaeth hwy; yn y lle olaf, er i Gristionogion oesoedd dyfodol ymostwng i'r penaethiaid ysbrydol a fuasai i ddal y cyfryw awdurdod hyd ddiwedd amser, y rhai y gellid edrych arnynt yn olyniaid mewn cadwyn ddidor, wedi deilliaw yn rheolaidd o'r pen blaenaf yn llinell y penogiaid. Ond er chwilio yn ddiduedd i'r pwnc, heb gau ein llygaid ar wirionedd, na derbyn i mewn unrhyw resymiad disail, ac ar ol gosod ein hunain yn agored i argyhoeddiad, pe gosodid defnyddiau priodol i argyhoeddi y meddwl ger bron, gorfodir ni i gredu, oddiar ddiffyg profion gwrthwynebol, na ordeiniodd yr Arglwydd i un dyn yn yr oes apostolaidd, nac mewn un oes arall, ddal y cyfryw awdurdod.

Y mae *uchafiaeth* y Pab yn cyfleu drychfeddwl o faintioli anferth, a'r llywodraeth a briodolid iddo ef a gyrhaedd, nid yn unig i bellafoedd y byd hwn, ond ei derfynau a osodir yn y bydoedd anweledig, draw, draw, ymhell; ei adnabyddiaeth o'r nefoedd sydd gyffelyb i'r hyn a wyddom am ein cymydogion agosaf; a thra y mae yn medru agor uffern isod i daflu i'r gerwyn danllyd bawb a anufuddhant iddo, y mae yn cario masnach ymlaen mewn gwlad a elwir yn *burdan*, o'r hwn y gall, am arian llygredig y ddaear, ryddhau y dyoddefwyr. Y mae hyn yn gosod awdurdod pen yr eglwys ar y ddaear yn eangach nag awdurdod y Pen mawr sy yn y nefoedd. Nid yw Crist wedi crybwyll ond am dri o fydoedd ar y rhai y mae ei lywodraeth foesol ef; ond y pen Pabaidd, er nad yw ond dyn, a ganfyddodd un ychwaneg; ac er nad yw y pabau ond dynion meidrol, ac o ranau eiddil

yn aml, ni ddarfu iddynt gwyno erioed o herwydd eangder eu rhaglawiaeth. Gan mai y Gair Sanctaidd yw y rheol, onid rhyfedd yw i'r efengylwyr dewi am hyn, y rhai a ddilynasant bob peth yn ddyfal o'r dechreuad, gan ysgrifenu am y pethau ag oedd yn ddiammheu gan eu cydoeswyr? Ai tebyg yw i'r pedwar hanesydd gyflawni eu swydd yn ffyddlawn, gan osod i lawr bob beth a welsant ac a glywsant, a gadael y pwnc mawr hwn allan? Os oedd y fath awdurdod i'w osod ar ysgwyddau dyn, y mae yn syn na byddai crybwylliad am yr amser y cymerodd yr urddiad cyntaf le, dull ac amgylchiadau yr ordeiniad, ynghyd â natur, rheolau, a therfynau y fath swydd bwysig.

Y mae hòniad mor ddisail yn cynnwys cymhelliad ar y byd i gredu celwydd, ac mewn effaith yn gyhuddiad ar ysgrifenwyr sanctaidd y Bibl o anghywirdeb ac anffyddlondeb, o herwydd y mae yn anmhosibl derbyn y fath haeriad megys gwirionedd, heb ddiystyru y dystiolaeth ddwyfol, o fewn i'r hon nad oes son am sefydliad penaeth yr eglwys, ac eneiniad pendefig apostolaidd; er fod y cyfryw uchafiaeth i'w briodoli, meddant hwy, i ryw ddyn, yn erthygl yn y ffydd Gristionogol, a'r ammheuaeth lleiaf yn ei gylch yn ddamnedigaeth i'r enaid.

Y mae yn ddigon amlwg fod yr Arglwydd wedi gosod swyddogion yn ei eglwys; ac mor amlwg a hyny, i'r dynion a osodwyd ganddo gael eu tueddu mewn twymyn o hunanoldeb, i ymgynhenu ynghylch y flaenafiaeth. Pa ham y darfu iddynt ymryson am beth mor wael, y mae yn anhawdd penderfynu, oddieithr i'r hyn a ddywedodd yr Iesu am ei ymadawiad beri iddynt feddwl y byddai i'r holl ofal ddisgyn arnynt hwy ar ol ei farwolaeth ef. Yr oedd newydd ddyweyd wrthynt, "Ac yn wir y mae Mab y dyn yn myned, megys y mae wedi ei luniaethu." Y ddau fater a ddaeth o dan eu sylw mewn canlyniad ydoedd, ymholiad pwy oedd yr hwn a'i bradychai ef, a "pha un o honynt a dybygid ei fod yn fwyaf." Pe chwiliem holl eiriau yr efengyl, gan ystyried pob amgylchiad a gymerodd le mewn cysylltiad â Christ, ei eglwys, a'i ddysgyblion, byddai yn anhawdd cyfarfod âg achlysur mwy priodol i athrawiaeth y flaenafiaeth ddyfod i'r golwg na hwn, pe buasai sail iddo. Yn wir, yr oedd yr amser y fath, y buasai yn anmhriodol oedi egluro peth o gymaint pwys hyd ryw dymmor dyfodol, am fod awr y brofedigaeth mor agos—yr Iesu ar gael ei ddal, efe ei hunan wedi hysbysu hyny, a'i ddysgyblion yn dystion o'i eiriau. Ond tybiwn, er mwyn rhesymu, nad oedd y flaenafiaeth wedi ei sefydlu o'r blaen, onid oedd ymadawiad buan y Gwaredwr â'r byd yn galw am i ran mor bwysig o'i destament gael ei orphen y noson hono, ac yntau i fod yn y ddalfa cyn y tywynai haul dranoeth ar y byd? Ond, a chaniatâu fod y cyfryw urdd wedi ei sefydlu ar ryw amser blaenorol, pa alwad oedd i'r dysgyblion ymryson ar fater mor oleu? O'r tu arall, tybiwn fod yr Iesu wedi ordeinio y flaenafiaeth, ac eisoes wedi ei hysbysu i'w ddysgyblion, ond iddynt fethu deall meddwl yr athraw, yna deuai dau amgylchiad, y naill mor bwysig a'r llall, a'r anghenrheidrwydd am ddyweyd, Y mae Pedr, Ioan, neu rywun arall i fod yn ben, a phawb i fod yn ddarostyngedig i'w farn anffaeledig ef. Yr amgylchiad cyntaf fuasai, aneffeithiolrwydd dysgeidiaeth Crist i'w ddysgyblion hyd y pryd hwnw, am un o'r pethau mwyaf pwysig i'r eglwys ei wybod o hyny hyd ddiwedd amser. Ond pwy a feiddiai feddwl felly am yr hwn sydd yn hanfod doethineb! A oddefir i ddyn sefyll yn lle Duw, a chyfarch y Bendigedig ar derfyniad ei weinidogaeth gyhoeddus, fel un wedi

"tywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth?" Na, y mae gwir fawredd yn gynnwysedig mewn dwyn pethau mawr yn bethau eglur. Peth mor fawr, na fedrodd neb, hyd yn nod y rhai a fostiant anffaeledigrwydd, ydoedd rhoddi llygaid i ddyn dall o'i enedigaeth; ond nid oedd y weithred hono yn rhy fawr i'r Iesu ei chyflawni, nac yn rhy fawr ychwaith i'r dall ddeall yr hyn a ddywedodd yr Iesu wrtho; ac er fod y ffordd yn dywyll fel y fagddu o'r fan hono hyd Lyn Siloam, y cardotyn dall a ymlusgodd yno, a chyn diwedd y Sabboth, dychwelodd wedi cael ei olwg. Bu yr Iesu yn nghymdeithas ei ddysgyblion yn hir; do, yn ddigon hir i'w dysgu yn athrawiaeth y flaenafiaeth, heb adael y trefniant hyd y nos y bradychwyd ef; a phe buasai hyny wedi ei hysbysu yn flaenorol, nid diareb dywyll fuasai y cyfryw ddadguddiad, ond gosodiad pendant a barai i'r holl ddysgyblion ddeall fod teyrnlywodraeth unbenaethol i fod. Ond pe caniatäem y dybiaeth fod Crist wedi hysbysu hyn yn arallegol, yn ddammegol, neu mewn diareb annealladwy (yr hyn nis gellir ei gredu), wele yn y fan yr ail amgylchiad yn dyfod i mewn, sef ymryson y dysgyblion ar y pwnc penodol, yr hyn a barai i bob aralleiriad gael ei gyfnewid am lafariad eglur, mewn geiriau tebyg i hyn, "Yr wyf fi, Mab y dyn, yn myned, megys y mae wedi ei luniaethu; gadawaf chwi ar ol, i arolygu holl achosion fy nheyrnas, yn ysbrydol ac yn wladol; nid oes dadl i fod pwy fydd fwyaf; yr wyf yn ethol hwn a hwn i fod yn bab, dau o honoch yn archesgobion cardinalaidd, a'r lleill yn ddeoniaid, yn esgobion, ac yn offeiriaid;—gochelwch alw y pab yn *frawd*—eich *tad* a fydd efe; pan y nesaoch ato, syrthiwch o'i flaen, cusenwch ei droed, a thelwch iddo bob gwarogaeth fo yn deilwng i un sydd i'w gyfrif yn beriglor cyffredinol yr holl fyd; o dan yr offeiriadaeth y mae chwech neu ragor o urddau i fod; rhenir y rhai hyny rhwng y deg a thriugain eraill o'm dysgyblion, a bydd y swyddau hyny yn risiau i gyrhaedd yr offeiriadaeth, ac o fewn yr offeiriadaeth y mae amryw raddau o swyddau—rhai yn uwch ac eraill yn is." Ond er fod yr achlysur yn un cymhwys i'r Iesu lefaru felly, pe buasai y cyfryw flaenafiaeth wedi ei fwriadu i fod yn yr eglwys, er hyny ni ddyferodd gair dros ei enau er cefnogi y fath beth; am hyny dylai yr "hen fam" ymattal rhag cyhoeddi ei melldigedigrwydd uwch ein penau, am na welsom yn ngeiriau ein Harglwydd arwydd am ddim o'r fath—ni ddarfu iddo enwi neb i fod yn esgob cyffredinol, ni soniodd air am *acolyte*, *exorcist*, *sector*, na cheidwad y ddôr, megys is-swyddwyr. Dywedodd lawer am heddwch, cariad, gostyngeiddrwydd, hunan-ymwadiad, ac undeb; ïe, gosododd y rhinweddau hyny fel dyledswyddau ar yr apostolion i'w harfer tuag at eu gilydd, a thuag at bawb. Gyda golwg ar y swyddau, dywedir gan Paul, "Efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon." Mewn man arall, "A rhai yn wir a osododd Duw yn yr eglwys;"—nid yn y byd, cofiwn, ond yn yr eglwys,—"yn gyntaf, apostolion; yn ail, prophwydi. Peth chwithig iawn i Paul anghofio dyweyd, "Yn gyntaf y pab, yr esgob cyffredinol; yn ail, yr archesgob cardinalaidd, neu cochdoron," a pheth mwy chwithig yw, yn ein golwg ni, gyfrif am ei amryfusedd ef; ond y mae yn debyg, pe delai y mater hwn yn erbyn yr apostol, y cymerai yr Arglwydd ei blaid, gan gyfeirio at ei eiriau penderfynol ei hun ar y mater, pan y tawelodd yr ymryson a grybwyllwyd. "Pwy fydd fwyaf?" oedd y gofyniad; a'r atebiad oedd, "Y mae breninoedd y cenedloedd yn arglwyddiaethu arnynt,

a'r rhai sydd mewn awdurdod arnynt a elwir yn bendefigion; ond *na fyddwch chwi felly:* eithr y mwyaf yn eich plith chwi bydded megys yr ieuangaf:" neu, "yr *hynaf* yn eich plith chwi bydded megys yr ieuangaf." Yr hynaf oedd Pedr. Pedr, medd Rhufain, a osodwyd yn oruchel, uwchaw pawb, a phawb i fod yn ddarostyngedig iddo—bydded hwnw, meddai Crist, megys yr ieuangaf, "a'r penaf," sef Pedr, "megys yr hwn sydd yn gweini." Os sylwir ar y geiriau canlynol, y mae athrawiaeth y flaenafiaeth yn cael ei thaflu i warth tragywyddol—y duedd ymchwyddedig at uchafiaeth eglwysig a gondemnir yn hollol. Yno y mae'r Arglwydd, nid yn unig yn addysgu ei ddysgyblion â gwersi gostyngeiddrwydd, gan eu hanfon i gymeryd esiampl oddiwrth bethau llai na hwynt eu hunain; darfu iddo ar dro arall gymeryd y llwybr hwnw, yn wyneb dadl a gyfododd yn eu plith "pwy a fyddai fwyaf o honynt?" "A'r Iesu, wrth weled meddwl eu calon hwynt, a gymerth fachgenyn, ac a'i gosododd yn ei ymyl;" tynodd gasgliad oddiwrth yr amgylchiad, "Canys yr hwn sydd leiaf yn eich plith chwi oll, hwnw a fydd mawr." Ond gan na chafodd ei gynghor effaith briodol, trwy bortreadu bachgenyn o'u blaen, dygodd ger eu bron y tro hwn wrthddrych oedd yn fwy, yr hyn a atebodd y dyben, canys ni ddaeth pwnc y gader mwyach o dan sylw. "Canys pa un fwyaf," ebe fe, "ai yr hwn sydd yn eistedd ar y bwrdd, ai yr hwn sydd yn gwasanaethu? onid yr hwn sydd yn eistedd ar y bwrdd? eithr yr ydwyf fi yn eich mysg fel un yn gwasanaethu." Ni ddarfu i Grist ddyweyd nad oedd awdurdod swyddol gan ei weision i weini er adeiladaeth yr eglwys; ond am arfer arglwyddiaeth, neu yn hytrach, träarglwyddiaeth ysbrydol, nis gallai ddefnyddio iaith gryfach i'r dyben o gondemnio y cyfryw egwyddor; ac nis gellir edrych ar honiadau Eglwys Rhufain ar y mater hwn ond gwrthddywediad mewn gair, ïe, gwrthweithrediad hollol yn erbyn egwyddorion pendant Pen mawr yr eglwys, yr hyn a deilynga iddi hi y cymeriad o *Anghrist.*

Y mae yn anhawdd dirnad pa fodd y gallai sect o bobl, o dan yr enw "eglwys" i'r addfwyn a'r gostyngedig Iesu, ddwyn ymlaen y fath lywodraeth eang, ac ennill y fath ddylanwad cyffredinol ar y byd, nes dwyn teyrnasoedd cyfain, ïe, ymherawdwyr, breninoedd, a phendefigion cedyrn, o dan ei hawdurdod, a hithau, a'r cwbl a berthyn iddi, mor groes i ysbryd Crist. Gwirionedd yw fod ei llywodraeth yn fawr—nid oes neb yn e ammheu; y grym sydd yn cael ei hòni gan Rufain a addefir yn rhwydd: ac er yr edrychir ar y brophwydoliaeth am syrthiad Babilon fawr fel peth sicr o gymeryd lle, nid oes sicrwydd, er hyny, nad ä Babilon eto yn fwy cyn y syrth. Ond pa fodd y darfu iddi besgi a chryfäu i'r fath raddau, nid oes reswm gwell na'i bod yn eglwys ddaearol, wedi cymeryd benthyg yr enw o Gristionogaeth, gan ymlynu wrth egwyddorion y byd—gwisgoedd crefydd a chorff pechod—ymddangosiad y briodasferch, gwraig yr Oen, ar ei gwyneb, ond ystrywiau dichellgar y sarff yn ei holl weithredoedd. Os bernir y desgrifiad yn angharedig gan rywun, cofied nad ydym ond yn y porth eto. Crybwyllwyd lawer gwaith gan bleidwyr y Babaeth, yn Nhŷ y Cyffredin, pan y tywelltid syniadau y genedl ar haerllugrwydd epistol y pab, fod y gair a'r gair yn rhy anhael tuag at eu cyd-gristionogion; yr oedd crwyn yr hen bechaduriaid mor dyner, prin y gallent oddef clywed eu hanes: dylasent, yn hytrach, ddiolch mai nid Paul a Phedr oedd yn cynnrychioli y wlad, onidê, buasai y rhegfëydd a ddisgynodd ar ben Mr.

Drummond wedi eu harbed gan lewygfëydd o dan areithau yr apostolion. Nid ein hamcan yw trin a chondemnio Pabyddion fel dynion, a phenderfynu yn rhy galed am bawb a broffesant y ffydd Babaidd; y mae yn bosibl fod rhai pobl syml wedi byw o fewn i'w chyfundeb, heb y manteision sydd genym ni i farnu rhwng gau a gwir;—diammhau fod llawer wedi teimlo pangfeydd argyhoeddiadol, megys Luther, ond heb y penderfyniad a gafodd ef i ddyfod allan o honi hi. Y mae ffordd yr Ysbryd mor ddyeithr—ein dyledswydd fydd gochel esgyn i orseddfainc barn; rhai o honynt a gadwyd, fe ddichon, yn yr oesoedd tywyll, ac mewn oesoedd diweddarach, "megys trwy dân." Ar yr un pryd, nid oes i ni ran yn y Babaeth fel cyfundraeth, am fod pob ymchwiliad i'w hanes yn profi ei bod yn drefniant cyflawn o bob twyll, ac yn un o'r sefydliadau mwyaf pwrpasol a ddyfeisiwyd er gwneyd croes Crist yn ofer.

Beth pe darllenem eiriau Iesu Grist, wrth gyfarch ei ddysgyblion; ei annogaethau at faethu rhinweddau Cristionogol? sylwn ar ei bregethau cyhoeddus, a'i ymddyddanion personol. I gael cynllun o'r hyn a ddylai eglwys fod, bydded i ni astudio yr hyn a ddywedodd: ond yn y fan, wele yr eglwys haerllug yn dyfod ymlaen, gan honi mai *unig* wraig yr Oen yw hi; nid ei bod yn eglwys, ond nad oes yr un eglwys arall, ac nas gall un arall fod; ac heb wrid ar ei gwyneb, hi a ddywed mai Crist yw deddfroddwr ei chyfreithiau. Y mae hyn yn galw arnom i gymharu Crist a Rhufain â'u gilydd, gan edrych ar y ddau ar unwaith: ond ofer fydd y gwaith; gwyddom hyny cyn dechreu. Os ymofynir am yr egwyddor oedd yn ysgogi Crist drwy ei fywyd—cariad oedd hòno; y gorchymyn newydd a roddodd i'w ddysgyblion oedd cariad, yr esiampl a osododd i fyny o'u blaen oedd cariad, a'r egwyddor hòno oedd i fod yn brawf o'u perthynas gyfammodol âg ef; "Wrth hyn y gwybydd pawb mai dysgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad tuag at eich gilydd." Os cariad yw y prawf i adnabod y gwir ddysgyblion, hwn yw'r prawf i ninnau farnu Rhufain wrtho; gan hyny, awn yn araf i ymweled â'r "hen fam sanctaidd"—ceisiwn ei hadnabod wrth yr egwyddor fawr oedd mor amlwg yn "ei Phriod;"—ai cariad Crist a'i hysgogodd hi ymlaen?—ai yr un egwyddor efengylaidd a'i cadwodd ac a'i llwyddodd mor fawr?—ai y teimlad nefol hwnw wnaeth i'w hoffeiriaid, yn lle porthi eu praidd, droi allan yn fleiddiaid rheibus? CARIAD!—ai o dan arweiniad yr ysbryd hwn y mae yr *eglwys apostolaidd* wedi arfer y fath dräarglwyddiaeth ar y bobloedd, nas gellir ei gyfrif yn ail, hyd yn nod i ormesderau Rhufain baganaidd? CARIAD!—ai gan yr hwn a ddywed, "Eithr y mwyaf yn eich plith chwi, bydded megys yr ieuangaf," y dysgodd y pab y ffordd i wneyd ei isweinidogion yn gaethion iddo, am fod hyny yn hanfodol i'r trefniant? Carem yn fawr weled darluniad o "ddylanwad cariad Crist ar ei eglwys," wedi ei ddwyn allan gan bab—ni byddai genym wrthwynebiad i'r pab presennol draethu ar y mater, gan roddi ei olygiadau pan yn filwr o dan Pius VII, neu wedi iddo fyned yn bab ei hun. Onid yw yn beth eithaf rhesymol i ddysgwyl am yr arwyddion amlycaf o gariad y Gwaredwr oddiwrthi, gan mai o fewn cyfundeb Rhufain *yn unig* y mae canlynwyr yr Oen i'w cael? Gofynwn, ac atebed yr "hen fam," ai ei gariad ef a'i doniodd hi i allu ffugfathu ei rhyfeddodau, er twyllo y byd? Ai y dymher anymladdgar oedd yn mynwes Mab Duw a gododd Rufain i lunio rhyfeloedd ysbrydol y groes yn erbyn y saint? Cariad, ai ê! Y mae yn briodol

gofyn, Beth a olygir wrth gariad? Ai cynhyrfu y naill wlad yn erbyn y llall?—ai ymyraeth yn yr holl gwerylon gwladol, trwy ba rai y gallai y pab eangu ei lywodraeth, a chryfâu ategion ei deyrnas ysbrydol? Os hyny a olygir, y mae yn rhaid cyfaddef fod Rhufain yn enwog; oblegid yr un awydd gorwancus am gyfoeth, grym, a dylanwad, ag a welir yn y byd yn gyffredin, a welir ynddi hi: ac os darfu i gynllwynion teyrnasoedd y byd, heb gysylltiad â chrefydd, derfynu mewn llofruddiaeth miloedd, y mae Rhufain, â'r un ystrywiau, o dan rith gwir grefydd, wedi lladd ei myrddiwn.

Y mae y gwahaniaeth dirfawr sydd rhwng yr Eglwysi Pabaidd a Phrotestanaidd, yn debyg o ddwyn y mater o dan sylw mwy neillduol nag erioed, a hyny o herwydd yr adfywiad a'r cynnydd a gymer le yn yr Eglwys Babaidd, yn enwedig yn y wlad hon, cyn hir. Y mae yn ddyledswydd arbenig, gan hyny, ar bawb a broffesant ymlyniad wrth wirionedd diledrith yr Ysgrythyrau, i'w chwilio yn dda, gan wneyd eu hunain yn gyfarwydd hyd y mae yn bosibl â meddwl eu Hawdwr. Y mae adnabyddiaeth o'r Testament Newydd, yn ddiammhau, yn un o'r pethau blaenaf y dylid ymgyrhaedd ato, am mai dyna 'r allwedd a egyr y ffordd i ddeall y pwnc yn ei amrywiol gangenau.

Y mae cadw *cymeriad* Iesu Grist yn y meddwl, wrth sylwi ar bob cangen o hanes y Babaeth, yn dra anghenrheidiol. Dylai y Pabyddion mwyaf coelgrefyddol oddef hyn, tra y proffesant ef yn rhyw fath o Ben yr eglwys, er y buasai yn fanteisiol iddynt hwy (yn yr ystyr y mae yn fantais i ledanu cyfeiliornadau), pe na buasai hanes Crist ar gael; o herwydd y mae yn anmhosibl colli golwg ar ei ostyngeiddrwydd, hyd yn nod yn yr adegau hyny y byddai ei fawredd gogoneddus yn fwyaf canfyddadwy. A'r ddadl farwol yn erbyn y Babaeth, yw yr addfwynder anghymharol a berthynai i, ac a ymddysgleiriai yn mywyd y Cyfryngwr. Pan y cyhoeddwyd ei enedigaeth gan angylion, nid at Herod yr aethant â'r newydd, ond yn uniongyrchol at fugeiliaid Bethlehem; ac, a sylwi ar ei hanes, o'i enedigaeth hyd ei fedydd, symledd yw'r nodwedd amlycaf a welir arno; gwir, fe ddadganwyd ei fawl nes i'r byd wybod mai Tywysog gogoniant ydoedd, wedi i'r "Ysbryd ddisgyn fel colomen arno ef;" ond o ba le y daeth y llef hòno? nid o wersyll y rhyfelwyr, nac o lŷs Rhufain Baganaidd; ond yr oedd y gogoniant mawr, â pha un yr arwisgwyd ei gymeriad ef, o natur anfeidrol uwch nag y medrai un gallu daearol osod llaw arno. Nid oedd yn rhwymedig i neb, nac yn ymddibynu ar neb am brofion o'i ogoniant. Ni bu un cynghreiriad rhyngddo âg un deyrnas ddaearol; ni ddarfu iddo alw byddinoedd ynghyd i sefydlu ei awdurdod trwy rym cleddyf. Os dadleuid ynghylch ei awdurdod mawr, nid oedd berygl i'r dadleuwyr gael eu taflu i ddaeardy am ddeng mlynedd, nes yr addefent mai ef oedd y gwir Fessiah; yn hytrach na hyny, goddefai ei lusgo i'r chwiliadlys ei hunan; a chan iddo ddyweyd, "Fy mreniniaeth i nid yw o'r byd hwn," profodd hyny, drwy dderbyn pob ardystiad i wirionedd ei ddwyfoldeb o fyd arall; —felly y bu pan y daeth y llef oddiwrth y mawr ragorol ogoniant, "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Wel, os ei eglwys ef yw Rhufain, yn mha le y gwelir y cyffelybrwydd? Mewn gair, nid oes y fath beth ag eglwys i Grist ar y ddaear, os nad yw y cyfundeb a deilynga yr enw i ddwyn mwy o ddelw Crist na dim arall tuallan iddi; gan hyny, y mae ei gymeriad crefyddol ef, a'i ostyngeiddrwydd mawr, yn gynlluniad eglur o'r un anian a lywodraethai y ddyweddi hyd ddiwedd y byd. Ac o

rhoddwyd ei hunan-ymwadiad *ef fel esiampl* o'r hyn fyddai yn dueddiad naturiol i'w grefydd ef ar ei wir ganlynwyr, yna nid oes gwaith ymdroa— awn ar unwaith at droed gorseddfainc y pab—cymerwn ef ar ei air, mai efe yw pen cyffredinol yr eglwys ar y ddaear—ei fod yn beriglor ysbrydol Crist, a gofynwn iddo ef a'i eglwys anffaeledig i ddangos eu tebygolrwydd iddo? Ni bydd hyn yn ofyn gormod—ceisir yr un peth gan bawb, heb olwg ar broffes na honiad o berffeithrwydd; ond os yw cyfrifoldeb dyn i Dduw yn ei rwymo i gymeryd Mab Duw yn esiampl, er na bydd y cyfryw gyfrifoldeb yn seiliedig ar broffes yr enaid ei hun, ond ar alwad gyffredinol yr efengyl, pa faint mwy yr eglwys hòno a hòna yn gadarn ei bod yn anffaeledig?

Beth pe rhoddid darluniad o fuchedd Eglwys Rhufain, y fuchedd gyfatebol i'r berthynas y mae yn hòni i fod rhyngddi a Christ, a'r darluniad i'w dynu oddiar eiriau noeth y Bibl am Grist a'i eglwys, heb un wybodaeth gan y darluniwr am hanes Eglwys Rhufain, rhagor na'i honiad hi ei bod yn "wraig yr Oen?" Byddai yn rhaid i'r darluniad ei gosod hi i ymddangos yn [illegible] mwyaf cyflawn o sancteiddrwydd a welwyd erioed ar wyneb y ddaear, [illegible] â hi ei hun, mewn cysylltiad anwahanol â phob rhinwedd, [illegible] dawn, ac awdurdod apostolaidd; ymddangosai ar wyneb y traethawd yn [illegible], wedi ei hamgau â phob rhinwedd dda, wedi ym[illegible] â phob cyfrwysdra i dwyllo, heb erioed ddynesu at ysbryd y byd [illegible] adeiladu ei llywodraeth ysbrydol ar golofnau daearol! Ni [illegible] am uchelfrydigrwydd meddwl, trachwant diorphwys am [illegible] carcharu, a lladd; dim tuedd at falchder, hunan-elw, [illegible] perthynol iddi; ac ond odid na byddai un [illegible] cymeriad, sef, *ei diniweidrwydd mawr!* Paham lai, [illegible] yn "Dywysog tangnefedd?" Oni byddai yn [illegible] am ei hanes i'w chyfrif hithau yn "Dywysoges [illegible]" [illegible] o berthynas yr eglwys â Phen yr eglwys, [illegible] y cyfryw bethau gwych, goruchel, a chlod[illegible] eglwys fod felly, ond am na fedr eglwys an[illegible] am ein bod yn ei rhwymo hi i fod yn bor[illegible] cariad, a phob gweithred dda; canys yn [illegible] pawb a ymneillduant oddiwrthi fel [illegible] a drwg, heb hawl i, na phroffes o anffael[illegible] eraill y rhaid i Rufain fod, ond llawer [illegible]

[illegible] yn ei gwisgwedd gwychaf, ac yn ol tystiol[illegible] ei hun, yn ei phrofi yn anaddas i binio [illegible] mor gyfoethog o honiadau ar [illegible] i ni gymeryd golwg ar y sail ar ba [illegible] a hwnw yw—

[illegible] pa beth all hyny fod? Y [illegible] i'w dysgyblion hi. Ah! y [illegible] beth a feddylir wrth y term, [illegible] gan bobl fawr, am y [illegible] annealladwy i'r werin, [illegible] am y peth sydd yn [illegible] mae trigfan anffael[illegible] ganddi ddangos yn mha

beth y mae anffaeledigrwydd yn gynnwysedig, y mae yn gorfod cyfaddef fod y mater heb ei benderfynu: a'r canlyniad yw, fod yr hyn a honir gan y naill lŷs, yn cael ei wadu yn ei grynswth gan y llŷs arall. Ar ol i un pab anffaeledig ddyweyd mai mewn cynghor rheolaidd, wedi ei alw gan yr esgob cyffredinol, y mae trigle anffaeledigrwydd, cyfyd pab arall yn yr oes a ganlyn, o dan ddylanwad anffaeledigrwydd mor bur a'r eiddo yntau, i hòni mai ynddo ef ei hun, heb un cysylltiad â chynghor eglwysig, y mae. Pe beiddiai aelod cyffredin fod mor ëon a gofyn i'w offeiriad, "Syr, addysgwch fi yn yr athrawiaeth o anffaeledigrwydd; pwy sydd yn anffaeledig?" yr atebiad annybenol fyddai—"Yr eglwys, yr eglwys, bid siwr." Ped anfonid y gofyniadau canlynol i'r "*Tablet*," neu ryw gyhoeddiad Pabaidd arall, gallem sicrhau y byddai yn anmhosibl tynu allan atebiad heb ei fod yn agored i'w wrthbrofi, (nid genym ni) ond gan bwyllgor eglwysig y Babaeth ei hun. Y gofyniadau a gynnygiem fyddai y rhai canlynol;—Yn 1af, Ai yn yr eglwys gyffredinol ar wasgar dros yr holl fyd y mae anffaeledigrwydd yn cartrefu? Neu, yn 2il, Ai yn y pab? Neu, yn 3ydd, Ai mewn cynnadledd gyffredinol yn annibynol ar y pab? Neu, yn 4ydd, Ai mewn cynnadledd gyffredinol, â'r pab yn ben arni, y mae cartrefle anffaeledigrwydd? Os na fedr neb o ddysgedigion y Babaeth ateb un o'r holiadau uchod, heb fod yn agored i gwrdd â gwrthddadl o ryw ŵr o wersyll "ei Sancteiddrwydd," onid yw hyny yn brawf o dwyll yr honiad?

Y mae priodoli i unrhyw ddyn, neu gymdeithas o ddynion, y cyfryw wybodaeth ddigyfeiliorn am bethau mawrion Duw, a barn ddifeth am ei fwriadau dyfnion ef, yn rhyfygus ofnadwy. Y mae meddwl am y geiriau gwenieithgar a ddefnyddir i fyrlymu y fath rith foliant ar greadur llygredig, yn dwyn achreth a dychryn i'r fynwes, megys dyweyd fod y "pab yn farnydd anffaeledig, yn gweled y cwbl mor eglur a Mab Duw;" ond rhag y gall y fath gabledd fod yn beth ammheus gan y rhai hyny na bu pwnc y Babaeth yn destun eu myfyrdod, bydded iddynt farnu drostynt eu hunain, nid oddiwrth ein dywediadau ni, ond oddiar honiadau yr eglwys ei hun.

Er mwyn trefn, y peth blaenaf a eilw am ein hystyriaeth yw y sefyllfa anmhrofedig y mae y mater wedi ei adael ynddo. Ar ol defnyddio pob mantais cyrhaeddadwy mewn dysg, cyfoeth, a dylanwad, i fod yn wasanaethgar i lunio cyfundraeth anghrist, y mae y bwystfil yn methu yn ei garnau. Pan y byddo y sylfaen yn ddrwg, ofer ymddiried i'r adeiladaeth. Nid yn unig y mae prif bwnc y Babaeth yn dwyllodrus, ond y mae yn anmhrofedig, ac yn ddiffygiol o gwrdd âg ymchwiliad y Pabydd ei hun; felly y mae pob anwiredd yn ei natur—profa ei fodolaeth, ei annhegwch, a'i anghysondeb, heb i neb ei edliwio. Caniataer i ninnau ryfeddu na buasai crochanau y ddinas sanctaidd wedi cydferwi y bresych anffaeledigawl, yn lle gadael y mater yn agored i ddadl; yn lle hyny, y mae Rhufain er's oesoedd wedi galw ar y byd i'w chydnabod yn anffaeledig, ond hyd heddyw heb ddangos prawf o'i hanffaeledigrwydd mewn dim, oddieithr ei fod mewn croesweled a gwrthddadleu ar y mater. Yn wyneb hyn, beth sy genym i'w wneyd yn well nag edrych ar y mater yn ei garpiau rhwygedig, a chynnyg i'r darllenydd yr hyn a rydd Rhufain i ni; ac os bydd y pwnc o wir werth, derbynier ef; os na fydd, cofiwn y canlyniad, fod yr holl gyfundraeth Babyddol yn sefyll neu yn syrthio yn ol y teilyngdod a welir yn y gangen hon o athrawiaeth Rhufain. Cymerwn olwg yn—

1. *Ar wahanol gyfundraethau yr Eglwys Babaidd ar sefyllfa anffaeledig-*

rwydd. Er y myn Rhufain bod ei heglwys hi yn un; hyny yw, ei bod yn gweled llygad yn llygad; yr ydys wedi cael ei bod yn ymranol yn hwn, ei phrif bwnc anwylaf. Ar ol casglu ei hamrywiol benderfyniadau ynghyd, gwelir fod ynddi bedair plaid yn methu gweled llygad yn llygad ar un gangen, sef man neu sefyllfa benodol anffaeledigrwydd.

Y blaid flaenaf a genfydd anffaeledigrwydd *yn yr holl eglwys*; ac ar hyn y mae dadraniadau bychain; yn 1af, Anffaeledigrwydd yn yr eglwys yn gyffredinol, gan olygu *corff yr offeiriaid*, ar wahan oddiwrth y bobl, am na chyfrifir yr olaf yn yr ystyr hwn yn cyfansoddi un rhan o'r eglwys: yn 2il, Yn yr esgobion, fel cynnrychiolwyr yr eglwys, heb fod yn gynnulledig mewn cynnadledd reolaidd.

Yr ail blaid a briodola anffaeledigrwydd *i gynnadledd wedi ei chyfansoddi o esgobion*, os, yn 1af, Y bydd penderfyniadau y gyfryw gynnadledd yn *gymeradwy* gan yr holl eglwys; neu, yn 2il, Pe byddai y cyfryw benderfyniadau yn *wrthwynebol* gan yr holl eglwys. Digrifol iawn, onitê?

Y drydedd blaid a wel anffaeledigrwydd, os bydd *y gynnadledd a'r pab* mewn undeb â'u gilydd, a hyny yn y drefn ganlynol;—yn 1af, Os bydd y gynnadledd wedi ymgynnull trwy *alwad* y pab; yn 2il, Os bydd wedi ei *chadarnhau* gan y pab; yn 3ydd, Os bydd y gynnadledd wedi ymgynnull *trwy alwad y pab*, a'i phenderfyniadau *yn gymeradwy gan yr holl eglwys*, neu yr offeiriaid; yn 4ydd, Os bydd y gynnadledd *wedi ei hawdurdodi gan y pab*, ac ar ol hyny ei gymeradwyo gan yr eglwys.

Y bedwaredd blaid a wel anffaeledigrwydd *yn y pab ei hun*, ond yn agored i bedair o ddadraniadau bychain; yn 1af, Y pab ei hun, pan yn penderfynu yn *swyddol*; yn 2il, Y pab, ac *ychydig o esgobion*; yn 3ydd, Y pab, pan y cymeradwyir ei benderfyniadau gan yr holl eglwys; yn 4ydd, Y pab ac ychydig o esgobion, os derbynir eu penderfyniadau gan yr eglwys yn gyffredinol.

Y mae y golygiadau uchod yn gyson â'r pedair cyfundraeth a addefir fod yn yr Eglwys Babaidd, ar y pwnc sydd o dan ein sylw, ac wedi eu cyhoeddi gan yr Esgob Hay. Y ddwy gyfundraeth flaenaf yn yr eglwys heb y pab, a'r ddwy olaf yn y pab a'r eglwys ynghyd, fel y maent yn ymddangos yn eu rhaniadau a'u dadraniadau gwahanol.

Er dyben o geisio profi y mater disail hwn, y mae y ffalsedd mwyaf yn cael ei arfer: rhesymir mewn cylch drygionus, a chasgliad a wneir o hono yn y diwedd, sef, bod anffaeledigrwydd yr eglwys i'w gredu oddiar awdurdod yr ysgrythyrau, a bod awdurdod yr ysgrythyrau i'w dderbyn yn ol barn anffaeledig yr eglwys. Y mae Dr. Milner, pan yn dadleu â Phrotestaniaid, yn ceisio profi anffaeledigrwydd allan o'r ysgrythyr, ond yn gwrthod iddynt hwy yr hawl o farnu ar yr un tir; ac "am fod yr ysgrythyr," medd efe, "yn perthynu i, ac yn etifeddiaeth yr eglwys, nid oes ond yr eglwys yn alluog i'w hegluro." A'r ffordd ardderchog y mae yn ei chymeryd i ddirmygu golygiadau Protestaniaid yw, trwy ddyweyd, "Y mae yn anmhosibl i wir feddwl yr ysgrythyr fod yn erbyn Eglwys Rhufain a'i hathrawiaeth. Y mae hi yn deall ac yn deongli yr ysgrythyrau yn wahanol i Brotestaniaid, am hyny y mae yn rhaid eu bod hwy yn camgymeryd, am eu bod heb ddeall ei meddwl anffaeledig hi." Y mae yn anhawdd gwybod pa un ai tosturio wrth eu gwendid, ai ynte dirmygu eu hymchwydd hunanol, a ddylid. Nid oes dim tebyg i nerth yn eu rhesymau, ond ffoledd gwag, heb un nodweddiad gwell i'w osod ar y fath swyf balch, ond ystryw dichellgar mab y golledigaeth.

A phwy ond Pabyddion, ie, eu hawdurdodau blaenaf yn wir, a glywir yn cwyno o herwydd y gwahanol farnau sydd ymhlith Protestaniaid, fel pe byddai y wynias trwy eu gwaed wrth feddwl am ein hanghytundeb? ac amrywiaeth credoau yr eglwysi Protestanaidd a bair iddynt ymboethi o herwydd ein tywyllwch: yr holl bleidiau hyn yn wahanol i'w gilydd, a phawb yn gyfeiliornus, am eu bod heb ei chydnabod hi! Gwrandawer ar Rufain yn myned ymlaen, a hi a ddywed mai y drwg yw, fod caniatâd i bob dyn i farnu drosto ei hun. Ah! ai dyna dy glefyd mewn gwirionedd? Beth hefyd? Wel, "peth rhesymol yw cael rhyw farnydd." Hwyrach mai math o *stipendiary magistrate* yw y barnydd y mae yn crybwyll am dano,—cyflogddyn ysbrydol, a fedr benderfynu dros bawb, yn mhob pwnc a berthyn i fywyd tragywyddol, gan ostegu pob llais, ac attal pob rhagdremiad dynol; mewn geiriau eraill, ni ddylai neb feddwl—y mae Rhufain wedi meddwl dros bawb. Beth, a oes dim i'r bobl wneyd? O oes, y mae iddynt hwy lawn ryddid i dalu, ond ni chânt feddwl; caniateir iddynt y fraint o fyned i waelod eu llogellau, ond nid oes cenad iddynt agor eu meddyliau. Y dargynnygiad a wna Rhufain ar y mater yw hyn,—"Bod eglwys anffaeledig yn anghenrheidiol, a bod anghenrheidrwydd y peth yn brawf ei fod wedi ei gael; a chan fod anghenrheidrwydd am anffaeledigrwydd, fod yn rhaid penderfynu ei fod mewn eglwys; a chan ei fod yn perthyn i eglwys, nis gall fod ond yn Eglwys Rhufain; a chan nad oes awdurdod ond a ddeillia o Rufain, bod yr holl Brotestaniaid a ryfygent feddwl dim, ond yn ngoleuni ei hanffaeledigrwydd hi, yn wrthryfelwyr yn erbyn yr awdurdod, ac yn erbyn ordinhad Duw." Ant rhagddynt i hòni, fel ag y crybwyllasom o'r blaen, fod dwyfol ysbrydoliaeth yr ysgrythyr i'w brofi drwy draddodiad yr eglwys, a bod anffaeledigrwydd yr eglwys i'w brofi oddiwrth dystiolaeth yr ysgrythyr; ond nid yw yn ddigon i Rufain ddwyn tystiolaeth annibynol i ysbrydoliaeth yr ysgrythyr allan o draddodiadau yr eglwys, heb hòni mai hyhi sy wedi derbyn yr uchelfraint o egluro meddwl yr ysgrythyr i'r byd. Yma y mae y twyll mawr yn ei noethder yn ymddangos! Os yw yr eglwys mor anffaeledig, pa raid iddi, a hithau yn medru profi ysbrydoliaeth yr ysgrythyr drwy draddodiad, appelio oll at yr ysgrythyr am brawf o'i hanffaeledigrwydd ei hun? Os, yn ol Dr. Milner, y gelwir ar y byd i gredu fod anffaeledigrwydd yr eglwys wedi ei brofi ar awdurdod traddodiadau *cyn* i'r dystioiaeth sanctaidd ddyfod allan, yna nis gall yr ysgrythyr fod ond tyst is, tyst yn yr ail ddosbarth, na ŵyr neb a fydd anghen ei alw i mewn ai na fydd; a diammheu y medr Rhufain ei hebgor yn rhwydd, o ran un elw iddi hi o'i ddefnyddio. Ond fel y mae pethau yn sefyll, a hen feginau Rhufain wedi methu chwythu allan y lamp, nid oes ganddynt ond gwneyd y goreu o'r gwaethaf, gan droi goleuni y llusern i adlewyrchu ar gelwyddau Pabyddiaeth, gydag amcan i beri i wirionedd Duw bleidio cableddau damniol y dyn pechod. Och! Och! beth yw hyn ond dyfais i sefydlu anffaeledigrwydd eglwys wrthgiliedig oddiwrth Dduw, drwy ddyheuriad digywilydd o fod tystiolaeth gair Duw yn ei egluro! a phan yn methu cael y dystiolaeth yn eglur o'u plaid, gwysiant ger bron awdurdod yr hen ddeonglydd a fawr gerir gan y babaeth, sef traddodiad, pan yr edrychir ar draddodiad genym ni yn ddim amgen nag un o aelodau gwywedig y bwystfil.

Pan y mae Pabyddion yn beio Protestaniaid o herwydd eu bod yn rhan-

edig ar faterion perthynol i ffydd a bywyd tragywyddol, nid ydynt yn anghofio dyweyd eu bod hwy eu hunain yn cydweled, a'u bod yn cydweled am yr hawl sy gan Rufain i'w galw a'i chyfrif ei hun yn eglwys anffaeledig. Os gofynir iddynt am eu hawdurdod, dywedant fod ganddynt ffeithiau ac ysgrifeniadau, y rhai a gynnwysant egwyddor yr athrawiaeth. Os gofynir pa fodd y mae yr athrawiaeth hon yn cael ei hegluro, dywedant mai naill ai yn arwyddocaol, mewn tybiaeth, cyfeiriad at, hòniad, neu drwy hysbysiad. Heb adolygu y tir tywodlyd a gymerant i resymu ar bwnc o gymaint pwys, y mae yn briodol sylwi fod anffaeledigrwydd yn erthygl mor bwysig yn nghrefydd Protestaniaid ag ydyw gan Babyddion; yn unig fod y naill yn ei ganfod yn y Bibl fel dadguddiad o feddwl Duw, a'r llall yn haeru ei fod yn Eglwys Rhufain.

Y peth goreu fyddai dwyn y mater i'r prawf, er mwyn gwybod pa un ai Pabyddion ai ynte Protestaniaid sy yn ymranu a chroesdynu fwyaf ar y pen hwn, yr hwn sydd yn hanfod bywyd y Babaeth. Ar ol yr holl dwyll-ddadleuaeth o fod undeb golygiad a barn mor uchel yn Eglwys Rhufain, ni bu erioed ymffrost am beth mwy ffuantus. Y mae yn ddigon gwir y dylai Rhufain fod yn berffaith unol, yn enwedig ar bwynt sy yn sylfaen i'w holl honiadau eraill. Ond yn lle hyny, ar y mater hwnw y mae yn fwyaf rhanedig; a phwy ond hi a edliwia i Brotestaniaid o herwydd eu hanghytundeb? ond dangosed y "fam sanctaidd" yn mha beth y mae anghytundeb Eglwysi Protestanaidd Ewrop ar bwnc anffaeledigrwydd i ddechreu. Onid ydynt oll yn unfarn, yn 1af, Am y lle y mae yn hanfodi, sef yn nhystiolaeth y digelwyddog Dduw? Yn 2il, Onid ydynt o un feddwl nad yw ei hanfodiad mewn cynnadledd na phab, ac nad oes sail i'r cyfryw dybiaeth ond yn nychymygion dichellgar Eglwys Rhufain? Yn 3ydd, Onid yw barn Protestaniaid am y fan y mae anffaeledigrwydd, ynghyd â'r fan nad yw yn hanfodi, yn cytuno â golygiad yr eglwys yn yr oesoedd boreuaf? Y mae yn wir y dylid darllen ysgrifeniadau y tadau fel casgliad cymysglyd, yn cynnwys rhai tystiolaethau digon llymrig a gwael; ond er nas gellir cymeryd eu barn hwy fel rheol ddiberygl ar bob pwnc, ar yr un pryd y mae graslonrwydd eu hymadroddion yn teilyngu parch; ac er fod gormodedd o duedd at ofergoeledd yn eu syniadau yn aml, yr ydym yn barod i herio Rhufain i ddangos, os gall, allan o weithiau y tadau, unrhyw syniant ar anffaeledigrwydd gwrthwyneb i'r hyn y gall Protestaniaid gydsynio âg ef.

Ond y mae y dull ysgafn o daflu y mater heibio yn anmhriodol ynom ninnau. Onid oes tuedd ynom i wawdio y drychfeddwl o anffaeledigrwydd, yn lle ei brofi yn gyntaf i fod yn wir neu yn anwir? Paham na chaiff y mater hwn fyned drwy gynghaws rheolaidd fel pob mater arall; ac os na all ddal yr ymchwiliad sy briodol, ei gondemnio yn gyfreithlawn? Nid yw gwaeddi allan, "Dim Pabyddiaeth! dim Pabyddiaeth!" yn un prawf yn ei erbyn; ac nis gall proffes wrthbabyddol yr oes a aeth heibio, fod yn ddigonol i sefydlu barn yr oes hon. Dylem gyfaddef y gwir, fod proffes llawer o'r genedl yn ormod o faint i gyfateb â'r farn y mae yn seiliedig arni, a hyny yn mron ar bob mater crefyddol. Nid yw ffydd lliaws o'r Cymry ond mawrdrwst anhynod segurwyr, ar draul meddyliau rhai eraill. Wel, yn lle byw yn y bai, cynghorem y diofal i ddeffroi—darllened, gwrandawed, ac ystyried yn well; a'r canlyniad fydd, iddo weled a meddwl drosto ei hun, ac yna daw allan a'i farn fod y fath edryfiad balch a ffroenuchel yn dra phechadurus.

Y mae yn briodol cofio fod holl ofergoeledd Rhufain yn pwyso ar y maen haerdybiol yma, fel y pwysa adeiladaeth ar ei sylfaen. Bydd symudiad y sylfaen, pan y cymer hyny le, yn ddadymchweliad sicr ar yr holl gydwe fawr i gyd; ond tra y pery y sylfaen, ymlaen yr ä Rhufain, gan lithio eneidiau anwadal, a'u denu i roi coel i'w holl ofergoelion; o herwydd y mae yr ystyriaeth o anffaeledigrwydd eglwys yn rhwymo pawb i gredu yr eglwys hòno, beth bynag a ddywedo. Yn wyneb hyn, tybia rhai nad oes ond y dosbarth mwyaf anwybodus yn agored i'w twyllo. Ei fod yn hawddach hudo yr anwybodus na'r dysgedig a'r deallus, nid oes neb yn ammheu, fel y gwelir yn yr argraff a wneir ar filiynau o'n cydgreaduriaid truenus yn yr Iwerddon, y rhai a ellir eu galw yn genedl o gaethion i'r offeiriaid. Yr hyn a gredir ganddynt hwy yw, fod yr offeiriad yn gwybod y cwbl oll—mewn gair, ei fod yn hollwybodol—y gall ddwyn bendith neu felldith ar y sawl a fyno efe. Nid ydynt yn ammheus nad all eu gweithredoedd da a drwg fod yn hysbys iddo ef, er i filoedd o filltiroedd ysgaru rhwng y twyllwr a'r twylledig ar y pryd. Yr ystyriaethau hyn a'u cyffelyb a arbed y drafferth o ofni Duw; am fod ofni dyn, yr hwn a esyd ei hunan yn lle Duw, yn cynnwys holl rwymedigaethau moesol pob symlyn y gellir ei hydwyllo i mewn i'r rhwyd. Adroddwyd yr hanes canlynol wrthym gan ŵr cyfrifol, yr hwn a fu er's blyneddau yn ol yn llywyddu llong a hwyliai rhwng Iwerddon a'r America. Ar un tro, yr oedd ganddo ar y bwrdd ddau gant o Wyddelod. Cyn iddynt adael eu hoff wlad, daeth yr offeiriad, yr hwn a alwent "*Father Murphy,*" i ysgwyd llaw â'i hen ddysgyblion, ac wedi iddo dderbyn yr offrwm arianol o law pob un, gorchymynodd yntau y fendith. Ar ddymuniad y llywydd, yr hwn a wyddai rywbeth am gymeriad y Gwyddel, rhoddodd yr hen *Father* amryw rybuddion pwrpasol iddynt gyda golwg ar iddynt ymddwyn yn brydferth ar y fordaith; ond ar ol ychydig ddyddiau, cymerai gryn siarad le rhwng yr ymfudwyr, a chlywid bagad yn clebran ar unwaith; a'r cynllun i dawelu tymhestl y tafodau, a'r unig un effeithiol, fyddai gwaeddi allan, "*Hush! Hush! Father Murphy hears you!*" a'r cwbl a dawelai yn y fan, am nad oedd un a godai i ammheu hollwybodaeth *Father Murphy*. Anghreifftiau cyffelyb a geir mor aml, fel y mae yn hawdd canfod y dylanwad sy gan yr addysg Babaidd, yn enwedig ar y dosbarth mwyaf anwybodus o'r werin. Ond na fydded i ni feddwl mai rhyw ddosbarth anwareiddiedig, amddifad o alluoedd meddyliol, yw yr unig un a ellir ei dwyn o fewn i'r ballegrwyd; na, ysywaeth! y mae cynnwysiad y rhwyd yn profi i'r gwrthyneb; a'r ffordd y delir dynion a ddengys mai anffaeledigrwydd yw y groglath fawr, sy fel peiriant o drefniad uffern i hudo pob gradd o fewn iddi. Byddai yn hawdd nodi cewri cedyrn a ennillwyd i'r rhes, ie, ac a osodasant eu hunain ar ben arleng y fyddin Babaidd, drwy hudoliaeth y pwnc sydd yn awr o dan sylw:—yn unig coffâwn am Chillingworth, gŵr a ymdrechodd yn deg o blaid Protestaniaeth, ac a ddadguddiodd i'r byd dwyll Pabyddiaeth. Galwai Tillotson ef yn "ogoniant ei oes a'i genedlaeth;" ac mor rymus oedd ei ergydion, fel y dywedai un gŵr am dano, "pe buasai yn bosibl i ryw ddyn argyhoeddi y diafol, mai Chillingworth oedd hwnw." Ond er ei ddwyn i fyny a'i addysgu yn ffordd deall, nes ei wneyd yn alluog i hyfforddi eraill yn yr un egwyddorion, pwy ond efe a ymlithiodd i Babyddiaeth, ac i Babyddiaeth yn ei gwedd waethaf! Ymadawodd â Rhydychain, gan osod ei hunan o dan ddysgeidiaeth y Jesuit-

iaid, yn athrofa Douay. Ei resymau dros newidiad ei farn, a welir yn y ddau ofyniad canlynol a anfonodd at gyfaill iddo :—"Yn 1af, Onid yw yn amlwg allan o'r ysgrythyrau, ac ysgrifeniadau y tadau, wrth reswm, ac yn unol â daioni Duw, ac anghen y teulu dynol, fod anghenrheidrwydd am un eglwys anffaeledig mewn materion o ffydd? Yn 2il, A oes cymdeithas o ddynion yn y byd, heblaw Eglwys Rhufain, a fedr ymherio iddi ei hun y rhagorfraint o anffaeledigrwydd mewn materion o ffydd?" Ni roddodd y gofyniadau uchod er mwyn derbyn addysg pellach, oblegid cadarnhaodd fod ei farn yn benderfynol, drwy ddyweyd, "Ar ol i chwi ystyried y pethau hyn yn ddwys, yr wyf yn sicrhau i mi fy hun, y bydd eich penderfyniad yn gadarnhaol am y blaenaf, ac yn nacaol am yr olaf." Daeth Chillingworth yn rhydd o'r diwedd o'r rhwyd Jesuitaidd; ond nid oedd adferiad gŵr o'i fath ef ond eithrad yn wir. Y mae Pabyddiaeth yn borth sydd yn agor yn y ddau ben—un yn sugno iddo yr anwastad yn y ffydd, a'r llall yn taflu o hono i gyflwr diffydd. Y mae yn fath o fynedfa, trwy yr hwn y gyrir llawer i deimlo yn gadarn ar glogwyni peryglus anffyddiaeth, wedi methu cyrhaedd sefydlogrwydd barn ar egwyddorion Cristionogaeth. Y mae yn dra thebyg fod yr amryfusedd mawr hwn yn chwareu â meddyliau anwadal y dyddiau hyn. Nid yw y byd wedi ei berffeithio eto—y mae o'i fewn lawer a ddygant adenydd ar eu hysgwyddau bob amser, fel y byddont barod i gymeryd eu sodlau gyda phob awel dysgeidiaeth, heb ddim i wadalu y meddwi yn wyneb cyfeiliornadau. Pe gofynid i lawer un a fedr glebran drwy y dydd, beth yw ei feddwl, y gwir yw, nad oes ganddo yr un; afradaeth ar amser yw ymholi ynghylch egwyddorion y cyfryw—y maent heb ddim o'r *eiddynt eu hunain*, a'r lle y bo pegwn y gwynt, yno y gogwyddant.

Y mae miloedd yn Nghymru nas gellir eu gosod i lawr fel cymeriadau sigledig, ac eto heb gymeryd y pwnc hwn yn neillduol o dan eu sylw erioed, yr hyn, a dyweyd y goreu, a'u ceidw yn hollol wan ac anmharod i wynebu ymosodiad o bwys. Y mae mantais i gyfeiliornad lwyddo a ffynu, er y gall daliadau y cyfeiliornwyr fod yn ddisail, ac yn anghyson â'u gilydd, os bydd prif bwnc y cyfeiliornad hwnw yn un y bydd yn rhaid ei gael, er argynnal cangenau eraill yr athrawiaeth; am fod ffyniant y cyfryw bwnc yn tarddu, yn 1af, Oddiar fod y cwbl mewn perygl, os na all hwnw ddal i fyny; ac yn 2il, Am fod twyll ac anghysondeb y pwnc ar y naill du yn cynnhyrfu sêl anwybodus ei bleidwyr; ac ar y tu arall yn cyfateb âg anian lygredig y werin. Ofer dyweyd mai rhesymu a wna y byd,—yr hyn ydoedd gynt, ydyw eto, a'i breswylwyr yn "synwyrol i wneuthur drwg, eithr gwneuthur da ni fedrant." Yn wyneb hyn y mae yn briodol crybwyll, er mai Protestaniaid y mynwn ein cyfrif, hyny yw, ardystwyr yn erbyn Pabyddiaeth, neu mewn gair arall, "gwrth-babyddion;" er hyny, ychydig o allu sydd ynom i wrthdystio yn erbyn y peth y mae yr enw yn ei gynnwys, os na bydd y mater wedi ei fyfyrio yn dda; yn wyneb hyn, er mor wag o synwyr, a disail, twyllodrus a melldigedig, yw prif bwnc y Babyddiaeth, y mae mwy o sail i'w lwyddiant, ïe, ymhlith cenedl y Cymry, nag i ardystiad y wlad yn ei erbyn i gario y goncwest, os nad ellir dadlu oddiar adnabyddiaeth o'r peth yr ardystir yn ei erbyn; ac nid oes yn y sylwadau hyn amcan arall, namyn cymhell y sawl a garant yr enw *Protestant* i geisio adnabod y drwg y maent yn coleddu gwrthfarn am dano. Wrth adael hyn, awn ychydig ymlaen, gan gymeryd golwg fyr, yn—

2. *Ar wahanol farnau yr awdurdodau Pabaidd ar anffaeledigrwydd y pab ei hun.* Wrth gychwyn ar hyn, yr ydym yn troedio tir corsog, boglyd, heb gymaint a lled troed i orphwys arno, tra y gallom er mwyn gwneyd cyfiawnder â'r dyn a elwir yn olynydd Pedr, allu dyweyd, Cawsom o'r diwedd y gŵr sydd anffaeledig yn ei gynghor. Dau lyfr sydd i fyned i chwilio am anffaeledigrwydd mewn dyn, nid rhyw ddyn, ond *y dyn*, dyn y Pabydd; caniatawn, er mwyn tegwch, os yw y perffeithrwydd hwn i'w gael, mai yn y pab y mae, ac nid yn neb arall; chwiliwn am dano, a chydnabyddwn yn onest ei fod, os medrwn ei gael allan. Cyn chwilio y llyfrau, y mae yn weddus i ni wybod am ba beth y mae yr ymchwiliad i fod—dim llai na meddwl digyfeiliorn yr Anfeidrol! Ac i ddal i fyny *garacter* yr olyniaeth, am na oddef Rhufain i ni dori un darn o'r gadwyn hòno, awn yma a thraw ar hyd y llinell i chwilio am dano, ymofynwn am anffaeledigrwydd yn enaid Alecsander y chweched, er ei fod yn euog o lofruddiaeth, yn odinebwr, ac yn gwadu y bod o Dduw; y mae yn ofynol i ni gredu fod meddwl y Duw hwnw gan Alecsander, er ei fod yn gwadu nad oedd yr un Duw yn bod. Chwiliwn am ddadguddiad o'r meddwl tragywyddol am dymmor diweddarach, yn mynwes halogedig Ioan XXIV, yn erbyn yr hwn y dygwyd ger bron cynnadledd Constance, ac y profwyd, uwchlaw deugain o achwyniadau am bechodau rhy warthus i'w henwi,—ofnadwy yw 'r ystyriaeth fod annuwiaeth yn un o honynt! Nid ein gorchwyl fydd ceisio dadbrofi anffaeledigrwydd pab, drwy hòni fod anffaeledigrwydd mewn rhyw un arall, megys pe dywedem fod y diweddar Dr. Chalmers yn anffaeledig, ond nad oedd Gregory XVI, ei gydoeswr, yn anffaeledig; na, na, caiff y pwnc fyw neu farw yn awyr Rhufain; nid oes galwad i ni genfigenu am beth cyn y canfyddir ei werth. Yr ydym yn credu fod yn nechreuad yr unfed ganrif ar bymtheg ddau ddyn yn byw, a barodd gynhwrf nid bychan drwy Ewrop oll,—un oedd Martin Luther. Gorfodir ni i gredu fod Duw gydag ef, a bod nerthoedd y byd a ddaw wedi eu teimlo drwy ei enaid adferedig; ond nac ofned y Pabyddion, wedi iddynt ei droeglwyddo i lety gwaeth na phurdan; nid oes genym fwriad i'w tramgwyddo drwy feiddio priodoli hyd yn nod i Luther anffaeledigrwydd. Cânt os mynant gyfrif y perl hwn o uchel bris fel perchenogaeth y dyn arall, sef Leo X; ond gyda llaw nis gallwn lai na chofio fod hwnw, megys eraill a ryfygodd yn gyffelyb, yn warth i enw Cristionogaeth: ni bydd y bobl a breswyliant tu draw i fynyddoedd yr Alps yn anfoddlawn i ni wneyd ein goreu er dirgelu yr hyn a ddymunant hwy ei gyhoeddi; a chan nad yw chwaeth yr *Ultramontaniaid* yn hynod o dyner yn yr hyn a berthyn i foesoldeb a sancteiddrwydd, hyderir y boddlonant gylafareddiad o bob tu. Caiff Italy hòni nas gall y pabau fod yn agored i gyfeiliorni, nac i gamddeall meddwl Duw, os goddefant i ninnau brofi allan o hanesion yr eglwys, nad yw y pabau yn gyffredin âg ofn Duw o flaen eu llygaid; neu, os ewyllysiant, caniatawn iddynt hwy y ddau orchwyl,—1. Hòni fod anffaeledigrwydd yn y pab, sef pob pab o ddyddiau Pedr hyd yn awr; ac yn 2. Gadawn iddynt roi traethiad cywir am ddaliadau crefyddol a moesau y pabau. Paham na fedr y Dr. Wiseman, ac yntau mor hoff o fendigo coffadwriaeth yr hen seintiau, gyhoeddi llyfr ar fater fel hyn? Y mae y Doctor yn ŵr o ddysg mawr a gwybodaeth eang; moesgarwch cyffredin yw i ni gyfaddef y gŵyr efe yn dda am hanes y Babes Ioan, yr hon a dybiwyd mai Pab John ydoedd. Yr oedd hòno yn un o sanctaidd offeiriadesau

y Duw byw; ac os yw yr "*Anastasius Bibliothecarius*" yn llyfrgell y Doctor, byddai yn gymhorth mawr iddo ddwyn allan dystiolaeth gywir am dani, a chynghorem ef i beidio tynu ysgrifell dros y tudalen sydd yn coffhau i'r pab anffaeledig, John, droi allan i fod yn ddim gwell na phuteinwraig anllad. Rhag i'r Dr. Cumming deimlo yn anhapus, nid oes un blys arnom wybod paham y darfu i Baronius fyned i eglwys Sienna, a thynu darlun y butain i lawr; digon i'n pwrpas fydd cael hanes ei bywyd, ac os gallwn, ni a gredwn fod yr Anfeidrol wedi dewis y fath gymeriad i fod yn ffynnonell ddilwgr o'i feddwl pur i'w eglwys ar y ddaear!

Y llyfr a gymer Protestaniaid at chwilio am anffaeledigrwydd mewn dyn, yw y Bibl; a rhwng ein bod mor lygadbwl a methu ei gaffael yno, a Rhufain yn gwaeddi arnom i chwilio yn rhywle arall, nid oes dim i wneyd ond ufuddhau a'i dilyn hi; ond y mae yn hynod o anffodus, unwaith y dechreuwn y daith, y mae swn anghydfod drwy yr holl wersyll, un yn ein tynu y ffordd hon, a'r llall y ffordd arall; ac oll fel twyllwyr mewn helfa, yn gosod yr ymchwiliwr yn y drafferth fwyaf, ac yn mrig yr hwyr yn gorfod dychwelyd at ei hen lyfr ei hun, heb weled ol troed y pryf mewn un man; ac ar ol i ni wario ein llafur am yr hyn nid yw yn digoni, y mae Rhufain, yn hytrach na rhoi i fyny, yn ei thwyll hudoliaethus yn defnyddio ystryw arall, gan ein hannog i chwilio y Bibl,—nid oes genym un gwrthwynebiad i hyny; ond crefwn yr hawlfraint o farnu drosom ein hunain.

Cyflwynir yr ysgrythyrau canlynol fel prawf o anffaeledigrwydd cynnadleddau cyffredinol Rhufain.—"Ond pan ddel efe, sef Ysbryd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd:" eilwaith, "Ac wele yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd:" hefyd, "Eithr mi a weddïais drosot na ddiffygia dy ffydd di:" drachefn, "Canys lle y mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt." Dylasent ymlaenaf oll, cyn cynnyg yr ysgrythyrau uchod at y cyfryw bwrpas, allu profi fod cynnadleddau cyffredinol wedi eu sefydlu, gan yr Hwn a addawodd fod gyda ei eglwys hyd ddiwedd amser, ac hefyd fod Pen mawr yr eglwys wedi trefnu i ddoniau ysbrydol redeg o etifedd i etifedd, yn wrthwyneb i dystiolaeth yr ysgrythyr, yr hon a ddywed fel hyn;—"Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gŵr, eithr o Dduw." Y mae tröedigaeth un pechadur at Grist yn cael ei osod allan yn y gwirionedd fel peth annibynol oddiwrth bob cysylltiad daearol, ond mewn ymddibyniaeth hollol ar Dduw; pa faint mwy y pwyllgor eglwysig a ymgynnullai er trefnu pethau mawrion teyrnas Crist yn y byd? Bod yr Arglwydd wedi addaw ei bresennoldeb i'w eglwys, sydd ddigon amlwg, ac nid oes ammheuaeth na chyflawna efe ei addewidion; ond nid yw hyny yn profi ei fod yn dderbyniwr wyneb, a'i fod yn gorfod cyfranu ei feddwl tragywyddol i ryw linell neillduol o ddynolion; ac y mae yn wrthwyneb i sancteiddrwydd Duw roddi ei wyneb ar, na'i bresennoldeb gyda dynion, yn ddiystyr o natur eu ffydd, eu moesau, a'u hegwyddorion. Y gair a ddywedodd Crist wrth Pedr, a gyfrifir yn benderfyniad gan Rhufain ar y mater, yn ei berthynas â'r pab:—"Ac yr ydwyf finnau yn dywedyd i ti, mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, a phyrth uffern nis gorchfygant hi;" *Mat.* xvi. 18. Y ddadl yw, pa beth a olygir wrth *y graig hon;* pa un ai Crist, athrawiaeth Crist, ai ynte Pedr. Addefir gan bawb mai sylfaen mawr yr eglwys yw Crist; addefir hefyd mai Pedr oedd y cyntaf o'r dysgyblion a gydnabydd-

odd Grist yn "Fab y Duw byw;" ac nid oes dim yn fwy tebyg nag i'r Iesu lefaru y geiriau wrth Pedr, am mai efe oedd y cyntaf yn y broffes efengylaidd. Priod-ddull ein Harglwydd, pan yn llefaru ymron ar bob achos, fyddai defnyddio amgylchiadau, a chyfeirio at bethau tuallan i sylw ei wrandawyr, felly y waith hon; cawn mai ystyr y gair Pedr yw *careg*, neu ddarn bychan o graig. Sylwodd yr Iesu ar ei enw yn ei ystyr,—yr enw, cofiwn, ac nid Pedr ei hun. Awn i edrych ar ysgrythyrau eraill yn cynnwys y gair *craig;* yr ydym yn colli Pedr yn ei Feistr; darllenwn Epistol Cyntaf Pedr ei hun, yr hwn a ysgrifenodd wedi i'r Iesu farw, gwelir yno ddyfyniad allan o brophwydoliaeth Esaiah, am Grist, o dan yr enw *conglfaen;* y mae yn defnyddio yn agos yr un geiriau fel ei gredo ei hun,—"Wele yr wyf yn gosod yn Sïon ben conglfaen, etholedig, a gwerthfawr;" ond nid oes gair o grybwylliad gan Pedr am dano ei hun, am na feiddiai ymffrostio mewn sylfaen arall ond Crist yn unig. Y mae dull llefariad geiriau Crist wrth Pedr, yn ddigon i brofi eu bod yn cyfeirio at yr athrawiaeth a dderbyniodd Pedr, i'w chredu iddo ei hun, ac i'w phregethu i eraill, am ei fod yn llefaru yn y rhyw fenywaidd, *y graig hon.* Nid oedd hyny yn briodol i Pedr; gan hyny, er mor anfanteisiol i Rufain ydyw, nid oes esboniad arall i fod, amgen athrawiaeth Crist, yr hwn a dderbyniwyd ac a gredwyd gan Pedr, ac a bregethwyd ganddo i'r byd, yr hon a erys yn graig gadarn i'r eglwys adeiladu arni drwy oesoedd y byd. Y cyfryw ydoedd y grefydd a gymhellwyd ar bechaduriaid yn yr oes apostolaidd. Pan y gelwid ar ddynion i gredu, y meddwl oedd, eu bod i gredu yr efengyl, am mai athrawiaeth yr efengyl oedd unig drefn Duw er achub pechaduriaid. Canmolir y Bereaid, nid am ymlynu wrth eglwys anffaeledig, ond am iddynt chwilio ysgrythyrau anffaeledig. Nid gwybodaeth Timotheus pan yn esgob a ganmolir; ond ei lafur pan yn fachgen i wybod yr Ysgrythyr Lân. Danfonid y Cristionogion gynt i brofi yr ysbrydion, heb air am farn esgob, na phenderfyniad pwyllgor eglwysig; paham? wel, yn gymaint a bod ganddynt dystiolaeth anffaeledig, yr oeddynt i brofi yr ysbrydion wrth ffurf yr ymadroddion iachus hyny.

Y mae yn ofynol cadw mewn cof yr hyn a goffawyd eisoes, fod yr Eglwys Babaidd yn anmhenderfynol ynghylch y mater hwn, yn ei berthynas â phen yr eglwys yn neillduol; ond cofier, tra y mae athrofeydd y Babaeth wedi tystio fod y naill farn neu y llall, sef y gall y pab fod yn anffaeledig yn ei sefyllfa swyddol, neu nas gall, yn beth ansicr; y mae y ddwy blaid arall yn yr eithafion pell oddiwrth eu gilydd;—un yn gwadu a'r llall yn honi, ag eto i gyd yn yr un cyfundeb; ond yn cytuno i wawdio y rhai a ardystiant yn erbyn y pab; gyda llaw y mae un o'r pleidiau yn Brotestanaidd mewn rhan yn y pwnc sydd yn sylfaen y cwbl. Os darllenir urdd-lyfrau coleg Maynooth, yr holl hysbysrwydd a ellir ei gasglu, yw fod y ddwy gyfundraeth yn goeliadwy, yr hyn a ddengys fod Maynooth am i'r byd goelio y naill neu y llall o ddau osodiad gwrthwynebol. Attolwg! beth pe bai athrofeydd Cymru yn cymeryd arnynt ddysgu pobl ieuainc yn yr un ffordd? Peth hynod fyddai gweled cyllid y llywodraeth yn dylifo wrth y miloedd er cynnal dadleyddiaeth o'r fath, onidê? Ond er y dywedir fod anffaeledigrwydd yn bwnc pwysig, ac yn un i'w gredu, pe dywedai rhyw un wrth un o'r athrawon ei fod am gredu y pwnc, ond yr hoffai eglurhad arno yn ei berthynas â phen ysbrydol yr eglwys, nid allai yr athraw yn unol â chyfarwyddiadau y sefydliad, lai na gwadu nad ydyw hyny yn bwnc o

[illegible] ond yn [illegible] y ddewiniaid. Wel, fe gall y mater y cyfryw degwch [illegible] â'r [illegible] a [illegible] gan yr [illegible]. Os yw wedi ei adael at ddewisiad, [illegible] [illegible] yw ei gymeryd am ei werth; ond gwybydded y [illegible] [illegible] [illegible] y [illegible] [illegible] i'w [illegible] ar anffaeledigrwydd y pab, gan un o [illegible] [illegible] "ei [illegible]:" ac os oes bai, bydded iddo [illegible] [illegible] ei [illegible]. Y maent wedi methu ein dysgu [illegible] na [illegible] yr eglwys [illegible] [illegible] i fewn yn ddigyfeiliorn, heb benderfynu pa un a'i'r [illegible] [illegible] Rhufain, a theyrngasol y [illegible], i'w gydnabod yn [illegible] yr eglwys, neu yn athraw i gyfeiliornad.

Ond y mae dwy blaid arall wedi cyrhaedd penderfyniad barn ar y mater, meddant hwy, a'r penderfyniad hwnw o'r [illegible] du, yn peri iddynt groesi eu gilydd, nes ymbellhau i'r pellder mawr;—â'r gyntaf y gallwn gytuno yn rhwydd: na fyddai i ni gael ein galw i gyfrif am gytuno â Phabyddion—plaid yn gwyro ydyw oddiwrth y ffydd Babaidd, gan wadu yn gyhoeddus y pwnc dan sylw, a honi fod yr hwn a gyfrifir yn dad a dysgawdwr Cristionogion yn agored i gyfeiliorni. Mor bell a hyny, Pabyddion yn gwyro at Brotestaniaeth ydynt. Na thybier fod y blaid hòno yn un anenwog—y mae yn gyfansoddedig o aelodau yr ysgol dduwinyddol, a'r Eglwys Ffrancaidd. Dygasant eu barn ger bron y brenin yn y flwyddyn 1631, yn cynnwys golygiadau Eglwys Babaidd Ffraingc ar y tymmor hwnw. Yr adroddiad a ddangosai i'r brenin nad oedd y Gymdeithas Dduwinyddol yn dal fod y pab uwchlaw cynnadledd gyffredinol, ac nad oedd y gymdeithas yn cydnabod anffaeledigrwydd y pab, ond yn unig yn ei undeb â'r eglwys. Trueni na ddarfu iddynt daro ergyd arall ar yr hoel; gwnaethant yn dda drwy daflu y dyn pechod oddiar ei ategion, ond gwell fuasai anfon yr eglwys ac yntau i ymddibynu ar Dduw. Yn y flwyddyn 1663, dygwyd y mater o flaen y brenin a'r senedd. Ni wnawn ond dyfynu ychydig o benderfyniadau y naill a'r llall ynghyd, er dangos sefyllfa ei "Sancteiddrwydd" yn marn seneddwyr y wlad, a duwinyddion yr eglwys. "Nid oes neb heb wybod am gyfrwysdra a thwyll cefnogwyr llys Rhufain, o fewn i'r deng mlynedd ar hugain diweddaf, i'r dyben o ychwanegu grym y pab, drwy roddi iddo uchfreintiau ffugiol, ac i ddwyn i'r wlad hon, drwy y cyfryw fesurau dichellgar, ddaliadau newyddion yr Italiaid." Onid yw hon yn iaith lled ddyeithr, ac ystyried o ba le y daeth? Ond gwrandawer ymhellach:—"Y mae yr helyntoedd hyn wedi cyrhaedd i'r fath argyfwng (*crisis*) alaethus, drwy ddirgel ledanu eu hegwyddorion, nes o'r diwedd, beiddiant eu cyhoeddi i'r byd; ac y maent eisoes yn destunau dadleuaeth drwy y deyrnas: y mae y cyfeisteddfod ardderchog hwn, gan hyny, yn dadgan eu bwriad i gosbi y troseddwyr, oddiar eiddigedd dros, a phenderfyniad i gynnal, yr awdurdod breninol, hawliau y goron, a rhyddid yr eglwys; ac i wrthsefyll y tybiau cyfeiliornus a goleddir mewn perthynas i anffaeledigrwydd y pab, a'i flaenafiaeth ef ar gynnadledd reolaidd. Yr ydym yn penderfynu gorchfygu ymgyrch yr anghenfilod hyn yn mhob modd, fel y darostynger cêl-genadon llys Rhufain i warth a chywilydd. Y mae yr holl fyd yn cydnabod uwch ac is-raddoliaeth, a chan nad ydym yn cydnabod y pab uwchlaw awdurdod cynnadledd, y mae yn rhaid ei fod islaw iddi." Gwelir ar unwaith, er mai nid iaith Protestaniaid a gynnwysir yn y sylwadau blaenorol, am fod yr hyn a wrthodir i'r pab yn cael ei roddi i'r eglwys, er hyny, y mae yn anmhosibl cael iaith fwy grymus i ddadgan

ffaeledigrwydd y pab ei hun, na'r hon a ddefnyddiwyd gan Eglwys a senedd Ffrainc; a thra y mae y cyffro mawr a achlysurwyd drwy lythyr ein prif-weinidog at Esgob Durham, wedi ei feirniadu gymaint gan y wlad, tegwch yw dyweyd, nad oedd hwnw ond condemniad teg ar haerllugrwydd dyn, yr hwn y mae Ffrainc, er's oesoedd, fel y gwelir yn y dyfyniad blaenorol, wedi ardystio yn ei erbyn; ac os na chydnabyddir ei anffaeledigrwydd gan wlad fel hòno, a chan y gadewir y pwnc mewn ammheuaeth gan athrofa Maynooth, y mae yn bryd, ac yn hwyr o bryd, i ni, os Protestaniaid ydym, i gymeryd y tarw wrth ei gyrn, ac yn yr ysbryd a gynhyrfodd ein cyndeidiau, beri i'r byd wybod nad yw ei honiadau ef yn wir. Gall anfon ei ffug ysgrifau atom; rhanu y wlad rhwng ei swyddwyr; twyllo rhai â haeriadau gwag, ei fod wedi derbyn y gorchymyn o lys y nef;—Ah! haws genym gredu mai yn Rhufain y mae 'r llys, a bod y seintiau a'i cynghorent yn y ddinas lle y mae yn byw.

Byddai yn hawdd dwyn anghreifftiau lliosog o ddaliadau pob gradd o Babyddion;—duwinyddion enwocaf; cyffes ffydd eu hurdd-ysgolion penaf; cynnadleddau Pisa, Constance, a Basil; barn amryw o'r pabau eu hunain, megys Ffelics, Adrian, Damasus, Eugenius, ac eraill; oll yn gwadu anffaeledigrwydd y pab.

Er y cwbl, y mae plaid arall yn dyfod ymlaen, sef yr ysgol Italaidd, fel y gelwir hi gan rai, yr hon a genfydd i eglurder yr anffaeledigrwydd hyny yn y pab ei hun; yr hyn a wedir gan y blaid olaf a fu o dan sylw, ac a adewir yn bwnc ammheus gan y flaenaf, er eu bod oll yn bleidiau o'r gradd enwocaf yn yr un cyfundeb. Fel hyn y mae yr eglwys â'i chylymau yn llac, megys adeiladaeth fawr yn barod i ymollwng, yn aros y chwilfriwiad hwnw a gymer le pan ddel awr ei gofwy i ben. Eisoes y mae yn rhanedig, yn agos, ar bob pwnc, yn enwedig ar hwn—y naill bab yn erbyn y llall—un gynnadledd anffaeledig yn penderfynu fel hyn, a'r gynnadledd arall mor anffaeledig yn penderfynu fel arall; a chyn y gellir barnu unrhyw benderfyniad Pabaidd a ddelo allan o lys wedi ei alw yn rheolaidd yn un anffaeledig gywir, tra y gelwir arnom i gydnabod cywirdeb cynnadledd fo yn hollol groes, y mae yn rhaid i ni hefyd farnu y Duw hwnw a oddef ac a rydd ei feddwl mewn cynnifer o wahanol ffyrdd, yn Fod cyfnewidiol: ond os yw yr Arglwydd yn anghyfnewidiol, a'i gynghor yn un a saif, yna y mae athrawiaeth Eglwys Rhufain yn gadarnhad diymwad mai esgob yr eglwys hòno, drwy yr holl linell Babawl, hyd y pab olaf, yw "yr Anwir hwnw, yr hwn a ddyfetha yr Arglwydd âg ysbryd ei enau."

Os yw yn ddyledswydd arnom wneyd ein hunain yn gyfarwydd â hanes y Babaeth, diau y dylem chwilio iddo fel y mae yn deilliaw o lygad y ffynnon—o Itali—o Rufain—o'r pab. Y dyb gyffredin yw, y bydd ymosodiad cyn hir ar Brotestaniaeth; os felly, nid i'r gogledd nac i'r gorllewin y mae i ni ddysgwyl am dano: y mae cymdeithas yn y "ddinas sanctaidd" o gynghorwyr y pab, â'u llygaid yn gwylied arnom, yn aros y cyfleusdra i roi awgrym "i'w Sancteiddrwydd;" a phan y gwelont bob peth yn barod, ni bydd yn anhawdd iddo yntau dadogi y trefniant newydd i Mair, Pedr, a Phaul. A chan fod adferu y wlad hon i'r wir ffydd yn beth mor bwysig ar eu meddyliau, y mae yn eithaf rhesymol i ni wybod hanes y gwyliedyddion hyn—pa fath bobl ydynt, ynghyd â natur eu hegwyddorion. Beth os nad â y genedlaeth hon heibio, cyn y gelwir ar Brotestaniaid i ymostwng o dan iau Pabyddiaeth o'r newydd, neu gymeryd y canlyn-

iad? Onid gwell i ni fod yn gyfarwydd â hanes yr "hen fam," rhag mai hi sy yn meddu y wir grefydd, fel y dywedir. Os gellir cael allan fod duwioldeb yn amlycach yn Eglwys Rhufain nag mewn eglwysi eraill, a mwy o ddelw Crist ar ei hesgobion, ac ychwaneg o argraff sancteiddrwydd ar ei swyddogion na'r eiddo sectau eraill, bydd cael hyny allan yn gymhorth neillduol i wneyd derbyniad o'i gwersi efengylaidd o gader yr awdurdod.

Gwrandawn ynte beth a ddywedir wrth y byd! Rhufain sydd yn dyweyd! Pa beth a ddywed hi? Hi a ddywed fod y pab yn anffaeledig, heb gysylltiad âg eglwys, pwyllgor, nac esgob—ei fod wedi deilliaw yn rheolaidd o'r llinell ddidor, ar flaen yr hon y safai Pedr. Dywedir mai efe ymlaenaf, yw y gŵr sydd yn derbyn meddwl y Duw sanctaidd ar bob mater perthynol i ffydd. Cymhellir ninnau i feddwl, os gwir yr honiad, fod y cyfryw ddyn yn un hynod o fawr, ie, hynod mewn gras a duwioldeb; yn lle hyny, y mae hanes y pabau yn profi eu bod yn hynod mewn anfoesoldeb, annuwioldeb, a drygioni. Y mae y byd wedi gwrandaw ar Rufain yn dyweyd mai y pab sydd yn derbyn cyfrinach yr Anfeidrol; gwrandawed hithau ar y byd, ac ammheued, os gall; ac os nad all ammheu, dangosed gysondeb y naill beth â'r llall. Gellir penderfynu fod lliaws o'r archlwysyddion hyn, yn lle dwyn yn eu bucheddau nodau yr Arglwydd Iesu, yr hwn y proffesant fod yn deyrngenadon iddo, wedi rhagori ar bawb a gofrestrwyd ar hanesion yr oesoedd mewn pob annuwioldeb. Golwg ar anfoesoldeb y pabau a barodd i un o honynt hwy eu hunain ddyweyd, "na wyddai efe i ba beth y ganwyd y pabau, oddieithr mai i'r dyben o ddangos i ba raddau o ddirywiad y gallai y natur ddynol fyned iddo." Os cydnabyddir blaenafiaeth y pabau, ni ddylid gwrthod eu cyfrif yn deilwng o flaenafiaeth yn mhob drygioni a melldigedigrwydd, a hyny i'r gradd pellaf y gallai calon dyn ei ddychymygu. Hyd yn nod â hanes Nero a Domitian ger bron, byddai yn briodol gwrthod i'r ymherawdwyr annynol hyny y flaenafiaeth mewn pechodau rhy ysgeler i'w hysgrifio, tra y byddai hanes y tadau sanctaidd i gael ei ddwyn i oleuni y dydd: ac eto, gelwir ar Brotestaniaid Prydain blygu i awdurdod yr eglwys, yr hon a urddodd i gader "apostol yr Oen," a defnyddio ei hiaith hi, gariadau Merozia a Theodora, dwy o lys-buteinaid y ddinas sanctaidd. Gelwir arnom i dalu y parch gwresocaf i, a gweithredu y ffydd mwyaf diffuant mewn eglwys nad yw ei moesau i'w profi mewn dim yn amlycach na'i chysegriad gwirfoddol i gyflwr o anlladrwydd. Y mae goddiweddyd aelod ar fai mewn eglwys nad yw yn hòni anffaeledigrwydd yn un peth; ond y mae gweled archflaenoriaid eglwys anffaeledig yn ymdroi yn y pechodau mwyaf gwarthus yn beth arall. Hysbysiadau haneswyr Pabaidd a ddengys mai felly y mae pethau yn bod; nid oedd gan Platina, Stella, a Baronius, enwau gwell i'w gosod ar y pabau nag anghenfilod, lladron, cèlfradwyr, swyngyfareddwyr, llofruddion, a barbariaid; a chyfrifent ddau ar bymtheg o'r tadau sanctaidd yn anudonwyr profedig. Y rhai hyn oeddynt y dynion y galwyd ar drigolion pob oes i'w cyfrif yn bibellau, trwy ba rai y dylifai cynghor yr Anfeidrol i'r byd. Y neb a fedr feddwl, barned drosto ei hun, pa beth a allai tuedd naturiol y cyfryw grefydd fod ar filiynau yr oesoedd a aeth heibio, a pha beth a all yr effaith fod ar foesau y byd mewn amseroedd dyfodol. Cyprian a ddywed, "Yr offeiriad a leinw le Crist oreu, yw yr un a efelycha yr hyn a wnaeth efe." Os felly, chwiliwn i wybod pa fath ydoedd gweithredoedd ein Harglwydd tra y bu yn rhodio

ein daear ni, a gwelir mai nid esgymuno tywysogion a breninoedd, ond tywysogion uffern a drinid ganddo ef; bwriodd chwe' mil o gythreuliaid allan o'r dyn, yn ngwlad y Gadareniaid, gan ddangos mwy o ofal am y dyn nag am y moch, a bod yn hytrach ganddo esgymuno cythreuliaid nag esgymuno dynion. Ond am y pabau, träarglwyddiaethu ar ddynion oedd eu gweithredoedd mwyaf nodedig hwy, gan ddiorseddu ymherawdwyr, esgymuno breninoedd, a dirmygu pob awdurdod gwrthwyneb iddynt hwy eu hunain.

Goddefer i ni sefyll enyd fach uwch ben yr hyn a geisir genym, sef credu yn marn ddiwyrni y pab! Y pab cyntaf oedd Pedr: gwyddom fod yr holl drefniant yn syrthio i warth, os nad ellir dangos mai efe oedd y cyntaf. Wel, dechreuwn yno. Yr ydym wedi clywed fod y trosedd o ammheu cywirdeb cynghor pab yn anfaddeuadwy—heresi o'r fath waethaf; ac eto, pan ddaeth Pedr i Antiochia, darfu i Paul ei wrthwynebu yn ei wyneb, ar bwnc o athrawiaeth hefyd, am ei fod i'w feio; am hyny, gadawed Rhufain i ni feio Paul, o herwydd yn gyson â daliadau y Pabydd, trôdd Paul yn heretic; mewn gair arall, gallwn ei alw yn Brotestant—yn Brotestant yn erbyn y pab Pedr. Os oedd Pedr yn bab anffaeledig, onid oedd ymddygiad Paul yn galw am esgymundod? Eto, digrif yw meddwl, fod llun yr heretic hwnw yn grogedig ar furiau eglwysi y ddinas sanctaidd, ac yn rhan o ddodrefn cysegredig holl eglwysi cadeiriol cyfandir Ewrop. (Paham na chafodd rhyw ddelweddwr ei alw i dynu llun Luther i'w grogi ar y llaw arall i Paul? Yr oeddynt eu dau wedi bod yn euog o'r un drwg, ond i'r naill wrthwynebu y pab Pedr, a'r llall y pab Leo.) Nid digon hyny o arwydd o barch i'r hwn a ymddygodd mor hereticaidd; ond y mae seliau "ei Sancteiddrwydd" wedi eu hargraffu ar y naill ochr â delw y pab presennol; ac ar yr ochr arall, llun Paul a Pedr, un bob ochr i lun y groes. A gwaeth na'r cwbl, ni alwyd Paul erioed i gyfrif am ei ymddygiad; yn lle hyny, clywir y pab a ddyoddefodd ei groesi gan yr heretic, yn ei alw, wedi hyny, "Ein hanwyl frawd, Paul." Braidd nad ellir ofni rhag fod y pab cyntaf ei hunan wedi troi yn heretic hefyd. Ond y gwir yw, y mae Epistolau Pedr yn arogli mor gryf o'r heresi Brotestanaidd, fel y mae yn well gan Rufain dalu am dynu llun Pedr, i gael hudo ffyliaid â phaent, na thalu am argraffu ysgrifeniadau Pedr i'w tanu yn mysg y werin. Nid anhawdd profi mai hereticiaid yn erbyn y Babaeth fu yr holl babau, o Pedr y Cyntaf hyd Pius y Nawfed. Yr oedd Pedr, ynghyd âg esgobion yr oesoedd cyntaf, yn groes i egwyddorion anghrist o ran proffes ac ymarweddiad; a'r pabau a'u canlynodd mor wrthwyneb i'w gilydd, fel nad ellir canfod sefydliad barn y naill bab mewn da na drwg, heb wrthdarawiad yn ei erbyn gan bab arall, yr hyn a gymyla bob amcaniaeth a all fod tuag at sefydlu y drychfeddwl o anffaeledigrwydd.

Y mae yn ymddangos ei fod yn anmhosibl i un dyn a fedr feddwl, ac a ewyllysia feddwl yn gywir, weled cywirdeb athrawiaeth sydd wedi ei hamdoi â'r fath bentwr o anghysonderau; ac y mae yn beth ammheus iawn am y dyn hwnw, a fedr, ar ol gwneyd ei hunan yn gyfarwydd â'r materion a drinwyd eisoes, foddloni ar eu proffesu drwy ei oes, heb ymlithro drwy galedwch cydwybod halogedig, i goleddu meddwl anghymeradwy am Dduw. Y mae yr effaith y mae cyfeiliornad a gwirionedd yn ei wneyd ar ddynion, o anghenrheidrwydd yn eu gyru ymlaen, nid yr un ffordd, ond yn llwybr yr egwyddor a'u llywodraetha, pa beth bynag fyddo hôno; gan

hyny, tra y mae tuedd gwir grefydd at wneyd dyn yn well, bydd y gradd o welliant a gymer le yn ymddibynu ar raddau y llywodraeth fydd gan grefydd arno; gan hyny, goreu po fwyaf, am fod helaethrwydd y gras a fwynhëir yn ymddibynu ar ddylanwad grymus yr egwyddor fo yn ei achosi; o herwydd hyn y dywedir yn fynych am ddyn hynod mewn duwioldeb, ei fod yn ddyn nefolaidd iawn, gan arwyddo ei fod yn cymdeithasu â'r nefoedd, ac yn rhodio yn agos i'r nefoedd. Yr un modd y mae cyfeiliornad yn gweithio ar bawb; eu gyru ymlaen y mae, yn ol mesur y dylanwad a gaiff ar y meddwl; ac fel y mae tuedd mewn gwirionedd i wellhau ei feddiannydd, y mae tuedd mewn cyfeiliornad i'w ddrygu, ei lygru, a'i ddinystrio yn y diwedd. Pa beth all fod yn attalfa ar ffordd Pabydd o synwyr naturiol cryf, a sylw manwl ar bethau, i dderbyn i mewn bob math o dybiau cyfeiliornus am y Bôd anfeidrol? Hyn sydd sicr, po fwyaf y myfyriom ar y grefydd Babaidd, mwyaf twyllodrus y mae yn ymddangos; a chan fod ei thwyll mawr yn cael ei brofi allan o'i hanes ei hunan yn well nag o un man arall, y mae y sawl a fedrant fyw yn nghanol y cyfryw dwyll, hoffi y gyfundraeth, a phenderfynu gwrthod dyfod i'r goleuni, beunydd ar eu gogwydd i fyned i wrthgiliad pellach; a phan ddaw y cyfleusdra, ymlithro a wnant.

Cyfundraeth ydyw sydd wedi ei llunio i ddau ddyben: yn 1af, I lwytho pawb a ewyllysiant enwi enw Crist â chymaint o gnawdolrwydd a ddifa bob teimlad teilwng i Ysbryd Crist allan o'r meddwl; ac yn 2il, I barotoi y gwammal, a'r anwastad, nid i chwilio am Gristionogaeth mewn ffurf burach, ond ei daflu rhag ei flaen i gyflwr di-Grist. Fod y grefydd Babaidd wedi ei llunio i'r dyben blaenaf, a welir yn amlwg, ond sylwi ar y parch a ddangosir gan Babyddion i bob math o gyfeiliornwyr, anffyddwyr, a phaganiaid, ragor i'r hyn a ddangosant tuag at un math o Gristionogion, tuallan i gylch Rhufain. Eu bod wedi ei llunio i'r dyben olaf, nid oes diffyg profion parhaus; yn unig darllener hanes Ffrainc,—sylwer arni yn bresennol,—crefydd Gristionogol y wlad hòno yw Pabyddiaeth. O wlad a ellir ei galw yn Babaidd, hi yw yr un sydd wedi dadgan ei anghydsyniad â hòniadau Rhufain fwyaf pendant o holl wledydd Ewrop; er hyny, yn hytrach na bod heb Gristionogaeth mewn enw, y mae y wlad hòno yn parhau yn Babaidd, a'i nerth wedi ei estyn i gynnal y Bwystfil; er fod canfyddiad o ragrith y grefydd wedi gwneyd y werin er 's oesoedd yn anffyddwyr.

Dilys yw fod yn natur y grefydd Babaidd duedd gref, naill ai i lygru Cristionogaeth, neu i gadarnhau anffyddiaeth—nid oes gwahaniaeth pa un; yr unig bwnc o bwys yw cydnabod Rhufain yn BEN.

AWDURIAETH YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

MAE braidd yr holl amgylchiadau a berthynant i'r Epistol at yr Hebreaid yn faterion mewn dadl, nid yn unig gan feirniaid y dyddiau presennol, ond gan awdwyr ac esbonwyr pob oes, o'r canrifoedd boreuaf hyd yn awr. Byddai ysgrifenu hanes y gyfran hon o'r Ysgrythyrau—y gwahanol

opiniynau a dadleuon a ddygid ymlaen, o bryd i bryd, ar bethau perthynol iddi, yn destun ymchwiliad a llafur nid ychydig. Nis gwyddom ond am un pwnc sydd yn dal cysylltiad â'r epistol, a dderbynir ac a gydnabyddir yn gyffredin fel gwirionedd, sef ei hynafiaeth. Tra y mae rhanau eraill o'r Testament Newydd yn cael eu diarddelwi gan rai, a'u hystyried yn ysgrifeniadau ffugiol, wedi eu cyfansoddi gan rywun yn yr ail neu y drydedd ganrif, y mae awduriaeth yr Epistol at yr Hebreaid yn cael ei daflu mor bell a'r oes apostolaidd. Nid oes, hyd ag y gwelsom, yr un o'r beirniaid a ystyrir yn lled uniongred, nad addefa hyn gyda rhwyddineb. Mae cyfeiriadau aml ato, ac amryw ranau nad ydynt amgen nag efelychiadau o hono, i'w cael mewn gweithiau mor foreu ag eiddo Clement o Rufain, Ignatius, Polycarp, a Justin Ferthyr; ac fel y sylwyd gan Chrysostom a Theodoret, mae ynddo brofion mewnol ddarfod ei ysgrifenu cyn dinystr Jerusalem a'r deml. Lleferir am wasanaeth yr offeiriaid yn y cysegroedd fel gwasanaeth presennol ar amser ysgrifeniad yr epistol (viii. 5; ix. 25); a lleferir hefyd am y dinystr fel pe buasai wrth y drws (xi. 25, 35; xiii. 10); ac y mae yn hawdd i bob meddwl diragfarn weled nad oes yn yr un o'r cyfeiriadau hyn ddim arwydd o fwriad ac ystryw i dwyllo; oblegid pe yr ysgrifenasid yr epistol gan rywun mewn oes ddiweddarach na'r oes apostolaidd, mae yn dra thebygol, fel y sylwa Paley o barth i ysgrifeniadau eraill, y buasai y cyfeiriadau yn llawer mwy lliosog a phendant. Nid rhyw fath o awgrymau cynnil a fuasent, ond cyfeiriadau eglur, os nid rhagddywediadau manwl a phendant; buasai dygwyddiad mor bwysig yn nghwrs rhagluniaeth a dinystr Jerusalem, a'r deml, ac "ysgydwad y ddaear a'r nef," yn ymrithio yn barhaus o flaen llygaid, ac yn ymgymhell yn wastadol i feddwl ffugiwr wrth ysgrifenu, fel y buasai cyfeiriadau ar hyny yn cael eu rhoddi yn mhob pennod, a'r rhai hyny mor eglur a phendant fel y buasai y darllenydd mwyaf cyffredin yn eu gweled mor amlwg a'r haul ganol dydd. Ond nid felly y mae—gallwn ddarllen y llythyr braidd i'w ddiwedd heb gyfarfod â'r awgrym lleiaf at y dinystr agosaol. Wedi myned trwy brif fater yr epistol, y mae yr awdwr, yn y rhan ymarferol, yn cyffwrdd yn ysgafn âg ef, ac y mae yr awgrymau hyny yn gorwedd mor naturiol yn eu lle, ac yn dwyn cysylltiad mor agos â'r cyd-destun, fel y mae yn anmhosibl i neb feddwl fod gan yr awdwr yr un amcan wrth eu hysgrifenu ond ei amcan addefedig—dwyn dynesâd y dygwyddiad fel annogaeth i fwy o amynedd, ac ymroad gyda dyledswyddau Cristionogaeth.

Ond, wedi dwyn ymlaen hynafiaeth yr epistol fel pwnc ag y mae barnau y beirniaid yn lled unffurf am dano, y mae eu hunffurfiaeth yn darfod, ac yr ydym bellach yn cael ein taflu i ganol dadleuon diddiwedd. Mae ei awdwr yn anhysbys, a'r anrhydedd yn cael ei roddi i amryw; mae ei awdurdod ganonaidd yn cael ei galw i gwestiwn; mae yr iaith yn mha un y cyfansoddwyd ef yn bwnc o ddadl; a'r personau at ba rai y cyfeiriwyd ef yn ansicr; pa un ai fel llythyr at bersonau neu eglwys yr ysgrifenwyd ef, ynte mewn rhyw ffurf arall. Ond ymddengys mai y ddadl fawr—y ddadl ar ba un y mae y cwestiynau eraill yn troi—ydyw ei *awduriaeth*. "Nid ydyw," fel y sylwa un awdwr, "y cwestiwn o'i awdurdod ganonaidd yn dyfod yn gwestiwn pwysig, fel cwestiwn ar ei ben ei hun, ond yn unig pan y mae ei awduriaeth fel yn eiddo Paul yn cael ei wadu;" ac os gellir profi yn foddhaol mai hawl yr apostol i'w awduriaeth ydyw y gryfaf, byddai ymdriniaeth â'i awdurdod ganonaidd, i raddau, yn ddianghenrhaid.

Penderfyner mai Paul a'i hysgrifenodd, yna y mae y dadleuon eraill, rywfodd, yn penderfynu eu hunain. Priodolir y llythyr gan wahanol feirniaid i'r personau canlynol:—Paul, Luc, Barnabas, Silas, Clement o Rufain, Apollos, rhyw aelod o'r ysgol Alecsandriaidd (pa aelod? pwy ydoedd? beth oedd ei enw?), ac yn ol Neander, "rhyw ddyn apostolaidd," gan feddwl, mae yn debyg, nid apostol, ond aelod neu swyddwr yn yr oes, ac yn perthyn i'r eglwys, apostolaidd.

Fe allai y byddai yn briodol sylwi mai nid yr un peth yn hollol a feddylir wrth awduriaeth (*authorship*) a dilysrwydd (*genuineness*). Mae yn wir y gellir, mewn rhai amgylchiadau, arfer y naill yn lle y llall, heb gyfnewid yr ystyr; ond mewn amgylchiadau eraill, byddai hyny yn anmhriodol. Pwy a ysgrifenodd y llyfr? Ymchwiliad i'r cwestiwn yna ydyw ymchwiliad i'w awduriaeth. Ai yr hwn sydd yn hòni hawl i awduriaeth y llyfr oedd ei wir awdwr? Ymchwiliad i'r gofyniad yna ydyw ymchwiliad i'w ddilysrwydd. Yr ydym yn ymchwilio i awduriaeth llyfr ag y mae ei awdwr yn anhysbys, ac yn profi dilysrwydd llyfr ag y mae enw yr un a hòna hawl i'w awduriaeth ar gael ynddo. Pe buasem yn ceisio profi mai Moses oedd gwir awdwr y Pum Llyfr, buasem, wrth sefydlu eu hawduriaeth fel yr eiddo ef, ar yr un pryd yn profi eu dilysrwydd, o herwydd fod ynddynt yma a thraw lawer o ymadroddion yn arwyddo hyny; er nad oes ynddynt ymadroddion pendant, y maent yn llawn o dystiolaethau anfwriadol, sydd yn profi uwchlaw ammheuaeth mai eiddo Moses ydynt. O barth i'r nifer fwyaf o ysgrifeniadau yr Hen Destament, mae y cwestiynau o awduriaeth a dilysrwydd yr un; maent felly, er esiampl, gyda golwg ar Ail Epistol Pedr, yn yr hwn y mae rhai yn dychymygu eu bod yn gweled olion o awduriaeth ffugiol a diweddarach; dywedir fod y dull-ymadrodd, "mynydd sanctaidd," yn un hollol anapostolaidd, ac yn sawru yn ormodol o ysbryd hygoelus oes fwy diweddar; mae y gwahaniaeth yn ei arddull i'r Epistol Cyntaf, a'r defnydd a wneir ynddo o ranau o Epistol Judas, yn cael eu dwyn ymlaen fel profion o awduriaeth ffugiol, a dywedir bod yr ymdriniaeth yn y bennod ddiweddaf am y byd yn y dechreuad "yn cydsefyll o'r dwfr, a thrwy y dwfr," a'i ddinystr dyfodol trwy dân, yn anghydweddol â symledd, a thuedd ymarferol athrawiaeth yr apostolion, ac yn bradychu tuedd gymysglyd a philosophaidd oes ddiweddarach. Mae yr un modd gyda golwg ar Lyfr y Dadguddiad, awduriaeth yr hwn a gyfrifir gan rai i ryw henuriad anghyhoedd yn Asia Leiaf, o'r un enw ag awdwr addefedig y llyfr. Yn awr, wrth brofi fod yr ail epistol sydd yn dwyn enw Pedr wedi ei ysgrifenu ganddo ef, ac nid gan neb arall, a bod y Dadguddiad wedi ei roddi i, a'i ysgrifenu gan, Ioan y dysgybl anwyl, ac nid gan un Ioan arall, profir ar yr un pryd eu dilysrwydd. Ond wrth wneuthur ymchwiliad i awduriaeth y llythyr dan sylw, nid oes a fynom â'r gair *dilysrwydd* o gwbl, a hyny am nad yw enw ei awdwr ar gael ynddo, nac un awgrym uniongyrchol fel yn ysgrifeniadau Moses, tuag at ein cynnorthwyo i ddeall pwy ydoedd.

Bellach ni a geisiwn wneuthur ymchwiliad i awduriaeth yr epistol. Edrychwn ar hawliau y naill a'r llall o'r rhai a grybwyllwyd, a'r eiddo Paul yn neillduol, ynghyd â'r dadleuon a ddygir ymlaen yn erbyn hawliau y diweddaf. Mae hawl Clement, Esgob Rhufain, yn gorphwys ar y ffeithiau a ganlyn. Mae Origen, yn Eusebius,[1] yn dyweyd fod hen draddodiad yn ei ddyddiau ef mai Paul oedd gwir awdwr yr epistol, yr hyn a dder-

[1] "*Eccles. Hist.*;" llyfr vi.

byniai ei hunan fel gwirionedd; ond dywed drachefn fod yn y llythyr rai pethau heb fod o'r un nodwedd ag arddull gyffredin yr apostol. A chrybwylla draddodiad arall oedd yn ei amser, "mai eiddo Paul oedd drychfeddyliau yr epistol, ond mai eiddo Clement neu Luc ydyw yr arddull." Ond yn hytrach na rhoddi crediniaeth ddibetrus i'r traddodiad hwn, chwanegai Origen, "Duw yn unig a ŵyr pwy oedd ei ysgrifenydd;" gan feddwl, fel y bernir yn gyffredin, nid yr awdwr, ond yr ysgrifwas (*amanuensis*). Mae Jerome a Philastrius yn adrodd hefyd fod rhai yn yr Eglwys Rufeinaid dyn-priodoli yr epistol i Clement; ond crybwyllant hyny yn y fath fodd ag a ddengys eu bod hwy eu hunain yn ystyried y dyb yn annheilwng o grediniaeth.[1] Mae yn ddiammhau fod y Clement hwn wedi ennill "gradd dda" yn yr eglwys apostolaidd. Cyduna yr holl feirniaid, oddieithr Grotius, mai yr un oedd a Clement, yr hwn a eilw Paul (*Phil.* iv. 3) yn "gydweithiwr," a'r hwn yr oedd ei "enw yn llyfr y bywyd." Cyrhaeddodd gymaint o enwogrwydd yn yr eglwys, fel na phetrusai rhai ei gyfenwi wrth yr enwad anrhydeddus, *apostol;* ac y mae hyd yn nod Jerome yn ei alw "yn ddyn apostolaidd;" a llefara Rufinus am dano yn uwch fyth, fel un oedd "braidd yn apostol."[2] Anfonodd lythyr at yr eglwys yn Corinth, yr hwn a nodweddir yn fwyaf gan ysbryd efengylaidd, a symledd meddyliau ac arddull, ag oedd yn y fath fri yn yr oesau boreuaf, fel y darllenid ef yn nghynnulliadau cyhoeddus y Cristionogion, ac yr edrychid arno, am dymmor, gyda y fath barch ag ar yr ysgrythyrau eu hunain. Ond er mor uchel y safai yn yr eglwys, ac er mor gymeradwy ei ysgrifeniadau ganddi, byddai yn drais ac yn ynfydrwydd cyfrif awduriaeth yr epistol hwn iddo. Mae y gwahaniaeth rhwng ei weithiau addefedig a'r epistol dan sylw mor annhraethol fawr, fel y mae y peth nesaf i anmhosiblrwydd i ni gredu eu bod yn gynnyrchion yr un meddwl. Os Clement ydyw awdwr yr epistolau a gyfrifir yn gyffredin iddo, ymhyfhawn i ddyweyd nas gallasai fod yn awdwr yr Epistol at yr Hebreaid. Os oes rhyw gymaint o debygrwydd yn arddull y naill a'r llall, fel yr haerir gan rai, y mae y tebygrwydd yn darfod yn hyna. Mae yn wir fod ei lythyrau yn gall ac yn dda, yn arddangos fod eu hawdwr yn berchen ar synwyr, a galluoedd, a chalon; ond nid dim mwy: nid ydynt yn hynod gryf, nac, hyd ag y gallwn ni farnu, yn cynnwys ansoddau cyfansoddiad o'r radd uchelaf; nid ydynt yn dwyn delw ac argraff ysbrydoliaeth; maent yn gwbl amddifad o'r rhinwedd treiddiol, effeithiol, hwnw, sydd yn llawn, yn rhedeg dros yr ymyl, yn yr efengylau a'r epistolau canonaidd; ac nid ydynt i'w cyfartalu, o ran cryfder, a gwreiddiolder, âg ysgrifeniadau rhai diweddarach o'r tadau—Awstin o Hippo, er esiampl, ïe, hyd yn nod Tertullian, heb son am yr Epistol at yr Hebreaid. Mae Dr. Owen yn gwrthwynebu y dybiaeth hon yn y geiriau canlynol:—"Pa beth oedd ganddo ef, yr hwn oedd yn un o'r dychweledigion cenedlig, a wnelai âg eglwysi yr Hebreaid? pa awdurdod oedd ganddo ef i gyfryngu yn eu hachosion neillduol hwy? Pa fodd yr ymddengys fod ganddo ef y wybodaeth hòno am natur a dybenion y defodau a'r sefydliadau Moesenaidd, yr hon a ddangosa ysgrifenydd yr epistol hwn?" Braidd nad ydym yn gweled ein hunain wedi cymeryd gormod o drafferth i wrthwynebu hawliau sydd yn gorphwys ar sail mor wan a sigledig.

Y nesaf y cawn edrych i mewn i'w hawliau ydyw Barnabas. Maent yn seiliedig, yn benaf, ar awdurdod Tertullian. Cyfrifa Jerome, yn un o'i

[1] "*Kitto's Cyclopædia.*" [2] "*Wake's Apostolical Fathers.*"

lythyrau, ffurfiad y dybiaeth hon iddo, a dywed Philastrius ei fod yntau yn cofio hyn yn draddodiad. Ni wneir un crybwylliad am y dyb hon gan Origen nac Eusebius. Mae y dyb i'w gweled yn ei draethawd "ar ddiweirdeb" (*de Pudicita;* pen. xx), ond nid ydyw yn dwyn ymlaen un rheswm drosti, ac edrycha Jerome arni fel un gwbl ddisail, oblegid yn ei restr o awdwyr eglwysig, cyfeiria ati fel tyb "yn ol Tertullian yn unig" (*juxta Tertullianum*), tra yr oedd y dybiaeth mai Luc oedd yr awdwr yn cael ei derbyn gan amryw (*juxta quosdam*).[1] Amddiffynydd galluocaf y dybiaeth hon, yn bresennol, ydyw Ullmann, dadleuon yr hwn a ddyfynir gan awdwr yr erthygl ar y testun hwn yn "*Kitto's Cyclopædia.*" Ni a roddwn y rhai hyn ger bron ein darllenwyr. 1. Bod olion yn yr epistol o addysgiaeth Alecsandriaidd, a dichon y buasai Barnabas yn y ddinas hono. 2. Bod Barnabas, gan mai Lefiad ydoedd, yn fwy tebygol o feddu y wybodaeth hòno am y defodau Iuddewig ag a ddangosir yn yr epistol. 3. Bod sylwadau yr awdwr ar y gyfraith, dadguddiad dwyfol, ffydd, a'r cyffelyb, yn dwyn delw Paul, ac yn gyfryw ag a allesid ddysgwyl oddiwrth gydymaith yr apostol. 4. Bod tôn yr epistol yn deilwng o'r fath ddyn a Barnabas. 5. Bod yr ysgrifenydd yn llefaru yn fynych am yr Iachawdwr dan yr enw "*yr Iesu,*" yr hyn sydd yn arwyddo ei fod yn adnabyddus o hono yn sefyllfa ei ddarostyngiad. 6. Bod enwau y personau a gofnodir yn y llythyr yn enwau ag y gallesid dysgwyl i Barnabas gyfeirio atynt. Yr ydym yn hollol gydfarnu â'r awdwr crybwylledig am y dadleuon hyn; bod rhai o honynt yn rhy weiniaid i ni alw i fyny yr hyn a feddwn o ymadferthoedd rhesymegawl i'w taflu i lawr. Yn y ddadl gyntaf, mae dau haeriad yn aros heb eu profi, sef bod yn yr epistol olion o addysgiaeth Alecsandriaidd; a phe cymerem hyny yn ganiataol, pwy a allai brofi y buasai Barnabas erioed dan yr addysgiaeth hòno? Nid yw Ullmann ei hun yn gallu dyweyd dim cryfach nag *fe allai;* ac nis gwyddom am y gronyn lleiaf o sail i'r *fe allai* hwn, ond yn unig y dybiaeth fod rhyw ledliw o'r chwaeth Alecsandriaidd yn yr epistol; ac y mae hyny yn ymresymu mewn cylch. Pa fodd y gwyddys mai Barnabas a ysgrifenodd yr epistol? Yr ateb yw, mai am fod y naws Alecsandriaidd ynddo. Paham y bernir y buasai Barnabas yn Alecsandria? A'r ateb i hyn ydyw, mai am fod olion o addysg Alecsandriaidd yn yr Epistol at yr Hebreaid. Dywedir gan Neander, ac eraill, fod yr ysgrifeniadau sydd yn myned dan enw Barnabas yn llawn o'r naws hon, a'u bod o ran eu hysbryd a'u chwaeth yn fwy tebyg i'r eiddo Philo nag i'r eiddo Paul, ac nas gallasent, ar gyfrif eu tuedd gyfriniol, fod yn gynnyrchion dyn o nodwedd Barnabas; a chyfrifir hwynt gan Origen a Jerome ymhlith yr ysgrifeniadau ammheuol; ond dadleua Wake dros eu dilysrwydd, a chytuna Olshausen âg ef yn hyn. Ond pa fodd bynag y try y ddadl hon, nid yw yn effeithio nemawr, os dim, ar ein mater presennol. Nid oes nemawr o gryfder chwaith yn yr ail ddadl, oblegid ni chrybwyllir dim yn yr epistol o barth i'r defodau Iuddewig nas gallasai unrhyw Hebrëwr deallus eu gwybod, pa un bynag ai o lwyth Lefi, neu ynte o un o'r llwythau eraill." Nid ydym yn gweled y drydedd ddadl yn profi dim, oblegid gellid ei chymhwyso mor briodol at Clement, neu Silas, neu Luc, neu rywun o gymdeithion Paul, yn gystal a Barnabas. Yr oedd dylanwad yr apostol mor ddwfn a thrwyadl ar bob meddwl a ddygid i gyffyrddiad â'i feddwl grymus, fel ag i'w traddodi i'r un ffurf, a'u

[1] "*Kitto's Cyclopædia.*"

newid i'r un naws a chwaeth ag ef ei hunan; ac os ydyw y ddadl hon yn profi rhywbeth, onid yw yn profi gormod i ateb amcan Ullmann? Onid ydyw yn fwy ffafriol i'r golygiad mai Paul ei hun oedd yr awdwr? Mae y rheswm nesaf yn un tra gwagsaw ac anmhenodol. Os yw tôn y llythyr yn deilwng o Barnabas, onid allem ninnau ddyweyd ei fod mor deilwng o Silas, neu o Timotheus; ie, a yw yn annheilwng o'r penaf o'r apostolion? Yn y bummed ddadl, amcenir profi yr hyn sydd yn anhawdd ei brofi, oblegid, fel y sylwa Olshausen, "ymddengys (*pen.* ii, *adn.* 3) nad oedd awdwr yr epistol yn un o'r rhai oeddynt "yn myned i mewn ac allan gyda'r Iesu;" ac nid yw y ffaith fod yr awdwr yn defnyddio y gair "*yr Iesu,*" yn un awgrym, heb son am brawf, ei fod yn ei adnabod pan ar y ddaear.

Mae hawliau Silas i awduriaeth yr epistol yn fwy disail nag eiddo Clement a Barnabas; y mae gan yr eiddynt hwy ryw fath o seiliau i orphwys arnynt, ond y mae yr eiddo Silas, hyd ag y gwelsom, heb yr un. Gellir cymhwyso yr holl ddadleuon a ddygir trostynt, yr un mor briodol at rywun o gymdeithion eraill Paul. "Mae yn wir," medd un awdwr,[1] "nad oes dim yn benderfynol yn erbyn Silas; ond nid oes ychwaith ddim penodol o'i blaid; nid ydyw nodwedd neillduol ei feddwl yn cael ei ddesgrifio yn un man, fel y mae yr eiddo Apollos yn Llyfr yr Actau."

Seilir hawliau Luc ar y tebygrwydd a dybir sydd yn hanfodi rhwng arddull yr epistol âg arddull gweithiau addefedig Luc. Priodolir ei awduriaeth iddo gan rai o'r tadau, megys Jerome, ac Origen yn Eusebius.[2] Ond tybiai Clement o Alecsandria, ddarfod ei gyfieithu gan Luc i'r Groeg, ond mai eiddo Paul oedd awduriaeth yr ysgrif wreiddiol, ac ddarfod ei hysgrifenu yn Hebraeg; a phriodola Grotius ei awduriaeth neu ei gyfieithiad i Luc, o herwydd y tebygrwydd a nodwyd. Tybiwn fod dadleuon Grotius yn ffafrio yn fwy ei awduriaeth na'i gyfieithiad, fel yn eiddo Luc; a dwg ymlaen lawer o anghreifftiau er mwyn dangos tebygrwydd arddull yr Epistol i arddull yr Efengyl a'r Actau. Ond, pe y profid fod arddull y naill a'r llall yn dwyn yr un ddelw, nis gallai, yn annibynol ar ddadleuon eraill cryfach, fod yn benderfynol; ac heblaw hyny, nid yw yr anghreifftiau a ddygir ymlaen gan Grotius, ond yn golygu geiriau neillduol, ac nid yr arddull drwyddi. Os oes rhai geiriau Groeg yn cael eu harfer yn yr epistol mewn ystyr wahanol i'r ystyr a feddant yn ysgrifeniadau addefedig yr apostol, ond o'r un arwyddocâd a phan arferir hwynt gan Luc;—pe byddai y gosodiad hwn yn gywir, nid ydyw casgliad Grotius yn rhwym o ganlyn, oblegid mae yn eglur nad ydyw defnyddio ychydig o ymadroddion mewn ystyr anarferedig yn cyfansoddi yr hyn a feddylir wrth y gair *arddull;* ac y mae Hallet[3] yn sylwi fod yn yr epistol amryw eiriau yn cael eu harfer mewn ystyr anghyffredin, y rhai ni chanfyddir yn ysgrifeniadau Luc, ond a ddefnyddir gan Paul yn ei epistolau yn yr ystyron hyny; ac os cymerir hyn yn ddadl yn erbyn hawliau Paul i'w awduriaeth, gellir ei gymeryd hefyd yn ddadl yn erbyn hawliau Luc i'w gyfieithiad, yn gystal a'i gyfansoddiad gwreiddiol. Dywed Moses Stuart fod y gwahaniaeth a'r annhebygrwydd sydd rhwng tôn ac arddull yr epistol ag eiddo gweithiau Luc o nodwedd fwy pwysig na'r tebygrwydd a dybir sydd yn bod rhyngddynt. Mae yn hawdd i ni roddi cyfrif am y radd fechan o'r tebygrwydd

[1] "*Olshausen on the genuineness of the Writings of the New Testament.*"
[2] "*Eccles. Hist.;*" llyfr vi.
[3] Dyfynedig yn "*Macknight on the Hebrews.*"

a welir rhyngddynt, oddiwrth y ffaith fod Luc yn gydymaith i'r apostol; ac y mae mor hawdd, yn ol ein tyb ni, roddi cyfrif am y gwahaniaeth a nodwyd; sef yw, ddarfod cyfansoddi yr Actau a'r Epistol at yr Hebreaid gan bersonau gwahanol. Y rheswm a ddug Olshausen ymlaen, fel yn benderfynol ar hyn, ydyw, fod Luc yn un o âch genedlig, tra y mae yn sicr fod awdwr yr epistol o darddiad Hebreaidd.

Yn bresennol, ni a wnawn ymchwiliad i hawliau Paul. Cynnwysir hwynt mewn dau fath o brofion;—yr *hanesyddol* a'r *mewnol*. Yn gyntaf, mae titl yr epistol, a thystiolaethau y tadau yn y canrifoedd cyntaf, yn priodoli ei awduriaeth i Paul. Nid yw y ffaith fod teitl yr epistol yn dwyn enw yr apostol, yn meddu nemawr o gryfder fel prawf, yn annibynol ar ffeithiau eraill; ond, ar yr un pryd, mae y ffaith fod y titl i'w gael yn yr holl lawysgrifau Groeg, a braidd yn yr holl hen destunau, yn deilwng o sylw. Mae y geiriau, "Epistol Paul at yr Hebreaid," yn y copïau Syriaeg, a Peshito, y rhai ydynt mor hen a diwedd y ganrif gyntaf, neu ddechreu yr ail. Gelwir yr epistol hefyd wrth enw Paul, gan y tadau, mor foreu a'r ail ganrif.[1] Cyfrifwyd gan un gwr dysgedig, fod deg ar hugain o'r tadau Groegaidd; a dywed rhai, eu bod oll, heb eithriad, yn ei briodoli i Paul. Yn yr Eglwys Alecsandriaidd, mae genym dystiolaethau Pantaenus, yr hwn oedd yn blodeuo yn yr ail ganrif, a Chlement, yr hon a ddyfynwyd o'r blaen. Mae y rhai hyn wedi eu croniclo yn "Hanesyddiaeth Eglwysig" Eusebius. Mae yr adran a ddyfynasom o Origen yn cadarnhau yr un peth: ar ol ysgrifenu yr hon, chwanega yr hanesydd,—"Os bydd i ryw eglwys ystyried yr epistol fel eiddo Paul, derbynied ganmoliaeth; oblegid nid heb reswm y cyfrifwyd ef gan yr hynafiaid, fel un o'i weithiau ef." Dyfyna Clement o Alecsandria y geiriau hyny o'r epistol, "Heb ffydd, anmhosibl yw rhyngu ei fodd ef," a "Ffydd yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled;" 'fel y dywed,' meddai, 'yr apostol dwyfol, κατα τον θειον αποστολον.'" Dywed ymhellach, "Nid yw yr apostol dwyfol (ysbrydoledig) yn petruso llefaru, 'Cedwch mewn cof y dyddiau o'r blaen, yn y rhai wedi eich goleuo y dyoddefasoch ymdrech mawr o helbulon;'" ac â ymlaen i wneyd dyfyniadau helaeth o'r pennodau diweddaf yn yr epistol, gan eu cyfrif oll i'r του θειον αποστολον, a rhag i neb fethu deall pwy oedd yr "apostol dwyfol," cymera ofal i ddyweyd mai Paul ydoedd; επει και Παυλος τοίς 'Εβραίοις γραφαν. κ. τ. λ. "Ysgrifenodd Paul hefyd at yr Hebreaid," &c. Mae Origen hefyd yn dyfynu *Hebreaid* v. 12, 13, 14, ac yn dyweyd, "Efe, yr hwn a ysgrifenodd,—'Pob un sydd yn ymarfer â llaeth, sydd anghynnefin â gair cyfiawnder,' ydyw yr un Paul ag a ddywedodd wrth y Corinthiaid, (1 *Cor*. iii. 2), 'Mi a roddais i chwi laeth i'w yfed, ac nid bwyd.'" Yn ei lyfr, a elwir "Philocalia," ceir y geiriau canlynol; "Yr apostol Paul, yr hwn a ddywedodd wrth y Corinthiaid (1 *Cor*. x. 11), 'A'r pethau hyn a ddygwyddasant yn siamplau iddynt hwy, ac a ysgrifenwyd yn rhybudd i ninnau;" sydd hefyd mewn epistol arall (*Heb*. viii. 5), yn defnyddio y geiriau hyn o barth i'r tabernacl; "Gwel ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portread a ddangoswyd i ti yn y mynydd:" a'r hwn a ddywedodd, "Eithr y Jerusalem hòno uchod sydd rydd, yr hon yw ein mam ni oll" (*Gal*. iv. 26); a ddywedodd hefyd mewn man arall (*Heb*. xii. 22), "Chwi a ddaethoch i fynydd Sïon, i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol:'" a dwg ymlaen

[1] "*Stuart on the Hebrews*."

amryw o anghreifftiau eraill cyffelyb, y rhai a adawn yn bresennol, am eu bod yn cyffwrdd â dadl arall.

Pan wrthodid y llythyr gan yr Ariaid, yn y bedwaredd ganrif, o herwydd yr arbenigrwydd a rydd i Dduwdod y Cyfryngwr, llefara Theodoret fel y canlyn:—"Dylent o leiaf gydnabod meithder yr amser, yn ystod yr hwn y darllenid yr epistol yn yr eglwysi; sef, cyhyd ag y darllenasant yr ysgrifeniadau apostolaidd; ac os nad yw hyn yn ddigonol i'w darbwyllo, dylent wrandaw ar Eusebius, yn yr hwn yr ymffrostiant fel noddwr eu hathrawiaeth; oblegid addefa ef mai eiddo Paul yw yr epistol, a sicrha fod yr hynafiaid oll o'r dyb hon."[1]

Mae yn amlwg fod yr Eglwys Orllewinol yn fwy rhanedig yn ei barn am awdwr yr epistol nag oedd yr Eglwys Ddwyreiniol; ond olrheinir achos y gwahaniaeth i ragfarnau a feithrinid gan yr eglwysi hyny, y rhai ni chytunent â rhyw bethau yn yr epistol. Tybir gan rai bod y ffaith fod y Montaniaid a'r Novatiaid yn seilio rhai o'u dadleuon ar yr epistol yn agoriad i hyn;—nas gallasai, ac nas mynai yr eglwysi gorllewinol dadogi llythyr ag a ffafriai y cyfryw heresiau, ar un o sefyllfa ac urddas yr apostol Paul; ac nid yw yn ymddangos yn dyb anghredadwy mai hyn a dueddodd Tertullian i gyfrif ei awduriaeth i arall, oblegid y buasai y tad hwnw am un cyfnod o'i fywyd yn un o brif wrthwynebwyr Montaniaeth. Mae yr anghydweledìad sydd rhwng y beirniaid o barth i dystiolaethau y tadau, yn ymddangos i ni yn ddygwyddiad lled ysmala. Mae yr un tystiolaethau ger eu bron; maent yn addef eu dilysrwydd; ond y mae eu casgliadau oddiwrthynt mor groes i'w gilydd ag y mae yn bosibl bod. Wedi cymeryd yn eu penau mai hwn, neu y llall, a ysgrifenodd yr epistol, y maent yn gweled pob peth o'i blaid; ac yn dirdynu y tystiolaethau y ffordd a fynont; ond y maent yn rhy anhyblyg i'w trin felly, y casgliad ag y daw pob ymchwilydd diragfarn iddo oddiwrthynt ydyw, mai dros Paul y maent yn llefaru; neu o leiaf, mai o'i blaid ef y mae y mwyafrif. Sylwa Olshausen ar hyn fel y canlyn;—"Mae y prawf hanesyddol yn dra phenderfynol o barth i'r epistol hwn, oblegid yn yr Eglwys Orllewinol, ac yn neillduol yn y Rufeinaidd, nid oedd yn cael ei gydnabod mewn un modd fel un o gynnyrchion Paul, hyd ryw amser yn y bedwaredd ganrif. Trwy offerynoliaeth Awstin, yr hwn a fu farw mor ddiweddar a 430, O. C., y daeth gyntaf yn beth cyffredin i'w briodoli i Paul; ac y mae hyd yn nod y tad hwn yn llefaru am dano yn ammheus, fel y gwna eraill o'r tadau ar ol ei amser ef. Mae hyn yn ddygwyddiad tra hynod; oblegid os ystyrir pa mor adnabyddus oedd Paul, a pha mor fawr yr hoffid ef yn Rhufain, a'i fod wedi bod yn garcharor yno am flyneddau, mae yn eglur y buasai yn wybyddus yn y ddinas hòno, pa un ai Paul, ynte rhywun arall, oedd ei awdwr. Fel hyn, y mae tystiolaeth yr Eglwys Rufeinaidd o'r pwys mwyaf o barth i'r cwestiwn dan sylw." Yna, mae yn dwyn y ffaith fod Clement o Rufain yn gwneyd dyfyniadau o'r epistol, yn brawf o'i hynafiaeth, ond fod ei ddystawrwydd ynghylch ei awdwr yn ddadl yn erbyn Paul: ac wedi crybwyll fod tystiolaethau y tadau Groegaidd yn unfrydol o blaid Paul, dywed bod eiddo yr Eglwys Ladinaidd yn llawer mwy pwysig; oblegid fod tystiolaeth hanesyddol o blaid unrhyw epistol i ymofyn am dani o'r lle yr anfonwyd ef o hono, a'r lle yr anfonwyd ef iddo. Yna chwanega; "Mae un o'r rhai hyn yn ein cynnysgaethu â phrawf o blaid,

[1] "*Whitby's Commentary.*"

a'r llall â phrawf yn erbyn, Paul."[1] Barnwn fod Olshausen yn llefaru yn rhy gryf yn y dyfyniad uchod. Yn mha fodd y mae tystiolaethau yr Eglwys Orllewinol yn benderfynol yn erbyn Paul? Nid ydynt, mewn un modd, yn cyfansoddi prawf penderfynol: os rhoddir iddynt yr enw o brawf, nis gall fod yn ddim ond *nacaol;* y cwbl a ellir weled yn y tystiolaethau hyn ydyw, nad oedd gan yr Eglwys Orllewinol un prawf a'i boddlonai, neu na fynai gymeryd ei darbwyllo gan un prawf, mai Paul oedd awdwr yr epistol, tra nas gallai ddwyn ymlaen un prawf boddhaol i'r gwrthwyneb; ac y mae nerth y tystiolaethau, wrth edrych iddynt yn ddiduedd, yn y diwedd yn dyfod i hyn;—fod eglwysi Groeg ac Asia yn unfrydol dros hawliau yr apostol, tra yr oedd yr eglwysi Lladinaidd yn betrusgar ac ammheus. Pe buasai yr eglwysi diweddaf mor unedig ac unfrydol dros hawliau rhyw un arall, ag oedd y rhai cyntaf dros yr eiddo Paul, buasai cryn ddyryswch yn perthyn i'r cwestiwn; buasai rhaid pwyso y gwahanol dystiolaethau,—edrych i mewn i'w cywirdeb a'u cysondeb,—ymholi pa un ai y tadau Groegaidd ynte y rhai Lladinaidd ydynt fwyaf teilwng o ymddiried fel haneswyr; ond gan fod sefyllfa eu tystiolaethau mor wahanol i hyna, gan fod yr ansicrwydd a'r anghywirdeb mwyaf ynglyn â thystiolaethau y naill, a chydrediad lled bell yn nhystiolaethau y llall, mae yr holl ddyryswch yn darfod, a hawl Paul i awduriaeth yr epistol yn cael ei chadarnhau yn fwy.[2] Addefa yr awdwr crybwylledig fod un amgylchiad yn ffafriol i Paul, sef tystiolaeth y testun Syriaidd: dywed nad yw y ffaith hon i'w diystyru; o herwydd, gan mai i Palestina yr anfonwyd y llythyr, y gallasai yn hawdd ddyfod i ddwylaw y Syriaid cymydogaethol: gellir chwanegu fod tystiolaeth Clement o Alecsandria yn derbyn cryfder oddiwrth yr un peth. Ond yr ydym yn gwahaniaethu oddiwrth Olshausen yn y casgliad a dyna oddiwrth hyn. Rhydd ef fwy o bwys ar dystiolaeth yr Eglwys Rufeinaidd, tra nad yw ond tystiolaeth nacaol, pan y mae yn llawer mwy rhesymol rhoddi mwy o bwys ar dystiolaethau lliosog, unfrydol, a chadarnhaol y tadau Groegaidd a'r Eglwys Ddwyreiniol, ynghyd â thitlau yr hen law-ysgrifau.

Yn ail: mae amryw eiriau oddeutu diwedd yr epistol yn fwy ffafriol i Paul nag i neb arall; megys yn *pen.* x. 34, y lle y cyfeiria yr awdwr at ei rwymau, a'r cydymdeimlad a ddangosasai yr Hebreaid tuag ato yn ei garchariad. Mae y gair a gyfieithir *cyd-ddyoddef*, yn y lle uchod, yn arwyddo cydymdeimlad y meddwl, a gweithredoedd o wasanaeth yn tarddu o'r cydymdeimlad hwnw—y teimlad mewnol a'r ffrwyth allanol; ac arwydda hyn, fod y geiriau yn cyfeirio at garchariad yr apostol ymhlith yr Hebreaid—yn dra adnabyddus iddynt hwy—fod yr apostol, neu yn hytrach awdwr yr epistol, mor agos atynt, nes cynhyrfu eu teimladau dyfnaf a thyneraf tuag ato—mor agos atynt fel ag yr oeddynt mewn cyfleusdra i weini i'w anghenrheidiau. Yn awr, wrth edrych i Lyfr yr Actau, ni a gawn hanes yr erlidiau y buasai Paul ynddynt yn Judea, a'i garchariad dilynol yn Cesarea, ac ni a ddarllenwn am diriondeb y brodyr tuag ato yn y lleoedd hyn. Wedi ei ddyfod i Jerusalem, y brodyr a'i derbyniasant yn llawen; *Act.* xxi. 17. Pan yn y castell, dan ofal Claudius Lysias, y pencapten, hysbyswyd ef gan Ioan Marc am gynllwyn yr Iuddewon yn ei erbyn; *Act.* xxiii. 16. Pan yn garcharor yn Cesarea, rhoddwyd

[1] *"Olshausen on the Writings of the New Testament."*
[2] *"Kitto's Cyclopædia."*

gorchymyn gan y rhaglaw, na lesteirid neb o'i gyfeillion i'w wasanaethu; (*Act.* xxiv. 23), yr hyn sydd yn gystal a phrawf uniongyrchol ddarfod iddynt "gyd-ddyoddef gydag ef yn ei rwymau." Mae cydgordiad mor bell rhwng y ffeithiau yn yr Actau a'r mynegiad yn yr Hebreaid, fel y mae yn cyfansoddi tebygolrwydd cryf eu bod yn perthyn i'r un dyn, a'u bod yn cyfeirio at yr un amgylchiadau. Os gallodd Paley, trwy gyfrediadau cyffelyb rhwng yr hanes a'r epistolau, brofi eu gwiredd a'u dilysrwydd, nid ydym yn gweled nas gellir gyda chymaint o briodoldeb brofi awduriaeth yr epistol dan sylw yn y cyffelyb fodd, oblegid nis gellir dangos fod y geiriau yn yr Hebreaid yn cytuno â hanes neb arall yn gystal ag â hanes yr apostol Paul.

Edrychir hefyd ar y crybwylliad a wneir am Timotheus (*Heb.* xiii. 23), yn ddadl dros Paul. "Gwybyddwch ollwng ein brawd Timotheus yn rhydd, gyda'r hwn, os daw efe ar fyrder, yr ymwelaf â chwi." Mae ystyr y gair απολελυμενος yn ansicr; arwydda, *anfon ymaith* yn gystal a *rhyddhau*, a defnyddir ef yn yr ystyr gyntaf mor fynych yn y Testament Newydd, ag yn yr ystyr ddiweddaf; ac y mae yn fwy tebyg mai anfon ar negeseuaeth ydyw yr ystyr yn yr adnod hon; y mae y frawddeg "os daw efe ar fyrder," yn pleidio hyn. Ymddengys oddiwrth yr Epistol at y Philippiaid, y buasai Timotheus gyda Paul yn Rhufain, pan oedd y diweddaf yn garcharor yno; a oedd Timotheus yn garcharor ei hun sydd ansicr; barna Lightfoot y carcharwyd ef yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad Nero, ac y rhyddhawyd ef ar yr wythfed. Ddarfod ysgrifenu yr Epistol at y Philippiaid o Rufain, sydd eglur oddiwrth y crybwylliadau a wneir ynddo am "y llys" a "theulu Cæsar;" a bod yr apostol ar y pryd yn garcharor, a sicrheir ganddo ef ei hun; *Phil.* i. 13: a bod Timotheus gydag ef, a ymddengys oddiwrth y cyfarchiad dechreuol, "Paul a Timotheus." Ysgrifenwyd yr epistol yn agos i ddiwedd carchariad yr apostol, pan ymddangosai ei ryddhad yn lled obeithiol; "Ac y mae genyf hyder yn yr Arglwydd," meddai, "y deuaf finnau ar fyrder atoch;" a hysbysa ei fwriad o anfon Timotheus atynt yn gyntaf, fel y gallai "wybod eu helynt hwy." Yma ni a gawn ddau fwriad o eiddo yr apostol,—anfon Timotheus atynt i Philippi, ac aros ei hunan yn Rhufain, neu mewn rhyw fan o'r Ital, hyd ei ddychweliad.

Yn awr, mae hyn yn taflu gradd o oleuni yn gystal ar amseriad ag ar awduriaeth yr Epistol at yr Hebreaid. Ysgrifenwyd y llythyr hwn yn fuan ar ol y Llythyr at y Philippiaid; oblegid yr oedd Timotheus gyda'r apostol pan ysgrifenodd y naill, ond wedi "ei anfon ymaith" pan ysgrifenwyd y llall. Mae yr amgylchiad hwn yn gymaint a dim yn profi mai Paul oedd awdwr y llythyr dan sylw; oblegid Timotheus oedd ei gydymaith gwastadol: nid oes genym brawf y buasai yn cyd-deithio â neb arall; efe oedd ei "fab naturiol yn y ffydd," ymserchai yr apostol mor fawr ynddo, a Timotheus ynddo yntau, fel na wnai dim ond gwir anghenrheidrwydd eu gwahanu oddiwrth eu gilydd am dymmor; ac o herwydd parch Timotheus i'w dad yn y ffydd ac yn yr efengyl, a'i gymdeithas gwastadol âg ef, daeth i feddiannu "cyffelyb feddwl" i'r apostol ei hun.

Mae yr ymadrodd arall, "Y mae y rhai o'r Ital yn eich anerch," yn destun cryn ddadl ymhlith y beirniaid. Dadleua rhai fod, οἱ ἀπὸ τῆς Ιταλιας, yn golygu Italiaid, ar y pryd, allan o'r Ital. Mae rhai o'r beirniaid mwyaf diweddar yn barnu fod y frawddeg yn gyfystyr a phe dywedasid—

"Y mae y ffoedigion Italaidd yn eich anerch;" ond dywed Tholuck ei bod yn gyfystyr, o ran cystrawiaeth y Groeg, ag *oi* Ιταλιωται, *yr Italiaid;* ac y mae y *Vulgate* yn cyfieithu, "*Salutant vos de Italia fratres.*" "Mae yr awdwr," medd Olshausen, "yn anfon anerchiad oddiwrth y brodyr o'r Ital, oddiwrth yr hyn y tybiwyd yn anghywir fod yr epistol wedi ei ysgrifenu yn Italy, pan y mae y geiriad yn arwyddo yn hollol i'r gwrthwyneb, oblegid ni buasai yr awdwr yn arfer y fath ymadrodd, oni buasai ei fod yn ysgrifenu *allan* o'r Ital, mewn lle i ba un y daethai brodyr o'r wlad hòno." Mae Olshausen yn barnu fod yn rhaid cyfieithu *απο* yn yr ystyr *allan o;* ond y mae y geiriaduron goreu yn dangos nad yw hyny mewn un modd yn anghenrheidiol. Yn Passow, mae y geiriau *αιμα απο* Τρωων, yn arwyddo, "gwaed y Troiaid," ac *οι απο* Πλατωνος, yn arwyddo, "y rhai o blaid Plato." Mae *απο* yn arwyddo y man i ba un y mae unrhyw berson yn perthyn; megys, *Math.* xxi. 11; "Hwn yw Iesu, y prophwyd o (*απο*) Nazareth:" "Joseph o (*απο*) Arimathea;" *Marc* xv. 43: "A'r rhai *o* Cilicia ac Asia; *Act.* vi. 9. Yn y fan hon, y mae *απο* yn gyfystyr âg *εκ*, yr hwn yw y gair i ddynodi tarddiad neu berthynas yn nechreu yr adnod, "Cyfododd rhai o'r (*εκ*) synagog." "O'r (*απο*) hwn nid oedd neb yn gwasanaethu yr allor." Mae yn eglur, oddiwrth y dyfyniadau hyn, nad yw y geiryn hwn yn arwyddo, o anghenrheidrwydd, *allan o*, ac y gall, yn yr adnod dan sylw, gael ei gymhwyso at Italiaid ar y pryd yn Rhufain, neu ryw le o'r Ital: fel y mae *οι απο γης*, ac *οι απο θαλασσης*, yn arwyddo, *teithwyr ar y tir*, a *theithwyr ar y môr*. Pe buasai haeriad Olshausen yn gywir; pe buasai yn anghenrheidiol cyfieithu *οι απο τησ* Ιταλιασ, "y rhai allan o'r Ital," buasai felly yn rhaid cyfieithu yr anghreifftiau diweddaf, "teithwyr allan o'r tir," hyny yw, môr-deithwyr; "a theithwyr allan o'r môr," ac felly, newid yr ystyr yn hollol. Mae Beza yn cyfieithu fel hyn; "*Salutant vos Itali;*" "Mae yr Italiaid yn eich anerch." Tybia Tholuck, pe buasai Paul, neu pwy bynag oedd awdwr yr epistol, yn ysgrifenu o Rufain, y buasai yn fwy naturiol iddo ddyweyd yn y fan hon; "Mae y rhai o *Rufain* yn eich anerch." Ond nid all hyn fod yn ddadl gref yn erbyn; oblegid gallasai fod rhyw amgylchiadau, sydd yn awr yn anhysbys, ag oeddynt yn peri fod yn fwy rhesymol anfon yr anerchiad fel ag y gwnaed; gallasai fod rhai o barthau eraill o'r Ital, heblaw o'r brifddinas, gyda'r apostol ar y pryd: neu, yn ol tyb Lightfoot, dichon mai wedi ei ymadawiad o Rufain, pan yn efengyleiddio parthau eraill o'r Ital, yr ysgrifenodd yr epistol, neu y cwblhaodd ei gyfansoddi. Nid yw hyn yn ymddangos yn annhebyg, wrth gymharu yr epistolau at y Philippiaid a'r Hebreaid, fel y gwnaethom eisoes. Nid yw *adn.* 19, o'r bennod ddiweddaf, yn milwrio dim yn erbyn hyn; ac yn *adn.* 23, y mae yr apostol yn llefaru fel un wedi ennill ei ryddhad; hysbysa ei fwriad o ymweled â'r Hebreaid, heb son dim am ei garchariad—llefara fel un a deimlai fod ganddo hawl i fyned i'r fan a fynai; yr unig ammod oedd dychweliad buan ei gydweithiwr.

Yn drydydd: mae y cyfrediad sydd rhwng yr epistol, mewn amryw bethau, âg epistolau addefedig Paul, yn ddadl bwysig eu bod yn gynnyrchion yr un meddwl. Addefir y cyfatebrwydd hwn hyd yn nod gan rai a briodolant ei awduriaeth i bersonau eraill. "Mae Paul," medd un o brif wrthwynebwyr hawliau yr apostol i awduriaeth y llythyr, "mae Paul, ac awdwr yr Epistol at yr Hebreaid, yn cyduno yn hyn, eu bod yn desgrifio Iuddewiaeth fel yn annigonol i gyflenwi anghenion crefyddol dyn. Hyn

ydyw ystyr yr hyn a ddywedir yn *pen.* vii. 19—nad allasai Iuddewiaeth 'berffeithio dim;' nid oedd ei sefydliadau crefyddol yn alluog i sylweddu y syniadau a drosglwyddid ganddynt i'r gydwybod. Yr oedd yr aberthau a'r offeiriadaeth yn annigonol er boddloni yr anghenion crefyddol, i'r rhai yr oeddynt yn ddyledus am eu bodolaeth; sef rhoddi terfyn ar yr anghytundeb rhwng Duw a dyn." Drachefn; "Y mae Paul, ac awdwr yr epistol, yn gosod canolbwynt crefydd yn y prynedigaeth oddiwrth bechod ac euogrwydd, adferiad cymundeb â Duw, o'r hyn y deillia y bywyd ysbrydol, ffynnonell pob sancteiddrwydd; ac annigonolrwydd Iuddewiaeth i gyrhaedd yr amcan hwn, oedd yn cyfansoddi, yn marn y ddau, ei diffyg hanfodol. Yn yr epistol hwn, y mae maddeuant pechodau, cyfraniad bywyd ysbrydol, a gallu ysbrydol, a sancteiddhad, yn cael eu gosod ger bron fel gwaith Crist—fel effaith Cristionogaeth; myntumir mai trwy yr egwyddor newydd hon o fywyd y mae y prynedigion yn alluog i roddi gwir addoliad ysbrydol, yr hyn sydd yn cymeryd i fewn yr holl fywyd, fel ag y mae yr holl enaid yn awr wedi ei fywhau gan ysbryd newydd, yn dyfod yn offrwm diolch am y gras a roddwyd iddo. A'r un modd y mae Paul yn edrych ar yr holl fywyd Cristionogol fel act o addoliad ysbrydol a gwirioneddol." Fel hyn y llefara Neander, yr hwn a gyfrifa yr epistol yn gynnyrch meddwl a fuasai dan ddysgyblaeth wahanol i'r eiddo Paul.

Mae y ddirnadaeth ddofn ac eang o drefn yr efengyl, yr hon a ganfyddir yn ngweithiau addefedig yr apostol, yn ymddangos yn yr epistol hwn, a hono yn gyfryw na welir yn nghynnyrchion neb arall o'r ysgrifenwyr ysbrydoledig. Mae yn wir fod rhai adranau yn ysgrifeniadau Ioan, na chyfarfyddwn, fe allai, â dim yn ngweithiau Paul, nac yn eiddo neb arall, yn meddu cymaint o wir addurniant a phrydferthwch. Yn y bennod gyntaf o'i Efengyl, mae yn llefaru fel y llefarasai angel. Mae yn rhyfedd fod yn bosibl i'r fath feddyliau addurnol gael eu trosglwyddo erioed trwy gyfrwng y natur ddynol; a rhaid fod y meddwl a allasai eu ffurfio a'u cynnwys, yn ymddyrchafu yn uwch—yn gallu agosâu yn nes i gymundeb â'r meddwl Dwyfol nag y caniatawyd i un meddwl dynol arall! Os gallodd gyrhaedd ac ymwthio i'r fath bellafoedd o ddirnadaeth, os gallodd gael ardrem mor glir ar ddirgelwch a gogoniant "y Gair," pan ar y ddaear, pa beth yw ei ddirnadaeth, pa mor eang a dwfn yw ei syniadau yn awr! Os gallodd ehedeg mor uchel rhyngddo a'r "goleuni nas gellir dyfod ato," pan wedi ei gadwyno wrth y clai, pan yn cael ei lesteirio gan gorff anianol, i ba uchelion y mae yn awr wedi cyrhaedd, pan wedi ennill ei ryddhad! Ond er yr addefwn hyn, er mai yn ysgrifeniadau y Duwinydd y cyfarfyddwn â'r *rhanau* mwyaf ardderchog yn y llyfr sydd yn ardderchogrwydd i gyd, *eto,* barnwn mai Paul a feddai y ddirnadaeth gliriaf ac eangaf o'r *oll* o drefn Duw; yn ei weithiau ef y cawn Gristionogaeth yn gyfundraeth gyson a chyflawn—yn un peiriant gorphenedig. Mae y gwirioneddau o gynhanfodiad y Gair—ei ymgnawdoliad—cariad yn ei wahanol amlygiadau yn Nuw ac yn y dyn,—y gwirioneddau hyn, a hwy braidd yn unig sydd yn cymeryd i fewn holl ysgrifeniadau Ioan; maent yn cael eu portreadu ger bron ei feddwl myfyrgar yn eu gogoniant a'u dysgleirdeb, fel y mae eu hysplander yn ei swyno; mae "y goleuni" yn llathru ar ei lygaid eryraidd, fel y mae yn ddall i bob pwnc ond ei hoff wirioneddau; i'r rhai hyn y mae yn chwennychu edrych yn wastadol; y mae ei galon wedi ei chadwyno wrthynt fel nad all, ac na fyn, syllu ar ddim ond arnynt hwy.

Ond cymera Paul olygiad mwy eang ar yr oll; treiddia yntau i'r dwfn, fel Ioan, yn y gwirioneddau a enwyd; ond cymera i fewn "holl gyngor Duw." Tra y mae Ioan wedi codi ei babell ar un o gopaod mynyddoedd Israel, a sicrhau ei rhaffau a'i hoelion, fel pe y penderfynai aros yno, y mae pabell Paul yn fwy symudol; daw i lawr o uchder y mynyddoedd i'r mân fryniau, ac oddiyno i'r dyffrynoedd meillionog—cerdda y wlad ar ei hyd ac ar ei lled, nes casglu gwybodaeth am dani o gŵr i gŵr: edrycha ar yr iachawdwriaeth yn ei chysylltiad â Duw, â Christ, â dyn; â phenarglwyddiaeth, ac â dyledswydd—gwna hi i fyny yn gyfundrefn gyflawn a chyson; ac y mae yr Epistol at yr Hebreaid yn cael ei nodweddu yn gymaint gan yr eangder a'r cyfanrwydd hwn ag un o lythyrau addefedig yr apostol. Mae desgrifiad awdwr y llythyr hwn o fawredd hanfodol y Cyfryngwr, yn *pen.* i. 2, yn gyfrediadol â desgrifiad Paul, yn *Col.* i. 15. Mae sefyllfa ei ddarostyngiad yn cael ei darlunio (*pen.* ii. 7) yn gyffelyb i ddarluniad yr apostol, yn *Phil.* ii. 6, 8:—ei ddyrchafiad yn cael ei osod allan fel mawredd breninol—ei eisteddiad ar "ddeheulaw y marwedd yn y goruwchleoedd"—yn gyffelyb i ymadroddion yr apostol yn ei lythyrau at y Philippiaid a'r Ephesiaid. Y mae yr un arbenigrwydd yn cael ei roddi i'w ymgnawdoliad, ei ufudd-dod, ei aberth, a'i ddyrchafiad, ag a roddir iddynt yn epistolau addefedig Paul.

Rhoddir i Grist y teitl o *Gyfryngwr* yn yr epistol hwn, yr hwn ni roddir arno gan neb ond Paul. Ystyrir y gyfraith fel *cysgod* ac arddangosiad anmherffaith o'r efengyl yn yr epistol, fel y gwneir yn llythyrau Paul. Mae y geiriau (*Col.* ii. 17), "Y rhai ydynt yn gysgod pethau i ddyfod, ond y corff sydd o Grist," a (*Heb.* x. 1) "Oblegid y gyfraith, yr hon sydd ganddi gysgod y daionus bethau i ddyfod, ac nid gwir ddelw y pethau," mor debyg o ran meddwl ac arddull, fel y mae yn anhawdd meddwl nad ydynt wedi eu hysgrifenu gan yr un person. Mae marwolaeth Crist yn cael edrych arno yn yr epistol hwn fel aberth dros bechod, ac fel gwrthgysgod, dyben, a therfyniad yr aberthau Iuddewig, fel yr edrychir arno gan Paul; 1 *Cor.* v. 7; *Eph.* v. 2. Mae y teitl, "Duw yr heddwch," i'w gael yn yr epistol hwn, fel yn ysgrifeniadau yr apostol: *Heb.* xiii. 20; *Rhuf.* xv. 33; xvi. 20; *Phil.* iv. 9. Rhoddir yr un arbenigrwydd i ffydd fel y pwnc ar ba un y mae iachawdwriaeth yn troi. ac fel egwyddor a bywyd crefydd ysbrydol, yn y llythyr hwn, ag a roddir iddi yn llythyrau Paul; a lleferir ynddo hefyd am ffrwythau ffydd a llafur cariad fel *aberthau i Dduw*, fel ag y gwneir yn epistolau Paul. Yn *Heb.* xiii. 16, dangosir fod "gwneuthur daioni a chyfranu" yn ebyrth, trwy ba rai "y rhyngir bodd Duw;" a llefara yr apostol am haelioni y Philippiaid (*pen.* iv. 18), fel "arogl peraidd, aberth cymeradwy, boddlawn gan Dduw." Mae yr ymadrodd (*Heb.* xi. 7), "y cyfiawnder sydd o ffydd," yn dwyn delw yr apostol Paul.

Fe allai y dadleuir nad yw cyfiawnhad trwy ffydd, ac adgyfodiad Crist —ffaith fawr Cristionogaeth, yn cael yr un arbenigrwydd yn y Llythyr at yr Hebreaid, ag yn llythyrau addefedig yr apostol. Mae hyn yn wir mewn rhan: nid ydym yn cofio ond am un crybwylliad am adgyfodiad Crist yn yr holl epistol, sef yn *pen.* xiii. 20. Ond y mae yr wrthddadl hon yn darfod, wrth ystyried nodweddau neillduol yr epistol. Mae yr un arbenigrwydd yn cael ei roddi i gyfiawnhad fel *athrawiaeth*, er nad yw geiriau mwyaf arferol Paul i'w cael ynddo; mae yr oll a gynnwysir yn y gair *cyfiawnhad*, yn gynnwysedig yn gystal yn y gair *perffeithio*, yr hwn a

arferir mor fynych yn y llythyr dan sylw; ac y mae y gair diweddaf wedi ei gymeryd yn hytrach na'r cyntaf, o herwydd y cyfatebiaeth a wneir ynddo rhwng yr aberthau Iuddewig ag aberth Crist. Yr un modd, oblegid fod gwaith y Cyfryngwr ar y ddaear, ac yn y nef, yn cael ei gyferbynu â gwasanaeth yr archoffeiriad Iuddewig, buasai yn naturiol dysgwyl y buasai mynediad yr Arglwydd Iesu i'r nefoedd, a'i wasanaeth yn y "gwir gysegr," yn cael eu dwyn i fwy o sylw na'i adgyfodiad oddiwrth y meirw; oblegid yn ngwasanaeth y cysegr bydol, y ddau brif wasanaeth oedd offrymiad yr aberth, a'r mynediad i'r sancteiddiolaf. Nid oedd yn y gwasanaeth a gyflawnid gan yr archoffeiriad yr un ddefod yn rhagddangos yr adgyfodiad yn neillduol; mae yn wir y portreadid hyny mewn amryw osodiadau eraill, ond yr hyn a haerwn yn awr yw, na chysgodid adgyfodiad Crist gan un gosodiad yn ngwasanaeth yr archoffeiriad; ei orchwyl pwysig ef oedd myned i fewn i'r cysegr: ac er mwyn dal y cysgod a'r gwrthgysgod gyferbyn â'u gilydd, mae yr awdwr yn dwyn mynediad Mab Duw i'r nefoedd, a'i ymddangosiad gwastadol yno, i fwy o arbenigrwydd na'i adgyfodiad oddiwrth y meirw. Ond yn niwedd yr epistol, pan wedi ymadael â'r gymhariaeth a ddilynai, mae yn cyffwrdd â'r ffaith bwysig hon, "A Duw yr heddwch, yr hwn a ddug Iesu oddiwrth y meirw."

Defnyddir hefyd yr un ffugrau yn yr Epistol at yr Hebreaid ag yn epistolau Paul. Mae dyrchafiad y Duw-ddyn yn cael ei gyffelybu i *eistedd ar orsedd*, ac *ar ddeheulaw*; *Heb.* viii. 1; xii. 2; *Eph.* i. 20. Mae y ffugr o *gysgod* yn cael ei gymhwyso at y gyfraith; *Heb.* x. 1; *Col.* ii. 17. Cyffelybir gair Duw i *gleddyf*; *Heb.* iv. 12; *Eph.* vi. 7. Cyffelybir elfenau dechreuol crefydd i *laeth*, a gwybodaeth drwyadl i *fwyd cryf*; *Heb.* v. 12; 1 *Cor.* iii. 2. Yn *Heb.* x. 32; a 1 *Cor.* iv. 9; pan leferir am y credinwyr fel yn "ddrych i'r byd," ac "wedi eu gwneuthur yn wawd," cyfeirir at arddangosiadau cyhoeddus mewn chwareuon. Ceir yn yr epistol hwn, fel yn epistolau Paul, gyfeiriadau aml at yr ymdrechfëydd Groegaidd; lleferir am flinderau a helbulon fel *ymdrech* (*Heb.* x. 32; *Col.* ii. 1); ac am fywyd y credadyn fel *gyrfa*; *Heb.* xii. 1; *Phil.* iii. 14. Yn yr epistol hwn hefyd, ni a gyfarfyddwn â dyfyniadau o'r Hen Destament, ac eglurhad arnynt, y rhai ni chanfyddir yn ysgrifeniadau neb ond Paul. Cymhwysir *Salm* ii. 7, at yr Arglwydd Iesu fwy nag unwaith yn y llythyr, fel y gwnaeth Paul yn ei araeth yn Antioch; *Act.* xiii. 33. Yr un modd, mae yr eglurhad a roddir yn 1 *Cor.* xv. 25, 27, o *Salm* viii. 4, yn gyffelyb i *Heb.* ii. 7, 8; ac y mae yr eglurhad a roddir yn *Heb.* vi. 14, 18, ar y cyfammod rhwng Duw ac Abraham, yn hollol gydunol â geiriau Paul; *Gal.* iii. 8—18.[1] Mae arwyddion yn yr epistol fod yr awdwr yn arfer dyfynu o'r Deg a thriugain, ac weithiau o'i gof, fel y gwna Paul; ac y mae rhai geiriau o'r Hen Destament yn cael eu cysylltu yn y naill fel y lleill â'r ymadrodd *και παλιν*, *a thrachefn*.

Mae neillduolion arddull yr apostol yn ei gynnyrchion addefedig i'w gweled yn yr epistol hwn. "Os ydyw y dull y mae awdwr yn trin ei fater, ynghyd â'i ffordd o resymu, yn arwyddion sicr trwy ba rai y gellir ei adnabod, fel yr addefa pob beirniad da ar gyfansoddiad, ni a allwn, heb betrusder, ystyried Paul yn awdwr yr Epistol at yr Hebreaid. Oblegid canfyddwn ynddo y fath gyflawnder o syniadau, wedi eu traethu mewn modd byr, yr hyn sydd yn hynodi Paul ar bob ysgrifenydd arall.

[1] "*Macknight on the Epistles*," a "*Kitto's Cyclopædia.*"

Mae ynddo hefyd [illegible] [illegible] a [illegible], ac [illegible] ag ef, ar ol [illegible] ac ei [illegible] [illegible] yn cael eu [illegible] mewn un gair; yr hyn sydd yn [illegible] Paul. [illegible] i arferiad ysgrifenwyr ereill. [illegible] Paul. [illegible] a gyfarfyddwn â llawer o [illegible]. y [illegible] i'w gwneyd i fyny o'r [illegible]. [illegible] yn yr epistol hwn, fel yn epistolau [illegible] Paul. [illegible] at [illegible] y darllenwyr, ac [illegible] gan y gwyddai yr ysgrifenydd y [illegible] y dylent gael eu cymmod; ac yn ol [illegible] Paul, y mae [illegible] yr epistol hwn wedi chwanegu at ei resymau amryw annogaethau [illegible] a [illegible]; ac y mae yr holl bethau hyn yn [illegible] yr apostol Paul fel awdwr yr Epistol at yr Hebreaid, yn amlwg i bawb [illegible] yn [illegible] ag, ac yn [illegible] ar, ysgrifenu a [illegible]."[1]

Nid allwn lai nag ystyried fod y darlleniad [illegible] o blaid hawliau Paul, yn ddigon i argyhoeddi pob meddwl [illegible], mai efe biodd yr anrhydedd o ysgrifenu yr Epistol at yr Hebreaid: a galwn chwanegu nad yw y dadleuon a ddygir yn ei erbyn yn meddu nemawr gryfder, nac yn effeithio dim ar y rhesymau hyn. Fe allai y cawn gyfleusdra yn un o'r rhifynau dyfodol o'r "Traethodydd" i alw sylw ein darllenwyr atynt; ond hyd hyny, gallant yn ddibetrus, os byddant yn darllen pennod o'r llythyr ar ddechreu cyfarfod gweddi, neu ar ddyledswydd deuluaidd, ddyweyd—"Darllenwyd y —— bennod o Epistol Paul yr apostol at yr Hebreaid."

HYFRYDWCH Y NEFOEDD.

MAE'R fordaith yma yn y byd,
Trwy dymhestl ddirfawr bron o hyd;
  Peryglon mawrion drwyddi 'n llawn:
Pan gair i'r môr o heddwch pur,
Ymhell o gyrhaedd ofn a chur,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ei long fu 'n hir ar gulfor bâs,
Heb ddwfr i'w gael, ond o fôr gras;
  Rhwng craig a thraeth yn niwl prydnawn:
Pan ddaw ryw foreu i'r môr mawr,
Er anobeithio lawer awr,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Bu 'n morio 'n aml ar noswaith oer,
Mewn niwl heb weled sêr na lloer;
  Pan ballai 'n hollol ei holl ddawn:

[1] "*Macknight on the Epistles.*"

Pan ddaw i'r môr o'r culfôr caeth,
Lle syrthiodd ganwaith ar ryw draeth,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Wrth fyn'd drwy gyfwng diwedd oes,
Y lle sydd gul, a'r gwynt yn groes,
  A thywyll fachlud haul brydnawn:
Pan ddaw i'r môr trwy 'r cyfwng du,
Y môr o'i flaen, a'r gwynt o'i du,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Y man lle collwyd llongau lu;
A chlywai 'r bradwyr o'i ddau tu
  Yn dweyd yn hyf, "Nyni a'i cawn:"
Pan gyrhaedd hwn i'r cefnfor draw,
Trwy 'r holl beryglon ar bob llaw,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Cael nofio 'r môr tawelog maith,
Heb ofni glàn na thymhestl chwaith,
  Ar dònau cryfion dwyfol ddawn;
A gallu d'wedyd ar bob ton,
"Myfi, myfi y piau hon;"
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Pererin tlawd, ymhell o'i wlad,
Sy 'n teithio 'mlaen i dŷ ei Dad,
  O hyd trwy gymhorth dwyfol ddawn:
Ar ol blin teithio amser maith,
Trwy ofnau dirfawr lawer gwaith,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Y daith sydd trwy anialwch mawr;
Mae bron â'i dd'rysu lawer awr;
  Ac ofna fwy wel'd hwyr brydnawn:
Pan ddaw i'r làn trwy 'r d'rysni oll,
Er ofni ganwaith fod ar goll,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ymdeimlo 'n aml yn wan a llwfr,
Mewn crasdir poeth, lle nad oes dwfr;
  Ond ceir o Ganaan sypiau grawn.
Ar ol cael trwy y crasdir llwm,
Bron trengu 'n aml o syched trwm,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Mae 'r daith trwy ddiffaeth anial du,
Peryglon mawrion o bob tu;
  Bwystfilod rheibus drwyddo 'n llawn:
Ar ol d'od trwy 'r arswydus fro,
Er yn safn angeu lawer tro,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Rhaid gweithio 'r ffordd ymlaen o hyd
Yn erbyn Satan, cnawd, a byd,
   Heb orphwys foreu na phrydnawn:
Ond pan ddaw drwodd i dir glân,
'Nol braidd cael byw mewn mwg a thân,
   Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Rhaid llwybro ymlaen aml noson ddu,
Tra rhua 'r llewod o bob tu,
   Heb nawdd na nerth ond dwyfol ddawn:
Pan ddaw trwy 'r niwl i oleu 'r dydd,
Er ofni llwyr ddiffygio 'i ffydd,
   Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Trwy 'r daith rhaid dwyn ryw groes bob awr,
Mor flin a llesg, bron syrthio i lawr,
   A godd yn ddwfr ffiol lawn:
Ar ben y daith, trwy erchyll hin,
Yr ymdrech mawr, a'r lludded blin,
   Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ymholi 'n aml mewn dirfawr ofn,
"Pa fodd [illegible] trwy 'r Iorddonen ddofn?
   [illegible] beth a wnawn?"
Ar ei [illegible] gan ei braw,
Ac [illegible] y lan draw,
   Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Rhaid [illegible] i ei hun i gerbyd pruddd
[illegible]
   [illegible] 'n llawn:
Pan ddaw [illegible] yn ei rhydd,
[illegible] yn [illegible] 'r dydd,
   Y nefoedd fydd yn felus iawn.

[illegible]
[illegible]
   [illegible] llawenhawn!"
[illegible]
[illegible]:
   Y nefoedd fydd yn felus iawn.

[illegible]
[illegible] mawr:
   [illegible] prydnawn:
Ac [illegible],
"[illegible] mawr!"
   Y nefoedd fydd yn felus iawn.

[illegible]
[illegible]
   [illegible]!

Gwel, dyma 'r fan, yn f' ystlys i,
Caed ffynnon i dy olchi di!"
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Yr Iesu 'n gwenu arno 'n fwyn,
Gan ddweyd, "'Rwyt ti yn un o f' ŵyn,
A brynais i trwy daliad llawn:
Mae pobpeth yma yn eiddo i ti;
Cai drigo mwyach gyda mi!"
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Holl groesau 'r daith yn troi yn hedd,
A'r holl ofidiau 'n troi yn wledd,
A'r tlodi 'n troi yn Ganaan lawn;
Yr arfau 'n troi yn balmwydd mwy;
A'r ofnau gynt, fe 'u siomwyd hwy:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ar ol ymestyn am lanhâd;
Ac ofni nad oedd dim gwellâd;
Halogrwydd trwy 'r holl ddyn yn llawn;
Ond hwnw 'n cael ei hun heb friw,
Yn berffaith lân ar ddelw Duw:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ar ol hiraethu, trwy 'r daith bell,
Am adwaen Iesu 'n llawer gwell,
Ac ofn niwl mwy yn hwyr prydnawn;
Ond hwn trwy 'r ofn yn cael ei hun
Ar fainc, yn ymyl Mab y Dyn:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Yn lle wylofain, seinio cân;
Yn lle gelynion, brodyr glân;
Yn lle 'r wlad lom, cael Canaan lawn;
Heb ofni llithro byth drachefn,
Ac angeu mwyach o'r tu cefn:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Bydd holl dduwiolion oesau 'r byd
Yn cymdeithasu yno ynghyd,
A'r cyfan yn eu hoed yn llawn;
Mewn heddwch byth, heb unrhyw boen,
O flaen gorseddfainc Duw a'r Oen:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Yr etifeddion ydynt hwy;
Heb Ismael groes i'w blino mwy,
Nac Esau gas trwy 'r Ganaan lawn;
Ond anwyl frawd a fydd pob un,
Ar berffaith ddelw Duw ei hun;
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Un corff yw'r oll tu fewn i'r llen;
A'r Iesu mawr yw 'r uchel Ben:
  Yn fuan, daw 'r holl gorff yn llawn:
A chariad Duw a red o hyd,
Fel gwaed, yn frwd trwy 'r corff i gyd:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Mae 'r holl aelodau fry 'n gytûn;
Cyd-lawenhant wrth fawrhad un;
  Yr oll yn cydfwynhau pob dawn;
Mwynhant eu gilydd yn ddiball,
A'r naill fwynha ddawn Duw trwy 'r llall:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Cael gwel'd y daith o'r bryniau draw,
Ei throion oll, heb deimlo braw,
  Nac ofni machlud haul brydnawn:
Ond gwel'd pob rhan o'r yrfa gas
Yn dangos rhyfeddodau gras;
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Cael cyrhaedd fry i dŷ ei Dad;
Ymborthi ar hen ŷd y wlad,
  Y mel a'r llaeth yn ffrydiau llawn;
Ymrodio gyda 'r Iesu gwiw,
Ar hyd rhodfeydd Paradwys Duw;
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ymddyddan gyda 'r Iesu hardd,
Gan rodio 'r baradwysaidd ardd,
  A phob ffrwyth drwyddi 'n addfed rawn;
Gwelyau 'r llysiau per bob lliw,
Yn cyd-groesawu 'r Iesu gwiw;
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Cael clywed Iesu 'n eglurhau
Rhagluniaeth ddofn, dan lawenhau;
  Pob chwerw dro 'n ddaioni llawn:
A mwy, ei wrandaw 'n traethu 'i oes,
O'r bru trwy ddyfnder angeu 'r groes:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Pan draetha Crist ei ryfedd oes,
Pan ddechreu dd'weyd am angeu 'r groes,
  Bydd teimlad pawb trwy 'r nef yn llawn:
Ar hyn, ymdorant mewn cyd gân;
A gwel'd yr Oen ennyna 'r tân:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Hen gartref bywyd yw 'r wlad lon;
A bywyd byth deyrnasa 'n hon;
  Mae ffynnon bywyd yno 'n llawn:

Ei llyfr, ei phren, a'i hafon rad,
Pob peth yn fywyd trwy 'r holl wlad:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Gwlad Duw—"y Bywyd" gelwir hi;
Ei Haul yw Crist ein bywyd ni;
  Pelydrau bywyd yw ei ddawn:
Mae awyr bywyd yn rhy gref
I angeu ddyfod byth i'r nef:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Mae bywyd yno 'n bren dan ffrwyth;
Afalau bywyd arno 'n llwyth;
  A'i ffrwyth bob mis yn addfed lawn:
Cael bwyta 'r ffrwyth—pa beth fydd hyn?
Ond bwyta bywyd faint a fyn:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Mae bywyd yn y nef mor rad,
Yn llifo 'n afon trwy 'r holl wlad;
  A hòno yn dragwyddol lawn:
Cair yfed dwfr y bywyd byth,
Sef, yfed bywyd yn ddilyth:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Cofrestrwyd enwau 'r nefol had
Yn llyfr y bywyd, gan y Tad;
  Pob sill a bywyd ynddi 'n llawn:
Bydd bywyd yn y llyfr byth mwy,
Yn per eneinio 'u henwau hwy:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Mae pawb dan goron drwy 'r nef lon;
A bywyd yw y goron hon;
  Mae perlau bywyd drwyddi 'n llawn:
Bydd bywyd heirdd goronau 'r saint
Yn fywyd byth i'w bri a'u braint:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Y bywyd piau yr holl wlad;
Teyrnasa byth yn fywyd rhad;
  A bywyd bywyd fydd pob dawn:
Teyrnasu gyda Christ byth mwy;
Mewn bywyd y teyrnasant hwy:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Pa beth ond bywyd yw eu gwledd;
A'r Iesu 'n d'weyd â siriol wedd,
  "Fy mrodyr, yfwn a bwytawn;"
A'r wledd o fywyd a'u deil hwy
Mewn llawn ieuenctid am byth mwy:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Eu gwledd fydd bywyd y Duw Ior;
Fel ffrydiau lenwir gan y môr:
  Ei fywyd ef trwy 'r oll yn llawn:
Bydd ffynnon bywyd yn mhob un;
A hwnw 'n fywyd Duw ei hun:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Y môr o fywyd, pery 'r un,
Trwy 'r ffrydiau yn mawrhau ei hun;
  Nid edwyn drai, ond byth yn llawn:
Ni fetha 'r un o'r teulu fyw,
Tra pery bywyd yn eu Duw:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

DYFODIAD YR EFENGYL I YNYS PRYDAIN.

YN y rhifyn diweddaf o'r "Traethodydd," ceisiasom nodi y dygwyddiadau rhagbarotoawl i ddyfodiad yr efengyl i'r wlad hon; a phrofasom i foddlonrwydd ein darllenwyr, fel yr ydym yn hyderu, ddarfod i Gristionogaeth ddyfod yma rywfaint o amser cyn terfyniad yr oes apostolaidd. Rhaid i ni, yn awr, fyned at y mater yr edrychir arno yn gyffredin, ac yn gyfiawn felly, fel yr anhawddaf i'w benderfynu; a hwnw ydyw,—

III. PWY OEDDYNT Y CENADAU CYNTAF A FUONT YN PREGETHU AC YN LLAFURIO I BLANU CRISTIONOGAETH YN YNYS PRYDAIN?

Yr ydym wedi crybwyll yn flaenorol am yr amrywiaeth golygiadau a fu, ac eto y sydd, yn hanfodi, yn mherthynas i'r cwestiwn hwn. Galwyd sylw hefyd at yr achosion neillduol hyny a barent i ddynion, mewn oesau a aethant heibio, danu chwedlau mor anghydnaws ynghylch yr offerynau a'r moddion, drwy y rhai, fel y tybid, y cyrhaeddodd yr efengyl drosodd yma ar y cyntaf. Yn bresennol, gan hyny, nid oes genym ond nodi allan yr opiniynau mwyaf poblogaidd a dderbyniwyd, neu a dderbynir, gyda golwg ar y mater, gan sylwi ar eu teilyngdod cymhariaethol wrth fyned ymlaen, fel y caffo y darllenydd fantais i wybod beth sy resymol i'w gredu gyda golwg ar y pwnc.

Tybiodd rhai mai Paul, eraill mai Pedr, eraill mai Iago brawd Ioan yr Efengylwr, ac eraill mai Simon Zelotes, a fu yma yn pregethu Crist gyntaf. Priodolwyd yr anrhydedd o ddwyn yr efengyl drosodd i Ynys Prydain hefyd i Joseph o Arimathea, a'i gymdeithion. Am y traddodiadau Cymreig, drachefn, y mae y rhai hyn yn ein dysgu i briodoli yr anrhydedd hwnw i Bran Fendigaid, a'r cenadau a enwir, sef Ilid, a Chyndaf, ac Arwystli Hen. Ac yn awr, y gofyniad ydyw, Pa un o'r hanesion hyn sy deilwng o gael ei dderbyn genym fel gwirionedd? Gyda golwg ar y traddodiadau a fynegant i'r efengyl gael ei dwyn drosodd i'r ynys hon gan Pedr, a chan Iago, a chan Simon Zelotes, ymddengys eu bod yn gwbl ddisail, ac annheilwng o sylw; "gwrachïaidd chwedlau" ydynt, dybygid, i'w troi o'r neilldu, a'u

deol ar unwaith i dir anghof. A ganlyn ydynt yr hanesion a gawsant y derbyniad helaethaf ymhlith dynion, ar wahanol amserau, gyda golwg ar y mater; sef—1. Yr hanes a fynega mai Joseph o Arimathea, ynghyd â nifer o'i gyfeillion, a fu yma yn pregethu yr efengyl gyntaf. 2. Y traddodiad a briodola y cyfryw anrhydedd i'r apostol Paul. 3. Y mynegiad a geir am yr amgylchiad yn y Trioedd Cymreig. Oddiar yr ystyriaeth o hynafiaeth a phoblogrwydd yr amrywiol hanesion hyn, fe 'n rhwymir i dalu i'r naill a'r llall o honynt y sylw manylaf. Cânt ddyfod o dan ein hystyriaeth yn y drefn a nodasom uchod.

Yn y lle cyntaf, gan hyny, cymerwn olwg ar hanes cenadaeth Joseph o Arimathea i'r ynys hon. Y mae y traddodiad am Joseph, yn ei ddull mwyaf syml a chyntefig, yn rhedeg fel y canlyn:—Mynegir iddo, yn nghymdeithas yr apostol Phylip, ddyfod ymlaen i dir Gâl, ac i'r apostol hwnw ei annog i ddyfod drosodd i Brydain, gyda deuddeg o'i gyfeillion fel cydlafurwyr. Yn ol yr hanes, cyrhaeddodd yma, gyda'i gymdeithion, yn y flwyddyn o oed Crist 63, a dechreuodd bregethu i'r brodorion yn ddioed. Ar y cyntaf, ychydig o lwyddiant a ddilynai ymdrechiadau y cenadon. Yr oedd y bobl, ynghyd â'u brenin, yn teimlo gormod o serch at eu hofergoelion i dalu sylw i'r gwirioneddau newyddion ac estronol a gyhoeddid iddynt. O'r diwedd, pa fodd bynag, y fath oedd y parch a ennillodd Joseph, a'i gyfeillion, oblegid eu hymarweddiad teilwng a dichlynaidd, fel y caniataodd y brenin Arviragus iddynt gael meddiannu *Ynys Afallon*, neu *Ynys Wydrin*, sef *Glastonbury*. Yn mhen amser, wrth graffu ar sancteidd-rwydd eu bucheddau, cynhyrfwyd dau frenin arall i roddi iddynt ryw gymaint o dir yn ychwanegol. Wedi hyn, ymwelwyd â hwynt gan yr angel Gabriel, yr hwn a'u cyfarwyddodd i adeiladu eglwys er anrhydedd i'r Forwyn, mewn llanerch neillduol, pa un a nodid allan iddynt. Cyfodwyd capel bychan ganddynt yn y fan, yn ol fel y dymunai yr angel arnynt wneuthur. Ymddangosodd y traddodiad uchod, am y waith gyntaf, yn ngwaith William o Malmesbury ar "Hynafiaethau Glastonbury." Ar ei ol ef, fe'u hadroddwyd gan y nifer amlaf o'r hen haneswyr, a gwneid hyny gan rai o honynt gydag ychwanegiadau lawer.

Bu adeg, pan yr ystyrid fod y traddodiad ynghylch ymweliad Joseph o Arimathea âg Ynys Prydain, yn deilwng o dderbyniad cyffredinol fel hanes credadwy; ond o herwydd yr ychwanegiadau a wnaed ato mewn amseroedd diweddarach, daethpwyd i edrych ar y cyfan o'r hanes fel ffugwaith anwireddus a disail. Yr oedd ysgrifenyddion mynachaidd y canol oesoedd, megys yr awgrymwyd o'r blaen, yn fedrus dros ben i ddyfeisio a phentyru ar eu gilydd ffug-chwedlau ynfyd, er mwyn synu a chamarwain yr anwybodus. Er prawf o hyn, ni raid i ni ond cyfeirio yn unig at rai o'r ychwanegiadau a wnaed ganddynt at yr hanes dan sylw. Fel hyn, fe 'n hysbysir fod nifer dilynwyr Joseph, ar y cyntaf, yn chwe' chant o wŷr a gwragedd; ac i'r rhan fwyaf o honynt, mewn canlyniad i'w gwaith yn tori adduned o bwys, yr hon a wnelsid ganddynt, gael eu rhwystro i ddyfod drosodd, ac i'r gweddill, cant a hanner mewn rhifedi, groesi y môr mewn dull gwyrthiol. Am y lleill, mynegir iddynt edifarhau am eu camwedd, ac iddynt mewn canlyniad gael eu cyrchu drosodd i Brydain mewn llong, pa un a gawsai ei hadeiladu gan y brenin Solomon. Dilynid hwynt drosodd, medd yr hanes, gan Nacianus, un o dywysogion y Mediaid, yr hwn a fedyddiasid gan Joseph yn ninas Saram. Dywedir hefyd fod Mordraius,

brenin y ddinas hono, yn eu canlyn; ac iddynt, ar eu dyfodiad yma, gael fod Joseph wedi ei garcharu gan ryw frenin yn Ngogledd Cymru, yr hwn a laddwyd gan Mordraius, pryd y gollyngid Joseph yn rhydd. Hysbysir ni ymhellach gan y ffug-haneswyr dan sylw, fod rhyw hynodrwydd neillduol yn perthynu i'r eglwys yr hon a gawsai ei hadeiladu gan Joseph. Dywedant ddarfod i'r Arglwydd ei hun wahardd i neb ei chysegru, gan ei fod ef eisoes wedi cysegru, nid yn unig yr eglwys, ond hefyd y gladdfa oedd yn ei chylchynu; yr hyn a wnelai efe er prawf o'i ewyllys da tuag atynt, yn gymaint ag iddynt ei hadeiladu er anrhydedd i'w fam ef.[1] Yn yr oes oleu hon, y mae yn ddiddadl na feddylia un dyn o berchen deall coethedig am roddi y grediniaeth leiaf i'r fath sothach distadl ag a gynnwysir yn yr haeriadau blaenorol. Ac hyd yn nod yn ei dull mwyaf syml a dirodres, nid ydyw y chwedl am genadaeth Joseph o Arimathea i'r ynys hon yn beth ag y gellir ei chredu yn rhwydd a dilys. Ymddengys yn groes i amryw ffeithiau hanesyddol o bwys. Gellid meddwl hefyd ei bod yn gabledd yn erbyn ymarferiadau syml yr eglwys yn yr oes apostolaidd. Y mae Eusebius, Chrysostom, ac eraill, oddiar awdurdod traddodiadau pur a dilwgr, yn ein sicrhau mai Phrygia oedd maes llafur yr apostol Phylip, ac mai yn Hierapolis y bu farw, ac y claddwyd ef. Pa fodd, gan hyny, y gallwn gredu i'r apostol hwnw ddyfod i dir Gâl, ac iddo anfon Joseph o Arimathea drosodd i Brydain? A pha fodd y cydsaif yr hanes dan sylw â'r ffaith nas gallasai yr un brenin o'r enw Arviragus fod yn teyrnasu yn Mhrydain ar yr adeg pan fynegir i Joseph, a'i gymdeithion, dirio yn yr ynys? Meddylier hefyd, ymhellach, am wrthuni a gwiriondeb mynachaidd yr haeriad, ddarfod i Joseph adeiladu eglwys er anrhydedd i'r forwyn Fair, ac yntau yn hanfodi mewn oes pan oedd addoli saint, ac adeiladu eglwysi i fytholi eu coffadwriaeth, yn arferiadau cwbl ddyeithr ac anadnabyddus. Yn ol barn Esgob Stillingfleet, nid ydyw hanes cenadaeth Joseph i Ynys Prydain yn ddim amgen na dyfais neu ffugwaith o eiddo mynachod Glastonbury, pa un a gyhoeddid ganddynt i'r byd, er mwyn gwasanaethu eu hachosion personol eu hunain, a dyrchafu enwogrwydd yr hen fynachlog yn mha un y cartrefent hwy. Fe allai, wedi y cyfan, fod yr hanes dan sylw yn cynnwys ynddo rywfaint o wirionedd. Dichon ei fod yn seiliedig ar ffaith, yr hon ni chofid gan y mynachod ond yn anmherffaith. Yr ydoedd Glastonbury yn lle a ystyrid yn glodfawr gan yr eglwys yn Mhrydain, a hyny er yn foreu iawn; ac nid annhebyg ydyw, megys yr awgryma Dr. Alexander, na fu yno, rywbryd yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth, rywun o genadon ffyddlawn y groes yn dadblygu baner iachawdwriaeth, ac yn cymhell y barbariaid truenus i ddyfod a chyfranogi o "anchwiliadwy olud Crist." Ac os dygwyddai mai Joseph y gelwid ef, rhoddai hyny ryw sail i ddynion feddwl mai Joseph o Arimathea ydoedd y cenadwr hwnw, gan na wyddid pwy arall a allasai efe fod. Anhawdd gan rai feddwl i'r mynachod ddyfeisio chwedl ag ydoedd yn anwireddus o'r cwr bwygilydd. Ymhlith eraill o ysgrifenwyr clodadwy ag ydynt o'r farn hon, gallem nodi yn neillduol y dysgedig Mosheim. "Ymddengys," eb efe, mewn un man, "ymddengys fod rhywfaint o wirionedd yn hanes cenadaeth Joseph o Arimathea o Gâl i Brydain, drwy annogaeth Phylip, er fod y mynachod, drwy anwybodaeth, neu falehder, neu gyfrwysdra, fe allai, wedi ei lygru a'i ddarostwng. Gallasai yr hyn a ddygwyddodd yn Germani a Gâl ddygwydd hefyd yn

[1] *Dr. Alexander's "Ancient British Church:"* tudal. 69, 70.

Mhrydain, sef fod i ddynion sanctaidd, er i'w cael ymhell ar ol oes yr apostolion, gael eu troi i fod yn ddynion apostolaidd. Oddiwrth draddodiad oedranus, yn gystal ag oddiwrth hen ysgrif-gofion parchedig, fe wyddai y mynachod fod rhywun a elwid *Joseph* wedi dyfod o Gâl i Brydain, gan lafurio yn llwyddiannus yno yn achos yr efengyl. Ond yn gymaint ag na wyddent hwy am un Joseph arall, oddieithr yr hwn y crybwyllir am dano yn hanes Crist, neu ynte eu bod yn awyddus i ddyrchafu anrhydedd a gallu yr Eglwys Brydeinig, hyd yn nod er gwaethaf y gwirionedd, hônent nad oedd y Joseph hwn yn neb amgen na'r seneddwr clodwiw hwnw, yr hwn a ymgymerodd â'r gorchwyl o gladdu Crist, a'i fod wedi cael ei anfon allan o Gâl i Brydain gan St. Phylip. Megys y gwnaethai y Galiaid i Dionysius, yr hwn ydoedd esgob Parisiaidd, ac yn hanfodi yn y drydedd ganrif, fod yn Dionysius yr Areopagiad; ac y gwnaethai y Germaniaid ddyrchafu Maternus, Eucharius, a Valerius, y rhai a hanfodent yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif, i fod yn ddysgawdwyr perthynol i'r ganrif gyntaf, ac yn gymdeithion i St. Pedr; felly, yn ddiammheuol genyf, y gwnelai y mynachod Prydeinig i ryw Joseph, yr hwn a fu farw yn yr ail ganrif, esgyn i oes foreuaf yr eglwys." Tybia Mosheim hefyd, fod hanes Joseph yn dwyn nodau gwirionedd, a hyny yn lled amlwg. "Fod i'r mynachod," eb efe, "ddewis, nid un o'r apostolion, ond un o gyfeillion Crist; fod iddynt, o blith y cyfeillion hyn, nodi Joseph allan; fod iddynt fynegu i Joseph ddyfod i Brydain, nid ar orchymyn Crist, na thrwy unrhyw wyrth; ac fod iddynt ganiatâu mai o Gâl y deuai efe, gan briodoli, drwy hyny, hynafiaeth uwch i'r eglwys yn Gâl nac i'r eglwys yn Mhrydain: ymddengys fod y pethau hyn oll yn nodweddu, nid rhai a fynent ddyfeisio chwedl yn bwrpasol, ond dynion a drawswyrent draddodiad a dderbyniasent hwy oddiwrth eu cyndadau, ac a ystwythid ganddynt i wasanaethu eu hachos eu hunain."[1] Ond, gan nad beth a feddylia y darllenydd am resymoldeb neu deilyngdod syniadau Mosheim, y mae yn eithaf amlwg nad oes un math o dystiolaeth gredadwy ddarfod i Joseph o Arimathea erioed dalu ymweliad â'r ynys hon, llawer llai iddo fod yn brif weithredydd yn nygiad Cristionogaeth i mewn yma ar y cyntaf.

Yn y lle nesaf, cymerwn dan ein hystyriaeth y gofyniad, A fu yr apostol Paul yma yn pregethu? Y mae yn hysbys i'r traddodiad ynghylch ei ymweliad â'r ynys hon gael derbyniad helaeth mewn oesau a aethant heibio; a dichon fod llawer hyd y dydd hwn, yn hoff-feithrin crediniaeth ddarfod i Gristionogaeth gael ei phlanu yn Mhrydain, mewn rhan, drwy lafur gweinidogaethol apostol mawr y Cenedloedd. Gwyddom i Paul lafurio yn helaethach na neb o'i frodyr. Llanwodd wledydd a chyfandiroedd lawer âg efengyl Crist. Nid priodol fyddai meddwl fod y Testament Newydd yn cynnwys crybwyllion am yr holl fanau ag y bu efe yn pregethu ynddynt; *gallasai* gael hamdden, rywbryd, i ymweled, ymhlith lleoedd eraill, âg Ynys Prydain. Byddai yn hawdd genym faddeu i'r dyn a ddymunai ei bod yn ddichonadwy profi i'r efengyl gael ei dwyn drosodd yma, ar y cyntaf, gan y dyn hynod hwnw, yr hwn ar un adeg o'i oes a gipiwyd i fyny ymhell uwch brôydd marwoldeb, i fwynhau trem ar flodau Paradwys Duw, ac i syllu ar ddysgleirdeb tanllyd yr orseddfainc dragywyddol. Da fyddai genym allu credu yn ddilys ddarfod i'r eglwys yn Mhrydain ddechreu gyda gweinyddiadau goleu, nerthol, y gwas ffyddlawn hwnw i

[1] "*Comment. de rebus Christianorum*:" tudal. 214.

Grist. Derbyniwyd y traddodiad am ei ymweliad â [illegible] ein hynys, megys yr awgrymwyd yn barod, gyda gwresogrwydd nid [illegible]; a hyny, gan rai o brif ddysgedigion yr oesau a aethant heibio. Dadleuwyd dros ei ddilysrwydd gan yr *Esgobion* Stillingfleet a Burgess, ynghyd â gwyr dysgedig eraill lawer. Ond wedi y cyfan, rhaid addef nad yw y tystiolaethau a ellir eu dwyn ymlaen i'w gadarnhau, ddim yn gyfryw ag y gellir ymddiried i adeiladu dim yn benderfynol arnynt. Ystyriwn, pa fodd bynag, ei bod o bwys i ni, yn y fan hon, chwilio i mewn i ddilysrwydd a gwerth y rhesymau hyny, drwy ba rai yr amcenir gwneuthur yn amlwg ddarfod i'r apostol Paul ymweled â'r ynys hon.

Am y tystiolaethau *uniongyrchol*, at ba rai yr arferir cyfeirio er profi y mater, canfyddir nad ydynt ond ychydig a distadl. Yr ysgrifenydd cyntaf a sonia am ymweliad Paul â Phrydain, ydyw Venantius Fortunatus, prydydd o'r 6ed ganrif; yr hwn, wrth gyfeirio at lafur yr apostol, a fynega iddo "*groesi y môr, a myned hyd Ynys Prydain.*" Crybwyllir am yr un peth hefyd, gan Sophronius, patriarch Jerusalem, yn y seithfed ganrif, yr hwn, mewn araeth neu draethawd ar ddilyngdod ac enwogrwydd yr apostol, a fynega iddo bregethu yr efengyl yn Yspaen a Phrydain. Tybiodd llaweroedd fod y tystiolaethau uchod yn ddigon i benderfynu y mater ar unwaith. Meddyliwyd hefyd fod y golygiad dan sylw yn derbyn cadarnhad pellach, oddiwrth y ffaith fod hen lyfr Groegaidd, a ysgrifenwyd i gofnodi bucheddau a llafur saint y cynoesoedd, yn mynegu ddarfod i'r apostol Paul ordeinio Aristobulus, un o'r deg dysgybl a thriugain i fod yn "esgob yn ngwlad y Brytaniaid," y rhai yn ol yr hanes, "oeddynt ddynion gwylltion a chreulawn dros ben." Ymddengys fod y tystiolaethau blaenorol, a'u cymeryd gyda'u gilydd, braidd yn rhy ansicr i neb feddwl adeiladu arnynt. Am y mynegiad a wneir yn yr hen gronicl Groegaidd, y cyfeirwyd ato, ynghylch urddiad Aristobulus, y mae yn eithaf eglur nad ydyw yn profi dim i'r pwrpas yn mherthynas i'r mater. A chyda golwg ar yr hyn a ddywed Sophronius drachefn, dichon nad ydyw, megys y sylwa Dr. Alexander, yn gorphwys ar ddim amgenach tystiolaeth na'r un a geir yn llinellau Vinantius; nid yw yn profi ond hyn yn unig, sef i draddodiad ei gyrhaedd ef ddarfod i Paul ddyfod drosodd i efengylu i'r Brytaniaid. A chan nad ydym yn cael gair o son am hanfodiad y cyfryw draddodiad cyn y chweched ganrif, nac un crybwylliad ychwaith yn y canrif hwnw, ond a geir yn ngwaith prydyddol yr Esgob Venantius, ymddengys yn lled amlwg, feddyliem, nad ellir haeru dim, gyda sicrwydd, ynghylch y mater oddiar sail tystiolaethau mor sigledig ac anmhenderfynol.

Amcenir dangos, hefyd, i'r apostol Paul ymweled â'r ynys hon, drwy gyfeirio at fynegiadau o eiddo y tadau, pa rai, fel y tybir, ydynt yn eglur arwyddocau y ffaith dan sylw. Fe'n sicrheir, yn y lle cyntaf, fod Clement o Rufain, yr hwn sydd i'w olygu fel tyst o'r fath gywiraf,—ei fod yn mynegu i Paul, ar ol pregethu yr efengyl yn y dwyrain ac yn y gorllewin, deithio hefyd i ddysgu cyfiawnder "*hyd derfynau eithaf y gorllewin.*" Meddylia Esgob Stillingfleet, fod digon o brofion o'r ffaith fod yr hynafiaid yn cyfrif Ynys Prydain ymhlith ardaloedd eithaf y gorllewin; ac fod y mynegiad uchod o eiddo Clement, gan hyny, yn ei gwneuthur mor amlwg i'r apostol Paul ymweled â'n gororau, a phe buasai efe wedi defnyddio y gair *Prydain* ei hun. Ac er prawf o hyn, cyfeiria yr esgob dysgedig ein sylw at ymadroddion yn ysgrifeniadau Eusebius, Arnobius, Theodoret, a

Herodotus, oddiwrth ba rai y canfyddir yn ddiddadl, yn ol ei dyb ef, fod Prydain yn cael ei chyfrif gynt ymhlith y "parthau gorllewinol." Ond y prif gwestiwn i'w ystyried yn y fan hon ydyw yr un canlynol; sef, A oes sicrwydd fod Clement wrth son am derfynau eithaf y gorllewin, yn golygu Prydain, a Phrydain yn unig? Y mae hyn, yn ol barn llawer o wŷr dysgedig, yn beth nad ellir ei gadarnhau mewn un modd. Ymddengys mai y tystiolaethau sydd yn myned bellaf tuag at brofi y mater, ydynt eiddo Arbonius a Theodoret. Dywed y blaenaf, wrth gyfeirio at ledaniad yr efengyl o'r dwyrain i'r gorllewin, fod yr India i'w golygu pan fyddis yn son am y dwyrain; ac fod y Brytaniaid i'w cymeryd i mewn ymhlith cenedloedd y gorllewin.[1] Mynega yr olaf, drachefn, ddarfod i Paul, ar ol ymweled â'r Yspaen, fyned a "phregethu iachawdwriaeth i'r ynysoedd y rhai a orweddant yn y cefnfor;" wrth ba rai, yn ol barn y dysgedig Cave, yr ydym yn ddiammheuol i olygu yr ynysoedd Brytanaidd. Rhaid addef fod y tystiolaethau hyn yn lled ffafriol i'r dyb fod Clement yn golygu yr ynysoedd hyn, wrth son am "derfynau eithaf y gorllewin." Credwn, er hyny, fod y tystiolaethau dan sylw yn annigonol i osod y mater tuhwnt i derfynau ammheuaeth. Nid yw y ffaith fod yr hynafiaid yn ystyried y Brytaniaid ymhlith y cenedloedd gorllewinol, yn penderfynu dim gyda golwg ar ystyr neillduol y geiriau a nodwyd, o eiddo Clement: y mae yn bosibl nad oedd efe yn golygu dim ymhellach na hyn; sef, ddarfod i Paul dreiddio ymhell i'r parthau gorllewinol o'r ymherodraeth Rufeinig, i gyhoeddi efengyl Crist. A chyda golwg ar eiriau Theodoret; onid allasai efe, pan yn son am yr "ynysoedd y rhai a orweddant yn y cefnfor," olygu, nid ynysoedd môr y Werydd, eithr y rhai perthynol i fôr y Canoldir? A chan mai yn y bummed ganrif y blodeuai efe, onid ellir meddwl fod Theodoret yn dyst lled ddiweddar, i'w olygu fel awdurdod sicr a phenderfynol, ynghylch dygwyddiadau a gymerent le yn nyddiau yr apostolion?

Ymddengys yn lled eglur, feddyliem, nad yw y cyfan o'r tystiolaethau *allanol* a ddygir ymlaen i brofi ddarfod i'r apostol Paul ymweled â'r ynys hon, yn ddigonol i sicrhau argyhoeddiad cyffredinol ynghylch dilysedd y dyb hono. Ond yn absennoldeb tystiolaethau mwy eglur a diymwad, pa fodd bynag, fe amcanwyd profi y ffaith rai gweithiau drwy gyfeirio at ddygwyddiadau ag a barent i hyny fod yn beth *tra thebygol*. Y dygwyddiadau hyn, yn ol desgrifiad Stillingfleet, ydynt y rhai canlynol:—1. Fod gan Paul ddigon o amser, ynghyd â chyfleusdra, i dalu ymweliad â Phrydain. 2. Fod ganddo gymhelliad digonol i wneuthur hyny. 3. Mai efe, o'r holl apostolion, oedd yr un mwyaf tebygol i feddwl am ddyfod drosodd yma. Yn erbyn y dull hwn o ymresymu oddiar debygolrwydd, ni fynem yngan yr un gair. Ond yn yr amgylchiad dan sylw, ymddengys y tebygolrwydd yn beth mor fychan a distadl, fel nad yw yr ymresymiad a sylfaenir arno yn teilyngu ond ychydig iawn o sylw. *Gallasai* Paul fynu hamdden i dalu ymweliad â Phrydain, megys yr addefwyd yn barod; ond a ydyw yn canlyn oddiwrth hyny iddo ymweled â hi mewn gwirionedd? Nis gellir ammheu ychwaith nad oedd amgylchiadau pethau yn Mhrydain, ar y pryd, yn annogaethol iawn i rywrai o genadau y groes ddyfod drosodd, mewn trefn i efengylu i'r brodorion; ond y cwestiwn ydyw, Pa beth sydd a fyno hyn oll â phrofi y mater dan sylw? A chyda golwg ar yr haeriad, mai Paul oedd yr un tebycaf o'r holl apostolion i feddwl am groesi

[1] "*Stillingfleet's Antiquities:*" tudal. 38.

y môr a [illegible] elir profi yn [illegible] Ond y mae hyny, [illegible] yn sôn am [illegible] y môr i'r [illegible] ar y pryd, yn ol [illegible] yn gystal ag at [illegible] galasai yr apostol-[illegible], ddim [illegible] a thros Groeg, ag a [illegible] feddwl ddarfod i rywun o'r apostolion ymweled â Phrydain, [illegible] addef yn ddiau fod y tebygolrwydd i [illegible] mai yr apostol Paul oedd yr un hwnw.

Os bu i'r apostol ymweled â'r ynys hon, y mae yn rhaid ddarfod i hyny gymeryd lle ar ol adeg ei garchariad cyntaf yn Rhufain. Yn flaenorol nis gallasai efe fwynhau cyfleusdra i hyny. Addefir hyn yn gyffredinol. *Yn awr, ymofynygys* mai y cwestiwn ar ba un y croga yr holl ddadl ydyw *hwn;—sef,* A ydyw yr hyn a wyddom am symudiadau yr apostol, yn y *cyfwng* hwnw o amser a ddygwyddai rhwng ei garchariad y waith gyntaf *a'i garchariad* yr ail waith yn rhoddi rhyw sail i ni gasglu ddarfod iddo *anturio dyfod drosodd i Brydain* yn y cyfamser? Tuag at benderfynu *hyn, yr ydym* i ymholi yn gyntaf o [illegible] dros ba hyd o amser y mwynhaodd *yr apostol ryddid i fyned* oddiamgylch i bregethu ar ol adeg ei garchariad *y waith gyntaf?* Y mae yr *esgob* Stillingfleet yn tybied iddo fwynhau y *cyfryw ryddid* am dros wyth mlynedd o leiaf. Ond wrth chwilio, fe geir *allan nad yw y golygiad* hwn yn hollol gywir. Yn ol cyfrifiadau diweddarach, a mwy cywir nag a wnaethid yn flaenorol, ymddengys fod yn rhaid i ni gyfyngu yr yspaid hwnw o amser a ddygwyddai rhwng adeg carchariad cyntaf Paul ac adeg ei ail garchariad i *bedair blynedd.*[1] Rhaid addef na wyddom yn iawn yn mha fanau y bu yr apostol yn llafurio ynddynt yn ystod yr amser dan sylw. Y mae yn amlwg oddiwrth ysgrifeniadau y tadau, pa fodd bynag, iddo yn y rhan hwnw o'i fywyd weithio yn egniol dros achos ei Arglwydd, a theithio llawer hefyd gyda y bwriad o ledanu ac egluro egwyddorion mawrion Cristionogaeth. Nid ydys yn ammheu nad allasai dyn o ysbryd anturiaethus, fel apostol mawr y cenedloedd, deithio trwy wledydd, a chroesi dros foroedd lawer, mewn yspaid pedair blynedd o amser. Ond, meddyliwn, mai prin y buasai efe yn ystyried ei bod yn ddoeth iddo feddwl am droiddio can belled ag Ynys Brydain, heb benderfynu ar yr un pryd gwneuthur y cyfryw arosiad yma ag a fyddai mewn modd [illegible]. Y mae y dybiaeth iddo fod yma, yn ol barn Dr. Alexander, yn llwyr annhebyg i fod yn gywir; a hyny yn benaf oddiar yr ystyriaeth fod yn arferiad gan yr apostol, weithiau, dreulio rhai blynyddau mewn manau a ystyrid yn bwysig ganddo. Ac os arferai efe wneuthur felly yn y cyfnod goreu a mwyaf bywiog o'i fywyd, naturiol yw casglu na wnelai efe newid ei ddull o weithredu am un mwy treulgar ac ansefydlog, a hyny mewn amser pan oedd ei nerth yn ymyl pallu drwy lafur a dyoddefaint. Nid rhesymol yw meddwl y byddai i'r apostol deimlo awyddfryd [illegible] ei oes i ymweled â'r eglwysi hyny a blanwyd ac a ddyfrhawyd drwy ei weinyddiadau mewn blynyddau a aethant

[1] "*The Ancient British Church:*" tudal. 53.

beibio, fel y llawenychid ei galon wrth weled eu trefn hwynt, ac y caffai gyfleusdra unwaith yn rhagor i'w cynghori trwy lwyr-fryd calon i lynu wrth yr Arglwydd. Buasai ei waith yn prysur-deithio o un lle i le arall, yn nghyfnod olaf ei fywyd, braidd yn anghydweddol â'r dwysder hwnw ag sydd i nodweddu dynion pan oddiweddir hwynt gan ddyddiau henaint a phenllwydni. Gwyddom i'r apostol, yn y cyflawniad o'i swydd, ymweled â lliaws aneirif o fanau, ac nad arferai efe osgoi un perygl, na thrafferth, na llafur. "Ond," megys y sylwa Thackeray, "yr oedd efe yn rhy ddoeth, fel dysgawdwr, i beidio deall y pwys a'r anghenrheidrwydd o dreulio rhyw gymaint o amser gyda 'i gyfeillion dychweledig, i'r dyben o egluro a chadarnhau y grefydd a ddysgasai efe iddynt. Er prawf o'r haeriad hwn, ni raid i ni ond cyfeirio y darllenydd at Actau yr Apostolion. Yr ydym yn cael yno, i Paul, ar un achlysur, aros yn Corinth am flwyddyn a chwe' mis, gan 'ddysgu gair Duw yn eu plith hwynt;'[1] iddo aros yn Ephesus 'dros yspaid dwy flynedd;'[2] iddo ef a Barnabas aros yn Iconium 'amser mawr,'[3] 'gan fod yn hyf yn yr Arglwydd;' ac iddo ymweled drachefn â Corinth, Antioch, ynghyd â llawer o fanau eraill; yn unol â'r hyn a ddywedai efe wrth Barnabas,[4] 'Dychwelwn, ac ymwelwn â'n brodyr yn mhob dinas y pregethasom air yr Arglwydd ynddynt, i weled pa fodd y maent hwy.'"[5]

Y mae y darllenydd, bellach, yn argyhoeddedig, fe allai, nad oes yr un dystiolaeth i'w chael, drwy ba un y gellir *profi* mai drwy weinidogaeth yr apostol Paul y dygwyd Cristionogaeth i mewn i Ynys Prydain ar y cyntaf. Ond rhaid addef, wedi y cyfan, fod llawer i'w ddywedyd dros y golygiad i'r apostol dalu byr ymweliad â gororau ein gwlad, ar ryw achlysur neu gilydd. Yn ol barn llawer, y mae cymaint i'w ddywedyd yn ei ffafr, fel nad ydyw yn rhesymol i ni ei ystyried fel peth cyfeiliornus. Y mae gan y Parch. T. Price y nodiad canlynol gyda golwg ar y mater;—"Wrth bwyso y cyfan o'r haeriadau ar y dadleuon hyn, perthynol i bregethiad yr apostol Paul yn Mhrydain, ymddengys i mi fod cymaint i'w ddywedyd o'i blaid, a chymaint o gysondeb yn yr amseriad, ynghyd âg amryw amgylchiadau eraill, fel nad oes awdurdod i'w wadu, er nad ellir dwyn ymlaen ddigon o dystiolaethau i'w sefydlu megys gwirionedd anammheuadwy; a'r unig beth a allaf ddywedyd ar yr achos yw, fod yr amgylchiad yn *ddichonadwy*, er braidd y cyfrifir ef yn brofedig."[6] Ond pe byddai yn brofedig iddo fod yma, eglur yw mai ychydig o oleuni a deflid drwy hyny ar "hanes dygiad Cristionogaeth i Ynys Prydain."

Bellach, nid erys ond fod i ni chwilio i mewn i deilyngdod yr hanes a roddir am ddygiad Cristionogaeth i'r ynys hon yn y traddodiadau Cymreig. Yn ol awdurdod y "Trioedd," ac "Achau y Saint," fe ddygwyd yr efengyl i Brydain gyntaf oddeutu y flwyddyn 58, a hyny gan Brân Fendigaid, a'i gymdeithion. Fel hyn y mynega y "Trioedd" am yr amgylchiad:—"Tri menwedigion (bendigedigion) teyrnedd Ynys Prydain: Brân Fendigaid ab Llyr Llediaith, a ddygwys gyntaf ffydd yn Nghrist i genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yn ngwystl ei fab Caradawc, a ddug gwŷr Rhufain yn ngharchar, gwedi ei fradychu drwy hud, a thwyll, a chynllwyn Aregwedd Foeddawg."—*Tr*. 35. Yr achau a ddywedant i Frân ddwyn gydag ef fel cynnorthwywyr, Ilid, a Chyndaf, ac Arwystli Hen; ac

[1] *Act*. xviii. 11. [2] *Act*. xix. 10. [3] *Act*. xiv. 3. [4] *Act*. xv. 36.
[5] *Thackeray's "Ancient Britain*:" cyf. i, tudal. 76.
[6] "Hanes Cymru;" tudal. 162.

[illegible] am y ddau gyntaf mai Iuddewon oeddynt, ac am yr [illegible] mai Rhufeiniaid oedd efe.

Yn erbyn dilysrwydd y traddodiad uchod, arferir dwyn ymlaen y gwrth-[illegible] canlynol. 1. Haerir nad yw yr hanes i'w dderbyn fel gwirion-edd [illegible], oblegid fod Dion Cassius, yr hanesydd Rhufeinig, wrth son am Caradawc, yn mynegu mai mab ydoedd, nid i Brân, eithr i Cynfelyn. 2. [illegible] sicrwydd digonol ddarfod i dad Caradawc gael ei [illegible] yn garcharor i Rufain, oblegid nad ydyw Tacitus yn ynganu [illegible], er ei fod yn nodi allan helyntion Caradawc [illegible] hefyd am ei wraig, ynghyd â'i ferched a'i frodyr.

[illegible] i gamol dadl o gryn bwys. Canfyddir fod cymeriad [illegible], ac yn neillduol yr hysbysrwydd a gynnwysant am [illegible] i Brydain, i raddau mawr, yn ymddibynu ar y ddadl [illegible] dychwelir awdurdod y "Trioedd" gyda golwg [illegible] fath yma, y cyrhaedda hyny ymhell iawn tuag at [illegible] yn yr hyn oll a draethant. Gadawer i ni ym-[illegible] a all fod yn ngwaith y dynion hyny [illegible] negiadau haneswyr estronol, pan yn traethu [illegible] tra fyddo y cyfryw fynegiadau yn gwbl [illegible] hono ei hunan.

[illegible] cyntaf a enwyd, sef Dion Cassius, yr hwn [illegible] Caradawc, y mae o bwys cofio nad [illegible] yn agos i ddau cant o flyneddau ar ol [illegible] y Brytaniaid, nac am achau eu tywysog-[illegible] ond drwy gyfrwng mynegiadau o [illegible] unigol un yn ysgrifenu dan y cyfryw [illegible] y radd leiaf o sylw. Dylid ys-[illegible] fel y cywiraf o'r hen hanesydd-[illegible] Dion Cassius, pan yn adrodd helyntion [illegible] er enghraifft, fod Caradawc yn un o [illegible] y bobl a adwaenid wrth yr enwad [illegible] mai tywysog *Siluriaidd* ydoedd [illegible] oeddynt ymhell oddiwrth [illegible] i un o feibion Cynfelyn droi yn [illegible] gael ei ladd yn gynnar [illegible] Rhufeiniaid, ac mai Caradawc oedd [illegible] y mae Tacitus yn ein hysbysu i frodyr [illegible] a'u dwyn drosodd i Rufain; [illegible] Dion Cassius:[1] ac megys y dangosir [illegible] bob amser, ddim yn [illegible]; yn neillduol pan yn [illegible] y darllenydd ar y nod-[illegible] "[illegible] i wadu," eb efe, "fod D. [illegible] yn cyrhaedd; ond [illegible] haneswyr Rhufeinig, anffaeled-[illegible] anghywir pan draethent [illegible]: er enghraifft, cymerwn waith [illegible]; ond edrychwn ar y [illegible] anwiredd, pan yn traethu

[1] [illegible]

hanes yr Iuddewon. Y mae yn dyweyd iddynt ffoi o Ynys Creta i'r Aipht; ac iddynt gael yr enw *Judæi*, oddiwrth fynydd *Ida*, yn yr ynys hòno: i Moses gael allan ddwfr yn yr anialwch, trwy ganlyn mintai o asynod gwylltion, a bod yr Iuddewon yn cadw yn gysegredig o fewn i'w hystafelloedd, lun asyn gwyllt, er diolchgarwch. Ac amryw o bethau o'r fath y mynega efe am danynt. Nid oedd gan Tacitus un esgus am y cyfeiliornadau hyn. Yr oedd lluoedd o Iuddewon yn Rhufain, ac yr oedd yr Ysgrythyrau wedi eu cyfieithu i'r Groeg oesoedd cyn ei amser, ac o fewn ei gyrhaedd; hefyd, yr oedd yr apostol gwedi bód yn pregethu yno yn ei oes ef; ac os, yn ngwyneb yr holl gyfleusderau hyn, yr oedd hanesydd fel Tacitus yn adrodd cymaint o anwiredd am genedl liosog gerllaw iddo, onid allwn feddwl y gallasai Dion Cassius, yntau, gamsynied ynghylch achau blaenor mewn ynys bellenig, ddau cant o flyneddau cyn ei amser?" Canfyddir oddiwrth hyn, nad ydyw tystiolaeth Dion, gyda golwg ar achau Caradawc, ddim yn werth ymddibynu arni; ac y mae yr wrthddadl a ddygir ymlaen yn erbyn dilysedd yr hanesion Cymreig ar y mater, oddiar sail y dystiolaeth hòno, o ganlyniad, yn rhwym o syrthio i'r llawr yn ddirym.

Am yr wrthddadl arall, ag y cyfeiriwyd sylw y darllenydd ati, nid yw yn anghenrheidiol i ddyn feddu rhyw lawer o graffder meddyliol i ganfod ei gwendid a'i distadledd hi ar unwaith. Canys onid amlwg yw y gallasai Brân fod ymhlith y carcharorion Brytanaidd ag oedd yn Rhufain, heb i sylw Tacitus gael ei arwain at y ffaith. Nid yw dystawrwydd yr hanesydd gyda golwg ar hyn yn profi nad oedd Brân yno yn rhywle ar y pryd. Rhwng yr adroddiad a ddyry Tacitus ynghylch teulu Caradawc yn Rhufain, a'r crybwyllion a geir am danynt yn y traddodiadau Cymreig, nis gall fod un gwrthdarawiad gwirioneddol; canfyddir gwahaniaeth dygwyddiadol o'r fath yn dra mynych, mewn gweithion hanesyddol; ac ni feddylir byth fod y naill hanesydd, wrth grybwyll ffaith ag yr esgeuluswyd ei choffâu gan un arall, yn euog o ysgrifenu anwiredd, nac o fwriadu camarwain ei ddarllenwyr. Tybiodd rhai fod dystawrwydd Tacitus ynghylch tad Caradawc yn beth a gymerai le o anghenrheidrwydd, am y meddylient hwy nas gallasai efe fod yn fyw ar y pryd. "Rhaid fod y tad Caradawc wedi marw," medd Dr. Alexander, "cyn y gallasai ei fab ddyfod i feddiant o'r llywyddiaeth."[1] Ond y mae y cyfryw olygiad yn hollol gamsyniol. Hawdd fyddai profi, ei bod yn arferiad ymhlith y Brytaniaid, ar amserau o gyfyngder, i ethol eu llywyddion, nid yn ol eu genedigaeth, ond yn ol eu cymhwysderau fel cadflaenoriaid, gan ymdebygu yn hyn i'r llwythau hyny ar y cyfandir, ag oeddynt wedi hanu o'r un gwreiddyn a hwythau. Peth arferol yn wyneb amgylchiadau o'r fath ag a ddesgrifiwyd uchod, fyddai i'r tad ei hun, er yn llywydd gwladol, gael ei droi o'r neilldu, mewn trefn i drosglwyddo yr awdurdod filwrol i ddwylaw y mab: pan ddygwyddai felly, edrychai pawb ar y blaenor dewisedig a gweithgar hwnw, fel yr unig lywydd cyfreithlawn, ac ar bob adeg fe'i desgrifid fel y cyfryw.[2] Y mae yn eglur, gan hyny, nad oes dim yn wrthun yn yr haeriad fod tad Caradawc yn fyw ar yr adeg dan sylw, na dim yn anhygoel yn y mynegiad ei fod i'w gael ymhlith y carcharorion a ddygasid oddi yma i Rufain. Dichon na ddygpwyd mohono i'r amlwg ar yr adeg pan ymddangosai

[1] "*The Ancient British Church*:" tudal. 104.
[2] *Archdeacon William's* "*Claudia and Pudens*:" tudal 47.

Caradawc ei hun ger bron gorsedd yr ymherawdwr Claudius. Cadarnheir ni yn y dyb hon, pan ystyriom, fel y mynega y Trioedd am dano, sef mai yn ngwystl ei fab yr oedd efe yno; hyny ydyw, yn ol fel y sylwa hanesydd Cymru, "megys meichiau drosto, yr hyn nid allasai fod pe buasai eisoes mewn gafael fel carcharor." Gellid meddwl, oblegid hyny, mai carcharor gwirfoddol oedd Brân, wedi rhoddi ei hunan i fyny yn wystl, er mwyn ennill rhyw ffafr arbenig i'w fab Caradawc. "Pa radd o ryddid neu freintiau ychwanegol a ennillodd idd ei fab trwy ymwystlo drosto, nid ymddengys; pa un ai caniatâd i ddychwelyd i Frydain, neu ynte i fyw yn [illegible] yn rhyw ran arall o'r ymherodraeth: eithr hyn sydd ddilys, fod yr arfer o dderbyn gwystlon yn gyffredin ymhlith y Rhufeiniaid; ac ar [illegible] diammhau y byddent yn barod ddigon i wneuthur hyny, i ennill [illegible] da ymhlith cenedl ag oedd yn peri cymaint o drafferth iddynt ag y gwna y Brytaniaid."[1]

[illegible] y nodiadau blaenorol, feddyliem, i ddangos gwendid neillduol y [illegible] a ddygir ymlaen i wrthbrofi dilysedd yr hanes a geir yn ysgrifeniadau yr hen Gymry, gyda golwg ar ddygiad Cristionogaeth i'r ynys hon. [illegible] fod yr hanes dan sylw, nid yn unig yn debycach o fod yn [illegible] nag un hanes arall sy genym yn dwyn cyfeiriad at yr un peth; ond [illegible] i ni mai dyma yr hanes, a'r unig hanes teilwng o'i dderbyn fel [illegible] y dygwyddiad. Tueddir ni i gredu hyn, yn neillduol, [illegible] y rhesymau canlynol:—

[illegible] dygiad Cristionogaeth i'r ynys hon yn debyg o gael ei [illegible] dychweledig yn yr oesoedd boreuol yn ddy- [illegible] mai naturiol yw meddwl y byddai iddynt [illegible] yr hanes am dano rhag myned ar ddi- [illegible] gyda gofal, ymhlith traddodiadau pobl- [illegible] Y mae yn ddiddadl fod gan y cyn-Gristionog- [illegible] manteision i argraffu dygwyddiadau o'r [illegible] genym ninnau yn yr oes bresennol. Ac [illegible] ganddynt hwy y pryd hwnw lawn [illegible] hanesyddol ag sydd gan neb o honom ninnau [illegible]

[illegible] y dygwyddiad dan sylw, yn y tra- [illegible] arwyddion o wirionedd. Ymddengys [illegible] y mae yn hollol rydd oddiwrth bob [illegible] iddo gael ei ddyfeisio [illegible] Efengylau na chawsant mo'u [illegible] y canol oesoedd; ac y mae [illegible] i'w gilydd; y mae pob [illegible] yn yr hen ysgrif-gofion [illegible] ac yn cyd-dystiolaethu, yn ddiau, [illegible]

[illegible] hanes dan sylw yn annaturiol, neu yn [illegible] perthynol iddo eisoes yn [illegible] Ar adeg cymmeryd Caradawc, cafodd ef, [illegible] i Rufain. Dygwyd Brân [illegible] yr un amser. Bu yno "yn [illegible] pethau ag oedd yn tynu

[1] [illegible] 78.

mwyaf o sylw yn Rhufain ar y pryd, ydoedd gwaith rhywrai yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio. Dychwelid lluoedd o bob gradd, oedran, a sefyllfa, i'r ffydd; ac ymhlith y rhai a gawsant drugaredd, yr ydoedd Brân, y tywysog Siluriaidd, yr hwn, pan ryddhawyd ef o'i gadwynau, a ddychwelodd yn ol i'w wlad, a chydag ef dri o genadon efengylaidd, y rhai a gydymegnïent er goleuo meddyliau y Brytaniaid ynghylch egwyddorion mawrion, dwyfol, Cristionogaeth. Mor naturiol yw credu hyn oll! Ond y mae gwrthod yr hanes yn beth cwbl *annaturiol*. Anhawdd rhoddi cyfrif am y traddodiad ynghylch tad Caradawc, yr hwn ydoedd arwr ei wlad, a llywydd ei byddinoedd, ond ar y dybiaeth ei fod mewn gwirionedd yn hanfodi.

Yn bedwerydd; nid ymddengys fod gan y rhai a ammheuant awdurdod y traddodiadau Cymreig yr un esgusawd neillduol i'w gynnyg dros eu hymddygiad. Am yr ysgrifeniadau dan sylw, y mae yn amlwg fod yn perthyn iddynt hynafiaeth diammheuol. Yn mhob peth o bwys, yr ydym yn cael eu bod yn ymgysoni â hanesion awdurdodol yn gyffredinol. Gellid meddwl fod rhai o'r trioedd Cymreig mor hen ag amser y Derwyddon, o herwydd y mae genym brawfiadau digonol eu bod hwy yn arfer y dull tribanawg hwn o gyflwyno gwybodaeth i'w dysgyblion. Y mae hynafiaeth a gwiredd cyffredinol yr hanesion Cymreig yn bethau na raid coleddu ammheuaeth yn eu cylch. Teilynga yr hyn a ddywedant, ynghylch dygwyddiadau yn dwyn cysylltiad â chenedl y Cymry, fwy o dderbyniad genym na mynegiadau o eiddo haneswyr estronol. Pe cyfarfyddem â dau adroddiad gwahanol ynghylch rhyw fater o ffaith perthynol i hanes cenedl y Seison, un o ba rai fyddai wedi ei ysgrifenu gan awdwr Seisonig, a'r llall gan ryw un o bobl Ffrainc—tystiolaeth pa un o'r ddau a dderbynid genym? A oes rhywun a deimlai betrusder gyda golwg ar y modd i weithredu yn y cyfryw amgylchiad?

Yn bummed; dangoswyd, oddiwrth dystiolaeth Gildas, ddarfod i'r efengyl gyrhaedd drosodd i Brydain rywbryd cyn y galanasdra a wneid yma gan y Rhufeiniaid, yn ddilynol i'r gwrthryfel dan Buddug. Dygwyddai y gwrthryfel hwnw, megys y cofir, yn y flwyddyn 61. Yn awr, rhaid fod Brân wedi dychwelyd yn ei ol o Rufain cyn y flwyddyn grybwylledig. Y mae Horsley, awdurdod yr hwn mewn pethau o'r fath sydd o'r bri uchaf, yn ein hysbysu i Ostorius Scapula orchfygu a chaethiwo Caradawc, gan ei anfon i Rufain yn y flwyddyn 52. Ac yn gymaint ag i Brân gael ei ddwyn yn gaeth oddeutu yr un amser, a chan iddo hefyd aros yn garcharor yn Rhufain am saith mlynedd, y mae yn eglur y byddai efe ar ei ffordd i'w wlad enedigol rywbryd yn ystod y flwyddyn 59. Ymddengys fod yma y fath gysondeb o ran yr amseriad, fel y rhwymir ni i gredu mai teulu Caradawc a wnaethpwyd yn offerynol i drosglwydddo goleuni Cristionogaeth i'r ynys hon ar y cyntaf.

Yn olaf; cadarnheir ni ymhellach, yn nilysedd yr hanes dan sylw, oddiar yr ystyriaeth, fod genym y lle cryfaf i gasglu mai yr un oedd yr Arwystli Hen, ag y mynega y traddodiad Cymreig iddo ddyfod gyda Brân o Rufain, a'r Aristobulus hwnw, pa un a enwir yn *Rhuf.* xvi. 10, ac am yr hwn y mynega hen draddodiad Groegaidd iddo gael ei ordeinio gan Paul i fod yn esgob i'r Brytaniaid. Fe gofir fod yr apostol, yn y lle a nodwyd, yn gorchymyn i'r brodyr anerch "y rhai sydd o dylwyth Aristobulus." Tybir ei fod yn ysgrifenu fel hyn rywbryd yn y flwyddyn 59. Diau fod ganddo ryw reswm neillduol dros gredu fod Aristobulus yn absennol o Rufain ar

y pryd. Os oedd yn wybyddus iddo fod yn [illegible] Aristobulus wyneb tua Phrydain, a'i fod eisoes wedi cychwyn i'w daith, yna, gallwn yn hawdd roddi cyfrif am ei waith yn anerch, nid Aristobulus ei hun, ond ei berthynasau yn ol y cnawd. Naturiol yw credu mai felly yr oedd, ar y dybiaeth mai yr un oedd Arwystli Hen ag Aristobulus, yr hyn beth a arwyddocéir yn eglur gan y tebygrwydd yn swn yr enwau. "Yn ein barn ostyngedig ni," medd un, "y mae y tebygrwydd rhwng yr enw Brytanaidd *Arwystli*, a'r enw Groegaidd *Aristobulus*, yn teilyngu mwy o ystyriaeth nag a dderbyniodd hyd yma. Y mae yn sicr fod ffurfiad ei enw yn ol cydweddiad yr iaith Frytanaidd."[1] Ymddengys, gan hyny, fod y cyd-darawiad a hanfoda rhwng y traddodiad Cymreig a'r un Groegaidd, ar y pen hwn, yn dra nodedig. "Megys yr oedd yn anmhosibl fod y Groegiaid," i ddyfynu eto o waith yr un ysgrifenydd, "yn gwybod dim am y trioedd Brytanaidd, neu, ar y llaw arall, fod ysgrifenydd y Trioedd yn gwybod dim am y Groegiaid, ymddengys y tystion hyn, nid yn unig ymhell iawn ar wahan oddiwrth eu gilydd, ond hefyd yn gwbl eglur ac annibynol; ac y mae eu tystiolaeth [illegible] yn llawer mwy tarawiadol; a gellir haeru, yn bresennol, gyda y tebygolrwydd mwyaf o wirionedd, gan nad pwy oeddynt gyda y [illegible] ddwyn Cristionogaeth i Brydain, fod Aristobulus yn un o'r [illegible] cyntaf, a'i fod yn gweithredu yn hyn dan nawdd breninol y [illegible] Siluriaidd."

Y mae y [illegible] a nodwyd yn flaenorol yn ei gwneuthur yn amlwg, [illegible] yn y traddodiadau Cymreig, ac ynddynt hwy yn unig, yr [illegible] am wir hanes dygiad Cristionogaeth i Ynys Prydain. [illegible] dyfodiad yr efengyl yma, trwy offeryndod teulu Bran [illegible] T. Price "fy marn yw na ddangoswyd dim eto [illegible] Ac [illegible] dwyn ymlaen yn ei erbyn ryw awdurdod [illegible] nag un a ddangoswyd hyd yn hyn, ni welaf un achos i [illegible]." Yr ydym yn ystyried, gan hyny, fod yn [illegible] dros ben. Planwyd Cristionogaeth yn yr [illegible] a [illegible] yr apostolion. Ac megys y profwyd genym, [illegible] hwn oddiamgylch trwy offerynoliaeth [illegible] Dygwyddodd yma, megys y gwnaeth [illegible] o gaethiwed yr Aipht gynt. Moses, [illegible] a anfonwyd i waredu plant Israel; ac yn [illegible] a dwyfol, fe flaenorid yn y gwaith o [illegible] Frython dychweledig, a hwnw, fel y llall, [illegible]

[illegible] yr ynys y tywynodd llewyrch Crist- [illegible] iddi ddyfod trosodd gyda [illegible] tebygol mai yn rhyw ran o [illegible] mawr o efengylleiddio y brodorion; [illegible] i Bran, ar ei ddychweliad o [illegible] enedigol, ac i blith ei berth- [illegible] Carnhuanawc, "os clywir yr [illegible] Cheriwgorn, nid annhebygol [illegible] y gynulleidfa Frytan- [illegible] teulu Bran oeddynt wedi [illegible] a ddychwelasant i Brydain.

[1] [illegible] "[illegible] and Psalms," tudal. 48.

Am Caradawc ei hun, nid oes un mynegiad am dano ar ol ei ymddangosiad ger bron Claudius. Ysgatfydd ei fod wedi marw cyn i'w dad gael rhyddhad o Rufain."[1]

Y mae genym un pwnc eto i sylwi arno, yn ol ein cynllun gwreiddiol, a hwnw yw y pedwerydd peth:—

LLWYDDIANT YR EFENGYL AR EI HYMDDANGOSIAD YN MHRYDAIN, YNGHYD A'R GEFNOGAETH A DDERBYNIODD EI CHENADAU CYNTAF I FYNED RHAGDDYNT GYDA'U LLAFUR.

Prin, hwyrach, yr ystyrid y traethawd hwn yn gyflawn heb i'w ysgrifenydd wneuthur ychydig grybwyllion gyda golwg ar y materion uchod. Mewn perthynas i lwyddiant crefydd Crist, ar ei hymddangosiad cyntaf yn ein gwlad, rhaid addef na wyddom ond ychydig mewn trefn gyson. Y mae y tywyllwch o dan ba un y gorwedda hanes helyntion ei chychwyniad ymhlith ein hynafiaid yn rhy fawr i ni allu ei chwalu i foddlonrwydd. Gwyddom, pa fodd bynag, na fu llafur Bran a'i gymdeithion ddim yn ofer yn yr Arglwydd. Dygasid dylanwad newydd a dyeithr i mewn ganddynt, yr hwn oedd i weithio ei fordd ymlaen mewn dystawrwydd, hyd nes treiddio o hono drwy y wlad oll. Nid ar unwaith yn ddiau y llwyddent hwy i gyfnewid arferion pobl fel y Brytaniaid, y rhai oeddynt wedi ymgaledu mewn twyll ac ofergoeledd a barbariaeth. Gwyddom mai yn raddol iawn yr arferir dyddyfnu meddyliau dynion paganaidd oddiwrth grefydd eu tadau, ac mai trwy drafferth flin y dygir pobl o'r fath i ymattal oddiwrth arferion gwaedlyd a bwystfilaidd. Ond yr ydym yn coelio ar yr un pryd fod llwyddiant y cenadau cyntaf a fu yma yn llafurio yn llawn cymaint ag a allesid ddysgwyl yn wyneb yr amgylchiadau. Wrth fyned rhagddynt yr oeddynt yn rhwym o gyfarfod â gwrthwynebiadau cryfion. Yr oedd penaethiaid y bobl yn ofergoelus, a'r wlad oll yn cyffrous dryferwi yn achos gormes y Rhufeiniaid. Ar glustiau pobl o'r fath, y rhai oeddynt wedi cynnefino cymaint â "gwisgoedd wedi eu trybaeddu mewn gwaed," rhaid fod sain efengyl y tangnefedd yn disgyn fel peth dyeithr dros ben. A thrwy ddylanwad Derwyddiaeth y Brytaniaid ar y naill law, a hudoliaethau Paganiaeth y Rhufeiniaid ar y llaw arall, diau fod Bran a'i gymdeithion dan orfod i ymladd âg anhawsderau lawer, a gorchfygu dros Grist, drwy ddilyn llwybrau ag oeddynt yn orchuddiedig â drain a maglau. Er y cyfan, ni chiliasant o'r maes. Bu eu llafur yn gorphwys dan wenau y nef. Yma, fel mewn gwledydd eraill, fe brofid fod yr efengyl yn allu Duw er iachawdwriaeth i rai o'i gwrandawyr. Attal ei rhwysg oedd beth anmhosibl—rhaid oedd iddi lwyddo a myned rhagddi; a cheir i amryw ddygwyddiadau gymeryd lle oddeutu y pryd hwnw ag oeddynt yn effeithiol dueddu er hyrwyddo ei lledaniad ymhlith ein hynafiaid.

Dygwyddiad dedwydd i achos Cristionogaeth, ar ei hymddangosiad cyntaf yn Mhrydain, yn ddiau, oedd yr un a enwir; sef, dymchweliad y grefydd Dderwyddol. Y mae yn hysbys fod y Rhufeiniaid, o'r dechreu, yn arfer edrych ar y Derwyddon fel gelynion anghymmodlawn iddynt: yn ofer y ceisient ennill hynawsedd cyfeillgar y bobl hyn. Mynai y Derwyddon gael a chadw y flaenoriaeth yn yr ynys hon. Argyhoeddid y Rhufeiniaid o'r diwedd, nas gallent sefydlu eu hawdurdod yn iawn yn Mhrydain, ond ar adfeilion y grefydd Dderwyddol. Yn ganlynol, daeth-

[1] "Hanes Cymru;" tudal. 163.

[illegible] a [illegible] y Derwyddon oddiar wyneb y [illegible]. [illegible] hwn i Suetonius Paulinus, [illegible] a [illegible]. Prif nawddle y Derwyddon ar y [illegible] Ynys [illegible]: [illegible] yr arferai gelynion Rhufain ddianc o [illegible] yn y lle hwnw, oddiwrth ym[illegible]. Geiwid Môn, o ganlyniad, yn "[illegible]." Dyma lle y trigai yr arch[illegible] awdurdod a chadernid y [illegible]. Yn [illegible] ei wyneb tuag Ynys Fôn, a [illegible]. Glaniodd gyda'i fyddin yn [illegible]. Daeai gwŷr Môn allan i'w cyfarfod, a [illegible]: rhyngddynt fe redai y gwragedd, â'u gwallt yn [illegible], a'r [illegible] yn ofnadwy; dygent ffaglau o dân yn eu [illegible]: ac yr oeddynt wedi ymddilladu mewn galar wisgoedd. Safai y Derwyddon gerllaw [illegible]; ac er fod eu swyddau yn gwarafun iddynt gymeryd rhan yn yr ymladdfa, eto, gyda dwylaw estynedig tua'r nefoedd, hwy dywalltent "[illegible] dygnawl" ar wersyll eu gelynion; a'r fath [illegible] ac [illegible] yr olygfa, fel nad allai hyd yn nod milwyr Rhufain ymsymud rhagddynt, am enyd, ond drwy gynhyrfiadau eu blaenoriaid; ac wedi dechreu o honynt gywilyddio, o herwydd eu bod yn ofni gwynebu ar dorf o ben-boethiaid a menywod, hwy fwriasant ymaith bob ofn; a chan chwifio eu baneran yn yr awyr, rhuthrasant ar y byddinoedd gwrthwynebol; ac ofnadwy fu y gelanedd a'r difrod a ddilynai yr ymosodiad hwn. Buan y dymchwelid gwŷr Môn, o flaen lleng-oedd medrus a phrofiadol Rhufain. Canfyddid milwyr, offeiriaid, a gwragedd yn gorwedd ar y llawr ynghyd, a'u gwaed yn mwydo y ddaear. Yn y diwedd, teflid cyrff y Derwyddon a'u pleidwyr i'r tânau hyny a ddarparasant hwy i losgi y Rhufeiniaid ynddynt. Yn ddilynol i'r galanasdra arswydol yma, gosodwyd yr ynys dan reolaeth llu gwarcheidiol; torwyd i lawr y llwyni cysegredig, dymchwelwyd y temlau a'r allorau, ac ysgubwyd ymaith bob arddangosiad o fawredd a grymusder a berthynai i'r Derwyddon mewn amserau a aethant heibio. Dygwyddai hyn oll yn y flwyddyn o O. C. 58; sef ychydig fisoedd cyn yr amser pan y glaniai Brân a'i gymdeithion yma o Rufain, i gyhoeddi "gweinidogaeth y cymmod."

Gwnaed pen am awdurdod y Derwyddon o hyn allan yn y cwr deheuol o Brydain. Lladdwyd cynnifer o honynt gan Suetonius, yn Ynys Fôn, ac yn fuan wedi hyny, mewn parthau eraill o'r wlad, ar adeg gwrthryfel Buddug, fel y dinystriwyd dylanwad y grefydd Dderwyddol yn Mhrydain yn hollol ac am byth. Derbyniodd ddyrnod a brofodd yn angeu iddi yn y pen draw; canys er i lawer o'r Cymry ei harddel, ac ymlynu wrthi am rai oesoedd wedi hyny; eto yr oedd dyddiau ei rhwysg hi drosodd, a chyfnod ei thrancedigaeth yn prysuro i ddyfod. Bys Duw yn ddiau oedd hyn!

Yn y modd yma, cytunai pob peth i ddangos fod yr amser, ïe yr amser nodedig wedi dyfod, i Dduw gyfodi a thrugarhau wrth drigolion Ynys Prydain. Ymddangosai y wlad fel wedi ei pharotoi i dderbyn a chofleidio cenadaeth Gristionogol; ac nid peth dibwys, yn ddiau, oedd fod y genadaeth hono, ar ei dyfodiad drosodd i Brydain, yn cael ei blaenori gan dywysog oedranus, perthynol i'r teulu anrhydeddusaf drwy yr holl wlad. Dygwyddiad manteisiol hefyd oedd, fod Cristionogaeth, eisoes, wedi cael

ei derbyn gan bersonau o ddyladwad a bri yn Rhufain, y rhai hefyd a ddygent gysylltiad o'r fath agosaf â'r ynys hon. Ymhlith y dychweledigion, at ba rai y cyfeiriwyd, peth arferol yw rhestru y pendefigesau a enwir, sef, *Claudia Rufina*, a *Phomponia Græcina*; a chan y meddylir yn gyffredin ddarfod i'r pendefigesau hyn gynnorthwyo yn effeithiol er anfon gwybodaeth o air Duw i'r Brytaniaid, nid anmhriodol, fe ddichon, a fyddai i ni wneuthur rhai crybwyllion mewn perthynas iddynt, yn y fan hon.

Cyfeiriwn sylw, yn y lle cyntaf, at hanes *Claudia Rufina.* Y mae y darllenydd i ddal mewn cof, fod Martial, y bardd Rhufeinig, wrth gyfeirio at briodas y bendefiges hòno â Pudens, yr hwn oedd seneddwr, yn mynegu yn un o'i ganiadau ei bod wedi deilliaw oddiwrth y "Brytaniaid Arliwiedig." Derbynia y ganmoliaeth uchaf gan y bardd; oblegid ei hawddgarwch neillduol, sylwa ei bod yn rhagori o ran tegwch, hyd yn nod yn mysg rhianod Groeg a'r Ital; ond nid ydyw Martial yn gwneuthur un cyfeiriad at ei Christionogaeth. Mewn un man, pa fodd bynag, yr ydym yn cael ei fod yn cymhwyso y gair "sanctaidd" at Pudens ei gwr, drwy yr hyn y dangosai Martial ei fod naill ai yn gristion, neu ynte yn ddyn a ystyrid yn glodfawr ar gyfrif ei rinweddau. Y mae yn eglur, gan hyny, fod Pudens, yr hwn oedd adnabyddus i Martial y bardd, wedi priodi pendefiges urddasol, yr hon ydoedd Gymraes; a'i fod ef, sef Pudens, yn *ddyn rhinweddol*, os nad oedd yn gristion. Y peth nesaf sydd genym i'w wneuthur, ydyw troi at Ail Lythyr Paul at Timotheus, y 4ydd bennod, a'r 21ain adnod, lle y cyfarfyddir â'r geiriau canlynol;—"Y mae Eubulus yn dy anerch, a *Phudens*, a Linus, a *Chlaudia*, a'r brodyr oll." Tybir i'r apostol ysgrifenu ei Ail Lythyr at Timotheus yn ystod y flwyddyn 67, sef ychydig amser cyn ei farwolaeth. Oddeutu yr un adeg, hefyd, yr ysgrifenai Martial ei gân, yn yr hon y cyfeiria efe at Claudia a Pudens. Ysgrifenai yr apostol Paul, a'r bardd Rhufeinig, gan hyny, *yn yr un ddinas, ac ynghylch dau o bersonau ag oeddynt o'r un enw;* a'r casgliad a dynir yn naturiol oddiwrth hyn ydyw, mai yr un ydoedd Claudia St. Paul a Chlaudia y prydydd Martial: ac os cywir y casgliad uchod, yna fe welir ar unwaith fod *Claudia Rufina*, y dywysoges Gymreig, yn gristion dysglaer a chlodadwy hefyd.

Ond y mae amryw wŷr dysgedig, pa fodd bynag, yn barnu nad ydyw yn rhesymol tynu y fath gasgliad, a'i bod yn anmhosibl i neb brofi hunaniaeth y pleidiau dan sylw. Wrth reswm, y mae y rhai hyn yn golygu nad oes genym brawf digonol fod Claudia Rufina yn gristion. Ar yr ochr arall i'r cwestiwn, drachefn, ceir fod rhai enwau o'r bri uchaf. Y mae yn hysbys i lenyddion Cymru, ddarfod i'r hybarch Archddiacon Williams, (o Aberteifi), ychydig o flyneddau yn ol, gyhoeddi llyfr dyddorol ar y testun, "*Claudia and Pudens,*" yn yr hwn yr ymdrechir dangos mai "Tywysoges Gymreig ydoedd y Claudia y crybwyllir am dani yn Ail Lythyr St. Paul at Timotheus." Yn ol ein barn ostyngedig ni, y mae yr ysgrifenydd dysgedig a gwladgarol hwn, wedi gwneuthur y mater mor glir, fel nas gallwn feddwl am goleddu un ammheuaeth mwyach, mewn perthynas iddo. Y mae y traethawd rhagorol, at ba un y cyfeiriwn, yn rhwym o sicrhau i enw ei awdwr, barchedigaeth a bri oesol. Yn absennoldeb tystiolaethau uniongyrchol i brofi y pwnc, ymresyma yr awdwr, wrth gwrs, yn ol athrawiaeth *tebygolrwydd,*—yr athrawiaeth hòno yn unol â pha un y darfu i'r prif haneswyr eglwysig, er dyddiau y diwygiad, ddyfod i'r penderfyniad mai yr un ydoedd Claudia yr apostol Paul a Chlaudia Martial; ac ar y

[illegible] [illegible] y [illegible] efe. "Y mae Sweyn, Parker, Usher, a Stillingfleet yn [illegible] [illegible]." Y mae yn [illegible] [illegible] i Stillingfleet [illegible] yn [illegible] [illegible] leil. [illegible] yn [illegible] y gallasai Claudia St. Paul fod yn [illegible]. Bernir yn [illegible] i hyn gan yr [illegible] [illegible]. Y [illegible] [illegible] Claudia, nid i Caradawg, [illegible] yr hwn y mynega efe, fod ei [illegible] yn [illegible] le mae Chichester yn bresennol. [illegible] genym fuasai [illegible] ar y rhesymau a [illegible] gan yr [illegible] a chadarnhau ei [illegible]. Ond [illegible] i ni wneuthur felly. Digon yw i ni fynegi ar yr [illegible] presennol, ein bod yn hollol gydweled â'r hybarch Archddiacon Williams, mai [illegible] Gymreig ydoedd Claudia,—ei bod yn gristion gloew,—ac [illegible] y [illegible] wneuthur iawn ddefnydd o'i dylanwad er hyrwyddo [illegible] yr efengyl drosodd i Ynys Prydain.

Crybwyllwn, yn nesaf, am y bendefiges arall a enwyd genym, sef *Pomponia Græcina*. Gwraig ydoedd hon i Aulus Plautius, yr hwn a fu yn Mhrydain yn gwasanaethu ei swydd fel rhaglaw Rhufeinig dros amryw flynyddau. Fod Pomponia yn arddel Cristionogaeth sy ffaith a addefir ar bob llaw. Credir hyn oddiar sail yr hyn a fynega Tacitus am dani; sef, iddi gael ei chyhuddo o goleddio "*coel-grefydd estronol*," ac i'w gŵr, Plautius, yn ddilynol i hyny, gael ei osod yn farnwr ar ei hachos, yn ol trefn y Rhufeiniaid. Cafodd ei phrofi am ei buchedd a'i henw da, yn mhresennoldeb ei theulu a'i pherthynasau, pryd y cyhoeddai Plautius ei bod yn ddieuog o ddim anfoesoldeb. Cymerai y prawf hwn le, fel y tybir, yn y flwyddyn 57. Tybiwn ei fod yn eglur, mai y grefydd Gristionogol sydd i'w golygu wrth y "goelgrefydd estronol" ag y cyhuddid Pomponia o'i phlegid. Y mae holl esbonwyr ysgrifeniadau Tacitus, yn Mhrydain ac ar y Cyfandir, yn llwyr gytuno yn y farn hon. Credir mai dyna yn union fel y gelwid Cristionogaeth gan yr ysgrifenydd hwnw, pa bryd bynag y caffai achlysur i gyfeirio ati. Gellir ei chymeryd, gan hyny, fel ffaith ddiammheuol, fod Pomponia Græcina yn un o ddysgyblion yr Arglwydd Iesu Grist. A chan fod Tacitus yn uno crybwylliad am dani mewn cysylltiad â hanes dychweliad ei gŵr o Brydain, ar ol ei fuddygoliaethau yno, meddylia rhai yn ddiysgog mai Brythones ydoedd hi. Pa fodd bynag am hyny, rhaid fod cyflwr gresynol y Brytaniaid yn dra hysbys iddi, ac y mae yn hawdd credu hefyd y rhoddid pob cefnogaeth ganddi i'r rhai a weithredent er anfon i Brydain wybodaeth am efengyl y gras a'r tangnefedd.

Bellach, y mae yn eglur iawn, feddyliem, fod yr amgylchiadau, dan ba rai y gwnelai crefydd Crist ei hymddangosiad yn yr ynys hon, yn ffafriol odiaeth i lafur ei chenadon, ac yn argoeli iddynt y llwyddiant dedwyddaf. Gwelsom fod yn Rhufain, rywbryd oddeutu y flwyddyn 58, gymdeithas urddasol o Gristionogion, y rhai nis gallent lai na theimlo y dyddordeb mwyaf yn achos efengyleiddiad Prydain; ac yn eu plith, yr ydym i restru Claudia, Pudens, a Phomponia Græcina, y rhai, o ran sefyllfa, oeddynt yn anrhydeddus, ac o ran ymarweddiad, yn bur a difrycheulyd. Yn ganlynol, pan gyrhaeddai Brân a'i gymdeithion i'r ynys hon, hwy ddeuent yma gydag anerchiadau cyfeillgar oddiwrth y personau a enwyd uchod, at rai o'r teuluoedd mwyaf urddasol drwy yr holl wlad; fel mai naturiol yw credu fod y genadaeth Gristionogol i Brydain yn dechreu ar ei gwaith yn wyneb y

rhagolygiadau dedwyddaf. Gwyddom iddi, yn y diwedd, droi allan yn llwyddiannus odiaeth. Buasai yn ddymunol fod genym wybodaeth helaethach am lwyddiant foreuol Cristionogaeth yn Mhrydain. Megys y crybwyllwyd eisoes, nid yw y ffeithiau sy genym yn dwyn cyfeiriad at hyny ond ychydig o nifer; eto, y maent yn ddymunol i graffu arnynt fel y ser pan fyddont yn gwenu arnom oddi rhwng cymylau duon a brochus.

Ond y mae yn bryd i ni derfynu, beilach. Ofnwn fod y traethawd hwn eisoes wedi rhedeg i ormod meithder. Nis gallwn roddi ein hysgrifell o'r neilldu, pa fodd bynag, heb alw sylw neillduol at bwysfawredd y rhwymedigaethau sydd arnom i foliannu Duw pob daioni, am iddo ordeinio fod i Ynys Prydain dderbyn o oleuni Cristionogaeth mor foreu. Oni bai dylanwad y grefydd ddwyfol hòno, buasai cyflwr Prydain yn rhwym o fod yn anfeidrol is nag y ceir ei fod heddyw. Gallasai Derwyddiaeth fod yn burach fel trefniant *dynol* o grefydd na dim a welodd y byd paganaidd erioed; ond y mae yn eglur na ddeil i'w chymharu â chrefydd Crist am foment. *Y mae hòno yn ddwyfol.* Rhagora ar bob trefniant arall o grefydd, fel y mae y goleuni yn rhagori ar y tywyllwch. Os eistedda Prydain, heddyw, fel brenines y gwledydd, credwn mai Cristionogaeth a deilynga y clod uchaf am ei bod felly. Y mae yn ddiddadl ddarfod i elfenau eraill gydweithio yn rymus er perffeithio ein trefniant cymdeithasol, a dwyn ein gwlad orenwog i'w chyflwr presennol o ardduniant a dedwyddyd cenedlaethol. Nis gallwn anghofio y rhwymedigaethau trymion o dan ba rai y gorwedda hi—i hyawdledd a zêl gwladgarwyr, i ysbryd anturiaethus masnachwyr, i ddewrder a medrusrwydd milwyr a chådlywyddion, i ymchwiliadau a darganfyddion athronwyr, i ddoethineb seneddwyr, ac i gywreindeb peiriannyddion. Ond wedi y cyfan, iawn yw ystyried mai gallu Cristionogaeth a fu yn dal ac yn rhwymo yr amrywiol weithredyddion a enwyd i *gydweithio* er daioni. Hi yw yr haul, hwythau yw y ser. "Arall," a mwy ysplenydd, gan hyny, yw y gogoniant a berthyna iddi. Trwy ddylanwad Cristionogaeth ar y cyntaf y deffröwyd ein cyn-dadau rhyfelgar i ystyriaeth o'u huchafiaeth fel bodau rhesymol; a thrwyddi hi, yn yr oesoedd dilynol, y cyfaddaswyd eu hiliogaeth i dderbyn a mwynhau o frasder bendithion gwareiddiad. Yn nghanol amseroedd blinion o drais a gorthrymder, hi fu yn dyrchafu ei llais yn effeithiol o blaid achos gwirionedd a chyfiawnder, gan "gyhoeddi heddwch i bell ac i agos, a galw ar bob dyn yn mhob man i edifarhau." Hi ddrylliodd lawer cadwen, coethodd lawer dealltwriaeth, a phurodd galonau tuhwnt i rif. I'n gwlad hoff, hi fu yn oleuni ac yn fywyd. Dygodd ei thrigolion i agosach cydymdeimlad â'u gilydd; effeithiodd er puro ein trefniant gwladyddol; a chynnorthwyodd tuag at wneuthur, a hyny o elfenau afrywiog iawn, *un genedl ardderchog*, i fod yn wrthddrych syndod a mawrygiad y gwledydd oll. A pheth dymunol yw cofio hefyd, fod dylanwad Cristionogaeth beunydd yn ymgryfhau yn ein mysg. Gallwn feddwl am wledydd lle bu iddi dderbyniad croesawgar am dymmor. Bu yno yn gwasgaru ei bendithion nefol dros dro; ond o'r diwedd, "Wele, arch Duw a ddaliwyd, a'r gogoniant a ymadawodd!" Ond nid fel hyn y mae wedi dygwydd gyda golwg ar Ynys Prydain. Ar ol bod yma am yn agos i ddeunaw can' mlynedd, canfyddir ei bod eto mor lawn o fywyd, rhagoroldeb, a hawddgarwch ag erioed. Esgyna i'r lan, gan ledu ei cheinciau, a blodeuo fel palmwydden. Eled rhagddi fwyfwy! Boed i dymmor ei llwyddiant a'i defnyddioldeb barhau

yn Mhrydain hyd farn y dydd mawr! Dyddymer amcanion y pleidiau hyny o fewn ein tir ag sydd yn ymdrechu llygru ein hathrawiaethau nefol, a dwyn ein gwlad rydd-freiniol unwaith yn rhagor odditan iau haiarnaidd Pabyddiaeth. Tröer cynghorion y cyfeiliornwyr hyn yn ffolineb! Dinystrier eu gwaith yn hollol, megys â dyrnod marwolaeth! A pharhäed Cristionogaeth, yn ei holl symledd cyntefig, i flodeuo yn ein mysg o genedlaeth i genedlaeth; ac am Brydain hefyd, y dywedwn, o eigion calon—BYDDED FYW YN DRAGYWYDD!

CHRISTMAS EVANS.

YN ein sylwadau ar Christmas Evans fel areithydd, crynem rhag nad oeddym yn gwneyd cyfiawnder âg ef, gan mai anmherffaith wrth anghen ydoedd ein gwybodaeth am dano yn y cylch hwnw. Ychydig o gyfleusderau a gawsom i'w wrandaw, a phrin y gallasem ffurfio barn deg arno y pryd hyny ar gyfrif ein hoedran. Ond teimlem fwy o hyfder wrth geisio dadlenu natur ei athrylith, gan fod ei bregethau genym fel maen prawf i geisio plymio dyfnderoedd ei enaid. Cymerwn y cyfleusdra presennol i grybwyll ein rhwymau fel cenedl i Gyfranydd pob rhodd ddaionus am ein cynnysgaethu fel hyn â gweithiau efengylaidd ac adeiladol Christmas Evans. Ni adawyd ei athrylith ef yn ddidyst ar ol ymadawiad ei enaid i drigo yn mysg bryniau gwyrddion anfarwoldeb. Ond safant "tra môr tra Brython," yn gofgolofnau uchel o wreiddioldeb ac eangder darfelydd un o athrylithwyr penaf a mwyaf ysplenydd Gwyllt Walia. Ychydig a ŵyr y Seison am lenyddiaeth a doniau pregethiadol ein gwlad ond trwy gyfrwng cyfieithiadau darnau o bregethau Christmas Evans. Anfynych yr agorir eu "*Beautiful Extracts*," heb gyfarfod â'i ddernyn arddunol ar yr iawn, neu ddarluniad y fynwent ynddynt. Deallwn fod ei holl bregethau wedi eu cyfieithu i'r Seisoneg yn America. A hysbysir i ni gan gyfaill, trigiannydd o'r byd newydd, y rhestrir hwynt yno gyda gweithiau safon (*standard works*) Howe, Baxter, ac Edwards; a'u bod yn ail o ran poblogrwydd i freuddwyd anfarwol Bunyan.

Fel dyfalydd digyffelyb mae ein gwron wedi anfarwoli ei hunan. Ei grebwyll gyfoethog sydd wedi ei osod i droi ymhlith ser dysgleiriaf y cyfundraethau meddyliol. Yr oedd Christmas Evans yn feddiannol ar grebwyll, yn ol ystyr helaethaf ac eangaf y gair. Y gynneddf hono a elwir gan y Seison yn *imagination*, yr hwn a argynnwys *invention* a *fancy*. Nis gallwn mewn un modd gytuno âg awdwr dysgedig y traethawd gorchestol hwnw ar "Swyddogaeth Barn a Darfelydd," mai darfelydd ydyw y gair goreu am *imagination*. Ymddengys i ni fod crebwyll yn eangach a helaethach ei ystyr na darfelydd. Dengys yr awdwr gyda'i fedrusrwydd cyffredin fod y gair yn tarddu o *dar* a *mal*, ac mai ystyr y cyntaf ydyw *ger bron*, ac mai ystyr yr ail ydyw *tebyg*, *eilun*, neu *llun o beth*. Dywed hefyd fod ystyr arall i *mal*, sef yr hyn a gynnyrcha, neu a deifl allan. Ond ni roddodd fath yn y byd o brawf tros briodoli yr ystyr olaf yma i'r

gair. Clywsom un beirniad yn dyweyd nad ydoedd Christmas Evans yn feddiannol ar grebwyll, ond mai ei brif allu meddyliol ydoedd yr hyn a eilw ein cymydogion, y Seison, yn *fancy*. Nid ydym ni yn feddiannol ar air cyfystyr i'r olaf yn y Gymraeg. Weithiau cyfieithir ef yn ddychymyg genym, pryd arall yn ddarfelydd, a phryd arall yn grebwyll. Ond nid ydyw yr un o'r geiriau hyn yn gyfystyr a *fancy*, fel y defnyddir ef gan y Seison. Gellir gyda mwy o briodoldeb gyfieithu y tri gair yna yn *imagination*, yr hyn sydd yn hollol wahanol, fel y ceisiwn ddangos rhagllaw i *fancy*. Y mae braidd yn anmhosibl cael gair mewn unrhyw iaith sydd yn gyfystyr â'r olaf, fel y defnyddir ef gan y Seison. Nid ydyw *fantasie* y Ffrancaeg, na *fantasia* yr Italaeg, yn ymdebygu mewn modd yn y byd i'r ystyr y cyfyngir y gair. Yr Ellmyn—y dadansoddwyr dysgedig hyny—a gydnabyddant lawer o wahaniaeth rhwng eu *einbildungskraft* hwy a *fantasie*, ac y mae braidd gymaint o wahaniaeth rhwng eu gair hwy a *fancy*. Ystyr y gair a ddefnyddient hwy ydyw, gallu y meddwl i gasglu ei ystyriaeth ar ei greadigaethau dychymygol ei hunan, yr hyn sydd yn hollol wahanol i *fancy*. Ond gan fod yn anhebgorol anghenrheidiol i ni ddefnyddio rhyw eiriau fel safon cyn y gallwn fyned ymlaen gyda'r darnodiadau (*definitions*), cymerwn *grebwyll* am *imagination*, a *chymyg* i arwyddocau *fancy*; nid oblegid fod y gair olaf yn gyfystyr â *fancy*, ond o ddiffyg ei well yn y Gymraeg. Maddeued y Cymro gwladgarol i ni am awgrymu nad ydyw cyflawnder hyd yn nod yr hen Frythoneg ddim yn annherfynol.

Darnodir y gwahaniaeth sydd rhwng crebwyll a chymyg (*fancy*) fel y canlyn. Gwna y blaenaf newid ac adlunio y drychfeddwl gwreiddiol, gan ei lanw â rhywbeth estronaidd (*extraneous*). Gadewir ef gan y llall heb gyfnewidiad, ond cyferbynir ef â gwrthddrychau, â pha rai, mewn rhyw ystyr, yr ymdebygola. Crebwyll ydyw y prif gynhyrfydd, neu egwyddor greadigol y meddwl, yr hwn a ffurfia amgyffredion newydd a syniadau gwreiddiol allan o ddefnyddiau oeddynt yn bodoli o'r blaen; nid yn gytunol bob amser, fe allai, â deddfau rhesymeg, ond er hyny yn hollol ddealledig i'r meddwl cyffroedig—yn ddealladwy trwy ein cyd-deimladau (*sympathies*) a'n hybwylledd (*sensibility*). Pe meddyliem am belydrau goleuni, neu yr awelon peraroglaidd, maent hwy uwchlaw galluoedd rheswm i'w darnodi, eto ni wna hyn ein rhwystro rhag teimlo a mwynhau eu dylanwadau i'r graddau eithaf. Nid *gweled* pethau yn wahanol a wna crebwyll i reswm, ond eu *defnyddio* yn wahanol. Ymdrina y naill â syniadau unigol, gan sylwi ar hanfodion noeth gwrthddrychau, pryd y gwna y llall eu cylymu a'u hailffurfio yn gwbl wahanol i'r modd yr ymddangosant yn eu dullwedd naturiol. Barddoniaeth hefyd, er ei fod yn greadigol o ran egwyddor, a argynnwys nid yn gymaint yr hyn sydd anmhosibl, a'r hyn sydd yn awr yn anadnabyddus. Y mae barddoniaeth i'r meddwl yn debyg fel mae cynghanedd i sain; clymir geiriau o wahanol ystyron gan gerddoriaeth i seinio yn gyffelyb; clymir gwrthddrychau gwahanol gan farddoniaeth i ffurfio perthynasau cymhariaethol. Edrycha nid yn unig ar wisg a delw pethau, ond sylwa arnynt yn eu hewyddorion, a thrwy eu perthynasau dirgelaidd. Y mae yn fyr, gynnwysfawr, ac awgrymol (*suggestive*), ac nid yn eglur a chymhwyllol. Y mae ei geiriau fel anadl y gwyddon, a gwaith rheswm ydyw eu dirnad a'u deongli. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng crebwyll a chymyg, yn gymaint ag y canfydda y blaenaf ar edrych-

iad, yr hyn na chenfydd yr olaf heb olygu cyffelybrwydd gwrthddrychau. Ymdrina crebwyll yn gyffredin â theimladau a thymherau uchelaf yr enaid. Mae fel penadur neu dybysbryd [illegible] yn taflu delweddau allan o'i afaelion llosgedig, fel pe byddant doddedig, ac yn eirias trwyddynt oll. Gallu amrywiog (*complex*) ydyw, a argynnwys y teithi hyny a elwir gan athronyddion,—dirnadaeth, dansoddiant (*abstraction*), a barn. Casgla crebwyll y lliaws i'r unigol, gan liwio a gwisgo ei greadigaethau amrywiog ei hunan gyda hanfodion y cyfan. Gylch wrthddrychau cyffredin, a gwirioneddau diaddurn, yn yr awyrgylch a anadla, nes y deuant allan fel claer belydron yr haulwen. Ffurfir enfys amliwiog i harddu y nen ganddo, allan o'r cwmwl a'r tarth sydd ynddynt eu hunain yn wrthddrychau pruddaidd ac annymunol. Cymyg (*fancy*), ar y llaw arall, sydd yn llai sylweddol, ond yn fwy llachar—peirianwaith parotoawl barddoniaeth ydyw, heb yr agenydd i'w yru. Gallu ydyw sydd yn pelydru ar wrthddrychau a ganfyddir gan y llygaid, ond sydd yn anweledig i ddirgel ddyn y galon. Seiniau ydynt a chwareuant ar y glust, ond sydd anhyglyw yn ystafelloedd sancteiddiolaf y meddwl. Deillia oddiar egwyddor cyffelybiad yn unig. Twymna y meddwl gyda chanwyllau cymhariaethau, ac nid gyda phelydrau haul dirnadaeth. Crebwyll ydyw cynnyrchydd cymyg. Perthynant i'r un gallu meddyliol, fel lliw a pherarogl yn perthyn i'r un blodeuyn. Fel galluoedd y meddwl, dygant yr un berthynas i'w gilydd ag a wna y ffrwd i'r afonig, a'r afonig i'r môr. A ddarfu i'r darllenydd sylwi erioed ar y tân yn dechreu cynneu ar foreu oer y gauaf, rywbryd cyn codiad haul, "a hi eto yn dywyll," pryd y bydd y fflam, ar ol iddi gynneu a goleuo y tanwydd, yn tori allan yn wreichion nwydus a gorwyllt, fel pe yr ymddifyrent i chwareu a thrwstian o amgylch yr ystafell, os nid er eu hyfrydwch eu hunain, er difyrwch mawr i'r edrychydd? Gwelir yn y drych yma natur athrylith a'i gweithrediadau. Canfyddir yn gyntaf y fflam yn goleuo y marwor—yr egwyddor fywiol a elwir syniad, dirnadaeth, neu ysbrydoliaeth. Pan ddel yr elfen danllyd yna i gyffyrddiad â thestun, ffeithiau hanesyddiaeth, neu ddansoddiant y galluoedd meddyliol, dechreua yn y fan greu personau, cymeriadau, dygwyddiadau, a golygfeydd gwreiddiol o'r defnyddiau hyn. Dyma, feddyliem ni, ydyw dychymyg neu grebwyll. Rhai o'r creadigaethau hyn ydyw Satan, Milton; Titania, Aberon; Ariel, Caliban; a dewiniaid cymylog Macbeth, gan Shakspeare. Mae Macbeth ei hunan yn un o greadigaethau dychymyg, yn gystal a Hamlet, Romeo, Juliet, a Lear. Plant yr un tad ydyw y Tylwyth Teg, Echo, Polyphema, Demagorgau, rithiau Gwener a anwyd o'r môr, a Pellas a neidiodd yn arfog o fenydd Iau. *Inferno*, Dante; palasau a choedwigoedd yn llawn gwyll, gan Spencer; bugeiles ffyddlawn Fletcher, yn ei chartref Arcadaidd; ogofeydd yn llawn o berlau crogedig yn y "Nosweithiau Arabaidd," —ydynt oll greadigaethau dychymyg, ac fel y cyfryw a berthynant i deulu lliosog Apollo. Ond nid ar hyn yn unig yr ymfoddlona crebwyll. Yn nghyfoethogrwydd ei allu, ac yn afradlonedd a chwareugarwch ei ysbryd, gwelir ef yn fynych fel y fflam ar yr aelwyd yn taflu allan wreichion afreidiol, ond sydd er hyny yn ysplenydd eu lliw, y rhai ydynt yn gynnyrchion y gallu a elwir cymyg (*fancy*). Gellir cyffelybu cymyg i'r blodau a dyfant ar ambell goeden afalau, y rhai a gynnyrchant lawnder o addewidion yn nerth bywyd adnewyddol y gwanwyn, ond na chynnyrchant ddim ffrwyth tua diwedd y flwyddyn.

Digona y sylwadau blaenorol i ddangos fod Christmas Evans yn feddiannol ar ryw allu mwy dwfn ac ëang na chymyg; a bod ei grebwyll ef yn perthyn i'r dosbeirth hyny o feddylwyr a gynnyrchasant yr "Iliad," "Hamlet," a "Choll Gwynfa." Gallai ef gyda'r rhwyddineb penaf esgyn pinaclau yr uchelion, a disgyn eilwaith i waelodion y dyfnderoedd; gallai ehedeg i eithafion yr ëangderau, a chasglu o'i ddeutu y golygfëydd mwyaf gogoneddus, a'r gwrthddrychau mwyaf rhyfeddol yn yr ymherodraeth ddwyfol. Nid ydym yn gwybod am un areithydd Cristionogol a allai wireddu gyda y fath gynneddf fywiog y pethau a fu gynt, a'r pethau a ddaw yr amseroedd dyfodol. Ond ei grebwyll ydoedd cynneddf lywodraethol ei enaid, yr hwn a eisteddai fel teyrn ar yr orseddfainc i liwio ac i danio ei holl gynneddfau eraill wrth ei ewyllys. Cymerid ef gan y gallu hwn weithiau ar wibdaith i oes y patriarchiaid, y prophwydi, a'r apostolion, ac yn fynych iawn i gyfnod y seremonïau Iuddewig;—o'r lle y dychwelai yn gyffredin gyda llestri llawn o fêr yr efengyl. Yn ei bregeth ar ddilead "ysgrifen-law yr ordeiniadau," gwna y sylw rhyfeddol a ganlyn:—

"Pan bechodd Adda, daliwyd ef âg ysgrifen y ddyled o farw, yr hon a ysgrifenwyd gan fys Duw yn llyfr y ddeddf foesol, a darllenodd hi i Adda cyn y cwymp; ond anghofiodd hi wrth geisio myned yn dduw trwy fwyta ffrwyth y pren; ond wedi pechu, darllenodd Duw hi yn ei gydwybod ef, nes y llanwyd ef âg ofn. Ond wedi rhoddi yr addewid o Waredwr, darfu i drugaredd drefnu aberth o fywyd anifeiliaid i wneuthur taliad cysgodol i'r ysgrifen-ddyled hon. Pan y daeth Duw i lawr i gyfammodi â'i bobl ar Sinai, fe ddygodd ysgrifen y ddyled yno yn ei law, a deallodd yr holl wersyll nad allent fyw yn wyneb gofynion y ddeddf; gwelsant fod eu bywyd wedi ei fforffetu yn eu hwyneb. Trefnodd trugaredd i fustach gael ei ladd trwy dywallt ei waed, yn lle y dyn. Ond yn yr ebyrth hyny yr oedd adgoffa pechodau, ac nid eu maddeu. Am fwy na dwy fil o flyneddau, bu achos cymmod pechadur â Duw yn cael ei drin, a'r ysgrifen yn cael ei darllen ar fynydd Ebal bob blwyddyn, a'r ddyled yn chwanegu yn lle lleihau; ysgrifau newydd yn cael eu pinio wrth hen ysgrif Eden. Wedi agor y llyfrau o ŵyl i ŵyl, nid oedd ond gwaed anifeiliaid yn dyfod i'r allor, fel math o ysgrifau yn enw yr Iesu, ac addewid ynddynt o agor banc yr aur. Pan oedd nef a daear wedi blino ar y ffugiad, neu y rhithiad o faddeu pechodau; pan nad oedd dim ond adgoffa beiau, clywaf lais rhyw un yn gwaeddi, "Ymaith â'r aberthau a'r offrymau poeth, ni foddlonodd y nef ynddynt; dyma gorff wedi ei barotoi; ac wele fi yn dyfod i gymmodi dynion â Duw âg *un* aberth." Yr oedd yn dyfod fel yn llamu ar y bryniau, a neidio ar y mynyddoedd. Galwodd heibio swyddfa yr ysgrifen-law yn wyth niwrnod oed; a rhedodd ychydig o'i waed ef ar lyfr yr ysgrifen, a dywedodd—"Dyna i ti ernes a gwystl y cei waed fy nghalon friw." Gwedi byw yma dair ar ddeg ar hugain o flyneddau, gwelaf ef yn Gethsemane â'r cŵd aur ar ei gefn, yr hwn a gariodd gydag ef trwy lŷs Caiaphas a Philat: ond nid oeddynt hwy yn adnabod y bathnod a'r ddelw, a'r argraffiad oedd ar ei aur ef: ond yr oedd ei Dad yn eu hadnabod yn llŷs ysgrifen-law Sinai; canys ysgrifen-law oedd yn gofyn yr holl fyd ydoedd hon. Dranoeth, yr oedd Mab Mair, â'r cŵd aur ar ei gefn, i dalu dyled yn ol rhif llyfr y bywyd, neu ei gynnrycholiad ef—ond yr oedd digon o aur ar ei gefn i dalu dyled deng miliwn o fydoedd—yn myned trwy heolydd Caersalem tua swyddfa Sinai oedd yn awr gyda y drugareddfa, wedi ei symud i le y benglog; ac fel yr oedd yn myned, yn gwaeddi, "Ni ddaethum i dori ond i gyflawni." Pob melldith a phob bygythiad yn erbyn fy mhobl, gyrwch hwynt i mewn cyn tri o'r gloch prydnawn heno,—deuwch â'r hen gyn-ysgrif a dynodd fy mhobl yn eu pen cyntaf,—prynaf dyrfa ddirif o fabanod heddyw,—mynaf eu pen yn rhydd o hen ysgrif Eden,—a'r llawer o gamweddau a biniwyd trwy yr oesoedd, o Adda ac Efa, ac Abel ac Enoch, a gwadiad Pedr o honwyf neithiwr; ond am Judas, nid yw ef yn perthyn i'm llyfr i; mab y golledigaeth ydyw; efe a'm gwerthodd am ddeg ar hugain o arian. Mae genyf yn y cwdyn coch yma ddigon i dalu y gofyniad. a digon o fodd i lanw pob addewid a phrophwydoliaeth, o drugaredd, ac i fyw yn llawen, fi a'm dyweddi, i dragywyddoldeb, ar rinweddau fy marwol glwyf. Cyn tri o'r gloch y prydnawn, nid oedd ysgrif yn Eden na Sinai, nad oedd wedi ei dwyn at y groes. A phan yr oedd pob peth weithian wedi ei gyflawni,

[illegible]

[illegible] yn [illegible] ei fod yn [illegible] ei [illegible] Ar-[illegible] yn y [illegible] Christmas Evans yn [illegible] Nid [illegible] efe [illegible] yn [illegible] ac yn amgyffred [illegible]; ond ei gweled a wnai yn [illegible] ei feddwl. [illegible] ei feddyliau yn arlunian wrth eu [illegible] Gwelai eu llun, [illegible], a'u hagwedd, wrth eu cynnwys yn ei feddwl, a'u darlunio [illegible] Fel delweddau, ac nid fel [illegible] (abstraction) y gallai [illegible] hefyd. Mae ei ddarfelydd mor fywiog, fel y try egwyddorion yn [illegible] byw wrth eu trafod ganddo. Wrth son am weinidogaeth angeu, [illegible] yn [illegible] personoli hwnw. Dywedai ei fod

"[illegible] allan yn *Inoculator* mawr; blwch mawr ar ei gefn, yn llawn *points* [illegible], a'i fod wedi *inoculato* pob un o blant Adda â'r defnydd hwn, fel [illegible] marwolaeth. Ei fod wedi *inoculato* teulu cedwm Eden â'r pla [illegible] yn awr, wele yr hen *Inoculator* boreuol hwn yn cael yr hen chwech yn ol. [illegible] yn [illegible] marwoldeb; ond yno efe a ddihunodd mewn anfarwol-[illegible] yn angeu yn mhorth bedd newydd Joseph; ac, i'w rhyfeddu byth, â [illegible] ei hun, *inoculatodd* farwoldeb yn angeu; ac yn moreu yr adgyf-[illegible] yn adfeiliad beddau y saint; a hwythau âg un llais [illegible]gywyddoldeb ei safn, 'O angeu, pa le y mae dy golyn? [illegible] dy fuddygoliaeth?'"

[illegible] i bersonoli egwyddorion yn ei ddarluniad o'r [illegible] am waith yr Ysbryd, trwy gyffelybiaeth adgyfod-[illegible]

[illegible] natur athrylith Christmas Evans, tueddir ni i'w [illegible] (*objective*), yn gystal ag yn adgysylltol (*sub-* [illegible]) mwy o briodoldeb i ddyweyd fod y ddwy [illegible] ganddo, fel yr oedd yn feddiannol ar y [illegible] ei ddirnadaeth a'i ddarfelydd yn un, ond [illegible] yn un â gwirionedd hefyd. Nid dirnad [illegible] darfelyddu, ond edrych ar wrthddrychau [illegible] weledigaethau yn gystal a breuddwydio

breuddwydion. Ymddangosai fel pe buasai ei fenydd yn creu ac yn ffurfio gweledigaethau yn ei lygaid; pob ysgogiad o eiddo pa un a ellid ei alw yn wreichion melltenawl athrylith. Gesyd hyn ef ar unwaith yn agosach i'r prophwydi ysbrydoledig nag un o weledyddion a meddylwyr Cymru. Dyma lle yr ymdebygolai fwyaf i'r breuddwydiwr ysbrydoledig hwnw—John Bunyan. Gelwir Christmas Evans, gyda llawer o briodoldeb, yn Bunyan Cymreig: ond os sylwir ar y ddau wron gyda mwy o fanylwch, gwelir fod gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt mewn rhai pethau er hyny. Er nad ydoedd Christmas Evans yn arfer iaith flodeuog wrth ddyfalu, eto yr oedd yn meddu mwy o hyn na Bunyan; ond yr oedd y gwrthddrychau a'r gweledfeydd a welai yr olaf yn fwy mawreddig, cynnwysfawr, a thebycach i natur na'r blaenaf. Yr oedd rhywbeth yn Bunyan yn hyn yn tebygu i glogwyni noeth mynyddoedd Cymry. Ychydig o flodau a dyf ar y Wyddfa; ceir mwy o rosynau yn tyfu yn ngardd y dyn tlawd nag a geir yn holl amgylchoedd copa Cader Idris. Ynghanol y ffrwd fechan y tyf lili y dwfr, ac nid yn afonydd mawrion y Rhine a'r Danube. Sylwa yr hyawdl a'r digyffelyb George Gilfillan, "Mai ychydig o brydferthion rheitheg a geir yn ngweithiau Bunyan; creu, nid paentio gwrthddrychau y byddai efe: ac er yr ymddangosai ei fod yn sefyll yn nghanol dyffryn llawn o esgyrn sychion, gwnai ef iddynt symud; rhoddai fywyd yn eu cyrff,—gwnai iddynt ymddangos o'n blaen yn llu mawr iawn, rhoddai gnawd am eu hesgyrn. a gwelid y gwrid ar eu gruddiau; a rhoddai nerth bywyd yn eu holl aelodau."

Clywsom rai yn condemnio Christmas Evans, oblegid anghysondeb ac anghywirdeb ei ddesgrifiadau o briodoliaethau y Jehofah. Ond pan ystyriom mai ei gyfoethogrwydd gormodol a achlysurai hyn fynychaf, cyll yr wrthddadl hon lawer o'i grym. Ond gan yr amcanwn sylwi yn fanylach ar yr achosion hyn rhagllaw, ni a ymholwn yn awr, Pa un a ydyw dullwedd droellog yn tueddu mewn gwirionedd i gamarwain y meddwl, wrth geisio ffurfio barn am berffeithderau yr Anfeidrol ai peidio?

Pa beth ydyw priodoledd yn Nuw; ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, a'i drugaredd? Pa beth ydyw y priodoleddau hyn yn ein cymeriadau ni ein hunain? Gwelwn mai rhyw arddangosion (*phenomena*) ydynt, ag sydd mewn undeb dirgelaidd â'n natur. Nis gallwn mewn modd yn y byd eu hegluro i achosion materawl. Y cwbl a allwn benderfynu yn eu cylch, ydyw—nad sylweddoliaethau ydynt. Yr ydym yn analluog i ffurfio unrhyw ddrychfeddwl am eu helfenau hanfodol. Darlunir hwynt genym trwy offerynoliaeth ffugyrau. Defnyddir y gair; ond nid oes genym arlun o'r peth; a gorchwyl darfelydd ydyw egluro trwy rithiau, ac nid trwy eiriau. Gwna ddefnydd, y mae yn wir, o eiriau, eto nid ydynt ond offerynau ei gelfyddyd, ac nid ei gwrthddrychau. Defnyddiau ydynt i arddangos delweddau i lygad y meddwl; ac y maent yn anhebgorol anghenrheidiol cyn y gellir dysgu mathau o feddyliau. Gall ymresymwyr ddadleu faint a fynont ynghylch dansoddiant (*abstractions*) a'u gwasanaeth; eto ni wnant yn fynych ond tywyllu meddwl yr annysgedig. Rhaid iddynt hwy gael delweddau, cyn y gellir cymaint a denu eu sylw, heb son am wneuthur iddynt amgyffred pethau; ond rhaid addef hefyd, fod y perygl i gamarwain yn cynnyddu gyda bywiogrwydd y tueddiad hwn y soniwn am dano. Mor gynted ag y dygir ardeb (*picture*) o flaen llygaid meddwl y dyn, dechreua ei ddarfelydd yntau wneuthur chwanegiadau at yr un gwrth-

ddrych; neu o'r hyn lleiaf, ei liwio nes y bydd yn wahanol hollol i'r ardeb cyntefig. A dyma lle yr oedd darfelydd Christmas Evans dan anfantais, ac yn agored i gael ei gondemnio ar gam, nid yn gymaint am gamddarlunio gwrthddrychau ag am eu creu yn y fath fodd ag y twyllai yr edrychydd ei hunan wrth syllu arnynt. Ond er fod dychymyg yn agored fel hyn i gamarwain ac i gamddesgrifio egwyddorion, eto mae wedi cynnyrchu mwy o wirionedd na llawer hanesyddiaeth, nac athronyddiaethau darbrawol (*theoretic*) ychwaith. Ceir yn fynych, yn ffug-draethau athrylith, lawer o wireddau arddunol; ac egyr ei llaw haelionus lawer o ddorau a guddient o'r golwg y bröydd hyfrytaf, gan gasglu llachrau o oleuni ar yr egwyddorion ag y darfu athronyddiaeth yr oesau fod yn fwy llwyddiannus i'w cymylu nag i'w hegluro. Anturiwn ddyweyd fod mwy o wirionedd yn drysoredig yn chwarëyddiaethau Shakespeare, nag sydd yn holl gyfundraethau caddugawl athronyddiaeth yr ysgolion canoloesol. Mae dyfaliaeth yn fynych yn dysgu y ddoethineb ddyfnaf, a'r wybodaeth egluraf, pan, fe allai, y byddo llythyren y wers yn gyfeiliornus.

Ond er mor droellog ydoedd arddull Christmas Evans, anfynych iawn y gwyrai efe oddiwrth iaith a syniadau cywir. Ac fel y sylwasom uchod, yr oedd ei grebwyll yn hynod o wasanaethgar i ddwyn egwyddorion dyrus yn agos o flaen y meddwl, ac i'w hargraffu mewn llythyrenau annileadwy ar y cof. Wrth egluro offerynoliaeth ffydd, yn nghyfiawnhad pechadur, defnyddia y dull syml a tharawiadol a ganlyn:—

"Nid yw ffydd i'w golygu fel ammod deddfol, megys na ŵyr Duw pwy a fydd gadwedig, nes yr etholo dynion eu hunain trwy gredu; nid felly, ond un gadwyn gyfan ydyw cynllun iachawdwriaeth, o ddolen rhaglunio i ddolen gogoneddu, ac yn cydio yn y dolenau canol—prynu, galw, credu, a chyfiawnhau. Rhodd Duw yw ffydd, ac o ffydd y rhaid derbyn yr holl iachawdwriaeth, fel y byddo yn ol gras. Nid ar gyfrif un haeddiant sydd ynddi y mae yn cyfiawnhau, ond oblegid ei bod yn derbyn y rhodd o gyfiawnder, ac yn uno â Christ. Gall fod morwyn, wrth allor priodas, wedi ymwisgo yn hardd, ond nid ei gwisg sydd yn ei chylymu â'i phriod, ond y fodrwy. Gall gŵr fyned i'r banc mewn gwisg foneddig, ond yr ysgrif garpiog sydd ganddo, yn llawn rhwygiadau, a dim braidd yn aros ond y rhif, sydd yn rhoddi hawl iddo i gael o drysor yr ariandŷ. Os gelli gredu, pob peth a fydd i'r hwn sydd yn credu—"yn ol dy ffydd bydded i ti." Ni wnelsai y llaw na'r glust i ymwneyd am iachâd oddiwrth y sarff bres, ond y llygad. Mae gwreiddyn hollol sancteiddiad yn y dyn cyfiawnhaol; ond ffydd sydd yn derbyn y gwaed, fel yr isop a'r cawg, yn yr Aipht, ac nid fel y lili, na dail yr olewydden."

Gofynwn, A allasai Syr William Hamilton, neu Cousin, trwy gymhorth eu hathronyddiaeth, neu yr esgob Whateley, trwy gywreinrwydd ei resymeg, ddarlunio mor oleu a tharawiadol brofiad o bethau ysbrydol yn galw y gwrthgiliedig yn ol, a'r desgrifiad a ganlyn?—

"Sorodd Shoni ar ei gyflog, a throes ei gefn ar dŷ ei feistr, wedi bod yno yn gwasanaethu am flyneddau. Wrth grwydro o fan i fan, cymerodd Shoni yn ei ben i fyned i roddi tro i'r dref, er gweled pa beth ydoedd yn myned ymlaen yno. Pan yn rhodio yno ar hyd yr heol, pwy a gyfarfyddai â Shoni, yn ddisymwth, ond ei hen feistr. Pan welodd Shoni ei feistr, aeth yn lled *shy*, ac nid oedd ei atebion ond byrion, ac arwyddai yn amlwg nad ydoedd am siarad fawr âg ef. 'Wel, wel, Shoni,' ebe y meistr, 'ni wna hyn y tro; os ymadael, gâd i ni ymadael yn ffrindiau: tyred gyda mi." Ffwrdd yr aeth ei feistr a Shoni tua heol y Groes, ac i mewn i arwydd y Llew o lwyth Juda; ac wedi eistedd i lawr, galwodd ei feistr am bob o wydriad o win o winwydd Escol, yr hwn a sathrwyd yn ngwinwryf Calfaria. Dygwyd ef iddynt o'r rhywogaeth oreu; a chyn i Shoni yfed ond ychydig o hono, wele ef ar ei draed; y dagrau yn berlau gloewon yn treiglo dros ei ruddiau, a'i ddeheulaw yn estynedig at ei feistr, ac yn gwaeddi allan, 'Meistr!—ffrindiau mwy—ffrindiau hyd y bedd mwy, meistr anwyl!—ffrindiau hyd dragywyddoldeb mawr mwy!

Adref gyda chwi, meistr anwyl; yn eich gwasanaeth y treuliaf fy oes mwy! byth mwy! byth mwy! A ydyw y pechod wedi ei faddeu, meistr anwyl?' 'Ydyw, Shoni bach; dere yn ol, dere yn ol. 'A'u pechodau a'u hanwireddau, ni chofiaf mo honynt mwyach.' Croesaw, croesaw, tuag adref; y mae yr hen fywioliaeth a welaist gynt yn dy aros eto.'"

Ymhlith y lluoedd pregethwyr a arferant ddarllen y "Traethodydd," mae rhywbeth yn sibrwd yn ein clustiau ni fod rhai o honynt yn ddynion ieuainc; ac fel pob dynion ieuainc gwir obeithiol, maent yn cael y gair o fod yn lled uchelfrydig (*ambitious*). Ymddangosant fel pe baent yn benderfynol i fod yn areithwyr penigamp, neu ddim. Deallwn nad ydynt yn arbed unrhyw draul na thrafferth i ymddysgleirio fel traddodwyr effeithiol. A dywedir gan y rhai sydd yn byw yn yr un tŷ a hwy, eu bod yn cuog, weithiau, o sefyll am oriau meithion o flaen y drych, i ddysgu ystum ac ysgogiadau areithyddol, i'r dyben i'w galluogi i ragori fel traddodwyr gwych. Wel, ni fynem er dim eu condemnio am hyn, oblegid nis gwyddom paham na ddylai pregethwyr ddefnyddio pob moddion cyfreithlawn i ragori yn eu gwaith pwysig, yn gystal a phobl eraill. Ond gobeithiwn nad ydynt hwy yn perthyn i ddosbarth yr epaod a ddarlunir gan awdwr y traethawd hwnw yn ein dalenau ar "Efelychiad." Os taw ceisio efelychu ser dysglaer Llynlleifiad a Llanllyfni ydyw eu hamcan wrth sefyll cyhyd o flaen y drych, teilyngant bob dirmyg a ellir ei daflu arnynt. Ond os taw perffeithio eu dull naturiol eu hunain ydyw eu dybenion, teilyngant barch dauddyblyg am eu llafur. Ond yn lle eu hannog i fyned at Blair, Whately, a Bell, i ddysgu rheolau areithyddiaeth goethedig, cymhellwn hwynt i gymeryd gwers gan eu cydwladwr hybarchus, Christmas Evans, ar ddirgelwch traddodiad hyawdl ac effeithiol; ac anturiwn ddyweyd na allasai Quinctilian, na Cicero, na neb areithwyr penigamp eraill, roddi gwell addysg ar y mater yma, na 'n harwr, yn y dernyn byr, ond cywrain, a ganlyn:—

"Ewch i efail y gof, i'w weled yn gweithio pedolau, swch, neu gwlltyr. Mae yn gyntaf yn gosod yr haiarn cymhwys at un o'r celfi yn y tân, heb swn curo ar yr eingion. Mae yn crynoi â rhaw fechan y marwor, at wneyd gwres. Yna y dywed wrth y gwas, 'Chwytha, fachgen,' ac y mae ef, â i raw yn ei law, yn meddiannu ei hun, ac yn holi rhyw gwestiynau perthynol i'w orchwyl ef. 'A dorodd eich meistr gynffon yr ebol coch?' 'Na ddo.' 'Paid a chwythu cymaint, fy ngwas.' Yna mae yn edrych ar y tân yn poethi yr haiarn, heb ymaflyd eto yn y morthwyl i guro, na'r gwas i ymaflyd yn yr ordd: ond fel y mae yn gweled yr haiarn yn dyfod i dymher i'w forthwylio, y mae yn ei dynu allan yn llawn gwreichion toddedig, ac yn ymaflyd yn y morthwyl, gan roddi yr haiarn toddedig ar yr eingion; yna, mewn brys, geilw ar y gwas i daraw, ac erbyn hyn mae swn curo haiarn yn llanw yr holl efail, a'r gwreichion tanllyd yn saethu drwyddi; ac felly yn olynol drwy y dydd. Yma, sylwch, nid yw yn curo yr haiarn i'w boethi, canys heb ei fod wedi ei boethi, ofer fyddai ei guro: felly, ofer ydyw arfer gordd a morthwyl bloeddio, heb fod y mater wedi ei ddwyn i dwymnias yn ein calonau ni. Dyma y modd yr ydym ni wedi cynnyg gwneyd hwyl ac effeithio ar ein gwrandawyr, lawer gwaith, megys pe bai y gof wedi gosod yr haiarn yn y tân, a phrin ei gynhesu gyda brys gwyllt. Croes i natur pethau yw cymeryd morthwyl i'w guro a'i lunio tra mae eto yn y tân, heb dymheru, nes ydyw y tân yn diffodd, a'r mwg a'r lludw yn llenwi llygaid pawb, a'r bedol, a'r swch, a'r cwlltyr, heb eu gwneyd. Felly, frawd, cyffelyb i'r dull annaturiol hyn y cefais fy hun yn fynych wrth bregethu."

Dengys y darnau tra phrydferth blaenorol, yn gystal a'i holl gyfansoddiadau, ei wybodaeth ddofn o'r natur ddynol. Rhagorai yn hyn ar neb a ddarllenasom erioed, oddieithr Shakespeare a Bunyan. Ymddengys fod ganddo fath o agoriad, gyda pha un y gallasai agor holl ddrysau y galon ddynol, nes cael golwg gyflawn a manwl ar ei dirgeloedd—capelydd ei haddoliadau, duwiau ei serch, a dacargelloedd ei hanobaith. Cynnysgaethai

y gallu hwn ef â gwybodaeth o'r lle yr oedd castelli awyrawl yr hunan-dwyllwr wedi eu hadeiladu; a thrwyddo deuai o hyd i'r ystafelloedd tywyllion hyny, lle yr oedd coffrau y cybydd yn guddiedig.

Dywedir gan y rhai a'i hadwaenent yn dda, fod ei gymeriad yn hynod o ddidwyll—ei fod mor ddiddichell a'r plentyn bob amser, ac y gallasai y dylaf ei dwyllo mewn eiliad. Ond er y baeddid ef yn greulawn, weithiau, gan hiliogaeth annuwiol Ahitophel, oblegid y gwendid rhinweddol yma, eto arddangosai, bryd arall, graffder meddwl neillduol i amgyffred pob math o gymeriadau. Arddengys rhai tarawiadau yn y dernyn cywrain hwnw a ysgrifenodd ar ol marwolaeth Evan Jones, Aberteifi, y gallu hwn, yn gystal a'i lythyr ar "Ddysgyblaeth eglwysig." Yn yr olaf, gwna y sylw synwyr-lym a ganlyn:—

"Mae rhai yn yr eglwysi yn debyg i Joab a Serfia, nad oes modd i'w dysgyblu braidd, heb rwygo y deyrnas, hyd nes deiont yn addfed i farn; oblegid nid ydynt nemawr byth yn edifarhau mwy na Joab; ond hwy a ddryllir yn ddisymwth o'r diwedd, heb un perygl i'r eglwys o'u cwymp hwy."

Dichon y gwel ein cyfeillion, y Bedyddwyr a'r Annibynwyr, fwy o rym gwirionedd yn y sylw blaenorol, na'r Methodistiaid; oblegid mae henaduriaeth yn gefn iddynt hwy yn wyneb yr anhawsderau hyn.

Yn ei lythyr at bregethwr ieuanc, gwna y sylw rhagorol a ganlyn:—

"Da iawn yw i chwi, tra byddoch yn teithio coedwig ieuenctyd, ymgadw rhag pob rhith drygioni. Gras a gaffoch i fyned trwy goedwig o brenau gwaharddedig, heb dori eich enw ar risgl un o honynt, onide fe'i dannodir i chwi mewn bylchau na ddysgwyl-iwch. Ceir hyd yn nod y llythyren iota o waith eich llaw yn mhen blynyddoedd."

Mae llawer iawn o natur yn y gymhariaeth hon. Fe ŵyr pawb mor naturiol ydyw i ni dynu allan y gyllell o'r llogell, wrth sefyll, ar ddydd tesog o haf, dan gangau coeden, i dori ein henwau yn y rhisgl. Cofiwn i ni ein hunain wneyd hyn rywbryd o ran ymyraeth drwg, pan oeddym blant. Aethom at y lle yn hollol ddamweiniol yn ddiweddar, a chyfarfydd-asom â'r goeden wedi tyfu llawer, a'n henwau ninnau wedi tyfu yn y rhisgl yn ogymaint. Felly y mae pechodau ieuenctyd yr un modd, i'w gweled "yn mhen llawer o ddyddiau," nid yn unig mewn bodolaeth, ond wedi cynnyddu, trwy eu dylanwadau a'u heffeithiau ar eraill, yn gystal ag ar gymeriad y dyn ei hunan.

Wrth ddarllen pregethau a gweithiau Christmas Evans, tarewir ni â syndod, yn gyntaf oll, gan yr amlygiadau a geir ynddynt o gyfoethogrwydd anhysbyddadwy ei athrylith. Mae yn rhai o'i bregethau y fath doraeth o ddrychfeddyliau, fel y gellid eu cymharu i ddechreu a diwedd un o ddydd-iau haf. Yn y boreu, gwelir y niwl euraid yn ymwasgaru i lachar uchel a bwäog y canolddydd; wedi hyny, daw yn amliwiedig am ychydig â chym-ylau tywyll, y rhai sydd yn gwneuthur i'r coedwigoedd ymddangos yn fwy glaswyrdd, a'r afonydd fel drychau yn fwy dysglaer ac adlewyrchol, ac wedi hyny, terfynant yn raddol ac arafaidd, fel machlud haul yn nysgleir-deb eirian a chlaerwych y gorllewin. Nid oedd raid i Christmas Evans, fel rhai o feirdd Cymru, uchelfrydedd pa rai sydd yn fwy tanllyd a thor-eithiog na'u crebwyll, waeddi wrth ddechreu ei bregethau, fel y gwnant hwy wrth ddechreu eu hawdlau:—

"Disgyn, awen, gymen, goeth,
A'th ciriau yn ffrydiau ffraeth,
O'r nef, a chân erddygan ddoeth,
Y dwthwn hwn i'r Duw a'th wnaeth."

Gwelir hwy, druain, o'r hyn lleiaf gydag ymdrech clodadwy, yn chwysu a thuchan wrth geisio dringo oopa Parnassus, ac os cyrhaeddir yno rywfodd trwy fawr lafur, buan y troedir hwynt yn ol i'r gwastadedd gan Apollo, ac wrth geisio brasgamu tros y clogwyni peryglus, da iawn fydd cael gafael ar y cynghaneddion yn ysgolion i'w hattal rhag tori eu gyddfau wrth geisio disgyn i lawr y goriwaered. A chawsom orchest weithiau i beidio gwenu (er mor beryglus eu sefyllfa), wrth edrych arnynt yn rhedeg i lawr llwybrau trŏedig, igam-ogam, y pedwar mesur ar hugain, a chlywed y dolefau cwynfanus gyda pha rai y dychrynent y Dywysogaeth. Ond dyna fydd yn ein synu ni yn fwy na dim arall, fod dynion i'w cael yn Nghymru, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a ystyriant y *signals* hyn *of distress* yn floeddiadau gorfoleddus awenyddion buddygoliaethus! A chlywir yr anwybodusion cynddiluwaidd hyn yn gwaeddi wrth eu gwrandaw, "Llef Duw ydyw, ac nid dyn!" Ond nid oedd yn rhaid i Christmas Evans floeddio, curo, a thori ei hunan â chyllill, i edrych a wrandawai Apollo arno. I ddefnyddio iaith yr ysgrythyr, "yr oedd yn agos ato," ac yn ei ymyl. Mor fuan ag y byddai ei draed ar gopa Calfaria, "cynhyrfid ef gan yr Ysbryd," nes gweled y golygfeydd mwyaf arddunol; a chanfyddai âg un llygad, mewn eiliad (i arfer iaith ffugyrol), fwy o ryfeddodau nag a welai eraill, wrth syllu am flyneddau trwy yr ysbïenddrychau mwyaf chwyddedig, â dau. Dywedai Stephen yn bur hapus am Christmas Evans, "nad oedd anghen arno ef i hela am gyffelybiaethau i ddangos ac i egluro ei osodiadau, ond y gorfodid ef i arfer ei holl ymdrech rhag cael ei hela i lawr gan gyffelybiaethau. Gellid yn hawdd deall, wrth wrandaw arno, pan y byddai yn nghanol gwresogrwydd ei bwnc, y gwnai mewn ychydig fynydau wrthod, neu roddi ond hanner derbyniad, i gynnifer ag a fuasai yn ddigon o gynnysgaeth i gadw ambell bregethwr am ei oes."

Dywedwyd unwaith gan y beirniad Jeffrey am gyfansoddiadau barddonol Tom Moore, "eu bod yn rhy ysplenydd, a bod gormodedd o ddrychfeddyliau a desgrifiadau dysglaer ynddynt." Meddyliasom lawer am y sylw er pan gyfarfyddasom âg ef gyntaf. Wrth hir a manwl ystyried pa un a ydyw y peth yn alluadwy, daeth y cwestiwn yma i'n meddwl, A oes yn bosibl cynnyrchu gormodedd o feddyliau ysplenydd a phrydferth ar unrhyw fater? Cuddir yr holl ddolydd braidd, weithiau, â blodau; ond a ydynt yn rhy liosog? Ymddengys y ser yn amlach nag y gellir eu rhifo yn fynych uwch ein penau; ond a all fod gormodedd o honynt mewn bydysawd dibendraw ac eangderau annherfynol? Pa rai o'r ser a'r planedau a ellid eu hebgor o'r nwyfre asur? Pa un ai Gwener deg, ynte Sadwrn fodrwyog? Ar ol penderfynu y gofyniadau hyn, gellid wedi hyny ddyweyd pa rai o ehediadau ein beirdd, a meddylddrychau ein pregethwyr, a ddylid eu troi o'r neilldu. Ond ein barn ostyngedig ni ydyw, na ddylid gollwng i golli gymmaint ag un meddylrith gwreiddiol, oblegid mae pob un yn cynnrychioli rhan o wirionedd ag sydd yn anfarwol. Yr awdwyr mwyaf galluog ac arddunol a welodd ein byd ni erioed, ydynt gyfoethocaf a mwyaf toreithiog eu drychfeddyliau. Beth a ddywed y darllenydd am y fath ser a William Shakespeare, Jeremy Taylor, John Milton, Edmund Burke, a Dewi Wyn? Meddyliau anffrwythlawn, yn gyffredin, a glywir yn cwyno fod eraill yn rhy afradlawn. Y gwartheg culion a lyncant y rhai tewion. Chwennychai yr eiddilod hyn weled behemoth a lefiathan Job yn llai eu corffolaeth. Tyf gormodedd o rosynau Saron, a

[illegible] y [illegible] yn [illegible] yr Arglwydd, i'w boddio. Y mae gormod o [illegible] a [illegible] a [illegible] yn tarddu oddiar wisgoedd Solomon, i [illegible] eu [illegible]. [illegible] a addurnai mor chweg ruddiau [illegible] ar eu [illegible] gweiniaid hwy, fel nad allent [illegible]. Yn [illegible] gwel y meddylwyr gorfeirniadol [illegible] yn y rhos, o ogoniant yn y lili, ac o lachar [illegible] o'r hyn sydd wir ragorol. Wrth [illegible] natur. Rhaid taflu pob [illegible] gyfleusderau lliosog y sugn-beiriannau [illegible]. [illegible] eu hofferynau cerdd eu hunain [illegible] yr eos. Nid yn unig, can-[illegible] yn ychydig, ond oblegid fod eu [illegible] y "coronau lawer" a'u haddurnant yn [illegible]! Yr ydym yn casau twyll-[illegible]; nis gallwn gael rhy ychydig o [illegible] rhyddieithol; ond nid ydyw [illegible] mewn beirniadaeth, sathru dan draed *[illegible]* [illegible]. Pwy nad ymhyfryda yn nhynerwch a [illegible] ac addfedrwydd tymmor y [illegible]? Paham y mae [illegible] iaith i ganmawl cymeriadau [illegible] beirdd yr ail [illegible] ar draul taflu pob diystyrwch ar *flaenoriaid* y gân! Hynodir eu cymeriadau barddonol hwy, nid oblegid fod eu perlau yn lliosog, ond, yn hytrach, oblegid eu bod yn gallu ar y gelfyddyd o wisgo eu tipyn defnyddiau yn y fath fodd ag i greu y dyb eu bod yn farch-natawyr cyfoethog. Os meddylir am Dewi Wyn, er anghraifft; gellid dyweyd, heb arfer gormodiaith, ei fod yn feddiannol ar gloddfëydd anhys-byddadwy o aur. Cymaint a aliasai ei gydoeswyr barddonol ymffrostio ydoedd, eu bod yn feddiannol ar ddigon i dalu eu ffordd. Nid ymddengys fod ganddynt hwy ddim goludoedd wrth gefn. Buasent yn fethdalwyr ganwaith, o ran hyny, oni bai iddynt ofalu trwy eu gyrfa lenyddol roddi eu sylltau talent yn y banc cynnilo; a gwneyd, fel y dywedir y gwna ambell wraig ofalus a chynnil, "i gydlog bychan ei gŵr gyrhaedd ymhell."

Ond teimlir fod afradlonedd darfelydd Christmas Evans, fel Dewi Wyn, nid yn unig yn annherfynol o ran cyflawnder ac amrywiaeth, ond derbynid yr argraff y byddai ganddo fwy wrth gefn nag a ddygai o flaen ei wran-dawyr. Ac ni chyfyngid ei dalent ef i un dull o lefaru;—gwnai ddefnydd o bob gallu areithyddol, fel pe byddai anghen; weithiau, gwatwareg, i ddin-ystrio gwrthddadleuon gwrthwynebwyr; bryd arall, arabedd, er mwyn denu sylw yr anfeddylgar; neu darawiadau prudd-lesmeiriol (*pathetic*), i gysuro meddwl y cristion profedigaethus, neu i doddi teimladau yr anys-tyriol. Anfynych yr arferai yr iaith flodeuog a hynoda arddull y ddau Roberts o Lanbrynmair. Gwnai ef fwy o ddefnydd o ehediadau uchel barddoniaeth, nag o gymhariaethau coethedig a thlysion. Argynnwys ei drecll-ymadroddion fwy o eangder, ond llai o ddillynder, nag arddull yr ysgrifenwyr poblogaidd a defnyddiol a enwyd. Mewn desgrifiadau tan-llyd a chwarëyddol o bersonau ac amgylchiadau y byddai ei athrylith ef yn fwyaf cartrefol. Mae, ar rai adegau, yn uno prydferthwch ac eangder â'u gilydd, fel yn y dernyn hedegog a ganlyn:—

"Yr oedd addewid y Tad o'r Ysbryd yn un o'r tair addewid fawr, y rhai, fel tair llong lwythog, a hwyliasant i mewn i'r byd marw, ac a achubasant fywyd

tyrfa ddirifedi. Rhoddwyd hysbysiad yn Eden, pan oedd y byd wedi ei gauad o fewn i ogof angeu, fod llestr y Brenin, dan yr enw 'Had y Wraig,' wedi hwylio allan er eu gwaredigaeth. Parhaodd y prophwydi i ddywedyd eu bod yn ei gweled ar y môr; ac yr oedd ffydd yr hen batrieirch yn ei gweled o bell yn gwneyd am y tir; credasant a chyfarchasant hi o bell. Yn mhen pedair mil o flyneddau, hi a hwyliodd rhwng y ddau hwyr, gyda goleuni seren newydd, i mewn i geg afon Bethlehem. Gwnaeth ei ffordd trwy yr afon fordwyol i fyny yn yr yspaid o dair ar ddeg ar hugain o flyneddau, gan gyfranu rhoddion iachâd ar hyd yr holl ffordd. Wrth fyned i mewn i agendor llyn angeu, cafodd dywydd garw, a saethwyd ati gan yr holl bwerau cryfion; ond aeth ymlaen i'r lle penodedig, ac arllwysodd ei llwyth, sef bywyd Mab Duw, dros fywyd y byd. Boddlonwyd cyfiawnder, ac anrhydeddwyd y ddeddf, a phrynwyd yr eglwys; a hwyliodd hithau adref i borthladd anfarwoldeb, wedi darostwng nerthoedd marwolaeth trwy ei farw ei hun, ac aeth yn ol i'r lle o'r hwn y daeth allan, ac nid yn farw, ond yn fyw, wedi gorchfygu marwolaeth."

Rhydd desgrifiadau Christmas Evans ddrychfeddwl i ni o bethau yn debyg i gylcharlunfa (*panorama*) fawr—gwna i wahanol olygfëydd ac amgylchiadau fyned heibio ein golygon mewn amrantiad. Cyfyd druman Calfaria ger ein bron, a'r groes yn eu canol. Cyfeiria ein sylw at y diafol a'i lu uffernol; y gwrdd-deirw, y cŵn, a'r unicorniaid, yn parotoi erbyn yr ymgyrch ofnadwy; clywid hwynt yn sibrwd ac yn ymgynghreirio pa fodd i weithredu ac ymladd yn fwyaf llwyddiannus; dangosai fel y gosodid rhai i adgyfnerthu meddyliau ei elynion yn ei erbyn, i chwanegu cynddaredd yr Iuddewon, nes eu tueddu i waeddi yn fwy croch am ei groeshoelio; ac eraill i wylio am gadw mileindra y Rhufeiniaid mewn bywiogrwydd a gorwylltedd; a gosodid dosbarth arall ganddo i ofalu am ddarpar amgylchiadau i gadw y dysgyblion o hirbell, ac i wneyd i ocheneidiau ei fam, ac wylofain y gwragedd duwiol, drymhau a suddo ei enaid tristaol. Dangosai fel y gwnai cuddiad wyneb ei Dad (yr hyn a achosai i'r tywyllwch fantellu holl anian) fod yn doriad gwawr i feddyliau y cythreuliaid. Ond pa ysgrifell all ddarlunio ei gywreinrwydd wrth ddangos fel y dechreuai y frwydr droi o du yr Emmanuel! Byddai y tarawiadau hyn, weithiau, yn arddangos mwy o athrylith gynnwynol na'i holl ddyfalyddiaeth. Ni cheisiwn ei ddesgrifio, oblegid gwyddom mai ofer fyddai yr ymdrech fwyaf egnïol. Dyna y pryd y disgynai ei hyawdledd anghymharol fel yr eirias tanllyd ar y cynnulleidfaoedd. Pan y dangosai, gyda 'r fath rym angerddol, allu anfeidrol y Llew o lwyth Juda i ddinystrio gweithredoedd y diafol, a'r ddoethineb annherfynol a amlygid i siomi ei gynllwynion,—dyma y pryd y cyffröid meddyliau yr hen dduwiolion profiadol a'i gwrandawai i orfoleddu yn Nuw eu hiachawdwriaeth, ac y byddai yn orchest ar yr hen chwiorydd beidio neidio fel ŵyn defaid. Dyma y pryd y methai y mwyaf anystyriol beidio crynu gan nerth anwrthwynebol yr appeliadau a gymysgid yn achlysurol â'r desgrifiadau, ac y disgynai ei eiriau fel tân-belenau ar eu cydwybodau terfysglyd. Ac o mor felus fyddai ei weled yn troi y ddolen, ac yn dangos mai marw yn lle y pechadur a wnaeth yr Iesu! "Tarawaf y bugail, a'r praidd a wasgerir." "Cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef, a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni."

Dyma yr adegau yr amlygid cryfder a gwendid Christmas Evans fwyaf fel areithydd. Yr oedd ei grebwyll mor fywiog ar rai o'r adegau hyn, fel yr oedd yn anghenrheidiol bod ar wyliadwriaeth ddyfal rhag cymysgu ei ffeithiau a'i ddelweddau â'u gilydd. Carid ef ei hunan, yn gystal a'i wran-

dawyr, mor bell, weithiau, ar edyn aflywodraethus ei ddychymyg, fel y gorfodid ef i fyned ymhellach nag yr amcanai fyned; fel yr agerdd gerbydau ar y ffyrdd haiarn, y rhai, oblegid grym gormodol y gallu sydd yn eu gyru, nad allant sefyll wrth y gorsafau (*stations*) yn uniongyrchol, heb fyned ychydig ymhellach na'r man penodedig. Cwynai beirniad dysgedig yn un o'r *Reviews* Seisonig fod tuedd ei athrylith i wneuthur egwyddorion a gwirioneddau yn rhy sylweddol (*material*). Credwn fod mwy o sail i'r wrthddadl yma yn erbyn arddull Christmas Evans na dim a welsom. Wrth iddo son am yr anghydfod a fodolai rhwng y priodoliaethau dwyfol â'u gilydd—wrth ddangos fel y cafodd cyfiawnder ei foddloni trwy yr Iawn, ac fel y gweinyddid tosturi i bechadur gan drugaredd, byddai gormod o duedd yn ei ddyfaliaeth i beri i ni feddwl mai rhyw benaduriaid enwog oeddynt, a lywodraethent eu gwahanol deyrnasoedd; y naill yn hynod o lym yn ffurfiad a gweinyddiad ei gyfreithiau, a'r llall yn hynod o dyner a thosturiol wrth y mwyaf gwrthryfelgar o'r deiliaid. Cofiwn, pan oeddym blant, mai drychfeddyliau fel hyn oedd genym am berffeithderau yr Anfeidrol, ac yr oeddynt wedi eu seilio wrth wrandaw ar bregethwyr yn ceisio efelychu dullwedd Christmas Evans yn y pulpud. Ond dylid cadw mewn cof o hyd mai cyfoethogrwydd gormodol crebwyll Christmas Evans a'i gyrai, fynychaf, ar gyfeiliorn. Gofynodd rhywun i Robert Hall, unwaith, pan gymerwyd ef i'r gwallgofdy, "Mr. Hall, pa beth a'ch dygodd chwi yma?" "O, syr," meddai yr arebydd parod, "rhyw achlysur nad oes perygl byth y deuwch chwi, syr, yma o'i blegid—gormod o ymenydd." Felly y gallwn ninnau ddyweyd am wendidau Christmas Evans, fel meddylwr, mai gormodedd o gyfoeth a'i niweidiai, fynychaf. Nid ydym ni am daflu yr holl fai ar ei arddull farddonol ychwaith, fel rhai beirniaid, ond beiwn ef yn hytrach am esgeuluso, yn achlysurol, gadw ei arallegau o fewn terfynau. Arferir yr arddull yma, yn achlysurol, gan ysbrydoliaeth ei hunan. Personolir y perffeithderau dwyfol, fel yr arferai ein gwron wneuthur, yn ngair Duw. Dywedir gan y Salmydd, "Trugaredd a gras a ymgyfarfuant; cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant." Ond tra y canfyddwn fod awdurdod ysbrydoliaeth dros bersonoli gwirioneddau yr efengyl, eto, addefwn nad oes bosibl arfer gormod o ofal rhag cymylu eu gogoniant wrth geisio efelychu dullwedd hedegog Christmas Evans. Cyn myned ymhellach, yr ydym am anrhegu ein darllenwyr âg un o ddarnau mwyaf uchelaidd ein hawdwr, ac anturiwn ddyweyd, y dernyn rhyddieithol mwyaf hedegog ac arddunol yn yr iaith Gymraeg; a chredwn y deil gymhariaeth â darnau mwyaf uchelfrydig a llwyddiannus Milton a Burke. Tybiwn nad oes anghen gwneyd unrhyw esgusawd ar gyfrif ei feithder—nid oes modd ei ddarnio heb wneyd cam â'r cyfansoddiad. Yr anghenrheidrwydd oedd am iawn y groes ydyw y pwnc.

"Tybygwn," dechreuai, "fy mod yn gweled mynwent fawr anferthol, yn yr hon y gorweddai lliaws dirif o hil Adda Yr oedd y lle yn llawn o ogofeydd marwol, a chwmwl tew wedi gorchuddio dros y lle, fel nad oedd goleuni haul, na lleuad, na chanwyll, i'w gweled yno; yr oedd y dorau yn fil cadarnach na dorau pres y byd, ac wedi eu cloi i fyny gan Gyfiawnder dwyfol, â bàrau ac â chloion anfarwol, fel nad oedd gobaith am ddiangfa o'r lle tywyll hwn. 'Yn Adda mae pawb yn meirw.' Gydag awel y dydd. dacw Drugaredd wedi disgyn i waered o nef y nef, yn ngherbyd yr addewid foreu, a chyda hi berson, tebyg i Fab y dyn, neu Had y wraig. Trugaredd a alwodd wrth y porth haiarn marwol, gan ddywedyd, 'Fy mrawd Cyfiawnder, yr wyt yma yn cadw gwyliadwriaeth ar y lle

claddu hwn, ac wedi selio y maen marwol â sêl Duw.' 'Ydwyf. Pa beth a fyni di? fy chwaer Trugaredd?' 'Fy neisyfiad ydyw, cael ffordd rydd i fyned i mewn at drigolion y fynwent hon; pe cawn, myfi a osodwn agwedd bywyd yn lle angeu ar y llanerch ddidoledig hon.' 'Deall fi, fy chwaer (ebe Cyfiawnder); gwn nas gelli di o gariad at gyfiawnder dori y cloion yma; ac nis gallaf finnau agor y drws—nid o lid at y trigolion annedwydd, ond o gariad at ddeddf Duw.' 'Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant.' Yno dyrchafodd Trugaredd ei gwynebpryd siriol, golwg ar yr hwn oedd yn ddigon i weithio gobaith trwy y fynwent, ac yr oedd Had y wraig yn sefyll yn ei hymyl;—'Fy mrawd Cyfiawnder, A gymeri di Feichnïydd, hyd oni ddelo yr amser i'w dywallt, fel y gallwyf fi gael agoriad pyrth marwolaeth i fyned atynt?' 'Gwnaf (ebe Cyfiawnder) ond ei gael o berthynas digon agos â'r Deddfroddwr, ac â thrigolion y fynwent; canys rhaid iddo gael ei ddwyn i fyny yn y llys uchod, o ran ei berson, a'i fynediad allan er cynt, er dyddiau tragywyddoldeb; ac y mae yn rhaid ei eni yn y natur ddynol, yn Methlehem, tufewn i'r fynwent; a sugno bronau morwyn oddiyma, a byw yma o fewn cyffiniau y fynwent o gylch tair ar ddeg ar hugain o flyneddau, a chael ei aberthu ar bren tufewn i'r cauadle hwn.' Yna Had y wraig a nesaodd ymlaen, ac a ddywedodd, 'A gymeri di fi yn Feichnïydd?' Edrychodd Cyfiawnder yn fanwl arno, a dywedodd, 'Gwnaf, o'm bodd, am gàn' mil mwy, pe buasai achos; canys yr wyt wedi dy ddwyn i fyny yn llys y Deddfroddwr, er tragywyddoldeb; a thi a fyddi yn Had y wraig; yr wyf yn canfod dy sawdl waedlyd.' 'Cyfiawnder, Pa beth yw dy ofyniad?' 'Darostyngiad am godiad, a bywyd am fywyd, ac angeu am angeu.' 'Dyma fi,' ebe Had y wraig. 'yn taro fy llaw yn dy law di, ac yn ysgrifenu fy enw yn rhol llyfr ysgrifen wyf yn roddi i ti, y bydd i mi

'Dalu iawn ar bren mor ddrud,
Sy 'n fwy na holl ffieidd-dra 'r byd.'

Dyro dithau agoriad y fynwent i Drugaredd. Dywed di, Gyfiawnder mawr y nef, pa amser a osodaf yn yr ysgrifrwym (*bond*) wyf yn roddi yn enw fy holl eglwysi? pa bryd yr wyt am i mi ymddangos fel un o drigolion y fynwent farwol?' 'Yn mhen pedair mil o flyneddau, wedi dechreu cloi hon i fyny.' 'O'r goreu, boddlawn wyf; a thyma fi yn rhoddi ysgrif o dan fy llaw: wele fi yn dyfod, dyma i ti un copi i'w gadw yn swyddfa fawr Cyfiawnder, a chopi arall i'r patriarchiaid, a'r prophwydi, a Moses fel pen-edrychwr ar ol yr ysgrif.' 'Wele finnau,' ebe Cyfiawnder, 'yn rhoddi agoriad y fynwent i Drugaredd.' 'Ac i'r dyben i ddangos natur y taliad a wnaf, yr anghen am dano, a gweithio ffydd a dysgwyliad yn fy eglwys am flwyddyn prynedigaeth y fynwent hon, yr wyf yn gosod i fyny y ddeddf seremonïol, yn fy enw, ac fel cysgod o honwyf fi yn ei hebyrth, a'i gwyliau cymmodol, i adgoffa y pechodau, ac i arddangos y gwir aberth, ac na newidiaf fi fy meddwl.' Yr oedd y tân oedd yn llosgi aberthau Israel, wedi dyfod o'r nef ar y cyntaf, ac yn arwyddo digofaint dialeddol Duw am bechod; ac yr oedd y gwaed a aberthid yn arwydd nad oedd dim a allasai ddiffodd melldith y ddeddf ond gwaed Iesu Grist. Mawr a hirfaith fu yr ymdrech rhwng y gwaed a'r tân ar allorau Israel; ond nid oedd y myrddiynau o greaduriaid mudion a dywalltwyd eu gwaed i fflamau tân yr allorau, ddim yn y byd mewn nerth, gwerth, na rhinwedd i'w ddiffodd. Efe a drodd yr holl ddiadellau yn ddyrned o ludw disylwedd, dan gylch yr allor fawr. Ond yn nghyflawnder yr amser, ganed y Messiah o un o ferched y fynwent; ac ymddangosodd fel Oen Duw tufewn iddi; a daeth y pedwerydd dydd ar ddeg i fyny i'w ddal, a'i ddwyn at yr allor. Daliwyd ef yn Gethsemane,—ymostyngodd fel Oen i fyned i'r lladdfa; gosodwyd yr allor, nid yn y deml, ond tu allan i byrth Caersalem, ar fryn y penglogau marwol. Yr oedd yn offeiriad, ac yn aberth, ac yn allor ei hun. Rhwymwyd ef hyd wrth gyrn yr allor, o gylch naw o'r gloch yn y boreu—dydd i'w gofio byth—ymafaelodd y tân ynddo fel pla marwol, gan ddywedyd, 'Cyfiawnder wyf fi; nid arbedaf neb; ond cyfiawnder a fynaf; myfi a losgais fyrddiynau o ŵyn Israel; ac os na ddiffoddir fi wrth losgi Oen Duw, yr hwn yn unig a ddichon dynu ymaith bechodau y byd, myfi a losgaf yr holl fynwent, eneidiau a chyrff, hyd uffern isod. Parhaodd fflamau ysol y felldith, a llyncu, a difa, a llosgi, a'r gwaed i

ddyferu i lawr i ganol y fflamau, fel y tybiodd rhai mai y tân a fyddai y trechaf. Bu yr ymdrech yn anghymharol o'r chweched hyd y nawfed awr: ac yn amser ammheuol y fuddygoliaeth, nid oedd ond dystawrwydd dros yr holl fynydd. Ond am dri y prydnawn, wedi y tân dialeddol losgi trwy holl deimladau dynoliaeth, *efe a gyffyrddodd âg allor y Duwdod; yna efe a ddiffoddodd!* Duodd haul â syndod, holltodd y creigiau, crynodd y ddaear, agorwyd y beddau, cyfododd y meirw; canys gwelsant Dduw yn natur dyn yn marw ar bren: fel nad oedd ond adgoffa pechodau yn yr hen ebyrth, heb dalu dim; ond ymddangosodd yr Iesu yn ol y cytundeb; a gwelwyd ef â'r cwdyn aur ar ei gefn, yn myned o Gethsemane, trwy heolydd Caersalem, i fyny i wynebu y *fond* neu ysgrif-law a roddes ef ei enw i'w thalu. Gwaeddodd o flaen y swyddfa 'Fy Nhad, daeth yr awr! dyma y cwd aur, a thyma fi yn ei arllwys ar fwrdd mawr y cyfrif.' 'Dyna ddigon fy Mab, myfi a gefais iawn; a thyma yr ysgrif-law oedd yn erbyn dy bobl, i fyny i tithau; ni chaiff aros yn hwy yn swyddfa Moses a Sinai; ond cymer di hi, a gwna a fynot o honi.' Pa beth a wnaeth o'r ysgrifen-law? ai ei thòri, a'i thaflu gyda y gwynt, neu ei chladdu mewn daear? Gosododd hi mewn lle sicrach, hoeliodd hi wrth y groes: pan yr aeth ef oddiar y groes, hoeliodd yr ysgrif yno yn ei le, ac a roddes y groes i'r deuddeg apostol, a'r gwir bregethwyr, i'w chario trwy y byd, a'r ysgrif wedi ei hoelio, a'r ddyled wedi ei thalu. Nid Iesu sydd arni yn awr, ond yr hen ddyled a fu yn ein herbyn ni, ac ysgrif dani,—'*Talwyd y ddyled hon ar Golgotha.*'"

Gallai y dywed rhywrai eto, fod arddull Christmas Evans yn y pulpud yn fwy swynol i'r glust nag o fendithiol i'r deall a'r meddwl. Addefwn y gallai ei fod yn fwy derbyniol gan bob math o gynnulleidfaoedd nag unrhyw arddull arall; ond nid ydyw hyny ddim yn profi ei fod yn llai defnyddiol. Boddheir pob chwaeth braidd gan ddesgrifiadau tanllyd a mawreddog darfelydd gyfoethog; ond gyda pha lymder y dylid condemnio y pregethwr a foddlona ar ogleisio chwaeth ei wrandawyr â golygfeydd tarawiadol, ac â phresennoldeb delweddau cain a dymunol, heb ymgais yn benaf i agoryd eu deall, i ëangu eu meddyliau am Dduw a'i drefn ogoneddus; ac i buro eu serchiadau trwy appeliadau tanllyd ac efengylaidd, seiliedig ar wirioneddau pwysig tragywyddoldeb? Na, y mae yn dda genym feddwl nad oedd Christmas Evans yn dwyn y berthynas leiaf â'r dosbarth truenus hyny o bregethwyr, a droant deml urddasol y Duw byw yn chwareudŷ i ddifyru annuwiolion. Ni bu neb erioed mewn areithfa a goleddai syniadau cywirach, purach, a mwy arddunol am ddybenion uchelwych y weinidogaeth Gristionogol nag ef. "Cofiwch," meddai wrth ysgrifenu at weinidog ieuanc, "fod rhyw addurn nefol a nerth o'r uchelder, yn ganfyddadwy i chwi mewn amryw bregethwyr, pan yn gwisgo eu blodau o dan y llewyrchiad nefol, fel nad ellwch ddyfod i fyny ato, wrth ymdebygoli iddynt, yn olwynion allanol eu peiriant pregethwriaethol, heb gael hefyd ran o'r agwedd, a'r archwaeth, a'r angerdd ysbrydol mae Crist, a dylanwadau cynnorthwyol yr Ysbryd, yn eu gweithio oddi mewn iddynt; yr hyn sydd yn rhoddi bywyd a nerth i'w holl weithrediad. Dyma ddirgelwch yr holl oruchwyliaeth o bregethu yn effeithiol."

Hefyd, yr oedd tuedd *eglurhaol* arddull a gweinidogaeth Christmas Evans, yn teilyngu mwy o sylw nag a dderbyniodd lawer gwaith gan ei gydwladwyr. Nid tywyllu y meddwl ydyw tuedd arallegau a ffugyrau ymadrodd, ond ei oleuo. Arferid hwynt gan ein harwr, fel dammegion ein Hiachawdwr, i ddwyn gwirioneddau i fwy o eglurdeb a grymusder. Arferid hwynt i adfywio y meddwl wrth arwain y deall ar hyd y "lleoedd sychion" hyny, ag y mae yn rhaid eu trafaelu yn achlysurol, cyn cyrhaedd

y gwirionedd. Dyben meddylrith, ydyw caboli ac addurno adeiladaeth y meddwl, ac nid ei dywyllu. Gadawer y teganau i blant; ond yr aradr i droi y ddaear, y cwmpawd i arwain y morwr ar y cefnfor, a'r ysgrifell a gluda syniadau defnyddiol, a meddylddrychau arddunol i'r oesoedd dyfodol, a ddylent fod offerynau chwareu rhai mewn oed. Ar y llaw arall, ni ddymunem weled arddull ein beirdd a'n hareithwyr yn cael eu pwyso gan reolau cyfyng alsoddeg (*algebra*). Locke, wrth gondemnio ffugyrau ymadrodd, a'u cymharu i addurniadau afreidiol ar ymyloedd gwisgoedd boneddiges, a orfodid i arfer yr un ffol-bethau, cyn llwyddo i ddangos ei feddwl gydag eglurdeb ac effeithioldeb. Wrth ddarllen pregethau efengylaidd Christmas Evans, tarewir ni â syndod gan eu tuedd i ddifyru y dychymyg, i doddi a chynhesu y galon, ac i eangu y meddwl hefyd. Ymglyma ei ddarfelydd oddiamgylch gwirioneddau mawrion yr efengyl, fel blodau teleidiol oddiamgylch boncyffion gafaelgar hen dderwydd. Er mor fywiog ydoedd ei feddylddrychau, ac er lliosoced ydoedd ei ehediadau, nid ydynt un amser yn gŵyrdroi oddiwrth amcan mawr pregethu Crist croeshoeledig; ond y maent fel cynnifer o fynegbyst, wedi eu codi ar groes-ffyrdd, i gyfeirio cyfrgolledigion Eden at Oen Duw,—sydd yn tynu ymaith bechodau y byd. Arweiniai ef Israel Duw i weirgloddiau Canaan, i ganol cyflawnder mawr meillion a llysiau y wlad anfarwol. Deuai â'i wrandawyr i gymydogaethau Saron, i gasglu y rhosynau a dyfai ac a ymagorai mewn harddwch dan wlith iraidd y wlad hòno. Arweiniai y pererinion lluddedig i orphwys yn ystlysau mynyddoedd gwlad yr addewid, i wledda ar basgedigion mynydd Sïon, i fwyta yn helaeth o rawn sypiau Carmel a Hermon, gan eu cynnal â photelau o winoedd melus Libanus.

Ond y mae yn bryd i ni derfynu ein sylwadau. Mae rhyw swyn rhyfedd yn llanw y meddwl wrth gerdded y llwybrau a gysegrwyd gan athrylith a gras. Wrth fyfyrio ar gofarwyddion y gwroniaid hyny a chwanegasant at ffynnonellau ein dedwyddwch, trwy eangu trysorau ein gwybodaeth, mae yn dra dyddorawl cael y fraint o blanu blodau ar dyweirch eu beddau, pa mor wanaidd bynag y byddo eu harogl, a pha mor gyffredin bynag y byddo eu lliw; ond pa faint mwy dwfn y teimlwn, a pha faint mwy gogoneddus y fraint, o golli deigryn uwch ben beddau y rhai, trwy eu sêl duwiolfrydig a'u doniau tanllyd, a fuont yn foddion yn eu bywyd i godi ein gwlad o sefyllfa o farbareiddiwch ac anfoesoldeb i sefyllfa uwch a mwy pur o ran gwybodaeth a rhinwedd; y rhai, er na chynnorthwyasant gynnyddiant athronyddiaeth, gwyddoniaeth, na chelfyddyd, eto a wnaethant yn hysbys i'r lleoedd tywyll am y gyfundrefn ddwyfol a ddygodd fywyd ac anllygredigaeth i oleuni? Wrth daflu golwg ar yr hyn y bu Christmas Evans yn offerynol i'w gyflawni, llenwir ein meddyliau â'r serch gwresocaf at ei gymeriad apostolaidd a'i ddoniau seraphaidd. Er fod yn hen bryd i ni roddi heibio ein hysgrifell, eto teimlwn raddau o anhawsder i dynu ein hunain yn rhydd oddiwrth ei goffadwriaeth fendigedig. Prin ein condemnir am ohirio ein harosiad yn nghyfeillach y gwron sydd mor anwyl gan bob Cymro.

Yr ydym wedi gorphen llefaru wrth y darllenydd, a chydnabyddwn ein diolchgarwch iddo am wrandaw arnom mor amyneddgar cyhyd. Ond rhaid i ni gael treulio mynydau eto, megys ar ein penau ein hunain, cyn y ffarweliom yn hollol â choffadwriaeth felus ac urddasol Christmas Evans. Try ein myfyrdodau yn ol er ein gwaethaf i gael un olwg hoff arno eto

tua'r cyfnod y preswyliai yn Môn. Dychymygem ein bod yn talu ymweliad âg ef yn nghwmniaeth rhyw frawd dyeithr, pan oedd yn byw wrth dalcen Cildwrn. Dychymygem glywed ei briod yn dyweyd wrthym, "Dewch i mewn," pan gurem wrth ddrws ei dŷ. Dygwyddem alw pan oedd y ddeuddyn hyn yn mwynhau dysglaid o dê gyda'u gilydd. Deallem wrth agwedd ein.harwr ei fod yn prysur barotoi pregeth erbyn y Sabboth. Ni wnai y sylw lleiaf o gwestiynau ei briod, nac o ymgomiad y brawd dyeithr. Pan ddywedai Catherine wrtho am basio ei gwpan i gael rhagor o dê, estynai yntau y Bibl bychan oedd yn ei law iddi, gan dybied mai hwnw oedd arni eisieu. Methem ni a deall beth oedd y mater arno. Ond ei feddwl oedd ar y pryd yn ngafael â thestun newydd, neu yn hytrach y testun newydd oedd yn ngafael âg ef. Dychymygem ei weled yn gadael y bwrdd tê yn bur ddiseremoni, i fyned i edrych beth a ddywedai ei hoff awdwyr yn nghylch ystyr y gyfran o'r gair oedd ar ei feddwl. Dacw gyfrolau tew-blygiol Dr. Owen yn cael eu tynu i lawr, ac yn cael eu dodi gyda gofal ar fwrdd crwn bychan oedd gerllaw. Troai y dalenau gyda gofal nes dyfod i'r lle y cofiai iddo weled y pwnc yn cael ei drafod. Ond methai gael ei foddloni yn ngolygiadau yr hen dduwinydd. Ymddangosai yn awr yn bur anesmwyth. Cerddai yn ol ac ymlaen ar hyd yr ystafell, heb wneuthur sylw o ddim, nac o honom ninnau, mwy na phe buasem yn perthynu i ranau o ddodrefn y tŷ. Eisteddai eilwaith ar y gader wrth y tân, gan roddi pwys ei benelinoedd ar ei breichiau. Crymai ei ben—edrychai yn syn ar y llawr, fel pe buasai yn chwilio am ryw oleuni yn asiadau y planciau oedd rhwng ei ddau droed. Deuai ei aeliau mawr bwaog yn is i lawr nag yr arferent fod—syrthiai edrychiad ei wynebpryd i fwy o drymder nag arferol; ymddangosai y llygad, ag oedd mor ddiarebol o fywiog, yn farwaidd a difywyd; tynai ei law, heb wybod pa beth yr oedd yn ei wneuthur, trwy gydynau modrwyog ei wallt. Ond methai, er pob ymdrech gael gan y cymylau wasgaru. Rhaid plygu y gliniau ynte i erfyn am oleuni yr Ysbryd Glân ar y gwirionedd. Ac yn y fan dechreuai erfyn yn daer am yr arweiniad dwyfol. Ac er fod dyeithriaid yn yr ystafell, parhau i guro wrth ddrws yr hen orsedd a wnai ein gwron, nes o'r diwedd y teimlai ei enaid yn ymeangu yn yr ymdrechfa, a'i ddeall yn cael ei agoryd. Dacw ef yn codi oddiar ei liniau wedi cael ymwared â'r baich trwm oedd ar ei feddwl. Ymddangosai yn awr yn fwy siriol nag erioed—siaradai nes creu gwên ar bob wyneb; dyferai ei ymadroddion fel y diliau mel oddiar ei wefusau. Dychymygem ninnau gyda pha fath astudrwydd y gwrandawem ar ei sylwadau athrylithgar, ac y trysorem bob gair fel perl yn ein cof; gyda pha fath warogaeth yr anturiem ei anerch; gyda pha fath ostyngeiddrwydd y ceisiem ateb ei ofyniadau; a chyda pha fath ddiolchgarwch y cydnabyddem yr anrhydedd o gael eistedd fel dysgybl wrth ei draed. Fe allai yr ystyrir y teimladau ofergoelus hyn yn ffol iawn gan ryw rai. Eto nid oes arnom gywilydd o'u harddel, ac ni ofidiem ychwaith pe gallem greu yr un teimladau yn mynwesau eraill. Ni bu dyn erioed yn deilyngach o'r parch a'r urddasolrwydd dyfnaf a ellir ei gyflwyno i athrylith uwchraddol, a chymeriad "pur fel y grisial," na Christmas Evans. Ac ni chenfigenwn wrth y dyn all fyfyrio bywyd a gweithiau apostol mawr y Gogledd heb gael ei lanw â'r uchelfrydedd mwyaf; nid yn wir i geisio efelychu eangder yr athrylith a fu mor llwyddiannus i gyfoethogi llenyddiaeth ein gwlad, ond y sêl gyda pha un y llafuriodd i ogoneddu ei Geidwad

—yr hunan-ymwadiad a ddangosodd wrth deithio a chasglu trwy ei oes dros achos ei Feistr mawr—ei hirymaros i ddyoddef erlidigaethau hunanolion dideimlad ynys Môn, a manau eraill—ei foddgarwch pan heb ei gydnabod am ei ymdrechion a'i lafur dibaid i wasanaethu ei genedl—y dirmyg uchelwych gyda pha un yr edrychai ar gyfoeth a mawredd bydol—a phurdeb ac eangder ei syniadau am waith gogoneddus pregethu Crist croeshoeliedig. Dyma y "nod," "y gamp uchel," ag y dylai pawb ymestyn ato, ac y *gall* pob gweinidog, trwy feddiannu yr un ysbryd, a thrwy arfer yr un ymegniadau 'a Christmas Evans, eu cyrhaedd.

Credwn fod sefyllfa bresennol Cymru yn galw am ser eto i'w goleuo, a chyrn hyrddod eto i'w deffroi o'i chysgadrwydd cywilyddus, a'i marweidddra oesol yn achosion dysg, rhyddid, a chrefydd bur, weithgar, a haelfrydig, yr Iesu. Mae Christmas Evans, Williams o'r Wern, a John Elias, wedi myned i orphwys oddiwrth eu llafur. Yn meddiant pwy y mae eu mantelloedd? Ar bwy yn Nghymru y disgynodd deuparth o'u hysbryd tanllyd ac aiddgar tros ogoniant achos Mab Duw, a lleshad tragywyddol eneidiau dynion? Bu yr enwogion uchod fel Moses ac Aaron yn wir wasanaethgar i gychwyn ein tadau o'r Aipht, i'w harwain gerfydd eu llaw o sefyllfa o anwareidd-dra ac anwybodaeth trwy anialwch gwag erchyll; ond yn mha le mae Caleb a Josua i'n dwyn i wlad yr addewid? Gadawn y cwestiynau hyn, gan obeithio y cyfyd yr Arglwydd ryw gadfridog, ac y gwna yr Ysbryd cyn hir ei gynhyrfu yn rhai o'n gwersylloedd, ac y clywir ef yn bloeddio nes adseinio o'i lais rhwng ein mynyddoedd, "Awn a meddiannwn y wlad."

TREM UWCH BEN CAERODOR.

Ar foreu sych a gwyntog, ganol y gauaf diweddaf, safem yn ymyl y *commander* ar ben *paddle-box* y *packet*, ar y *Bristol Channel*, i weled y wawr yn tori. Yr oedd y cochni prydferth yn ymdanu "yn y dwyrain draw o'n blaen," fel pe buasai yn gwrido wrth ddynesiad y "gwr priod allan o'i ystafell. Yr oedd yr awel yn chwythu yn gref, ein llestr bychan yn hobio yn annyben yn y tònau, y bobl yn methu sefyll ar y bwrdd, yn syrthio ar draws eu gilydd; rhai yn chwerthin, rhai yn ofni, ac eraill yn glaf iawn. Boreu braf, iachus, ac adfywiol ydoedd, serch hyny. Yr oedd natur oll fel mewn cyffro am ddangos ei hunan. Mynyddoedd uchel, tywyll, Mynwy a Morganwg, o'u hol, a chreigiau danneddog, twmpathau prydferth, a meusydd gwyrddleision siroedd Caerloew a Gwlad yr Haf o'u blaen, a ddechreuent ymrithio yn yr olygfa gwmpasog. Gwelem fwg y gerbydres, ar ei ffordd o Gasnewydd i Chepstow, yn dyrchafu rhyngom a'r banc draw. Yr oedd yr wybren fry fel llen fawr yn dangos ac yn newid ei lliwiau gogoneddus, yr awel yn chwythu ac yn chwibanu ei cherddi cyffrous o gylch ein cernau, a'r tònau yn dawnsio ac yn prancio drwy, ac ar draws eu gilydd, wrth ei cherddoriaeth hi. Yn wir, y mae rhyw ysbrydoliaeth ryfedd mewn natur sydd yn swyno yr enaid i'w chymdeithas. Nid rhyfedd genym glywed fod ambell un fel John Foster yn colli ei hunan yn ei chyfeillach,

ac yn mwy na hanner ddigio wrthi, weithiau, am na fedrai ddeall ei lleferydd; yn gwaeddi wrth yr afon drystiog, "Beth wyt yn ei feddwl, y glebren ddoniol? Pa faldordd yr ydwyt fel yna? Paham na leferi yn eglur? Paham na wna dy derfysgoedd tyner, a'th dragywyddol gân, ddwyn allan ryw frawddegau dealladwy?" Ac wrth y creigiau a'r mynyddoedd,— "Paham na ddadguddiwch ddirgeledigaethau yr hen amser gynt, ydynt wedi eu pentyru ar eich clogwyni? A geir un agoriad byth i'ch arwyddluniau mawreddog?" Ond wedi llonyddu tipyn, rhoddai i fyny. "Wel, bydded felly, ynte; cedwch eich dystawrwydd dychrynllyd; neu, parhewch i siarad eich seiniau anghyfiaith; y mae hyny yn well na'r ffiloreg, y chwerthin, a'r cableddau a glywir yn dyfod allan o enau hiliogaeth lygredig ac ofer dyn: yr wyf yn berthynas agosach ac anwylach i ti, fy anwyl garenydd mud, nag i'r rhai a lefarant felly." Ond er mor swynol oedd yr olygfa oddiar frig y don, ni chawsom ond adeg fer i'w mwynhau—yr oedd y llestr wedi ein cludo yn fuan i geg yr afon, enw priodol yr hon hefyd yw *Avon*, a llithro â ni ddeng milltir tros ei gwely, rhwng creigiau uchel ysgythrog, ydynt yn ymgodi o bob tu, a phentrefi bychain ydynt ar ei glanau, a'n glanio yn *Bathurst Basin*, yn nghanol dwndwr a thrafodaeth y ddinas boblog.

Y mae Caerodor yn un o'r dinasoedd hynaf, ac o'r porthladdoedd blaenaf yn Lloegr. Y mae yn gorwedd ar du deheu-ddwyrain y *Bristol Channel*, ar derfynau siroedd Caerloew a Gwlad yr Haf. Dywed traddodiad mai un Brennus, yr hwn a orchfygodd Rufain 338 o flyneddau cyn Crist, a'i sylfaenodd, ac i Belinus ddwyn rhan yn y gorchwyl. Y mae dau gerflun cywrain yn cynnrychioli y ddau ŵr uchod, fel y tybir, ar y naill ochr i byrth y Sant Ioan, ar waelod *Broad street*. Y mae y ddau gerflun yma mor hen fel nad oes un hanes ar gael am eu hamseriad, ac y mae yr olwg arnynt yn ffafrio y traddodiad.

Ar y cyntaf yr oedd y ddinas yma yn ddwy ran, a gelwid hwynt "Caer Oder," neu ddinas Oder, a "Chaer Brito." Tybia rhai hynafiaethwyr mai dyma Abona Antoninus. Cyfeirir ati fel dinas gaerog gan Gildas yn y bummed ganrif, a chan Nennius yn y seithfed. Galwyd hi gan y Sacsoniaid yn *Brito stow*, neu *Brightstowe*, yn arwyddo "y ddinas hyfryd." Mewn hen weithredoedd Lladin gelwir hi *Bristowa*, a *Bristolia*. O Bristowe yr hwyliodd Harold i oresgyn Cymru. Yn yr unfed cynrif ar ddeg yr oedd yma farchnad i werthu caethion Seisnig, yr hon a ddyddymwyd gan William y Gorchfygwr. Gwnaeth Edward III. hi yn farchnadle gwlân, yn ddinas ac yn sir ynddi ei hun, a gwnaeth Harri yr VIII. hi yn eisteddle esgobaeth. Yn amser Charles I. bu yma ymgyrch frwd rhwng y Breninwyr a'r Gwerinwyr, pryd yr ennillodd yr olaf, a llosgasant ei chastell mawr a'i chaerau â thân. Yn Hydref, 1831, bu cyfres o derfysgoedd ofnadwy yma—lladdwyd a chlwyfwyd amryw gannoedd o ddynion, rhoddwyd prif adeiladau y ddinas, a thros ddeugain o annedd-dai ar dân; dinystriwyd ac yspeiliwyd gwerth anferthol o feddiannau hefyd gyda llaw. Achoswyd y galanasdra yma trwy gynnygiad o eiddo Syr Charles Wetherall, yr hwn oedd yn gofiadur y ddinas, ac wedi gwneuthur ei hun yn dra anmhoblogaidd trwy ei ymddygiad at bwnc y Diwygiad, i wneyd dyfodiad cyhoeddus i mewn i'r ddinas y diwrnod o flaen y brawdlys.

Y lle goreu i gael golwg ar y ddinas yw pen *Brandon hill*, yr hwn sydd fryn bychan yn codi i fyny, yn gonaidd ei ffurf, ryw ddau cant a hanner o droedfeddi o uchder, ac yn sefyll rhwng y ddinas a'r lle y gelwir

Clifton arno, dipyn ar yr aswy o'r fan y tiriwyd ni o'r *packet*. Y mae y bryn hwn yn dwmpath o las hyfryd, llwybr teg yn ymdroellu ar hyd ei lechwedd, ac yn arwain i'w goryn. A chan fod mainc gysurus ar ei ben, a hithau yn brydnawn hyfryd, a'r fath olygfa ddyddorol yn agored o'n blaen, eisteddwn i lawr i gael chwythu tipyn, i fyfyrio ychydig ar hanes ac adgofion y lle hwn a'i breswylwyr, presennol a chyntefig, ac i fwynhau yr olygfa amrywiol a chyfoethog sydd yn ein cylchynu. Cofia, ddarllenydd, fod y fan hon, sydd dan ein gwadnau yn awr, wedi bod yn lle o bwys gannoedd o flyneddau cyn ein geni ni. Dyma yr ysmotyn y safai marchoglu Charles I. arno, wedi codi gwrthgloddiau, i geisio, yn ofer, amddiffyn y ddinas rhag ymosodiadau Cromwell a Fairfax, olion pa rai ydynt i'w gweled yn amlwg hyd y dydd hwn. Ar gopa y bryn bychan hwn, oesoedd cyn hyny, y bu hen safle Rufeinig yn gorwedd; ac y mae llawer dernyn o arian bathol Rhufeinig wedi eu cloddio allan o hono. Cafodd ei enw oddiwrth un Brendon—hen fynach fu yn ymddihoeni mewn cell ar ei ben. Wel, eisteddwn i lawr ynte ffordd hyn, â'n hwynebau i'r dwyrain, ac yna bydd corff y ddinas o'n blaen odditanom.

Y tu cefn i ni, ar droed y bryn, y mae y *City school*—un o'r ysgoldai mwyaf a harddaf yn y ddinas: er fod yr adeilad yn un uchel, yr ydym ni yn awr yn uwch o lawer na'i chorn uchaf hi. Gyferbyn â'r adeilad hon, ar ochr arall y dyffryn bychan cul, y mae capel braf gan y Pabyddion; a'r tai gwychion a theg ydynt oddiar hwnw, ac yn ymestyn yn ol ar fencyn uchel prydferth, nes y mae rhai o honynt, ar y terfyn, yn crogi braidd uwch ben yr afon y daethom drosti. Dyna *Clifton*, lle y mae yr adeiladau godidocaf, a lliaws o foneddigion y ddinas yn byw.

Tro dy olwg ymlaen eto, ti weli ei bod yn ddinas fawr iawn—yr oedd ei phoblogaeth er ys tair blynedd yn ol (1851) yn gant tri deg a saith o filoedd, chwe' chant a saith (137,607)—a'i bod yn ddigon anwastad. Y mae yn gorwedd ar amryw fanciau isel, rhai yn ymgodi ffordd hyn, ac eraill ffordd arall. Y mae wedi ei chyffelybu i Rufain gan rai, am ei bod yn gorwedd ar saith o fryniau, a bod afon leidiog yn rhedeg drwyddi. Y mae y ddinas—cylch y fwrdeisdref—yn gorwedd ar ddwy fil o erwau o dir, a'i chylchfesur yn naw milltir. Y mae yma un ar bymtheg ar hugain o eglwysi a chapeli sefydledig—a weli di y clochdai uchel, pigfeinion, yn ymgodi yn mhob cyfeiriad?—pedwar o addoldai gan y Pabyddion, un synagog gan yr Iuddew, a dau a deugain o gapeli gan wahanol enwadau o Ymneillduwyr; y mae yma ugeiniau o ysgolion dyddiol, ac yn agos i ugain mil (20,000) o blant yn derbyn addysg ynddynt. Cofia hefyd, rhag y dygwydd i ti dreulio Sabboth yn y ddinas ryw dro, fod yma dair cynnulleidfa Gymreig, un gan y Methodistiaid Calfinaidd, un gan yr Independiaid, ac un gan y Bedyddwyr. Golwg ddigon llwydaidd sydd ar bob achos Cymreig yn y ddinas Seisnigaidd hon; a chynghorem ein cydwladwyr i, naill ai gofalu am *supplies* da, neu droi eu hachos i'r Seisneg.

Y mae y ddinas hon yn enwog am ei gweithfeydd gwydr a llestri. Y mae ynddi hefyd weithiau copr, plwm, haiarn, tin, soda, sebon, lledr, carpedau, bwledau, a phinau. Cynnwys weithiau cotwm, siwgr, a thybaco, eang ryfeddol. Telir oddeutu mil o bunnau bob dydd, o doll am y tybaco a wneir ac a werthir ynddi. Adeiledir yma y llongau mwyaf a godidocaf a nofiasant ddyfroedd erioed: yma y gwnaethpwyd y *Great Western*, a'r *Great Britain*. Y mae y ddinas hon yn anfon dau aelod i'r senedd, ac

wedi gwneuthur hyny er y flwyddyn 1283, sef y drydedd flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Edward I. Yr oedd nifer yr etholwyr y llynedd, yn ddeuddeg mil, pum' cant, a phum deg (12,550).

Y mae yn ddinas fasnachol a bywiog iawn. Pryd bynag yr eir drwy ei heolydd, y mae

"Pob heol heidiol o hon,
Drwy 'i gilydd yn drigolion,"

yn ymwâu, ac yn ymarllwys yn llifogydd byw, cyson, a diddiwedd i bob cyfeiriad. Y mae yn syndod o ba le y maent yn dyfod oll, ac i ba le y maent yn myned. Cyfarfyddir bob degllath â hen boblach, merchetach, a phlantach, â'u basgedi a'u blychau, yn cyhoeddi ac yn cynnyg eu *matches*, afalau, teisenau, a phob mân bethau. Y mae y siopau gwychion, a'r ffenestri ysblenydd ar bob llaw, yn brofedigaeth i'r llygad; ond rhaid peidio ymollwng iddi, onidê byddir yn ngafael profedigaeth fo gwaeth,—wedi taro ar draws ryw ddynyn, wedi cael cusan gan weflau ceffyl, neu gael hergwd bawlyd gan olwyn y cerbyd wrth droelli heibio. Mawr mwy o drafferth y mae y masnachwr yn ei gael yma gyda thaclu ei nwyddau yn ei ffenestr, na siopwr y pentref gwledig! Cawsom lawer iawn o ddifyrwch un diwrnod i nodi yr enwau dyeithr a digrifol oeddynt uwchben drysau y masnachdai a'r siopau. Er fod yn eu plith lawer o enwau Cymreig, tarawem wrth ugeiniau o enwau, nad allem hyd yn nod edrych arnynt heb chwerthin yn ein horiau mwyaf difrifol. Tynasom res o honynt i'r papyr,—dyma ychydig o lawer o honynt. Pa fodd y teimlit, anwyl ddarllenydd, pe bai dy gymydogion yn galw ryw enwau fel hyn arnat:—Mr. Higg, Mr. Tub, Mr. Cock, a Mr. Pot; Mr. Gay, Mr. Day, a Mr. Sayer; Mr. Long, a Mr. Short; Mr. Little, a Mr. Bigg; Mr. Trott, a Mr. Gallop; Mr. Bird, Mr. Fox, a Mr. Bull; Mr. Fry, Mr. Fripp, a Mr. Tripp, &c., &c. Gallem ychwanegu degau eto; ond ymattaliwn. Yr ydym wedi synu droion, na bai anifeiliaid y maes, ac ehediaid y nefoedd yn eiddigus wrth lawer Sais am wisgo y cyfryw enwau. Ond dyna, nid ydynt ond *enwau*, ac nid rhyw lawer wedi y cyfan sydd mewn enw. Gallai cymaint dyn a Paul neu Solomon gael ei alw yn *Little*, neu *Short*, o ran hyny.

Yn awr, agor dy lygaid, gyfaill hoff, a sylla dipyn o'th gwmpas. Yr ydym yn hyderu fod genyt lygad i weled, a chalon i deimlo, a mwynhau cipdrem ar le mor ddyddorol a hynafiaethol; pe amgen, byddai yn well i ni gael pum' careg i chwareu set o *jackstones*, neu syrthio ar ein hwynebau ar y glas yma, i chwilio am feillionen bedair-dalen, neu rywbeth. Dros dy ysgwydd ddeheu, ti weli yr afon, a'r llongau a'r badau yn dryfrith ar i, a rhai o honynt yn meddu

"——— Yn lle hwylbrenau,
Ryw fath o gyrn simneiau,"

a'r myglwch du yn dyrchafu o honynt. Yn ol, oddeutu milltir, dacw y ddwy graig uchel yn ymgodi bob tu i'r afon. Y mae pum' mil a deugain o bunnau wedi eu gwario i wneyd pont grogedig dros yr afon, o un graig i'r llall, fan acw; ond nid oes dim o honi yn y golwg ond y colofnau ar y ddwy graig. Y mae y gwaith yn sefyll yn awr, er's pymtheg mlynedd, a bernir fod deng mil ar hugain o bunnau yn eisieu eto i'w orphen. Yn y graig, yr ochr hyn i'r afon, 90 o droedfeddi oddiar wyneb y ddaear, y mae ogof, *Ghyston's cave*, fel y gelwir hi, am yr hon yr adroddir lliaws o hen draddodiadau hynod. Y mae ffordd wedi ei gwneyd yn ddiweddar. gan

un Mr. West, o'r ogof i'r arsyllfa (*observatory*) sydd ar gopa y graig. Yr ochr hyn i'r graig, yn agos i'r *Hot wells*, y mae "*Watts' Folly;*" fe allai y dywedir gair am dano yn y man.

Ar dy ddeheulaw, dipyn o'th flaen, dyna y *cathedral;* hen adeilad costfawr, yn gorwedd ar ymyl *College Green*. Adeiladwyd hi i'r hen Sant Awstin, gan Syr Robert Fitzharding, yn y flwyddyn 1140; a bu Awstin ei hun yn pregethu ynddi. Hon yw y *cathedral* leiaf yn Lloegr; ond y mae ei hadeiladaeth yn hynod a chywrain. Dygir gwasanaeth ymlaen ynddi am dri o'r gloch y prydnawn bob dydd. Byddant yn goleuo lampau mewn rhyw fath o *stoves* isel, drwy yr holl *gathedral;* yna daw pedwar ar ddeg neu bymtheg o swyddwyr allan o un drws, yn nghongl yr adeilad, a cherddant i'r lle y dygir y gwasanaeth ymlaen. Y mae un mewn du, yn cario math o arf yn ei law, a thri ar ddeg mewn crysau gwynion, yn cerdded, yn ddau a dau. Ymddangosai un fel pen ar y lleill, ac un arall fel curad iddo; yna, tri o ddynion ieuainc, o ugain i ddeg ar hugain, ac wyth o lanciau, o wyth i bedair ar ddeg oed,

"Oll yn eu gynau gwynion;

ac y mae ganddynt oll eu lleoedd priodol i fyned iddynt. Dygir y gwasanaeth ymlaen, gan mwyaf, trwy lusg-ganu Salmau, a darnau eraill. Byddai yr *organ* yn aml yn cydgordio yn hyfryd â'u lleisiau. Buom i mewn yn y gwasanaeth droion; ond ni welsom fawr hwyl ar ddim yno ond yr *organ*. Ni ddygwyddodd i'r gwrandawyr un tro fod uwchlaw hanner dwsin, mewn rhifedi. Yr oedd un o'r tri dyn ieuanc yn gwneyd lleisiau enbyd o gâs weithiau; yn dylyfu gên ar ganol ei orchwyl, nes y teimlem arswyd fod yn rhy agos iddo; ac yn gwneyd golwg ddigrifol a chellweirus ar yr hogiau oeddynt â'u hwynebau ato. Byddai y bechgyn bach, hwythau, fan hòno, fel y byddant yn mhob man arall, yn gwylio llygad eu canon oedd yn y naill gongl yno; ac er eu bod â'u crysau offeiriadol am danynt, hyd y llawr, ac wedi dysgu y dôn glerigaidd i'r dim, methent gytuno â'u gilydd. Tröai un ddail llyfr y nesaf ato, heb wybod iddo,—rhoddai un wth i'r llall, a chaffai yntau brociad penelin yn ol,—edrychai un arall mor ddifrifol a barnwr, ac ar yr un pryd yn gwthio ei law yn ddirgel at forddwyd ei gyfaill, ac yn rhoddi *pinch* iddi, nes oedd yn neidio oddiwrth y llawr. Cymaint o ddrygioni sydd mewn plant, onidê! Y maent yn myned dros bethau pwysig yno; ond yn hynod o ffurfiol. Druain o'r ffurfiau, a'r seremonïau! Y mae golwg wael arnynt, wedi colli pob rhith o ysbryd o honynt. Buom gyda 'r Pabyddion un diwrnod yn myned drwy y *mass*. Y mae yn wir, fod y rhai hyny yn llawer gwaeth gyda 'u lluniau, eu delwau, a'u defosiynau,—llosgi arogldarth,—cusanu y ddelw,—ac yfed cwpaneidiau pechodau eu gilydd, ac yn y blaen. Ond, yn wir, y mae y *cathedral* yn myned ar ol y Pabyddion yn o lew; neu, ynte, heb fod wedi myned ymhell iawn oddiwrthynt. Rhyfedd y duedd sydd mewn dyn i aros gyda'r allanol, ac esgeuluso yr ysbrydol! Ni roddwn ddiolch am grefydd, mwy nag am ddyn, heb ysbryd ynddi. Nid yw eglwys gadeiriol yn ddigon i wneyd diffyg ysbryd i fyny.

Yr adeilad fawr, hardd, a chywrain, a weli draw, dros ben y *cathedral*, yw Eglwys Sant Mari, *Redcliff*—

"The pryde of Bristowe, and the western Londe."

Gelwir hi yn *Red cliff*, am ei bod wedi ei hadeiladu ar glogwyn, neu graig, â cheryg cochion ynddi. Gorphenwyd yr adeilad, y waith gyntaf, gan un

o'r enw William Canynge, yr hwn oedd faer y ddinas, yn niwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Dinystriwyd llawer o honi gan ystorm o fellt a tharanau yn mhen 56ain o flyneddau ar ol ei gorpheniad; a chymerodd William Canynge yr ail, ŵyr i'r cyntaf, yr hwn oedd hefyd yn faer, at ei gwella; a hwn ystyrir yn adeiladydd yr eglwys bresennol; ac y mae bedd-adail odidog iddo ef a'i wraig ynddi. Ystyrir hon yr eglwys—os gellir galw coed a cheryg yn eglwys—ardderchocaf yn Lloegr. Y mae ei chlochdŷ mawr, addurnedig, yn agos i ddau can' troedfedd o uchder. Ac y mae yr adeilad eang yn llawn addurniadau a chywreinwaith o fewn ac allan. Y mae uchder yr organ ragorol sydd ynddi yn 53 o droedfeddi; a chynnwys ynddi dros fil o bibau sain, peroriaeth y rhai ydynt yn anghymharol. Adeiladwyd yr eglwys yma dan deyrnasiad Edward III., pryd y dywedir nad oedd y gweithwyr yn ennill ond ceiniog y dydd. Cafwyd ei cheryg o *Dundry Hill*, y rhai a gludid mewn ffordd tra dyeithr. Safai y gweithwyr yn un rhes fawr, y naill o fewn chwe' troedfedd i'r llall, gan ffurfio llinell sengl dros bellder o bum' milltir; a thaflent y ceryg o un i'r llall, gyda chyflymder rhyfeddol, nes y disgynent wrth yr adeilad ar *Redcliff Hill.*

Oddiar ben clochdŷ yr eglwys yna y gwnaed y pethau bychain yna a elwir *shots*, y waith gyntaf erioed. Y mae hanes tarddiad y ddyfais fel y canlyn:—Yr oedd ryw weithydd plwm yn y ddinas, a'i enw William Watts, yr hwn a fendithiwyd â gwraig hynod am freuddwydio; ac o'r diwedd, breuddwydiodd i bwrpas. Dywedir iddi ddeffro yn foreu un diwrnod, a dihuno ei gŵr, iddo gael gwrandaw arni yn adrodd ei breuddwyd. Gwelai, yn ei breuddwyd, blwm toddedig yn cael ei dywallt o le uchel i lestr a dwfr; a'r dyferynau, wrth oeri mor sydyn, yn cymeryd arnynt ffurf berffaith grwn—dyfais fawr a ddymunid, ond oedd heb ei chael allan eto. Cafodd gan ei gŵr gytuno i roi prawf ar y cynllun. Dewiswyd clochdŷ eglwys *Redcliff* yn lle i'w dreio; a phrofodd yn rhagorol o lwyddiannus. Yna, yn ddioedi, fel y canai Dix,—

"A tower was built for making shot,
It stood on Redcliff Hill:
And, as I'm certain it was not
Removed, it stands there still—
An old square tower.—Far, far below
Its base, was dug a well,
Which all may see who wish to know
If truth the muse doth tell.
Still from the summit of the tower
The molten lead falls like a shower
Of shining silver rain,
Into the water far below,
Which cools it suddenly, and, lo!
Small shot it doth remain."

Ti weli i glochdŷ llan ateb un dyben da am unwaith. Cafodd Watts freintysgrif (*patent*) yn 1782; a chyn hir, gwerthodd ef a'i fasnach i Walker a'i gyf., am ddeng mil o bunnau. Rhoddodd Watts ei arian allan i adeiladu castell iddo ei hun, yr hwn a enwyd, cyn ei wneyd, yn *Windsor Castle*, a threuliodd hwynt oll ar y sylfaen. Braidd nad allem weled gwaelodion anorphenol y muriau o'r fan hon yn awr, y tu cefn i ni, gerllaw yr *Hot wells*. Gelwir y lle hyd heddyw yn "WATTS' FOLLY." Dyma gyflawniad llythyrenol o ddammeg Iesu Grist; aeth y gŵr hwn yn destun

gwatwor i'r oesau. Cyfeirir ato hyd y dydd hwn, gan ddywedyd,—"Y gŵr hwn a ddechreuodd adeiladu, ac nid oedd ganddo a'i gorphenai." Gyfaill, cymerwn yr addysg. Cawn gyfeiriad at yr amgylchiad hwn hefyd gan Dix:—

"For Mr. Watts retired from trade,
To build it, resolution made;
And found to his chagrin,
That cash a great deal faster went
When 'twas on "brick and mortar" spent,
Than ever it came in.
On mere *foundations* went his all,
And '*Watts's Folly*' still we call
That luckless spot of ground."

Mab i glochydd eglwys *Redcliff* oedd Thomas Chatterton, y bardd ieuanc, athrylithgar, uchelfrydig, balch, ac anffodus;—

"The marvellous boy,
The sleepless soul that perished in his pride."

Yr oedd ei fryd wedi ei lyncu yn hollol gan hynafiaethau, paentwaith, a barddoniaeth. Crwydrai o amgylch y ddinas fel rhyw ysbryd estronol, gan syllu ar ei holl ryfeddodau. Gorweddai ar ei gefn ar hyd y llechweddau, a phenau y banciau yma, yn ngolwg eglwys *Redcliff*—golwg yr hon oedd yn cyffroi ei holl enaid, ac yn ei daflu i ryw fath o lesmair hapus. Cyfansoddai yn rhydd a da yn un ar ddeg oed. Symudodd i Lundain; gosododd nod uchel o'i flaen; yr oedd ei galon yn berwi gan uchelgais; maethai obeithion fyrdd yn ei fynwes, a gweithiai ei ffordd i fyny yn rhwydd er gwaethaf pob rhwystrau. Ond, nid oedd ei daith ond ber dros gefnfor marwoldeb. Drachtiodd ei enaid gwancus egwyddorion gwenwynllyd anffyddiaeth; dygodd y rhai hyny drueni dygn, ac anobaith du, i mewn gyda hwy, yr hyn a'i gwnaeth yn ddibris ac ynfyd. Dacw ei gwch yn ymhobio ar frigau y tònau dyrchafedig. Y mae wedi tynu ei law oddiar y llyw, taflodd ei gwmpas dros y bwrdd i'r tònau, a drylliodd yr holl hwyliau. Eistedda yntau yn dawel-ryfygus, â'i freichiau yn mhleth yn ei geseiliau, i wylied y canlyniad. Dacw yr ystorm yn curo ei lestr, ac yn ei hyrddio o'i blaen fel mellten—yn ei tharo yn erbyn dannedd y graig ddu, ddanneddog, nes ydoedd yn chwilfriw mân, a'i llywydd wedi myned o'r golwg. Druan o Chatterton! Wedi gweithio ei ffordd trwy gymaint o dlodi, anfanteision, a gwrthwynebiadau, cymerodd ddôs o *arsenic* mewn dwfr un diwrnod, a bu farw yn *ddwy ar bymtheg oed!* yn un o'r beirdd goreu, o'i oedran, sydd â hanes am dano. Nid ydym yn gallu edrych un amser ar eglwys Redcliff heb gofion prudd am Chatterton anffodus.

Gyfaill anwyl, yr ydym yn araf a llercaidd iawn yn myned ymlaen; rhaid i ni brysuro, onidê aiff yn nos dywell cyn y byddom wedi nodi allan hanner y pethau y mae yr olygfa o'n blaen yn eu dwyn i'n cof. Tro dy wyneb ychydig at dy ysgwydd chwith eto,—llusga dy olwg ymlaen dros *Redcliff street*, a thros "Bont Bryste;" ac i fyny ychydig ar y dde', yn agos i'r afon, yn union o'th flaen, yn nghanol y ddinas, y mae *Castle street*, y naill ochr i'r hon y gorweddai yn gadarn a balch, un diwrnod, un o'r cestyll mwyaf, ac un o'r amddiffynfeydd cadarnaf yn y deyrnas; ond nid oes ond ychydig olion o hono i'w gweled heddyw: y mae adeiladau eraill yn gorwedd ar ei adfeilion. Dacw y fan y bu llawer trafodaeth bwysig,—breninoedd yn cadw eu cynghorau,—rhyfelwyr yn ymnoddi,—ffoedigion

yn ymguddio,—a charcharorion lawer dan gaethiwed a gorthrymder y gelyn. Tra y byddi yn ceisio portreadu yr hen adeilad fawreddog o'th flaen, adroddwn hanesyn byr am amgylchiad pwysig a ddygwyddodd yn Nghastell Caerodor er's agos i chwe' chan' mlynedd yn ol.

Yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Edward I., dygwyddodd y brenin fod yn cynnal ei lys yn y castell hwn, pan ddaeth llong gyda llwyth tra dyeithr i mewn i'r porthladd. Yr oedd mynedfa ddirgel y pryd hwnw yn myned ar hyd yr afon i'r castell. Un diwrnod, gwelid llong fawr, o Ffrainc, yn rhwym i Gymru, yr hon oedd wedi cael ei chwythu yn ol a blaen gan yr ystorm, ar hyd y *Bristol Channel*, am rai dyddiau, ac wedi ei hanhwyluso a'i hanafu, gwelid hi yn ymdrechu ac yn ymrwyfo yn erbyn y gwynt a'r llanw, tua cheg yr afon. Canfyddid hi gan bedwar *pilot*,—rhyw chwiwgwn oeddynt, a'u badau yn gwylio y *channel*. Cynhyrfodd y llong ddyeithr gywreinrwydd a syndod y *pilots*, nid yn unig oblegid ei maint, ond hefyd oblegid ei golwg urddasol, a gwychder ei chelfi; a thybient y rhaid fod rhyw bersonau o bwys ar ei bwrdd. Cymhellodd y *pilots*,—y rhai nid oeddynt y pryd hwnw yn rhyw orfanwl am ddyngarwch, ac onestrwydd, yn enwedig os byddai gobaith am ryw ysglyfaeth—cymhellasant hwynt, gyda sicrhad o ddyogelwch, i hwylio i fyny dros yr afon i'r porthladd, lle y gallent adgyweirio, a derbyn adgyfnerthiad i'w taith. Yr oedd sefyllfa y dyeithriaid yn gyfryw barodd iddynt dderbyn yr awgrym yn llawen. Arweiniodd y fileiniaid hwynt rhag blaen, heibio i borthladd y ddinas, i ddirgel fynedfa y castell; a chawsant eu hunain yn ddisymwth, ac yn berffaith annysgwyliadwy yn nwylaw eu gelyn penaf—Edward. Yn awr, cafwyd allan nad oedd y dyeithriaid enwog, ond anffortunus, yn neb amgen nag Eleanor, dyweddi Llewelyn, Tywysog Cymru, merch ragorol Simon de Montfort, Iarll Leicester, a'i chwmpeini. Yr oedd gyda'r foneddiges, ei brawd, amryw foneddigesau, marchogion, offeiriaid, ynghyd â dwylaw y llong. Yr oedd yn y llestr hefyd, waddol priodas y briodferch, yn cynnwys gemau, gwisgoedd rhagorol, celfi ardderchog, a llawer o drysorau gwerthfawr. Tybiodd Ned y gwnai y pethau hyn bleser iddo ef, a chymerodd y cwbl i'w law ei hun. Chwareu teg iddo, dangosodd bob parch, teilwng o'i sefyllfa, i'r foneddiges; ond cadwodd hi yn garcharor diogel yn y castell Talwyd yr un sylw hefyd i'r boneddigesau oeddynt yn gweini arni; ond am y dynion, yn foneddigion, marchogion, offeiriaid, a morwyr, ymddygwyd atynt hwy yn ol dull creulawn a barbaraidd y dyddiau tywyll hyny. Ychydig cyn hyn, yr oedd y Tywysog Llewelyn wedi gwneyd ymosodiad ar y brenin; ac yr oedd yntau yn awr wedi cael cyfleusdra i ddïal ar ei gyfeillion mwyaf mynwesol. Anfonodd Edward at Llewelyn, i ofyn ganddo dalu hanner can' mil o bunnau am ryddid ei anwylyd; gwrthododd Llewelyn; ond hawliai ei rhyddid yn rhad. Yntau, yn lle rhyddhau y foneddiges, a anfonodd ei fyddinoedd i ymosod ar y tywysog, ac ymlidiwyd ef a'i wŷr i amddiffynfeydd mynyddoedd Cymru; ac wedi dyoddef llawer, gorfu iddynt roi i fyny i'w gelynion Seisnig. Ufuddhaodd y tywysog (druan o hono, yr oedd ei elyn wedi cael y fantais arno) talodd y pridwerth, ymrwymodd i dalu y swm ychwanegol o fil o bunnau bob blwyddyn dros ei fywyd;—rhoddodd i fyny ran o'i diriogaeth, a dyoddefodd lawer o sarhad personol. Gwnaeth hyn oll yn hwylus, ac o'i fodd yn ngrym ei gariad at ei ddewis foneddiges—Eleanor de Montfort. Cawn gyfeiriad at yr amgylchiad anffodus yma yn

ngwaith yr hen brydydd, Robert de Brunne. Beth a ddywed y beirdd, tybed, am y dernyn canlynol :—

"They next yere follow and of Edwarde coronment;
Leulyn of Walsland, into France he sent,
De Montford 's daughter to wedde, hir friends all consent,
Almerike hir ledde to schyp, now ere her want
Now the sail and row to Wales to Lewelynes,
A burgeys of Bristowe chargyd was with wines
He overtook there schyp, withins hir were?
Hii said with king Phillip to Wales wold hir fare.
What did this burgeys? disturbed his wending
The may and hir hernesse did led unto the king;
The mayden Edwarde toke als he was full courteis,
In sefety did hir loke and thanked the burgeys,
When Lewlyne hard say to warre sone began,
For tene he wend to die, that taken was his leman."

Dipyn yn nes i'r aswy, ac ychydig yn agosach atom, y mae *Broad Mead* —enw ag y mae lluoedd o adgofion mewn cysylltiad âg ef. Heol lydan a gwastad ydyw, â siopau a masnachdai mawrion ar bob llaw. Yn agos i'w gwaelod, ar y llaw aswy, y mae capel y Bedyddwyr Seisnig, lle y bu yr enwog, yr hynod, a'r anfarwol Robert Hall, yn gweinidogaethu. Dyma y fan y dechreuodd bregethu—y rhoddwyd testun iddo gan ei athraw i bregethu oddiwrtho ar noswaith o'r wythnos, pryd yr aeth i'r clawdd arno. Aeth yn fud yn ddisymwth—cododd ei ddwylaw dros ei wyneb, a dywedodd, "O! y mae fy holl ddrychfeddyliau wedi myned ar goll!" Ac eisteddodd i lawr mewn dyryswch a chywilydd. Gosodwyd arno i gymeryd yr un mater yr wythnos ganlynol; a bu yr amryfusedd diweddaf yn waeth na'r cyntaf. Yn fuan wedi dechreu, aeth yn *full stop* arno—ymwanodd allan trwy y dyrfa, aeth adref ar ffrwst, ac wrth fyned i mewn i'w ystafell, dywedodd, "Os nad yw hyn yn darostwng fy malchder, y mae yn rhaid i'r diafol fy nghael." Dyma y fan y bu wedi hyny, gannoedd o weithiau, gyda'i ymddangosiad mawreddog, parchus, ac awdurdodol, yn caethiwo pob meddwl yn y dyrfa liosog: yn tywallt allan ffrydlifoedd o feddyliau argyhoeddiadol, dysglaer, brwd, ac arddunol, o'i enaid mawr galluog. Weithiau

"Uwch coryn mynydd Sinai, yn uchel fyny fry
Ar aden cwmwl gwibiog, mewn awyr dywyll ddu,"

nes y byddai yr holl weinidogion a'r offeiriaid a ymdyrent i'w wrandaw, yn gystal a'r gynnulleidfa oll, mor ddystaw a'r bedd, ac mor welw a'r marw. Byddai

"Bryd arall yn dadseinio fel udgorn aur i ma's
Ogoniant bryn Calfaria, holl egwyddorion gras,"

nes byddai y lliaws

"I'r nef yn codi eu golwg, sef hen drigfanau llid,
Ond moroedd mawr o gariad oedd yno 'nawr i gyd."

Iĕ, dyma y fan y mae ei lwch gwerthfawr—llwch un o bregethwyr mwyaf y byd—yn gorphwys oddi tan ei gofadail hyd yr awr pan

"Bydd dorau beddau y byd
Ar un gair yn agoryd."

Ac yna

"Fe gaiff ei lwch o'r bedd i'r lan
Yn gyfan ac yn gryno—
Yn gorff fel ei Anwylyd gwiw,
O hyfryd liw 'n dysgleirio."

Yn y capel hwn y bu ei hoff gyfaill, John Foster, yn pregethu, ac yn traddodi ei ddarlithoedd rhagorol ydynt mor llawn o'r meddyliau mwyaf dwys a choethedig. Cymerasom daith hyd Stapleton un diwrnod—y pentref bychan neillduedig, lle y bu byw a marw. Y mae oddeutu tair milltir i'r gogledd o'r ddinas. Y mae y tŷ lle y trigai y naill ochr i'r brif ffordd, gerllaw eglwys y plwyf, a phalas yr esgob o'i flaen, yr ochr arall i'r ffordd. Cawsom genad i fyned i mewn i weled yr ystafelloedd y bu yr enaid mawr, aflonydd hwnw, mewn yslebyn hir, clogyrnaidd, ac afiach, o gorff, am flynyddau yn anneddu,—yr hen *garret*, lle y cerddai yn ol a blaen i fyfyrio ei "*Lectures;*" lle y bu ei enaid mawr, pruddglwyfus, lawer gwaith yn chwifio uwch ben gagendor ofnadwy y dyfodol, ac ambell fell-teniad o oleuni prudd a dychrynllyd yn adlewyrchu ar ei adenydd yn ei wibiadau trwy y caddug diderfyn,—yr ystafell yr ysgrifenodd gannoedd o lythyrau, lle yr eisteddodd, y bwytaodd, ac y siaradodd am y waith olaf yn ein byd ni,—y fan y bu y pin ysgrifenu am y tro diweddaf rhwng ei fysedd, ddeg diwrnod cyn ei ymadawiad, yn ysgrifenu ei lythyr olaf at Syr John Easthope, Barwnig, A.S., yr hwn sydd yn diweddu fel hyn:—"Cyn y dychweloch chwi oddiar y Cyfandir, byddaf fi wedi gwneyd taith feithach a phwysicach. Ar ol rhai blyneddau—dymunwyf na byddant yn ychydig—gelwir chwithau i'm canlyn. A chaniataed yr Arglwydd, trwy anfeidrol haeddiant Iesu Grist, i ni gael ein hunain mewn byd llawer mwy hapus. Y mae fy nymuniadau olaf, uwchlaw y cwbl, am ddedwyddwch a duwioldeb eich teulu oll. Ac yn awr, fy anwyl gyfaill, yr wyf yn eich cyflwyno i ofal y Duw trugarog, ac yn dra serchog yn rhoddi i chwi FFARWEL!"

Y geiriau olaf a ddywedodd, pan oedd ei enaid ar gymeryd ei aden i fyd yr ysbrydion, fel i glirio y ffordd o'i flaen, ac i gymhell yr awel nefolaidd dan ei edyn,—"O! angeu pa le mae dy golyn? O! uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth? Ond i Dduw y byddo y diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist."

Troisom ar ein deheu, heibio i borth palas yr esgob, ac aethom rhagom ddwy filltir i *Downend*, i gael golwg ar y capel y pregethodd Foster ei wrandawyr oll allan o hono. Yr oedd gormod o feddwl, a rhy fach o ddwli, yn ei bregethau ef, i feddyliau bychain allu eu gwerthfawrogi. Yr oedd ganddo ef feddwl digon mawr a choethedig i lefaru uwch ben capelaid o angelion. Credwn na buasai yn un diraddiad ar eu mawrhydi angelaidd i ymgynnull i hen gapel bychan diolwg *Downend*, i wrandaw arno: ond dyna—buont yno ganwaith.

Gofynasom i'r wraig oedd yn gofalu am y capel, "Ai yma y bu John Foster yn pregethu?" "Yn wir, nid wyf yn sicr," atebai, "mi dybygwn mai." "Ac yn y fynwent fechan, wyllt, a dirgel yma y claddwyd ef?" "Gadewch i mi weled," ebe y wraig yn fyfyriol, "John Foster? Yr wyf yn meddwl fod un o'r enw wedi ei gladdu yn ymyl y wal draw." Aethom yno yn araf a gwylaidd, a gwelem hen feddadail gwael a gogwyddedig, a'r cerfiad syml yma ar y gareg,—"Er coffadwriaeth am John Foster, yr hwn a fu farw Hydref yr 16eg, 1843, yn 73 mlwydd oed." Bu y cyfryw anmharch i goffadwriaeth y fath un, bron cyffroi ein tymher, a gwneyd i ni felldithio holl drigolion Caerodor a'i chwmpasoedd. Y mae y byd ymhell yn ol eto o dalu y parch dyledus i *wir fawredd*—enaid mawr, a defnyddioldeb mawr. Un heb ei gydnabod gan liaws ei gymydogion dros ystod ei fywyd oedd Foster. Ond, os collir golwg ar ei fedd, ac os na chlywir

ei enw yn ngenau ei gymydogion ar eu haelwydydd, nid oes berygl iddo syrthio i ebargofiant. Cododd gofgolofn iddo ei hun a anfarwolodd ei enw; fe siaredir am dano gyda pharch ac anwyldeb gan y cenedlaethau a ddaw. Bydd ei enw yn uchel tra pahao yr iaith yr ysgrifenodd ei "*Essays*" a'i "*Lectures*" ynddi. Dywedai cyfaill i ni, fod rhai o'r dyb mai angelion lloerig oedd y creaduriaid hyn—Robert Hall, John Foster, John Evans, Llwynffortun, a'r cyffelyb—a'u bod wedi eu hanfon i'r nawdd-dŷ (*asylum*) am dymmor i ddysgu iddynt y ffordd i ymddwyn yn amgenach at eu gwell gartref.

Y mae genym amryw feirdd, llenorion, ac enwogion eraill, a fuont yn preswylio yma, i ddyweyd gair am danynt,—Wesley, Whitfield, Coleridge, Southey, Thorp, Thomas Roberts, Hannah More, ac eraill; ond y mae yn rhaid i ni eu gadael oll ar hyn o bryd, onidê treuliwn dy amynedd i'r pen. Yr ydym wedi methu cael allan fod rhyw lawer o feibion y cawri yn trigo yma yn awr. Y mae yma lawer o ddynion da a llafurus, a rhai gweinidogion galluog a thalentog; ond neb o honynt o'i ysgwyddau i fyny yn uwch na phawb eraill,—dim un y noetha pob un arall ei ben iddo o'i fodd —dim un angel ymhlith dynion.

Yr ydym wedi crwydro i rywle yn awr—gâd i ni ddychwelyd eto i *Broad Mead*. Llai na chan' llath yn uwch i fyny, ar yr un llaw, yn ymyl yr *Arcade*, y mae hen gapel Wesley. Y mae yn awr yn meddiant y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig, a gwasanaeth Cymreig yn cael ei ddwyn ymlaen ddwywaith bob Sabboth ynddo. Ar wydr ffenestr yr ystafell eang sydd uwch ben y capel, y mae enw John Wesley, wedi ei ysgrifenu ganddo ef ei hun. Oddeutu tri chant a hanner o latheni nes ymlaen eto, y mae y Tabernacl, un o gapeli Whitfield, yr hwn a agorwyd ganddo yn y flwyddyn 1753. Cawsom yr hyfrydwch mawr o fwynhau cyfarfod can'-mlyneddol yn y capel uchod, lle yr oedd amryw o enwogion Lloegr wedi ymgasglu, i draddodi eu darlithiau ar yr achlysur dyddorol. Cynhyrfid ein balchder wrth glywed enwau cynnifer o hen bregethwyr Cymru yn gymhlethedig â hanes yr achos yn y lle hwnw, a chlywed cyfeiriadau mor aml a pharchus at y "*Welsh preachers*," a'r "*Welsh fire*." Nid oedd neb yn meddwl fod yno *Welsh blood* yn cael ei ferwi gan bob un o'r cyfeiriadau yma. Cawsom lawer o ddifyrwch ac addysg wrth leisiau aflafar, ystumiau annaturiol a dyeithr, ond diffuant, a sêl a brwdfrydedd, y llafurus a'r athronyddol Ddoctor B——, yn traddodi ei araeth ar "*The want of the Churches*." Ond y dyddordeb mwyaf a deimlasom yno, ydoedd gwrandaw un o weinidogion hynaf, blaenaf, a pharchusaf Lloegr, yn traddodi dwy awr o ddarlith ar "Nodweddiad a gweinidogaeth Whitfield." Dyn canolig o daldra ydyw, neu yn hytrach dan hyny, yn sefyll yn syth, a'i fynwes gron a llawn yn chwyddo allan, a'i darawiad yn ysgafn a chyflym. Cerddodd i'r lan i'r pulpud yn araf ei gam, eisteddodd i lawr; ac yfodd ddrachd o ddwfr. Gosododd ei wydrau ar ei drwyn, a safodd i fyny. Dillad duon syml oedd am dano, ac un o fotymau ei hugan yn dyngauedig dros ei fynwes. Yr oedd dros ddwy fil o lygaid yn craffu arno, yn nghanol y dystawrwydd mwyaf perffaith. Ymddangosai yn hynod o batriarchaidd—ei wyneb yn hir, *flat*, llawn, a garw; a llawn cymaint o hyd o'i lygaid i fyny, ag oedd hyd ben ei ên. Cribai ei wallt llwyd a theneu tuag i fyny. Yr oeddem yn eithaf anfoddlawn i'r gwydrau amguddio ei lygaid meddylgar o'n golwg. Pe buasai y gwyneb hwnw ddim ond mewn lliwiau ar y llian, yn crogi wrth bared, buasai un drem arno yn rhwym o ddylanwadu

ar y gwyddfodol. Yr oedd yn hynod o amrywiol yn ei ddull o draddodi: weithiau, byddai yn "siarad yn fân ac yn aml," yn ymresymu yn gywrain, gan amrywio tôn ei lais yn hynod; bryd arall, byddai yn dywedyd yn araf a dystaw—yn llusgo ei frawddegau, gan roddi pwyslais ar bob gair, a *full stop* ar ol pob gair. Yr oeddem yn ei deimlo yn gwasgu pob sill i fyw ein calon. A phryd arall, byddai yn dyrchafu ei lais, gan arllwys allan ffrydlif o ddawn, mewn llais uchel cyfrodedd, nes cludo y gwrandawyr ymaith ganddo mor hawdd a hapus, fel pe buasent ar aden yr awel fwyn. Byddai weithiau yn dadrys ryw bwnc yn ddeheuig dros ben; yna, taflai ambell ddrychfeddwl mwyaf tarawiadol ac ardderchog, nes y byddai ei ddysgleirdeb a'i ysplander yn melltenu i gonglau dirgelaf yr enaid, ac yn taflu y galon i ryw bêr-lesmair. Wedi hyny, cymhwysai wirioneddau difrifol, yn y modd mwyaf difrifol, at ei wrandawyr, fel nad oedd modd iddo beidio gwneyd argraff arnynt. Mewn gwirionedd, "DYN O DDIFRIF" yw ef, bob tamaid. Dangosodd hefyd yn amlwg mai dyn o ddifrif oedd Whitfield—iddo gysegru ei hunan fel merthyr, ar ddydd ei ordeiniad, at achos ei Waredwr—ei fod yn fwy dyngarwr na Howard; oblegid mai "trugaredd i gorff oedd Howard, ond trugaredd i enaid oedd Whitfield"—ei fod yn gweithio bob dydd, â'i lygad yn ddiysgog ymlaen ar dragywyddoldeb, a'i fod yn gwneyd cymaint o ddaioni o'i galon ag o'i ben. Dywedodd mai ŵyr Whitfield oedd y Parch. W. Jay, o Bath;—"Whitfield a genedlodd Winter, a Winter a genedlodd Jay." Gwnaeth y cyfeiriad mwyaf parchus at ei gyfaill, Mr. Jay; a dywedodd ei fod yn gobeithio na wnai y cymylau tywyll oeddent wedi ymgasglu o'i gwmpas yn niwedd ei ddydd, ddim ond ffurfio ryw chwareudŷ ardderchog (*grand theatre*) i arddangos gogoniant a rhagoriaethau ei gymeriad, ar ei fynediad i fyd yr ysbrydoedd. Ni wyddai ar y pryd fod ymadawiad ei gyfaill mor agos, ac y byddai mor fuan yn traddodi ei bregeth anghladdol. Yn mhen ychydig wythnosau, yr oedd Mr. Jay wedi ehedeg i fyny o'r cymylau i wlad, lle

"Nad oes machlud haul un amser,
Na chymylau du, na phoen."

Dymunem o'n calon oes hir, a phrydnawn dysglaer a theg, i'w gyfaill hwn, sydd yn aros eto, wedi goroesi ei holl gyfoedion—"y brawd anwyl, a'r gweinidog ffyddlawn." Ac ar y diwrnod y byddo y cerbyd anweledig yn ei gymeryd yntau ymaith i'r wlad sydd uwch y ser, pared Tad y trugareddau, a Duw pob gras, i ddeuparth o'i ysbryd ddisgyn ar ei frodyr a'i gyfeillion.

Yn nesaf at ein haswy eto, yn codi ychydig i lethr y bryn, a weli di dŵr uchel, yn codi oddiar ben y tŷ priddfeini acw—*No.* 1, *Duke street?*—arsyllfa (*observatory*) ydyw. Dacw y fan y buom yn treulio oriau, ar nosweithiau clir, yn syllu ar y bydoedd uwch ben, trwy ysbïenddrychau mawrion. Y mae y lle, a'r drychau, yn waith ac yn eiddo Cymro! Ti weli fod ambell un heblaw "Wil Llwyd" yn gwneyd ysbïenddrychau. Yr oedd tremio ar y bydoedd mawrion a phell, trwy y *telescopes* mawrion, braidd, fel pe cawsem fenthyg llygaid angelion i weled drwyddynt. Ymddangosent fel miliynau o lampau gogoneddus ar hyd ystrydoedd dinas y Duw a'u gwnaeth. Tarawai geiriau hen fardd Pant y celyn gyda nerth ar ein meddwl, pan yn syllu drwy y drych ar ryfeddodau yr eangder diderfyn:—

"Yr awyr las, fe'i cododd uwch mesur fry i'r lan,
Tu hwnt pob mesur eilwaith, lledanodd hi i bob man;

Diderfyn yw ei chwmpas, a bydoedd eang sy'
Yn wyllt yn rhedeg troion gwastadol yn ei bru.

Fe 'nynodd yn ei cheudod ryw foroedd mawr o dân,
Maith fydoedd o faintioli, i'w gwel'd fel perlau mân,
Y ser sy'n gwibio 'u llewyrch trwy 'r eangder tywyll mawr,
Pan fyddo 'r haul yn gwenu ar bobloedd is y llawr."

Gofynasom lawer o gwestiynau i'n harweinydd cywrain a charedig, a chawsom atebiad i lawer; ond yr oedd amryw yn anatebadwy. Buasai yn dda genym pe daethai rhyw angel atom i eistedd am awr uwch ben y ddinas, dan wenau siriol y ser, y rhai oeddent yn gwreichioni, ac yn ysmician eu llygaid dysglaer mor llon arnom, i adrodd wrthym ychydig am danynt; neu, pe cymerasai ni filiwn o filltiroedd yn nes atynt, i gael trem eglurach arnynt. Teimlem y buasai yn hawdd genym roi ein cais o'i flaen;—

"O! help fy enaid egwan i ddringo fry i'r lan,
A rho fy nhraed sy'n crynu i sefyll ar ryw fan,
Uwch banau mwya'r ddaear, a rho 'spienddrych gre'
I wel'd yr Iesu 'n taclu y cyfan yn eu lle."

Ond rhaid i ni aros enyd eto, ddarllenydd, cyn y caffom y rhagorfraint hon.

Os wyt yn myned i deimlo yn drymaidd, y mae genym ystori dipyn yn ysgafnach i'w hadrodd. Draw, yn agos i furiau y castell, ddau can' mlynedd yn ol, y safai troch-gader (*ducking-stool*), at ddiwygio benywod cecrus a thafodrydd. Y mae llawer ymenydd wedi bod wrthi yn ddyfal a chaled yn ceisio dyfeisio meddyginiaeth i'r pla uchod; ond anaml iawn y ceid un effeithiol. Yr ydym yn cofio darllen am y *brank*—ryw gap wedi ei wneyd o haiarn teneu (*sheet iron*), ar lun torth siwgr, gyda chroes ar ei gopa, a dernyn yn troi i mewn oddiar ei ymyl, i orwedd dros y tafod. Rhoddid hwn am y pen, clöid ef y tu ol, ac arweinid y druanes wrth linyn trwy yr ystrydoedd. Oni bai ofn arnom iddynt ein cael allan, dywedem fod digon o eisieu ryw driniaeth gyffelyb ar ambell un a adwaenom. Ond y drochgader oedd yr un fwyaf boblogaidd gan y lliaws—yn un peth, oblegid y cynnyrchai fwy o ddigrifwch iddynt. Safai un o'r rhai hyn, yn nghof ambell un sydd yn fyw heddyw, yn ymyl gwal y castell. Yr oedd wedi ei gwneyd o bost mawr, yn sefyll ar ei dalcen, ac un arall ar draws ar ei ben, yn debyg i'r llythyren T, ac yn troi ar drwyll; a chader yn sefyll ar y naill ben iddo, yn yr hon y rhoddid yr ysgoldies. Yna troid hi yn gyflym; ac wrth droi, yr oedd yn pasio dan ysgŵd o ddwfr oedd yn disgyn o gafn pwrpasol. Parheid i'w throi cyhyd ag y goddefai tosturi y dyrfa—yn gyffredin, nes y byddai y creadur anffodus mor wlyb ag ysgadenyn, ac yn curo ei dannedd gan oerfel. Y tro olaf y mae hanes am dano ar gael, y defnyddiwyd yr offeryn yma, ydoedd yn y flwyddyn 1718, pan oedd Edward Mountjoy yn faer y ddinas, yr hwn a roddes orchymyn i ddwyn yr oruchwyliaeth ymlaen yn rheolaidd. Y mae Dix, yn ei rigymau difyr, yn gosod yr achos i lawr:—

"Young Mr. Blake had a house full of strife,
And the cause of the rows was
The tongue of his wife!"

Yna, desgrifia Mrs. Blake:—

"Barbara Blake was both pretty and young,
She had only one fault, *but*, it lay in her tongue!
Her eyes they were blue, and her curls were of gold,
A stranger would never have thought her a scold."

Yr oedd yn helynt arw ar ei phriod, druan, drwy y blyneddau, oddiwrth aelod aflywodraethus y ddynes! Dyoddefodd fwy nag allai neb ddychymygu. O'r diwedd,—

"Young Mr. Blake one evening sat,
His feet on the fender beating rat-tat;
Each hand in his pockets up to the wrist;
On his visage a serio-comical twist.
We shall presently find
He had made up his mind
No more to be hen-pecked—no more to submit,
To his wife, and only what she thought was fit."

Yr oedd wedi pasio heibio i'r hen bost, dan y castell, ugeiniau o weithiau; yr oedd yn gas ganddo ei weled,—ond, wed'yn, beth oedd ganddo i'w wneyd? Cyfarfyddodd â gwas y maer; gosododd ei achos o'i flaen; ac ni bu hwnw yn ol o wneyd pob peth a allai i gael y peth i weithrediad. Darparwyd y droch-gader, ac wele y canlyniad;—

"In 'seventeen hundred and eighteen,'
Mountjoy was Bristol mayor,
Then, on the weir might have been seen,
The city ducking-chair;
Above the waters of the Frome,
The awful apparatus
Frowned like a monitor of gloom,
Just by the castle gate-house,
A high pole, and a transverse beam,
Which turned ten times a minute,
Upon its pivot oe'r the stream,
Turn'd with its chair;—hark! there's a scream!
Poor Barbara Blake is in it!"

Y mae y dyrfa yn mwynhau yr olygfa yn anwyl, ac yn dangos eu cymeradwyaeth mewn bloeddiadau uchel; a daliant ymlaen nes—

"Her breath is almost spent,
Her frame is cold with shivering;
And *not* to Blake's astonishment,
With voice all meek and quivering,
She promises that, if unhung
She'll ever after "hold her tongue."

Dywedai i'w gŵr ei derbyn yn ol yn serchog, ac i'r driniaeth ddyeithr ddwyn ffrwyth da:—

"For ever after Mrs. Blake
Sailed only in her husband's wake;
Remember her late wet condition,
No more she led the "opposition."

O ran hyny, nid oes genym fawr o ffydd mewn unrhyw foddion o'r fath, tuag at wella tafodau na chalonau plant dynion. Os na fedrem gael taw ar dafod ein hanner oreu (?) heb ei hwyadenu yn gyhoeddus dan y pistylloedd, buasai cystal genym ymwahanu, a byw yn "hannerog" dros gydol ein hoes.

Dwy flynedd ar hugain yn ol, yr oedd golygfa dra gwahanol ar hyd ystrydoedd y ddinas sydd o'n blaen. Dywedodd Syr Charles Wetherall anwiredd ar y trigolion yn y Senedd,—eu bod yn ddifater am Ddiwygiad,—ac ofnadwy fu canlyniad yr anwiredd hwnw. Mor gynted ag y dychwelodd y boneddwr i'r ddinas, ymgasglodd miloedd i'w gyfarfod, i roi ar ddeall

yn amgen iddo, ac i ddangos eu hanghymeradwyaeth. Dechreuasant ei hysian, a disgynai ambell gareg ar ei gerbyd. Diangodd dan gawod o geryg i'r *Mansion house*. Gwnai yr heddgeidwaid eu goreu i nodi allan y rhai a daflent y ceryg, a thrinid y cyfryw yn erwin. Cymerwyd amryw i'r ddalfa. Ond nid dyna y ffordd i ostegu y cythrwfl. Buasai yn well iddynt arfer moddion tynerach mewn pryd. Arfogodd y terfysgwyr eu hunain â phob peth allent gael gafael ynddo. Aethant yn drech na'r heddgeidwaid, a dacw holl ffenestri yr adeilad yn chwilfriw, a Syr Charles yn dianc allan yn fain trwy ffenestr y llofft, ac ymaith fel cath dros döau y tai oedd yn ymyl,—a bu yn dda gan rai boneddwyr eraill gael yr un llwybr yn fuan. Aeth y terfysgwyr i mewn, taflasant yr holl gelfi gwychion yn deilchion i'r ystryd, ac o'r ystryd i'r afon. Aethant i mewn i'r seleri, a daethant o hyd i gannoedd o boteli o win; yfasant, meddwasant, a syrthiasant yn gelaneddau ar hyd yr heolydd,—a llawer i beidio codi byth mwy. Erbyn hyn, wele dyrfa fawr o filwyr, ar feirch ac ar draed, yn dyfod, a'r olwg arnynt yn ddychrynllyd; ac am oriau meithion bu yno le enbyd. Yn mhen pedair awr ar hugain, yr oedd y cwbl wedi llonyddu, a'r milwyr lluddedig a aethant i gael ychydig seibiant. Nid cynt y collwyd golwg ar y milwyr, nad oedd heolydd y ddinas yn llawn terfysgwyr. Aethant at garchar mawr *Bridewell*—dacw ef ar ein haswy, rhyngom a *Broad Mead*,—gwnaethant eu ffordd i mewn, gollyngasant gannoedd o garcharorion allan, a rhoddasant yr adeilad ar dân.—Yn mhen ychydig fynydau, yr oeddynt wedi gwneyd yr un peth â charchar y *New Cut*,—dacw ef ar ein deheulaw, yn agos i'r *Railway terminus*. Yr oedd y milwyr yn awr yn ymwibio yn ol a blaen, i geisio cael gafael yn y difrodwyr; ond ni thycient. Pan fyddai y milwyr mewn un man, byddent hwythau yn difrodi mewn man arall. Tra yr oedd ffaglau y ddau garchar uchod yn goleuo y ddinas, dacw fwg, a gwreichion, a fflamau dychrynllyd yn dyrchafu trwy ben carchar eang Caerloew, yn mhen gogleddol y ddinas. Rhedodd y milwyr at balas yr esgob, rhag ofn dygwydd niwed i hwnw; ond erbyn eu bod yno, yr oedd hwnw yn ddiogel, a chenad ar eu hol yn dyweyd fod y terfysgwyr yn rhoddi y *Mansion house* ar dân. Ymaith yr aethant nerth eu carnau i geisio ei achub—ond yn rhy ddiweddar. Wrth fyned, trodd rhai o honynt eu golwg yn ol oddiar y *square*, ac wele, yr oedd palas yr esgob yn wenfflam.—Cyflawnwyd hyn oll mewn yspaid un awr! Fel hyn, er gwaethaf maer a milwyr, llwyddodd y bobl i losgi prif adeiladau y ddinas, ac i ddifrodi gwerth llawer o filoedd o bunnau o eiddo; er i ugeiniau o honynt syrthio yn aberth i'r cythrwfl. Cododd y corwynt chwyldroadol yma oll o gamdystiolaeth un dyn. Cymaint o ddefnydd y mae ychydig dân yn ei ennyn!

Y mae yn myned yn go dywyll i ni gyfeirio dy olwg at unrhyw leoedd yn y ddinas, yn ychwaneg; ond cyn ymadael, adroddwn un hanesyn dyddorol am *Pen park hole*, lle ag y siaredir llawer am dano gan bob dosbarth o'r dinaswyr yma. Y mae yn gorwedd hwnt, ar dy ddeheulaw, o fewn pedair milltir, yn mhlwyf *Westbury*. Rhyw bwll mawr ydyw, mewn congl maes. Nid yw ei safn yn llydan iawn; ond wrth fyned i lawr, y mae yn ymeangu yn rhyfedd; ac y mae ei ddyfnder heb erioed ei gael allan. Y mae dwfr yn ei waelod, weithiau yn uwch ac weithiau yn is. Yr oedd llawer o ofergoelion am y lle hwn, dan deyrnasiad Charles II., ymhlith pob dosbarth o ddynion. Edrychid arno fel trigle llengoedd o

ysbrydion aflan; lle yr arferent y rhyddid mwyaf, ac y cyflawnent bob ystranciau ellyllaidd yn nghilfachau a chonglau y ceudwll du. Tystiai amryw, iddynt glywed yr oernadau a'r trystiau mwyaf annaearol, yn dyrchafu o'i safn.

Yn y flwyddyn 1792, disgynodd dau foneddwr,—Mr. G. S. Cattcot, a Mr. White, i lawr i'r pwll, a rhoddasant ddesgrifiad go fanwl o hono. Wrth daflu careg i mewn, clywir hi am gryn amser yn taro o un clogwyn i'r llall, ac o'r diwedd yn disgyn gyda swn ceuol yn y dwfr. Y peth sydd wedi achosi mwyaf o siarad am y lle, yn y ddinas a'i hamgylchoedd, ydyw, tynged druenus y Parch. Thomas Newnham, is-ganon y *cathedral*, a mab i un o arianwyr y ddinas. Yr oedd Mr. Newnham, a'r foneddiges yr hon y cadwai gyfeillach â hi, ynghyd â dau gyfaill eraill, wedi cytuno i fyned i ymweled â'r lle ar ddydd Gwener, y 17eg o Fawrth, 1775; ac yr oeddynt yn bwriadu ceisio mesur dyfnder y pwll, â llinyn a phlymen, oeddynt wedi eu parotoi. Bore yr un diwrnod, yr oedd Mr. Newnham wedi cymeryd arno gyflawni y gwasanaeth yn Eglwys Clifton, ac yr oedd y pedwar yn bresennol; ac oddiyno yr aethant ynghyd tua *Pen park hole*. Dim ond troi i'r "Weddi Gyffredin," gwelir fod *Salm* lxxxviii. yn rhan o'r llith y dydd hwnw; a bod y Salm yn cynnwys y darnau hynod a ganlyn;—"Deued fy ngweddi ger dy fron, canys fy enaid a lanwyd o flinderau; a'm heinioes a nesâ i'r beddrod. Cyfrifwyd fi gyda'r rhai a ddisgynant i'r pwll, yn rhydd yn mysg y meirw; fel rhai wedi eu lladd; yn gorwedd mewn bedd, y rhai ni chofir mwy; a hwy a dorwyd oddiwrth dy law. Gosodaist fi yn y pwll isaf; mewn tywyllwch yn y dyfnderau. Y mae dy ddigofaint yn pwyso arnaf, ac â'th holl donau y'm cystuddiaist. Pellheaist fy nghydnabod oddiwrthyf; gwnaethost fi yn ffieidd-dra iddynt. Gwarcheuwyd fi fel nad awn allan. Paham, Arglwydd, y gwrthodi fy enaid? y cuddi dy wyneb oddiwrthyf? Câr a chyfaill a yraist ymhell oddiwrthyf, a'm cydnabod i dywyllwch." Pa argraff bynag a gafodd y Salm yma ar feddwl y cwmni, ni ddygwyddodd dim ar eu taith, ar ol y gwasanaeth, yn rhoddi un awgrym o'r ddamwain alarus oedd ar gymeryd lle.

Wedi cyrhaedd y fan, dechreuasant yn union daflu golwg ar y ceudwll hynod y daethant allan i'w weled a'i blymio. Nesaodd Mr. Newnham ymlaen dros y llethr at ei ymyl, gan sicrhau ei draed yn ofalus rhag llithro, ac agor y blymen oedd yn ei law, i gael ei hestyn i lawr. Clywai y dywarchen dan ei draed yn rhoi ffordd, ac ymaflodd mewn gwreiddyn bychan o bren onen, sydd yn tyfu yn ymyl y pwll. Torodd y gwreiddyn yn ei law, ac O! mewn moment, yr oeddynt wedi colli eu golwg arno, ac yntau wedi syrthio bendramwnwgl i'r dyfnderoedd tywyll obry. Yr oedd ei drwst yn taro yn erbyn dannedd y creigiau, ac wedi hyny yr ergyd pell ar wyneb y dwfr yn y gwaelodion, yn cyhoeddi ei dynged i'w gyfeillion dychrynedig ar y lan. Galwent; ond nid oedd neb yn ateb. Gwaeddent; ond yr oedd y cwbl mor ddystaw a'r bedd, oddieithr adsain eu llefain eu hunain, yn eu gwatwar obry, yn ngilfachau tywyll y pwll. Galwyd pobl ynghyd, taclwyd ysgaffaldiau uwch ben y pwll, a gollyngwyd dynion i lawr wrth raffau, gyda chanwyllau, i chwilio am dano, ddydd a nos, dros dair wythnos. O'r diwedd, cafwyd het yr anffodus. Rhoddodd hyn galon newydd yn yr ymchwilwyr i ddal ymlaen am wythnos arall; ond aeth eu holl lafur yn ofer. Y dybiaeth gyffredin oedd, fod ei gorff wedi nofio trwy rhyw fynedle tan y ddaear, i'r *Severn*, a'i fod wedi ei gludo allan i'r môr.

Yn mhen o bump i chwech wythnos, pan oedd yr achos yn dechreu llonyddu yn meddyliau y cyhoedd, cyngwystlodd un Mr. Tucker am bum' punt, y buasai yn disgyn i lawr i *Pen park hole.* Ymgymerodd â'r gorchwyl yn nghwmni cyfaill, yr hwn a äi gydag ef i ddwyn y goleuni. Wedi myned i lawr gryn bellder, taflodd ei gyfaill gareg i lawr; a synasant am na chlywsant hi yn disgyn yn y dwfr, a thybiasant y rhaid ei bod wedi disgyn ar ryw sylwedd nofiadwy. Ar ol syllu yn fanwl, gwelent rywbeth yn nofio ar y dwr—y corff colledig ydoedd. Dygwyd ef i fyny i *Pen park house,* wedi bod yn y dwfr am bedwar diwrnod ar bymtheg ar hugain. Claddwyd ef wrth eglwys Westbury, dydd Iau, y 27ain o Ebrill, 1775, ar y diwrnod yr oedd yn cael ei chwech ar hugain oed.

Y mae genym hanes am un Cadben Stermey, yr hwn a aeth i lawr i'r pwll, er mwyn tori ryw ddadl athronyddol oedd dan sylw yn y *Royal Society,* yn y flwyddyn 1669. Y mae yn adrodd yr amgylchiad, i "fwnwr a minnau ostwng ein hunain wrth raffau gant a hanner o droedfeddi, nes dyfod at afon 120 o droedfeddi o led, a 50 o ddyfnder." Ac wedi rhoi desgrifiad o'r lle, dywed, "Cymerodd y mwnwr ysgol, a disgynodd drosti i ben clogwyn, ac aeth allan o'm golwg. Yn fuan, clywid ef yn gwaeddi yn llawen, ei fod wedi cael mŵn gwerthfawr; ond, yn fuan, trodd ei lawenydd yn syndod, a dychwelodd, wedi ei ddychryn agos i farwolaeth gan ymddangosiad ysbryd, meddai ef;" ac o'r hyn y methwyd yn lân a'i berswadio hyd ddydd ei farwolaeth; ac ni ddaethai yn agos i'r lle mwy. Cymerai y cadben hyn, dybygid, yn go ddifater; ond, er mor ddyeithr yr ymddengys, yn mhen pedwar diwrnod ar ol hyn, cymerwyd y cadben yn glaf, a bu farw. Haerai y dyn arall iddo farw o ddychryn; a defnyddiodd yr amgylchiad i gadarnhau ei ystori ei hun, yr hon a gafodd grediniaeth a chylchrediad helaeth yn y dyddiau ofergoelus hyny.

Ddarllenydd, a chyfaill hynaws, yr ydym wedi beichio dy amynedd—wedi dy gadw ar goryn y bryn yma lawer yn hwy nag y bwriadasom. Y mae yr haul wedi myned o'n golwg—y cysgodion tywyll wedi pylu yr olygfa o'n cwmpas—y lampau yn dechreu ymddangos ar hyd yr ystrydoedd, a'r cylla yn galw am ei dê; gan hyny, dewis dy lwybr i lawr—tröed pob un tua 'i lety—nos da, a bydd wych.

DAMHEGION ESOP.

GAN NICANDER.

XXIX.

YR AMAETHYDD A'I FEIBION.

'Roedd hen Amaethydd bron ar ben ei ddyddiau,
Yn glaf, yn gorwedd ar ei wely angau.
Yr ydoedd yn dymuno, cyn marwolaeth,
Addysgu ei feibion sut i drin hwsmonnaeth,
    A bod yn siwr o lwyddo
      Ar ol ymado 'u tad,
    A chadw 'nghyd yr eiddo
      Ar gynnydd heb leihâd.

[illegible] y meibion [illegible],
[illegible]
[illegible] :—
[illegible] waith.
Gadawsent i'r [illegible].
A [illegible] yn y winllan:
Sef gwinllan [illegible] maes o winwydd,
Mae [illegible] beunydd.

Galwodd hwynt i'w glaf ystafell:
Ac medd wrthynt, "[illegible] 'ch tad
"Ar ymadael : [illegible]
"[illegible] a lad:
"Bwyf yn gadael rhyngoch drysor,
"Yn y winllan mae i'w gael,
"Yn y pridd rhwng rhesi'r gwinwydd;
"Cewch e'n fuan ac yn hael."

'N ol claddu'r henwr penllwyd, maes o law
Dechreuai'r pedwar, (pedwar oedd o honynt,)
Balu a thurio [illegible] chaib a rhaw;
A gweithio'n ddiwyd ac yn ddifri'r oeddynt.

Hwy fuant am wythnosau'n palu beunydd,
Gan ddisgwyl cael rhyw lestryn llawn o arian,
Neu aur yn wmbreth, mewn rhyw gongl neu gilydd,
Wedi ei guddio mewn hen gwd neu hosan.

Palasant y winllan yn llwyr
Heb gaffael nac arian na gemmau;
Dwfn-geibient yn fore ac yn hwyr,
Ond siommwyd eu holl ddisgwyliadau.

Ond amser cynhauaf y grawn,
Cynhyrchodd y winllan yn helaeth;
Y maes oedd o rawnwin yn llawn,
Mor llesol i'r gwreiddiau fu'r driniaeth.

Gwerthasant am fwy nag erioed
O lawer o bunnoedd y doraeth;
Ac felly fe dalodd y coed
Y trysor, yn wobr yr hwsmonnaeth.

A glywaist ti a gânt Gorllwydd ?
Poed esgud a fynno lwydd:
Goreu trysor diwydrwydd.

XXX.

Y COED A'R FWYALL.

Aeth unwaith ryw Dyddynwr at y coed;
Gofynai 'n ostyngedig iddynt am gael troed—
Ond *menybr* a ddylaswn dd'wedyd—yn ei Fwyall;
Ond mae 'r gair *troed* i rai yn haws ei ddeall.
Fel hyn mae 'r iaith Gymraeg yn llwyr ddirywio,
Ei geiriau goreu 'n cael eu hebargofio:
Cymraeg yw *menybr*, er mai Lladin unwaith
A fu ; ac felly nid yw 'n air anghyfiaith ;
Mae *menybr* wedi plwyfo yn ein plith
Er 's llawer oes, ac nid yw 'n swnio 'n chwith.

Mae *Esgob*, (yn yr hen Orgraphiad, *Escop*,
Ein hunig air sy 'n odli hefog *Esop*,)
Apostol, *Prophwyd*, *Offrwm*, *Allor*, *Eglwys*,
Yn sefyll ar yr unrhyw dir yn gymmwys,
A chant o'u bath, a fu 'n estroniaid unwaith,
Ond ydynt heddyw 'n Gymry glân dilediaith.—
Pa waeth yw dammeg, er bod peth Geiryddiaeth
Yn rhywle tu a'i dechreu, neu Feirniadaeth ?
'Waeth sut *dechreuo* chwedl, i fod yn gampus,
Os cymmer ofal i *ddiweddu* 'n happus.
Ond gormod meithder sy 'n andwyo 'i chynllun ;
Am hyny bellach deuwn at ein testun.—
Ystyriai 'r coed yr archiad hwn yn fanol ;
Gwelent ei fod yn archiad pur gymhedrol :
Addawsant roddi troed di-gaingc i'w fwyall,
Os deuai yno i'w nôl ryw ddiwrnod arall.
Yn awr hwy ymgynghorent gyd â'u gilydd,
Y Deri preiffion, y Coed cedr, a'r Ffawydd,
O ba ryw bren y caffai 'r gwr y troed :
Eiddigus oedd yr heirdd a'r uchel goed
Roi cangen iddo 'u hunain at y pwrpas,
Rhag toccio 'u gwychder ac iselu eu hurddas.
Safai 'n ddirodres Onnen dlodaidd ddiddig
Yn ymyl ei chym'dogion mawr uchelfrig ;
A phenderfynu wnaent, heb gennad ganthi,
Mai caingc o hon a roent i'r dyn i'w thorri.
Pan roes y dyn y menybr yn ei le,
Torrodd i lawr Gedrwydden frigwyrdd gre'
A'i Fwyall lem ; ac yna torrai Dderwen
Gauadfrig hardd, ac yna Cypreswydden.
Y coed uchelaf, praffaf, er eu gwyched,
Cymmynodd hwynt i lawr i gyd heb arbed.
Hen Dderwen, wrth ogwyddo i syrthio i lawr,
Gan fin y Fwyall, "Gwelaf," meddai, "'n awr
"Y camgymmeriad erchyll ffol a wnaethom ;
"Ein tlawd gymmydog, ni a'i bradychasom,
"Ac yn llaw 'r gelyn rhoisom arf distrywiad ;
"Mae 'n gyfiawn inni deimlo 'r trwch ganlyniad."

XXXI.

Y BARCUT A'R COLOMMENNOD.

'ROEDD haid o Golommennod
Diniweid yn ymwarchod
Mewn arswyd a phryder
Gryn hanner eu hamser
Rhag ofn y Barcutan
A welid yn hofran
O gwmpas eu C'lommendy,
Mewn blys i'w hysglyfaethu.
Trwy wylied beunydd rhag eu gelyn enbyd,
A hwythau oll yn chwim eu hadain hefyd,
Llwyddasent hyd yn hyn i allel dïangc
Rhag teimlo marwol friw ei greulon grafangc.
Wrth wel'd ei ymgyrchiadau 'n aflwyddiannus,
Meddyliodd mai y moddion mwyaf hwylus

[illegible] atynt ryw ddrwg ystryw gyngor;
Yn lle [illegible] trwy gael eu ffafor.
Galwodd atynt ryw foregwaith
Mewn ymadroddion brad a gweniaith;
“Fy nghyfeillion mwyn diniwaid,
“Mae 'r drwg dyb yn hollol afraid
“Ar sydd rhyngom ni gym'dogion;
“Cam â mi yw 'm galw 'n greulon.
“Mae llaws o Hebogiaid
“A Gweilch, rai drwg a diriaid,
“Mewn awydd [illegible] ar eich cnawd a'ch cig;
“Rwyf wrthynt, i'm rhan i, yn berffaith ddig:
“Barbariaid ydynt, rheibus ddigydwybod,
“A'r bwyd anaddasaf ydyw cig c'lommennod.
“Cymmeraf fy nghennad
“I [illegible] cyflogiad:
“Gellwch, er mai fi sy 'n dweyd, os mynnwch,
“I chwi a'ch plant yn nawdd a diogelwch:
“Peth yw a ddaeth i'm pen y bore heddyw,
“Mewn pryder dwysach—a hyn yma ydyw:
“Os gwnewch fi ichwi 'n frenhin,
(“Rwy 'n gofyn ar fy neulin
“Rhag maint f' yswildod,)
“Mi wnaf eich gwarchod,
“Na chaiff na Gwalch na Hebog calon ddu
“Damaid o'ch cnawd, na chyffwrdd dim â'ch plu.”

Dechreuai 'r adar gwirion
Drydar [illegible] calon;
A rhoisant oll yn unfryd
Ef ar yr orsedd hefyd;
A llw ffyddlondeb difri'
A wnaethant i'w Fawrhydi.

Ar ol cael bri 'r freniniaeth iddo 'i hun,
Llarpiodd ei ddeiliaid oll o un i un:
Ac ebe 'r olaf wrtho,
Pan oedd hi ar ymado
O'r byd yn swpper iddo,
“Nid ti, Farcuttan, am ein dienyddio,
“Sydd ar y bai; ni 'n unig sydd i'n beio.”

A glywaist ti a gânt Hirllyn?
Os rhoi gledd yn llaw d' elyn,
Ar d' wddf dy hun y disgyn.

XXXII.

Y GORFRAN RODRESGAR.

Beth yn Gymraeg yw henw *Jac y dô*,
Aderyn penna 'r Ddammeg? Mi rof dro
Ar Eirlyfr Jones o Ddinbych i'w gael allan;
A dyma fo; fe'i geilw *Cawci*, *Corfran*:
Mae 'r henw olaf yma 'n burion henw;
Felly ar hyn o bryd arferwn hwnnw.

Roedd nifer gynt o'r teulu trystfawr hwn
Yn byw o ddeutu castell gwr bonheddig,
Lle nid oedd neb i arfer ci na gwn
I'w haflonyddu tua'r plas na'r goedwig.

Collasai rai o'r paunod rai o'u plu ;
  Fe'u gwelodd Corfran, ac ymbinciodd ynddynt ;
Rhoes amryw yn ei hesgyll o'r ddau tu,
  Rhai yn ei chynffon : 'roedd hi 'n falch o honynt.

Yna hi gerddodd i gwmpeini 'r paunod,
  Yn bigfalch, dorsyth, gan rygyngu 'n hoew,
Gan dybied y cymmerent rwydd gydnabod
  O honi 'n gares, 'roedd mor wych a gloew.

Deallai 'r paunod, pan y gwelsant hi,
  Pwy ydoedd, a gwawdiasant ei rhodreswaith ;
Dïosg a wnaethant ei rhagrithiol fri,
  A llwyr dynasant y plu benthyg ymaith.

Aeth hithau tan ei gwarth, yn llipa 'i phig,
At ei chyd-gorfrain ; hwythau 'n llawn o ddig
A'i hwttient ymaith o'u cwmpeini 'n lân ;
"Y Baunes !" meddent, "beth wyt ti ond brân?"
Y gorfran ddoethaf, rhwng rhyw ddig a 'smala,
Darllenodd iddi 'r llith iachusol yma :—
"Pe b'asit foddlon ar dy brïod le,
"Lle rhoddwyd ti gan ordeiniadau 'r Ne',
"Ni'th geryddasid gan dy uwch-raddolion,"
"Ac ni'th wawdiasid gan dy gyd-raddolion."

XXXIII.

Y MYN A'R BLAIDD.

'Roedd Myn yn sefyll ar nen tŷ,
  A gwelai Flaidd yn pasio :
Ac yna fe ddechreuai 'n hy
    Mewn gwawdus iaith ei ddwrdio.
Ac ebe 'r Blaidd, gan brin droi atto 'i ben,
"Nid ti, y grigwd llwfr, ond mantais nen
    "Y tŷ lle sefi,
    "Sydd yn tafodi :
  "Tyr'd oddi ar y nen i lawr,
  "Gan dy fod yn gymaint cawr,
    "Cawn weled a feiddi
    "Di *yna* f' athrodi."

XXXIV.

Y WRAIG A'R IAR.

'Roedd gan wraig wrth afon Gonwy
  Iar yn dodwy wy bob dydd :
"Dyblaf," meddai, "ddogn ei phrydau,
  "A dau fwy o'r wyau fydd."
Felly dwbl gyfran iddi
  Rhoes bob dydd o geirch a haidd ;
Aeth yr Iar yn fras, tewychodd,
  Ac ni ddodwodd unwaith, braidd.

Y LLYTHYR AT Y RHUFEINIAID.

PENNOD IV.

Wedi bod yn traethu am gyfiawnhad mewn modd cyffredinol, gan brofi, oddiwrth euogrwydd dynolryw, nas gellid ei gyrhaedd ond trwy ffydd, heb weithredoedd y ddeddf, y mae yr apostol, yn y bennod hon, yn trin y pwnc yn fwy ymarferol, gan nodi allan amgylchiad arbenig, yn yr hwn yr oedd yr athrawiaeth a amddiffynid ganddo yn cael ei sylweddoli. Y mae yr esiampl a ddefnyddir ganddo yr un fwyaf effeithiol a allesid meddwl am dani i ddarostwng rhagfarn yr Iuddew, yn gystal ag i ddangos nad yw cyfiawnhad yn dibynu ar gyflawniadau allanol. Tuag at ddwyn i mewn bwnc y bennod, gosodir cwestiwn i lawr, yr hwn sydd yn seiliedig ar yr un flaenorol: nid ymddengys ei fod yn cael ei ddwyn ymlaen mewn un modd fel gwrthddadl, nac fel yn cynnwys y radd leiaf o amheuaeth, ond yn hytrach fel amlygiad o feddwl yr apostol yn mherthynas i'r dull y cyfiawnhawyd Abraham; fel pe buasai yn dyweyd, Os yw yr athrawiaeth yr ymdriniwyd yn ei chylch yn safadwy, "Pa beth, gan hyny, a ddywedwn ni ddarfod i Abraham ein tad ni ei gael yn ol y cnawd?" Y mae ystyr y gair *cnawd* yn cael ei esbonio gan y gair *gweithredoedd*, yn yr adnod ganlynol, yr hwn sydd yn gyfystyr iddo. Ymddengys, gan hyny, mai y meddwl sydd yn gorwedd yn y gofyniad ydyw, na chyfiawnhawyd Abraham drwy weithredoedd, ac yna fod *adn.* 2 yn cael ei dwyn ymlaen i brofi hyny; "Canys os Abraham a gyfiawnhawyd drwy weithredoedd, y mae iddo orfoledd," &c. Nis gallwn lai na meddwl fod yr adnod hon yn cyfeirio at un o'r casgliadau sydd yn niwedd y bennod o'r blaen, yr hwn a gynnwys fod gorfoledd yn cael ei gau allan gan ddeddf ffydd, tra y mae yn cael ei gymeryd i mewn gan ddeddf gweithredoedd. Yn awr, defnyddir y casgliad hwn fel safon i brofi wrthi gyfiawnhad Abraham. Y mae y cwestiwn o barth i'r dull y cymerodd hyn le yn dibynu ar un arall, sef, pa un a oedd ganddo orfoledd, ai nad oedd. Haera yr apostol nad oedd; ac yn y tair adnod dilynol, cadarnha ei bwnc. Gellid dwyn yr ymresymiad i ffurf cyfreswm (*syllogism*), fel hyn;—pe cyfiawnhesid Abraham trwy weithredoedd, buasai ganddo orfoledd: nid oedd ganddo orfoledd; gan hyny, ni chyfiawnhawyd ef trwy weithredoedd. I brofi yr ail osodiad, dyfynir ymadrodd o'r Hen Destament; "Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder." Yna, i'r dyben o'i gymhwyso at y mater oedd ganddo mewn llaw, gosyd i lawr yn *adn.* 4, 5, ddau wirionedd cyffredinol; sef, fod cyflog yr hwn sydd yn gweithio i'w ystyried, nid fel mater o ras, ond o ddyled; tra, o'r ochr arall, fod ffydd yr hwn nid yw yn gweithio, ond yn credu yn yr Hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol, yn cael ei chyfrif iddo yn gyfiawnder; yr hyn sydd yr un peth a dyweyd fod ei gyfiawnhad o ras; felly yr oedd cyfiawnhad Abraham o ras, ac o ganlyniad, yn annibynol ar weithredoedd. Pa beth bynag a feddylir wrth yr ymadrodd, "cyfrif ffydd yn gyfiawnder," y mae yn amlwg nas gall fod yn wahanol i'r hyn a ddywedasai yr apostol yn mherthynas i'r pwnc pwysig hwn o'r blaen. Yn y bennod flaenorol, gosodir allan gyfiawnder Duw fel yn meddu hanfodiad

allanol, a ffydd yn sail dufewnol y derbyniad o hono. Nid oes dim yn ei holl ymdriniaeth â'r mater yn ffurfio, yn y radd leiaf, y dybiaeth mai ffydd ydyw y cyfiawnder. Edrychir arno mewn gwahanol gysylltiadau; gras Duw, yn ol ei iaith ef, ydyw yr achos dechreuol—tarddle ein cyfiawnhad; marwolaeth Crist yr achos haeddiannol; a ffydd yr achos effeithiol. Yn awr, os yw Paul yn gyson âg ef ei hun, rhaid nad ydyw yr ymadrodd a grybwyllwyd yn gwahaniaethu oddiwrth y golygiad hwn; yr hyn yn wir a fuasai y ffaith pe ffydd ei hun fuasai y cyfiawnder. Y mae ffydd yn rhagdybied rhyw sylweddiad allanol, yr hwn yw ei gwrthddrych. Y mae y ffydd hòno, sydd yn angheurheidiol er ein cyfiawnhad, yn cymeryd gafael yn haeddiannau un arall. Wrth ddyweyd, gan hyny, fod ffydd yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder, y meddwl yw, fod yr haeddiannau hyny a gofleidir ganddi, y rhai ydynt megys ei bywyd a'i hanfod, yn cael eu cyfrif yn gyfiawnder. Y mae *adn.* 7, a'r 8, yn ymadroddion a ddyfynir o'r Salmau, i gadarnhau y syniad sydd yn *adn.* 5; sef, bod Duw yn cyfiawnhau yr annuwiol.

Ar ol amddiffyn yr athrawiaeth o gyfiawnhad drwy ffydd yn ei pherthynas âg Abraham, a chadarnhau yr unrhyw drwy ysgrythyrau yr Hen Destament, y mae yna yn symud ymlaen, gan ddangos oddiwrth yr amser y cyfiawnhawyd Abraham, berthynas y drefn â'r Cenedloedd yn gystal ag â'r Iuddewon. Gosodir y pwnc i lawr yn *adn.* 9; "A ddaeth y dedwyddwch hwn, gan hyny, ar yr enwaediad yn unig, ynte ar y dienwaediad hefyd? Canys," &c. Beth ydyw grym y cysylltair *canys* yn y lle hwn? Ymddengys ei fod yn dwyn i mewn yr hyn a'i dilyna i gyfreithloni y gofyniad, a dangos, er nad oes dim yn y geiriau a ddyfynwyd o'r Salmau yn taflu goleuni arno, ei fod, er hyny, yn atebadwy; "Canys yr ydym yn dywedyd ddarfod cyfrif ffydd i Abraham yn gyfiawnder." Fe wel y darllenydd fod y pwyslais, gan hyny, i'w roddi ar y gair *Abraham*, a bod yr atebiad a roddid i'r cwestiwn yn troi ar yr un a ganlyn, "Pa fodd, gan hyny, y cyfrifwyd hi? ai pan oedd yn yr enwaediad, ynte yn y dienwaediad? Nid yn yr enwaediad, ond yn y dienwaediad." Trwy y ffaith hon, y mae yr apostol yn cadarnhau y gwirionedd, nad yw y rhagorfraint o gyfiawnhad yn gyfyngedig i'r rhai o'r enwaediad; ac nid oedd yr apostol heb deimlo yr äi y dull hwn o ymresymu yn dra phell gyda 'r Iuddewon, yn gymaint a'i fod yn dal cysylltiad â gwrthddrych ag yr oeddynt oll, yn ddieithriad, yn talu y fath warogaeth iddo. Y mae *adn.* 10, 11, a 12, gan hyny, yn gosod allan ddau ddygwyddiad, ynghyd â'r amcan oedd mewn golwg drwyddynt; sef, fod Abraham wedi ei gyfiawnhau pan yn ddienwaededig, a'i fod wedi "cymeryd arwydd yr enwaediad yn insel o gyfiawnder y ffydd, yr hwn (nid yr hon, er bod y fanod τῆς yn caniatäu y naill fel y llall, eto, mwy unol â'r cyd-destun yw cymeryd "cyfiawnder" fel rhagflaenydd) oedd ganddo yn y dienwaediad." Trwy y cyntaf, amcenid ef i fod yn dad pawb a gredent yn y dienwaediad; trwy yr olaf, yn dad yr enwaediad, &c. Ymddengys nad yw y Cenedloedd mewn un modd yn cael eu dwyn i mewn yn *adn.* 12, yn gymaint a bod yr apostol wedi eu nodi hwy yn yr un flaenorol; ac felly, fod yr ymadrodd, "yn unig," i'w gymeryd, nid gyda'r gair "rhai," ond gyda'r gair "enwaediad;" yna, y meddwl ydyw hyn, fod Abraham wedi ei wneuthur yn dad yr enwaediad; ond i attal camgasgliad, y mae yn ychwanegu, "Nid i'r rhai o'r enwaediad yn unig," heb eu bod yn meddu un cymhwysder arall, "ond i'r rhai a

gerddant lwybrau ffydd Abraham ein tad ni, yr hon oedd ganddo yn y dienwaediad."

Dygir *adn.* 13 ymlaen yn brawf ychwanegol o'r hyn sydd gan yr apostol mewn llaw, sef dangos perthynas y ddawn o gyfiawnhad â'r ffyddloniaid o bob cenedl. Dealla rhai, wrth yr arddodiad *trwy*, yn nechreu yr adnod, *o dan*, neu *yn amser*, y ddeddf, ac felly fod yr addewid, o ran ei hamseriad, yn rhagflaenu y trefniant Iuddewig. Diau fod yr arddodiad *trwy* yn caniatâu yr ystyr hwn mewn rhai manau, fel y gwelir yn *adn.* 11; er hyny, ymddengys mai nid dyna y meddwl yn y fan hon, amgen ni byddai un grym yn, nac anghenrheidrwydd am, yr adnod ganlynol, yr hon a ddygir ymlaen fel rheswm am yr hyn a allasai ymddangos yn ammheus; ond yr oedd fod yr addewid wedi ei rhoddi i Abraham cyn amser y ddeddf yn ffaith hanesyddol nad oedd eisieu, dybygid, yr un prawf o'i chywirdeb, ac yn enwedig yr un a roddir yma. Nid yr ystyr ychwaith yw, trwy weithredoedd y ddeddf; oblegid nid amcan yr apostol yn y fan hon ydyw profi cyfiawnhad trwy ffydd; y mae y pwnc hwnw wedi ei sefydlu yn barod: ei waith ef yn awr yw dangos nad y ddeddf oedd y cyfrwng trwy ba un yr oedd y rhagorfraint hon yn dyfod, fel ag i gau allan bawb o fod yn dderbynwyr o honi, ond oeddynt mewn cysylltiad â'r ddeddf. Os yw y golygiad hwn yn gywir, y peth y mae yr apostol yn ei wneyd yma ydyw, nid gwadu *rhoddiad* yr addewid trwy y ddeddf, ond ei *chyflawniad*: mewn geiriau eraill, nad oedd yn ngolwg yr addewid i Abraham, na'i had, fod yn etifeddion y byd trwy y ddeddf, ond trwy gyfiawnder ffydd. Dealled y darllenydd, nad oes dim yn yr iaith wreiddiol (fel y dywedir) yn cyfateb i'r Cymraeg, *death*; felly, er mwyn gwneyd ein meddwl yn ddigon dealladwy, darllenwn yr adnod fel hyn; "Canys nid trwy y ddeddf yr oedd yr addewid i Abraham (fel tad y ffyddloniaid), neu i'w had (yr hwn yw Crist), iddo fod yn etifedd y byd, ond trwy gyfiawnder y ffydd." Yn yr adnod nesaf cadarnheir yr haeriad hwn trwy ddull o ymresymu a elwir yn *reductio ad absurdum*. Y mae yn awr yn tybio yr hyn o'r blaen a wadasai, gan ddangos, os y rhai o'r [illegible] i'r ddeddf oeddynt yr etifeddion, fod ffydd yn cael ei gwneyd yn ofer, a'r addewid yn ddirym. Y rheswm am hyn ydoedd, fod y ddeddf yn peri digofaint; y modd y dygai hyn oddiamgylch oedd, trwy achlysuro camwedd: "lle nid oes deddf nid oes camwedd." Buasid yn dysgwyl ymlaen llaw i'r frawddeg hon fod yn gadarnhaol, yn lle yn nacaol; ond fe ddichon fod yr apostol yn amcanu drwyddi, nid yn unig osod allan effeithiau y ddeddf: nad y ddeddf [illegible] ydyw yn ei feddwl yn unig, ond y trefniant Iuddewig yn y [illegible] o honi) ar y rhai oedd dani; ond hefyd gyfer[illegible] y [illegible] cyn ei sefydliad â'r cyfnod wedi ei sefydliad, er mwyn gosod [illegible] ar y [illegible], mai i po fwyaf o berffeithrwydd y dygid [illegible] ddeddf, mai amlaf yn y byd fyddai y troseddau; trwy yr [illegible] ei Sefydlydd goruchel, yr hyn, drachefn, o [illegible] yr addewid, yn gymaint a bod ei thardd[illegible] ac a ddinystriai sail hyder; gan hyny, y mae [illegible] ei gwnaed i dynu y casgliad pwysig y cyfeiriai ato, [illegible] yr addewid) o ffydd, fel y byddai yn ol gras; fel [illegible] y cyflawnid o honi, yn gymaint ag nad ydoedd [illegible] ond ar eirwiredd a graslonrwydd y [illegible]; sef y rhai, fel y profwyd yn barod, ag [illegible] Abraham, pa un bynag ai Iuddewon ai Cenedloedd, "yr

hwn yw ein tad ni oll." I gyfreithloni yr ymadrodd diweddaf hwn, dyfynir geiriau yr Hen Destament, y rhai nid yw yn anghenrheidiol eu hystyried yn rhwngfrawddol (*parenthetical*), fel ag i gysylltu "yr hwn yw ein tad ni oll" â "ger bron y neb y credodd efe iddo," &c. Ac yn wir, ymddengys i ni fod yn fwy naturiol tori y cysylltiad hwn, a golygu y geiriau diweddaf yn cael eu dwyn i mewn i ddangos priodoldeb yr hyn a ddyfynir, "Mi a'th wnaethum yn dad llawer o genedloedd," yn gymaint a bod y desgrifiad sydd yn ei ddilyn o garitor Duw yn fwy perthynasol wrth ei olygu yn cyfeirio at yr amser y llefarwyd y geiriau wrth Abraham; oblegid, er ar y pryd nad oedd y llawer o genedloedd y sonid am danynt mewn hanfodiad, eto yr oedd efe yn dad llawer o genedloedd ger bron (yn nghyfrif) yr hwn y credodd efe iddo, sef Duw, yn gymaint a'i fod ef yn galw (yn siarad am) y pethau nid ydynt fel pe byddent: ac er fod corff Abraham a bru Sarah wedi marweiddio, eto yr oedd efe yn dad llawer o genedloedd yn nghyfrif Duw, yn gymaint a'i fod ef yn bywhau y meirw.

Yn yr adnodau canlynol, rhoddir desgrifiad bywiog o ffydd Abraham, a'r anhawsderau a orchfygodd, o ba herwydd y cyfrifwyd hi iddo yn gyfiawnder; ychwanega hefyd ddarfod ysgrifenu hyny, nid er mwyn ei glod personol ef, ond hefyd i fod yn flaen-gynllun o'r drefn i gyfiawnhau o dan yr efengyl, sef trwy gredu "yn yr hwn a gyfododd Iesu ein Harglwydd ni o feirw;" yr hwn ymadrodd sydd yn cynnwys y ddau begwn ar ba rai y mae ein hiachawdwriaeth dragywyddol yn troi—marwolaeth Crist dros ein pechodau, a'i adgyfodiad i'n cyfiawnhau; trwy y cyntaf yr ennillodd ein cyfiawnhad yn haeddiannol, trwy yr olaf y cymhwysir ef ganddo yn weithredol; mewn geiriau eraill, adgyfododd o'r bedd i roddi hawliau ei farwolaeth mewn grym.

PENNOD V.

Yn y rhan flaenaf o'r bennod hon y mae yr apostol, wrth gyfeirio at eglurhad pellach o'r athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd, yn taflu, ar ei ffordd, ychydig sylwadau ar ei chanlyniadau dedwydd; "Am hyny, gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tuag at Dduw." Tebygol yw, fod "heddwch," yma, i'w gymeryd mewn ystyr allanol, ac nid tufewnol; yn cyfeirio at sefyllfa, ac nid teimlad, gan olygu fod yr hyn a achosai yr ysgariaeth rhwng Duw a dyn, yn amgylchiad yr un a gyfiawnhawyd, wedi ei symud ymaith; yr hyn a ymddengys yn ganlyniad uniongyrchol i gyfiawnhad, tra y mae unrhyw gyfnewidiad yn nheimlad y galon tuag at Dduw, i'w olygu, yn fwy priodol, fel canlyniad i sancteiddhad, gyda'r hwn nid oes dim a wnelo yr apostol ar hyn o bryd. Y mae y rhan flaenaf o *adn.* 2, yn rhwng-frawddeg, a ddygir i mewn i ddangos fod hyd yn nod eu dyfodiad i'r gras o gyfiawnhad wedi cymeryd lle trwy Iesu Grist; tra y mae y rhan olaf i'w chysylltu â'r ymadrodd, "Y mae genym heddwch," &c., yn yr adnod o'r blaen; ac felly, i'w olygu fel canlyniad arall i gyfiawnhad trwy ffydd. Yn *adn.* 3, ychwanegir, "Ac nid hyny yn unig, eithr yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthrymderau." Nid yn nghanol gorthrymderau yw y meddwl. Buasai gobaith gogoniant mewn byd arall yn ddigon o sail i'r math yma o orfoledd: ond mewn gorthrymderau—hwy ydynt destunau y gorfoledd Yn *adn.* 2, y mae rhywbeth dyfodol yn cael ei ddwyn trwy gyfrwng gobaith, i fod yn sail gorfoledd; ond yn *adn.* 3, y mae yr apostol yn myned ymhellach fyth, gan ddwyn

ymlaen beth presennol, a'r hwn a ymddangosai o hono ei hun fel yn meddu dylanwad tra gwahanol; ond i gyfreithloni yr haeriad hwn, gesyd ger bron yr effeithiau hyny y mae y gorthrymderau yn eu cynnyrchu—y naill yn rhoddi bod i'r llall, sef dyoddefgarwch, cymeradwyaeth (δοκιμὴν), a gobaith. Yn *adn*. 5, rhoddir nodwedd y gobaith hwn, sef, un "ni chywilyddia," yr hyn a brofid gan y ffaith fod cariad Duw, (nid cariad tuag at Dduw, ond cariad Duw yn allanol) wedi ei dywallt yn eu calonau. Oddiyma, hyd ddiwedd *adn*. 10, y mae yr apostol yn dangos pa fodd yr oedd y ffaith fod cariad Duw wedi ei dywallt ar led yn eu calonau yn brawf na siomid hwy yn eu gobaith, trwy ddwyn ar gof iddynt yr hyn oedd y cariad hwn wedi ei wneuthur yn barod; "Canys Crist, pan oeddym ni eto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol." "Oblegid braidd," &c.; y mae y cysylltair "oblegid" yn dwyn i mewn reswm am y syniad sydd yn gorwedd yn y geiriau blaenorol, sef mawredd cariad Duw yn ei berthynas â'r rhai yr amlygwyd ef tuag atynt. Nid yw dyben yr ail "oblegid" yn llawn mor eglur: un peth, pa fodd bynag, sydd amlwg, sef, pe cymerem y ddau air, "cyfiawn" a "da," fel yn sefyll mewn cyferbyniad i'w gilydd, ac felly, deall yr apostol yn golygu, er ei fod yn annhebygol i'r graddau uchaf y byddai i neb farw dros un *cyfiawn*, eto ei fod yn bosibl i un hyd yn nod farw dros y *da*; yn yr amgylchiad yna, gorfodid ni i roddi pwyslais ar y ddau air ag a fyddai yn hollol anghydweddol â'r amcan oedd gan yr apostol mewn golwg, sef gosod allan ragoroldeb y cariad dwyfol, trwy ei gymharu â'r anghreifftiau uchaf o gariad dynol. O'r ochr arall, pe cymerem y gair *cyfiawn* mewn ystyr eangach na'r gair *da*—y cyntaf yn fwy cyffredinol, ac yn cynnwys ynddo yr olaf—byddai i'r adnod, yn y modd yma, dybygem, gael ei rhyddhau oddiwrth yr anhawsderau sydd yn nglŷn â hi; ac ymddengys i ni fod y sefyllfa (*standing-point*) yr oedd Paul arni yn ein hawdurdodi i wneyd hyn. Syniad mawr ei lythyr ef, a'r hwn hefyd sydd wedi llyncu ei holl enaid, ydyw cyfiawnder, fel y gellid meddwl yr edrychai ar y cymeriad *cyfiawn* yr uchaf y mae yn ddichonadwy i ddyn ar y ddaear ei gyrhaedd. Yn ol y golygiad hwn, y mae y rhan ddiweddaf o'r adnod yn cael ei dwyn ymlaen fel i dyneru (*modify*) ychydig ar y rhan gyntaf. Amcenid y gair "braidd" i ddangos ei fod yn dra annhebyg y byddai i neb farw hyd yn nod dros un cyfiawn; er hyny, nid yw yn ei wadu yn hollol, y mae yn gadael lle i ammheuaeth; nid yw yn cau i fyny y posiblrwydd: mewn geiriau eraill, y mae y rhagferf, *braidd*, yn cynnwys dau syniad, sef annhebygrwydd a phosiblrwydd; y mae yr apostol yn cymeryd gafael yn yr olaf o'r ddau—yn dwyn i mewn yr ail "oblegid" fel cadarnhad o hono, ac felly, yn tyneru graddau ar y rhan gyntaf o'r adnod, yn yr hon yr oedd y neillduolrwydd wedi ei osod ar y blaenaf o'r ddau; fel hyn;—"Oblegid braidd y bydd neb farw dros un cyfiawn;" eto, rhag i mi fyned yn rhy bell, nid wyf yn meddwl dywedyd fod y peth yn annichonadwy, "oblegid dros y da (er esiampl, fel yn syrthio o dan yr enwad cyffredinol, *cyfiawn*), ysgatfydd fe feiddiai un farw hefyd. Eithr y mae Duw yn canmol (neu yn amlygu, profi) ei gariad tuag atom; oblegid a nyni eto yn bechaduriaid, i Grist farw trosom ni."

Ar ol dwyn ger bron y weithred fawr ac anghymharol hon o gariad, y mae, yna, yn *adn*. 9 a'r 10, yn tynu ei gasgliad, trwy yr hwn y cadarnhâ yr hyn a osodwyd i lawr ganddo yn *adn*. 5, sef, na siomid y gobaith oedd â'i wraidd yn y cariad hwn. Y mae yn amlwg nad yw yr achub rhag

digofaint, y sonir am dano yn *adn.* 9, i'w gymeryd yn ei ystyr eangaf, fel yn cynnwys cyfiawnhad ynddo ei hunan, na'r cyfiawnhau, drachefn, fel yn cynnwys rhyddhad oddiwrth gosb ddyfodol; y mae yn gwneyd hyny fel y mae yn sicrhau sancteiddiad pechadur. Y mae y cyfiawnhau a'r achub rhag digofaint yn cael edrych arnynt fel dau beth gwahanol—y naill yn wystl o'r llall. Er fod *adn.* 10 yn cynnwys yr un meddwl a'r un flaenorol, eto, yn gymaint a'i bod mewn gwedd mwy rhesymegol (*logical*), dygir hi ymlaen yn ffurf rheswm am dani. Y mae sail casgliad yr apostol, yn *adn.* 9, i'w chanfod yn yr un sydd yn ei blaenu, sef, marwolaeth Crist dros bechaduriaid, ond gan ei bod wedi ei bwriadu yno i brofi mawredd cariad Duw, y mae yr apostol, yn *adn.* 10, yn rhoddi i'r ffaith gyfeiriad gwahanol, er mwyn iddi ymddangos i'r darllenwyr yn dal perthynas uniongyrchol â sicrwydd gogoniant yn y byd a ddaw. "Canys os pan oeddym elynion (mewn ystyr oddefol, mae yn debyg—yn wrthddrychau casineb Duw) ein heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef (sef yr heddychiad hwnw a gymerodd le yr amser y bu Crist farw), mwy o lawer, wedi ein heddychu (yr hyn sydd, fe ddichon, yn golygu yr ochr arall i'r cymmod—y cyfranogiad personol o hono drwy ffydd), ein hachubir rhag digofaint trwyddo ef." Yn *adn.* 11, y mae yr apostol yn gorphen y raddeg a gychwynwyd yn nechreu y bennod; yr esgyniadau ydynt, heddwch â Duw, gorfoledd dan obaith gogoniant Duw, gorfoledd mewn gorthrymderau, ac hyd yn nod gorfoledd yn Nuw ei hun.

Ar ol aros ychydig gyda chanlyniadau cyfiawnhad, y mae unwaith eto yn troi ei sylw at y cynllun ynddo ei hunan. Gwelir, pa fodd bynag, fod rhyw gymaint o wahaniaeth yn null yr apostol yn trafod ei bwnc yn y bennod hon ragor y rhai blaenorol. Yn *pen.* iii, y mae cyfiawnhad yn cael ei egluro mewn modd damcanol (*theoretically*); yn *pen.* iv., y mae yr athrawiaeth yn cael ei chadarnhau drwy esiamplau—dygir ffeithiau ymlaen yn cyfateb i'r ddamcaniaeth; yn y bennod hon, drachefn, y mae yn cael ei egluro trwy gyffelybiad (*analogy*),—megys y daeth pechod a marwolaeth drwy Adda, felly hefyd y daeth cyfiawnhad a bywyd trwy Iesu Grist. Y syniad y mae yr apostol yn pwyso arno o ddechreu y llythyr ydyw, adferiad dyn trwy Iesu Grist: yr un meddwl sydd yn rhedeg drwy y rhan flaenaf o'r bennod hon, yr hwn, mae yn debyg, y cyfeiria y cysylltair "am hyny," yn nechreu *adn* 12, ato, fel sail i'r cyffelybiad sydd yn ei ddilyn. Pa un a yw y gair "megys" yn dwyn i mewn yr aelod cyntaf, ynte yr ail aelod, o gymhariaeth, nis gellir yn hawdd ei benderfynu. Nid yw yr olaf o'r ddwy dybiaeth yn annaturiol, gan ddeall yr aelod cyntaf oddiwrth ystyr yr adnodau blaenorol: fel pe buasai yr apostol yn dyweyd, Gan fod ein hiachawdwriaeth yn cael ei dwyn ymlaen yn y modd a ddangoswyd, "Am hyny (y mae), megys trwy un dyn," &c. Pe, o'r ochr arall, y mabwysiadem y dybiaeth gyntaf, gan ddeall y gair "megys" yn dechreu y gymhariaeth, gorpheniad yr hon a rwystrir gan ddyfodiad damweiniol rhyw feddwl newydd, byddai i'r golygiad yna, drachefn, gyd-daro â dullwedd Paul; pa fodd bynag, y mae y prif feddwl yn y ddau amgylchiad yr un—Adda yn achos o bechod, a marwolaeth Crist o gyfiawnhad a bywyd. Esbonio ymaith yr ymadrodd "trwy un dyn," trwy ddywedyd mai y meddwl yw, fod pechod wedi dechreu gydag Adda, mai efe oedd y pechadur cyntaf, a ymddengys, yn wir, yn dra arwynebol, yn gymaint ag nad ydyw yn rhoddi cyfrif am bechadurusrwydd dynolryw, ac felly, yn bell o ateb dyben yr

apostol, yn gystal ag yn anghyson âg *adn.* 18, yn yr hon y mae meddwl yr adnod hon yn cael ei ailadrodd. Pan y mae yr apostol yn dywedyd fod genym heddwch tuag at Dduw *trwy* ein Harglwydd Iesu Grist, ein bod wedi ein heddychu *trwy* farwolaeth ei Fab ef, ein bod yn gorfoleddu yn Nuw *trwy* ein Harglwydd Iesu Grist, golygir ganddo mai Crist ydyw yr achos o'r pethau hyn; a chan ei fod wedi bwriadu i hyn gael ei egluro gyda ffaith gyfatebol, sef dyfodiad pechod a marwolaeth *trwy* un dyn, rhaid ei fod yn meddwl mai Adda oedd yr *achos* o bechadurusrwydd a marwolaeth dynolryw. "Am hyny, megys trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod, ac felly (yn ol y cysylltiad sydd rhwng y ddau) yr aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymaint a phechu o bawb." Ymddengys nad yw y gair "pechu," yn y fan hon, i'w ddeall yn golygu pechodau gweithredol yn unig, ond pechod yn ei ystyr gyflawn—yn cynnwys yr egwyddor yn gystal a'r weithred: athrawiaeth yr adnod, gan hyny, yw, fod marwolaeth wedi myned ar bob dyn, yn gymaint a bod pawb wedi myned yn bechaduriaid; a bod pawb wedi myned yn bechaduriaid o herwydd pechod Adda; mewn geiriau eraill, mai efe oedd y gwreiddiol achos o'r ddau.

Y mae y ddwy adnod ganlynol yn cynnwys gosodiadau sydd wedi eu hamcanu i gadarnhau y gwirionedd hwn; y cyntaf yw, fod pechod yn y byd hyd y ddeddf, sef y trefniant Iuddewig; yr ail yw, na chyfrifir pechod pryd nad oes deddf: nid y meddwl yw, er fod pechod yn y byd, nad ydoedd yn cael ei gyfrif fel *trosedd*, o herwydd absennoldeb deddf ddadguddiedig; amgen, byddai raid i ni roddi y pwyslais ar y gair "cyfrif," yr hyn a waherddir gan ei sefyllfa (*position*) yn yr adnod. Ymddengys mai y geiriau pwysleisiol ydynt "pechod" a deddf," ac mai ystyr yr ymadrodd ydyw, fod hanfodiad pechod yn profi hanfodiad deddf. Y trydydd gosodiad ydyw, fod marwolaeth wedi teyrnasu o Adda hyd Moses (yr hyn, o anghenrheidrwydd, sydd yn rhag-dybied teyrnasiad pechod), ïe, arnynt hwy (nid yn cyfeirio yn uniongyrchol at fabanod; y mae y syniad yn rhy anmherthynasol: y mae yn ymadrodd mwy cyffredinol, ac yn cymeryd i mewn bawb yn ddiwahaniaeth—babanod, a rhai mewn oed—ag oeddynt yn byw yn y cyfnod hwnw), y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda; *h. y.*, yn erbyn gorchymyn pendant. Gellid meddwl fod y ffaith hon wedi ei hamcanu gan yr apostol i brofi llywodraeth gyffredinol pechod o Adda hyd Moses—fod pechod, yn ei ystyr eangaf, wedi ymdanu dros yr holl hil ddynol: yr oedd y ffaith hon, drachefn, yn profi hanfodiad pechod: nis gallasai ei bod yn ddeddf Moses; nac ychwaith yn ddeddf natur, yn gymaint ag na chyfrifa hòno am bechod yn ei ystyr gyflawn; nis gallasai, gan hyny, fod yn ddim amgen na deddf gweithredoedd—y cyfammod rhwng Duw ac Adda, troseddu yr hwn a gyfansoddodd bechod Adda yn bersonol, a'r hyn hefyd sydd yn sail i, ac yn rheswm boddlonol am, drueni cyffredinol dynolryw. Yn ol y golygiad hwn, fe ymddengys fod pechod ei hunan yn gosb a weinyddir, ac nid fel rhyw afiechyd etifeddol yn cael ei drosglwyddo o dad i fab; yr hyn, yn wir, sydd yn dynu pechod o'i gylch priodol o ysbrydolrwydd i gymydogaeth mater.

Wedi dwyn ymlaen, a phrofi Crist ac Adda fel dau berson cyffredinol, wrth ba rai yr oedd tynged dynolryw yn crogi, ac wedi gosod allan ddyfodiad marwolaeth oddiwrth y naill yn gyfatebol i, ac yn eglurhaol o, ddyfodiad bywyd oddiwrth y llall, y mae yna yn troi ychydig o'i ffordd, i wneuthur

rhai sylwadau ar y gwahaniaeth oedd rhwng y ddau amgylchiad. Ymddengys fod yr ymadrodd "mwy o lawer," yn *adn.* 15, yn cael ei ddefnyddio, nid fel casgliad rhesymiadol (*logical inference*), ond i ddynodi mwyafiaeth. Os oedd dylanwad camwedd un y fath fel ag i ddwyn marwolaeth, mwy o lawer y byddai i ras Duw a'r dawn amlhau, trwy ras yr un dyn Iesu Grist. Yn *adn.* 16, y mae gwahaniaeth arall yn cael ei osod allan; dewisa rhai ei alw yn wahaniaeth mewn natur, gan roddi y pwyslais ar y geiriau *condemniad* a *chyfiawnhad*, a deall yr adnod yn golygu mai condemniad a ddaeth trwy Adda, ond mai cyfiawnhad a ddaeth trwy Iesu Grist: nid yw y golygiad hwn, pa fodd hynag, yn ymddangos yn naturiol; oblegid dyma bwynt cychwynol yr apostol; yr oedd y gwahaniaeth hwn yn cael ei gymeryd yn ganiatâol yn y dewisiad o'r gymhariaeth ar y cyntaf: ei amcan ef ydyw dangos y tebygrwydd a'r annhebygrwydd sydd rhwng dyfodiad marwolaeth trwy y naill, a bywyd trwy y llall; gan hyny, byddai yn fwy cyson â dyben yr apostol, yn gystal ag â chyflead y geiriau yn yr iaith wreiddiol, i roddi y pwyslais ar *un* a *llawer;* fel hyn,—"Canys y farn (sef, cyfiawnder natur y Duwdod, yn y gweithrediad o hono) a ddaeth o (mewn canlyniad i) *un* camwedd i gondemniad; eithr y dawn sydd o gamweddau *lawer* i gyfiawnhad." Y mae y cysylltair "canys," yn nechreu *adn.* 17, yn dwyn i mewn reswm ychwanegol, dybygid, dros feddwl arweiniol y ddwy sydd yn ei rhagflaenu, sef, rhagoriaeth trefn yr efengyl;—"Canys os trwy gamwedd un y teyrnasodd marwolaeth trwy un, mwy o lawer y caiff y rhai sydd yn derbyn lliosogrwydd o ras ac o ddawn cyfiawnder (yr hwn ymadrodd sydd yn cymeryd i mewn feddwl y ddwy adnod flaenorol,—"Gras a rhodd yn amlhau," ynghyda "dawn o gamweddau lawer i gyfiawnhad") deyrnasu mewn bywyd trwy un Iesu Grist." Yn nheyrnasiad marwolaeth y mae dynion yn oddefol, yn yr eiddo gras yn weithredol; ni ddywedir, bywyd yn teyrnasu, er fod hyny hefyd yn wir, ond dynion yn teyrnasu mewn bywyd; y mae y naill yn hanfodol i, ac yn rhagdybied y llall.

Yn *adn.* 18, y mae yr apostol yn adsefydlu y gyfatebiaeth rhwng Crist ac Adda, ond mewn ffurf mwy penodol nag y gwnaethai o'r blaen: yn *adn.* 12, rhoddir un aelod yn unig o'r gymhariaeth, gan adael y llall, fel y crybwyllwyd yn barod, yn ddealledig un ai oddiwrth yr adnodau blaenorol, neu ynte y rhai dilynol. Dywedir yno hefyd, fod trueni y byd wedi dyfod trwy un dyn; ond yn *adn.* 18, dygir y gymhariaeth ger ein bron yn gyflawn, a chyfyngir yr ymadroddion "camwedd un dyn," a "gras yr un dyn Iesu Grist," i "un camwedd," ac "un cyfiawnder," yr achosion o gondemniad a chyfiawnhad, gan adael y cyfryngau trwy ba rai y daeth yr achosion hyn i weithrediad, i'w deall oddiwrth y cyd-destun:—"Am hyny, megys trwy un camwedd y daeth barn ar bob dyn i gondemniad, felly hefyd trwy un cyfiawnder y daeth y dawn ar bob dyn i gyfiawnhad bywyd." Gellid meddwl, ar yr olwg gyntaf, fod *adn.* 19 yn ailadroddiad hollol o'r un sydd yn ei blaenu; ond y mae y cysylltair "canys," sydd yn ei dechreu, yn tueddu i brofi fod y meddwl cynnwysedig ynddi rywbeth yn wahanol. Ymddengys fod y ddwy, a'u cymeryd gyda 'u gilydd, yn cynnwys yr un syniad ag *adn.* 12: y mae yn hòno, fel y crybwyllwyd o'r blaen, ddau osodiad; sef, fod marwolaeth wedi myned ar bob dyn, yn gymaint a phechu o bawb, a bod pechod wedi dyfod i'r byd trwy un dyn: os edrychir i *adn.* 18, canfyddir fod yr apostol yn sicrhau ar unwaith ddyfod o'r gollfarn o

un camwedd; ond i gyfiawnhau, ac i egluro yr haeriad hwn, y mae yn dwyn ymlaen yr adnod ganlynol, "Canys megys trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid," &c. Y rheswm am fod camwedd y dyn cyntaf yn achos o farwolaeth dynolryw, ydyw, ei fod yn achos o'u pechadurusrwydd; pe gallesid cael unrhyw ddynsawd heb fod yn perthyn i'r dosbarth pechaduriaid, buasai hwnw yn rhydd oddiwrth y gollfarn; o'r ochr arall drachefn, "trwy un cyfiawnder y daeth y dawn ar bob dyn i gyfiawnhad bywyd"—cyfiawnhad yn arwain i, ac mewn rhyw ystyr yn cynnwys ynddo fywyd tragywyddol. Y mae y ddau beth yr edrychid arnynt o'r blaen ar wahân, yn awr yn rhedeg i'w gilydd. Ond cyn y gellir meddwl am "un cyfiawnder" yn sicrhau bywyd tragywyddol, y mae yn anghenrheidiol ystyried ei fod yn gwneyd hyny, fel y mae yn cymeryd i mewn y syniad o "wneuthur yn gyfiawn," yn ystyr eangaf y gair; nid yn unig cyfrif cyfiawnder Crist, ond hefyd adferu y natur, fel ag i lenwi y cymeriad "cyfiawn," a'i dwyn i gyfateb yn gyflawn i safon perffeithrwydd.

Yn niwedd y bennod, cawn sylw gan yr apostol o barth i'r ddeddf, wedi ei achlysuro, mae yn debygol, gan y crybwylliad a wneir am dani yn *adn.* 13; edrycha arni fel wedi dyfod i mewn yn rhagbarotoawl i drefniant perffeithiach,—yn ngeiriau yr apostol, "fel yr amlhäai y camwedd." Yr oedd tuedd yr amlygiad o feddwl y Goruchaf yn ffurf deddf, yn ol athrawiaeth yr adnod hon, yn gystal a *pen.* vii., i *achlysuro*, er nad *achosi* pechod: ïe, ychwaneg, yr oedd hyn yn ddyben yn y goruchwyliaethau dwyfol; ond nid yr un eithaf—dyben llai ydoedd i gyrhaedd un mwy; sef, darbwyllo y byd o'r anghenrheidrwydd am, a'i addfedu i ddwyn i mewn gynllun yr efengyl i gyfiawnhau; "Lle yr amlhaodd y pechod, yr amlhaodd gras yn ddirfawr;" cymerodd hyn le, "Fel, megys y teyrnasodd pechod mewn (ἐν) *marwolaeth*, felly hefyd y teyrnasai gras trwy gyfiawnder, i *fywyd tragywyddol*, trwy Iesu Grist ein Harglwydd." Tra mai cyfiawnder ydyw y moddion uniongyrchol trwy ba un y mae gras yn cyrhaedd ei amcan, eto Crist ydyw y cyfrwng mawr, trwy ba un yr oedd teyrnasiad gras o gwbl yn ddichonadwy.

PENNOD VI.

Yn y bennod hon, y mae y llythyr yn cymeryd gwedd ychydig yn wahanol i'r rhan flaenorol o hono. Nid ydym i dybied, er hyny, fod y mater yn newid: yr un ydyw y meddwl arweiniol trwy gorff yr epistol, sef cyfiawnhad trwy ffydd. Y peth y mae yr apostol yn ei wneyd, ydyw, edrych ar yr un pwnc mewn gwahanol gysylltiadau, yr hyn o anghenrheidrwydd sydd yn rhoddi gwedd wahanol ar yr ymdriniaeth. Yn y pennodau blaenorol, edrychir ar drefn yr efengyl i gyfiawnhau, yn ei pherthynas â *chyflwr* y byd; ac oddiwrth hyny, dadleuir yr anghenrheidrwydd am dani; rhoddir eglurhad manwl hefyd ar ei natur: yn hon, a'r pennodau canlynol, profir, nad yw y drefn yma o'i chaniatâu a'i chymeradwyo yn cario argraff ddrwg ar foesau y byd: bydd cadw hyn mewn golwg yn rhwyddhau y ffordd at feddwl yr apostol. Y mae testun yr ymdriniaeth yn y bennod hon yn cael ei osod i lawr, fel y gwelir, trwy ofyn cwestiwn, yr hwn sydd yn fwy naturiol i'w gymeryd fel gofyniad o eiddo Paul ei hun, yn hytrach nag yn iaith y gwrthddadleuwr; digon i brofi hyn, dybygem, yw absenoldeb y gwadair οὐκ (*oni*) o flaen y ferf, yr hwn yn ddiau a ddefnyddiasid mewn gwrthddadl, er mwyn dangos fod yr atebiad a ddysgwylid i

fod yn un cadarnhaol. Eto, er mai gofyniad o eiddo yr apostol ydyw, ymddengys iddo gael ei fwriadu ganddo i ragflaenu gwrthddadl a allasai ymgodi yn meddwl yr Iuddew oddiwrth yr athrawiaeth o gyfiawnhad pechadur, fel peth yn cymeryd lle o ras Duw, ar sail haeddiant Crist, mewn canlyniad i ffydd o du y dyn, ac yn annibynol ar weithredoedd; ac yn enwedigol oddiwrth waith yr apostol yn dyweyd yn niwedd y bennod o'r blaen, ddarfod i ras amlhau yn ddirfawr yn y lle yr amlhaodd pechod. "Beth gan hyny a ddywedwn ni," &c. Y mae y syniad sydd yn yr adnod hon i'w ganfod hefyd yn *pen.* iii. 8; ond y cwbl a wneir yno gan yr apostol yw, ei ddynoethi; dangos ei wrthdarawiad i lywodraeth Duw, ac yn y diwedd, dadgan ei anghymeradwyaeth o hono, gan ei adael heb ei gyflawn wrthbrofi, hyd onid elai ymhellach ymlaen gyda 'r pwnc: yn awr, pa fodd bynag y mae yn ei gymeryd mewn llaw, gan ddangos ei fod yn berffaith anghyson âg egwyddor y drefn y buasai yn ei darlunio. "A ninnau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn byw eto ynddo ef." Rhai a ddeallant yr adnod hon fel yn golygu marw i bechod yn weithredol; *h. y.* ymwrthod âg ef o ran yr egwyddor a'r ymarferiad o hono. Sicr yw fod yr efengyl yn dwyn hyn oddiamgylch; ond ai dyma feddwl yr adnod hon sydd ammheus, ac yn wir yn dra annhebygol; amgen byddai yr apostol yn sylfaenu ei ymresymiad ar yr hyn sydd eto heb ei brofi, ac ni byddai felly ychwaith, fel yr ymddengys i ni, un grym na phriodoldeb yn ei waith yn dwyn ymlaen farwolaeth Crist i egluro a chadarnhau ei bwnc: mwy unol âg ystyr yr adnodau canlynol, ynghyd âg amcan cyffredinol y bennod—yr hyn ydyw amddiffyn yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd, trwy ddangos ei bod, tra yn dal allan fywyd i bechadur yn rhad, ar yr un pryd yn sicrhau sancteiddrwydd buchedd—yw deall y marw i bechod mewn ystyr gyfreithiol (*forensic*), fel yn cael ei gynnwys yn y cyfiawnhad; yn gymaint a bod y ffydd hòno, trwy ba un y cyfiawnheir dyn, yn ffurfio math o unoliaeth rhyngddo â Christ, fel ag yr oedd yr hyn a wnaeth Crist, mewn ystyr, yn cael ei wneyd ganddo ef—pan oedd Mab Duw yn marw i bechod, yr oedd yntau yn marw i bechod: meddwl yr adnod hon, wedi ei agor a'i daenu i'r dyben o'i wneyd yn fwy eglur a chymhwysiadol, sydd yn cymeryd i mewn yr adnodau canlynol, hyd ddiwedd *adn.* 11. Gwelir fod y gofyniad yn gynwysedig o ddau osodiad, sef, eu bod wedi marw i bechod, ac ar y dybiaeth hòno, fod byw ynddo yn afresymol. Yn *adn.* 3, y mae yr apostol yn egluro y cyntaf o'r ddau, ac yn ei wasgu at eu hystyriaeth, "Neu a ydych chwi heb wybod fod cymaint o honom ag a fedyddiwyd i Grist Iesu, wedi ein bedyddio i'w farwolaeth ef." Wrth fedyddio i Grist, y meddylir, i gyfranogi o, ac yn enwedig i undeb â Christ; mewn gwirionedd, y syniad o undeb ydyw y sylfaen sydd yn gorwedd o dan yr holl ymresymiad: yn awr, os oeddynt wedi eu bedyddio i Grist, yr oeddynt wedi eu bedyddio i'r oll o Grist; os felly, i'w farwolaeth ef. Wedi gosod i lawr y gwirionedd hwn, y mae yr apostol yn ailadrodd meddwl *adn.* 2, yn gyflawn, "Cydgladdwyd ni, gan hyny, gydag ef (yr hyn sydd gyfystyr â'r ymadrodd 'marw i bechod') trwy fedydd i farwolaeth (hwyrach mai mwy naturiol i ni, yw cymeryd y geiriau 'i farwolaeth,' fel yn nodweddu bedydd, yn hytrach na 'u cysylltu â'r gair 'cydgladdwyd,' gan edrych ar yr ymadrodd 'trwy fedydd i farwolaeth,' fel yn cynnwys un syniad) fel megys ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant (yr hwn air sydd o ystyr eang—yn cynnwys yr holl amlygiadau a rydd y Duwdod o hono ei

hun, ac felly a ellid ei ddarllen yn y fan hon yn allu) y Tad, felly hefyd y rhodiom ninnau mewn newydd-deb buchedd." Y mae yr adnod ganlynol, yr hon sydd yn cynnwys yr un meddylddrych, ond yn cael ei osod allan gan y gymhariaeth a ddefnyddir mewn ffurf ychydig yn wahanol, er mwyn gwneyd i'r syniad ymddangos yn ddigon naturiol, yn cael ei dwyn ymlaen i gyfreithloni yr amcan mawr a gysylltir yn yr adnod o'r blaen, a'r "cydgladdu gyda Christ." Dylid sylwi, fe ddichon, fod y gair a gyfieithir "cyd-blanigion," yn darddedig o ferf sydd yn arwyddo, nid cyd-blanu, ond cyd-dyfu; felly dylid darllen y geiriau fel hyn:—"Canys os cyd-dyfasom i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef, felly y byddwn i gyffelybiaeth ei adgyfodiad ef." Fel sail i'r haeriad hwn, dygir ymlaen *adn.* 6. Ymddengys nad yw yr ymadrodd "hen ddyn" yn cael ei ddefnyddio yn y fan hon am yr anian lygredig; ni chydsafai hyny â'r meddwl sydd yn rhedeg trwy gorff yr adnodau; oblegid son y mae yr apostol am danynt hwy yn marw gyda Christ. Os yw y sylw hwn yn gywir, nid yw y gair "croeshoelio" ychwaith yn cyfeirio at y dyfal-barhad sydd yn anghenrheidiol gyda, na'r boen a deimlir oddiwrth, yr oruchwyliaeth o farweiddio pechod: mwy priodol, dybygem, yw ei ddeall yn golygu, nid y naill anian yn gyferbyniol â'r llall, ond hwy eu hunain mewn dwy ystâd wahanol. Edrycha yr apostol arno ei hun, a'r rhai a gyferchid ganddo mewn amser a sefyllfa arall, gan ddywedyd fod eu hen ddyn hwy, sef hwy eu hunain yn gyferbyniol a'r hyn oeddynt yn awr, wedi ei groeshoelio gyda Christ, "er mwyn dirymu corff pechod;" nid yr oll o bechod yw y meddwl, ond y corff ei hunan, yr hwn a osodir allan yn ysgrifeniadau Paul, yn eiddo i, a than lywodraeth pechod; wrth ei ddirymu, gan hyny, y meddylir, ei ddirymu cyn belled ag y mae yn gorff pechod; *h. y.* ei ddwyn i'r fath sefyllfa, fel na byddai mwyach yn wasanaethgar i bechod, nac yn gyfrwng trwy ba un y rhoddid tueddiadau pechadurus y galon mewn gweithrediad,—yn ol iaith yr apostol ei hun, "Fel rhagllaw na wasanaethem bechod." Fel rheswm am eu rhyddhad o wasanaeth pechod, dygir ymlaen y wireb (*axiom*) sydd yn gynnwysedig yn *adn.* 7, "Canys y mae yr hwn a fu farw, wedi ei ryddhau oddiwrth bechod." Nid y meddwl ydyw, fod yr hwn a fu farw wedi darfod pechu; na, y mae y gair a gyfieithir "rhyddhau" yn cyfranogi yn rhy helaeth o ystyr gyfreithiol i ganiatâu y darlleniad yna; pan y mae y troseddwr yn marw, pa un bynag a ystyrir ei farwolaeth yn gosbedigaeth ai peidio, symudir ef i ystâd nad oes gan ei drosedd un hawl arno,—y mae yn rhydd oddiwrtho, mor bell ag y mae a fyno dynion â'r mater, yn annibynol ar farn Duw; felly hefyd ystyriai yr apostol fod y ffaith o'u bod hwy wedi eu croeshoelio gyda Christ yn tori pob cysylltiad rhyngddynt â phechod, pa un bynag ai fel trosedd yn galw am iawn, ai ynte fel meistr yn hawlio gwasanaeth.

Yn *adn.* 8, y mae yr apostol yn ail osod i lawr y gwirionedd y mynai gan ei ddarllenwyr ei gredu, a'r hwn ydoedd wedi gwreiddio mor ddwfn yn ei feddwl ei hun. Ymddengys y byddai y gair "ond" yn gyfieithiad gwell o'r Groeg δέ, na'r cysylltair "ac," yr hwn a ddangosai fod y meddwl sydd ynddi, nid yn unig yn wahanol i, ond gyda hyny yn ddybynol ar yr adnodau blaenorol. Y mae yr effeithiau y sonir am danynt yn *adn.* 6 a 7, i'w cymeryd yn nacaol; ond yn awr ar y dybiaeth fod yr hyn a ddywedasid o barth i farw gyda Christ yn cael ei ganiatâu ganddynt, y mae yn cario ei ymresymiad ymhellach, gan ddadgan ei grediniaeth y byddai

iddynt, trwy rinwedd yr undeb hwnw, ag y buont farw gyda Christ, fyw hefyd gydag ef. Nid byw gydag ef mewn gogoniant a feddylir yma; ni chydsafai hyny â'r cyd-destun—y mater sydd dan ei sylw ef yw bywyd sanctaidd. Bwriedir y ddwy adnod ganlynol i ddangos priodoldeb y sylw o berthynas o fyw gyda Christ. Y mae y rhangymeriad (*participle*) yn cael ei ddefnyddio yn fynych yn gyfystyr â'r ferf gyda'r cysylltair γὰρ (canys). Ymddengys oddiwrth rediad yr adnodau y dylid ei gymeryd felly hefyd yn y fan hon; yna y darlleniad a fydd fel y canlyn:—"Canys yr ydym yn gwybod nad yw Crist, yr hwn a gyfodwyd oddiwrth y meirw, yn marw mwyach," &c.; yr hwn haeriad drachefn a gadarnheir gan *adn.* 10. Tuag at ddeall hon, y mae yn anghenrheidiol ystyried pa eiriau sydd yn sefyll y naill gogyfer a'r llall: ni ddylid petruso, dybygid, am yr ymadroddion, "marw i bechod a byw i Dduw." Nid yw y cyferbyniad (*antithesis*) i'r gair *unwaith* yn llawn mor amlwg, eto gellid meddwl ei fod yn gorwedd yn amser presennol y ferf *byw*, yr hwn sydd yn golygu parhad. Y mae rhai yn dewis darllen, "marw *i* bechod," yn "marw *dros* neu *am* bechod;" ond gan fod y geiriau *pechod* a *Duw* yn wrthgyferbyniol i'w gilydd, ac hefyd yn yr un sefyllfa (*case*), diau y dylid defnyddio yr un arddodair gyda'r ddau; ond y mae yn amlwg, pa mor briodol bynag yw y geiriau *dros* ac *am* yn yr amgylchiad blaenaf, eu bod yn gwbl ddiystyr yn yr amgylchiad olaf. Nid oes dim gwell i'w wneyd, dybygid, na chymeryd yr adnod fel ag y mae, gan ddefnyddio yr arddodair *i* gyda'r naill a'r llall. Ond yna pa peth ydyw yr ystyr? Un peth sydd amlwg, sef y dylid chwilio am ryw feddwl i'r geiriau yn eu perthynas â Christ, a fyddo yn gymhwysiadwy at y rhai a gyferchid gan Paul. Yn awr gellir edrych ar Grist, pan yma yn nyddiau ei gnawd, mewn math o gysylltiad â phechod; hyny yw, cysylltiad Machniydd â dyled;—yr oedd wedi gosod ei hun mewn sefyllfa ag yr oedd gan bechod hawl arno; ond yn ei angeu bu Crist farw i bechod—torwyd y cysylltiad oedd rhyngddynt—nid oedd gan bechod ddim a wnelai âg ef mwy. Yn ngeiriau apostol arall, "efe a beidiodd â phechod," ac a gysegrodd ei fywyd o hyny allan i'w Dad—"byw y mae i Dduw." Y mae y golygiad hwn, fel y mae yn amlwg, yn gyfryw ag y gellid yn rhwydd ei gymhwyso at y rhai a gyferchid gan Paul. Gwelir, gan hyny, fod yr adnod hon yn gwasanaethu i ddau ddyben; sef yn 1af, cadarnhau, trwy ddwyn i mewn y gair *unwaith*, yr hwn sydd yn bwysleisiol, yr haeriad sydd yn yr adnod o'r blaen, sef nad yw Crist yn marw mwyach; ac yn 2il, trwy ddwyn i mewn y geiriau cyferbyniol eraill a nodwyd,—rhoddi darluniad o nodwedd y farwolaeth a'r bywyd y dywedid fod Cristionogion yn un â hwynt, er mwyn dwyn allan yn ddigon amlwg y syniad, fod trefn yr efengyl o gyfiawnhau yn cynnwys marwolaeth i bechod, a bywyd cysegredig i Dduw. Yn yr adnod ganlynol, y mae yr apostol yn cymhwyso y gwirionedd hwn at eu hamgylchiad personol hwy, gan eu hannog i ystyried eu bod hwythau yn farw i bechod, eithr yn fyw i Dduw yn Nghrist Iesu ein Harglwydd; nid trwy Grist Iesu, oblegid nid y syniad o gyfryngwriaeth a ddygir ymlaen yma, ond y syniad o undeb; ac nid cyfeirio y mae efe at yr hyn oedd yn ffaith yn eu bywyd, ond at yr hyn oedd i'w gymeryd yn ddealledig ar y dybiaeth eu bod mewn undeb â Christ—egluro egwyddor yr efengyl yw ei waith yma, ac nid ei gweithrediadau.

Wedi profi fel hyn fod cyfiawnhad pechadur yn rhagdybied ei farwolaeth

i bechod, y mae yr apostol yn defnyddio yr athrawiaeth hon yn sail i'w hannog i fywyd sanctaidd. Pa un a yw yr ymadrodd, "yn eich marwol gnawd chwi," i'w gysylltu â'r gair "teyrnased," ynte â'r gair "pechod," nid yw yn hawdd penderfynu. Ymddengys yr olaf yn llawn mor naturiol, ac felly fod yr adnod yn gyfystyr â hyn,—"Na fydded i bechod, yr hwn sydd yn eich marwol gnawd chwi, deyrnasu." Defnyddir yr ansoddair "marwol," fe ddichon, er mwyn cadw mewn golwg y cysylltiad sydd rhwng pechod a marwolaeth. Y mae yn amlwg, pa fodd bynag, fod yr annogaeth, fel y crybwyllwyd, yn seiliedig ar yr hyn a ddywedasid o'r blaen, yn gymaint ag y byddai y gwrthwyneb iddi yn anghyson âg osgo yr ymresymiad, yn yr hwn eu gosodid allan fel wedi eu symud o derfynau llywodraeth pechod. Yn *adn.* 13, y mae yr apostol yn gosod allan yr un meddwl, ond mewn ffurf mwy neillduol; ac yna, yn yr un ganlynol, fel rheswm am eu hymdrechion yn erbyn pechod,—sicrha iddynt na byddai iddo deyrnasu arnynt. Y mae y ferf, fel y gwelir, yn yr amser dyfodol, ac felly yn golygu na byddai i bechod wneuthur eu holl lafur yn ofer, trwy eu dwyn yn ol yn y diwedd o dan ei lywodraeth. Y rheswm am hyn ydoedd, nad oeddynt hwy dan y ddeddf, eithr dan ras: nid dan felldith y ddeddf; mae y meddwl yn eangach na hyny; nid y ddeddf seremonïol ychwaith; y mae yr ystyr yna yn rhy grebachlyd: edrych y mae yr apostol ar y ddeddf foesol fel yn cynnwys ffurf o ddyledswyddau y tuallan i'r dyn, yr hon, wrth ddyfod i gyffyrddiad âg elfen o'i fewn gwahanol i'w natur ei hunan, sydd yn cynnyrchu gwrthdarawiad—wrth osod rhwymedigaethau arno—gwahanol i'r duedd sydd ynddo, sydd yn cynhyrfu ei dueddiadau llygredig. Yn awr, tra y buasent hwy yn aros yn y berthynas hon â'r ddeddf, buasai pechod o anghenrheidrwydd yn sicr o deyrnasu arnynt; ond yr oedd eu sefyllfa yn wahanol—nid oeddynt dan y ddeddf, eithr dan ras. Nid ydym wrth hyn yn golygu fod y ddeddf wedi ei difodi, na'i rhwymedigaethau wedi llacio: y cwbl a feddylir ydyw, fod ei sefyllfa yn wahanol—ei bod y tufewn yn lle y tufaes—yn egwyddor fywiol yn y galon, yn lle yn llythyren farw oddiallan—yn lle bod y ddeddf yn sefyll ar wahan oddiwrthynt, yr oedd wedi dyfod yn rhan o honynt. Teg, gan hyny, ydyw haeriad yr apostol; oblegid wele yr hyn ydoedd o'r blaen yn rym i bechod, ac yn ei alluogi i gadw meddiant o honynt, yn awr, ar ol ei roddi yn elfen o'u mewn, yn milwrio yn uniongyrchol yn ei erbyn.

GOHEBIAETH.

"BIBL I BAWB O BOBL Y BYD."

SYR,—Yn gymhwys y dywed awdwr yr erthygl ar "Athrylith a Gweithiau Mr. Robert Davies, Nantglyn," yn y "Traethodydd," tudal. 43, fod y llinell uchod, sef,

"Bibl i bawb o bobl y byd,"

wedi ei hanfarwoli. Nid oes odid gyfarfod Biblau yn Nghymru yn myned heibio heb i rywun neu rywrai ei hadrodd yn gyhoeddus. Ond teg yw nodi mai nid Bardd Nantglyn oedd ei chyfansoddydd gwreiddiol, er ei bod i'w chael yn ei Awdl ar Farwolaeth Sior y Trydydd. Yn yr ail lyfr o'r hen "*Drysorfa*," golyg-

iedig gan yr enwog Charles o'r Bala, tudal. 282, ni a gawn yr englyn a ganlyn :—

ENGLYN I'R BIBL.

Llyfr doeth yn gyfoeth i gyd—wych lwyddiant
A chleddyf yr Ysbryd,
A gair Duw nef yw hefyd,
Bibl i bawb o bobl y byd. R. W.

Ni fu farw Sior y Trydydd hyd Ionawr, 1820 ; ac yr oedd yr englyn uchod wedi ei argraffu yn y rhifyn o'r "Drysorfa" am Ragfyr, 1809. Ei awdwr oedd Mr. Robert Williams, (o Lwyneinion, os wyf yn iawn gofio) gerllaw y Bala, yr hwn a gyfrifid yn brydydd da, ac a arferai yn fynych anfon englynion i'r "Drysorfa." Pa fodd y bu i un oedd yn meddwl mor fawr am gyfoethogrwydd ei ddawn barddonol ei hun, chwennychu a lladrata oenig y gwr tlawd, nis gwn ; ond y mae yn dda genyf gael y cyfle hwn trwy y "Traethodydd" i adferu yr yspail i'r cyfiawn berchenog.

Yr eiddoch, &c.,

MERVINIUS.

NODIADAU AR LYFRAU.

Llyfr y Prophwyd Eshaiah, wedi ei gyfieithu o newydd a'i drefnu (cyn agosed ag y dichon) yn ol yr Hebraeg. Gan y Parchedig THOMAS BRISCOE, S.T.B. *Islywydd ac Athraw hynaf Coleg yr Iesu, Rhydychain.*

MAE yn wirionedd addefedig fod Prydain er ys llawer blwyddyn wedi colli y flaenoriaeth mewn beirniadaeth ysgrythyrol. Hyderwn fod y llyfr hwn yn rhyw arwydd fod Rhydychain yn dechreu deffro, a bod dyddiau gwell yn debyg o wawrio. Os nad yw yn ddigon i brofi fod Lloegr wedi cyrhaedd tir mor uchel ag America a Germani, y mae o leiaf yn dangos nad yw y Seison o flaen y Cymry. Yr ydym o galon yn ddiolchgar i'r awdwr am gyhoeddi y gwaith hwn yn yr iaith Gymraeg. Os oes rhyw Gymro am ddysgu Hebraeg, byddai yn anhawdd iddo gael gwell cynllun, ar ol deall y gramadeg, na chymeryd y Bibl Hebraeg mewn un llaw, a'r cyfieithiad hwn yn y llaw arall. Er mwyn denu rhai o'n darllenwyr i'r ffordd hon o efrydu, rhoddwn yma ychydig anghreifftiau, gan ychwanegu rhai sylwadau byrion yn achlysurol.

PEN. I. 5. Ar ba (aelod) y'ch tarewir eto, yr ychwanegwch gerydd?

Mae yn ymddangos yn dra thebyg, oddiwrth yr adnodau canlynol, fod "ar ba aelod" yn well cyfieithiad nag "i ba beth." Ond prin y meddyliwn fod digon o awdurdod dros gyfieithu "yr ychwanegwch gerydd," yn lle "yr ychwanegwch gildynrwydd."

I. 13. Y newydd-loer, a'r Sabboth, a'r gymanfa gyhoeddedig,
Nis gallaf eu dyoddef (Ie) yr ympryd a'r dydd gwahardd.

Onid mwy cywir, gyda Michaelis, Gesenius, Ewald, ac Alexander, fyddai cymeryd y llinell gyntaf yr un ffordd a'r geiriau o'r blaen ; a darllen yr olaf fel hyn ? "Nis gallaf ddyoddef anwiredd ac uchelwyl."

I. 31. A bydd y cadarn yn garth, a'i waith yn wreichionen.

Y mae y cyfieithiad hwn yn welliant diammheuol.

III. 6. Gan hyny yr ymeifl gwr yn ei frawd o dŷ ei dad wrth ei wisg, gan ddywedyd,
Tyred, a bydd dywysog i ni.

Mwy cydweddol â'r darlleniad gwreiddiol yw y cyfieithiad cyffredin. Mae yn eglur hefyd, oddiwrth yr adnod a ganlyn, mai dyna yr ystyr mwyaf naturiol.

Bydd yr adfail y fath, fel y dewisir rhyw un yn flaenor y tybir ei fod yn meddu rhyw fath o ddilledyn: ond ei ateb yntau fydd, Ni byddaf iachâwr, ac yn fy nhŷ nid oes fara na dillad.

IV. 5. Yna y crea Jehofah ar bob trigfan mynydd Tsion,
Ac ar ei holl gymmanfaoedd sanctaidd hi,
Gwmmwl y dydd a mŵg,
A dis-glaerdeb tân fflamllyd y nos;
Canys ar yr oll y Gogoniant (a fydd) yn orchudd.

Y mae Mr. Briscoe, yr un modd a Lowth, yn y llinell olaf, yn newid yr arwyddion Masoretaidd; ond y mae yn dra ammheus a ddylid gwneuthur hyny, oddieithr pan fyddo y cyfnewidiad yn anhebgorol angenrheidiol.

VI. 13. Ac er y bo eto ynddi ddegwm,
Hyn yn chwanegol a fydd i'w ddistriwio.
Ond fel y brinwydden a'r dderwen, y rhai er bwrw (eu dail, y mae) eu bon-cyff ganddynt,
(Felly) had sanctaidd (fydd) ei bon-cyff hi.

Hwn yw yr iawn gyfieithiad. Yr ystyr yw, er fod ynddi ddegwm yn aros, bydd hwn drachefn i'w ddystrywio. Ond er dystrywio y degwm, ni adewir iddi gael ei llwyr ddyfetha; oblegid bydd y boncyff yn aros yn barhaus, yr hwn yw yr had sanctaidd.

VII. 13. Gwrandewch yn awr, ty Ddafydd!
Ai bychan gennych flino dynion,
Fel y blinech hefyd fy Nuw?
14. Am hyny y dyry fy Arglwydd ei hun i chwi arwydd.
Wele y Forwyn a feichiogodd, ac yn esgor ar fab,
Ac a eilw ei enw ef IMMANWEL:
15. Ymenyn a mel a fwytty efe
Pan wyr i ymwrthod â'r drwg ac ethol y da.

Y mae "fel y blinech hefyd fy Nuw," yn fwy eglur na'r hen gyfieithiad "oni flinoch hefyd fy Nuw," er fod y synwyr yn gyffelyb. Yn yr adnod alaf, y mae y cyfieithiad cyffredin, "fel y medro" yn sicr o fod yn anghywir. Y mae Rosenmüller ac Alexander yn darllen "hyd nes medro." Y mae Jarchi, Hitzig, ac Ewald, yn cytuno â Mr. Briscoe; a meddyliem mai hwy sydd yn gywir.

VIII. 20. At y gyfraith ac at y dystiolaeth!
Oni ddywedant yn ol y gair hwn,
Yn yr hwn nid oes tywyllni,
21. Fe dramwya (pob un) trwy ('r wlad) yn galed arno, ac yn newynog.

Mae yn amlwg fod yma wahaniaeth dirfawr rhwng y ddau gyfieithiad; ond credwn yn ddiysgog mai yr hen yw y goreu. Ystyr y gair a gyfieithir yma "tywyllni" yw *gwawr*. Felly y cyfieithir ef mewn lliaws o fanau; ond nid un amser yn "tywyllni."

VIII. 22. Ac efe a dry ei wyneb i fyny, ac ar y ddaear yr edrych efe,
Ac wele drallod, a thywyllwch,
Caddug, cyfyngder, a thywyllwch, (i'r hwn) y gyrir ef.

Dyma gyfnewidiad er gwell. Y mae "a dry ei wyneb i fyny," yn gystal ag "edrych ar y ddaear," yn perthyn i'r adnod hon, i ddangos nad oes ond tywyllwch uwch ben, yr un modd ag oddiamgylch.

VIII. 23. Ond (ar ol hyn) ni bydd tywyllwch yn (y wlad) yr hon y bu cyfyngder arni;
Er yn yr amser cyntaf y diystyrodd efe
Dir Zabwlwn a Nephthali;
Eto yn yr amser diweddaf Efe a'i gogonedda,
(Sef) ffordd y môr, tuhwnt i'r Iorddonen, Galilee y cenedloedd.

Mae y cyfnewidiad hwn eto yn welliant diammheuol. Yn ol yr hen gyfieithiad, gellid meddwl fod tir Zabulon a Naphtali yn lleoedd gwahanol oddiwrth ffordd y môr. Ond yr un ydynt, er y sonir am danynt ar wahanol amserau. "Y môr,"

yw Môr Galilea. Yr adnod gyntaf o'r nawfed bennod yw yr olaf o'r wythfed gan Mr. Briscoe, megys yn y Biblau Hebraeg. Cofier hyn wrth droi at y nesaf.

ix. 4. Canys bottasau y rhyfelwr arfog yn y frwydr,
A'r wisg wedi ei thrybaeddu mewn gwaed,
A fyddant i'w llosgi, yn ymborth tân.

Dyma y cyfieithiad llythyrenol a mwyaf naturiol. Prophwydoliaeth yw y geiriau am heddwch cyffredinol, pan y bydd arfau a gwisgoedd y rhyfelwr yn myned yn ymborth i'r tân.

x. 21. Gweddill a ddychwel, gweddill Jacob,
At y Duw cadarn:
22. Canys er y bydd dy bobl di, Israel, fel tywod y môr,
Gweddill a ddychwel
Dinystriad, yn llifeirio o gyfiawnder, a benderfynwyd.

Y mae "gweddill" yn fwy cywir nag "y gweddill;" "er y bydd" yn well na "pe byddai;" ac "a benderfynwyd" yn well na "terfynedig."

xi. 15. Ac fe ddifroda Jehofah dafod môr yr Aipht,
Ac Efe a ysgydwa Ei law ar yr afon yn nychryniadau Ei wynt,
Ac a'i tery hi yn saith ffrwd,
Ac a wna fyned drosodd mewn esgidiau.

Dywedyd y mae y prophwyd y byddai i'r afon, sef yr Euphrates, gael ei tharaw nes y byddai yn lliaws o fân ffrydiau, neu "yn saith ffrwd;" nid "yn ei saith ffrwd," fel yn y cyfieithiad cyffredin.

xxvi. 3. Ti a gedwi heddwch heddwch,
O herwydd ynot ti yr ymddiriedodd.
4. Ymddiriedwch yn Jehofah byth bythoedd.
Canys yn Jah Jehofah (y mae) craig dragywyddol.

Mwy dewisol genym ni yw yr adnod gyntaf fel y mae yn gyffredin; ond gwell yw "craig dragywyddol," neu yn fwy llythyrenol, craig yr oesoedd, na "chadernid tragywyddol."

xxvi. 19. Byw fydd Dy feirw Di; fy nghyrff i a adgyfodant;
Deffrowch, a chenwch yn llawen, breswylwyr y llwch.
Canys gwlith y wawr ddydd yw Dy wlith Di;
Ond y gwyllion, y ddaear a'u herthyla hwynt.

Ar adnod mor anhawdd, lle y mae cymaint o amrywiaeth barn, nid yw yn gweddu i ni ddywedyd dim yn benderfynol. Cytunir yn gyffredin mai y prophwyd, neu Israel trwy y prophwyd, sydd yn llefaru wrth yr Arglwydd yn nechreu a diwedd yr adnod; ac mai "fy nghyrff i" yw y cyfieithiad cywir yn y llinell gyntaf. Y mae beirniaid enwog hefyd yn darllen "gwlith y wawr-ddydd;" ac eraill mor enwog yn darllen "gwlith llysiau." Yn niwedd yr adnod, y mae y nifer liosocaf yn dilyn y cyfieithiad cyffredin, "a'r ddaear a fwrw y meirw allan." Y mae Alexander yn darllen yr holl adnod fel hyn;—"Dy feirw a fyddant byw, fy nghyrff i a adgyfodant; deffrowch a chenwch, breswylwyr y llwch! canys gwlith llysiau yw dy wlith di, ac (ar) y ddaear (ar) y meirw, ti a beri iddo ddisgyn."

xxvii. 2. Yn y dydd hwnw,
Y winllan ddymunawl; cenwch gân ymatebol iddi.
3. (*Jehofah.*) Myfi, Jehofah, a'i ceidw,
Ar (bob) amrant y dyfrhaf hi;
Ymwelaf â hi y nos,
A'r bydd mi a'i cadwaf.
4. (*Y Winllan.*) Mur nid (oes) genyf;
O na roddasid i mi (fur) o fieri a drain.
(*Jehofah.*) Mewn rhyfel y cerddwn yn eu herbyn,
Llosgwn hwynt ynghyd;
Yn hytrach ymafled yn fy nghadernid i.

5. (*Y Winllan.*) Gwnaed Ef heddwch â mi;
Heddwch a wnaed Efe â mi.

6. (*Jehofah.*) Y sawl a ddeuant o wreiddyn Jacob a flodeuant, ac a flaen-dardda Israel,
A hwy a lanwant wyneb y byd â chnwd.

Mae y dull hwn o ddosbarthu y gân, er mor gryf yr oedd Lowth yn dadleu drosto, yn cael ei feio yn gyffredin gan feirniaid diweddar; ac y mae Alexander yn gwadu fod yma gân o gwbl. Efallai fod gormod o duedd yn yr oes hon i ddirmygu Lowth, fel y dyrchefid ef yn ormodol yn yr oes ddiweddaf. Pa fodd bynag, y mae yn eglur fod y dosbarthiad uchod yn dra phrydferth; ac nid ydym yn gallu gweled fod un esboniad arall yn rhoddi golygiad mwy naturiol ar y geiriau.

xxviii. 24. Ai pob dydd yr aredig yr arddwr er mwyn hau,
Ac yr agora, ac yr oga ei dir?

Diwygiad diammheuol. Gofyn y mae y prophwyd, nid a "ydyw yr arddwr yn aredig ar hyd y dydd," ond a ydyw yn gwneuthur hyny *bob* dydd.

xxix. 16. Eich gwrthnysigrwydd! Ai fel y clai y crochenydd a gyfrifir?

Hyny yw, A gyfrifir y crochenydd fel y clai? Meddyliem fod Mr. Briscoe yn iawn yma eto.

xxx. 7. Canys yr Aipht tarth (yw), ac ofer y cynnorthwyant hwy,
Am hyny y gelwais hi, Rahab y Ddioglyd.

Mae yn dra thebyg fod y gair Rahab yn cael ei fwriadu yma fel enw am yr Aipht; ond dichon y buasai yn well ei gyfieithu. Y mae Gesenius yn darllen, "Y Falch, yr hon sydd yn aros yn llonydd."

xxx. 19. Canys pobl sanctaidd yn Tsion a drig;
Yn Ierwshalem gan wylo y wyli ato ef.

Yr ydym yn methu gweled fod digon o sail i'r cyfnewidiad hwn. Heblaw ei fod yn newid yr Hebraeg yn ddiachos, y mae hefyd yn gwaethygu yr ystyr.

xxxiii. 18. Dy galon a fyfyria ar yr hyn oedd ei hofn, (sef)
Pa le (y mae) y cyfrifwr? pa le (y mae) y pwyswr?
Pa le (y mae) y rhifwr tyrau?

Mae y geiriad hwn yn hapus, ac yn gosod allan y meddwl yn eglur.

xxxv. 7. Ac yr aiff yr hûd-ddwfr yn llyn,
A'r tir sychedig yn fwrlymiad dyfroedd.
Yn nhrigfa 'r dreigiau y tŷf
Y glaswellt gyd a'r gorsen a'r frwynen.
8. A bydd yno brif-ffordd,
Ac "y ffordd sanctaidd," y gelwir hi;
Nid aiff ar hyd-ddi un halogedig;
Ond Efe fydd gyda hwynt gan rodio 'r ffordd,
A'r ynfydion ni chyfeiliornant ynddi.
9. Ni bydd yno lew,
A gormeswr y bwystfilod ni ddring iddi,
Ac nis ceir efe yno,
Eithr yno y rhodia 'r prynedigion.

"Hud-ddwfr" yn ddiau yw yr iawn ystyr. Mae y gair yn cyfeirio at yr ymddangosiad hudoliaethus a elwir *mirage*, yr hwn a welir yn fynych mewn crasdiroedd, pan fyddo y tarth sydd yn codi o'r tywod yn peri i'r teithiwr blinderus feddwl ei fod yn agosâu at lyn o ddwfr; ond erbyn cyrhaedd i'r lle, troir ei ddysgwyliad yn siomedigaeth. Am y geiriau nesaf, mwy tebyg yw fod yr hen gyfieithiad yn gywir. "Yn nhrigfa 'r dreigiau bydd cyfle corsenau a brwyn," y rhai ni thyfant heb wlybaniaeth. "Ond Efe fydd gyda hwynt gan rodio 'r ffordd." Y mae Calvin, yn gystal a Lowth, yn pleidio y golygiad hwn; ac nid yw yn annhebygol. Dichon fod "y cryfaf o'r bwystfilod," fel y cyfieithir y geiriau gan Ewald, yn nes at yr ystyr na "gormeswr y bwystfilod."

XXXVIII. 17. Wele, yn heddwch y newidiwyd i mi fy chwerwedd.

Hyny ydyw, Fy chwerwedd a drowyd yn heddwch. Y mae lle i feddwl mai hyn yw yr iawn ystyr; a dyma y cyfieithiad mwyaf llythyrenol.

XLII. 19. Pwy (sydd) ddall ond fy ngwais i?
Neu fyddar fel (y rhai) yr anfonaf Fy nghennad (atynt?)
Pwy mor ddall a'i llywiawdwŷr,
A dall fel gwas JEHOFAH?
20. Gwelaist bethau lawer, etto nid ystyri;
Yr wyt â chlustiau agored, etto ni wrandewi.
21. JEHOFAH a fu radlawn er mwyn Ei gyfiawnder,
Mawrhaodd Ei fawl ac a'i gwnaeth yn anrhydeddus.

Yn yr holl adnodau hyn, mwy cywir yw yr hen gyfieithiad. Y mae "y rhai yr anfonaf fy nghennad atynt," yn groes i reolau gramadegol yr iaith Hebraeg. Nis gellir cael "llywiawdwyr" heb newid y testun gwreiddiol; ac wedi hyny nid yw yn rhoddi cystal synwyr. Ac nid oes y sail lleiaf i'r cyfnewidiad yn yr adnod olaf. Llefaru y mae y prophwyd am Israel, yr hwn oedd yn was yr Arglwydd, ac yn genad anfonedig. Ond er fod ei ymddygiadau yn galw am farn arno ef, yr un modd ag ar y cenedloedd o'i amgylch, y mae yr Arglwydd yn foddlawn i'w arbed, er mwyn ei gyfiawnder ei hun, ac er mwyn cyflawni ei gyfraith, a'i gwneyd yn anrhydeddus.

XLIII. 22. Eithr arnaf fi ni elwaist, Jacob,
Ac (ni) flinaist dy hun o'm hachos I, Israel.

Nis gallwn lai na thybied fod y cyfnewidiad hwn hefyd yn ddisail.

XLIX. 5. Ac yn awr, medd Jehofah,
Yr Hwn a'm lluniodd o'r groth yn was iddo,
I ddychwelyd Jacob atto Ef,
Ac er i Israel atto Ef ymgasglu,
Gan hynny gogoneddwyd fi yn ngolwg Jehofah,
A'm Duw yw fy nerth:
6. Fel hyn medd Efe,
Ai gwaelach wyt nag y byddit i mi yn was
I gyfodi llwythau Jacob,
A changennau Israel i'w dychwelyd (hwynt)
Ond mi a'th roddaf yn oleuni i'r cenedloedd,
I fod, i mi, yn Iachawdwriaeth hyd eithaf y ddaear.

Y mae gradd o sail i'r cyfnewidiad yn yr adnod gyntaf, yn y darlleniad ar ymyl y ddalen, yn y Bibl Hebraeg; ond y mae yn afreidiol: ac nid oes un sail i ddarllen "cangenau" yn lle "rhai cadwedig," yn yr ail adnod. "Ai gwaelach wyt nag y byddit i mi yn was" sydd yn fwy llythyrenol. Y mae yr ymadrodd yn briod-ddull Hebreaidd o lefaru; ac y mae ei ystyr wedi ei roddi yn gywir yn y cyfieithiad cyffredin.

L. 4. Yr Arglwydd Jehofah a roddes i mi dafod y dysgedig,
I gynnal y diffygiol â gair.
Efe a ddeffry yn y bore, ac yn y bore,
Efe a ddeffry i mi glust i glywed fel y dysgedig.

Nid oes modd cyfieithu yr adnod hon yn fwy llythyrenol ac yn fwy cywir.

L. 10. Pwy yn eich mysg chwi sydd yn ofni Jehofah?
Gwrandawed ar lais ei was Ef.
(Pwy) yn rhodio mewn tywyllwch ac heb lewyrch iddo?
Ymddirieded yn enw Jehofah,
A phwysed ar ei Dduw.

Nis gellir darllen "gwrandawed" yn yr ail linell, heb newid y gair gwreiddiol. Yr ystyr yw, Pwy yn eich mysg sydd yn ofni yr Arglwydd, gan wrandaw ar lais ei was ef; ac er hyny yn rhodio mewn tywyllwch, ac heb lewyrch iddo?

LIII. 3. Dirmygwyd ef, a diystyrwyd gan ddynion,
Gwr gofidiau, a chynnefin â dolur;

Ac megis un yn cuddio ei wyneb oddiwrthym
Dirmygwyd ef, ac ni wnaethom gyfrif o hono.

"Diystyrwyd gan ddynion" yw y cyfieithiad cywir. Ond y mae llawer o amrywiaeth barn mewn perthynas i'r drydedd linell. Mae y Deg a Thriugain, Jarchi, Lowth, De Wette, ac eraill, yn darllen fel uchod, ac yn barnu mai y meddwl yw, ei fod ef yn cuddio ei wyneb, fel un gwahanglwyfus, neu un wedi ei lenwi â galar neu gywilydd. Y mae Hengstenberg, a llawer eraill, yn darllen "megys un yn peri cuddiad gwyneb oddiwrtho." Gellid tybied y goddefa yr Hebraeg y naill ystyr yn gystal a'r llall.

LXIII. 9. Yn eu holl gyfyngder nid cenadwr neu angel ei gynnrychioldeb (a fu) iachawdwr iddynt.

Addefir fod yr adnod hon yn dra anhawdd. Y mae De Wette ac Alexander yn darllen y rhan gyntaf, "Yn eu holl elyniaeth hwy nid oedd efe yn elyn." Ond y mae Luther, Vitringa, Hitzig, Ewald, ac eraill, yn cydfyned â'r cyfieithiad cyffredin, "Yn eu holl gystudd hwy yr oedd cystudd iddo ef." Mae yn wir fod yn rhaid i ni felly newid ychydig ar y testun gwreiddiol, trwy ddarllen *iddo ef*, yn lle *nid;* ond y mae genym awdurdod y Masora dros hyny. Yn y geiriau nesaf, gorfodir ni i feddwl fod Mr. Briscoe yn anghywir, er fod y Deg a Thriugain a Lowth o'i blaid. Mae y cyfieithiad cyffredin yn fwy naturiol; ac heblaw hyny, mae yn amlwg, fel pwnc o ffaith, fod angel gyda'r Israeliaid, a bod yr angel hwnw yr un a Duw ei hun. Dyma yr angel y bu Jacob yn ymdrechu âg ef, am yr hwn y dywedir yn *Hosea* xii. 4, 5; "Cafodd nerth ar yr angel, a gorchfygodd; wylodd ac ymbiliodd âg ef: cafodd ef yn Bethel, ac yno yr ymddyddanodd â ni; sef Arglwydd Dduw y lluoedd: yr Arglwydd yw ei goffadwriaeth." A dyma yr angel y sonir am dano gan Stephan yn *Act.* vii. 30, 31, 32, 38. "Ac wedi cyflawni deugain mlynedd, yr ymddangosodd iddo yn anialwch mynydd Sinai, Angel yr Arglwydd mewn fflam dân mewn perth. A Moses pan welodd a fu ryfedd ganddo y golwg: a phan nesaodd i ystyried, daeth llef yr Arglwydd ato, gan ddywedyd, Myfi yw Duw dy dadau, Duw Abraham, a Duw Isaac, a Duw Jacob. Hwn yw efe a fu yn yr eglwys yn y diffeithwch, gyda'r Angel a ymddyddanodd âg ef yn mynydd Sinai, ac â n tadau ni."

Wrth derfynu hyn o sylw, gobeithiwn na feddylia neb ein bod yn llefaru yn rhy benderfynol. Yr ydym yn teimlo gwir barch i Mr. Briscoe, er nad ydym wedi siarad am hyny ar bob achlysur: ac yn ddiragrith yr ydym yn cymhell ei gyfieithiad i sylw ein cydwladwyr.

Encyclopædia Cambrensis. Y GWYDDONIADUR CYMREIG. *Dosbarth I. Duwinyddiaeth;—Daiaryddiaeth, Hynafiaethau, Beirniadaeth, Bywgraffyddiaeth, a Llenoriaeth Ysgrythyrol;—Hanes Eglwysig; a Bywgraffyddiaeth Grefyddol. Dan olygiad y* Parch. JOHN PARRY, Bala. *Rhan I.* Dinbych; T. Gee.

Nis gallwn y tro hwn ond prin gyfeirio ein cyfeillion at y ffaith o ymddangosiad y rhan gyntaf o'r gwaith pwysig uchod. Bydd y "GWYDDONIADUR," pan ei cwblheir yn ol y cynllun mewn golwg, yn drysor anmhrisiadwy i bob Cymro, ac yn llyfrfa gyflawn ynddo ei hun. Mae yn dda genym weled ei fod mewn gwirionedd yn *Encyclopædia* CYMREIG: nid yn gyfieithiad anystwyth o'r Saesoneg, ond yn gyfansoddiad ysgrifenwyr Cymru, ac ynddo hefyd, yn ychwanegol at y materion sydd mewn llyfrau cyffelyb yn mysg y Saeson, erthyglau neillduol ar Gymru a'i llenoriaeth. Mae yr anturiaeth yn fawreddus, ac felly yn deilwng o gefnogiad cenedlaethol; ac y mae y rhifyn cyntaf, yn mhob modd, yn ddechreu da ar y gwaith.

DINBYCH; ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.

Y TRAETHODYDD.

ATHRYLITH A GWEITHIAU PEDR FARDD.

Y MAE dadl fawr wedi bod yn y byd barddonol er's blyneddau, gyda golwg ar yr awen. Myn rhai mai rhodd neillduol ydyw i ryw bersonau neillduol, ac na waeth i'r rhai sydd heb ei derbyn heb geisio myned yn feirdd, na lwyddant hwy ddim byth. Dadleua rhai eraill nad oes dim yn y dyb hono; ond y dichon i bob dyn, o synwyr cyffredin, os try efe ei feddwl at farddoniaeth, lwyddo a dyfod ymlaen yn y wyddoniaeth. Dymunem ni ymrestru gyda'r rhai sydd o'r golygiad diweddaf; ac eto, ar yr un pryd, dymunem alw sylw y darllenydd at y ffaith fod ambell ardal yn cynnyrchu mwy o feirdd na'r llall, ac fod rhywbeth yn neillduol yn meirdd ambell wlad ragor y llall, ar wahanol dymmorau. Pwy a glywodd am nemawr o feirdd y gynghanedd yn cyfodi yn y Deheubarth, o'r un argraff a Dafydd ab Gwilym, Ieuan Brydydd Hir, a Iolo Morganwg, ar eu hol hwy? Y mae yn wir fod yno lawer o feirdd, mewn enw, wedi cyfodi o dro i dro, a llawer o'r rhai hyny yn cael eu hystyried yn enwog; ond yr oedd rhywbeth mwy uchelddysg yn y wyddoniaeth, yn y tri bardd a nodwyd, nag yn neb arall yn Neheudir Cymru. Dichon fod amryw o'r beirdd diweddaraf yn ddysgedig, ïe, yn fwy dysgedig na dau o'r tri, yn yr ieithoedd meirwon; ond yr oedd ynddynt rhywbeth ar ol—nid oeddynt yn dyfod i fyny â'r hen feirdd yn nysgleirdeb a nerth eu hawen, nac yn ngorpheniad eu gwaith. Y mae llawer o gynghaneddion yn nghyfansoddiadau y rhai a nodwyd, fel pe byddent yn y byd erioed; ac fel pe byddent i fod yn y byd am byth. Nid ellir eu gwellhau, ac ni welir cyfnewidiad arnynt yn oes y byd. Y mae ynddynt arwireddau tragywyddol o ran eu syniadau; ac y maent yn cynnwys y fath goethder mewn iaith a syniadau, fel y byddai yn rhyfyg i neb geisio eu gwellau. Y mae barddoniaeth y Deheubarth, er's blyneddau bellach, yn fwy cyffredin, ac yn fwy dïaddurn. Y mae lliaws o feirdd mân wedi codi tua'r gweithfaoedd, drwy lechu yn nghysgod y gynghanedd, heb wreichionen o farddoniaeth yn eu gwaith, er y dichon ei fod yn ddigon rheolaidd o ran cynghanedd. Y mae yn ymddangos yn hollol amddifad o athrylith; er fod y cleciadau ynddo yn ddigon cywir, nid ydyw yn meddu na nerth na swyn. Y mae yn cynnwys mwy o ymgais at bertrwydd nag at fawreddogrwydd; y mae yn fwy tueddol i ogleisio nag i synu.

Bu gwlad Môn yn enwog am ei beirdd yn nyddiau Goronwy Owain, Lewis Morris, a'i frodyr, y Bardd Coch, a Robin Ddu; ond ar ol eu marwolaeth, bu yr ynys dan gwmwl am flyneddau, heb o'i mewn ond ambell rigymydd yma ac acw. Y mae wedi gwella yn ddiweddar.

Y mae sir Ddinbych yn meddu ei beirdd er dyddiau y brenin Charles I., ond eu bod yn fwy o ddyrifwyr nac o awdlwyr. Yr oedd William Wynn o Langynhafal yn eithriad; canys yr oedd efe yn deall y rheolau yn dda, ac yn fardd o'r radd uchaf, megys y dengys ei Gywydd y Farn; ond brodor o Feirion ydoedd efe, y mae yn debygol. Y blaenaf ar restr beirdd sir Ddinbych oedd Huw Morris; efe oedd y tywysog yn y sir yma fel dyrifwr. Daeth ar ei ol ef, Jonathan Hughes, Llangollen; Hugh Jones, Llangwm; Thomas Edwards, o'r Nant; J. Williams, Llangar; D. Jones, Rhiwabon; J. Jones, Glan y Gors; R. Davies, Nantglyn; R. Jones, argraffydd, Dinbych; John Parry, Llanelian; Edward Jones, Maes y plwm; a lluoedd eraill o rai ieuengach; amryw o ba rai sydd yn fyw hyd heddyw.

Ni chododd cynnifer yn sir Fflint ag a fuasid yn ddysgwyl. Rhai oddiyno oedd John Owen; J. Roberts, Hersedd; a'r Parch. J. Humphreys; bu un Dafydd Jones, yn Nghilcen; W. Edwards, yn Ysceifiog; J. Blackwell, yn y Wyddgrug; y Dryw, yn Bodfari; un o Gaerwys oedd y diweddar Barch. T. Jones, Dinbych, hefyd; ac yr oedd yno gynt, un Edward Jones, Bodfari.

Ychydig o feirdd a gododd yn Maldwyn erioed, heblaw William Owen, Trallwm; Walter Davies; ac ychydig sydd yn fyw heddyw. Ac ychydig yn Meirion yn ddiweddar, heblaw Rhys Jones, o'r Blaenau; Rowland Hugh, y Graienyn; Tegid; J. Pugh, Dolgellau; Dafydd Ionawr, ac Ieuan Gwynedd. Bu cryn haid o fân feirdd tua Dolgellau ddeng mlynedd ar hugain yn ol, ond ni ddaeth unrhyw un o honynt i fawr o enwogrwydd. Bu Elis Wyn, o Lasynys, a'r Archddiacon Prys, ac eraill, yno gynt.

Sir Gaernarfon sydd wedi bod yn eisteddle yr awen am flyneddau lawer bellach. Yma y cododd, yn ddiweddar, Gutyn a Gwilym Peris; Dafydd Ddu; Ieuan Lleyn; Sion Lleyn; Sion Wyn, o Eifion; Hywel Eryri; R. ab Gwilym Ddu; Gwyndaf Eryri; Dewi Wyn, a Pedr Fardd; heblaw y rhai sydd yn fyw yn bresennol; ac yr oedd yr awen yn ddysglaer ac yn enwog yn eu mysg. Y mae yn debygol fod meithriniad y ddawn yn dibynu llawer ar yr annogaeth fydd dynion yn gael; ac ar ysbryd y wlad lle byddo ymgeisydd am le yn nheml yr awen yn byw. Heb hyn, y mae yn ddiddadl y claddesid beirdd enwog Arfon cyn eu gweled; megys y claddwyd lluoedd, a allasent fod yn feirdd, heb i'r byd erioed gael golwg arnynt. Oni buasai fod ysbryd y gân yn byw yn Lleyn ac Eifionydd, ni ddaethai beirdd gorchestol y parthau hyny byth i'r golwg.

Y mae yn syndod hefyd fel y mae y beirdd yn lliosocach ar brydiau gydag un enwad na chyda'r llall. Flyneddau yn ol yr oedd Williams, Pant y Celyn; Sion Lleyn; John Humphreys, Caerwys; T. Jones, Corwen; Edward Jones, Maes y plwm; T. Jones, Dinbych; Pedr Fardd; W. Jones, Cefn Berain; Iago Trichrug; R. Jones, o'r Wern; W. Owen, Trallwm; heblaw amryw sydd yn fyw, yn perthyn i'r Methodistiaid: a'r Annibynwyr heb nemawr fardd "yn ol braint a defod beirdd ynys Prydain," nac o unrhyw urdd arall, yn eu mysg. Bu T. Jones, Pen y Waun, yn perthyn iddynt dros ychydig, ac yr oedd Thomas Williams, Rhes y Cae, ac amryw weinidogion, yn emynwyr. Erbyn heddyw y mae y beirdd yn brin ymhlith y Methodistiaid, ac y mae yn mysg yr Annibynwyr lu mawr. Ni fu yn mysg y Bedyddwyr nemawr feirdd heblaw Benjamin Francis; Dafydd Saunders, Merthyr; P. A. Mon; a Dewi Wyn, yr hwn a drochwyd ychydig cyn ei farwolaeth. Ewyllysiwr da iddynt oedd R. ab Gwilym

Ddu, gwr oedd yn barnu mai y Bedyddwyr sydd yn eu lle, ond heb ufuddhau! Yr oedd tuedd gref at farddoniaeth yn Gomer, a chyfansoddodd gân ddwys ar ol ei fab. Ni wyddom am nemawr Wesleyad yn fardd ddeugain mlynedd yn ol, oddigerth John Parry, Llanelian, yr hwn oedd yn tueddu at y Wesleyaid: y mae rhai yn bresennol yn mysg yr enwad hwnw. Bu yr Eglwys Sefydledig yn gyfoethog o feirdd yn yr oesau sydd wedi myned heibio. Gallai hi ymffrostio yn ei Goronwy Owain; Ieuan Brydydd Hir; Edward Richards; William Wynn; Walter Davies; Tegid; ac amryw sydd yn fyw heddyw. Dichon ein bod wedi anghofio amryw, ond y mae yr hyn oedd genym ni mewn golwg wedi ei brofi; sef, fod mwy o feirdd ambell waith yn perthyn i'r enwadau crefyddol.

Nid oes dim yn ymddangos i ni yn ynfytach na thybiaw fod y naill ddyn wedi derbyn yr awen yn y dull y darluniai yr hen feirdd, gan olygu fod y naill ddyn yn fwy yn ffafr y dduwies na'r llall. Marchogodd prydyddion ar gefn y wlad gyda'r dyb ofergoelus yma am flyneddau, a derbyniasant fwy o sylw nag a haeddent ar y cyfrif hwn; ond fel y mae y byd yn cael ei oleuo, y mae pob breuddwyd ac ofergoeledd yn diflanu. Yr "Olyniaeth Apostolaidd" sydd yn dyfod yn lle hyny yn bresennol, ond nid ydyw hwnw yn cael ei ddal ond yn mysg dau ddosbarth; sef, yr Eglwyswyr mwyaf penwan, a rhai o'r rhai mwyaf dichellgar o lanciau yr urdd. Y mae y cyntaf yn ei gredu fel pe byddai yn ysgrythyrol; a'r lleill yn cymeryd arnynt ei gredu er rhyngu bodd i ryw blaid, ac er codi eu hunain i fwy o barch ymhlith yr uchel Eglwyswyr penwan. Nid oes ond un o'r ddau beth uchod i'w ddyweyd dros y fath ynfydrwydd.

Y mae y ddadl ynghylch pa beth sydd farddoniaeth yn parhau yn Nghymru er's blyneddau. Y mae dau ddosbarth neu dri o brydyddion ar y maes yn y dyddiau yma; sef, ambell un o'r hen ysgol sydd am gael gan y wlad gredu mai mewn cynghanedd, sef cael y cydseiniaid i ateb i'w gilydd "yn gryfion," y mae enaid barddoniaeth. Eraill a haerant nad oes a wnelo gwir farddoniaeth â mesur neillduol—fod gwell barddoniaeth yn y mesurau rhyddion nag mewn unrhyw fesurau eraill; ond yn anffodus, y rhai na allasent erioed feistroli y cynghaneddion, na gwneyd nemawr orchest ynddynt, yw y rhai gwresocaf dros y Bryddest. Yr ydym ni yn barod i addef fod barddoniaeth i'w chael yn y mesurau caethion a rhyddion; ond fod mwy o goethder wedi ymddangos hyd yma yn y mesurau caethion, lle mae campwr yn eu defnyddio. Y mae yn gofyn i'r meddwl fod dan ddysgyblaeth hir cyn y gall bardd eu harfer yn naturiol; a meddyliem mai y rhai cymhwysaf i fynegu eu barn ynghylch teilyngdod barddoniaeth yw y rhai a allant feistroli y ddau ddull o farddoni, ac nid rhodreswyr, rhag ofn i'r rhai a'u beiant gael eu gosod yn nosbarth y llwynog a'r grawnwin. Nid oes dim yn farddoniaeth, gan rai o'r pryddestwyr, ond yr hyn sydd yn greadigol; ond y gwirionedd yw mai nid peth yn dibynu ar ddychymyg dynol yw barddoniaeth. Gwirionedd byw yw y farddoniaeth uchaf—cyffredinol ac anghyfnewidiol—y mae yn gyfoediog a chreadigaeth, oblegid delw Duw ydyw yn adlewyrchu yn ei waith. Nid ydyw y bardd mwyaf gwirioneddol yn greadigol,[1] fel y dychymyga rhai; nid ydyw ef ond un sydd sydd yn gweled ac yn teimlo yn ddyfnach nag eraill. Y mae efe yn edrych o'i gwmpas ar ryfeddodau y bydysawd, y mae yn treiddio i holl gelloedd y galon ddynol, ac y mae

[1] Chambers.

pob peth da yn llefaru wrtho ef am wybodaeth aruthrol a chariad anhysbyddedig. Gosodir y gwir fardd allan, weithiau, fel un sydd yn ymdrechu bob amser gael gafael yn y pur a'r perffaith; a pha beth sydd burach na chariad anfesuradwy, neu beth sydd berffeithiach nag anfeidrol ddoethineb? Dyma y meddylddrych dwyfol am athroniaeth wirioneddol—Duw yn mhob peth, fel creawdydd a chynnalydd yr holl fydysawd. Y mae math arall o brydyddiaeth llai dwyfol; sef yr hon sydd yn olrhain priodoleddau dynol a'u dadblygiadau. Y mae hyn, er nad yw y radd uchaf a all natur ddadguddio, yn wir farddoniaeth. Fel yma y mae dynion wedi teimlo eu llawenydd a'u gofidiau, eu hymdrechion a'u buddugoliaethau. Mewn gair gellir dyweyd mai gwirionedd wedi ei ysbrydoli gan deimlad, ac wedi ei anadlu i ffurfiau o brydferthion ac arucheledd, yw prydyddiaeth. Ond i ddychwelyd at ein testun.

Ganwyd gwrthddrych ein sylw mewn tŷ a elwid Tan yr Ogof, yn y Garn, Dolbenmaen, sir Gaernarfon, Medi 17, 1775, a bu farw y Sul olaf yn Ionawr, 1845. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd, yn Mryn Engan, pan oedd yn ddeg oed. Yr oedd ynddo chwaeth at farddoniaeth er pan oedd yn blentyn bychan. Yr oedd ei dad yn rhyw fath o brydydd. Y mae y bardd yn son am dano yn ei gywydd "Anerchiad i Dewi Wyn, a Robert ab Gwilym Ddu;" sef,—

"Rhyw anghelfydd brydydd brau
O Eifionydd wyf finau.
Fe'm ganwyd o fam gynil
O fewn hon wyf un o'i hil:
A phrydydd hoff ei rediad
Addfwyn o hon oedd fy nhad."

Wele yn canlyn ddau bennill o waith ei dad; sef, y cyntaf a wnaed yn erbyn y meddwdod a'r annuwioldeb ar nos Suliau oedd yn y pentref lle yr ydoedd yn trigo. Ymddengys fod gan dad Pedr gryn ddylanwad yn y pentref crybwylledig. Cafodd gan ŵr y dafarn yno ddodi y pennill canlynol ar ddrws y seler:—

"Ni chewch wrth eich pleser fy seler y Suliau,
'Rwy'n gwaeddi 'n garedig am guddio 'r 'goriadau,
Rhag ofn y daw drygfyd am ben fy holl drigfan
Oddieithr ymatal oddiwrth rhyw lymeitian:
Mae ynof ryw swmbwl fod neb yn fy siamber
Yn meddwi nos Sabboth mewn moddion ansyber.
Mae blys ar fy nghalon a'm dwyfron mewn difri',
Gael tro mewn llawn gobaith ar bentref Llangybi."

Cwynid wrth dad y bardd fod llawer o eiriau masweddol a llwon yn cael eu harfer yn y pentref; llwyddodd yntau i gael gan y gof ddodi y pennill canlynol ar ddrws yr efail:—

"Mewn chwedlau digrifwch arafwch yn 'r efail,
Rhag bod uwch ben 'r aelwyd mewn caethrwyd i'r cythraul.
Ymdaeru bryd arall mor angall a'r engan,
Am rywbeth mor ddyfal na thal o werth hoelen:
Mewn siarad yn ofer bydd llawer o'r llwon,
Yn graig o ynfydrwydd a geiriau go fudron.
Gobeithiaf ceir dynion i fodlon sefydlu
Duwioldeb heb gaethder i'w wel'd yn mhob gweithdy."

Dywedir fod y ddau bennill wedi peri cryn ddiwygiad yn y pentref. Er nad oedd tad y bardd ond yr hyn a elwir rhimynwr, eto yr oedd

iddo ef gael ei fagu dan ei gronglwyd yn gryn fantais i Pedr ieuanc; ond nid hir y bu efe heb dra rhagori ar ei dad yn nirgelwch a chywreindeb y wyddoniaeth farddonol. Dywedir iddo wneyd yr englyn canlynol i'w chwaer pan ydoedd oddeutu wyth oed:—

"Fy chwaer sydd ferch daer a dig—un 'stormus,
Rhyw sturmant anniddig,
Er bwrw ia a barig,
Myn hon gael 'menyn neu gig."

Os efe a'i cyfansoddodd, ac os fel hyn y cyfansoddwyd ef ganddo, y mae yn rhaid ei fod yn deall rheolau barddoniaeth yn dda y pryd hwnw.

Galwodd Dafydd Ddu, o Eryri, yn nhŷ ei dad, pan oedd y bardd tua phymtheg oed, a gofynodd iddo gyfansoddi englyn i'r mis, sef mis Ionawr. Gwnaeth yntau yr englyn canlynol allan o law:—

"Och! Ionawr, aml ochenaid,—o'th achos,
A thuchan wna'r gweiniaid;
Cwyno herwydd ia canaid
Oer hin a rhew blin wna 'r blaid."

Gwnaeth Dafydd Ddu un yn atebol iddo, gan ei ganmawl; ond nid ydyw yr un a welsom ni, sef yr un a briodolid iddo, yn debyg iawn i waith arferol y campwr hwnw. Cafodd ein bardd ei fagu mewn llenyddiaeth a chrefydd ar yr un pryd. Yr oedd ei gelfyddyd yn ffafriol iawn iddo i ddiwyllio ei feddwl. Ni wyddom yr amser y symudodd i Lerpwl; ond gwyddom rywbeth am ei lafur yno fel crefyddwr, bardd, a llenor. Daeth i ddeall Seisoneg yn rhagorol. Gallai gyfansoddi yn yr iaith hòno gyda chryn ddestlusrwydd. Cyhoeddwyd amryw lyfrau ganddo heblaw "Mel Awen," sef ei waith barddonol. Safai yn uchel fel Cymreigydd a bardd yn ei oes. Ysgrifenodd lawer i'r cyhoeddiadau Cymreig, ar eu cychwyniad cyntaf allan; megys, "Seren Gomer," "Goleuad Gwynedd," &c. Ni restrid ef yn uchel o ran ei feddyliau gwreiddiol; yr oedd cryn lawer o fedr ganddo i droi peth i wawd a dirmyg; yr oedd ei arabyddiaeth (*wit*) yn llym. Gwnaeth i lawer un o'r rhai a syrthiodd dan ei ddwylaw, deimlo yn ddwys pan osodai efe hwynt yn y rhigawd, megys y tystia amryw o'i gyfansoddiadau. Yr oedd ei iaith ef yn dda, ei gynghanedd yn goeth, a'i chwaeth yn uwch na llawer o'i gyfoedion. Yr oedd efe yn fanwl hyd at fod yn feius o'r braidd. Gwanychodd lawer ar ei gyfansoddiadau trwy orfanylwch. Yr oedd efe yn gampwr yn y gynghanedd, ac yn un o'r rhai mwyaf anhawdd ei foddhau yn ngweithiau eraill, o neb yn fyw; ond gyda 'r iaith a'r gynghanedd yr oedd efe yn cymmeryd y drafferth fwyaf. Y wisg, ac nid y peth a wisgid, oedd yn cael mwyaf o'i sylw. Gwnaeth bethau cywreiniach yn y gynghanedd na neb yn ei oes, megys y dengys "Mel Awen;" ac yn eu mysg, y mae "Egwyddor y Beirdd, neu Reolau Barddoniaeth Gymreig, yn cynnwys cynlluniau o'r pedwar mesur ar ugain, a phob un yn ei fesur ei hun." I'r rhai sydd yn deall y rheolau, ymddengys yr awdl hon yn gywrain dros ben. Rhaid ei fod wedi cymeryd amser hir i'w chyfansoddi—nid ar destun yn y byd, ond ar natur y mesurau, eu hyd, a'u dull. Ychydig iawn o eiriau llanw sydd ynddi hefyd, ag ystyried mor amddifad o destun oedd y bardd; ond yr ydym ni yn meddwl y gallasai gŵr o'i wybodaeth ef ddefnyddio ei amser i well dyben nag i gyfansoddi yr awdl gywrain hon. Nid ydyw yr awdl nesaf ati fawr well o ran ei natur a'i theithi; math o "Amddiffyniad i Gerdd Dafod, ac Anerchiad i'r

Beirdd," yw hòno. Ni chaiff y neb sydd heb ddeall dirgelion y gynghanedd fawr fwy o ddyddordeb wrth ddarllen hon na'r llall; ac yn enwedig y Pryddestwyr sydd wedi dedfrydu y Gerdd Dafod i ddinystr. Yr oedd ef yn cael hyfrydwch mawr yn ddiammhau wrth osod yr awdl hon ar bapyr; ac yr oedd yn canfod y rhai a wrthwynebant orchest gampau y beirdd Cymreig yn deifio o flaen ei anadl yn yr englynion canlynol:—

"Cerdd dafod hyglod a'i heglur—fydrau
 A fedrwn i'n cysur;
Nid oes fawr na dwys fesur
O un baich i awen bur.

Nid beirddion mwyndon meindant—mal ŝos
 Mo lawer a ganant,
Poen i'w brodyr pan brydant;
Nid enwog yw dyn o gant.

Ar wych ystwyth orchestion,—rhai farnant,
 Rhyw ofernaws ddynion;
Ofer nwydus feirniadon,
Gwarddu o lid y gerdd hon.

Pwy a wyr flas puraf wledd,—gwiw archwaeth
 A gorchest cynghanedd,
A hyrddiai gân hardd ei gwedd,
Dro annoeth, draw o Wynedd?"

Cywreinwaith heniaith yw hi—ucharwydd,
 A choron y cerddi;
Iach i'w hoenfron wych henfri,
Gwin a mel yw 'r gân i mi."

Y mae yr awdl hon yn dlws ac yn gywrain drwyddi. Y mae y dernyn canlynol, yn yr hwn y dechreuir â llythyrenau gwreiddiol yr egwyddor, oddigerth un gwall sydd ynddo, yn gywrain dros ben:—

"Awen bur eon barod,
Beraidd gu da fu dy fod.
Canaf ei chlod hynod hi
Chwarddaf wrth wrando 'i cherddi,
Diwael adrodd diledryw
Ddoniau hon, rhadlon ei rhyw.
Emynau, gwawdiau gwiwdor
Fwriodd ei llais o feirdd llon.
Ffraeth ei genau, ffrwyth gwinwydd
Geir o hon; a gwiw y rhydd
Hedegog ardderchog ddawn,
Iraidd dduwies oreuddawn,
Lan oreuglod, hynod haedd;
Llu a'i car llai a'i cyraedd.
Minnau gefais mewn gafael
Naws hon a'i thirion iaith hael.
Oes ynof eisiau anian?
Profais a theimlais ei thân.
Rhaid addef rhed y wiwddawn
Swynawl wych yn seiniol iawn.
Tarddodd o honot urddas
Uwch y cwyn i iachau cas,
Wrth ei thrin efo 'r min mau,
Ymlynaf â'i mel enau."

Yr awdl nesaf yn ei gasgliad yw "Marwnad er coffadwriaeth am ei Breninol Uchelder, Charlotte, Tywysoges Cymru, yr hon a fu farw Rhag. 6, 1817." Ni ddywed y bardd pa un a fu hon mewn cystladeuaeth ai peidio. Y mae yr awdl, o ran ei chyfansoddiad, yn gywrain; ond nid oes ynddi fawr o arwydd teimlad. Y mae yn rhy debyg i gyfansoddiad a'r awen wedi ei gorfodi i'w ddodi wrth ei gilydd. Y pethau mwyaf nodedig ynddi yw cywirdeb y cynghaneddion a phurdeb yr iaith.

Drwg oedd genym weled y toriadau ffigyrau canlynol yn yr awdl:—

"Ei unig ferch enwog fodd
Fachludodd o fuch wladol."

Seren, lloer, neu haul sydd yn machludo.

"Ba les aur neu bethau 'r byd.
Us yw 'r rhai'n a ysa rhwd.

Nid rhydu y mae us. Y mae y pennill canlynol yn dlws:—

"I goed a gerddi äi gyda gwawrddydd,
A'i gwiw wr enwy yn gu arweinydd;
Eu bywyd unawl bu eu dywenydd,
Mor wych eu gweled y mreichiau 'u gilydd:
Meillionog ddeiliog ddolydd—a gerddent
A rhodio fynent ar hyd afonydd."

Dichon y dadleua rhywrai yn erbyn y "rhodio ar hyd afonydd;" ond y mae yn debyg mai yr hyn a ddeallir yn gyffredin wrth rodio a olygai y bardd, sef myned oddicartref er cael mwynhad.

Y mae yn yr awdl "Haeddedigaethol Goffadwriaeth am Hynafiaid y Cymry," rai ergydion pert, ond nid oes ynddi fawredd nac egni, megys y gwelir wrth y dyfyniadau canlynol:—

"Cawr hoew ydoedd Caradog
Ap Bran lon, ddwyfron ddifreg,
Nid ofna ef na dwfn wg,
Na iau Rhufain na'i rhyfyg.

Arthur hyf a'i gleddyf glas,
Dewr iawn bryd a'i darian bres,
Diegwan oedd dug yn is
Elyn dig ffyrnig i'r ffos.
Y Saison â bron heb rus
Gyrai draw i gwr y drws;
Ddiriaid oer fleiddiaid ar flys.

Cywir oedd ac o'i wreiddyn
Cu o ryddid, cawr addien.
Cu roddwr—curai widdon;
Cai yr addig geryddon.

Llew olwg oedd Llewelyn
I'r arth o Sais Iorwerth syn;
Sawdwr sydyn
O fro i fryn.

A'i frawd caid o fwriad certh
Rhoes Iorwerth mewn rhus erwin:
Gawr difeth gyrai Dafydd
O'r bronydd wyr y brenin.

Glan dwr glun dew,
Gwladwr gloewdew;
Gwnai ar Sais arwlais oerlew,
E eilliai flaidd hyll ei flew."

Nid ydym yn teimlo y ddaear yn siglo dan ein traed, nac yn teimlo ein gwaed yn cynhyrfu nemawr wrth son am y cymeriadau cethin sydd yn y llinellau hyn. A phan y crybwylla y bardd am

"Harri 'r Modur gwych benadur
Neud o Tudur a'n datoda,"

am yr hwn y dywed—

"O afaelion y gwyr trawsion
I fyw 'n rhyddion ef a'n rhoddai.

Maeddodd goryn
Llwyd ei gopyn, llidiog epa;
Lladdodd Risiart
Trwyn y llewpart torai 'n llipa."

Nid ydym yn cael ein rhoi ar ddeall fod rhyw orchest fawr, gwerth son llawer am dani, wedi ei chyflawni. Y mae y cydseiniaid yn ateb eu gilydd yn dda; ac y mae y plethiad heb dwll na balc; ond yr oedd arnom eisieu rhywbeth mwy na hyn gan Gymro yn Gymraeg. Nid ydyw y cyfansoddiad ond adroddiad llyfn, menywaidd, am y "llewpart," heb ddim i gynhyrfu nwydau y darllenydd. Beth pe buasai y bardd o Avon, neu Byron, yn ymwneyd rhywbeth â'r cymeriadau hyn? Y fath losgwy difaol fuasai yn ei eiriau, a'r fath ddaeargryn yn ei ymadroddion! Prin y gallesid darllen ei ddarluniad heb i ddyn fod yn ymyl colli ei anadl. Y mae ein bardd ni yn boddloni ei hun yn swn ambell linell ffraeth, wedi ei saernïo yn ffurf y gynghanedd, heb ymdrafferthu am ddim uwch drwy yr holl awdl. Ceir mwy o wir farddoniaeth ar ddalenau "Drych y Prif Oesoedd," nag a geir yn yr awdl hon. Ar ol myned drwy faes y gwaed, a'r ymladdfaoedd am

ryddid, mal pe buasid yn llithro drwy ddol feillionog ac esmwyth, y mae y bardd yn dyfod at y rhan feddyliol o orchestion—

"O wlad irwedd olau y dwyrain
Y wawr ehedodd ar ei hadain.
Gau grefydd goeg o Rufain—diflanai
A chyd adfeiliai ei chwiwdawd filain.

Gwelwyd adwedd i'n gwlad wywedig
Duw a gododd o'r Diwygedig
Amryw frodyr mawrfrydig; gwladgarwyr
A da iach awdwyr nid ychydig."

Yr oedd rhywbeth mwy na "Gau grefydd goeg o Rufain," i'w fynegu am waith y dyn pechod, a phe yr aethai Charles Edwards, awdwr "Hanes y Ffydd," at y gorchwyl, gwnaethai i ni wybod hyny; ond y mae ein bardd mor ddof, ac mor esmwyth, a phe ni fuasai ganddo ond rhyw adroddiad i'w wneuthur am orchestion *Punch and Judy*, ar un o heolydd Llynlleifiad. Yr oedd rhywbeth "coeg yn diflanu" o flaen y wawr o'r dwyrain, a dyna'r cwbl:—

"Ffrwythlon mewn dynion doniawl—gan addfed
Gyneddfau galluawl,
A chryd celfyddyd fuddiawl,
Fu'm gwlad hon o fwyn glod hawl.

O hen awduron hynod eiriau
Caf waith odiaeth cyfieithadau;
Ragorol efryd rhai geirlyfrau
Grym diwygwaith a gramadegau,
Duwineb ffraetheb a ffrwythau—pob dysg
O iaith ddigymysg a theg emau.

Gwilym Salsbri gwr o fawrfri,
Sydd i'w enwi a'i swydd uniawn,
E gaiff hir goffad;
Gwir les gwyr ei wlad
Fu ei dueddiad a'i fad wiwddawn.

Gwilym Morgan wiwlan eilwaith,
Hael ei fwriad a'i lafurwaith;
Drwy eu gofal i'w droi 'n gyfiaith
Gair yr Ion a geir ar unwaith.

E gaed doethion gyda hwythau,
A phur enwog offerynau,
Parri drylan, pur hydr olau,
A rhai ereill o'r rhyw orau.

Edmwnd Prys felus fawliaith—mae 'n fuddiol
A hynod lesol ei hen dloswaith;
Salmau emynau mwyniaith—a ganodd;
E rywiog eiriodd ei ragorwaith."

Pe ei dyfynid hyd i'r diwedd, ni cheid ond yr unrhyw farweidd-dra digyffro fel dyfroedd camlas. Y mae yn wir na cheir dim i ddigio chwaeth, nac i gynhyrfu soriant yn ael neb, ac y mae mor wir a hyny na cheir dim help i daflu y meddwl yn ol at y drych sobr oedd ar y deyrnas yma cyn i oleuni gwir grefydd ddyfod i fysg y trigolion; pan oedd nos yn gorwedd ar y wlad o gwr i gwr, a neb yn chwennych iddi fyned yn ddydd, ond ychydig eithriadau, megys y nodwyd. Yr oedd cyfieithiad y Bibl yn gyfnod mwy nodedig na gwawriad y Milflwyddiant; ac y mae gweled bardd Cristionogol yn gollwng hanes peth mor bwysig drwy ei ddwylaw mor ddifater, a sychlyd, yn anfaddeuadwy. Golyger fod rhyw wladwr cyffredin

yn cymeryd "Mel Awen" yn ei law, ac wedi darllen teitl yr awdl hon, yn meddwl cael rhyw eglurhad ar y testun; mor fawr fyddai ei siomedigaeth wrth chwilio am y cnewyllyn, gan na fedd unrhyw chwaeth at gnoi plisg. Yr oedd gan ein hawdwr, faes helaeth o'i flaen, trin yr hwn yn briodol, a greasai syndod mewn oesau dyfodol.

Y mae amryw ganiadau yn dilyn yr awdl yma, nad oedd unrhyw briodoldeb yn eu dodi mewn llyfr; o herwydd nad ydynt yn dal perthynas ond â rhyw fân "ryfeloedd papyr" y bu yr awdwr ynddynt ar faes "Seren Gomer;" megys "Cwyn y Bardd;" "Arlwydd a dyrnodiau i ddyrnodwyr Morthwyl ap Eingion." Gallasai y llyfr wneyd y tro hefyd heb "Anerchiad i Anrhydeddus Gymdeithas y Cymreigyddion;" "Awdl gadwynodl orchest i Gomer a'i 'Seren;'" "Cwyn yn erbyn dadl grefyddol yn 'Seren Gomer;'" "Ymryson rhwng dwy chwaer, Deheubarthes a Gwyndodes;" "Anerchiad i Evan Evans, y Bardd, isolygydd 'Goleuad Gwynedd.'" Y mae y caniadau hyn yn hollol anamserol yn y dyddiau yma; oblegid ni ŵyr un o gant ddim am yr amgylchiadau a'u hachosodd. Pan ddaethant allan gyntaf, yr oeddynt yn dra effeithiol; ac fe'u darllenid gydag awydd ar gyfrif y pertrwydd a'r dychan sydd ynddynt; ond nid allant ddyddori neb yn bresennol, ond yr ychydig feirdd sydd yn cofio yr ymrysonau a fu.

Y mae "Anerchiad y Pedolwr i Thomas Gwynedd," agos o'r un natur a'r rhai a nodasom eisoes; ond yn englynion yr awdwr, lle y mae yn dangos leied o gefnogaeth y mae athrylith yn ei gael, y mae yn fwy cyffredinol. Y mae y rhai hyny yn werth eu darllen, oblegid y maent yn amlygiad o'r parch prin a roddir gan fydolion i blant athrylith tra byddont byw. Gwrandawer y bardd:—

"Ha was, ai Tomas wyt ti—a godwyd
I gadair uchelfri?
Minnau sydd yn min soddi;
Tan y dwr y'm tynwyd i.

Gwyddon Addiant gâdd noddwyr—a chedawl
Warcheidwaid o'i frodyr;
Nid beio 'i waith, ond bu wyr,
I'w ber awen obrwywyr.

* * *

Ni chefais innau uwchafiaeth—na ched
Na chodiad ysywaeth;
Mwyn nawdd am awenyddiaeth,
Ar un pwnc neu lwnc o laeth.

A fu'r ddawn o farddoni—o un lles
A llaesiad i'm cyni?
Dwy geiniog i'm digoni,
O les hon ni welais i.

Mewn brywes mwyn ber awen—eres hael,
Ni roes im' fy halen;
Trengaf cyn y tyr angen,
Nag y rhydd geiniog i'r hen."

Y mae "Atebiad Thomas Gwynedd;" "Anerchiad Mair Gwynedd i Pedr Fardd;" "Atebiad i Anerchiad Mair Gwynedd;" "Arwyrain Orchestol i Gawr Mon;" "Anerchiad i Gwilym Aled;" ac "Anerchiad i Dewi Wyn a Robert ab Gwilym" yn dilyn. Y mae yn yr "Anerchiad i Gwilym Aled," gyfeiriad at waith Pedr yn cadw ysgol:—

"Och yn f' einioes na chawn fwyniant—ysgol
  A wasgai fardd methiant;
Gyda blin giwed o blant,
Egwan weithian y'm gwnaethant.

Lleisiau ni ewyllysiwn—i'm dotiaw
  O'm deutu fel cacwn;
Boddi mewn nadau byddwn,
Nychais i gan wich a swn.

Gwaeddi A, B, mawr gri mor groes—hyll wbain
  A sillebu trachroes;
I'm pen yr acen a roes,
Hallt ias a holltau eisioes.

O'r dwndwr a'r syfrdandod—y mynych
  Ddymunais rhyw gysgod;
Nid oes bardd yn dewis bod,
Yn nirfawr swn anorfod."

Gan fod anerchiad beirdd Arfon yn dal perthynas â dau mor enwog, ac a'r bardd ei hunan a'i wlad, a'r cyfan wedi ei eirio mor dlws, maddeuir i ni am ddodi dyfyniad o'r cywydd yn y "Traethodydd." Y mae yn hwn fwy o wir farddoniaeth na dim a gyfarfuom eto yn ei lyfr. Dichon fod mynediad y bardd i Lynlleifiad, o wlad y beirdd, ac oddiwrth y golygfaoedd mawreddog a gaffai ddyddiau ei ieuenctyd, wedi effeithio yn fawr ar ei awen, nes ei wneyd ef yn fwy sychgras nag y buasai pe buasai yn yfed o awyr iachus Eifionydd. Y mae rhyw sychder rhyfedd yn y trefydd, ac yn nghynnulleidfaoedd crefyddol y trefydd, rhy anhawdd i neb roddi cyfrif am dano. Bydd yn chwith genym weled dynion â gwynebau Cymreig ganddynt, dwylaw Cymreig, a ffurf Gymreig ar eu cyrff, a'u tafodau heb allu dyweyd hanner dwsin o eiriau Seisonig yn nesaf at eu gilydd, heb fod yn ddigon amlwg i bawb mai yn rhywle tuag ardal y Foty y cawsant eu magu, yn medru gweithio eu hunain i ddull mor sych wrth wrandaw yr efengyl, a phe byddai y genadwri yn cael ei thraddodi wrthynt yn iaith China. Ni synem gymaint at waith y Cymry yn ceisio dynwared y Seison yn eu haddoliadau, pe byddent hwy yn meddu ar ddealltwriaeth a chwaeth y rhai hyny o blith y Seison fydd yn arfer a gwrandaw yr efengyl; canys ychydig iawn o'r dosbarth y gwneir cynnulleidfaoedd Cymreig o honynt, sef y dosbarth gweithiol, sydd yn arfer a myned i leoedd addoliad yn mysg y Seison. Y mae eu cynnulleidfaoedd hwy yn cael eu gwneyd i fyny mewn rhan fawr o bobl sydd yn troi mewn cylchoedd uchel, a llawer o honynt yn ddarllenwyr ac yn feddylwyr, yr hyn nid ellir ei ddyweyd am y nifer fwyaf o'n cynnulleidfaoedd Cymreig yn Lloegr. Nid ydyw y Cymry yn y trefydd, oddigerth yr ychydig eithriadau a gafodd ddygiad da i fyny mewn ysgolion yn Nghymru, ac a gawsant droi mewn cylchoedd parchus yn ngwlad eu genedigaeth, ond go debyg o ran ansawdd y dyn oddimewn yn Lloegr, er yr holl fodrwyau a'r cadwyni, yr ysnodenau a'r sidanau a wisgant. Ychydig y maent yn ddarllen o ddim sylweddol, a llai y maent yn feddwl; gan hyny, nid all y sychder sydd yn eu dull yn gwrandaw yr efengyl, darddu oddiwrth eu bod yn gwybod gormod i ddyweyd "Amen," nac am eu bod yn ormod o philosophyddion i wylo dagrau wrth glywed yr efengyl yn cael ei phregethu yn hen iaith eu gwlad. Y mae yn rhaid fod y dynwarediad yma ar y Seison wedi costio cryn lafur iddynt ar y dechreu; ac ni ryfeddem na fu trigo yn mhlith dosbarth fel hyn yn achos mawr i

beri i'n bardd fod mor sych yn ei gyfansoddiadau. Nid oedd yn canfod dim ond tai ac ystordai yn yr heolydd; nac yn clywed dim ond trwst olwynion certi a charnau meirch yn ymryson â dannedd y palmant garw; a phan elai allan, nid i'r wlad yr elai, i wrandaw sain ber telynorion y llwyni, ond i dŷ rhyw gymydog, y mae yn debyg, neu i'r addoldy, a hwnw yn fynych fel gwlad y sychder mawr. Wrth ystyried pob peth, y mae yn syndod fod un wreichionen o awen wedi aros yn ei enaid, yn enwedig gan fod yn rhaid iddo ymdrechu am ei fywioliaeth ar hyd y dydd, yn nghanol twrf yr "A. B. mawr gri mor groes." Y mae amlygiad o deimlad cryf yn y darn cywydd:—

"Fy hen serchawg, fryniawg fro,
Ni chaf ond prin ei chofio;
Nid yfir o Dwyfawr[1] iach,
Darfu difyr dwrf Dwyfach.[1]
Aeth y Garn ymaith o gof—
Bryn Engan bron i anghof:
Ac nid oes am oes i mi
Un gobaith am Langybi.
Fy enaid am Eifionydd
Mewn hiraeth ysywaeth sydd.
Llawn llafur yw Llynlleifiad;
Cyfyng loes yw cofio 'ngwlad.
O, fy anwyl Eifionydd!
Pan wneir ei son, poen arw sydd:
Gloew a diwag wlad awen,
A da wlad hael i dlawd hen.
I'r Bettws ar wib atoch,
Neu'r Gaerwen hoff lawen ffloch,
Mynwn gyrch am un nawn gwag;
Llonwych fael, llanwech folwag
Mynwn friwsion i'm lloni,
Neu grawen o'ch awen chwi.
Mynwn win mwyn awen werdd,
Deheu byncian dau bencerdd.
Ond er na chaf dwrn â chwi
Y mad Eifion i'm dofi,
Boed llon ohebion i'w hau,
Chwi fwynion, cofiwch finnau.
Trwy blwyfyn try heb lafur
Ymddyddan neu gân o gur.
Gwawl awen fo'n goleuo
Pob dyffryn a bryn a bro."

Y mae y cywydd ar "Ddyn yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd," yn sylweddol ac yn dlws. Y mae ei syniadau yn esmwyth ac yn ysgrythyrol; ei iaith yn naturiol, a'i blethiadau yn gywrain; ond y mae yn fwy o hanes nag o farddoniaeth. Ar yr un testun y mae rhan fawr o "Goll Gwynfa," ond y mae cryn ragor rhwng y ddau lwybr a gymerwyd.

"Naf yw saer y nef seirian,
A daear fawr, lwyswawr lan;
Gwnai'r byd oll yn ddigoll dda,
Llawn oedd cyn llunio Adda:
Dyn er hyn oedd dan y rhod
Wycha' darn y chwe' diwrnod.
Pan wnaeth Duw Dad, o'i rad ras,
A'i law iddo le addas,
Ceir wedi'n i'r Creawdydd,
Yn rhad, o'i ddaioni rhydd,
Lunio dyn. O laned oedd!
Yn Eden uniawn ydoedd.
Gwnaeth gorff dyn o briddyn brau,
Cywreinwaith cu ei ranau;
Ond, diddadl, anadl einioes,
Nid daear hwn, Duw a'i rhoes:
Ai ef ei hun i'w fywhau
A phur anadl i'w ffroenau.
Ennynodd, rhoddodd y Rhên
Orwych enwog wreichionen;
Yna dyn yn enaid aeth,
Gwir degwch y gre'digaeth.
Rhoes Ner lawnder o lendyd
I'w gorff a'i enaid i gyd;
A rhoes gyfraith berffaith bur—
Un eto oedd a'i natur.
Uniawn ddeddf wedi greddfu
Oedd hon yn ei galon gu:
A deddf i'w holl gyneddfau
Rhag hoced a gweithred gau.
Ion a ddodes yn ddidwn
Wybodaeth helaeth i hwn.
Addfed amgyffred a gai,
Holl anian a ddarllenai.
Dwr a thud, awyr a thân,
Chwalai oll, chwiliai allan:
A gwyddai bob agweddion,
Maint y ser, dyfnder y don,
Llawr obry, a llu'r wybren,
Cylchoedd y bydoedd uwch ben.
Gwybod pur natur a wnaeth,
Ac uthr enwog athroniaeth,
O'r bydoedd i'r abwydyn:
Diball oedd deall y dyn.
Gwyddai'r hyn ag oedd rhaid
'Wyllys Ion, a llês enaid.
Nid oedd Selyf ddewrgryf ddoeth,
Doniawl, wrth hwn ond annoeth.

[1] Dwy o afonydd heirdd yn nghantref Eifionydd.

Gwaraidd ŵr a greodd Ion
Ar ei ddelw yn hardd wiwlon,
Yn gyfiawn uniawn enaid;
Dim anmhur na chur ni chaid.
Rhodiai mewn mawr anrhydedd,
Yn llun Duw ei hun a'i hedd.
Gwnaeth Duw Naf, glanaf ei glod,
Ag ef yma gyfammod.
Hynod gyfammod o fudd,
Os safai 'n ddilys ufudd.
Ammod hawdd y' mywyd dyn
Dan nef oedd Duw 'n ei ofyn.
Yn Eden un pren er praw'
A roddes Duw Ior iddaw:
Os daliai yn was dilyth,
Cai wynfyd a bywyd byth.

Rhyfedd greadur hefyd;
Ef is nen oedd ben y byd;
Yma rhoed y mawrhydi,
Neb cymaint ei fraint a'i fri.
Dewisodd Duw ei osod
Uchlaw mewn mawredd a chlod,
Ymlusgiaid, defaid dofion,
Y cadfarch glew, a'r llew llon,
Llewpard brych gwych ac ychain,
Dan ei droed y rhoed y rhai'n.

At Adda y tueddant,
O fodd i hwn ufuddhânt.
Rhai, perchen aden ydynt,
Bob yn ddau yn gwau mewn gwynt;
A llai ei swn, lliaws oedd,
Yn dewfrith yn y dyfroedd.
Dyn oedd ben, ef oedd frenin,
I'w crynhoi, eu troi, a'u trin.
Rhoddai hwn â rhwydd hynt,
Enwau addas iawn iddynt;
Enwau 'n arwyddo anian,
Tuedd a drych gwych a gwan.
Ond y dyn wed'yn ydoedd
Neillduedig, unig oedd.
'Doedd o'r bron un o honyn'
Addas i gymdeithas dyn.

Clywodd Ion, ei dirion Dad,
Gwyn o wall, a gwnai welliad.
Eb ef, 'Nid cymhwys yw bod
Adda 'n unig, ddyn hynod:
Lluniaf gywiraf gares,
Dyddan, wâr, lân, er ei les.
Tynaf wraig o tan ei fron,
Man o gil min ei galon:
Gwraig enwog rywiog anian;
Ymgeledd ryfedd i'w ran.'"

Y mae y cywydd yn lled wastad drwyddo, ond nid ellir mynegu fod y meddwl wedi cael ei gynhyrfu ar ol ei ddarllen, nac fod unrhyw syniad newydd wedi taraw y darfelydd. Y mae yn adroddiad digon cryno o ffaith a gredir gan bob un sydd yn credu ei Fibl; ond nid ydyw yn codi fawr fwy ar y meddwl na phe byddid yn darllen yr unrhyw ffaith mewn iaith rydd.

Sylwasom ar un tor iaith lled amlwg yn y cywydd; sef, "toreth" yn lle "toraeth." Os ydyw prydyddiaeth i gynnwys mwy na mesuriad silliadau a llyfnder geiriau, ac os ydyw y galon i gael ei phoethi gan fflam athrylith, rhaid i ni fyned i rywle oddiwrth gyfansoddiadau cyffredin Pedr i chwilio am hyny. Dylai barddoniaeth foddhau y dychymyg a chynhyrfu y teimladau yn nerthol; a hyny drwy dynu y darluniadau mwyaf bywiog o flaen y meddwl. Y mae gwir farddoniaeth yn ein hyrddio weithiau tu draw i derfynau barn sobr, ac yn caethiwo dyn yn hollol drwy gynhyrfu egni y nwydau. Dywed Dr. Blair, mai prif ddyben barddoniaeth, yw boddhau a symud; rhaid i'r bardd, gan hyny, siarad â'r darfelydd ac â'r nwydau. Gall ef, a dylai hefyd addysgu a diwygio; ond gwaith anuniongyrchol ydyw hyny iddo ef; ond drwy foddhau a chynhyrfu, y mae efe yn cyrhaedd ei nod. Golygir fod ei feddwl ef wedi ei fywhau gan ryw wrthddrych dyddorawl, yr hwn a dania ei ddychymyg, neu a gymer feddiant o'r nwydau, ac a rydd ddelw o ryw uchder neillduol ar ei ddullwedd, hollol briodol i'w feddylddrychau, a hollol wahanol i'w ffordd gyffredin o amlygu ei feddwl pan na fydd dan effaith unrhyw gynhyrfiad. Ond y mae rhediad holl gyfansoddiadau ein bardd, gyda phur ychydig o eithriadau, at ddysgu a diwygio; megys y gwelir yn ei gywyddau oll. Y mae y cywydd ar "Gnawdoliaeth Crist," fel pregeth ar y cwymp—yr addewid o Had y Wraig—goruchwyliaeth y patrieirch—goruchwyliaeth Moses—y daith trwy yr anialwch—y prophwydoliaethau am y Messïah—genedigaeth

y Ceidwad—ei fywyd hardd—ei ddyoddefaint mawr—a'i angeu poenus. Y mae y pethau hyn oll wedi eu gosod allan yn eithaf tlysni y gynghanedd, ac mewn iaith ddillyn; ond nid oes yn y cywydd oll ddim i gynhyrfu ac i synu y meddwl yn aruthrol, er ei fod ar brif destun caniadau y nef ei hun. Gwel hoffwr a deallwr y gynghanedd brydferthwch anfesuradwy yn y llinellau canlynol:—

"Wedi'r codwm doi 'r Ceidwad.
* * *
Y lwyd graig galed ei grudd,
O'i tharaw cai laith ddwyrudd.
* * *
I aner goch hyn yw 'r gwaith,
A dwyn gafr dan y gyfraith;
Ac â chyllyll erchyll hon
Llwyr waedwyd llawer eidion.
Tori a lladd tarw a llo,
Cysgod hynod o hono.
Arwain y pwnc i'r un peth,
Gwnai defaid ac wyn difeth;
Tori penau turturod,
Gwaedu 'n llif rif yr od;
Hefyd, Iawn i fod o'i ol.
Dengys y bwch diangol,
Dwnad wnai oen dianaf,
Un gwell dan gyllell a gaf.
O'r diwedd yn wir deuai
Dianaf oen a dyn fai,
Cyflawnder ei amser ef,
A'i bwynt a wybu yntef.

Dwyn wnai gwraig dan ei gwregys,
Y Duw mawr—i lawr o'i lys
Disgynodd D'wysog gwiwnef,
I'n daiar ni doi o'r nef.

Nid oes dim yn neillduol i daraw chwaeth y darllenydd cyffredin yn hyn oll; sef, yr hwn sydd yn chwilio am feddwl yn unig: oblegid gallesid adrodd amryw o'r syniadau sydd yn y llinellau yn fwy grymus ac effeithol, mewn iaith rydd. Y mae yr awdwr wedi gollwng *n* yn ormod yn un o'r cynghaneddion, sef,

"Dwyn wnai gwraig dan ei gwregys."

Heblaw hyny, nid ydyw y meddwl yn briodol; canys "morwyn a fydd feichiog," a ddywed yr Ysgrythyr, ac nid gwraig. Dichon ei fod ef yn sylfaenu ei syniad ar y gair "Wedi ei wneuthur o wraig."

Y mae mwy o wir farddoniaeth yn yr englynion, "Llef Mab Duw," yn ol eu rhifedi, nag sydd yn y llyfr i gyd; er y gallesid, y mae yn wir, cael gwell geiriau mewn rhai llinellau o honynt; ond ar y cyfan, y mae yr englynion hyn yn rymus ac yn gyffrous. Maddeuir i ni am eu dodi ger bron, gan eu bod y fath ammheuthyn:—

"LLEF MAB DUW.

"Llef yr Arglwydd sydd mewn grym."—*Salm* xxix. 4.

"Llef Ion yn union a wnaeth—fir adael
Fawr wiwdeg saerniaeth;
Trwy ei grym o'r diddym daeth
Y groew deg greadigaeth.

Hanfodai o hon fydoedd,—a rhodawl
A rhedant eu cylchoedd:
Lle 'r nifwl, lloer a nefoedd,
A gair wnaeth ac eirian oedd.

Rhif gwlith o'r tryblith trablin—o fydoedd
Cyfodai 'r llef ddiflin;
Coethwawr o d'wllwch cethin;
Gwawl a haul a goleu hin.

Rhoi hon y lloer yn ei lle,—a muriai
Y moroedd mewn dyfrlle;
Syn fodd! hi daenodd y de
A'r gogledd ar y gwagle.

Enwog oludog lydan—nef orwech
Ei fawredd sy 'n datgan;
Duw er ei glod, a'i air glan
Cofier, sy'n dal y cyfan.

A'i lef e bair ef wybr i wau,—a mellt
Ymwylltiant fel saethau:
Daw ar unwaith daranau,
A llif dwfr wrth y llef dau.

Deallodd clywodd y clau—lifeiriant
Ei leferydd, hwythau;
Fe ranodd ddwfn fôr yn ddau,
Ac a rwygodd y creigiau.

Drwy allu hon y dryllir—y coedydd
Anial Cades crynir;
A'i ddwys gerydd, os gyrir,
Y deifiai tân dwf y tir.

Ei leferydd rydd o'r ia—dew wenwisg
I doi wyneb terra;[1]
Wrth ei grym nerthawg yr â
Llaith ddwr yn llwyth o eira.

Bwigod, llydnod yn llednoeth—bwriant
Ar bawr anial crasboeth,
O lef Duw anwylaf doeth;
Fre drin fywyd yr annoeth.

Y mae nerth a phrydferthwch—yn ei lef;
Ion a'i law a ofnwch;
Darostwng feilch i dristwch;
Myn dlodion llymion o'r llwch.

Duw, ar ei lef dyry lwydd—er ennill
Trueiniaid o'u hafiwydd:
Chwilia hon rith chwal yn rhwydd
Fur cwla noddfa 'r celwydd.

Ei lef seinber ef sy'n ei bri,—trwy'r un
Troi 'r enaid o'r gwyrni;
Gwnaed air y genadwri
Yn fuddiol nerthol i mi.

Gyr efengyl o grafangau—diflyn
Y diafliaid fyrddiynau;
Wyneba hon i'w bywhau,
Gair fydd a egyr feddau.

Iesu gais â'i lais a'i lef—yn ddifeth
Ei ddefaid oll adref;
Yr un wael a arwain ef;
Dwg weiniaid i deg wiwnef.

Daw hon a'r meirwon o'r moroedd—a'r llwch
Er llechu hir oesoedd;
Gyr ef ei lais, rhwyga'r floedd,
Mewn anterth y mynwentoedd.

Mab Duw i'r annuw a rydd—wys gadarn
O wasgedig gerydd:
Dwyn y gwael dan ei g'wilydd
At ei fainc eto a fydd.

Addef ei air ef a raid—â'i fawr rym
Fe rwyma gythreuliaid:
I'r rhai'n daw wbain dibaid,
Llid yr Oen a phoen na phaid.

Ei anwylion o waeledd,—â'i gu lais,
Geilw Iesu 'n y diwedd;
Geiriau hefyd gwiw, rhyfedd,
Fydd galwad i wlad y wledd.

Deuwch, meddienwch ddinas,—goludog,
Ansigladwy deyrnas;
Cewch i gyd wynfyd anfas,[2]
Ewch i'r wledd uwch awyr las."

Y mae yn yr englynion hyn rai tarawiadau grymus, yn enwedig yn y rhai cyntaf; a'r syndod mawr ydyw, ein bod heb gyfarfod yn fynychach â rhai cyffelyb yn ngwaith un oedd yn cael ei ystyried y fath gampwr.

Y mae y cywydd ar "Y Ddeddf Foesol," yn llawn o synwyr ac o bertrwydd; ond y mae yno lawer o eiriau na arferasid oni bai fod eisieu cynghanedd. Y mae y cywydd ar "Ddyngarwch," yn cynnwys rhai delweddau tra naturiol.

"Ai ymaith i'w daith un dydd
Wr unig, heb arweinydd,
O Gaersalem, groes helynt,
I Jericho arwach hynt:
Ac ar y ffordd, mewn gorddor,
Gwelai ddyn wrth gil y ddor;
Islaw bryn, mewn dyffryn du,
A'r nos dduoer yn nesu.
Galwai hwn ac wele haid
Wgus o wallus williaid:
Ac ar redeg o'r adwy
Gwedi hyn i gyd â hwy.
Cernodient gwasgent y gwr,
Goflin a gwael ei gyflwr.
O lawn dig ei lindagu
I lewyg ddwys, olwg ddu.
Aent â'i ariant a'i oriawr,
Ei gwbl ef, a'i gobio i lawr.
Ei ddwy esgid ddiosgynt,
A'i wisg oll di-iasawg ynt.
Diarbed er y dirboen,
A'i grys a guddiai ei groen.
Chwarddent y lladron chwerwddull,
Rhedent a ffoent mewn ffull;
A'i adael yn wael ei wedd
Yn min cornant mewn carnedd;
A drain i'w gylch, druan gwr,
Heb fwyd na chlwyd na chlydwr.
Bu yno am dro mewn drain,
Er ei nych oer yn ochain.
A deuai yn y diwedd
Drwy 'r wlad offeiriad hoff wedd,
Dyeithr fodd! pan daeth i'r fan,
Canfu hwn ef yn cwynfan:
Ond pan welodd, e drodd draw,
Diystyr fu a dystaw.
Yr un modd gwelodd ei gur
Ryw Lefiad a'i arw lafur;
Wrth ei gur ni thosturiodd,
Ond yn ddifraw draw fe drodd.
Aeth y rhai'n ymaith ar hynt,
Swyddwyr o'r Eglwys oeddynt.—
Galleuid dysgwyl llesol
Ymwared a ched o'ch ol.
Os oeddynt o wiw swyddau,
Anweddaidd wŷr oedd y ddau:
Drwg wŷr, ni wnaen' drugaredd
A'r truan oedd wan ei wedd.
Ond rhfyedd! o'r diwedd daeth
Gwawr deg o waredigaeth.
Teithiwr un hynt a hwythau,
O well dyn na hwy ill dau,

[1] Y ddaiar. [2] *Not base or mean.*

Didwn Samariad ydoedd,
Tad cun llawer un lle 'r oedd.
* * * * *
Cyffrodd, disgynodd y gŵr,
A rhedodd at y rheidiwr.
Y dwfr hallt a dywalltodd,
Wylad mwyth weled y modd,
Erchylled ei archollion,
Lliw, poen a briw pen a bron.
Sychodd a rhwymodd y rhai'n
Yn eu lleoedd â lliain;
Gan dywallt y gwin diwael
A'r olew coeth 'r ol eu cael.
A gwisgodd ef â gwasgawd;
Meddai galon a bron brawd.
Ac, rywfodd dododd y dyn
Oer isel ar ei asyn.
Ac felly i'r llety llawn
Dygodd ef i gael digawn.
Trugaredd fawr tra gwiwran
A wnaeth âg ef, noeth a gwan;
Gwnaeth ryfedd ymgeledd gu
I'r adyn, a'i waredu
O chwerw ing a chur angeu,
Tra thirion oedd ei fron frau.
A phan aeth, helaeth haelwr,
Talodd heb ffrost gost y gŵr.
Am y gost elai drosto,
A'r draul 'nol hyny o dro;
I ŵr y tŷ rhof air teg,
Od echwynid ychwaneg,
Rhwymiad am daliad dilys,
A doi fo i'w fro ar frys.
Dyma gymydog dinam
I'r gŵr a gawsai oer gam.
Da was doeth :—O! dos dithau
I wneyd un modd enaid mau.
* * * * *
Bydd yn hoff o'r cloff a'r claf,
Rho echwyn i'r Goruchaf.
Diledrith dalu adref
Diau 'n ol a wna Duw nef.

Dyma y darn goreu o'r cywydd. Dichon y bydd rhywun yn barod i gyhuddo Pedr o len ladrad gyda 'r linell

"Rho echwyn i'r Goruchaf,"

gan ddywedyd ei bod yn debyg iawn i waith Dewi Wyn—

"Pa faint sy cymaint os caf
Roi echwyn i'r Goruchaf."

Y mae yr awdwr yn rhedeg hyd ddiwedd ei gywydd yn ysbryd y gyfraith foesol yn lled dda; ond nid ydyw yn dyweyd nemawr o bethau cyffrous, er fod ganddo gyfleusdra y gallasai baentio amryw nodweddau i'r byw. Y mae efe yn rhy dyner wrth yr enllibiwr, megys y canfyddir wrth y llinellau canlynol :—

"Tystiolaeth fel tost elyn,
Gau a drwg, na ddwg i ddyn.
Gwylia ddweyd ar neb gelwydd
Mewn cil, mewn gwegil, na gwydd.
Bawlyd ffwdanllyd enllib
Taraw â gras tor ei grib.
Na weithreda 'n athrodwr,
Dyna'r casaf gwaelaf gwr.
Gwenieithwyr egwan hwythau,
Ydynt ddynion gweigion gau.
Gwed di wir; nag aed dy iaith,
Yn ogoniad na gweniaith.

Y mae y llinellau canlynol yn bert ac yn hawdd eu cofio :—

"O'i fwyniant na thrachwanta,
Fo eiddo dyn, foddau da.
Na chwennych ei wech annedd,
Na'i wraig wiw rywiog wedd.
Na fysia was nag asyn,
Erw na dol oddiar un dyn.
* * *
Dyngarwch yw 'r dawn gorau,
Hwn beunydd sydd am lesau.
Hygar wr dyngar dawngu,
A fwriai les fawr i lu;
Rhanai i saith, rhin yw son,
Rhan i wyth o'r rhai noethion:
Ac ni wrthyd gynnorthwy,
Amryw ffyrdd i fyrdd neu fwy;
Yn nwfn drallod a thlodi,
Aml eich oes ymwel â chwi.
Caru mae laesu loesion,
A gwellau briwiau bron.
'E rydd eli ar ddolur,
Buan iachâ boen a chur;
Egyr chwerwon garcharau,
Deiau certh wedi eu cau,
Gwrendy gwynawl grefawl gr
Tyr ewinedd trueni."

Y mae "Cywydd Brawdgarwch" can llyfned a chabol feini yr afon mewn rhai manau; a dengys yr awdwr yn y llinellau canlynol y gallai efe blethu ffrewyll gylymog pan geisiai:—

"Yr enllibaidd ddiaflaidd ddyn
O swydd ddiles sydd elyn.
Gloyn uffern! gwyliwn effaith
Lle bo ddyn enllibaidd iaith;
A digllawn wyneb, degllath
Cadwaf fi rhag gwyd ei fath.
Gwrthodaf, ni fynaf wawd
Y cyfryw am un cufrawd.
Tawed am fy mrawd Dewi—
Dim drygair am Mair i mi;
Du air ehud i Rahel,
Na chas am Ddorcas na ddel.
Os sonir am Susana,
Canmoler, dweder ei da.
Byth na ddatgan drwstan dro,
Er ei ogan ar Iago:
Gwed am fai na wyddai neb
I Hana yn ei hwyneb.
Yn ei gefn na enwa gas
Frwd dymer dy frawd Tomas.
Na wrando chwaith ar undyn
Mewn gair a w'radwyddair dyn.
Os gwyddost ddim nas gweddai
A chanfod ei fod ar fai,
Argyhoedda draha drwg
Gan ymliw âg e'n amlwg:
Chwi 'n unig, yn ddiddig ddau,
Teg antur, ti ac yntau.
O gwrendy â mwyn gwyndawd
Di frost, ennilli dy frawd:
Ac os amgen, deuben dwg;
Dau ag aeliau digilwg.
Ië'n wir, y mae yn werth
I driphen fyn'd i drafferth."

Y mae y llinellau canlynol yn briodol iawn gyda golwg ar y genfaint anfrawdgarol sydd yn anurddo llawer o eglwysi y saint:—

"'Rhyw bwnio ceir rhai beunydd,
'A llunio bai lle na bydd.'
Blino ar eu blaenoriaid,
A'r gwyr yn bregethwyr gaid,
Tan eu lladd maent yn eu llid
Mewn awydd am eu newid,
Mae goglais am y gwagle;
Tybient y llanwent eu lle.
Rhaid gwellau moddau meddynt,
A chael y gwaith i'w chwyl[1] gynt.
Nid oes wyr diau sy waeth
Na dwys gablwyr dysgyblaeth,
A fo yn ol rheolau
Pur air Ion heb goelion gau."

Y mae y llinellau canlynol yn finiog:—

"Os arian ar usuriaeth
A roddi mewn cyni caeth,
O ddu chwant, e ddaw a chwith
Lwyr fallder—gwilia'r felldith.
Gwarthrudd ydyw brawd gorthrwm
Y twyllwr a'r trethwr trwm;
Ci o frathiad cyfreithiawl,
E fyn hwn fwy na'i hawl.
Digrefydd lled ei grafanc
A'i safn boeth, am gyfoeth gwan.
Diodid y daw adwyth
I gangen a phren heb ffrwyth.
* * * *
Chwiliwn raid; â chalon rydd
Ein golud rhown i'n gilydd.
Gwan nerthwn; rhown gynnorthwy
I'n brodyr—dim ocyr mwy.
Boed cynnaliaeth, lluniaeth llon,
A thrwyadl i'n hathrawon.
Yn ddilai rhoi a ddylych
O'r ebran ei ran i'r ych.
Hefyd, byw raid, na fid brin
Gyflog y gweithiwr goflin.
Boed yn wiwlan gyfran gu
Y gweithwyr sy'n pregethu—
Bugeiliaid y defaid ynt,
A gweddai cyflog iddynt."

Dylai y llinellau diweddaf hyn gael eu hongian ar bared pob "Tŷ Capel" yn Nghymru, nes y cywilyddio cybyddion yr holl wlad.

Y mae cywydd "Undeb Corff yr Eglwys" yn gywrain dros ben, ac y mae yn cynnwys syniadau yr Ysgrythyr am natur undeb yr aelodau yn rhagorol:—

"Od oes rhai yn llai na'r lleill,
Gwen araul gant gan eraill.
Nid baich aelodau bychain;
Ond buddiol, rheidiol y rhai'n.
* * * *
Byddai 'r corff yn anorphen,
O fod pob aelod yn ben.
* * * *
Rhed hefyd â rhawd hyfwyn
Yr un gwaed i'r traed a'r trwyn.
* * * *
Nid oes un diwasanaeth;
Digon yw mai Duw a'u gwnaeth—
Cyd-dymerodd mewn modd mad
Eu swyddau â'u hansoddiad.
Fel na byddo un tro trwch
Frwd gur, neu anfrawdgarwch.
Pan ddelo poen neu ddolur,
Cyd-deimlant a gant o gur.
Os un aelod sy'n wylaw,
Gyr y lleill yn drist gerllaw.

[1] *Course*.

Dolurus, ochus achwyn
Fawd y troed ofid y trwyn.
Poen neu ofid pen afiach,
Teimlo 'n ddwys wna 'r bys bach:
Ac nid difyr cân tafawd
O gwyn fydd a gwaew 'n y fawd.

* * * *

Llywodraethwyr gwŷr gwrol;
Ni chaid henuriaid yn ol.
Gweis ydynt a'u gosodiad
Gwiw yn y tŷ gan y Tad.
Nid yw pawb, nodau pybyr,
Ardderchog ac enwog wŷr.
Pawb a'u gwaith, ond nid pob gŵr
A gweithydd sy'n bregethwr.
'Sgatfydd, nid llywydd y llall—
Nid henuriaid un arall;
Er hyny oll rhanau ynt—
Aelodau anwyl ydynt."

Gallem feddwl fod Pedr yn cael ei boeni gan ryw ddynionach anesmwyth oedd yn tybied eu bod yn rhywrai, a neb arall heb dybio hyny; ac yr oedd ar y bardd chwant eu gosod yn y rhigawd nes y delent i weled eu camsyniad, ac i edifarhau.

Y mae "Cywydd Rhagoriaethau Cariad" yn alleiriad o'r drydedd bennod ar ddeg o'r 1 *Corinthiaid*. Y mae yn werth ei ddarllen fel y gweler gystal meistr oedd y bardd ar y gynghanedd Gymreig.

Y cywydd nesaf yn y casgliad yw y cywydd buddugol yn Eisteddfod Aberhonddu, 1822, ar "Waredigaeth Israel a Dymchweliad yr Aiphtiaid yn y Môr Coch." Y mae yn debyg mai hwn oedd y cyfansoddiad goreu ar y testun; ond go ddof ydyw ar fater mor gyffrous. Y mae y llinellau fel pe byddent wedi eu llyfnhau â chroen ci môr, chwedl y Bardd Coch wrth Elis y Cowper—

"Y goreu o'r gêr am beri
Cywreinio cân yw croen ci."

Y mae y cywydd yn cynnwys rhai llinellau cryfion yma ac acw; megys,

"Gwelir ac adwaenir Duw
Yn ninystr dynion annuw,
Ac yn ngwedd trugaredd gu
Yn dilyn ei wan deulu.
Duw sydd uchel ryfelwr,
Uchel ei gamp uwchlaw gŵr
E foddodd Phar'o a'i fyddin,
Cuchfawr blaid 'n y coch fôr blin;
A bwriodd i wleb oror
Ddihafarch ŵr a march i'r môr.

* * * *

Ar annuw Duw a dywallt,
A dofir hwn â dwfr hallt."

Wrth son am weledigaeth Moses dywed—

"Gwelodd ef mewn goleu ddydd,
Rhyfedd a dyeithr hefyd,
Glasberth yn goelcerth i gyd;
Ac er y tân a'i waneg
Ei gwiail a'i dail oedd deg:
Gwerdd ydoedd fel gardd Eden,
A hyfryd oedd pryd y pren."

Y mae y bardd yn adrodd yr hanes o'r dechreu i'r diwedd yn gywir dros ben. Y mae ei ddarluniad o bläau yr Aipht yn rymus:—

"Troi 'n gochion eu hafonydd
E liwia 'r dwr lawer dydd:
Torf anwir i'w terfynau;
Gyrodd haint llyffaint a llau,
Trwy ing o wres trengu 'r oedd
Anifeiliaid yn filoedd:
Locustiaid diriaid dewrion,
Töai ar led daiar lon
Gwyrdd lysiau a gardd loswawr
A ysent, llyfent y llawr.
Ffigyswydd, gwinwydd, gwenith,
I'w difa do'i pla i'w plith
Taniai y mellt yn eu mysg,
Ddryghinllyd ruai oenllysg.
O chai yr Aipht a chwerw oedd
Du ol llaw Duw y lluoedd."

Ar ol son am oruchwyliaeth yr angel dinystriol, a chychwyniad Israel, y mae yn eu harwain hyd lan y Môr Coch yn lled ddigyffro. Yma y mae efe yn dangos fel yr ymddygodd y Creawdwr atynt—

"Mynedfa caent mewn adfyd
O gaeth gyfyngder i gyd,
Ciliau adwy ceuledig—
Gwnaeth Duw Ner o'r dyfnder dig;
A holltodd y môr halltwych,
I wneuthur sarn a thir sych.
Mûr cadarn o'r môr cedawdd
O'u deutu deg bu dau glawdd
Beth ynt? ni fu o'u beth ddau,
Ba ond dwr yn bentyrau!
Ymrwygodd y mawr eigion;
Ciliawdd dwr, ceuledd y don:
A dyranodd dwyreinwynt
Oleuber hawdd lwybr i'w hynt
Felly dwr yn filltiroedd
Yn deg ddi freg ddeufur oedd."

Pan ddaw at anffawd Pharaoh, y mae efe yn dyweyd—

"Gwelodd Duw hwynt o'i golofn,
A'u gwawr gwywai 'n awr gan ofn
Yn y môr coch marciai hwy,
Môr Edom mawr rhuadwy.
Sylwodd ar anrasolion
Ammhur rhwng deufur y don.
Terfysgodd rhusodd y rhai'n
Hap legus, yn min plygain
Deallent gwelent wg Ion
Drwy y llidiawg drallodion,
Y gwiw farch gwae ef o'i wydd
A gwae farchog oferchwydd.
Daeth i'w mysg derfysg dirfawr,
Anhydrin ai 'r fyddin fawr;
Yn ei helynt anhwyliaw,
Bron yn ffoi brenin a phawb.
Tynent yn erbyn tonau
Mawrion certh, a môr yn cau
Lle 'r oeddynt yn llwyr waeddi,
Wchw! yn awr Och i ni.
Mae Iôn â llid am ein lladd:
Swn amlwg Duw sy'n ymladd,
O blaid Israeliaid—oes rhyw
Noddiant i'w gael in' heddyw?
Erwin dro! wrth yru 'n drwm
Cynt i gyd y caent godwm,
Phar'o wael am ffoi yr oedd
Ond adwy un nid ydoedd,
E lynai ei olwynion;
Pan elai fe'u tafiai tòn.
Dyryswyd yn ei dresi
Genaw hyll wedd gan y lli',
Rhoddai waedd rhy ddiweddar;
I'r gwarsyth mae byth mwy bar.
Gan ei ddiriad gynddaredd,
Neidiai i fôr i wneyd ei fedd;
A dybyriwyd o'i barabl
Mewn llyn y gelyn a'i gabl.
Dan anair heb air yn bod,
Mae yn tewi mewn tywod;
Yn iach hoewgell na rhagor,
Neu dŷ mwy onid y môr.
Dyma'i fro Phar'o gaiff hon;
Bro wgus y berw eigion,
Trech nag ef oedd Duw nefawl;
Gorchfygodd mynodd y wawl.
Ysgegfa rhoes i goegfalch,
Torai ben y tew ŵr balch—
Ysgytiodd einioes gwta
Gwyr cedyrn; chwyrn oedd y chwa,
Lledai bwys trallod a bar,
Lluchiodd i'w mysg dân llachar
Un dymhestl a wnai 'n domen
Euog wŷr Ham a gwawr hen.
Ai 'r holl dorf o'r hyll derfysg
Yn dra llwyd a bwyd i bysg."

Y mae yr awdwr yn cynnal yr un ysbryd hyd y diwedd. Y mae yn wir y gallasai y cywydd hwn ragori mwy nag y mae, oblegid yr oedd y testun mor farddonol drwyddo, fel nad oedd fawr o waith dyfeisio dim yn ei gylch. Yr oedd hyn yn fantais, ac yn enwedig gan fod Moses wedi bod yn cyfansoddi ar yr un testun o'r blaen. Trueni i gyfansoddiad syrthio yn fyr o lawer o raddau i'r hyn fydd wedi ei ysgrifenu yn flaenorol. Y mae eisieu mwy mewn testun fel hwn nag adroddiad hanes wedi ei gynghaneddu. Y mae y cywydd, "Teithiau Plant Israel o lan y Môr Coch i Rephidim," wedi ei gynghaneddu yn dda, a'r hanes yn gryno a chywir, ond nid oes ynddo ddim cymaint o farddoniaeth ag sydd yn y testun. Y mae mwy nag arferol o fywyd yn y cywydd, "Galwad ar yr holl Greadigaeth i foliannu Duw." Ar ol cyfarch yr angelion, yr haul, a'r lleuad, a holl lu y nef, y mae y bardd yn dywedyd:—

"Mawryged y môr eigion,
A'r ddaiar werdd Dduw yr Ion.
Clau genwch y clogwyni,
Llemwch a chrechwenwch chwi.
Manau addoer mynyddig,
Deiliog waen, pob dol a gwig,
Ffynonau, llynau llawnion;
Molwch mawrygwch yr Ion.
O bob bryn a dyffryn daw
Croch ddolef—curwch ddwylaw.
Yn ffraethlu aed coed ffrwythlawn,
Yn wych i Dduw unwch ddawn.
Dod garol, dydi gorwynt,
Rhuwch gerdd rhew iach a gwynt,
Ti gefnllif a difrif dôn;
Can burdeb aoen byrdon.[1]
Croch ganed, rhued rhaiadr
Ddwys seiniawg gerdd a swn cadr;
A tharanau uthr enwog
Uwch benau y creigiau crog.

[1] *Bass.*

Tân a mellt yn ymwylltiaw,
Ei weision llymion gerllaw;
Goleu finiog elfenau,
Clodforwch molwch Dduw mau.
Dyry cenllysg ddryghinllyd
Fawl ffraeth i Benaeth y byd:
Ie, 'r gwlith a'r rhywiog wlaw,
Y ia chwerwlym a churwlaw.—
Duw biau 'r tarth dibur tew,
A llywodraeth y llwydrew."

Y mae mwy o swyn drwy y cywydd hwn nag yn nemawr o'r cyfansoddiadau eraill. Y mae ynddo rai llinellau na wnaethai Goronwy eu gwell.

Y mae y darllenydd yn hysbys o emynau y bardd, y rhan fwyaf o ba rai sydd wedi dyfod mor gynnefin a rhai o ganiadau bardd Pant y celyn; megys,—

"Yr holl freniniaethau a dreulir,
A'r ddelw falurir i lawr;
Y gareg a leinw 'r holl wledydd,
A'i chynnydd fel mynydd fydd mawr;
Ceir gweled cenedloedd y ddaiar
Yn dyfod o bedwar cwr byd;
Ymofyn y ffordd tua Sïon
Y bydd ei drigolion i gyd."

Fe genir y pennill hwn nes y gwawria y mil blyneddau yn ddiammhau; ac ni fyddai yn unrhyw syndod pe byddai i ryw fardd, ar ol gwawriad y milflwyddiant, ei gyfnewid, rywbeth yn debyg i hyn, o barch iddo:—

"Yr holl freniniaethau a dreuliwyd,
A'r ddelw faluriwyd i lawr;
Y gareg sy'n llenwi 'r holl wledydd,
Ei chynydd fel mynydd fu mawr;
Fe welir cenedloedd y ddaiar,
Yn dyfod o bedwar cŵr byd;
Ymofyn y ffordd tua Sïon
Y mae ei drigolion i gyd."

Barnwyd awdl Pedr ar "Roddiad y Ddeddf" yn oreu yn Eisteddfod Aberhonddu, yn y flwyddyn 1826. Nid ydyw yr awdl hon ond adroddiad lled ddigyffro o'r amgylchiadau a gymerasant le amser rhoddiad y ddeddf. Ychydig o farddoniaeth sydd ynddi, heblaw yr hyn sydd yn nglyn â'i hanes, yr hyn nad allasai yr awdwr ei osgoi. Dysgwyliem beth mawr ar destun mor fawreddog; ond i'r gwrthwyneb yn hollol y gwelodd yr awdwr yn dda ymdrin âg ef. Nid ydym yn cofio dim unrhyw ddarn o'i waith, o ddim pwys, mor egwan, ac mor llawn o eiriau llanw. Er fod rhoddiad y ddeddf ar Sinai yn un o'r testunau mwyaf cyffrous, eto fe'i trinir gan y bardd mewn dull hollol newydd. Nid ydyw yn y manau y sonia am y taranau a'r mellt fel pe byddai wedi canfod dim neillduol o'r ffordd gyffredin. Y mae efe mor ddigyffro a phe buasai yr amgylchiadau a gymerasant le ar Sinai yn dygwydd bob dydd. Y mae yr hanes yn cael ei adrodd yn ddigon digoll; ond nid oes dim bywyd yn y darlun. Pe dyfynid y llinellau lle mae geiriau heb eu heisieu, llenwid gormod ar dudalenau y "Traethodydd." Gallwn, pa fodd bynag, ddodi ychydig o honynt ger bron er egluro yr hyn a hònir:—

"Cariad tueddiad haeddawl—i Dduw Ion,
A charu dynion, wych rad unawl."

Pa beth y mae "wych rad unawl" yn geisio yn y llinell?

"Ac yn nghyffin a min y mynydd,
Ar bant a lanwer buont lonydd."

Pa beth oedd yn galw am "gyffin a min?" Pa beth yw "pant a lanwer?"

"A gorphwysent ar gyrau ffosydd."

Paham "cyrau ffosydd?"

"Yno dyfod a wnai Dofydd—i'w trin;
Eu hoewaf frenin hyf Arweinydd."

Pa beth a olygir wrth eu "trin?" Onid oes rhywbeth yn gyffredin iawn mewn dyweyd "Eu hoewaf frenin" am Dduw?

"Dysgai Moesen, yr hen wr heini
Yn llon y dirion genadwri,
Da eiriau anwael a diwyrni,
Oedd werth eu cael oddiwrth Dduw Celi;
Traddododd y trwyddedi—yn serchog,
I'r holl lu enwog er eu lloni."

Y mae dyweyd yr "hen ŵr," neu yr "hen Foses," yr "hen Elias," a'r "hen Jeremiah," yn swnio yn gyffredin iawn. Y mae y llinell

"Da eiriau anwael a diwyrni."

nid yn unig yn wanllyd, ond yn feius o ran ei chynghanedd.

"Y bobl wiw yno bawb a lonent,
Yn ol eu tybiau'n wael atebent,
Eu Perchen a'i ddeddfau parchent—heb freg,
A gair eu gwiwdeg Ior a gadwent."

Nid oes gan y gair "wiw" yn y linell gyntaf, na "hael" yn yr ail, na "freg" yn y drydydd, na "gwiwdeg" yn y bedwerydd, ddim i'w ddyweyd dros eu hymddangosiad yn y llinellau uchod, mwy nag sy gan "peraidd" i'w ddyweyd yn y llinell ganlynol.

"A pheraidd gerddynt yn ffyrdd y gwir-Dduw."

"Peraidd gerdded," neu gerdded yn *beraidd*—pwy a glywodd erioed am y fath beth? Clywsom son am ganu yn beraidd, ond nid am gerdded erioed. Cerdded yn sionc. Byddai yn ormod i ni feddwl ddyfynu yr holl linellau gweiniaid, a'r geiriau anmherthynasol a arferir. Dodwn y darlun a rydd y bardd o'r mynydd, fel y canfydder mor farw oedd lle y dylasai ei awen fod yn dân byw, fel y marwor tanllyd oddiar yr allor.

"Y boreuddydd, wele 'r mynydd
Yn ufelydd, annof aelwyd:
Gan fwg tywyll a thwrf erchyll,
Bu 'n y gwersyll boen ac arswyd.

Yn mha le y gwelodd y bardd "aelwyd" mor fawr y gallasai efe gyffelybu mynydd Sinai iddi! Onid mwy priodol fuasai son am un o'r mynyddau tanllyd nag am "aelwyd?"

Mor salw y darlunia yr effaith a gafodd llais yr udgorn ar y bobl:—

"Rhoi llais udgorn i'r lliaws adgof
O'u du iawn ing, nid âi yn angof;
I fywiocau yn fwy eu cof—deuai
A lliosogai lleisiau hygof."

Nid ydyw mellt y bardd ond fel rhyw dân beleni bychain, na'i daranau can gryfed a rhai o'n gynau mawr. Y mae yr awdl yn siomiant drwyddi oll.

Hyderwn nad ydym wedi cadw y darllenydd yn rhy hir yn nghymdeithas Pedr Fardd; ac na fydd yr hyn a ddywedwyd, o fwriad i wneyd lles i'r byd barddonol, yn unrhyw achos tramgwydd i gyfeillion y bardd. Dichon y cawn ein beio, gan wŷr y bryddest, am na buasem yn dyweyd mwy yn erbyn dull cyffredin yr awdwr o fenthyca meddylddrychau, yn lle dyfeisio pethau ei hunan. Os ydyw hyn yn feius, yr ydym yn ei ystyried yn dangos athrylith; oblegid ni chawn hanes am neb neillduol, heblaw cynghaneddwyr

y Salmau, a gymerodd y llwybr hwn o flaen Pedr; o ganlyniad yr oedd y peth yn wreiddiol iddo ef, ac ni wyddom am neb a all gynghaneddu hanes yn well nag y gwnai Pedr Fardd. Y mae llawer o son am wreiddioldeb yn y byd llenyddol, ond hoffem gael gwybod pwy sydd yn wreiddiol; a pha ddybeu prynu llyfrau a'u darllen, os nad ydynt i gael eu defnyddio? Ond dichon y gallasai Pedr gymeryd maes eangach, a mwy amrywiaethol, nag a gymerodd. Y mae cryn debygoliaeth yn rhedeg drwy y rhan fwyaf o'i weithiau, megys y canfyddir yn eglur. Buasai yn well genym ni liaws o emynau blasus, o waith yr awdwr, na lluoedd o'r cyfansoddiadau sychlyd sy ganddo yn nechreu ei lyfr; ac yr ydym yn llwyr gredu, oni buasai ei ragfarn ef dros y ganghanedd, a thros waith yr hen feirdd, y cawsem bethau o rymusder Dewi Wyn, ond yn llawer mwy cywir a destlus, yn ei gyfansoddiadau.

Y mae trallod nid bychan, yn mysg y rhai na chydnabyddir yn feirdd, o herwydd ymlyniad y genedl wrth y gynghanedd; ond nid ydym yn gallu canfod fod unrhyw obaith iddynt gael genym ymwrthod â hi, oni bai iddynt hwy allu gwneyd rhywbeth fyddo yn rhagori arni. Nid ydyw y pryddestau, o ba rai y mae genym doraeth, wedi gallu dyfod i fyny â'r cyfansoddiadau sy genym yn y gynghanedd gaeth eto, ag eithro un neu ddwy. Y mae llawer o honynt wedi eu gyru allan i'r byd, gyda banerau chwyfiawg, na chant eu darllen yn yr oes nesaf. Gallwn ni ddyweyd, ar air a chydwybod, nad ydym wedi ein llygad-dynu yn gymaint gan y gynghanedd fel na roddwn le i ddim arall; ond yr ydym yn rhwym o ymlynu wrthi hyd nes y caffom rywbeth amgen na dim a ddangoswyd hyd yma yn ei lle.

CERDDORIAETH GREFYDDOL CYMRU.

Yr ydym eisoes wedi hòni nad ydyw cerddoriaeth Gristionogol ddim yn seiliedig ar yr un Iuddewig na'r un Genedlig. Fe fu elfenau o'r naill a'r llall yn nghaniadaeth y credinwyr cyntaf yn ddiammhau; ond fe'u collwyd yn llwyr ac am byth. Yr un a barhaodd hwyaf oedd y Genedlig,—ac fe geisiodd Cystenyn, ymherawdwr Rhufain, yn y bedwaredd ganrif, ar ol cysylltu Cristionogaeth wrth ei lywodraeth ei hun, ddwyn i mewn gerddoriaeth y paganiaid i'r addoliad Cristionogol. Yn wir fe wnaeth hyny—fe orchymynodd ddwyn offerynau cerdd i mewn—fe nododd le penodol yn yr addoldy i ddawnsio,[1] yn ol dull y gwasanaeth paganaidd; ac fel hyn fe drowyd addoliad syml Cristionogaeth i ffurf rhempiau y paganiaid. Yr oedd aml i Gristion cywir yn dyrchafu ei lef yn erbyn y fath fradwriaeth i grefydd Crist, ond yn ofer. Parhaodd yr agwedd yma, i raddau mwy neu lai, dros amser maith. Ond nid oedd caniadaeth yr eglwys trwy y byd yn unffurf yn nyddiau Cystenyn, mwy nag mewn oesau cynt a diweddarach. Y mae rhyw gymaint o wahaniaeth rhwng gwahanol wledydd

[1] Y mae y *lle* yn cael ei efelychu eto yn addoldai y Pabyddion a'r Eglwys Wladol, dan yr enw *choir* (côr), oddiwrth y gair Groeg *choros*, dawnsfa.

a chynnulleidfaoedd wedi para trwy yr oesau, hyd yn nod ymhlith Pabyddion eu hunain, y rhai sydd yn hòni cymaint o unffurfiaeth.

Yr oedd Cristionogaeth i adeiladu cerddoriaeth iddi ei hun—cerddoriaeth hanfodol wahanol i bob peth oedd yn y byd o'i blaen, a cherddoriaeth a fyddai yn deilwng i'w duwinyddiaeth bur, oruchel, a haelfrydig. Adolygu y gwaith mawr a gogoneddus hwn yw ein hamcan ninnau yn bresennol; nid, y mae yn wir, rhoi hanes manwl am bob maen sydd yn yr adeilad, ond yn hytrach sylwi ar ei brif ranau, fel y gallom ffurfio barn gyfaddas am y cynllun a'r cwblhâd.

Y symudiad cyntaf o bwys a wnawd oedd, yn ffurfiad y ganiad *Ambrosaidd.* Gelwid hi felly oddiwrth Ambrose, gweinidog eglwys Milan yn y bedwaredd ganrif. Dywed rhai awduron mai cael ei ganiad a wnaeth Ambrose yn Antioch, yn Syria; tra yr hòna eraill mai efe ei hun oedd ei hawdwr. Nid yw hyn, pa fodd bynag, o gymaint pwys. Dywed awdwyr yr oes hono, ac oesau dilynol, ei bod mewn bri anarferol, ac yn hynod o swynol yn ei dylanwad. Ond y mae yn annichon i ni yn yr oes hon allu dyweyd dim yn feirniadol yn ei chylch, am nas gwyddom beth oedd dullwedd ei chyfansoddiad, gan nad oes dim anghreifftiau o honi yn aros ar ddalenau hanesyddiaeth. Hona awduron Pabaidd, ac ambell Brotestant ofergoelus, fod y ganiad yma yn para mewn arferiad hyd y dydd hwn yn y Duomo, yn Milan; ond dywed yr enwog Dr. Burney—ac ni fu neb erioed yn fwy galluog i farnu—ar ol gwneyd prawf personol, trwy wrandaw ar y canu yno, nad oes yr un rhith o sail i'r fath honiad. Gan hyny, pa ddylanwad bynag a gafodd y ganiad hon ar ganiadaeth Cristionogion yr oesau hyny, y mae yn annichonadwy i ni ffurfio barn am ei natur—y mae ei rhagoriaethau a'i diffygion yn hollol anhysbys.

Y symudiad mawr nesaf a wnawd oedd y ganiad *Gregoraidd.* Gelwid hon felly oddi wrth Gregory, neu fel y gelwir ef yn gyffredin, Gregory Fawr, neu y pab Gregory. Yr oedd hwn yn byw yn y chweched ganrif, a dywedir ei fod yn ddyn dysgedig iawn, yn gerddor campus, mewn cymhariaeth â'i oes, ac o dalentau gwych iawn. Y mae chwedleuon awduron Pabaidd am dano mor ynfyd a chroes i'w gilydd, fel mai ofer a fyddai i ni geisio ei fywgraffu, pe byddai hyny yn anghenrheidiol. Y mae un peth yn amlwg, sut bynag, ac â'r fath hono y mae a fynom ni yn awr, iddo greu mwy o ddylanwad ar gerddoriaeth Gristionogol na neb a fu o'i flaen nac a ddaeth ar ei ol hyd y diwygiad Protestanaidd. Pa un ai casglu yr hen alawon syml, oedd wedi bod mewn arferiad o'r blaen o bryd i bryd, a wnaeth Gregory, ynte cyfansoddi rhai ei hun, y mae yn anhawdd penderfynu. Sut bynag, fe drodd allan yr holl alawon a dybiai ef oedd o duedd ysgafn a gwag, gan eu galw yn "*Canto Figurato;*" ac a drefnodd alawon syml yn unig i'r gwasanaeth, tan yr enw "*Canto Fermo.*" Fel hyn, fe ddechreuwyd tynu llinell i ddangos y gwahaniaeth hanfodol sy rhwng cerddoriaeth yr addoliad a phob cerddoriaeth arall, fel y cawn sylwi eto. Er na ddefnyddiwyd y ganiad Gregoraidd gan bob eglwys na gwlad Gristionogol yn ddieithriad, eto gellir dyweyd gyda sicrwydd iddi gael ei derbyn gan y mwyafiant o lawer, ac iddi effeithio i raddau mwy neu lai ar holl eglwysi Cristionogaeth. Gan hyny gellir ei hystyried fel safon cerddoriaeth y dosbarth dan sylw; hyny yw, cerddoriaeth hynafol yr eglwys. Hòna y Pabyddion fod y ganiad hon wedi para yn nghorganiadau eu heglwys hwy hyd y dydd hwn, a'i bod i'w chlywed yn ei phurdeb yn holl eglwysi yr

Eidal. Os felly, gallwn ffurfio barn lled gywir am ei nodwedd; ond os nad oes dim sail i'w haeriad, nid oes genym ddim anghreifftiau sicr yn aros. Ni gymerwn yn ganiataol fod y ganiad Gregoraidd, fel y defnyddir hi yn awr yn yr eglwysi hyny, yn gynllun lled gywir o'r hyn ydoedd trwy yr oesau canol; a'n gorchwyl blaenaf yn awr fydd ei hegluro, goreu y medrwn, mewn trefn i barotoi y ffordd i wneyd ychydig o sylwadau arni. Ond cyn myned ymhellach, rhaid i ni sylwi mai erwydd o bedair llinell, ac nid o bump, ac mai hen nodau, gwahanol yn eu llun a'u hamser i'r rhai diweddar, a ddefnyddir yn y ganiad dan sylw. Gan hyny nis gallwn ei chyfleu o flaen ein darllenydd yn ei gwisg ei hun, ond nyni a'i trawsddodwn i ffurf cerddoriaeth diweddar; a sylwed y darllenydd na fydd hyny yn cyfnewid dim ar ei natur.

Y mae dau allwedd mewn arferiad, sef allwedd UT[1] ac allwedd FA. Y mae y blaenaf, o ran ei effaith, yn debyg i allwedd C mewn cerddoriaeth ddiweddar, a'r llall yn debyg i allwed F, neu yr isalaw. Cyfleir hwynt ar wahanol linellau, ond y maent bob amser yn rhoi eu henw a'u gallu i'r nodau fo ar y llinell hono. Gellir ysgrifenu yr wythawd, mewn nodiad cyffredin, fel hyn:—





Yn awr, y gwahaniaeth rhwng graddfa y ganiad Gregoraidd a'r raddfa gyffredin, yw hyn,—1. Y mae y nodau i gyd yn naturiol, ac nid oes un cyfnewidiad yn cymeryd lle, oddieithr fod y seithfed yn cael ei leddfu yn achlysurol. 2. Nid yw sefyllfa yr hanner tonau yn cyfnewid gyda y cyweirnod. Yn ol rheolau cerddoriaeth, fel y mae yn hysbys i'r darllenydd, y mae yr hanner tonau a'r cyweirnod yn cydsymud, ac felly yr

[1] Nid oedd y fath beth ag erwydd yn bod yn amser Gregory, nac am oesoedd ar ei ol ef; a'r dull y byddid yn dynodi y gwahanol nodau oedd trwy ddefnyddio llythyrenau yn ol arfer y Groegiaid. Yn yr unfed ganrif ar ddeg, dyfeisiwyd graddfa o bedair llinell, gan *Guido* o *Arerro*, dinas yn Tuscany. Er mwyn hyrwyddo y ffordd i'w ddysgyblion ddysgu y gwahanol seiniau, fe ddefnyddiodd sillau allan o bennill ar enedigaeth Ioan Fedyddiwr, gan eu hysgrifenu ar gyfer pob sain; fel hyn,



Y pryd hyn nid oedd ond chwe' tôn mewn arferiad. Ar ol cwblhau yr wythawd, chwanegodd cerddorion ddwy sill arall; a chyfnewidiodd yr Eidaliaid yr UT i Do er mwyn meddaldra sain. Safai y pennill i gyd fel hyn,

UT queant laxis REsonare fibris
MIra gestorum FAmuli tuorum
SOLvi polluti LAbii reatum
Sancti Johannes.

un berthynas rhyngddynt, ar ba lythyren bynag y bo y cyweirnod. Ond nid felly y ganiad Gregoraidd;—y mae yr hanner tonau ynddi bob amser rhwng *Mi* a *Fa*, a rhwng *Si* ac *Ut*, lle bynag bo'r cyweirnod. Gan hyny y mae yn gofyn addysg ac ymarferiad penodol cyn y gellir ei dadgan yn gywir.

Ar y raddfa hon y ffurfir yr wyth doniad eglwysig, fel y gelwir hwy; neu, yn hytrach, fel y dylid eu galw, yr wyth modd eglwysig. Dybena pob un o'r moddau hyn ar ddau sain penodol,—y llywydd a'r terfynydd.

Gelwir y cyntaf felly am mai efe yw y prif sain; a'r olaf am mai efe yw y diweddglo; a defnyddir dau o'r sillau uchod i ddynodi y llywydd a'r terfynydd yn mhob modd. Y maent fel y canlyn:—

Modd 1.	La	yw y llywydd, a	Re	yw y terfynydd.
— 2.	Fa	—	Re	—
— 3.	Ut	—	Mi	—
— 4.	La	—	Mi	—
— 5.	Ut	—	Fa	—
— 6.	La	—	Fa	—
— 7.	Re	—	Sol	—
— 8.	Ut	—	Sol	—

Dyna y ddau brif sain yn mhob modd. Ac yn awr ni a roddwn anghreifftiau o'r moddau eu hunain.

Y MODD CYNTAF.



Dylem sylwi yma, cyn myned ymhellach, gan fod y ganiad dan sylw yn cael ei hysgrifenu mewn nodiant henafol, nad yw y nodiant uchod yn berffaith, ond y mae mor gywir ag y gellir ei ddarlunio mewn nodau diweddar, ac yn cyfateb yn ddigon perffaith i roi drychfeddwl cywir am gymesuriad yr amser.

YR AIL MODD. (Yn allwedd Fa.)



Y TRYDYDD MODD.



Yma eto dylid sylwi mai *La* a ddefnyddir yn gyffredin yn derfynydd i'r modd hwn, er mai *Mi* yw yr un priodol. Y *Mi* a ddefnyddir mewn rhai math o gyfansoddiadau. Y mae yr un anghysondeb hefyd yn perthyn i'r pummed a'r seithfed modd, fel y cenfydd y darllenydd oddiwrth yr anghreifftiau.

Y PEDWERYDD MODD.



Y PUMMED MODD.



Y CHWECHED MODD.



Y SEITHFED MODD.




YR WYTHFED MODD.



Dyna y gwahanol foddau, ac yn y dull uchod y byddid yn eu hefrydu a'u harfer gan gerddorion ieuainc; ac ar y rhai hyn y byddai yr alaw yn cael ei ffurfio. Gadewch i ni roi un neu ddwy yn anghreifftiau.


SALM XXIII.




Yr || Arglwydd yw fy | Mugail ||
Ni bydd | eisieu arnaf ||
Efe a wna i mi orwedd mewn porfeydd | gwelltog ||
Efe a'm tywys gerllaw y | dyfroedd tawel ||
Efe a ddychwel fy | enaid ||
Efe a'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder, er | mwyn ei enw ||
Iё, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angeu nid ofnaf | niwed ||
Canys yr wyt ti gyda mi—dy wialen a'th ffon | a'm cysurant ||
Ti a arlwyi ford ger fy mron yn ngwydd fy ngwrthwyn- | ebwyr ||
Iraist fy mhen âg olew, fy | phiol sydd lawn ||
Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy | mywyd ||
A phreswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd | yn dragywydd ||

Cyn myned ymhellach, sylwed y darllenydd sut y mae canu yr anghraifft. Dechreuwyr y gân yn unig sydd i ddyweyd "Yr," ond nid yw hyny yn cymeryd lle ond wrth ddechreu y salm; ac yna y mae yr holl gôr i daro i mewn yn nechreu yr ail fân, ar y gair "Arglwydd," ac i bara felly hyd ddiwedd y salm. Ar y banig yn yr ail fân cenir, "Arglwydd yw fy," yn gymhwys fel pe buasai yma bum nodyn; a'r gair "Bugail" ar y ddau nodyn yn y trydydd ban. Ar y banig, yn y ban cyntaf o'r ail ran, cenir


"Ni bydd" fel pe buasai dau nodyn yma; a'r gweddill ar y geiriau canlynol, ond fod y sill *arn*, yn y gair *arnaf*, i'w ganu ar y ddau adfanig olaf fel pe baent wedi eu cysylltu â llithnen. Fel hyn fe wel y darllenydd fod y llinellau unig a dyblyg yn y darlleniad yn cyfateb i'r banau unig a dyblyg yn y gerddoriaeth. Ond er mwyn gwneyd hyn yn berffaith amlwg gadewch i ni ganu yr ail adnod yn llawn.





Y mae yr anghraifft uchod wedi ei seilio ar y chweched modd, a'r un ganlynol ar y modd cyntaf.

SALM XLIV.




Duw || sydd noddfa a nerth | i ni ||
Cymhorth hawdd ei | gael mewn cyfyngder ||
Am hyny nid ofnwn pe symudai y | ddaear ||
A phe treiglid y mynyddoedd | i ganol y môr ||
Er rhuo a therfysgu o'i | ddyfroedd ||
Er crynu o'r mynyddoedd | gan ei ymchwydd ef ||
Y mae afon a'i ffrydiau a lawenhant ddinas | Duw ||
Cysegr pres ; wylfeydd y Goruchaf ||
Duw sydd yn ei chanol—nid ysgog | hi ||
Duw a'i | cymhorth yn fore iawn ||
Y cenedloedd a derfysgasant, y teyrnasoedd a ysgog | asant ||
Efe a roddes ei lef | toddodd y ddaear ||
Y mae Arglwydd y lluoedd gyd | a ni ||
Y mae Duw Jacob yn | amddiffynfa i ni ||
Deuwch, gwelwch weithredoedd yr | Arglwydd ||
Pa anghyfannedd-dra a wnaeth | efe ar y ddaear ||
Gwna i ryfeloedd beidio hyd eithaf y | ddaear ||
Efe a ddryllia y bwa, ac a dyr y waewffon, efe a | lysg y cerbydau â thân ||
Peidiwch a gwybyddwch mai myfi sydd | Dduw ||
Dyrchefir fi yn mysg y cenedloedd, dyrch | efir fi ar y ddaear ||
Y mae Arglwydd y lluoedd gyd | a ni ||
Amddiffynfa | i ni yw Duw Jacob ||.

Dyma yn awr ddwy anghraifft o'r ganiad Gregoraidd ger bron y darllenydd, mewn ffurf, hyderwn, mor gywir a ffyddlawn ag y gellir eu hysgrifenu yn ein hoes ni; ac oddiwrth y rhai hyn gallwn farnu beth oedd nodwedd caniadaeth grefyddol am oesoedd boreuol Cristionogaeth. Ac


yma y mae yn angenrheidiol i'r darllenydd gadw yn ei gof mai y Salmau a Llyfr y Caniadau yn unig a genid, nid wedi eu troi i fesur barddonol, ond mewn rhyddiaith, fel yr anghreifftiau uchod, gyda hyn o wahaniaeth—fod y cyfieithiad a ddefnyddid yn gyffredin cyn y Diwygiad Protestanaidd (y Lladin) yn llai barddonol o lawer na'r cyfieithiad Cymreig fel y mae uchod A phan y byddid yn cyfansoddi emyn neu bennill, byddai hwnw yn llai barddonol fyth na rhyddiaith y Salmau. Gallesid gwella cryn lawer ar y mydyr trwy gyfieithu yn fwy llythyrenol, a chadw golwg hefyd ar y ganiad. Ond er pob dyfais, nid ellid newid nemawr ar ei nodwedd.

Yn awr, caned ein darllenydd yr anghraifft gyntaf. Y mae y gerddoriaeth yn cynnwys y symudiadau mwyaf naturiol a pherffaith; ac eto mor annhraethol analluog ydyw i ddarlunio drychfeddyliau y Salm. Y mae y Salm ei hun yn un o'r cyfansoddiadau mwyaf prydferth a ysgrifenwyd erioed mewn iaith ddaearol. Ond nid felly y gerddoriaeth—nid oes dim gallu ynddi hi i chwareu syniadau y geiriau ar dannau y galon—i beri fod dwy ffrwd adfywiol, un farddonol a'r llall gerddorol, yn llanw y fynwes, neu ynte dwy aden i gario yr enaid i fyd yr ysbrydoedd; na, ond yn hytrach y mae yn bwysau trwm wrth odrau y farddoniaeth, fel mai o'r braidd y mae y bardd nefol yn medru ymgodi uwchlaw pethau cyffredin daear. Pe buasai y geiriau yn cael eu troi i ffurf barddonol, yn y mesur hir, neu gyffredin, neu ynte y mesur salm Cymreig, buasai y mydyr yn rheolaidd, a'r alaw yn cael ei gwellâu yn fawr, ac felly buasai y cyfansoddiad yn fwy awenyddol o lawer. Fel hyn :—





Nis gall y darllenydd lai na chanfod ar unwaith ragoriaeth yr alaw yn y ffurf yma i'r hyn ydyw yn y ffurf cyntaf. Nid yw hyn yn tarddu yn unig, nac yn benaf chwaith, oddiwrth reoleidd-dra y mydyr, ond oddiwrth y ffaith fod y symudiadau yn cael eu cyfleu i ffurf mwy cerddorol—fod treitheg (neu *phraseology*, fel y dywed y Sais) yr alaw yn well o lawer. Fel y crybwyllwyd eisoes, y mae yn cynnwys symudiadau naturiol a phrydferth, ac felly yn meddu elfenau gwir gerddoriaeth; ond y mae adroddiad y *llywydd*[1] gynnifer o weithiau yn llwyr ddinystrio y treithegau sydd ynddi. Y dull mwyaf perffaith, a'r unig ddull gwir gerddorol, y gellir ysgrifenu yr alaw, yw fel hyn :—



[1] Y llywydd, yn yr anghraifft dan sylw, yw *a*.

Yn y dull yma y mae ganddi gymmesuredd priodol; y mae y naill ran yn ateb i'r llall, fel y soniwyd yn ein hysgrif flaenaf, ac nid all y cerddor lai na theimlo ei bod yn cyfateb yn brydferth i'r raddfa naturiol yn y cywair llon.

Y mae yr anghreifftiau uchod yn ddigon i ddangos beth oedd natur y ganiad Gregoraidd, a nodwedd cyffredinol caniadaeth grefyddol am ganrifoedd lawer. Yr oedd diwygiadau pwysig yn cymeryd lle mewn cerddoriaeth gyffredin a chenedlaethol amryw wledydd, na chawn eu nodi ar hyn o bryd; ond nid oeddynt yn effeithio dim ar gerddoriaeth eglwysig. Mor belled ag y gallai yr awdurdodau Pabaidd, yr oedd canu i bara yr un modd o oes i oes—yr oedd pob cyfnewidiad mewn nodau, yr un fath ag mewn duwinyddiaeth, yn hereticiaeth; gan hyny, yr oedd pob peth yn cael ei gollfarnu nad oedd yn unol â'r hen donyddiaeth. Ond nid felly yn hollol y mynachod; yr oeddynt hwy yn gyffredin yn deall cerddoriaeth, ac yn ei harfer lawer iawn. Yr oeddynt yn teimlo yn fynych fod y ganiad Gregoraidd yn rhy gyfyng ac unrhywiol i'w harfer ar bob achlysur. Yr oedd y diwygiadau a wnaed mewn cerddoriaeth o bryd i bryd yn eu cyrhaedd; yn wir, gan rai o honynt hwy eu hunain, megys Guido a Franco, y gwnawd rhai o'r prif ddiwygiadau. Yn raddol torasant dros ben pob gwaharddiad, a dechreuasant ddifyru eu hunain, a'u gilydd, â cherddoriaeth lled wahanol i un Gregory, ond yn gyfrinachol, ar y cyntaf, rhag ofn eu huchafiaid swyddol. O'r diwedd caniatawyd iddynt eu defnyddio yn gyhoeddus ar y gwyliau—dyddiau meddwdod, gloddest, a phob aflawenwch; a diammhau fod y farddoniaeth a'r gerddoriaeth, y fath ag oeddynt, yn deilwng i'r achlysur. Yr anghreifftiau hynaf o gerddoriaeth eglwysig yw y rhai sydd yn "Hanes Cerddoriaeth Grefyddol" Gerbert; ac yma ni gawn gopïo un o honynt. Y mae yn gynllun o nodwedd y gerddoriaeth grefyddol a ddefnyddid yn y drydedd a dechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yr oedd yr hen gerddoriaeth—y Gregoraidd—o gwrs, yn para mewn arferiad; ond yr oedd cerddoriaeth newydd yn cychwyn, ac yn cael ei defnyddio ar liaws o achlysuron, a'r werin yn ei hoffi; ac os gellir ymddiried i gywirdeb yr hanes, y mae y dôn ganlynol yn gynllun o honi. Gan ei bod mewn dau lais, y mae yn dangos hefyd beth oedd sefyllfa cynghanedd y pryd hyny. Mewn nodiant diweddar, yn ol Dr. Burney, saif fel hyn:—







Yr ydym yn awr wedi gosod ger bron y darllenydd anghreifftiau, mor gywir ag sydd yn ddichonadwy yn ein hoes ni, o'r hyn oedd caniadaeth hynafol yr eglwys. Y maent ynddynt eu hunain yn ddorus i'r cerddor; ond eu prif ddefnydd i ni yn bresennol yw fel defnyddiau beirniadaeth mewn sylwadau dyfodol.

YSBRYDIAETH DIC SION DAFYDD.

GALL fod ystyr ein harwyddair yn ddyeithr i rai o'n darllenwyr; am hyny, ni a ddywedwn, wrth gychwyn, mai yr hyn a olygwn wrtho, ydyw, yr ymgais sydd yn rhy gyffredin mewn dynion i geisio ymddangos yn wahanol i'r hyn ydynt mewn gwirionedd. Cofus gan ein darllenwyr y chwedl am Dic, mai ei wendid, a'r hyn a'i harweiniodd i anffawd y pwll mawnog, oedd ei waith yn gwadu ei Gymraeg, ac yn ceisio ymddangos yn Sais ac yn ŵr boneddig, ac yntau heb fod na'r naill na'r llall. Y mae ei ysbryd yn meddiannu llawer iawn o'n cenedl yn y dyddiau hyn. Nid ydym yn dywedyd, fel rhai, mai oes o ymddangosiadau ydyw hon; oblegid y mae yn eglur fod ynddi lawer iawn o gywirdeb ac o ddaioni; er hyny, ni bu un oes ag ynddi fwy o rith, o ddynwared, o ffuantrwydd, na hon. Y mae achosion hyn yn lliosog ac yn amrywiol. Un o honynt ydyw, y cynhyrfiad annaturiol sydd ar bob peth yn awr. Y mae natur wedi ei darostwng mor llwyr, y gwahanol gelfyddydau wedi eu dwyn i gymaint perffeithrwydd, fel ag y mae dyn yn ceisio gwneuthur pob peth gyda chyflymder yr ager, neu y fellten. Nid oes ganddo ddigon o amser i chwilio yn amyneddgar am y gwir beth; am hyny, fe gymer y rhith yn ei le, am ei fod yn gallu cipio hwnw wrth redeg. Y mae pawb fel wedi cytuno i geisio gwneuthur pob peth yn boblogaidd; hyny yw, yn hawdd ei ddirnad: o herwydd os na wnant hyny, buan y cânt ddeall nad oes gan y bobl ddim amser cyfaddas i roddi sylw iddynt. Y mae yn rhaid cael *royal road* i bob gwybodaeth. Y mae yn rhaid dysgu y plant dan ganu, a'u harwain drwy holl gylch y gwybodaethau a'r celfyddydau, o uchder y nefoedd hyd grombiloedd y ddaear, mewn ychydig fisoedd, fel ag y gallant siarad â chwi am y ser, neu am gyfansoddiad y ddaear, yn iaith Newton a Miller. Y mae yn rhaid dysgu iddynt iaith estron, nid yn yr hen ffordd dda o fyfyrio elfenau yr iaith hòno, a chyfieithu gwaith ei hawdwyr i'w hiaith eu hunain, ond trwy gael estron i'w siarad hi yn eu clyw, neu trwy eu hanfon i Loegr, i bigo i fyny ychydig o Saesoneg gwallus heolydd ei threfydd. Ac hyd nes y meddiannir yr oes, i ryw fesur, âg ysbryd llonydd, y mae y lliaws yn sicr o ymfoddloni ar y rhith yn lle y gwir beth.

Peth arall sydd wedi achlysuro lledaniad yr ysbryd hwn, ydyw, fod nifer y rhai gwir wybodus yn lliosocach yn awr nag y bu erioed. Ac nid ydynt, fel cynt, yn ddosbarth neillduedig arnynt eu hunain, ond ymgymysgant â'r byd. Y mae llawer o honynt yn cyfleu ffrwyth eu hymchwiliadau mewn ffurf a'i rhydd o fewn cyrhaedd rhai o alluoedd pur gyffredin, fel nad ydyw eu doethineb yn cael ei lefaru wrth y rhai perffaith yn unig, ond y maent yn amcanu egluro y dirgelion i'r rhai bychain hefyd. Ond er mor ganmoladwy ydyw hyn, y mae yn achlysuro y drwg sydd dan sylw. Y mae lliaws yn dysgu dynwared y mawrion hyn, mewn siarad am y pethau, heb ddeall nemawr o honynt. Y maent wedi cael yr enwau, ond nid oes dim cysylltiad rhyngddynt â meddylddrychau. Digon tebyg ydynt i'r llanc fydd yn gwneuthur i fyny y physigwriaeth i'r meddyg yn y *surgery*. Y mae hwnw wedi clywed yn ddamweiniol ychydig o eiriau hirion ei feistr;

ac wedi myned i'w gylch ei hun mewn cymdeithas, y mae yn eu dwyn allan ar bob achlysur, nes synu ei gymdeithion â'i wybodaeth. Neu, cyffelyb ydynt i'r egwyddorwas ieuengaf yn swyddfa yr argraffydd; yr hwn, yn gyffredin iawn, sydd mor wybodus ag ydyw o ieuanc. Gall farnu y mawrion; oblegid onid ydyw wedi gweled eu llawysgrif? Gŵyr beth sydd wych a pha beth sydd wael; oblegid onid ydyw yn byw yn nghanol y byd meddyliol? Y mae yn edrych gyda thosturi, yr hwn sydd yn ymylu ar fod yn ddirmyg, ar yr anwybodusion sydd y tuallan i'w gylch ef. Yr oedd hyn, gynt, yn anmhosibl, am nad oedd y doethion yn ymostwng i egluro eu doethineb i neb y tuallan i'w cylch eu hunain, ac felly, nid oedd ond dau ddosbarth mewn cymdeithas, sef y dysgedig a'r annysgedig; ond yn awr, y mae yma drydydd, nas gwyddom yn iawn wrth ba enw i'w dynodi, os na chyfansoddwn ni un iddynt oddiwrth arwyddair ein hysgrif. Y mae yn rhy anhawdd bod yn eu cwmpeini, ond am ychydig amser, heb gofio am hogyn y meddyg, a *phrentis* yr argraffydd; oblegid y maent yn mesur Milton, neu, fel un wraig ddoeth, yn tystio nad ydynt hwy yn gweled dim yn Shakespeare; mai nid mawredd yn unig oedd yn Bacon; mai yr achos fod Mr. —— yn cael ei ystyried yn ddyn mawr yn ei ardal, ydyw tywyllwch yr ardalwyr. Wrth glywed y pethau hyn, yr ydym yn barod i ofyn, O ba le, attolwg y daeth y doethineb hwn i'r rhai hyn? Ond pan y rhoddir ar ddeall i ni eu bod wedi clywed Proffeswr H—— yn darlithio yn y *Concert Hall*, a'r Proffeswr W—— yn y *Mechanics' Institution*, a'r Proffeswr Z—— yn *Exeter Hall*, ac iddynt fod unwaith yn yr *omnibus* am filltir gyda Dr. Q., nid ydym yn rhyfeddu wrth y doethineb, os na bydd ein rhyfeddod yn cael ei attal gan dosturi at y rhai a ddefnyddiasant yr hyn a allasai fod yn help iddynt ddyfod yn ddynion, yn fantais i wneuthur eu hunain yn epaod.

A gallem sylwi, yn gysylltiedig â hyn, fod yn haws twyllo y wlad yn awr na chynt. Er's can' mlynedd yn ol, yr oedd cylch yr awdwr yn fychan iawn. Nid oedd dim llenyddiaeth i'r bobl; nid oedd neb ond athronwyr yn darllen athroniaeth, na bron neb nad oedd ynddo rywbeth tebyg i awen yn darllen barddoniaeth; felly, nid hawdd oedd twyllo. Yr oedd athronwyr yn debyg o gael allan yn fuan iawn pa un a oedd yr ymgeisydd am le yn eu plith hwynt yn deilwng o hono ai peidio. Yr oedd y beirdd yn bur debyg o gael allan a oedd y neb oedd yn hòni perthynas â hwynt mewn gwirionedd yn un o'u cenedl hwy. Nid rhaid myned dim yn mhellach na'r plyg yn mha un y cyhoeddid llyfrau y dyddiau hyny, i ymofyn prawf nad oeddynt wedi eu bwriadu ond i ychydig o rai cyfrifol. Ond, pwy, yn awr, sydd yn ysgrifenu i'r athronwyr? neu i'r beirdd? Er yr ysgrifenir athroniaeth a barddoniaeth lawer, i'r bobl, bid siwr, y gwneir hyny yn awr. Ac nid ydyw taflod genau y bobl, bob amser, ddim yn deall cam flas; er eu bod wedi deall digon i roddi rhyw bris ar lenyddiaeth, eto, nid digon i wybod, bob amser, y gwahaniaeth rhwng y gwych a'r gwael. O herwydd hyn, y mae llawer twyllwr eto, fel Simon y swynwr, yn cael ganddynt gredu ei fod ef yn rhyw un mawr; ac nid anfynych y mae dilynwyr y swynwr yn lliosocach na dilynwyr yr apostol; oblegid os bydd dyn yn dangos digon o hunanhyder, neu o ffydd ynddo ei hun, y mae lliaws yn sicr o gredu ynddo; ac y mae y swynwr, yn mhob oes, yn fwy hunanhyderus na'r apostol. Y mae hyn yn dylanwadu yn ol yn dra niweidiol ar y wlad; gan mai rhith a thwyll sydd yn eu harwain, y mae yn sicr o gyn-

nyrchu ei ddelw ynddynt hwythau, ac felly y mae y rhai twylledig yn cael eu gwneuthur yn dwyllwyr eu hunain.

Nid oes dim o fwy pwys i wlad, na bod ei dysgawdwyr—ei harweinyddion hi, yn ddynion diffuant; yn rhai a ffieiddiant rith ac ymddangosiad; ond odid na chyfranoga eu dysgyblion o'u hysbryd yn hyn. Y mae ein gwlad mewn ychydig berygl yn awr, rhag i'r dull cyflym y gwnawd llawer yn athrawon i'n hysgolion effeithio yn niweidiol ar yr ieuenctyd sydd o dan eu gofal. Y mae galwad mor fawr wedi bod yn ddiweddar am athrawon, fel ag yr ydoedd amryw, wedi iddynt fyned dros oedran dysgu, yn dechreu cymhwyso eu hunain i'r swydd; yr oedd y cymhwysder o anghenrheidrwydd yn ychydig iawn; a buasai gwneuthur unrhyw sylw o'r dosbarth sydd gyda gwaith mor anrhydeddus, ac sydd wedi eu llunio gan amgylchiadau, yn angharedig, oni bai fod cynnifer o honynt heb fod yn ymwybodol o'u hanghymhwysder, ac felly yn attal gwir lwyddiant addysg yn y wlad. Y mae yn ammheus ai nid gwell a fuasai peidio agor un ysgol, hyd nes y ceid athraw cwbl gymhwys iddi, na 'i hagor o dan arolygiaeth rhyw un a glywai arno ymgymeryd â'r swydd; yr hwn, pe buasai yn adwaen ei hun, na buasai yn meddwl am y fath beth. Gwyddom am rai lleoedd y mae achos addysg wedi cael clwyf drwy hyn, nad oes tebyg y gwellheir ef am flyneddau,—wedi rhoddi gofal ysgol liosog i law un cwbl anghymhwys i'r gorchwyl, yr ydoedd, o anghenrheidrwydd, os byddai ychydig o wybodaeth gyffredinol yn yr ardal o'r blaen, yn gwywo ac yn marw. Diffoddodd hyn zêl y trigolion, yr hon nad oedd yn danllyd iawn yn y cychwyn, a gwaith blyneddau a fydd ei hail ennyn. Gwell a fuasai dysgwyl am flyneddau, nes cael athraw cymhwys i'r lle, na thrwy frys anghymedrol ladd y gwaith yn ei gychwyn. A lle nad ydyw yr athraw, o herwydd mantais yr amgylchiadau yn llwyr ddinystrio yr ysgol, y mae ei ddylanwad ar yr ysgoleigion yn sicr o'u llenwi âg "ysbrydiaeth Dic Sion Dafydd;" o wneuthur iddynt, trwy ddangos eu gwybodaeth, fradychu eu hanwybodaeth yn barhaus. Y mae dosbarth lliosog o athrawon, ac y maent yn amlhau yn barhaus, yn wir deilwng o'u lle; y maent yn addurn i'n gwlad, ac yn fendith i'r oes sydd yn codi, ac i lawer un a ddel ar eu hol. Ond y mae cyfiawnder â hwynt ac âg achos addysg, yn galw arnom wneuthur y sylwadau hyn ar y rhai sydd yn dwyn eu gwaith anrhydeddus hwy i ddirmyg—y dosbarth y gofynai pob dyn synwyrol iddynt, Pwy a geisiodd hyn ar eich llaw chwi?

Nid yr athrawon yn unig sydd yn y bai; ond y mae y rhieni yn temtio yr athraw gwir ddysgedig i lenwi y plant âg "ysbrydiaeth Dic Sion Dafydd," trwy eu bod wedi myned mor hoff o arddangosiadau, a bod mor anhawdd ganddynt adael i'r plant aros yn ddigon hir yn yr ysgol i gyrhaedd gwir wybodaeth; am hyny, nid rhyfedd ydyw, os bydd yr athraw yn cael ei demtio i roddi y rhith yn lle y gwir beth; oblegid gŵyr llawer un yn dda, os na wna efe hyn, y cyll gymeradwyaeth y rhai y mae ei gynnaliaeth yn ymddibynu arnynt. Yr ydym yn llwyr gredu fod llawer yn cael eu gorfodi gan hyn i wneuthur yr hyn sydd yn gwbl groes i'w barn ac i'w chwaeth eu hunain. Ac nid oes modd gwellhau y peth ond trwy ddylanwadu ar y rhieni i gael ganddynt gredu nad all tair blynedd ddim gwneuthur neb yn wir ddysgedig, ac mai nid wrth y golwg y mae ffurfio barn gywir; oblegid y mae goruchion yn fynych yn fwy tanbaid eu goleu am foment na 'r ser; ond pwy a feddyliai, er hyny, am ddywedyd fod eu goleuni hwy

[illegible] Sr fod arholiadau cyhoeddus; [illegible] mewn dull doeth, [illegible] [illegible] nid ychydig a fu eu [illegible] [illegible] i ledanu yr ysbryd [illegible] [illegible] a chasglu oddiwrth y [illegible] [illegible] nad oes a fyno y [illegible] [illegible] y rhai hyny a'u cymhwysant [illegible] [illegible] fod yn gaethion da; yn [illegible] [illegible] Duw, fel holl air Duw, yn [illegible] [illegible]. Yr unig beth y [illegible] [illegible] i hanner meddiannu llawer [illegible] [illegible] o hono, yr hyn sydd [illegible] [illegible]."

[illegible] dylanwad yr ysbrydiaeth [illegible] [illegible] ei hun yn amrywiol [illegible] [illegible] mewn gwrthod a diystyru [illegible] [illegible] y flaenoriaeth, yn [illegible] [illegible] athraw ysgol i ardal na [illegible] [illegible] yn medru Seisoneg, bydd yn [illegible] ac yntau yn farbariaid i'w [illegible] am ei fod yn siarad Seisoneg, yn [illegible] yn llwyr o brawf o ddysgeidiaeth [illegible] yn y Cymro: buasai [illegible] iaith ei fam. Ac am un [illegible] canolradd ac uwchradd [illegible] yn peri nad ydyw merched [illegible] at gyflawni dyled- [illegible] yn ngolwg [illegible] y [illegible] ydyw y [illegible] o'u cymhwysder hwy; [illegible] yn Gymraeg, cymerid [illegible] y rhai a ddysgir [illegible] yn troi allan yn ddi- [illegible] cartref yn [illegible] o'r anni- [illegible] y mae y duedd [illegible] ar yr ysbryd hwn na [illegible] yn uwch gan [illegible] gyrchu [illegible] [illegible].

[illegible] Cymro [illegible]

rai, nad oes deng mlynedd er pan nad oedd ganddynt yr un iaith ond iaith eu mam, na dim llawer o hòno, yn rhoddi eu barn i swyddogion y llywodraeth, mai goreu po gyntaf y difodid yr iaith Gymreig. Y fath drugaredd iddynt hwy ydyw na ddifodid mo honi er's un mlynedd ar ddeg yn ol; oblegid, buasent hwy felly, druain, heb iaith yn y byd. Y mae y pulpud Cymreig yn ddirmygus yn eu golwg; y wasg Gymreig yn cael ei gwawdio ganddynt: a chan gynted ag y caffont gyfle, gwelir hwy yn gyffredin yn gadael yr addoldŷ Cymreig i ymuno â chynnulleidfa Seisonig; ac os gwrandewch ar eu beirniadaeth ar y bregeth, eu Halpha a'u Homega ydyw, "*beautiful language.*" Y maent yn peri i ni gofio am ryw hen Gymro gwladaidd, yr hwn, pan ofynwyd iddo a ydoedd yn deall Seisoneg, a atebodd, "Odw, odw, pe clow'n i o." Adroddodd y gofynwr res o eiriau Seisonig: "Dyna fo, dyna fo," meddai y Cymro. Nis gwyddom yn iawn pa fodd y mae y chwedl hon, a "*beautiful language,*" wedi eu cysylltu â'u gilydd yn ein meddwl; ond ryw fodd, ni byddwn byth yn clywed yr olaf, na bydd yr hen Gymro a'i *odw, odw,* yn ymrithio ger bron ein meddwl yn y fan.

Pe buasai y dosbarth hwn yn esiampl deg o'n cenedl, pwy, â dim synwyr yn ei ben, na buasai yn dymuno gwadu ei berthynas â chenedl mor ddirmygus? Ond yr ydym yn credu pethau gwell am gorff ein cenedl na hyn. A phe gwrandawai y dosbarth hwn ar gynghor—ond yr ydym yn ofni na wnânt, am ei fod yn un Cymreig—dywedem wrthynt mai diffyg *y dyn* ynddynt hwy eu hunain ydyw yr achos o hyn, a bod pob un yn mysg y rhai y maent hwy yn ymwasgu â hwynt, sydd yn deilwng o'r enw *dyn*, yn eu dirmygu yn eu calonau am hyn; a bod y parch a'r dyrchafiad y maent hwy yn ymlid ar ei ol, yn gyrhaeddadwy, nid trwy wadu pob peth Cymreig, ond trwy ymdrechu, hyd y mae ynddynt, i ddyrchafu y genedl, trwy fod eu hunain yn esiampl dda o'r hyn y byddai yn anrhydedd i bob Cymro fod. Gwyddom fod llawer yn nhrefydd Lloegr yn cael eu gorfodi, yn dra chroes i'w hewyllys, gan amgylchiadau eu teuluoedd, i adael cydgynnulliad eu cenedl, a bron bob peth Cymreig. Y mae y rhai hyn mor bell ag ydyw y dwyrain oddiwrth y gorllewin oddiwrth berthyn i'r dosbarth dan sylw. Ond ni a ddywedwn eto fod pob dyn ieuanc a sieryd yn ddirmygus am ei iaith a'i wlad, ac yn ei ymddygiadau a wâd ei genedl, naill ai yn gefnder neu yn gyfyrder i "Dic Sion Dafydd;" a byddai yn dda genym i holl ddarllenwyr y "Traethodydd" gofio hyn, yna ni byddai nemawr berygl i'w meddau da gael eu llygru gan ymddyddanion drwg neb o honynt.

Y mae canlyniadau lledaniad yr ysbrydiaeth yma yn niweidiol iawn. Onid i hyn, yn fwy nag i ddim arall, yr ydym i briodoli hwyrfrydigrwydd y llywodraeth i ganiatâu i ni ein hawliau gwladol? Wrth weled ynom ni, fel cenedl, gymaint o awydd dynwared pob peth Seisonig, y maent yn gofalu na chaffom ddim sydd yn perthyn i Gymry na Chymraeg. Y mae yn rhaid i'n hesgobion a'n barnwyr fod yn Seison. Ac os bydd unrhyw swydd yn y wlad â gwobr dda iddi, y mae mor ofer i Gymro ddysgwyl am hòno ag a fyddai iddo ddysgwyl myned yn frenin. Pe buasem, fel cenedl, yn meiddio ein parchu ein hunain, ni buasai neb synwyrol yn meiddio ein dirmygu, ond buasai crefydd a chyfraith yn cael eu cario ymlaen yn Gymraeg, a chan Gymry; ac ni buasai Cymru hyd heddyw heb brifysgol o'i mewn. Ond tra yr ymfoddlonwn ni ar sefyllfa epaod, pwy a gwyna i ni os na bydd y llywodraeth yn ein cydnabod yn ddynion? Y mae mawr-

ion y wlad yn myned, bron yn ddieithriad, i Loegr neu i Scotland, i ymofyn goruchwylwyr (er cywilydd iddynt yr ydym yn dywedyd hyn); ond pe buasai yn nghanolradd ac isradd Cymru lai o ysbryd gwasaidd "Dic Sion Dafydd," ni buasent yn gwneuthur hyn. Y mae dyn, yn mhob man, yn mynu parch ac ymddiried; ond ofer ydyw i'r hwn sydd drwy ei ymddygiadau yn dangos nad ydyw yn deilwng o'r enw gwyno nad ydyw yn cael y naill na'r llall. Y mae y Cymry yn Unol Daleithiau America mor barchus a neb sydd yno; nid am eu bod yn gwadu eu cenedl a'u hiaith, ond am eu bod yn gwbl rydd oddiwrth ysbryd "Dic Sion Dafydd," ac felly, yn gallu cyfaddef y naill a'r llall heb wrido. Nid oes arnynt gywilydd yno o efengyl Crist yn yr iaith Gymreig. Yno, y mae y cylch-gyhoeddiadau Cymreig yn cael eu derbyn a'u darllen yn llawen; nid fel llawer tŷ y gwyddom am dano yn Nghymru, nad oes na'r "Traethodydd," na'r "Drysorfa," "y Cylchgrawn," "y Croniel," "y Diwygiwr," na'r "Methodist," yn dyfod o dan y gronglwyd. Os gofynir, Paham nad ydynt yno? yr ateb a fydd, Nid oes dim yn y llyfrau Cymreig yn werth ei ddarllen. Os gofynir, Pa lyfrau sydd felly? y mae yr ateb yn barod—y "*Christian Penny Magazine*," y "*Christian Witness*," y "*Family Herald*," &c. Caffed y ddau gyntaf eu parch dyladwy; ond am yr olaf, y mae yn wenwynig drwyddo: ac os dywedwn ein holl feddwl am y rhai cyntaf, bydd raid i ni ddywedyd, pe credem fod y cylch-gyhoeddiadau Cymreig mor amddifad o wir deilyngdod ag ydynt hwy, yn gyffredin, byddai arnom gywilydd o honynt. Ond beth er hyny, y maent yn Seisoneg; a digon o gymeradwyaeth ydyw hyny i ryw ddosbarth o bobl. Ni buasem yn dywedyd y pethau hyn, er ein bod yn eu meddwl er's blynyddau, oni bai fod ymddygiadau llawer o'n cydgenedl yn gyru eiddigedd arnom. Dymunem fod o dan lywodraeth cyfiawnder a chariad wrth farnu y Seison; ond na rodder iddynt hwy lawer mwy na'u hawl, drwy yspeilio y Cymry o'u hawl.

Ymryddhawn oddiwrth bob peth tebyg i'r ysbryd hwn, ac na fydded arnom gywilydd mai Cymry ydym. Pan y byddom yn siarad y Seisoneg, paham y byddai raid i ni gywilyddio am ein bod yn ei seinio yn y dull sydd yn briodol i ni fel cenedl? Onid ydyw pob cenedl yn gorfod ei siarad hi, ac yn cael hyny heb rwgnach, â'u peiriannau ymadrodd eu hun? Y mae y Ffrengwr yn cael ei gwasgu hi; a'r Ysgotiaid yn cael ei lledu hi: paham ynte na chaiff Cymro ei seinio hi â pheiriannau Cymreig? Nid ydym yn dadleu am ryddid i droseddu rheolau sylfaenol yr iaith; y mae y rhai hyny yn bwysig. Ond dibwys hollol ydyw pa un ai sain main iawn, ai ynte un ychydig yn lletach a roddir i'r *a*, ac i'r *e*, &c.; ond os na rydd y Cymro mynyddig y sain mwyaf mursenaidd iddynt, y mae rhai (nid Seison, cofier, ond Cymry), yn barod i ddywedyd eu bod yn siarad yn *Welsified*. Y mae yr un gair yna yn dangos i ba ddosbarth y mae y beirniaid eu hunain yn perthyn. Bydded beirniadaeth yr holl ddosbarth yna yn annhraethol islaw ein sylw. Dysgwn eu dirmygu, tra y byddont o dan lywodraeth y fath ysbryd. Profwn bob peth, deliwn yr hyn sydd dda, lle bynag y gwelwn ef. Derbyniwn bob daioni gan y Seison, a gochelwn ei wrthod am ei fod yn mysg y Cymry; ac yna diogel a fyddwn rhag anffawd Dic Sion Dafydd.

Y SABBOTH.

"Bright shadow of true rest! some shoots of bliss!
  Heaven once a-week;
The next world's gladness prepossessed in this;
  A day to seek
Eternity in time; the steps by which
  We climb above all ages; lamps that light
Man through his heap of dark days; and the rich
  And full redemption of the whole week's flight.
The pulleys unto headlong man; time's bower;
  The narrow way;
Transplanted paradise; God's walking hour;
  The cool of the day;
The creature's jubilee; God's parle with dust;
  Heaven here; man on those hills of myrrh, of flowers;
Angels descending; the returns of trust;
  A gleam of glory after six days' showers;
The church's love-feast; time's prerogative
  And interest
Deducted from the whole; the combs and hive,
  And home of rest;
The milky-way chalked out with suns; a clue
  That guides through erring hours, and in full story;
A taste of heaven on earth; the pledge and cue
  Of a full feast, and the out-courts of glory."

Vaughan's Sabbaths (1695).

O sanctaidd ddydd! y mwyaf un o'r saith,
A sêl y nef mor amlwg arno sydd.
Cysegrwyd di gan yr Anfeidrol Un,
A chysegredig fyddi mwyach byth.
Ehed, ddychymyg, ar y sanctaidd ddydd
Draw, draw, yn mhell, i oesau boreu 'r byd;
A chadw yr ŵyl gyda 'r henafol lu
Sy'n huno 'n dawel yn mhriddellau 'r llawr.
Ond, ah! ddychymyg, saf—anghenrhaid yw
Bod "yn yr Ysbryd" ar y sanctaidd ŵyl.
Jehofah mawr! dod yr eneiniad pur
Sy fyth yn disgyn ar dy anwyl blant,
Fel nas del meddwl ffol, na gwibiad chwim
I beri anurdd ar y gân. Y Sabboth yw!
Fy enaid, cwyd; ehed, ehed i ffwrdd,
A thyr'd yn ol, gan fwyn addoli 'th Dduw.

§ 1. SABBOTHAU GYDA 'R PATRIARCHIAID.

Y SABBOTH CYNTAF ERIOED.

Ar fin y dyddymdra eisteddais
  I sylwi yn dawel ar Dduw;
Yr Ysbryd tragwyddol a welais
  Yn deor marwoldeb yn fyw:
Yn nghanol anthemau angelion
  D'ai 'r tryblith cymysglyd i drefn,
A chynhwrf elfenau yr eigion
  I berffaith dawelwch drachefn.

Ymholltai 'r cymylau tragwyddol,
  Drwy 'r caddug ysbïo wnae 'r wawr;

Ym[illegible] 'r elfenau yn [illegible]
Mewn gwisg o [illegible] yn awr;[1]
Ym[illegible] 'r ffurfafen ysblenydd
I [illegible] y [illegible] â [illegible],
Lle gwelwn 'r [illegible] [illegible] drwy 'u gilydd,
Lle rhua 'r taranau yn groch.[2]

Ymlithrai 'r môr ffrochwyllt i'w wely
Fel plentyn ar amnaid ei fam;
Ymdrwsiai y ddaearen o'i ddeutu
Fel gwyryf hardd, ieuanc, ddi nam:
Ymgodai coed llawn-dwf eu brigau
Uwch blodau o'u cylch oedd yn fyrdd,
Fel llanciau 'n ymryson i chwareu
Ar lawr-len deg laswen a gwyrdd.[3]

Yr haul ar ei orsedd risialaidd
Eisteddai 'n ffurfafen y nef;
Y lleuad o'i phalas ariannaidd
Lygadai yn graff arno ef;
Y ser yn dra gwylaidd ymguddient
O'i olwg yn ngoleu y dydd;
Yn nghanol y ddunos ymhoewent,
Gan chwyfio 'u pelydr yn rhydd.[4]

Ehedai yr eryr i'r awyr
Uwch dyfroedd cymysglyd y môr;
Mil fyrdd o fân adar yn brysur
Esgynent i ffurfio y côr:
Dechreuai y morfeirch galluog
Gydbrancio hyd feusydd y don,
A thorf o fân bysgod lliosog
Yn chwareu o'u hamgylch yn llon.[5]

Rhwng tyweirch gwyrdd-leision y ddaear
Ymwthiai y milod i fod,
Wrth archiad Jehofah, 'n llu hawddgar
I'r golwg y gwelais hwy 'n dod;
O'r cawrfil i'r milyn distadlaf,
Pob un yn ol tymher ei ryw,
Yn taflu eu golwg serchocaf,
Yn dystaw glustfeinio ar Dduw.

A gwelais y brenin yn dyfod,
Y llywydd galluog, sef *dyn;*
Y pridd fywiocâwyd mor hynod
Ag anadl y Duwdod ei hun;
Yr ysbryd roes Duw i gartrefu
Mewn palas o bridd, oedd mor hardd,
Yn dod y pryd hyn i feddiannu
Cynnyrchion tlediw yr ardd.[6]

Chwe' diwrnod yn chwimwth aeth heibio,
A gwawriodd y teg seithfed dydd;
Bro 'r dyddiau sy'n awr wedi 'i hulio,
A pherffaith gre'digaeth yn rhydd.
Hoddyw yw gŵyl yr Anfeidrol,
Ni thorir llonyddwch y llawr,

[1] Y dydd cyntaf. [2] Yr ail ddydd. [3] Y trydydd dydd.
[4] Y pedwerydd dydd. [5] Y pummed dydd. [6] Y chweched dydd.

Lle cerddai 'r gair BYDDED mor nerthol
  BENDIGAID sy 'n rhedeg yn awr.

Ni chrogwyd lamp ddysglaer o newydd
  Yn nenfwd[1] asurol y byd;
Ni rwygid mân wreiddiau y coedwydd
  Gan eraill am ddangos eu pryd:
'R un llygaid y dydd oedd mor siriol
  Yn cau ar ddydd Gwener brydnawn,
A ledai 'u hamrantau boreuol
  Ar wawr y dydd Sabboth yn llawn.

Y gwynt oedd heb ddysgu och'neidio,
  Wnai delyn o fângoed yr ardd;
Alawon mwyn natur yn llithro
  I gydgân yr engyl, lu hardd;
Afonydd tir Eden yn sisial
  Hyd raian erddygan bur dda:
Dim geiriau, ond lleisiau dihafal
  Yn esgyn i'r nefoedd a wna.

Y ddeuddyn dibechod ymrodient
  Drwy ganol yr ardd gyda Duw,
Yn nghanol ei fawredd ymgollent,
  Rhyfeddent, addolent yn fyw;
Synent aruthred y creigiau,
  Eiddiled y blodau heirdd mân,
Addolent y llaw fu 'n eu llunio,
  Canmolent ei enw mewn cân.

(Mi blygaf fy mhen, mewn dychymyg,
  Gostyngaf fy llygaid i'r llawr;
Ai *un wyl* a gafwyd mor ddiddig
  Cyn dyfod ffrwd pechod mor fawr!)—
Addolaf di, Arglwydd, fy Nghrëwr,
  Cydganaf âg engyl y nef,
Cysegraf fy oes i'm Gwneuthurwr,
  Rhyfeddaf ei allu mawr Ef.

Y SABBOTH CYNTAF AR OL Y CWYMP.

Ar doriad dydd, 'r oedd gwawr o rudd a gwyn
I'r dwyrain draw, i'w wel'd uwch ael y bryn:
Yn araf iawn y deuai 'r haul i'r lan,
Fel un dan ofn a ch'wilydd dod i'r fan.

Ar lethr y fron, gerllaw i Eden ardd,
Mewn peisiau crwyn, y safai 'r ddeuddyn hardd;
Ar uchaf coed yr allor yno a wnaed
Y ddafad fwyn yn aberth llosg a gaed.

Ein rhiaint teg gydsafent yno 'n syn,
Yn drist wrth droed yr allor ar y bryn;
Eu haberth oedd i'w tybiaeth hwy 'n ddinam,
Pa arwydd sydd, ni ddaeth o'r nef un fflam!

Islaw i'r twyn, yn dewfrig lwyn diail,
'R oedd Eden ardd, a'i phrenau 'n llawn o ddail:
Fel derwen gref, neu ryw freninbren hardd,
'R oedd pren gwybodaeth uwch holl goed yr ardd.

[1] Ceiling.

Yn lledu 'i frig oeid pren y bywyd îr,
A'i gangau llawn yn tew gysgodi 'r tir;
Ond rhag i ddyn gael bwyta 'i ffrwyth a byw,
Rhoed fforchawg fflam yn llaw angelion Duw.

Ebai Adda.

"Ow! Efa fwyn!—paham?—pa beth yw hyn?
I'n cwrdd ni ddaw ein Duw at ael y bryn;
Nis derbyn ef yr aberth hwn o'n llaw,
Arwyddion dig sy'n chwyfio acw draw.

"O! 'r pechod mawr—O! 'r rhwyg—ofnadwy yw!
O! 'r foment flin y tor'som ddeddf ein Duw:
Yn iach, yn iach, Baradwys deg am byth,
Lle rhodiem gynt yn nghwmni Duw 'n ddilyth.

"*Ymado byth* ni wnawn â'r allor hon,
Fe allai cawn ryw arwydd eto 'n llon:
Cydaros wnawn nes dêl cysgodau 'r hwyr,
Gan ddysgwyl fflam i ysu 'r oen yn llwyr."

Ar nawn y dydd, llonyddai natur fyw,
Pob gronyn bach fel yn llygadu ar Dduw;
Fe glywid sî rhwng dail y coed dinam
Oddiar yr ardd—aeth aberth Adda'n fflam.

"Ah! digon yw!" crochfloeddiai 'r ddeuddyn hardd,
"Cawn fyw, cawn fyw! 'r tu hwn i gaerau 'r ardd;
Ah! digon yw! mae Duw yn gwenu i'n gwadd,
Derbyniodd ef ein haberth heb ein lladd!"

Y SABBOTH CYNTAF O'R DILUW GYDA NOAH A'I DEULU YN YR ARCH.

Agorwyd ffenestri 'r wybrenau—
Trysorau yr eira a'r gwlaw;—
Angelion y nef â'u piserau
Hysbyddent hwy 'n llwyr ar bob llaw:
A dirgel ffynnonau 'r dyfnderau
Gan Dduw oedd i borthi y môr,
Rhyw angel symudai y seliau,
A'r dyfroedd a ddrylllient y ddôr.

Yr arch ar y dyfroedd aflonydd,
Ag engyl o'r nef ar ei bwrdd,
A Duw wrth y llyw oedd yn Llywydd,
A damwain nis gallant hwy gwrdd:
Hen No a arweiniai ei deulu
I rodio drwy gellau yr arch;
A llu y byd newydd yn talu
I'w brenin ufudd-dod a pharch.

"Dewch hwnt," eb y patriarch, "fy meibion,
Cyfeiriwch eich camrau 'r ffordd hon,
Ac awn i'r gell uchaf yr awrhon,
Cydfolwn yr Arglwydd yn llon."
Ar ffenestr yr arch y disgynai
Rhaiadrau y nef gyda thrwst,
Ac wrth ei hystlysau 'r ymgurai
Crych-donau 'r dyfnderau mewn ffrwst.

Rhaiadr ar raiadr yn bloeddio,
  Y gwynt yn chwibianu ar ei ryw;
Y creigiau ar ffrwst yn ymsuddo
  I'r dwr, i ymguddio rhag Duw:
Crych-lynoedd y ddae'r yn cofleidio
  Afonydd y nef gyda pharch,
A Noah yn arwain heb gyffro
  Addoliad teuluaidd yr arch.

Cydsafai y seithnyn i fynu
  O flaen yr hen batriarch, eu tad;
Ac yntau fel un yn aberthu
  Yn codi 'i olygon yn llad:
Cydganent ar dônau mwyn tlysion
  Anthemau boreuol y byd;
Am fynyd, clustfeiniai 'r awelon
  Cyn 'mollwng i'r gydgân ynghyd.

"Pwy fel tydi, O! Arglwydd Ior,
All droi y ddaear faith yn fôr,
A chadw 'r rhai a fynit ti,
Yn fyw uwch dwfn ryferthwy 'r lli?
  Nyni a'th folwn tra fo'm byw,
Rhuad y gwynt yn gynghan—
  Can's teilwng wyt, O! Arglwydd Dduw.

"Mor ddiddos yw ein cartref clyd,
Uwch dyfrllyd fedd yr anwir fyd;
Tra mae y farn yn berwi 'r lli,
Trugaredd wena arnom ni:
  Nyni a'th folwn tra fo'm byw,
Rhuad y gwynt yn gynghan—
  Can's teilwng wyt, O! Arglwydd Dduw.

"O! derbyn ein Sabbothol hymn,
Fel 'r aberth gynt ar ael y bryn;
A doed ein mawl trwy dwrf y lli,
Yn gymeradwy genyt ti:
  Nyni a'th folwn tra fo'm byw,
Rhuad y gwynt yn gynghan—
  Can's teilwng wyt, O! Arglwydd Dduw."

BOREU SABBOTH GYDA JOSEPH YN Y CARCHAR.[1]

Ar foreu lled dawel yr haul a gyfodai
  O'i wely, yn nhywod Arabia, le poeth;
Yn nyfroedd y coch-fôr ei wefus a wlychai
  Cyn tywallt ei oleu i'r Aiphtiaid yn goeth:
Yn ngharchar y brenin 'r oedd llencyn hardd mwynaidd,
  Hebrewas dichlynaidd ei fuchedd a'i foes,
Blith-dra-phlith â haid o ryw ddynion ffyrnigaidd,
  Y rhai mewn gefynau y brenin a roes.

Y llencyn Hebreig mor syn yr eisteddai
  Fel un a f'ai 'n cyfrif gronynau y gwawl;
Ei feddwl ar aden dychymyg ehedai
  At allor ei dad, lle 'r oedd gweddi a mawl:

[1] "Rhai o'r Rabbiniaid Iuddewig a ddywedant fod Joseph yn cadw y Sabboth yn yr Aipht." —*Calmet*, dan y gair *Sabboth*.

Murmurai yn ddystaw—" Y Sabboth yw heddyw,
Mae nhad yn aberthu ar ochr y bryn,
A mrodyr o'i amgylch ; heb neb un yn gyfryw
A mi, yn garcharor trwm galon fel hyn.

" A'm pen ar y gareg mor felus y breuddwyd
Dadebrais o hono ar doriad y dydd,
Yn llaw fy nhad rhodiwn—â'r siaced fe 'm gwisgwyd—
At allor y teulu yr elem yn rhydd,
Fy mrodyr a wenent—a Benjamin neidiai
Yn llaw ein mwyn famaeth ychydig o'n hol,
A'r oen oedd yn brefu—a'r coed a bar'toisai
Fy nhad, a gludasai y gwas yn ei gol.

" Mi a'i gwelwn e'n codi ei olwg i fynu,
A'i wallt gwyn yn parthu yn ymyl y fflam ;
Mewn gweddi ddifrifol mi a'i clywn e'n llefaru—
'Duw Isaac fy nhad, a Duw Abraham :
Duw Bethel—lle gwelais y nef yn agored,
Duw Peniel—lle trechais Dywysog y nef,
O derbyn y llanciau i'th heddwch, a deled
I'w mynwes dy fendith fel grymus ffrwd gref.'

" Fe droai hyd atom ei olwg siriolaidd,
Dechreuai lefaru mor fwynaidd, mor fad,
Am Isaac fy nhaid yn myn'd yn arafaidd
I fyny Moriah yn ochr ei dad ;
I'w ladd ar yr allor, a'i losgi yn lludw,
Ac eto fel credai fy hendaid yn Nuw,
Gan goelio er hyny y gwel'sai 'r pryd hwnw
Fy nhaid o'r swp lludw yn neidio yn fyw.

" Fe daflai ei law at yr oen ar yr allor
'Ha, fechgyn (eb ef) edrychwch ffordd hon ;'
Yn awr yn yr aberth mae ffordd wedi 'i hagor
I Dduw oedd ddigofus i wenu yn llon :
O ! cofiwch am gadw 'ch alloran yn drefnus,
A boed eich aberthau o hyd yn ddinam,
Hen wersi teuluaidd a ddysgais yn weddus
Gan Isaac fy nhad, a nhaid Abraham.

" 'Ha, wele, fy mechgyn, nid yw hyn ond cysgod
O rywbeth tra rhyfedd 'mhen oesau i ddyn,'
Fe dd'wedodd fy nhaid wrth fy nhad yn dra hynod—
'Duw edrych am oen y poethoffrwm ei hun,
Mae 'r dyddiau yn dyfod pan lyncir yr allor
Yr aberth, a'r holl osodiadau sy'n bod,
Ha, wele hwynt eisoes o bell yn ymagor,
Addola, fy enaid, *Duw-ddyn* sydd yn d'od.'

" O ! Aiphtddyn ysgeler—O ! gormod oedd iti
Fy neffro â'th grechwen, o fwyniant fel hyn,
'Roedd aethau dy garchar yn ddyeithr imi,
Tra 'r oeddwn wrth allor fy nhad ar y bryn :
O Arglwydd ! pa hyd y byddaf yn nhrallod
Y carchar yn dyoddef, a hyny ar gam ;
I'th wyllys 'rwy'n plygu, ond cofia'th gyfammod
A nhad, ac â nhaid, ac âg Abraham.

SABBOTH GYDA MOSES AR LETHR MYNYDD DUW.

Y Sabboth yw heddyw, äf â'r praidd i dawelwch,
Cânt esgyn i'r mynydd o gŵr yr anialwch;
Ond odid na châf fi ryw seibiant fy hunan,
Lle na ddaw 'r gwylltfilyn i ddifa 'r un egwan;
Ond odid na chaf fi ar lethri y mynydd
Rhyw gilfach dan glogwyn i eistedd yn llonydd,
Y perthi a'r mân gangau i mi fydd yn llwyni,
Fel Abraham gynt dan y derw 'n addoli,
Oenig o'r praidd ar y graig a aberthaf,
Af hwnt i'r fan acw—ac yno addolaf.

Estynai 'i ddwylaw tua 'r nef,
O flaen ei allor codai lef,
Ymdroellai 'r mwg yn golofn wen,
Ymdaenai 'n gwmwl uwch ei ben,
Cysgodfa oedd rhag haul a'i nerth,
Ar gŵr y mynydd cribog serth:
O flaen yr allor yn gytûn
Boddlonai Duw—addolai dyn.
Clywch e'n sibrwd—"Arglwydd Iôr,
Creawdydd mawr y tir a'r môr,
Ar lethri Horeb gwrando fi,
Holl dduwiau 'r Aipht y'nt ddim i ti;
Myn ryddid i dy blant ag sy'
Yn awr mewn dwfn gaethiwed du;
Ai dwylaw plentyn Abraham
Gwyd demlau fyrdd i feibion Ham?
Ai etifeddion Canaan dir
Sy 'n deddfu mewn caethiwed hir?
Gruddfanau 'r rhai a geraist yw
Cyd-gân côr yr eilun dduw;
Mae crechwen ynfyd Memphis dref,
Yn gymysg â galarus lef
Plant y rhai y buost gynt
Yn gado 'r nef i gym'ryd hynt,
I dreulio aml ddifyr awr
Dan gysgod dail y dderwen fawr,
Neu pan yn yfed awel rydd
Ar fainc y drws yn ngwres y dydd;
A wyt ti 'n cofio 'r noswaith oer,
Pan frithai 'r sêr lawr leni 'r lloer,
Ti dd'wedaist i'r hen ŵr ein tad,
Mai fel y ser y byddai had,
A seliaist hyn â gair dy lw:
Ac O! yn awr! O! wele nhw
Yn fintai ar ryw fintai brudd,
Yn cadw noswyl hwyr y dydd,
Yn flin, heb awydd am gael byw,
Mewn ofnau tost, yn ammheu 'u Duw.
Cymysga 'u chwys â phriddgalch brau
Y prif adeiliau yn ddiau,
Fe gwymp y genedl oll yn un,
Dan grafanc dost y creulawn ddyn;
Ar lethri Horeb gwrando fi;
Holl nerth yr Aipht, dim yw i ti;

Myn ryddid i dy blant ag sy
Yn awr mewn dwfn gaethiwed du,
A minnau mwy tra byddwyf byw,
Addolaf di, O! Arglwydd Dduw."

Cyfodai 'r bugeilddyn oddiar y dywarchen,
Cyffroai fedrusrwydd nefolaidd ei awen,
Ei lais a ddilynai syniadau ei deimlad,
A'r graig a gyd-blethai fwyn dônau ei ganiad.

Da iawn yw moliannu yr Arglwydd Goruchaf,[1]
A chanu emynau o foliant i'r Ion;
Pan chwery 'r haul melyn ar drothwy y borau,
Pan süir plant anian ar liniau 'r nosweithiau,
Am ei hoff drugaredd a'i wiredd caf son:
'Rwy'n synu wrth weled mor gribog yw Horeb,
Y'nghanol gwaith natur cynhyrfir fi 'n llwyr,
Wyt fawr, O fy Nuw! mewn nerth a doethineb,
Dwfn iawn yw 'th feddyliau—nid oes a all ateb,
Yr ynfyd ni ddeall, a'r annoeth ni ŵyr.

Ha, wele 'th elynion, O Arglwydd y lluoedd!
Dyfethir hwy oll fel y peiswyn o'th flaen,
Gwasgarant fel gwawn o flaen gorwynt y nefoedd,
Syrthiant i ddinystr, ni chodant byth bythoedd,
Fel dail yn yr hydref y rhuthrwynt a'u taen:
Ond ti a ddyrchefi fy nghorn i'r uchelder,
Eneini fi eto â'r olew sy 'n îr,
Fy llygaid a wêl gwymp plant ysgelerder,
Fy nghlustiau a glywant eu cwynofaint ofer,
A mi fel palmwydden y'nghanol y tir.

Y foment y sengi ar ddyffryn yr afon,[2]
Y torir caethiwus gadwynau dy blant—
O! na chawn i weled ar Horeb yr awrhon,
Dy fod yn amddiffyn i Israel yn dirion,
Y cânt eu telynau yn gyfan bob tant:
Y clywir y gaethglud yn canu mewn rhyddid,
Yn traethu mai uniawn yw 'r Arglwydd eu Duw,
Ac na welir twyll yn nghraig eu cadernid,
Mai Ef fydd eu noddfa hwy mwyach;—oblegid
O ddwylaw 'r Aipht greulawn fe 'u dygodd yn fyw.

O na chawn wel'd arwydd—

Ha, pam? beth yw hyn? pa law sy 'n gwneyd coelcerth;
Pwy? pwy a fu 'n ennyn y fflam yn y lasberth?
Mae 'r tân yn ymdroelli am y cangau gwyrddleision,
A'r fflam yn cofleidio y mân-ddail yn dirion;
Anghofiodd yr eirias mai 'i harfer yw difa
A'i chrasboeth wefusau y berth a gusana.
Af acw yr awrhon i syllu mwy arni,
Paham nad yw 'r berth yn yr eirias yn llosgi?
Ofnadwy yr olwg! pwy, pwy sydd yn sefyll
Y'nghanol y wenfflam sy'n fforchi mor erchyll?

[1] Cynghaneddiad rhanau o *Salm* xcii.—"Salm neu gân ar y dydd Sabboth." Priodola rhai o'r Rabbiniaid awduriaeth y Salm hon i Moses; ond y mae enwau yr offerynau cerdd yn taeddu rhai beirniaid i ddyweyd mai Dafydd a'i cyfansoddodd.
[2] Yr Aipht.

Mae 'n chwraeu â'r fflam fel plentyn â'r bluen,
Mae 'n clymu 'r cylch tanllyd o amgylch ei dalcen,
Mae 'n pwyso 'i benelin ar gangen o'r lasberth,
Mae 'r dail yn ymglymu am ei arlais yn brydferth;
Ah! wele, mae 'n dyrchu ei law ar i fynu,
Ust! anian, ust! gynhwrf, mae 'n myn'd i lefaru:—

"Myfi yw Duw dy dad, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob......Gan weled y gwelais gystudd fy mhobl sydd yn yr Aipht, a'u gwaedd o achos eu meistriaid gwaith a glywais; canys mi a wn oddiwrth eu doluriau; a mi a ddisgynais i'w gwaredu hwy o law yr Aiphtiaid, ac i'w dwyn o'r wlad hòno, i wlad dda a helaeth, i wlad yn llifeirio o laeth a mel."[1]

Y llariaidd fugeilddyn ei wyneb a guddiodd
  O fewn i oblygion ei amwisg yn awr;
Yr olwg ar Dduw â dychryn a'i llanwodd,
  Addolai yn ddystaw gan edrych i lawr:
Ca'dd amnaid ar Horeb na syrthiai 'r Israeliaid
  Yn llwyr yn nghaethiwed yr Aiphtiaid yn brudd;
Fe gafodd awdurdod i dd'od â'r anwyliaid
  O grafanc y gelyn i Ganaan yn rhydd.

§ II. SABBOTHAU GYDA 'R IUDDEWON.

SABBOTH YN YR ANIALWCH.

Y'nghanol tywodlyd anialwch Arabia,
Lle nad oedd gwyrddlesni i urddo 'r olygfa,
Na dim ond serth greigiau fel rhai yn ymryson
Pwy ddyrchai ei goryn yn uwch na 'i gyfeillion;
Neu wastad-dir eang lle rhedai 'r gorwyntoedd,
A chipio y tywod a'u lluchio i'r nefoedd,
Y'nghanol chwe' chan'mil a mwy o wyr heini'
Esgynai Israeliad i'r tabernacl i addoli.

Hanbych adeilad symudol a chostus,
Mae 'r olwg sydd arnat yn hynod o ddestlus:
Ystyllod coed Sittim yn dlysion ac eurog
Mewn mortais o arian, pob un yn sefydlog;
Barau goreurog mewn eurog ddolenau
Yn cynnal ei estyll fel gwerthfawr gadwynau;
Cydrhwng i bum colofn ăf i mewn i'r adeilad
Sy'n sefyll ar wadnau o bres coeth yn wastad;
Dyrchafaf fy llygaid i'r nenfwd cywreinwedd,
Un len deg ysblenydd o lïain cyfrodedd;
Ac arni y gweithiwyd cerubiaid cywreinfad
O las-liw, a phorphor, ac edau ysgarlad;
Un llen ar ddeg hefyd o leni a weuwyd
O hir-flew y geifr ar hon a amdŏwyd;
Ac yna crwyn hyrddod yn gochion eu lliwiau,
A chrwyn y daear-foch yn haen arnynt hwythau.

Yn nghŵr draw 'r adeilad, ar byst goreuredig,
Y ceir y wahanlen hardd wech yn grogedig,
Ac arni arluniau o ddysglaer gerubiaid
A weithiwyd â dwylaw llancesi 'r Hebreaid;
Tu ol i hon acw mae arch y cyfammod,
A llechau 'r ddeddf ynddi—hen geryg tra hynod—

[1] *Ecsod.* iii. 6, 7, 8.

Ac ar ei chaeadlen mae euraidd gerubiaid
Yn wyneb yn wyneb, ac eto mae 'u llygaid
Yn syllu 'n ddifrifol ar y fan y mae 'r Duwdod,
Yn cwrdd â'r Israeliaid heb eu lladd am eu pechod.
[Addola, fy enaid, yr hen drugareddfa,
Ar lechau 'r ddeddf foesol yn llonydd orwedda:
Rhyfedda, fy enaid, drefn fawr iachawdwriaeth,
Mae'r ddeddf erbyn heddyw yn sail dy achubiaeth.]
O flaen y wahanlen mae allor ysblenydd,
Lle llysg blodau peraidd yr hwyr a'r boreuddydd,
Y gwynfwg ysgafnaidd sy'n gwmwl o'u deutu
Yw 'r awel berlysiog wrth arogldarthu;
Yr euraidd ganwyllbren, y bwrdd a'r holl gelfi,
Rhyw gymhorth gwan ydynt yn awr i addoli:
Mae Aaron yn dyfod mewn rhwysg a gorfawredd,
A'i fantell ardderchog, a'i ephod dra rhyfedd,
Y perlau dysgleirwych sy'n lleibio 'r goleuni,
Yn lluchio 'u tanbeidrwydd fel tân yn gwreichioni;
Ei wallt yn gydynawg dan feitr yn hylwydd
Ac arni 'n gerfiedig—"Sancteiddrwydd i'r Arglwydd."

Rhaid imi addoli, offrymu, aberthu,
Trwy ddwylaw 'r offeiriad sy'n awr yn gweinyddu;
Mae'r tân yn *dân Duw* ar yr allor yn difa,
Arwyddlun ofnadwy o ddig y Goruchaf;
Mae 'r gair yn *air Duw* o enau 'r offeiriad,
Derbyniodd fy offrwm; mor fawr yw ei gariad;
Mae 'r cwmwl yn do uwch y babell ardderchog,
Y golofn a'n dygodd drwy'r Cochfor trochionog;
Hen faner y nefoedd sy'n awr wedi 'i chodi
A weuodd y Crewr o eddi 'r goleuni:
Af yn ol i fy mhabell, addolaf yn siriol,
Trwy amryw ddefodau y ddeddf seremoniol.

Yn ol myned adref dan ddifrif fyfyrio,
Fe welai y manna, a'r bwrdd wedi 'i hulio,
Y soflieir a ddygwyd ar yr awel brydnhawnol,
A'r manna a wlawiwyd o'r nefoedd yn siriol,
Ymdorai ei fyfyr uwch ben yr olygfa
Yn emyn pereiddiol o fawl am hyn yma:—

Anfeidrol yw dy allu mawr
O'r nef i'r llawr canfyddir,
O'r tanllyd fyd a'i oleu càn
I'r blodyn gwan fe'i gwelir.

Yr awel fwyn i'n gweini geir,
I ddwyn soflieir yn lluon;
Ac yna 'n glyd rhwng haenau 'r gwlith,
Cawn fara 'n dryfrith ddigon.

Pa law fu 'n lledu 'r mânwlith hyn
Fel lliain gwyn ar dywod,
A'i lenwi 'n hardd â bara 'r nef,
Dan wlith y nef yn gysgod.

O fewn i'r tabernacl, ti, O Dduw!
Yn ddiau yw fy Marwr;
Ac yn fy mhabell, er fy mri,
O wele, ti yw 'm Porthwr.

Addolaf di, fy Nuw, fy Nhad,
Dan yr amlygiad yma,
Yn nerthu 'm corff â breiniol saig,
A dwr o'r graig, a manna.
Ac yna 'r Israeliad a droai 'i olygon
Yn serchog o'i amgylch, gan gyfarch ei feibion,
Y bechgyn llon glandeg oedd yno o'i ddeutu
Yn barod i gipio pob gair wrth ddyferu
Oddiar ei wefusau. Ac yna fe dd'wedai
Am fawredd yr Arglwydd, a'r hyn oll a wnelsai
O Zoan boblogaidd trwy 'r Môr Coch cynhyrfus;
A chanai fwyn ddarnau o'r anthem yn drefnus,
A genid gan Firiam ar draeth y gyflafan,
Pan oedd balchder yr Aipht yn gymmysg â'r graian:
Ac yna tynghedai hwy 'n ddifri 'r pryd hwnw
Addolwch Dduw 'ch tadau (bendigedig fo'i enw).

SABBOTH MEWN BWTHYN AR FIN LLYN TIBERIAS.

Ymwisgai bro Canaan ei noswisg am dani,
Ymlechai y bryniau yn nghesail yr hwyr;
Awelon cynhyrfus rhwng hafnau 'r de-ddwyrain
Gylch droent grych-holltent y llyn yn dra llwyr;
Am nawddle cysurus o dymhestl Tiberias
Ymlwybrais at fwthyn yn ngodre y bryn:
Y chweched dydd ydoedd a nawn parotoad
I'r Sabboth dyfodol oedd hi y pryd hyn.
Zabuloniad[1] boneddig oedd Arglwydd y teulu,
Cai gyfoeth yn helaeth o'r tywod a'r môr,[2]
A'i fynwes oedd danllwyth o aidd am gyflawni
I'r fanwl lythyren holl ddeddfau ei Ior.
Ar foreu y Sabboth fe'i ceid yn hyfforddi
Ei deulu yn nefod y gyfraith yn gu,
Ni welid marworyn o dân ar yr aelwyd[3]
Ni wneid yr un gorchwyl hyd fuarth y tŷ,
Ni lunid un daith, ac ni sonid am fraenar,
Ni rwymid anifel wrth did yn y fro,
Ni 'sgubid y llawr rhag i hyny fraenaru
Y manlwch a huliai y lloriau yn do.[4]
Fe droai ei wyneb at deml Caersalem,
Ymgrymai o barch i'r adeilad oedd fawr,
Ymylau ei wisgoedd oedd lydain a harddwych,
A sanctaidd yr eddi a hongiai i lawr.[5]
Y rhagtal trefnusol a'i femrwn rhyfeddol,
Ar ganol ei dalcen osodai 'n ddinam;[6]
Cyflawnai 'i weddïau gan uchel ymffrostio
Y llenwid ei wythi â gwaed Abraham.[7]
Ei addysg oedd addysg y ddeddf heb efengyl,
Ei lyfrau oedd lyfrau 'r prophwydi yn rhol,

[1] Yr oedd rhandir Zabulon yn cyrhaedd hyd fin llyn Tiberias.

[2] *Deut.* xxxiii. 19; "Hwy (Zabuloniaid) a drigant ar finion y Môr Mawr, ac a wleddant ar bysgod y môr, ac a ddaliant y *chalson* (neu *munez*), â gwaed pa un y lliwiant yn borphoraidd edafedd eu dillad; ac o'r tywod y gwnant wydr at ddrychau, a llestri eraill."—Alleiriad Jonathan o "cyfoeth y moroedd a sugnant, a chuddiedig drysorau y tywod."

[3] *Exod.* xxxv. 3.

[4] Mynai rhai o'r Rabbiniaid fod gwneyd hafnau yn y llwch yn fraenaru; felly yn yr amyn un deugain o ddeddfau cyffredinol at gadw y Sabboth gwaherddid ysgubo y llawr, rhag i hyny wneyd braenar yn y llwch, a thrwy hyny dori sancteiddrwydd y dydd.—"*Allen's Modern Judaism.*"

[5] *Num.* xv. 38, 39; *Mat.* xxiii. 5. [6] *Deut.* vi. 8. [7] *Ioan* viii. 33.

Ymlonai 'r elfenau yn siriol
  Mewn gwisg o oleuni yn awr :[1]
Ymwthiai 'r ffurfafen ysblenydd
  I ganol y dyfroedd â rhoch,
Lle gwibia 'r mellt cyflym drwy 'u gilydd,
  Lle rhua 'r taranau yn groch.[2]

Ymlithrai 'r môr ffrochwyllt i'w wely
  Fel plentyn ar amnaid ei fam ;
Ymdrwsiai 'r ddaearen o'i ddeutu
  Fel gwyryf hardd, ieuanc, ddi nam :
Ymgodai coed llawn-dwf eu brigau
  Uwch blodau o'u cylch oedd yn fyrdd,
Fel llanciau 'n ymryson i chwareu
  Ar lawr-len deg laswen a gwyrdd.[3]

Yr haul ar ei orsedd risialaidd
  Eisteddai 'n ffurfafen y nef ;
Y lleuad o'i phalas arianaidd
  Lygadai yn graff arno ef ;
Y ser yn dra gwylaidd ymguddient
  O'i olwg yn ngoleu y dydd ;
Yn nghanol y ddunos ymhoewent,
  Gan chwyfio 'u pelydr yn rhydd.[4]

Ehedai yr eryr i'r awyr
  Uwch dyfroedd cymysglyd y môr ;
Mil fyrdd o fân adar yn brysur
  Esgynent i ffurfio y côr :
Dechreuai y morfeirch galluog
  Gydbrancio hyd feusydd y don,
A thorf o fân bysgod lliosog
  Yn chwareu o'u hamgylch yn llon.[5]

Rhwng tyweirch gwyrdd-leision y ddaear
  Ymwthiai y milod i fod,
Wrth archiad Jehofah, 'n llu hawddgar
  I'r golwg y gwelais hwy 'n dod ;
O'r cawrfil i'r milyn distadlaf,
  Pob un yn ol tymher ei ryw,
Yn taflu eu golwg serchocaf,
  Yn dystaw glustfeinio ar Dduw.

A gwelais y brenin yn dyfod,
  Y llywydd galluog, sef *dyn ;*
Y pridd fywiocâwyd mor hynod
  Ag anadl y Duwdod ei hun ;
Yr ysbryd roes Duw i gartrefu
  Mewn palas o bridd, oedd mor hardd,
Yn dod y pryd hyn i feddiannu
  Cynnyrchion telediw yr ardd.[6]

Chwe' diwrnod yn chwimwth aeth heibio,
  A gwawriodd y teg seithfed dydd ;
Bro 'r dyddim sy'n awr wedi 'i hulio,
  A pherffaith gre'digaeth yn rhydd.
Heddyw yw gŵyl yr Anfeidrol,
  Ni thorir llonyddwch y llawr,

[1] Y dydd cyntaf. [2] Yr ail ddydd. [3] Y trydydd dydd.
[4] Y pedwerydd dydd. [5] Y pummed dydd. [6] Y chweched dydd.

Lle cerddai 'r gair BYDDED mor nerthol
  BENDIGAID sy 'n rhedeg yn awr.

Ni chrogwyd lamp ddysglaer o newydd
  Yn nenfwd[1] asurol y byd;
Ni rwygid mân wreiddiau y coedwydd
  Gan eraill am ddangos eu pryd:
'R un llygaid y dydd oedd mor siriol
  Yn cau ar ddydd Gwener brydnawn,
A ledai 'u hamrantau boreuol
  Ar wawr y dydd Sabboth yn llawn.

Y gwynt oedd heb ddysgu och'neidio,
  Wnai delyn o fângoed yr ardd;
Alawon mwyn natur yn llithro
  I gydgân yr engyl, lu hardd;
Afonydd tir Eden yn sisial
  Hyd raian erddygan bur dda:
Dim geiriau, ond lleisiau dihafal
  Yn esgyn i'r nefoedd a wna.

Y ddeuddyn dibechod ymrodient
  Drwy ganol yr ardd gyda Duw,
Yn nghanol ei fawredd ymgollent,
  Rhyfeddent, addolent yn fyw;
Synent aruthred y creigiau,
  Eiddiled y blodau heirdd mân,
Addolent y llaw fu 'n eu llunio,
  Canmolent ei enw mewn cân.

(Mi blygaf fy mhen, mewn dychymyg,
  Gostyngaf fy llygaid i'r llawr;
Ai *un wyl* a gafwyd mor ddiddig
  Cyn dyfod ffrwd pechod mor fawr!)—
Addolaf di, Arglwydd, fy Nghrëwr,
  Cydganaf âg engyl y nef,
Cysegraf fy oes i'm Gwneuthurwr,
  Rhyfeddaf ei allu mawr Ef.

Y SABBOTH CYNTAF AR OL Y CWYMP.

Ar doriad dydd, 'r oedd gwawr o rudd a gwyn
I'r dwyrain draw, i'w wel'd uwch ael y bryn:
Yn araf iawn y deuai 'r haul i'r lan,
Fel un dan ofn a ch'wilydd dod i'r fan.

Ar lethr y fron, gerllaw i Eden ardd,
Mewn peisiau crwyn, y safai 'r ddeuddyn hardd;
Ar uchaf coed yr allor yno a wnaed
Y ddafad fwyn yn aberth llosg a gaed.

Ein rhiaint teg gydsafent yno 'n syn,
Yn drist wrth droed yr allor ar y bryn;
Eu haberth oedd i'w tybiaeth hwy 'n ddinam,
Pa arwydd sydd, ni ddaeth o'r nef un fflam!

Islaw i'r twyn, yn dewfrig lwyn diail,
'R oedd Eden ardd, a'i phrenau 'n llawn o ddail:
Fel derwen gref, neu ryw freninbren hardd,
'R oedd pren gwybodaeth uwch holl goed yr ardd.

[1] Ceiling.

Er hyny, *un* y'nt ynddo Ef,
Yn nhwrf y byd, yn llonder nef;
Un rhan sy'n croesi 'r llif yn awr,
A rhan sy mewn gogoniant mawr.

Un Duw, un dôn, un lais, un lef,
Sydd heddyw drwy y ddae'r a'r nef;
Dwy dorf yn un mewn anthem mwy,
Heb ddim ond afon rhyngthynt hwy.

Ymuna â'r côr, fy enaid, gad
Yn anghof bethau 'r anial wlad;
Pa urddas mwy ar ddaear ddu,
Na seibiant bach o'r nefoedd fry?

ADDOLIAD BOREU SABBOTH.

Mil henffych wawr y sanctaidd ddydd
Cyfodai Crist o'r bedd;
I'm mynwes oer doed llewyrch rhydd
Pelydrau heulwen hedd.

Mae 'r Brenin heddyw 'n dod ei hun
A bendith yn ei law;
Mewn gweddi a mawl awn yn gytûn
I'w gwrddyd pan y daw.

Un dydd o fewn i'th dŷ, fy Nuw,
Sy lawer gwell i mi
Na mil yn mhalas dyn didduw,
Mewn cyfoeth, parch, a bri.

O! na chawn dreulio f' oes i gyd
Mewn cyfryw ŵyl a hon;
A chanu 'th glod heb ball o hyd
Mewn tragwyddolfyd llon!

ADDOLIAD NOS SABBOTH.

Moliannwn di, O Arglwydd Ior!
Yn un â'r gwiw sancteiddiol gôr,
Sy'n Salem bur yn dyrfa gref
Yn chwareu aur delynau 'r nef.

Hwn oedd y dydd y torodd gwawr
Gogoniant mwy ar ddaear lawr,
Na phan oedd Duw â'i air digoll
Yn hulio 'r nef â bydoedd oll.

Daeth Iesu Grist i'r lan o'r bedd,
Ac yn ei law dragwyddol hedd;
Mawr iawn oedd creu y bydoedd mâd,
Ond mwy oedd prynu dynol hâd.

Cydganwn glod âg uchel gân,
I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân:
Y llef o'n hol yn wastad yw,—
Y seithfed dydd, "Addola Dduw."

"ADDOLA DDUW."

Addola Dduw!—O ddyn! paham
Yr oedi fynyd awr?

Cydseinia anthem fwyn ddi nam
  A chôr y nef a'r llawr;
Y lloer y nos, a'r haul y dydd,
  A'r holl gre'digaeth fyw,
Mewn uchel sain â thafod rhydd,
  Sy'n d'weyd—"Addola Dduw."

"Addola Dduw!"—ei law a ran
  I ti fendithion fyrdd,
Ei lwyni Ef â'u blodau càn
  Sy'n hulio llethri 'th ffyrdd;
Ei afon Ef sy'n dyfrhau
  Dy dir yn ffrydiau byw,
A'i gloew ddwr sy'n llawenhau
  Dy oes—"Addola Dduw."

"Addola Dduw!"—dy uchel fraint
  Yw dysgu cerddi 'r nef;
Hyfrydwch engyl pur a saint
  Yw canu iddo Ef.
Os myni ddechre 'r nefol gerdd
  Y'nghẁr yr anial gwyw,
Eistedda ar dywarchen werdd,
  Ac yna—"Addola Dduw."

"Addola Dduw!"—dy fywyd fydd
  Dy adnewyddiad llon,
Daw heddwch fel yr afon rydd,
  Yn gefnllif i dy fron;
Cei fyw dy oes mewn llawn fwynhad
  O bethau 'r nefoedd wiw,
A marw mewn tangnefedd mad,
  Am hyn "Addola Dduw."

MOSES STUART.

Y MAE i bob oes ei dynion, ac yn mhob gwlad y megir glew. Y mae rhai dynion, os nad ellir dyweyd eu bod o flaen eu hoes, y gellir dyweyd eu bod ymlaenaf yn eu hoes, gyda golwg ar y cylch neu y gymydogaeth yn mha un y maent yn byw. Un o'r cyfryw oedd Moses Stuart: dyn ymlaen ar ei oes, ond eto dyn i'w oes. Dychymyga rhai dynion eu bod ymlaen ar eu hoes pan fyddont yn dyweyd rhywbeth yn ias eu penau, a phawb yn gwrthod derbyn eu hathrawiaeth, oblegid fod eu haeriadau wedi eu hateb am y canfed tro, a'u mawredd a'u hynodrwydd hwythau yn gynnwysedig yn y ffaith eu bod yn hollol anwybodus o symudiadau yr oes, ac o weithrediadau a meddyliau eu cymydogion o'u cwmpas. Nid un o'r cyfryw oedd Stuart. Mae yn wir iddo dori allan lawer o gynlluniau newyddion nad oedd ei gyfeillion mynwesol yn hoffi. Ysgrifenodd lawer o bethau ag a barasant i rai droi yn elynion iddo am dymmor; ond nid hir y buont heb gael eu hargyhoeddi o'u camsyniad, a'u dwyn i weled mai dyn ei oes oedd Stuart, ac mai y rheswm ei fod yn gwahan-

iaethu oddiwrthynt hwy oedd ei fod wedi darllen mwy, a meddwl yn well na hwy. Ond hwyrach fod rhai o ddarllenwyr y "Traethodydd" na wyddant fawr am Stuart ond ei enw. Rhaid i ni gyfaddef ein bod ni ein hunain, hyd ar ol ei farwolaeth, yn dra anwybodus o'i hanes, er ein bod ni er's rhai blyneddau wedi syrthio mewn cariad âg ef er mwyn ei ysgrifeniadau. Buom lawer gwaith, wrth ddarllen ei Esboniadau ar y Rhufeiniaid, Hebreaid, a'r Dadguddiad, ei ramadeg Groeg a Hebraeg, yngbyd â'i amrywiol erthyglau yn y cyhoeddiadau chwarterol Americaidd, yn ceisio dychymygu pa fath ddyn ydoedd—pa fodd yr oedd wedi casglu yr holl wybodaeth a feddai—a pha fodd yr oedd yn cael amser ac amynedd i ysgrifenu ac adysgrifenu drosodd a throsodd, weithoedd, y rhai y mae yn dda genym am danynt, ac eto, o herwydd eu meithder a'u dysg, yn mron blino yn aml wrth eu darllen. Tueddid ni yn gyffredin i edrych arno fel mab i ryw foneddwr enwog, neu o leiaf weinidog dysgedig, wedi cael y manteision goreu yn moreuddydd ei oes, yn meddu corff cryf ac iachus, wedi treulio rhan fawr o'i oes ymhlith dysgedigion Germany, gan ei fod mor gyfarwydd â'u gweithoedd, ac mor hoff o honynt, er yn ddigon annibynol i wahaniaethu oddiwrthynt, pa bryd bynag y gwelai hwynt yn gwyro oddiwrth y gwirionedd. A meddyliem, ymhellach, ei fod yn un nad oedd ganddo ddim i'w wneyd ond darllen, meddwl, ac ysgrifenu. Pa fodd bynag, wrth ddarllen ei ragymadrodd i'w Esboniad ar y Dadguddiad, yr hwn gyda llaw sydd bron yn ddigon o waith oes i ddyn ei ddarllen, ac am yr hwn y dywedai un ysgrifenydd enwog, er yn hollol wrthwynebol i farn Stuart, am y Dadguddiad, "Mae yr esboniad ar y Dadguddiad yn waith ag y buasai y drydedd ran o hono yn ddigon i anfarwoli enw unrhyw ddyn:" wrth ddarllen, meddwn, ragymadrodd y llyfr hwn, cawn brofion amlwg fod yr awdwr ymhell o fod yn meddu ar gorff cryf, a chyfansoddiad iachus, ac hefyd fod ganddo lawer o waith, fel athraw, yn ystod deugain mlynedd i dros bymtheg cant o fyfyrwyr, heblaw darllen, myfyrio, ac ysgrifenu. Fel hyn, tröem ymaith gyda theimlad siomedig nad oedd ein darlun yn gywir am y ddau beth hyn, ac mewn canlyniad ammheuem gywirdeb ein dychymyg am ei rieni a'i fanteision boreuol. Pa fodd bynag, yr ydym yn bresennol, trwy gynnorthwy Proffeswr E. A. Parks, o Andover, a Dr. William Adams, o New York, wedi dyfod o hyd i'r hyn oedd wedi bod yn ddirgelwch i ni am flyneddau; sef hanes bywyd Proffeswr Stuart. A chan fod cryn lawer o haelioni llenyddol yn ein calon, yn gystal ag awydd i ddangos ein parch i un ag yr ydym wedi ac yn parhaus dderbyn lles oddiwrth ei ysgrifeniadau, penderfynasom, heb lawer o drafferth, anrhegu darllenwyr y "Traethodydd" â'r hyn a wyddom am ei hanes.

Ganwyd ef, medd Proffeswr Parks, yn ei bregeth anghladdol, yn Wilton, Connecticut, Mawrth 26, 1780. "Mab ydoedd i dyddynwr lled isel ei amgylchiadau, ac fel y cyfryw bu am rai blyneddau yn gweithio ar y tyddyn gyda ei dad; ond ei brif hyfrydwch oedd llyfrau. Yr oedd yn meddu ar feddwl cyflym a bywiog. Addfedodd ei ddeall yn gynnar, a'r hyn nid yw yn dygwydd yn gyffredin, parhaodd yn ei nerth yn hir. Pan yn bedair blwydd oed deallai yr hyn a ddarllenai, a phan yn ddeuddeg teimlai bleser neillduol wrth ddarllen "Edwards ar yr Ewyllys." Dechreuodd ei fyfyrdodau ysgoleigaidd pan yn bymtheg. Daeth yn fyfyriwr yn Ngholeg Yale yn yr ail flwyddyn o lywyddiaeth yr enwog Dr. Dwight. Daeth yn feistr ar y gramadeg Lladin mewn pedwar diwrnod, ac mewn

ychydig ddyddiau yr oedd o flaen rhai ag oeddynt wedi bod fisoedd yn myfyrio y Ffrancaeg. *Mathematics* oedd ei brif hyfrydwch; ond yr oedd ynddo awydd cryf ac addasrwydd neillduol at bob cangen o wybodaeth. Yn y flwyddyn 1799, ennillodd urddau athrofaol gydag anrhydedd blaenaf ei ddosbarth; wedi hyny bu yn athraw athrofa yn Fairfield, tra ar yr un pryd y talai beth sylw i'r gyfraith. Yn 1802, dewiswyd ef yn athraw yn Ngholeg Yale, lle yr arosodd am ddwy flynedd. Tra yn athraw, dechreuodd fyfyrio y gyfraith, a galwyd ef at y *bar* pryd nad oedd ond dwy ar hugain oed, ac yn y rhan ddyfodol o'i oes yr oedd bob amser yn son gyda llawenydd am y lles a dderbyniasai i'w feddwl wrth fyfyrio y gyfraith, fel dysgyblaeth i'w ddeall. Trwy wrandaw Dr. Dwight yn pregethu, daeth i deimlo y pwys o feddu crefydd bersonol, a phrofodd gyfnewidiad hollol yn ei deimladau crefyddol, a daeth i'r penderfyniad o dreulio ei oes yn ngwasanaeth yr efengyl. Daeth ar yr un pryd yn gyfarwydd â "Macknight ar yr Epistolau," yr hwn a effeithiodd ar ei feddwl, a ddylanwadodd ei galon, ac a ddangosodd iddo waith ei oes. Wedi ychydig iawn o barotoad, Mawrth 5, 1806, urddwyd ef yn fugail yr eglwys yn New Haven. Mae gwres, gonestrwydd, a llwyddiant ei weinidogaeth, yn bethau a gofir gyda hyfrydwch yn yr eglwys hono ar ol treiglad deugain mlynedd. Er maint o enwogrwydd a gyrhaeddodd fel athraw ac ysgrifenydd, mae llawer a dybiant mai yn yr areithfa yr oedd fwyaf enwog. Yr oedd y gynnulleidfa, dros ba un yr urddwyd ef, wedi bod am tua deng mlynedd ar hugain yn arfer gwrandaw ar bregethau goleu, oer, ac athronyddol, yr hwn ddull o bregethu a ellir yn briodol ei alw yn ddiamcan. Cynhyrfwyd hwy o'u diofalwch gan ymadroddion byrion, tarawiadol, ac eglur, eu bugail newydd; ac yn benaf oll gan y dull sobr, teimladol, difrifol, a gonest, yn mha un ei traddodid. Mewn canlyniad i hyn, dan fendith Duw ar ei lafur, ychwanegwyd tua dau cant at yr eglwys, ac yn eu plith yr enwog Noah Webster, awdwr y geirlyfr goreu yn yr iaith Seisonig, y pryd hwnw yn ei hanner canfed flwydd oed, yr hwn, yn mhen pymtheg mlynedd ar hugain wed'yn, ar ei glaf wely (yr oedd Moses Stuart ar y pryd yn ymweled â New Haven), a gyflwynai i'w fugail blaenorol ei ddiolchgarwch gwresocaf am onestrwydd ei weinidogaeth foreuol. Ar ddiwedd y tymmor yma (1810), pan oedd M. Stuart yn ddeg ar hugain oed, neillduwyd ef i fod yn broffeswr llenyddiaeth Feiblaidd (*sacred literature*) yn yr athrofa dduwinyddol ydoedd newydd ei ffurfio yn Andover. Yr oedd y sefydliad yma wedi ei ffurfio ar ei sail bresennol, gyda'r amcan unigol o ddysgu duwinyddiaeth, yn 1808. Yr athraw cyntaf mewn llenyddiaeth Fiblaidd oedd y Parch. Eliphalet Pearson, LL.D. Nid arosodd yn ei swydd ond un flwyddyn yn unig. Er nad oedd Stuart yn un o sylfaenwyr yr athrofa, eto gellir dyweyd ei fod yn dal cysylltiadau agos â hi er amser ei sefydliad. Nid o herwydd ei enwogrwydd y pryd hwnw fel ysgolaig, nac o herwydd ei gyfarwydd-der â'r ieithoedd dwyreiniol, y dewiswyd ef i'r swydd o fod yn athraw yno, oblegid nid oedd ei wybodaeth o'r Hebraeg y pryd yma ond cyfyng iawn. Nid oedd dwy flynedd o barotoad ar gyfer y weinidogaeth, a phum mlynedd o ymdrech a llafur caled yn ei swydd, wedi gadael iddo ond ychydig amser i fyfyrio yn gywir a helaeth iawn. Dewiswyd ef o herwydd fod ei alluoedd y fath ag a'i dynodent fel un oedd yn alluog ac ewyllysgar i addasu ei hun ar gyfer unrhyw swydd; ac i'r dyben o barotoi ei hun, ymosododd gyda phenderfyniad nerthol a didroi yn ol, yn union-

gyrchol ar ei osodiad yn y swydd newydd a phwysig hon. I'r dyben o ddeall gwir werth gwasanaeth Stuart i'r byd fel ysgolâig dwyreiniol, tybia Dr. Adams fod yn anghenrheidiol edrych ychydig ar sefyllfa dysgeidiaeth Feiblaidd yn America tua'r amser y dechreuodd ei yrfa fel athraw yn Andover, a chyn hyny. Hwyrach nad anfoddlawn fydd ein darllenwyr i ninnau gydrodio âg ef, i'r dyben o'i wrandaw yn adrodd ei hanes. Yr oedd llawer o weinidogion boreuaf Lloegr Newydd, a'i thiriogaethau, yn ddynion anarferol o ddysgedig, wedi eu dwyn i fyny yn mhrif athrofäau Prydain, a hyny yn oes euraidd dysgeidiaeth Feiblaidd. Anhawdd nodi un tymmor arall mewn hanesyddiaeth Seisonig, pan yr oedd cynnifer o ser talentog yn dysgleirio ar y ddaear. Pa beth bynag oedd barn Cromwell am brydyddiaeth a llenyddiaeth ysgafn yn gyffredin, rhaid addef ei fod yn garwr ac amddiffynwr gwresog gwir ddysgeidiaeth. Heb goffâu llawer o enwau ag oeddynt yn nodedig mewn llenyddiaeth yn gyffredinol, hynodir tymmor y werin-lywodraeth gan enwau anrhydeddus a bythgofus Selden, Usher, Chillingworth, Taylor, Pococke, Cudworth, Leighton, Baxter, Castell, Lightfoot, Brian Walton, Prynne, Owen, ac eraill nid llai dysgedig, ond rhy liosog i'w henwi. Prawf y rhestr hirfaith o enwau cythreuliaid yn llyfr "Coll Gwynfa" pa mor gyfarwydd ydoedd Milton âg ysgrifeniadau y Rabbiniaid. A dengys "*Syntagmata de Diis Syriis*," gan ei gyfaill Selden, nad oedd myfyrdodau dwyreiniol yn arwynebol ar y pryd. Yn y tymmor hwnw y casglodd Walton ei Fibl amlieithawg;—caniatâai Cromwell i'r papyr ar ba un yr argraffwyd ef gael ei ddwyn i mewn yn ddidreth. Dyma y pryd y cyhoeddodd Castell y gwaith Herculeaidd hwnw—y geirlyfr seithieithawg. Yr oedd Lightfoot yn ei bersondŷ allan o olwg y byd, a Pococke yn Rhydychen, yn olrhain eu hymchwiliadau dyfnddysg yn yr holl dafodieithoedd dwyreiniol. A'r dynion hyn yr oedd pregethwyr cyntaf Lloegr Newydd yn gydoeswyr; yr oeddynt wedi bod mewn ysgolion plwyfydd a cholegau. Cyfranogent o wresogrwydd eu myfyrdodau. Ni ranwyd cydymdeimlad dysgedigion trwy alltudiaeth. Ar ei ddechreuad yr oedd rheolau Coleg Harvard yn nodi Hebraeg, Caldaeg, a Syriaeg, fel pethau i'w dysgu ynddo. Rhoddodd Dr. Lightfoot ei gasgliad anmhrisiadwy o lyfrau dwyreiniol i'r coleg hwnw; y rhai, yn anffodus, a losgwyd er's tua chan' mlynedd yn ol. Mr. Chauncy, ail lywydd Coleg Harvard, ydoedd gyfaill mynwesol i'r archesgob Usher, ac wedi bod yn athraw mewn Hebraeg a Groeg yn athrofa Caergrawnt. Yr oedd Cotton, gweinidog cyntaf Boston, yn alluog i ymddyddan yn yr Hebraeg. Y pwnc ar ba un yr ysgrifenai Cotton Mather, wrth gymeryd ei urddau, ydoedd, "Tarddiad dwyfol y seinnodau Hebreig." Cedwid cymundeb parhaus, trwy lythyrau, rhwng llywyddwyr colegau Magdalen, Trinity, ac Emanuel, am flyneddau, â gweinidogion pentrefydd bychain Massachusetts. Arferai y gweinidogion ddarllen yr ysgrythyrau Hebreig a Groeg yn eu teuluoedd yn amser y ddyledswydd foreuol a hwyrol.

Ofer fyddai chwilio yn bresennol i'r achos a arweiniodd eu holynwyr i esgeuluso y rhan yma o ddysgeidiaeth mewn modd mor gyffredinol ag y gwnaethant. Yr oedd arferion y sefydlwyr cyntaf yma o anghenrheidrwydd yn lleol; yr oedd sylw dysgedigion Ewrop o'r bron wedi ei droi ffordd arall: Cudworth, Locke, Samuel Clarke, Shaftesbury, Hobbes, Leibnitz, a Butler, oeddynt wedi llwyr ymroddi at y gwaith o ymchwilio i ddeddfau

y meddwl a gweithrediadau moesol; ac yr oedd cwestiynau mawrion athrawiaeth foesol yn deg o flaen y byd. Anrhegodd Butler y frenines Caroline â'i "*Analogy of Religion*," yn 1736. Ysgrifenwyd traethodau Jonathan Edwards ar "Ryddid yr Ewyllys" a "Phechod Gwreiddiol," rhwng 1751 a 1757. Ni fu erioed gorff o ddynion, y rhai wrth natur, cyfansoddiad, ac amgylchiadau allanol, oeddynt mor dueddol i ddilyn eu cydwladwyr *enwog*, a gweinidogion Lloegr Newydd. Yr oedd eu harferion yn eu tueddu yn fawr i annibyniaeth meddwl. Nid oedd ganddynt ond ychydig barch i awdurdod hynafol. Mynent resymau dros eu credo. Anhawdd nodi dynion uwchlaw gweinidogion gwladaidd y dyddiau hyny mewn manylder athronyddol. Pa beth bynag a dybir am eu golygiadau, nis gall neb, yn America, lai nag anrhydeddu Edwards, Hopkins, Bellamy, ac Emmons. Ond rhaid sylwi ar y ffaith fod duwinyddiaeth athronyddol wedi ennill llwyr oruchafiaeth am tua thriugain mlynedd. Nid oedd myfyrio yr ysgrythyrau yn yr ieithoedd gwreiddiol ond peth anghyffredin. Proffeswr Sewall, yn ngholeg Harvard; *President* Stiles, yn Yale; a Smith, yn Dartmouth; oeddynt eithriadau i'r sefyllfa gyffredin. Yr oedd effeithiau yr esgeulusdra hwn yn amlwg yn ysgrifeniadau hyd yn nod y dynion blaenaf yn yr oes hòno. Nid yn unig yr oeddynt yn ddiffygiol o gyfeiriadau at ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrythyrau, ond yr oedd dull disail a phlentynaidd o gyfeirio at y cyfieithiad, gyda 'r eithriad o ambell gyfeiriad at Synopsis Pool, a Geiriadur Buxtorf ar gyfansoddiad ambell air. Nid ydym yn cofio am ddim a ellir ei alw yn feirniadaeth Fiblaidd yn ysgrifeniadau Edwards. Yn ei lythyr at ymddiriedolwyr athrofa Princeton, ar yr achlysur o'i ddewisiad yn llywydd y sefydliad hwnw, noda, fel rheswm, paham y gwrthodai y cynnygiad—ei anwybodaeth o'r iaith Roeg. Cymaint oedd ymddiriedaeth y dyn gwir fawr hwn i'w nerth ei hun, a'i chwaeth at athrawiaeth, fel mai anaml iawn y mae yn cyfeirio at Milton, nac un o'r ysgrifenwyr awdurol yn y Lladin na'r Groeg. A dywedir am Chauncy, ei gydoeswr a'i wrthwynebydd galluog, ei fod yn arfer dymuno cael cyfieithiad o "Goll Gwynfa." Yr oedd y dull yma o dalu sylw yn hollol i un gangen o wybodaeth yn parotoi y ffordd i niwed mawr. Dyma oedd agwedd pethau pan ddechreuodd Proffeswr Stuart ar ei swydd fel athraw mewn llênyddiaeth Fiblaidd. Rhoddwn yma ddyfyniad o'i waith ei hun, er dangos ei deimladau ar y pryd.

"Daethum yma gydag ychydig fwy na gwybodaeth o'r llythyrenau Hebreig, ynghyd â gallu i wneyd allan, mewn dull gwael iawn hefyd, gyfieithiad noeth o bump neu chwech o bennodau yn Genesis, ac ychydig o'r Salmau, trwy gynnorthwy Parkhurst, ac heb y seinnodau. Nid oeddwn wedi cael, ac ni chefais byth, gymhorth un athraw yn fy myfyrdodau Biblaidd. Druan o'n gwlad y pryd hwnw (1810)! nid oedd nemawr neb ynddi, oddigerth ambell un oedd wedi cael ei ddwyn i fyny yn Ewrop, ag oedd yn alluog i fod yn athraw yn yr iaith Hebreig." Yr oedd cydnabyddiaeth y proffeswr ieuanc â llenyddiaeth ddwyreiniol, y pryd hwnw, yn llai na'r hyn a gyrhaeddir gan ddynion ieuainc yn gyffredin yn ngholegau America y dyddiau presennol. Yr oedd yn ddyn o'i wneuthuriad ei hun. Yn mhen tua dwy flynedd, ymhlith holl ofalon ei swydd newydd, mewn athrofa newydd, cyfansoddodd ramadeg Hebreig, heb ddim seinnodau, er gwasanaeth uniongyrchol ei ddysgyblion. Parai iddynt ei adysgrifenu o ddydd i ddydd o'i ysgriflyfr ef. Yn y drydedd flwyddyn, cyhoeddodd ef

ar ei draul ei hun. Yr oedd argraffu gramadeg Hebreig, y pryd hwnw, yn waith dyeithr. Gorfu arno osod mwy na hanner llythyrenau y berfau â'i law ei hun. Efe a ddysgodd eu gwaith i'r argraffwyr. Ai nid priodol ei alw yn dad llenyddiaeth Fiblaidd America? Yn mhen wyth mlynedd ar ol hyn, argraffodd ei ramadeg Hebreig mwyaf. Ail drefnodd hwn yn mhen ychydig, gyda gofal mawr; a chyhoeddodd ef mewn ail argraffiad yn mhen tua dwy flynedd ar ol y cyntaf. Heb fod yn foddlawn iddo, dechreuodd adymchwiliad i'w egwyddorion o'r newydd; ysgrifenodd beth o hono dair, a phedair, a pheth gymaint a saith gwaith, drosodd; a chyhoeddodd y trydydd argraffiad yn mhen pum mlynedd ar ol yr ail. Wrth siarad am yr argraffiad yma, dywedai y Proffeswr Lee, o brif athrofa Caergrawnt, "Mae diwydrwydd yr awdwr i mi yn ddefnydd serch newydd." Pan ddaeth galwad am y seithfed argraffiad o'r gwaith, ar yr hwn yr oedd wedi treulio cymaint o lafur ag ydoedd ddigonol i lenwi hanner oes dyn cyffredin, dewisodd ddwyn dan sylw ei gydwladwyr gynlluniau rhagorach gramadegwyr ieuengach; ac o ganlyniad, cyfieithodd ramadeg Hebreig Gesenius, gyda gwelliadau Roediger, yn y seithfed flwyddyn a thriugain o'i oed. Mor gynnar a'r flwyddyn 1821, bu ei ymdrech yn foddion i ennill argraffwasg Hebreig i'r athrofa, nad oedd ei chyffelyb yn America y pryd hwnw. Ac mor gynnar a'r flwyddyn 1829, yr oedd yn ei feddiant lythyrenau at argraffu un ar ddeg o ieithoedd a thafodieithoedd dwyreiniol. Darfu i'r gweithiau a anfonodd ef allan o'r wasg yma dynu sylw dysgedigion; y rhai, cyn hyny, a edrychent ar lenyddiaeth America fel yn ddiwerth. Bu yn foddion i greu chwaeth at ddysgeidiaeth Fiblaidd. Mynych y darfu iddo, drwy y wasg, alw sylw ei gydwladwyr at y pwys o fod yn gyfarwydd â'r iaith Hebreig. "Pa fodd y mae yn dygwydd," meddai, "gan ein bod yn credu fod yr ysgrythyrau Hebreaidd yn cynnwys dadguddiad o'r nefoedd, nad ydynt yn cael eu hystyried yn werth eu myfyrio?" Teimlwyf chwerwder y gofyniad fel cleddyf yn fy esgyrn Da fyddai genym pe codai rhywun o'i fath yn Nghymru, i'n perswadio i beidio cymeryd pob peth ar ail law, o herwydd fod genym gystal hawl a mantais a neb i fyned at lygad y ffynnon. Nid oes dim sydd â chymaint o duedd ynddo i'n gyru i nwydau drwg, a chlywed rhyw oferwyr, er mwyn cuddio eu diogi, yn taeru nad yw o un defnydd i ni geisio dysgu ieithoedd yn yr oes bresennol, oblegid fod pob peth sydd yn werth wedi ei gyfieithu. Yr ydym yn ateb, nac yw, ac ni fydd byth. Cynnwys yr ieithoedd Hebreig, Groeg, Lladin, Ellmynaeg, a rhai eraill allem enwi, drysorau na osodir byth mo honynt allan mewn cyfieithiad, pe bai rhywun yn cynnyg. Ac nid oes ond ychydig amser yn ofynol er i ddyn o benderfyniad gwrol ddyfod yn ddigon cyfarwydd â iaith, er teimlo mwy o fudd wrth ei darllen, na'r cyfieithiadau goreu o honi; ond heblaw hyn, rhaid i ni gofio fod cyfieithiadau annhraethol wael yn cael eu gwneyd yn y dyddiau presennol, y rhai a wnant gam â'r awdwr ac â'r darllenydd. Pa fodd bynag, buom bron anghofio mai ysgrifenu hanes, ac nid traethawd, yr oeddem. Cafodd dylanwad Stuart effaith neillduol ar America; ac y mae yno, erbyn hyn, ysgoleigion Hebreaidd, nad oes ond ychydig, os neb, yn Lloegr yn deilwng o gael eu cymharu â hwynt. Yno y mae Robinson, adnabyddus i bawb, sydd yn darllen y Testament Groeg, drwy ei eirlyfr; ac i bawb sydd yn darllen hanes Gwlad Canaan, trwy yr hanes ardderchog a rydd o'i deithiau yno; a da genym ddeall ein bod i gael hanes taith arall yno yn bur fuan eto. Yno y mae Proffeswr

Gibbes, cyfieithydd un o ramadegau Gesenius; a Briggs, cyfieithydd gramadeg Caldaeg Winer. Yno hefyd y mae Nordheimer, awdwr y gramadeg Hebreig goreu yn yr iaith Seisonig, os nad mewn un iaith. Nis gallwn ychwaith anghofio enw Dr. Alexander, o Princeton, awdwr esboniad anghymharol ar Esay, ac un arall ar y Salmau; a Barnes, yr hwn sydd yn enw teuluaidd yn Nghymru, ac wedi dangos yn ei Esboniadau ar Esay, Job, a Daniel, ei fod yn bur gyfarwydd â'r iaith Hebreig. Da genym allu dyweyd, wrth fyned heibio, fod rhai yn Lloegr hefyd wedi cyrhaedd enwogrwydd ar y maes llenyddol yma; megys Dr. Davidson, o Goleg Annibynol Manchester; Dr. Henderson; Dr. J. Kitto; Patrick Fairbairn, &c. Da fyddai genym weled mwy o ymdrech yn Nghymru at ddeall iaith Moses a'r prophwydi. Gwyddom fod llawer yn meddu cryn gydnabyddiaeth â'r iaith. Da fyddai genym weled ambell erthygl oddiwrth eu hysgrifellau ar ambell adnod ag y mae cydnabyddiaeth bur helaeth â'r iaith Hebreig, a phethau eraill cysylltiadol â llenyddiaeth ddwyreiniol, yn anhebgorol anghenrheidiol er gwneyd chwareu teg â'i hesboniad. Er mewn perygl o gael ein beio o ysgrifenu yn ormodol ar ddull traethawd, yn anmherthynasol i'r pwnc dan sylw, ac fel yn rhy awyddus am ddyweyd ein barn, rhaid i ni ddyweyd ein bod yn hollol anghytuno â'r rhai a waeddant gymaint am erthyglau eglur a hawdd, fel y gallo pob darllenydd eu deall ar y darlleniad cyntaf. Os ydym am godi chwaeth Cymru, rhaid i ambell un fentro ysgrifenu ar bwnc anmhoblogaidd ac anhawdd, pe byddai hyny ar draul ei boblogrwydd a'i enwogrwydd ei hun. Wrth ddyweyd fel hyn, nid ydym yn meddwl y gwna neb fyddo yn deall ei bwnc, ac yn amcanu gwneyd lles, ïe, mewn gair, un dyn yn ei synwyr, ysgrifenu yn dywyll o'i fodd. Ond os bydd y pwnc yn ddyeithr, bydd y traethawd yn sicr o fod yn anhawdd ac aneglur i ran helaeth o'r darllenwyr. Diau na wnai traethodau dysgedig ac athronyddol iawn lawer o les i amgylchiadau arianol unrhyw gyhoeddiad, ond meddyliem na wnai un erthygl yn mhob rhifyn, y byddai yn werth ei darllen hanner dwsin o weithiau, ddim niwed i gylchrediad y cyhoeddiad, tra y gwnai les mawr i feddyliau y werin. Fe wel y darllenwyr nad ydym mewn un modd yn diraddio yr ysgrifau godidog ydynt wedi ymddangos yn ein cyhoeddiadau; oblegid, mor bell ag y gwyddom, nid oes ond ychydig, neu ddim, wedi ei ysgrifenu ar y pwnc y galwn sylw ato, sef llenyddiaeth Hebreig, neu ddwyreiniol. Ond y mae yn llawn bryd i ni ddychwelyd at hanes Stuart, a chrefu maddeuant y darllenydd am ei arwain o'r ffordd mor aml.

Pan ddechreuodd ar ei waith yn yr athrofa, byddai yn aml yn gwneyd defnydd o eirlyfr Schleusner, a blinid ef yn aml gan y geiriau Germanaidd oeddynt ynddo. Nid oedd neb a allai hysbysu iddo eu hystyr o hyd. Deffrowyd ei gywreinrwydd. Prynodd, am bris uchel, lyfrau er dysgu yr iaith Germanaidd; ac yn mhen y pythefnos, yr oedd wedi myned drwy Efengyl Ioan yn yr iaith hono. Anrhegodd rhyw gyfaill ef â "*Seiler's Biblische Hermeneutik.*" Agorodd y llyfr hwn y drws iddo fyned i mewn i ganol llenyddiaeth Germany. Teimlai ei hun mewn byd newydd. Cyfarwyddiadau a chyfeiriadau y llyfr hwn a'i galluogasant, trwy haelioni ymddiriedolwyr yr athrofa, i lenwi y llyfrgell â'r llyfrau Germanaidd goreu ag oeddynt ar gael y pryd hwnw. "Cyn i mi gael Seiler," meddai ef ei hun, "nis gwyddwn ddigon i beri i mi gredu na wyddwn ddim mewn beirniadaeth Fiblaidd." Treuliodd ddeng mlynedd yn y gwaith o barotoi y ffordd

mewn dull garw ac annhrefnus; ac yn y rhan olaf o'i oes, dywedai yn aml na wyddai y ffordd i ddechreu myfyrio y Bibl nes oedd yn ddeugain oed. Deugain mlynedd y bu yn yr anialwch—yn ddiweddar yn ei ddydd aeth i mewn i wlad yr addewid. Ond yr oedd nid yn unig wrtho ei hun yn ystod y deng mlynedd cyntaf o'i swydd—buasai bod yn ddigyfaill yn ysgafnhad iddo; ond yn lle hyn, teimlai dynion da arswyd canlyniadau ei fyfyrdodau Germanaidd. Dyoddefodd oganau ei frodyr. Llawer o honynt, pan eu cyfarfyddent, a droent eu gwyneban oddiwrtho. Medd ef am dano ei hun, "Yn unig a digymhorth, yn cael fy nrwgdybio heb gydymdeimlad—yr holl wlad yn barod i godi yn fy erbyn, neu ynte yn tosturio wrthyf am yr hyn a dybient yn fyfyrdodau camsyniol—yn cael fy nghynghori gan fy nghyfeillion personol, fy rhybuddio o'm dinystr oedd yn agosâu—yn teimlo yn ddwys gyda golwg ar fy nghymeriad—llawer noswaith ddigwsg a dreuliais, a llawer diwrnod tywyll a gofidus, pan oedd rhyw arllwysiad newydd o ddrwgdybiaeth neu gerydd wedi ei daflu arnaf." Boreu ar ol boreu yr âi allan o'i dŷ am bump o'r gloch, trwy wlaw, cenllysg, eira, ac ystormydd; a'i gorff gwanaidd ac afiach, pan yn wynebu gwyntoedd oerion y gauaf, oedd arddangosiad o'i ysbryd pan yn gwrthsefyll, nid gelynion yn unig—hawdd fuasai dyoddef hyny—ond cyfeillion hefyd. Nos ar ol nos yr adroddai y teimlad hwnw, yr hwn, pan yn driugain a deg, a draddododd mewn gweddi gyhoeddus, a'r hyn a ddarllenir, yn ddiau, gan lawer dyn ieuanc gyda dagrau—"O Dduw! cadw fi trwy dy Ysbryd rhag syrthio—rhag gwadu yr Arglwydd a'm prynodd, a gwrthod ymffrostio yn nghroes Crist. Nid oes gan bechadur tlawd un gobaith arall, na man i ymguddio ond hwn; ac anghofio y gobaith diweddaf ac unig hwn pan ar ymyl tragywyddoldeb fyddai yn wir yn ddychrynllyd." Pa fodd bynag, nid oedd pethau i barhau fel hyn yn hir. Gwnaeth ei lythyrau at Dr. Channing ar Undodiaeth amlygu, nid yn unig gywirdeb ei farn, ond hefyd y fantais oedd wedi deilliaw iddo trwy ei ymwneyd â meddylwyr Germany. Effeithiodd hyn yn hynod er creu awydd am gydnabyddiaeth â llenyddiaeth Germany yn meddyliau dysgedigion America.

Yr oedd gwrthwynebwyr Stuart yn cydnabod ac yn hoffi ei ddysgeidiaeth, a'i gyfeillion yn cyfaddef eu bod yn feius pan yn ceisio rhwystro ei gydnabyddiaeth â dysgeidiaeth Germanaidd. Teimlent fod ei anghen ar yr eglwys. "Na," ebe yr enwog Porter, "nis gallasech byth ysgrifenu y traethodau yma heb gynnorthwy o Germany. Yr ydych ar yr iawn yn y pwnc yma, a'ch cyfeillion yn gamsyniol. Cymerwch eich ffordd o hyn allan." Cyn ymdrechfa galed a didroi yn ol, y myfyriwr hwn, nid oedd neb, braidd, o dduwinyddion America yn gyfarwydd â llenyddiaeth Germany. Mae ef wedi ei gwneyd yn gyffredin. Er ei mwyn, dyoddefodd dywydd garw, ond ymdrechodd ymdrech deg. Efe a gadwodd y ffydd. Daeth ymaith yn fuddugoliaethus, a mwy na choncwerwr, trwy yr hwn a'i carodd. Miloedd o Gristionogion gweiniaid yn awr a lawenychent yn eu gwaredigaeth. Anrhydeddent ef, yr hwn oedd wedi anrhydeddu Crist. Ar y pryd yma, cyrhaeddodd boblogrwydd anghymharol. Yr oedd yn anghymeradwyo y parch a delid iddo—yr oedd y fath glod, meddai, yn anaddas i farwol ddyn. Ni wnaeth gweniaeth mwy na gwawd, pa fodd bynag, dynu ei fryd oddiwrth fyfyrio. Yn mhen ychydig flynyddau, cyhoeddodd ei "Esboniad ar yr Hebreaid." Tynodd y llyfr hwnw sylw arweinyddion llenyddiaeth, y rhai nad arferent wneyd fawr o sylw o lyfrau

Americanaidd. Cyfaddefai prif ysgoleigion Prydain eu rhwymau iddo. Prophwydodd y "*North American Review*" y cyfieithid ef i'r Ellmynaeg. Canmolid ef gan gyhoeddiadau Germany mewn modd na wnaed ond âg ychydig o lyfrau Americanaidd o'r blaen. Yn mhen pum mlynedd wedi hyn, cyhoeddodd ei "Esboniad ar y Rhufeiniaid." Cynnyrchodd hwn fwy o effaith eto, nid yn unig ymhlith beirniaid, ond hefyd ymhlith athronyddion. Anaml y mae traethawd yn cyffwrdd â chynnifer o bethau, ac yn cynhyrfu cynnifer dosbeirth o ddynion. Os oes rhai esboniadau ar y llythyr hwn yn fwy cywir, a oes llawer o honynt yn fwy dysgedig? Os oes rhai o honynt yn fwy dysgedig, a oes llawer o honynt yn fwy cywir? Rhagorai mewn gwreiddiolder meddwl a theimlad ar rai sydd yn well nag ef mewn trefn resymegol, a dulliaeth brydferth.

Cyn gynted ag y gorphenodd Stuart ei "Esboniad ar y Rhufeiniaid," dechreuodd esbonio Llyfr y Dadguddiad. Gŵyr ei ysgoleigion yn dda y gwres a'r bywiogrwydd â pha un y chwiliai i'r dywediadau tywyllion a roddwyd yn ynys Patmos. Tystia Proffeswr Parks nas gall byth anghofio y llais, yn mha un y dywedai—"O! nad allwn weled Michael Angelo neu Guido, a chael ganddynt hwy baentio tair neu bedair o olygfeydd ag y mae Ioan wedi gynnyrchu yn fy meddwl. Yr wyf ar fedr ysgrifenu at Washington Allston, a chynnyg y pethau hyn fel gwaith i'w bin am ychydig." Mor fawr oedd amgyffredion, ac mor eang oedd cynlluniau y beirniad amlochrog hwn! Pa un bynag ai gwir ai gau yw mân ranau y llyfr hwn, yr hwn yr edrychai ef arno fel y goreu o'i holl weithiau, diau y gwna effeithio ar ein dull o esbonio iaith brophwydoliaethol. A llawer ato i ymofyn gwybodaeth, os na fyddant yn ei dderbyn yn hollol fel awdurdod. Yn fuan ar ol hyn, dilynodd ei "Esboniad ar Daniel a'r Pregethwr;" pob un o honynt yn cynnwys trysorau o werth anghyffredin. Yn y ddeuddegfed flwyddyn a thriugain o'i oed, dechreuodd ei "Esboniad ar y Diarebion." Yr oedd yn barod i'r wasg mewn pedwar mis. Pum wythnos cyn ei farwolaeth, torodd ei fraich drwy syrthio ar yr eira; ond parhaodd fis cyfan i unioni y wasg â'r fraich arall, ac yr oedd wedi edrych dros holl brawfddail ei waith olaf ddau ddiwrnod cyn ei farwolaeth. Yn ystod ei fywyd, argraffodd dros ugain o gyfrolau, ac aeth rhai o honynt drwy dri a phedwar argraffiad. Treuliai ef gymaint o amser i adysgrifenu ac adgyweirio un o'i lyfrau erbyn ail argraffiad ag a dreuliai llawer awdwr i barotoi llyfr newydd. Mae ei ysgrifeniadau achlysurol, megys traethodau, ac ysgrifau mewn cyhoeddiadau, yn llenwi dros ddwy fil o dudalenau. Cyflawnodd yr holl lafur cysylltiedig â'i ysgrifeniadau yn nghanol poen corfforol, yn ystod tair awr, neu o fwyaf, dair awr a hanner, bob dydd. Ni byddai byth yn treulio mwy o amser gyda yr hyn a alwai "myfyrdod" na hyn. Y rhai hyn oeddynt ei oriau cysegredig. Ni oddefid i ddyn marwol eu rhwystro. Dechreuai hwynt mewn gweddi ddirgel, ond weithiau yn glywadwy, ac weithiau trwy ddarllen un o Salmau Dafydd yn yr Hebraeg. Tra yn ei fyfyrgell, symudai ei feddwl, fel llong fuan Napier dros y tonau, gyda rhwyddineb. Gorfyddid ef i dreulio cryn lawer o'i amser bob dydd er adnewyddu ei nerth. Gwnaeth ei feddiannau a'i gysuron, a'i fwynderau cymdeithasol, yn iswasanaethgar i'w brif amcan, sef chwilio y Bibl. Am ysbaid hirfaith o'i oes, ni oddefai iddo ei hun eistedd yn ei fyfyrgell ar ol hanner awr wedi un ar ddeg yn y boreu. Ar y fynyd benodedig, pe buasai yn uwchafnod ei sylw ar ryw bwnc, gadawai ddosran

heb ei chyflawni, gollyngai ei lyfr o'i law, ac äi ar ol ei ymarferiadau corfforol. Gwahoddwyd ef ar un amser i gyflawni gwasanaeth priodasol rhwng rhai ag oeddynt wedi bod yn gyfeillion iddo am hir amser. Boddlonodd ddyfod, ar yr ammod iddynt gael y seremoni ar ol hanner awr wedi un ar ddeg yn y boreu. Dymunent hwythau arno ei chyflawni am ddeg. "Dyna fy oriau myfyrio," oedd yr ateb. O ganlyniad, galwyd gweinidog arall i gyflawni y gwasanaeth, gan nad oedd yn bosibl tynu Stuart oddiar ei lwybr. Nid ydym i feddwl fod Stuart yn gadael ei lyfrau drwy y rhan arall o'r dydd. Yr oedd ei ysgoleigion yn bur fuan yn dod yn gyfarwydd â'r gwahaniaeth a wnai rhwng darllen a myfyrio. Er difyru ei feddwl, darllenai bob dydd lyfrau ar ddaearyddiaeth, hanesyddiaeth, bywgraffiaeth, a beirniadaeth gyffredinol. Ymhlith y gweithiau a ddarllenai yn ei barhawr, yr oedd "Athroniaeth y Meddwl," ac "Achos ac Effaith," gan Brown; a Phregethau Esgob Butler. Nid oedd yn myfyrio dim yn amser y gwyliau athrofaol; ond yn ystod y pum wythnos o wyliau yn 1841, darllenodd ddeg ar hugain o gyfrolau. Profodd wirionedd y dywediad, fod newid gwaith yn gystal i'r meddwl a gorphwys. Ond er fod ei weithoedd wedi cael eu darllen ar lanau y Mississippi a'r Danube, nid trwyddynt hwy yr ennillodd ei orchestion mwyaf. Mae yn byw yn eneidiau ei ysgoleigion—argraffodd ei ddelw arnynt; a thrwyddynt hwy, dylanwadodd yn helaeth ar yr eglwysi. Llawer o athrawon America a gyfaddefant mai Stuart a'u dysgodd i feddwl gyntaf; efe, gyntaf, a ddysgodd iddynt ddefnyddio eu meddyliau. Nid yw rhagoroldeb athraw yn gynnwysedig mewn gosod ei ddrychfeddyliau ei hun yn ddiogel yn nghof y rhai sydd dan ei ofal, ond mewn cynhyrfu eu galluoedd hwy i weithrediad annibynol, a rhoddi iddynt fywiogrwydd, gobaith, gwres, a gwrolder—mewn tarfu eu cysgadrwydd, a'u hannog ymlaen i hunanddiwylliant. Yr oedd bywiogrwydd Mr. Stuart, pan yn cyfarfod â'i ddosbarth, amlder ei hanesion, priodoldeb ei egluriadau, gafaelgarwch ei iaith, a'r hawsder gyda pha un y gafaelai yn mhrif egwyddorion ei bwnc, yn synu ei ysgoleigion, ac yn eangu eu zêl lenyddol. Pe buasai ei holl ysgrifeniadau wedi cael eu llosgi, buasai ei ddrychfeddyliau ar gael o hyd yn meddyliau ei ysgoleigion. Yr oedd ei ymdrech am wybodaeth yn ei barotoi i gyfranu addysg, ac ynddo ef y gwiriwyd y dywediad—"Rhaid i athraw fod yn ddysgwr; a phan roddo heibio ddysgu, rhydd heibio addysgu." Yr oedd y dull tawel, esmwyth, ac agored, â pha un y siaradai o flaen ei ddysgyblion am bob cangen o ddysgeidiaeth, yn cynhyrfu eu cariad tuag ato yn aml i eithafion. Rhai o honynt oeddynt bron edrych arno yn rhywbeth mwy na dyn. Yr awr gyntaf y daethant i'w gymdeithas, oedd megys yn creu cyfnod yn eu hoes. "Byth nid anghofiaf y tro cyntaf y gwelais ef," yw iaith cannoedd o weinidogion America. Ni ddarfu i un athraw yn y wlad erioed dynu ynghyd gymaint o fyfyrwyr duwinyddol. Rhif y rhai a fuont yn athrofa Andover, yn ei amser ef, oedd un cant ar ddeg ac un ar ddeg; ond yr oedd rhifedi ei ysgoleigion ef dros bymtheg cant. Daeth dynion ato o'r Canadas, o Georgia, ac o'r gorllewin pell Yr oedd aelodau wyth o wahanol enwadau yn ymgasglu o'i gwmpas, ac ni ddarfu i neb ddrwgdybio erioed fod tuedd ynddo i broselytio. Yr oeddynt yn caru y rhyddid â pha un yr oedd yn gwahaniaethu oddiwrth eu golygiadau hwy; ond tebyg na chyhuddid ef gan neb o fod yn sectaraidd. Mae dros driugain a deg o'i ysgoleigion wedi bod yn athrawon yn sefydliadau uchaf y wlad, a thrwyddynt hwy y mae

wedi creu chwaeth at lenyddiaeth Fiblaidd yn America yn gyffredinol. Mae dros gant wedi myned yn genadau, a thros ddeg ar hugain o honynt wedi bod wrth y gorchwyl o gyfieithu y Bibl i ieithoedd estronol, ac wedi cario dylanwad ei addysgiadau gramadegol at ddynion ag ydynt i gael eu gwareiddio drwyddynt. Yr oedd yn gysur ganddo, yn ei henaint, ei fod wedi pregethu yr efengyl, trwy ei ddysgyblion cenadol, yn Ninifeh, a than gysgod mynydd Ararat, yn gystal ag yn anialdiroedd Oregon, ac ynysoedd y môr. Gellir casglu gwaith mawr Stuart mewn ychydig eiriau. Cafodd dduwinyddiaeth dan lywodraeth athroniaeth y canol oesau, wedi bod am flyneddau fel iau ar wàr rhydd-ddywediadau ysbrydoliaeth. Nid oedd un ymadrodd yn fwy cynnefin i'w ddysgyblion na'r "Bibl yw yr unig a digonol reol ffydd ac ymarweddiad." Yn ei gredo, yr oedd y Bibl ymlaenaf, yn y canol, yn uchaf, ac yn olaf. Siaradai, weithiau, mewn iaith rhy ddirmygus am gyrff duwinyddiaeth; ond gwnai hyn er mwyn dyrchafu athrawiaeth Ioan a Paul uwchlaw iddynt.

Fel yr oedd Mr. Stuart bob amser yn amcanu gosod allan dduwinyddiaeth mewn gwisg Fiblaidd, felly yr oedd yn ofalus iawn i ddyrchafu yr athrawiaeth o farwolaeth iawnol y Gwaredwr. Dywedai un o'i feirniaid, y duwiol a'r dysgedig Tholuck; —"Gyda golwg ar ei olygiadau duwinyddol, creda holl athrawiaethau sylfaenol yr Eglwys Gristionogol, a'r cyffesiad Diwygiadol (Calfinaidd); yn y rhai hyn, nid yw ei gydnabyddiaeth helaeth â llênyddiaeth Germany wedi siglo ei ffydd, er ei fod wedi cyfnewid ei ddull o brofi eu gwirionedd. Mae ef yn gadael y ffyrdd gosodedig gan rai o'r un ffydd, ac yn chwilio am lwybrau newyddion: weithiau yn cael ei arwain i hyn yma; oblegid ei fod yn canfod anhawsderau nad oeddynt hwy yn gwybod dim am danynt." Rhaid i ni gyfaddef ein bod yn arfer meddwl fod Stuart yn tueddu at Arminiaeth. Pa fodd bynag, yr ydym yn foddlawn iddo fod yn Galfiniad, a chymeryd esboniad Tholuck ar y pwnc; a phwy bynag o'n darllenwyr fyddant heb gael eu boddloni, gadawn iddynt farnu drostynt eu hunain am ei olygiadau duwinyddol, wrth ddarllen ei weithoedd. Pa un bynag ai mewn llwybr hen neu newydd y teithiai, nid oedd un amser yn ymadael â'r fan lle y croeshoeliwyd yr Arglwydd. Ei benderfyniad oedd peidio cydnabod dim ymhlith dynion, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Credai yn gadarn yn mhenarglwyddiaeth, arfaethau, a rhagluniaeth gyffredinol y Jehofah: yn ei farn ef, canolbwyntient oll at athrawiaeth y prynedigaeth; er dyrchafu hòno, torai dros ben pob rhyw osodiad dynòl. Wrth droed y groes y gadawai ei holl anrhydedd—yma y gorphwysai ei feddwl bywiog a'i ysbryd anorchfygol mewn cyflawn heddwch. Os byddai dynion yn ymddiried yn y Gwaredwr, yr oedd iddynt groesaw i'w gydymdeimlad, gan nad faint fyddai eu camsyniadau gyda golwg ar bethau allanol crefydd. Pan oedd yn cael ei ganmawl, dywedai, "Nis gall neb wneyd mwy o niwed i mi na fy ngosod allan fel yn ddifai yn fy null o feddwl a byw." "Ni feddyliais," medd Proffeswr Parks, "hyd o fewn tri diwrnod yn ol, y buasai galwad arnaf wneyd sylw o'r dywediad hwnw wrth sefyll uwch ben ei elor. Nid oedd heb ei fai. Ni ddarfu i'r haul erioed belydru ar bob rhan o'r un corff ar unwaith. Os bydd yn goleuo ar un rhan, rhaid iddo adael y rhan arall yn y cysgod. Ond yr oedd colliadau ein cyfaill yn dal agos gysylltiad â'i rinweddau. Mae y blaenaf yn gwneyd yr olaf yn fwy amlwg. Os oedd yn gwneyd camsyniadau mewn pethau bychain, gwnai hyny oblegid ei fod yn syllu

gormod ar egwyddorion pethau mawrion; yn nghyflymder ei feddwl arweinid ef i edrych dros amrywiol bethau o bwys. A ddarfu iddo wneuthur camsyniadau y gallasai eu hosgoi? gwnaeth hwynt, oblegid fod amgylchiadau yn galw, ac yntau yn awyddus i ateb gofynion y bobl. Hwyliodd ei lestr pan oedd y llanw i fewn. Un o'i brif nodweddion oedd chwilio allan yr amgylchiadau, a'u cyfarfod yn y man a'r pryd yr oedd angen am ei gymhorth. Pan ymosodwyd ar Gymdeithas Addysg, yr oedd ef ar y maes yn uniongyrchol. Pan wrthwynebwyd y Gymdeithas Ddirwestol, yr oedd ef yn barod i'w phleidio. A ddywedodd fwy o bethau anghywir nag eraill? ac oni ddywedodd fwy o wirioneddau nag eraill hefyd? Y pren ffrwythlonaf sydd yn gofyn mwyaf o driniaeth. Yr oedd ei feddwl bob amser ar ryw bwnc defnyddiol. Weithiau ar y peth hyn, ac weithiau ar y peth arall; ond bob amser ar ryw beth pwysig. Pan oedd y cenadwr Judson wedi bod yn siarad âg ef, dywedai, yr hyn mae llawer un heblaw efe wedi dyweyd wrth ddyfod allan—"Yr wyf yn teimlo fy mod wedi bod yn siarad â dyn mawr." Wrth ymddyddan â'r tyddynwr, dysgai Mr. Stuart iddo lawer o bethau ynghylch ffermyddiaeth. I'r llaw-weithydd ymddangosai fel pe buasai wedi dysgu ei grefft. I'r masnachwr, rhoddodd wersi ar gynnildeb gwladyddol. I'r dyngarwr, cynnygiai gynlluniau newyddion er lleshau dynolryw. A synid meddygon gan ei gydnabyddiaeth â'u llyfrau hwy. Os oedd athronwyr mwy dyfnddysg nag ef, ysgolëigion mwy dysgedig, haneswyr mwy cywir, a seneddwyr mwy galluog, fel yn ddiau yr oedd; eto, pa le mae y dyn yr hwn a wyddai gymaint am eiryddiaeth, athrawiaeth, hanesyddiaeth, a llywodraeth ynghyd; yr hwn a feddai gynnifer o wybodaethau am amrywiol bethau, ac a'u defnyddiai oll i well dyben. Os oes rhyw un o'r fath, hwyrach fod, yr wyf fi yn rhy anwybodus i fod yn gyfarwydd â'i enw.

Gyda golwg ar gymeriad personol Stuart, yr oedd yn ddarllenadwy, ac adnabyddus i bawb. Pa feiau bynag a berthynent iddo, nid rhaid i neb ymdrechu llawer er eu cael allan. Diddrwg, diddichell, a phenderfynol; casâi ffug ymddangosiad. Nis gallai efe gymeryd y drafferth, na threulio yr amser gofynol i fyned o gwmpas er ennill ei bwnc, tra yn credu fod llinell union mewn moesau fel mewn rhifyddeg, y ffordd feraf rhwng dau nod. Buasai yn well ganddo gael ei gyhuddo o annoethineb, na'i ddrwg dybied o dwyll. "Fel un a'i hadwaenai o'm hieuenctyd," medd Parks, "gallaf ddyweyd ei fod yn un a hoffid yn fawr gan bobl ieuainc; o dymher wresog, o gymeriad dysglaer, syml ei arferiadau. Yr oedd mil o fanau lle y cydgyfarfyddai ei gydymdeimlad dynol â thueddiadau plentynaidd. Gan fod ei gyfansoddiad y fath ag a ofynai gryn lawer o ymarferiad corfforol, er diogelu ei iechyd, yr oedd y diwydrwydd â pha un y gweithiai yn ei ardd, y defnyddiai y fwyall a'r llif, yn brawf amlwg i bawb mai ei amcan penaf oedd diogelu ei iechyd corfforol a meddyliol, fel y gallai ddilyn ei alwedigaethau mwy pwysig. Heb un amser fyned dros derfynau ei swydd, ni byddai un amser yn cael ei gymeryd fel un arwynebol neu ffug-sanctaidd. Wrth gymeryd ei raddfa ddyddiol, gan bwyso ar y berth, byddai ganddo rywbeth i'w ddywedyd wrth y gweithiwr a'i gwnai yn gyfaill iddo am ei oes. Fel cyfaill, clyw llawer o ddynion dysgodig tu hwnt i'r môr am ei farwolaeth gyda galar. Nid oedd neb yn teimlo yn fwy dwys ar ddydd ei anghladd na'r tyddynwyr, y rhai yr oedd ei lais caredig wedi swnio yn eu clustiau bob dydd am ddeugain mlynedd. Mabwysiadodd

ychydig oriau er myfyrio o ddifrif; anaml dros dair awr a hanner, yn y rhan foreuol o'r dydd. Buasai yr hyn oedd yn ddarllen yn cael ei alw yn fyfyrio gan lawer. Ni weithiai un amser gyda meddwl blinedig; o ganlyniad, ni wyddai ddim am galedi yn ei fyfyrdodau, ond pleser bob amser. Nid ydym yn edrych am neb perffaith ar y ddaear; a phe buasai y meistr sydd wedi ei gymeryd oddiwrthym yn llawer mwy manwl a gofalus, buasai yn llai cynhyrfus. A phe buasai yn llai cynhyrfus, ni buasai wedi cyffroi meddyliau y gweinidogion; a phe buasai heb gyffroi dynion at addysg Fiblaidd, ni buasai wedi cyflawni ei neges yn y byd. Ei neges yn y byd oedd arloesi a thori i fyny y ddaear galed, i wneyd y gwaith garw, i dywys gweithwyr newyddion i'r winllan oedd ef wedi ei pharotoi. Os gwnaeth gamsyniadau yma a thraw, pwy yw y dynion yn ein plith sydd yn gwellhau ei waith? yn benaf, y dynion a fuasent yn aros ar wastadedd anwybodaeth, i raddau helaeth, ac na buasai iddo ef eu cynhyrfu i ddringo ar i fyny. Yn benaf, y dynion ac ydynt wedi derbyn oddiwrtho ef y gallu i wella ei waith. Yn benaf, y dynion ac ydynt wedi derbyn oddiwrtho ef y cynhyrfiadau a'u dysgasant i'w feirniadu ef. Os ca yr eryr yn ei ehedfa tua'r haul, ei glwyfo gan saeth yr adarwr; yr oedd y saeth hòno yn cael ei chadw yn ei llwybr gan bluen wedi ei chymeryd o aden yr eryr ei hun."

Darfu i Mr. Stuart, yn ei hen ddyddiau, anrhydeddu Duw trwy chwilio allan gyfoeth y gair dwyfol. Yn y seithfed flwyddyn a thriugain o'i oed, darllenodd holl weithiau Æschylus, er mwyn cael allan ddulliaethau a chyfeiriadau er egluro y Bibl. Yr oedd tair awr yn mhob dydd, pan yr anghofiai wendidau henaint a gofalon y byd. Llawer gwaith, yn ei ddull bywiog, yr adroddai ddywediad Heinsius:—"Cyn gynted ag y delwyf i'm llyfrgell, bolltiaf y drws, er cau allan awydd, hunanoldeb, a phob chwant; ac megys yn nghanol tragywyddoldeb ymhlith cynnifer o eneidiau duwinyddol, cymeraf fy eisteddle gydag ysbryd mor uchel, a theimlad mor foddhaol, nes wyf yn tosturio wrth y mawrion a'r cyfoethogion, y rhai ni wyddant ddim am y dedwyddwch hwn." Er ys ychydig o flyneddau yn ol, pan oedd wedi cael rhyw ddarganfyddiad mewn perthynas i Lyfr Job, nis gallai gysgu am un awr ar bymtheg ar ugain.—Oriau oeddynt o deimlad diolchgar am gydnabyddiaeth o'r Bibl. Yn amser ei farwolaeth, yr oedd wedi cynllunio amrywiol esboniadau, y rhai fuasent yn cymeryd i fyny dair blynedd o'i amser. Ei gysur oedd llyfr y llyfrau; nid oedd byth yn blino arno. Nid anfynych y byddai ei fyfyrdodau ynddo trwy y nos; ymddangosai iddo megys trysor dihysbydd. Yn agos i ddiwedd ei oes, diolchai mewn modd crefyddol fod yr iaith Hebreig wedi dyfod fel iaith ei fam iddo; ac fod darllen y Bibl yn yr iaith hòno yn agoryd o flaen ei feddwl lawer o adnodau ag oeddynt o'r blaen yn dywyll iddo. Pan ofynwyd iddo, os oedd o hyd yn credu yr athrawiaeth oedd wedi amddiffyn—atebodd, gyda phwyslais cryf, Ydwyf. A oes genych ddim ammheuaeth am eich egwyddorion cyntefig? oedd y gofyniad; i'r hwn yr atebodd, Nac oes! Fel yr oedd yn nesu at y bedd, daeth yn fwyfwy gobeithiol y buasai yr egwyddorion hyn yn gorchfygu pob gwrthwynebiad. "Yr wyf," meddai, "wedi dysgu er ys llawer dydd fod teimladau gyda chrefydd yn dwyllodrus. Yr wyf yn edrych yn benaf at fy mywyd am brofion. Yr wyf yn meddwl mai prif amcan fy mywyd oedd gogoneddu Duw; a fy mod bob amser yn barod i lafurio a dyoddef drosto ef." Pan mewn poen mawr, dywedai, "Dyddiau a nosweithiau blinion a osodaist i mi." Yr oedd wedi

meddwl am farw am lawer o amser, ac yn fanwl; yr oedd yn gyfarwydd âg ef; yr oedd yn barod i'w gyfarfod; yr oedd yn llai iddo na thaith diwrnod Sabboth. "Hyn yw dechreu y diwedd," meddai gyda golwg ar ei fraich doredig; ac wrth siarad am y poen a achosai iddo, dywedai, "Mae y fath ofidiau yn gwneyd gorphwysdra y gwely pridd yn fwy dymunol." Pan glywodd rywun yn dyweyd ei fod yn gobeithio nad oedd ei glefyd i farwolaeth, efe a ddywedodd, "Er gogoniant i Dduw;—ond i farwolaeth. Yr wyf yn barod i farw; O Dduw! y mae fy ysbryd yn dy law. Cymer drugaredd; ond dy ewyllys di a wneler." Ar y Sabboth cyntaf o'r flwyddyn newydd, pan oedd yr ystorm yn gwibio o amgylch ei dŷ, efe a hunodd. Fel un yn dechreu ar ei gwsg nosol, efe a ddechreuodd ei orphwysfa hirfaith. Er ei fod wedi cyrhaedd dros yr amser terfynedig o driugain a deg, yr oedd amrywiol o bethau yn peri i ni obeithio y buasai yn gallu dilyn ei fyfyrdodau dros rai blyneddau yn ychwaneg. Yr oedd wedi tynu cynllun amryw lyfrau. Bwriadai ysgrifenu esboniad mwy addas i'r werin ar Lyfr y Diarebion. Yr oedd wedi casglu defnyddiau er esbonio Jonah a Llyfr Job. Gadawodd nodiadau ysgrifenedig ar Epistol Paul at y Corinthiaid. Gobeithiai ei gyfeillion y buasai yn cael byw i'w gorphen. Damwain fechan, fel y dywedwn, a drodd y fantol ffordd arall. Wrth fyned allan i'w rodfa ddyddiol, parodd *car bach* rhyw fachgenyn iddo syrthio ar yr heol, drwy yr hyn y torwyd asgwrn ei arddwrn. Gwnaeth y poen a'r caethiwed a ddilynodd hyn ef yn analluog i ddal dan anwyd trwm a gafodd yn fuan wedi hyn, ac a drodd yn dwymyn, yr hon a roddodd derfyn ar ei fywyd. Yn ei gystudd, byddai ei feddwl yn aml yn dangos ei nerth anarferol; siaradai ar bynciau adeiladol a phwysig. Nid oedd neb o'i deulu yn meddwl fod ei ddiwedd mor agos, hyd y dydd y bu farw.

Ymadawodd Stuart â'r byd am ddeng mynyd cyn deuddeg o'r gloch, nos Sabboth, Ionawr 4, 1852, yn un mlwydd ar ddeg a thriugain, naw mis, a naw diwrnod oed. Yr oedd wedi bod yn pregethu yr efengyl am saith mlynedd a deugain, yn athraw un flynedd a deugain, ac yn broffeswr yn Andover ddeunaw mlynedd ar ugain. Gwnaeth cloch y capel a'r pentrefydd ei farwolaeth yn hysbys i'w gymydogion, y rhai ni wyddent ei fod yn beryglus o glaf. Yr oedd lliaws o weinidogion, dysgyblion, a chyfeillion yn ei anghladd, ar ddydd Iau, Ionawr 8, 1852. Darllenodd y Proffeswr Stowe, o Bowdoine, ranau o'r Ysgrythyr. Gweddïodd y Proffeswr Emerson, o Andover; ac areithiodd y Proffeswr Parks, Andover. Y Sabboth ar ol ei anghladd, pregethwyd ei bregeth anghladdol gan amrywiol weinidogion mewn gwahanol ranau o America. Gan nad oedd esboniadau Stuart yn addas i'r werin, ond wedi eu hamcanu i fyfyrwyr, ni bu eu gwerthiant o fawr elw iddo ef un amser. Wrth eu cyfansoddi, yr oedd y myfyriwr, yn hytrach na'r darllenwr cyffredin, bob amser o flaen ei feddwl. Ni fynai er dim i neb dybied ei fod yn gwneyd llyfr er mwyn arian. Pe buasai yn cael ei ddewis rhwng ysgrifenu llyfr dysgedig fuasai yn anrhydedd iddo ef ei hun ac i'w wlad, ar draul colled arianol, a llyfr cyffredin addas i fod yn boblogaidd, a fuasai yn elw arianol iddo, ni buasai yn petruso am fynyd i wneyd ei ddewisiad. Yr oedd ei gariad at ei swydd, a'r awydd am ei dyrchafu a'i hanrhydeddu, yn peri iddo droi ymaith yn aml oddiwrth gynnygiadau manteisiol a wnaed iddo er ei berswadio i barotoi llyfrau mwy poblogaidd i'r wasg. A chadwodd ei benderfyniad i ysgrifenu

llyfrau dysgedig yn hytrach na rhai poblogaidd, hyd yn nod pan oedd braidd yn dywyll arno o ran ei amgylchiadau tymmorol, yr hyn a wnai ei benderfyniad yn fwy teilwng o sylw. Nid oedd yr ofnau hyn yn adnabyddus tu allan i gylch ei gyfeillion mynwesol. Ni ddarfu i'r cyhoedd erioed feddwl fod ei weithiau diweddaf wedi eu bwriadu er lliniaru dolur dirgelaidd oedd yn ei galon. "Nis gallwn lai," medd y Dr. Adams, "na dyweyd yn benderfynol y buasai yn fwy anrhydeddus i ymddiriedolwyr y sefydliad roddi ei gyflawn dâl i'r proffeswr, hyd yn nod wedi iddo roddi i fyny ei swydd, yr hon yr oedd wedi ei henwogi gymaint; yn hytrach na derbyn ei roddiad i fyny o'i swydd pan yr oedd yn teimlo ei iechyd yn gwanhau, a thrwy hyny fod mewn perygl o glwyfo teimlad un yn niwedd ei oes oedd wedi gwneyd cymaint er enwogi y sefydliad. Gwyddom mai yr esboniad a roddwyd ar hyn, oedd, fod amgylchiadau arianol y sefydliad y fath, fel nad oedd ganddynt ddim dros ben talu i'r rhai oedd yn gwneyd y gwaith. Gwnaeth Cymanfa Gyffredinol y Presbyteriaid i Dr. Miller, pan wedi rhoddi i fyny ei swydd yn Athrofa Dduwinyddol Prime, barhau i dderbyn cyflawn dâl tra bu byw. Ac nis gallwn lai na chredu, pe buasid yn hysbysu i eglwysi Massachusetts, fod y Proffeswr Stuart, trwy flwyddyn o gystudd, wedi gorfod rhoddi i fyny ei swydd fel athraw, a thrwy hyny mewn perygl o syrthio i dlodi, y buasent gyda'r parodrwydd mwyaf yn rhoddi arian, fel y gallasai yr ymddiriedolwyr ymddwyn gyda mwy o gyfiawnder—ni ddywedwn haelioni; ac felly arbed un o brif ysgoleigion ein gwlad rhag trafferth meddwl a rhagofalon, ag oeddynt iddo ef megys glyn cysgod angeu am dros ddwy flynedd." Dyma anghysondeb sydd yn gofyn ein holl athrawiaethau duwinyddol er ei egluro:—talent a dysg yn aros heb eu gwobrwyo. Mae dyn nad oes ganddo chwaeth at lênyddiaeth, na syched am wybodaeth, yn casglu cyfoeth, er yn analluog i ddarllen y llythyrenau a addurnant ei gerbyd; tra mae arall, sydd wedi treulio ei oes i fyfyrio, ac eangu terfynau dysgeidiaeth a chrefydd, yn anrhydedd i wlad ei enedigaeth, heb gael ond ychydig dâl ar y goreu; ac yn y diwedd yn gorfod byw mewn ofn parhaus rhag i dlodi ei orddiwes cyn terfyn ei oes. Mae traethawd Epictetus, mewn rhan, yn esbonio hyn; mae yr holl bethau hyn yn nwyddau yn marchnad bywyd—y naill yn cael ei ennill ar draul colli y llall. Mae gwybodaeth grefyddol â'i gwobrwyon yn rhad, ar unrhyw bris; hyd yn nod pe na buasai Gair Duw yn troi y glorian, trwy addaw anrhydedd a dyrchafiad mewn amser dyfodol;—"A'u gweithredoedd a'u canlynant."

AMAETHYDDIAETH ISELDIR CYMRU:

[*Y Traethawd buddugol ar y testun yn Eisteddfod Freiniol Rhuddlan, yn* 1850]

GAN MR. JOHN HUGHES (*Ieuan Alaw*),

STAMP OFFICE, LLANERCHYMEDD.

[Mae yn dda genym ein bod yn gallu cyflwyno i'n darllenwyr y traethawd buddugol "Ar y Trefniant mwyaf manteisiol i'w arfer yn niwylliad Iseldir yn Nghymru, ynghyd â'r drefn oreu yn newisiad a magwraeth anifeiliaid," yr hwn a ennillodd y wobr o 25*p*. yn Eisteddfod Rhuddlan, yn 1850. Bu yn gladdedig 1854.]

yn rhywle, gyda y cyfansoddiadau cuddiedig eraill, hyd yn awr. Caiff, bellach, wasanaethu a llesâu amaethwyr Cymru. Hwyrach y bydd ambell Gymreigydd dwfn yn collfarnu yr awdwr fel troseddwr yn erbyn purdeb iaith; ond digon yw dywedyd drosto, mai ei amcan oedd ysgrifenu yn eglur a dealladwy, ac nid dangos eangder ei Gymreigyddiaeth ar draul buddioldeb cyffredinol.]

RHAN I.

PAN yr ystyriom y diwylliant parhaus, sydd yn cynnyddu o ddydd i ddydd, yn amaethyddiaeth Cymru, gellir dywedyd nad allasai cyfeisteddwyr Eisteddfod Rhuddlan roddi cefnogaeth i wybodaeth, masnachaeth, neu gelfyddyd mwy teilwng o'u sylw; ac nid oes un gangen o wybodaeth a eill lesâu yn fwy y mwyafrif o drigolion y wlad na'r pwnc hwn. Rhaid cyfaddef mai llawer sydd eisoes wedi ei wneuthur gyda 'r amcan teilwng o'i gwellâu; ond y mae llawer iawn o le eto i eangu ei therfynau, er daioni a lleshad i'r Dywysogaeth yn gyffredinol. Pa fodd i ateb y dybenion daionus hyn, ydyw y gofyniad sydd yn pwyso yn ddwys ar fy meddwl pan yn ymyraeth â'r fath orchwyl.

Pa un ai traethawd dwfndreiddiol ar egwyddorion fferyllaidd amaethyddiaeth, ymchwiliadau dysgedig ar greigyddiaeth (*geology*), dosraniad medrus ar y priddoedd a'r llysiau; ynte sylwadau ymarferol, wedi eu gwisgo mewn iaith sathredig, er dwyn y gelfyddyd yn nês nês at chwaeth y werinos a'r cyffredin, a eill fod yn fwyaf buddiol, defnyddiol, a llesol? Pan ystyriwyf iseled yw gwybodaeth, dysgeidiaeth, ac amgylchiadau presennol amaethwyr Cymru, yr ydwyf yn hollol o'r farn mai y dull olaf o ysgrifenu fydd debycaf o wneyd lles i'r wlad yn gyffredinol. Gallaswn yn hawdd ddyfynu yn helaeth o waith Liebig, Davy, Johnson, Sprengel, ac eraill, ar fferylliaeth amaethyddol; a soddi i egwyddorion amaethyddiaeth, gan Johnson, a M. Von Thaer. Ond pa les fyddai hyny i amaethwyr Cymru? Gwell genyf ymlwybro ar hyd ol traed Coke, o Norfolk (*Earl Leicester*); y Mostyniaid; Syr Richard Bulkeley; Dawson, o Gronant; Sandbach, o Hafodunos; Low, ac amaethwyr profiadol yn Scotland, Lloegr, a Chymru. Teimlwyf hefyd yr anhawsderau mawrion sydd ar y fordd i ymlwybro yn gywir ac yn deg ar hyd feusydd mor eang ag Amaethyddiaeth Iseldiroedd Cymru. Y mae y teimlad hwn yn dyfod yn ddwysach, gan fy mod, fel amaethwr profiadol, yn bwriadu dadgan fy meddwl, yn rhydd ac yn agored, ar gelfyddyd sydd wedi bod yn hoff genyf o'm mebyd; gan hyny, erfyniaf hynawsedd y beirniaid, a'r cyhoedd, i edrych dros ffaeleddau yr iaith, ynghyd â'r dull, yn yr hwn y mae y traethawd wedi ei ysgrifenu; ac hefyd, i ystyried mai cyfarwyddiadau profiadol sydd genyf, yn fwyaf neillduol; er y cedwir mewn golwg fferylliaeth, daeargoeliaeth, ac egwyddorion cynhenid amaethyddiaeth yn ei holl ranau.

Y mae amaethyddiaeth y rhan fwyaf o Gymru wedi ei sylfaenu ar drefn gymysgedig; sef, llafurio y tir i ŷd, a magu anifeiliaid; gydag ychydig o drefn y llaethdŷ (*dairy system*). Y mae y dull yn amrywio cymaint, yn ngwahanol barthau y Dywysogaeth, fel y mae yn taflu anhawsderau ar y ffordd i draethu yn uniongyrchol ar y dull mwyaf buddiol a phriodol i drin y tir, neu ddewis a magu anifeiliaid: felly, rhaid sylwi ar y gelfyddyd yn ei hamrywiol gangenau, ac o dan wahanol amgylchiadau.

Nid ydwyf yn bwriadu rhoddi cais am newid y dull presennol o amaethu yn gwbl oll, yn mhob cwr o'r wlad; ond fy mwriad penaf yw cymhell

amaethwyr Cymru i wellâu y drefn sydd ganddynt mewn arferiad yn barod, er budd iddynt wrth godi ydau, a lles wrth fagu a dewis anifeiliaid (*stock*).

Cofus genyf fod yn nghymdeithas un gŵr boneddig parchus (ag sydd wedi cael cymaint o brawf, os nad mwy, nag un dyn wyf yn ei adnabod, yn nhrefn amaethyddiaeth Cymru, a rhan helaeth o Loegr), yr hwn a sylwai fod rhywbeth yn amgylchiadau, hinsawdd, a threfn pob gwlad, yn peri i'r dull fydd yn cael ei ddilyn yno fod yn fwy addas i'r lle, nag unrhyw drefn newydd a ellid ei mabwysiadu. Y mae dywediad fel hyn yn ein harwain i ymresymu;—pa un ddoethaf i amaethwyr Cymru, ai addasu eu trefn i'w hinsawdd a'u priddoedd; ynte dilyn dull amaethwyr Norfolk a Suffolk, ac anghofio fod rhanau dwyreiniol Lloegr yn hollol wahanol yn eu priddoedd a'u hinsawdd i Ogledd a Deheubarth Cymru? Y mae yn ffaith, fod y drefn a eill ateb mewn un wlad, braidd yn annichonadwy i'w dilyn mewn gwlad arall; dyma fel y mae mympwyon anmhrofiadol, a threfniadau newyddion, anaddas i'r lle a'r amgylchiadau, yn aml, yn cael eu gwasgu yn rhy bell, ac yn rhoddi dyrnod angeuol i dueddiadau at ddiwylliant, ac yn eu llethu yn eu blaendarddiad.

Cyn y gellir dangos pa fodd i wellâu y drefn sydd mewn arferiad yn Nghymru, rhaid edrych yn ol, i raddau, ar y dull a fu gan ein tadau o amaethu; a chymhell, trwy esiamplau ac ymresymiadau ymarferol, rai cyfarwyddiadau a eill fod o les i'r wlad a'r Dywysogaeth yn gyffredinol.

Mi a sylwaf yn fyr ar yr *hinsawdd* yr ydym yn byw ynddi. Yn y gogledd, gorllewin, a'r deheu, ac yn enwedig ar ororau glenydd y môr, y mae yr hin yn lled wlyb ac ystormus am dri chwarter o'r flwyddyn, a'r gwynt yn chwythu o'r de-orllewin, gydag ychydig o eithriadau, braidd drwy y flwyddyn. Ac y mae y fath attyniad (*attraction*) yn mynyddoedd cribog Cymru, gyda 'r môr sydd yn golchi eu glenydd, yn achosi llawer o wlybaniaeth hefyd. Diwylliad mewn amaethyddiaeth trwy ddraenio, sychu y corsydd, ac agor afonydd, sydd wedi tymheru llawer ar yr hin. Gwelir hyn yn amlwg, ond ystyried na chlywir braidd son yn y dyddiau hyn am y cryd (*ague*), a fu, oddeutu hanner can' mlynedd yn ol, yn glefyd angeuol a pharhaus mewn gwahanol fanau o'r wlad.

Y mae y fath gysylltiad annattodadwy rhwng y wybodaeth gelfyddgar, eto, lled dywyll, o greigyddiaeth (*geology*), a'r un ardderchog o amaethyddiaeth, fel nas gellir, yn briodol, sylwi ar drin y tir, heb awgrymu rhywbeth at y graig y gorwedda y tir hwnw arni. Ar y wybodaeth yma, yn neillduol, y sylfaenir trin y tir yn gelfyddydol yn mhob parth o'r byd; a chan fod y fath gysylltiad rhwng natur y graig a natur y pridd sydd yn gorwedd arni, y mae yn anghenrheidiol i'r amaethwr fod yn ddigon o greigyddwr i wybod ansawdd y graig y mae ei dyddyn yn sefyll arni, fel y gallo ei drin yn drefnus ac yn fuddiol. Bydd pawb, pan yn myned i edrych ffarm, gyda bwriad i'w hamaethu, yn dechreu holi—Pa beth yw natur y tir? "Wel!" dywed y gŵr oedd yn byw yno o'i flaen, "priddyn oer ydyw; yr ydwyf wedi cario llawer o galch, a hwnw heb wneuthur un lleshad i'r tyddyn;" heb ystyried mai ar *graig galch* yr oedd yn gorwedd; ac felly, y pridd â gormodedd o natur calchaidd ynddo eisoes, er dwyn cnydau helaeth a ffrwythlawn. Felly, y mae o'r pwys mwyaf i bob amaethwr ddeall natur y gwelyau a'r creigiau sydd yn blygion ar eu gilydd yn y wlad lle y mae yn byw ynddi, er bod yn gyfarwydd i drin y tir yn y wlad hòno.

Y mae yr anfantais yn fwy i'r Cymro nag i'r Sais, pan yr ystyriom nad oes un rhan o'r deyrnas o'r un maintiolaeth, â chymaint o greigiau o wahanol natur, ag sydd yn Nghymru; gwelir fel y mae cynhyrfiadau anian wedi ei hysgwyd a'i chymysgu mor ryfeddol, hyd nes ydyw y mynyddoedd, y bryniau, a'r nentydd, o'r naill gŵr i'r llall, mal tonau y môr, pan ei cyffroer yn gynddeiriogwyllt gan yr awel gref.

Onid buddiol fyddai traethawd yn yr iaith y deallai y cyffredin, gyda map arwynebol o'r gwahanol greigiau ar ba rai y gorwedd dyffrynoedd ac uwchdiroedd Cymru? Rhaid i ni gyfeirio y darllenydd at y mapiau sydd eisoes wedi eu hargraffu, yn dangos yn lled gywir sefyllfaoedd a natur y gwahanol greigiau sydd yn y deyrnas.[1] Nis gallaf ymadael â'r pen hwn heb sylwi ar un ffaith brofadwy a diymwad; sef, pa le bynag y canfyddir dwy graig o wahanol natur yn cyfarfod â'u gilydd, dyna y man y mae y tir mwyaf maethlawn, buddiol, a phroffidiol.

Yn nesaf, sylwn yn fyr ar y *priddoedd*. Y mae priddoedd y Dywysogaeth yn amrywio yn yr un modd, ac i'r un graddau, ag yr amrywia y creigiau sydd yn gorwedd odditanynt; oddigerth yn y dyffrynoedd, lle y mae y pridd wedi ei olchi i lawr o'r mynyddoedd cyfagos, neu ynte wedi ei gario gyda'r afonydd i'r doldir a'r gwastadedd, sef tir maranedd (*alluvial soils*). Lle bynag y gwelir tir cleiog, anystwyth, caled, dyna y tir mwyaf ffrwythlawn a chymhwys i wenith. Cyfarfyddir â'r fath bridd yn y dyffrynoedd brasaf yn ngwahanol barthau o Gymru.

Pridd cymysgedig o glai a thywod, a geir ar hyd lanau y môr, ac aberoedd deheu a gorllewin Cymru, sydd yn cymeryd rhan fawr o'r Dywysogaeth; os na fydd yn gymysgedig â gormod o dywod, pridd rhagorol ydyw at dyfu haidd a maip.

Pridd ysgafn, cleiog, briwsionllyd, cymysgedig weithiau â cheryg mân, sydd yn gorwedd ar y *Silurian range*, y siâl (neu y *greywacke*), a'r *clay slate*. Y mae rhan helaeth o Gymru o'r natur yma; tir oer a gwlyb ydyw, ac yn fwyaf cymhwys at dyfu ceirch. Dywed Mr. Martyn, yn ei draethawd ar briddoedd, fod pridd sydd yn gorwedd ar y siâl yn gwellhau llawer gyda chymhwysiad o galch ato—ei fod yn ychwanegu y sylwedd calchaidd iddo, o'r hwn y mae yn ddiffygiol. Y mae hwn yn naturiol i dyfu ceirch, haidd, maip, a phorfa. Ond y mae yn anmhosibl ei wellhau heb ei sychu a'i ddraenio. Yr wyf yn gwybod fod miloedd ar filoedd o fesurau o galch wedi eu cario ar y fath dir gyda'r amcan i'w wellhau, ond y draul i gyd yn ofer. Nid oedd y fath driniaeth yn ateb braidd well dyben na'i luchio gyda'r afonydd gerllaw. Sylwi yr wyf yn neillduol ar y fath briddoedd heb eu draenio. Gellir cyfeirio sylw y cyfarwydd at y dollgraig sydd o dan ei dyddyn, fel prif nodwedd y fath dir.

Mae hefyd mewn rhai manau o Gymru, yn fwyaf neillduol ar ochrau y mynyddoedd a'r bryniau, *bridd melyn*, ysgafn. Dyma y salaf o'r cwbl; a bydd yr amaethwr yn ei gollfarnu yn waeth na dim; ac nid yw yn dda i dyfu unrhyw lysiau ynddo, ond eithin a grug.

Pridd coch sydd i'w gael ar y graig dywodlyd goch (*new and old red sandstone*). Y mae y darlun daearyddol (*geological map*), yn dangos y manau lle y mae y graig a'r priddyn hwn yn gorwedd. Pridd rhywiog, lled ysgafn ydyw, yn dwyn porfa dda a melus, ac yn rhagorol at dyfu maip

[1] Gwel "*Geological Map of England and Wales.*"

a rwdins; cyfyd ffynnonau (*springs*) cryfion yn gyffredin ynddo, a dylid bod yn ofalus i'w sychu drwy ei ddraenio.

Pridd mawnog. Y mae rhai corsydd helaeth yn Nghymru heb eu sychu, y gellir eu dwyn i fod yn feusydd ffrwythlawn. Pridd ysgafn yw y mawndir, yn llawn o sylwedd llysieuol. Y dull goreu i'w wellhau yw ei gymysgu gyda thir cleiog trwm, a buan y gwna dir rhagorol i dyfu yd, a phob math o lysiau, er lles i ddyn ac anifail. Bydd gwartheg ac anifeiliaid ieuainc (*young stock*) yn ffynu wrth bori ar y fath dir yn yr haf—y mae yn rhagorol at wellhau anifeiliaid o'r fath; ond pa faint mwy llesol pe sychid ef?

Maintiolaeth ffermydd yn Nghymru sydd yn amrywio cymaint, os nad mwy, nag un parth o Brydain Fawr. Achosa hyn, o anghenrheidrwydd, wahaniaeth dirfawr yn y drefn o amaethu y tir. Llawer tyddyn bychan o 10 i 20 o erwau, amryw o 40 i 100, eraill o 200 i 300 o erwau, ac o hyny hyd at 400; ychydig mewn nifer sydd yn fwy na 400 o erwau. Y mae ffarm 100 o erwau yn gymaint ag y gall moddion amaethwyr cyffredinol y Dywysogaeth eu meistroli, gan fod mwy o ddiffyg moddion (*capital*) nag o anturiaeth yn mysg y Cymry yn gyffredinol.

Y mae lle i ddadleu pa un a ydyw gafael-rwymau (*leases*) am oesau wedi achosi un lles neu fudd er dwyn ymlaen gynnydd, gwellhad, a diwylliad, yn amaethyddiaeth y wlad ai peidio. Gellir dywedyd yn ddigon hyf nad ydynt, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Nid ydwyf yn gwybod ond am ychydig o hen *leaseholders* âg ysbryd diwylliad ynddynt, oddigerth ambell un fel eithriad. Yn gyffredin, gellir adnabod tiroedd yr hen *leases* wrth fyned ar draws y wlad:—mae y tir yn fudr, heb ei lafurio, y cloddiau yn annhaclus, yr adeiladau yn barod i syrthio, a phob rhan o'r tyddyn yn gywilydd ac yn anmharch i'r tir-ddeiliad (*tenant*), ac yn boen i'r meistr tir (*landlord*). Gwelir y fath esiamplau yn dylanwadu ar yr ardal lle byddont;—ni bydd un math o ymdrech at wellhau—tynu calon ambell glwt wrth gefn y tŷ—cnwd ar ol cnwd o hono, ac yn y diwedd ei adael i redeg yn bigsofl, chwyn, ac yn fudreddi i gyd trosto. Mae gadael tir yn nwylaw y fath ddynion yn sarhad ar ddynoliaeth, ac yn bechod cenedlaethol.

Yr hen *leases* sydd yn dyfod i ben yn feunyddiol, a thenantiaid effro, diwyd, a llafurus, yn gafael yn y tir. Lle y gadewir ambell i hen denant i aros yno, buan y bydd yn newid ei drefn, ac yn "tynu ei ewinedd o'r blew:" bydd yn fwy effro gyda'i alwedigaeth, yn byw yn fwy dedwydd, ac yn gwellhau ei dyddyn, er lles iddo ei hun a'i deulu. Nid ydwyf yn bwriadu dadleu yn erbyn i'r tenant effro, diwyd, ac ymdrechgar, gael rhyw ddiogelwch gogyfer â'r gôst y mae yn ei roddi ar y tai a'r tir, ac yn enwedig i'r hwn sydd yn gwario llawer mewn gwelliadau parhaol (*permanent improvements*), megys adeiladu, draenio, a gwalio; y mae diogelwch i'r fath un yn lles annhraethol—yn ei wneyd yn fwy anturiaethus gyda diwygiadau, yn fwy hyderus yn ei feistr tir, ac yn dylanwadu yn rhyfeddol ar yr ardal lle y byddo y fath welliadau yn cymeryd lle. Mae yn sicr nad oes ond pur ychydig, os neb, o brif dir-feddiannwŷr (*landlords*) Cymru a wrthodant roddi diogelwch i'r fath denant. Bum yn rhyfeddu ganwaith, pan yn ymddyddan âg ambell amaethwr, y gwyddwn ei fod wedi gwario cannoedd o bunnau ar ei ffarm mewn gwelliadau parhaol, yr hwn, pan ofynid iddo, "Ai ni fyddai yn well i chwi gael *lease* ar eich tyddyn, fel rhyw fath o ddiogelwch am y draul fawr yma?" "Na, na! y mae enw da ac anrhyd-

edd Arglwydd ——, Syr ——, a Meistr ——, yn ddigon o *lease* i mi a'm teulu." Y mae y fath deimlad, a'r fath ymddiried cadarn rhwng y meistr a'r tenant, yn un o'r cymeriadau mwyaf teilwng sydd yn nghoron ffarmwyr Cymru. Na ato neb i mi fyth gynnyg tori yr undeb serchus yma sydd rhyngddynt: heb y fath ymddiried, nid yw yn bosibl i welliadau gymeryd lle, mewn gwlad na theyrnas. Ailennynwyd yr undeb serchus yma yn Scotland, rai blyneddau yn ol, trwy i'r tenantiaid gael diogelwch (*leases*) ar y tir. Mae yn sicr nad oes un wlad dan haul wedi ymestyn ymhellach mewn diwylliad amaethyddol na'r wlad hono. Ond y drefn fwyaf gyffredin yn Nghymru yw cymeriad o flwyddyn i flwyddyn, a'r cymeriad hwnw yn ddarostyngedig i'w derfynu trwy chwe' mis o rybudd. Y mae amser ymadael yn gwahaniaethu braidd yn mhob gwlad; rhai ddydd Calangauaf, eraill Wyl Mihangel, mewn manau eraill rhoddir y tir i fyny Galangauaf, a'r tai yn mis Mawrth.

Hen adeiladau gwaelion, anghyfaddas, ac anghyfleus, sydd wedi bod yn anaddurn i'n gwlad am flyneddau meithion—dim ond tai tô gwellt culion i ddyn ac anifel. Y mae rhan fawr o gynnyrch y tir, a llawer o borthiant da o wellt yn cael ei ddyfetha, bob blwyddyn, er eu cadw yn ddiddos; mewn peryglon gan ystormydd y dydd, a thân y nos—llawer beudŷ, yn llawn anifeiliaid, a roddwyd yn wenfflam gan fachgenyn difeddwl wrth lynu y ganwyll ar y pared, o fewn ychydig llai na modfedd i'r tô; weithiau ei thaflu ar y daflod, a rhoddi y cwbl yn goelcerth mewn ychydig o fynydau. Ond y mae gwell trefn i'w ddysgwyl o'n blaen; sŵn adeiladu sydd o'r naill gwr i'r llall, a'r hen dai tô gwellt yn myned i lawr; rhai cysurus, cryfion, cyfaddas, a helaeth, tôedig â llechau, yn cael eu hadeiladu yn eu lle. Ac yn y rhanau hyny o'r wlad lle y mae diwygiad amaethyddol yn cynnyddu, y mae tirfeddianwyr yn ganmoladwy am eu hymdrech yn hyn, yn nghorff yr ugain mlynedd diweddaf, drwy estyn cymhorth, naill ai trwy adeiladu y cwbl oll ar eu traul eu hunain, neu ynte roddi y coed a'r llechi i'r tenant.

Gellir yn benderfynol sicrhau nad oes yn bosibl myned ymlaen gyda gwelliadau amaethyddol, heb yn gyntaf gael tai cyfaddas er cysur i ddyn, a diogelwch i'r anifeiliaid. O ganlyniad, y mae o bwys i'w ystyried pa fath dai sydd fwyaf cyfaddas i hinsawdd y wlad, gyd â'u golygiad a'u trefn. Er bod yn gyfleus i'r ffarm, dylai yr adeiladau (*farm-yard*) fod yn y sefyllfa fwyaf manteisiol er cael mynedfa gyfleus i bob cae i wrteithio y tir, gyd â'r safiad mwyaf cysgodol rhag rhuthriadau y gwyntoedd parhaus (*prevalent winds*).

Y safiad neu y golygiad goreu, ydyw, gosod cefn yr adeiladau (*farm-yard*), at y De, Gorllewin, a'r Gogledd. Y mae y lluestai (*sheds*), sef adeilad i'r bustych, yn well â'u golygiad at godiad haul.

Rhaid i'r ysguboriau fod yn ddigon eu maint; ac y mae dwy ysgubor yn fwy cyfleus nag un, er mwyn cael y naill at ddyrnu, a'r llall i gadw y gwellt; yn enwedig lle y mae y peiriannau dyrnu mewn ymarferiad. Nid oes braidd un ffarm o faintioli cymedrol heb beiriannau dyrnu yn y dyddiau hyn; yn enwedig yn y rhanau hyny o Gymru lle mae diwygiadau amaethyddol yn cynnyddu. Cael y beudai (*cowhouses*) â digon o wynt trwyddynt,—" Beudy oer a stabl gynhes," yw yr hen ddiareb. Y ffordd fwyaf gyffredin yw gwneyd rhes o dyllau ysgwar, neu rai meinion hirion (grafesydd). Gwelais gynnygiad at wellâu hyn trwy wneyd gwyntyll-

eidyddion (*ventilators*) yn mhen y tai, fel y caffo anadl yr anifeiliaid ehedeg allan yn naturiol, a chael digon o wynt iachus trwy y tai. Gofala y Sais bob amser am ddigon o wynt iachus i'r beudai. Gwneyd corau (*stalls*) i bob dwy fuwch, sydd yn bur gyfleus. Rhaid i'r ystablau fod yn helaethach na 'r beudai, â chorau (*stalls*) digon helaeth i bob march, neu, o leiaf, i bob dau; ac yn anad unpeth, na weler un rhesel mwyach yn yr ystablau: ond ychwanegaf ar hyn, pan y traethir ar borthi y meirch. Yr un modd, gwneler y tai i'r lloi yn helaeth, â digon o awyr iachus drwyddynt.

Yr ydwyf wedi talu cryn sylw, a threulio peth amser, i chwilio allan am yr adeiladau ffarm mwyaf addas i Gymru; a chynnygir y cynllun (*plan*)[1] canlynol o adeiladau (*farm yard*); sef, tŷ annedd, ysgubor, beudai, ystablau, shediau, cytiau moch, &c.; yr hwn a all fod yn fwy dealladwy i'r darllenydd, ond cyfeirio at y cynllun. Y mae wedi ei gynllunio yn fwyaf neillduol i dyddyn, oddeutu 150 i 200 o erwau. Nid yw yn bosibl rhoddi cynllun a fyddai yn berffaith gyfaddas i bob lle. Y mae yn rhaid gofalu i edrych ar sefyllfa y tyddyn, gyda golygiad ar yr adeiladau. Gwelir yn y *plan* sefyllfa y pydew i gadw trwnc yr anifeiliaid. Nid oes modd prisio y golled y mae ffarmwyr yn gael trwy esgeuluso casglu dwfr y tail sydd yn rhedeg yn wastraff ar hyd y ffosydd a chyda 'r afonydd gerllaw. Fel hyn yr oedd cyfaill yn ysgrifenu ataf yn ddiweddar;—"Pe gwybuaswn i y peth a wn yn awr, pan oeddwn yn adeiladu fy *farm yard*, buaswn yn gwneyd cwterydd o dan yr ystabl a'r beudai, i gario trwnc yr anifeiliaid i le priodol, yn wrtaith gwlyb (*liquid manure*)."

Dylai pob buarth (*yard*) fod yn ddigon helaeth i'r gwartheg mân; sef, y bustych blwyddiaid, a dwyflwyddiaid; a chyfwng rhwngddynt i gadw y gwan oddiwrth y cryf; o herwydd y gwan a "raid fyned i'r wal" bob amser: gan hyny, dylid cadw y gwartheg blithion oddiwrth y dyniewyd, &c.

Y peth nesaf i'w ystyried, yw, cloddio allan y tyddyn; ac er mwyn trefn a chyfleusdra, y mae yn anghenrheidiol rhanu y ffarm yn feusydd cyfartal;—pob maes o'r un maintiolaeth, cyn agosed ag y byddo modd. Yn hyn y mae Cymru ymhell iawn ar ol, yn mhob cwr o'r wlad; gwelir caeau o bob maintiolaeth ar y ffarm, o bob math o ffurfiau, ac yn gyffredin heb fod ar "lun dim;" ac felly, y mae y ffarmwr yn codi un flwyddyn lawer mwy o gropiau o ŷd na 'r flwyddyn arall, yn andwyo y tir, ac yn dyrysu pob trefn. Y mae y Sais a'r Scotyn yn gyntaf peth, yn rhanu y ffarm yn feusydd cyfartal mewn maintiolaeth, ac oll o'r un ffurf, er dwyn ymlaen y drefn fydd ganddo mewn golwg at drin neu gnydio y tir; felly, os cylchdrefn, pedair, pump, neu chwe' blyneddol, o gnydio, yna, yr un rhifedi o gaeau ar y ffarm: yn y dull yma, ennillant erwau o dir mewn un ffarm. Mae gormod o diroedd Cymru o dan y gwrychoedd, a'r cloddiau llydain, afluniaidd, sydd yn dwyn cnydau toreithiog o chwyn, ac yn nyth i bob aderyn aflan: o ddwy i dair erw o'r cloddiau llydain yn rhedeg yn ol ac ymlaen, ar draws ac ar hyd, yn bob ystumiau, nas gall yr aradr na 'r ôg fyned o fewn dwy lath neu dair iddynt; ac yn gyffredin, y clawdd a'r ffos o bump i chwe' llath o led. Gwelais hyn yn ddiweddar mewn ffarm yn y gymydogaeth lle yr ydwyf yn byw; wrth chwalu hen gloddiau, ac adeiladu gwaliau ceryg, mesurais ystol yr hen glawdd, gyda 'r ffosydd, yn ddwy erw a hanner, mewn tri maes yn unig. Gofynais i'r meddiannydd, "Pa faint fuasai gwerth y ddwy erw a hanner, pe buasai y

[1] Ymddengys y cynllun yn ein rhifyn nesaf.

tir yn perthyn i rywun arall, ac yn sefyll yn nghanol eich ffarm fel yma?" "Wel, yn wir," meddai y gwr parchus, "ni fuasai un arian yn ormod genyf roddi am y fath le; y mae y tir a ennillwyd yn sicr yn werth 80*p.*! a rhoddi pris cyffredin arno; felly, y mae y gwaliau wedi talu am danynt eu hunain, heblaw eu bod yn prydferthu y lle, ac yn gwellhau golygiad y ffarm."

Dyma un o'r diwygiadau cyntaf a ddylai gymeryd lle yn y Dywysogaeth,—chwalu y mân feusydd afluniaidd, a'r gwrychoedd, a'r cloddiau llydain sydd yn anharddu y tir. Mynych y clywais y tyddynwr yn sylwi, wrth fyned dros ambell i hen glawdd,—"Y mae hwn yn ddigon llydan i drol fyned ar hyd-ddo." Y mae yn sicr fod cannoedd o erwau; ïe, gellir dywedyd fod ffermydd mawrion a ellir eu hennill, a hyny yn unig drwy chwalu hen gloddiau sydd yn anurddo cymaint ar y wlad; a buan yr elont i lawr, fel y gallo y tir ddwyn ychwaneg o ffrwyth gogyfer a'r cynnydd blyneddol sydd yn ein poblogaeth. *Ysgwario* y meusydd yn drefnus, gofalu am fod dwfr yn mhob maes, hyd ag y gellir, sydd yn anghenrheidiol ar bob tyddyn. Rhaid i faintiolaeth y caeau ymddibynu ar faint y ffarm, ac ar y dull o amaethu.

Ar ol cael y cloddiau pridd i lawr, gwaliau ceryg yw y goreu at bob achos; ond anhawdd ac annheg i'r tenant walio y cwbl ar ei draul ei hun. Dyma un o'r costau y dylai y meistr tir ddyfod a chynnorthwyo y tenant; ac i dalu o leiaf hanner y draul; y mae gwal geryg wedi ei gweithio yn dda, yn bedair troedfedd o uchder, a topres (*coping*) crych arni, yn werth, rhwng codi y ceryg, eu cario, a'i hadeiladu, a'i phwyntio gyda chalch, o 6*s.* i 10*s.* y rhwd (o wyth lath), o dan amgylchiadau cyffredin; a dyma yn sicr yw y gwaliau goreu sydd yn cael eu hadeiladu; ac yn well yn fy marn i at bob achos, na 'r gwaliau gyda thopres crwn: er mai yr un uchder yn gyffredin fydd y ddwy wal; sef oddeutu pedair troedfedd. Edrycha pob un yn rhagorol o dda, pan y bydd gwrychyn drain yn tyfu y naill ochr iddynt; ac yn wir, ni ddylai un clawdd na gwal fod heb naill ai drain ai eithin yn tyfu wrthynt. Costia gweithio clawdd pridd, llathen Gymreig, o 1*s.* 6*c.* i 1*s.* 8*c.* y rhwd (o wyth llath), heblaw y gost o blanu drain ynddo. Y mae dull arall o gloddio yn Nghymru; sef pwyntio gwyneb y clawdd gyda cheryg, a phlanu drain ynddo; gwna glawdd hardd a phrydferth; ond y mae y drefn hon yn dwyn y tir yn ormodol. Y mae rhan fawr o Gymru yn edrych yn llwm o eisieu gwrychoedd drain, a'r anifeiliaid, heb gymaint a chysgod cawnen i ochel rhag y gwynt a'r gwlaw, yn rhynu ac yn hanner starfio gan anwyd wrth y clawdd noethlwm a digysgod. Cwyno mae y ffarmwyr yn gyffredin, fod drain yn lled ddrud, ac eithin yn rhatach, ac yn fwy gwerthfawr i'r anifeiliaid. Ni fyddai y gost ond ychydig i'r tirfeddianwyr feithrin erw neu ddwy o ddrain i'w rhanu yn mysg y tenantiaid, yn ngwahanol fanau o'r wlad.—Y mae yn sicr y byddai golwg arall yn fuan ar ranau noethlwm amryw o ardaloedd Cymru.

Yr amser goreu i blanu drain, ydyw, o Galangauaf i fis Mawrth. Dylid eu gosod oddeutu deng modfedd oddiwrth eu gilydd; a chofio bob amser planu yn y flwyddyn y bydd tori y maes: felly cânt chwareu teg i dyfu; o herwydd cedwir yr anifeiliaid o'r cae, o leiaf am bedair neu bum mlynedd; ac yn anad dim, dylid gofalu eu cadw yn lân oddiwrth chwyn, trwy fforchio rhyngddynt bob blwyddyn; y mae hyny yn well na phalu gyda'r rhaw. Y mae helltni y môr yn cael ei chwythu gan wynt y gorllewin,

dros y rhanau hyny sydd ar duedd Môr y Gorllewin, yn effeithio cryn lawer ar y coed a'r drain. Y maent yn ymddangos â'u gogwydd tua 'r gogledd-ddwyrain, a'r cwr nesaf i'r gorllewin bob amser yn cael effeithio arno yn gyntaf. Dengys hyn fod eisieu planu mwy, ac yn dewach, er cael ychwaneg o gysgod, i ddiogelu yr anifeiliaid rhag y gwynt aruthrol sydd yn effeithio cymaint ar y coed a'r anifeiliaid, yn y rhan ddeheuol a gorllewinol o Gymru.

Ni ddylai yr anifeiliaid, yn enwedig y defaid, fyned i ymrwbio yn y drain tra y byddont yn ieuainc; y mae gwlan y ddafad yn wenwyn pur iddynt. Lle byddo y gwlan wedi taro wrthynt, ni thyf y planigion drain hyny byth mwy; dyma, mae yn debyg, yw yr achos fod cymaint o gloddiau a gwrychoedd drain mor fylchog, o ddiffyg gofal yn unig i gadw yr anifeiliaid oddiwrthynt tra yn ieuainc. Yn yr ail flwyddyn, rhaid eu cadw yn lân, trwy eu chwynu, a fforchio rhyngddynt, a thori eu blaenau; y maent fel hyn yn ail impio, yn tyfu yn ffyrnicach ac yn fwy rheolaidd; rhaid gwneuthur yr un peth eto y bedwerydd flwyddyn, a'u blaendori yn drefnus. A thrwy ofal, daw y drain yn gysgod i'r anifeiliaid y gauaf; ac yn gymhorth i ddwyn mwy o yd a phorfa. Onid ydyw yn eithaf amlwg, lle bydd cysgod da, mai yno y bydd yr yd a'r borfa mwyaf toreithiog bob amser?

Nid ydyw egwyddorion amaethyddiaeth a ymddangosant trwy ymarferiad ond ychydig mewn rhifedi. Gellir eu nodi fel hyn;—Gwneyd y tir yn berffaith sych—ei lanhau oddiwrth chwyn—cadw a gwneyd y tir sydd yn rhy rwym, o natur digon briwsionllyd, i dderbyn, a throsglwyddo lleithder ac ireidd-dra, fel y byddo yn addas i ddwyn digonedd o hydyfiant —atdalu i'r tir mewn gwrtaith o natur pydredig, y rhan fwyaf, os nid y cwbl oll, o gynnyrch y tir, trwy ei fwyta a'i ddifa gyda defaid neu anifeiliaid eraill—cadw y tir yn berffaith lân—peidio byth a gwrteithio y tir, hyd nes y byddo pob chwynigyn ynddo wedi ei lwyr ddifa. Gan hyny, os bydd fy sylwadau yn lled faith ar y tri phwnc canlynol, gobeithiaf na phriodolir hyny yn fai yn fy amcan; o herwydd dyma mewn gair yw yr atebiad goreu a ellir ei roddi i'r gofyniadau sydd wedi eu rhoddi gan bwyllgor yr Eisteddfod; sef y tair cangen ar ba rai y sylfaenir egwyddorion ymarferol, ac yr ymddibyna llwyddiant, a diwylliadau dyfodol yn amaethyddiaeth y wlad:—*Sychu y tir—Cylchdroad y cnydau—Dewis, magu, a chadw anifeiliaid*—a hefyd gellir ychwanegu, *Glanhau y tir, a'i wrteithio.*

Er mwyn bod yn rheolaidd, ac mewn trefn, mi a sylwaf, ymlaenaf, ar y dull o *sychu* y tir yn y wlad. Dyma y cam cyntaf er sicrhau llwyddiant amaethyddol; yn enwedig lle mae y tir yn glaiog, a'r hinsawdd yn wlyb. Nid oes ond ychydig o flyneddau er pan yr agorwyd y traen cyntaf yn Nghymru, ar y dull a briodolir i'r diweddar[1] Smith, o Deanston; *sef, traenio yn aml ac yn gyflawn.* Cof genyf glywed, oddeutu deng mlynedd yn ol, ddau ffarmwr, oedd gymydogion a chyfeillion serchog, yn dadleu mewn perthynas i draenio; a bu agos iddynt fyned yn ben-ben â'u gilydd. Yr hynaf o honynt oedd yn haeru fod y llall yn dyfetha y tir trwy ei draenio yn gyflawn ac yn aml (yn ol "y drefn newydd," fel ei gelwid yr amser hwnw); a'r llall yn ymresymu yn gadarn dros yr hyn oedd yn ei wneuthur ar y ffarm: ond gwrandewch gyfaddefiad yr hen ffarmwr yn bresennol, yr hyn a glywais yn ei adrodd lawer tro—"Pe buaswn i wedi

[1] Bu farw, Mehefin 9fed, 1850.

dechreu draenio er ys ugain mlynedd yn ol, yn lle gwario cymaint o arian am galch, a hyny yn ofer, gallaswn heddyw brynu *fy* nhyddyn." Mae ffeithiau fel hyn yn werth "llonaid sach" o haeriadau, er profi y buddioldeb a'r lleshâd sydd yn deilliaw wrth draenio yn gyflawn (*thorough-draining*). Y mae y pwnc wedi cael ei brofi mor aml ac mor amlwg, a'r wlad wedi ei hargyhoeddi mor gyffredinol, fel nad yw yn angenrheidiol i mi bwyso at ystyriaeth y wlad y buddioldeb o'r drefn. Ond rhaid coffâu am yr hen ddull oedd yn y wlad; sef, agor y traeniau ar draws yr allt, a lluchio ceryg iddynt, digon o faint ac o nerth i adeiladu castell, gan dagu ac attal y dwfr i gael rhedfa drwyddynt;—byddai y gareg gyntaf weithiau yn attalfa ar draws genau y draen. Y mae llawer o'r hen "bobtai" yma yn dyfod i'r golwg y dyddiau presennol; ond gadawaf i'r "hen ddull yma fyned heibio," heb braidd ond ei enwi. Daeth dull arall i ymarferiad, pan ddechreuodd goleuni y wybodaeth newydd belydru ar y wlad, oddeutu ugain mlynedd yn ol; sef agor y traeniau yn lled-draws i'r allt; ac nid yw yn hollol wedi "diflanu o'r tir." Hwn yw y cam cyntaf mewn ardal tu ag at welliant mwy defnyddiol a chanmoladwy. Ond yn y dyddiau presennol, nis gellir myned i un ardal, heb ganfod y ffosydd meinion yn agored, a'r caib a'r rhaw mewn llawn gweithrediad, gyda'r drefn o draenio yn gyflawn. Sylwer fod dau fath o draenio mewn arferiad; bydd llawer yn dueddol i gymysgu y naill gyda'r llall. Un dull o draenio, yw, gwneyd moddion i arwain ymaith y ffynnonau (*springs*) fydd yn codi yn y tir, ac i ddal ambell ffrwd danddaearol a all fod yno. Rhaid cael allan yr achos o'r gwlybaniaeth cyn dechreu traenio; llawer sydd wedi ei wario yn ofer trwy anwybodaeth, a chamsyniad am achos y gwlybaniaeth: ac felly, os bydd y tir yn wlyb o achos *springs*, neu ddwfr tanddaearol, rhaid myned i "lygaid y ffynnon" i arwain y gofer ymaith. Mae *springs* yn ymddangos yn llygaid gwlybion mewn llawer o fanau yn y wlad; byddant i'w gweled yn y gwanwyn, pan y bydd pob man arall yn y maes yn sych;—dangys y llygadau gwlyb eu hunain yn amlwg. Gwell fyddai twbio y fath le, a hawdd yw gwneuthur hyny gyda hen gasg blawd, trwy ei lenwi â cheryg mân—ei *sinkio* yn ddyfn, ac arwain y traen o hono yn y ffordd mwyaf uniongyrchol i un o'r ffosydd neu 'r traeniau gerllaw. Dyma y ffordd rataf a mwyaf effeithiol a welais at sychu y fath lygadau gwlybion.

Lle y mae y tir yn wlyb o achos y dwfr sydd yn disgyn ar y ddaear, sef dwfr gwlaw, neu ddwfr arwynebol, a lle byddo y tir yn glaiog ac yn rhwym, rhaid traenio yn aml ac yn gyflawn yn y fath dir, fel y gallo y dwfr redeg i rigolydd priodol i'w arwain ymaith. Y drefn yw cario y traeniau a'u penau yn sythion i'r allt, a chael allan y rhediad goreu yn y tir; ac y mae y drefn yma, fel y sylwyd o'r blaen, wedi dyfod yn aml iawn i arferiad. Ond cwynir yn fynych fod y gôst yn rhedeg yn uchel, ac yn fwy na moddion y tenant i'w gwblhau ar ei draul ei hun. Caniateir fod llawer o wir yn hyn; ac y mae meistriaid tiroedd yn estyn llaw o gymhorth i lawer at y gorchwyl hwn. Y maent yn ystyried mai un o'r gwelliadau parhaol ydyw, a'r ddyledswydd yn gorphwys mewn rhan, o leiaf, wrth ddrws y meistr; y maent yn cydnabod hyn, trwy dalu rhan o'r gôst, rhoddi dylau (*tiles*), neu ynte roddi arian i'r tenant at wneuthur y traeniau, ac yn codi yn yr ardreth yn ogyfer a hyny, o bum punt i saith y cant ar yr arian a werir. Yr ydwyf yn gwybod trwy brawf am amaethwyr sydd wedi derbyn

y fath gymhorth, eu bod yn canmawl y drefn, a bod y traeniau yn talu yn ddauddyblyg iddynt am eu llafur, ac yn foddion iddynt dalu yr ardreth ychwanegol gyda llawenydd. Gwelir llawer tenant yn traenio ar ei gost ei hun, ac yn arfer y dull rhataf, mwyaf anghelfydd ac aneffeithiol, er cyflawni y gwaith, yn colli golwg ar bob defnyddioldeb parhaol, a'r ewbl yn myned yn ofer; gwell er lles y meistr a'r tenant fyddai gwneyd rhai mwy parhaus a defnyddiol, a dylai y meistr gofio fod y tenant diwyd a llafurus yn teilyngu cefnogaeth. Gydag ychydig o gymhorth y gwna llawer un wellhau y tir fel yr ewyllysia, er lles iddo ei hun a'i deulu; felly y gwna ei rwymo yn fwy serchog at yr hwn a'i cefnoga; a pha beth sydd yn fwy cysurus i'r meistr nag edrych ar lwyddiant ei ddeiliaid?

Yr wyf wedi son eisoes mai y drefn o draenio yn gyflawn yw cario y traeniau yn uniongyrch â'u penau i'r allt. Rhaid gofalu hefyd am rediad i'r prif draen (*main drain*), ei thori oddeutu pedair neu bump llath o'r clawdd, er ei diogelu rhag i'r anifeiliaid ei sathru yn y dalar. Arweinir y mân draeniau i gydredeg â'u gilydd i'r prif draen, ac un genau i'r olaf i arllwys y dwfr i'r ffos agored. Y mae yr arferiad ffol o dynu y traeniau mân oll i'r ffos wedi darfod yn hollol. Os bydd y traeniau mân yn hirion, doeth yw tynu prif draen arall ar eu traws, er cynnorthwyo y prif draen yn y gwaelod. Nid oes un rhan o'r drefn gelfyddgar hon wedi achosi cymaint o wahaniaeth barn yn mysg dynion deallus, ag yw dyfnder y traeniau i fod. Haera rhai mai traeniau dyfnion anarferol yw y goreu, ac eraill am y rhai beision, hyd nes yw yr egwyddor wedi ei chario i eithafion o bob ochr. Ni welais un drefn erioed yn llwyddiannus trwy ei chario ymlaen a'i harfer mewn penboethni ac i eithafion; felly yr un modd y mae gyda'r ddadl hon. Mr. Parkes (prif draeniwr i'r *Royal Agricultural Society*), sydd o blaid traeniau pump a chwech troedfedd o ddyfn, mewn tir cleiog, rhwym, a deugain troedfedd rhwng y traeniau. Y mae y gŵr hwn wedi gwario miloedd ar filoedd o bunnau (yn ofer) mewn rhai manau. Gwnawd prawf ar yr egwyddor hon yn Phœnix Park, yn Dublin, gan ddynion hollol ddiduedd; ac ymddangosodd eu sylwadau yn y "*Gardeners' and Farmers' Journal*," yr 31ain o Fawrth, 1849. Y maent yn condemnio y drefn yn hollol, ac yn profi na wna y tro yn mhob amgylchiad, o leiaf, heblaw y ffaeledd yma (sydd wedi ymddangos i'r byd, fod y drefn, a'i chario i ormodedd, yn ddiffygiol). Y mae llythyr rhagorol Mr. Webster, a ymddangosodd yn y "*Royal Agricultural Society's Journal*," am fis Awst, 1849, wedi profi, i fy meddwl i, y niwed o draenio yn *rhy ddyfn* mewn tir cleiog, gwlyb, o achos dwfr gwlaw. Mae yn ymresymu, ac yn dwyn prawfiadau cedyrn ac anwrthwynebol. Dywed mewn un rhan o'i lythyr fel hyn;—"Ar fy ffarm fy hun (oddeutu 200 o erwau), yr wyf wedi arfer llawer o brawfiadau. Mae genyf mewn un rhan o'm ffarm draeniau 2 droedfedd a 6 modfedd o ddyfnder (7 llath o led rhyngddynt) ag sydd wedi gweithredu yn berffaith dda am lawer o flyneddau. Mewn cae arall, torais rai dyfnach, sef o 4 i 5 troedfedd o ddyfnder, a 40 troedfedd rhyngddynt. Yn y gwanwyn, pan oedd eisieu *rowlio* y gwenith (gyda *Crosskill's clod crusher*), yn y rhan hon o'r cae a draeniwyd yn ddwfn, nid oedd y tir yn agos cyn syched a'r rhan arall, sef yr hon a draeniwyd yn gyntaf; ac yr oedd y priddyn yn gafael yn y *rowler* wrth fyned ar hyd-ddo. Y mae y gledrffordd wedi ei thori drwy ddarn o fy nhir yn 18 troedfedd o ddyfnder, ac nid yw yn sychu mwy o wyneb y maes ar un ochr o hono na thraeniau tair troed-

fedd o ddyfnder!" Y mae yr un effaith yn cael ei brofi yn y toriadau dyfnion (*cuttings*), lle y mae y ffyrdd haiarn yn myned trwy y wlad. Gwelir y tir mor wlyb, ac agwedd mor oerllyd a salw, o bob ochr i'r ffordd ag oedd arno cyn tori tywarchen erioed o hono. Y mae Mr. Webster yn dwyn prawfiadau eraill a ddaeth o dan ei ystyriaeth yn ngwahanol barthau Lloegr, sef traenio yn rhy ddwfn, ag oedd wedi methu ateb y dyben. Eto, cofier nad wyf yn amddiffynwr i draeniau rhy feision. Myned i eithafion, fel y dywedais, y mae amddiffynwyr y ddwy drefn, hyd nes yw y rhai sydd yn dadleu o du y drefn o draenio yn rhy fâs yn haeru nad oes eisieu yn unig ond cario y dwfr oddiar y wyneb; paham ynte na fuasai yr hen ddull, gyda chefnau uchel, a'r rhychau cyffredin, yn ddigonol i sychu y tir? Na, na, ni wnaeth y fath ddull y tro. Yr wyf o'r farn, ar ol cryn lawer o ymarferiad, a phrawfiadau lled helaeth yn y drefn o draenio, fod o 2 droedfedd a 9 modfedd, i 3 troedfedd a 6 modfedd, yn llawn ddigon dwfn ar dir cleiog, sydd fwyaf eisieu ei sychu, wedi eu gosod mewn o 6 i 8 llath rhwng eu gilydd. Rhaid fod pen draw ar bob costau. Ac edrych ar un llaw ar y defnyddioldeb, ac ar y llaw arall ar y draul, ac hefyd ystyried amgylchiadau y wlad, yr wyf o'r farn yn benderfynol fod y dyfnder a'r pellder y soniais am danynt yn ddigonol i sychu y tir yn gyflawn. Gwelais draeniau 2 droedfedd a 6 modfedd o ddyfnder, a 6 llath rhyngddynt, yn gweithio yn gampus, ac yn parhau i weithredu am flynyddau. Ac onid y dull yma yw sylfaen yr egwyddor a sefydlwyd gan Smith, o Deanston—sef, *traeniau aml, lled feision?* Er llawer o ymdrech i berswadio y gŵr boneddig hwnw—ag sydd yn teilyngu y fath barch ac anrhydedd gan holl amaethwyr y deyrnas, ïe, diolchgarwch pob dosbarth o ddynion yn y wlad, am y lles annhraethol sydd wedi deilliaw o'i drefn i sychu y tir—i newid ei farn, parhau yr oedd hyd ei farwolaeth i amddiffyn y drefn yn eofn ac yn ddiysgog. Ond, ar yr un pryd, y mae yn cynghori cael digon o ddyfnder yn y traeniau, fel y gellir llafurio y priddyn heb mewn un modd gyffwrdd â'r defnyddiau fydd yn y traeniau, yn enwedig yn y manau hyny y bydd rhaid arferyd aradr yr is-briddyn (*subsoil plough*); o herwydd fod yn berygl dyfetha y traeniau, os na fyddant yn ddigon dyfnion. Tori traeniau yn gulion yw y goreu, yn enwedig yn y gwaelod: gwnai llai o geryg y tro, a bydd y dylau yn gorwedd yn ddiogelach, a gweithredai y dwfr yn y rhigol gul yn fwy nerthol er eu glanhau, a'u cadw yn agored i'r dwfr redeg yn rhwydd drwyddynt. Yn gyffredin, torir y traeniau mân yn 3 neu 4 modfedd o led yn y gwaelod, ac ar y wyneb o 9 i 12 modfedd. Gwna o 6 i 8 llath o led rhyngddynt y tro, yn gyffredin; ond mewn tir cleiog, gwastad, heb rediad ynddo, rhaid eu gosod yn nes at eu gilydd nag mewn tir agored, ar lethr gallt.

Rhaid amcanu sychu y tir yn gyson drwyddo, fel na byddo y pridd sydd bellaf oddiwrth y traen yn wlybach na'r hyn sydd yn ei ymyl. Bai lled gyffredin yw tynu y traeniau at gŵr yr allt, neu at gŵr lled sych o'r tir, a thrwy hyny, "blingo y gath hyd at ei chynffon." Canfyddir yn lled fuan mai y cŵr sychaf cyn traenio, fydd y rhan wlybaf wedi y cymer hyny le. Camsyniad arall yw, mai trwy ran uchaf y traen y bydd y dwfr yn rhedeg iddo; ond dalier sylw, yn y lle bydd tir wedi ei draenio yn effeithiol, gwelir y dwfr bob amser yn dyfod i'r traen yn ei waelod, onidê, pa fodd y mae y dwfr yn myned i'r dylau a osodir yn ngwaelod y traeniau? Dylai fod y *prif draen* yn bedair neu chwech modfedd yn ddyfnach na'r traeniau

mân, er cadw digon o dyniad a rhediad i'r dwfr i lanhau geneuau y mân draeniau, a gwneyd digon o le i'r dwfr redeg yn ddirwystr. Lle y byddo llawer o ddwfr, rhaid cwtteru a phalmantu y gwaelod â cheryg.

Y mae llawer o ddadleu mewn perthynas i'r defnyddiau goreu i'w rhoddi yn y traeniau. Haera rhai dros y dylau (*tiles*), eraill geryg caledion, neu frigau coed, ac eraill o du y dollgraig (*shale*). Mae amgylchiadau amryw barthau o'r Dywysogaeth yn rhanu y *camelion* hwn i'w le priodol ei hun. Ar wastadedd a dyffrynoedd siroedd Fflint a Dinbych, lle y ceir digonedd o glai rhwym, yn ddiddadl, dylau (*tiles*) yw y rhataf a'r goreu yno; ond yn y manau hyny sydd yn gorwedd ar y dollgraig, a'r clai yn anmhriodol i'w grasu, y mae yn sicr mai ceryg, neu y siâl, yw y rhataf. Ond i ni sylwi yn fanwl ar ddarpariadau natur, gwelir hi yn amlwg wedi gosod wrth ein hymyl y manteision helaethaf yn mhob cwr o'r Dywysogaeth tuag at sychu y tir. Yn y manau hyny lle y mae y tir yn wlyb, cleiog, a rhwym, y mae naill ai digonedd o glai at wneyd dylau, neu siâl, a rhwbal, wrth law; ac yn yr ardaloedd sydd ar ororau glanau y môr, ceir manteision helaeth,—miloedd ar filoedd o dunelli o fân geryg, glân, caledion (*seaside shingle*), yn rhad ac am ddim. Nis gellir byth gael gwell defnyddiau i draenio na cheryg glan y môr.

Defnydd rhagorol hefyd ydyw y teneufaen (*slate*), neu dollgraig, fel ei gelwir gan rai. Y mae hwn yn gorff helaeth mewn amryw fanau yn y Dywysogaeth, a'r lle y ceir digonedd o hono, dyma yw y defnydd rhataf o'r cwbl; ond dylid bod yn bur ofalus i'w lanhau cyn ei ddodi yn y traeniau. Ni chlywir braidd son yn Lloegr a Scotland am ddim arall fel defnyddiau i'w rhoddi yn y traeniau ond y dylau (*pipe tiles*), ac nid oes yn bosibl i'r Cymro gau ei lygaid ar yr effeithiau daionus sydd yn deilliaw oddiwrth y drefn yma o draenio. Dywedodd un boneddig wrthyf, ei fod ddwy flynedd yn ol ar ei daith trwy Scotland, a bod llaweroedd o amaethwyr cyfrifol yno yn ail draenio y tir gyda'r *pipe tiles*, ag ydoedd wedi ei ddraenio gyda cheryg mân; ac yn wir y mae yr un ffaith yn cymeryd lle wrth fy ymyl, yn y gymydogaeth lle yr wyf yn byw ynddi. Y mae yn wir nad oes mewn rhai manau yn Lloegr yr un manteision ag sydd genym ni yn Nghymru i gael ceryg; y maent yno yn cymeradwyo y dylau o flaen na cheryg nac unrhyw ddefnyddiau eraill. Y mae yn sicr fod traenio gyda dylau yn rhatach, pan yr ystyriom y draul o godi ceryg caledion, y gôst a arbedir mewn trolio lle y bydd y chwarel ymhell, a'r ceryg yn ddrudion ac yn anhawdd eu cael; felly arbedir traul dirfawr yn y gwaith trwy arferyd dylau. Gwerthir y *pipe tiles* (rhif 1), modfedd a hanner, o 18*s*. i 20*s*. y fil; gwna un fil ddigon i draenio 336 llath:[1] ac yn y lle na byddo gormodedd o ddwfr, y maent yn arllwys mwy nag a ellir ei gredu braidd. Dyma fel y dywed Mr. Dawson, o Gronant; caiff lefaru yn ei eiriau ei hun am ragoroldeb dylau at draenio:—

"I am so convinced of the superiority of pipes over stones in draining that I would not use stones if I had them in the field; unless the drains are very deep, the surface, or rain water, carries with it to the stones the richest of the manure or soil as a sediment into the drains. I think the rain water finds its

[1] Y mae *tiles* yn cael eu gwneyd mewn rhai parthau o siroedd Fflint a Dinbych, yn mesur tua 12 modfedd, neu ragor, ac yn cael eu gwerthu (rhif 1) am 18*s*., neu lai, y fil.

way into the drains much too soon, before it deposits the atmospheric gases in the soil; and in percolating slowly through the fissures to the pipes, I think it is of very great advantage to the land, and you well know the richness contained in rain water, besides the moisture it brings."

"J. D."[1]

Gwelais draeniau wedi eu llenwi â siâl er's pump ar hugain o flynyddau yn ol; y mae y dwfr yn rhedeg trwyddynt mor loew yn bresennol a'r amser cyntaf y rhoddwyd hwy i mewn; haera y tenant eu bod yn fwy parhaus na cheryg caledion. Gellir codi siâl mewn rhai ardaloedd am lai na thair ceiniog y troliad; ond am geryg caledion, nis gellir eu codi a'u malu yn fân o dan chwe' cheiniog, o hyny hyd yn swllt neu ddeunaw ceiniog, y troliad. Y mae traeniau wedi eu llenwi â'r fath ddefnyddiau yn rhedeg yn ddrud ac yn uchel iawn. Gofaler bob amser, os ceryg caledion a ddefnyddir, i'w malu yn ddigon mân—ni ddylent fod yn fwy nag wy iar.

Pan y byddo y tywydd yn sych, naill ai yn yr haf neu Wyl Mihangel yw yr amser goreu ar y flwyddyn i draenio; gwell yw eu tori yn y tyndir, sef yn y croen glas, nag mewn sofl neu âr: bydd yn hawddach gwneyd y gwaith yn lân ac yn fuddiol, na phan fyddo y tywydd yn wlyb, neu y tir yn frau. Bydd yn anmhosibl cadw y pridd o'r traeniau wrth eu tori yn yr âr; saif yr ochrau yn well wrth eu tori yn y tyndir, ac ni fydd eisieu cymaint o geryg i'w llenwi. Mewn pethau bychain fel hyn y mae tyddynwyr Cymru yn colli ac yn ddiffygiol; dechreuant eu gwaith yn ddigon trefnus, ond ni welir byth mo honynt yn ei orphen yn gryno ac yn daclus. Arbedir llawer o draul, gwneir y gwaith yn lanweithach, a bydd y traeniau yn sefyll i fyny yn well, trwy gario y ceryg yn gyntaf, a'u tynu yn bentyrau bychain ar hyd y maes; ni all y ceffylau fathru, na'r troliau dori y traeniau, wrth arfer y dull yma, fel y gwelir yn aml wrth gario y ceryg i'r cae ar ol tori y traeniau. Wedi i'r traeniau gael eu tori, a'r gwaelod gael ei lanhau, rhoddir y dylau neu y ceryg ynddynt. Rhy ychydig o ofal sydd gyda'r rhan hon o'r gwaith; a dyma yr amser y dylai y ffarmwr fod yn bresennol gyda'r dynion, pan yn llenwi y traeniau; bydd rhai yn ysgubo gwaelod y traeniau, rhag bod un rhwystr yn eu gwaelod i'r dwfr redeg. Gwelir fel hyn pa le y bydd y rhediad yn anghywir, a gall y tyddynwr beri i'r gweithiwr wneyd i fyny y diffyg cyn rhoddi y defnyddiau i lawr. Dywedodd un ffarmwr wrthyf, ag sydd wedi traenio gymaint a neb yn y wlad, mai wrth gau y traeniau y mae y dynion fwyaf esgeulus o un rhan o'r gwaith; ac y bydd bob amser yn pigo y dynion mwyaf gofalus a medrus i'w llenwi, a bod yno gyda hwynt, yn enwedig pan y bydd y dylau neu y ceryg yn cael eu dodi yn y draen. Mae o naw i ddeuddeg modfedd o geryg glân, wedi eu gosod yn wastad ar hyd y traen, yn ddigon er arwain y dwfr gwlaw cryfaf a all fod yn un rhan o'r wlad, os na fydd rhyw *spring* cryf iawn yno. Gwnaethum draeniau y llynedd, a dim ond deng modfedd o s âl ynddynt; y mae y dwfr yn bwrlymu allan o honynt mor reolaidd ag un afon neu gwter yn yr ardal, a'r dwfr yn dyfod o honynt mor loew a'r grisial. Bum yn meddwl amser yn ol, y dylid llenwi y traeniau â deuddeg neu bymtheg modfedd o geryg; ond y mae rheswm yn dangos yn ddigon eglur, os yw modfedd a hanner o dwll mewn teilsan yn ddigonol i arllwys y dwfr, ai nid yw deng modfedd o geryg yn ddigonol? Gwnai hyn arbed llawer o draul lle y mae y ceryg yn anhawdd

[1] Derbyniwyd y llythyr uchod ar ol ysgrifenu y traethawd hwn.

eu cael, a'u codi yn ddrudfawr. Trefn ganmoladwy yw rhoddi tywarchen â'r wyneb glas i lawr ar y ceryg neu y dylau, cyn rhoddi dim pridd arnynt, a'i mathru a chaledu digon arni,—bydd yn foddion i attal y pridd rhag rhedeg rhwng y dylau a'r ceryg i waelod y traen i'w dagu, a dylid gwneyd hyn yn ddioed ar ol rhoddi y ceryg neu y dylau i lawr, a goreu po gyntaf y llenwir y gweddill o'r pridd a godwyd o honynt wrth eu hagor; ac er mwyn gorphen y gwaith yn gyflawn, arferiad hynod o ganmoladwy a welais oedd, rhedeg *rowler* drom, neu arwain olwyn trol lydan, yn hanner llwythog, ar hyd y traeniau, i galedu y pridd, er mwyn diogelu y ceryg a'r traeniau. Mae rhai yn gwneyd traeniau tywyrch yn y wlad. Dywedodd un gwr ei fod wedi traenio darn lled helaeth, ddwy flynedd yn ol, gyda thywyrch, mewn lle corslyd: y maent yn dal i weithredu eto yn eithaf da, ond nid oes genyf fawr o ffydd ynddynt; ac yn gyffredin, ar ol llawer o gôst a llafur, a ddryllir, naill ai trwy sathrfa yr anifeiliaid, neu bryfedach yn myned iddynt, ac yn eu cau i fyny a'u tagu. Bu gwr boneddig yn traenio, rai blynyddau yn ol, gyda drain a choed. Tybygwyf y buasai y siâl oedd gerllaw yn llawer gwell iddo; ond ni lwyddodd y dull yma.

Telir yn gyffredin am dori traeniau, o ddwy droedfedd a hanner i dair troedfedd o ddyfnder, o bedair i saith geiniog y rhwd (o wyth llath); ond y mae y tir, ac amgylchiadau eraill, yn achosi llawer o wahaniaeth yn y pris yn mhob ardal. Nid yn aml y gosodir y traeniau i'w cau i'r un dynion ag fydd yn eu tori; nid oes yn bosibl cael gwaith gonest a digon manwl ganddynt, wrth eu gosod i'w llenwi wrth y rhwd; ac felly yn gyffredin, naill ai wrth y dydd, neu gan y dynion ar y tyddyn, y bydd y gangen hon o'r gwaith yn cael ei wneuthur genyf fi. Cofier hefyd fod yn rhaid i'r gweithwyr gael offerynau (*tools*) gweddus, hwylus, a phriodol, cyn y gallant wneyd eu gwaith yn iawn. Gwerthir offerynau draenio braidd yn mhob pentref yn y wlad. Traul lled gostfawr i'r tenant yw cario y ceryg, lle y byddo y chwarel ymhell oddiwrth y cae; yr wyf yn gwybod trwy brofiad pa beth yw talu am gario at waith tyddyn, ond ychydig sydd yn ystyried gwerth y draul o gario ceryg, a phob math o drolio at waith y ffarm.

Dengys y tabl, ar y tudalen canlynol, y draul o draenio erw o dir, o dan bob amgylchiad, braidd; y mae yn hynod o hwylus, fel y gellir "bwrw y draul" cyn dechreu traenio pob cae.

Wedi sylwi fel hyn yn ymarferol ar draenio, gall rhywrai fod yn barod i ofyn, "Pa beth yw y buddioldeb a'r effeithiau daionus sydd yn deilliaw i'r tenant ar ol myned i'r fath gostau mawr wrth draenio?" Mi a enwaf rai o honynt;—Gellir aredig yn ddyfnach, bydd y pridd yn newid ei liw, y clai melyn oer yn troi yn fras-bridd du, llesol, a maethlawn, a'r llysiau mwyaf pereiddiol yn tyfu ynddo; yn cael gwaelod cynhes a sych i yru eu gwraidd iddo, ac yn ymhyfrydu wrth dyfu yn y pridd brau, yn lle y clai rhwym; ac yn cyfarfod âg "ystordŷ" o wlybaniaeth cuddiedig (*latent moisture*) mewn amser crasboeth a sych—y blewyn trisgwar, a'r llysiau dyfrol yn colli eu maeth naturiol;—nerth a ffrwythlondeb y ddaear yn ymhelaethu, ac yn ychwanegu, i'r un graddau ag y byddo y pridd wedi ei gynhesu a'i ddyfnhau.—Bydd y tyddynwr yn gallu tyfu cnydau gleision[1] (*green crops*), er cael ymborth iachus a maethlawn i'r anifeiliaid, yn yr un man ag yr oedd y brwyn

[1] Dyma yr enw Cymreig cyffredin, er mai nid gleision ydynt.

TAFLEN,

YN DANGOS PA SAWL RHWD (WYTH LLATH) SYDD MEWN ERW O DIR, PAN Y BYDDO GWAHANOL LED RHWNG Y TRAENIAU, A'R COSTAU O'U HAGOR A'U CAU, A CHODI Y CERYG, &c.

		Y GOST O DRAENIO GYDA SIAL.			Y GOST O DRAENIO GYDA CHERYG CALEDION.				Y GOST O DRAENIO ERW GYDA DYLAU (PIPE TILES).		
Lled rhwng y traeniau.	Pa sawl rhwd sydd mewn erw.	Agor a chau y traeniau, yn ol 6c. y rhwd.	Codi siâl yn ol 3c. y droliad.[1]	Y gost o draenio erw, sef agor a llenwi, a chodi siâl, &c.	Codi ceryg, yn ol 6c. y droliad.	Y gost o draenio erw, sef agor a llenwi, yn ol 6c. y rhwd, a chodi ceryg, yn ol 6c. y droliad.	Codi ceryg, a'u malu, am 9c. y droliad, a thori y traeniau, am 6c. y rhwd.	Codi ceryg, a'u tori, yn ol swllt y droliad, ac agor a chau y traeniau, yn ol 6c. y rhwd.	Rhif y dylau i'r erw—pob un yn droedfedd o hyd.	Gwerth y dylau, yn ol punt y fil.	Agor a chau y traeniau, yn ol 6c. y rhwd; a gwerth y dylau.
Llatheni	Rhwd.	P. s. c.	P. s. c.	P. s. c.	P. s. c.	P. s. c.	P. s. c.	P. s. c.		P. s. c.	P. s. c.
4	151	3 15 6	1 5 2	5 0 8	2 10 4	6 5 10	7 11 0	8 16 2	3624	3 12 6	7 7 0
5	120⅓	3 0 3	1 0 1	4 0 4	2 0 2	5 0 5	6 0 6	7 0 7	2892	2 18 0	5 18 3
6	100½	2 10 3	0 16 9	3 7 0	1 13 6	4 3 9	5 0 6	5 17 3	2412	2 8 3	4 18 6
7	87	2 3 6	0 14 6	2 18 0	1 9 0	3 12 6	4 7 0	5 1 6	2088	2 1 9	4 5 3
8	75⅓	1 17 9	0 12 7	2 10 4	1 5 2	3 2 11	3 15 6	4 8 1	1812	1 16 3	3 13 0
9	67¼	1 13 7½	0 11 2½	2 4 10	1 2 5	2 16 0½	3 7 3	3 18 5½	1614	1 12 0	2 5 7½
10	60	1 10 0	0 10 0	2 0 0	1 0 0	2 10 0	3 0 0	3 10 0	1446	1 9 0	2 19 0
11	55	1 7 6	0 9 2	1 16 8	0 18 4	2 5 10	2 15 0	3 4 2	1320	1 6 6	2 14 0
12	50¼	1 5 1½	0 8 4½	1 13 6	0 16 9	2 1 10½	2 10 3	2 18 7½	1206	1 4 1	2 9 2½
13	47	1 3 6	0 7 10	1 11 4	0 15 8	1 19 2	2 7 0	2 14 10	1128	1 2 6	2 6 0

[1] Gwna pob troliad ddeuddeg llath.

a'r llysiau dyfrol yn dyfetha ei fywioliaeth o'r blaen;—y gwynt a'r awyr yn cael effaith neillduol ar y tir; ar ol pob cawod faethlon o wlaw, y mae awyr iachus yn rhedeg i'r ddaear, er ei chyfoethogi; gyda digonedd o elfenau tyfadwy yn rhedeg trwyddi, yn y cyfnewidiad fferyllaidd yma:—y dwfr yn dyhidlo (*percolate*) yn araf trwy y ddaear; yn golchi yr anmhuredd sydd yn y pridd, ac yn ei arllwys ymaith yn swyf (*scum*) coch trwy y draen i'r afon gerllaw:—y tir yn y cyflwr mwyaf addas i roddi i'r planigion eu maeth naturiol yn ei bryd:—y darn tir fyddo rhwng y draeniau yn cracio ar ei draws (*transversely*), ac yn ymagor hyd y gwaelod, dan effaith y gwynt a gwres yr haul, o'r naill ochr i'r llall; yn barod i dderbyn y dwfr, ac i'w arllwys i'r draeniau:—y tir yn mwydo ac yn cau drachefn dan effaith y gwlybaniaeth, ac ni welir ef byth mwy yn rhwymo fel o'r blaen. Geill y tyddynwr gadw llai o geffylau er llafurio ei dir—gall aredig yn gynnarach—gall fagu mwy o anifeiliaid corniog—amlhau ei anifeiliaid o bob math (*stock*), ac yn y diwedd, chwanegu at ei gyfoeth a'i gysur.

Dywedodd un amaethwr cyfrifol wrthyf, ei fod, yn nghorff y flwyddyn 1848, wedi tori dros ugain mil o latheni o draeniau, a'u bod wedi costio iddo ef yn agos i 150*p*.! heblaw yr hyn a wnaeth yn nghorff y deng mlynedd a aeth heibio; ac er ei holl lafur a'i draul, pa beth a ddywed am draenio?—"Y maent yn sicr o dalu yn mhob amgylchiad, o leiaf y maent wedi talu i mi hyd yn hyn. Y mae pob tir gwlyb y ceir rhediad o hono yn sicr o dalu am ei sychu, ond arfer synwyr i wneyd hyny yn y modd goreu a rhataf."

Wedi cael y tir yn ddigon sych i roddi hadau ynddo, y peth nesaf i'w ystyried ydyw y dull mwyaf buddiol o *Gylchdroad y Cnydau* (*rotation of crops*). Y mae amrywiol ffyrdd o gnydio y tir yn ngwahanol fanau y Dywysogaeth, Gogledd a De; a gwelir hefyd welliant parhaol yn hyn, yn fwy nag un rhan arall yn amaethyddiaeth Cymru, yn enwedig ar y tiroedd sydd wedi eu traenio. Gellir hefyd sylwi fod trin tir a magu anifeiliaid yn cynnyddu law yn llaw, neu fod cynnydd mewn anifeiliaid (*stock*) yn profi fod ffarmwriaeth yn ffynu yn y wlad hòno, o herwydd ni byddai cynnaliaeth i'r anifeiliaid oni bai fod llafur yn ychwanegu. Ar y llaw arall, nid yw yn bosibl codi llafur heb wrtaith yr anifeiliaid, fel ad-daliad i'r tir, am yr hyn a gymerwyd o hono. Yr ydym oll yn gwybod fod Cymru, yn mhob cwr braidd o honi, yn *stockio* yn well, ac yn gwerthu mwy o ŷd o lawer, nag yn amser ein hen dadau. Y tyddynwyr bychain sydd yn rhoddi esiamplau da i'r ffarmwyr mawr yn y wlad; ac ymhlith y rhai blaenaf, y mae gwelliadau mewn diwylliant agos yn mhob rhan yn dechreu, pa un bynag ai mewn traenio, llafurio, ai magu a dewis anifeiliaid. Y tyddynwyr bach sydd fwyaf diwyd wrth eu gorchwyl, yn fwyaf effro ar eu tyddyn, yn cadw mwyaf o weithwyr i lafurio y tir (yn ol yr herwydd), yn glanhau fwyaf ar yr âr, a'r cloddiau, yn magu gwell dyniewyd; ac y mae gwell moch a defaid ganddynt yn gyffredinol. Y clwt bychan wrth ymyl bwthyn y tyddynwr bach, sydd wedi ei roddi i lawr mor lanwaith a threfnus ganddo, ar ol yr haidd, sydd yn batrwm i'w gymydog gyda meusydd mawrion sydd gerllaw. Gellir hefyd haeru fod tir y tyddynwyr bychain yn ddrutach na'r ffermydd mawrion; ac fel hyn, y mae yr ardreth yn uwch, a'r trethi a'r degwm yn drymach. Rhaid i mi gyfaddef hefyd, mai y mân denantiaid sydd yn cael eu gwasgu fynychaf mewn achosion plwyfol, a'u gorfodogi i wasanaethu y swyddi pwysicaf yn y plwyf, yn fwyaf cyffredinol,

pan y bydd yr amaethwyr cyfoethog yn cael eu harbed i aros gartref gyda'u gorchwylion. Cyn sylwi ar y drefn fwyaf addas a buddiol yn nghylchdroad y cnydau, mewn priddoedd o wahanol natur, buddiol yw taflu golwg yn ol ar y dull y byddid yn trin y tir oddeutu deugain neu hanner can mlynedd yn ol, a'r achos o'r dull hwnw.[1] Yr oedd prisiau yr ŷd yn uchel iawn yn amser y rhyfeloedd ofnadwy a fu ar y Cyfandir, hyd yr heddwch yn 1815; ac er mwyn codi ŷd, trwy dreisio y tir,—gwthio, llosgi, a chalchio, y byddid, hyd yr eithaf, yna codi tri, pedwar, pump, neu chwech cnwd o ŷd yn olynol;—gwenith, gwenith, haidd, ceirch, ceirch, yn yr un maes, heb ddim gwrtaith eto, ac yn y diwedd, lluchio ychydig o had gwair-budr, ynghyd âg ychydig o had meillion cochion (*clover*) iddo, er mwyn cael rhyw fath o wair o hono, am dro neu ddau, nes y byddai y meusydd yn edrych mor llwydaidd a sofl gwenith yn ngŵyl Mihangel. Yr oedd y tir yn garedig ryfeddol, ac yn rhoddi rhyw fath o gnydau i'r amaethwyr annhrugarog oedd yn preswylio yn yr amserau dedwydd hyny; a phwy sydd yn gorfod dyoddef yn awr? Y genedl bresennol sydd yn talu yn ol i'r tir, trwy draenio, gwrteithio, a glanhau yr hwn a fu yn cael y fath gam. Nid oedd y pryd hyny un math o gnydau gleision (*green crops*), oddigerth ychydig bytatws a blenid yn unig at wasanaeth y gegin. Ar ol yr heddwch, dechreuodd yr amaethwyr wellhau yn nhrefniad codi ydau; ambell un yn teilo ar y croen, weithiau gyda chalch a phridd; wedi hyny, codi cnwd o haidd o hono; yna ceirch, a cheirch, drachefn; wedi hyny, pytatws, gwenith, haidd, neu geirch; yna hadau gwair a meillion cochion; neu mewn dull arall, pridd a chalch ar y croen; yna cnydau o ŷd yn olynol, am dair neu bedair blynedd; hadu y blindir yma â dau neu dri chnwd o wair, a'i bori am flwyddyn neu ddwy; ac ail ddechreu yr un drefn drachefn. Weithiau, byddai ambell ffarmwr gwych, fel ei gelwid y pryd hyny, yn tori y croen glas i haidd; wedi hyny, ceirch neu haidd; drachefn, pytatws; ac ar ol hyny, gwenith, haidd, neu geirch, a'i ddodi i lawr gyda gwair a chlofer. Nid llawer o wahaniaeth i'r drefn yma sydd eto mewn arferiad yn rhai o ardaloedd Cymru.

Y mae y gwelliant nesaf a gymerodd le yn y Dywysogaeth i'w briodoli, yn fwyaf neillduol, i'r drefn o godi maip a chnydau gleision, fel un cnwd yn y cylchdroad; ac hefyd, i'r cymdeithasau amaethyddol, gyda'r ymdrech a fu yn mysg amryw o dirfeddiannwyr yn Nghymru i ailennyn yn eu tenantiaid dueddiadau at ddiwylliant amaethyddol, a throi eu hunain yn amaethwyr profiadol, rhoddi esiamplau cymhwys o'u blaen, gyda threfn wedi ei sylfaenu ar brawfiadau diymwad er eu denu a'u dysgu. Y mae pob boneddig, â gwaed Cymro ynddo, yn gwybod yn eithaf da, mai nid "yn erbyn ei glust" y mae arwain y "*Welsh farmer*;" ac nid bygwth, gorfodogi, na gormesu y meddwl a wna y tro, ond eu denu hwynt, gyda hynawsedd a charedigrwydd, a dangos iddynt, trwy brawfiadau, beth a all tir ei gynnyrchu; agor eu llogellau âg un llaw, ac â'r llaw arall rhoddi yr arian yn dawel yn eu pocedau, hyd nad yw yn bosibl i'r meddwl mwyaf dwl wrthwynebu y fath ffeithiau, a sefyll mewn amheuaeth yn wyneb y fath ddylanwadau bendithfawr.

Ar ochrau gorllewinol a deheuol Cymru, ac yn enwedig ar ochrau glannydd y môr, dull anfuddiol ac afrosgo iawn, sydd, hyd y dyddiau presennol, yn cael ei arferyd:—cario llawer o dywod a gwymon, a'u chwalu ar y sofl gwenith i haidd, aredig cefn yn nghanol y maes, trwy "dori darn o'r talcen

[1] Gwel sylwadau Mr. Prichard yn yr "Amaethydd."

i'w roi ar y trwyn," neu fel y dywed y Sais, "*taking a piece off the coat to patch up the breaches;*" cario ychydig o dywod a thail, a chwala hwnw ar y blindir i haidd; yna pytatws, gwenith, a haidd; wedi hyny, gwymon drachefn ar y sofl, a thori hwnw eilwaith i haidd a cheirch; wedi hyny hadu y fath le gyda'r hyn a ysgubir o'r daflod, yn gymysgfa o'r chwyn a dyfodd o'r un tir budr o'r blaen, heb wneyd yr un ymgais i newid yr had, na glanhau y tir. Gwelais dir o'r fath yma y flwyddyn hon ar ffarm helaeth, yn Nghymru, yn llawn chwyn blyneddol a pharhaol; yn mysg eraill, marchwellt (*couch*) hynod o gryfion; mesurais un o'r gwraidd hyn, a chefais ei fod yn bedair troedfedd o hyd! Sylwodd cyfaill oedd yn bresennol, "Onid oes yma dir rhagorol i gynnyrchu y fath blanigion nerthol!" Ac fel hyn y mae y drefn,—yr anifeiliaid yn pori gwellt gwenith, y gwartheg yn y fuches yn ysgyrnyglyd a llwm, yn deneu a "*dibrofit*," dim *stock* ieuainc braidd yn yr holl ardal; ond y byrdwn parhaus—gwenith, gwenith, haidd, haidd, pytatws! Gwelir rhai amaethwyr rhagorol yn mysg yr annhrefn yma, sydd yn ddiwyd ac ymdrechgar ryfeddol, eu ffermydd wedi eu sgwario yn hardd, a'r llafur yn doreithiog—"yn dwyn ffrwyth ar y ganfed;" ond fod tir budr eu cymydogion yn gwneyd llawer o golled iddynt, trwy fod hadau ysgall, a hadau cawn, a marchwellt, gyda chwyn eraill, yn cael eu chwythu yn gawodydd o'r naill dyddyn i'r llall.

Nid yn y tir goreu, yn gyffredin, y gwelir yr amaethwr mwyaf trefnus; y mae y tir yn dysgu i'r tyddynwyr, â'r lleoedd gwlybion, nad oes yn bosibl tynu gormod o gnydau o hono, onidê buan y deuai dystryw ar eu gwarthaf. Anhawdd yw rhoddi desgrifiad manwl a chywir o bob gwlad ac ardal yn Nghymru; ond rhoddaf yma grynodeb o'r dull a'r modd sydd yn cael ei ddilyn yn yr ardal lle yr wyf yn byw ynddi. Hyd yn nod yn yr ardal hon, y mae anhawsderau yn codi i roi golwg gywir ar y dull o amaethu, trwy fod yma agos i bawb â chanddo ei drefn ei hun. Nid oes yma un cynllun (*system*) o ffarmio wedi cael ei fabwysiadu, ond pawb yn myned ymlaen yn ol ei *blan* ei hun. Llawer o flyneddau yn ol, tua'r pryd yr wyf fi yn cofio am dano gyntaf, dull y mwyafrif o'r amaethwyr, ar ol i gae gael ei bori am ddwy flynedd neu dair, mwy neu lai, ei deilo â chymysgfa, yr hyn a elwir genym yma *pastai*, o bridd a chalch, ac weithiau, pridd a thail, ac ambell i dro, byddai y bastai yn cynnwys pridd, calch, a thail,—yr oedd yn haws hebgor tail y pryd hwnw, gan nad oedd ond ychydig o faip yn cael eu codi. Ar ol cario y bastai ar y tir, braenerid ef tua dechreu y gauaf; ac ychydig cyn hau, ail droid y tir, a heuid haidd ynddo; yr ail flwyddyn, cnwd o geirch; y drydedd flwyddyn, cnwd o geirch, a had gwair a meillion cochion. Ond ambell i dro, os byddai y cae heb fod yn dwyn gormod o laeth ysgall, &c., a chwyn, fe allai y rhoddid y pedwerydd a'r pummed cnwd ynddo. Wedi hyny, cymerid dau gnwd neu dri o wair; ac yna porid ef am ddwy neu dair blynedd; a phan y byddai eisieu rhoi ŷd ynddo drachefn, elid drwy yr un ddefod ag o'r blaen. Ond byddai darn bychan o ambell i gae yn cael ei roi dan gloron (ni byddid ond prin son am faip); a phan ddygwyddai hyny, rhoddid cnwd o wenith ar ol y cloron, ac ar ol y gwenith gnwd o haidd, wedi hyny cnwd o geirch, ynghyd â had gwair a meillion cochion, ac yna cymerid dau neu dri chnwd o wair; ac yn y diwedd porid y cae am ddwy flynedd neu dair. Ond am ddull yr ardal hon yn bresennol, y mae rhai yn dilyn yr hen drefn, gydag ychydig ddiwygiad a gwaethygiad, sef gwrteithio â phasteiod

pridd a chalch, neu bridd a thail, a rhoi tri chnwd o ŷd yn olynol yn y tir, a'i hadu; ond gydag ychydig ddiwygiad, trwy godi mwy o gloron a maip. Ond y mae un gwaethygiad gan y rhai hyn, trwy mai âg un âr yn gyffredin yr arddir y tir ar ol ei deilo felly, yr hyn, yn ol fy marn i, sydd yn waethygiad ar yr hen ddull o fraenaru. Y mae rhai eraill, yn yr ardal hon, yn cymeryd y dull a ganlyn.—Pan byddo cae tyndir yn cael ei dori, rhoddir cnwd o geirch ynddo y flwyddyn gyntaf, a'r ail flwyddyn gnwd o geirch, a'r drydedd flwyddyn cloron a maip; ar ol y cloron a'r maip, rhoir gwenith, ac ar ol gwenith, haidd, ynghyd â had gwair a had meillion cochion. Eraill a roddant dri chnwd heb wrtaith cyn y cloron a'r maip, ac yn aml ddau gnwd ar ol hyny, ac yna ei hadu â gwair a meillion cochion. Eraill a arddant gae tyndir yn un âr, heb ei wrteithio, ac a roddant gnwd o haidd y flwyddyn gyntaf, cnwd o geirch yr ail, a chloron a maip y drydedd, ac yn ganlynol i hyny gwenith neu haidd, ynghyd â hadau gwair a meillion cochion. Ond gorfodogir pob rhai o honynt weithiau i deilo cae â phastai, a rhoi tri chnwd ynddo, a'i hadu yn ol yr hen drefn, trwy fod yn anmhosibl gwneyd y tro ambell waith heb hyny.

Y dull cyffredin a arferir yn nghanol y wlad ar dir cleiog yw hyn:—ar ol traenio cae, yn y croen, ei dori yn un âr, yn gyntaf, i geirch; 2il, ceirch; 3ydd, maip neu bytatws; 4ydd, haidd, a hadu gyda gwair a meillion cochion (*clover*), oddeutu deg pwys i'r erw; 5ed, gwair; 6ed, gwair; 7fed, porfa; 8fed, porfa. Y rhai sydd yn traenio ychydig, fel hyn y maent yn trin y tir:—pasteiod o galch a phridd ar un âr i haidd neu geirch; 2il, ceirch; 3ydd, ceirch, a had gwair, &c. Ond y mae y drefn yma agos a darfod yn y wlad, a buan yr elo i ddifancoll. Rhai eraill a gymysgant basteiod o galch a phridd, ac weithiau tail yn gymysgedig â'r calch (Ow! y fath anwybodaeth, y mae eisieu deall tipyn bach o fferylliaeth, onidê gwastreffir mwy eto yn y wlad) ar un âr i haidd neu geirch; 2il, ceirch, a'i hadu â had gwair a chlofer.

Dyma drefn un ffarmwr profiadol yn Môn:—"Rhaid i mi hysbysu, yn gyntaf peth, fod y ffarm yma, pan ei cefais gyntaf, yn bur aflêr, a'r tir wedi cael ei "redeg," fel y dywedir; a thrwy hyny, bûm am flyneddau yn methu cael ond ychydig gwell golwg ar y tir;—a dyma y dull yr wyf fi yn ei gymeryd i ddyfod â'r tir i well calon er's rhai blyneddau:—Pan fyddwyf yn tori cae tyndir, os bydd yn bosibl, byddaf yn ei fraenaru; ac yn y gwanwyn, yn ei ail dori, ac yn hau un ai haidd ai ceirch ynddo. Yr ail flwyddyn, byddaf yn cymeryd cnwd o geirch o hono. Y drydedd flwyddyn, cloron a maip, a'i deilo yn bur dew. A'r bedwaredd flwyddyn, cnwd o wenith, neu haidd, yn ol fel y bo amgylchiadau yn gofyn, ynghyd â had gwair—had y wlad, neu ynte *ryegrass*, *perennial* neu *Italian*, ac hefyd had meillion cochion a gwynion—dau bwys o'r cyntaf, ac un pwys o'r olaf—tuag o wyth pwys i ddeg pwys yr erw. Gallaf ddyweyd, wrth fyned heibio, mai oddiwrth yr *Italian ryegrass* y cefais y cnwd mwyaf a gefais erioed, a'r *perennial* yn nesaf ato. Barnwyf y byddai yn ddoethineb mawr i holl amaethwyr rhanau helaeth o Gymru, lle y mae llawer o bori, pe byddai iddynt gymysgu ychydig yn rhagor ar eu had gwair; megys hau hanner *bushel* o'r *ryegrass*, ynghyd â thri *bushel* yr erw o'u had gwair eu hunain. Atebai y flwyddyn gyntaf, neu, o leiaf, felly y gwnaeth i mi; a diammheu ei fod wedi ateb bob blwyddyn ar ol hyny, trwy fod yr had wedi cymysgu â had y gwair oedd yma cynt; ac y mae yn amlwg wrth y gwair yn bresennol ei fod

felly. Ni byddaf yn hau dim *trefoil*—gwell genyf y *Dutch* (*white*) *clover*; dyma fy *favourite* i; ac ni byddaf yn cynnyg hadu cae, heb roi un ran o dair o'r Dutch at ddwy ran o dair o'r coch. Byddaf yn cymeryd dau gnwd o wair o'r cae, ac yn ei bori am ddwy, tair, neu bedair blynedd, yn ol fel y bydd y caeau eraill yn galw. Byddaf yn *top dressio* cryn lawer, a dyna y peth goreu o ddim a allaf fi ei wneyd er mwyn dyfod â'r tir ato ei hun. Bûm yn *top dressio* deugain erw yr un flwyddyn, i wair a phorfa, a byddaf yn ei weled yn ateb yn gampus. Byddaf weithiau yn *top dressio* cae y gwanwyn eleni, wedi ei hadu y gwanwyn y llynedd, sef cae heb gael ond un cnwd o wair o hono, a bydd cnwd toreithiog: bryd arall, yn ei *top dressio* cyn gynted ag y carir y cnwd cyntaf o wair o hono: bryd arall, i borfa. Ac felly, bydd pob cae tyndir a doraf wedi ei *top dressio* unwaith neu ddwy er pan fu ŷd ynddo o'r blaen; a byddaf yn cael eithaf dau gnwd o ŷd o honynt, cyn rhoi cloron a maip ynddynt. Gellir dywedyd mai ychydig o ofal a gwaith a wnai i lawer tyddyn ddyblu ei chynnyrch, tra byddai yr ardreth a'r degwm yr un."

Tynu gormod o gnydau o'r tir yr ydym. Yd! ŷd! ŷd! yw y drefn, heb ystyried fod ar y pridd, fel pob peth arall yn y greadigaeth, eisieu ymgeledd, cynnaliaeth, a gorphwysdra; onidê, bydd yn waeth yr olwg arno na'r anifel wedi hanner newynu. Mae yn sicr genyf y bydd i'r methiant yn y cloron ddwyn yr amaethwr i drefnu ei dir yn wahanol iawn i'r hyn sydd mewn arferiad yn bresennol; a dyma yr adeg i'w arwain at y dull mwyaf buddiol a goreu ar ei les, a dangos iddo yr anghenrheidrwydd o dyfu mwy o faip, neu unrhyw gnydau gleision eraill, megys bîd (*mangold*), &c., neu arferyd hafar. Nid oes yn bosibl cael gwell trefn, nac un mwy buddiol, na chodi digon o *green crops*. Y mae y rhagfarn oedd yn erbyn y maip yn diflanu; ac yn lle un erw, ychydig o flyneddau yn ol, gwelir wyth erw yn awr, ar yr un tyddyn.

Ar ol ymhelaethu fel hyn ar yr hen ddull, a'r dull presennol sydd mewn rhai manau o Gymru, anghenrhaid yw rhoddi rhai esiamplau, gydag awgrym at well trefn, a ellir eu dilyn. Rhoddaf, yn gyntaf, drefn sydd gan Syr Richard Bulkeley, yn sir Fôn:—1af, Tori tyndir i geirch; 2il, ceirch; 3ydd, maip a rwdins; 4ydd, haidd, a hadau gwair a *clover*; 5ed, gwair neu borfa; 6ed, porfa; 7fed, porfa; 8fed, porfa; 9fed, porfa; 10fed, porfa. Yna, tori i fyny i geirch drachefn. Dyma y drefn a ddilynir gan y rhan fwyaf o amaethwyr cyfrifol sir Fôn.

Fel hyn y dywed Mr. Sandbach am y drefn sydd ganddo ef yn Hafodunos:—"Traenio yw sylfaen fy holl ddiwylliadau; ac ni chynghorwn neb i roddi arian mewn tir, er gwellâu tir gwyllt Cymru, heb fod hyny yn beth cyntaf mewn golwg, sef traenio yn *gyflawn*; ac edrych hefyd pa un a fydd y tir yn gymhwys i ŷd, neu i'w bori. Yr ydym wedi planu coed mewn rhanau helaeth, gyda golwg i amaethu y gweddill, pan y ceir digon o gysgod. Ein dull o wellâu y tir sydd yn gynnwysedig mewn traenio yn gyflawn, aredig yr is briddyn, calchio; yna, cnwd o geirch; ac ar ol ceirch, cnwd o rwdins, a maip, wedi eu teilo yn drwm; a cheirch neu haidd drachefn, gyda had gwair a meillion; a phori y tir am un, dwy, tair, neu bedair blynedd. Dyma wyf yn ystyried y dull mwyaf buddiol o amaethu yn ein gwlad. Buom unwaith yn gwthio ac yn llosgi; ond yr wyf yn credu yn hollol mai y dull mwyaf dystrywiol ydyw, ac yn ffrwyth diogi, a chynnildeb anghywir. Y mae yn gwneyd tail i dreisio y tir am un neu ddau

gnwd, ond ar draul dystrywio y pridd goreu ar wyneb y maes. Gellir yn hawdd ymlid ymaith y marchwellt, a'r eithin, a phob math o chwyn, drwy weithio y tir, yn gyntaf, gyda'r llaw, ac wedi hyny, â math o ôg nerthol, a elwir *Uley's Cultivator*. Byddaf yn llosgi yr eithin a'r chwyn, heb ddim o'r pridd gyda hwynt, ac yn cael llawer o wrtaith a thail rhagorol; ond yn lle llosgi y pridd â than, byddaf yn cymhyrfu y pridd, er cael ychwaneg o hono. Po deneuaf y bydd y priddyn, mwyaf niweidiol fydd ei wthio a'i losgi."

Rhoddaf ddwy drefn a ellir eu dilyn ar briddyn heb fod yn rhwym iawn; a bydded i'r cyfarwydd ddewis yr un sydd fwyaf cymhwys i amgylchiadau ei dyddyn. Golygir fod y tir yn borfa, ac yn ei groen, neu dyndir, fel y dywedir mewn rhai manau. 1af, Tori tyndir i geirch; 2il, aredig y sofl yn gynnar i faip, erbyn y flwyddyn ddyfodol; 3ydd, cadw y maip yn lân; teilo yn bur drwm i'r maip; a'u hau gyda'r *drill*; 4ydd, haidd neu geirch, a'i hadu yn y cnwd cyntaf ar ol tail; 5ed, gwair; 6ed, pori; 7fed, pori. Gelwir y drefn hon, "y cylch saith blyneddol," neu y *Scotch system*.

Yr unig wrthwynebiad i'r drefn hon a ellir ei godi, yw, fod y tir yn cael ei bori yn rhy ychydig, yn enwedig lle y mae llawer o anifeiliaid yn cael eu magu. Y mae pori y tir ar briddyn ysgafn yn hollol angenrheidiol; oblegid wrth dori y ddaear yn aml, y mae natur yn yr ŷd i fyned yn ysgafnach bob tro; gellir cael digonedd o wellt, ond pa le y bydd y grawn? Gan fod y priddyn yn gofyn mwy o orphwysdra, ac na oddef hinsawdd ac amgylchiadau presennol y wlad i'r tir gael ei dori yn rhy fynych, rhoddir hefyd y cynllun canlynol fel yr un mwyaf buddiol i'w ddilyn:—1af, Tori tyndir i geirch; 2il, maip (neu ryw *green crop*); 3ydd, haidd, a had gwair a meillion; 4ydd, gwair, a theilo erbyn y cnwd nesaf; os 5ed, gwair neu borfa; 7fed, porfa; 8fed, porfa; 9fed, porfa, (a defaid, os gellir). Yna tori i fyny drachefn i geirch; fel hyn, bydd y tir yn gryf, yn llawn gwrtaith, ac yn barod i dderbyn cnwd o ŷd drachefn iddo. Bydd ychydig o anhwylusdod y blynyddau cyntaf wrth ddilyn y drefn hon; ond ar ol ei chael i weithrediad, ceir gweled ei bod yn rhagori; bydd pob cnwd yn llawn, yn ŷd, yn wair, ac yn borfa: ac yn benaf, bydd y maip a'r llysiau gleision yn dwyn yr anifeiliaid ieuainc ymlaen yn iraidd braf, a'r rhai hyny yn gwneyd gwrtaith rhagorol. Cofier mai po goreu bo'r porthiant, brasaf a mwyaf ffrwythlawn fydd y tail bob amser: mewn gair, bod yn ofalus i *hadu y tir yn ei nerth*, sef yn y cnwd cyntaf ar ol y cnwd gwyrdd-lysieuol. Bydd y tir mewn calon dda, yn lanach, a rhydd fwy o gnwd o wair toreithiog a pheraidd; gellir cadw mwy o anifeiliaid: ac yn y diwedd, bydd yn barod i'w dori, heb ddim gwrtaith, ar ddechreu y cylchdroad nesaf. Dylem gofio bob amser fod y tir yn dysgwyl rhyw ad-daliad oddiar ein llaw am yr hyn a ddyry i ni. Y mae yr amseroedd yn myned waeth-waeth bob blwyddyn, rhaid arfer gwell moddion i gyfarfod â phrisiau isel am yr ŷd a'r anifeiliaid. Nid oes yn bosibl i'r *tenant* sefyll yn ngwyneb y pethau hyn, gyda chwanegiad yn y trethi, a thaliadau eraill, onid all godi ychwaneg o lafur oddiar ei dir; a pha fodd y gall wneyd hyny? Trwy ymaflyd yn egnïol yn ngwelliadau profedig yr oes—ymdrechu i sychu, glanhau, a gwellâu agwedd ei dyddyn—dilyn rheolau anian—sylwi ar weithrediadau y fferyllydd—myfyrio ar, ac ymestyn at, ychwaneg o wybodaeth yn y gelfyddyd amaethyddol, er cael llawer mwy o ffrwyth y ddaear nag a geir yn bresennol, gogyfer â'r anhawsderau a'r gwasgfeuon a eill ei gyfarfod. Ond mae

fy meddwl wedi ei arwain oddiwrth yr hyn sydd o dan fy ystyriaeth, ond i'f ymlaen. Mewn tir tywodlyd, ar lenydd y môr, ac yn enwedig mewn rhanau o'r deheu, gorllewin, a gogledd Cymru, byddai y cylchdroad canlynol yn fwy buddiol, ac yn welliad ar y drefn olynol, sydd mewn arferiad yn bresennol;—tori tir glas, yn 1af, i geirch neu haidd; 2il, maip, cleron, neu bîd; 3ydd, haidd neu wenith, gyda had gwair a *clover*; 4ydd, gwair; 5ed, porfa; 6ed, porfa; &c. Y mae prIddoedd yr ardaloedd hyn yn rhagorol o dda at dyfu rwdins, maip, a bîd; ac eto, dyma lle y gwelir leiaf o honynt; ac onid ydyw yn resymol na byddai ychwaneg yn cael eu tyfu, pe na byddai ond yn unig er glanhau y tir ag sydd yn y fath gyflwr gresynus? Defaid sydd yn ffynu yn rhagorol mewn lleoedd sychion o'r fath, yn enwedig trwy noddi maip iddynt, a'u buarthu yn y maes maip. Y mae yn sicr nad oes unrhyw *stock* yn ateb yn well na defaid. Y maent yn teilo y tir, ac yn llesâu tiroedd tywodlyd yn rhagorol, trwy fathru y priddyn, a'i wneyd yn fwy rhwym a gafaelgar. Y maent mewn rhai manau yn Lloegr, ac yn enwedig yn *Norfolk* a *Suffolk*, yn buarthu y defaid y nos, i fwyta y maip oddiar y maes, a thrwy hyny, yn gwneyd y pridd yn fwy rhwym wrth ei fathru, fel y sylwyd eisoes; ac oni wnai y dull yma ateb yn rhagorol ar diroedd tywodlyd ysgeifn gwastadedd Cymru?

Ar diroedd rhwym, caled, a chleiog, fel rhanau o Ddyffryn Clwyd, Morfa Laucherni, Bro Morganwg, a manau eraill ar iseldiroedd a dyffrynoedd Cymru, y drefn hanfodol o gnydio y tir oedd hafar, gwenith, a ffa; neu gwenith, meillion coch, gwenith, a ffa, &c. Y cychwyniad cyntaf tuag at ddiwygio y drefn yma, oedd dwyn maip a rwdins (*Swedish turnips*) i'r cylchdroad, yn lle hafar; mewn gwirionedd, nid ydyw y cnydau gleision, mwy na 'r hafar, ond darpariad i ŷd dyfodol; o herwydd prif amcan yr amaethwr wrth arfer pob un o'r rhai hyn, yw glanhau a gwrteithio y tir, a'i wneyd yn faethlawn i ddwyn ŷd. Ond pa un yw y fwyaf buddiol i'w dilyn ar iseldir Cymru ydyw y gofyniad sydd o fy mlaen. Cyn rhoddi ateb i'r gofyniad yma, rhoddaf rai esiamplau rhagorol sydd yn cael ei dilyn, nid yn unig yn y Dywysogaeth, ond mewn rhai manau yn Lloegr, ar y fath dir; dyma y drefn a arferir yn Dyffryn Clwyd:—1af, gwenith; 2il, haidd; 3ydd, maip neu rwdins; 4ydd, haidd; 5ed, porfa meillion am ddwy flynedd. Neu weithiau fel hyn;—gwenith, ffa, gwenith, maip, &c. Dro arall, hafar, gwenith, ffa, gwenith, maip, &c. Dywed y *Times Commissioner* (gwel *Times* y 15fed o Fai, 1850), mai dyma y drefn a arferir yn bresennol yn Suffolk:—1af, gwenith; 2il, bîd, neu hafar; 3ydd, haidd; 4ydd, meillion cochion, neu ffa;—dyma yw y drefn bedair blyneddol (neu y *four-course system*). Canmolir gan yr un boneddig y drefn sydd gan Mr. Casson, yn yr un wlad; sef, 1af, ffa; 2il, gwenith; 3ydd, haidd; 4ydd, rwdins; 5ed, gwenith; 6ed, haidd, &c. Wedi rhoddi anghreifftiau fel hyn, mi a roddaf ddau neu dri o drefniadau; a bydded i'r amaethwr profiadol ddilyn yr un sydd fwyaf cymhwys i'w dyddyn:—1af, gwenith; 2il, maip, bîd, neu hafar; 3ydd, haidd; 4ydd, meillion cochion, neu ffa; 5ed, gwenith. Neu, 1af, maip; 2il, gwenith; 3ydd, meillion cochion; 4ydd, gwenith; 5ed, haidd; 6ed, maip. Cymeradwyir y drefn hon yn Mro Morganwg, a Deheudir Cymru. Neu, 1af, gwenith; 2il, maip; 3ydd, gwenith; 4ydd, ffa; yna gwenith drachefn. Dyma y drefn a gymeradwyir yn Ngogledd Cymru, fel yr un fwyaf buddiol i'w dilyn.

Mae yn wir nas gellir canmawl unrhyw drefn o gnydio yn olynol, lle y byddo ŷd yn dilyn ŷd, am ddwy neu dair blynedd; ond y mae eisieu arwain meddwl yr amaethwr Cymreig i ddechreu gyda dau gnwd gwyn yn olynol, a chnydau gleision yn safon yn y cylchdroad; ac yna bydd yn haws ei arwain i'r drefn lle na byddo ond un cnwd o ŷd yn dilyn naill ai hafar neu gnwd glas; fe lwydda y drefn, ceir mwy o ffrwyth o ŷd, a bydd y cynnyrch yn drymach, y tir yn lanach, a mwy ffrwythlawn; mewn gair, amaethyddiaeth lân, a ffrwythlondeb uchel.

Tir gwlyb heb ei draenio. Y mae llawer o'r fath dir eto yn Nghymru heb ei sychu, a lluchir gwrtaith iddo o galch a phridd, a thail a phridd; ond pa fodd y gellir dysgwyl llawer o frasder o bwll o ddwfr? Er hyny i gyd, dilyn i aredig y fath dir y mae amaethwyr Cymru mewn amryw o fanau, er cymaint a ddangosir iddynt trwy esiamplau, ymresymiadau, a phrofion dïymwad i'r gwrthwyneb. Hau haidd ar ol haidd, ceirch ar ol ceirch,—dro arall, gwenith, haidd, a cheirch yn olynol, ydyw y cynllun, er gwaethaf pob ymdrech ac ymresymiad, ac er dangos iddynt fod calchio y fath dir yn ddrutach na'i draenio. Dyma ffaith sydd yn hawdd ei phrofi. Ond clywais ambell un yn gofyn, Pa fodd yr ydych yn gallu haeru y fath beth? oblegid nid ydwyf yn cario ond o 40 i 50 o fesurau o galch i bob erw.

	P.	S.	D.
Gwerth y calch	2	10	0
Rhoddwch werth cario un droliad bob dydd, yn 5 swllt—chwe' troliad i'r erw	1	10	0
Troi a chymysgu y calch a'r pridd, ddwywaith	0	10	0
Cario a chwalu y pentwr ar y cae	0	12	6
Gwerth calchio un erw	5	2	6

Edrycher ar y tabl blaenorol, (tudal. 336), a gwelir faint a gyst traenio erw o dir; a chanfyddir nad ydyw yn y ffordd fwyaf rhesymol, ond *P.* 3 2*s.* 11*c.*; sef wyth llath o led rhwng y traeniau. Dyma ddadl sydd wedi ei threio lawer gwaith genyf gydag amrywiol o amaethwyr cyfrifol Cymru; ac ni welais un amser neb yn gallu ei gwrthwynebu. Heblaw hyny, gwyddom yn dda nad ydyw calch ond gwrtaith am flwyddyn neu ddwy; ond y mae traeniau yn barhaol ac yn lles presennol a dyfodol i'r tir am lawer o flyneddau; ïe, gellir ei alw gyda phriodoldeb yn un o'r gwelliadau parhaol mewn amaethyddiaeth. Nid ydyw y trefniadau hyn ond gwelliant ar y dulliau sydd wedi, ac yn bod, mewn arferiad mewn gwahanol barthau o iseldir Cymru. Nid ydwyf yn cynnyg unrhyw gynghorion byrbwyll, newyddion, a threulfawr, ond rhai profedig; o herwydd y dylid gochelyd ymosodiadau byrbwyll, heb brofiad a manwl ymchwiliad, rhag eu myned, fel i lawer Sais neu Scotyn a welsom yn Nghymru, yn troi yn siomedigaeth niweidiol i'n hamgylchiadau a'n trefniadau. Mae llawer dyeithrddyn wedi methu yn hollol yn Nghymru gydag ymosodiadau newyddion; oblegid fod yr hinsawdd yn wahanol, a'r tir yn wlybach, na'r hyn a arferodd â hwynt ar frasdiroedd Lloegr ac Ysgotland; ond o'r ddau, y Scotyn sydd wedi bod fwyaf gafaelgar, ac wedi rhoddi mwyaf o esiamplau i ni sydd yn werth eu dilyn.

Gellir priodoli y diwygiad cyffredinol sydd wedi cymeryd gafael yn y wlad, yn benaf i'r drefn o dyfu maip a rwdins. Nid oes un llysieuyn

wedi achosi mwy o welliant mewn amaethyddiaeth, yn mhob talaeth o'r deyrnas, na 'r feipen: y mae y drefn yn rhan anhebgorol yn nghylchdroad cnydau; a naturiol yw sylwi arni mewn olyniad i'r hyn a ysgrifenwyd eisoes. Oddeutu deng mlynedd ar hugain yn ol, ni welid ond ambell i winllan faip, mewn congl fechan o'r cae, ar hyd y wlad; a hyny yn gyffredin ar ol gwthio a llosgi, yna lluchio had maip yn annhrefnus, ac ysgythru ychydig arno oedd y cwbl a wneid, er meithrin y llysiau gwerthfawr hyn. O dipyn i beth, gwelwyd ambell un yn hau gwely i'w hailblanu yn y rhesi; ac yn araf, mabwysiadwyd y drefn o *ddrilio;* ac y mae y drefn hon yn ennill tir bob blwyddyn. Ar ol dechreu un flwyddyn gydag erw, ar ffarm o gan' erw, y flwyddyn ganlynol, hau dwy, tair, a phedair o erwau; felly yr ydoedd diwylliad amaethyddol y wlad yn myned rhagddo, ac yn cynnyddu yn yr un graddau, ag yr ydoedd meusydd rwdins a maip (*Swedish and common turnips*) yn ychwanegu mewn rhif a maintioli. Nid oes yn bosibl cario cylchdroad yn y cnydau ymlaen yn ol y drefn bresennol sydd ar gynnydd yn y wlad, heb arferyd cnydau gleision; naill ai maip, rwdins, maes bid (*mangold wurtzel*), pytatws, *carrots*, ffacbys (*pypus*), &c. Ac yn mha le bynag y meithrinir maip helaethaf, yno y gwelir yr anifeiliaid gwerthfawrocaf, y gwartheg ireiddiaf, a'r cropiau trymaf. Y maent yn fwyd iachus a maethlawn i'r lloi a'r dyniewyd, ac yn eu parotoi yn gynt i'r farchnad, o rai misoedd; yn y fuches drachefn, y mae y llaeth a'r ymenyn yn profi eu buddioldeb. Nid oes yr un llysieuyn yn cael ei fwyta yn fwy gan y defaid na hwn yn Lloegr, yn enwedig yn Norfolk, a gwledydd lle yr heuir llawer o haidd, fel y sylwyd eisoes.

Nid ydyw y manau mwyaf cymhwys yn y wlad at dyfu maip eto wedi mabwysiadu y drefn; sef y cŵr deheuol a gorllewinol o honi: er hyny, y mae yn cropian yn araf yno hefyd, er gwaethaf hen draddodiadau ein tadau, a rhagfarn a threfn yr ardaloedd; tir ysgafn, tywodlyd, y mae maip yn ei chwennychu; ond yn y tir cleiog y meithrinir mwyaf o honynt yn bresennol. Y mae iseldir Cymru yn hollol addas o ran ansawdd y pridd i dyfu maip; gwelir y llysieuyn yn tyfu yn wyllt, ac yn naturiol ynddo; onid yr un rhywiogaeth yw y bresych melynion, sydd mor fynych yn lliwio ein meusydd? Fel yr oeddwn y llynedd yn cydfyned gydag amaethwr pur ddeallus, trwy ei faes rwdins, oddeutu chwe' diwrnod ar ol eu hau; sylwasom ar yr eginyn yn tarddu yn brydferth, yn wastad ar hyd y rhesi; ac ar yr olwg gyntaf, tybiasom fod egin y rwdins yn codi yn mhob cwr o'r rhes; gofynais iddo, mewn tipyn o wawd, "Pa fodd y bu i chwi hau y maes i gyd fel hyn â maip?" gan gyfeirio ei sylw at y planigyn cryf oedd yn codi ar ochr y rhes. Ar ol syllu arno am ychydig, "Wel," meddai, "mae y chwynigyn brwnt hwn yn hynod o dwyllodrus, onid ydyw? Mae braidd yn anmhosibl gwybod y gwahaniaeth rhwng eginyn y bresych ac egin y rwdins." Ac felly yr ydoedd; nid oedd yn bosibl gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall, hyd nes y deuent i'r ddeilen arw (*rough leaf*); dyma brawf diymwad, fod rwdins yn hynod o naturiol i dyfu yn y wlad. Ac fel hyn, y mae natur yn rhoddi cyfleusderau mynych i ni sylwi ar ei gweithrediadau grymus, a chymhelliadau beunyddiol i fyfyrio yn fwy manwl ar y llysiau naturiol sydd yn tyfu yn ein gwlad; ac yn dangos y fantais a ddeillia o'u meithrin, er gwellâu y drefn a fyddo mwyaf cymhwys i'w hamgylchiadau.

Heuir y rwdins yn gyffredin yn mis Mai, weithiau yn ddiweddarach.

Nid ydyw rwdins wedi eu hau yn niwedd mis Mehefin, a dechreu Gorphenaf, yn cnydio yn dda. Gwell ydyw hau y maip cyffredin, os bydd y tir yn anmharod i'r rwdins; y mae y feipen yn feddalach gogyfer a'r tywydd; a gellir ei hau fis ar ol y rwdins: ac mewn lle gwlyb heb ei draenio, y maent debycach o dyfu, ac yn dyfod yn gynt at eu defnyddio. Yn nechreu y gauaf, y maent yn hyned o feddal; a dylid bob amser eu rhoddi i'r anifeiliaid yn gyntaf dim, gan nad ydynt mor galedion i wynebu y tywydd a'r rwdins. Yr oedd genyf rwdins wedi cadw yn rhagorol hyd fis Mai, y flwyddyn hon;—yr oeddynt yn gelyd a thrymion, ac yn llawn maeth y pryd hwnw.

Y maip cyffredin goreu at ansawdd y wlad, ydyw, y *Dale's hybrid;* mae y rhai hyn yn debyg iawn o ran eu dull a'n lliw i *hen faip bach sir Fôn*, sef y maip bychain melynion, a welwyd am flynyddau yn tyfu yn y wlad; maip caledion, da, ydynt, a chadwant yn hwy nag un feipen arall a welais wedi eu cynnyg i'r wlad; megys, y *white globe*, a'r *green round.* Maip yn myned yn bur fawr ydyw y rhai hyny; ond yn cyagu yn fuan, ac yn darfod oddifewn; rhai addas i'w pori gan ddefaid yn nechreu y tymmor ydynt. Y *Dale's hybrid*, a'r *purple top*, a'r *yellow Scotch*, ydyw y maip mwyaf cyfaddas i hinsawdd a natur tir y wlad, yn enwedig yn Ngogledd Cymru. Llawer o rywiogaethau o rwdins sydd wedi eu hau o dro i dro; a rhai yn dadleu o du y *Tankards*, eraill am *Skirvings*, eraill am *Vicker's improved;* ond y goreu a welais i eto, ydyw y *Tankards* a'r *Laings:* nid ydyw y *Laings* yn myned yn bur fawr, ond yn ganolig, maent yn cadw yn well ac yn hwy, ychydig o ddail oddiwrthynt, y gwraidd yn fychain, ac nid ydynt yn chwannog i hedeg i had, a gollwng y feipen yn anghof. Ac yn anad un peth, cofier, y dylid cael had da, o ba rywiogaeth bynag y byddont; cael croen glân, gloew, difrycheulyd, ac heb y gwreiddyn fforchog iddynt; dim ond un gwreiddyn yw y mwyaf buddiol.

Cyn hau, rhaid bod yn ofalus i drin digon ar y tir. Rhy ychydig o lanhau, a thrin y tir sydd mewn bod. Y mae ambell i ffarmwr yn meddwl, ond aredig unwaith neu ddwy, troi gwraidd y marchwellt i'r wyneb, a'u troi yn ol drachefn (iddynt gael gwell maeth a gafael ar ol teilo y tir nag erioed), fod hyny yn ddigonol. Rhaid trin yn well na hyn. Yn gyffredin, parotoir y tir, ar ol cnwd o ŷd i rwdins; a dylid aredig yn ddwfn ar ol gŵyl Mihangel, er mwyn dadwreiddio y chwyn, fel y gallo y rhew a'r gwynt weithredu arnynt. "Gwell rhew nag ôg er rhywiogi 'r priddyn," medd yr hen ddiareb. Yn mis Mawrth, aredig y tir ar ei draws; os bydd y priddyn yn *stiff*, rhaid llyfnu, aredig, a *rowlio*, drachefn a thrachefn, a dyna yr unig amser i lanhau y tir—casglu pob chwynigyn a gwreiddyn, a'u llosgi yn goelcerthi. Nid oes yn bosibl glanhau y tir heb losgi y gwraidd a'r chwyn, yn enwedig y tyfol, carn yr ebol, a'r marchwellt. Y mae merched a phlant yn llawn cystal at y gwaith yma a'r dynion goreu ar y ffarm. Nis gellir dysgwyl cnydau da o faip a rwdins, lle y byddo y tir yn fudr, ac heb ei falu yn ddigon mân. Cofied amaethwyr Cymru mai â phlanigyn "bychan" y mae a wnelont, ag sydd yn gofyn priddyn mân, a llawer o wrtaith pydredig iddo. Y mae y rhan fwyaf, yn y dyddiau presennol, yn cludo y tail i'r cae yn y gauaf, er paratoad erbyn y maip: cymysgir ef â phridd neu dywod; ac mewn rhai manau, gwelais yr annhrefn ffol o gymysgu tail â chalch! Mae eisieu i'r ffarmwr fod yn ddigon o fferyllydd i allu gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd briodol ac annhriodol

i'w cymysgu ynghyd fel gwrtaith; onidê, bydd yn sicr o fod yn golledwr. Gwastraff hollol ydyw cymysgu tail â chalch, gan fod calch yn naturiol yn ymlid ac yn newid natur y tail, ac yn lladd yr hyn sydd â natur tyfu, a maethloni pob llysieuyn, sef yr *ammonia*; ar ol i'r calch weithredu arno, ni bydd yn werth ond ychydig iawn—y mae y naill yn dyfetha effaith y llall yn hollol. Cefais gryn waith ymattal rhag chwerthin, un diwrnod, wrth ddadleu ar y pen yma gyda thyddynwr bychan a welais yn chwalu tail yn ei faes. Gofynais iddo, Paham yr ydoedd yn gwneyd y fath beth? Atebai, "Dyma y ffordd i drin tail; y mae yn rhy gryf fel hyn i bytatws neu faip heb ei chwalu ar hyd y tir!" Nid llawer sydd o'r farn hon yn y wlad. Y mae maip yn dewis hen dail mân pwdr, neu bastai o dail a phridd, neu dywod, wedi ei droi lawer gwaith, a'i wneyd yn bur fân; y maent yn ddicra am eu hymborth—rhaid trin yn bur *nice* iddynt. Hedyn bach gwyllt ydyw, ac yn ofynol fod y tail a'r priddyn yn gorwedd yn lled *glos* iddo. Ni thâl tail gwelltog, gwydn, a newydd, i faip. Ar ol cael y tir i gyflwr glân, trefnus, a mân, agorer y rhesi o ddeutu dwy droedfedd a thair modfedd o led—rhaid cael digon o le i'r craffinydd (*scarifier*) weithio rhyngddynt; yna, teilo y rhesi. Ond er tristwch, rhaid cyfaddef fod llawer eto yn gadael y tail yn bentyrau bychain ar hyd y maes am ddiwrnodau, a theilo y cae i gyd yn gyntaf, a'i adael yno i'r haul (y pryd hyny, yn gyffredin, yn desog, gyda gwynt dwyreiniol sychlyd) i ddwyn ei rym, a'i sugno yn gawodydd i'r awyr. Gwastraffus iawn ydyw y fath ddull. Byddai i ffarmwyr Cymru fod yn fwy gofalus i chwalu y tail yn uniongyrchol ar ol ei dynu i'r cae, a chau y rhesi arno yn ddioed. A dylai un dyn fod yn chwalu yn ofalus yn wastad ar waelod y rhesi, fel y gallo yr erydr ei gladdu yn gwbl, ac yn fuan ar ol ei chwalu. Y mae oddeutu dwy fodfedd o bridd ar wyneb y tail yn ddigonol.

Y truliau (*drills*) dwbl sydd mewn arferiad yn gyffredin — gwnant lawer iawn o waith mewn ychydig amser. Gwelwyd llawer cae o rwdins yn cael ei hau fwy nag unwaith o achos cynnilo yr had yn y dechreu. Mae ar lawer tyddynwr ofn gwario swllt neu ddau yn ychwaneg am had er sicrhau cnwd dyfodol. Nid ydwyf yn gwybod am un ddyfais wedi ei chael allan eto, er attal dinystriadau y pryf, yn well na rhoddi digon o ymborth iddo, sef hau digon o hâd yn y tir; a thra y byddo yn difa un eginyn, mae y llall yn cael hamdden i dyfu, ac os ceir yr eginyn i'r ddeilen arw (*rough leaf*), bydd erbyn hyn yn eithaf diogel. O un pwys i ddau o had, yr erw, a heuir yn gyffredin; ond byddaf fy hun yn hau tri phwys yr erw, o leiaf—y mae yn debycach o sicrhau cnwd toreithiog.

Cofier mai po sychaf yr hin a'r priddyn, dyma 'r amser goreu i hau: os daw cawod o wlaw, dylid rhoi y goreu i hau; y mae pob tir yn chwanneg i galedu a chroeni wrth ei drin ar y gwlaw; yn enwedig, ni ddylid caledu ar yr eginyn ieuanc, rhag attal ei darddiad allan o'r ddaear—ceir digonedd o chwyn, ond ffarwel am rwdins. Y mae llawer yn arfer *roolio* y rhesi ar ol hau, fel y bo i'r cae edrych yn dipyn gwell, fe allai; ond nid oes eisieu priddo yr had, os bydd y priddyn yn sych; mae 'r hedyn yn ddigon bywiog i ymwthio dan y priddyn, ac yn ddigon agos i'r tail. Gwell genyf fi adael y rhychyn bach yn agored; oblegid ei fod yn gysgod i'r planigyn pan yn feddal, a chyn iddo gymeryd y *rough leaf*;—lle y byddo ambell i gnap, ac ychydig gysgod, y bydd mwyaf o egin bob amser. Bydd y gwlith yn dal arno yn gynt, a phan ddel y gwlaw, fe dyf yr eginyn yn fuan. Gadewir i'r plan-

igion, yn gyffredin, fyned yn rhy fawr a hen cyn dechreu eu *hofio;* o ganlyniad, mae y naill yn lladd y llall. Cyn gynted ag y byddo y dail oddeutu dwy fodfedd o hyd, rhaid eu chwynu, a'u *hofio* yn lled rwydd, y tro cyntaf, oddeutu chwe' modfedd oddiwrth eu gilydd; a bod yn ofalus i yru y *scuffler* trwyddynt yn fynych, rhag i'r chwyn ladd y planigion. Yr ydym yn arfer bod yn rhy dyner wrth chwynu. Cymerant o ddeng modfedd i droedfedd rhwng pob planigyn; gan fod teneuo yn rheolaidd, ac yn lled bell oddiwrth eu gilydd, yn fantais arbenig. Rhaid eu cadw yn lân, onidê ni atebir dyben eu tyfu; sef, yn gyntaf, glanhau y tir, ac hefyd, cael cnwd toreithiog a phroffidiol; cadw y tir yn ei dro rhag ei fod yn diogi; etyb y dyben hefyd yn lle hafar, ac yn fwy manteisiol o lawer i'r ffarmwr. Oni thyfir cnydau gleision o ryw fath, neu ynte hafaru y tir, nid yw yn ddichonadwy gyru gwaith y ffarm ymlaen yn rheolaidd. Nid yw hafar, mwy na *chrop* o rwdins, yn llawer o werth, os na chedwir ef yn lân ac yn ddichwyn. Yn hyn y mae hafar a'r *green crops* yn cytuno, sef, eu bod yn dwyn y tir i drefn. Nid yw yn bosibl tyfu rwdins da, a chael cnwd toreithiog o chwyn, yn yr un maes; y chwyn ennilla y dydd, os nad edrychir ar eu hol.

Drwg genyf weled, mewn llawer ardal, y drefn annhaclus o adael y maip a'r rwdins i ehedeg i hâd yn y gwanwyn—canfod cae o faip, neu rwdins, yn ail daflu yn doreithiog, ac o ganlyniad, yn dyfetha, meddalhau, a chysgu y maip, a'r tir yn cael ei ail dynu gan yr un planigion. Nid oes dim yn fwy tueddol i wanhau ffrwythlondeb y tir, gyda'r effaith llesol a maethlawn sydd yn y feipen, na'r fath annhrefn, hyd nes ydyw yn myned yn hollol ddifudd i ddyn ac anifel. Dylid eu tynu cyn gynted ag y gwelir argoel eu bod yn ail dyfu, a'u cario i le diogel wrth y tŷ;—peidio a rhoddi gormod o honynt ar eu gilydd i boethi;—taflu ychydig wellt drostynt, i'w cadw rhag gwres yr haul, gerwinder yr hin, a'r gwlaw. Yr oedd genyf rwdins eleni yn cadw yn rhagorol, wedi eu tynu yn rhesi ar hyd y maes, a'u gadael yno am oddeutu mis. Tynwyd hwynt gan ferched. Yr oeddynt, yn gyntaf, yn tori y gwreiddiau a'r dail; yna, eu lluchio yn rhesi, tair neu bedair rhes yn yr un pentwr. Gwnaed hyn yn nechreu mis Chwefror, ac yr oeddynt mor iach, caled, a llesol, yn niwedd mis Ebrill, a dim a welais erioed. Cofier nas gellir tyfu *crop* a dâl yn ol i'r ddaear yn well yr hyn a echwynwyd ganddi, na maip a rwdins; y maent yn gwneuthur gwell tail wedi dyfod oddiwrth yr anifeiliaid; a phan y byddo eu ffrwyth yn gymysgedig â'r gwellt a'r tail, nid ydyw y gymysgedd amgen na chynnyrch y tir yn ymddangos mewn agwedd arall.

Dyma ddyfyniad o lythyr a dderbyniais ychydig o ddyddiau yn ol, oddiwrth amaethwr cyfrifol a phrofiadol:—

"Y mae meithriniad maip wedi bod ar gynnydd dirfawr yn y wlad er's tair blynedd yn ol, yr hyn a achoswyd o herwydd colli y cynnyrch hwnw, sef y cloron (pytatws). Ond o achos anwybodaeth, neu yn hytrach diffyg ystyriaeth, pa fodd i ddefnyddio y gwraidd gwerthfawr yma, y mae llawer iawn o amaethwyr lled uchel eu cymeriadau, wedi, ac yn, siarad llawer am danynt fel cynnyrch hollol ddiwerth, ac mai gwaethygu, yn hytrach na gwellâu, yr anifeiliaid a wnaethant yn y ddau dymmor diweddaf. Y mae yn ddiammheu y gallai dywediad fel hyn fod yn gywir; ond eto, y mae yn rhaid priodoli ei gywirdeb i roddi gormodedd iddynt. Nis gallai digon o faip neu rwdins er cadw yr anifeiliaid yn dymherus eu gwaethygu, ond eu llesâu a chwanegu eu tyfiant; yn sicr ddigon y gwna gormodedd eu rhyddhau, ac effeithio yn niweidiol arnynt, heb ryw fwyd sych, fel

gwair, neu wellt, i'w rheoleiddio: o ganlyniad, dylai porthwr yr anifeil corniog ddeall cymaint am ansawdd ei gorff, ag a'i galluoga i'w gadw yn dymherus. Ond heb ddwyn unrhyw resymau er profi maethlondeb y cyfryw lysiau fel porthiant gwir lesol i'r gwartheg, sef yr anifeiliaid corniog, y mae digon eisoes o brawfiadau wedi eu gwneuthur yn ein gwlad, ag sydd yn profi, yn anwadadwy, effeithioldeb tra ardderchog y rwdins, fel moddion i ffrwythloni a phesgi gwartheg."

Y mae y ddaear yn dysgwyl am, ac yn gofyn ad-daliad gan y dyn, yn yr un ansoddau ag a ddygir o honi mewn cnydau. Mae fferylliaeth wedi profi hyn; sef, fod pob math o lysiau, ydau, a ffrwythydd, yn dwyn rhan o'r ansoddau a'r elfenau tyfadwy sydd ynddynt o'r ddaear bob blwyddyn. Pa faint o ddyled sydd ar y dyn iddi! Dylem fod yn fwy ymdrechgar i gasglu y tail, er sefydlu (*fix*) yr *ammonia*, y calch, &c., a'u dwyn yn ol i'r tir, er ad-dalu mewn mygdarthau (*gases*) ffrwythlawn yr hyn a dynir o'r ddaear trwy offerynoliaeth dyn ac anifel.

Y mae y llysieuyn neu y gwreiddyn defnyddiol hwn, sef y cloron (*potatoes*), wedi cael ei feithrin mor drefnus yn Nghymru ag un man yn y deyrnas;—yr ydym yn rhagori am dyfu pytatws. Y mae yn llysieuyn sydd wedi bod yn brif gynnaliaeth i'r rhan fwyaf o'r trigolion am flyneddau; llawer ciniaw digonol a wneid bob dydd gyda "tatws a llaeth," heb son am gigfwyd o'r naill ben i'r flwyddyn i'r llall; heblaw hyn, bu yn hanner bywioliaeth y tyddynwyr bychain yn y wlad, trwy besgi moch. Cnwd o bytatws oedd yr unig ffordd tuag at hafaru y tir am flyneddau mewn rhai manau; cedwid y tir yn lân drwy eu priddo a'u chwynu; a byddai ambell un yn cymysgu calch â'r pridd, trwy chwalu y calch ar hyd y rhesi, yn mhen tair wythnos neu fis ar ol eu planu, a phriddo arno ar ol hyny. Mae arnaf gryn ofn fod amser y llysieuyn gwerthfawr hwn wedi myned heibio, (ond y mae gwell golwg arno eleni nag a fu er's rhai blyneddau); ac er pob dyfais a gynnygiwyd er attal yr aflwydd, a rhagflaenu y dinystr, er hyny, myned rhagddo y mae gan ddyfetha y cnydau yn mhob parth o'r deyrnas; ïe, a thrwy Gymru oll. Y mae yr haint wedi dyrysu y fferyllwyr mwyaf deallus, y garddwyr a'r amaethwyr mwyaf cyfrifol, a amcanasant hyd yma ddeall yr afiechyd; gan hyny, nid doeth ynof ydyw rhoddi un cynghor tuag at attal y dinystr. Rhaid gadael yr hyn sydd mewn tywyllwch i ddoeth lywyddiaeth Rheolwr yr elfenau.


Yr unig ffordd sydd yn debyg o fod yn llwyddiannus i'w meithrin, ydyw, planu yn gynnar yn y gwanwyn, cyn dechreu hau; y mae llaweroedd wedi eu planu eleni eto, a gobeithio y bydd llwyddiant arnynt,—y maent yn edrych yn rhagorol hyd yma. Yn y blyneddau a aethant heibio, rhoes y pytatws brawf i'r wlad nad oedd yn bosibl cadw y tir yn lân heb ryw fath o hafar; a gwnaeth y planigyn gwerthfawr hwn arbed llawer o draul, yn enwedig i lanhau y tir; ond yn nghorff y tair blynedd diweddaf, yr oedd y chwyn yn cael y fuddygoliaeth ar y pytatws, y *scufflers*, a'r erydr, a'r meusydd yn llawn budreddi o chwyn yn tyfu yn doreithiog trwy nerth y tail, hyd nes ydyw y wlad yn dechreu teimlo y lles a'r buddioldeb a ddeillia oddiwrth dyfu maip a rwdins.

Gan fod y pytatws yn debyg o ddarfod yn y wlad, fel cnwd llysieuol, rhaid darparu rhyw lysieuyn arall i gymeryd ei le, yn enwedig at fagu a phesgi moch: nid ydwyf yn gwybod am un planigyn yn fwy llesol a maethlawn i wartheg a moch na 'r maes bîd (*mangold wurtzel*); neu fel ei


gelwir yn gyffredin, *beet root*. Yr unig wrthwyneb a ellir godi yn eu herbyn, yw, fod hinsawdd y wlad yma yn lled wlyb i'w tyfu, am eu bod yn caru sefyllfa a hinsawdd sych a chynhes; ond tyfant yn rhagorol o faethlawn ar lenydd y môr; chwennychant hefyd briddyn heb fod yn rhy rwym na rhy agored (*frac*), ac fel pob llysieuyn gwreiddiog arall, yn chwennych y tir mwyaf bras a ffrwythlawn a ellir ei gael; ond tyfant yn wych ar bob math o dir lle y tyfa maip, rwdins, neu chloron.

Rhaid bod yn ofalus i aredig y tir yn ddyfn ar eu cyfer; goreu po ddyfnaf y byddo, fel y gallo y planigyn gael lle i yru ei wraidd yn ddigon isel i'r ddaear i chwilio am gynnaliaeth. Os trinir y tir yn yr un modd ag y sylwais eisoes i faip, ac aredig yn ddigon cynnar yn ngŵyl Mihangel, a'i droi, a'i ail droi, ei lanhau, a'i falu yn ddigonol, nid rhaid ofni na cheir cnwd trwm. Dylid hefyd ofalu am dail mân, wedi ei gymysgu yn dda, ac yn ddigon pydredig; ac nis gellir cael gwell tail na thail y buarth, os bydd wedi ei gymysgu, ac heb fod yn welltog a newydd. Yr amser goreu i'w hau, yw, oddeutu mis Ebrill, neu ddechreu Mai; ond rhaid dewis amser sych: teilo a rhesu y cae yn yr un modd ag yr arferir i rwdins; oddeutu dwy droedfedd a hanner rhwng y rhesi. Ar ol cau y rhesi, buddiol yw rhedeg *rowler* ysgafn ar hyd y maes, cyn planu neu ddrilio—y mae *drills* pwrpasol i hau y *mangold* yn Lloegr—ond nis gwelais yr un eto yn Nghymru; o ganlyniad, rhaid arferyd y bysedd, hyd nes ceir offeryn addasach. Fel rheol gyffredinol, y mae yn ofynol i'r had fod yn is yn y ddaear na'r rwdins; rhaid eu rhoi oddeutu dwy fodfedd o ddyfn. Pren fel yr un a arferir i blanu bresych (*cabbage*), wedi ei wneyd yn ol darlun 1,

DARLUN I.



DARLUN 2.



sydd yn hwylus i'w planu; dwy fodfedd oddiwrth y blaen, A, y mae darn o bren neu ystyllen, yn yr hyd sydd i fod rhwng pob planigyn, oddeutu deuddeg modfedd, neu o ddeg i ddeuddeg modfedd. Gwna blaen y pren, C, fesur y man lle bydd y twll nesaf i fod: fel hyn, rhwyddheir y gwaith, rhoddir pob hedyn yn yr un dyfnder, (hyny yw, dwy fodfedd), a'r un pellder oddiwrth pob hedyn, hyny yw, o 10 i 12 modfedd; gall un dyn dori y tyllau, a bachgenyn i roddi un neu ddau hedyn yn y twll, a thynu ychydig o bridd arno. Rhaid bod yn ofalus i'w hau yn wastad ar hyd y rhesi: pan y byddant wedi egino, bydd yn hawddach i'r *scarifier* a'r aradr fyned rhwng y rhesi i'w glanhau. Gwelais fath arall o bren i dori y tyllau o'r ffurf yma (gwel darlun 2), â phedwar o ddannedd ynddo—pob dant yn ddwy fodfedd o hyd; fel y gellir tori pedwar twll ar unwaith, a gwneyd mwy o waith, ac yn fwy rheolaidd, na chyda phren âg un dant iddo; ond bydded i'r deallus ddewis pa un yw y goreu. Cyn gynted ag y bydd yr egin allan

o'r ddaear, rhaid gyru y *scarifier* rhwng y rhesi, er cadw y tir yn lân, rhag i'r chwyn, sydd mor hoff ganddynt ddangos eu hunain, eu lladd.—yn enwedig lle byddo digonedd o ddail i'w meithrin; a rhaid cael bysedd yr hogiau at chwynu a theneuo yr egin, lle y byddo mwy nag un planigyn, gan y bydd weithiau ddau neu dri yn tyfu oddiwrth yr un hedyn. Gwell genyf roddi dau hedyn yn mhob twll, rhag i ambell hedyn fethu: nid llawer mwy o drafferth yw tyfu dau nag un eginyn, lle y byddo gormodedd o honynt, a gofalu tynu y rhai gwaethaf, a gadael y cryf a'r iachus i dyfu. Rhaid tynu y pridd oddiwrthynt, er eu cadw rhag gwreiddio yn ormodol, a gyru y *scarifier* rhwng y rhesi yn ddibaid, nes byddo y dail wedi curo y chwyn yn hollol. Bydd y tir yn cael fel hyn yr un driniaeth a hafar, er lles i'r cnydau dyfodol. Y mae amryw fath o bîd (*mangold*) yn cael eu meithrin; y rhai a henir yn fwyaf cyffredinol at fagu a phesgi anifeiliaid, yw, y rhai cochion hirion (*long red*), melyn hirion (*long yellow*), y rhai crynion, cochion, a melyn (*red & yellow globe*), a'r *horn beet*, a'r *white Silesian*. Dywedodd un gwr wrthyf, mai y rhai crynion cochion sydd yn ateb oreu yn Nghymru, a bod ganddo rai eleni o'r rhyw hòno yn pwyso *un pwys ar bymtheg* yr un. Rhai crynion sydd yn ffynu oreu ar dir ysgafn; ond gellir rhoddi y rhai melynion i'r anifeiliaid yn gynt yn y tymmor na'r rhai cochion heb achosi un effaith niweidiol iddynt.

Nid oes un llysieuyn yn tyfu ag sydd yn cadw yn hwy heb ddyfetha, ac yn iachach trwy y gauaf, na'r bîd (*mangold*). Gwelais rai gwynion a chochion o honynt eleni, yn niwedd mis Mai, mor galed, mor iach, mor faethlawn, a phan eu tynwyd yn mis Tachwedd; a'r anifeiliaid yn eu bwyta yn rheibus. Yr amser goreu i'w tynu o'r ddaear, yw, o Ŵyl Mihangel i Galangauaf; gan eu bod yn ddarostyngedig i'w dyfetha gan rew, os gadewir hwy yn y maes trwy y gauaf.—Tywydd sych raid gael at eu tynu, er eu cadw mewn cyflwr diogel; torir y dail wrth eu cadw, neu gellir gwneyd hyny yn gynt, am fod yr anifeiliaid yn hynod o awyddus i fwyta y dail. Gellir eu cadw yn yr un dull a'r hen drefn oedd genym gyda'r pytatws; sef eu gwneyd yn dâs hir, lled gul, a'u toi gyda gwellt a phridd; bod yn ofalus i wneyd ffos i gario ymaith y dwfr o amgylch y dâs. Y mae tâs dwy latb o led, ac oddeutu pedair troedfedd o uchder, yn ddigonol; ni raid ond pasio y plyg nesaf allan yn drefnus, yna lluchio y gweddill i ganol y pentwr, fel pentwr pytatws. Gwell yw gadael penau y dâs yn agored i gael gwynt iddynt; ond bod yn ofalus ar amser rhew i'w cau i fyny: gwna rhew effeithio ar y *mangold* yn gynt na'r pytatws; ond nid rhaid petruso am danynt, os cedwir digonedd o wellt yn eu cylch yn amser caled y gauaf. Y maent yn chwannog i dyfu a phoethi yn y gwanwyn, os na thynir oddi arnynt; am eu bod yn gofyn ychydig o awyr yn yr amser yma. Yn hyn y maent yn fwy manteisiol nag un gwreiddyn arall; sef eu bod yn hawdd eu cadw yn berffaith iach trwy y gauaf a'r gwanwyn, ac hyd lawer o'r haf; ac nid oes un llysieuyn ychwaith yn cadw cyhyd heb ddyfetha ar ol eu tynu o'r ddaear. Er nad ydyw rwdins a maip yn gystal am gadw, y maent yn well i borthi anifel, yn ngŵyl Mihangel a dechreu y gauaf; o herwydd y mae yn angenrheidiol cadw y bîd am yspaid o amser, cyn y byddant yn hollol barod i'w bwyta.—Ni wna pryfaid mo'u hysu na'u dyfetha, ac y maent yn fwy diogel rhag anrhaith yr ysgyfarnogod a'r gwningod, na'r rwdins; a gellir hefyd eu symud oddiar y tir yn gynt yn y tymmor; y maent yn hawddach eu meithrin a'u tyfu;—yn well at borthi anifeiliaid

ieuainc yn y gwanwyn na'r maip; ac yn enwedig at besgi moch trwy y tymmor: y maent yn hynod am roi laeth, ac yn llesol i bob anifel, pa un ai gwartheg ieuainc, buchod llaethog, neu ddefaid. Ni ddylid rhoi llawer o honynt yn nechreu y tymmor i'r anifeiliaid; y maent o natur ryddhaol: rhoi ychydig gyda bwyd sych yn y dechreu fydd oreu; megys gwellt wedi ei dori, neu wair. Y rhai melynion a arferir gyntaf, gan nad oes cymaint o natur i ryddhau yr anifeiliaid ynddynt a'r rhai cochion. Gellir eu rhoddi i'r moch yn oerion, wedi eu golchi a'u tori yn dafellau.

Dywedodd un ffarmwr wrthyf, ei fod wedi pesgi moch y llynedd gyda bîd; ac yr oeddynt yn pesgi yn llawn cystal os nad gwell na'r pytatws. Yr un driniaeth oedd yn ei wneyd â hwy ag â'r pytatws; sef eu berwi am ychydig amser, a'u cymysgu gyda blawd, i'r moch; neu eu tori yn dafellau teneuon, a'u cymysgu â blawd. Nid da yr oedd y moch yn eu bwyta yn y dechreu; ond wedi arfer â hwynt am ychydig o ddiwrnodau, bwytasant hwy mor wancus ag y gwelwyd hwy yn bwyta y pytatws erioed. Bu y moch i mewn oddeutu pum wythnos, o hyny i chwech, ac yr oeddynt yn rhai tewion ragorol—yn pwyso oddeutu dau ugain ar bymtheg y pen (17 *score a head*).

Nid pethau newyddion yn y deyrnas yw bîd; gan y dywed Mr. Newby, yn ei draethawd rhagorol ar y gwreiddyn llesol hwn, ei fod mewn arferiad cyffredinol yn Norfolk, a manau eraill, yn y flwyddyn 1786.

Dysg fferylliaeth i ni mai dyma y llysieuyn â mwyaf o siwgr ynddo o'r un sydd yn tyfu trwy y ddaear. Y maent yn tynu siwgr o wraidd y bîd yn Ffrainc, ac yn gwneyd masnach helaeth o honynt.

Llysiau gwerthfawr, maethlawn, a daionus, yw y moron. Y mae rhai cochion a gwynion o honynt; chwennychant dir tywodlyd brac; a lle y gellir eu maethu, nid oes gwell cnwd yn tyfu o'r ddaear yn fwyd i ddyn ac i anifel; y maent yn rhagorol i geffyllau, moch, a gwartheg. Ni raid i mi ymhelaethu ar y llysieuyn buddiol hwn; ond cynghoraf amaethwyr Cymru i'w feithrin yn amlach: a lle y gwneler hyny, bob amser i'w hau yn rhesi, a'u glanhau, a'u teneuo yn ofalus;—rhaid eu hau yn gynnar, a phalu y tir yn ddigon dwfn.

Yn mysg y cnydau gleision, gellir nodi pypys, neu ffacbys (*vetches*); ond eu hau yn gynnar yn mis Chwefror neu Mawrth, byddant yn borthiant rhagorol yn gynnar i'r gwartheg a'r ceffylau, yn nechreu yr haf.—Yn gyffredin, heuir ychydig o haidd neu geirch yn gymysg â hwynt, er eu cadw i fyny;—y maent yn lled chwannog i orwedd ar y ddaear a phydru. Y mae chwech cibyniad yn ddigon i hau mewn hanner erw o dir;—y maent yn rhagorol i lanhau tir fydd yn llawn chwyn. Gwelais dir wedi ei hadu yn fwy trefnus yn y pypys, nag mewn un dull o hadu a welais eto yn y wlad: y gwair a'r *clover* yn dewach ac yn lanach oddiwrth chwyn, nag un rhan o'r cae. Ychydig wyf yn eu hadnabod sydd yn arfer hau pypys gauaf (*winter vetches*); y mae y rhai hyn yn borthiant rhagorol, ac yn llwyddo yn dda mewn rhai manau yn Nghymru a Lloegr. Heuir yn gyffredin yn mis Medi; a byddant yn fwyd helaeth mewn llawer amser llwm yn y gwanwyn. Cynghorwn amaethwyr Cymru i hau a maethu mwy o honynt.

Yr ydwyf eisoes wedi sylwi fod ffa yn cael eu meithrin fel un o'r cnydau gleision, ar diroedd rhwym, mewn amryw fanau ar wastadedd Cymru; y maent yn hoff o dir trwm, cleiog. Dylid bob amser eu hau yn rhesi (*drilio*), fel y gallo yr aradr a'r *scarifier* fyned rhyngddynt, i'w cadw yn

lân. Nid dull doeth na thaclus yw eu hau ar wasgar (*broad-cast*), o herwydd fod cymaint o chwyn yn codi ynddynt. Heuir oddeutu hanner crynog i'r erw; a'r lle y tyfant yn ffrwythlawn, ceir oddeutu pedwar crynog yr erw o gynnyrch. Cof genyf, pan yn nghymdeithas Mr. Aneurin Owen, ei glywed yn canmawl y drefn o dyfu gwenith ar ol ffa, yn ol y dull sydd mewn arferiad cyffredinol yn Nyffryn Clwyd, a lleoedd eraill yn Nghymru. Y mae ffa, hefyd, yn cael eu meithrin yn fynych yn y wlad, fel bwyd i ddyn, yn gynnar yn yr haf a'r cynauaf. Rhaid i dyddynwyr Cymru ymroi i blanu a hau ychwaneg o honynt, ar ol colli y pytatws;—nid oes gwell cnwd yn cael ei blanu na'r ffa. Planu ychydig, dro ar ol tro, sydd fwyaf buddiol, er eu cael yn ddigon ieuainc drwy y tymmor i'w bwyta. Bu genyf ffa wedi eu planu yn mis Mehefin, ac yn ffrwytho yn lled wych at ddiwedd blwyddyn.

Y mae *pys* yn hynod o lesol at besgi moch, pa un ai eu tori yn leision, er magu moch ieuainc, neu ynte eu malu, a rhoddi y blawd i besgi y moch. Paham nad allant ateb i'w tyfu fel cnwd blyneddol, er cynnaliaeth i ddyn ac anifel, yn lle y pytatws? Ac onid ellir gwneyd hyny gyda'r un fantais a'r Sais, yr hwn sydd yn eu gwerthu i'r Cymry wrth y sacheidiau? Gwell yw eu hau yn rhesi, fel y ffa.

Gellir nodi hefyd y *bresych* (*cabbages*), a *llysau*, fel planigion a ellir eu meithrin, er lles a buddioldeb mawr. Plenir y *drum-head cabbages*, fel y rhai mwyaf eu ffrwythlondeb, yn rhesi. Y maent yn rhagorol yn y gauaf a'r gwanwyn i wartheg, ac yn peri iddynt roddi llaeth fwy na mwy.

Y drefn o aredig sydd wedi gwellâu yn fawr yn y wlad er's ychydig o flyneddau yn ol. Nid oedd lled na dyfnder y gŵys o un sylw gan y ffarmwr na'r llafurwr ugain mlynedd yn ol—heb na llun na threfn ar na chefn na chŵys;—darn o'r un cae wedi ei aredig, a darn arall yn borfa; —un gongl o'r maes yn noddfa i'r chwyn, a'r gongl arall heb feddwl byth am ei aredig—ei adael yn dalar heb ddim ynddo ond cnwd toreithiog o laeth ysgall. Daeth ymrysonfâau aredig i arferiad mewn manau yn Nghymru, ychydig o flyneddau yn ol (drwg genyf weled y wlad wedi "llaesu dwylaw" yn hyn): cynhyrfodd fwy o ysbryd ymdrechgar i wellâu yr âr ymhlith y llanciau, gwelwyd hwynt yn fwy diwyd, ac yn cydymgeisio i ragori y naill ar y llall, ac, fel y dywedant, "i guro eu gilydd;" fel hyn, caed yr âr yn wastatach, y rhychau yn fwy unionsyth, y cefnau 'r un led, ac yn fwy trefnus, trwy y maes oll. Pe ystyriem y gwahaniaeth sydd yn unig yn ngolygiad y caeau, heb son am les y tir, a chynnyrch y llafur dilynol, y mae y drefn daclus, gelfyddgar, yma, wedi gwneyd daioni annhraethol yn y wlad yn gyffredinol. Torir y gŵys yn y tyndir (tir glas), yn fwyaf cyffredin, yn bum modfedd o ddwfn, wrth wyth modfedd o led. Rhaid cael y cwysi i orwedd yn lled syth y naill ar y llall, wedi eu *closio* at eu gilydd yn dda, a phriddo yr ymyl las i'r gŵys yn hollol; a thrwy hyny, gwna llai o had y tro, a bydd digonedd o bridd i orchuddio yr hadyd, a cheir gwell cnwd yn y cynauaf. Aredig yn fâs y byddai yr hen drigolion: yr oeddynt wedi eu dysgu, trwy brawf, nad gwiw aredig yn ddwfn mewn lle gwlyb, cleiog; ond lle y mae y tir wedi ei draenio, gall y tyddynwr aredig yn ddyfnach ac yn gynnarach; geill dori ei sofl yn mis Hydref, a braenaru ei faip ar yr un amser; ond nid yw yn bosibl gwneyd hyn â thir heb ei draenio. Y mae aredig tir ar amser gwlyb yn tueddu i'w galedu, ac i godi mwy o chwyn ynddo. Mae braenaru y tir yn mis

Hydref yn well am ei rywiogi, na'i droi ddwywaith yn y gwanwyn; y mae y rhew yn gweithredu arno, ac yn ei falurio—y dwfr yn ei chwydde, a'r pridd yn marlio, a'r awyr yn effeithio arno; y mae yn sugno yr ufelai (*oxygen*) o'r awyr, sef un o'r prif weithredyddion sydd yn achosi magwraeth a thyfiant llysiau. Nis gallaf beidio a dyfynu rhan o lythyr cyfaill, ar y pwnc hwn, a gadael i'r cyfarwydd ystyried ei resymeg; pan yn sylwi ar dori tyndir, dywed fel hyn:—

"Yr wyf yn meddwl fod un drefn (*plan*) dda iawn wedi myned i lawr i raddau gormodol yn ein mysg y blyneddau hyn. Pan erddir cae porfa, ni bydd dim son am fraenaru, dim ond erydr *Scotch*, a'i aredig yn un âr dwfn a llydan; a'm barn i yw, fod hyny yn achosi i'r tir fagu marchwellt, &c., yn fwy o lawer na phe erddid y tir ddwywaith. Bydd y cwysau mawrion, erbyn y flwyddyn ddyfodol, yn gelpiau gerwin, ac y mae tori gwraidd marchwellt yn wrtaith iddynt, yn hytrach na dim byd arall. Ond erbyn braenaru cae tyndir, a'i ail dori yn y gwanwyn (a bydd y tir yn sych yn gyffredin yr amser hwnw), ac erbyn ei lyfnu yn dda bryd hau, bydd gwraidd y marchwellt yn cael eu codi i'r wyneb, a'r haul yn eu lladd. Yr wyf o'r farn hefyd fod triniaeth felly yn well o lawer ar les y tir, er mwyn cael cnwd da o hono, nag un âr. Bydd gwynt a haul, gwlaw a hindda, yn cael treiddio iddo yn ddyfnach braidd, ac y mae y tir yn cael ei falurio yn well ac yn fwy o lawer."

Gwir, fel y dywed fy nghyfaill, mai rhy ychydig o lawer sydd o drin a throi y tir yn y wlad; ac o ganlyniad, yr ydym yn colli y fael yn y cynauaf.

Ar ol traenio y tir, nid oes eisieu codi cefnau uchel, a gwneyd y rhychau yn agos i'w gilydd; bydd y draeniau yn gweithio yn well, a cheir mwy o wyneb o dir i dyfu ŷd a glaswellt, wrth ei wneyd yn hollol wastad, ac heb braidd ol cefn ynddo; y mae y tir yn sugno ac yn dyhidlo y gwlaw yn fwy graddol, a'r ddaear yn sychu yn fwy naturiol a gwastad, wrth arfer y drefn hon. Dyma fy null i aredig a chwyso y tir.—Ar ol aredig y tir, rhaid ei lyfnu, ei *rowlio*, a'i lanhau. Yn y ddyledswydd o lanhau y tir, y mae amaethwyr Cymru yn hynod o ddiffygiol, yn enwedig wrth drin y tir i rwdins, bîd, neu bytatws. Ceir gweled llawer o honom, pan yn rhoi cae dan y cnydau uchod, yn gadael y maes yn y cyflwr y bo, heb ddim rhagbarotoad, yn rhagor nag aredig a llyfnu, pryd, mewn gwirionedd, nad ydyw aredig a llyfnu ond rhan fechan iawn o'r driniaeth ddyladwy. Dylai fod genym offerynau pwrpasol, heblaw erydr ac ogau, i lanhau y tir oddiwrth bob math o wraidd, megys marchwellt (hen elyn llawer hwsmon taclus). Byddaf yn ystyried fod glanhau tir oddiwrth wreiddiau yn nesaf peth i wrteithio, os nad ymlaenaf o bob peth. Nid wyf yn gwybod yn iawn pa un a ddewiswn, ai cae gwreiddiog wedi ei wrteithio yn dda, ynte cae heb ei wrteithio, ac wedi ei lanhau yn dda. Pa bryd bynag y gwelir maes o gloron a maip, a'r tir heb ei lanhau yn dda, ceir gweled maes â rhy fychan o gnwd ynddo; a phan hauer gwenith, neu haidd, ynghyd â hadau meillion a gwair, ar ol y cnwd gwyrdd, nis gellir dysgwyl cystal ŷd, ac ni bydd y golled yn y gwair yn ddim llai, ac yn yr adladd, drachefn, bydd y golled yn fawr. Yn y gauaf a'r gwanwyn, ceir gweled golwg lwydaidd, dlawd, ar feusydd llawer o honom, heb nemawr ddim ond sofl, marchwellt, a chwyn, ynddynt, er fod ugeiniau o bwysau o had meillion wedi eu hau, pryd y dylasai y rhai hyny fod yn llenwi wyneb y tir, gan fod y maes, ond odid, yn llawn gwrtaith. Dylid hefyd glanhau y tir o'r chwyn, a'r pethau niweidiol sydd yn sugno ei nerth, tori y chwyn sydd ar hyd y cloddiau a'r

ffosydd, a'u casglu yn brydlawn yn yr haf, cyn i'r hadau sydd arnynt addfedu; a pha beth a ellir gasglu yn well i wneyd gwrtaith? Rhaid tori yr ysgall cyn iddynt ehedeg; dadwreiddio y tafol, a'u llosgi; hel y marchwellt, a gwneyd coelcerth o honynt, ynghyd â'r tafol; a chasglu pob chwynigyn a gwreiddyn ar yr âr; am y bresych, rhaid eu casglu wrth fraenaru, neu eu chwynu yn y maip; a charn yr ebol, trwy gasglu eu gwraidd yn yr âr. Pa beth sydd yn fwy pleserus na gweled y tir yn lân, pa un ai yn y gwanwyn, ar ol aredig, neu yn yr haf, pan y byddo yr ŷd yn barod i'r cryman? Y mae taclusrwydd a glendid mewn un peth yn arwain at yr un rhinwedd mewn pethau eraill—yn y tŷ annedd, a'r tai allan, ynghyd â'r ydlanau. Y mae glanweithdra yn gysur ac iechyd i ddyn ac anifel; ac y mae yn dangos egwyddorion pethau gwell yn y galon, y rhai sydd yn hudo ac yn arwain eu meddiannydd at welliant yn mhob rhan o'i orchwyl.

Wedi cael y tir i gyflwr digon glân, rhaid dewis hadau i'w rhoddi ynddo. Y mae amaethwyr Cymru wedi bod, ac yn bod, yn rhy esgeulus yn newisiad yr had o bob math, ŷd, gwair, meillion, maip, &c., heb ystyried ond ychydig pa hadau sydd fwyaf addas i'r tir, a'r hinsawdd. Yr wyf yn gwybod am lawer math o hadau sydd wedi eu profi mewn gwahanol barthau o Gymru, ac wedi methu yn hollol. Ond sylwaf ar y gronynau a'r hadau, bob un ar ei ben ei hun.

Gwenith yw y penaf o'r ydau at gynnaliaeth y bywyd dynol; ond nid yw yn cael ei feithrin, trwy Gymru oll, mor helaeth a haidd a cheirch. Y gwenith sydd yn dygymmod oreu â thir a hinsawdd orllewinol Cymru, yw y *coch bach*: y mae yn fwy caled i sefyll gwlybaniaeth y gauaf, ac oerni y gwanwyn; ac yn y cynauaf, drachefn, y mae yn sefyll allan yn well nag un gwenith arall a wn i am dano. Dylaswn, ymlaenaf, sylwi fod cymaint o wahanol fathau o wenith yn cael eu hau yn ngwahanol barthau o'r Dywysogaeth, fel nad oes yn bosibl penderfynu pa un yw y goreu; ond yr un sydd wedi sefyll y prawf oreu yw yr un a enwais, sef y coch bach. Y mae hefyd lawer math o wenith yn cael ei hau ag sydd yn hollol anaddas i'r wlad a'r hinsawdd. Cafwyd colledion dirfawr rai blyneddau yn ol, wrth hau gwenith mewn tir anaddas iddo, ac ar dymmorau gwlybion; gwell fuasai i laweroedd fod ceirch yn y tir yn ei le. Y mae yr un tueddiad yn yr un amaethwyr, yn yr un tiroedd, yn y blyneddau sychion diweddaf, i'w feithrin; ond cymerant gynghor gan un sydd wedi cael "llosgi ei fysedd." Gwell ydyw hau rhyw hadyd arall, sydd yn fwy addas i'r priddoedd a'r hinsawdd. Y mae gwenith yn chwennych tir bras, cryf, rhwym, cleiog, cyn y gellir dysgwyl cynnyrch trwm. Hau o dan y gwys y byddaf fi, mewn tir pytatws, neu faip; y mae oddeutu chwe' cibynaid (hanner *bushel*), o hyny i hanner crynog, i'r erw, yn ddigon i'w hau. Nid ydyw tiroedd Cymru, yn gyffredinol, yn ddigon gwastad i arfer trulio (*drill*) y gwenith, fel y gwneir mewn manau yn Lloegr. Arbedir llawer o had trwy arfer y drul, yn lle hau gyda llaw; ond nid yw ein meusydd ni, yn gyffredinol, mewn cyflwr digon addfed i arwain y druliau ar hyddynt eto. Oddeutu gŵyl Mihangel yr heuir y gwenith yn gyffredinol; weithiau, bydd y tywydd yn rhy wlyb i hau yn gynnar, a rhaid aros hyd Galangauaf, o hyny hyd fis Ionawr a Chwefror, rai gweithiau. Gwelais amaethwyr wrth ororau glenydd y môr, ar y rhan orllewinol i Gymru, yn hau yn mis Mawrth; a dywedir wrthyf mai dyma yr amser goreu i hau yn

y cwr hwnw o'r wlad. Yn sicr, ceir yno well cnwd o wenith ar ol hau yn gynnar yn y gwanwyn, na'r hyn a heuir yn mis Hydref; canys dywedir fod gwyntoedd cryfion o fôr y deheu a'r de-orllewin yn dal ar yr egin yn mis Rhagfyr a Ionawr, cyn iddynt ddyfod yn ddigon cryfion, ac yn aml yn dyfetha y cnwd yn hollol. Anfynych y gwelir hafar glân a threfnus yn y wlad; a'r ychydig a welir fydd yn eithaf afler, ac yn llawn o chwyn a gwraidd. Nid aredig unwaith neu ddwy yn yr haf, a lluchio ychydig o galch iddo, a wna y tro: os hafaru, rhaid glanhau y tir yn hollol oddiwrth bob math o chwyn a gwraidd cyn dechreu ei wrteithio. Cof genyf fod unwaith yn *Yorkshire*, ac yn myned gydag amaethwr cyfrifol dros ei dyddyn. Sylwais ar ei hafar; nid oedd yn bosibl gweled un math o wraidd na chwynigyn mewn un cwr o'r maes: yr oedd ganddo blant yn pigo pob brycheuyn, ac yn eu cario a'u llosgi;—yr oedd y maes oll yn edrych fel gardd. Yr ydym wedi cael colled mewn un ystyr, wrth golli y tir cloron (*potatoes*), o herwydd mai dyma 'r unig hafar oedd gan laweroedd yn barotoad i ŷd. Glanhawyd llawer tir diffaeth gyda chnwd trwm o bytatws; a beth yw pob math o gnydau gleision ond parotoad erbyn cnwd dyfodol o ŷd? fel y sylwais eisoes. Arferir hau gwenith mewn rhai manau o Gymru yn y tir maip a'r pytatws; ond rhaid i amaethwyr gororau glenydd y môr, sef y rhan orllewin-ddeheuol o'r wlad, gael ei hau ar ol haidd, ac weithiau yn y tyndir un âr. Y mae llawer dull o gyffeithu (*pickle*) gwenith; un yn arfer y gareg las; un arall ir-ddrwg, halen a chalch poeth, hyd na byddo ŵy iar yn nofio yn y dwfr; a phawb â'i ffordd ganddo: trefn ganmoladwy yw piclo y gwenith cyn ei hau, yn enwedig lle y bydd y duedd (*smut*) yn ymddangos ynddo. Y mae llawer math o wenith wedi ei gynnyg sylw y Dywysogaeth, ac yn mysg eraill, bum yn hau gwenith gwanwyn (*spring wheat*), sef gwenith gwyn; yr oedd yn tyfu yn rhagorol am un flwyddyn; yr oedd gwellt mân glân iddo, ac yn borthiant da i'r anifeiliaid; ond er rhoddi eithaf prawf arno, nid ydyw, yn fy marn i, yn gyfatebol i hinsawdd Cymru. Y mae gwenith gwanwyn o fath arall wedi ei hau y ddwy flynedd a aeth heibio, mewn rhanau o Gymru, ag sydd yn debyg o ddyfod yn fwy cyffredinol a buddiol i'r amaethwr Cymreig, yn Ngogledd Cymru, sef y *Siberian bearded spring wheat*. Tywysen goliog sydd iddo, yn debyg i haidd. Hauwyd y gronyn yma y 14eg o Ebrill, torwyd ef yr 20fed o Awst, a chafwyd cnwd toreithiog o hono, a'r cynnyrch ar y deuddegfed. Y mae yn ymddangos i mi yn ronyn bychan, caled, ac yn addas iawn i hinsawdd y wlad,—yn debyg o ran lliw a llun i'r gwenith coch bach. Rhaid bod yn ofalus i'w hau yn dewach na'r gwenith cyffredin. Y mae yn gymhwys iawn pan y rhoddir tir i lawr gyda had gwair a meillion i'w bori—y gwellt yn gryfach i sefyll i fyny i'r gwair gael lle clir i dyfu, ac yn fwy gwerthfawr na'r haidd yn y farchnad. Y mae Syr Richard Bulkeley wedi rhoi prawf arno yn sir Fôn, ac yn ei ganmawl yn fawr; a bydd er lles annhraethol i'r wlad i gael prawfiadau fel hyn yn hysbys. Gellir enwi, yn mysg y gwenith a feithrinir yn Lloegr, a manau o Gymru, y rhai canlynol:—

Yr hen goch bach;—gwellt lled wych, a thywysen fain, hir. Y mae yn sefyll ar ei draed yn dda; a bydd y melinydd yn dra hoff o'i rawn.

Red Britannia;—gwellt cryf, tywysen dew, lled hir, gronyn mawr, ond nid cystal ei ansawdd a'r rhai blaenorol a enwyd.

Golden drop;—â gronyn melyn ganddo—gwellt gwyn cryf.

Pearl;—gronyn gwyn, tywysen gryno, ac yn hynod o gynnyrchiol.

Blood red;—gwellt caled, yn sefyll i fyny i'r tywydd, ac yn rhagorol fel gwenith gwanwyn.

Yellow Dantzic;—gwellt main, gwyn, bychan, ac yn cynnyrchu yn dda ar dir cleiog bras.

Devonshire red;—tywysen gryno, yn chwannog i orwedd ar dywydd gwlyb, ond yn bur gynnyrchiol pan y saif ar ei draed.

Chedham;—gronyn gwyn, yn debyg i'r *pearl*.

Hopetown;—tywysen fawr, uchel, gref; a saif i fyny braidd yn mhob tywydd.

Marygold, a'r *Red spalding*;—yr olaf sydd yn fwyaf dewisol yn Norfolk a Suffolk, ac yn hynod o gynnyrchiol.

Gellir enwi amrywiol o rai eraill, ond gadawaf i'r craffus a'r deallgar ddewis yr hwn sydd oreu a mwyaf cymhwys i'w dyddyn; tybygwyf mai y *gwenith coch*, o bob rhyw, sydd fwyaf priodol i Gymru, ar y rhanau sydd yn fwyaf agored i'r hinsawdd wlyb. Os ceir o ddeg i bymtheg o gynnyrch, bernir hyny yn ad-daliad da o wenith; neu oddeutu tri neu bedwar crynog i'r erw.

Haidd a heuir yn gyffredinol yn mis Ebrill (ar ol hau ceirch), mewn tir ar ol maip neu bytatws, ar y gororau gorllewinol a deheuol. Ar lenydd y môr, heuir ef yn y tyndir, yn y sofl gwenith, ac yn y sofl ceirch hefyd, fel y mae mwyaf gresynus dywedyd. Tir sych, ysgafn, tywodlyd, y mae haidd yn ei ddewis oreu. Adwaenir gwahanol fathau o haidd wrth y dywysen, sef y dywysen hir goliog, yr un fer goliog, a'r un hir ddigol. Gwaethygu y bydd y *chevalier* bob tro wrth ei hau, ac yn fuan yn dirywio i natur haidd y wlad. Haidd o natur y dywysen ddigol, â gwellt byr ganddo, yw y mwyaf dewisol gan y bragwr, a dyma yr un sydd yn gweddu oreu i'r wlad. Gwell gan y melinydd a'r bragwr hedyn caled, crwn, lled ddysglaer, ac wedi crychu ei groen. Cefais brawf o haidd rhagorol a ddaeth o Norfolk. Heuwyd tri chrynog (*imperial quarters*) o hono mewn deg erw o dir, a chafwyd triugain o grynogau o haidd glân oddiwrth yr heuad yma! Oddeutu hanner crynog i'r erw a heuir yn gyffredin, ond nid oeddwn wedi hau mwy na dau *bushel* a hanner (sef 5 cibynaid) i'r erw. Dyna oedd y cynnyrch trymaf a welais erioed; ond nid yw y cynnyrch cyffredin yn y Dywysogaeth, a'i gymeryd at ei gilydd, byth yn cyrhaedd y ddegfed.

Norfolk, neu *Roundland*, sef yr hedyn a enwyd uchod, mae yn debygol, sydd â thywysen fain, hir, ganddo;—bydd y bragwr yn ei ddewis.

Chevalier. Y mae y gronyn yma yn ddewisol gan bawb, ond hawdd ganddo golli yn y cynauaf; tywysen fer, a gwellt rhywiog, sydd iddo.

Sprat;—gwellt anystwyth, tywysen gryno ac yn fer, gronyn bychan, a saif i fyny pan y bydd pob un o'r rhai blaenorol yn gorwedd, sef yr haidd cyffredin yn y wlad.

Yn yr haidd y mae tir Cymru yn hadu oreu, a mwyaf glanwaith. Gwelais brawf teg o hyn eleni, sef yn y gwenith, yr haidd, a'r ceirch; yr oedd y tir yn berffaith lân yn mhob un o'r meusydd, a phob un wedi ei drin yn yr un modd i faip, a chnydau gleision. Y mae y gwahaniaeth i'w weled yn amlwg, sef yn y maes haidd y mae y gwair oreu o ddigon; y ceirch yw y nesaf; a phob un o'r rhai hyn yn well na'r maes lle bu y gwenith. Yr oedd y gwair a'r meillion wedi eu hau yn y gwenith yn y

gwanwyn, o dan y *rowler*, fel y mae yn arferiad lled gyffredin wrth hadu yn y gwenith.

Y mae yr haidd yn haws i'w ddyfetha yn y cynauaf, ar dywydd gwlyb, na'r ceirch; yn chwannog i fragu gydag ychydig iawn o leithdra. Bydd y meillion a'r gwair, yn môn yr ysgub, yn anhawdd eu gwywo a'u sychu, ac felly yn gwneyd i'r haidd dwymno yn fynych yn y das. Cynghoraf amaethwyr Cymru i newid yr hadyd yn fwy mynych, sef yr hyn a dyf mewn tir cleiog, am yr hyn a dyf mewn tir tywodlyd neu dir ysgafn; y mae y drefn yn sicr o ateb: dylid newid yr hadyd bob blwyddyn er sicrhau ffrwythlondeb yn y cnydau dyfodol; ac os gellir cael hadyd o wledydd eraill o'r un hinsawdd, goreu yn y byd a mwyaf buddiol fydd y cynnyrch.

Dyma y gronyn ŷd a fwyteir yn fwyaf cyffredinol yn Nghymru, sef bara haidd; ac ni welir mewn llawer tyddyn bychan, o un pen i'r flwyddyn i'r llall, ddim bara arall, heblaw ambell i dorth geirch ddydd Sul, neu dorth wen (o wenith) yn y Gwyliau.

Ceirch, yw prif gynnyrch y rhan ddeheuol, orllewinol, a gogleddol Cymru; heuir ef yn gyffredin yn y tyndir, weithiau mewn sofl gwenith, dro arall mewn sofl haidd, ac yn aml yn ail gnwd mewn sofl ceirch. Oddeutu diwedd Mawrth a dechreu Ebrill, yw yr amser goreu i'w hau. Mae Mr. Morton, yn ei draethawd ragorol ar briddoedd, yn cadarnhau ac yn gwirio y drefn sydd mewn arferiad mewn rhan helaeth o Gymru; sef mai ar bridd cleiog, yn gorwedd ar siâl, y ffyna ceirch oreu: felly y gwelir ef yn tyfu mor naturiol yn y rhanau hyny o'r wlad sydd yn gorwedd ar y siâl neu y *slate formation.* O'r ardaloedd hyny y bydd y marsiandwyr yn dewis cael ceirch. Y mae yn ffrwytho yn well ar dir lled rwym, nag ar dir ysgafn tywodlyd; ac yn wir ni ddylai yr amaethwyr, lle mae ceirch yn ateb iddynt mor ragorol, amcanu tyfu gwenith ar y fath dir: ceir gwell porthiant yn y gwellt i'r anifeiliaid ieuainc, a bydd marchnad rwydd a pharod i'r ceirch bob amser. Heuir ef yn gyffredin o chwech i wyth *bushel* (*imperial quarter*) yr erw: y mae hanner crynog yn ddigonol mewn tir da. Bydd y cynnyrch yn gyffredin ar y seithfed mewn tir naturiol i geirch, ond yn amrywio o'r chweched i'r ddeuddegfed. Yr ydwyf eto gyda'r gronyn yma, fel yr haidd a'r gwenith, yn ystyried na ddylid ar un cyfrif hau yr un hâd yn yr un tir yr ail waith. Wrth newid hadyd y naill amaethwr gyda'r llall, bydd y cynnyrch yn sicr o fod yn fwy toreithiog, y gronyn yn gryfach, gafael *sharp* ganddo, a gwell lliw arno. Y *ceirch cyffredin,* fel ei gelwir, sydd yn ffynu oreu mewn tir lled gleiog, lled ysgafn, ac yn cydweddu yn well â hinsawdd y wlad; ond lled hawdd ganddo gymysgu gyda'r torllwyd. Y mae ceirch o fynydd-dir a gwastadedd Scotland, wedi ei hau mewn manau yn Nghymru—cynnyrchodd yn helaeth y tro cyntaf, ond gwaethygu yr oedd bob blwyddyn. Mewn brasdir cryf, gwelir ceirch cwta (*potatoe oats*) yn cynnyrchu yn doreithiog iawn, ac fe dŷn llawn cymaint o nerth y pridd ag a wna y gwenith; natur colli sydd ynddo, yn enwedig ar wynt a gwlaw, ac nid yw y gwellt mor lesol a buddiol i'r anifeiliaid at eu porthi. Ceirch crib y ceiliog (*Tartarian*), a'r ceirch du, sydd wedi eu hau amrywiol weithiau, ond nid ydynt yn ffynu i ddyfod i arferiad cyffredinol: hen geirch y wlad, sef ceirch cyffredin, sydd yn y diwedd yn gwneyd i fyny wallau, diffrwythdeb, a methiant y cwbl. Gwelais gymydog i mi wedi hau ceirch, a gafodd o *Yorkshire* ddwy flynedd yn ol, ac sydd yn debyg yn ei "liw a'i lun" i geirch cyffredin Cymru; gelwir ef yno *fielded*

oats; ac yr wyf yn falch o allu dywedyd ei fod wedi gwellhau ar ol talu ymweliad â'n hinsawdd ni—yr hedyn yn gryfach; ond yr oedd y lliw yn melynu; mae yn debygol o achos gwahaniaeth yn yr hinsawdd: yr oedd hinsawdd dyner Lloegr yn ei gànu yn well: y mae y gwellt yn fân, glân, a rhagorol at borthiant. Heuwyd tri chibynaid i'r erw o hono. Lled deneu oedd y cnwd, gwell fuasai ei hau yn dewach: gwnaed hyny y llynedd, a chafwyd y cnwd mwyaf toreithiog a welais erioed, ac yn rhoddi cynnyrch ar y deunawfed! Bai mawr yw hau yr un hadyd ddwywaith yn yr un lle; y mae yn gwaethygu y tir bob tro. Y mae yn ffaith addefedig, y dylid rhoddi cnwd glas rhwng pob cnwd gwyn, onidê, ffarwel am hwsmonaeth dda. Ni welais ddaioni o hau ceirch yn rhy gynnar; y mae tymmorau gwlybion yn rhoddi digon o brawf o hyn; o herwydd gwelwyd ar diroedd lle yr hauwyd yn gynnar, ŷd melyn, salw, y tir yn fudr ac yn llawn chwyn. Dyma yw y canlyniad o hau ar dywydd rhy wlyb.

Wrth *hadu y tir â had gwair a meillion* (*clover*), &c., y mae y wlad yn gyffredinol yn hynod o esgeulus, a chanfyddir ychydig iawn o ofal yn newisiad yr had; nid ydyw ddim ond ysgubion y llofft wair, a hwnw yn cynnwys pob rhywiogaethau o hadau o wair ac o wellt, a llawer o chwyn a baw ynddo. Cyn rhoddi yr had yn y maes y dylid ymdrechu i gael y tir yn lân, a dewis yr had mwyaf addas, pa un ai at wair ai porfa. Os yr olaf, rhaid cael hadau blyneddol, dwy flyneddol, a pharhaol. Gwelir fy nhrefn i o hadu yn tudalen 340, lle y cyfeirir y darllenydd.

Pe byddai ffarmwyr y wlad ond yn unig yn parotoi gwely lled helaeth o *perennial ryegrass, lucerne, foxtail, dog's tail, sweet scented spring grass*, melyn-wellt y gwanwyn (ag sydd yn peri y fath berarogliad ar y gwair ar ol ei dori), rhonwellt y gath, a rhonwellt y ci, ac amrywiol o hadau eraill a ellid eu henwi ag ydynt dra llesol i'r gwartheg a'r anifeiliaid eraill, a chadw yr had yma i hadu y tir, byddai y cnydau gwair yn fwy toreithiog, a'r borfa yn fwy bras a maethlawn. Ond yn lle hyny, ni welir mewn llawer cae gwair ieuanc, ond y ceiliog penddu, y marchwellt llwyd, y tafol coch, y carn ebol llwydwyn, y bresych melyn, y llygaid dydd, a'r dorllwyd gynnyrchiol, gyda llawer o blanigion eraill lled gas gan y ffarmwr eu gweled, ac sydd yn arwydd o annhrefn a difaterwch yn nhrefniad y tir, ac yn newisiad yr had. Wrth y cae gwair ieuanc yr adnabyddir yr amaethwr medrus gyntaf o un lle; a'r man cyntaf yr holir am dano wrth gerdded y tyddyn, yw "Pa fath gae gwair sydd genych?—pa fodd y mae wedi cymeryd ei had?—pa un ai yn yr haidd, y gwenith, ynte y ceirch yr hadwyd?" Cofied y ffarmwr mai ei brif ddyledswydd yw rhoi i lawr y tir yn y cnwd cyntaf ar ol y tail bob amser—gofalu bod y cae yn lân pan wnelo hyny—ac felly bydd y tir yn barod i'w dori i fyny drachefn heb gymhorth gwrtaith; a bydd yn lân i dderbyn yr ŷd pan y dewiso yr amaethwr.

Dyma y drefn a gymerais i tuag at lanhau fy nhir gwair oddiwrth y ceiliogod penddu. Yr oedd yr had gwair, a'r gwair hefyd o ran hyny, yn llawn o geiliogod duon, fel nas gwyddwn yn fy myw pa beth i'w wneyd iddynt; ond pan ar ddiwrnod gwlawog yr oedd yr ysgubor yn dygwydd bod yn wag, a'r had gwair wedi ei ogryn, aethum ynghyd â threio ei nithio gyda'r peiriant (*winnowing machine*). Nithiasom wyth crynog: teflais yr had cawn, gwael, ysgafn, o'r neilldu gyda'r had ceiliogod, a heuais yr had goreu, a chefais well cnwd o wair y tro hwnw nag erioed; ac y mae y

maes yn mha un yr heuais yr had yn dangos y budd o gael yr had yn lân oddiwrth y ceiliogod. Nid yw yr had ceiliogod yn dda i ddim. Tynais y pryd hwnw bum sachaid o had ceiliogod o un sach ar bymtheg o had gwair. Cymerais gryn drafferth i ailnithio yr had ceiliogod amryw weithiau, hyd nes yr aeth yn hollol lân fel had meillion cochion; ac yr oedd sachaid o hono mor drom a sachaid o had *clover*. Meddyliais y buasai yr anifeiliaid yn hoff iawn o'r ceiliog penddu. Rhoddais hwynt i'r ceffylau i ddechreu; na, ni wnânt mo'r tro gan y meirch: rhoddais i'r gwartheg drachefn, ond heb fod yn ddim haws: ac yn olaf, rhoddais i'r moch, ond dim haws eto; nid oedd un creadur a fwytäai yr had ceiliogod. Berwais drachefn hanner *bushel* o honynt mewn *boiler* lled fychan, gan feddwl y buasai pob anifel yn eu llyfu wedi eu berwi; ond nid oedd genyf un creadur a roddai ei drwyn yn y drwyth. Ac erbyn gweled pob peth yn ei wrthod, penderfynais fy mod wedi gwneyd gwaith da trwy nithio had gwair, hwsmonaeth na chlywais erioed son am dani cyn hyny; ac yr wyf yn barnu yn gadarn y gall yr un driniaeth ar had gwair fod o fudd dirfawr ar wastadedd ac iseldir Cymru.

Tra yr ydwyf yn son am y gwair, nid anfuddiol yw cynghori amaethwyr Cymru i gasglu y ceryg i ryw un man o'r meusydd, yn lle eu gadael yn bentyrau bychain ar hyd y maes: y maent nid yn unig yn dwyn lle y gwair i dyfu, ond yn dangos hwsmonaeth ddiog ac aflêr iawn.

Wedi i'r amaethwr gael ei hadau, a'i lafur, i'r ddaear, rhaid dysgwyl am amser y cynauaf—sef yr adeg i'w dori i lawr. Am yr amser goreu i ladd gwair, tybygwyf fod y ffarmwyr yn Nghymru yn ei adael i fyned yn rhy ddiweddar ac yn rhy addfed cyn tori i lawr. Gwell fyddai lladd gwair wythnos neu naw niwrnod yn gynnarach, os caniatäai y tywydd: byddai mwy o ffrwyth ynddo, a byddai yn bereiddiach i'r anifeiliaid. Aml y gadewir i'r gwair sefyll heb ei dori, hyd nes y bydd yn sychu i fyny, a llai o faeth ynddo na gwellt ceirch. Yr ydym hefyd yn amser y cynauaf ŷd, yn gadael yr ŷd ar ei draed yn rhy hir heb ei dori i lawr; a thrwy hyny yn colli yn fynych fwy o hono na'r hadyd a roddwyd yn y tir.

Pan bydd y tymmor yn wlyb, rhaid gwneyd yr ysgubau a'r styciau yn lled fychain; sychant yn gynt ar ol cawod. Lled annhaclus ydym hefyd gyda chynnull mewn llawer ardal: dim gofal, ond yn unig am gyrhaedd pen y cefn, a gadael yr ŷd yn bentyrau ar hyd y maes. Trefn hynod o daclus a welais ar un ffarm y cynauaf diweddaf, ydoedd fel hyn:—Pob un o'r cynnullwyr yn cario cribyn bach gydag ef, ac yn casglu yr ŷd yn drefnus yn ysgubau, fel yr oedd efe yn myned yn ei flaen: yr oedd y cae oll yn lân yn y diwedd; a dywedodd y ffarmwr wrthyf, ei fod wedi ennill mwy na chyflog y gweithwyr wrth ddilyn y drefn yma, yn lle yr hen ddull oedd ganddo o gasglu gweddillion yr ŷd gyda'r "cribynau mawr." Mewn pethau bychain fel hyn y mae tyddynwyr Cymru fwyaf ar ol, ac yn colli mwy nag y maent yn ei ddirnad. Rhaid cynnilo, yn enwedig wrth gasglu gronynau bychain fel gronynau o ŷd, ag sydd yn gwneyd i fyny o un i un y llafur yn yr ardd ar ddiwedd y cynauaf. Wrth gario yr ŷd, yr un modd, dylem fod yn fwy gofalus: y mae llawer mesur o geirch wedi ei golli yn y cae, ar y ffordd, ac yn yr ardd.

Ar ol darfod y cynauaf, drachefn, dylem fod yn fwy trefnus a gofalus yn yr ardd a'r ydlan, yn enwedig gyda'r toi: nid canmoladwy ydyw llawer rhan o Gymru yn hyn; a lled fudr yn gyffredin y gwelir yr ydlans trwy y flwyddyn—gadewir i'r gwellt a'r gwair i ddyfetha yn y gwynt a'r gwlaw; a cholled fawr a geir am wrtaith i'r cnydau dyfodol.

Y CEISIWR TRYSOR.

O GOETHE.

Treuliais lawer dydd lluddedig,
  Llogell wag a chalon wyw;
Cyfoeth yw y fendith fwyaf,
  Tlodi melldith dromaf yw!
Yna yr eis i gloddio trysor
  Maes i'r coed, gan ddweyd yn llyn:—
"Ellyll! eiddot byth fy enaid!"
  Ac â'm gwaed llofnodais hyn.

Lluniais yna 'r cylch cyfaredd,
  Cynais y cyfriniol dân,
Trefnais lysiau 'r swyn a'r esgyrn,
  Treithais yr orchanol gân;
Chwiliais am yr aur cuddiedig,
  Chwiliais fel am wrthddrych cu,
Megys y'm dysgasai 'm hathraw,
  Gerwin oedd y nos a du.

Gwelais lewyrch yn ymddangos
  Draw o bell, fel seren dlos;
A dynesai pan y seiniai
  Tafod oer cnul canol nos:
Deuai 'n mlaen yn chwai gan fflachio,
  Fel y tanllyd win a chwardd,
Pan y llif o'r fail agored—
  Hwn a ddygai llencyn hardd.

Am ei ben oedd talaith ddysglaer,
  Syniad oedd ei lygad mwyn;
Yna mewn i'r cylch y camai,
  Gyda'r goleu oedd e'n ddwyn:
Ceisiodd genyf brofi 'r cwpan;
  Tybiais innau—"Nis gall ddim,
Mai y llencyn hwn yw dygydd
  Rhoddion drud yr ellyll im'!"

"Profa draflwnc pur fodolaeth,
  O'r aur gwpan ger dy fron;
Ac â'th farwol hud a lledrith
  Mwy na ddychwel i'r fan hon:
Am drysorau 'n hwy na chloddia;
  Bid dy eiriau swyn rhagllaw—
'Dydd i lafur, nos i orphwys,'
  Felly hedd i ti a ddaw."

Y GWEITHREDOEDD ER SEILIAD Y BYD.

"Canys yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa, megys y dywedodd efe, Fel y tyngais yn fy llid, Os änt i mewn i'm gorphwysfa i: er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd." *Heb.* iv. 3.

YR ydym yn cydfarnu yn hollol â Tholuck am y rhan gyntaf o'r bedwaredd bennod o'r llythyr at yr Hebreaid, "nad oes ond ychydig o'r esbonwyr wedi bod yn llwyddiannus i olrhain yn eglur gysylltiad y meddylddrychau ynddi." Dywedir gan awdwr arall, fod hyn i'w briodoli, nid i aneglurder yr adran ei hun, ond i ddiffyg hunan-ymwadiad yn y beirniaid; am eu bod yn dwyn gormod o'u meddyliau eu hunain tuag at ei hegluro, yn hytrach na chymeryd geiriau yr apostol fel y maent.

Fe allai na fyddai yn anfuddiol i ni geisio gwneyd ychydig sylwadau ar y gair *gorphwysfa*, yr hwn sydd yn dygwydd mor fynych yn y bennod, cyn myned at y frawddeg a ddodasom uwch ben yr ysgrif.

Mae yn y bennod ddau air yn cael eu cyfieithu yn y testun Cymreig *gorphwysfa.* Hyd y nawfed adnod, *καταπαυσις* ydyw y gair; yn y nawfed adnod, *σαββατισμος* ydyw y gair a ddefnyddir. Cymhwysir y cyntaf at orphwysfa Duw yn Sion (*Salm* cxxxii. 14), at orphwysfa Israel yn Nghanaan (*Heb.* iii. 10), ac at yr orphwysfa ysbrydol dan yr efengyl (*Heb.* iv). Mae yn eglur mai yr un arwyddocad sydd i *καταπαυσις* yn yr adnod 1af, ag i *σαββατισμος* yn y 9fed. Yn y naill y mae yr apostol yn dwyn ei osodiad i mewn; ac yn y llall, mae yn diweddu ei ymresymiad. Nid yw *σαββατισμος* i'w gael mewn un lle arall yn y Testament Newydd, nac ychwaith yn y Deg a Thriugain. Gair Hebreig ydyw, gyda diweddiad Groeg; a defnyddir ef, mae yn ddiammhau, gyda chyfeiriad at yr ymadrodd yn *Gen.* ii. 2, lle y dywedir fod Duw wedi gorphwys oddiwrth, ac yn ngwaith ei ddwylaw. Sicrha un beirniad nad yw y gair i'w gael ond unwaith mewn un awdwr Groegaidd, oddieithr yn yr adnod dan sylw, sef yn Plutarch (*de superstitione* 3), ac mai ei ystyr yno ydyw *cadwraeth Sabboth;* a chyfieithir ef gan Macknight felly yn y lle hwn—*sabbatism;* "Y mae *cadwraeth Sabboth* eto yn ol i bobl Dduw."

Er mai yr un ystyr sydd i'r ddau air gan yr apostol, eto, mae yn ddiammhau fod ganddo ei amcan yn y newidiad hwn. Yr oll a ddynodir yn *καταπαυσις* ydyw y *ffaith* fod gorphwysfa yn bod dan yr efengyl; ond mae *σαββατισμος* yn dynodi ei natur—pa *fath* orphwysfa ydyw. Cyfeirir yma at *adn.* 4, y lle y dywedir fod Duw wedi gorphwys ar y seithfed dydd. Gelwir Gwlad yr Addewid, i'r hon y dygwyd Israel gan Joshua, yn orphwysfa; ond gelwir yr orphwysfa i ba un yr arweinir y credinwyr gan Iesu Grist, tywysog (*αρχηγος*) eu hiachawdwriaeth, yn *gadwraeth Sabboth;* nid gorphwysfa ddaearol, fel yr eiddo Israel yn Nghanaan, ond gorphwysfa o natur annhraethol fwy pur, ysbrydol, a dyrchafedig; gorphwysfa fwy haeddawl o'r enw goruchel "gorphwysfa Duw," am ei bod o'r un natur a'r tawelwch mawreddus a fwynhäai y Duwdod wedi perffeithio gwaith y nefoedd a'r ddaear, ac o'r un natur a'r orphwysfa oruchel a fwynha y Duwddyn yn y digonolrwydd llawenydd sydd ger bron Duw, a'r digrifwch sydd yn dragywydd ar ei ddeheulaw.

Yr oedd yr orphwysfa hon, "sydd eto yn ol i bobl Dduw," yn cael ei dal ger bron dynolryw trwy yr holl oesau fel uchelnod i eneidiau blinderus gyrchu ati; ac yr oedd ganddynt yn y cyfamser orphwysfa o ryw natur yn cael ei mwynhau fel arddangosiad o'r orphwysfa ysbrydol. Rhoddwyd iddynt y seithfed dydd fel arwyddlun o honi; yr oedd y ffaith fod Jehofa yn gorchymyn i ddynolryw syrthiedig gofio cadw a sancteiddio dydd o orphwysfa—y ffaith fod y seithfed dydd wedi ei adferu i ddynion ar ol y cwymp, yn brawf fod y meddwl anfeidrol yn gorphwys, nid yn unig ynddo ei hun, ond mewn cynghorion a bwriadau oeddynt i gael eu dadguddio "yn ei amseroedd priod" o barth i adferiad dynolryw; ïe, yr oedd yr ystyriaeth fod Duw wedi neillduo dydd o orphwysfa yn awgrymiad nad allasai, yn gydweddol â'i gymeriad, roddi cymaint a hyny i droseddwyr ond ar sail trefn, eto heb dderbyn ei hegluriad llawn, yn yr hon y gallai y Barnwr digofus, a'r troseddwr euog ynghyd, fwynhau gorphwysfa a digrifwch llawn yn dragywydd.

Gan fod y genedl Iuddewig, o herwydd ei bod yn ei babandod megys, yn ddarostyngedig, i raddau helaeth, i ddylanwad gwrthddrychau y synwyrau, rhoddwyd gwlad Canaan iddi fel arddangosiad o "wlad well" a gorphwysfa fwy rhagorol. Bwriadai Jehofa Wlad yr Addewid, nid i fod yn *wir* orphwysfa i'r genedl, ond fel insel o honi; yr oedd fel ysgol Jacob, wedi ei gollwng i waered o'r nef, fel y gallent ymddyrchafu ar hyd-ddi oddiwrth y gweledig at y dwyfol, yr anweledig, a'r ysbrydol. Ond yn lle hyny, arosent gyda'r daearol, ceisient wneyd Canaan yn *wir* orphwysfa iddynt, ond nis gallent; yr oedd yr ysbryd aflonydd oddimewn yn dyheu am rywbeth gwahanol, uwch; ac yn sibrwd, Nid dyma fy ngorphwysfa. Yn lle esgyn yr ysgol, gan eu diymadferthedd, ni wnaent ddim ond chwareu fel plant oddeutu ei godreu; ymfoddlonent, gan mwyaf, ar yr arddangosiadau, heb ymestyn at y peth mawr a arwyddid—yr orphwysfa ysbrydol ei hun. Yn mhen oesoedd ar ol i Joshua eu harwain i Wlad yr Addewid, a phan oeddynt yn y mwynhad uchaf o honi, cawsant brawf nad oeddynt weid myned i mewn i'r orphwysfa, yn ol ystyr eithaf yr ymadrodd; oblegid y mae yr Ysbryd Glân, trwy enau Dafydd, yn eu taer gymhell yn ei amser ef i fyned i mewn iddi; a'r orphwysfa hon, nas gallasai Joshua eu dwyn iddi, i'r hon y mae y Salmydd yn eu hannog i fyned i mewn, ydyw yr orphwysfa sydd eto yn ol i bobl Dduw, i'r hon y mae yr Hwn, nad oedd Joshua ond cysgod gwan o hono, yn arwain y credinwyr, had ysbrydol Abraham, dan yr efengyl.

Pa beth, yn fwyaf neillduol, a feddylir wrth ei orphwysfa ef? Dyma gwestiwn a ofynir yn lled fynych; pa un ai y Sabboth Cristionogol, ynte gorphwysfa yr enaid blinderus yn Nghrist ar y ddaear, ynte yr orphwysfa berffaith a thragywyddol yn y nef? Tybia rhai, oddiwrth ddefnyddiad y gair σαββατισμος, ei fod yn cefnogi y golygiad cyntaf. Ond y mae yr ystyriaethau canlynol yn gwneyd hyny yn annhebyg. 1. Nid yw y gair, yn y ffurf hon, yn golygu y dydd Sabboth mewn un man: nid yw ar gael, fel y sylwyd o'r blaen, ond dwy waith mewn unrhyw awdwyr; a'r ystyr ganddynt hwy ydyw yr *act* o gadw Sabboth yn hytrach na'r dydd ei hun. Pe σαββατον fuasai y gair, buasai cryfach sail i gredu mai hyn ydyw y meddwl. 2. Mae yn eglur fod "gorphwysfa" yn y nawfed adnod yn golygu yr un peth a "gorphwysfa" yn yr adnod gyntaf. Ymddengys hyn oddiwrth yr hyn a ddywedasom o'r blaen, sef fod y naill yn cynnwys y gosodiad, a'r llall ddiwedd ymresymiad yr awdwr—ac y mae y peth nesaf

i anmhosibl credu y golygir y Sabboth Cristionogol yn yr adnod gyntaf. 3. Mae "yr orphwysfa" yn cael edrych arni, nid fel sefydliad newydd, priodol i ddyddiau yr efengyl, ond fel rhywbeth oedd yn bod trwy yr oesau blaenorol, ac yn cael ei bortrëadu a'i arddangos gan sefydliadau eraill—annogid yr Israeliaid i fyned i mewn iddi pan oedd y Sabboth Iuddewig yn cael ei fwynhau ganddynt, yr hyn sydd yn dra anghydweddol â'r golygiad a nodwyd. Tybiwn mai ystyr syml y gair yw hyn:—Duw yn ei drefn yn *wir orphwysfa* i ddyn yn y byd hwn a'r hwn a ddaw. Yn ol hyn, mae y tri syniad blaenorol yn *hanfodol un*. Gorphwysfa, a gorphwysfa i enaid, a gorphwysfa yn Nghrist, ydyw yr eiddo credinwyr ar y ddaear ac yn y nef. Yr un mewn hanfod ydyw hyn hefyd a'r Sabboth Cristionogol. Crefydd Crist wedi cyrhaedd perffeithrwydd fydd y nefoedd; crefydd Crist yn ymestyn am y perffeithrwydd hwnw ydyw y Sabboth. Cristionogaeth wedi ymryddhau yn hollol oddiwrth bob elfenau anmherthynol iddi a fydd gorphwysfa y nef; Cristionogaeth *yn* ymryddhau, *yn* ymddattod oddiwrthynt, ydyw gorphwysfa y dydd cyntaf o'r wythnos; ac y mae gwir fwynhad o'r naill yn ernes o lawn fwynhad o'r llall; ac ni ellir dyweyd fod neb yn "myned i mewn" i ysbryd gorphwysfa y Sabboth ond yr hwn sydd yn myned i mewn i orphwysfa Duw yn yr efengyl.

Ond yr ymadrodd mwyaf anhawdd ei ddeall yn yr ymresymiad yn y bennod, ac a addefir felly gan yr esbonwyr hyny sydd yn alluog i weled anhawsderau (oblegid y mae llawer o honynt, ysywaeth, nid yn unig yn analluog i symud anhawsderau, ond i'w canfod), ydyw y frawddeg ddiweddaf yn y drydedd adnod, *καίτοι τῶν ἔργων ἀπὸ καταβολῆς κόσμου γενηθέντων*, a gyfieithir yn y testun Cymreig, "Er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd." At ba weithredoedd y cyfeirir yma? Pa beth yw cysylltiad yr ymadrodd â'r mater dan sylw? Mae yn ddiammheu genym y byddai cais i roddi atebiad i'r cwestiynau hyn yn dra boddhaol gan ein darllenwyr. Er mwyn hyny, rhestrwn olygiadau yr esbonwyr dan dri dosbarth.

1. Y rhai sydd yn ystyried yr ymadrodd fel helaethiad ar yr hyn a ddywedasid yn flaenorol, neu ddesgrifiad chwanegol o feddwl y gair *gorphwysfa*. Yn y dosbarth hwn y mae Moses Stuart, Dr. Wilson, Barnes, ac amryw eraill. Cyfieitha Tindal y geiriau fel hyn, "Megys y dywedodd efe, Fel y tyngais yn fy llid, Os änt i mewn i'm gorphwysfa i, ac yn wir dywedodd hyny yn mhen amser maith ar ol gwneuthur y gweithredoedd er seiliad y byd." Mae y darlleniad hwn yn cludo rhyw feddwl, ond mae yn ammheus ai dyma feddwl yr awdwr. Mae y geiryn *καιτοι* yn cael ei gyfieithu yma i yn agos ddeg o eiriau. Aralleirir gan Dr. Wilson fel y canlyn, "Canys nyni, y rhai a gredasom, ydym yn myned i mewn i orphwysfa *yn wir* (*καιτοι*) oddiwrth y gweithredoedd a gyflawnir (gan ddynion) er dechreuad y byd." Rhydd Barnes y meddwl fel hyn, "Canys ni, y credinwyr, a awn i mewn i orphwysfa, yr orphwysfa *yn wir* a gymerodd le pan orphenwyd y gweithredoedd er seiliad y byd." Nid yw darlleniad Moses Stuart yn gwahaniaethu nemawr. "Fel y tyngais yn fy llid, ni chaiff anghredinwyr fyned i mewn i'm gorphwysfa; sef gorphwysfa oddiwrth y gweithredoedd a wnaethpwyd *wedi* (*απο*) seiliad y byd." Mae ganddo y sylwadau canlynol ar y frawddeg:—"Pa beth ydyw yr orphwysfa sydd dan sylw? Ai meddiant tawel o wlad Canaan? Nage, medd yr apostol. Mae credinwyr *yn awr* yn myned i mewn i'r orphwysfa, hyny yw, i'r orphwysfa hono a gynnygid gynt. Ymhellach, geilw Duw hi, "fy

ngorphwysfa;" sef y cyfryw orphwysfa ag a fwynhâai Duw ar ol gorphen creadigaeth y byd; felly rhaid mai gorphwysfa ysbrydol a nefol ydyw." Addefa Stuart y goddef y geiryn καιτοι yr ystyr a roddir iddo yn y cyfieithiad Cymreig, *er*, ond dadleua mai nid hyn yw yr ystyr fwyaf gwreiddiol, ond *et quidem, et sane,—ac yn wir*, neu *sef*; yna dwg ymlaen anghreifftiau o awdwyr Groegaidd dros yr ystyr hwn. Gwelir hefyd fod Stuart yn cyfieithu απο yn yr ystyr o *gwedi*, ac nid *er*. Wrth καταβολη, y meddylia, nid yr oll o'r cread, ond yr hyn a goffeir yn *Gen.* i. 1. "Seiliad adeiladaeth," meddai, "yw ei ddechreuad — ystâd neu sefyllfa ragbarotoawl i orpheniad yr adeiladaeth." Mae "seiliad y byd" felly, yn ol y dyb hon, yn arwyddo yr hyn a feddylir yn yr adnod gyntaf o Genesis wrth "greu nefoedd a daear,"—dwyn defnydd yr adeiladaeth i fodolaeth; ac y mae y gweithredoedd a wnaethpwyd *er* seiliad, neu *wedi* seiliad y byd, yn arwyddo gwaith perffeithiol y chwe' diwrnod. Mae yn amlwg, oddiwrth y ddyfais hon o egluro, fod Stuart wedi gweled un anhawsder ag yr edrychwyd drosto gan y nifer fwyaf o'r esbonwyr; oblegid wrth olygu fod "seiliad y byd" yn gyfystyr a phe y dywedasid "cread y byd," buasai y frawddeg yn dyfod i hyn:—"Er fod gweithredoedd y cread wedi eu cwblhau er cread y byd;" neu, "Er fod creadigaeth y byd wedi ei orphen er y mynyd y gorphenwyd ef;" dullwedd o ysgrifenu na fuasai un dyn call, heb son am apostol, byth yn ei ddefnyddio. Ond wrth olygu καταβολη yn yr ystyr o ddechreu gwaith, ac εργων γενηθεντων gweithredoedd wedi eu gwneuthur, yn yr ystyr o ddwyn y gwaith ymlaen hyd ei gwblhad, y mae yr wrthddadl uchod yn cael ei symud, a'r hyn a ymddangosasai yn aflerwch yn yr epistol, sydd yn arbenig yn nhlysni ei arddull, yn ymddangos yn drefnus a phriodol. Ond y cwestiwn yw, A ydyw y dull hwn o symud yr anhawsder yn gywir? Gyda phob parch dyladwy i Moses Stuart, yr ydym yn dadgan ein barn nad ydyw. Nid yw καταβολη mewn un anghraifft ysgrythyrol yn cynnwys y fath wahaniaethiad. Mae yn wir mai ei ystyr yw seiliad neu ddechreuad; ond hyd ag y gwelsom, nid yw yn un man yn arwyddo yr amlygiad cyntaf o allu creawl mewn cyferbyniad i waith y chwe' diwrnod; nid yw yn arwyddo yn gyfyng sylfaenu y byd, ond y gwaith o greu yn ei gyflawnder, εν πλατει; ac onid ymadrodd cymhariaethol ydyw hyn, gyda golwg ar ddull dynion o adeiladu? Gwaith ar ol *seilio* y tŷ ydyw ei orphen; ond os dilynwn y gymhariaeth i'w phellafoedd, yr ydym yn rhwym o fyned i ddyryswch gyda golwg ar weithredoedd Duw. Edrycher y manau hyn, a cheir gweled fod y gair yn cynnwys y gwaith o greu, o'i ddechreuad hyd ei gwblhad perffaith. *Mat.* xiii. 35; xxv. 34; *Luc* xi. 50; *Ioan* xvii. 24; *Eph.* i. 4; 1 *Pedr* i. 20; *Dad.* xiii. 8; xvii. 8.

Yr ail ddosbarth, ydyw yr esbonwyr hyny sydd yn egluro y frawddeg trwy adchwanegiadau. Yn y dosbarth hwn y mae Calvin, Tholuck, ac eraill. "I ddynodi ansawdd ein gorphwysfa," medd y cyntaf, "y mae yr apostol yn ein cyfeirio at yr hyn a adrodda Moses;—bod Duw, yn ddiatreg wedi creadigaeth y byd, wedi gorphwys oddiwrth ei weithredoedd; ac yna mae yn casglu mai hon yw gwir a thragywyddol orphwysfa y credinwyr. Ac yn wir, fel mai dedwyddwch uchaf dyn ydyw ymlynu wrth ei Dduw, felly dylai hyn fod ei amcan uchaf, at yr hwn y dylai gyfeirio ei holl feddyliau a'i weithrediadau. Profa hyn oddiwrth y ffaith fod Duw, am amser maith wedi iddo orphwyso ei hun, yn gwrthod rhoddi yr orphwysfa i anghredinwyr, yr hyn a wnai i ddim pwrpas, oni buasai fod Duw yn

ewyllysio i'r credinwyr gael gorphwys yn ol ei esiampl ef." Ymddengys i ni y gellir cynnwys syniadau Calvin yn y geiriau hyn—Er fod Duw wedi dyweyd na chaffai anghredinwyr fyned i mewn i orphwysfa, eto fod gorphwysfa yn bod—ei fod ef wedi gorphwys ei hunan—fod ei waith yn gommedd rhoddi yr orphwysfa i'r rhai na chredasent, yn ei sicrhau i'r credinwyr Cynnwysiad yr hyn a ddywed Tholuck ar yr ymadrodd yw hyn;—"Ni oddefid i'r Israeliaid fyned i mewn i'r orphwysfa, ac eto gorphwysodd Duw yn y nefoedd ar ol gorphen gwaith y greadigaeth; felly, *yr oedd* gorphwysfa allanol (*objective*) yn bod eisoes." Dull Bleek[1] o'i hesbonio yw hyn;—"Gorphwysodd Duw oddiwrth y *greadigaeth;* ond y mae gorphwysfa Duw yn adgyrchiol (*reciprocal*) yn ei natur—yn *gyd*orphwysiad: dyna 'r amser y mae Duw yn *gwir* orphwys, pan orphena y gwaith o ddadguddio ei hun i'w greaduriaid. Am hyny, y mae yn beth i'w ryfeddu fod y Sabboth wedi dechreu eisoes i Dduw, ac eto, er hyny, y mae creaduriaid y rhai nid ydynt yn cadw y Sabboth gydag ef, ie, nad *allant* ei gadw gydag ef." "Ond," fel y sylwa Dr. Ebrard, "y mae y syniadau hyn, er yn wir a phriodol, yn gyfryw nad ydynt yn codi yn naturiol o'r geiriau eu hunain; ac nid oes ynddynt ddim i ffafrio y golygiad fod Duw, er wedi gorphwys oddiwrth waith y greadigaeth, heb eto orphen y gwaith o amlygu ei hunan i'w greaduriaid."

Y trydydd dosbarth, ydyw y rhai sydd yn ystyried y frawddeg fel dechreuad disymwth yr ymresymiad a ddilynir hyd *adn.* 11. Ar ol crybwyll y gair gorphwysfa, yn yr adnod gyntaf, y mae yr apostol yn myned ymlaen i brofi ei bod. Barna rhai ei fod yn ateb gwrthddadl ag y gallasai yr Hebreaid ei chodi oddiwrth yr adnod gyntaf. "Paham y mae Paul, gyda chymaint o ddifrifwch, yn ein hannog i ofni rhag bod yn ol o'r orphwysfa; onid ydyw genym yn barod? Oni ddygwyd ni fel cenedl gan Josuah i Ganaan? Ac oni roddes yr Arglwydd ei Sabbothau i ni?" Gwir, medd yr apostol, ond y mae ei 'orphwysfa Ef' yn orphwysfa amgen na'r naill na'r llall: nid oeddynt hwy ond rhagddangosiadau o honi; nid oedd gorphwysfa y seithfed dydd yn llanw holl arwyddocâd y gair, oblegid tyngodd Duw am rai oedd yn cadw ei Sabbothau, 'na chaent fyned i mewn i'w orphwysfa ef,' ac yr oedd yr orphwysfa Sabbothol yn bod er seiliad y byd. 'Wel, ynte,' medd yr Hebread, 'yr orphwysfa yn Nghanaan ydyw.' 'Nage,' medd yr apostol, 'oblegid yn mhen oesoedd wedi dygiad y genedl i'r orphwysfa hòno, pan oedd eu mwynhad o honi bron a chyrhaedd i'w radd uchaf, y mae Dafydd yn annog y genedl i fyned i mewn i'r orphwysfa, gan ddywedyd, Heddyw; a phe dygasai Joshua hwynt i orphwysfa—i'r orphwysfa y meddyliai y Salmydd am dani—ni 'soniasai efe ar ol hyny am ddiwrnod arall.'" Yn y dull hwn y mae Macknight, Dr. Owen, Doddridge, ac eraill, yn egluro yr ymresymiad Aralleirir yr adnod gan Macknight yn y modd canlynol:—"Am hyny, yn ol addewid Duw, nyni, y rhai ydym yn credu, ydym yn myned i orphwysfa Duw. Ond y mae yn orphwysfa wahanol i orphwysfa y seithfed dydd, yn gymaint a'i fod ef wedi dyweyd am yr Israeliaid anghrediniol yn yr anialwch, Fel y tyngais yn fy llid na chânt fyned i mewn i'm gorphwysfa, er fod gweithredoedd y cread wedi eu gorphen, a'r seithfed dydd wedi ei sefydlu er seiliad y byd." Cawn hefyd y geiriau hyn, yn esboniad helaeth a rhagorol Dr. Owen, ar yr Hebreaid;—"Y mae rhesymiad yr apostol yn cael ei ddwyn ymlaen trwy *gyfrifiaeth* o

[1] Dyfynedig yn Ebrard ar yr Hebreaid.

heb gorphwysfa o eiddo Duw â'i bobl, y rhai a nodir yn yr ysgrythyrau. Ac wrth eu hystyried oll, y mae yn profi nad allasai un orphwysfa arall gael ei golygu yn neillduol yn ngeiriau Dafydd, ond gorphwysfa yr efengyl yn unig, i'r hon y mae credinwyr yn myned."

Yn awr, fe wel ein darllenwyr fod rhai o'r esbonwyr y dyfynasom o'u gweithiau, yn ystyried y frawddeg mewn ystyr gadarnhaol, a'r lleill yn ei deall mewn ystyr nacaol—rhai yn edrych arni fel eglurhad neu helaethiad o'r meddwl blaenorol, a'r lleill yn edrych arni fel gwyriad disymwth oddiwrtho. Wrth ofyn y cwestiwn, Pa orphwysfa ydyw yr hon y tyngodd Duw na chaffai yr Israeliaid fyned i mewn iddi? y mae Calvin, Tholuck, ac eraill, yn ateb, Yr orphwysfa a fwynhâai Duw ar ol creu y nefoedd a'r ddaear. Nage, medd esbonwyr eraill, profi y gwrthwyneb ydyw amcan yr awdwr.

Er eu bod yn anghytuno yn hyn, y maent oll, oddieithr Dr. Wilson, yn cydfarnu am un peth; sef, mai wrth y "gweithredoedd" y meddylir gweithredoedd y greadigaeth. Ond ymddengys fod yr arddodiad *απο* yn gwneyd hyn yn ammheus, os nad yn anmhosibl; oblegid nid yw, hyd ag y gwelsom, mewn un man yn y Testament Newydd, yn arwyddo *amser terfyniad gweithred*. Yn ol Robinson, ei ystyr yw, *o ryw amser ymlaen*. Gwelir hyn wrth gymharu yr ymadroddion canlynol:—*Math.* xi. 12; "Ac *o* (*απο*) ddyddiau Ioan Fedyddiwr hyd yn awr:" *Luc* i. 70; "Ei sanctaidd brophwydi, y rhai oedd *o* (*απο*) ddechreuad y byd:" *Luc* vii. 45; "Ond hon, *er* (*απο*) pan ddaethum i mewn, ni pheidiodd a chusanu fy nhraed:" *Act.* xxviii. 23; "*O'r* boreu hyd yr hwyr:" *Col.* i. 6, 9; "Yr hon sydd yn dwyn ffrwyth *er* (*απο*) y dydd y clywsoch;" "*Er* y dydd y clywsom, nid ydym yn peidio gweddïo drosoch:" 2 *Pedr* iii. 4; "*Er* (*απο*) pan hunodd y tadau:" 1 *Ioan* i. 1; "Yr hyn oedd *o'r* (*απο*) dechreuad." Yn yr holl esiamplau hyn, a llawer a ellid eu dwyn ymlaen, nid yw yr *απο* yn cyfyngu unrhyw ddygwyddiad i gyfnod a aeth heibio, ond yn ei ystyried *o hyny allan*. Mae yr arddodiad Cymreig, *er*, yn cynnwys y naill ystyr a'r llall. Mewn brawddegau nacaol, mae yn cyfyngu y dygwyddiad i'r amser a ddynodir; megys, er anghraifft, Ni welais y dyn *er* ys blwyddyn. Ond mewn brawddegau cadarnhaol, nid yw yn cyfyngu y woithred o ran ei pharhad, ond yn unig yn dynodi ei dechreuad, fel yn yr anghraifft ganlynol;—Y mae y dyn yn glaf *er* ys blwyddyn; neu, Mae y môr yn llanw ac yn treio *er* y dechreuad. Barnwn mai ystyr ddiweddaf yr arddodiad *er* ydyw yr ystyr briodol yn y frawddeg dan sylw, a bod "y gweithredoedd" yn arwyddo rhyw weithredoedd a gyflawnwyd o ddechreuad y byd ymlaen trwy yr oesau; os felly, nid allant fod yn weithredoedd y cread—yn weithredoedd Duw, ond yn rhai a gyflawnid o'r cyfnod hwnw *allan*—yn weithredoedd dynion. Ymddengys i ni mai Ebrard, proffeswr duwinyddiaeth yn mhrifysgol Erlangen, yr hwn a gyhoeddodd esboniad, yn lled ddiweddar, ar y Llythyr at yr Hebreaid, ydyw yr unig esboniwr a gafodd allan wir feddwl yr apostol yn y lle hwn. Ni a geisiwn roddi yr ystyr yn fyr ger bron ein darllenwyr.

Ar ol myned trwy feirniadaeth fanol ar ystyron y geiriau yn yr adnod gyntaf, ac edrych i mewn i olygiadau prif feirniaid yr Almaen, y mae yn rhoddi ei gwir feddwl yn y geiriau canlynol:—"Ymogelwn, gan hyny, tra y mae eto addewid i fyned i mewn i'w orphwysfa ef heb ei chyflawni, rhag i neb o honoch dybied (*δοκῃ*) ei fod yn rhy ddiweddar (*υστερειν*)," *h. y.*, ei

fod yn byw mewn amser ag y mae yr holl addewidion wedi eu cyflawni er ys talm, ac nad oes un iachawdwriaeth mwyach i'w dysgwyl, nac yn hawlio ein hegnïon mwyaf dyfal i'w chyrhaedd. Mae y drychfeddwl hwn yn cyduno yn berffaith â'r cyd-destyn. Mae yr awdwr, yn y fan hon, fel trwy yr holl epistol, yn bwriadu argraffu ar feddyliau ei ddarllenwyr yr ymwybyddiaeth nad yw y cyfammod newydd yn ol mewn dim i'r hen; nad ydyw Cristionogaeth yn rhywbeth a ellid ei hebgor;—ond yn hytrach fod Iuddewiaeth ei hun wedi ei gwneyd yn anhebgoradwy gan Gristionogaeth. Y mae, gan hyny, yn *adn.* 1, ac yn nechreu *adn.* 2, yn gosod Cristionogaeth *ar yr un tir* ag Iuddewiaeth. Y mae addewid am orphwysfa wedi ei gadael i'w chwblhau dan y ddiweddaf, fel dan y gyntaf; a phregethwyd yr efengyl i ni, megys ag iddynt hwythau: ond yn niwedd *adn.* 2, dechreua yr apostol ddangos pa fodd, ac yn mha beth, y mae Cristionogaeth *yn rhagori* ar Iuddewiaeth. Pregethwyd yr efengyl—gwahoddir ni i orphwysfa yr un modd a hwythau; yn hyn y mae Iuddewiaeth a Christionogaeth ar yr un tir: ond derbyniasom ni y cynnygiad mewn ystyr uwch a helaethach; mae y gair a bregethwyd i ni yn air annhraethol ragorach na'r gair a dderbyniodd yr Israeliaid trwy Moses. Nid allasai y gair a leferid trwy Moses gynnyrchu ffydd yn meddyliau y rhai a'i gwrandawent; arosai yn rhywbeth oddiallan iddynt. Cynnwysai addewid, mae yn wir, a chysylltai yr addewid âg ammodau; ond nid allasai eu cynnysgaethu â nerth i gyflawni yr ammodau hyny.

Ar yr ymadrodd yn yr *adn.* 2, "Eithr y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy," &c., y mae gan yr awdwr a grybwyllwyd y sylw canlynol, "Nid yw yn beth i ryfeddu ato, fod egluradaeth anghywir ar yr adnod gyntaf wedi arwain y nifer fwyaf o'r esbonwyr i gamddealltwriaeth hollol o *adn.* 2. Meddyliant mai y rheswm a ddygir ymlaen yma (fel yn *pen.* iii. 16—19) dros eu bod heb gyrhaedd yr orphwysfa, ydyw, *anghrediniaeth mewnol* (*subjective*) *yr Iuddewon;* ond yn hytrach yn yr adran hon, ystyrir mai yr achos o gyflawniad anmherffaith yr addewidion oedd *anmherffeithrwydd allanol* (*objective*) *dadguddiad yr Hen Destament.*" Ac yna dadleua yr awdwr, pe y meddwl cyntaf fuasai syniad yr apostol, na arferasai y geiryn cysylltiol ἀλλα yn nghanol *adn.* 2, ond δε, neu και—μεν, yr hyn a gytunasai yn well â'r syniad hwnw.

Gellir cynnwys golygiad yr awdwr ar y frawddeg a gyfieithir—"Am nad oedd wedi ei gyd-dymheru â ffydd yn y rhai a'i clywsant," yn y geiriau canlynol:—Nis gallasai y gair a gyhoeddwyd gan Moses i'r Israeliaid, yr hwn a gynnwysai *addewid* y dygid hwy i'r orphwysfa ddaearol, a'r gyfraith fel yr ammod cysylltiedig—nis gallasai y gair hwn gael ei uno â'r rhai a'i clywent trwy ffydd. Eglurir a chadarnheir y drychfeddwl hwn ymhellach gan *adn.* 12, yr hon, y mae yn ddiammhau, a ellir ei hystyried mewn cyferbyniad i *adn.* 2. Lleferir ynddi am "air Duw," dan y Testament Newydd, fel "yn llymach nag un cleddyf daufiniog, ac yn treiddio i'r cymalau a'r mer." "Yr oedd y gyfraith, fel gorchymyn, yn aneffeithiol, yn aros oddiallan i'r dyn; nid oedd ewyllys Duw a'i ewyllys yntau yn cael ei gwneyd yn un trwyddi; am hyny nis gallasai y gair a roddwyd iddynt trwy Moses fod yn fuddiol iddynt—nis gallasai y ddeddf gyda'i *gwna* a'i *na wna* effeithio ymostyngiad yn y galon, y duedd hòno o dderbyngarwch a ellir ei chynhyrfu yn unig gan gariad yr Hwn 'yn gyntaf a'n carodd ni,' yr hon duedd a elwir yn *ffydd*, ac sydd yn arwain i gymundeb bod a bywyd â Duw."

Yn awr, ar ol profi mai amcan ymresymiad yr apostol, yn y bennod, ydyw cyferbynu y ddau gyfammod neu y ddwy oruchwyliaeth â'u gilydd (yr hyn a addefir gan bawb ydyw ei amcan yn yr holl epistol)—dangos nad oes yr un fraint ag y gallasai y tadau ymffrostio ynddi dan yr hen, yn ol gan yr eglwys dan y newydd—a bod y newydd, a gair y cyfammod newydd, yn tra rhagori ar y gair a glybuwyd gan yr Israeliaid:—wedi profi hyn, y mae Ebrard yn rhoddi ystyr y frawddeg yn y 3ydd *adn.*—"Er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd." Mae yn y geiriau gyferbyniad—un o hoff gyferbyniadau yr apostol Paul—rhwng ffydd a gweithredoedd—πιστις ac εργα. Yn y geiriau, "Megys y dywedodd efe," y mae yr apostol yn dangos pa mor bell yr oedd hyd yn nod yr Hen Destament ei hun yn cyfeirio at annigonolrwydd y ddeddf a'i gweithredoedd; ac i'r dyben hwn y mae drachefn yn dyfynu o *Salm* xcv., "Fel y tyngais yn fy llid, Nid änt i mewn i'm gorphwysfa." Nid yw yr ymadrodd hwn o'r Salm, pa fodd bynag, ynddo ei hun, yn cynnwys yr un prawf o'r gosodiad blaenorol, sef mai trwy ffydd yn unig y gellir myned i mewn i'r orphwysfa; ond y mae y prawf hwnw yn gorwedd yn y frawddeg ganlynol, "Er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd."

Wedi sicrhau yn yr adnod flaenorol fod y gair a leferid trwy Moses heb ei *uno*, ei "gyd-dymheru" â'r gwrandawyr trwy ffydd, ond ei fod yn aros yn rhywbeth dyeithr ac allanol iddynt, ac am hyny yn gyfryw nas gallasai fod yn fuddiol iddynt. Mewn cyferbyniad i hyn, gesyd i lawr fel ffaith yn *adn.* 3, ein bod ni, "yr Israeliaid yn wir," had ysbrydol Abraham, yn myned i mewn i'r orphwysfa, a'n bod yn myned i mewn *trwy ffydd*. Beth gan hyny sydd yn fwy naturiol i'r darllenydd, bellach, na dysgwyl am y cyferbyniad cyffredin rhwng ffydd a gweithredoedd, yr hwn a ledawgrymir yn yr adnod flaenorol? Oblegid y mae gair yr efengyl yn gysylltiedig â ffydd, fel yr oedd gair y gyfraith yn gysylltiedig â gweithredoedd. Ni ddylid cyfyngu ystyr y gair "gweithredoedd" i gyflawniadau o'r deddfau a'r gorchymynion Moesenaidd; oblegid nid oedd y rhai hyn yn cael eu gwneuthur er seiliad y byd, ond yn unig er rhoddiad y ddeddf ar Sinai. "Yn hytrach," medd ein hawdwr, "llefara yr apostol yn hollol gyffredinol am weithredoedd dynion, am waith yr hil ddynol, am bob gweithrediad ac egnïon gwell neu waeth." Felly cymhwysir ystyr y gair yn hyn;—cyflawnwyd yr oll a ellir ei gynnwys yn y gair "gweithredoedd" o amser y cread ymlaen, ond ni bu erioed yn ddigonol i ddwyn dyn i sefyllfa o orphwysiad perffaith; a'r casgliad oddi wrth hyn ydyw, fod trefn gwbl newydd o iachawdwriaeth, nid yr hen drefn—trwy weithredoedd ac egnïon dynol—ond y drefn trwy ffydd yn iachawdwriaeth Duw, yn anghenrheidiol er mwyn cyrhaedd yr orphwysfa.

Cadarnheir hyn ymhellach yn adnodau 4, 5. Dengys yr apostol mai wrth y "gweithredoedd" y meddylir, nid gweithredoedd Duw, ond yr eiddo dynion mewn gwrthwynebiad iddynt Gorphwysodd Duw ar y seithfed dydd oddiwrth weithredoedd y cread: ac eto y mae yn dyweyd am ddynion, "Nid änt i mewn i'm gorphwysfa i." Yr oedd gweithredoedd Duw yn *dufewnol* yn berffaith, ac am hyny yn *allanol* yn gyflawn; ond yr oedd gweithredoedd dynion yn anmherffaith yn dufewnol—yn eu natur, ac oblegid hyny nid oedd un crybwylliad eu bod hwy yn gorphwys; am nas gallent weithio, nis gallent orphwys; am nas gallent gwblhau gweithredoedd gwirioneddol a pherffaith, nis gallent fwynhau gorphwysfa wirion-

eddol a pherffaith. Yr oedd y gwaith a'r llafur yn parhau, ac nid allent beidio, hyd oni chyrhaeddid yr amcan—*perffeithrwydd;* arosai hwnw heb ei gyrhaedd; ymbellhâai, megys, oddiwrth ddynolryw, er pob egnïon o'r eiddynt i'w gyrhaedd. Am fod gweithredoedd Duw yn berffaith, mwynhaodd y Gweithiwr orphwysfa gyflawn; ond am fod gweithredoedd dyn yn anmherffaith, yr oedd gwir orphwysfa yn beth na chyrhaeddasai y gweithiwr blinderus ac egwan mo honi byth, oni buasai i Jehofah gyfryngu, ac anfon ei briod Fab i weithio drosto. Yn awr, y mae gorphwysfa o natur oruchel yn nghyrhaedd ac yn ymyl dynion, trwy ffydd yn yr Hwn a aeth i mewn i orphwys oddiwrth ei weithredoedd ei hun, megys y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau.

Tybiwn ein bod bellach wedi gwneyd ein hawdwr a'n hunain yn ddigon dealladwy; pa fodd bynag, ni chwanegwn yn bresennol.

YR ANGHENRHEIDRWYDD O RODDI ADDYSG GYFFREDINOL I FERCHED IEUAINC.

NID ydym yn meddwl y cyfeiliornem, pe dywedem fod mwy o ddyddordeb yn y merched ieuainc nag mewn un dosbarth arall o'r gymdeithas ddynol. Maent fel pe byddent yn ganolbwynt attyniad, oblegid y mae llygaid y byd yn gyfeiriedig atynt. Nid oes neb o gyrhaedd eu dylanwad. Y boneddwr yn ei balas, fel y tlawd yn ei fwthyn, a swynir ganddynt. Cynhyrfant serch y dysgedig yr un fath a'r anllythyrenog. Mae awen beirdd enwocaf y byd, yn mhob oes a gwlad, wedi gosod eu holl alluoedd ar waith i'w canmawl, ac i dynu darluniadau o honynt; ac y mae athronyddion a doethion y ddaear wedi talu yn ewyllysgar deyrnged o barch i'w rhagoriaethau. Ond hyn sydd yn alarus i feddwl am dano, wedi y cwbl, er mor llawn ydynt o swynion a dyddordeb, nid yw addysg a diwylliant meddwl yr un dosbarth yn cael ei esgeuluso gymaint a'r eiddynt hwy. Ymddygir, yn rhy gyffredin, tuag atynt fel pe na byddai arnynt anghen am addysg, ïe, fel pe nad allent dderbyn un lleshad na budd trwyddo. Mae eithriadau i'w cael, mae yn wir. Ceir rhyw nifer fechan i addef fod addysg yn dda ac anghenrheidiol, hyd yn nod i'r merched ieuainc; ond deg i un, wedi y cwbl, na bydd yr oll o hono yn gynnwysedig mewn dysgu darllen ac ysgrifenu. Ni freuddwydir byth gan y lliaws o rieni yn Nghymru am eu hyfforddi mewn cynnifer ag un o gangenau gwybodaeth. Tra y treulir arian lawer ar addysg y bechgyn, gadewir, yn ddigon mynych, i feddyliau y genethod dyfu fel anialwch. Nid allwn chwaith ddysgwyl y bydd i un cyfnewidiad gymeryd lle gyda golwg ar hyn, hyd nes y cyfnewidir, yn gyntaf, deimladau a syniadau y wlad yn drwyadl ar y pwnc: oblegid y mae yn amlwg fod y wlad, bron yn gyffredinol, heb ddyfod i weled, ac o ganlyniad, heb ddyfod i deimlo yr anghenrheidrwydd o roddi addysg gyffredinol i'r merched ieuainc.

Beth, tybed, yw yr achos o'r esgeulusdod hwn? Pa fodd y rhoddir cyfrif am dano? Gadawer i'r pethau canlynol weini fel atebion:—

Mae meddyliau y cyffredin yn llawn o gamsyniadau niweidiol am alluoedd a chymhwysderau meddyliol y menywod. Ystyrir hwynt islaw y meibion, nid yn unig mewn nerth corfforol, ond hefyd mewn galluoedd eneidiol; ac y mae y camsyniad yma wedi gwreiddio mor ddwfn, nes y mae y wlad wedi ei llenwi âg ymadroddion diarebol yn gosod allan yr israddoldeb dychymygol hwn; mor gyffredinol mae y camsyniad wedi myned nes y mae y merched eu hunain wedi ei goleddu, ac y mae rhai o honynt yn ddigon gwresog i ddadleu o blaid ei gywirdeb. Ond yr ydym yn meddwl fod yn ddigon hawdd profi, er hyny, fod y merched, o ran eu galluoedd meddyliol, yn gyfuwch a'r meibion. Dywedir yn yr ysgrythyr, mae yn wir, mai y "llestr gwanaf" ydynt. Mae hyny yn wir, mor bell ag y cyfeiria at y corff; a hyny, yn ddiddadl, oedd gan yr apostol mewn golwg: ond nid yw hyn yn un sarhad arnynt, nac yn tybied ychwaith eu bod yn wanach mewn dealltwriaeth. Nid y dynion mwyaf cawraidd o ran eu cyrff yw y rhai sydd â'r galluoedd meddyliol mwyaf, yn gyffredin. Hwyrach mai anfynych, mewn cymhariaeth, y mae corff mawr a meddwl mawr yn cydgyfarfod yn yr un person. Oferedd, fel rheol gyffredin, fuasai rhoddi corff cawraidd i ferch; oblegid nid yw ei dyledswyddau fel gwraig a mam, fel ymgeledd gymhwys i ddyn, yn gofyn am dano. Nid yw y ffaith ei bod y llestr gwanaf o ran ei chorff, yn un prawf ei bod yn wanach ei galluoedd meddyliol.

Gellir dwyn amrywiol resymau ymlaen i brofi cydraddoldeb y merched, o ran galluoedd eneidiol, â'r dynion. Mae genym hanes creadigaeth y wraig gyntaf, ac nid oes yn yr hanes hwn gysgod o sail i dybied mai yn un israddol y gwnaed hi; ond yn hytrach, y mae yr holl hanes yn tybied i'r gwrthwyneb. Nid ellir canfod un gwahaniaeth rhwng galluoedd y genethod a'r bechgyn yn nhymmor eu plentyndod. Mae y genethod yn dysgu darllen, ysgrifenu, rhifo, ac unrhyw beth arall, mor rwydd a'r bechgyn. Mae eu hamgyffredion mor gyflym, a'u deall mor dreiddgar, a'r eiddynt hwythau. Pa fodd y gallai hyn fod, oni bai eu bod yn gydradd â hwy mewn galluoedd? Ac os oes unrhyw wahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd wedi tyfu i oedran, rhaid ei fod i'w briodoli i fanteision y naill, a diffyg manteision y lleill. Nid oes un gangen o wybodaeth nad yw wedi cael ei meistroli gan fenywod. Mewn barddoniaith a rhyddiaith, gwnaed cyfansoddiadau ganddynt nad ellir cael eu gwell gan neb. Pwy allasai ddyweyd mai menyw ydoedd awdures "Caban F'Ewythr Tomos," oni buasai i'r ffaith o hyny gael ei hysbysu? Ië, pwy a allasai gyfansoddi ei rhagorach? Ac nid ydyw hon yn rhyw un anghraifft unigol, oblegid y mae cyflawnder o honynt i'w cael ymhlith pob cenedl wareiddiedig, o'r bron. Yn holl gangenau gwybodaeth, y mae miloedd o honynt wedi rhagori. Nid allent fod yn ymgeledd gymhwys i ddyn, heb fod yn gydradd âg ef. Mae yn sarhad ar ddoethineb y Creawdwr da a doeth dybied iddo wneyd y wraig, ar yr hon y mae cymaint o gysuron a dedwyddwch y mab yn ymddibynu, yn israddol iddo. Mae gwraig i fod i ddyn, nid yn unig yn forwyn i wasanaethu i'w anghenrheidiau allanol, ond hefyd yn gydymaith iddo o ran ei ddeall, i ddal cyfeillach resymol âg ef, a bod yn gynghorwr a chynnorthwyydd iddo yn ei holl amgylchiadau. Ond nid allai fod felly, pe yn israddol iddo o ran ei galluoedd meddyliol. Os dywedir fod llawer o feibion yn rhagori ar y merched mewn gwybodaeth a dysgeidiaeth, dywedwn ninnau fod llawer o ferched yn rhagori ar feibion hefyd. Gall pob un alw

i gof chwiorydd callach a mwy gwybodus na'u brodyr; a gwragedd, yr un modd, na'u gwŷr. Os dywedir, drachefn, fod y cyffredin o wrywaid uwchlaw y cyffredin o fenywod mewn deall ac enwogrwydd, dywedwn ninnau fod yn hawdd rhoddi cyfrif am hyny;—yn gyffredin, mae y bechgyn yn cael llawer mwy o fanteision gwybodaeth na'r genethod. Twyllwyd y menywod, trwy hudoliaeth barn y cyffredin, i feddwl nad yw gwybodaeth yn perthyn ond y nesaf peth i ddim iddynt hwy. Yr athrofeydd a'r prifysgolion ag ydynt yn agored i'r dynion, ydynt yn gauedig rhagddynt hwy. Nid oes, ychwaith, gynnifer o gymhellion i'w symbylu hwy ymlaen a'r dynion. Mae teitlau, gwobrwyon, a swyddi o anrhydedd, yn symbylu y gwŷr ieuainc i ddiwydrwydd; ond nid oes yr un o honynt i symbylu y merched. Heblaw hyny, y mae ychwaneg o rwystrau ac anfanteision, yn gyffredin, ar ffordd y merched na'r meibion i chwilio am wybodaeth. Ymhlith y dosbarth isel, nid yw y forwyn yn cael dim amser bron i feddwl am wybodaeth, heb son am amser i chwilio am dani fel am drysorau cuddiedig. Ond nid oes yr un llanc, pa mor gaeth bynag ei sefyllfa, ac y mae yn gyffredin yn llawer rhy gaeth, yn enwedig yn y wlad, nad yw yn cael peth amser i ddiwyllio ei feddwl, os bydd ganddo duedd at hyny. Mae ganddynt, yn gyffredin, hefyd, lai o arian i brynu llyfrau; ac heb lyfrau, nid ellir gwneyd fawr o honi mewn hunan-ddiwylliant. Ond efallai mai y rhwystr penaf ydyw y gwarth a'r dirmyg a deflir yn barhaus ar fenywod gwybodus a dysgedig. Gelwir hwynt gan ein cymydogion, "*The blue stocking.*" Ysgöir eu cyfeillach, yn dra chyffredin, gan y llanciau, am eu bod, o bosibl, yn arswydo wrth feddwl am fenyw fwy gwybodus a challach na hwy eu hunain. Nid rhyfedd, gan hyny, wrth ystyried y camsyniadau, yr esgeulusdod, a'r anfanteision hyn, fod y merched ar ol y dynion mewn dysgeidiaeth a gwybodaeth; ac nid ellir dysgwyl iddynt fod yn amgen, hyd oni cheir diwygiad trwyadl a chyffredinol. Ond rhodder iddynt yr un manteision a chymhellion ag i'r meibion, a cheir gweled yn dra buan eu bod mor alluog i ragori mewn unrhyw wybodaeth a hwythau

Peth arall sydd yn rhwystr, yw y dybiaeth yn meddyliau y cyffredin nad oes ar y merched anghen am addysg gyffredinol, ac nad allai fod o nemawr leshad iddynt. Ond yr ydym yn hyderu y llwyddwn i ddangos yn eglur ac argyhoeddiadol, fod yr anghenrheidrwydd mwyaf i roddi addysg gyffredinol i'r merched ieuainc, ac y deilliai y budd mwyaf o hyny. Addefir gan bawb, yn bresennol, fod addysg mewn darllenyddiaeth ac ysgrifenyddiaeth yn anghenrheidiol a buddiol iddynt Ond y mae addysg gyffredinol yn eangach ei therfynau na hyny; mae yn cynnwys hyfforddiad mewn rhifyddiaeth, gramadegiaeth, ieithyddiaeth, hanesiaeth yn ei gwahanol ranau, daearyddiaeth, daeareg (*geology*), seryddiaeth, gwladyddiaeth, athroniaeth yn ei gwahanol ddosbarthiadau, celfyddydau teuluaidd, a duwinyddiaeth ynglŷn wrth y cwbl, a lliaws o bethau eraill, na chaniatâ ein terfynau i ni fanylu arnynt, nac hyd yn nod eu henwi. Nid ydym yn meddwl fod yn anghenrheidiol, nac yn bosibl, i bob merch, mwy nag i bob mab, ddysgu yr oll o'r pethau hyn i berffeithrwydd; mae y maes yn rhy eang, ei drysorau yn rhy amrywiol, ac amser a moddion yn annigonol, i ganiatau hyny. Mae un neu ddau o honynt yn ddigon o dasg i'r dynion mwyaf eu talentau a'u hathrylith, i wneyd cyfiawnder â hwynt mewn oes. Er hyny, fe ddylai y llen gael ei thynu oddiarnynt, fel y gallo pob un gael cipolwg, o leiaf, ar eu cynnwysiad.

Ond a oes anghenrheidrwydd ar y merched ieuainc am addysg gyffredinol o'r fath a ddarluniwyd? Atebwn, yn gadarnhaol, ac yn y modd mwyaf penderfynol, Oes! Ac er mwyn eglurdeb a rhwyddineb i gofio, ni a ddosbarthwn y prawfiadau yn fân sylwadau, yn y modd canlynol.

1. Mae addysg gyffredinol yn anghenrheidiol iddynt er eu galluogi i fwynhau llawer o gysuron darparedig ar eu cyfer. Mae meusydd llenyddiaeth yn llwythog gan aeron per ac aeddfed. Ar fyrddau barddoniaeth a rhyddiaith, mae cyflawnder o ddanteithion yn barotöedig, ac y mae miloedd yn ymborthi arnynt. Yma y cânt adfywiad i'w hysbrydoedd cystuddiedig a balm i'w doluriau poenus. Ond mae y cwbl o honynt yn ofer i'r anwybodus a'r diddysg. Nid oes ganddynt olwg i weled eu prydferthwch, nac archwaeth i brofi eu melusder; ac O! y fath golled a gânt! y fath drysorau a danteithion anghymharol a gollant yn feunyddiol! a hyny yn unig o ddiffyg addysg. Yn natur, drachefn, mae ffynnonellau mwyniant yn afrifed. Mae hyd yn nod y glaswelltyn, ïe, y tywodyn mwyaf distadl, yn cynnwys defnyddiau gwledd i enaid y deallgar. Mae rhywbeth mwy ynddynt ac arnynt nag a ellir ganfod â'r llygaid o gnawd—mae doethineb, gallu, a daioni Duw, yn argraffedig mewn llythyrenau annileadwy ar bob un o honynt. Mae pob gwrthddrych yn llawn o ryfeddodau, ac y maent oll, mewn un iaith gyffredinol, yn pregethu Duw i ddyn;—"Y nefoedd sydd yn dadgan gogoniant Duw;"—ac y mae y dyn deallgar yn gweled Duw yn mhob peth, yn clywed ei lais trwy bob peth, ac yn dysgu rhanau o'i ewyllys gan bob peth. Ond ni wel yr anwybodus a'r diddysg ddim bron i'w ryfeddu yn holl gylch y cread. Mae yn gweled rhyfeddodau natur yn allanol, mae yn wir, ond nid yw ei weled iad yn ddim amgen na gwelediad yr anifel a ddyfethir. Mae holl natur fel llyfr seliedig iddo ef. A phwy all draethu y cysuron a'r mwyniant y mae yn ei golli trwy hyn? Ni ddylai y pethau hyn fod felly. Mae y Creawdwr doeth a da wedi gosod trysorau anmhrisiadwy yn nghyrhaedd dyn, a gallu iddo i'w cael allan a'u mwynhau, ond heb wybodaeth ac addysg, maent yn aros yn guddiedig oddiwrtho.

2. Mae addysg gyffredinol yn anghenrheidiol iddynt er eu galluogi i wrthsefyll hudoliaethau i bechod a thrueni. Lliosog a chryfion ydynt yr hudoliaethau ag y maent yn agored iddynt. Yn mhob ardal, bron, mae rhai ellyllon mewn cnawd i'w cael, sydd â'u hymddygiadau fel pe byddent wedi ymgynghreirio âg uffern i ddinystrio cymeriad, difa dedwyddwch, a dwyn gwarth a thrueni ar bob merch brydweddol yn eu cymydogaeth. Trwy edrychiad cariadlawn, a gweniadau twyllodrus, denant eu serch; trwy ffyddlondeb ymddangosiadol, ennillant eu hymddiried; a thrwy addewidion celwyddog, y rhai na fwriadwyd eu cyflawni byth, a llwon melldigedig, a dichellion dyfal-barhaus, hudant hwy i'r fagl; ac yna, gadawant hwy yn eu gwarth, gan chwerthin fel ellyllon y fall uwchben eu trueni. Mae yn resynus meddwl am y nifer mawr a syrthiant fel hyn yn ysglyfaeth i chwant mileiniaid yn ein gwlad hoff ein hunain: ond y mae yn fwy gresynus fyth fod teimlad y wlad mor galed wrth weled yr anrhaith a wneir, fel y gall yr anrheithiwr euog, wedi y cwbl, edrych yn eu llygaid heb ofni na gwrido. Brysied yr amser pan na chaffo twyllwyr a hudwyr merched wêniadau na chyfeillach neb ond rhai fel hwy eu hunain, wedi ymwerthu i bob drygioni. Ond beth sydd a fyno addysg gyffredinol â hyn? Llawer iawn, ddarllenydd; oblegid y mae anwybodaeth yn rhoddi mantais i'r hudwr osod ei-

faglau ar ffordd ei ysglyfaeth. Mae merched anwybodus (a meibion yr un fath) yn fwy ofergoelus, ac yn hawddach eu twyllo, nag eraill; maent yn fwy o dan lywodraeth eu nwydau cnawdol, ac yn llai teimladwy o'u perygl; o herwydd hyn, hwy, yn fynychaf o lawer, a welir yn syrthio. Ond y ferch sydd wedi derbyn addysg dda, a'i deall wedi ei lenwi â gwybodaeth, mae fel pe byddai yn byw mewn caerau; mae ar y dyhiryn ofn dynesu ati, ac y mae hithau, oddiar barch iddi ei hun, yn ymgilio oddiwrtho fel be byddai ef wiber. Os llwydda, drwy ymrithio, i ennill ei chymdeithas, mae hi wedi ei gwregysu âg arfau priodol i amddiffyn a diogelu ei rhinwedd. Bydd yn gwybod gwerth ei chymeriad, ac yn canfod y canlyniadau o'i golli; a rhydd hyn nerth ynddi i wrthsefyll pob ymosodiad ar ei rhinwedd. Y mae genym un sylw ychwanegol i'w gynnyg ar y pwnc hwn, a dymunem iddo gael ei argraffu ar galonau y Cymry yn gyffredinol, ac yn enwedig ar galon pob mam—Mae lliaws o'n merched yn gadael eu gwlad enedigol yn ieuainc, i fyned i drefydd mawrion a llygredig Lloegr, i fyw. Mae yn ddigon anhawdd gan eu rhieni, eu perthynasau, a'u cyfeillion, yn aml, ymadael â hwy; a dagrau, yn ddigon cyffredin, fydd yr unig ganu yn iach i'w gilydd ar yr ymadawiad. Ond pe gwyddai llawer mam a thad, brodyr a chwiorydd, a chyfeillion, am yr hudoliaethau annarluniadwy y byddant yn agored iddynt, fe fyddai yn ddeng mil mwy anhawdd ganddynt eu gollwng ymaith nag ydyw yn bresennol. Mae y trefydd mawrion yn gronfa o bob hudoliaeth lygredig, yn eu hagwedd mwyaf echryslawn a dengar hefyd. Degau o ferched ieuainc o Gymru a syrthiant yn ysglyfaeth iddynt bob blwyddyn, a meibion hefyd mor aml, ac amlach na hwythau. Yn Llundain, Manchester, a Liverpool, a threfydd eraill, mae miloedd lawer o Gymry, a fuont unwaith yn barchus eu henwau, yn hardd eu moesau, ac yn flodeuog gyda chrefydd, wedi syrthio i waelodion isaf anfoesoldeb a thrueni. Nid yn anfynych, chwaith, y gwelir merch o Gymru o dan ei gwarth, wedi cael ei thwyllo gan ryw ddyhiryn uffernol; ac yn nyfnderoedd anobaith, yn myned i fyw ar wobr anwiredd, mewn trueni annarluniadwy. O! famau duwiol yn Nghymru! dadau hefyd! esgyned eich gweddïau ddydd a nos at yr Hwn sydd yn abl i gadw yn ddilwgr hyd ddydd Crist, dros eich plant mewn gwledydd a threfydd estronol. Hyfforddwch y rhai sydd yn weddill yn mhen y ffordd; oblegid ni wyddoch pa bryd y byddwch yn eu colli hwythau. Rhoddwch addysg dda iddynt; llenwch eu deall â phob gwybodaeth, a dodrefnwch eu meddyliau â thrysorau penaf doethineb, fel y gallont wrthsefyll hudoliaethau chwant, a chadw eu cymeriad yn ddihalog, er yn nghanol gweithredwyr anwiredd.

3. Mae addysg gyffredinol yn anghenrheidiol iddynt er eu galluogi i ateb dyben eu creadigaeth, trwy wasanaethu eu cenedlaeth, a gogoneddu enw Duw. Mae eisieu argraffu ar feddyliau y merched, yn gystal a'r meibion, fod ganddynt rywbeth i'w wneyd yn y byd. Y diffyg o'r argraff yma yw yr achos fod y byd yn myned rhagddo mor araf mewn gwybodaeth a rhinwedd. Mae Duw wedi rhoddi talent i bawb, ac y mae yn dysgwyl i bawb farchnata gyda hi; ac, fe ddichon, nad yw yn ormod dyweyd y gall pob un, trwy iawn ddefnyddiad o'r dalent sydd ganddo, ragori mewn rhywbeth ar bawb eraill. Bydd gan y merched, yn gystal a'r meibion, gyfrif i'w roddi i'r Barnwr cyfiawn am y defnydd a wnant o'r talentau a ymddiriedwyd i'w gofal. Gallant wneyd mwy o ddaioni, mewn llawer ystyr, na'r gwrywod; oblegid y mae ganddynt fwy o afael a dylan-

wad ar y galon, yr ewyllys, a'r serch—eisteddle y drwg moesol—nag sydd gan y meibion. Mae ganddynt fwy o ddawn i berswadio a denu na nyni; a phan fyddant hwy yn siarad, mae pawb yn methu peidio gwrandaw. A phan ddaw y merched i roddi eu dylanwad mawr o blaid gwybodaeth, moesoldeb, a chrefydd, fe enir cenedl ar unwaith, yn ol y brophwydoliaeth sanctaidd. Ond tra yn amddifad o addysg a gwybodaeth, mae rhwystrau anorfod ar eu ffordd i gyflawni yr hyn ag y mae ganddynt dalent naturiol i'w wneuthur. Er fod ganddynt ddylanwad mawr ar y byd, ni wyddant y ffordd i'w ddefnyddio er lles cymdeithas; ac heb hyn, nid allant fod yn ogoniant i enw Duw.

4. Mae addysg gyffredinol yn anghenrheidiol iddynt er eu galluogi i fod yn ymgeledd gymhwys i'w gwŷr. Dylent fod yn gymdeithion iddynt, ac yn alluog i ddal cyfeillach resymol â hwy. Heb hyn nid all fod rhyw lawer o ddedwyddwch teuluaidd gartref. Os bydd gan ddyn deallgar wraig anwybodus a diddysg, rhaid iddo fyned i ryw le oddicartref yn aml, neu fod heb neb i ddal cyfeillach resymol âg ef. Mae yn wir resynol na byddai addysg y merched ieuainc y fath ag a'u gwnai yn bob peth anghenrheidiol er cysur a dedwyddwch eu gwŷr. Ond nid yw llawer o honynt felly yn bresennol, a hyny o ddiffyg hyfforddiad ac addysg. Os bydd y gwr yn ewyllysio ymddyddan ar unrhyw destun buddiol, rhaid iddo fyned i dŷ cymydog, ymddyddan âg ef ei hun, neu fod yn fud; oblegid nid yw ei wraig yn gwybod dim am dano; ac os ymdrecha i'w dwyn i'w ddeall, deg i un nad golwg anserchus, os nad tafod drwg, a fydd ei wobr. Pa gysur a all dyn deallgar gael yn nghwmni y fath wraig? Os dygwydd i ferched o'r fath fod mewn cwmni, lle bydd dynion teilwng o'r enw, ac os ymddyddanant ar ryw destunau buddiol, byddant hwy yn fud, ac anfoddlonrwydd amlwg at yr ymddyddan yn argraffedig ar eu gwedd. Ac yn dra chyffredin mewn cymdeithas o'r fath, rhag digio y chwiorydd tröir yr ymddyddan ar destunau plant, fel y gallont hwy gymeryd rhan ynddo. Rhodder addysg briodol iddynt, ac yna fe fyddant yn alluog i ddal cyfeillach resymol, ac i ymddyddan ar unrhyw destun buddiol gyda neb pwy bynag.

5. Mae addysg gyffredinol yn anghenrheidiol iddynt er eu galluogi i gyflawni eu dyledswyddau fel mamau. Y rhai sydd yn awr yn ferched ieuainc fyddant yn mhen ychydig amser eto yn wragedd a mamau, a thynged eu plant, i raddau helaeth, yn dybynu arnynt. Mae gan y tad ei ddyledswyddau tuag atynt; ond mae dyledswyddau y fam, mewn llawer ystyriaethau, yn fwy. Tra bydd ef oddicartref yn gweithio, er ennill bywioliaeth i'w wraig a'i rai bach, mae hi gartref yn barhaus gyda hwy. Tyfant i fyny o amgylch ei gliniau, sylwant ar ei holl ysgogiadau, a cheisiant ei hefelychu. Nid yw edrychiad ei gwynebpryd yn dianc rhag eu sylw; mabwysiadant ei geiriau, a derbyniant argraff feunyddiol oddiwrth ei holl ymddygiadau;—bydd ei delw ar eu tymherau, ar eu hymddyddanion, ac ar eu cymeriadau, trwy eu holl oes, ond odid. Ni ddichon neb gael y fath gyfleusderau a manteision i hyfforddi y plant yn mhen y ffordd ag sydd gan y fam. Os yn fam ddoeth mae ganddi afael cryfach yn eu serch na neb arall. Mae yn cael cyfleusderau bob dydd, trwy esiamplau, trwy gynghorion, cerydd, a chyfarwyddyd, fel y byddo amgylchiadau yn gofyn, i drin eu meddyliau tyner. Gellir dyweyd am blentyn wedi cael ei hyfforddi yn briodol fel hyn, tra o dan ofal ei fam, yn ffordd rhinwedd a gwybodaeth, bron yn ddieithriad, "Pan heneiddio nid ymedy â hi." Mae

y rhan fwyaf o ddysgedigion, a gwŷr rhagorol y ddaear, ag ydynt wedi talu sylw i'r pwnc hwn, yn priodoli eu llwyddiant i esiamplau a chynghorion eu mamau. Gofynai Napoleon y Cyntaf i wraig ddoeth, beth oedd yn anghenrheidiol er gwneyd y Ffrancod yn genedl fawr; a'r atebiad oedd—"*Mamau.*" Yna, meddai Napoleon, mae ailenedigaeth Ffrainc yn gynnwysedig mewn un gair.

Dylai pob mam fod yn athrawes i'w phlant. Mor fuan ag y dechreuant sylwi, dylai ddechreu eu haddysgu; pan ddysgant siarad, bydd ganddynt liaws o ofyniadau bychain bob dydd, a dylai hithau eu hateb mewn dull cymhwys i'w deall, er eu calonogi. Dylai ymdrechu gwrteithio eu meddyliau â gwybodaeth fuddiol, ac yna derbyniant lawer mwy o les trwy eu hysgol nag y dichon iddynt wneyd heb hyny. Wedi i'r plant fyned i'r ysgol, a dechreu dysgu darllen, ysgrifenu, rhifo, a phethau eraill, a chael blas ar eu gwersi, bydd ganddynt lawer o bethau i'w dyweyd a'u gofyn i'w mam wedi myned adref. Bydd arnynt eisieu eglurhad ar y peth hwn, a gwybod pa fodd i wneyd y peth arall. Ond y mae y fam anwybodus a diddysg yn analluog i roddi un cynnorthwy iddynt. Rhyfedda at eu gwybodaeth a'u dysg, a thybia nad oes eu tebyg ar y ddaear; mae y plentyn yntau yn myned i dybied ei fod yn gwybod cymaint, a mwy, na'i rieni,—llenwir ei feddwl bach â hunanoldeb, ac uwch ben ei ddigon colla ei archwaeth at ddysgu, a thrwy hyny dinystrir pob gobaith am ei gynnydd a'i ddyrchafiad. Ond y fam a gafodd addysg gyffredinol, mae hi yn athrawes i'w phlant hyd yn nod pan y maent mewn ysgol,—mae yn ateb eu gofyniadau, yn egluro geiriau ac ymadroddion anhawdd eu deall iddynt, ac yn eu cynnorthwyo i ddysgu eu gwersi erbyn y dydd dyfodol. Fel hyn ceidw ei dylanwad arnynt, a gwna addysg yn bleser iddynt ac nid yn faich;—bydd gan y plant hefyd feddwl mawr am dani, a byddant yn barod i wrandaw ar ei llais yn wastadol, ac i gymeryd eu harwain ganddi. Mae yn anmhosibl i famau gyflawni eu dyledswydd tuag at eu plant yn briodol heb dderbyn addysg dda eu hunain yn gyntaf.

Hyderwn fod digon wedi ei ysgrifenu bellach i argyhoeddi pob meddwl o'r anghenrheidrwydd mawr o roddi addysg gyffredinol i ferched ieuainc, a digon hefyd i roddi cynhyrfiad cyffredinol i ddwyn hyn oddiamgylch gyda phob brys galluadwy. Digon yw yr amser a aeth heibio i esgeuluso diwylliant eu meddwl; mae y dydd wedi cerdded ymhell, ac y mae galwadau uchel arnom fel cenedl i brynu yr amser sydd eto yn ol.

Ond ymhellach, Pa fudd a lleshad a ddeillia o hyny? Llawer yn mhob rhyw fodd. Mae yr anghenrheidrwydd am dano, fel y dangoswyd, yn amlwg ddangos ei fuddioldeb. Ond yn ychwanegol at hyn, gellir dwyn amrywiol ystyriaethau ymlaen i ddangos mewn modd mwy neillduol y buddioldeb o hono, ac i gymhell yn wresocach ato.

1. Bydd yn sicr o symbylu y gwŷr ieuainc i fwy o ddiwydrwydd ac egni i gasglu gwybodaeth. Codai ymgystadleuaeth iachus rhwng y ddau ryw—ymdrechai y merched ragori ar y meibion, a'r meibion ar y merched. Ni bydd achos wedi hyny i gwyno fod ffyrdd gwybodaeth heb neb yn eu cynniweirio. Byddai y meibion ieuainc dan fath o anghenrheidrwydd i gasglu gwybodaeth, oblegid byddai gwybodaeth a dysg yr unig drwydded ddiogel a chymeradwy i ennill ffafr yr ystlen deg. Heblaw hyny, ni byddent yn foddlawn i'r merched ragori arnynt, a chreai hyn ysbryd ymchwilgar ac ymroad i ddysgu ynddynt.

2. Cymhwysir hwynt i wynebu y byd a'i helyntion. Gallant hwy gychwyn ar eu taith trwy anialwch y byd yn siriol, am eu bod wedi astudio y ffordd, ac wedi derbyn anghenrheidiau y daith, ac addysg ganddynt fel arweinydd medrus i'w tywys ymlaen. Os cymharwn eu bywyd i fordaith, mae gan y merched addysgiedig lyw a chwmpawd i gadw eu llestr yn barhaus yn yr iawn gyfeiriad. I ba le bynag yr änt, byddant yn sicr o gyfarfod â rhywbeth ag oedd yn adnabyddus iddynt er pan yn blant; ac o ganlyniad, ni allant hwy fod mewn cymhariaeth i eraill, yn ddyeithriaid ar y ddaear yn un man. Ac yn mha sefyllfa bynag y bydd i Ragluniaeth eu gosod ynddi yn y byd, mae allwedd trysorfa dedwyddwch pob sefyllfa yn eu meddiant. Os deuant i afael â chyfoeth ac anrhydedd, maent wedi eu cymhwyso i lenwi eu sefyllfa. Ac os yn wraig y llafurwr, bydd addysg yn taenu blodau ar hyd eu hanneddau cyfyng, ac yn gwneyd eu haelwydydd yn ddiareb yn eu cymydogaethau. Gwna hwynt mor ddedwydd ag un foneddiges yn ei phalas, a cheidw eu coffadwriaeth yn anwyl i'w plant ar eu hol.

3. Rhydd addysg iddynt ymddangosiad mwy dyrchafedig. Mae dysgeidiaeth a gwybodaeth yn ddigon effeithiol i newid ffurf ac agwedd y corff. Dacw ddyn ieuanc, sydd o ran ei ffurf, bron yn afluniaidd, ac o ran ei symudiadau mae yn araf ac afrosgo, a hurtrwydd llo yn argraffedig ar ei wynebpryd. Ond anfonwch ef i'r ysgol, lle y caiff agoryd ei ddeall, a'i hyfforddi mewn gwybodaeth, a buan y ceir gweled cyfnewidiad yn ei ymddangosiad. Yn mhen ychydig o flynyddau bydd yr olwg arno mor wahanol i'r hyn ydoedd cyn myned i'r ysgol, fel mai prin y gall ei hen gyfeillion ei adnabod. Bydd ei aelodau yn fwy lluniaidd, ei symudiadau yn fwy bywiog, a dealltwriaeth yn pelydru drwy ei wynebpryd. O'r ochr arall, mae anfoesoldeb ac anwybodaeth yn dirywio ac yn hagru y corff—mae anonestrwydd ac anlladrwydd yn argraffu eu delw ar y wynebpryd. Edrychwch eto ar y Gwyddel anwybodus; mae ei war uchel a chwyddedig, a'i dalcen llechweddog ac isel, yn rhoddi iddo yn rhy fynych ymddangosiad mwnci. Ond y mae ymddangosiad y Gwyddel gwybodus a dysgedig yn hollol wahanol; a phrin y gallem gredu, oni bai ein bod yn gorfod, fod y naill a'r llall yn perthyn i'r un genedl. Rhydd addysg ymddangosiad deallgar a dyrchafedig i fenywod ein gwlad, a rhydd hefyd deimlad dyrchafedig yn eu mynwesau. Dygir hwynt i deimlo eu dynoliaeth, a rhydd y teimlad yma nerth ynddynt i ymddwyn yn gydweddol â'u hurddas; wedi hyny ni chymerant eu trin fel anifeiliaid. Bydd gweled mab neu ferch, y pryd hyn, yn llusgo eu traed ar eu holau, ac yn edrych â'u llygaid, eu ffroenau, a'u geneuau ar unwaith, gan ryfeddu fel plant at bob peth a welant, yn olygfa dra anghyffredin. Pan ddaw addysg yn beth cyffredinol, daw y ddynoliaeth i wisgo ei mawrfrydigrwydd dechreuol.

4. Bydd yn foddion i ddwyn llawer o dalentau gwerthfawr i'r bwrdd cyfnewid, ag a fuasent heb hyny yn cael, mae yn dra thebyg, eu cuddio yn y ddaear. Mae hanes cenedloedd y ddaear yn amlwg ddangos fod doniau anghyffredinol yn cael eu hymddiried yn fynych i ferched. Nid llawer o enwau clodfawr sydd ymhlith enwau merched Cymru, hen na diweddar, mae yn wir; ond tybygem mai nid diffyg talent ac athrylith yw yr achos o hyny, ond diffyg manteision i'w dwyn i weithrediad. Nid yw yn annhebygol nad allai fod ymhlith merched mynyddoedd Cymru y dydd heddyw rai a feddant athrylith ddigon galluog i gynhyrfu y byd, ïe, heb

iddynt hwy eu hunain wybod ei bod yn eu meddiant, ac heb angen am ddim ond cyffyrddiad dwylaw nefol gwybodaeth â hi i roddi bywyd ynddi, ac i'w dwyn allan yn ei gogoniant. Mae gwybodaeth i athrylith, fel ysbrydoliaeth i'r prophwydi gynt, yn ei galluogi i wneuthur gorchestion.

5. Bydd yn foddion i genedlu ysbryd cenedlgarol. Mae rhai i'w cael o ysbryd anwladgarol—rhai yn casau ein gwlad, yn ei dirmygu, ac yn gwneyd eu goreu i ddifodi ein hiaith a'n defodau, a ninnau hefyd o fod yn genedl; ond yn gyffredin rhyw hen wrachod anwybodus a diddysg yw y rhai hyny. Mae ein hynafiaethwyr a'n dysgedigion, ein beirdd a'n duwinyddion, i gyd yn rhai zelog dros barhad ein hiaith a'n defodau cenedlaethol, a gallwn ddysgwyl y bydd i helaethiad addysg gynnyrchu yr un ysbryd yn y wlad yn gyffredinol. Hwyrach mai peth dibwys yw hyn yn ngolwg rhai, ag a ddywedant nad yw cenedlgarwch ddim yn y byd, ac mai dyngarwch yw pob peth; ond byddai yn werth i'r cyfryw rai gofio fod dyngarwch yn beth lled ammheus lle bydd cenedlgarwch yn eisieu. Y dyn sydd yn caru ei wraig, ei blant, a'i berthynasau fwyaf, sydd yn gyffredin yn caru ei gymydogion fwyaf hefyd; a'r rhai mwyaf cenedlgarol, bron yn ddieithriad, yw y rhai sydd yn meddu mwyaf o ddyngarwch.

6. Ychwanegir swynion a dedwyddwch teuluaidd wedi derbyn addysg briodol. Bydd y merched ieuainc yn alluog i fod yn wragedd teilwng o'r enw. Mae lle i ofni fod anwybodaeth y wraig wedi bod yn achos dechreuol o ddinystr llawer o deuluoedd. O ddiffyg cydymaith ynddi, äi y gŵr allan i'r dafarn, a throdd yn feddwyn sefydlog, a thrwy hyny dyfethwyd gobeithion a dedwyddwch y teulu am byth. Ond pan ddaw y gwragedd yn rhai gwybodus a da, bydd cartref y lle mwyaf anwyl gan y gwŷr o bob man, ac ni bydd gan y dafarn un swyn na dylanwad arnynt mwyach.

7. Bydd yn foddion i goethi ymddyddanion. Nid yw y gwahaniaeth rhwng y cyfiawn a'r drygionus, yr anwybodus a'r dysgedig, i'w ganfod mewn dim yn fwy nag yn eu hymddyddanion. Mae ymddyddanion y rhai anwybodus yn blentynaidd, iselwael, ffol, a disynwyr, yn gnawdol, ac yn dra chyffredin yn llygredig ac anfoesol. Rhyw ymddyddanion fel hyn yn gyffredin a gymer le rhwng meibion a merched ieuainc canolradd a gwerin Cymru. Nid oes eisieu deall athronydd i wybod fod ymddyddanion o'r fath yn niweidiol i rinwedd. "Na thwyller chwi, mae ymddyddanion drwg yn llygru moesau da." Pe rhoddid addysg gyffredinol i'r ieuenctyd, fe goethid eu chwaeth, galluogid hwy i ymddyddan â'u gilydd ar destunau buddiol, ac ni byddai ganddynt flas ar yr ymddyddanion plentynaidd presennol.

8. Bydd rhoddi addysg gyffredinol iddynt yn sicr o fod yn wasanaethgar i lwyddiant crefyddol. Symudid llawer o rwystrau oddiar ei fford, a gwneid lliaws o galonau fel tir braenaredig yn barod i dderbyn yr had dwyfol. Ac nid hyny yn unig, ond byddent hefyd yn well aelodau yn yr eglwys, yn rhagorach athrawesau yn yr Ysgol Sabbothol, ac yn fwy defnyddiol yn eu holl gylchoedd.

Hyderwn fod digon wedi ei ysgrifenu bellach i ddangos mai nid gwaith anfuddiol ydyw rhoddi addysg gyffredinol i'r merched ieuainc; ond yn y gwrthwyneb, mai gwaith ydyw ag sydd yn sicr o ddwyn oddiamgylch y canlyniadau mwyaf cysurlawn. Gymry anwyl! ymgodwn fel un gŵr o blaid addysg y genedl sydd yn codi; ac na fydded i ni orphwys nes byddo moddion addysg gyffredinol yn nghyrhaedd pob mab a merch trwy y

Dywysogaeth. Rhoddai hyn agwedd newydd ar ein gwlad mewn ychydig amser. Codem ein pen fel cenedl, a deuem yn fuan i dderbyn parch a chymeradwyaeth holl genedloedd y ddaear.

CYFIEITHIAD AC EGLURHAD.

2 *Cor.* xi. 19, 20.

O'R adnodau uchod, rhoddwn y cyfieithiad canlynol:—

19. Yn llon yn wir y goddefwch annoethion a chwi yn ddoethion! gan y
20. goddefwch, os caethiwa neb chwi, os difroda neb, os cymera neb ymaith, os ymddyrchafa neb, os tery neb chwi ar y wyneb.

Y cyfeiriad sydd at y gau-athrawon oeddent yn Corinth, a alwent eu hunain yn "weinidogion Crist;" *adn.* 23. Dywedir yma bum peth am danynt:—Yr oeddent yn caethiwo cydwybodau dynion gan eu dwyn dan iau defodau Iuddewig; yn traflyncu, fel yr arwydda y gair, feddiannau dynion, ac felly yn eu difrodi; yn cymeryd ymaith trwy ddichell eiddo eu canlynwyr; yn dyrchafu eu hunain, gan hòni hawl i ragorfreintiau arbenig; ac yn cernodi y rhai nad ymostyngent yn hollol i'w hawdurdod. Rhyfedd! Rhyfedd! Yr oedd y Corinthiaid, pa fodd bynag, rai o honynt, yn goddef, ac yn *llon*-oddef hyn oll. Ai nid darluniad cywir yw hwn o'r hyn a oddefir yn awr gan Babyddion? Gellir hefyd ofyn, Ai nid offeiriaid Pabaidd yn llwyr oeddent y gau-athrawon yn Corinth? Dywed Paul wrth y Thessaloniaid, "Y mae dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes." Wel, dyma y "dirgelwch" yn ei grynswth yn eglwys Corinth! Ond paham ei gelwir yn "ddirgelwch?" Am fod, fel y tybiwn, "yr anwiredd" yn ymddangos tan gudd ac agwedd y gwirionedd. Yr oedd y gau-athrawon yn galw eu hunain yn weinidogion Crist, pan nad oeddynt ddim arall ond gweinidogion Satan. Dyma "y dirgelwch."

Nodwn yma, yn enwedig, y *llywodraeth* a feddiannai y gau-athrawon ar eu canlynwyr. Tuag at sylfaenu y llywodraeth hon, y modd neillduol oedd hunan-ymddyrchafiad. Yr oeddent yn ymffrostio fod ganddynt ryw ragorfreintiau arbenig, a'u bod yn weinidogion Crist mewn rhagorach fodd na Phaul; ac nid annhebyg nad oeddynt yn difrio Paul, gan nad oedd ganddo yr olyniaeth apostolaidd! Dyma ymffrost gau-athrawon coelgrefyddol yn mhob oes, o amser Paul hyd yn bresennol. Credu yr ymffrost gwag hwn, yna canlyn yn ddiattreg y llywodraeth arswydus a dieflig a ddarlunia Paul yn y lle hwn. Yna goddefa y dwliaid ofergoelus, a hyny yn llon, i gael eu caethiwo tan iau defodau diles a phlentynaidd, a chael eu hysbeilio a'u hocedu o'u heiddo, tan y dysgwyliad o ryw les a budd a addewir iddynt, a chael eu cernodio am anufudd-dod.

Mae amryw bethau yn yr ysgrythyr, na chanfyddir eu llawn ystyr a'u gwerth, nes byddwn yn canfod o flaen ein llygaid bethau cyffelyb i'r hyn a

ddarllenwn am danynt. Pwy yn ein gwlad a ganfyddai lawn ystyr yr adnodau hyn nes y daeth Pabyddiaeth yn ein plith? Dywed yr apostol yr hyn a ymddangosai i ni o'r blaen megys iaith uwchlaw yr hyn oedd wir. Pwy braidd a allai gredu bod athrawon yn Corinth mor hyf a digywilydd a hôni eu bod yn rhagorach gweinidogion na Phaul, yr hwn a roddasai gymaint o brofion ei fod wedi ei ddanfon gan Dduw—y gwyrthiau a wnaed ganddo, a'r arddeliad rhyfedd a roddasai Duw i'w weinidogaeth. Eto felly y bu. A phwy braidd a allai gredu y buasai i'r dynion digywilydd hyn i lwyddo i gael canlynwyr, ac yn enwedig i gael y fath ganlynwyr ag a oeddent yn foddlawn i ymostwng, ie yn llon ac yn llawen, i drefn gaethiwus, i anrhaith, ac i ddysgyblaeth greulawn! Eto felly y bu. Trown at Babyddiaeth, a gwelwn yn wirioneddol yr unrhyw bethau.

A pheth yw *Puseyaeth* sydd yn codi ei phen yn ein gwlad? Yr un yn gywir a Phabyddiaeth, ac âg athrawiaeth y gau-athrawon yn Corinth. Ymffrost yw ei dechreu, llywodraeth yw ei hamcan, defodau gwag yw ei haddoliad, a thräarglwyddiaeth a chwennycha weinyddu, a hyn oll tan y rhith o achub eneidiau! Dyma "ddirgelwch yr anwiredd."

Y peth blaenaf mewn Puseyaeth yw hunan-ddyrchafiad. Fel y gau-athrawon yn Corinth, yr olyniaeth yw y cwbl. Am wir grefydd, nid oes dim yn bod heb yr olyniaeth! Er bod cymaint o brofion diammheuol fod miloedd yn ein gwlad wedi cael gwir grefydd heb yr olyniaeth, eto, yn ngolwg Puseyaid, mae yr olyniaeth yn anhebgorol. Felly y dywed Pabyddion, ac felly y dywedai y gau-athrawon yn Corinth. Nid peth newydd yw hyn; na ryfeddwn wrtho. Da yw fod genym y gair dwyfol —rhydd oleuni i ni mewn pob tywyllwch, dadrysa bob anhawsderau, a symud ymaith bob ammheuon.

OFFEIRIAD.

NODIADAU AR YR AMSERAU.

Y RHYFEL, Y RHYFEL! dyma destun mawr pob sylw ac ymddyddan yn yr wythnosau a'r misoedd hyn. Ar ol mwynhau manteision bendithiol heddwch am ddeugain mlynedd, yn ystod pa rai yr ymgododd ein teyrnas i enwogrwydd uchelaf y byd, yn ei thrafnidiaeth a'i chelfyddydau—dyma Brydain yn awr wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn ymherodraeth eang a galluog Rwssia; ac wedi anfon allan ei byddinoedd a'i llyngesau i ddwyn y rhyfel ymlaen. Y mae un dosbarth bychan o areithwyr ac ysgrifenwyr yn ein gwlad, yn beio yn ddirfawr ar ein llywodraeth yn yr achos hwn; ac yn taeru fod y rhyfel yr ydym wedi anturio arno yn un cwbl ddianghenrhaid ac anghyfiawn: ond er ein bod ni yn edrych ar ryfel fel y fflangell drymaf ar y byd, ac fel agorfa i fyrdd o ddrygau ac anghyfiawnderau, nis gallwn ymuno â'r gwŷr crybwylledig i dadogi y rhyfel presennol ar ein llywiawdwyr; ond synio yr ydym, y gall Ymherawdwr Rwssia ddiolch am dano yn unig i'w uchelgais gormesol, a'i ddichellion twyllodrus

ei hunan. Rhydd i bob pen ei opiniwn, ac i bob tafod ei lafar; a rhydd yw i'r neb a fyno wrthddadleu yn erbyn mesurau llywodraethol gweinidogion ein penadures ryglyddol—ac yr ydym ein hunain yn fynych yn eu gweled ymhell iawn o fod yn berffaith: ond rhydd yw i ninnau ddywedyd, pe gofynasid i ni am ein pleidlais yn achosion y Dwyrain, y rhoddasem hi i Arglwydd John Russell a'i gymdeithion gweinidogaethol, fel rhai yr oedd genym fwy o ymddiried yn eu doethineb a'u profiad, mewn materion tramor, nag yn y rhai hyny a'u collfarnant hwy, ac a amddiffynant Nicholas. Tybygem ni mai nid yn frysiog, nac o'u bodd, y gwynebodd ein llywiawdwyr ar y rhyfel; ond eglur yw, y gwnaethant bob cais oedd alluadwy i'w ragflaenu a'i atal, nes yr oedd y wlad yn dra chyffredinol wedi myned i'w beio am eu hwyrfrydigrwydd. Yr ydym yn credu mai nid oddiar wag-ogoniant, nac oddiar chwennych eiddo ei chymydog, yr aeth ein teyrnas i ryfela y pryd hwn, pa fodd bynag y bu am ryfeloedd blaenorol; ond gwrandaw a wnaeth ar lef cynghreirydd mewn cyfyngder, a sefyll allan yn erbyn trahausder ac anonestrwydd y gallu niweidiol oedd yn peryglu rhyddid ac annibyniaeth holl Ewrop.

Mae yn dda genym weled undeb trwyadl Lloegr a Ffrainc yn y rhyfel-gyrch presennol. Mae yn lled sicr nad anturiasai y penaeth Rwssiaidd mor bell ag y gwnaeth, oni buasai ei fod wedi penderfynu yn ei feddwl mai tebycach oedd i'r Prydeinwyr a'r Ffrencwyr fyned i ryfela yn erbyn eu gilydd, nag i gydryfela yn ei erbyn ef. Eithr nid oes gan y cadnaw hwnw bellach ond dyoddef ei ddygn siomedigaeth, wrth weled y ddau allu ac awdurdod mwyaf dylanwadol yn Ewrop, ac yn y byd, yn dyfod allan law yn llaw i'w wrthwynebu. Dywedid yn rhai o gyfarfodydd Cylchwyliau Cristionogion Llundain, yn mis Mai, gan Syr Culling Eardley, ac eraill, fod yr undeb hwn eisoes yn dechreu effeithio yn dda ar ryddid crefyddol yn Ffrainc, ac y dysgwylir eto ddaioni mwy oddiwrtho. Nis gallwn lai na meddwl hefyd y dylanwadir yn ddaionus ar Fahometaniaid, wrth weled caredigrwydd cenedloedd Cristionogol yn eu cynnorthwyo yn erbyn camwri.

Mae ein llyngesoedd yn y Môr Du, ac yn y Llychlyn, yn cyflawni eu hamcanion yn bwyllog, ond yn benderfynol; ac y mae ein milwyr, weithian, yn darparu yn brysur at gymeryd eu rhan yn yr ymdrech bwysig. Yn y cyfamser, mae y Tyrciaid eu hunain wedi ennill lliaws o fuddygoliaethau, a rhai o honynt o bwys mawr, ar y Rwssiaid. Byddai milwyr Rwssia yn cael eu darlunio fel rhai nodedig am eu medr a'u gwroldeb milwraidd, ac yr oeddynt yn addaw iddynt eu hunain orchfygu y barbariaid Tyrcaidd gyda yr hawsder mwyaf. Ond y mae yr hen gynghor, neu y rhybudd, hwnw yn ei rym byth, "Nac ymffrostied yr hwn a wregyso ei arfau, fel yr hwn sydd yn eu dyosg." Aml waith y gorfodwyd y Rwssiaid i encilio o flaen drylliau y Tyrciaid, gan adael ar eu hol filoedd o laddedigion a chlwyfedigion. Ymosodasant ar amddiffynfa Silistria bedair neu bump o weithiau, ond bob tro yn aflwyddiannus, a chan golli miloedd o fywydau, a chyda eu cadfridogion penaf yn lladdedig neu yn friwedig. Mae cyflwr presennol Rwssia fawr yn wir druenus: ein llyngesau yn cadw gwarchae ar ei phorthladdoedd—ei masnach yn cael ei rwystro, a'i masnachwyr yn ffaelu—y brifddinas dan ddeddf filwraidd—y trethi yn trymhau yn feunyddiol—myrddiynau o'r bobl a'r gwŷr ieuainc yn cael eu cymeryd o'u hanfodd yn filwyr ac yn forwyr—pob greayni yn hylldremu ar y wlad; a hyn oll yn

tarddu oddiar falchder ac ystyfnigrwydd un dyn. Nis gallwn fod yn ddigon diolchgar am mai nid unbenaeth, fel yr eiddo Rwssia, yw llywodraeth Prydain Fawr.

Yn nghanol terfysg yr amseroedd hyn, tra y mae pawb yn teimlo, llawer yn arswydo, a rhai yn prophwydo, nid oes genym ni ond ceisio annog ein darllenyddion gweddïol—a hyderwn mai nid ychydig yw y cyfryw—i attolygu ar yr Hwn "sydd yn llywodraethu ar holl deyrnasoedd y Cenedloedd, ac yn ei law nerth a chadernid, fel nad oes a ddichon ei wrthwynebu," am iddo ar fyrder beri i ryfeloedd beidio hyd eithaf y ddaear, ac adferu i'r bobloedd fendithion tangnefedd.

Yn mysg ein helyntoedd cartrefol, mae y DRETH EGLWYS wedi cael cryn le yn meddyliau a thrafodiaethau ein cydwladwyr yn Lloegr a Chymru. Wedi y penderfyniad a gyhoeddwyd gan bendefigion cyfreithiol Tŷ yr Arglwyddi, yn mis Awst diweddaf, yn achos Braintree,—fod treth eglwys mewn plwyf yn ddirym ac anghyfreithlawn, os bydd mwyafrif y trethdalwyr mewn *vestry* blwyfol yn cytuno i'w gohirio am flwyddyn, neu i'w nacâu yn gyfangwbl—daeth mwy o wrthwynebiadau llwyddiannus i'r dreth mewn cyfarfodydd plwyfol nag a welwyd erioed; ac yr oedd, ac y mae, tywysogaeth Cymru, yn ymddihuno i ateb ei rhan, a dangos ei hochr ar y cwestiwn hwn. Yn Llanelwy, o flaen wyneb yr esgob (yr hwn yn bersonol sydd yn teilyngu pob parch oddiwrth bawb), ac yn Ninbych, gerllaw iddo, dangosodd y bobl eu bod yn teimlo mai annheg oedd rhoddi treth orfodus arnynt at gynnal plaid crefyddol yr oeddynt yn ymneillduo oddiwrthi. Mae y werin yn Nghymru wedi gwneuthur pethau anhygoel trwy gasgliadau a chyfraniadau gwirfoddol; a phaham y rhaid i'r dosbarthiadau cyfoethog gyfrwyo côst eu haddoliadau, trwy y blynyddau, ar gefn y wlad? Yr oedd yn ddrwg genym weled hanes rhai gwŷr cyfrifol o blith yr Ymneillduwyr wedi rhoddi eu hunain mewn *vestries* yn fenthyg i wŷr yr eglwys, tuag at eu cynnorthwyo i arddodi y dreth eglwys ar eu brodyr ymneillduol. Nid mewn cyflwr o ddysgleirdeb gogoneddus iawn y gellir dysgwyl y cyfryw fenthyg adref. Gall pawb ddeall cysondeb; dyn yn ymddwyn yn gyson â'r egwyddorion a broffesir ganddo, mae hyd yn nod gwrthwynebydd yn adwaen ac yn prisio y cyfryw un; ond pwy a all ganmawl na rhoddi cred i'r hwn sydd yn ceisio gwasanaethu dau Arglwydd?

Gwyddom am lawer o glerigwyr, heb son am aelodau eglwysyddol, sydd yn addef fod y dreth eglwys yn arddodiad eithaf annheg a gormesol ar Ymneillduwyr, ac yn mawr ddymuno dyddymiad arni, o leiaf yn ei gwedd bresennol. Ac yn wir, y mae pawb yn addef fod dyddiau ei theyrnasiad wedi eu rhifo, ac y bydd yn cael ei chyfrif cyn hir iawn yn mysg y pethau a aethant heibio. Addawodd gweinidogion y llywodraeth ddwyn i'r senedd yn gynnar eleni, ryw drefniad a roddai esmwythyd i'r wlad, yn nghylch y dreth eglwys. Ond rhyw analluogrwydd—nid un moesol, gobeithio—a lesteiriasant iddynt gyflawni eu haddewid; ac nid oes genym ond dysgwyl wrthynt hwy yn eisteddiad nesaf y senedd. Dygodd un Mr. Packe, yr hwn sydd Uchel-Eglwyswr, reithysgrif hannerog ar y dreth eglwys i mewn i Dŷ y Cyffredin, yr hon, ar y cyfan, oedd yn tueddu i arwain Ymneillduwyr i gryn anghysur a sarhâd; ond o ddiffyg cefnogaeth, galwodd ei reithysgrif yn ol. Darfu i Syr William Clay, eglwyswr rhyddfrydig, ddwyn rheithysgrif i mewn i lwyr ddyddymu y dreth; ac er fod Arglwydd John Russell,

ac eraill o ddylanwad helaeth, yn gwrthwynebu ei gynnygiad, am ei, meddynt, fod yn myned yn rhy bell, llwyddodd i gael mwyafrif lliosog o'i blaid. Ond ni chafodd ei reithysgrif fyned trwy "yr ail ddarlleniad." Eithr, ar gyfer hyn, digon yw dywedyd fod tynged y dreth yn mhob plwyf yn ymddibynu yn hollol ar ewyllys y plwyfolion. Hyd nes y delo ein llywodraethwyr âg ysgrif gyffredinol o ryddhâd ar hyn, cofiwn fod y gyfraith yn cenadu i ni ddyfod yn rhydd trwy ein hymdrech ein hunain.

NODIADAU AR LYFRAU.

The Christian Doctrine of Sin. By Dr. JULIUS MULLER. Clark, Edinburgh.

The Pentateuch and its Assailants; or a Refutation of the Objections of Modern Scepticism to the Pentateuch. By W. T. HAMILTON, D.D. Clark, Edinburgh.

A Treatise on Homiletics, or Theory of Preaching. By Professor VINET. Clark, Edinburgh.

Y mae gwaith Dr. Müller ar Bechod yn ffurfio dwy gyfrol, yn y *Foreign Theological Library;* ond gellir ei gael ar wahan: ac yn ddiau dyma un o'r rhai goreu, os nad y goreu oll, yn yr holl gyfres. Mae yn dangos yn eglur, er fod llyfrau peryglus yn dyfod o Germani, eto fod yno dduwinyddion mwy galluog i amddiffyn yr athrawiaeth efengylaidd na neb yn y wlad hon. Y mae yn taraw at wraidd y drwg; oblegid y mae y rhan fwyaf o'r gwrthwynebiadau i'r Bibl, ac o'r golygiadau anghywir ar ei brif athrawiaethau, yn tarddu oddiar y diffyg o syniadau teilwng am ddrwg pechod. Dyma yr achos fod cymaint o wrthddadleuon yn erbyn y bygythion a'r barnedigaethau y sonir am danynt yn yr Hen Destament: ac oddiyma y tardda yr anmharodrwydd i dderbyn tystiolaeth y Bibl am farwolaeth Crist fel iawn i Dduw am bechod dyn. Mae y pla hwn wedi effeithio ar lawer sydd ymhell oddiwrth gyfrif eu hunain yn anffyddwyr. Y mae wedi treiddio trwy ysgrifeniadau Schleiermacher, a'r Proffeswr Maurice; ac y mae i'w weled i raddau llai yn Neander. Y maent yn edrych ar bechod fel afiechyd a ddaeth i mewn trwy ryw anffawd i'r hil ddynol, yr hwn nis gellid ei symud heb feddyginiaeth oruwchnaturiol: ond nid ydynt yn ystyried fod dyn wedi myned trwy bechod dan gondemniad; a bod yr Iawn yn anghenrheidiol cyn y gellid symud y gollfarn, a gwneyd y pechadur yn gyfiawn ger bron Duw. Mewn geiriau eraill, nid oes ganddynt ond golygiadau tra anmherffaith ar y gwahaniaeth hanfodol rhwng pechod ac anffawd, rhwng drwg moesol a drwg naturiol.

Gwnai y llyfr hwn les i lawer o bobl ieuainc yn Nghymru. Dyma lyfr a wna iddynt feddwl wrth ei ddarllen. Y mae yn ddwfn, nid mewn ymddangosiad yn unig, ond mewn gwirionedd. Bydd y darlleniad o hono yn eu galluogi i ddeall pa un a ydynt wedi meddwl o ddifrif ai peidio, ac yn foddion i'w cynhyrfu i ddechreu ar y gorchwyl.

Hamilton on the Pentateuch sydd hefyd o duedd fuddiol. Nid oes un ran o'r Hen Destament wedi bod yn nod i fwy o bicellau oddiwrth anffyddwyr na Phum Llyfr Moses. Mae yr hanesion a gynnwysir ynddynt mor dra rhyfedd, fel nas gellid cynnyg eu hesbonio heb addef cyfryngiad goruwchnaturiol: gan hyny, nid oedd dim i'w wneyd ond eu gwadu. Y mae y Dr. Hamilton, yr hwn sydd


weinidog Americanaidd, yn dangos ei fod yn meddu gwybodaeth eang a manwl; ac y mae yn profi fod pob ymchwiliadau yn cadarnhau gwirionedd yr hanes sanctaidd.

Er fod llyfr Vinet yn un newydd, y mae enw yr awdwr mor adnabyddus bellach, fel y mae yn afreidiol dweyd llawer fel canmoliaeth i'w waith. Nid oes genym nemawr flas ar bregethu celfyddydol, nac ar y cynghorion celfyddydol i bregethwyr, a geir mewn rhai llyfrau. Ond yr oedd meddwl Vinet, wrth ymdrin â phob pwnc, yn myned at enaid y mater. Felly yma, er nad yw yn ddisylw o addurniadau allanol, y mae yn treiddio trwy y rheolau arwynebol at egwyddorion tufewnol. Dyn mawr oedd Vinet; ac y mae argraff o fawredd meddwl ar ei holl ysgrifeniadau. Byddai y llyfr hwn yn rhodd werthfawr i bob pregethwr ieuanc.

The History of Wales, from the earliest Times, to its final incorporation with the Kingdom of England. By B. B. Woodward, B. A., Lond. Virtue, London.

Fel y mae yr iaith Gymreig yn colli tir yn Nghymru, y mae yn ymddangos ei bod yn ennill mwy o sylw yn Lloegr ac ar y Cyfandir. Un arwydd hynod yw yr argraffiad destlus a drudfawr hwn o hanes yr hen Gymry, wedi ei ysgrifenu gan un nad yw yn medru ond ychydig o Gymraeg. Er fod ynddo, o anghenrheidrwydd, rai profion o anwybodaeth, mae yn amlwg fod yr awdwr wedi llafurio yn ddiarbed. Y mae cyhoeddiadau y "*Record Commission*" wedi rhoddi iddo un fantais arbenig, a meddyliem ei fod wedi gwneuthur y defnydd goreu o honynt. Mae y desgrifiad daearegol o Gymru yn werthfawr dros ben. Mewn gair, nid ydym yn petruso dweyd y ceir yma lawer o wybodaeth am ein gwlad a'n cenedl nad oedd hyd yn hyn yn gyrhaeddadwy.

DINBYCH; ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.



SCALE 1/16 th o fodfeddi i'r Droedfedd

(Gwel tu dalen 16)

Printer, Denbigh.

Y TRAETHODYDD.

AMAETHYDDIAETH ISELDIR CYMRU.

RHAN I.—(PARHAD.)

Gan fod *eithin* yn rhan mor helaeth o gynnaliaeth ac ymborth yr anifeiliaid yn y gauaf, ac yn blanigion sydd yn tyfu mor naturiol yn Nghymru, nid annheilwng ydyw sylwi arnynt yn lled helaeth; sef y *dull goreu o'u meithrin*, ynghyd â *dangos eu defnyddioldeb*. Y mae eu defnyddioldeb yn rhagori yn gyffredinol fel porthiant i geffylau yn y gauaf; ac yn enwedig ar dymmorau sychion, pan y bydd y gwair yn brin, a'r porfeydd yn salw. Profwyd hyn yn eglur iawn yn y flwyddyn 1845. Nid llawer a arferir o honynt fel porthiant i wartheg, oddigerth gan ambell i fythynwr â'i un fuwch. Y maent yn hynod am roddi llaeth, pan y porthir gwartheg blithion â hwynt; rhoddant liw rhagorol, a pharant flas peraidd ar yr ymenyn a'r llaeth. Ond porthi ceffylau ydyw y defnydd mwyaf cyffredinol a wneir âg eithin yn y Dywysogaeth. Dechreuir rhoddi eithin i'r anifeiliaid cyn gynted ag y byddant yn dyfod i mewn i'r ystablau yn y gauaf; a pharheir i'w tori hyd Galanmai canlynol. Y mae tuedd i boethi yr anifeiliaid yn ormodol ynddynt; am hyny, rhaid eu cymysgu gyda gwair, neu wellt wedi ei falu, neu ûs ceirch, neu ûs haidd, a bod yn ofalus i gymysgu ychydig o halen gyda hwynt; attalia hyny y tueddiad i boethi yr anifeiliaid, a byddant yn fwy llesol o lawer iddynt. Mwydo yr ûs haidd mewn dwfr-poeth, neu oer, a chymysgu y drwyth yma gyda'r eithin, sydd yn hynod fuddiol; y mae hyn mewn arferiad cyffredin yn mysg y ffarmwyr mwyaf. Weithiau, bydd maip, rwdins, neu foron, yn cael eu cyd-steamio â'r ûs, wedi cymysgu ychydig o geirch â hwynt. Nid yw yn bosibl cael gwell trwyth i'r anifel sydd yn gweithio yn galed. Mr. Spooner, o Birmingham, a dynodd sylw y Seison yn gyntaf at feithrin eithin. Er mor llesol ydyw y planigyn hwn, nid oes hanner digon o ofal yn cael ei gymeryd yn ei feithriniad. Dylid bod yn fwy gofalus wrth eu hau, ac yn enwedig wrth eu tori, cyn y gellir derbyn yr elw cyferbyniol i'w defnyddioldeb. Y mae yn blanigyn mor gyffredin, a chymaint o honynt yn tyfu mor naturiol yn mhob cwr o'r wlad, hyd nes y maent yn cael eu cyfrif ond megys ail beth gan y ffermwr. Ond pe gofynid i ambell un lled drefnus, Pa un ai yr erw sydd ganddo dan eithin ai ynte erw o'r cae gwenith ydyw y mwyaf ei werth yn ei olwg? diddadl genyf y rhoddai y flaenoriaeth i'r eithin.

Un o'u rhagoriaethau penaf ydyw, y tyfant ar y tir salaf a mwyaf teneu ar y tyddyn. Y maent yn hoffi y priddyn melyn, ysgafn, sych, graianog; hoffant hefyd le cynhes, yn llygad haul; a thyfant yn iraidd, weithiau, yn

y lle mwyaf oer a digysgod, ar lethr bryn, neu ar benau y gwrychoedd, yn ochr gwal, neu mewn bol clawdd. Y mae y nifer fwyaf o ffermwyr Cymru o'r farn na waeth yn mha le, nac mewn pa fath dir, i hau eithin, os gellir eu cael; yr wyf finnau o'r un farn, os er mwyn cael eithin i'w llosgi yn unig yr heuir hwynt: ond os eu heuir er mwyn ymborth i'r anifeiliaid, dylid cymeryd peth gofal pa fodd, a pha le, i'w hau. Heuir eithin, yn gyffredin, mewn penau cloddiau pridd, yn un neu ddwy res; bryd arall, ar stol neu sawdl clawdd; dro arall, wrth ochr gwal; ac y mae hyn yn ateb dau ddyben, sef cadw y gwaliau rhag i'r anifeiliaid eu chwalu, ac yn ymborth i'r anifeiliaid. Heuir hwynt hefyd mewn cwr o'r cae. Y dull goreu yw eu hau yn rhesi, a gadael digon o le i'r gwynt a'r haul weithredu arnynt. Weithiau, heuir hwynt fel had meillion cochion, gydag ŷd, ond y mae y dull yma yn fwy darostyngedig i fethu, trwy berygl i'r chwyn eu tagu, ac yn enwedig y gelyn penaf iddynt eu lladd, sef marchwellt. Collwyd llawer cnwd da o eithin, o ddiffyg glanhau y tir wrth eu hau. Yr wyf yn hollol gydfyned â hau mewn sawdl clawdd, ac yn yr ochr allan i ffos; ond am hau mewn pen clawdd, yr wyf yn groes i hyny. Os heuir mewn ffos neu'r sawdl, gellir cael eithin da, ond gofalu am eu tori yn ddigon cynnar yn y tymmor, cyn i wynt rhewllyd y gauaf eu crino. Y mae eithin, wedi i'r bonau grino, yn myned yn bur ddiwerth, ac ni wna yr anifeiliaid ond ychydig o honynt ar ol eu malu; ac os bydd y cyfan o'r eithin wedi eu meithrin felly, ni cheir ond ymborth gwael i'r anifeiliaid yn fuan ar ol y Nadolig, gan y byddant wedi crino. Y mae eithin wedi eu hau mewn pen clawdd yn fwy agored i wyntoedd crinllyd y gauaf, ac felly yn ddiwerth iawn. Heblaw hyny, y mae hau eithin mewn pen clawdd yn dangos hwsmonaeth afler: gwell genyf fi blanu drain yno bob amser;— daw y drain, yn mhen amser, yn gysgod, ac yn ddigon o ddiogelwch rhag anrheithiad yr anifel mwyaf barus. Os heuir eithin mewn lle sych, crinllyd, grugog, a diwerth, efallai y daw cnwd go lew, ond ni byddant ond ymborth salw ac afiach. Heuir eithin mewn gwaenydd a rhosydd corslyd, a lleoedd gwlybion, trwy godi rhes o dywyrch, a throi y tu glas iddynt i lawr, a'u hau yn rhesi yn y tu priddlyd i'r dywarchen. Arfera eraill eu hau mewn lle felly ar wahân (*broad-cast*), ar ol ei aredig a'i lanhau. Yn fy marn i, y mae llawer iawn i'w ddyweyd yn erbyn pob math o le fel yna i'w hau; ac yn y fath dir, ceir gweled y tyf gwellt oer, sur, &c., yn gymysg â hwynt: ac os parotoir yr eithin hyny yn ymborth i anifeiliaid, ni wnant eu bwyta, os cânt ymborth wedi tyfu ar dir gwell; nid o herwydd fod y gwellt yn gymysgedig â'r eithin, ond oblegid fod yr eithin o'r un natur a'r gwellt, a'r naill a'r llall yn ymborth gwael, sur, ac afiach, i'r anifel; a'r achos o'r cwbl yw, fod y tir yn wael. Mae yn wir fod gwahaniaeth mawr rhwng natur tiroedd gwaelion a'u gilydd, oblegid gwyddom am ambell i dir gwael y ceir cnwd da o eithin ynddo, a gwyddom hefyd am dir gwael na cheir dim hanner cymaint ynddo, a'r ddau yn *edrych* cyn waeled a'u gilydd. Awgryma Dr. O. O. Roberts, yn y "*Journal of the Royal Agricultural Society,*" y gellir hau eithin yn y clwt gwaelaf ar y fferm: a dyna farn nifer mawr o ffermwyr Cymru, na waeth pa fath dir i hau eithin, os ceir rhyw fath o gnwd o hono. Addefaf y gellir hau eithin yn y darn gwaelaf i ambell fferm. Y mae ambell fferm yn dir lled wael i gyd, heb nemawr wahaniaeth rhwng y clwt goreu a'r clwt gwaelaf; a fferm arall yn dir da i gyd, heb ond ychydig wahaniaeth rhwng y goreu a'r gwaelaf o

honi. Gellid hau eithin, yn ddibetrus, yn y darn gwaelaf i leoedd felly; ond am fferm yn gant o erwau o fesur, a thriugain neu bedwar ugain o'r rhai hyny yn werth pymtheg swllt neu bunt yr erw, a'r gweddill yn dir pur wael, byddai y dyn a heuai eithin yn y darn gwaelaf i un felly yn ffol; nid am na chai gnwd, efallai, ond am mai ymborth sal a diles a fyddent yn y diwedd. Colled ar dir hefyd yw hau eithin ar dir gwael. Bydd eisieu cymaint arall, o leiaf, o dir gwael i roi yr un faint o ymborth a thir da. Pe byddai y tir gwlyb gwael heb eithin ynddo, gellid ei sychu, a'i wneyd yn dir da; ond wedi hau eithin mewn tir gwael, ffarwel am gyfle i ddiwyllio y darn hwnw.

Addefir gan bawb y ceir mwy o ymborth oddiar erw o dir o eithin, nag o un math arall o ymborth i anifeiliaid. Y mae y gwahaniaeth yn fawr iawn o du yr eithin. Rhaid ei fod yn fawr, oblegid gwelais werthu eithin yn Nghymru am bymtheg punt yr erw; ac ni buasai un math o ymborth arall i anifel yn cyrhaedd yn agos i'r gwerth: a phan y cymherir y gwahaniaeth yn y gost o godi gwair, &c., yn rhagor nag eithin, ymddengys yn fwy fyth. Ceir cnwd o eithin o glwt o dir bob blwyddyn, drwy dori un darn eleni, a'r darn arall y flwyddyn nesaf, am ugain neu ddeugain mlynedd yn ddigost, ond y gost gyntaf; pan na cheir gwair yn ddigost ond am ychydig iawn o flyneddau.

Haerir fod eithin yn methu mewn tir rhywiog da. Camsyniad hollol ydyw hyn; y mae mor hoff ganddynt y tir goreu ag ydyw gan y gwenith. Mewn tir da y mae y marchwellt yn curo yr hedyn, a hyny trwy ddiofalwch y ffermwr yn gomedd ei lanhau; ac, efallai, o ddiffyg ystyriaeth fod yn rhaid cadw y tir yn lân. Gwelais rai yn llosgi wyneb y tir, er mwyn difa y marchwellt, fel y gallai yr eginyn gael gwell chwareu teg i ddyfod i fyny. Mae yn sicr y tyf eithin yn mhob math o le, ond dylid fod yn ofalus i gadw y dwfr oddiwrthynt. Yr amser goreu at hau ydyw Mawrth ac Ebrill. Y mae pedwar pwys i'r erw yn ddigon wrth eu hau yn rhesi; ond rhaid cael oddeutu wyth pwys yn y dull cyffredin o hau ar wahân. Bydd rhai yn eu tori y flwyddyn gyntaf, ond nid ydynt mor addas i'w defnyddio y tro cyntaf, ac ni ddylid eu tori cyn pen y ddwy flynedd; ymddibyna hyn yn fawr ar natur y tir, a'r hinsawdd: ond eithin dwyflwydd a gyfrifir y rhai goreu fel porthiant.

Ymdrechaf ddangos y dull goreu, yn fy meddwl i, at eu hau a'u trin; a phe bawn i yn myned i hau eithin ar wahân, dyma y dull a ddefnyddiwn:— Os byddai y tir yn deneu, hyny yw, os byddai siâl neu graig, neu ynte galedwch mawr yn y tir, yn agos i'r wyneb, mi a'i glanhawn yn dda, trwy roi cnwd o ŷd ynddo i ddechreu; wedi hyny, cnwd o faip, er ei lanhau yn drwyadl; ac wedi hyny, heuwn geirch ynddo yn *bur dew,* a hau had eithin, fel had *clover*, yn gymysg. Os byddai chwyn yn ymddangos ar ol y cynauaf, byddai y tir yn "frau braf" i'w tynu, er glanhau y tir, a gadael chwareu teg i'r eithin. Ond gwell genyf fi, bob amser, hau yr eithin yn rhesi, er cael eu glanhau a phalu rhyngddynt. Os byddai yn fras-dir dwfn, cymerwn baliad rhaw o hono dros ei wyneb ymaith, a theilwn ef â lludw drosto; yna, heuwn geirch, yn deneu, a had eithin ynddo, y tymmor cyntaf, ac ni byddai perygl na byddai yn eithaf glân. Ond gwell eto fyddai eu hau yn rhesi, er mwyn cael palu a chwynu rhyngddynt mewn blyneddau dyfodol, i'w glanhau, &c.

Dyma fel y dywed un cyfaill wrthyf;—"Y mae genyf glwt o dir wedi

ei hau yn y wedd hon yn *broad-cast*, a byddaf yn cael cnwd anferth o honynt, ac yn eu tori bob blwyddyn. Bum yn arfer eu tori bob yn ail blwyddyn, ond byddai troedfedd o'u bonau yn crino, trwy eu bod mor dewion; ond er pan yr ydwyf yn eu tori bob blwyddyn, yr wyf yn cael cnwd da o honynt, a hwnw yn ymborth iachus a rhinweddol. Yr wyf wedi teilo (*top dress*) y clwt unwaith neu ddwy er's wyth mlynedd, â lludw mawn a glo, &c.; ac yn gweled hyny yn ateb dyben da. Lludw mawn a glo oedd genyf, ond yr wyf yn meddwl yr atebai *gypsum* yr un dyben; a gellid cael digon o hono i deilo dwy erw am ddeg swllt; gan fod lludw yn brinach er pan yr ydym ni, ac eraill, wedi myned i losgi glo yn gwbl."

Dylid gofalu am gadw yr anifeiliaid o honynt pan yn ieuainc, yn enwedig y defaid; y maent yn difrigo yr eithin, yn mathru ac yn llwybro trwyddynt, a'r gwlan yn effeithio yn niweidiol arnynt. Rhoddir y bai ar yr had a'r planigyn, os metha; pan, mewn gwirionedd, diogi ac esgeulusdod y tyddynwyr ydyw yr unig achos o'r siomedigaeth. Yr hen ŵr, neu'r bachgenyn ieuanc, a roddir i dori yr eithin, a'u malu, heb ystyried fod anghenrheidrwydd anhebgorol eu tori yn drefnus gyda manylrwydd: gwna eu tori yn glos wrth y llawr fwy o ddaioni i'r cnwd dyfodol nag y gall neb amgyffred. Dylid eu tori â chryman miniog, wrth y llawr;—gwelais fath o bladur at y gorchwyl, ond nid yw yn bosibl ei harferyd mewn rhai manau, nac mewn un man os na bydd y maes yn wastad. Gadael hen fonau hirion yn y maes sydd yn dinystrio y tyfiant dyfodol, fel na bydd yn bosibl eu tori y flwyddyn ganlynol. Gofaled y llafurwr wrth dori ei eithin, o hyn allan, am eu tori yn ddigon isel; a chofied ei fod yn gwneuthur mwy o ddrwg nag a all amgyffred wrth eu tori yn ol yr hen ddull, trwy adael hen foncyffion cryfion yn y cloddiau a'r caeau:—bai dirfawr ydyw.

Y mae y drefn o guro eithin gyda gyrdd agos a myned allan o arferiad; gwelir y peiriannau eithin (*gorse engines*) yn mhob cwt, ac ar bob tyddyn, yn cael eu troi gan un neu ddau ddyn, yn gyffredin; ond mewn ffermydd o ychydig faintiolaeth, y maent yn cael eu troi gyda cheffyl, neu ddwfr. Gan fod y peiriannau hyn mor aml mewn arferiad, nid yw yn anghenrheidiol rhoddi desgrifiad o honynt;—y mae gofaint, yn mhob ardal, agos, yn gyfarwydd â'u gwneuthur. Ar ol malu yr eithin, taenellu ychydig o halen drostynt sydd yn llesol iawn. Mesurais ddau gibyniad o eithin wedi dyfod drwy yr *engine*—yr ydoedd yn pwyso wyth pwys ar hugain; a gwna o ddeunaw pwys ar hugain i ddeugain pwys ddigon o ymborth i un ceffyl am bedair awr ar hugain. Nid ydyw eithin wedi eu rhoddi drwy yr *engine* unwaith yn ddigon mân i'w rhoddi i wartheg;—mae eisieu rhyw welliant ar y peiriannau, cyn y gellir porthi y gwartheg gyda hwynt—rhaid cael rhyw offeryn i'w hysigo yn fwy. Dywed Mr. Spooner ei fod ef yn eu rhoddi mewn cafnau, a math o faen melin i'w hysigo; o amgylch y maen y mae cylch haiarn, â rhych ynddo. Tröir y maen gan anifel oddeutu deuddeg gwaith; a malurir yr eithin nes y byddant yn debyg i fwswgl. Bydd ef yn lluchio ychydig o halen a dwfr arnynt pan o dan y maen. Ond y mae eisieu gwneyd y peth yn fwy syml cyn y daw i arferiad cyffredinol. Onid tro doeth fyddai cynnyg gwobr am y fath ddyfais? Pa beth mae y *Royal Agricultural Society* yn ei wneyd yn hyn?

Er yr holl fantais sydd yn deilliaw oddiwrth eithin, ychydig iawn o sylw, a llai o ofal, sydd yn eu meithriniad. Nid oes ond pur ychydig yn y wlad wedi dyfod i benderfyniad hollol pa un ai tyfu yn fwy helaeth a

wnant ai peidio drwy feithriniad; y maent yn boddloni ar yr hyn sydd yn tyfu yn naturiol trwy y creigiau, a lleoedd gwylltion eraill, ynghyd â'r ychydig a heuir yn y meusydd. Yr wyf o'r farn y dylid cloddio allan y darn goreu ar y tyddyn i'w tyfu. Gwn am rai amaethwyr yn Iseldir Cymru ag sydd yn bur ofalus yn eu meithriniad, yn eu hystyried y cnwd mwyaf buddiol, ac yn darparu y lle goreu ar y tyddyn iddynt.

Dywed yr hen ddiareb mai "mewn baw mae casglu cyfoeth." Nid byw mewn budreddi a feddylir; ond cynnilo, hel, casglu, a thyru tail, a'i gymhwyso gyda barn gywir ar y tir, a thrwy hyny gasglu cyfoeth. Rhaid addef fod amaethwyr Cymru wedi esgeuluso y ddyledswydd hon yn ormodol, sef cynnildeb yn y domen dail; o ganlyniad, rhaid eu hannog i fod yn fwy gofalus ac ymdrechgar, fel na byddo un gwastraff yn cymeryd lle yn y buarth, mwy nag yn yr ysgubor. Heb dail, anmhosibl ydyw codi cnydau gleision; ac o ganlyniad, cnydau o ŷd na phorthiant. Fel hyn y mae y ddyledswydd yn gorwedd wrth ddrws pob amaethwr i gynnyrchu digonedd o dail ar ei dyddyn i ddiwallu anghenrheidiau y llysiau a'r ffrwythau sydd yn tyfu arno. Mae digon o ddefnyddiau gerllaw, ond eu defnyddio gyda barn a medrusrwydd. Onid gwastraff yw gadael i drwnc yr anifeiliaid a'r dwfr tail redeg gyda'r afon, fel, ysywaeth, y gwelir yn y rhan amlaf o ffermydd y wlad? Yr ydwyf eisoes wedi rhoddi cyfarwyddyd yn nghynllun y *farm yard* o'r dull y dylai trwnc yr anifeiliaid gael ei ddiogelu; sef mewn pydew, â chwterydd yn arwain iddo o leusod y beudai, y stablau, a'r cytiau moch. Coll mawr iawn sydd ynom i wneyd y goreu o bob gwrtaith, yn enwedig y gwrtaith gwlyb (*liquid manure*). Nid oes gan y nifer fwyaf o honom fel amaethwyr un dychymyg am ei werth, nac am y golled yr ydym yn ei ddyoddef trwy ein hesgeulusdra gyda'r gwrtaith gwlyb, a'r dwfr tail; ac yr wyf yn meddwl y bydd yn rhaid i ni weled llawer iawn o ddiwylliad ychwanegol mewn ffermwriaeth, cyn y gellir dysgwyl y goreu yn cael ei wneyd o hono. Y mae genyf fi waen, o'r hon y byddaf yn cael gwair bob blwyddyn i'r gwartheg, a byddaf yn ceisio troi cymaint ag a allaf o ddwfr tail iddi. Gwnaethum brawf unwaith o'i rinwedd trwy ei droi ar un darn o'r waen, a theilo y darn arall â phridd a thail, ac yr oeddwn yn methu barnu yn amser y cynauaf nad oedd llawn cymaint, os nad mwy, o gnwd ar y darn gwrteithiedig â'r dwfr tail, nag ar y darn a deilwyd â phridd a thail. Ond yr oedd y dwfr tail y gwnaethum y prawf yna âg ef yn anmhur iawn, sef yn gymmysgedig â mwy o lawer na'r hanner ond odid o ddwfr ffynnon, ac felly nid oedd y prawf yn deg o lawer. Gwelir mor fuan y talai y pydew am dano ei hun; ond rhaid ei wneyd yn ddiddos fel y dalia ddwfr, a chadw ymaith y dwfr gwlaw o hono, a rhaid gwneyd cauad diddos, neu do arno, er ei ddiogelu. Nid llawer o gost fyddai i'r meistr tir wneyd un ar bob ffarm ar ei ystâd, yn enwedig lle byddo eisoes yn adeiladu. Y mae o annhraethol werth i'r tenant er cynnyrchu ffrwyth y tir, yn enwedig at deilo ar y croen (*top-dressing*) i wair, neu borfa, neu er cymmysgu pob math o ysgrwff, rhiglion, chwyn, a charthion y tyddyn, gyda gwehilion eraill y gellir eu troi yn dail. Lle nad ellir yn gyfleus ddyfrhau y tiroedd gyda dwfr tail (*liquid manure*), mae yn hawdd i bob ffermwr ei ddiogelu rhag rhedeg yn wastraff hollol gyda'r afon. Gellir dywedyd mai dyma yw *British guano* y tyddynwr bach ar lethrau bryniau a gwastadedd Cymru. Mi a welais, er's rhai blyneddau bellach, yn Nhre'r Gof, yn Mon, drefn ganmoladwy er diogelu y dwfr tail,

ac o drin y domen. Yr oedd gan y perchenog scôb wedi ei gwneyd o goed, er lluchio y dwfr fyddai yn cael ei wasgu o'r tail am ben y domen pan yn dechreu poethi. Yr oedd yn sicrhau effeithiau tyfadwy y dwfr yn y gwellt a'r sothach oedd yn y domen, yn cadw y domen rhag poethi i ormodedd, a'r tail yn pydru yn raddol. Felly yr oedd yn gwneyd plyg bob dydd naill ai â gwrtaith o'r beudai a'r stablau, neu o bridd a gwellt.

Mae y cynllun canlynol o domen dail mor rhagorol, nas gallaf mewn un modd ei wellhau, ac wedi ei ddilyn gan hen gyfaill hoff genyf:[1]—"Dylai y man lle byddo y domen yn cael ei gosod i lawr fod yn agos yn geuedd (*concave*), sef mewn pantle, os bydd yn bosibl; a da fydd agor lle iddi er diogelu yn benaf y dwfr tail rhag ei wastraffu. Byddaf fi yn gyntaf yn cario gwely o fwnws mawn, pridd, a thywod, ac unrhyw ysgarthion y gellir eu casglu ar hyd y buarthau; ac yn Ngŵyl Mihangel, casglu y gwlydd pytatws, a'u rhoi yn blygion ar eu gilydd. Mae mawndir yn ddefnydd rhagorol, lle gellir ei gael, i wneyd y gwely cyntaf. Wedi cael plyg lled helaeth i gychwyn, bydd y tail o'r beudai a'r stablau yn cael ei gario yn blygion ar eu gilydd yn wely o drwch helaeth. Cyn gynted ag y gwelir y domen yn mygu, rhaid lluchio y dwfr tail ar hyd-ddi. Mae genyf scôb yn y pydew i godi y dwfr, a bydd yn rhaid i'r porthwr fod yn ofalus i'w luchio ar hyd y tail er ei gadw yn llygoer, rhag ymweithio a phoethi i ormodedd; bydd hyn yn cynnorthwyo i'r gwellt fraenu a phydru, ac yn peri i'r *ammonia*, neu y drygsawr, gael ei gadw yn y gwrtaith, ac felly yn cymysgu y rhinweddau tyfiadol sydd yn y dwfr gyda'r gwellt a'r sylweddau eraill sydd yn y domen. Cofiwch bob amser am i'r dynion, wrth garthu y beudai a'r ystablau yn hwyr ac yn foreu, gario y tail yn uniongyrchol i'r domen. Gadael y tail yn bentyrau bychain wrth ddrws yr ystabl a'r beudy, i'r haul a'r gwynt sugno pob rhinwedd ffrwythlawn a daionus allan o hono, sydd yn wastraff mawr, ac yn arferiad afler ac annhaclus iawn. Mae yr awyr yn gweithredu yn llym ac yn brysur ar y tail, os bydd heb ei orchuddio, a'r rhinweddau goreu yn rhedeg ymaith fel tarth o hono, y ffrwythlonder yn cael ei olchi gan y gwlaw, hyd nes y bydd troliad o hono yn llai o werth na llonaid berfa o dail pur. Ar ol cael plyg digon tew o dail, rhoddwch blyg wedi hyny o bridd, neu wellt, neu ryw ddefnydd llysieuol arni, er ei gorchuddio, a diogelu y prif weithredydd sydd yn y gwrtaith, sef y drygsawr neu yr *ammonia*. Lluchio ychydig o halen, sydd yn beth rhagorol, yr hwn sydd yn rhad yn bresennol, yn benaf am fod halen yn un o'r prif elfenau sydd yn meithrin llysiau, ac onid hawdd yw taflu ychydig o hono i'r domen? Byddaf yn arferyd dwy neu dair tunell o hono yn flyneddol, trwy ei luchio ar hyd yr ystablau yn y boreu (mae yn helpu i uno yr *ammonia* â'r tail), ac hefyd yn ei hau ar hyd y domen dail. Ni ddylid gadael i'r tail fyned yn rhy boeth, mwy nag yn rhy oer yn y domen, tra y byddo mewn sefyllfa newydd; felly buddiol yw lluchio ychydig o'r *liquid manure* ar y domen, er cadw y tail yn dymherus. Peidier a gwastraffu y gwellt mewn un modd, na'i daenu ar hyd y buarth, neu y ffyrdd, neu y caeau. Mae braidd yn gywilyddus i amaethwyr Cymru yn y dyddiau presennol arddel y drefn o borthi anifeiliaid yn y maes yn y gauaf, a'r gwellt yn rhedeg yn wastraff o'r naill ben o'r fferm i'r llall. Heb ddigonedd o wellt, nid hawdd y gellir gwneyd digonedd o dail; a chofier bob amser mai gwneyd tail yw sail hwsmonaeth dda. Rhoddi digon o wellt o dan yr

[1] Y diweddar Pierce Roose, Ysw., o Paris Farm, Mon.

anifeiliaid yn y buarthau ac yn y tai—fel hyn ychwanegir at y domen bob dydd. Goreu bydd y porthiant, goreu gwbl fydd y tail; felly mae tail yr anifeiliaid a besgir â thoes had llin (*linseed cake*), yn frasach ac yn fwy ffrwythlawn nag un tail arall. Tail cryf a rhinweddol sydd yn dyfod oddiwrth y moch: rhaid gofalu rhoi digon o wellt o danynt, glanhau a charthu y cytiau yn aml a chwanega at faintioli y domen. Trwy gymysgu gwrtaith o bob math gyda'u gilydd fel hyn, gwna natur oer a thyner tail y gwartheg wrthweithredu yn erbyn yr un boethlyd sydd yn nhail y ceffylau; a pha fwyaf fydd yr amrywiaeth yn natur y defnyddiau, mwyaf cryf a rhinweddol fydd y gwrtaith ar ol ei gymysgu a phydru. Felly y mae un gwrtaith yn gweithredu ar y llall, ac yn achosi mwy o rinwedd yn y pentwr yn y diwedd."

Arferiad lled fudr, ac un afiach i'r teulu, yw gwneyd y domen wrth ddrws y tŷ annedd. Y mae yn gwneyd yr awyr yn afiach i anadlu ynddo, ac nid yw yn bosibl cadw y tŷ yn lân—y tail yn dyfod gyda'r esgidiau i'r tŷ; y moch a'r gwyddau yn cydwledda yn y drws; y drygsawr (yn enwedig yn yr haf) yn llenwi pob congl o'r tŷ annedd; ac fel hyn yn dystrywio cysur teuluaidd, ac yn dwyn heintiau ac afiechyd i'r gymydogaeth. Ar ol cario y tail i'r maes, gwelwyd llawer tomen fawr yn myned yn llai, llai, bob dydd, trwy effaith y gwynt a'r gwlaw. Gwelais lawer tro, y tail fel hyn am wythnosau yn stryddyn hir ar hyd y maes, a hen glawdd wrth ei ymyl, neu hen ffos lawn, yn dysgwyl am gyfleusdra y tyddynwr i'w cymysgu â'u gilydd: paham na byddai yr amaethwyr yn dipyn mwy gofalus i orchuddio yr hyn y maent yn ei brisio gymaint? Cofier fod yn rhaid eu cymysgu yn ddioed; cofier hefyd mai mwyaf a gymysgir ar y tail a'r pridd, goreu y bydd at bob achos, a bydd yn y diwedd yn barotach fel maeth uniongyrchol i'r llysiau.

Y mae *gwymon* yn cael ei arfer fel gwrtaith ar lanau y môr yn fynych ac yn helaeth. Ar ol ystorm lled drom, bydd rhai miloedd o lwythi yn dyfod i'r lan, yn enwedig yn yr ochrau deheuol a gorllewinol o Gymru. Arferir ef yn fwyaf neillduol heb ei gymysgu âg un gwrtaith arall i ŷd, naill ai ar dyndir, neu ar sofl haidd, neu wenith. Pe cymysgid gwymon gyda thail y buarth, neu bridd, gwnai well gwrtaith nag ar ei ben ei hun; gwna y nodd hallt, a'r nerth llysieuol sydd ynddo, gymysgu yn well fel hyn gyda'r tail a'r pridd, ac yn llawer mwy llesol a maethlawn i'r cnydau: gellir hefyd ei arfer fel hyn yn wrtaith rhagorol i faip.

Y mae rhan fawr o Gymru, sydd ar ororau glanau y môr, yn bur gyfleus i gael *tywod* yn wrtaith. Mae tywod yn hynod o lesol pan y cymysgir ef gyda thail, pa un bynag ai ar dir trwm neu ar dir ysgafn. Y maent yn cario llawer iawn o dywod mân ar ochrau gorllewinol a deheuol Cymru, gydag ychydig iawn o gregin ynddo, ac yn fwyaf cyffredin fe'i tynir o'r morfeydd. Nid oes un math o helltni ynddo. Nis gallaf yn iawn ddirnad pa les a all y fath dywod wneyd ar y tir; ond byddaf yn meddwl y gallai tywod felly fod o les ar dir cleiog, rhwym, wedi ei sychu. Gweithreda fel agorydd, ac yr wyf yn meddwl y byddai y tir yn llai tueddol i rwymo drachefn. Gwna y fath dywod yn eithaf peth fel gwely yn y domen i dderbyn y dwfr tail; ond nid felly yr arferir ef gan y rhan amlaf o'r tyddynwyr ar yr ochrau hyny o'r wlad. Y mae tywod a thail yn hynod o lesol fel gwrtaith i dir glas, sef *top-dress* i borfa. Bum yn ymddyddan âg amryw wedi treio tywod yn unig yn *dop-dress*, ac mi feddyliwn mai ychydig

o les a wnaeth. Pa fodd bynag, y mae yn rhagorol yn gymysgedig â thail, ac y mae yn gampus gyda dim ond pridd.

Y mae corff anferthol o galch yn gorwedd yn welyau mawrion mewn amryw o ardaloedd Cymru, a chyfleusderau aml i'w drosglwyddo i'r manau hyny lle nad ydyw. Y mae deall trwy fferylliaeth (*chemistry*) pa wrtaith sydd fwyaf priodol er cael y cynnyrch amcanedig o'r tir, yn beth o bwys i'r amaethydd ei wybod; a dylai fod yn wybodus mewn perthynas i ansawdd a natur calch, ac hefyd natur y priddyn y mae yn ymdrin âg ef, er gwybod pa swm fydd yn anghenrheidiol ei roddi i'r tir o galch neu wrtaith arall. Dywed y fferyllydd, nad oes mewn calch un sylwedd llysieuol (*vegetable matter*) ag sydd yn gweddu fel maeth i'r planigion; ond ei fod yn llesol, ac yn gweithredu yn fwyaf neillduol, trwy agor y priddyn a'i ryddhau, ac yn uno y gronynau olewaidd gyda'r rhai dyfrllyd trwy eu sychu (*by absorption*). Y mae hefyd yn tynu ymaith y natur surawl sydd yn y pridd. Profir hyn trwy roddi calch mewn gwinegr er ei bereiddio. Y mae rhoi calch yn rhy fynych yn y tir yn ei ddiffrwytho yn hollol, os na adferir y natur olewaidd sydd ynddo yn ol, trwy ddigon o dail o'r buarth, neu unrhyw dail arall.

Dyoddefa tir cleiog gymhwysiad o galch yn fynychach na thir tywodlyd, gan ei fod, fel y sylwyd eisoes, yn gweithredu ar y tir i'w agor a'i ryddhau, a'i weithrediadau fferyllaidd yn lleihau y tueddiad sydd mewn clai i gadw yr *humus* (sef y sylwedd bras hwnw mewn natur ag sydd yn fywyd i hydyfiant yn mhob amgylchiad). Wrth drin hen gorsydd, ac ucheldir mynyddig, a'u dwyn yn dir llafur, cymerant gymhwysiad helaeth o galch, dro ar ol tro (os na bydd y fath dir yn gorwedd ar geryg calch—ychydig o les a wna os cymhwysir fwy nag unwaith yn mhob deng mlynedd mewn tir ceryg calch), o herwydd fod mawndir yn gynnwysedig o wahanol sylweddau ag sydd yn ddarostyngedig i'w dadgysylltu a'u chwalu gan y calch. Y mae effeithioldeb calch ar y mawndir yn fwy llesol a pharhaol nag unrhyw wrtaith arall; ar y llaw arall, y mae cymhwyso calch yn rhy aml ar dir tywodlyd, neu dir o briddyn ysgafn, yn ei ddyhysbyddu, yn ei sychu, yn ei dlodi, ac yn ei ddwyn yn hollol ddiffrwyth. Yr wyf yn gwybod yn burion fod llawer o amaethwyr mwyaf gwybodus yn methu yn eu barn yn aml mewn perthynas i'r fantais neu yr anfantais sydd yn deilliaw trwy galchu ar dir mewn gwahanol sefyllfaoedd; fel hyn mae llaweroedd o dyddynwyr wedi cario miloedd ar filoedd o fesurau o galch heb ateb un lles iddynt, ond yn unig i redeg gyda'r afon, ac i ddiffrwytho llawer priddyn digon diffrwyth o'r blaen; collwyd miloedd ar filoedd o bunnau wrth eu lluchio ar feusydd gwlybion, a thrwy ei gymhwyso yn annoeth, heb na gwybodaeth na threfn mewn perthynas i'w natur, na barn am ansawdd y priddyn. A'r unig reswm a ellir ei gael wrth ymresymu âg ambell un lled hunanol o barth i'r fath drefn ydyw, "Wel," meddai, "fel hyn y gwelais i fy nhad yn gwneuthur; a phaham na wna y tro i minnau?"

Pell ydwyf oddiwrth ddywedyd yn erbyn cymhwyso calch fel gwrtaith neu gymhellai (*stimulants*) i'r tir, ond i'r gwrthwyneb; ond gofalu ei arfer heb ei gamarfer, bydd yn llesol ryfeddol. Llawer o bersonau nad ydynt erioed wedi amgyffred yn gywir yr achos o'r effeithiau daionus sydd yn deilliaw oddiwrth galchu, a'i dewisant o flaen gwrtaith y buarth, a chredant yn hollol y gallant wneyd heb un math o wrtaith ond y calch yn unig;

diffrwythder a dyhysbyddiad nerth y tir a'u dysg, yn fuan neu yn hwyr, i redeg i eithafion yn yr ochr arall, ac i farnu fod calchu yn anghymhwys a niweidiol i'r eithaf i'r tir, pa sefyllfa neu natur bynag y byddo. Ond yr amaethwr celfyddgar a phrofiadol a ŵyr yn eithaf da, na wna calch byth y tro yn lle yr arferiad o deilo â thail y buarth. Gwir fod calch, ond ei gymhwyso gyda barn gywir, yn gwneyd tail yn fwy grymus yn ei effeithiau, ond gofalu na byddo un yn gweithredu ar y llall yn uniongyrchol; felly yr ennill y doeth trwy yr effeithiau daionus y mae calch yn ei wneyd ar y cnydau dyfodol ar ol ei arfer; ond cofier, y rhaid gofalu am ddigonedd o dail i adferu i'r tir yr hyn a ddygir ymaith oddiarno gan y calch, er ychwanegu tyfiant a ffrwythlondeb y cnydau, at ba rai y defnyddiwyd ef. Nid casglu rhyw domen anferthol o galch yn Ngŵyl Mihangel, a'i bentyru ar ei gilydd, i'r gwynt a'r gwlaw weithredu arno trwy y gauaf, sydd ddoeth; fel y gwelais y flwyddyn bresennol ar dyddyn yn yr ardal lle yr ydwyf yn byw ynddi; y calch wedi yslecio, ac wedi myned yn deisenau ar ei gilydd, fel nad oedd ond ychydig iawn o werth ar y cae gwlyb y chwalwyd ef arno, a derbyniodd lai fyth o les oddiwrtho. Yr hen arferiad oedd teilo pastai calch a phridd ar dyndir i haidd neu geirch; ac felly eto mewn llawer ardal. Yr arferiad cyffredin yw rhoddi calch ar dir llafur mewn hafar, lle y byddys yn hafaru—ei gymysgu â phridd a wneir yn fwyaf mynych, a'i roddi fel hyn yn gymysgfa i ail gnwd o geirch neu haidd ar y sofl. Hen arferiad lled fynych oedd cymhwyso calch ar y rhesi tatws cyn eu priddo, felly byddai calch yn cael ei gymysgu â'r pridd heb ddyfod yn uniongyrchol i weithredu ar y tail. Nis gallaf lai na beio y rhai sydd yn cario calch yn bentyrau bychain ar hyd y meusydd, a'i adael yno am fisoedd i'r gwynt, haul, a'r gwlaw, weithredu arno, a dyfetha y rhanau gweithredol ac effeithiol sydd ynddo yn hollol; mewn gair, bydd y fath driniaeth yn ei wneyd yn waeth ac yn llai o les i'r tir na phriddyn hen glawdd, heb na thail nac un peth arall ynddo. Dylid bod yn ofalus i'w gymysgu neu ei orchuddio â phridd yn ddioed ar ol ei gael i'r maes; ni raid ofni na bydd digonedd o wlybaniaeth yn y tir bob amser i yslecio y calch—mae yn naturiol yn sugno pob gwlybaniaeth a ddaw yn agos ato. Gwelais ambell un yn cymmysgu tail â chalch, a thrwy hyny yn dyfetha rhinweddau da y naill a'r llall o honynt: y mae y fath arferiad ffol yn profi i'r byd nad yw y sawl sydd yn gwneuthur hyny yn deall dim am fferylliaeth; ac os nad yw yn deall fferylliaeth, pabam na sylwai ar weithrediadau natur, sydd mor agos iddo? Os edrychir ar dail y ceffylau oddeutu yr odyn galch, gwelir yno esiampl a'n dysg yn effeithiol ac amlwg fod calch yn sychu ac yn llosgi i fyny y tail fel glaeaden yn yr haf. Cofiwch, dyddynwyr Cymru, mai yr un effaith y mae calch yn ei wneuthur ar y domen dail pan y byddwch yn eu cymysgu ynghyd gartref. Oddeutu deugain mesur o galch i'r erw a gymhwysir yn gyffredin, wedi ei gymysgu â phridd. Yr wyf o'r farn pe dyfrffosid mwy, na byddai eisieu calchio mor aml, a gwnai llai o'r hanner y tro ar dir sych wedi ei ddraenio—byddai deg mesur ar hugain, neu lai, i'r erw, yn fwy llesol y pryd hyny na thri ugain mesur ar dir gwlyb heb ei sychu, lle nad oes yn bosibl iddo weithredu gydag un math o les ond am amser byr iawn.

Sylwais ar drefn hynod o fuddiol i gymhwyso calch yn Ngŵyl Mihangel. Pan oedd yr hin yn sych, cariwyd oddeutu deg mesur ar hugain o galch i'r erw, yr hwn a chwalwyd yn boeth ar sofl ceirch (yn y cnwd cyntaf ar ol traenio),

a thröwyd braner lled deneu arno yn ddioed ar ol ei chwalu. Fel hyn, yr oedd y calch yn cael ei orchuddio a'i gymysgu gyda'r pridd pan oedd mewn llawn nerth, a'r mygdarth (*gases*) llesol sydd ynddo yn cael eu hyfed gan y tir, ac i ddwyn y natur galchaidd i weithredu yn uniongyrchol ar y priddyn. Y mae ychydig o galch wedi ei gymhwyso yn boeth, fel hyn, yn fwy effeithiol, ac yn gweithredu ar y tir yn gynt, na'i adael am wythnosau yn bentyrau bychain ar hyd y maes; ond ar y llaw arall, pan ei gadewir i'r gwynt a'r awyr, yr haul a'r tywydd, i weithredu arno, sugna i fyny fwy o wlybaniaeth, rhed yn deisenau ar ei gilydd, a chyll yn hollol ei effeithiau rhinweddol ar y tir, ac ni fydd yn bosibl ei falu a'i ddosranu yn fân byth mwy. Ar ol i'r calch a'r pridd fod yn gorwedd ac yn gweithredu y naill ar y llall trwy y gauaf, fel y sylwais uchod, torwyd y cae drachefn yn mis Mawrth i geirch; yr oedd y pridd yn frac ac yn rhywiog dros ben; yr oedd yr egin yn edrych yn rhagorol, ac ni welais gnwd trymach yn Nghymru ar ol unrhyw driniaeth o'r blaen—yr oedd yn gnwd trwm, ffrwythlawn, a thoreithiog iawn. Mantais arall sydd yn deilliaw o ddilyn y drefn yma ydyw, fod y tir yn cael ei bereiddio, yn tynu ymaith y surni o hono, ac yn fwy cymhwys i dderbyn y tail y flwyddyn ganlynol i faip, neu gnydau gleision eraill a fwriedir roddi yn y maes; bydd y tail a'r calch hefyd yn gweithredu bob un ar ei ben ei hun, y naill flwyddyn ar ol y llall, heb i un waethygu neu weithredu yn uniongyrchol ar y llall. Ar hen dir pori, sydd o natur fwsoglyd, ac yn tyfu llawer o chwyn, y mae ychydig o galch wedi ei gymysgu gyda phridd yn effeithio yn rhinweddol—y mae yn lladd y planigion niweidiol, ac yn achosi i borfa beraidd a blasus i dyfu yn eu lle. Ond cofier eto, ar dir llafur sydd wedi ei redeg, fel y dywedir, ac wedi derbyn to ar ol to o galch, ni fyddai cymhwyso ychwaneg o'r gwrtaith yma o un gwasanaeth iddo. Yn y fath amgylchiadau y mae wedi profi yn niwediol i dyfiant llysiau o bob math.

Ar y tir sydd yn gorwedd ar graig o natur llechi, sef y siâl a'r *clay slate*, y mae calchio y fath dir yn llesol, ac y mae yn gofyn mwy o galch na'r rhan hono sydd ar y graig galch; o ganlyniad doeth yw cymhwyso ychydig o hono, gyda medrusrwydd a barn, ar y rhanau hyny o'r wlad lle y meithrinir llawer o geirch.

Gwelais hefyd effaith lled hynod gyda chalch, wrth draenio tir yn lled ddiweddar. Yr oedd y tir wedi ei galchio yn drwm lawer o flyneddau yn ol. Wrth dori traeniau, yr oedd y calch yn deisen, ac yn rhimyn gwyn oddeutu troedfedd o ddwfn yn y ddaear. Yr oedd natur y calch i redeg yn is na'r aradr, a thrwy hyny yn colli ei effaith; gwnaeth agor y traeniau roddi ail fywyd ynddo, trwy fod y cae yn cael ei aredig yn ddyfnach, ac yn dwyn tipyn o'r hen *shalcan* galchiog i'r wyneb. Os na chedwir y calch i weithredu yn lled agos i'r wyneb, nis gellir byth ddysgwyl lles oddiwrtho.

Yn y manau hyny lle y gellir cael digonedd o dail pydredig, nid oes un peth yn adnewyddu y tir gymaint, ac yn achosi y fath les i'r borfa, *a theilo ar y croen*, fel y sylwodd un gwr wrthyf yn ddiweddar,—"y mae yn ireiddio y tir a'r anifeiliaid." Tail mân o'r pentrefi, wedi ei gasglu gan y bythynwyr, yn gymysgedig o ludw glo, coed, neu fawn, gyda golchion o bob math, sydd fwyaf llesol. Yr oedd genyf ddarn o gae wedi ei deilo ar y croen gyda thail o'r natur yma, a darn arall o'r cae wedi ei deilo â chymysgfa o bridd a thail y buarth; yr oedd yr effaith i'w weled yn amlwg yn y borfa; tail y pentref oedd yn cario y dydd o ddigon, ac yr oedd y

gwartheg yn chwennych aros ar y darn hwnw yn fwy na'r llall—yr oeddynt yn fwy llaethog, ac yn rhoddi ychwaneg o ymenyn nag mewn un rhan arall o'r tyddyn. Y mae lludw glo, fel y mae ryfeddaf, yn llawn mor rinweddol a dim a welais i fel *top-dressing*. Byddaf yn barnu mai yr achos o hyny yw, ei fod yn cynnwys cymaint o *gypsum*, yr hwn sydd mor hynod o adfywiol i wair, porfa, a meillion.

Dyma drefn un amaethwr profiadol.[1]—"Byddaf yn *top-dressio* cryn lawer, a dyna y peth goreu o ddim a allaf fi wneyd er mwyn dyfod â'r tir ato ei hun. Bum yn teilo ar y croen ddeugain erw yr un flwyddyn i wair a phorfa, a byddaf yn ei weled yn ateb yn gampus; byddaf weithiau yn *top-dressio* cae y gwanwyn eleni, wedi ei hadu y gwanwyn y llynedd, sef cae heb gael ond un cnwd o wair o hono, a bydd cnwd toreithiog; bryd arall yn ei *dop-dressio* cyn gynted ag y cludir y cnwd cyntaf o wair o hono; a phryd arall i borfa. Ac felly bydd pob cae tyndir a doraf wedi ei *dop-dressio* unwaith neu ddwy er pan fu yd ynddo o'r blaen, a byddaf yn cael eithaf dau gnwd o yd o honynt cyn rhoi cloron a maip ynddynt; a dyma y drefn yr wyf yn bwriadu ei dilyn hyd nes y gwelaf un well na hi."

Un peth arall anhebgorol wrth deilo ar y croen, yw rhedeg ôg ddrain ar hyd y cae, ar ol chwalu y tail, er malurio y gwrtaith, ac i agor y croen; lle byddo hen dir mwsoglyd, yn enwedig, rhaid hefyd rhoddi rholfaen (*roller*) arno yn mhen ychydig o amser ar ol hyny. Y mae rowlio tir gwair ieuanc a phorfa yn arferiad pur fynych yn Lloegr; gwneir hyny oddeutu mis Chwefror. Gwelais rowlio tir gwair y llynedd yn Môn, ac yn sicr arferiad rhagorol o dda ydyw. Y mae natur tir y wlad yn gyffredinol i fwsogli, ac nis gellir attal hyn yn well na thrwy deilo ar y croen. Lludw glo ydyw y peth goreu, ond tywod, at ladd mwsogl, o ddim a brofais i; a dylid rhoddi ôg ddrain, â digon o bwysau arni, i agor y croen, er ei rwygo goreu gellir. Y mae llyfnu tir mwsoglyd âg ôg ddrain yn waith da iawn, pe heb ei *dop-dressio*, ac fe dal hyny am y drafferth yn eithaf, ond cael digon o bwysau ar yr ôg, i rwygo digon ar y croen, a gwneyd hyny yn ddigon cynnar yn y tymmor. Bum yn dadleu yn ddiweddar gyda chyfaill o amaethwr, mewn perthynas i'r amser goreu i *dop-dressio:* yr oedd ef yn dal mai o Galangauaf i'r Nadolig ydoedd yr amser goreu, pan y bydd y ddaear yn cysgu, y tir yn sych, ac yn galed, yn enwedig ar amser rhewlyd. Yr oeddwn ninnau yn haeru mai yn niwedd mis Chwefror, neu ddechreu Mawrth, oedd yr amser goreu, oherwydd fod y tail y pryd hyny yn dyfod i weithredu yn uniongyrchol—yn fwyd ac yn feithriniad i'r planigion; cawodydd maethlawn y gwanwyn yn golchi effeithiau daionus y tail at wraidd y borfa, ac yn achosi iddo dyfu yn doreithiog. Dyma y drefn a gymerais i eleni a'r llynedd, ac y mae y cae yn edrych yn well ei liw, a mwy o borfa ynddo nag un maes sydd yn yr ardal. Bydded i'r deallus farnu pa drefn sydd oreu; ond cofier y rhaid cael y tail yn fân a phydredig.

I'r sawl sydd wedi cael prawf o ffermwriaeth, neu wybodaeth am dir gorllewinol a gogleddol Cymru, y mae yn lled wybodus iddynt y tyf croen ar y tir mewn pur ychydig o amser, a hwnw yn borfa las berffaith iawn, o natur rywiog a pheraidd, yn gynnwysedig o'r Dutch neu y *white clover trefoil*, a'r llysiau blyneddol, dwy flyneddol, a pharhaol, mwyaf rhywiog a ellir ei weled. Y mae y rhai hyn yn hollol briodol (*indigenous*), ac yn

[1] Mr. O. Pritchard, Ty'n llan, Tregaian, Mon.

naturiol yn y rhanau hyny o Gymru, a gellir dangos porfa, neu groen, tair blwydd oed ar dir canolig o dda, yn llawn cystal, os nad gwell, nag a ellir ei ganfod ar dir neu borfa deng mlwydd oed, mewn llawer o barthau o Loegr, ac ystyried natur y tir.

Y mae llawer o gyfleusderau yn ngwahanol barthau iseldir Cymru er dyfrhau (*irrigate*) y tir; yn mis Tachwedd y bydd yr amser goreu, os gellir cael digonedd o ddwfr, a dyma yr amser y bydd llifddyfroedd, yn enwedig yn y mân afonydd sydd yn rhedeg trwy y pentrefydd: bydd y rhai hyn y pryd hwnw o'r flwyddyn, yn golchi y tail a'r mân briddoedd i lawr i'r iseldir, ac yn gwrteithio y tir fel y gwelir llawer gwaen a chae yn edrych yn hynod o wyrddlas a thyfadwy yn mis Mawrth ac Ebrill, wedi eu dyfrhau gan y llifddyfroedd. Ni ddylid cadw y tir yn rhy hir yn wlyb, onide bydd yn sicr o feithrin llysiau dyfrol. Mae hyd yn nod y dwfr gwlaw mwyaf glân gloew yn llesol i dir lle mae glaswellt rhywiog—y mae gwlaw yn faeth rhagorol i bob math o lysiau. Rhaid i'r amaethydd fod yn ofalus i arwain y dwfr oddiar y ddaear yn araf, a chael ffordd i sychu y tir pan y dechreuo fyned yn rhy wlyb, ac yn enwedig am yspaid o amser cyn troi yr anifeiliaid iddo. Peth arall y gwneuthum brawf arno mewn gwaendir, oedd troi dwfr glân arno, sef dwfr *spring*. Y mae cae o'r tu uchaf i'r waen wedi ei draenio, ac y mae rhigol agored yn mhen uchaf i'r waen, a llawer iawn o ddwfr yn codi ynddo; tarawodd yn fy mhen i wneyd prawf pa effaith a gai dwfr *spring* o'r traeniau, ac o'r rhigol hwnw ar y waen; a thua Chwefror troais y dwfr hyd ddarn o'r waen, trwy wneyd rhigolau bychain i'w gario yn ol ac ymlaen, a chefais lawn cymaint cnwd o wair, a mwy o adladd, nag yn y lle a deilasid â phridd a thail; ac yr wyf yn bwriadu traenio y waen yn dda o dipyn i beth, a throi cymaint o ddwfr ag a fedraf gael ar hyd-ddi.

Gellir enwi amryw wrteithiau estronol a gwneuthurol (*artificial*) sydd yn hynod faethol i'r llysiau blyneddol, er nad ydynt yn llawer o gynnydd i'r pridd fel gwrtaith parhaol, megys *guano*, *esgyrn*, ac *esgyrn a sulphuric acid*, *London night soil*, &c., ac eraill. Arferir *guano* yn helaeth fel gwrtaith ffrwythlawn i dir pori, fel *topdress*, a gwelir yr anifeiliaid yn pori y man yr heuir ef o flaen un cwr arall o'r maes. Bum yn ei gymhwyso fy hun i wair ieuanc yn y gwanwyn, a chefais gnwd toreithiog anarferol. Yr oedd ar yr erw lle y cymhwysais *guano* fwy o'r hanner o wair nag un man yn y maes—heuais oddeutu tri chan pwys i'r erw. Rhaid bod yn ofalus i'w hau ar dywydd dystaw, gwlyb; onide, rhed yr *ammonia* ymaith gyda'r gwynt. Arferir ei gymhwyso yn fwyaf neillduol i faip a rwdins. Cymhwysir *guano* hefyd i egin ŷd o bob math, gyda lles dirfawr i'r cnydau dyfodol. Y mae rhan fawr o Scotland a Lloegr yn ei arfer yn helaeth. Clywais am amaethwr yn Scotland yn cymhwyso gwerth 500*p*. yr un flwyddyn, yn fwyaf neillduol i faip a rwdins, ac yn buarthu y defaid arnynt i'w bwyta oddiar y maes, ac fel hyn yn teilo y tir yn rhagorol i'r cnydau ŷd dyfodol. Yn yr un modd y defnyddir esgyrn, ac esgyrn yn gymysgedig âg *oil vitriol* (*sulphuric acid*). Y mae esgyrn wedi eu malu yn fwy parhaol yn y tir na'r *guano*, ac yn cynnwys mwy o sylwedd olewaidd. Y mae esgyrn yn well, o herwydd ceir gwell ŷd a gwair yn ddilynol iddynt, nac ar ol y *guano*. Yn y lleoedd nas gellir cael digonedd o dail, y mae cymhwyso *guano* neu esgyrn yn rhagorol. Gwnaed llawer o welliadau yn y drefn o amaethu yn sir Gaer wrth arfer esgyrn ar y tir, a haerir

eu bod yn llaethog ryfeddol yn y gwair a'r borfa. Ond gwell genyf fi dail y buarth bob amser, oddigerth cymhwysiad o ychydig o *guano* neu esgyrn er cynnorthwyo y tail i ddwyn ymlaen y rwdins a'r maip.

Af ymlaen i draethu ar yr *offerynau amaethyddol* a arferir yn fwyaf cyffredinol yn y wlad, gyda nodi y rhai mwyaf dewisol. Nid oedd son, gan' mlynedd yn ol, ond yn unig am y gaib a'r rhaw, y gwŷdd (aradr), a'r ôg dri scwâr, y càr llusg, yr ystrodyr, a'r cawell; yn y dyddiau hyn, canfyddwn y dynion mwyaf cywrain yn rhoddi eu galluoedd a'u gwybodaeth ar waith er dwyn offerynau amaethyddol yn fwy perffaith, er rhwyddhau y gelfyddyd, cynnyddu hydyfiant, a lleihau llafur dyn ac anifel.

Yr *aradr* yw un o'r offerynau amaethyddol hynaf sydd â son am danynt mewn hanesyddiaeth. Gwelwyd gynt, yn Nghymru, y saer coed yn codi yn y boreu, yn hwylio ei arfau, yn tori y goeden onen, ac yn ei gwneyd yn *aradr lummog* erbyn y nos, a'r cwbl am lai na 2*s*. o gyflog. Y mae gwahaniaeth dirfawr mewn amgylchiadau pethau yn awr—gymaint o welliant yn null yr aradr, yn ei maintiolaeth, a'i hwylusdod i aredig yn drefnus a defnyddiol. Nid doeth fyddai i mi sylwi yn fanwl ar hŷd y cyrn, y cebystr, lled y cwlltyr, y swch, a'r ystyllen bridd; y mae pawb yn ddigon hysbys o hyn; nid oes un ardal, braidd, heb y gof yn rhagori am wneyd erydr haiarn *Scotch*, fel eu gelwir, hyd nes y mae yr hen aradr goed agos a myned allan o arferiad, a'r erydr heiyrn yn dwyn eu lle. Y rhai diweddaf a enwais, sef yr erydr heiyrn, a arferir yn fwyaf cyffredinol;—y maent yn fwy nerthol ac effeithiol yn eu gweithrediadau, yn fwy sefydlog yn y ddaear, llai o dynu ar y ceffylau, yn hwylusach i'r aradwr eu trin a'u llywio, yn troi y gŵys yn wastatach, ac yn fwy rheolaidd a threfnus. Ni welir ond dau geffyl wrth bob aradr, yn gyffredin, ac nid oes eisieu bachgenyn i alw wrth eu penau mwy; y mae un llencyn rhwng cyrn yr aradr, gyda'r tenyn main, sef yr awenau, yn ddigon galluog i yru yr anifeiliaid ac i lwybreiddio yr aradr; a dyma y dull sydd yn mhob ardal o Gymru, braidd. Aradr â dwy ystyllen bridd sydd yn hwylus iawn at agor rhesi pytatws, maip, a bîd. Arferir erydr gydag olwynion wrthynt, er eu harwain, mewn rhai manau yn Lloegr; ond ni wnant y tro yn Nghymru hyd nes byddo ein meusydd yn wastatach, a'n trefn o amaethu yn fwy perffaith.

Yr *ogau* mwyaf hwylus a defnyddiol ydyw y rhai tri darn, sydd yn dyfod yn fwy i arferiad bob blwyddyn; y maent yn *closio* ac yn *lapio* yn well am y cefn, yn llyfnu yn rhwyddach, ac yn gwneyd mwy o waith mewn llai o amser na'r ôg ddeuddarn, sef yr un gyffredin. Dylid gofalu am osod dannedd yr ôg fel na byddont yn rhedeg yn yr un rhych ar ol eu gilydd —rhaid eu gosod i redeg yn wahanol i'w gilydd, a thrwy hyny, gwneir ychwaneg o waith gyda hi: gellir eu gosod fel hyn yn hawdd trwy uno y gadwyn gydiol wrth ddau ddarn yr ôg, fel ag i symud y cydiad yn fwy i un ochr na'r llall, felly, rhed y dannedd ar y maes yn wahanol i'w gilydd. Y mae rhai yn dadleu yn erbyn yr ôg dridarn, gan ei bod yn fwy costus na math yn y byd o ogau, trwy ei bod yn gwisgo yn fuan; ei bod yn ysgwyd cymaint, fel na phery na choed na haiarn ond ychydig: felly, y mae rhai amaethwyr yn ei throi heibio, ac yn cymeryd dau ddarn, a phedair carfan yn mhob darn. Ond barned y cyfarwydd pa un sydd fwyaf defnyddiol. Nid yw ôg ry drom i'w chanmawl—y mae yn lladd y ceffylau, ac yn gwneyd llai o waith nag un led ysgafn hawdd ei thynu. Dylid cael ôg â dannedd byrion i lyfnu, ar ol hau gwair a meillion.

Yr offeryn nesaf mewn defnyddioldeb a hwylusdod i'r amaethydd yw yr *ysgythrydd*, neu *ysgyfflar* (*scarifier*), i lanhau y maip a'r cnydau gleision. Gwelais amryw o rai coed a haiarn yn hynod o gymhwys at y gwaith. Y mae yn offeryn na ddylai un tyddynwr yn y wlad fod hebddo, os ydyw yn caru glanhau ei dir a chwynu ei gnydau gleision.

Y mae *Uley's cultivator* yn hynod o ddefnyddiol i drin tir i rwdins neu faip—y mae yn agor y tir, yn dadwreiddio y chwyn mwyaf nerthol, ac yn gwneyd gwaith tair aradr, neu ychwaneg. Anhawdd yw rhoddi desgrifiad cyflawn o'r fath offerynau heb ddarluniad o honynt. Buddiol fyddai i'r amaethwyr Cymreig, na welsant y fath offeryn, ymweled â'r lleoedd lle y maent mewn arferiad, yn enwedig yn mis Mai, pan y byddant mewn llawn gwaith, er gweled eu defnyddioldeb. Yn nesaf peth i wrteithio, dylai fod glanhau tir oddiwrth wreiddiau. Y mae genyf offeryn pwrpasol wedi ei wneyd i hel chwyn, ac ni byddai yn waeth genyf mor llawer fod heb ôg na bod hebddo yntau; nid ydyw ond ychydig iawn o werth, ac yn ateb y dyben yn gampus hefyd;—math o gribin i hel gwraidd marchwellt (*couch rake*) ydyw.

Ni ddyfeisiwyd eto y fath offeryn a *Crosskill's roller* at drin tir rhwym, cleiog. Y mae yn hynod o ddefnyddiol at falurio y fath dir ag sydd yn y dyffrynoedd, megys Dyffryn Clwyd, &c.; a byddai yn llesol iawn mewn amryw fanau yn y wlad. Ai nid doeth fyddai i ardal gael un o'r offerynau rhagorol hyn rhyngddynt? Byddai un yn ddigon i hanner dwsin o ffermydd. Yn yr un modd y gellir sylwi ar y *subsoil plough*, ag sydd yn sicr o ddyfod i fwy o arferiad. Gwna un y tro rhwng amryw o dyddynwyr.

Gwneir y *rowlers*, yn fwyaf cyffredin, â cheryg; dro arall, o goed; ac weithiau, dim ond careg galch gron, yn unig, wedi ei chydio mewn cadwyn; ond gan y rhan amlaf, bydd car yn rhwym wrth y gareg neu'r coed. *Roller* deuddarn, naill ai o goed neu geryg, yw yr oreu genyf fi. Y mae gwelliant yn cael ei wneyd bob blwyddyn yn yr offerynau defnyddiol hyn.

Yr ydwyf eisoes wedi sylwi ar y *drills* at hau maip a rwdins; gwneir rhai sengl, a rhai dwbl—y rhai cyntaf a enwais yw y rhai mwyaf cyffredin. Fel y mae diwylliad mewn amaethyddiaeth yn cynnyddu yn Nghymru, yn yr un graddau gellir dywedyd fod offerynau amaethyddol yn gwellhau yn eu gwneuthuriad a'u defnyddioldeb.

Peiriannau dyrnu (*threshing machines*) sydd yn dyfod yn lled gyffredin; ac yn bresennol, nid oes, braidd, un fferm o faintiolaeth led helaeth heb un o'r peiriannau yma wedi ei dodi i fyny, ac mewn cyflawn weithrediad. Gweithir hwy, yn fwyaf cyffredin, gan bedwar neu ychwaneg o geffylau; ond lle y gellir cael nerth dwfr neu agerdd, dyma y modd yr etyb y peiriannau oreu; canys nid yw y draul o weithio y dyrnwr gyda dwfr ond ychydig iawn mewn cyferbyniad i nerth pedwar neu wyth o geffylau. Y maent i'w gweled yn aml ar hyd y wlad yn dyrnu âg agerdd, a'r peiriant yn symudol, fel y gellir ei gludo o'r naill ffarm i'r llall. Gwell ydyw eu gosod yn sefydlog, ac adeiladau digon helaeth i'w cynnwys, gyda lle cyfleus i gadw y gwellt yn ymborth i'r anifeiliaid. Ond y mae dyrnu gyda llaw yn hwylusach mewn tyddynod bychain, a lleoedd nad oes helaethrwydd o adeiladau i gadw y gwellt yn ddiogel.

Ni welais yn Lloegr well *peiriannau nithio* (*winnowing machines*) nag sydd mewn rhai ardaloedd yn Nghymru. Nid yw yn bosibl i'r amaethwr fyned ymlaen gyda gwaith y tyddyn heb yr offerynau defnyddiol hyn.

Ni raid i mi sylwi ar y gaib, y rhaw, y bigfforch, y gribyn, a'r mân offerynau anghenrheidiol ar dyddyn; y maent yn ddigon hysbys i bawb; ond dywedaf air am y gribyn, yn enwedig yr hen gribyn bach. Yn fy marn i, y maent yn llawer hwylusach, a mwy defnyddiol, a gellir gwneyd mwy o waith gyda hwynt, na'r cribyniau mawrion heiyrn, nad ydynt yn dda i ddim ond i ddyfetha yr ŷd, ac yn esgus i'r dynion i chwareu a diogi gyda hwynt.

Gwneir troliau defnyddiol mewn rhai parthau o Gymru, ond yn gyffredin yn rhy drymion; y maent yn ddigon o faich i'r ceffylau, heb son am lwyth trwm ynddynt. Tra parhao y tir yn wlyb, mae yn debygol mai dyma y fath droliau fydd fwyaf gweddus i'r amgylchiadau; ond y mae yn bryd i amaethwyr iseldir Cymru agor eu llygaid, ac edrych pa beth sydd yn myned ymlaen yn Lloegr a Scotland. Prif amcan dynion deallus yw ysgafnhau yr offerynau, ac yn enwedig y cerbydau a'r troliau, hyd nes yw Scotland yn y dyddiau presennol wedi rhoi heibio yn hollol yr hen wagen a'r drol drom, ac yn eu lle y drol ysgafn un ceffyl. Mae yn sicr y gellir gwneyd mwy o waith â'r troliau ysgeifn, gydag un ceffyl ynddynt, na'r troliau trymion, afrosgo, â dau neu dri cheffyl ynddynt; a beiddiaf ddywedyd eu bod yn well i'r amaethwr na'r wageni, gyda phedwar neu bump o geffylau ynddynt. Gall un dyn arwain dwy drol a dau geffyl, yn enwedig pan yn cario gwrtaith, calch, tail, tywod, neu bridd, &c. Daeth gŵr boneddig â'r troliau yma i arferiad ar ei fferm oddeutu dwy flynedd yn ol. Gwerthwyd un o'r troliau bach (*Scotch cart*), am ddwy bunt yn uwch na'r pris a roddwyd am dani yn newydd yn Scotland! Dyma brawf fod y wlad yn dechreu gweled eu gwerth. Rhoddodd y gŵr boneddig y cyfeiriais ato y prawf canlynol o fy mlaen, i ddangos y fantais sydd yn deilliaw o gadw trol un ceffyl, ar yr hen ddull sydd genym:—Yr oedd yn cario calch o'r odyn i'r fferm, gyda dwy drol, ac un ceffyl yn mhob un o honynt, ac un dyn yn arwain y ddwy. Yr oeddynt yn tynu bob tro bedwar mesur ar ddeg o galch, heb un math o bwys na blinder ar yr anifeiliaid. Yr oedd ffermwr (cymydog nesaf y boneddig) yn cario calch yr un amser, gyda throl â dau geffyl ynddi, yn tynu wyth mesur bob tro, yr anifeiliaid yn llawn chwys a llafur. Fel hyn, gwelir fod yr un rhifedi o geffylau, un dyn o bob ochr, a'r troliau bach, yn dyfod â mwy o chwe' mesur o galch bob siwrnau. Dyma ffaith nad all y Cymro gau ei lygaid rhagddi. Yn y cynauaf drachefn, gellir gwneyd mwy o'r hanner o waith â hwynt; a pha bryd y bydd yr amaethwr yn gwaeddi am fwy o gymhorth a hwylusdod na chefn y cynauaf?—yr anifeiliaid yn gallu eu tynu yn hawdd heb na phoen na lludded, ychydig o bwysau ar eu hol, yn cerdded yn gynt, ac yn gwneyd mwy o waith; dyma foddion o'n blaen sydd yn dangos y gellir cynnilo llawer mewn llafur. Gadawaf i'r deallus farnu a ydyw y fath gerbydau yn debyg o ateb yn iseldiroedd Cymru—fy marn i yn hollol yw y gwnant. Nid wyf o'r farn fod wageni trymion yn weddus i'r drefn sydd genym o amaethu, mwy nag yn ddefnyddiol i'r sawl a'u cadwant—y maent yn hynod o gostus i'w gwneyd, a rhaid cael lle addas i'w cadw. Gwell genyf fi y drol ac un ceffyl lled ysgafn, neu y drol a dau geffyl, os bydd yn rhaid eu cadw.

RHAN II.

YR ydwyf yn cael fy arwain i ystyried yr ail ran o'r gofyniad pwysig sydd o fy mlaen, *sef y drefn fwyaf buddiol ac ennillfawr i'w dilyn yn iseldiroedd Cymru yn meithriniad a dewisiad anifeiliaid.*

Y mae rhan fawr, os nid y rhan fwyaf o Gymru (sef y gogledd a'r deddwyrain), yn fwy priodol at fagu a meithrin gwartheg ieuainc, nag i besgi; ac fel yr ydym yn nesau at y rhan ddwyreiniol o'r Dywysogaeth, ac at derfyn gwlad y Sais, canfyddir yn amlwg fod amaethyddiaeth yn gwellhau, y porfeydd yn frasach, a'r anifeiliaid yn drymach. Os rhoddwn ein traed ar ymylau Henffordd, Amwythig, a sir Gaer, gwelwn y bustach penwyn trwm, a'r fuwch goch fyrgorniog yn pori yn dawel ar hyd y meusydd breision, a'r dyffrynoedd cysgodol. Ond cyn sylwi yn neillduol ar y dull mwyaf buddiol o feithrin gwartheg ieuainc, rhoddaf ddesgrifiad byr o nodwedd gwartheg Cymru.

Gwartheg Gogledd Cymru yw y rhai mwyaf dymunol gan y Sais, sydd yn pori ac yn pesgi llawer ar wastad-diroedd Lloegr. Y rhai a elwir y *Welsh runts*, neu y sir Fon (*Anglesey black cattle*), ydynt wartheg duon, asgwrn lled fychan ganddynt, llaesion o gorffolaeth, yn enwedig yn y pen blaen, yn drwm yn yr ysgwydd, gwyneb gwastad, y brig (cyrn) yn hirion, yn troi i fyny a'u gogwydd allan, coesau byrion, pen y glin a'r corff yn llydan a chrwn, tagellau anferth, morddwyd lled uchel, y croen yn ystwyth (yn y rhai goreu o honynt), y blewyn yn hir ac yn arw; y maent yn rhai caledion ac yn hawdd eu magu, a thueddiad naturiol i besgi; prifiant yn rhagorol ar waenydd Kent ac Essex, a brasdiroedd Leicester a Northampton, ac ar unrhyw borfa sydd yn well na'u gwlad eu hunain. Y maent yn tebygoli mewn llawer iawn o bethau i wartheg gorllewin Scotland. Nid rhai llaethog iawn ydynt yn gyffredinol; pan yn dewion, pwysant (y bustych) o wyth i naw ugain y chwarter. Y mae golwg gwych, balch, ac anrhydeddus ar fustach o sir Fon wedi ei fagu yn dda, a bydd fyw lle y llewyga llawer Sais.

Mae yn debyg mai gwartheg gwyneb myglyd sir Drefaldwyn yw y rhai mwyaf gwerthfawr yn mysg y rhyw cenedlaethol (*native breed*). Megir hwynt yn fwyaf neillduol ar lan afon, ac yn nyffryn, yr Hafren. Rhai llaethog iawn ydynt, ac yn hawdd eu porthi. Wedi eu croesi gyda'r *Hereford*, y maent yn fath o anifeiliaid a gyfrifir yn rhai mwyaf gwerthfawr gan y cigydd—tueddiad ynddynt i besgi yn fuan fel yr *Hereford*, ac yn cadw at eu natur gyntefig, sef llawer o frithgig dymunol, ac yn profi, ar ol eu lladd, yn well i'r farchnad na'u cymydogion, y gwynebau gwynion.

Gellir dosbarthu gwartheg Deheudir Cymru i dri dosbarth. 1af, Rhai sir Benfro. 2il, Morganwg. 3ydd, Y rhai cymysgedig o sir Gaerfyrddin, Aberteifi, a rhanau gorllewinol Brycheiniog a Maesyfed.

1af, Sef sir Benfro, ydynt yn gyffredinol yn rhai duon, gydag ysmotiau gwynion, a rhes wen o danynt, cyrn melynion, yn troi i fyny yn brydferth, penau bychain hardd, llygaid gloewon ar wyneb y croen—eu bai mwyaf ydyw eu coesau hirion, ac asen rhy wastad (*flat*), ac eisieu ychwaneg o led ar draws y lwyn. Pwysa bustach pan yn dew, ac yn dair oed, o naw i ddeg ugain y chwarter. Rhoddant laeth yn gymedrol, ac oddeutu chwe' phwys o ymenyn y pen mewn wythnos yn yr haf. Y maent yn rhai rhagorol am weithio, yn addfwyn, celyd, a bywiog; arferir hwynt i weithio

wrth yr aradr yn aml. Pe croesid y rhai hyn â tharw coesfyr Môn, gwnai lawer o les yn sicr.

2il. Gwartheg Morganwg, sydd o amrywiol liwiau—cochion, duon, a brychion. Y maent yn arwach eu golwg na'r Penfroaid; y pen ol wedi ei osod yn rhy uchel; rhai salw ydynt pan yn ieuanc. Rhai da ydynt am laeth ac ymenyn, ac yn rhadlawn i weithio; pwysa bustach pan yn dew o ddeg i un ugain ar ddeg o bwysau y chwarter.

3ydd. Nid ydyw gwartheg cymysgedig Caerfyrddin, Aberteifi, a rhanau gorllewinol Brycheiniog a Maesyfed, yn dangos unweddiad yn eu cymeriad na'u hansawdd; o herwydd eu bod wedi croesi a chymysgu cymaint gyda'r eppil a enwyd, ac â hiliogaeth Gogledd Cymru. Rhydd rhai o honynt laeth yn lled wych—o wyth i ddeg chwart y tro. Gwartheg bychain ydynt, yn cigo yn ysgafn, a blewyn caled, byr, ac heb ond ychydig o dueddiad i besgi; ni chyrhaeddant pan yn dewion fwy na saith ugain y chwarter. Nid ydynt yn gweithio y gwartheg yn y rhanau yma o'r Dywysogaeth.

Mae gwelliant dirfawr wedi cymeryd lle er's ychydig flyneddau yn ol yn ngwartheg y rhan uchaf o sir Aberteifi, a bryniau Maesyfed, trwy i Dduc Newcastle ddwyn gwartheg duon gorllewin Scotland yno, y rhai a elwir y Kelsoes. [Gwel "*Journal of the Royal Agricultural Society.*"]

Llawer o ddadleu sydd yn bod yn mysg boneddigion ac amaethwyr y wlad, mewn perthynas i'r drefn fwyaf buddiol o *fagu* a *meithrin* anifeiliaid: y mae rhai yn dadleu yn eofn dros wellhau hen rywogaeth (*breed*) y wlad, ac eraill am eu croesi â'r byrgorniog (*short-horns*), a hiliogaethau estronol eraill. Y mae yr ystŵr hwn wedi achosi llawer iawn o les, ac wedi codi mwy o ymgais ymhlith yr amaethwyr i wellhau eu hanifeiliaid. Profwyd y ddadl gan amryw trwy groesi yr hil; ond, tybygwyf y dywed ffermwyr yn y gogledd a'r de-orllewin o'r Dywysogaeth, mai gwellhau yr hen ryw ydyw y mwyaf buddiol. Nis gallwn gael gwartheg mwy cymhwys i'r hinsawdd, ac yn fwy addas i'r wlad a'i hamgylchiadau, na gwartheg cynhenid Môn, Lleyn, Dinbych, Fflint, Penfro, &c. Y maent yn ddigon celyd i ddyoddef y cyfnewidiadau gwastadol yn yr hin yr ydym yn ddarostyngedig iddynt. Safant yn ddigryn a chadarn yn ngwyneb pob tywydd, ar rew ac eira, ar leoedd digon noethion a llwm, heb effeithio llawer ar eu cyrff. Mae yn sicr genyf fi, nas gellir byth fagu un rhyw o anifeiliaid mewn un wlad fel Cymru, yn well na'r rhywogaeth gyntefig sydd ynddi. Nid eu newid yn llwyr yw y drefn oreu; ond gwellhau yr hil a fyddo yn y lle yn barod sydd ddoethaf. Y mae defaid bychain sir Gaernarfon yn fwy cymhwys i greigiau cribog, llymion, ac oerion y wlad hòno, na'r *Leicesters*:—nis gall yr olaf byth fyw yno. Felly y dylem ninnau ddewis yr anifeiliaid ag sydd fwyaf cymhwys i'r hinsawdd, ac i'r amgylchiadau o dan ba rai y maent i fyw ynddo ac i'w gwrthsefyll. Mae yn amlwg i mi mai hen hiliogaeth gynhenid y wlad yw yr oreu i ni o dan bob amgylchiad. Ond os am besgi gyda thoes had llin (*oil cake*), rwdins, maip, a gwair gwndwn, rhaid gofalu am le cysgodol, cynhes, a dewis y rhywiau pur; naill ai y Devon, Hereford, byrgorniog (*short-horns*), cyrn hirion, Ayrshire, Teeswater, Alderley, &c. Ond a wna y rhai hyn gydweddu â'r hinsawdd, a bod yn fuddiol i amaethwyr Cymru yn gyffredinol? Mae yn wir y gellir dilyn y drefn o besgi mewn rhai dyffrynoedd cysgodol, a phorfeydd breision, ond nis gellir dilyn hyny ond mewn rhai parthau ar iseldiroedd Cymru.

Gan mai gwlad i fagu, i feithrin, ac i ddwyn anifeiliaid i fyny at eu pesgi, yw y rhan helaethaf o iseldir Cymru, rhaid dechreu yn y cychwyn cyntaf, a dangos pa ddull yw y mwyaf buddiol ac ennillgar i fagu y lloi a'r anifeiliaid ieuainc.

Y mae magu lloi yn ymddibynu yn benaf ar ferched y wlad. Gwraig dda, ofalus, a diwyd gyda'r lloi sydd yn anhebgorol; nis gall yr amaethwr byth fagu anifel yn dda heb gymhorth y wraig. Cof genyf dderbyn llythyr oddiwrth gyfaill, â'r sylw yma ynddo:—"Dylai pob ffarmwr ieuanc ofalu am wraig dda—nid un hoff o blethu ei gwallt, gwisgo yn *gay* a drudfawr, a chrwydro o dŷ i dŷ—ond un a gyfyd yn gyntaf o'r teulu yn y boreu, ac a ofala am fod y gwartheg yn cael eu godro yn llwyr:—mewn gair, *calf-rearing and pig-feeding wife*, sydd eisieu i ffarmwr."

Pan y byddo y lloi yn ieuainc ac yn weiniaid, y mae yn angenrheidiol bod yn ofalus i'w llaetho hwyr a boreu, ac edrych na byddo y cryf yn dwyn llaeth y gwan. Mae amryw o wragedd Cymru yn haeddu clod dirfawr am hyn—y maent yn ymbleseru gyda'r lloi; a phan yn rhoi tro am y da, ac yn rhodiana ar y dolydd gyda'i gŵr, bydd llawer gwraig rinweddol yn falch ganddi gyfeirio at y bustach cryf, iraidd, a theg, y bu yn cael y fath hyfrydwch wrth ei fagu pan yn llo bach.

Llawer o loi a fegir heblaw y rhai a geir oddiwrth wartheg y fuches, braidd yn mhob fferm yn y wlad, trwy brynu "lloiau gwlybion," a'u magu ar laeth y gwartheg, yn llawfaeth. Y dull a arferir yn mysg y mân dyddynwyr ydyw, berwi gwair, ynghyd â danadl poethion, a rhoddi y drwyth i'r lloi; braidd y cânt archwaethu llaeth am yr wythnos gyntaf. Y dull arall ydyw berwi us haidd, gydag ychydig o flawd haidd, neu flawd ceirch, ynghyd â maip, rwdins, neu ddanadl poethion, a rhoddi y drwyth gydag ychydig o laeth i'r lloi foreu a hwyr. Y mae digonedd o rwdins neu ddail yn cadw eu cyrff yn dymherus; rhagflaena hyn hefyd y clwyf du. Pelau o does o flawd haidd, neu flawd ceirch, gyda ffa, pys, &c., a'i rhoddi iddynt yn feunyddiol, sydd yn llesol iawn. Y mae had llin hefyd wedi ei ferwi, yn drwyth maethlawn, ac yn gynnaliaeth rhagorol i'r lloi, ac yn eu hireiddio yn gyflym. Mae amryw yn ei arferyd, a thybiant ei fod yn ateb y dyben yn dda. Hawdd ydyw i bob amaethwr hau ychydig o had llin ar ei dyddyn: nid oes dim a etyb yn well iddo, nac yn fwy angenrheidiol at fagu lloi ac anifeiliaid: a pha beth sydd yn fwy cymhwys i'w rhoddi i wartheg, pan yn sal, nag ychydig o had llin?

Yr ydym i'n beio yn fawr am gadw y lloi yn rhy hir cyn tori arnynt. Y mae lloi a fagwyd y gauaf, a'r rhai diweddaf, yn cael eu gadael hyd nes y byddo yn Galanmai y flwyddyn ganlynol cyn tori arnynt—dyma drefn rhan fawr o'r wlad: ond y mae yn colli tir, a goreu po cyntaf. Pan y bydd y lloi oddeutu tri mis oed, bydd llawer yn gyru am y torwr i dori arnynt; ond pe byddem yn tori arnynt pan o dan eu mamau, byddai y bustych yn fwy o werth o lawer. Hwyaf eu gadewir heb dori arnynt, tebycaf yn y byd i adfwl peudew, esgyrniog, fydd y bustach; ac yn anifel anhawddach i'w fagu, heblaw y bydd ei ddull a'i agwedd yn anfarchnadol. Y mae y Sais yn tori ar y lloi cyn y byddont yn fis oed, ac felly bydd yr anifel yn llawer mwy pigfain ac iraidd, ac yn debycach yn ei wynebpryd i annor. Dywed rhai fod yn haws magu lloi yn y gauaf tra heb dori arnynt, ond y maent yn anghofio y gwahaniaeth fydd yn y pen draw, pan y bydd eisieu eu gwerthu. Byddai yn fwy buddiol i amaethwyr Cymru dori yn gynt (nag y maent yn gyffredinol) ar eu lloi.

Cyn gynted ag y gwelir hwynt yn gwellhau yn eu cyflwr, dylid bod yn ofalus i'w tentio (*seton*), sef tori twll yn y dagell, a rhoddi darn o gortyn ynddo, a'i symud yn fynych yn ol ac ymlaen, yn enwedig cyn eu troi i'r borfa yn mis Mai neu Mehefin, a gofalu am roddi lle gwych iddynt pan y tröir hwynt allan gyntaf. Nid ydyw y mân dyddynwyr yn diddyfnu eu lloi hyd nes y byddant o dri i bedwar mis oed. Byddai y drefn hon yn fuddiol a llesol iawn pe byddai i'r merched adael iddynt gael llonaid eu boliau o laeth; ond ni bydd y lloi llawfaeth yn gyffredin yn cael ond tê gwair fel ei gelwir, sef gwair wedi ei ferwi ynghyd â danadl poethion, wedi ei gymysgu âg ychydig o flawd haidd neu flawd ceirch; a phan y tröir hwynt allan, y maent yn cael cymeryd eu siawns. Rhydd amryw o amaethwyr y dyddiau presennol dri mis o laeth i'r lloi, naill ai trwy sugno, neu ynte yn y cawg. Wrth eu diddyfnu, tröir hwynt allan yn yr haf i'r cae lloi, lle bydd porfa dda yn gyffredin, a'u cadw i mewn y nos; rhoddir gwair foreu a hwyr iddynt y gauaf canlynol. Rhai eraill, ni roddant i'r lloi blwydd ond ychydig o wellt haidd y gauaf, ar hyd y meusydd noethlwm, i'w cadw rhag llewygu a stancio; a thrwy hyny, dyfetha y gwellt, a cholli y gwrtaith. Y mae y fath driniaeth yn ddigon i ddyfetha unrhyw rywogaeth ond gwartheg caledion Cymru. Yn yr haf canlynol, ni chânt ond y borfa waelaf ar y tyddyn, a'u porthi y gauaf canlynol â gwellt haidd, neu wellt ceirch, ac yn ddigon aml, allan ar y maes, a hwnw yn oer a gwlyb, heb gymaint a chysgod cawnen rhag yr ystormydd. Os cedwir hwynt flwyddyn ymhellach, rhoddir gwell porfa haf iddynt; ac os cedwir hwynt y gauaf drachefn, rhoddir gwellt neu wair iddynt foreu a hwyr. Y rhai a borthir fel hyn â gwair, a werthir yn y gwanwyn i'r porthmon; a'r rhai a borthir â gwellt yn unig, a droir i'r borfa haf, yn barod erbyn Awst.

Wedi rhoddi hanes byr am y dull cyffredin o fagu gwartheg ieuainc yn Nghymru, bydd rhywun yn barod i ofyn, Pa fodd y cynghorwch chwi i drafod âg anifeiliaid ieuainc (*store cattle*)? Mi a ddechreuaf gyda y lloi. Ni byddwn braidd un amser yn gadael i'r lloi sugno eu mamau, oddigerth y rhai a fegir genyf yr haf i'r cigydd; ond eu magu yn llawfaeth, fel y dywedir. Byddant yn cael llaeth wedi tynu ei hufen am bythefnos, tair wythnos, neu fis, yn ol maint y llo, ac fel y bo yn yfed, &c.; ar ol hyny, byddwn yn rhoddi llonaid cwpan de o flawd had llin iddynt yn gymysg â'r llaeth; ac fel y byddant yn heneiddio, yn ychwanegu y blawd had llin, gan brinhau y llaeth, ac yn mhen o dair wythnos ar ddeg, i un wythnos ar bymtheg, caiff y llo ei ddiddyfnu. Byddant yn cael digon o rwdins, gan gynted ag y medrant eu bwyta, a hyny hyd Galanmai, a digon o wair. Byddant yn y beudŷ, neu y cwt lloi, fel ei gelwir, yn rhyddion (bydd llawer yn eu rhwymo, ond nid trefn dda ydyw), ac y mae rhesel wair yn un pen, a *manger*, i ddal rwdins, yn y pen arall. Os bydd rhai heb eu diddyfnu Galanmai, byddant allan ac i fewn fel y mynant, gan fod drws i fyned o'r beudŷ i gae bychan, a dyna lle y byddant nes y diddyfnir hwynt. Ond cymaint ag a fydd wedi eu diddyfnu cyn Calanmai (a bydd rhagor na'u hanner wedi eu diddyfnu erbyn hyny), caiff y rhai hyny eu hel allan Galanmai i borfa dda. Y mae llawer o'r rhai sydd yn arfer rhwymo y lloi sugno, neu rai yn cael llaeth, yn barnu mai yn rhyddion y maent oreu, a dyma fy marn innau, gan eu bod yn cael cerdded, rhedeg, a phrancio, a chael digon o ymarferiad; ac y mae yn ddiammheu genyf fod

rhedeg a thyrfu yn iachach iddynt na bod yn rhwym yn yr unfan, ac mi a feddyliwn fod hyny yn amlwg yn ol trefn natur ei hun.

Wrth droi y lloi allan oddeutu Calanmai, y maent fwyaf darostyngedig i gymeryd y clwyf, yn enwedig mewn lleoedd gwlyb, oerllyd; a mynych y collir y lloi yn y fath le. Y mae cannoedd yn meirw bob blwyddyn o dan y clwyf du—clwyf ydyw hwn, nad oes yn bosibl braidd ei wellhau na'i ragflaenu; nid wyf yn gwybod am un feddyginiaeth rhagddo pan y cymerir yr anifel yn glaf o hono. Y mae yn cymeryd y lloi mor sydyn, nas gwyddom pa fynyd y dechreua; a gwyddom fod colledion dirfawr yn cyfarfod â'r amaethydd bob blwyddyn wrth fagu lloi, a dyniewyd, fel y tystia baredai y wlad fod rhai cannoedd o grwyn yn dyfod yno o achos dinystr y clwyf yma yn unig. Haera rhai fod rhoddi lle rhy dda iddynt yn nechreu y tymhor, yn eu gwneyd yn fwy darostyngedig i'r clwyf; ond ymddengys hyny yn ddisail i mi, oblegid nis gall un peth fod yn fwy maethlawn i'r lloi na maip, rwdins, a had llin. Y maent yn ireiddio llawer ar eu crwyn, ac yn eu dwyn ymlaen yn rhyfeddol; a gellir haeru, fel y mae tyfu rwdins yn cynnyddu yn y wlad, i'r un graddau a hyny y mae effeithiau y gelyn dinystriol yma, sef y clwyf du, yn lleihau. Os bydd y lloi yn rhy gasol, cadwer hwynt i lawr trwy eu tentio, a dyma y dull y collir lleiaf o honynt. Ond bydder yn ofalus i gadw y tentiau yn agored, a rhwbio eu trwynau gyda *turpentine* yn fynych. Dyma y drefn a welais i yn ateb y dyben oreu, ac yn y modd yma y cefais y *store cattle* i fyny, ac y cedwais hwynt "yn fyw ac yn iach." Pan y delo y llo yn fustach blwydd, bydd yn iraidd a thyfadwy, ac yn fwy o werth o ddwy bunt na'r creadur cimachlyd, croendew, crynedig, a'i arau yn curo ynghyd, a fyddo wedi hanner llewygu. Pan yr ystyriom fod y rhan fwyaf o dyddynwyr Cymru yn ymddibynu ar y fael (*profit*) a dderbynir wrth fagu a meithrin anifeiliaid ieuainc, dylem fod yn fwy gofalus wrth borthi y dyniewyd —pan y bydd y bustach yn ieuanc, dyna yr adeg briodol i edrych am ei fod yn cael llonaid ei fol. Cofier fod anner (*heifer*) flwydd, wedi ei magu yn ofalus, yn werth o bedair i chwe' phunt y pen. Gyda'r anneri blwyddiaid y mae llawer o fân dyddynwyr Cymru yn talu eu rhenti; ac yn wir nis gellir beio digon, na chodi ein llais yn ddigon uchel yn erbyn y drefn o werthu y goreu, a chadw y gwehilion at fagu. Y cwlins sydd yn aros ar ol bob amser, a'r ffermwr yn cadw y rhai hyny i fagu a llaetha iddo! Ow! ow! amaethwyr Cymru, paham yr ydych yn gwneyd fel hyn? Cymerwch esiampl gan ein cymydogion y Scotiaid, a gwers gan eich cyfeillion y Seison:—y maent hwy bob amser yn ofalus i bigo allan ac i ddewis y llo goreu at fagu, pa un bynag ai tarw ai anner fyddo; a dyma y modd y maent yn gwellhau y rhyw, ac yn diwygio eu *stock*. Rhaid i ni, fel meithrinwyr anifeiliaid ystôr, fod yn fwy gofalus i gadw yr anneri goreu at fuchod, ac yn benderfynol i chwilio am y llo tarw o'r gwaed puraf, o'r llun harddaf, ac o'r hiliogaeth oreu. "*Penny wise, and pound foolish*," ydyw ofni rhoddi tro trwy y rhanau hyny o Gymru lle mae y gwartheg puraf, a lleiaf o lygredd a chymysgedd yn y rhyw, ac ofni talu pris lled uchel am lo blwydd a all wellhau y fuches. Ysgydwer rhyw hunan fel hyn o feddyliau yr amaethwr Cymreig, a buan y gwelir ei anifeiliaid yn fwy o werth o'r hanner. Gofaler hefyd am beidio magu o'r un gwaed yn ormodol. Mae newid gwaed, er ei fod o'r un hil, yn gystal a newid hadyd. Nid oes un ammheuaeth nad yw deddfau y byd llysieuol yr un ag yn y byd anifeil-

aidd; ac nid oes braidd neb a ammheua y ffaith, fod anifeiliaid cryfion, iachus, a ffrwythlawn, yn dwyn yr unrhyw hiliogaeth; ac felly yn y gwrthwyneb, y mae anifeiliaid sal, gwanaidd, ac anolygus. Y mae hefyd yn drefn ganmoladwy i gadw yr anneri oddiwrth y tarw, er eu hattal rhag cymeryd tarw yn rhy ieuainc. Cofier mai wrth ddechreu magu y mae gofyn bod yn fwyaf gwyliadwrus, o herwydd nid dichonadwy yw gwneyd dyniewyd crablyd, afiach, ac anffrwythlawn, yn werth y draul o'u magu—anolygus, diffrwyth, ac anfarchnadol a fyddant byth: ond os megir hwynt yn dda yn y dechreu, byddant yn barotach i'r farchnad rai misoedd yn gynt na'r rhai a ddrwg fegir. Mae agos yn anmhosibl gwerthu bustach wedi ei ddrwg fagu; ond y mae yn hollol i'r gwrthwyneb gyda'r bustach hirflew, iraidd, seimlyd, gwastad, corfforol, a'i groen yn teimlo mor ystwyth a sidan—hwn fydd y cyntaf a ddewisir allan o'r *lot* gan y porthmon. Nid oes dim yn gwellhau iechyd a thyfiant anifel ieuanc, ac yn sicrhau iechyd a chynneddfau yr anifel wedi y tyfo i fyny, cystal ag yw triniaeth gymhwys pan yn ieuanc; a chofier mai dyma yw y tri pheth anhebgorol yn meithriniad anifeiliaid ieuainc, sef ymarferiad (*exercise*), cynhesrwydd, a bwyd maethlawn.

Bydd y rhan fwyaf o fân dyddynwyr Cymru yn gwerthu eu bustych dwyflwydd, o ŵyl Mihangel i'r Nadolig; nid ydynt yn eu magu yn hwy: ac y mae yr amaethwyr mwyaf yn eu prynu at ystôr y gauaf; neu i bori gwellt gyda maip, erbyn porfa hâf. Byddai llai o drafferth i wneyd y bustach yn barod i'r farchnad, pe byddai y mân dyddynwyr yn fwy gofalus wrth eu magu, pan yn ieuainc. Mae yn hysbys i'r amaethwr sydd yn arferol o fagu â phrynu llawer o anifeiliaid, mai y rhai a fegir gartref yw y rhai goreu bob amser; bydd y bustach teirblwydd a fegir gartref â digon o rwdins a maip, ac ychydig o had llin, yn rhagori ar yr eidion pedeirblwydd a brynir gan y cymydog, sef *tenant* y fferm bach.

Y mae yn hollol anghenrheidiol, wrth ymdrin â'n hanifeiliaid, fyfyrio, nid yn unig pa fwyd sydd oreu iddynt, ond hefyd y reddf a roddwyd iddynt gan natur; a phob cynnygiad a wneir er rhwystro y natur neu y duedd yma, a ddiwedda yn gyffredinol mewn siomedigaeth. Yr ydym, o ganlyniad, yn cael ein harwain i'r ddadl mewn perthynas i groesi hil (*breed*) y wlad, gyda rhyw hil estronol. Rhaid cyfaddef fod y croesi cyntaf yn dangos mwy o faintioliaeth (pan y croesir gyda'r Devon); ond beth am yr ail genedlaeth? Cytuna pawb sydd wedi profi hyn trwy ymarferiad, nad ydynt yn werth eu magu. Y mae hiliogaeth y Gwyddelod, a fu yn britho rhai trefydd yn Nghymru, wedi dangos hyn yn eglur. Llygrodd a dirywiodd hiliogaeth y manau hyny i'r fath raddau, nes braidd y collasom yr enw "*Welsh runt*"—y porthmon yn dwrdio, ac yn rhoi rhybudd ar ol rhybudd, nad gwiw iddo ef fyned â'r fath *Piebalds* gwar-gam symudliw i Loegr—pris yr eidion yn myned is is, bob blwyddyn, hyd nes y dysgir, trwy brofiad chwerw i'r llogell, fod yn rhaid chwilio am well lliw a llun, onidê, ffarwel am fagu anifeiliaid yn Nghymru, ac i ddiwylliad mewn amaethyddiaeth brofiadol.

Drwg iawn ydoedd genyf weled, oddeutu dwy flynedd yn ol, amryw o'r creaduriaid Gwyddelig yn Ngogledd Cymru, a'r rhyw estronol o wledydd tramor sydd yn dyfod drosodd i Loegr; y rhai blaenaf wedi hanner llewygu, ac yn llawn afiechyd, yn britho ein marchnadoedd, a'r mân dyddynwyr yn eu prynu; ac yr wyf yn gwybod am amryw o amaethwyr

a hepgorasant y gwartheg Gwyddelig ac estronol, ac wedi gwneyd ugeiniau o honnan o ddirwg iddynt eu hunain trwy ddwyn y gwartheg hynny i fyny eu gwartheg eu hunain, a choili llawer o'r anifeiliaid gyda'r rhai estronol mewn canlyniad. Bydded i ni gymeryd rhybudd rhagllaw; y mae o bwys i ni fod yn fwy gofalus, ac ymwrthod â hwynt oll, rhag i ni roddi un anogaeth iddynt lanio byth mwy yn ein gwlad.

Pa un a ydyw yn bosibl gwellhau hil y wlad trwy eu croesi â hil arall, sydd gwestiwn nad allaf ei ateb; ond hyn sydd wedi ei brofi, nad oes gymysgiad âg un rhyw hil estronol, hyd yn hyn, wedi cyrhaedd yr amcan ymhellach na'r genedlaeth gyntaf. Dywedai un ysgrifenydd deallus,[1] pan yn sylwi ar y *short horns*, a gwartheg duon Môn, fel hyn;—"Yr wyf yn credu mai anaml y llwydda croesi rhwng dwy rywogaeth wahanol o anifeiliaid; ac ni chaniatâ natur y fath sarhâd ar ei threfniadau, fel ag i'n harwain i ddysgwyl am welliant wrth groesi dwy rywogaeth mor wahanol yn eu cyrn, eu crwyn, a'u lliw (gallasai ychwanegu hefyd am eu natur, eu haniau, a'u hagwedd), ag ydyw y gwartheg byr-gorniog a gwartheg Môn; felly, mae yn rhaid cael *short horn* perffaith, a rhoi y goreu i wartheg duon, a myned â phocced yn llawn o arian i Yorkshire neu Durham, er prynu yr anifeiliaid gwerthfawr yma o 'hen achau, â phrisiau uchel.'" Ond nis gall neb, byddysg yn arferion a moddion amaethwyr Cymru, ddysgwyl iddynt roddi cymaint allan ar anturiaeth mor ammheuol ac ansier. Mae yn ddiddadl i'r gwartheg byr-gorniog fyw, ac efallai ffynu yn nwylaw ychydig yn Nghymru, gyda moddion i'w cadw mewn lleoedd cynhes, a rhoddi iddynt yr un porthiant a diddosrwydd ag y maent yn arferol o gael yn Lloegr; ond o dan hinsawdd ac awyr laith iseldir Cymru, a'r porfeydd salw, a'r tiroedd corsiog, pa rai yn rhy aml a welir yn ngwahanol ardaloedd y wlad, ymddengys i mi yn lled ammheuol pa un ai nid myned yn llai mewn maintiolaeth y byddant, a dirywio fwyfwy.

Prawf lled gywir o amaethwr tra daionus, ydyw ei dda; ac o'r ardal lle y daw yr eidionau sidanllyd, seimlyd, corfforol, yno y mae amaethyddiaeth yn rhagori, a pho fwyaf fydd o anifeiliaid, mwyaf fydd y cynnyrch ŷd. Y mae magu llawer o anifeiliaid yn diogelu ac yn sicrhau ffrwythlonedd yn y cnydau ŷd; dyma, mewn gair, yw yr ystordŷ neu y weithfa yn mha un y gall yr amaethwr gynnal i fyny ei fasnach gyda mael iddo ei hun. Po fwyaf fydd rhifedi y da, mwyaf fydd y domen dail; a pho fwyaf fydd y cnwd maip, mwyaf o rifedi o anifeiliaid a ellir eu cadw. Gwelir yn amlwg nad oes yr un ffordd er sicrhau a mwyhau ffrwythlondeb y tir, yn well, ac yn sicr o lwyddo, nag yw cadw llawer o anifeiliaid (*stock*) arno. Mae yn wir fod natur y tir weithiau yn llawer o gymhorth, ond siarad yr ydwyf yn bresennol am y tiroedd hyny sydd yn codi ŷd, ac yn magu anifeiliaid.

Ar ol sylwi fel hyn ar fagu anifeiliaid, yr ydym yn cael ein harwain yn naturiol i ofyn, Pa fath eidion sydd oreu gan y porthmon? Gyda dynion llygadog, pwyllog, a chraffus, yr ydym yn masnachu bob amser. Nid "*Short horn dealers*" ydynt, yn ffair Northampton. Am y "*Welsh dealers*," y bydd y porfäwr (*English grazier*) yn gofyn; ac am wartheg Cymru, y "*Welsh runts*," y byddant yn chwilio. Dyma yr anifeiliaid y bydd ar y Sais eu heisiau i bori ar wastadedd Kent, Essex, Leicester, a Northampton.

[1] Parch. James Williams, Llanfairynghornwy.

Nid ydynt byth yn dysgwyl y "*short horns*" o Gymru; a phe byddant yn dyfod oddiyma, ni werthid yr un o honynt hanner cystal a'r rhai fydd yno o swydd Devon. Dyma yr achos y bydd y porthmon yn cwlio yr eidion coch, neu y bustach brith, er y gall fod y cryfaf o'r *lot*. Bydded i amaethwyr iseldiroedd Cymru, ag sydd yn magu ac yn codi ŷd, amcanu cadw y gwartheg *duon* a'r *penwynion* yn eu purdeb—bod yn fwy gofalus wrth eu magu yn ieuainc, chwilio am deirw cyfaddas, a gwartheg heirdd a phrydferth at fagu, a daw y rhyw yn burach, burach, bob tro. Yn wir, y mae llawer o ddiwygiad yn hyn er's rhai blyneddau bellach—yr amaethwr yn fwy gofalus pa fath darw fydd ganddo, ac yn fwy balch o liw a llun ei wartheg godro, y croen yn ystwythach, y siaced yn fwy maswedd, y corff yn trymhau, a'r agwedd yn fwy prydferth; mewn gair, maent yn tynu nês, nês, at eu purdeb cyntefig, fel y geilw y rhai sydd yn magu llawer, "*breeding back*." Nid hir y byddwn, gydag ychydig ddiwydrwydd a gofal, heb weled y rhywogaeth yn burach nag y bu erioed o'r blaen, er mawr les, ennill, ac elw i'r wlad a'r trigolion oll. Yr ydwyf o'r farn fod cynnydd mewn gwybodaeth, gyda gwelliant yn y drefn o drin y tir, yn cydfyned law yn llaw â'r gwelliant sydd yn cymeryd lle yn magu a meithrin gwartheg y wlad; ac yn mhen ychydig eto, yr ydwyf yn cwbl gredu, y gwelir y gwartheg yn burach o ran rhyw, ac yn fwy o ran eu maintiolaeth, ac yn well o ran eu hansawdd. Rhaid cael adeiladau mwy cyfleus er eu magu, a gwell cysgodion er eu diogelu. Nid ydyw yr amaethwyr yn gyffredin yn cadw yr ychain yn hwy nag o ddwy i dair blynedd; gwerthir y gwartheg teir-blwydd ar ol porfa hâf, o Awst i Galangauaf. Gelwir y rhai hyn "*gwartheg Awst*." Dyma yw yr amser mwyaf cyffredin i werthu, a hen drefn ydyw hefyd sydd yn cael ei dilyn er's llawer blwyddyn. Cadw yr anifeiliaid yn fyw gyda gwellt yn y gauaf oedd y cwbl yr amcenid ato, ac a amcenir ato hefyd mewn amryw o barthau hyd yn nod yn y dyddiau hyn; ond y mae gwell trefn yn dyfod yn fwy i arferiad bob blwyddyn, sef eu cadw yn wych yn y gauaf, ac i'w gwerthu yn y gwanwyn.

Lle y mae digonedd o borthiant, a'r ffermydd yn helaeth, porthir yn y gauaf; ac y mae yr anifeiliaid yn barod i fyned allan yn mis Mawrth, a diammheu genyf mai dyma y dull mwyaf buddiol a manteisiol i'r amaethwr, ond rhaid cael tai cyfaddas a chyfleusderau i'w porthi. Fel hyn y dywed un gwr cyfrifol[1] ag sydd yn porthi llawer iawn yn y gauaf;—"Fy arfer i ydyw prynu at Galangauaf, neu ychydig yn gynt, y nifer o fustych yn dair oed, i wneyd i fyny y rhestr erbyn y gauaf; y maent yn fwy tueddol i besgi na rhai dwyflwydd oed, y rhai sydd â natur tyfu ynddynt. Y mae genyf faes oddeutu deg erw o dir sych, yr hwn ar ol ei dori i lawr cyn llymed ag y gallaf yn yr haf, byddaf yn ei gau i fyny oddeutu diwedd Awst. Bydd wedi tyfu yn rhyfeddol erbyn gŵyl Mihangel, a bydd porfa ynddo oddeutu Calangauaf tros esgidiau dyn. Ar ol cael y lot at eu gilydd, byddant yn cael y maes hwn iddynt eu hunain, nes bydd y tywydd wedi ffyrnigo gormod, ac yna byddaf yn eu casglu bob nos i'r buarth a'r shediau sydd yn terfynu ar, ac yn agos i'r maes. Byddant yn cael gosod da o wair a rwdins yn y nos, gwely da o danynt (gwaelod yr hwn yw ysgarthion y cloddiau yr haf, yr hwn a bydra yn hollol erbyn yr elont allan), a chysgod gwych i orwedd wrtho. Yn y boreu drachefn y byddant yn cael yr un

[1] R. Prichard, Ysw., Llwydiarth Esgob, Môn.

ymgeledd, ac yna eu troi allan i'r cae; os bydd y tywydd yn rhy ffyrnig byddaf yn eu cadw yn y buarth. Diammheu genyf fod rwdins a gwellt ceirch yn llawn cystal, ond gwair gwaun sydd genyf fi, ac y mae yn fwy cyfleus ac yn rhatach.

"Dealler nad ydyw y porthmon yn gofalu am flewyn rhy fyr a sidanaidd ar yr eidion; y mae y Sais yn dewis y *good long jacket* o flaen blewyn rhy rywiog. Nid ydyw fawr o ddyben dywedyd cymaint, heb ddangos y manteision sydd i'w cael oddiwrth borthi y gauaf, rhagor na phori yr haf. Gallaf anturio dywedyd fod gwartheg gwanwyn cynar, casol, yn sicr o dalu eu ffordd, oddigerth fod rhyw ddrwg anarferol yn y farchnad; gan mai ychydig o amaethwyr sydd yn eu gwerthu yn y gwanwyn, y mae y porthmon yn bur barod iddynt yr amser yma, oblegid fod y Sais yn hwylio ei borfa haf iddynt; ac os bydd y farchnad yn lled *frisk*, fe'u gyrir i Smithfield ganddo oddeutu Awst canlynol neu ŵyl Mihangel. O'r ochr arall, gwartheg Awst sydd yn rhaid eu gauafu yn Lloegr, ac ni fyddant yn barod i'w lladd am yn agos i flwyddyn ar ol gadael gwlad eu genedigaeth; ac felly gan fod mwy o ofyn am wartheg gwanwyn, er fod eu rhifedi yn ychydig, eto bydd eu pris yn gyffredin o uchder cyfatebol. Peth arall, y mae y nifer a wna lot o wartheg gwanwyn yn beth y dylid sylwi arno. Os bydd digonedd o rwdins a gwellt, rhyfeddol y swm o dail a adawant ar eu hol! a hwnw yn dail da, gan mai goreu y byddo y bwyd, goreu fydd y tail; profir hyn oddiwrth werth a nerth tail moch pasgedig. Yr ydoedd genyf bedwar ar ddeg o fustych yn cael eu porthi yn y dull yma y gauaf, a gadawsant 187 o droleidiau o dail ar eu hol! cludwyd hwnw allan; ac wedi pydru, yr oedd yn hollol dda ar ddiwedd y cynauaf (yr ydoedd yn werth o leiaf oddeutu ugain punt). Y mae yn anhawdd prisio gwrtaith da wrth law fel hyn, a diammheu pe nas gadawent ond eu tom yn unig ar eu hol, y byddai hyn yn elw mawr. Mantais arall sydd yn deilliaw oddiwrth y drefn yma—drwy fod y tail yn ffrwythloni y tir, y mae effaith porthi y gauaf yn cyrhaedd i'r meusydd am flyneddau, ac yn helaethu cnydau ŷd a gwair, heblaw y fael sydd i'w gael ar yr anifeiliaid eu hunain. Cyn y gall y ffarmwr ymroi at gadw gwartheg fel hyn yn y gauaf, ac i'w gwerthu yn gynar yn y gwanwyn, y mae yn rhaid iddo anturio y drefn o godi llysiau gleision (*green crop system*); rhaid iddo dyfu maip, yr hyn, yn ddiau, yw sylfaen pob gwelliant mewn amaethyddiaeth. Y maent yn ad-dalu yn y fuches, yn y lloi, yn y dyniewyd, ac yn y bustych o bob oed, ac ad-dalant hefyd yn y gwrtaith; hebddynt nis gwiw dysgwyl am y manteision sydd i'w cael o borthi y gauaf; ac eto, rhaid i'r ffarmwr, fel y marsiandiwr, gadw hyny o geiniog a fedd ar dro, a pheidio a galw dim o honi yn eiddo sicr iddo ei hun, ond y fael sef y llog. Cofier fod yr hawl wedi ei roi allan yn llog ar y nifer gwartheg, yr hon sydd yn sicr o dalu yr echwyn gyda'r llog adref. Cofiwch fod *profit* yn y gwerthu, ac onis bydd rhyw ddrwg yn farchnad, bydd *profit* yn y prynu, ac fe geir y fael yn rhyw ben i'r fasnach, yn y naill neu y llall.

"Un peth y dymunwn alw sylw neillduol ato, ydyw y modd mwyaf effeithiol i arbed anifel wedi tagu â maip neu bytatws; peidier ar un cyfrif a defnyddio y *tube*, y mae wedi lladd mwy o ugeiniau nag a achubodd erioed, trwy dori y sefnig; os dygwydd hyny, goreu po gyntaf i anfon am y meddyg ato. Yn lle yr offeryn dinystriol hwn, ceisier darn o bren crwn cyn ffyrfed ag arddwrn dyn, yn llawn tyllau trwyddo—hoelier darn o ledr

(*strap*) ar bob pen iddo, a bwcl ar un pen. Pan fo 'r anifel wedi tagu, rhodder y darn pren yn ei safn a bwcler ef ar ei war, yna gyrer yr anifel i'r cae ar ei ben ei hun i gerdded yn ol ac ymlaen; cyn pen ychydig amser, gwres ei gylla a'i sefnig a dawdd y cnap meipen, nes ei gwneuthur fel pe byddai wedi ei *steamio*, ac i lawr yr ä hi heb un perygl; buan iawn y daw yr anifel ato ei hun, a'i wddf yn hollol ddiddolur."

Yr ydwyf eisoes wedi sylwi ar yr anghenrheidrwydd o fod yn fwy gofalus i gadw yr anneri goreu at wartheg i hilio; ond pa faint mwy y dylem gael buches dda, laethog: heb hyn anmhosibl i'r merched fagu y lloi na 'r moch, na chael cynnaliaeth i ddyn nac anifel ar y tyddyn; rhaid chwilio am y fuwch fwyaf lluniaidd a dymunol ei hagwedd—pen bychan, cyrn blaen-feinion a digon o waed ynddynt, digon o led yn y morddwyd-ydd, dyfnder yn ei chorff, gwastad ar ei chefn, croen-deneu, iraidd ac ystwyth, pwrs llaes a thethau ystwyth, ychydig o hyd yn y goes, a llai o ddyfnder na'r cyffredin yn y fron. Yn y fuwch a'r tarw y mae i'r amaethwr ddechreu gwellhau ei *stock*—os tarw a buwch wael, bydd y llo yn sicr o fod yr un fath; dylid bod yn fwy gofalus i bigo y llo tarw yn gyntaf peth, gan fod mwy yn ymddibynu ar y tarw na'r fuwch. Dylid hefyd gadw mewn golwg, mai dyma y dull y ceir y rhywogaeth oreu o fustych a chotenod, a *stock* fuddiol ac ennillgar.

Bai dirfawr yw godro y gwartheg heb braidd un hysbiad arnynt—tynu y llaeth oddiwrthynt o'r naill lo i'r llall. Mae hysbio y gwartheg fis neu ddau cyn y lloi yn fwy o fantais iddynt, a bydd mwy o laeth yn y pen draw, na'u godro hyd amser *dropio* y lloi. Dylai yr amaethwyr fod yn fwy gofalus am i'r merched odro y gwartheg yn llwyrach, ac yn fwy rheolaidd, a phorthi y gwartheg blithion yn well. Cedwir hwynt allan ar y borfa yn rhy ddiweddar ar y flwyddyn, i sefyllian, heb gysgod cawnen, mewn llaid a dwfr hyd at eu torau, wedi rhynu a hanner llewygu, ddydd a nos, hyd Galangauaf, ac weithiau yn hwy o lawer na hyny. Nid ydym yn porthi yr anifeiliaid yn ddigon i mewn—eu cadw allan hyd ag y gellir i arbed y porthiant, a thrwy hyny collir mwy o ddefnydd porthiant nag a borent; a cholled drachefn yn y llaeth a'r ymenyn, heblaw y tail a gesglid pe bydd-ent i mewn, heb son am y golled sydd yn yr anifeiliaid eu hunain. Gwell o lawer genyf fi rwymo y gwartheg blithion fis neu ddau cyn Calangauaf, na'u gadael hyd y dydd byraf yn y flwyddyn ar y meusydd i'w mathru a'u maeddu. Colled fawr y mae yr anifeiliaid yn ei wneyd ar y tir yn adeg wlyb y gauaf, yn enwedig y tir gwair ieuanc; ond y mae y drefn yn gwell-hau, a'r amaethwr yn fwy gofalus gyda'i gae gwair ieuanc nag ychydig flyneddau yn ol. Yn gyffredin, cedwir y cae gwair oddiwrth yr anifeiliaid oddeutu Calangauaf—o hyny i'r Nadolig. Gwelir meusydd helaeth yn yn cael eu hanghymhwyso i raddau mawr i ddwyn porfa a gwair y flwyddyn ganlynol, trwy oddef i'r anifeiliaid eu sathru a'u maeddu yn amser gwlyb y flwyddyn; ac ni cheid o honynt fawr dros hanner y cynnyrch a gawsid pe cadwesid y tir yn gynnar. Gellir ychwanegu at y fantais sydd yn deilliaw wrth dori y bwyd a'i gario iddynt, yn enwedig ar ddiwedd y flwyddyn, pan y bydd yr hin yn llaith, a'r ddaear yn feddal. Y mae yn ffaith brofadwy fod modd cadw wyth o wartheg trwy y flwyddyn, mewn cyflwr da, ar gynnyrch pedair erw o dir, yn ol y drefn hon; tra yn ol y dull cyffredin o bori allan, rhaid cael un erw ar bymtheg i wneyd hyny. Y mae Mr. Blacker wedi profi y fantais ddirfawr yma yn amlwg yn yr Iwerddon. Priodolir y

gwahaniaeth yma i'r cyflawnder o wrtaith a geir oddiwrth yr anifeiliaid, trwy ei fod yn brasâu y ddaear, ac yn gwneyd iddi darddu a thyfu, ynghyd â'r dull trefnus a chynnil o'u porthi, rhagor y gwastraff a wneir ar y borfa a'r ymborth trwy eu gollwng i'w fathru dan eu traed, ei faeddu, ac ymdrwedd arno. Y mae hefyd o fawr bwys i ni ystyried y bwyd sydd yn cael ei roddi yn fwyaf cyffredin i'r gwartheg o bob math—dim yn y byd ond ychydig o wellt ceirch, ambell osod o wair; ac mewn rhai parthau, gwellt haidd a gwellt gwenith heb ei falu, yw yr unig ymborth a luchir yn nhrymder y gauaf iddynt. Dyma fel y mae y fuches yn edrych mor wael —y gwartheg yn wargeimion a theneuon (fel rhai culion Pharaoh gynt), a'u blew yn eu sefyll ar hyd y flwyddyn. Pa fodd y gall gwraig y tyddyn ddysgwyl ymenyn i fyned i'r farchnad gyda'r fath fuches? Ymwrolwch, anwyl ffermwyr Cymru, a gwnewch i'ch gwŷr ddewis gwell buches, a thyfu mwy o faip, rwdins, a bîd; o herwydd gyda'r pethau hyn y megir y lloi, ac y ceir digonedd o laeth, caws, ac ymenyn; a byddwch trwy hyn yn achos i helaethu eich fferm, ac yn lles i'ch plant a'ch teulu; am nad oes dim yn tyfu trwy y ddaear yn fwy llesol i wartheg ac anifeiliaid o bob math, na'r llysiau rhagorol yma.

Lled sychlyd a diflas ydyw y caws sydd yn cael ei wneuthur mewn amrywiol fanau o'r Dywysogaeth, ac ni wneir braidd ddim ond ychydig yn yr haf gyda llaeth wedi bwrw ei hufen; ac nid oes dysgwyliad y ceir llawer o fraster oddiwrth y llaeth dihufen (*skim milk*). Nid ydyw y "*dairy system*" yn gyffredinol iawn trwy Gymru, oddigerth yn y rhanau dwyreiniol iddi, ac ar ororau gwledydd y Sais, a rhanau o siroedd Dinbych, a Fflint, Dyffryn Clwyd, a chymydogaeth Wrexham. Y mae caws yn cael ei werthu yn marchnadoedd Wrexham a Chaer, yn lle y caws Caer goreu, yn dyfod i fyny i'r pris uchaf yn y farchnad; ond nid yw yn bosibl cyrhaedd y fath brisiau uchel, heb arferyd trefn gymhwys gyda'r llaeth yn y llaethdŷ, a chael gwartheg llaethog a phriodol yn y fuches. Yr un drefn sydd yn cael ei dilyn yn y llaethdŷ (*dairy*) yn gyffredin yn Nghymru, ag sydd mewn arferiad yn sir Gaer. Rhaid gofalu am ardymher (*temperature*) digonol i geulo y llaeth, a glanweithdra yn ffynu yn mhob llestr a chwr o'r llaethdŷ, onide, ffarwel am gaws ac ymenyn.

Y mae triniaeth briodol y gwartheg godro yn cael dylanwad anarferol ar rinwedd a swm y llaeth a'r ymenyn, megys cymhwyso a rhoddi maip, a bwyd gwneuthuredig (*artificial*) yn gymedrol yn y gauaf, yn dwyn cynnyrch toreithiog. Ni ddylid gorlwytho y cylla, na rhoi unrhyw fwyd na chydwedda â'r anifel. Dylid cofio fod y fath undeb annattodol rhwng y cylla a'r pwrs, fel os bydd anhwyldeb yn y cylla, dengys yn fuan yn y pwrs, er drwg i'r llaeth. Rhoddi ychydig o fwyd, a hwnw yn aml, yw y drefn ddoethaf er lles ac iechyd yr anifel, ac er cael llawer o laeth ac ymenyn. Nid canmoladwy yw rhoddi gormodedd ar unwaith o fwyd o un math i'r fuwch; o herwydd bydd yn chwannog i chwythu arno, a'i weddillio, a'i daflu o'r neilldu.

Y mae math arall o faerwri (*dairy farm*) yn agos i'r mân drefydd ac yn mhentrefydd Cymru, ac sydd yn hynod o fuddiol ac ennillfawr i'r amaethon; sef gwerthu hufen, llaeth, ymenyn, a llaeth enwyn—pori y gwartheg yr haf, eu cadw i mewn y gauaf yn gynnar, a rhoi digon o wair, rwdins, a llysiau gleision iddynt. Cof genyf glywed am hen gymydog[1] i mi,

[1] Mr. Jones, gynt o Wredog, Amlwch.

oedd yn dilyn y drefn yma, yn dywedyd fel hyn:—"Ni chowntiaf i ddraen yn Robyn Peel, mwy na Shôn Russell, tra y gallaf werthu fy llaeth a'm ymenyn i hen wragedd Amlwch." Ond cyn y gellir dilyn y drefn hon, rhaid cael tir sych a ffrwythlawn i bori, a chodi llai o ŷd, a mwy o gnydau gleision.

Yr wyf yn tybied y bydd rhywrai yn barod i ofyn, Ai nid yw yr amser wedi esgor ar y Dywysogaeth, i ddechreu pesgi y gwartheg yn ddigon tewion i ymddangos yn marchnadoedd Lerpwl a Llundain? Y mae yn wir fod cyfleusderau newyddion yn agor yn flyneddol, ac yn ein cymhell i anturio gwneuthur hyny. Y mae y ddwy gledrffordd, un o Gaer i Gaergybi, a'r llall trwy y Deheudir, yn rhoddi pob mantais i gludo yr anifeiliaid breision, ac wedi dwyn marchnad Smithfield o fewn taith deuddeng awr i'r cwr pellaf o'r Dywysogaeth; poblogaeth yn cynnyddu, amserau ac ymarferiadau yn newid, a'r gofyniad yn cael ei roddi, Paham nas gellir gwneyd "Mwynig" mor fras a thew a'r "*Young Favourite?*" Pob moddion a chyfleusderau gerllaw, a mwy o dyfu rwdins, maip, ac ŷd, ac hyd yn nod y llin yn tyfu yn naturiol yn ein gwlad—pa beth sydd yn ein lluddias i besgi anifeiliaid? Dim ond rhy ychydig o anturiaeth. Tipyn gwell medrusrwydd, ac ychwaneg o ddiwydrwydd, a wnai lawer amaethon o Gymru mor uchel ei gymeriad am besgi gwartheg a'r Duc o Richmond, neu'r Tywysog Albert. O! mor hyfryd fyddai genyf weled *lot* o wartheg tewion yn cychwyn o rai o sefyllfaoedd (*stations*) Cymru ddydd Sadwrn, yn barod erbyn marchnad Llundain boreu Llun. Ai dychymyg ydyw hyn? Nage, yr wyf yn credu yn gadarn y bydd gwobr am y "*fat Welsh runt*" yn y "*Smithfield Show,*" yn fy oes i. Mae yn wir mai at fagu a chodi anifeiliaid ieuainc (*young stock*) y gweddai porfeydd, hinsawdd, ac amgylchiadau presennol y rhan helaethaf o Gymru, ac nad yw ein dolydd ond mewn rhai manau yn ddigon breision i besgi gwartheg gyda digon o frasder i'r Seison. Gwir hefyd fod rhai boneddigion ac amaethwyr wedi rhoddi yr amcan yma i brawf, a dwyn y peth i sylw y cyffredin gyda llawer o fedrusrwydd. Dyma brawfiadau a roddodd Syr Richard Bulkeley yn gyhoeddus yn sir Fon rai blyneddau yn ol, gyda gwartheg duon y wlad hono:—Cadwodd y gwartheg i mewn, o Galangauaf i fis Ebrill; a'r Mehefin canlynol, wedi eu pesgi gyda rwdins a gwair yn unig, gwerthwyd hwynt yn Lerpwl. Ennillodd ar y tair rhan (*lot*) cyntaf a werthodd, 4*p*. 19*s*. 5½*c*.; ac yn y rhan olaf, 2*p*. 4*s*. 8½*c*. y pen, heblaw y tail a ddaeth oddiwrthynt. Y mae cymydog i mi wedi rhoddi prawf ar yr un drefn:—gwerthwyd y gwartheg yn Lerpwl yn bump oed, ac yn wartheg tewion a heirdd iawn; ond dywed wrthyf mai gwell fuasai iddo eu gwerthu yn dair oed yn un o farchnadoedd ei wlad ei hun. Ond y mae amgylchiadau ac arferion mor wahanol, a gwelliadau mor fawr yn cymeryd lle o ddydd i ddydd mewn amryw ranau o'r Dywysogaeth, fel y mae yn annichonadwy dywedyd yn benderfynol pa drefn sydd fwyaf buddiol i'r Cymro ei dilyn.

Os am besgi y mae amaethwyr iseldir Cymru, rhaid iddynt yn gyntaf godi digonedd o rwdins, maip, a bîd, a myned i farchnadoedd Lloegr am had llin, a thoes a blawd had llin, cyn y gallant byth ymgystadlu a chyfarfod â'r Sais yn Smithfield. Rhaid hefyd bod yn ofalus i ddewis yr anifeiliaid sydd â thueddiad ynddynt at dewhau—o groen ystwyth, blewyn hir, golwg rhadlawn, a thymher fwynaidd. Pa un bynag ai bustach du, ai yr eidion penwyn (*Hereford*), a ddewiser, cofier am iddo fod yn ddigon o

[illegible] rhyddion y gwna [illegible]; ond gadawaf [illegible] adeiladu tai cymhwys [illegible] anifeiliaid hebddynt. [illegible] chynhesrwydd, [illegible] o besgi—glanhau y [illegible] bob dydd, hwyr, a [illegible] rhaid arfer y modd[illegible]; sef rhoddi bwyd[illegible] wedi eu hysigo, [illegible] Y bwydydd canlynol a [illegible] mwyaf maethadwy: [illegible]—fa a pys wedi eu malu, yn gig[illegible] hebław y tueddiad [illegible] wedi eu malu, fel [illegible] halen i roddi blas [illegible] besgi, roddi rwdins [illegible] a chadw y bîd erbyn y [illegible] Y mae yr anifeiliaid yn fwy [illegible] yn gymedrol iddynt, [illegible] yn dda ac yn aml. [illegible] a dau fesur o bîd, [illegible] wedi eu cymysgu â gwair [illegible] Y mae ychydig o wair [illegible] i'r anifel gnoi ei gil, [illegible] y Cymry at flawd [illegible] fod y fath duedd i [illegible] yn ymddyddan â [illegible] ni chlywodd erioed [illegible] rhywun yn dwyn y fath hedyn [illegible] a maethol i sylw y Dywysogaeth.

Yr ydwyf eisoes wedi bod yn faith mewn perthynas i fagu anifeiliaid; ond y mae un pwnc y dymunwn sylwi arno yn gynt, sef yw hyny—A oes yn bosibl uno tueddiad i besgi gyda thueddiad i ddwyn llawer o laeth yn yr un fuwch? Y mae y ffaith fod hen fuwch laethog yn hawdd ei gwneyd yn dew ar ol ei hysbio, yn profi y gellir dwyn hyny oddiamgylch; ac hefyd y mae y fath anifel yn gyffredinol â mwy o ymenyn ganddi, ac o ganlyniad, y mae ymenyn yn troi yn naturiol i frasder. Ond myfyrio yn fwy manwl ar gynneddfau ein hanifeiliaid, a thalu mwy o sylw wrth ddewis y tarw a'r fuwch i fagu, yr wyf o'r farn y gellir uno y ddwy reddf werthfawr yma yn yr un anifel, sef tueddiad i laetha llawer, a phesgi yn rhwydd, gydag ychydig o gost a thrafferth. Cofier wrth ddewis y fuwch, nad ydyw un flin, wyllt, a ffyrnig, byth yn llaethog, nac yn hawdd ei phesgi: a dylid adnabod tymber yr anifel, yn gymaint a'i rinweddau eraill; o herwydd nid oes yn bosibl dysgwyl anifel iach, ac o gorffolaeth gwych, oddiwrth hen fuwch deneu, afiach, a salw. Mae yn wir nad mynych y cyfarfyddir âg anifel perffaith yn mhob rhan, ond trwy wellhau y naill fai wrth ddaioni y llall —trwy gymharu y gwryw â'r fenyw yn iawn y gellir yn unig gyrhaedd gwelliadau a pherffeithrwydd yn yr un anifel.

Cyn y gall yr amaethwr drin ei dir, rhaid iddo gael cymhorth a nerth

yr anifel. Nid oes un yn fwy teilwng o'i barch a'i nodded na'r *march.* Anmhosibl yw rhoddi desgrifiad cywir o'r rhyw (*breed*) ag sydd yn fwyaf cyffredinol yn Nghymru; y maent wedi eu cymysgu mor aml gyda yr *hunter, racer,* a'r ceffyl gwedd, fel nad oes bosibl braidd roddi enw cywir arnynt. Magwyd rhai ceffylau rhagorol yn Nghymru, o ran eu natur yn gyffredin yn galed, wedi eu cymysgu gyda 'r merlyn mynyddig, a elwir yn gob, neu ferlyn caled, âg asgwrn cryf ynddo. Ond y rhyw goreu at waith y tyddyn sydd o fwyaf pwys i ni—anifel yn ddigon buan i wneyd pob gwaith, digon o asgwrn ynddo, heb fod yn rhy drwm, ychydig o waed ynddo, fel y gallo ymsymud yn fuan, a myned trwy lawer o waith mewn ychydig o amser, tipyn o fywyd (*action*) ynddo, hefyd corff pur grwn, fel baril; un at waith y goler ddylai fod mewn golwg gan yr amaethwr, â bron lydan, a digon o bwys ynddo i orwedd ar y goler, ac yn fywiog i fyned dros y tir; y mae ceffyl chwim, bywiog, heb fod yn rhy fawr, yn rhagori ar un rhy drwm, afrosgo, corfforol, a diysbryd, at aredig neu drolio; dylai y ceffyl gerdded, o leiaf, bedair milltir yn yr awr. Y mae tir y wlad yn lled ystwyth; rhaid cael march i fyned trosto yn fuan; ac nid yw y ffyrdd ychwaith, mwy na'r tir, yn gweddu i feirch trymion, araf, ac afrosgo, fel y *Suffolk horse:* llefaru yr ydwyf am yr anifel goreu at waith y tir. Os byddys yn bwriadu magu at *hunters* neu *racers,* rhaid chwilio am waed y rhyw arbenig yma; ychydig sydd o fagu ceffylau o'r fath yn y wlad; gwelir ambell i anifel gwych at gerbyd wedi ei groesi yn gyffredin gyda'r *hunter* a chaseg wedd. Gellir dyweyd fod *breed* ceffylau y wlad yn gwellhau bob blwyddyn; yr amaethwr yn fwy gofalus yn newisiad y march (*stallion*) a'r gaseg fagu; a dyma yr unig foddion i wellhau rhywogaeth y meirch, fel pob anifel arall, sef bod yn wyliadwrus yn newisiad y *stock* at fagu. Fel hyn y byddai yr hen bobl yn magu y meirch, ac nid llawer gwell ydyw eto mewn llawer fferm fawr, sef gadael i'r ebolion redeg ar hyd y maes trwy y flwyddyn—dim son am ystabl iddynt. Mae yn gof genyf weled, pan yn fachgenyn, y ceffylau yn cael eu rhwymo wrth fonyn coeden, ger y pentref, wrth i'r ffermwr ddyfod i'r farchnad, a hyny gan ffermwyr lled gefnog, yn y dyddiau hyny; ond y mae hyd yn nod y tyddynwyr bychain, yn yr amser presennol, yn cymeryd gwell gofal na hyny gyda'u meirch. Ni roddir ond gwair ac eithin i'r rhan fwyaf o geffylau gweithio mewn amryw o fanau yn y Dywysogaeth; un neu ddau osod o wair yn y rhesel bob dydd trwy y gauaf, a thri neu bedwar gosod o eithin; ychydig o geirch a roddir iddynt. Ac ystyried y bwyd y maent yn ei gael, y mae yn syndod fod yr anifeiliaid yn edrych cystal, ac y mae braidd yn anmhosibl iddynt ddal i weithio yn hir gyda'r fath driniaeth, a dyma yr achos eu bod mor farwaidd yn y gwanwyn, wrth aredig a llyfnu; yn wir gwelir llawer yn gorfod sefyll yn hollol. Gwelais geffylau yn gweithio yn y ffordd haiarn (*railway*), ychydig amser yn ol, am wyth awr a deugain heb sefyll; ond nid oedd yn bosibl iddynt ddal ati heb gael bwyd yn gyferbyniol i'r gwaith. Yn gyffredin troir y ceffylau allan yn yr haf, ddydd a nos; ond y mae rhai ffermwyr yn y dyddiau hyn yn dechreu gweled gwerth cadw ceffylau i mewn ar hyd y flwyddyn—y maent yn ennill yn y tail, ac yn y gwaith hefyd, heblaw fod yr anifeiliaid yn iachach, ac yn edrych yn well o lawer. Dylid malu y gwair a'r gwellt iddynt; bydd yr anifel wrth gael bwyd wedi ei falu yn digoni ei hun yn gynt, ac yn cael amser i orphwys yn hwy ar ol ei lafur. Yr ymborth cyffredin yw eithin wedi ei falu, ac

y mae rhan fawr o Gymru yn porthi y ceffylau yn hollol â'r eithin, heb ddim arall. Berwi ychydig o faip neu rwdins (neu eu rhoddi yn oerion) gydag us haidd, sydd yn hynod o lesol a maethlawn i'r anifel. Bydd rhai yn rhoddi rwdins neu foron (*carrots*) iddynt yn oerion, a phethau hynod o lesol ydynt, gan fod tuedd wrthwynebol yn y maip i'r eithin—y rwdins yn oeri, a'r eithin yn poethi yr anifel. Y mae rhy ychydig o sylw wedi ei wneyd ar borthi y meirch; dylid eu cadw i mewn trwy y flwyddyn, eu porthi â gwair neu wellt wedi eu malu yn gymysgedig âg eithin, gydag ychydig o geirch, rwdins, a moron (*carrots*); cymysgu ychydig o halen gyda'r eithin, ar ol eu malu, sydd yn llesol ryfeddol i'r anifeiliaid, nid yn unig am fod y ceffylau yn cael gwell blas ar eu bwyd, ond y mae yn hynod o iach iddynt. Dyma fel yr ysgrifena un boneddwr ataf o Lerpwl, sef ar ei ddull o borthi y ceffylau sydd yn gweithio yn galed mewn troliau trymion bob dydd:—"Byddaf yn rhoddi y dogn neu y rhan ganlynol o fwyd i un ceffyl yn y dydd:—

	pwys.	wns.
Ceirch wedi ei falu,	5	11
Rhuddion,	8	8
Ffa,	5	11
	28	6."

Gwnaethum brawf fy hun eleni, a phwysais yr eithin a'r gwair i bob ceffyl, a dyma oedd y canlyniad; ond anhawdd rhoddi barn gywir wrth bwyso y fath blanigyn ag eithin, gan ei fod mewn rhai manau yn cynnwys mwy o nodd, ac ar rai prydiau â mwy o wlybaniaeth ynddo. Y prawf oedd hyn; mewn pedair awr ar hugain:—

Gwair wedi ei falu,	15 pwys
Eithin wedi ei falu,	30
Rwdins,	5
	50 pwys

Y mae y ceffylau yn chwennych tamaid yn aml, felly y maent yn gallu gweithio cystal yn nhrefydd mawrion Lloegr. Fel hyn y sylwai Mr. Spooner, yn ei draethawd buddugol ar fagu ceffylau, pan yn dangos pwysau a gwerth y bwyd a fwyteir ganddynt yn gyffredinol. Un gwr a roddai i'w geffylau yn wythnosol:—

	S.	D.
Ceirch, 3 cibyniad,	4	6
Gwellt, 1¾ cant, yn ol 2*s*. y cant,	3	6
Rwdins, 42 pwys,	0	4
	8	4

Fel y byddai y gwanwyn, a'r gwaith yn ychwanegu, rhoddir yn wythnosol i bob ceffyl:—

Ceirch, storad,	6	0
Ffa, 3 chwart,	2	3
Gwair, un cant,	4	0
	12	3

Ar fferm arall fel hyn:—

Ceirch, 3 cibyniad,	4	6
Ffa, un cibyniad,	3	0
Gwair, cant a hanner,	6	0
	13	6

Un arall fel hyn:—

Ceirch, 3 cibyniad	4	6
Ffa, 2 chwart,	1	6
Cant o wair,	4	0
	10	0*

Defaid Cymru sydd wedi eu croesi â phob hil estronaidd braidd yn Mhrydain,—y rhai o'r mynydd-dir â'r rhai iseldir, rhai byr-wlan gyda'r rhai hir-wlan, rhai corniog â'r digyrn, ac o bob lliw a llun, hyd nes ydyw yn anmhosibl rhoddi enw priodol arnynt. Os edrychwn yn ol i'r cynoesoedd, dengys y "Trioedd" i ni fod Cymru wedi bod yn rhagori am fagu a chadw defaid: ac mae'r un awdurdod yn rhoddi hanes y gwŷr a fu yn enwog fel meithrinwyr y cnu gwlan:—"Tri Defeidydd gosgordd Ynys Brydain: Cohwynn, defeidydd gosgordd Bran ab Llyr Llediaith yn Morganwg; Pybydd Mael, defeidydd gosgordd Tegerin, llwyth Llwydiarth yn Môn; a Gwesyn, defeidydd Goronwy ab Ennywain, brenin Tegeingl yn Rhyfonog (ac o'i enw ef y gelwir *Gwesyn* ar fugail defaid); sef oedd rhif a gadwai bob un o'r tri wyr hyny *chwe' ugain mil*, ac o danynt bob un dri chant o feibion eillion, yn nawdd cenedl y Cymry." Chwe' ugain mil gan yr un gwr!

Ag iseldir Cymru y mae a wnelwyf fi yn yr ysgrif hon; o ganlyniad, nis gallaf ond son yn unig am ddefaid bach siroedd Caernarfon, Meirionydd, &c., er fod eu cigfwyd blasus braidd a'm denu i'w ganmawl, ac i draethu am ei rinweddau.

Hen rywogaethau o ddefaid gwastadedd Gogledd a Deheubarth Cymru sydd wedi eu croesi yn fwyaf cyffredin â rhai mynydd-dir Cymru; ond dyma yw nodweddiad yr *hen hil*—rhai lled fawr, digyrn, gwynebau a choesau gwynion ganddynt; a'r coesau yn ddigon hirion i'w cadw o'r llaid a'r gwlybaniaeth lle y maent yn gorfod byw ynddo yn fwyaf mynych. Pwysa y rhai mwyaf o honynt o un pwys ar bymtheg i ugain pwys y chwarter, a rhoddant oddeutu tri phwys o wlan bob blwyddyn. Y maent yn dueddol iawn i wera ac i frasâu. Gwelais ugain pwys o wêr mewn un hen ddafad o ryw y wlad. O ba le y torodd y rhyw gyntaf, nid oes genym un hanes cywir. Y maent yn lled debyg mewn rhai pethau i ddefaid yr Iwerddon—fe allai mai oddiyno y tarddodd y rhyw gyntaf; neu gellir dadleu mai o Gymru y dygwyd trosodd i'r Iwerddon.

Trefn Gogledd a Deheubarth Cymru, yw gwerthu y defaid yn llydnod blwyddiaid i fyned allan o'r wlad, fel yr ydym yn yr un modd yn gwerthu yr anneri; a dyma fel y mae y pigion o anifeiliaid ieuainc (*stock*) o bob rhyw yn cael eu dwyn o'r Dywysogaeth bob blwyddyn cyn iddynt ddyfod i'w maintiolaeth priodol, a'r Sais yn cael y fantais wrth eu pesgi ar diroedd breision Lloegr. Nid cymaint o fagu defaid sydd yn ein dyddiau ni ag oedd yn amser ein henafiaid—mwy o droi y tir i ŷd, a llai o bori a magu defaid.

Mae yn rhaid cyfaddef mai ychydig yw yr ymdrech sydd yn mysg amaethwyr Cymru er dyfod yn fwy profiadol mewn perthynas i ddewis, cadw, a magu defaid. Er fod esiamplau diymwad yn cael eu dangos o flaen ein llygaid o'r lles a'r buddioldeb sydd yn deilliaw wrth wneyd hyny, eto parhau yr ydym i wrthod y cymhelliadau clodwiw y mae boneddwyr ac amaethwyr profiadol yn eu dangos yn ddigon eglur yn meithriniad defaid.

*Gwel "*The Journal of the Royal Agricultural Society*:" cyf. ix, rhan ii. tudal. 270.

Cof genyf glywed un boneddwr ag sydd yn cadw miloedd o ddefaid, yn areithio yn gyhoeddus mewn cyfarfod amaethyddol fel y canlyn:—"Y mae yn ddigon hysbys i bob ffermwr sydd wedi ymdrin â magu defaid yn y rhanau sychaf o'r wlad, nad oes yn bosibl cael *stock* a dâl yn well am eu cadw a'u magu na'r defaid." Gwir a ddywedodd; a gallasai ychwanegu, eu bod hefyd yn gwellhau y tir lle y porant, ac yn dwyn mwy o arian i'r llogell nag un anifel a all amaethwyr ymdrin â hwynt. Ni ddylem anghofio y cyfnewidiad y mae defaid yn ei wneyd ar olwg y tir; y maent yn brasâu ei natur, yn tewychu ac yn ychwanegu y borfa lle y rhodiant ar hyd-ddo, yn fwy nag unrhyw anifel arall. Nid ydynt byth yn gwaethygu y tir, ond yn hytrach yn achosi iddo gynnyrchu mwy na mwy; nid yn unig y mae y ddaear yn cael ei hilio â llawr-len (*carpet*) gwyrddlas, ond y mae y glaswellt mwyaf pereiddiol yn neidio i fyny lle nad ydoedd ond croen llwm, llwyd, o'r blaen. Nid oes yn bosibl cael amgenach tail at *dop-dressio* na thail a lleisw y defaid.

Wedi ymhelaethu fel hyn yn lled faith ar ddefnyddioldeb defaid at wellhau ansawdd y tir, gyda'r fael sydd yn deilliaw o'u magu, y mae hyn yn galw ar amaethwyr Cymru i fod yn fwy ymdrechgar i ymdrin â hwynt. Yn lle eu gadael i drefn rhagluniaeth yn hollol, dylid bod yn fwy gofalus i'w hymgeleddu a'u bwydo. Y maent yn sicr o dalu am y drafferth; ond rhaid cael tir sych, meusydd helaeth, a gwrychoedd cauedig i'w meithrin. Y mae llawer rhywogaeth wedi eu cynnyg i'r wlad heblaw "*hen fríd y wlad.*" Y mae yma rai cannoedd, os nad miloedd o'r Leicesters pur, ag sydd yn werth sylw pob ffermwr, yn enwedig y rhai sydd ganddynt dir sych a chyfaddas i'w meithrin. Gan nad ellir byth ddysgwyl i'r hiliogaeth yma gadw a ffynu ar dir gwlyb heb ei draenio, y maent yn gofyn llawer iawn o drafferth a gofal cyn y talant am eu magu. Rhaid cael lle cynhes, sych, a chysgodol iddynt, a chaeau helaeth i bori a llwybro arnynt, a bugeiliaid yn bwrpasol i'w cadw yn feunyddiol, i ofalu am danynt ddydd a nos, yn enwedig pan yn bwrw ŵyn, gan fod yr ŵyn yn bur weiniaid. Un noswaith o farug fydd yn ddigon i ladd pob un o honynt a fwrir y noson hòno. Nid ydynt mor galed i wrthsefyll y tywydd a hen hiliogaeth y wlad; rhaid eu cadw dan dô yn y gauaf, ar amser eira, gan eu bod yn hynod o dyner. Ond bod yn ofalus fel hyn gyda hwynt, y mae yn sicr eu bod yn fwy gwerthfawr na hen hiliogaeth y wlad—y maent yn pwyso yn well, ac yn gwerthu yn uwch. Mae llwdn blwydd Leicester yn fwy o werth na llwdn dwyflwydd o un hiliogaeth arall a ellir eu magu. Gwyddom fod Samuel Wiley, o Bransby, swydd Gaerefrog (*Yorkshire*), wedi gwerthu rhai meheryn am dros hanner cant o bunnau y pen!—ac hefyd yn eu gosod allan wrth y tymmor am ugeiniau o bunnau y pen; a hyny yn unig trwy ei ofal yn magu ac yn didoli y rhywogaeth, er eu cael braidd yn *berffaith bur*. Wel, clywais y gofyniad yma lawer gwaith—A ydynt yn gyfaddas i hinsawdd y wlad? Cyn y gellir ateb yn gadarnhaol, rhaid i'r amaethwr eu magu ar dir cyfaddas i'w natur. Fel yn mhob ymgais o eiddo ffermwyr Cymru, rhyw ysfa barhaus sydd am groesi rhyw pob anifel; ond gyda'r Sais, y mae yn hollol groes—gwellhau y rhyw sydd yn coroni ei ymdrech. Leicesters pur raid gael i ymddangos yn *Show Smithfield*, a'r *Highland Agricultural Society* yn Scotland, cyn y gellir byth ddwyn y goron oddiar ben Mr. Samuel Wiley, Iarll Talbot, ac eraill. Gwnaed cais i groesi y Leicesters gyda "hen *fríd* y wlad;" ond methodd

yr amcan. Gwnaed yr un cais gyda'r *South Downs*—gwaeth fyth. Gwelwyd y *Cheviots*, a defaid bach sir Gaernarfon, o dan yr un prawf—methwyd yma eto. Wel, bellach, ai nid oes yn bosibl gwellhau hen ddefaid y wlad? Oes yn sicr; rhaid bod yn fwy gofalus wrth chwilio am fyheryn i'r defaid —chwilio am un heb fod yn rhy fawr, ac agwedd a chorff hardd a destlus ganddo. Yr ydym wedi gwaethygu hen hiliogaeth y wlad trwy roddi myheryn rhy fawr iddynt, mewn cymhariaeth i'r defaid, ac hefyd yn rhy esgeulus yn eu magwraeth. Gwelais *South Downs* pur gan ŵr boneddig oddeutu dwy flynedd yn ol, yn llydnod heirdd, ac o ran golwg allanol yn edrych yn ddigon celyd i'r hinsawdd. Yr oeddynt yn dewion fel moch. Ar ol bod yno ychydig, yr oedd yn rhyhwyr eu gwerthu; nid oedd eu hanian yn ddigon caled i wrthsefyll hinsawdd a gwlybaniaeth iseldir Cymru.

Beïir llawer ar ddefaid y wlad, eu bod yn chwannog i dori trosodd i ddrwg. Rhaid trafferthu hwyr a boreu, naill ai i redeg ar eu hol o'r ceirch yma, neu y gwair draw; a rhaid cael ail lyffetheiriad ar bob enyd. Y mae yn wir fod hyn yn llawer o wrthwynebiad iddynt, ac ystyried amgylchiadau presennol amaethyddiaeth Cymru. Geilw hyn arnom i amaethu yn fwy perffaith, i wneyd gwell cloddiau a gwrychoedd, gwneyd y caeau yn helaethach; yna ni chlywir cwyn fod y defaid yn myned i ddrwg. Paham nad eill defaid Gogledd Cymru ateb i ffermwyr y wlad yn gystal ag i amaethwyr siroedd Amwythig a Chaer, a lleoedd eraill? naill ai y mae yn rhaid i ni fagu Leicesters pur, neu fod yn fwy gofalus i wellhau rhywogaeth defaid Cymru.

Y clefydau mwyaf dinystriol yn mysg y defaid yw y *clafr* a'r *clwy dwfr*. Dywedir mai un Bakewell, o Dishley, a ddaeth â'r haint angeuol hwn, sef y clafr, gyntaf i Gymru, oddeutu y flwyddyn 1774! ac nid allodd neb hyd heddyw ei ymlid ymaith. Y feddyginiaeth fwyaf addas ato yw *mercury;* eraill a arferant dybaco, sebon, brwmstan, &c: ond y pwnc mwyaf yw bod yn ofalus i ymgeleddu yr anifel yn dda. Mewn tymmorau gwlybion, bydd y clwyf dwfr yn lladd cannoedd, yn enwedig mewn lleoedd gwlybion heb eu traenio. Os bydd y clwyf yma yn dechreu lladd, goreu po gyntaf i yru am y cigydd.

Hen arferiad hynod o annhrefnus a chiaidd fu genym wrth gneifio—tori darnau o groen y defaid, hacio a rhigoli y gwlan, yn mhob dull a modd, cymysgu y gwlan goreu gyda y gwlan bras, a thrwy hyny ddyfetha y rhan oreu o hono; ond y mae dull mwy trefnus i'w weled yn mhob tyddyn wrth gneifio, sef tori yn gylchoedd hardd ac uniawn o gwmpas y corff, a didoli y gwlan da oddiwrth y drwg. Yn Scotland nid ydynt yn cneifio yr ŵyn hyd nes y byddant yn flwyddiaid, a haerir eu bod yn cael mwy o wlan oddiwrthynt yn ol y cynllun yma.

Pan ystyriom y golled anmhrisiadwy a gafodd y mân dyddynwyr yn Nghymru wrth golli y *pytatws*, er magu moch, y mae yn peri i bob meddwl cydwybodol ofyn iddo ei hun, Pa fodd y gall mân dyddynwyr Cymru besgi eu moch rhagllaw? pa fodd y gall bwthynwyr a'r mân denantiaid gyfarfod â'r meistr tir? Pan y metha pris y gwartheg, neu yr yd, byddai gan y ffermwr y moch tewion i ddisgyn arnynt yn y blyneddau a aethant heibio: mewn gair gellir dyweyd fod y fasnach yma wedi bod yn un o brif gynnaliaeth i'r tyddynwyr bychain yn Nghymru; o ganlyniad,

rhaid gwneyd rhyw ymdrech tuag at adferu y fasnach eto i'w llwyddiant cyntefig. Y mae y cwestiwn yn cael ei ofyn yn aml, Pa beth a gawn at besgi moch ar ol colli y pytatws? Amcanaf roddi cynllun oflaen y wlad, a'r unig un, yn fy marn i, a all fod mor werthfawr ac mor fuddiol ag y bu y pytatws erioed; sef pesgi gyda bîd. Nid yw yn beth newydd—y mae prawf o effeithioldeb y llysieuyn hwn wedi ei wneyd gan amryw o ffermwyr eisoes; y mae mwy o rinwedd maethlawn yn y gwreiddyn yma na'r bytaten, a mwy o dueddiad i besgi anifeiliaid o bob math. Yr ydwyf eisoes wedi sylwi yn lled helaeth ar y dull o feithrin y llysieuyn rhinweddol hwn, ac ni wnaf ond erfyn ar y mân dyddynwyr i ddechreu meithrin y maes bîd; o herwydd gyda'r mân dyddynwyr, fel y sylwyd eisoes, y gwelir diwygiad mewn pob cangen o amaethyddiaeth yn dechreu; y maent trwy esiamplau yn tynu y ffermwyr mawr i gerdded yn yr un llwybrau, ac i ddilyn yr un drefn a hwynt. Ar yr un pryd nid oes neb yn fwy yn erbyn trefniadau newyddion byrbwyll, a dibrawf, nag ysgrifenydd y llinellau hyn, heb yn gyntaf chwilio yn fanwl, a dwys ystyried yr hyn a osodir fel trefn newydd, mewn gwlad neu ardal—chwilio allan am brawf teg o'i llwyddiant, ac eistedd i lawr i fwrw y draul, rhag i'r gôst fod yn fwy na'r budd. Yr ydwyf eisoes wedi sylwi fod y *mangold* wedi ateb y dyben yn rhagorol mewn rhai parthau, ac y maent yn well o lawer na *rwdins* i besgi moch; er fod rwdins wedi eu harferyd gan amryw, nid oes tueddiad digon cyflym ynddynt i besgi—mae y cig-fwyd yn ddarfodedig pan ei rhoddir wrth y tân, a blas y rwdins arno braidd yn anorchfygol i'r bwytäwr. Bydd rhai yn berwi y bîd, eraill yn eu tori yn dafellau teneuon, a'u rhoddi yn oerion i'r moch, a chymysgu ychydig o flawd haidd neu geirch â hwynt, gydag ychydig o laeth, os gellir ei gael.

Nid wyf yn gwybod am unrhyw hiliogaeth o foch a ellir eu galw "moch Cymru," oddigerth y gellir cyfeirio at ambell hen hwch glust-dew, glust-drom, esgyrniog, goesdew, gefndeneu—mewn gair, oll yn anolygus; ond mae llai o'r moch mawr â'r clustiau trymion i'w gweled yn y dyddiau hyn nag oedd ugain mlynedd yn ol; y mae gwell rhyw yn cyfodi yn eu lle, sef rhai llai o ran maintiolaeth, ac yn hawddach i'w pesgi, ac yn fwy gwerthadwy na'r rhywogaeth mawr. Gwnaeth Mr. Dawson, o Gronant, Mr. Hampton Lewis, yn Môn, ac eraill, ddwyn perffeithiach rhywogaeth i Ogledd Cymru; y mae y rhai hyn wedi gwneyd llawer o les er gwellhau y rhyw,—y mae y glust yn llai, y corff yn hwy, y cefn yn lletach, y coesau yn fyrion a meinion, yr asgwrn yn llai, a'r corff yn fwy prydferth; a'r "brîd bach," fel eu gelwir, yn ennill y tir; y maent hefyd yn haws eu magu pan yn stôrs, ac ni fydd eisieu ond ychydig iawn o fwyd iddynt heblaw yr hyn a borant yn y meusydd; ac y maent yn dyfod yn gynt i afael y porthmon gyda llai o gost, ac nid ydynt yn bwyta hanner cymaint a'r hen hil; gellir pesgi tri o'r brîd yma am ddau o'r brîd mawr, ac atebant yn well i'r prynwr a'r gwerthwr. Dywedir mai gan Mr. Dawson, Gronant, sir Fflint, y mae y rhywogaeth oreu o foch yn Nghymru.

Pys a ffa gleision, trwy y callod a'r codau, sydd yn fwyd rhagorol i'r stôrs yn yr haf—y maent yn pesgi yn naturiol arnynt. Os cyfyd rhyw un wrthwynebiad i'r bîd, dyma drefn arall a all fod yn llawn mor fanteisiol i'r tyddynwyr wrth besgi, sef hau mwy o bys a ffacbys, a phlanu mwy o ffa, a phesgi y moch â hwynt, yn enwedig yn yr haf; pesga y moch yn gynt yn yr haf na'r gauaf. Dyma ddull a gymerais un flwyddyn, ac yr

oeddwn yn ei chanmawl yn fawr: nid oeddwn yn cau y moch i mewn, ond yn eu porthi ar y buarth, ac ni welais harddach na thewach perchyll yn unlle; gwerthwyd hwynt i fyned allan yn gynar yn mis Medi.

Gan fod fy sylwadau wedi ymestyn yn hwy o lawer nag y meddyliais iddynt fod ar y cychwyn, ni allaf aros ond ychydig ar y *da pluog*. Yr ydym yn feius mewn llawer o bethau wrth fagu a phesgi adar dofion, er fod rhai miloedd o gywion ieir, gwyddau, hwyaid, a wyau, yn myned o'r wlad bob blwyddyn, ac y synai llawer hen wreigan pe y gwelai y cyfansWm o arian a dderbynir oddiwrth y fasnach hon; eto i gyd, rhywbeth bychan yw yn ngolwg y byd yn gyffredinol. Ni wnaf ond crybwyll am ychydig o gyfarwyddiadau y dylem eu dilyn wrth fagu a phesgi y da pluog. Y peth blaenaf a ddylem ofalu am dano yw cadw y cytiau, a'r lleoedd y byddant yn gorwedd ac yn dodwy ynddynt, yn lân; peidio cadw yr ieir i fyned yn rhy hen; gofalu am gadw y gywen oreu o'r lot bob blwyddyn at ddodwy; peidio rhoi ieir teneuon i eistedd, dyma fel y bydd yr wyau yn dyfetha; gofalu am ddigon o fwyd i'r ieir tra byddo y cywion yn eu canlyn; rhaid i'r ieir gael lleoedd sychion a diogel rhag y gwlaw; wrth eu cadw yn y gauaf mewn lle cynhes y mae y bythynwr bach yn cael ganddynt ddodwy mor fuan cyn y Nadolig, pan y bydd yr wyau yn geiniog yr un!—pris go dda onide am wy iar. Os am besgi y cywion y byddys, rhaid eu cadw mewn lle tywyll, a'u bwydo yn aml gyda blawd haidd a llaeth yn gydtew; wrth roddi tamaid iddynt yn fynych byddant yn ddigon tewion yn mhen y pythefnos. Ychydig o fagu *turkies* sydd mewn rhai parthau o Gymru; gellir gwneyd ceiniog lled dda oddiwrthynt ond eu cadw mewn lle digon sych a chynhes. Gyda y gwyddau y bydd y merched yn gwneyd mwyaf o arian—yn y plu ac yn y corpws. Lle y cymerir gofal gyda hwynt pan y byddo y cywion yn ieuainc y gwelir haid gref o wyddau bob blwyddyn; y maent yn talu yn eithaf am eu cadw. Y maent yn bur hoff o ddail, megys letys y gerddi, dail maip, bresych, &c. Y maent hefyd yn caru y dwfr, a rhaid iddynt gael digon i lanhau eu hunain onide ni ffynant; gellir eu pesgi mewn oddeutu pythefnos wrth eu cytio a'u bwydo âg ŷd, blawd haidd, a llaeth, &c. Ond y mae y rhan amlaf yn pesgi y gwyddau ar y soflydd, heb roddi dim arall iddynt, a gwell genyf fi bob amser fwyta gwydd oddiar y sofl, nag un rhy dew flonegog, wedi ei phesgi yn ormodol. Felly dyna ychydig o gynghorion i drin y da pluog.

"Teilwng i'r gweithiwr ei gyflog;" er, fe allai, mai nid teilwng i mi sylwi ar werth llafurwaith, gan fod y cyflog yn amrywio cymaint yn mhob rhan o Gymru. Llawer o ymresymu y sydd pa un rataf ai cadw dynion ieuainc yn y tŷ, a rhoddi bwyd a chyflog iddynt, ynte rhoddi cyflog, a byrddio eu hunain. Y drefn fwyaf cyffredin yn y ffermydd mawr yw yr olaf, ac y mae yn boddhau y gweithiwr a'r meistr yn well. Dylai yr amaethwyr ofalu am dai annedd a gerddi cysurus i'r gweithwyr, yn gyfleus ac yn agos at eu gwaith, a rhoddi darn bychan o dir iddynt—gymaint ag a'u galluogo i gadw buwch neu ddwy drwy y flwyddyn; fel hyn gellir gwneyd llawer gwr, gwraig, a theulu yn ddedwydd. Anhawdd yw cadw gwraig a chwech neu saith o blant gyda naw swllt yn yr wythnos, heb rhyw gymhorth ychwanegol; er eu bod yn gyffredinol yn cael llawer o fân bethau gan eu meistr, megys lle i blanu pytatws neu faip, y tŷ yn ddiardreth, ac yn aml lle i'r fuwch i bori yr haf, ac weithiau rhyddid gauaf hefyd. Ac ystyried

cyflwr gweithwyr yn gyffredinol, lle y mae gwraig drefnus, hyfforddiol, a chynnil, y mae y llafurwr a'i deulu yn byw mor ddedwydd a chefnog a llawer tyddynwr bychan, os nad gwell na hwynt.

Fe allai y bydd rhai yn barod i sylwi, "Dyma hwn eto yn rhoi y baich i gyd ar gefn y tenant." Na, na; yr ydwyf yn mhob rhan o'r traethawd wedi nodi allan y dyledswyddau sydd yn gorwedd wrth drothwy y meistr tir gyda'r tenant i'w cwblhau. Gellir enwi llawer o foneddigion sydd yn cynnorthwyo eu tenantiaid i adeiladu tai cyfaddas ar eu hystatiau, yn cefnogi y tenant diwyd i ychwanegu ei ddiwydrwydd, trwy ei gynnorthwyo i draenio, yn caniatâu cymhorth at walio, ac yn agor yr afonydd sydd yn rhedeg trwy y ffermydd; a beth ychwanceg ellir ddysgwyl oddiar eu dwylaw? Dywed ambell denant, Ni chefais i ddimai erioed tuag at na thŷ na thwlc, na gwal na thraen. Wel, druan, mae genyt ti le i gwyno wrth dy feistr; os nad oes genyt gymeriad hynod o fanteisiol ar dy fferm, yr ydwyf yn dywedyd yn eofn, ac y mae yr amserau yn galw am hyny, mai dyledswydd arbenig y tir-feddiannwyr (*landlords*) yw cynnorthwyo y tenantiaid i gyflawni diwylliadau parhaol ar y tir, ac yn mysg eraill, y rhai canlynol:—sef adeiladu tai o bob math yn gyfleus at waith y fferm, gwalio, planu coed, drain, agor afonydd a rhigolydd mawrion i gario y dwfr o'r tir, a chynnorthwy i draenio, lle y gwneler hyny yn gelfyddgar; neu, ar y llaw arall, teilynga y ffermwr, a gymer y fath welliadau arno ei hun, ryw ddiogelwch neu amser ar ei dyddyn, fel y derbynio o ffrwyth ei lafur, yr hawl, gyda'r llog, o'r hyn a wariodd ar y tir. Nid ydyw ysbryd y *leases* wedi disgyn ar y wlad eto; y mae y fath hyder canmoladwy yn bodoli rhwng y tir-feddiannwyr a'r tenant, nad ydynt byth yn meddwl am hyn, er mai dyma yr unig foddion a achosodd y llwyddiant a'r diwygiad rhyfeddol a gymerodd le yn Scotland yn nghorff y deugain mlynedd diweddaf. Yr wyf braidd yn sicr na wna un meistr tir yn y wlad nacâu rhoddi *lease* i denant effro, diwyd, ymdrechgar, ac anturiaethus ar ei fferm; ac yr wyf yn cymhell y meistradoedd tiroedd yn Nghymru, er mwyn eu lles dyfodol eu hunain, yn gymaint a lles eu tenantiaid, i roddi pob cefnogaeth i'r hwn sydd yn haeddu cefnogaeth. Yn wir, ni raid ofni am hyn; o herwydd y cymeradwyaeth penaf i gael fferm dda yw teilyngdod yr ymgeisydd at drin tir, gyda moddion digonol i afael ynddo.

Yr ydwyf yn edrych ymlaen yn hyderus, ac mewn llawn gobaith y gwelaf yr amser y bydd manteision helaethach yn cael eu codi er lledanu *moddion dysgeidiaeth yn gyffredinol;* ac yn enwedig, ysgolion i ddysgu egwyddorion sylfaenol amaethyddiaeth, yn brofiadol ac ymarferol, yn Nghymru. Dyma un o'r llyffetheiriau tynaf ag sydd yn lluddias cynnydd mewn gwybodaeth amaethyddol. Yr wyf yn gwybod yn eithaf da am lawer o fân rwystrau sydd yn edrych yn ngwyneb y tyddynwr o ddydd i ddydd; ond nid allaf lai na chredu mai dyma y peth cyntaf, a'r mwyaf ei bwys, o'r un, ac y dylem weithio â'n holl nerth i'w symud oddiar y ffordd, sef diffyg dysg a gwybodaeth yn y gelfyddyd amaethyddol. Gallwn edrych arno mewn dwy ffordd—yr ydym yn anwybodus mewn fferylliaeth, creigyddiaeth, rhifyddiaeth, ac egwyddorion sylfaenol y gelfyddyd amaethyddol. Yr wyf yn dywedyd hyn, pan y cyferbyniwn ein hunain â dynion eraill o'r un sefyllfa â ni, yn enwedig yn Scotland, a rhai ranau o Loegr, lle y mae moddion gwybodaeth yn nes atynt nag sydd genym ni; canys nid oes genym yr un ysgol wedi ei sefydlu yn y wlad, lle y dysgir yr un gangen o

wybodaeth yn dwyn perthynas neillduol â'r gelfyddyd, oddigerth ychydig o rifyddiaeth. Gwelir mai y dynion hyny yn unig sydd wedi cael manteision dysgeidiaeth gyffredinol yw y rhai mwyaf effro gyda'u gorchwylion, a mwyaf celfyddydol gyda'u galwedigaeth? Onid yw hyn yn amlwg i ni wrth rodio o faes i faes, ac o fferm i fferm, ar draws y wlad? Wrth syllu ar yr haidd melyn, salw, a'r ŷd gwyrddlas, siriol, ceir pob un yn ddystaw yn dadgan yn ddigon cyhoeddus, naill ai diffygiadau gwybodaeth wrth drin y tir, neu ofal, medrusrwydd, a gwybodaeth y llafurwr. A gellir gofyn, Paham y mae un yn cynnyrchu ei dir ar y chweched, a'r llall ar y drydedd? Nis gallwn beidio a syllu ar ddylanwad a nerth gwybodaeth yn yr ardal lle y mae hyn yn bod:—y dyn gweithgar, gwybodus, sydd yn trin y maes gwyrddlas, siriol, ar y fferm gynnyrchiol, mewn cyferbyniad i'r hwn sydd dan lywyddiaeth anwybodaeth yn tynu calon ei dir gyda'r ŷd budr, melyn, a salw. Ar yr un pryd, nid wyf yn dywedyd un gair yn erbyn ffermwyr y wlad (fel y caf sylwi eto) fel rhai gweithgar a diwyd; y mae y cymeriadau yma yn blant agos i wybodaeth yn gyffredinol. Eto, pa sawl dyn gweithgar a diwyd a welwyd yn sefyll uwch ben llawer gorchwyl yn segur, o herwydd ei fod yn ddiffygiol mewn gwybodaeth, ac yn methu gweithio ei ffordd? Gwelwyd y fath ddyn hefyd yn cael ei gamarwain gan ei gymydog oedd mor ddiffygiol yn ei wybodaeth ag yntau, ac yn dwyn dystryw a cholled iddo yn ei gymwynas, o eisieu dangos i'r fath un pa fodd i wneyd y peth yma a'r peth acw yn iawn; ac nid oes neb yn fwy parod ac ewyllysgar i wneyd hyny na'r amaethwr, ond ei arwain ar ben y ffordd. A pha fodd y gellir gwneyd hyny? Yn unig trwy agor ei ddeall, a deall y genedl ieuanc sydd yn cyfodi i fyny, mewn gwybodaeth a dysgeidiaeth. Nid wyf am gymhell "*Book farming*" i'r wlad ychwaith; ond yr un brofiadol ac ymarferol. Ar yr un pryd, yr wyf yn cymhell, ac yn appelio at y tirfeddiannwyr, i sefydlu ysgolion yn mhob ardal, er rhoddi dysgeidiaeth gyffredinol yn Seisoneg a Chymraeg, fel y gallo mab y "tyddyn bach" fod yn ddigon o rifyddwr i wneyd i fyny werth ei ŷd a'i anifeiliaid, pa un bynag ai wrth bwys ai wrth fesur; i fesur a rhifo gwaith y llafurwr; ac i brofi a deall trwy ffigyriaeth ei holl oruchwyliaeth amaethyddol, a hyny heb gymhorth ei gymydog sydd yn y "fferm fawr;" i fod yn ddigon o ysgolhaig i ddarllen a deall llyfrau Seisoneg a Chymraeg ar wahanol gangenau gwybodaeth; yn ddigon o fferyllydd (*chemist*) i wahaniaethu rhwng y gwrtaith —pa un fydd lesol i'r tir a'r priddyn, a'r hyn a eill fod er niwed neu ddaioni i'r llysiau a'r planigion; i ganfod y gwahaniaeth, trwy wybodaeth mewn creigyddiaeth, rhwng natur y naill wely a'r llall o'r creigiau sydd yn gorwedd dan ei dyddyn; ac yn bendifaddeu, ei hyfforddi yn egwyddorion sylfaenol crefydd, i ddeall ac ystyried ei gyfrifoldeb i'w Grëwr, a'i ddyledswydd at ei gydgreadur. Foneddigion Cymru! yr wyf yn ail appelio atoch chwi ar ran y mân dyddynwyr ag sydd yn analluog o ran moddion i roddi dysgeidiaeth i'w plant. Agorwch eich llogellau; sefydlwch y fath ysgolion yn ddioed; o herwydd fod lles cyffredinol y tirfeddiannwyr a'r deiliaid, a budd y masnachydd a'r amaethwr, yn gymhlethedig yn lledaniad cyffredinol gwybodaeth a dysgeidiaeth yn mysg pob dosbarth o ddeiliaid amaethyddol Cymru. Yn wir, y mae y wlad yn dyheu ac yn sychedu am wybodaeth; ac yr wyf yn beiddio dywedyd, os ceir ychydig o foddion at gael gwybodaeth gyffredinol i'r werinos, y gwelir Cymru yn un o'r taleithiau mwyaf blodeuog a dedwydd o holl wledydd y byd.

Nid wyf yn dysgwyl i ddysgeidiaeth ymdywallt ar y wlad fel gwlaw taranau, i foddi rhyw ran neu ranau o honi; ond erfyn yr wyf yn daer am gymhorth y tirfeddiannwyr, fel y disgyno fel gwlith y nos, yn araf a maethlawn, ar y ddeilen sychedig. Mae digon yn ystordŷ gwybodaeth i gynnyrchu brasdiroedd Lloegr a Scotland, ac hefyd i wneyd tenantiaid tlodion Cymru mor wybodus ac mor ddedwydd a hwythau. Gellir tynu o gelwrn dysgeidiaeth yn feunyddiol, ac eto ni bydd un gronyn llai. Ac fel hyn, dysg gwybodaeth gyffredinol i'r dyn ymysgwyd oddiwrth ffug sancteiddrwydd; i fod yn onest wrth brynu a gwerthu; dengys iddo fod gwastraff yn y tail a'r porthiant, a diofalwch gyda phethau bychain y fferm, yn ei dlodi; a chynnildeb mewn offerynau amaethyddol, yn ei gyfoethogi: a dysg hefyd iddo wahaniaethu yr hyn sydd er lles iddo, oddiwrth yr hyn sydd er drwg iddo, yn amaethiad y tyddyn.

Gellir nodi hefyd yn ail, yr hyn sydd yn lluddias llawer tyddynwr bywiog ac anturiaethus i gwblhau ei amcanion gyda golwg ar wellhau ei dyddyn—diffyg moddion (*capital*). Yr wyf yn gwybod am lawer un sydd yn gorfod ymbalfalu, ac ymladd yn erbyn mil a mwy o anfanteision, ac yn gorfod edrych yn ngwyneb llawer profedigaeth, o achos llogell wag. Yn y blyneddau diweddaf a aethant heibio, pan oedd prisiau lled uchel am yr ŷd a'r anifeiliaid, cynnyddodd gwelliadau yn ddirfawr yn y wlad; a dyma yr hyn sydd yn galluogi yr amaethwr yn bresennol i fod yn fwy calonog—gwell golwg am gnydau toreithiog o ŷd a gwair, *stock* wedi cynnyddu, a'r hen ddyledion fu yn eu llethu am flyneddau wedi eu talu. Mae hyn yn profi mai nid diffyg anturiaeth i wellhau y tir yw y cwbl, ond mai mwy o ddiffyg moddion sydd yma; er y gwyddom am ambell "hen fachgen" lled glyd arno, sydd âg ofn yn ei galon i roddi punt yn y tir, er mwyn ennill dwy gyda llog!

Bai arall a ellir ei nodi yw, yr ysbryd anturiaethus i gymeryd fferm rhy helaeth, heb ddigon o foddion i'w thrin yn ddyladwy, a'i *stockio* yn gyflawn. Dylai fod gan y sawl a gymer fferm o gant a hanner o aceri, o leiaf fil o bunnau yn ei logell, cyn y gwel lwyddiant yn coroni ei ymgais. Y mae hyn wedi dinystrio llawer tyddynwr gwan yn ei wendid—yn anghofio fod y fferm, fel y *bank*, yn gofyn hawl cyn y tâl log. Yr ydwyf eisoes wedi sylwi fod Cymru yn gyffredinol yn trin rhy ychydig ar y tir. Nid yw braidd yn bosibl perswadio yr amaethwr fod trin mwy ar y tir yn sicr o wellhau ei sefyllfa; ac onid trwy y moddion yma y gwelir y tir yn cynnyrchu llawer mwy o ŷd a llysiau?

Y mae cymeriad tyddynwyr Cymru fel rhai gostyngedig, diwyd, llafurus, heddychol, moesol, a gonest, mor uchel ag un dosbarth neu gymdeithas o ddynion dan haul y nefoedd. Nid gwiw genyf edrych am eu *character* i'r *llyfrau gleision*, ond appeliaf at lyfrau *agents* tirfeddiannwyr y wlad; a gellir herio holl wledydd Lloegr, a gofyn, Pa le y mae llyfrau mor lân? Pwy sydd barotach i gyfarfod â'u meistr tir yn mhen blwyddyn, na ffermwyr Cymru? Pwy yn fwy gostyngedig i'r sawl sydd yn troi mewn uwch cymdeithas na hwy? Pwy yn fwy heddychol i'r llywodraeth a'r cyfreithiau gwladol na thyddynwyr a llafurwyr Cymru? Tystia ein llysoedd barn am y deugain mlynedd diweddaf yn eithaf cyhoeddus am hyn. Nid oes ball ar eu diwydrwydd; y maent yn llafurio yn ddiwyd hwyr a boreu; gwelir hwynt bob dydd, cyn codi haul, yn edrych am eu da, ac yn cyfrif y gwartheg, y defaid, a'r ŵyn: y bachgenyn ieuengaf yn y tŷ yn canu

ar y ddol cyn i'r fronfraith esgyn ar y brigyn, pan yn cyrchu y gwartheg i'w godro; y mae y llafurwr tlawd yn ennill yr awr cyn caniad y ceiliog —pwy yn fwy effro y nos, yn fwy diwyd y dydd wrth wylio ei braidd, na'r amaethwr? Nid oes neb yn y wlad yn fwy distadl ei annedd, gwaelach ei ymborth, garwach ei frethyn, llai ei ennill, a mwy amddifad o fanteision i wellhau ei feddwl, na llawer un o drigolion Cymru sydd yn llafurio y ddaear. Fel hyn y dywedai Mr. Aneurin Owen, un o'r dynion mwyaf manylgraff a gwybodus o ansawdd a chymeriad y tyddynwyr Cymreig, am danynt:—"Mae anian tyddynwyr Cymru yn hynod o ddidwyll — eu diwydrwydd a amlygir yn eu gorchwylion; ac nid hawdd ystyried eu boddlondeb mewn cyfyngderau, eu moesau duwiol, heddychol, a chymwynasgar, heb antur i helaethu eu gwybodaeth, a gwella eu cyflwr. Ni lethir hwynt dan y baich o brisiau isel ar eu cynnyrch, ac ardreth ry drom ar eu tiroedd, heb yr ymdrechiadau grymusaf i gyflawni eu haddewidion; ac anaml y gellir beio arnynt am wastraff a meddwdod." Pwy oedd wedi cymysgu mwy gyda ffermwyr Cymru, ac yn gwybod yn well am eu cymeriadau, na'r boneddwr gwladgarol hwnw? Gwrandewch beth a ddywedodd Syr Richard Bulkeley, mewn cyfarfod amaethyddol yn ddiweddar am danynt:—"Beth bynag yw anhawsderau yr amaethwr Cymreig, ni welais i eto mo'r dyn ymroddgar i wellhau ei dir heb ddyfod cyn hir yn amlwg yn well yn ei amgylchiadau." Ië, pwy eto yn fwy moesol a chrefyddol? Edrych ar y dorf syml, hawddgar, a heddychol, ar foreu neu brydnawn Sabboth, yn cynniwair tua'r eglwys a'r capel, trwy un o bentrefydd bychain Cymru, sydd yn ddigon i ddarbwyllo y coelgrefyddwr o'i anffyddiaeth, a'r gwatwarwr o'i ragrith a'i chwerthiniad. Ië, llawer fferm, llawer tŷ, mewn llawer pentref yn y wlad, ar foreu Sul, sydd yn hollol wag. Hawdd fyddai saethu magnel (*cannon*) o un pen i'r heol i'r llall heb ofni niweidio neb yn y pentref bach sydd mor dawel a'r "Llan anghyfanedd."

Nid oes eisieu cymhell na rhoddi un awgrym er meithrin tueddiad at y gelfyddyd o amaethu yn Nghymru — y mae wedi ei blanu yn, ac yn cydweddu â, natur a thueddiad y rhan liosocaf o'r trigolion; ond dylid meithrin, cymhell, a rhoddi pob calondid iddynt fyned ymlaen i ddiwyllio a llafurio eu ffermydd, a'u hannog i ddilyn eu galwedigaeth gyda mwy o fanylrwydd—rhoddi mwy o gyfleusderau iddynt, trwy ddysgeidiaeth, i eangu eu gwybodaeth yn egwyddorion sylfaenol amaethyddiaeth, yn gelfyddydol ac yn ymarferol—cefnogi cymdeithasau yn ngwahanol ardaloedd y wlad i ymddyddan ar ffermwriaeth—rhy ychydig o'r fath ysbryd sydd yn eu mysg. Ac yn gyffredin, y mae tyddynwyr Cymru, naill ai yn rhy yswil, neu yn rhy ofnus, i agor eu meddyliau ar un peth a all ddwyn perthynas â'u bywoliaeth; mae yn rhaid ysgubo yr ysbryd gwylaidd (os nid hunangar) yma o'r wlad. Ond yr wyf wedi fy arwain oddiwrth yr hyn oedd genyf dan sylw, sef rhoddi pob cefnogaeth i'r amaethwr. Os gwna rhywun ddiwygiad ar ei fferm, megys traenio darn bychan o dir er yn lled annhrefnus—ei ganmawl, ei gymhell, a'i gefnogi i wneyd ychwaneg; dangoser iddo gyda mwyneidd-dra pa fodd i wneyd yn well, ac yn fwy celfyddgar. Nid edliw yn gyhoeddus ei fod yn hanner llewygu ei feibion, na galw ei ferched yn anniwair—mae rhywbeth yn y "*Welsh blood*" ag sydd yn gwrthdaro yn erbyn enllib, trais, a gormes. Trwy fwyneidddra a thynerwch y mae ymwneyd â thyddynwyr Cymru; trwy esiamplau

y mae eu dysgu a'u cyfarwyddo i wellhau eu tir; rhaid eu cymeryd wrth eu llaw, fel y baban pan yn dechreu cerdded—nid gafael ynddynt "nerth braich ac ysgwydd," a'u hysgytio o'r naill le i'r llall. Anerch y tyddynwr gyda mwyneidd-dra, a dywedyd wrtho yn garedig, a'i dygai i wneyd un peth a fo rhesymol a dealladwy.

Ewch ymlaen, amaethwyr Cymru, yn eich diwylliadau clodus, a'ch ymdrechiadau diguro; yr ydych yn ddiareb i'r byd am y cynnyddiad sydd eisoes yn niwygiadau parhaus amaethyddiaeth y wlad. Gan hyny, terfynaf gydag anerch amaethwyr Cymru yn gyffredinol.

Dilynwch yr esiamplau profedig, daionus, a llesol sydd yn cael eu cynnyg o'ch blaen gan y boneddigion hyny sydd yn llawn awyddfryd am wneyd lles i'w tenantiaid a'r wlad. Amcenwch leshau eich tir trwy gario a gwneyd mwy o wrtaith; gweithio mwy ar y tir, trwy ei lanhau oddiwrth bob math o chwyn; codi llai o gnydau olynol o ŷd o'r un maes; meithrin mwy o gnydau gleision; magu mwy o anifeiliaid, gwartheg, a defaid; dewis anifeiliaid cymhwys i'r hinsawdd; a sychu y tir trwy ei draenio; a bydd y fath ymdrechiadau teilwng yn sicr o'ch coroni â llwyddiant.

CERDDORIAETH GREFYDDOL CYMRU.

YR AIL DDOSBARTH.

CANIADAETH DDIWYGIADOL EGLWYS CRIST.

Yn awr ni a gymerwn adolygiad, mor fyred ag y bo yn unol â'n hamcan cyffredinol, ar y cyfnewidiad a gymerodd le yn nghaniadaeth yr eglwys yn amser y Diwygiad. Ond cyn y deuwn at hyny, dymunwn i'n darllenwyr gadw mewn cof fod caniadaeth yr eglwys wedi myned mor lygredig cyn y Diwygiad ag ydoedd ei hathrawiaeth a'i dysgyblaeth. Yn wir yr ydoedd wedi myned mor annyoddefol, hyd yn nod gan y pab a'i gardinaliaid, fel y penderfynasant droi côr-ganiadaeth allan yn llwyr; a hyny fuasai ei thynged oni fuasai i Palestrina, ieuanc ar y pryd, anfon at y pab am ganiatâd i gyfansoddi cerddoriaeth mwy cydnaws â symlrwydd crefydd, ac i'w gynnyrchion foddhau ei arglwyddiaeth yn fawr. A'r pryd hyn dechreuwyd gwellhau caniadaeth o fewn yr Eglwys Babaidd. Ac yma dylid cofio, mai nid gwaith un diwrnod, nac un oes, oedd diwygiad caniadaeth, mwy na rhyw ddiwygiad arall. Bacon dorodd y *spel*, ac a roddodd athroniaeth y byd mewn gwir ryddid a goleuni, ac fe saif ei "*Novum Organum*" yn gofadail ardderchog o'i alluoedd tra bo byd mewn bod; ond rhaid cofio fod Bruno, a Patricius, a Ramus, ac eraill, wedi ei ragflaenu, a pharotoi y ffordd iddo. Felly yr oedd gyda y Diwygiad Protestanaidd; yr oedd Lyra ac eraill wedi dechreu agor eu llygaid ar anghristionogaeth yr Eglwys Babaidd cyn i Luther a'i gydlafurwyr dori allan. Felly yn gymhwys yr oedd gyda chaniadaeth. Yr oedd Marbeck, a White, a Tallis, a Bird, yn Mhrydain; a Gondimel, a Palestrina, ac amryw eraill ar y Cyfandir, wedi derbyn rhyw ysbrydiaeth hollol wahanol i'r hyn oedd yn y byd o'u blaen. Yr oedd gwawr goleuddydd yn ymdori uwch ben Ewrop; yr oedd chwaeth

yr oes yn dechreu newid; yr oedd cyfnewidiad mawr ar gymeryd lle; yr oedd oes newydd yn dechreu ar y ddaear. Er fod enwogion gwahanol wledydd fel hyn yn cael eu cynhyrfu ar yr un pryd, a'u harwain yn yr un cyfeiriad, eto nid oedd neb o honynt yn meddwl dim am yr hyn oedd i gymeryd lle, nes i'r anfarwol Luther gymeryd ei safle, a dyrchafu ei lais nes yr oedd Ewrop a'r byd yn gwrandaw. Y pryd hyny y torodd y diwygiad ar ganiadaeth, fel ar bob peth arall, allan; ac wrth ei adolygu rhaid i ni fyned i'r Cyfandir i ddechreu, am mai yno y torodd allan.

Yn y flwyddyn 1524, cyhoeddodd Luther y Salmau, a rhanau eraill a arferid ganu, ynghyd â thônau priodol iddynt. Dyma y llyfr cyntaf ar ganiadaeth o eiddo y diwygwyr. Oddieithr rhyw gymaint o gymhorth a gafodd gan Melancthon, Luther a barotôdd y llyfr; ac yr oedd amryw o'r emynau a'r tônau o'i gyfansoddiad ef ei hun hefyd. Nid oedd neb o'i gwmpas mor gymhwys at y gorchwyl; canys nid yn unig yr oedd yn deall barddoniaeth, ond yr oedd hefyd yn deall cerddoriaeth—gwybodaeth hanfodol anghenrheidiol i barotoi llyfr o ganiadaeth. Yn wir yr oedd Luther yn gerddor campus, fel y cawn ganfod rhagllaw. Yr oedd delw Luther ar y llyfr—nid yn unig Luther y cerddor, ond hefyd Luther y duwinydd. Nid oedd eto wedi myned mor bell oddiwrth y cyfeiliornadau y bu unwaith yn eu credu—yr oedd eto yn para dan ddylanwad rhyw gymaint o ragfarnau ei ddygiad i fyny a'i fywyd mynachaidd. Yr oedd hyn yn amlwg yn ei dduwinyddiaeth; yr oedd yn amlwg hefyd yn ei ganiadaeth. Yr oedd llyfr canu Luther yn cynnwys mwy o arddull yr hen ganu Pabaidd nag y buasem ni yn awr yn ddysgwyl; ond yn raddol y daeth hyd yn nod yntau i'r goleuni. Yr oedd y Salmydd Lutheraidd hwn yn gychwyniad yn yr iawn ffordd—oedd, yn gychwyniad ardderchog. Yn wir, ni chynnyrchodd oes y diwygiad, nac unrhyw oes arall, ddim byd gwell na rhai o gyfansoddiadau Luther ei hun: ac y mae y canu dirfawr fu arnynt, a'r bri uchel i ba un y dyrchafwyd hwynt, yn brawf fod chwaeth gerddorol yr eglwysi y dyddiau hyny yn llawer purach nag yn yr oes hon a'r oesau diweddaraf. Gadewch i ni nodi rhai o honynt.


Y flaenaf fydd yr hon a elwid "Gweddi Luther rhag Twrc a Phab." Gelwir hi mewn rhai hen gasgliadau "*Serva nos, Domine,*" oddiwrth y geiriau cyntaf o'i emyn yn Lladin. Y mae y dôn yn mhob hen gasgliad o iri, ac anfynych y byddai unrhyw gynnulleidfa yn ei hesgeuluso. Rhyddgyfieithodd un, Robert Wisdom, emyn Luther i'r Seisoneg, ac y mae yn niwedd yr holl hen lyfrau Salmau. Gelwir y dôn eto, oddiwrth natur yr emyn, yn "Weddi Luther;" ond yn y "Cerddor Eglwysig," gan Mills, gelwir hi yn "Wittemberg," oddiwrth y ffaith, y mae yn debyg, mai yn Wittemberg y cyhoeddwyd llyfr caniadaeth Luther gyntaf. Yr oedd golygydd pob llyfr yn ei chynghaneddu yn gyffredin yn ei ddull ei hun; ond yr oeddynt oll yn unol âg arddull eglwysig. Yn wir, mewn rhai hen lyfrau ni a'i cawn wedi ei chynghaneddu ddwywaith drosodd—un yn fwy cywrain, a'r llall yn fwy syml. Y mae y gynghanedd yn y "Cerddor Eglwysig" yn ol un Ravenscroft—y llyfr goreu a gyhoeddwyd yn y deyrnas hon ar Salmyddiaeth yn yr adeg dan sylw, fel y cawn weled eto; ond er mwyn i'n darllenydd cerddorol ganfod cynlluniau o wahanol awduron boreu, ni a roddwn "Weddi Luther" ger bron, yn ol cynghaneddiad Salmydd a gyhoeddwyd gan Day, yn 1563; ac yn fwy felly am y daw cynghanedd y diwygwyr dan ein sylw penodol cyn diwedd ein hysgrifau.



"Preserve us, Lord, by thy dear word,
From Turk and Pope, preserve us, Lord;
Both which would thrust out of his throne,
Our Lord Christ Jesus, thy dear Son."

"O! cadw ni â'th air dy hun,
Rhag Twrc a Phab, ein Harglwydd cun;
Can's hyrddient hwy o'i orsedd wiw,
Dy anwyl Fab, ein Crist a'n Duw."

Y mae emyn Luther, fel y gelwir hi yn gyffredin, yn fwy hysbys. Y mae hon bron yn mhob casgliad diweddar; ond nid yw yn cael ei chanu mor gyffredin. Y mae yn rhy bur i archwaeth bresennol ein cynnulleidfaoedd a'n dechreuwyr canu. Nid oes ammheuaeth nad Luther oedd ei hawdwr; ond y mae awdwr Germanaidd wedi hòni, rhyw bymtheg mlynedd yn ol, fod yr alaw, fel y daeth o ddwylaw Luther, yn wahanol i'r hyn ydyw mewn llyfrau diweddar. Dywed ef, i Luther ei chyfansoddi yn 1523, ac iddi ymddangos am y tro cyntaf yn y flwyddyn ganlynol. Nid ydym yn teimlo llawer o ymddiried yn y dadenhuddiad yma o eiddo ein hawdwr, canys gwyddom pa mor hoff yw yr Almaenwyr o rywbeth newydd yn mhob cangen o ddysgeidiaeth, ac yn neillduol mewn henafiaeth feirniadol; ar yr un pryd nis gallwn yn bresennol ei wrthbrofi. Yn ol ei ddiwyg ef saif yr alaw fel hyn:—



Y mae y dôn yn y ffurf yma, yn hynod o brydferth fel cyfansoddiad; ond nid mor arddunol ag yn ei diwyg cyffredin. Pwy bynag yw awdwr yr emyn, y mae yn bur farddonol yn y wreiddiol, ac yn y cyfieithiad Seisoneg; ond y mae y cyfieithiad Cymreig yn rhagori ar y naill a'r llall. Un o'r pethau, os nad y peth mwyaf arddunol a wnaeth Bardd Nantglyn trwy ei oes, oedd y cyfieithiad o'r pennill cyntaf.


"Duw mawr! pa beth a welaf draw?
Diwedd a braw i'r hollfyd;
Mi wela'r Barnwr yn nesau
Ar glaer gymylau tanllyd:
Yr udgorn mawr yn seinio sydd,
A'r beddau 'n rhoddi 'r meirw 'n rhydd,
I wae neu ddydd o wynfyd."

Nid yn hawdd y cana awenydd daearol bennill gwell; ac ni byddai y dôn, ar a wyddom ni, yn un darostyngiad i awen angel.

Y mae amryw o dônau eraill o awduriaeth Luther yn para mewn arferiad

ar y Cyfandir, ond yn llai adnabyddus yn y wlad hon. Y maent oll yn brydferth, ac o nodwedd grefyddol, a'u harddull yn bur iawn. Gadewch i ni nodi un fel anghraifft. Erfart yw ei henw, yn nghasgliad Winterfield, cyhoeddedig yn Leipsig, 1840. Dyma hi—





Rhaid i ni adael Luther a'i ganlynwyr yn awr, a throi at Calvin, a'r eglwys yn Geneva. Y mae yn anhawdd i ni amlygu mewn geiriau y parch a deimlwn i'r Eglwys Lutheraidd am ei hymdrechion gyda chaniadaeth. Ar yr un pryd, yr Eglwys Galfinaidd a gafodd y dylanwad mwyaf ar ganiadaeth y Diwygiad. Oddiwrthi hi y daeth yr ysbryd drosodd i Brydain, a'i delw hi fu yn hollol ar ganiadaeth yr eglwys am oesoedd rai, a'i chynlluniau hi a ganlynir i raddau hyd y dydd hwn.


Yr oedd Calvin yn awr yn Geneva, ac anghen ar yr eglwys am lyfr caniadaeth. Nid oes eisieu i ni ddyweyd fod Calvin yn un o'r ysgolëigion prydferthaf fu mewn unrhyw oes; ac er nad oedd yn proffesu ei hun yn gerddor, eto y mae yn amlwg fod ganddo chwaeth gerddorol. Ni ddadleuwn ni ddim ar hyn o bryd pa un a oedd efe yn deall cerddoriaeth ai peidio—y mae hyn yn amlwg, fod ganddo gyfeillion oedd yn well beirdd a cherddorion nag ef, a gwyddai yntau hyny. Gan hyny, yr oedd ei feddwl mawr ef yn rhy haelfrydig, a'i ysbryd zelog yn rhy awyddus am lwyddiant pob rhan o waith yr Arglwydd, i gymeryd y gorchwyl yn ei ddwylaw ei hun. Galwodd ar frodyr galluog at y gorchwyl. Cyfieithwyd y deg Salm a deugain cyntaf i fesur cerdd gan un o'r enw Marot, a chyhoeddwyd hwynt, ynghyd â rhagymadrodd o eiddo Calvin, yn Geneva, yn 1543. Gorphenwyd y Salmau gan yr enwog Beza; a chyhoeddwyd argraffiad cyflawn, am y waith gyntaf, yn Strasburg, yn y flwyddyn 1545. Nid oedd Marot na Beza, mwy na Chalvin, yn gerddorion enwog; gan hyny nid anturiasant at y gwaith o gymhwyso tônau at y farddoniaeth, ond ymddiriedwyd hyny i un Guillaume Franc. Ni wyddys yn awr ddim am Franc, ond ei fod yn gerddor medrus, ac yn perthyn i'r Eglwys Ddiwygiedig. Yr oedd y llyfr Salmyddiaeth yma yn unol âg ysbryd trwyadl y Diwygiad. Yr oedd un yr Eglwys Lutheraidd, fel y crybwyllwyd, yn cynnwys tipyn o archwaeth y gwasanaeth Pabaidd; ond yr oedd hwn, fel Calvin ei hun, yn ddiwygiwr hollol. Yr oedd yn syml trwyddo—eto yn brydferth, a llawer iawn yn bur effeithiol. Rhaid i ni aros rhyw gymaint yn awr i'w adolygu.

Ond cyn myned ymhellach, y mae yn anghenrheidiol i ni nodi mai un llais oedd yr holl dônau. Yn mhen amser, cynghaneddwyd hwynt gan Claude Goudimel, un o gerddorion enwocaf yr oes. Yr oedd cynghanedd Goudimel yn lled gywrain ac anhawdd; gan hyny cynghaneddwyd hwynt drachefn gan gerddor arall, llawn mor enwog, Claude Le June. Yr oedd

cynghanedd Le June yn fwy syml, ac eto yn hynod o brydferth a medrus. Ond i ddychwelyd at yr hen lyfr yn ei ffurf cyntefig.

Y mae yn cynnwys yr holl Salmau, a dim ond y Salmau, oddieithr y Deg Gorchymyn, Cân Zacharias, Diolchgarwch Mair, Credo yr Apostolion, a dwy neu dair yn ychwaneg, wedi eu troi ar fesur cân. Yna y mae tôn gyfaddas ar gyfer pob un. Nid oedd neb o'r diwygwyr yn meddwl fod yn iawn i'r dechreuwr canu ddewis ei dôn ei hun ar y pryd, na'i dewis ychwaith cyn dyfod i'r addoliad—O na! er fod yr holl ddechreuwyr canu y pryd hwnw yn gerddorion medrus, eto, nid oedd *dewis* y dôn yn cael ei ymddiried iddynt. Yr oedd y dôn wedi ei dewis a'i chymhwyso at y Salm gan y rhai oedd yn deall y pwnc yn drwyadl, a gwaith y dechreuwr canu oedd codi y dôn hono, ac nid un ond y hi. Pe buasid yn canu yr un Salm ddeng waith ar yr un Sabboth, yr un dôn a ganesid arni bob tro. Fel hyn, yr oedd y farddoniaeth a'r gerddoriaeth wedi eu priodi; ac yr oedd yn drosedd tori y briodas ar unrhyw achlysur: a'r canlyniad oedd, fod personau, a theuluoedd, a chynnulleidfaoedd yn eu dysgu yn drwyadl, a bod y canu yn effeithiol dros ben. Yr oedd y llyfr wedi ei drefnu fel hyn:—yn nechreu pob Salm, yr oedd y dôn briodol iddi wedi ei hargraffu, a'r pennill cyntaf dan y nodau—yna yr holl Salm yn canlyn. Er mwyn i'r darllenydd beidio methu ein deall, ni a roddwn y bedwaredd Salm ar hugain yn anghraifft:—









2 Mais sa montagne est un saent lieu:
Qui viendra donc au mont de Dieu
Qui est ce qui la tiendra place?
L' homme de mains et cœur lavé
En vanité non élevé
Et qui n'a juré en fallace.

Felly yn y blaen hyd ddiwedd y Salm.

Yr ydym wedi dweyd fod tôn briodol i bob Salm: ond na feddylied y darllenydd fod y llyfr yn cynnwys cant a hanner o wahanol dônau; sef tôn

wahanol i bob salm—O na! y mae rhai o'r tônau yn cael eu cymhwyso i ddwy neu ychwaneg o'r salmau. Llyfr i'w ganu oedd y llyfr, ac i'w ganu trwyddo, a buasai cant a hanner o dônau yn ormod o lawer, er gwyched cantorion oedd yn yr eglwysi ar y pryd. Y mae yn wir fod cynnulleidfaoedd y diwygiad yn rhoddi llawer o amser at y rhan yma o'r addoliad; eto, buasai y nifer uchod o wahanol dônau yn ormod. Yr oedd awduron ac eglwysi eraill yn dilyn yr un rheol, fel y cawn weled wrth fyned ymlaen.

Y mae rhai haneswyr a beirniaid cerddorol wedi hòni mai llyfr gwael a dienaid oedd yr hen lyfr; a'i fod, meddant hwy, mor angherddorol a Chalvin ei hun. Ond y mae yn ddigon amlwg fod yr awdwyr hyn, un ai mor anwybodus o lyfr caniadaeth yr Eglwys Galvinaidd ag oeddynt o Calvin ei hun, neu ynte eu bod yn analluog i ymweithio i ysbryd y cyfansoddiadau. Ychydig iawn y mae yr haneswyr goreu wedi allu dyweyd am ganiadaeth y diwygwyr; ac y mae rhai, fel y mae yn hawdd canfod, heb erioed weled y llyfrau gwreiddiol, a barnu drostynt eu hunain. Sut bynag, y mae yr hen lyfr o'n blaen—yr ydym wedi ei ganu trwyddo yn ofalus, a rhanau o hono lawer gwaith; a rhoddwn yn awr ychydig o'i dônau ger bron, fel y gweler natur ei gynnwysiad.

Y gyntaf a nodwn fydd yr "Hen Ganfed." Y dyb gyffredin yw mai Luther yw ei hawdwr; ond y mae rhai awduron diweddar wedi honi mai Douland a'i gwnaeth. Y mae hyny yn gamgymeriad dirfawr, canys yr oedd wedi ei hargraffu cyn geni Douland. Nid oes neb eto wedi gallu profi pwy yw yr awdwr. Sut bynag, tôn o gynnyrchiad yr Eglwys Galvinaidd, yn ol pob tebyg, ydyw. Y mae yn Salmydd Ravenscroft (1621), wedi ei chymhwyso at y ganfed Salm, a dyna'r pam y gelwir hi yn Mhrydain wrth yr enw "Hen Ganfed." Douland hefyd a'i cynghaneddodd i Ravenscroft; ac wrth weled ei enw wrthi, o herwydd y cynghaneddiad, mewn rhai hen lyfrau, fe benderfynodd rhai beirniaid diweddar mai Douland oedd ei hawdwr. Yn Salmydd Geneva, gyda y bedwaredd Salm ar ddeg ar hugain ar ol y ganfed y mae. Y mae wedi ei hysgrifenu, ac yn para i gael ei chanu, mewn gwahanol ffyrdd; ac y mae Dr. Gauntt wedi ei threfnu mewn pedair ffordd:—y gyntaf, medd ef, yn ol y dull y cenid hi gan yr Eglwys Lutheraidd; yr ail, gan yr Eglwys Galvinaidd; y drydedd, gan yr Eglwys Seisonig; a'r olaf, yn ol y dull diweddar; a phob un, oddieithr yr olaf, yn hollol gyfeiliornus. Dyma fel y mae yn Salmydd Geneva:—



Dyna fel y canai yr hen gynnulleidfaoedd hi, nid yn unig ar y Cyfandir


ond hefyd yn Mhrydain; ac fel yna y saif ar yr hen lyfr, gyda hyn o wahaniaeth—nad oes dim banau i'w rhanu yn gorfanau yn hwnw; ond nid yw hyny yn newid dim ar y dôn. Am ei rhagoroldeb, yn neillduol fel y saif uchod, byddai mor rhesymol i ni fyned i ddangos goleuni yr haul i'n cydwladwyr—peth y mae pawb yn ei ganfod ond y dall hollol, ac nid oes ganddo ef allu i'w ddirnad.

Yn nglŷn â'r Salm l. y mae yr "Hen Ddegfed a Deugain," fel y gelwir hi. Awdwr hon, medd golygwyr llyfrau tônau yn gyffredin, yw Blanks: yn unig am yr un rheswm ag y dywedir mai Douland yw awdwr yr Hen Ganfed. Fe gynghaneddodd Blanks hi i wasanaeth yr eglwys Seisonig, ac y mae yn ol y cynghaneddiad hyny yn "Ngherddor Eglwysig" Mill's, dan yr enw "Franc." Mae yn annichon dyweyd pwy yw yr awdwr,—rhyw un o gydlafurwyr Calvin yn ddiau: mae yn un o'r rhai mwyaf prydferth a melus yn yr hen "Salmydd." Fel hyn y mae yno:—



Yr oedd hon mewn bri uchel gan yr eglwysi diwygiedig yn gyffredin; ac nid llawer llai felly oedd yr "Hen cxiii," fel y gelwir hi. I'r salm yma y defnyddiwyd hi yn Lloegr, ond yn nglyn â'r Salm lxviii y mae yn Salmydd Geneva. Ar y mesur, "Hen cxiii. dwbl," y mae; *h.y.*, pennill o ddeuddeg llinell, yn cynnwys wyth sill bob un. Dyma hi,—





Y mae y mesur yn un lled faith, fel y gwelir, ond y mae yn bur ystwyth, a'i fydr yn eithaf cerddorol. Gwnaed ein cerddor brawf ar y ddau bennill canlynol o eiddo yr hen Williams:—

> "Mae'th drugareddau maith eu rhin
> Yn dod i lawr fel melus win
> O oes i oes heb dranc, heb drai;
> Dy gariad sy'n anfeidrol stôr,
> Yn gyflawn berffaith fel y môr,
> Ac yn dragwyddol yn parhau.
>
> Y sawl a'th gaffo, gwyn fyd hwy,
> Nis gallant fyth ddymuno mwy,
> Ti lenwi eu heisieu oll yn llon;
> Mae môr a thir, a da, a dyn,
> Oll yn dy heddwch di dy hun,
> A mwy nag fedd y ddaear hon."

Y mae y mesurau bron i gyd yn rhai neillduol, a neillduol iawn, a hir iawn, yn gyffredin. Ar yr olwg gyntaf, y maent yn ymddangos yn angherddgar felly; ond erbyn eu defnyddio, y maent, nid yn unig yn ganadwy, ond hefyd yn gelfyddgar a pheraidd. Dyma restr o ychydig yn anghraifft:—

9, 9; 9, 9; 8, 8.
7, 7; 7, 7; 8, 8; 8, 8.
9, 9; 8, 8; 8, 9; 8, 9.
8, 8; 9, 9; 7, 7; 8, 8; 8, 8.

Er mwyn dangos cyfansoddiad y farddoniaeth yn fwy eglur, nyni a ysgrifenwn y mesur 10, 11, 11, 10, 10, 11, 10, 11:—

> "Misericorde au pouvre vicieux
> Dieu tout puissant, selon ta grand clemence
> Use a ce coup de ta bonté immense
> Pour effacer mon fait pernicieux

Lave moi Sire et relave bien fort
  De ma commise iniquité mauvaise
Er du peché qui m'a rendu fiord
  Me nettoyer d'eau de grace te plaise.

Yma fe welir fod yr ail a'r drydedd linell yn ateb eu gilydd, a'r gyntaf a'r bedwaredd; yna bob yn ail—y bummed a'r seithfed, a'r chweched a'r wythfed. Y mae rhai mesurau yn fwy dyfeislawn na hwn, ac y mae yr effaith yn foddhaol tros ben, fel rhai o'r carolau Cymreig: ond y mae ambell un mewn gwirionedd yn lled aflêr; y mae y cymesuriad yn ddrwg, ac o ganlyniad, y mae y dôn yn afrwydd. Cymerwn yr eilfed Salm ar hugain yn anghraifft:—



Fe wel y cerddor oddiwrth y corfaniad nad yw y cymesuriad yn dda; er ei fod yn well nag ambell fesur a ddefnyddiwyd, ac a ddefnyddir eto, mewn rhai lleoedd. Y mae y pennill cyntaf yn dechreu fel hyn;—

Mon Dieu, mon Dieu pourquoi m'as tu laissé
Loin de secours d'ennai tant oppressé
Et loin du cri que je t'ai addresse
  En ma complainte?
De jour, mon Dieu je t'invoque sans feinte
Et toute fois ne repond ta voix sainte
De nuit ausi et n'ai dequoi étainte
  Soit ma clameur.

Ni chenfydd y bardd nad yw yn deall cerddoriaeth, oddiwrth gorfaniad y farddoniaéth, yr anghymesuriad sydd yn y corfaniad cerddorol, heb

gofio ei fod yn beth neillduol i ganiadaeth Ffrengig dafliad sill ychwanegol, mewn lleoedd penodol, yn y canu, i'r hyn y mae yn ymddangos mewn argraff. Felly y mae yn y llinellau hwyaf yn y rhan olaf o'r pennill.

Rhaid i ni yn awr roddi un neu ddwy yn ychwaneg o'r hen alawon. Y ddeuddegfed Salm a deugain sydd fel hyn:—



Yn awr, caned y darllenydd hi ar y geiriau canlynol o eiddo Williams, i'w gynnorthwyo i fyned i ysbryd y cyfansoddiad. Ond rhaid iddo oddef i ni daflu sill i mewn i'r drydedd fraich a'r olaf, er mwyn dangos mydr yr hen dôn.

Anghenus wyf, bechadur gwan,
Am hyn 'rwy'n tynu tua 'r lan,
  Yn gweled digon gan fy hael Dduw;
Trysorau pe cawn eu mwynhau,
A laddai 'ngofid, laddai 'ngwae,
  Ac a'm gwnae 'n llawen tra byddwyf byw.

Y Salm gyntaf yw hon, ar fesur degau:—



Yr olaf yw hon, ar fesur neillduol, 7, 8 :—



Cyn cau yr hen lyfr, rhaid i ni nodi un yn ychwaneg, sef tôn y Deg Gorchymyn. Canu y Deg Gorchymyn? Ie, eu troi i fesur cerdd, a'u canu yn y teulu, ac yn yr addoliad cyhoeddus, a thrwy hyny, blanu eu hegwyddorion ar y meddwl o'r mabandod. Y mae y dôn wedi ei chanu ar fath o fesur hir, ac y mae yn un o'r cyfansoddiadau mwyaf destlus a chywir a ganwyd erioed. Y mae yn y "Cerddor Eglwysig" dan yr enw Beza, ynghyd â'r gynghanedd fel yr arferid hi yn yr Eglwys Brydeinig. Fel hyn y cenid hi gan Eglwys Geneva :—

Leve le cœur ouvre l'oreille. Peuple en . . . . durci, pour ecouter, De ton Dieu la voix nonpareille, Et ses commandemens gouter.

Yr ydym yn awr wedi gosod digon o anghreifftiau ger bron i ddangos beth oedd nodwedd caniadaeth y diwygwyr ar y Cyfandir; a gadawn hwynt, ar hyn o bryd, yn unig fel ffeithiau i lefaru drostynt eu hunain. Rhaid i ni, bellach, gau ein hen lyfr anwyl, ac wrth ei gau, derfynu yr ysgrif hon.

SABBOTH YN Y BALA.

Y BALA—y dreflan fechan hòno, yn nghanol bryniau Meirion, sydd fel mangre neillduedig yn y byd prysur, âg erchwynion o fynyddoedd cribog yn ei chau, fel muriau amddiffynfa, oddiwrth bob tref arall yn y byd yn mron. Os yw y Garneddwen, ar ffordd Dolgellau, yn lled wastad, rhaid yw i'r teithiwr blin wrth amynedd i esgyn Bwlch y Groes i Ddinas Mawddwy, neu elltydd Berwyn i Lanfyllin; ac os yw Cors y Sarnau, a'r gefnen fynydd wrth gapel Bethel, ar y ffordd i Gorwen, yn lled isel, y mae Hiraethog faith rhyngddi a Dinbych, a Mign-neint egraidd yn derfyn rhyngddi a threfydd Arfon ac Eifion. Er hyn oll, y mae enw y Bala yn lled hysbys. Beth a all fod yn gosod enwogrwydd arni? Nid oes yn agos iddi yr un fonachlog enwog yn adfeilio dan law amser, na dim i'w chysylltu â'r oesau a aethant heibio ond tomen ddiaddurn o bridd, a chareg yn *rhywle* yn ystlys eglwys blwyfol Llanfor o gof a chrybwylliad am Lywarch Hen: nid oes ychwaith ynddi yr un eglwys gadeiriol â chlychau soniarus neu ffenestri lliwiedig, nac yn wir yr un adeilad arall i ddenu sylw. Mae yn sicr fod y llyn mwyaf yn Nghymru yn chwareu ar ei raian, fel cawr ar ei orwedd ar lawr doldir gwastad o lawn bedair milltir o hyd, ac un o led, yn y dyffryn gerllaw i'r dref; ond y mae dagrau mynyddoedd Trefriw, a ffynnonau Llandrindod, yn fwy eu clod a'u cymeradwyaeth nag ef o lawer. Beth, ynte, a osododd enwogrwydd ar y Bala? Nid yw ei daear fel gwaelodion Lloegr, neu siroedd Henffordd, Amwythig, a Chaerlleon, yn cynnyrchu afalau wrth y tunelli, a gwenith wrth y mesurau, a chaws wrth y cannoedd; ond daear oer, uchel, a diffrwyth yw ardal y Bala. Nid oes yn y wlad o'i hamgylch ychwaith ddim gweithfaoedd bywiog, cyffelyb i'r rhai sydd yn gosod Merthyr a'i chyffiniau ar dân, yn mhob ystyr i'r gair; ac ni chlywir yno ychwaith swn y pylor a'r morthwylion yn malu y creigiau llechi, fel yn nghymydogaethau Ffestiniog a Bangor; ond hyd yn hyn, am a wyddys eto, ni bu gwiw gan natur guddio cymaint a dwrn o'r glo yn ei mynwes, na chŷn o faint llaw o haiarn a phlwm yn haenau ei chreigiau; ac eto, rhaid addef fod rhywbeth wedi dwyn y Bala i sylw, teilwng o'i rhestru mewn cydnabyddiaeth lled barchus gyda rhai o brif drefi Cymru, os nad Lloegr hefyd, yn y dyddiau yma.

Beth, meddwn eto, a allai osod enwogrwydd ar y Bala? Goddefer i ni ddyweyd ein syniad yn lled benderfynol, mai *crefydd*, a chrefydd yn unig. Pwy sydd na chlywodd am "Sasïwn y Bala"—y cymdeithasfaoedd rhyfeddol hyny ag y cyrchid iddynt o bob gwlad—yr adegau y gwneid rhyw lanerch, a eilw pobl y Bala yn Green, yn gan mil rhyfeddach na monachlog yn adfeilio, neu eglwys gadeiriol yn ei gogoniant penaf. Gallwn sicrhau i'r darllenydd na bydd dim yn effeithio gymaint arnom—ac ychwanegwn, yn ddibetrus, na byddai dim mwy dyddorawl iddo yntau hefyd—na chlywed rhyw hen ŵr, da o gof a bywiog o dymher, yn rhoddi darluniad o Sasiwn y Bala yn y dyddiau yr oedd John Elias, o Fon; Ebenezer Richards, o Dregaron; David Evans, o Aberaeron; a Michael Roberts, o Bwllheli; a degau gyda hwy, yn llanciau heinyf ar y maes yn pregethu. Os ceir hyd i hen

ŵr o gyfryw ansoddau, achubed bechgyn y Bala, neu rywrai eraill, y cyfle i gipio ei eiriau o blith ei ddagrau tryloewon (canys nid ydym yn cofio gweled, hyd yn hyn, un hen sant teimladol yn son am Sasiwn y Bala ond gyda llygaid yn llawn dagrau, os nad gruddiau lled wlybion)—achuber ei eiriau, meddwn eto, rhag myned ar ddifancoll llwyr; ac yn fwy felly, am fod rhyw amgylchiadau, anhysbys i ni—nid anfoes ieuenctyd y blynyddau hyn, hyderwn—wedi yspeilio y Bala o un o'i haddurniadau penaf.

Clywsom gysylltu y Bala, lawer gwaith, âg enwau dynion o bob gradd o synwyr, ond o dduwioldeb neillduol, ag sydd yn awr yn y nef: ysgoleigion doniol a chrefyddol, fel y Parchedigion Mr. Charles, a Mr. Llwyd; dynion penderfynol, gwastad eu tymherau, a synwyrol, ac hefyd rai hynod mewn gweddi, fel "yr hen John Evans," a Risiart Owen; pregethwyr effro a diaddurn, fel Shon Moses, a Dafydd Edward; blaenoriaid tynergalon a llygadgraff, fel Robert Griffiths, a William Jones, o Riwaedog; ffermwyr dysyml a duwiol, fel John Jones, Gwern yr ewig, i lawr hyd y rhai a farnai y byd yn wrthddrychau i chwerthin am eu penau, ond a arddelwid gan Dduw yn blant iddo ei hun, fel Abraham Jones, y Ceunant, ac Emwnt, o Filltir geryg, neu fel y mynai efe i ni gredu, ryw un tro y gwelsom ef, y dylesid ei alw, "Edmund Edmund Shon Rhisiart Owen Griffith Meyrick ap Humphrey." Chwychwi, "trueiniaid y tri enw," plygwch eich penau i Emwnt, o Filltir geryg, canys dyma i chwi ŵr a fedrai gyplysu ei hunan âg oesau lawer.

Rhyw deimladau o fod y Bala wedi ei huno mor hynod â chrefydd, ynghyd â chyfarfod yn ddamweiniol â phryddest, o law-ysgrif a chyfansoddiad "un o blant y Bala," tybygem, ond hyd yn hyn heb fod o flaen y cyhoedd, yr hon sydd yn rhoddi darluniad lled fywiog o Sabboth yn ardal y Bala rai blyneddau yn ol, a gododd awydd a phenderfyniad ynom ninnau, os byth y caem gyfle, i dreulio Sabboth yn y rhandir hwn o Gymru; fel y gallem gael gweled â'n llygaid pa cyn belled y mae y plant yn debyg i'w tadau, a pha faint o dduwiolfrydedd y rhieni sydd yn rhedeg yn arferion eu hepil. Ac yn y teimlad hwnw y troisom ein gwynebau tua y Bala.

Gan i ni fod mor anffodus a cholli pob gobaith am ein cario, o herwydd nid oedd ond un taith-gerbyd yn rhedeg drwy dref y Bala, o dueddau yr Abermaw i gyfarfod â cherbydau y gledrffordd wrth Langollen, a hwnw yn eithaf anneheuig i ni ar y pryd, bu raid i ni gerdded rhai milltiroedd; ac yr oedd yr haul yn prysur drefnu ei obenydd ar gymylau y gorllewin erbyn i ni gyrhaedd yno. Er ein bod yn lled flin erbyn cyrhaedd ar y prydnawn Sadwrn i gymydogaeth y Bala, eto yr oedd natur yn adfywio ein hysbrydoedd â swynion ei hamrywiaeth. Safem weithiau ar fin afon ddolenog yn ymlithro trwy ddyffryn bychan bach; neu chwarddem wrth glywed rhyw gornant bychan yn baldordd â'r ceryg, ac yn eu tafodi yn arswydlawn am sefyll ar ei redfa; a chyn pen hir, gwelem y llyn dŵr llonydd yn derbyn yr aberoedd o ochr y bryniau, fel tad tyner ei blant chwareugar, ac yn eu gwasgu at ei fynwes. Ar gopa bryn yn agos i'r dref, teimlem ar ein calon ofyn i wŷr da y Bala, I ba beth y mae y golled ddirfawr hon? Paham na rwymid y dyfroedd mewn cafnau neu ddyfr-ffosydd, i droi melinau a gweithdai ŷd a gwlan, er mwyn cyfoeth a chysur y trigolion? O herwydd yr oeddym newydd ddal sylw nad oedd Dyfrdwy hen wedi cael mynyd o waith gan neb, o'i chartref yn llyn y Bala, hyd nes

y daeth at bobl Llangollen, y rhai a adeiladasant weithfaoedd eang ar ei glanau, oddigerth fod ambell felin fechan mewn cornelau anhysbys rhwng y lle hwnw a'r Bala. Paham, meddwn eto, na byddai yno felinau yd a phapyr, a gweithfaoedd gwlan, &c.? o herwydd byddai yn dda gan y bentydd gael dawnsio ar edyn eu holwynion; a'r hen lyn yntau a olchai y nwyddau gyda gofal a phleser. Digon naturiol oedd i'n cymydogion brwdfrydig yn Llynlleifiad feddwl unwaith roi gwahoddiad i'r hen lyn ddyfod cyn belled a'r dref boblogaidd hono; a chan nad allai efe dramwy ar hyd prif-ffordd y frenines, gynllunio o honynt wneyd ffordd iddo ef ei hunan, ac nid neb arall, trwy bibellau trefnus; canys gwnaethai ddirfawr les i'r miloedd hyny, yn lle gorwedd mewn diogi wrth droed yr Aran a'r Arenig. Ymysgydwed rhywun yn y Bala i ymaflyd yn llaw anian, a dysgu iddi weithio yn y parthau hyn, fel ag y gwneir yn mynydd-dir sir Gaerefrog, a'i chyffelyb.

Yr oedd yn brydnawn hwyr, fel y crybwyllasom, ac yn brydnawn dydd marchnad hefyd; ond yn ein byw nis gallasem ddirnad beth oedd prif nwyddau trafnidiaeth y fro. Yr oeddem wedi bod yn darllen gynt mai hosanau oeddynt y prif nwyddau marchnadawl, a chlywsom am "Domen y Bala yn llawn o hen wragedd yn gwau;" ond erbyn hyn, y mae peirianau yn gwau yn llawer cyflymach, a cheir, o ganlyniad, yr hosanau yn rhatach, fel nad oes debygrwydd yn y byd ei bod o werth cael un dydd o saith yn y Bala i werthu a phrynu hosanau mwy. Wrth gyfarfod â phobl wledig yn dychwelyd o'r dref, ein casgliad oedd (am ei gywirdeb ni ddywedwn ddim), mai diwrnod oedd y dydd marchnad y byddai pobl y wlad yn dyfod at bobl y dref i newid eu pwysi ymenyn am ddogn wythnosol o de, a choffi, a siwgr, a nwyddau eraill anadnabyddus i'n henafiaid, ond sydd bellach yn ffon gynnaliaeth i ni.

Wedi cyrhaeddyd y dref, buom mor ffodus a chael derbyniad lletygar gan deulu caredig iawn. Er fod angeu wedi gwneyd rhwyg ar yr aelwyd, eto yr oedd crefyddolrwydd y pen teulu yn dysgu iddo dewi fel Aaron, os nad oedd yn meddu ar ymroddiad Eli, neu orfoledd Job. Dan y gronglwyd hon y cartrefasom dros y Sabboth yn y Bala.

Yn foreu ar y Sabboth, yn ein hystafell wely, dechreuasom chwilio am y bryddest, a'i darllen, fel y byddai i'n syniad am ddull pobl y Bala yn cadw eu Sabboth gynt fod yn fywiog, wrth sylwi ar ddull a moes yr oes bresennol yn gwneyd hyny. Ac yma cymerwn ein cenad i wthio y bryddest i'r argraffwasg; ac os byw yw yr awdwr, ac os dig a fydd, hyn a ddywedwn, "Na fachluded yr haul ar ei ddigofaint," ond maddeued i ni allan o law.

SABBOTH YN ARDAL Y BALA, YN Y FLWYDDYN * * *.

Rhyw law anweledig, yn eithaf y dwyrain,
Lle cedwir y goleu mewn celloedd tra mirain,
Tew leni y ddunos symudai o'r neilldu,
A'r wawr, fel teg wyryf, a godai o'i gwely;
Ysgydwai gudynau ei meinwallt rhudd-felyn,
Ystynai ei breichiau dros ddyffryn Tryweryn;
Ac fel rhyw fun nwyfus ymlithrai 'n lledradaidd
I wlychu ei gruddiau yn neifr grisialaidd
Yr hen lyn[1] godidog, lle cedwir y dyfroedd
Gan natur mewn cwpan o uchel fynyddoedd:

[1] Llyn Tegid.

Yna y neidiai i 'sbïo ar anian,
A blaen ei hysgafndroed ar gopa yr Aran;[1]
Hen Idris a chwarddai drwy fwlch o gymylau,[2]
A'r moelydd mor siriol nes bron dori geiriau;
Y 'Renig,[3] yn wylaidd symudai 'r niwl teneu,
Oedd yn llen dros ei hwyneb, i gyfarch y boreu;
Y grug â'u mân flodau, a'r rhedyn gwyrddleisiol,
A'r mwsogl briglwyd ar fryniau hen Feirion;
Islaw, ceid y dolydd yn lledu 'u mantellau,
Yn dryfrith gan fyrddiwn o heirddion fân berlau,
Dail bysedd cochion, rhosyn gwyllt, a'r briallu,
A llygaid y dydd, sydd a phawb yn eu parchu;
Ag edau arianaidd amdöid y cloddiau,
Ag eddi sidanaidd y rhwymid y brigau,
Yn gylchau, yn rhesau, croesamgroes eu gwelir,
Ac eto 'n ol rheol meintoniaeth[4] eu gweithir.
Pa law fu 'n eu gweithio? Pryf bach fu 'n eu dirwyn.
Pa ben a'u cynlluniai? Neb mwy na'r pryf copyn.
Ar ochr y twyn yn y llwyn tew cauedig,
Mae milfil o leisiau yn unllais plethedig.
Islaw, yn y dyffryn, mae Dyfrdwy[5] yn derbyn
I'w chol, yn dra siriol, ei chwaer, hen Dryweryn.[6]
Mae natur yn un, ac un yw ei hamcan,
Ac undeb cydgordiol yw bywyd y cyfan.
Addola, fy enaid, mewn undeb fel yma,
Ar foreu y Sabboth, yn ardal y Bala.

Ar ochr y bryn, dacw dŷ gwyn gwladeiddiol,
Rhyw ffermdŷ lled fychan (mae 'r teulu 'n grefyddol)—
Af hwnt tuag acw, ond odid caf gwmni
Rhai gwladaidd ar drothwy y nef yn addoli.

Gwyryfon teg gwridgoch trwy 'r rhosydd yn gwibio,
Aredig y gwlith wnant wrth redeg i odro;
Cydganant fyr emyn â'r graig sydd gyferbyn,
O eiriau dwyfolaidd hen fardd Pant-y-celyn:—

"O! na bai cystuddiau f' Arglwydd
Yn fy nghalon i 'n cael lle;
Pob rhyw loes, a phob rhyw archoll,
Pob rhyw ffiangell gafodd e';
Fel bo i 'mhechod
Gael ei glwyfo a'i wanhau."

Areiliodd y bugail ei gail i'w cynnefin;
A'r hwsmon roes ebran i'w eiddo yn ddibrin;
Y coedydd tewfrigog wrth dalcen y ffermdŷ
Sy'n estyn eu breichiau ar led i'w ddiffynu;
Yn gwyro eu penau at y tô yn bryderus,
Fel rhai yn ymwrandaw ar chwedlau difyrus.—
Dyma 'r teulu yn gryno; a'r merched o odro;
Y llestri 'n y cwpbwrdd; a'r boreubryd heibio.

[1] Yr Aran—mynydd ar gornel de-dde-orllewin Llyn Tegid.
[2] Hen Idris, sef Cader Idris, sydd i'w chanfod yn y pellder, ar ddiwrnod clir, ar dueddau Dolgellau o'r Bala.
[3] Yr Arenig—mynydd ar dueddau gorllewin y Bala.
[4] *Mathematics.*
[5] Dyfrdwy yn rhedeg o Lyn y Bala.
[6] Tryweryn sydd yn codi yn nghwr Mign-neint, ac yn ymuno â'r Ddyfrdwy islaw y Bala.

Hen Fibl y teulu gan y ferch henaf ddygwyd,
Ac ar y bwrdd bychan, wrth y *screen* dderw ei dodwyd.
[Pam ? beth yw 'r prysurdeb ? nid yw ond boreuol,
Prin canodd yr hedydd ei gân i'r wawr siriol ?]
Ei thad, fel hen batriarch, ddarllenai 'n arafaidd,
Yn nghanol ei deulu, wrth yr allor deuluaidd.
Mae'n darllen—mae'n peidio—mae'n synu—mae'n darllen—
Mae'n arwain ei deulu, a rhydd iddynt hamdden
I weled eu Harglwydd yn cael ei fflangellu,
A chylchu 'i arleisiau â drain wedi 'u plethu.
Fe 'u harwain hwy 'n bwyllog at y groes i Galfaria,
I ganfod y ddirfawr ofnadwy ymladdfa ;
Cânt glywed "Gorphenwyd" yn seinio drwy 'r awyr,
A'r ddraig, a'i holl gryfder, yn dianc o'r frwydyr.
Y dagrau tryloewon ar y rudd a ymlithra
Heb yn wybod i'r teulu, wrth swyn y gair yna.
Ant i lawr ar eu gliniau mewn tymher addoli,
Cymhlethant eu dwysaidd "Amen" gyda 'r weddi.
Ai gormod yw dyweyd fod engyl goleuni
Yn gwenu ar eu gilydd wrth eu gwel'd yn addoli ?
Ai gormod yw dyweyd fod eneiniad yr Ysbryd
Fel gwlithwlaw yn disgyn i'r teulu siriolbryd ?
Ai gormod yw dyweyd fod yr Iesu 'i hun yno,
Yn sylwi 'n llon arnynt, ac yn eu bendithio ?
Ai gormod yw dyweyd fod Duw Dad ei hunan
Yn derbyn eu hoffrwm ar ei orsedd berffeithlan ?

Yn araf, ein cyfaill, yn araf ; y mae yn ddrwg genym dori ar leferydd awen ein bardd, ond nis gallwn ymattal. Chwiliasom lawer y prydnawn o'r blaen am y "tŷ gwyn gwladeiddiol," ond yr oedd rhyw debygrwydd o hyd yn mhob ffermdy i'w gilydd, fel yr oeddem mewn perygl i'w rhestru oll y ffermdy hwnw, a bod pob penteulu yn debyg i'r hen batriarch a nodwyd, hyd nes yr argyhoeddwyd ni i'r gwrthwyneb. Ond cynnefin i'r beirdd ormodiaith. Efallai i'r bardd-luniedydd ddefnyddio lliwiau lled gryfion, neu ynte fod y dosbarth hyny o ffermwyr crefyddol wedi teneuo yn ardal y Bala ; canys drwg genym ddyweyd i ni gyfarfod âg amryw o fân ffermwyr y fro yn dychwelyd adref o'r farchnad yn lled feddwon ! Yr ydym yn crybwyll hyn yn unig er dangos i ddirwestwyr zelog y parthau hyny, nad yw eu gwaith eto wedi ei orphen, gan fod yno rai, tybygem, na wna dim ond llwyrymattal y tro iddynt, a bod yn rhaid iddynt wrth eraill yn hunan-ymwadu i ffurfio rhyw ganllaw a mur i'w cadw yn nghymdeithas dynion, gan mor dueddol ydynt i ymollwng yn is na'r anifel. Ond chwareu teg i'r bardd, y mae efe yn codi ar ffrwst—rhaid i ni ei ddilyn yn ebrwydd ;—

Awn i ffwrdd gyda'r teulu—Elias bregetha
Ar Sabboth cymundeb yn nhrefan y Bala.

Elias ! â'i enw fel trydan drwy 'r cymoedd,
Neu beiriant galluog sugndyna dyrfaoedd :
Mae swyn yn ei enw—mae mwy yn ei eiriau ;
Mae grym yn ei lais—ond mae nerth yn ei bethau.
Elias ! mae 'r plant yn cyffroi wrth ei enw ;
Elias ! mae 'r hen ar ei air yn dal sylw ;
O'i flaen mae 'r dorf gymysg yn un mewn sobreiddrwydd,
Cadwynwyd ysgafnder gan law difrifolrwydd.

Pwy all roddi darlun o'r ryfedd olygfa
Ar foreu 'r cymundeb yn nghapel y Bala?

Mae "llwybrau y bronydd" yn dryfrith o ddynion,
A'r heol yn fywiog gan fod y trigolion
Yn cyrchu i'r capel at naw yn y borau,
Lle cwrddant yn fintai â Duw trwy 'r elfenau.

* * * *

Mae 'r bregeth bwysigawl yn awr wedi ei gorphen,
Desgrifiad cyffrous o'r Iesu ar groesbren—
Y cariad anfeidrol—yr Iawn mawr a roddwyd—
A'r llwybr i gymmod â Duw a agorwyd.
Elias, fel angel yn nghanol y nefoedd,
Yn tracthu holl gynghor Iehofa i'r lluoedd.
Y dorf a gydunant mewn emyn ddiolchus,
Ar dôn fechan wledig, ond eto soniarus;
Fe hulir y bwrdd—darllenir rhyw gyfran
Gan ŵr ysgolëigaidd [1] â golwg fwyneiddlan.
Ac yna ymafla Elias yn ddichlyn,
Yn bwyllog ac araf yn llestri y cymun.
Ei eiriau ddyferant fel gwinoedd yn felus,
A hongia y dyrfa yn fud ar ei wefus.
Hen wladwyr mynyddig yn selio cyfammod
Yn aberth y groes wrth allor y Duwdod:
Hen wŷr lled fethiantllyd am y tro yn anghofio
Eu gwendid cynnwynol, yn mron iawn a neidio:
Hen wragedd oedranus adfywiant yr awrhon,
Gan ollwng eu lleisiau fel heinyf wyryfon.
Yn ol ac ymlaen ymysgwyd wna 'r dyrfa
Fel gwenith teg, llawndwf, dan awel cynhaua'.
Byrddaid ar fyrddaid yn difrif ymwasgu;
Dynion drwy 'u gilydd yn gwau heb ddyrysu;
Un rhan newydd dderbyn y nefol arwyddion,
A rhan yn ymwthio i'w derbyn yn dirion.
Dwylaw ar led at ddwylaw 'r gweinidog;
Un meddwl mawr, eang, drwy 'r dyrfa amrywiog;
Llygaid y dorf ar Elias sefydla,
A'u ffydd yn addoli ar lethri Calfaria.
O'r berw annhrefnus, ceir trefnus addoli,
O'r cynhwrf byw trwyddo mae Duw 'n cael ei foli.
Fe barthodd y dorf—mae rhai ar eu gliniau,
Ac eraill yn canu nefolaidd ber eiriau—
Yn wylo—yn canu—hyd ddengwaith yn dyblu—
A'u llaw ar eu cern, â'u llygaid i fynu—
Hen bennill melysawl, a ddenodd eu hysbryd
Mewn moment i rywle i ardal y bywyd:—

"Gwych sain—fydd eto am y goron ddrain,
Yr hoelion dur, a'r bicell fain—
Wrth gofio rhai'n caiff uffern glwy';
Cadwynau tynion änt yn rhydd,
Fe gaed y dydd, Hosanna mwy!"

O'r bron na ddychmygwn fod engyl goleuni
Mewn brys am eu cwmni i'r nef i addoli,

[1] Mewn nodyn eglurhaol, dywed yr awdwr ei bod yn arferiad gan y Parch. S. Lloyd ddarllen cyfran o wasanaeth y cymun, allan o'r "Llyfr Gweddi Gyffredin," bob tro y cymunid yn y Bala.

Gan faint y brwdfrydedd ddangosant yr awrhon
Yn ngwendid y corff, yn mysg daearolion:
Beth fyddant mewn nerthoedd yn moli yn hygar
Pan gollant eu gwendid yn mhriddell y ddaear?
Ai ffug im' yw gweled rhyw angel penfelyn
Yn brysur wrth ruddiau hen ŵr gyda'i ddeigryn,
Rhag syrthio o hono i'r ddaear yn isel,
Fe'i dwg yn ofalus i'r nef yn ei gostrel!—

Paid, paid, fy nychymyg, bydd ddystaw, llonydda—
Addola, fy enaid, addola! addola!

Ofer oedd i ni ddysgwyl, mae yn debyg, weled byrddeidiau ar fyrddeidiau yn ymwasgu drwy eu gilydd at fwrdd y cymun, canys y mae y nifer fwyaf o'r cymunwyr hyny gydag Elias yn y nef; ac yr oeddem yn deall hefyd fod y rhan hwnw o'r capel, lle y gweinyddid yr ordinhad o Swper yr Arglwydd wedi ei newid dan ddwylaw rhyw saer neu seiri dyddiau diweddarach: a'r lle y penliniai eu tadau i dderbyn yr elfenau, y mae eu hiliogaeth yn awr yn eu derbyn yn gymfforddus ar eu heistedd, mewn eisteddleoedd trefnus. Bydded yr ysbryd o hyd yr un.

Wedi boreubryd ac addoliad teuluaidd, ymbarotoisom i fyned gyda'n lletywr caredig i gapel y Methodistiaid Calfinaidd. Yr oedd erbyn hyn yn ddeg o'r gloch. Yn hyn eto yr ydym yn canfod fod y plant yn amrywio oddiwrth y tadau, canys dywed awdwr y bryddest eu bod gynt "yn cyrchu i'r capel at naw yn y boreu." Dichon fod hyn, ar y cyfan, yn welliant ar yr hen drefn, yn enwedig os nad yw y to hwn o bobl y Bala mor hynod o foreugodwyr â theulu y "tŷ gwyn gwladeiddiol," a soniwyd am danynt: a gwell genym o lawer fyned i'r addoliad cyhoeddus ar foreu y Sabboth yn ddiymdroi oddiwrth allor yr aelwyd, er ei bod awr yn hwyrach yn y dydd, na rhedeg yn frysiog, heb hamdden i ddim yn mron, ond codi, ymdrwsio, a bwyta, a rhuthro i'r capel. Ond yr oedd y seibiant boreuol yn fanteisiol iawn i ymlonyddu, ac ymbarotoi at addoliad mwy cyhoeddus.

Fel yr oeddem yn nesu at yr addoldŷ, yr oeddem yn taflu cipolwg yn awr ac eilwaith ar y tai a'r trigolion; ac er fod yr heol yn lled lonydd, a drysau y tai gan mwyaf yn gauad, nid oeddem yn canfod y cyfryw ymbarotoi ag a ddysgwyliem tuag at fod yn bresennol mewn addoliad boreuol ar y Sabboth. Mae yn wir y gallasai y bryddest ein gosod ar safle lled anfanteisiol i farnu "oedfa y boreu" yn y Bala, o herwydd soniai y bardd am "dyrfa" yn ymysgwyd "fel gwenith teg, llawndwf, dan awel cynauaf:" ond go deneu oedd y gynnulleidfa y boregwaith hwn: ac nid oedd dim hynotach yn yr addolwyr y pryd yma, na chan hynoted ychwaith, ag a welsom lawer tro mewn capel gwledig yn rhyw bentref bychan yn y Dywysogaeth.

Am ddau o'r gloch, cawsom ein gwahodd i'r ysgol. Yma yr oeddem wedi gwenieithio i ni ein hunain y caem weled cryfder ieuenctyd y Bala. Yr oeddem yn gydnabyddus ddigon â'r geiriau *Model Schools*, a *Training Colleges*, ac yr oeddem yn dysgwyl y buasai Ysgol Sabbothol y Bala yn gyfryw a hyny. Syrthiodd ein coelbren yn mysg dosbarth o lanciau, ac un neu ddau o ddynion mewn oed, dan arolygiaeth gŵr da a chrefyddol. Rhaid i ddyeithrddyn gael ei ryddid; nid oedd y sylw a delid gan rai o'r dosbarth yn gweddu i ddynion ieuainc oedd yn codi eu penau yn nghanol

nifer o leuerion galluog, ac wrth drothwy athrofeydd nid anenwog hefyd. Ai tybed, mewn difrif, mai presennoldeb gŵr dysyml ar ei daith oedd yn peri rhyw anwroldeb i ymofyn, neu ateb, am ystyr yr hyn a ddarllenid? Yr oedd ymdrech yr athraw yn glodwiw, a'i serch at ei ddosbarth yn ymddangos yn fawr dros ben. A hir, meddwn, fo y blynyddau y caffont fwynhau cymdeithas eu gilydd.

Wrth ysbïo yn llechwraidd dros yr ysgol yn gyffredinol, yr oeddem yn cael ein hennill i farnu fod y dosbarthiadau mewn llafurwaith cyson, ac enaid yr athrawon yn eu gwaith. Ennillodd un peth ein sylw yn nodedig; sef dosbarth helaeth iawn, oddeutu ugain neu ragor o wyr ieuainc heinyf, o gylch cwmpas ugain oed. Sylwasom ar y fintai hardd; ehedodd ein myfyrdod at y nerth oedd yn gorwedd yno i ymosod ar deyrnas Satan. Os oedd Duw yn ei ras yn eistedd yn frenin ar eu calonau, yr oeddem yn barod i ddywedyd, Gwthier y gallu acw i gylch mwy cyhoeddus; os oedd eu deall yn fywiog yn ngair yr Arglwydd, myner gwybod eu nerth, *pob un yn ei le*, yn llafur y winllan. Od aethom yn ffol, maddeuer i ni; onid yw pobl y Bala yn dyner a gofalus iawn o'u hieuenctyd?

Wedi darllen gylch cwmpas, yn ol defod pob ysgol, rhoed pen ar hyny, ac aed i holwyddori. Ar y pryd, gofynwyd rhai holiadau o'r "Hyfforddwr;" ond y mae yn rhaid addef y gwir, yr oedd yr atebiadau yn oeraidd, gwanaidd, a difywyd; yn ganlynol i hyny, codai gŵr ieuanc o honynt hwy eu hunain i holi y dosbarthiadau uchaf ar bennod o'r Bibl. Yn hyn eto ni ragorodd yr ysgol; ond syrthiodd yn fyr iawn o roi difyrwch, heb son am addysg. Yr oeddem yn cael lle i gredu mai nid am nad oeddynt yn gwybod yr oedd rhai heb ateb; ond yr ysbryd mudandod, sydd ar Ysgolion Sabbothol yn gyffredinol yn Nghymru, sydd wedi meddiannu ysgol y Bala hefyd.

Dichon fod yr Ysgol Sabbothol yn cael ei chlwyfo yn nhŷ ei charedigion. Paham na ollyngid ei rhwymau, fel y gweithiai yn fwy grymusol? I ba beth y neillduir ychydig fynydau yn y diwedd i holwyddori ar rywbeth na buwyd yn son gair am dano, nac yn meddwl dim yn ei gylch, er y Sabboth o'r blaen. Gweithier yn rymusach yn y dosbarthiadau. Nid oeddem heb glywed fod yno ddosbarthiadau Biblaidd yn cael eu cynnal yn nghorff dyddiau yr wythnos gan wŷr tra galluog, a bod rhai o'u haelodau wedi dysgu allan, a phrofi eu bod yn hyddysg hollol yn llyfrau y pedwar Efengylwr. Taener mwy o'r ysbryd hwn i'r ysgol yn gyffredinol, ac yna ni phetruswn ddywedyd, nad atebai Ysgol Sabbothol y Bala ddybenion uchel a daionus.

Yn mhen yspaid awr, neu ychydig yn rhagor, dechreuai lliaws mawr o bobl ieuainc, a rhai hen wŷr, ymgasglu i'r capel i'r cyfarfod canu. Dilynasom hwy, a chawsom foddhâd nid bychan, nid yn unig yn y lleisiau a'r tônau a genid, ond hefyd yn y dull syml ei dygid ymlaen. Yr oeddem yn cael ein denu i dybio fod yno lawer iawn o addoli: nid oedd yno ddim ond a genir yn y cynnulleidfaoedd cyhoeddus—dim rhyw ddarnau cywreiniol sydd yn gwneyd ambell i gyfarfod canu yn debycach i gyfarfod y cantorion cyn *Concert* cyhoeddus, neu *Glee Club*. Na chamddealler ni. Nid ydym ar hyn o bryd yn condemnio gwaith pobl ieuainc yn dysgu canu anthemau, a darnau cywreiniol, o waith y cyfansoddwyr mwyaf celfydd; ond na ladrataer rhan o ddydd yr Arglwydd at y gwaith hwnw. Ond yr oedd y canu hwn yn y Bala yn hytrach yn barotoad cynhesol at yr addoliad cyhoeddus, ac yn rhagymadrodd priodol iddo.

Am chwech, ymgynnullodd tyrfa led liosog i wasanaeth yr hwyr. Yma rhaid i ni gael crybwyll un rhagoriaeth arall yn mhobl y Bala;—ni bu i ni weled yr ieuenctyd yn sefyllian oddeutu drws yr addoldŷ cyn dechreu y bregeth, fel y gwneir mewn rhai manau, er dirfawr archoll i deimlad ac ysbryd rhai merched gwylaidd, a phobl synwyrol grefyddol. Ni ddywedwn yn benderfynol mai dyna *arferiad* pobl y Bala, ond o leiaf nis gwelsom ni neb felly. Aethai yr oedfa heibio fel arferol. Yr oedd dau yn llefaru ar y pryd, o ganlyniad aeth yn lled hwyr cyn i bawb ddychwelyd i'w cartrefi. Am y gŵr ieuanc, y mae i ni ryddid i ddywedyd fod ei sylwadau yn dda, a gafaelgar yn nghydwybodau y gwrandawyr, ond ei fod yn tynu ymaith eu heffaith weithiau wrth fod yn rhy hir gyda chymhariaethau neu *illustrations*. Yr oeddem yn cael lle i feddwl, os caiff oes hir, y gall wneyd gweinidog da a phregethwr mawr. Am ei gyfaill, hŷn mewn oedran nag ef, buasai yn llawer hoffach genym ei weled yn debyg i Ddafydd gynt, yn taflu dillad Saul o'r neilldu, ac yn rhedeg i gyfarfod â'r cawr yn ei ddiwyg bachgenaidd ei hun, heb ddim ond ei dafl-ffon a'i Dduw; ac yna yr ydym yn credu y gwnaethai rymusder. Ar derfyn yr oedfa, yr oedd yno amryw yn rhuthro allan cyn diwedd y canu. Fe allai mai rhai o drigolion y bryniau cyfagos oeddynt, ac arnynt eisieu cyrhaedd adref cyn nos. "Diboen i ddyn dybio 'n dda."

Yr ydym yn deall fod gan ein cyfeillion a'n brodyr yr Annibynwyr gapel lled helaeth yn y Bala, ac eglwys fywiog, weithgar, yn ymgynnull ynddo. Dywedwn "Duw yn rhwydd" wrthynt.

Y mae yno eglwysdŷ bychan hefyd, ac eglwys fwy erbyn hyn yn cael ei hadeiladu; felly ni raid i neb yn y Bala fod heb gyfle i addoli ei Dduw yn ol tueddfryd ei gydwybod.

Yn awr, ar derfyn y sylwadau hyn ar "Sabboth yn y Bala," rhaid i ni gael hamdden i ymddiheuro oddi wrth un dyben o archolli teimladau nebun o bobl y Bala a'i darlleno. Yr hyn oll a wneir yn gyhoeddus, y mae gan y cyhoedd hawl ynddo. Y mae genym amcan i'w gyrhaedd wrth gynnyg y sylwadau hyn i sylw y byd. Nid ydym, ar un cyfrif, yn chwennych i neb feddwl fod yr hyn a ddywedwyd yn ddarluniad o arferion pobl y Bala *ar bob amser*, ond yn hytrach yr hyn a gyfarfyddasom ni ynddynt ar y pryd y cawsom yr hyfrydwch o gyd-addoli â hwynt. Cyn rhoi ein penau i lawr i orphwys nos Lun, yr oedd milltiroedd lawer rhyngom a phobl y Bala; ac er na chawsom Sabboth yno yn debyg i'r un a ddarluniwyd gan ein bardd yn ei bryddest, cawsom destun, fel Paul gynt, pan welodd ei gyfeillion, i "ddiolch i Dduw ac i gymeryd cysur."

JOHN FOSTER.

[*The Life and Correspondence of John Foster; edited by* J. E. Ryland, A. M., *with notices of Mr. Foster as a preacher and a companion.* By John Sheppard. 2 vols.]

Henffych well i John Foster! Gadewch i ni gael ychydig o ymgom yn ei gylch.

Camp bywgraffiaeth ydyw ei bod yn dangos allan egwyddorion mawrion athroniaeth bywyd mewn ymarferiad—yn dangos elfenau cymeriad fel y maent wedi eu corffori—yn dangos rhanau cyfansoddol y peiriant wedi eu dodi ynghyd, a'r peiriant yn gweithio. Y mae egwyddorion ac elfenau yn bethau anhawdd i ddyn ymaflyd ynddynt; mae eu hanfod ysbrydol yn cilio o'i afael fel cysgod; yr unig ffordd i'w dwyn yn effeithiol i'w gyrhaedd ydyw, trwy eu gweithio allan mewn cymeriadau. Yr ydym yn Job yn deall amynedd; yr ydym yn ei gweled yn ymgynnal dan ei baich. Yr ydym yn Daniel yn deall diysgogrwydd; yr ydym yn ei weled yn cerdded ymlaen gyda cham penderfynol a chadarn i'w ystafell weddi, ac yn galw ar Dduw ei dadau "a'i ffenestri yn agored tua Jerusalem," er gwybod y teflid ef i ffau y llewod. Yn Ioan hefyd, yr ydym yn deall beth ydyw serchogrwydd, oblegid yr ydym yn ei deimlo—y mae yn ymwasgu i'n mynwes, ac yn gyru ei ddylanwad dirgelaidd trwy ein cyfansoddiad oll. Mae y pethau a fuasent mewn *gair* yn annheimladwy fel cysgodion, erbyn eu gosod mewn *gweithred*, yn cerdded o'n blaen yn sylweddau byw, ac yn meddu y gallu mwyaf i estyn eu dylanwad arnom. Y mae dangos cymeriad fel cyfan—fel y mae yn byw, yn symud, ac yn bod, mewn cydgreadur, a dadelfenu ei ranau, yn effeithio yn well o lawer ar y ddynoliaeth fel y mae, na dangos y rhanau hyny mewn damcaniaeth noeth, a dyweyd wrthi am eu corffori mewn ymarweddiad. Y mae John Foster yn gymeriad ag sydd yn cynnwys cydgyfarfyddiad lled ddetholedig o'r ansoddion hyny y mae y "Traethodydd" yn eu hystyried yn rhan bwysig o'i genadaeth i ymdrechu i'w meithrin yn y meddwl Cymreig; y mae hyny yn ddigon o esgusawd i ni dros ei ddwyn i sylw, a cheisio gwneyd ein darllenwyr yn lled gydnabyddus âg ef. "Y mae rhifedi dirfawr o bethau," medd efe, yn rhywle, "y gall y byd fforddio i'w hanghofio:" y mae felly; ond nid ydyw yn debyg y gall y byd "fforddio" i'w anghofio ef, yn ei fywyd a'i weithiau, tra bo rhinwedd a doethineb yn gymeradwy gan feibion dynion. "Ac iddo y bu enw ymhlith y cedyrn."

Ganwyd ef Medi 17eg, 1770. Enwau ei rieni oeddynt John ac Anne Foster. Yr oedd ei dad yn dal tyddyn bychan yn mhlwyf Halifax, yn swydd York, ac ymarferai â'r gelfyddyd o wau, heblaw talu sylw i orchwylion y tyddyn. Yr ydoedd yn ŵr iachus a galluog, mewn corff a meddwl, ac o dduwioldeb diammheuol. Dywedir fod llecyn yn nghŵr coed ar lan yr afon Hebden, gerllaw Hebden-bridge, lle yr arferai ymneillduo i fyfyrdod a gweddi, ac a adnabyddir eto wrth yr enw, "Ogof John Foster." Byddai yn darllen ac yn myfyrio llawer ar y Bibl, ac yr oedd yn gydnabyddus âg amryw lyfrau duwinyddol. Yr ydoedd yn ŵr deallus ac uniawn, yn caru doethineb, yn fyw i lais dyledswydd, ac yn ymroddgar i wasanaethu yr Arglwydd, trwy geisio cynnyrchu a meithrin argraffiadau crefyddol yn ei gymydogion. Yr oedd ei wraig hefyd yn gyfryw ag a fuasem yn dysgwyl i fam John Foster fod. Dywedir nad ydoedd yn ddim islaw i'w gŵr mewn nerth meddwl a duwioldeb, tra yr ydoedd, mewn rhyw bethau, uwchlaw iddo. Ymddengys fod John wedi dechreu eu cynnorthwyo wrth y gwëydd pan yn dra ieuanc. Yr ydoedd yn fachgen sobr-ddwys a neillduedig. Nid oedd ganddo gymdeithion i chwareu fawr, ac ymddengys fod ei rieni o ran oedran a thueddfryd yn bob peth ond ffafriol i feithriniad teimladau o hoenusrwydd a chwareugarwch; ac felly, yr oedd yn naturiol i'r bachgen ymneillduo i gymdeithasu â'i feddwl ei

hun, ac i agor ei galon i farddoniaeth y golygfeydd cynhyrfiol o amgylch ei gartref, y rhai a wnaethant gymaint i ddeffroi ei feddwl, ac i ffurfio elfenau ei fawredd dyfodol. Teimlai yn unigol yn foreu, a blinid ef yn fynych trwy ranau o'i oes gan ryw fath o ymdeimlad pruddglwyfus ei fod ar ei ben ei hun yn nghanol y byd—wedi ei dori ymaith oddiwrth yr holl greadigaeth. Mae yn debyg fod gan amgylchiadau ei faboed gryn ran yn nygiad hyn oddiamgylch. Pa fodd bynag, elai ymlaen, weithiau yn helpu ei dad i wau neu i drin y tir—weithiau yn ymneillduo i'r ysgubor i ddarllen, ac wedi hyny yn myned at ei orchwyl, pryd, meddai cyfaill iddo, "y gweithiai fel ceffyl"—dro arall, yn cerdded hyd làn yr afon—yn crwydro drwy y coed, ac yn dringo i grib y graig—yn mwynhau ardderchogrwydd natur gyda brwdfrydedd arbenig, a'r syniadau rhyfeddaf yn ymweithio trwy ei galon:

> "Afiion a swynid ar wiw fynwes anian,
> Yn wir erbyn hyny pan ar ben ei hunan."

Gwyddai yn burion na fuasai ei gymydogion yn gallu cyd-deimlo dim â'i frwdfrydedd barddonawl; yr oedd hyn yn ei yru yn bellach bellach oddiwrthynt, ac yn peri iddo ymwasgu yn nes at "wiw fynwes anian," ac ymhyfrydu yn fwy yn nghreadigaethau ysplenydd ei ddychymyg ei hun. Nid ydyw yn beth syn yn y byd ynte mai gwehydd gwael ydoedd. Yr ydoedd yn ufudd ac yn barchus iawn yn ei ymddygiadau tuag at ei rieni; ond nid oedd ganddo ond ychydig flas ar drin y wenol, a ffugr gwael a dorai wrth fyned â'i waith i law y meistr. Ni feddyliodd y bachgen erioed am fod yn wehydd; teimlai ei fod i droi mewn rhyw gylch uwch. Ni wyddai *beth* ydoedd i ddyfod o hono, ac nid oedd ganddo ryw syniad uchel am ei alluoedd, ond yr oedd ei ddydd-freuddwydion dysglaer, a'i feddyliau, yn ei godi i diriogaeth lle yr ydoedd pob peth yn fawr ac yn ogoneddus, yn ymyl pa rai yr oedd taclau rhy deimladwy y llawgelfyddyd yn ymddangos yn hynod o dlodion ac anfarddonol. Byddai teimladau crefyddol yn ymgymysgu yn fynych â myfyrdodau ei galon. Tua phedair ar ddeg oed, dywedai wrth Henry Horsfall, ei unig gydymaith yr amseroedd hyny, a chyfaill agos ei flyneddau dyfodol, ei fod yn teimlo pryder llym wrth gymharu ei nodweddiad â gofynion cyfraith yr Arglwydd, ac mai trwy ymddiried yn syml yn aberth Iesu Grist am gymeradwyaeth gyda Duw, yn unig, yr ydoedd yn cael ymwared. Pan yn ddwy ar bymtheg oed, daeth yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Hebden-bridge. Dr. Fawcett y gweinidog, ac amryw o'r cyfeillion crefyddol, wrth weled ei athrylith, ei lafur, a'i rinwedd, a'i cymhellasant i gysegru ei dalentau i wasanaethu Duw yn ngweinidogaeth yr efengyl. Pa un bynag a ydoedd wedi meddwl am hyn o'r blaen ai peidio, ymddengys ei fod wedi derbyn yr awgrym, a gosod ei galon ar yr amcan. Wedi cael boddlonrwydd yn ei alluoedd, fe'i neillduwyd trwy wasanaeth crefyddol at y gwaith. Yn fuan wedi hyn, daeth i Brearley Hall, lle yr oedd Dr. Fawcett, heblaw yn dysgu plant, yn addysgu ychydig o wŷr ieuainc oeddynt yn ymgeiswyr am y weinidogaeth. Treuliai ran o bob dydd i gynnorthwyo ei rieni yn eu gorchwylion, tra yn astudio yn y fan yma. Myfyriai gydag ymroddiad dirfawr—treuliai nosweithiau cyfain yn fynych gyda'i efrydiau. Nid ydoedd yn gyflym i feistroli ei wersi, ond byddai yn drwyadl yn mhob meistrolaeth—rhagoriaeth sydd yn y pen draw yn brawf llawer mwy pendant o fawredd, na'r parodrwydd hwnw sydd mor glodfawr mewn

meddyliau arwynebol. Fel y rhan fwyaf o'r efrydwyr goreu, "brysiai yn araf." Mae un arferiad oedd ganddo yn Brearley Hall, i berffeithio ei hunan mewn cyfansoddi, yn dra theilwng o sylw, ac yn rhoddi cyfrif am berffeithrwydd uchel arddull ei gyfansoddiadau:—cymerai ddarnau o weithiau gwahanol awdwyr, a throai hwynt i bob gwahanol ffurf a allai ddyfeisio. Yr oedd hyn yn tueddu yn ffafriol iawn i roddi iddo yr amynedd, y nerth, y blaenllymrwydd meddwl, a'r ddysgyblaeth gyffredinol hòno sydd mor angenrheidiol er i ddyn allu cyfansoddi yn dda. Wrth fyned trwy y gorchwyl yma, byddai yn eistedd, â llaw ar bob glin, yn ysgogi ei gorff yn ol ac ymlaen, ac yn dal ati hi yn ddystaw, nes y byddai y meddwl wedi ei osod mewn pob math o wisg y gallai ddychymygu am dani. Treuliodd tua thair blynedd yn y lle yma, yn gysurus, yn fyfyrgar, ac yn llwyddiannus. Byddai yn pregethu weithiau; ond gan ei fod yn ei bregethau, yn gystal ag yn ei ymddyddanion, &c., yn gochel pob brawddegau ystrydeb, ac yn ceisio dangos pethau cyffredin mewn tipyn o newydddeb, byddai ei wrandawyr gwledig yn cael eu synu a'u dyrysu, yn fwy na'u hadeiladu, yn fynych, a methent a gwybod beth yn y byd i feddwl o hono. Pregethodd unwaith yn Thornton, yn agos i Bradford, oddiwrth y geiriau, "Myfi yw y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd," pryd y ceisiai ddangos mor druenus fuasai dynolryw, pe na buasai yr Arglwydd wedi darparu dyfodfa iddynt ato ei hun; ond yr oedd yn trin y peth mewn dull mor newydd a dyeithr, fel y sylwai un hen ŵr (a ystyrid yn oracl ei gylch bychan ei hun), "na wyddai efe ddim beth oedd e'n amcanu ato trwy y prydnawn hwnw, os nad i osod dychymygion (*riddles*) iddynt." "Y mae am ein cymeryd at y ser eto," a fyddai yn sylw cyffredin gan ei wrandawyr. Mae yn sicr fod llawer o athroniaeth yn marn Foster—y dylid dangos y gwirionedd yn y fath fodd ag a fyddo yn fanteisiol i ddynion ei weled yn ei hanfod noeth, heb gael eu maglu gan eiriau ac ymadroddion y mae eu swn yn fynych yn taro y glust, ond eu hystyr heb ymaflyd ond yn hynod o anaml yn y meddwl a'r galon. Traetha yn helaeth ar hyn yn un o'i draethodau;[1] ac y mae yn ei holl ysgrifeniadau yn gosod ei athrawiaeth mewn ymarferiad. Mae yn sicr fod *geiriau*—"eilunod y farchnadfa," chwedl Bacon—yn ein twyllo yn ddirfawr. Pan alwn ein hunain i gyfrif, yr ydym yn cael ein bod yn aml, hyd yn nod pan yn ceisio meddwl yn astud a gofalus, yn trin yr arwyddluniau hyn yn debyg fel yr ydym yn trin yr *x* a'r *y* mewn *algebra*, heb feddwl am y syniadau y maent yn arwyddluniau o honynt: a rhagoriaeth y meddyliwr ar ei gymydogion ydyw, ei fod yn gallu ymaflyd yn yr egwyddorion eu hunain—y sylweddau ysbrydol sydd yn trigo megys yn y geiriau, ac heb gymeryd ei dwyllo gan y plisgyn gwag. "*When I first began this discourse of the understanding*," ebe meddyliwr mor alluog a John Locke, "*and a good while after, I had not thought that any consideration of* words *was at all necessary to it*." Ac un ymgais o eiddo Foster ydoedd, cael pob geiriau a brawddegau yr oedd yr arferiad ystrydebaidd o honynt yn tueddu at lochi diogi y meddwl, cuddio y gwirionedd, ac felly "tywyllu cynghor," allan o'n pregethau a'n llyfrau duwinyddol. Yr oedd ei amcan yn dda, ac y mae yn sicr o gael ei ddwyn i ben yn mhob gwlad, yn ol fel y bydd gwybodaeth ac amaethiad meddwl yn ychwanegu ymhlith y dysgawdwyr, pa un bynag ai yn y pulpud, wrth yr ysgrifenfwrdd, ai yn yr ysgoldŷ; ac oddiwrthynt hwy, wrth reswm, ymhlith y werin yn gy-

[1] "*On the Aversion of Men of Taste to Evangelical Religion.*"

ffurfiol. Nid oedd Foster yn gofyn dim yn hyn ond y mae chwaeth goethedig yn ei gymmeradwyo yn y fan. Yr oedd llawer yn ei gamddeall ar y pryd, ac o ganlyniad yn ei gamddarlunio, ac yn ei drin yn angharedig. Yr ydym yn cael enw mor ysblenydd a Robert Hall* yn ei gamddeall yn hollol, ac yn ei gyhuddo o wrthwynebu defnyddio "ymadroddion ysgrythyrol," mewn pregethau ac ysgrifeniadau duwinyddol; tra y mae Foster, yn y traethawd y cyfeiriwyd ato, yn argymmell dysni ac effeithiolrwydd yr arferiad hwn, ac yn gwneyd hyny mewn dull a ddengys gyda'r fath archwaeth y mwynhai y cyfryw; ac heb anghymeradwyo dim ond y dull isel o ddarnio, trawsffurfio a chymysgu ymadroddion gogoneddus yr ysgrifenwyr sanctaidd â thrybini o eiriau gwaelion, nes ffurfio math o *jargon*, sydd yn lladd grym, yn tywyllu ystyr, ac yn maeddu urddas yr ymadroddion mwyaf ardderchog a ddaeth i glustiau creadur erioed—ymadroddion Duw! Ond ar yr un pryd, yr ydym yn [illegible] i [illegible] y buasai defnyddioldeb Foster ei hun yn yr [illegible] yn llawer mwy, pe buasai yn cadw dipyn yn nes at ei wrandawyr, ac yn ymdrechu eu dyrchafu trwy aros gyda hwynt, a'u harwain ymlaen. Pell oedd ymddibynu oddiwrth ddefnyddio geiriau hirion a [illegible]; [illegible] [illegible] [illegible]; dewisai y geiriau mwyaf eglur, a mwyaf [illegible]; [illegible] y gwirionedd i sylw ei wrandawyr mor [illegible] ag y gallai. Yr oedd [illegible] [illegible] a'r meddylgar yn gynnorthwy mawr i [illegible] ymadroddion Duw, er fod pobl dda yn gyffredin yn teimlo [illegible] [illegible] i [illegible] y gwirionedd ei hunan wedi iddo gael ei ddyosg o'r [illegible] [illegible] a [illegible] yn mha rai yr ydoedd wedi cael ei ddilladu gan dduwinyddion [illegible] a [illegible].

"That which we call a rose,
By any other name would smell as sweet."

Credai [illegible] nad oedd dim cysylltiad anghenrheidiol rhwng gwirioneddau [illegible] a rhyw un dull [illegible] o [illegible] brawddegau: ac mai y ffordd oreu yn [illegible] oedd eu [illegible] o [illegible] ffurf [illegible], a'u dangos mewn rhyw ddulliau ereill, er mwyn [illegible] eu natur, ac ymdeimlo â'u mawredd. Yr oedd y dull yma o [illegible], a [illegible] yn [illegible] [illegible] Foster, ac fe allai y cawn ddangos [illegible] y [illegible] ei fod yn [illegible] [illegible] eilen yn nghyfansoddiad ei feddwl, [illegible] mewn modd arbenig yn ffynnonell ei gryfder, ac yn ffynnonell ei wendid.

Yn 1791, symmudodd i athrofa Bristol. Yno y ffurfiodd gyfeillgarwch fynwesol â'r Parch. Joseph Hughes—y gŵr da y mae ei enw wedi ei gysylltu mor [illegible] ag [illegible] y Parch. Thomas Charles yn sylfaeniad y Fibl Gymdeithas. Yr oedd Mr. Hughes ar y pryd newydd ddilyn Robert Hall fel [illegible] [illegible] yn y [illegible], ar ei ymadawiad ef i Gaergrawnt. Bu y [illegible] [illegible] hwn o [illegible] fawr i'r [illegible]; yr oedd eu cyfeillachaeth frwdfrydig yn [illegible] [illegible] er [illegible] y [illegible], yr [illegible] ag oedd werthfawr yn nodweddiadol y [illegible] a'r [illegible], tra yr oedd Mr. Hughes yn cael ei gyfoethogi trwy [illegible] Foster mewn [illegible] a [illegible] crebwyll, yr oedd Foster, o'r [illegible] arall, yn [illegible] yn [illegible] [illegible] oddiwrth wybodaeth, ysgoleigdod, a [illegible] [illegible] Mr. Hughes. Parhaodd eu cyfeillgarwch yn ei wresogrwydd [illegible] hyd y diwedd. Un flwyddyn yr arosodd yn Bristol: gwnaeth y [illegible] [illegible] o [illegible]; ac y mae yn [illegible] fod ei gyfeillach â Mr. Hughes wedi gwneyd mwy [illegible] at ei [illegible] mewn gwir amaethiad yn yr un

* "Review on Foster's Essays," reprinted from the "Eclectic Review," in "Hall's Works."

flwyddyn hono nag a allasai arosiad llawer hwy yn yr athrofa wneyd pe na fuasai yn mwynhau yr un fantais o'r fath. Y mae *siarad* pynciau eu hefrydiaeth mewn ysbryd gwresog ac ymchwilgar, yn enwedig i wyr ieuainc a fo yn deall calon eu gilydd, o werth anmhrisiadwy fel mantais i feistroli anhawsderau, ac i gyrhaedd tôn anrhydeddus o annibyniaeth meddwl. Mae yn sicr fod ymddyddanion Foster a Hughes yn amgylchoedd Bristol, a chynnadleddau dysgedig Robert Hall a Syr James Mackintosh, pan yn efrydu yn Aberdeen, pan y cyfeirid atynt, wrth eu gweled yn cerdded fraich yn mraich, ar hyd yr heol, wrth yr enwau Herodotus a Plato, a mil o gynnadleddau cyffelyb rhwng efrydwyr, wedi gwneyd mwy o lawer i fagu nerth meddwl a nodwedd yn y byd nag a allasai myfyrdod neillduedig wneyd o gwbl.

Y lle cyntaf yr ymsefydlodd Foster ynddo fel pregethwr, wedi gadael Bristol, ydoedd Newcastle-on-Tyne. Pregethai mewn hen ystafell, na chynnwysai fwy na chant o wrandawyr, a byddai eu rhif yn fynych yn llawer llai. Ond yr oedd yno rai yn y fan hono yn alluog i weled ei ragoriaeth, ac i werthfawrogi eu pregethwr yn fawr. Yr oedd yno ryw hanner dwsin o bobl ddeallus yn eistedd ar yr ochr ddeheu i'r ystafell, y rhai a wrandawent arno gydag astudrwydd manwl, ac a ddangosent yn fynych eu cymeradwyaeth a'u gwerthfawrogiad o'i syniadau: byddai yntau yn naturiol yn cyfeirio ei lygaid atynt; ac aeth o'r diwedd, eb efe, i'r arferiad o ddal ei ben yn ormodol yn ogwyddedig at yr ochr hono, a braidd i anghofio fod neb arall yn ei wrandaw. Dywedai un hen foneddwr, a arferai ei wrandaw y pryd hwnw, yn mhen llawer iawn o flyneddau, ei fod yn cofio yn dda gyda pha fath astudrwydd y gwrandawent ei bregethau. Dywedai i un bregeth o'i eiddo ar y gair, "Nid dyma eich gorphwysfa," wneyd argraff annileadwy ar ei feddwl ef ei hun.

Yn mhen tua thri mis, ymadawodd o Newcastle. Wedi aros am ychydig yn swydd Gaerefrog gyda'i gyfeillion, derbyniodd wahoddiad yn nechreu y flwyddyn 1793 i fyned i bregethu i gymdeithas o Fedyddwyr a ymgyfarfuent yn Swift's Alley, Dublin. Pregethodd yma am ychydig dros flwyddyn. Dywedai nad allesid meddwl am ddim mor ddiddyddordeb a'r gymdeithas hon. Yr oedd yn fechan iawn pan ddaeth yno gyntaf, ac wedi myned i'r dim braidd pan y darfu iddo yn wirfoddol ei gadael. Yr ydoedd yn lle dwl, lle y pregethai, eb efe, gydag ychydig o flas, ac y gwrandewid arno gyda llai fyth. Yr oedd yno bob peth, fel yr ymddengys, yn anffafriol iddo eu caru, a gwneyd ei gartref yn eu plith. Yr hyfrydwch penaf a fwynhäai yn eu mysg ydoedd, mewn ymweled â genethod Ysgol Elusengar a berthynai i'r eglwys, siarad yn gyfeillgar â hwynt, rhoddi gwobrwyon iddynt am eu diwydrwydd yn dysgu, darllen llyfrau difyr iddynt, ac ymdrechu eu calonogi i ddyfod ymlaen. Yr oedd yn rhaid iddo chwilio am bob mwyniant arall trwy syrthio yn ol ar adnoddau ei feddwl ei hun, trwy ddarllen, meddwl, cerdded o amgylch, a mwynhau hyfrydwch dihysbydd ei gyfeillgarwch â natur, ymddyddan âg ychydig bersonau "*oeddynt* yn gyfeillion" (y mwyafrif o ba rai ni pherthynent i'r eglwys), a thrwy edrych ar amrywiaethau y ddinas.

Ymadawodd; ac wedi treulio ychydig amser adref, dychwelodd i Dublin, gan feddwl roddi cynnyg ar ddwyn ymlaen ysgol uchraddol a rhifyddol, a adewsid i adfeilio i ddim, ond yr ystafell a'r meinciau, gan Grynwr parchus o'i gydnabod. Nid oedd ei lwyddiant yn ddigon i'w galonogi i'w dal i fyny yn hwy nag wyth neu naw mis. Arosodd yn Dublin amryw fisoedd

[illegible] fyddai gwasanaeth yno, [illegible] na phe buasai erioed wedi [illegible] ei arosiad olaf hwn yn [illegible] yn sefydliad cym- [illegible] mewn cryn berygl [illegible] a charchar. Yr oedd [illegible] o gyfeillion hoff, [illegible] drachefn. Teimlai [illegible] y bobl o'i amgylch, a [illegible] ymddengys ei [illegible] a allasai yn [illegible] i galonau ei wran- [illegible]

[illegible] Gaerefrog. Yn gynnar [illegible] weinidog ar eglwys [illegible] dwy flynedd a [illegible] gyda mwy o [illegible] pregethai yn fynych [illegible] i ddwyn ei [illegible] fod y lle yma [illegible] rhyfeddol [illegible] yr eglwys ei hym- [illegible] fel, yn mhen [illegible] Dywedir fod rhodfa [illegible] ei draed i'w [illegible] yn ol ac ymlaen [illegible] yn ystod ei [illegible] ac mewn dyfn- [illegible]

[illegible] ysbaid gyda'i gyfaill [illegible] Mewn llythyr a [illegible] at Mrs. Mant—y [illegible] yr hanes canlynol am y [illegible] —

[illegible] er pan ddeuais [illegible] Pregethais [illegible] i'r wlad, i breg- [illegible] ac i saint dysyml a da [illegible] ac yr oedd [illegible] a fy [illegible] Hoffwn yn [illegible] Nid hynt damwain [illegible] amser yn awr gyn- [illegible] bregethwyr ar waith i [illegible] fawr erioed o'r blaen, [illegible] a bydd [illegible] ar fy llaw, yr hwn na [illegible] Y mae y gymdeithas a wnaeth [illegible] yn Affrica, wedi dwyn [illegible] Ewropeaidd, i'r dyben o'u gyru [illegible] Affrica. Y maent [illegible] pa fodd yr eir [illegible] arnaf finnau gymeryd eu gofal

am ychydig fisoedd, â'r hyn y cydsyniais. Gallech ganhyn y ddychymygu am danaf yn eistedd yn nghadair athraw, gyda golwg urddasol, ac ugain o wynebau duon o'm hamgylch, yn llefaru gorchymynion iddynt, yn gofyn cwestiynau, ac *yn rasławn* yn cyfranu addysg—yn ŵr doeth anferthol, o'm cymharu am dysgyblion," &c.

Parhaodd i ddysgu yr Affricaniaid bychain am tua phum mis.

Yn 1800, symudodd i bentref Downend, pum milltir o Fristol, lle y pregethai yn rheolaidd mewn capel bychan a adeiladasid gan Dr. Caleb Evans. Tra yn aros yma y daeth yn gydnabyddus gyntaf â Robert Hall—cydnabyddiaeth a droes yn gyfeillgarwch pur. Buont yn gymydogion yn hir, a derbyniai y naill a'r llall y mwyniant uchaf yn nghyfeillach ac yn enwogrwydd eu gilydd. Mewn llythyr at Mr. Hughes, cawn ei farn am dano pan ydoedd newydd ddyfod yn gydnabyddus ag ef:—"Bum ddwywaith neu dair yn nghyfeillach Mr. Hall, a chlywais ef yn pregethu unwaith; mi a'i hedmygaf â'r goreu o honoch. Trwy ryw ddull rhyfedd, y mae pob peth o'i amgylch, yr oll a wna neu a ddywed, *yn fyw o nerth*. Ymddengys fel pe byddai Iau yn dyfod allan yn ei safiad, ei ystum, ei edrychiad, a thôn ei lais. Y mae hyd yn nod brawddeg gyffredin, pan y llefara un, fel yn dyweyd pa faint mwy a all wneyd. Y mae ei ddealldwriaeth yn gryf nodedig, ac y mae ei grebwyll yn addurno, heb dywyllu, ffurfiau cawraidd ei feddwl. Pregethodd yn ardderchog ar ofn marw, er y dywedwyd wrthyf nad ydoedd yn un o'i bregethau goreu.....Yr ydoedd yn nodedig o dirion wrthyf fi." Mewn llythyr arall at Mr. Hughes, cawn y cyferbyniad canlynol ganddo rhwng Coleridge a Hall:—"Mae yn eglur fod ei feddwl ef (Coleridge) yn fwy gwreiddiol a diderfynau na'r eiddo Hall. Y mae Coleridge yn wir, weithiau, yn fwy aneglur a dieffaith oblegid y pellder yn mha un y dygir ymlaen weithrediadau ei feddwl. Y mae Hall yn gweithio ei beirianwaith *yn eich ymyl*, fel yr ydych mewn perygl o gael eich cipio a'ch rhwygo gan rai o'r olwynion; yn debyg fel y teimlodd dyn rai gweithiau pan yn cael ei gylchynu gan swn a symudiadau anferth rhyw felin fawr." Ymddengys mai tua'r amser yma y daeth gyntaf yn gydnabyddus â Miss Maria Snooke, boneddiges ieuanc nodedig mewn duwioldeb a doethineb, ac yn meddu pob cymhwysder i gynnal cymundeb perffaith âg enaid a chalon y meddyliwr serchog ei hun. Yr ydym yn fuan yn ei gael yn dyweyd, "Byddaf yn teimlo yn wastadol y gallwn, wrth gael bod yn ddigon agos ati hi, dreulio oes ymaith, heb flino o gwbl." Dyma yr "Anwyl Gyfaill," yr ysgrifenodd ei "Draethodau" anfarwol ati.

Ychydig o'i ysgrifeniadau boreuol sydd genym ar gael; nid ydyw yn debyg iddo gyfansoddi fawr pan yn dra ieuanc, ac ymddengys iddo ddinystrio yr oll braidd a ysgrifenodd. Y mae un traethawd ysplenydd o'i eiddo, pa fodd bynag, wedi ei argraffu yn y llyfr yma, yr hwn a ysgrifenodd yn lled foreu. Ei destun ydyw "Mawredd Dyn." Mae tipyn o wahaniaeth rhyngddo a'r hyn fuasai yn ysgrifenu ar y fath destun mewn blyneddau addfedach, fe allai; ond ar yr un pryd y mae yn arddangos meddwl gwreiddiol a chryf, a chrebwyll lawn o ardduniant a beiddgarwch. Nid oes neb yn ysgrifenu mor berffaith yn mlyneddau dysgyblaeth a ffurfiad ag y gwna yn llawn dwf, ac yn nghyflawn nerth ei ddoethineb; ond y mae yn eglur fod elfenau mawredd yr awdwr dyfodol i'w gweled yn eglur yn ei ymdrechion boreuol, ac hyd yn nod yn y pethau hyny ynddynt sydd yn dangos fwyaf eglur mai gŵr ieuanc sydd yn ysgrifenu. Mae ambell ŵr

ieuanc, wrth ddyfod gyntaf i'r golwg, yn dyweyd ac yn ysgrifenu pob peth mor *addas*, mor *oddefol*, ac mor *hawdd ei dderbyn*, fel nad oes yr un o'i gyfeillion syml yn pryderu yn ei gylch am fynyd; mae yn sier o ddyfod yn ddyn da a defnyddiol, os nad yn dywysog yn Israel; tra y mae un arall yn meddwl ac yn llefaru mewn dull mor ddyeithrol a rhyfedd, mor ymestyngar, ysblenydd, a thanllyd, fel y mae rhai o'r hen chwiorydd yn methu deall ar y fynyd beth i feddwl o hono, a'r brodyr hwythau yn penderfynu yn ddifrifol nad ydyw yn "synied i sobrwydd," ac fod yn gwbl angenrheidiol tocio ei adenydd, a'i ddarostwng at bridd y ddaear. Ond y mae y sylwedydd galluog a chraff yn edrych ar y ddau ŵr ieuanc o safle dra gwahanol, a gwahanol iawn yw yr olwg a ga arnynt. Yn y cyntaf, gwel mai tlodi truenus y tir ydyw yr achos fod y ffrwyth mor isel a diymhongar, a gollynga yn ddiarwybod iddo ei hun yr ochenaid, "Och fi! dyma greadur bach yn dechreu bywyd cyhoeddus, sydd eisoes fel Adda yn nghyflawnder ei faintioli!" Ond am y llall, mae y cynnyrch gwyllt a dyeithrol a deifl i fyny, yn ei argyhoeddi fod yn ei feddwl ef, pa fodd bynag, dywarchen ddofn a chyfoethog,[1] ac fod ynddo bosiblrwydd o ddwyn allan, mewn amser priodol, gnydau trymion a gwerthfawr; a phan fydd ei gymydog, fel meddyliwr, wedi byw a myned yn hen, ac yn barod i gau ei lygaid yn marwolaeth, a'r byd meddylgar yn teimlo nad oes ei eisieu, y bydd ef yn dwyn allan nerthoedd newyddion yn wastadol, yn dadguddio adnoddau anhysbyddadwy, yn lledu ei wraidd, ac yn ymestyn i fyny, a'i "ffrwyth yn ysgwyd fel Libanus." Rhoddwch i ni y dynion ieuainc hyn! Yn eu plith hwy y magwyd cewri y byd yn mhob oes. Mae pob bachgen y mae ei galon yn ymferwi mewn gweithgarwch sydd yn cynnwys yr ymwybodolrwydd o athrylith ac annibyniaeth meddwl, yn rhwym o ymddangos yn ddyeithr i lawer, fel yr oedd y bachgen bythgofiadwy hwnw, yr hwn yr oedd "Ysbryd yr Arglwydd yn dechreu ar amserau ei gynhyrfu yn ngwersyll Dan, rhwng Sorah ac Estaol;" a rheswm da paham, oblegid y mae pob un o'r rhai hyn, mewn modd arbenig, yn *phenomenon* yn nghreadigaeth Duw, yn was wedi ei anfon mewn ymddiried oddiwrth yr Orseddfainc, a thalentau y Brenin yn ei law. Mae nifer ddirfawr o bobl yn cael eu geni i'r byd nad ydyw y byd i deimlo dim oddiwrthynt o gwbl—fe'u genir i fyw, ac yna i farw; ond y mae y Llywydd mawr yn gweled fod yn angenrheidiol codi breninoedd yn eu plith (nid dynion i wisgo mantell o borphor, a choron o berlau, ond dynion o athrylith a chalon—*gwir* freniniaeth y ddynoliaeth erioed a byth, gan nad pwy fo yn y fantell), i'w llywodraethu, i roddi cyfeiriad i'w gweithgarwch, ac i ddangos iddynt pa fodd i rodio ar [illegible] eu henaid, nes cael eu derbyn gan freichiau angylion a'u cymeryd fry, trwy y pyrth perl, i fynwes y ddinas sanctaidd, i rodio yn [illegible] trwy yr heolydd o aur pur, ac i deyrnasu yn oes oesoedd gyda'r Oen. A phan ymddengys un o'r rhai hyn yn y byd, y mae yn [illegible] mewn [illegible] i'w urddas. Ni raid iddo ef wrth [illegible] a [illegible] a [illegible] i redeg o'i flaen;" na, y mae pob peth [illegible] yn ei ddangos yn frenin, ac y mae yn rhaid i'r byd ei gydnabod [illegible] pa un bynag a fyn ai peidio. Teyrnasa trwy ei ddoeth-

[1] "The more of kindly strength is in the soil,
So much doth evil seed and lack of culture
Mar it the more, and make it run to wildness."
Dante; Purg. xxx. 120.

ineb. Mae ei lafar yn rhy bendant i gael ei gamddeall, ac yn rhy lawn o awdurdod i'w droi o'r neilldu mewn esgeulusdod. Y mae o'r dechreu yn llefaru yn nhôn anefelychadwy athrylith a difrifwch, ac am hyny mae y byd yn dyfod i deimlo ei fod yn "llefaru fel un âg awdurdod ganddo." Ond, fel yr awgrymwyd o'r blaen, y mae tipyn o wahaniaeth rhwng y dôn yma yn llais y dyn mawr, pan y mae ei ddoethineb yn ieuanc, a'i grebwyll yn ymchwareu yn nerth ei nwyfiant trwy eangder creadigaeth Duw, fel lefiathan yn y dyfnder, neu eryr yn y ffurfafen, neu angel ieuanc yn y goleuni, a'r hyn ydyw pan y mae ei ddoethineb wedi dyfod i'w addfedrwydd, —"pan y mae yn ŵr," a'i grebwyll yn fwy dan ei awdurdod. Nid ydym yn awr yn cyfeirio at freuddwydion ffol dychymyg hollol anniwylliedig, nac at y sobrwydd hwnw mewn hynafgwr nad oes dim cysylltiad rhyngddo â doethineb athrylith; ond cyfeiriwn, er anghraifft, at y meddwl rhyfedd hwnw o eiddo Milton, ydoedd ar un adeg yn ddigon hoenus, serchog, a nwyfreaidd, i gyfansoddi "*Comus*;" ac ar adeg arall, yn ddigon dwfn, nerthol, a mawreddig, i gyfansoddi "Coll Gwynfa," a "*Samson Agonistes*." Nid ydym yn sicr fod mwy o athrylith yn "*Samson*" nag yn "*Comus*," er nad ydyw yr athrylith sydd yn y naill *o'r un dôn* a'r un sydd yn y llall; ond buasai i "*Samson*" gael ei gyfansoddi yr amser y cyfansoddwyd "*Comus*," a "*Comus*" yr amser y cyfansoddwyd "*Samson*," yn beth annaturiol i feddwl am dano, ac anmhosibl i gymeryd lle. Mewn gair, mae y naill yn waith y llanc ieuanc—a'r fath lanc ieuanc!—ac y mae yn drylawn o burdeb, tlysni, a dysgleirdeb ei enaid ar y pryd, yn gain a nwyfreawl anghymharol, yn ol gair Keats—

"A thing of beauty and a joy for ever."

A'r llall yn waith yr hen ŵr—a'r hen ŵr rhyfeddaf yn mysg meibion dynion!—ac y mae yn drylawn o ddoethineb ddofn, o ddiysgogrwydd haiarnaidd, ac o ymostyngiad arddunol i ewyllys y Jehofa—pethau nad allesid dysgwyl i enaid neb ond Milton yn unig fod yn alluog i'w dwyn allan yn y fath fodd—yr hwn a gafodd ei gymhwyso at y gwaith gan y fath oes o fyfyrdod, ystormydd, a duwiolfrydedd. A thebyg i hyn, yr ymddengys y gwahaniaeth rhwng dullwedd traethawd Foster ar Fawredd Dyn, a geir yn y llyfr hwn, ac eiddo traethodau noethach a mwy gorphenedig ei flyneddau addfedach. Ond mae yn ddiau y bydd y dyfyniad canlynol o'r gwaith yma yn dra derbyniol gan ein darllenwyr. Wedi cyfeirio at y syniad am fawredd dealldwriaethol a moesol, fel yn deilliaw ar y dechreu, oddiwrth yr un am fawredd naturiol, dywed—

"Ac nid allwn feddwl yn hir am arddunìant naturiol, heb i'r meddwl daflu cipolwg ar fawredd dynol; nac ar fawredd dyn, heb edrych mewn dychymyg ar ymddangosiadau mawreddig natur. Y mae y berthynas wedi cymeryd meddiant hyd yn nod o'n iaith; oblegid y mae y geiriau *dysglaer*, *cryf*, *dyrchafedig*, *dwfn*, yn rhai a arferwn, ac y *rhaid* i ni eu harfer, wrth ddesgrifio cymeriadau enwog. Gellid ein goddef i fyned dipyn o'r ffordd, o fewn cylch y cyfatebiaeth yma, i sylwi ar amryw o wrthddrychau mawreddig y byd naturiol. Er anghraifft, yr ydym yn edrych ar fynydd uchel, a welwyd gan lygaid cynnifer o fugeiliaid, gweithwyr, a phlant awen, na welant mo hono byth mwy. Tra yr edrychwn ar fawrhydi dyrchafedig, a sefydlogrwydd digyfnewid ei glogwyni a'i ochrau, a thywyllwch parchedig deugain canrif yn gorphwys ar ei ael, gan daflu sobrddwysedd dyfnach ar y ffurfafen, yr hon sydd weithiau yn tywyllu ei grib â'i chymylau a'i tharanau, llais ein teimladau ydyw—mor arddunol! Yr ydym wedi bod yn cymeryd ein safle yn ymyl rhaiadr mawr—y disgyniad taranllyd, y gwrthneidiad nerthol, y

cyffro dychrynllyd, a'r tarth tew—O y fath olygfa! Bai gweithiau tra y syllem, byddai y cynhwrf a'r pentwr dwfr fel yn cynnyddu bob eiliad, gan fygwth ein tynu i mewn a'n dinystrio. Gallem ddychymygu clywed swn goruwchnaturiol —llais angeu—trwy y rhuad. Ymddangosai fel pe buasai rhyw rwyg ofnadwy wedi cymeryd lle ar weithrediad rheolaidd y gyfundrefn, a'r elfen yn rhuthro o'i sefyllfa naturiol i gyffrawd rhyfedd, fel dechreuad dinystr. Y mae yn rhoddi darluniad tarawiadol o ddialedd hollalluog yn ymdywallt ar ddirfawr euogrwydd. Yr ydym yn synu braidd fod y ffrwd yn gallu cyfnewid y tawelwch â pha un y llifai ychydig amser yn ol, i'r fath gynhwrf dychrynllyd, a'r fath gynhwrf dychrynllyd i dawelwch drachefn.

Fe allai i ni weled y môr yn gorphwys mewn tangnefedd—ei arwyneb eang, a'i lyfnder gwydraidd yn ymddangos braidd fel y ffurfafen ei hunan, sydd wedi ei thaenu uwch ei ben—ei ddyfnder i ni yn anwybyddus. Mae y meddwl ein bod yn sefyll ar fin eigion a allai mewn un awr ddiffodd bywyd y ddynoliaeth oll, a'r meddwl y gall y corff anferth yma, sydd yn awr mor dawel, ysgogi a gweithio gyda nerth cyfatebol i'w faint, yn ennyn teimlad goruchel. Fe allai i ni ei weled mewn tymhestl, ac yn ysgogi gyda llu o fynyddoedd i ymosod ar yr attalfa dragywyddol sydd yn cyfyngu ei allu. Pe buasai mewn gwirionedd ysbrydion y dyfnder, gallasai ateb eu pwrpas yn dda i farchogaeth ar y trumau hyn, neu i udo yn yr ewyn cynddeiriog yma. Gwelsom lawer gwaith ffyrnigrwydd pethau bychain; ond mor ddistadl ydyw wrth yr hyn a welwn yn awr—byd mewn cynddaredd! Yn wir, gallem ddychymygu braidd fod y byd mawr wedi ei lenwi âg enaid, ac fod y cynhyrfiadau hyn yn dangos cyffroad ei nwydau. I forwyr, mae yn ddiammheu, sydd draw yn nghanol y fath olygfa, mae yr addurniant yn colli yn y perygl. Brawychdod ydyw y teimlad â pha un yr edrychant hwy ar y rhyferthwy fawr, sydd yn ymdreiglo mewn serthedd arswydus, a llynclynoedd, a thònau; tra yn y pellder, ar derfyn pruddaidd yr olygfa, y gwelir Anobaith yn sefyll, yn galw ymlaen o hyd wanegau newyddion yn ddiddiwedd. Ond i sylwedydd ar y làn, y mae y dylanwad a anadlir yn nerthol i'r olygfa, a'r hwn y buasai yr ymwybodolrwydd o berygl yn ei dduo i frawychdod, yn cael ei oleuo i addurniant ofnadwy, trwy ddiogelwch perffaith ei sefylla.

Ond, mae yr haul yn tra rhagori ar yr holl wrthddrychau hyn, ac eto heb gymysgu dim brawychdod â'i addurniant. Fe ddangosir ei ardderchogrwydd yn yr ymdòniad bywiog a'r dysglaerdeb helaeth, y rhai ydynt gymaint uwchlaw egwander goleuad adlewyrchiadol, ac yn arwyddion o dân gwreiddiol ac anhysbyddadwy. Ymddengys fel penadur, a'i uchelgais heb fod yn ymestyn am lywodraeth gyffredinol ar ddim, ond y gallu o gymwynasgarwch cyffredinol; a thybiai estron i gymeriad ein rhan ni o'r greadigaeth. y rhaid fod y byd yma yn un pur a dedwydd, sydd yn cael ei fendithio â'r fath lewyrch gogoneddus! y fath hyfrydwch ei weled yn codi—ddim ond yn raddol ar y dechreu, fel gyda hwyrfrydigrwydd gwylaidd, nes y mae y wên a ennyna ei ymddangosiad dros y byd, yn ei wahodd i ddyfod ymlaen. Mae yr oerni llednais—a roddai ychydig amser yn ol i bob peth ryw ymddangosiad yswil ac unigol, gan gau i fyny hyd yn nod brydferthion pob blodeuyn o'n golwg—yn cael ei gyfnewid gan ei lawn ymddangosiad, i fath o hoenusrwydd cymdeithasol; ac y mae pob peth, bywydol a difywyd, yn ymddangos yn llawenychu gyda ni ac o'n hamgylch. Yr ydym yn edrych arno yn dringo y cymylau a ymddangosant weithiau ar y terfyngylch yn ffurf mynyddoedd, y rhai a ymddengys fel pe byddai yn eu gosod ar dân wrth ddringo. Yn ei lwybr drwy y ffurfafen, fe'i gwelir weithiau wedi ei gysgodi â chymylau, fel pe byddai yn myned heibio dan wasgawd coedwig fawr, ac weithiau yn yr eangder clir, fel ffynnon ddirfawr o'r elfen o ba un y gwneir *meddyliau.* O foreu i hwyr, mae ganddo yr arglwyddiaeth ar yr oll sydd yn fawreddig a phrydferth dros wyneb natur, ac ymddengys yn ei wneuthur ar unwaith yn eiddo iddo ei hun ac yn eiddom ninnau. Mae ei ogoniant yn cynnyddu yn ei fachludiad, fel y mae yn disgyn i lawr yr wybren yn nghanol anialwch o gymylau tlysion, arogldarth byd wedi ei gasglu i'w anrhydeddu ar ei ymadawiad; nes o'r diwedd yr ymddengys yn disgyn i fôr tawel o lanau euraidd, gan adael, pa fodd

bynag, lewyrch addfed, tyner a hawddgar, uwchlaw y terfyngylch, fel coffadwriaeth cyfaill ymadawedig. Mor bwysig ac urddasol y dylai yr ymarweddiad hwnw fod, a oleuir gan y fath lamp! Mor fawreddig y gyfundrefn hono a ofynai y fath oleuad; ac i'r fath uchder aruthrol yr ymgyfyd y meddwl hwnw, yr hwn y rhaid iddo gamu uwchlaw y fath fyd o ogoniant, ar ei ffordd i fyfyrio ar y Bod sydd eto yn anfeidrol fwy!

Pan ddaw y nos, gallem edrych i fyny at dawelwch arddunol y nefoedd, lle y gwelir y ser, fel tânau nosawl cynnifer gosgordd o ysbrydion, yn erlyn eu hymchwiliadau trwy y bydoedd fry. Nis gwyddom pa mor bell y cyrhaedda llywodraeth annhrefn, ond ymddengys fod y ser uwchlaw ei therfynau; a chan lewyrchu o'u gorsafoedd pell, hysbysant i ni fod y bydysawd yn ddigon llydan i ni ddilyn y prawf o fodolaeth, trwy filoedd o raddau, efallai mewn broydd llawer dedwyddach na hon. Y mae gwyddiant yma yn cydymgais â chrebwyll, a thrwy ddysgu fod y ser yma yn heuliau, y mae wedi rhoddi dyddordeb newydd yn y rhagddysgwyliad am dragwyddoldeb, yr hwn a all ein cyflenwi â'r fath ddefnyddiau dihyspydd o ddealldwriaeth a syndod. Eto mae y ser yma fel yn cyffesu y rhaid fod yna ryw ardaloedd uwch eto i dderbyn ysbrydion wedi eu puro, y tu hwnt i ymgyfathrach â phob goleuni materaidd; ïe, gadawant ni i ddychymygu nad ydyw yr holl fydysawd materaidd ei hunan yn ddim ond lle y penodwyd i fodau ddechreu ynddo, ac i gael eu haddysgu trwy olygfeydd olynol, nes y maent—wedi myned heibio i'w derfynau eithaf, i'r anfeidroledd y tu draw, yn eu canfod eu hunain o'r diwedd yn mhresennoldeb uniongyrchol y Duwdod."—*Cyf.* i. 140.

Addefwn nad yw yn hawdd canfod fod y "cyfatebiad" uchod yn cael ei ddwyn allan fel ag i ddangos mewn ystyr briodol fawredd dyn (os meddyliai yr awdwr yn wir am i ni edrych arno mewn ystyr gyfriniol o gwbl); eto, y mae ysblander y dyfyniad yn ddiammheuol. Buasai pob dyn doeth yn ffurfio y gobaith uchaf oddiwrth sylwadau sydd yn dangos mewn gŵr ieuanc y fath "lygad i weled anian," y fath "galon i deimlo anian," a'r fath "lewder a faidd gydfyned âg anian." Ond rhaid i ni fyned ymlaen gyda'n brasnodiad o'i fywyd.

Yn Chwefror, 1804, mewn canlyniad i gymeradwyaeth uchel Mr. Hall o hono, symudodd i Frome. Yr oedd y gweinidog oedd yn eglwys Frome o'i flaen wedi troi yn Sosiniad cyn ei gadael, a'r gynnulleidfa wedi myned yn fechan iawn. Yr ydoedd yn lled gysurus yma, a phregethai gyda chryn ymroddiad. Yma yr ysgrifenodd ei "Draethodau" campus, y rhai a'i codasant ar unwaith i'r fath enwogrwydd mawr. Mewn pedwar mis, yr oedd eisieu ailargraffiad o honynt; ac erbyn hyn, y mae lliaws mawr o argraffiadau wedi dyfod allan. Cyn pen nemawr, dechreuodd ysgrifenu i'r "*Eclectic Review*;" a pharhaodd i ysgrifenu iddo mor ddiwyd, fel nad ydym yn ei gael yn ymddangos o flaen y cyhoedd, yn ei enw ei hun, am dair blynedd ar ddeg. Mae yr erthyglau a ysgrifenodd i'r cyhoeddiad yma (cant a phedair a phedwar ugain mewn rhifedi), yn gryfion, yn gyfoethog, a champus iawn. Tuag amser ei ymsefydliad yn Frome, blinid ef mor fawr gan ryw anhwyldeb yn ei wddf, fel y bu raid iddo, yn 1806, roi y goreu i bregethu, ac ymroddi i ysgrifenu yn unig. Wedi hyn, daeth ei wddf yn fwy esmwyth, er y credai yr ail ennynasid y boen, pe dechreuasai bregethu. Ymddibynai yn awr yn gwbl ar ei ysgrifell. Mewn llythyr a ysgrifenodd yn 1807, dywed, "Yr ydwyf wedi dyfod, o anghenrheidrwydd, fe allai, yn fwy nag o un achos arall, yn fwy diwyd na phan gyda chwi. Wedi peidio pregethu, nid oes genyf geiniog, ond a ennillaf trwy lafur caled. Yr oedd rhan fawr o fy ngwaith er pan ysgrifenais atoch

ddiweddaf, yn gynnwysedig mewn adolygu llyfrau, yr hyn a brofais yn orchwyl tra llafurus, ond buddiol iawn." Yn Mai, 1808, ymbriododd â'r "Anwyl Gyfaill," y cyfeiriai ei draethodau ati. Ni fu priodas erioed yn fwy ffrwythlawn yn yr holl fwyniant a all ddeilliaw oddiwrth chwaeth goeth, gwybodaeth eang, cariad at ddoethineb, cydymdeimlad, ymddiried, crefydd, a phob hawddgarwch. Preswyliai wedi hyn yn Bourton—lle dystaw a neillduedig—yr "unig le yn y byd," eb efe, "y gellir dyweyd nad oes dim yn dygwydd ynddo ddydd yn y flwyddyn—dim sydd yn werth ei ddyweyd bum milldir o bellder." Yn mhen tua blwyddyn wedi ei briodas, tybiai y gallai ei wddf oddef ychydig o ymegnïad mewn llefaru yn gyhoeddus, er na ddysgwyliai allu pregethu yn rheolaidd. Pregethai yma a thraw ar y Sabbothau, weithiau unwaith, weithiau ddwywaith, yn benaf mewn cynnulleidfaoedd bychain, ac i bobl dlodion. "*I am accustomed*," meddai, "*to pulpits, desks, stools, blocks, and all sorts of pedestal elevations.*" Teimlai yn dda ganddo allu gwneyd ychydig o ddaioni yn y ffordd yma, ac yn fantais fawr ei fod yn gallu cynnorthwyo lleoedd gweiniaid. Yn Ionawr, 1810, ganwyd ei gyntafanedig. "Os try y gwalch allan yn *dda*," meddai yn llawenydd ei enedigaeth, "ni ofalaf gymaint am iddo fod yn hynod o gampus. Daioni yw yr hyn y mae y byd yn druenus o'i eisieu; a phe byddai pawb yn dda, ni fyddai anghen neillduol am i neb fod yn alluog." Yn haf y flwyddyn 1812, cymerodd daith i Ogledd Cymru, gyda phedwar o gyfeillion. Byddai yn dda gan ein darllenwyr, mae yn ddiammheu, weled sut yr oedd y fath ddyn yn hoffi gwlad ein tadau. Cawn ei dystiolaeth, mewn llythyr at Mr. Hughes, fel hyn:—

"Wedi fy ymweliad â Bristol a Frome y cynauaf diweddaf, yr wyf wedi bod yn troi trwy fy nghylch bychan a dystaw o ddarllen, beirniadu, a phregethu pentrefol, gyda yr unffurfiaeth mwyaf teilwng, gydag un eithriad arbenig, yn wir, o'r dyddordeb mwyaf, sef hynt trwy Ogledd Cymru. Yr oedd yr hyfrydwch â pha un y syllwn ar yr olygfa fawreddig, yn angerddol, braidd yn farddoniaeth, hyd yn nod er gwaethaf cloffni anghyfleus iawn a ddygwyddodd i mi gael ar un o'r dyddiau cyntaf, ac a arosodd gyda mi hyd y diwedd, trwy wasgiad arswydus ar fy nhroed wrth dreiglo careg i lawr un o'r mynyddoedd. Mae yr argraff sydd genyf o'r hyn a welais, yn creu ynof fwriad penderfynol, os caf fywyd ac iechyd, i weled y gwrthddrychau arddunol hyny eto, ac i gymeryd mwy o amser i chwilio rhai o'r manau mwyaf dyddorol, yn enwedig yr ardal o amgylch y Wyddfa. Esgynais yr uchelder ymherodrol hwn yn y nos, a gwelais godiad yr haul oddiar ei gopa."—*Cyf*. i. 317.

Yn 1814, bu farw ei dad, yn addfed iawn i ogoniant. Mynegai Foster ei farn yn ddiammheuol, ei fod, am yr ugain mlynedd olaf o'i oes, yn dymuno mewn gweddi, ar ddechreu pob blwyddyn, am i hòno fod yr olaf iddo. Yn fuan, dilynodd ei fam ef i'r bywyd tragwyddol. Dywedai eu mab am danynt, ychydig cyn eu marw, "Nid oes arnynt ofn angeu, ac ni raid iddynt ei ofni: oblegid y maent yn barod iawn i'r nefoedd. Ni chyfarfyddais erioed â duwioldeb mwy cyflawn a dyrchafedig." Yn Bourton, ganwyd iddo bump o blant: dau o ba rai a fuant feirw yn eu mabandod.

Yn 1817, gadawodd Bourton, a daeth drachefn i weinidogaethu yn sefydlog yn Downend, yn agos i Bristol. Un amcan mawr ganddo wrth gymeryd gofal yr eglwys yma y tro hwn, ydoedd, gwneyd prawf i ba raddau y gellid llwyddo, trwy ymgais at uno y symlrwydd perffeithiaf mewn iaith ac arddull, âg ychydig o nerth a gwreiddioldeb meddwl, i dynu sylw y bobl isaf eu chwaeth, a'u dyrchafu mewn duwioldeb ac amaethiad. Ni fu raid iddo ymboeni am fwy na chwe'

mis i weled fod yr ymdrech yn ofer, ac nad allai wneyd dim doethach na rhoi y lle i fyny. Cawn ei deimlad gyda golwg ar hyn, mewn llythyr at Dr. Bompas—"Yr oeddwn ymhell iawn o fod yn hyderus wrth ddechreu; ond yn wir, ni ddysgwyliais fethu yn llawn mor lwyr." Yr oedd yno amryw yn ei werthfawrogi yn fawr; ond am y bobl yn gyffredin, nid oedd-ynt yn gallu gwneyd dim o hono; nid oedd yn cynhyrfu eu nwydau, ac oblegid hyny, nid oeddynt yn adnabod "grym" y llais, ac yr oedd y llef-arydd yn "farbariad" iddynt. Yn 1818, traddododd ei bregeth ragorol ar y Genadaeth; a thua diwedd yr un flwyddyn, traddododd bregeth ar ran Cymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd a Thramor, yr hon a chwyddodd tan ei ddwylaw tra yn ei pharotoi i'r wasg, i'r traethawd campus ar Ddrygau Anwybodaeth y Bobl, a gyhoeddwyd yn 1820. Am hwn, cawn y Dr. Pye Smith yn ysgrifenu—"Gwaith, er yr addefa pawb ei fod yn boblog-aidd a champus, na chafodd erioed y filfed ran o'r sylw a deilynga. Mae yn ymddangos i mi ein bod yn awr mewn cyfnod yn sefyllfa ein gwlad, a'r byd, sydd yn gwneyd ymresymiadau a chynghorion y cyfansoddiad hyawdl yna yn gymhwys ac yn bwysig y tu hwnt i ddim a allwn i ei ddyweyd." Y mae Foster, drwy y llyfr oll, yn edrych ar y drwg yn ei *dduwch* cynnwynol ei hunan; ac er fod darllen y gwaith yn llesgâu y galon, 'drwy ei chadw mor hir ac mor ddiseibiant dan y fath bwysau o drueni, eto, y mae yn rhwym o adael argraff dda ar ei ol ar bob meddwl ystyriol—"Tybed nad allaf *fi* wneyd *rhywbeth* tuag at daflu rhywfaint o oleuni i ganol y fath gaddug dew?" Mae yn ddiau fod y gwaith wedi gwneyd llawer iawn o les. Pe byddai yn bosibl i ni ddilyn yr ymroddiad penderfynol a grymus o blaid addysg sydd yn awr yn gwneyd cymaint o ddaioni yn y deyrnas yma, i'w ddechreuad, ni fyddai yn rhyfedd yn y byd i ni weled fod ei nerth wedi deilliaw o ysbrydiaeth difrifol a thanllyd y traethawd hwn. Mae braidd holl fesurau daionus ein diwygwyr gwladol, a'n gwŷr mawr, er mai hwynt-hwy yn unig a fawrygir o'u plegid gan y byd, yn deilliaw mewn gwirion-edd yn meddylfryd gweithgar plentyn athrylith—y dyn gwir fawr—sydd yn aml *yn meddwl* mewn congl neillduedig, ymhell o swn y byd, ond er hyny yn estyn dylanwad arno sydd yn fynych iawn yn anorchfygol ac yn anfarwol. Mae yr afonydd sydd dan ryw enwau penodol yn treiglo eu pwysau anferth o ddwfr gyda rhuthr mawreddig i fynwes y môr mawr, er eu bod yn ennill eu nerth trwy dynu iddynt eu hunain fil o aberoedd, yn *dechreu* mewn rhyw ffynnonau bychain mewn manau anghysbell, yn nghilfachau y mynyddoedd, y rhai y mae eu henwau yn llawer llai swn-fawr, neu nad ydynt, fe allai, wedi eu hanrhydeddu âg enwau erioed.

Yn 1821, symudodd Foster i Stapleton, lle o fewn tair milltir i Fristol. Yn fuan, addawodd draddodi darlith bob pythefnos yn Mristol. Yr oedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu trefnu yn y fath fodd, fel ag yr oedd y gwa-hanol enwadau yn gallu cydymgynnull i'w wrandaw; ac er na byddai y gwrandawyr yn lliosog, eto, yr oedd y gynnulleidfa, yn gyffredin, yn cyn-nwys y bobl fwyaf coeth a deallus; yr oedd ganddo *a fit audience, though few*. Yr oedd yr un bregeth yma bob pythefnos yn costio iddo gymaint o lafur, eb efe, ag a roddid i'r pump neu chwech o bregethau a ofynid bob pythefnos yn mywyd pregethwr yn gyffredin. Bwriadai gyhoeddi rhai o honynt mewn cyfrol neu ddwy; ond ni chariwyd yr amcan yma i ben hyd ar ol iddo farw. Wedi traddodi y ddarlith yma am ddwy flynedd, teimlai ei iechyd yn rhy ddiffygiol iddo barhau i wneyd felly yn hwy; ond pan

amlygodd ei fwriad, oblegid hyn, i roddi y peth i fyny, daeth nifer o gyfeillion o'r ddinas, fel dirprwywyr, i erfyn arno barhau fel o'r blaen, neu os nad allai draddodi darlith bob pythefnos, iddo wneyd hyny bob mis; ac felly yr addawodd wneyd. Ond pan ddaeth Mr. Hall i Fristol, fe ymwrthododd ar unwaith â'r ymrwymiad. Tua yr amser yma yr ysgrifenodd ei draethawd rhagarweiniol i "Ddechreuad a Chynnydd Crefydd yn yr Enaid," gan Doddridge. Yr oedd cyhoeddwr o Glasgow ar y pryd yn cyhoeddi argraffiadau newyddion o weithiau poblogaidd amryw o'r hen dduwinyddion, a chawsai gan gryn nifer o'r dynion galluocaf addaw ysgrifenu traethodau rhagarweiniol iddynt. Disgynodd gwaith Doddridge i ran Foster; ond mor araf a hwyrfrydig ydoedd i orphen y caledwaith o gyfansoddi y traethawd, fel y gorweddai yr argraffiad cyflawn o'r llyfr am dros ddwy flynedd ar estyll y cyhoeddwr amyneddgar, yn dysgwyl am yr arweiniad i fewn o law Foster! Ond y mae cymaint o wir werth yn y traethawd, fel y gallai yn hawdd wneyd i fyny hyd yn nod am ysgelerder mwy na blino amynedd gŵr y wasg. Bydd darllen a meddwl am y drafferth, y caledwaith dirfawr, a'r draul anhygoel ar amser ac amynedd, y mae cyfansoddi yn ddwyn ar ddynion fel Foster, ac eraill, y rhai ydynt yn cymeryd digon o amser i osod yn eu gweithiau ardderchogrwydd ac elfenau parhad, yn peri i ni feddwl am sylw a welsom o eiddo un hen awdwr, fod yr ysgyfarnog yn bwrw ei rhai bach bob mis, ond nad oedd y llewes yn ymddwyn ond unwaith yn y flwyddyn, ond ei bod yr amser hwnw yn *ymddwyn ar lew*. Yn sicr, y mae "ysgrifenu i anfarwoldeb" yn ddigon i wobrwyo y caledwaith pwysig o ysgrifenu "dim ond un linell yn y dydd."

Ond y mae i ddyddiau tecaf ein hinsawdd ni eu cymylau a'u tywyllwch. Er fod bywyd teuluaidd Foster mor lawn o gysur a serchogrwydd ag y mae yn bosibl i fywyd fod y tu yma i'r nefoedd, eto, y mae yn ymddangos ei fod ef, a'i anwyl briod, yn fynych yn llesg o ran eu hiechyd, ac yn 1826, fe dywalltwyd i'w cwpan chwerwder mawr trwy farwolaeth eu mab hynaf, yr hwn ydoedd wedi bod, er's cryn amser, yn gwaelu yn gyflym. "Y mae John wedi ein gadael yn awr," ebe ei dad, bum niwrnod wedi ei farwolaeth, "i beidio dychwelyd mwy. Yr ymadrodd cyflawn olaf a ddywedodd ydoedd, 'Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw.' Yr oedd hyn yn agos i'r diwedd; yr oedd ei synwyr ganddo hyd o fewn yr awr olaf; y pryd hyny, tua hanner nos, ymddangosai fel yn cysgu; a bu farw, yr wyf yn credu, heb ddim poen. Fe fydd y dyddordeb a deimlwn mewn casglu llyfrau gwerthfawr i'r ystafell yma gryn lawer yn llai yn awr, pan y mae y dysgwyliad iddynt fod yn ddefnyddiau cysur ac adeiladaeth iddo ef wedi ei ddiffodd. Nid oes arno, yn awr, ddim anghen am y fath gyfryngau gwybodaeth. A chynnifer o bethau, erbyn hyn, a ŵyr, nad all llyfrau eu mynegu! Yn ddiweddar yn ei waelni, sylwai fod hyny yn beth hyfryd i feddwl am dano wrth feddwl am y byd a ddaw, y bydd gwybodaeth yno yn tywynu i'r enaid heb y llafur araf ac anhawdd o chwilio am dani." Y mae yn ymddangos mai yn ystod ei afiechyd y cyrhaeddodd y gŵr ieuanc yma y tir uchel hwnw mewn crefydd, sydd yn llenwi yr enaid â hyder yr efengyl; a theimlai ei dad y fath gysur dwfn, wrth feddwl fod ei fachgen wedi ei gymhwyso i fwynhau gwynfyd mawr presennoldeb Duw, fel ag yr ydoedd yn fwy na digon i orchfygu grym ei alar; yr oedd i Foster golli ei fachgen, er mor anwyl a gobeithiol ydoedd, yn ymddangos yn beth bychan iawn yn ymyl iddo ef ennill cymaint. Wrth feddwl ei fod wedi

cael ei waredu rhag cymaint o ddrygau, a'i godi i'r fath ddiogelwch, purdeb, a dedwyddwch, "Yr ydwyf," meddai, "yn fwy na boddlawn i'r oruchwyliaeth; y mae y dyddanwch yn gorbwyso y galar o ddigon." Y mae y cysur yma yn arddunol yn wir! "Fel tad i bump o feibion," ebe Dr. Arnold, "yr wyf yn teimlo nad oes dim a allai fy ngwneyd mor ddedwydd gyda golwg ar yr un o honynt, a'r boddlonrwydd eu bod wedi eu caru yn gymaint gan Dduw, a'u perffeithio yn gymaint gan ei Ysbryd, fel ag i fod yn gymhwys i'w deyrnas."

Ond y mae "y cymylau yn dychwelyd ar ol y gwlaw." Yr oedd ei anwyl wraig yn llesg er's blyneddau; ond yn 1832, gwaelodd yn fawr, ac ymddangosai yn fuan nad oedd dim gobaith am ei hadferiad. Yr oedd y meddwl am ei cholli yn llethu Foster, druan, fel baich annyoddefol. Pa fodd bynag, yn Medi y flwyddyn hon, ei hysbryd pur a serchog a ymadawodd â'r byd, yn dyner, yn dawel, ac yn ddysglaer gan obaith anfarwoldeb, fel gogoniant machlud haul. Yr oedd ei alar ar ei hol yn ddwfn iawn. Nid oedd yn wyllt a chyffrous, fel tymhestl yn ysgythru ac yn myned heibio, ond yn ddystaw a chryf, yn ymglymu am ei galon, ac yn *aros* yno. Mae yn anhawdd cyfarfod â dim sydd yn ennyn cydymdeimlad cryfach na'r darn llythyr canlynol, a ysgrifenodd ar y pryd at gyfaill anwyl oedd newydd gyfarfod â'r un brofedigaeth ei hunan:—

"Yr wyf wedi dychwelyd yma, ond y mae genyf y gwrthwynebiad eithaf i ddyweyd, *dychwelyd adref;* nid yw yr enw yn briodol mwy. Gellwch fod yn sicr fy mod yn ddiolchgar am eich cydymdeimlad caredig, a'ch awgrymiadau o ddyddanwch; ac nid yn llai felly oblegid ei fod yn rhy wir, fod pwysau ar y galon nad all y llaw ddynol fwyaf cyfeillgar ei symud ymaith. Y ffaith bruddglwyfus yw, fod fy nghymhar anwyl a gwerthfawr wedi fy ngadael. Y mae yn dyfod arnaf—mewn sicrwydd mor amrywiol a phruddaidd! Ac eto, byddaf weithiau, am fynyd, yn teimlo fel pe nad allwn sylweddoli y peth fel gwirionedd. Y mae rhywbeth fel yn dweyd, *A all* y peth fod yn wir, na chaf ei gweled mwy—y canfyddaf o hyd, y naill ddydd ar ol y llall, nad ydyw yma—na fydd i'w llais a'i hedrychiad serchog byth gael eu cyfeirio ataf—na theimlir byth mwy afael caredig ei llaw; pan fyddai yn dda genyf ymgynghori â hi—gwneyd rhyw sylw—dyweyd rhyw air serchog wrthi—ei galw 'fy anwyl wraig,' fel y gwnaethum gynnifer o filoedd weithiau, na fydd y cwbl ond ofer—nad ydyw hi yma! Rai gweithiau, a chryn nifer—hyd yn nod wedi i mi ei dilyn i'r beddrod—fy meddwl am fynyd fyddai, pan ddygwyddai y naill amgylchiad ar ol y llall, 'Mi a ddywedaf wrth Maria am hyn.' Hyd yn nod heddyw, pan yn ymadael oddiwrth Dr. Stenton, yr hwn o garedigrwydd pur a'm canlynodd ran fawr o'r ffordd, yr oedd fy meddwl yn llithro am foment i'r bwriad o ddywedyd wrthi hi mor hynod o garedig ydoedd. Ni ddyoddefais, ac ni ddysgwyliaf ddyoddef rhyw eithafion nerthol o alar; yr hyn a ddysgwyliwyf deimlo ydyw, mynychiad hirfaith o ystyriaethau trymion yn dwyn i gof fy ngholled anadferadwy—y bydd y gwirionedd poenus yn ei lefaru ei hunan wrthyf drachefn a thrachefn, am amser maith, yn fynych mewn myfyrdodau ar fy mhen fy hun (lle y teimlwyf fwyaf), ac yn fynych fel y daw pethau i'm golwg, neu y dygwydd amgylchiadau a fo yn dwyn rhyw berthynas â'r hon sydd wedi ein gadael. Mae y pethau a berthynent iddi hi yn bersonol—pethau a ddefnyddiai neu a werthfawrogai hi mewn modd arbenig—pethau a roddasai i mi, neu a dderbyniasai genyf—ei llythyrau, neu yr eiddof fi ati hi—y gongl yn yr ystafell lle y gwn yr arferai weddïo—ei habsennoldeb, ei habsennoldeb gwastadol—ar awr y ddyledswydd, y cyd-ddarllen, neu y bwrdd teuluaidd—y ffaith nad ydyw mwy yn ei lle, i fy nerbyn i ar fy nychweliad adref wedi absennoldeb achlysurol—y meddwl beth a ddywedasai, neu pa fodd y buasai yn gwneyd ar destunau, neu mewn amgylchiadau sydd yn dyfod dan sylw—y cof pa fodd y *darfu* iddi ddyweyd neu weithredu mewn

amgylchiadau tebyg—fe fydd i bob peth fel yma adnewyddu y teimladau athrist, a dyweyd wrthyf eilwaith a thrachefn beth a gollais; beth ydoedd, a beth ydoedd gwerth, yr hyn y mae y Llywodraethwr Mawr, yn ei ddoethineb anffaeledig, wedi ei gymeryd ymaith. Iē, Efe sydd wedi cymeryd ymaith yr hyn a roddes Efe i mi, ac ydoedd mor anwyl ac mor werthfawr genyf; ac ni fynwn, ac yr wyf yn meddwl nad ydwyf, yn gwrthryfela yn erbyn yr oruchwyliaeth; ni fynwn hyd yn nod rwgnach na chwyno y tu hwnt i'r hyn yr edrycha Efe arno gyda chydymdeimlad trugarog. Dylwn, ac ewyllysiwn, ddiolch am ei chael mor hir. Yn sicr, ni fynai yr un o honom, pe gellid gwneyd y fath eithriad i ddeddf dragywyddol, alw yn ol ein cymdeithion anwyl ymadawedig o'u meddiant ar y fuddugoliaeth yma ar bechod, a thristwch, i ba un y cawsant eu dyrchafu. Pa mor fawr bynag ydyw ein hymddifadrwydd ni, pa mor annhraethol fwy ydyw eu dyrchafiad hwy! A byddem yn annheilwng o gael ein caru ganddynt, fel yr wyf yn hyderu ein bod, ie yr awr hon, pe gallem am fynyd gynnwys y fath ddymuniad."—*Cyf.* ii. 87.

Yn haf, 1833, cymerodd daith gyda chyfaill drachefn i Ogledd Cymru —un mlynedd ar hugain wedi y daith o'r blaen. "Yr ydoedd," eb efe, "mewn gwirionedd yn hynt ardderchog a hyfryd." Wedi dadgan yr argraff gref a dyddorol a wnelsai ar ei feddwl, dywed, "Nid wyf yn gwybod ei bod yn llai dyddorol i mi ar gyfrif y meddwl a awgrymid yn fynych yn nghanol lleoedd mawreddig neu brydferth—'Ni welaf hyn byth mwy.' Yr oedd yna deimlad pruddaidd arall, gyda golwg ar ddychwelyd adref—*nid oedd yn gartref mwyach*, yn yr un ystyr ag yr ydoedd pan yn dychwelyd o absennoldeb a theithiau mewn blyneddau blaenorol. Os nad oeddwn i weled byth mwy y golygfeydd hyfryd a welais ar y daith, nid oeddwn ychwaith byth mwy i weled yr hon a fyddai bob amser o'r blaen yn barod i fy nerbyn gyda chroesaw serchiadol. Yr oedd hi wedi myned i weled golygfeydd mor ddirfawr wahanol i'r hyn oll yr oeddym ni wedi bod yn edrych arno! Ond yr ydym ninnau, fy anwyl gyfaill, yn teithio yn gyflym yr un ffordd, a thua'r un wlad ryfedd! Y fath wahaniaeth mewn gradd a rhyw, sydd rhwng y teimlad, y rhyfeddod, a'r syndod, sydd yn ein haros yno, a'r hyn oll a deimlasom wrth edrych ar y golygfeydd daearol hyn!"

Yn fuan wedi dychwelyd, clywodd fod ei gyfaill, Mr. Hughes, wedi myned i fyd yr ysbrydoedd. Yr oedd marwolaeth Mr. Hall, Mr. Hughes, Mr. Anderson, o Fristol, ac amryw gyfeillion anwyl eraill, ac yn enwedig marwolaeth ei anwyl wraig, yn cadw y byd a ddaw fel "presennoldeb teimladwy" ar ei feddwl yn wastadol, yn peri iddo deimlo fod yr oll oedd werthfawr ganddo wedi myned yno; a hiraethai am gael myned yno ei hun, i weled yr un dirgelwch mawr, ac i fwynhau yr un dedwyddwch tragywyddol. Yr ydym yn ei gael yn awr, yn byw gyda'i ddwy ferch (y rhai oeddynt dyner a serchog iawn tuag ato), heb ryw lawer o gyfnewidiad am flyneddau—yn ymweled weithiau â'i gyfeillion, yn cymeryd ambell i daith, yn darllen, yn meddwl, yn ymdrechu byw mewn cymundeb â Duw yn ei Fab, yn ysgrifenu ambell erthygl i'r "*Eclectic*," ac yn ysgrifenu llythyrau at hen gyfeillion, &c., y rhai, er y cwyna yn fynych mor ddiflas oedd ganddo feddwl am ddechreu eu hysgrifenu, ydynt yn gwneyd i fyny nifer fawr wedi y cwbl, ac y maent oll, braidd, er eu bod yn drwyadl gyfeillgar, eto, o ran gwerth a grym, yn erthyglau campus iawn. Yn Rhagfyr, 1841, fe'i tarawyd â'r *bronchitis*, a bu raid iddo gadw ei ystafell am tua dau fis. "Ymweliad," meddai, "a ddaeth fel un dyeithrol iawn i ddyn na chyfyngwyd i'w wely am un diwrnod yn ystod hanner can' mlynedd." Dyoddefodd

ei gystudd yn amyneddgar iawn, ac ymddengys iddo fod yn foddion i gryfhau ei ddifrifwch a'i dduwiolfrydedd. Teimlai fod yr olwg ar ei ddiffygion mawrion ar hyd ei oes yn ddigon i beri iddo anobeithio byth, oni buasai "y goleuni bendigedig a lewyrchai oddiwrth Dywysog y Bywyd, yr unig a'r holiddigonol Waredwr rhag yr ail farwolaeth." Yn Medi, 1842, ymwelodd â Bourton, lle yr arosodd am tua chwech wythnos, yn mwynhau hyfrydwch mawr oddiwrth garedigrwydd a chyfeillach ei berthynasau a'i hen gydnabod. Dychwelodd, yn ymddangos dipyn yn well a chryfach. Tua'r Nadolig, cafodd ymosodiad neu ddau o boeri gwaed, a thrachefn tua chanol Ionawr, 1843. Nid oedd hyn yn ei gyfyngu i'w wely nac i'w ystafell, er ei fod yn ei orfodi i fod yn bur ofalus, ac i aros yn y tŷ am amryw wythnosau. Ar ddynesiad y tywydd teg, anturiai allan drachefn, ac nid ymddangosai fawr yn wahanol i'r hyn ydoedd yr haf o'r blaen, er ei fod dipyn yn deneuach a llesgach, ac yn aml yn ddarostyngedig i beswch poenus. Parhäai i amlygu dyddordeb arbenig yn helyntion cyhoeddus y deyrnas, yn enwedig y mater pwysig o addysg genedlaethol. Ystyriai fod yn rhaid i hwn sefyll wrth wraidd ein holl ddiwygiadau cymdeithasol, cyn y gallent fod o ddim gwerth a pharhad. Yr ydoedd yn ddifrifol iawn gyda golwg ar hyn hyd y diwedd. Y tro olaf iddo ymddangos yn gyhoeddus ydoedd yn Mehefin, 1843, yn nghyfarfod blyneddol athrofa y Bedyddwyr, yn Mristol, lle y gwrandawai ar yr arholiad duwinyddol. Amlygai ddyddordeb neillduol yn ngwŷr ieuainc yr athrofa, bob amser, a gwnai ei oreu tuag at gael y sefydliad i ddylanwadu yn fendithiol ar y wlad. Ysgrifenodd rai anerchiadau grymus ar ei ran. Yn yr adroddiad am 1838, cawn yr ymadroddion canlynol ganddo: efallai y byddant o les i rai o'n cyfeillion yn Nghymru sydd yn methu ymdeimlo â'r ffaith fod arnom ninnau anghen am weinidogaeth ddiwylliedig.

"Gallem dybio na fydd llawer o bersonau yn ein henwad, y gallem ofyn eu cynnorthwy, yn barod i ddyweyd nad ydynt yn dymuno i'r sefydliad gael ei gynnal a llwyddo—nad ydynt yn gofalu beth ddaw o hono.......Ac ni ddywedant nad ydynt yn gofalu dim am gymhwysderau meddyliol y dynion sydd i fod yn ddysgawdwyr cyhoeddus—y gwnaiff pregethwr anllythyrenog neu o ychydig o ddiwylliad y tro, os bydd ganddo dduwioldeb a zel, yn llawn cystal ag un arall, yr hwn a ddwg at y cymhwysderau hanfodol hyn, feddwl wedi ei ddysgyblu yn rheolaidd i'r ymarferiad o fyfyrio a chwilio am wybodaeth. Yr ydym yn eu clywed yn dyweyd weithiau, gyda golwg ar y naill neu y llall o'r pregethwyr mwy anniwylledig (llafur pa rai, pa fodd bynag, pan y mae eu hamgylchiadau wedi eu rhwystro i gyflenwi yn briodol y diffyg, ni fynem ddibrisio), 'Y fath bregethwr ardderchog a wnelsai, pe cawsai y fantais o dderbyn addysg dda!' Proffesant fod yn ddrwg ganddynt y gwahaniaeth rhwng yr hyn ydyw, a'r hyn a allasai fod—rhwng y mesur o ddaioni a all wneyd yn awr, a'r hyn a allasai wneyd pe buasai wedi ei ddysgyblu yn briodol. Ac a wrthodant hwy estyn y moddion anghenrheidiol i dynu ymaith y gwahaniaeth yna mewn dynion ieuainc o dduwioldeb a galluoedd gobeithiol, sydd yn foddlawn i ymroddi i'r gwasanaeth ?......Pa fodd yr hoffent gael y dasg, ar ol pob cyfarfod, o erfyn hynawsedd y rhai manylaf o'u pobl ieuainc (y rhai ydynt yn sicr o gymeryd y pregethwyr fel testun cyntaf eu beirniadaeth), at ei ddiffygion llenyddol a meddyliol—o erfyn arnynt esgusodi gwallau ei iaith, helpu allan gloffni ei ymresymiad, gan sicrhau (Ow! yn ofer) nad yw crefydd yn llai gwir a phwysig ar gyfrif anallugrwydd ei hamddiffynwr ?......A chyda golwg ar y bobl fwyaf anniwylliedig sydd yn gwneyd i fyny liaws y rhan fwyaf o'n cynnulleidfaoedd, *Nid oes yr un camgymeriad mwy dwl na dychymygu mai dysgawdwyr anniwylliedig yw y rhai cymhwysaf i ymwneyd âg anwybodaeth a hurtrwydd.* Yn hytrach y mae gyru

[illegible] meddwl trwy gyfryngau mor dywyll, yn gofyn mewn modd pendant ar arbenig, i ddyn feddwl gydag eglurdeb mawr, ac ymdeimlo yn fanwl âg effaith [illegible] fel y maent i'w dewis, i'w cysylltu, ac i'w hamrywio.......Y mae amcan-[illegible] mewn gwyddiant a masnach yn llwyddo yn ddirfawr; yr ydys weith-[illegible] na fai crefydd hefyd yn myned ymlaen yr un modd; ond mae [illegible] yn cael ei estyn mewn helaethrwydd at eu gwasanaeth hwy, heb yr [illegible] yn yr un fan. Ond gyda golwg ar yr awgrymiad yma, a etyb y [illegible] a hoffasai ddymuniad am weled achos crefydd yn cyflymu ymlaen, fod gan yr [illegible] eraill y fantais o'u plaid y dysgwylir i'r hyn a roddir allan [illegible] mewn arian i'r rhai sydd yn ei roddi; ond mewn amgylch-[illegible] yn anffodus, na ddaw y draul â dim mwy i fewn na gwneyd [illegible] amhell dro, ac i ryw radd, yn ddoethach, yn well, ac yn ddedwydd-[illegible] yn addewid ddibwys,—'Canys fe a delir i ti yn adgyfodiad y [illegible]'"—Cyf. ii. 177, &c.

Parhaodd ei iechyd i waelu. Yn Medi y flwyddyn hon, caethiwyd ef [illegible] a pharhaodd i lesghau hyd Hydref 15fed, pryd y rhyddhawyd [illegible] rwymau llygredigaeth a marwoldeb, ac y cafodd ei godi [illegible], ac mewn gorfoledd tragywyddol, ddirgeledigaethau [illegible]. Ni ddarfu i haul anfarwoldeb godi ar enaid erioed a hir-[illegible] am ei ymddangosiad, neu a ymorfoleddai yn fwy gwresog yn [illegible] mawr o fywyd, goleuni, a gogoniant! Yr oedd ei feddwl, [illegible] ar y cyffiniau rhwng y ddau fyd; a theimlai yn [illegible] na ddeuai rhyw fymryn o oleuni drosodd, a fuasai yn [illegible] am yr ystâd dragywyddol. Pan fyddai ei gyfeillion [illegible] teimlai mor ryfedd nad allent agor rywfaint ar ei [illegible] ar yr [illegible], a buasai yn dda iawn ganddo ofyn iddynt gant [illegible] Ond yn awr, dyma Foster, yntau, wedi myned i'r wlad bell,

> "The undiscover'd country, from whose bourn
> No traveller returns;"

ac nid all [illegible] dafu dim goleuni trwy y gagendor i ddangos i [illegible] mwy nag eraill; ond er hyny, y mae yn gysur genym [illegible] yn awr, yn gweled y cwbl—(gymaint fwy nag a ddys-[illegible]—ac yn [illegible] gwynfyd hyd ddyfnder "llawenydd ei Ar-[illegible]" a "thragywyddol bwys gogoniant!" Ni ddarllenasom erioed am [illegible] yn fwy unddasol. "Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw [illegible] amlygwyd eto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ym-[illegible] y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled ef [illegible] ag y mae." Fel yma yr ysgrifenodd y dysgybl anwyl. Y mae [illegible] ymadawiad Foster yn dwyn yr adnod i'n meddwl gyda [illegible]. Ymddengys fel "mab i Dduw," yn rhoddi ei holl enaid i [illegible] a hyny gyda theimlad tebyg i barch annhraethadwy y [illegible] amgylch yr orsedd, ac yn awr yn cael ei gryfhau trwy ei ras, [illegible] dan adon Duwdod, "O! angeu, pa le y mae dy golyn? [illegible] pa le y mae dy fuddugoliaeth? I Dduw y byddo y diolch, yr [illegible] i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist"—[illegible] ei "ymddangosiad Ef" yn gwasgar goleuni o'i amgylch [illegible] fywydau i chwalu y tywyllwch oll, nes canfod ei fod [illegible] beth a fyddai"—yn ymddyrchafu o ran ei enaid i'w [illegible] mewn eiliad annysgwyliadwy ei fod yn ei "weled fel y mae," ac fel arwyddlun o ddyfnder mawr gorfoledd yr ymadawiad, yn [illegible] ar ei wynebpryd marwol, wên dawel o dangnefedd pur!

Fel dyn, yr ydoedd o gymeriad teilwng dros ben. O'r dechreu i'r diwedd, yr ydoedd yn barchus ac anwyl iawn o'i rieni. Fel gŵr a thad, ni fu neb erioed yn fwy trwyadl hawddgar. Fel cyfaill, yr ydoedd yn ffyddlawn a serchog. Ni wyddom am neb yn gallu myned mor ddwfn i galonau ei gyfeillion, yn enwedig wrth ysgrifenu llythyrau o gydymdeimlad atynt mewn trallodion. Dywedai Garrick, wrth ryw dduwinydd ieuanc, mai y ffordd iddo bregethu yn effeithiol ydoedd, sylweddoli iddo ei hun *wirionedd* yr hyn a ddywedai, ac yna llefaru ei feddwl, fel y gwnai mewn amgylchiad cyffelyb, mewn ystyr weledig a theimladwy. Yr oedd calon Foster mor fywiog a thyner yn ei holl deimladau, fel yr ydoedd yn hawdd iddi sylweddoli iddi ei hun deimladau ei gyfeillion; a chan ei fod wrth gryfhau y galon lesg, neu dywallt balm i'r galon archolledig, yn ymddwyn *yn ol* tynerwch ei gydymdeimlad, yr oedd yn anmhosibl i'w ymdrech beidio bod yn gyffredin yn llwyddiannus, ac i'w gyfeillion beidio ymlynu wrtho yn serchocach fyth. Yr ydoedd yn dyner tuag at bawb a phobpeth. Os clywai am rywrai mewn cyfyngder, gyrai help iddynt yn ddioed, a hyny yn fynych heb iddynt wybod i bwy yr oeddynt yn rhwymedig am y caredigrwydd; ac os byddent yn gwybod, gwnai y gymwynas yn y fath fodd, fel y parai i'r rhwymedigaeth ymddangos o'i ochr ef, neu erfyniai arnynt beidio a'i ofidio trwy feddwl am ddiolch iddo am beth mor ddistadl. Byddai weithiau yn cymeryd ychydig o dê i'w ganlyn i ymweled â rhai o'r hen chwiorydd crefyddol, tlodion, pryd y gorchymynai hwynt yn siriol i wneyd cwpanaid pur dda iddo o hono, ac wedi gorphen, gofynai am gael gadael y gweddill o'r tê ar ol, a gadawai hanner coron yn ddystaw o dan y *saucer*. Ni fynai roddi ond gan leied ag fyddai yn bosibl o drafferth i wasanaethyddion yn un man. Ni fyddai byth yn ceisio tynu pobl i lawr yn eu prisiau—byddai yn fynych yn rhoddi mwy nag a ofynid, pan gredai fod rhy ychydig yn cael ei ofyn. "Nid yn aml y cyfarfyddwn â phobl a wnânt hyn, syr," ebe merch ieuanc wrtho unwaith, pan ddychwelai yn ol i dalu swllt ychwaneg am ddarlun ydoedd newydd brynu. Byddai ganddo air tyner am y mân-droseddau, yn enwedig y mân-ladradau a gyflawnid gan bobl onest ar y cyfan, ond yn cael eu gwasgu gan gyfyngder: "mae dyn yn cydymdeimlo yn fawr â phobl mewn sefyllfa mor druenus"—neu "mae dyn yn gofidio yn ddwfn fod pobl barchus yn cael eu gyru i'r fath gyfyngderau," neu ryw sylw cyffelyb. Os byddai rhai o'i gyfeillion neu ei gymydogion mewn trallod neu gyfyngder, byddai yn sicr o wneyd coffa serchog am danynt yn y weddi deuluaidd. Yr oedd yn dyner iawn o'r creaduriaid direswm. Canfyddodd ystlum ryw ddiwrnod yn yr ardd, yr hon yr oedd un asgell iddi wedi ei niweidio yn gymaint fel nad allai ehedeg, ac eto gobeithiai y gallai wellhau mewn ychydig amser. Dygodd hi i'r tŷ, darparodd flwch iddi, a gosododd hi yn ei fyfyrgell, fel y gallai fod yn ddiogel, gan fwriadu ei chadw yno nes y gallai ehedeg drachefn. Ond wrth weled mewn amser nad oedd dim tebyg iddi wellhau, ystyriai yn fwy caredig iddo ei lladd. Yr oedd creulondeb at anifeiliaid yn annyoddefol ganddo. "Gallech weled y creaduriaid anffodus hyn," meddai mewn llythyr at Miss Snooke, am feirch y cerbydau cyffredin yn Llundain, "yn hen, yn ddall, yn deneuon, yn cael eu harcholli gan y trec, ac yn dyheu am eu bywyd, ac eto yn dyoddef holl farbareidd-dra creaduriaid ar wedd dynion, ond o yspryd ac iaith uffern. Mae hwn yn fyd truenus i beth bynag sydd ddiniwed a defnyddiol, os bydd hefyd yn ddiamddiffyn." Gŵyr dar-

llenwyr y "*Popular Ignorance*" yn bur dda mor greulawn yr ystyriai bob cam â'r creaduriaid mudion, ac mor agos yr edrychai ar y cysylltiad rhwng cynnydd y bobl mewn diwylliad ac anrhydedd, ac ymddygiadau tyner tuag atynt hwy. Yr ydoedd yn teimlo fod gan bobpeth trwy fyd prydferth Duw i gyd (oddieithr drygioni dyn!) hawl gref ar ei serchogrwydd. Mae yn hawdd canfod fod ei gariad at natur yn annhraethol ddyfnach na rhodres. Syllai arni yn hir, anwylai ei phrydferthion fel un yn eu caru, ac edmygai ei godidogrwydd fel un yn cael ei gynhyrfu trwyddo i addoli; yr oedd natur oll fel presennoldeb byw iddo, yn llawn gogoniant ac yn llawn dyddordeb. Dywed Mr. Sheppard, y gwyddai iddo fod yn aros, [illegible], wrth hen goeden fawr mewn parc, yn anfoddlawn o hyd i'w gadael, fel pe buasai yn hanner parod i gymeryd gwraidd wrth ochr ei [illegible] cawraidd. Dywedai boneddiges, gyda'r hon yr oedd wedi bod yn edrych ar lawer o olygfeydd y gymydogaeth, ei bod unwaith wedi cael trafferth fawr i'w gael o ben rhyw hen dŵr, lle yr oedd y golygfeydd cylchynol yn swyno ei galon. Yn yr un teimlad, fe syllai yn ddiflino ar raiadr, neu dreigliad ffrwd, neu unrhyw olygfeydd cyffelyb. Ni a anrhegwn ein darllenwyr â'r ychydig o lawer o gannoedd o ymadroddion yn y cyfrolau hyn, sydd yn, mewn modd uniongyrchol, yn ffrwyth ei gymdeithas â natur:—

"Yr wyf wedi bod yn rhodio yn y meusydd, yn yfed i mewn anadl dyner natur ac yn mwynhau ei gwên serchog."—*Cyf.* i. 116.

"[illegible] mae dy gân yn dyner a pherlesmeiriol, fel pe buasai yn cael ei anadlu gan angel cariad: yn hytrach, Ysbryd anfeidrol cariad sydd yn [illegible]: ac yr wyf yn gwneyd yn iawn wrth ganu, pan yn codi dy [illegible] i'r nef."—*Cyf.* i. 146.

"Mae boneddiges ieuanc—yr hon yr oedd ei syniadau yn fynych yn naturiol a chywir, [illegible]—wrth gyfaill i mi, 'Byddaf yn caru rhodio [illegible] gyda chwi, oblegid yr ydych yn hoff o edrych ar bethau, a siarad yn eu cylch. [illegible] y cyfeillion yr wyf fi wedi bod yn gynnefin â hwy, [illegible]—[illegible], *cymer lai o sylw o'r meusydd, a mwy o'r* [illegible]."—*Cyf.* i. [illegible].

"Mae yr haul yn machlud. [illegible] gogoneddus a chymwynasgar, mae yn ddrwg genyf na fyddai yn anfarwol. O! yr wyf yn gobeithio na fydd i mi byth [illegible]. Yr wyf yn cael y fraint o weled un noswaith eto o brydferthwch [illegible] noswaith [illegible], gydag awel dyner ac anwastad, mor [illegible] ac mor [illegible] gan y gwlawogydd maethlawn, fel y mae gwyrddlesni [illegible] yma. Yr wyf yn teimlo dymuniad cryf i [illegible] y fath olwg ar natur, a'i sefydlu yn fy meddwl tros byth. Y mae yn [illegible], mewn gwirionedd, gael gweled y fath olygfeydd o brydferthwch mawreddog: ac ni fyddaf esgeulus nac anniolchgar.......Golygfa [illegible], o feusydd a choed: mae dyn yn teimlo yn gryf iawn, annigonolrwydd y pethau dirmygus hyny a elwir [illegible], i wneyd cyfiawnder â natur ar adeg fel yma."—*Cyf.* i. [illegible].

"Y mae prydferthwch, pan gysylltir ef â godidogrwydd, yn dyfod yn fwy prydferth. [illegible]—y coed [illegible] a welir ar y terfyngylch gloewgoch, pan mae yr haul newydd fachludo......Y mae amser, i'r hyn a gynhyrfir hawddaf, [illegible]: y mae yr [illegible] y mae ei blagur yn nodedig o feinion a thal—yn [illegible]; hyd yn nod i'r [illegible] eithaf, yr hon nad ydyw yn cyfrif dim yn [illegible] y prydnawn yma......Y mae genyf gydymdeimlad neillduol â'r ystlum yma, sydd yn ehedeg o amgylch ogylch uwch fy mhen; ac â'r dylluan acw a glywaf o'r pellder."—*Cyf.* i. [illegible].

Y mae sylw Coleridge am "lyfr mawr Natur," mai "barddoniaeth yr holl natur ddynol" ydyw, "i'w ddarllen mewn ystyr ffugyrol, ac i ganfod

ynddo gyfatebion ac arwyddluniau o'r byd ysbrydol," yn briodol mewn modd arbenig gyda golwg ar Foster. Y mae rhai dynion yn mwynhau gwynfyd y ddysgl yn gymaint fel y mae darllen eu gweithiau yn peri i ddyn deimlo braidd yn newynllyd er iddo fod yn ddigonol. Yr oedd Foster hefyd yn mwynhau natur yn gymaint, fel y mae ei ysgrifeniadau yn llawn o honi, ac yn ein dwyn i weled mwy o'i gogoniant, ac i'w charu yn fwy dwfn. Y mae newydd-deb y gwlith ar ei ffugyrau. Y mae arogl ei ysgrifeniadau "fel arogl maes, yr hwn a fendithiodd yr Arglwydd." Ac heblaw fod natur ganddo yn ymddangos yn decach i ni ynddi ei hun, y mae hefyd yn dyfod yn fwy pwysig ac yn fwy cysegredig fyth, fel y dangosir hi allan fel dammeg fawr, fel *hieroglyphic*, yn llawn "cyfatebion ac arwyddluniau" o ryfeddodau y byd ysbrydol.

Ond heblaw y tynerwch a'r cydymdeimlad dwfn yma o'i eiddo â'r oll oedd gain a serchog, a'i diriondeb at blant trueni, yr ydoedd hefyd yn ddyn o deimlad anrhydeddus iawn, yn elyn anghymmodlawn i bob rhodres, anghyfiawnder, trais, a gorthrwm. Ni fynai ei dwyllo gan ymddangosiadau a rhwysg; ond edrychai ar bob peth yn noeth, a ffieiddiai yr hyn oedd adgas yn mhob man. Ychydig o amser yn ol, yr oedd duwioldeb yr ymherawdwr Alecsander o Rwsia yn destun dyddorol iawn gan lawer o bobl dda i siarad yn ei gylch; pan yr oedd rhywun yn sylwi wrtho, mewn dull pur hygoelus, fod yn rhaid fod yr ymherawdwr, mewn gwirionedd, yn ddyn nodedig o dda.—"Ydyw, syr," ebai yntau, yn ddifrifol, ond gydag edrychiad craff, "yn ddyn da *iawn*—pur ddefosionol; mae yn ddiau ei fod wedi gofyn bendith cyn llyncu Poland!" Mae ei ymosodiadau ar ddynion cyhoeddus y deyrnas hon, oeddynt heb wneyd dim tebyg i gyfiawnder â'u hymddiried—ar sefydliadau eglwysig, &c., oeddynt yn gadael y miloedd pobl i "farw o eisieu gwybodaeth"—yn ei lythyrau cyfrinachol a chyhoeddus, yn ei erthyglau i'r "*Eclectic*," ac yn ei draethodau oll, yn drymion a llymdost, ac yn llawn o'r urddas a'r difrifwch sydd yn gwneyd hyd yn nod i ddynion drwg deimlo mor ofnadwy yw y gwirionedd! Po agosaf yr ëid ato, puraf oll oedd ei ymarweddiad. Y mae yn llefaru llawer am ragoriaeth ei gymeriad, fod y ddwy forwyn oedd yn ei wasanaeth pan fu farw, wedi bod gydag ef am ddeng mlynedd ar hugain, ac yn ei garu fel eu tad.

Yr ydoedd hefyd yn ddyn duwiol iawn, yn enwedig y rhan olaf o'i oes. Yr oedd rhai hynodion yn perthyn i'w gymeriad, mae yn wir, a osodent eu delw hyd yn nod ar ei grefydd; ond er hyny, yr oedd ei galon yn wastadol yn ymddiried yn barchus iawn yn yr Arglwydd. Pan flinid ef fwyaf gan deimladau o unigrwydd a dyeithrwch gyda golwg ar y byd, teimlai yr amser hòno fod Duw yn agos. Dywed ei fod unwaith yn ei deimlo ei hun, gyda golwg ar ddynion, fel ynys yn nghanol y môr; ond gyda golwg ar Dduw, ei fod yn aros fel darn o'r cyfandir. Y mae yn ei gyhuddo ei hun yn aml, yn chwerw iawn; dichon fod llawer wedi ei gamddeall trwy hyn, a meddwl ei fod yn un hynod o ddrwg; ond yr achos, wedi y cwbl, mae yn debyg iawn, o'r gwahaniaeth rhwng eu hunanfoddlonrwydd hwy a'i gyhuddiadau ef, ydoedd tra-rhagoriaeth ei syniad am yr hyn ydoedd perffeithrwydd crefyddol i fod. Chwiliai ei hunan fel barnwr llym, llym iawn; ac wrth weled mor bell ydoedd o fod ar ddelw Duw, condemniai ei hun yn ddidrugaredd. Gwnai yn debyg mewn ystyr lenyddol. Cwynai ei fod yn ddiog, yn hwyrfrydig, ac araf; haerai fod ganddo y cof gwaethaf yn

[illegible] y mae ei [illegible] yn cy- [illegible] a mae yr hyn [illegible] y rhai. A'r [illegible] mawr, [illegible] yn gweddio gyda [illegible] a ddodd [illegible] hyn yn [illegible] yr peri fod [illegible] gyda [illegible] Iesu Grist [illegible] gweddio ei [illegible] fel y [illegible]

[illegible]

[illegible] yr amser a ddaw, ond yn [illegible] a'n Gwaredwr. Pe [illegible] —Cyf. ii. 174.

[illegible] heb athrawiaeth fawr yr Iawn."— Cyf. ii. 33.

Buasai yn [illegible] gobeithio yn Nuw yn fwy hyderus, a bod ei [illegible] yn fwy [illegible]; buasai yn llawer mwy cysurus iddo

ei hun, ac yn fwy defnyddiol, mae yn debyg, i'r byd; ond mae yn anmhosibl i ni feddwl nad oedd ei dduwioldeb yn ddwfn iawn, ac o'r iawn ryw—y fath ag oedd yn gwneyd ei yrfa yn llwybr uniawn i ogoniant presennoldeb Duw.

Fel pregethwr, nid ydoedd yn llwyddiannus. Y mae hyn i'w briodoli, yn un peth, i ansefydlogrwydd ei feddwl gyda golwg ar rai o athrawiaethau yr efengyl ar un adeg, a'i ogwyddiad at amryw fân bethau nad allai y bobl gymeradwyo yn eu gweinidog, ond yr ymgymerai efe â hwynt, oblegid ei adgasrwydd gwreiddiol at bob peth tebyg i druth, arferiad, neu ffurf. Bu, am adeg, yn gyfeilliornus—neu o leiaf, yn ansefydlog—ei farn am ddirgelwch mawr yr efengyl—Person Crist. Dywed, nad oedd yn gydnabyddus yn Dublin âg un o foneddigion y *cloth*—y gweinidogion. Ni fyddai fawr byth, pan yn gweinidogaethu yn Newcastle, yn myned i'r dref i ymweled â'i bobl. Amlygai ddymuniad unwaith a thrachefn, i gael capel iddo ei hun heb eglwys, er mwyn gochel pob rhagrith, &c. Cawn ef, dro arall, mewn cellwair, yn addaw wrth gyfaill, y pregethai yn Leeds, pan ddeuai i edrych am dano, "os, yn wir, y byddai iddo ef ganiatâu iddo esgyn i'r pulpud, ac y caniatâi y bobl iddo aros yno; oblegid fod ei wallt wedi ei rwymo, a'i wasgod yn goch." Ni weinyddodd yr ordinhâd o fedydd erioed, ac y mae yn debyg nad edrychodd, o gwbl, ar ei gweinyddu wedi tyfu i fyny. Buasai pethau fel yma yn ddigon i attal ei lwyddiant fel pregethwr i raddau helaeth, pe *buasai* pob peth arall yn ffafriol. Ond yr oedd pethau eraill ymhell o fod felly. Yr ydoedd yn ddiffygiol yn sicr yn yr ymroddiad gweithgar hwnw, sydd yn tynu iddo ei hun nerthoedd y meddwl a'r galon, i'r dyben o adeiladu eglwys i Dduw, a'r hwn sydd erioed a byth yn annattodol gysylltiedig â llwyddiant. Yr ydym ni wedi bod yn dychymygu, fod ei ddull o bregethu yn dangos mwy o amcan at ddysgu y bobl i *feddwl*, nag i'w dychrynu i ffoi rhag y llid a fydd. Nid oedd tôn ei bregethau yn rhoddi digon o arbenigrwydd i elfenau bywydol yr efengyl. Dywedai ef ei hun rywbryd am Fawcett, *Nad ydoedd yn wir yn ddigon efengylaidd;*

"Mutato nomine de te
Fabula narratur;"

y mae yntau druan yn rhy agored i'r un cyhuddiad, a bydded hyd yn nod ei ddarlithiau cyhoeddedig, er mor gampus a gwerthfawr ydynt, yn farnwyr. Mae yn ddiau, ei fod yn pregethu yn rhagorol bob amser, ac weithiau gydag ymroddiad mawr; ond hyd yn nod ar ei adegau goreu, mae yn ammheus a hoffid ef gan neb ond y bobl feddylgar. Mae hanesyn a adrodda Mr. Sheppard (ii. 311), yn fynegai cywir o farn a theimlad y bobl yn gyffredin yn ei gylch. Dywed fod dwy hen wraig mewn pentref lle y pregethai, yn siarad am dano rywbryd, ac un yn ei alw yn "ffwl perffaith," a'r llall yn "hiraethu am glywed y gwr da yna trwy y gauaf." Byddai y bobl fwyaf doeth a diwylledig yn ei fwynhau, fel rhai "yn cael ysglyfaeth lawer." Bu yn anffodus, mae yn wir, mewn rhai o'r cynnulleidfaoedd a gafodd dan ei ofal, a chwynai yn enbyd o herwydd hyny; ond ai ni allesid dysgwyl i awdwr y "*Decision of Character*," a'r dyn a waeddai yn gymaint am ddifrifwch prophwyd, a zel apostolion Crist, wneyd rhywbeth i orchfygu y drwg, yn enwedig gan fod dynion annhraethol lai yn gallu llwyddo mor fynych yn yr un amgylchiadau? Yn lle hyny, byddai, braidd yn ddieithriad, ac mewn ychydig amser, yn pregethu ei gynnulleidfaoedd *i'r dim!*

Ond, *fel meddyliwr*, yn y diwedd y mae Foster [illegible] mewn colladwriaeth, a dyma yr unig safle [illegible] gael rhyw syniad am dano. Efallai na fu [illegible] erioed ar y [illegible] sodiadau ei feddwl yn gosod eu hargraff [illegible] ei hunan [illegible] ac yn fwy cyflawn, ac ei gymeriad oll. Ac fe [illegible] ddangos mai y peth mawr oedd yn ei wneyd yn John Foster—[illegible] allan mor neillduol fel person ar ei ben ei hun yn [illegible] ydoedd (os caniateir i ni fathu gair at ein gwasanaeth) [illegible] *henty ei ysbryd*. [illegible] fwyaf o lawer o ddynion [illegible] ddysgawdwyr y ddynoliaeth, nid ydyw addysg ond yn [illegible] gydnabyddiaeth â rhyw ddull sefydledig o edrych ar bethau [illegible] gan ereill, yn eu dwyn allan (fel meirch o'r ystabl) [illegible] fawr y mae *pawb* yn rhedeg ar hyd-ddi; ac arni, druain, y maent yn aros byth. Ond am y dyn gwreiddiol, yr oll a wna addysg [illegible] ddeffro ei alluoedd, a'i alluogi i'w dysgyblu, a'i gyfleuw. [illegible] ymysraeth ag ei ymhulliach, y mae yn edrych arni yn [illegible] y mae llaw wedi gosod ynddo ei ddigon o ynni i *dori fforda* [illegible] Fel y sylwa Foster yn y "*Decision of Character*" am y [illegible] fel yn meddu ymddiried yn ei farn ei hun, nad ydyw byth yn ymgynghori â phobl ereill er mwyn gwybod eu *barn*, ond yn unig er mwyn deall yr hyn y maent yn *wybod* am y peth, felly, yr oll a wna addysg a hyfforddiant i'r dyn gwreiddiol, ydyw, rhoddi ar ddeall iddo sut y mae pethau yn bod, ac y mae yn meddwl ac yn tynu ei gasgliadau fel yr ewyllysia ei hunan. Nid ydyw yn perthyn i'r un ysgol. Y mae ei feddwl yn glir oddiwrth "ddelw ac argraff" pobpeth tebyg i feistr. Yr oedd Foster felly mewn modd neillduol. Ond, heblaw hyny, yr oedd ei *fewnolrwydd* yn gosod hynodrwydd personol arno hyd yn nod yn mysg y meddylwyr gwreiddiol. Yr ydoedd bob amser yn ffyddlawn iddo ei hun; edrychai ar bawb a phobpeth (na mae gwaeth a throiddiol y gwnai hyny!), gan gadw ei safle yn ddigyfnewid ar ei galon ei hunan. Y mae bob amser yn rhoddi ei *feddyliau* i ni, ac yn gwneyd i ni deimlo, mewn modd neillduol iawn, eu perthynas fywiol âg ef ei hun. Yr ydym yn credu fod tystiolaeth Carlyle am Dante, ei fod yn "*world-deep, not because he is world-wide, but world-deep*," yn briodol am Foster hefyd. Mae llawer o debygolrwydd rhyngddynt. Mae ysgrifeniadau y ddau yn *[illegible] dyfnion ar y graig*. Bydd darllen Dante, weithiau, yn peri i ni edrych o'n hamgylch, a hanner arswydo rhag fod rhyw ddirgeledigaethau ofnadwy yn tremio arnom; neu yn peri i ni deimlo fod yr ystafell yn hanner nefol gan ogoniant hawddgarwch Beatrice. Yr oedd ef mor ddychymygol, fel yr oedd, fel John Bunyan, yn gwneyd ei ddamhegion [illegible] yn bersonau byw; mor farddonol, fel yr oedd yn gwneyd ei ddisgrifiadau yn olygfeydd; ac yn fynych mor fanwl, fel y darluniai gysodiadau ei feddwl gyda chywirdeb llythyrenol archadeiladydd. Ond nid ydyw Foster, er fod ei grebwyll yn ffrwythlawn a chyfoethog, byth yn dychymygu fel Dante a Bunyan. Ni fuasai ganddo amynedd i ymgynnull; y mae yn *[illegible]* yn y gwirionedd yn uniongyrchol. Y mae ei ddisgrifiadau yntau i gyd yn olygfeydd, ond y maent felly trwy ryw deimlad barddonol, ac nid dim tebyg i fanylrwydd llafur hanesydd. Y mae ei ddalenau yn *fyw*, ac mor wir iddo ei hun, fel y gallem weithiau ddychymygu clywed ei galon yn curo ar ein mynwes, pan y tyna ni ato i ddyweyd ei gyfrinach wrthym. Byddwn yn fynych iawn yn barod i

ddyweyd, "Yr ydych yn iawn, syr; yr ydym ninnau yn teimlo yr un fath;" ac oni bai ein bod yn dygwydd cofio yn amgen, braidd na themtid ni, weithiau, i ddyweyd mai fel yna y teimlem bob amser. Ond ambell dro, er hyny, yn enwedig yn ei "Ddarlithau," bydd yn dangos y fath adnabyddiaeth ddofn o'n calon, fel y byddwn yn edrych arno, yn hanner brawychu, ac yn gofyn heb yn wybod i ni ein hunain, "A ydym wedi ein dal gan ysbryd o fyd arall?" Ni fynem, wrth ddyweyd hyn, i'n darllenwyr feddwl ein bod yn fwy dychymygol na phobl eraill; credwn, yn hytrach, ein bod yn teimlo felly wrth ddarllen Foster, am ei fod ef wedi tywallt yr ysbrydiaeth hwnw i'w ysgrifeniadau sydd yn ein gorfodi i wneyd hyny. Mae y *torpedo* yn eich taraw am ei fod yn llawn o'r trydan; ni ddysgwyliwch i'r llysŵen wneyd dim o'r fath beth.

Ond heblaw fod mewnolrwydd ei ysbryd fel yna yn rhoddi iddo yr annibyniaeth, y cryfder, a'r gwreiddioldeb neillduol, oedd yn gwneyd i fyny ei ragoriaeth fel meddyliwr, yr ydoedd hefyd yn ffynnonell ei wendid. Yr ydym yn tybio fod ei ddiffygion yn olrheinadwy i hyn. Y mae eisieu i ddyn dderbyn llawer o bethau trwy ffydd yn unig, gan ymddiried yn noethineb pobl eraill, neu rywbeth y tuallan iddo ei hun, fel *awdurdod*, cyn y bydd yn debyg o ddyfod ymlaen yn dda. Yr oedd Foster, o'r ochr arall, yn gweled cynnifer o bethau gwaelion yn cael eu credu gan y byd pan oedd yn ddyn ieuanc, fel yr aeth, o radd i radd, i ddysgwyl bod tua'i le wrth fod yn groes hollol i'r byd. Yr ydoedd wedi coledd yr arferiad yma o ammheu a chwilio i'r fath radd, nes yr ydoedd yn dyfod i'w ganlyn hyd yn nod at y Bibl, ac yn ei gadw o ran ei enaid, yn fynych, mewn tywyllwch mawr. Awgrymai cyfaill i ni unwaith, Tybed ei fod yn darllen digon ar y Bibl? Nid ydym yn sicr am hyn. Ond, pa fodd bynag, y mae yn eglur ei fod yn ei gwestiyno yn ormodol ar rai adegau. Os addefwn fod y Bibl yn air Duw, y mae ei "*Fel hyn y dywed yr Arglwydd,*" wrth bob rheswm, yn ddigon o derfyn ar bob ymryson, pa un bynag a fyddwn ni yn ei ddeall ai peidio. Yr oedd yr un peth hefyd yn peri iddo, weithiau, gloffi ar hanner y ffordd yn ei ymchwiliad ar ol y gwirionedd, ac felly, aros, yn fynych am amser maith, gyda ryw hanner gwirionedd, neu, efallai, gyfeiliornad noeth. Wrth ymwthio ymlaen i chwilio am farn gywir am rywbeth, efallai y tarewid ei feddwl gyda grym arbenig gan ryw rwystr neu ddyryswch na fyddai marwolion, yn gyffredin, yn meddwl dim yn ei gylch. Byddai newydd-deb yr argraff yn swyno ei ddychymyg; chwyddai y peth wrth hir syllu arno; ymddangosai yn fwy am ei fod yn nghanol niwl; yn gyffredin, ni cheisid ei gynnorthwyo mewn dull ennillgar i ddyfod drosto; ac nid y nerth lleiaf a'i rhwymai wrth y syniad fyddai, ei fod yn groes i dyb y lliaws difeddwl. Mae yn debyg iawn ein bod i briodoli y diffyg yma mewn meddwl mor ardderchog, fel *rhai* diffygion eraill, ond llai pwysig, i anmherffeithrwydd ei ddiwylliad boreuol. Pe buasai wedi ei dynu trwy ddysgyblaeth fanol o'r dechreuad, efallai y buasai hyny yn gymhorth iddo yn ei flyneddau dyfodol i feddwl yn fwy trwyadl a gorphenol; i beidio cymeryd ei faglu cyn dilyn yr ymchwiliad i'r pen; i beidio aros ar olygiadau hannerog; ac i beidio petruso derbyn peth ar awdurdod ddigonol, am ei fod yn cael ei gylchynu â rhwystrau, heb brofi yn ddiammheuol i'w feddwl ei hun fod y grediniaeth wrthgyferbyniol yn amgylchynedig â rhwystrau *llai*. Y mae yn dadgan ar wahanol adegau gynnifer o gredoau gwahanol, ar rai pethau, fel y mae yn anhawdd, os nad yn

anmhosibl, gwybod beth ydoedd ei gred mewn gwirionedd. Gallasai ddyweyd, gyda golwg arnynt, fel y dywedodd Hegel, ychydig cyn marw, am ei athroniaeth, "Nad oedd neb yn Germany yn deall ei athroniaeth ef, ond un; ac nad oedd hwnw yn ei deall ychwaith!" Pe buasai Foster wedi arfer dyfod allan yn fwy o hono ei hun, ac ymdrechu yn egnïol i weithio ei ffordd trwy y brysglwyni a'r anialwch, i oleuni barn glir a ffydd ddibetrus, buasai ei feddwl mawr yn fwy tawel a sefydlog, ei dduwioldeb yn fwy dysglaer, a'i fywyd yn llawer mwy defnyddiol. Yr oedd yr un mewnolrwydd ysbryd hefyd yn ei gadw i edrych yn wastadol ar ei galon, ac felly, i ymdeimlo yn wastadol â'i drygioni a'i haflendid; yn lle edrych allan yn fwy at yr Hwn y mae bywyd a glanhad yn deilliaw oddiwrtho. Hefyd, fel canlyniad i hyn, yr oedd ei sylw yn cael ei gaethiwo byth a hefyd at ddrygioni a thrueni y byd, nes y byddai, weithiau, yn myned i anobeithio am ei adferiad, ac yna yn crwydro o ran ei feddwl i "anialwch gwag erchyll" o fyfyrdodau duon! Gresyn calon na fuasai yn ymddiried yn fwy diysgog yn "ngair yr addewid," yn gweithio ymlaen, ac yn gadael amser i'r Mawredd i'w esbonio ei hun. "Buasai yn dda genyf," ebe Dr. Chalmers, "pe buasai fy nghyfaill Mr. Foster yn gohirio rhai o'r anhawsderau a'i blinent hyd y dydd pan eglurir pob peth."[1]

Y mae ei *arddull* yn dra phriodol iddo ei hun. Y mae yn ddarlun mor ffyddlawn o hono ag ydyw ei feddyliau; y maent wedi eu bwrw i'r un *fold*, ac yn cyfateb yn berffaith i'w gilydd. Ystyriai ef ei hun, mai y cyfeiriad hapusaf at ei arddull gan yr adolygwyr, ar ymddangosiad un o'i weithiau ydoedd, gair o eiddo ysgrifenydd yn y "*British Review*," yr hwn a soniai am ei *exquisite precision of language*. Y mae ei eiriau bob amser mor ddetholedig, fel y teimla y dyn galluog a choeth, wrth ddarllen unrhyw frawddeg o'i eiddo, nad allesid braidd trwy holl gylch yr iaith Seisonig, gael geiriau mwy priodol i'w gwneyd i fyny—mwy tebyg i'r peth ei hunan; y maent fel wedi *cyd-dyfu â'r syniadau*, fel y rhisgl am y blaguryn. Y mae Longinus[2] yn sylwi, am ddarn o un o areithiau Demosthenes, fod ei *rythm* mor berffaith, fel y buasai y cyfnewidiad lleiaf, hyd yn nod mewn un gair, yn dinystrio ei seingarwch. Nid ellir dyweyd hyn am fiwsig brawddegau Foster—ni ofalai am hyny ond anfynych—ond fe ellid ei ddyweyd am fanylrwydd gorphenol detholiad ei eiriau—eu *verity*, chwedl yntau, i'r syniadau. Ac nid ydyw hyn yn beth i synu ato, pan feddyliom y drafferth ddirfawr a gostiai ei frawddegau iddo. Byddai cyfansoddi, mewn diwrnod, gymaint ag a lanwai dudalen argraffedig yn orchest iddo; a byddai edrych dros hwnw drachefn i'r dyben o'i ddiwygio, a'i wneyd yn barod i'r wasg, yn fynych yn orchwyl annhraethol galetach. Byddai digon o waith iddo, weithiau, am ddyddiau ar un frawddeg—gosodai hi mewn mil o wahanol ffyrdd, ac yn aml yn y diwedd byddai yn rhaid iddo dystio ei bod ymhell o fod wrth ei fodd. Y mae perffeithrwydd ei ysgrifeniadau yn ymddangos yn rhyfedd iawn, pan feddyliom mor adgas oedd ganddo feddwl am ysgrifenu, ac wedi hyny mor boenus oedd y llafur iddo. Y mae ysgrifenu, i lawer o awduron yn hyfrydwch dirfawr; ond fel hyn y dywedai Foster,—"Yr unig achos fy mod heb ysgrifenu atoch ydyw y gwrthwynebrwydd a deimlwyf at bob math o ysgrifenu; gwrthwynebrwydd, fel y gallaf yn onest ddyweyd, ac y mae yn ddrwg genyf ei fod yn wir,

[1] "*Sabbath Scripture Readings*;" cyf. i. tudal. 416.
[2] "*De Sublimitate*;" adran xxxix.

sydd yn fy nilyn trwy bob paragraph neu frawddeg a ysgrifenaf. Gyda theimlad yn ymylu ar adgasrwydd, y byddaf bob amser, neu ar unrhyw destun neu achlysur, yn cymeryd fy ysgrifell i fyny. Y mae y mân bethau ynte, mewn ffordd o feirniadaeth, y gorfodais fy hunan i'w gweithio, wedi costio i mi fwy o hunan-ymwadiad nag a gostiodd esboniadau Henry a Gill, neu holl weithiau anferth Calmet, i'w gwahanol awduron. Fe leihäai y gwrthdeimlad yma pe cyrhaeddwn fwy o rwyddineb; ond nid wyf yn gwneyd hyny oddigerth mewn manylrwydd, ac mae yn debyg na wnaf byth" (i. 36). Mae yn hawdd i ni wrth ddarllen ei waith waeddi gyda Dante:—

> "O happy thou!
> Gifted with words so apt to speak thy thought,"

a meddwl mai ffawd dda y cafodd ei eni iddi ydyw hyn, heb gofio am y llafur, yr hunanymwadiad, yr ymdrech, y cyfyngder, ïe yr ing, braidd, a fu arno yn gweithio ei syniadau allan, ac "yn chwilio am eiriau cymeradwy." Gallai y darllenydd gael mantais i farnu hyn i raddau trwy gymharu yr argraffiad cyntaf neu yr ail o'i Draethodau (os medr gael gafael arnynt), âg un o'r argraffiadau dilynol. Yr oedd wedi cymeryd trafferth ddirfawr i geisio perffeithio y cyntaf; ond nid oes fawr frawddeg o hono nad ydyw wedi ei chyfnewid yn y lleill. Byddai eu cymharu yn ymarferiad da tuag at ddysgu cyfansoddi.

Y mae cyfatebrwydd perffaith ei arddull i'w syniadau yn peri ei bod yn llawn o bob amrywiaeth. Y mae gan lawer o awduron arddull dda iawn, mae yn wir, ond rhyfedd mor ychydig o foldiau brawddegau sydd ganddynt. Y mae yr un hydau, yr un ffurfiau, yr un disgyniadau, yn dyfod y naill ar ol y llall am dudalenau a chyfrolau bwygilydd. Ond y mae syniadau a theimladau yr enaid yn amrywio yn ddiderfynau; a phaham y rhaid eu gwasgu oll i ryw un ffurf neu ddwy? Y mae unffurfiaeth ynddo ei hun yn annymunol; ond y mae ceisio cloi mewn unffurfiaeth celfyddydol caeth, o ran dull o ymadroddi, amrywiaeth dibendraw gweithrediadau y meddwl ac adnoddau iaith, yn llawer mwy annymunol, ac yn rhwym o fod yn groes i natur.[1] Er mor hyfryd fyddai ymrodio dan awyr glir a thyner Itali, eto os cedwid ni yno am amser maith, mae yn debyg y blinem; fel y clywsom am un hen forwr o Frydain oedd yno unwaith, wedi llwyr ddiffygio gan y disgleirdeb gwastadol; ond wrth weled y cymylau un diwrnod yn dechreu gorchuddio y nefoedd, ac ystorm yn dynesu, a waeddai mewn brwdfrydedd, "Hyna! dyna rywbeth tebyg i wybren!" Gwell genym ninnau yr wybren fel yr ydym yn ei chael—weithiau yn deg fel gwlad angelion, a'r haul yn ei haddurno â'i ogoniant, neu loer y nen yn gwasgar serchogrwydd drwyddi oddi rhwng miliynau o ser, ac weithiau yn cael ei gorchuddio â chymylau, ei chau mewn tywyllwch, ei chynhyrfu â thymhestl, ei hollti â mellt, neu ei siglo gan daranau Duw. Ac am yr un rheswm y mae yn well genym arddull fel yr eiddo Foster,[2] sydd yn meddu digon o "lewder i gydfyned" â holl amrywiaeth natur a gwirionedd, heb geisio ystumio y

[1] "*Βούλεται δὲ ἡ φύσις τοῖς νοήμασιν ἕπεσθαι τὴν λέξιν, οὐ τῇ λεξει τὰ νοήματα.*"— Y mae natur yn gofyn am i'r arddull ddilyn y syniadau, ac nid y syniadau yr arddull. —*Dionysius Halicarnassus, Judic. de Isocrate:* § 12.

[2] Yr ydym yn cofio clywed cyfaill dysgedig yn dyweyd unwaith mewn ymddyddan, pan oedd cyfaill arall yn traethu yn wresog am *style* Mr. Hall, gan ei hedmygu hyd yr eithaf, ei fod ef yn ystyried fod yr eiddo Foster yn tra rhagori arni, o leiaf y gallai ef ddarllen Foster yn hwy o lawer *heb flino*.

cwbl i ryw un ffurf. Y mae ei frawddegau, fel ei feddyliau, o bob math, ystum, a hyd, o'r frawddeg fechan feranadlog, o air neu ddau, hyd yr un hir, gymalog, gymhlethedig, sydd yn llusgo ei meithder grymus weithiau am dudalenau. Nid ydyw ei arddull yn berffaith, oblegid nad ydyw ef bob amser yn meddwl yn berffaith; ond y mae, fe allai, bob amser yn berffaith i'w feddwl—a pha berffeithrwydd uwch a all arddull gyrhaedd? Y mae yn ddifyr gweled weithiau fel y mae yn dangos rhai o'i frawddegau meithaf a grymusaf, fel y maent yn ymwthio i fod yn ei feddwl, ac yn derbyn eu ffurf. Fel yn amser creadigaeth y byd,—

> "Now half appear'd
> The tawny lion, pawing to get free,
> His hinder parts, then springs, as broke from bonds,
> And rampant shakes his brinded mane;"

felly y mae llawer o'i frawddegau yntau—yn amrosgo, ond yn llawn o yni, yn ymwthio i'r golwg yn gryfion a phenderfynol, nes y maent yn sefyll ar ei dudalenau yn llawn o ymwybodolrwydd mawredd a nerth, fel breninoedd y goedwig eu hunain. Ymddengys mai mewn cysylltiad â'r goleuni yma a deifl ei ysgrifeniadau ar *ddygiad ei feddyliau i fod* y mae eu gwerth arbenig yn gynnwysedig, fel y maent yn cynhyrfu y rhai sydd yn ei astudio i feddwl eu hunain. Y mae ei ysgrifeniadau, nid yn unig yn llawn o hadau meddyliau, ond hefyd—yr hyn sydd annhraethol werthfawrocach—yn llawn o hadau *meddylgarwch*.

Yr oeddem wedi nodi lliaws mawr o ddarnau o'i eiddo, o dlysni ac ardderchogrwydd arbenig, gan feddwl eu dyfynu yn yr erthygl hon; ond rhaid i ni eu gadael. Teimlwn y bydd ein hamcan wedi ei gyrhaedd yn llwyddiannus, os bydd yr ysgrif yma yn foddion i dueddu rhai o'n cydwladwyr i ffurfio cyfeillgarwch â John Foster, ac os bydd o ryw wasanaeth iddynt fel arweiniad i fewn i'w ysgrifeniadau. Yr ydym wedi cyfeirio at rai o'i ddiffygion; gobeithiwn na bydd hyny yn foddion i beri i neb edrych yn is ar ei weithiau. Y mae rhywbeth yn dywysogaidd yn fynych hyd yn nod yn niffygion dynion fel hyn, er fod amryw o honynt yn peri i'r ochenaid ddystaw, ond difrifol, lithro dros y wefus. "Mor dlawd a dall ydyw y ddynoliaeth yma, wedi y cyfan! y mae hyd yn nod ei dynion goreu yn agored 'i gyfeiliorni fel defaid!'" Ond nid ydym yn meddwl y bydd neb o wyr ieuainc Cymru yn agored i ddim perygl oddiwrth ei wendidau, tra y credwn yn ddiammheuol nad allai ei ragoriaethau lai na gwneyd argraff ar eu meddwl a fyddai yn annhraethol werthfawr. Cynghorem hwynt i'w astudio, ac i ymestyn am ddilyn ei ol yn yr oll sydd werthfawr a da, gan weddïo yn wastadol am ei ddifrifwch a'i onestrwydd, ac hefyd am ddoethineb a chymhorth oddi fry i ochel ei brofedigaethau. Mae yn wir y cawn rai, weithiau, yn priodoli anhawsderau dynion fel Foster i ddyfnder eu myfyrdodau. "Pe byddech chwithau yn meddwl yn ddigon dwfn," meddant wrthym ambell dro, gan edrych yn gall, "chwi deimlech chwithau beth ydyw cael eich curo gan ammheuon ac anhawsderau." Nid ydyw hyn ond ffiloreg i gyd. Y mae gwirionedd Duw yn berffaith fel efe ei hun, a gallwn benderfynu po ddyfnaf yr elom iddo, mai perffeithiaf yn y byd yr ymddengys i ninnau. Mae yn wir fod yn rhaid meddwl yn ddwfn i ganfod anhawsderau (i *ganfod*, meddwn, nid i ailadrodd drosodd a throsodd drachefn anhawsderau a ganfyddwyd er's canoedd lawer o flyneddau, ac a symudwyd oddiar y ffordd ddeng mil o weithiau gan amddiffynwyr y gwir-

ionedd, fel y gwna lliaws mawr o'r rhai a fynent gael eu hystyried yn feddylwyr dyfnion yn ein dyddiau ni), ond mae yn ddidadl nad oes eisieu i ni ond meddwl dipyn yn ddyfnach na chawn esboniad ar y cwbl. Mae yr archangel, yn sicr, yn meddwl yn ddwfn er dyddiau tragwyddoldeb; ond nid yw hyny yn un rhwystr, eithr yn hytrach y mae yn gymhorth dirfawr, iddo i ymostwng o flaen yr orseddfainc, a gwaeddi gyda y llu mawr, gan orchuddio ei wyneb â'i adenydd, "Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd y lluoedd, yr holl ddaear sydd lawn o'i ogoniant ef." Ni raid i ni wrth feddwl yn ddwfn ofni dim am y gwirionedd, nac am ein cysur ein hunain, os bydd i ni ofalu am feddwl yn yr iawn gyfeiriad, a meddwl fel y mae yr archangel yn gwneyd, ac fel y gweddai i ni wneyd yn enwedig—mewn ymddiried yn yr Anfeidrol.

Mae y cyfrolau hyn yn ddyddorol dros ben i'w darllen. Nid yw Mr. Ryland wedi gwneyd fawr fwy ei hunan nag adrodd ffeithiau ei fywyd, gan adael iddo ef ei hun, trwy ei lythyrau, &c., ddyweyd ei hanes wrthym; ac y mae y cofiant o gymaint a hyny yn fwy gwerthfawr. Cynnwysa rai cannoedd o'i lythyrau cyfrinachol, a channoedd o sylwadau gwerthfawr dros ben a ysgrifenodd yn ei ddyddlyfr (yr ydym yn methu deall hefyd paham na fuasai y rhai hyn i gyd i fewn—y mae llwch aur yn rhy werthfawr i'w golli), a lliaws o'i gyfansoddiadau. Gwelsom rai mân hanesynau am dano mewn manau eraill, y buasai yn dda genym eu cyfarfod yma; megys, mai Miss Snooke a'i gorfododd i ysgrifenu ei "Draethodau," fel ammod llwyddiant ei ——, &c.: mai un o'r pethau cyntaf a'i cododd i sylw fel pregethwr ydoedd dywediad nodedig o'i eiddo mewn rhyw bregeth, "Fod mor anmhosibl i gorff Crist aros yn y bedd ag a fuasai i eira aros heb doddi ar wyneb yr haul:" ei fod, wedi iddo fod y tro cyntaf yn nghymdeithas Coleridge, pan ofynwyd iddo sut yr ydoedd ef mor ddystaw (yr oedd yn siaradwr campus ei hunan), wedi ateb, "O, pwy fuasai yn meiddio siarad tra yr oedd efe yn llefaru!" na allai Hall bregethu yn Mristol os byddai Foster yn y golwg, ac felly byddai raid iddo eistedd mewn rhyw gongl o'r neilldu, &c.

Y mae y llyfr yn rhad hefyd. Gellir cael y ddwy gyfrol am saith swllt, yn yr argraffiad yma, yn lle tuag un ar bymtheg. Mae yn dda genym ddeall fod Mr. Bohn wedi dwyn allan ei weithiau eraill hefyd yn ei gyfres. Yr oedd ei ysgrifeniadau yn anhawdd eu cyrhaeddyd o'r blaen; ond yn awr y maent wedi eu cyhoeddi yn y gyfres hon, yn gyfrolau prydferth, gwerthfawr, a *rhadlawn*. Y mae y gair olaf yma, ysywaeth, yn un o ddyddordeb pwysig i'r rhan fwyaf o efrydwyr galluocaf Cymru.

CRISTIONOGAETH YN NGWLAD Y TWRC.

[*Christianity in Turkey. A Narrative of the Protestant Reformation in the Armenian Church.* By Rev. H. G. O. Dwight, Constantinople. London: 1854.]

Y mae yr anghydfod sydd wedi cymeryd lle rhwng Twrci a Rwsia, wedi galw allan lu mawr iawn o ysgrifenwyr i egluro ansawdd ac amgylchiadau y ddwy ymherodraeth eang yma, fel nad oes braidd un pwnc yn dwyn

perthynas â'r naill a'r llall, nad oes rhywrai wedi cymryd eu gwaanach i roddi goleuni arno. Dygwyd llawer o bethau i'r amlwg ag oeddynt yn guddiedig hyd yn hyn; ac nid oes ond ychydig nad ydynt yn teimlo dyddordeb mewn pob hysbysiad am eu gallu gwladol, masnachol, milwrol, eu crefydd, eu defodau a'u harferion—y pethau nad oeddynt o'r blaen yn hysbys ond i ychydig, ac nad oedd y lluaws yn gofalu dim yn eu cylch. Tra y mae y naill ddosbarth o awduron yn cyhoeddi i'r byd ffrwyth eu hymchwiliadau yn hanesiaeth y gwledydd hyn o'r dyddiau gynt, blynyddau yr hen oesoedd, hyd y dyddiau hyn, y mae dosbarth arall yn ddiwyd a llafurus iawn yn ceisio chwilio allan ac esbonio y pethau sydd i ddyfod ar ol hyn. Ac y mae rhai o'r dosbarth olaf mor gadarn dros ryw syniadau o'r eiddynt eu hunain, fel yr honant braidd, nid yn unig mai felly y cymer pethau le, ond mai felly y *rhaid* iddynt fod. Nid yw y cyfeillion hyn ychwaith yn gallu cydolygu â'u gilydd ar rai pethau a ystyrir ganddynt o'r pwys mwyaf, mewn cysylltiad â thynged y ddwy wlad yn ol y prophwydoliaethau sydd wedi rhedeg o'r blaen. Ac y mae y naill blaid a'r llall yn ystyried y rhai hyny nad ydynt yn gallu cydweled â hwy, a'r rhai sydd heb fedru bod mor benderfynol gyda golwg ar fanylrwydd rhagfynegiadau yr ysgrythyrau sanctaidd am amgylchiadau dyfodol y gwledydd hyn, a chanlyniadau y rhyfel presennol, wedi eu meddiannu â rhyw ddylni mwy na chyffredin. Pa fodd bynag, y mae genym seiliau digonol i gredu y cyflawna Duw ei addewidion, ac y "rhaid i'r Iesu deyrnasu hyd oni osoder ei holl elynion dan ei draed ef." A pha beth bynag fydd diwedd y pethau hyn, nis gall y gwir Gristion lai na theimlo yn hyfryd wrth glywed am moddau o lwyddiant ar lafur y rhai sydd yn "ymdrech yn mhlaid y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint."

Y mae rhai wedi bod yn teimlo pryder—ac hwyrach fod ambell un eto—fod Prydain yn cymeryd rhan yn y symudiad presennol o blaid Twrci yn erbyn Rwssia, ar y cyfrif ei bod trwy hyny, meddant, yn pleidio Mahometaniaeth yn erbyn Cristionogaeth. Ond y mae y gwahaniaeth yn fwy rhwng yr enwau, nag ydyw rhwng yr hyn y maent yn ei gynnrychioli yn y ddwy wlad. Gellid galw Eglwys Groeg, yn Rwssia, yn Nicholiaeth; ac yn wir, byddai yn enw mwy priodol o lawer na Christionogaeth, mor bell ag y mae a fyno enw â gosod allan natur yr hyn y mae yn ei arwyddocâu: oblegid y mae yr ymherawdwr Nicholas yn cael edrych ato fel gwrthddrych mor bwysig yn nghrefydd ei ddeiliaid, ag ydyw Mahomet gan y Tyrciaid, neu yr ymherawdwr nefol gan y Chineaid. Y mae y Czar mor uchel yn nghyfrif y Rwssiaid ag ydyw Crist yn nghyfrif y Protestant. Nid oes [illegible], pa un bynag ai eiddo gwreng neu y boneddig, nad yw ei ddarlun ef yn crogi yn y lle mwyaf anrhydeddus, ac yn cael cymaint o anrhydedd ac addoliad a neb o'r darluniau a berchir ganddynt fel eu duwiau teuluaidd. Yn yr ymherawdwr hefyd, y mae pob awdurdod, eglwysig yn gystal a gwladol, yn preswylio; ac y mae bywyd pwy bynag a feiddio ei wrthwynebu mewn dim, yn hollol yn ei law. Y mae yn wir fod Mahometaniaeth wedi bod yn ffangell drom ar Gristionogaeth; ond ni bu ei llaw hwy yn drymach ar Gristionogion nag a fu llywodraeth Rwssia ar y rhai a feiddient fod yn wahanol i'r "Eglwys uniongred ac Apostolaidd," fel y gelwir hi ganddynt. Yn wir, gyda golwg ar ryddid, y mae yn rhaid rhoddi y flaenoriaeth i Twrci. Y mae yno gyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle er's ychydig flynyddau, a seiliau i ddysgwyl y bydd mwy [illegible] ar gyrhaedd.

Yn yr adeg ag y cymerwyd meddiant o ymherodraeth Groeg gan y Tyrciaid, Cristionogaeth oedd y grefydd a gydnabyddid yn gyffredinol yno; ond yr oedd ei phroffeswyr wedi gadael y symlrwydd sydd yn Nghrist, a chwilio allan lawer o ddychymygion; ac nid oes y gradd lleiaf o le i ammheu nad oedd Mahometaniaeth yn y Dwyrain, fel Pabyddiaeth yn y Gorllewin, yn cael eu goddef gan Ragluniaeth, fel y derbyniai y naill a'r llall y cyfryw dal am eu cyfeiliorni ag ydoedd raid. Danfonodd Duw iddynt amryfusedd cadarn fel y credent gelwydd, am na dderbyniasant gariad y gwirionedd.

Pan y cymerodd Mahomet II. feddiant o Gaercystenyn, cydnabyddwyd y patriarch oedd yno fel pen yr Eglwys Gristionogol yn y Dwyrain. Yr oedd ei awdurdod y pryd hwnw yn cyrhaedd dros y patriarchiaid eraill oedd yn Antioch, Alexandria, a Jerusalem. Caniataodd y Tyrciaid iddo fesur helaeth o awdurdod wladol, ac edrychent arno yn gyfrifol am ymddygiadau y Cristionogion. Mewn amser, pa fodd bynag, ymddifadwyd ef o unrhyw awdurdod eglwysig uwchlaw esgob cyffredin, tuallan i derfynau ei batriarchaeth ei hun. Y mae gan bob un o wahanol bleidiau eu cynnrychiolydd yn Nghaercystenyn, y rhai sydd i ryw fesur yn gyfrifol i'r llywodraeth dros y rhai a gynnrychiolant, ac y maent yn meddu ar radd lled helaeth o awdurdod, mewn ystyr wladol, gyda golwg ar ryw bethau. Y maent yn gallu caniatâu trwyddedau priodas, cyhoeddi dedfryd ysgariaeth, cadw coflyfrau genedigaethau, a'r cyffelyb. Y mae yr Eglwys Armenaidd yn cael ei llywodraethu gan bedwar o batriarchiaid, a'r un a ystyrir uchaf o honynt yn Nghaercystenyn. Y mae yno batriarch i'r Cristionogion Armenaidd sydd yn perthyn i Eglwys Rhufain. Y mae gan yr Iuddewon hefyd eu harchoffeiriad yno, ac nid yw y Protestaniaid ychwaith yn ol o'u cynnrychiolydd yno, er pan y cydnabyddwyd hwy fel plaid yn 1850. Yn wyneb hyn yr ydym yn canfod fod yno ryddid crefyddol i raddau lled helaeth. Y mae wedi bod yn berygl bywyd yno i neb droi oddiwrth Fahometaniaeth, ac, yn wir, i gynnyg argyhoeddi neb o honynt o dwyll a geudeb eu crefydd; ond nid yw hyny ar y ffordd yn bresennol, o leiaf i'r un graddau ag yn y blyneddau a aethant heibio. Ni dderbynid tystiolaeth Cristion gynt mewn llys gwladol, ond yn awr y mae y rhyddid hwnw yn cael ei gydnabod.

Yr oedd y diwygiad, i fesur, wedi cael ei fwriadu a'i gynllunio gan ragflaenydd y Sultan presennol; ond o herwydd rhyfel, afiechyd, a marwolaeth, fe'i lluddiwyd ef i'w ddwyn i weithrediad. Yn y flwyddyn 1839 cyhoeddwyd deddfau newyddion gan Abdul Medjid ag oedd yn syndod i bawb am eu tynerwch. Cydnabyddid fod holl ddeiliaid yr ymherodraeth Ottomanaidd yn gydstad yn wyneb y gyfraith; a bod pawb, o ba genedl bynag, a pha beth bynag fyddai eu sefyllfa a'u cred, ar yr un tir; ac na byddai i neb gael ei roddi i farwolaeth heb gydsyniad y Sultan. Ni weithiwyd yr egwyddorion hyn allan i'r graddau y deallid hwy, gan rai, am gryn yspaid, a hyny yn bur araf, o herwydd rhagfarnau a thueddgarwch y rhai oedd mewn awdurdod. Dygwyd amddiffyniad y rhai a ymwrthodent â Mahometaniaeth o amgylch, yn benaf, trwy gyfryngaeth Syr Stratford Canning, y cenadwr Prydeinaidd. Yr hyn a ddygodd y pwnc i sylw oedd, ddarfod i ŵr ieuanc, Armeniad o genedl a chrefydd, yn awr y brofedigaeth, o dan ddylanwad diod feddwol, ddyweyd ei fod yn ymwrthod â chrefydd ei dadau, a chofleidio Mahometaniaeth. Wedi dyfod ato ei hun, edifarhaodd am ei gamwedd cyn enwaedu arno; ond yr oedd yn rhy ddiweddar. Yr

[illegible] Canning wedi [illegible] [illegible] Lloegr, a [illegible] [illegible] Ffrainc a [illegible] Daeth Syr Stratford yn cael ei [illegible] gan weinidog a llywodraeth Ffrainc [illegible] penderfyniol. [illegible] ei [illegible] ei piau[illegible] er [illegible] heb [illegible] [illegible]. Ac wedi [illegible] y [illegible] [illegible], cafwyd [illegible], wedi ei [illegible] gan y Sultan ei hun [illegible] gael eu [illegible] yn Twrci [illegible]. Bu hyn yn llawer o [illegible] i'r Protestaniaid; ond gan fod yn [illegible] y patriarchiaid [illegible] o awdurdod wladol, [illegible] y cyhuddiadau yn eu herbyn yn y [illegible] hono, a [illegible] nad [illegible] yn eu [illegible] hyd y gellid, mewn llwybrau [illegible]; a hyny, [illegible], nid gan y Mahometaniaid, ond gan y rhai a elwent eu hunain yn Gristionogion.

Y mae y Protestaniaid, [illegible] hyn, yn cael eu cydnabod fel plaid o Gristionogion yn y wlad. Nid oedd yr enw *Protestant* yn adnabyddus braidd yn y wlad er's ychydig mwy nag ugain mlynedd yn ol; ond yn awr, y mae yno genadon o Loegr, yr America, ac amryw barthau o Gyfandir Ewrop, wedi eu hanfon gan wahanol gangenau yr Eglwys Gristionogol, yn Esgobaethwyr, Henaduriaethwyr, Cynnulleidfawyr, Lutheriaid, a Waldensiaid. *Brodor o'r* America yw awdwr y llyfr a nodasom uwchben yr erthygl hon. Y mae efe, ac eraill o'i gydlafurwyr, yn genadon yno, bellach, er's amryw flynyddau, yn benaf at yr Armeniaid. Y mae Armenia yn dalaeth eang yn ymherodraeth Twrci yn Asia. Planwyd Cristionogaeth yno mor foreu a'r drydedd neu y bedwaredd ganrif, os nad yn oes yr apostolion. Bu yr eglwys yn Armenia mewn undeb âg Eglwys y Dwyrain, neu Eglwys Groeg, hyd Gynghor Chalcedon, yn y bummed ganrif (491), pryd yr ymwahanasant, a chyfrifir hwy, byth wedi hyny, yn ymneillduwyr neu hereticiaid. Pa fodd bynag, gan eu bod yn rhan liosog o'r ymherodraeth, cydnabyddwyd hwy fel cyfundeb ar yr un tir a'r lleill. A chan eu bod, lawer o honynt, mewn cysylltiad â masnach a gorchwylion eraill, wedi eu gwasgaru i daleithiau eraill, caniatëir iddynt eu rhagorfreintiau; ac y mae ganddynt bartriarch yn Nghaercystenyn, yr hwn a ystyrir yn benaf, ac yn meddu yr un awdurdod wladol a phatriarch Eglwys Groeg yn ei berthynas â deiliaid ei gyfundeb ei hun.

Yn y flwyddyn 1829, penderfynodd y "*Prudential Committee of the American Board of Commissioners for Foreign Missions*" sefydlu cenad-

aeth yn mysg Armeniaid Twrci. Ac i'r dyben o fwrw golwg ar y maes yr oeddynt wedi penderfynu llafurio ynddo, anfonwyd y Parch. H. G. O. Dwight, a'r Parch. Eli Smith, i roddi taith trwy y wlad, yr hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn 1830. Mewn canlyniad i hyn, symudwyd y Parch. W. Goodell o Malta i Gaercystenyn, fel y byddai ganddynt orsaf genadol yno. Anfonwyd eraill i'w gynnorthwyo mewn gwahanol barthau. Nid oedd yn ddiogel i ddyfod allan mewn modd cyhoeddus ar y cyntaf, ac felly buont yn llafurio i gael ysgolion i addysgu yr ieuenctyd. Llwyddasant hefyd i gael argraffiad o'r Ysgrythyrau yn hen iaith Armenia. Ymddangosai y patriarchiaid a'r esgobion yn cymeradwyo eu gwaith dros ryw yspaid. Ond pan y llwyddasant i gael y Bibl yn yr iaith yr oedd y bobl yn ei deall, newidiasant eu tôn, a throisant yn wrthwynebwyr iddynt. Pa fodd bynag, bendithiodd yr Arglwydd eu llafur, a daeth amryw o'r offeiriaid i ymwrthod â'u hen ddefodau coelgrefyddol, ac i dderbyn y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. Dyoddefasant gryn lawer o erlidigaeth ac anfanteision, er hyny nid oeddynt yn pallu. Weithiau, fflangellid a charcherid hwy, am droi oddiwrth yr "Eglwys sanctaidd;" bryd arall, alltudid hwy. Nid oedd gan y patriarchiaid, mae yn wir, hawl i'w cosbi yn unig am iddynt droi yn Brotestaniaid; ond codid cyhuddiadau yn eu herbyn eu bod yn cyffroi y bobl, ac yn fradwyr yn erbyn y llywodraeth. Yr un rhesymau sydd gan y diafol i'w rhoddi yn ngeneuau ei weision yn mhob gwlad, ac yn mhob oes.

Wedi i'r diwygiad fyned yn ei flaen fel hyn yn raddol am amryw flynyddau, er pob gwrthwynebiad, penderfynodd y patriarch dywallt ei ddialedd arnynt hyd yr eithaf, a chyhoeddodd anathema arswydus o esgymundod ar un offeiriad oedd wedi gadael y wir ffydd, a throi at yr hereticiaid. Yr oedd wedi cael ei alltudio ddwywaith o'r blaen, ond yn parhau yn gyndyn er y cwbl. O'r diwedd, cyhoeddwyd *bull* yn ei erbyn ef a'r *sectariaid diweddar*. Darlunir ef fel "adyn dirmygus" yn "dilyn ei chwantau cnawdol," gan grwydro a "bwhwman cyfeiliornadau," a thrwy hyn, fod yn "dramgwydd i lawer." "Gan hyny," medd y patriarch, "yr ydym yn ei esgymuno, ac yn gwahardd iddo, fel diafol a phlentyn y diafol, i fyned i fysg y credinwyr. Yr ydym yn ei fwrw ymaith o'r offeiriadaeth fel aelod toredig o gorff ysbrydol Crist, ac fel cangen wedi ei thori o'r winwydden, yr hon nid yw dda i ddim ond i'w bwrw ymaith i'r tân." Wedi hyny, gorchymynir i'r ffyddloniaid, ymhell ac yn agos, yn mhob dinas, na byddai iddynt gymdeithas âg ef, ac nad edrychent ar ei wyneb, "gan ei ystyried fel wyneb Belial;" ac na dderbynient ef i'w tai mwy na "blaidd ysglyfaethus," gan ei fod yn meddu gwenwyn marwol ag sydd yn dystrywio eneidiau dynion; ac hefyd, fod iddynt wylio rhag athrawiaethau twyllodrus y sectariaid diweddar, sef y Protestaniaid, a gweddïo ar fod i Dduw ymweled â hwy yn ol eu hynfydrwydd. Y mae yn rhaid i ni gofio nad yw melldithion mor ofnadwy a hyn yn cael edrych arnynt gyda chellwair. Nid oes dim yn cael argraff ddyfnach ar feddyliau y "ffyddloniaid;" ac nid hawdd y gellir darbwyllo y rhai sydd wedi gweled fod llawer o ynfydrwydd yn seremonïau eu heglwys, i gredu nad ydynt mewn perygl o fod dan farn Duw yn y canlyniad.

Ond nid oedd y *bull* cyntaf yn ddigon; penderfynodd y patriarch gyhoeddi un arall y Sabboth canlynol, gwaeth na'r cyntaf, gan gymeryd i mewn bawb oedd o'r ffordd hon, yn gystal a'r offeiriad gwrthgiliedig.

Tybiwn nad annyddorol gan y darllenydd fydd rhydd gyfieithiad o hono, gan nad yw yn faith iawn.

"Bydded hysbys i braidd duwiol ein Heglwys yn y famddinas, fod deddf o Anathema wedi ei darllen y Sabboth diweddaf, er hyfforddiad i'r duwiol; ond y mae rhai o'r bobl wedi deall mai at y diddym melldigedig Vertanes, a gamenwyd yn offeiriad, yn unig yr oedd yn cyfeirio, ac nid at eraill hefyd. Gan hyny, yr ydwyf yn ei hystyried yn ddyledswydd angenrheidiol heddyw ei ail adrodd, a'ch hysbysu, fod nid yn unig y melldigedig hwnw (Vertanes), ond hefyd bawb sydd o'r un syniadau, twyllwyr a chablwyr yn erbyn yr Eglwys, a dinystrwyr y [illegible], yn cael eu melldithio a'u hesgymuno, a'u cyhoeddi yn anathema gan Dduw, a chan ei holl saint, a chenym ninnau.

"Gan hyny, pwy bynag sydd ganddynt fab sydd felly, neu frawd, neu un yn meddu rhan gydag ef mewn masnach, ac yn rhoddi bara iddo, neu yn ei gynorthwyo i ennill arian, neu yn gwneuthur cymdeithas âg ef fel cyfaill, neu fasnachu gydag ef—bydded i'r cyfryw rai wybod eu bod yn meithrin sarff wenwynig yn eu tai, yr hon, ryw ddydd, a'u niweidia â'i gwenwyn marwol, ac y bydd iddynt golli eu heneidiau. Y mae y cyfryw yn rhoddi bara i Judas. Mae y cyfryw yn elynion i ffydd sanctaidd Cristionogaeth, ac yn ddinystrwyr eglwys sanctaidd uniongred yr Armeniaid, ac yn waradwydd i'r holl genedl. Gan hyny, y mae eu tai a'u masnachdai hefyd yn felldigedig; a phwy bynag a elo iddynt, ni a chwiliwn ac a'u gwnawn yn hysbys i'r Eglwys sanctaidd trwy anathemau erchyll. O blegid y mae rhai yn y dyddiau hyn, a wenwynwyd, wedi dyfod yn edifeiriol o'u cyfeiliornad arswydus; ac ar ol myned dan y penyd angenrheidiol gydag edifeirwch, y maent yn cyffesu eu pechodau—i'r rhai y mae Duw yn maddeu trwy offeiriadaeth yr Eglwys sanctaidd, ac y mae ein heglwys sanctaidd hefyd yn eu derbyn. Ar ba gyfrif, yr ydym yn dysgwyl yn awr, fel y bydd i ni dderbyn y rhai ereill a ddychwelant; ac yn y diwedd, cynnifer o eneidiau a barhant yn annuwiol a chaled—y rhai, gan dderbyn cymhorth corfforol neu gyflog misol, sydd yn gwadu eu heglwys, ac, fel Judas, yn bradychu Crist o gariad at arian—y rhai hyn hefyd, a gyhoeddwn wrth eu henwau a'u cartrefi, i'r holl eglwysi yn mhell ac yn agos, gydag anathemau arswydus.

"Gan hyny, trwy y llythyr hwn o hysbysiad, yr wyf yn gorchymyn ac yn rhybuddio y duwiol, i gadw ymhell oddiwrth y twyllwyr drygionus hyn; o gariad at ffydd sanctaidd Iesu Grist, gogoniant yr Eglwys sanctaidd, a budd a lles eich eneidiau eich hunain.

"Ffarwel, a gras ein Harglwydd Iesu Grist a fyddo gyda chwi oll. Amen."

Ystyriai y patriarch fod hyn yn ddigon i greu arswyd ac ofn ar bob enaid dyn o fewn terfynau ei esgobaeth, ac oedd wedi bod mor annuwiol a rhyfygus a gwadu y ffydd trwy ymuno â'r Protestaniaid. A chan ei fod yn llawn trugaredd, darparodd y ffurf ganlynol o ddadgyffesiad, yr hon yr oedd yn rhaid i bob un a edifarhäai am ei gamwedd ei hadrodd iddo:—

"Ein Tad ysbrydol ac Anrhydeddus. Gan ein bod, trwy ragluniaeth neillduol Duw, wedi ein geni yn y grefydd Gristionogol sanctaidd a difrycheulyd, ac yn neillduol gan ein bod wedi ein meithrin yn athrawiaethau catholig yr Eglwys Armenaidd sanctaidd, gyda pha anrhydedd a chariad bynag y dangoswn ein hufudd-dod mabaidd i'r un Eglwys sanctaidd, eto, y mae yn amlwg nas gallwn byth wneuthur cydnabyddiaeth deilwng am y fath garedigrwydd. Ond, O! trwy gael ein twyllo gan hudoliaethau drygionus Satan, ac yn esgeulus yn ein dyledswydd, ni a ymadawsom o fynwes ddifrycheulyd yr un eglwys sanctaidd a chan wrthod ei hathrawiaeth apostolaidd, iachus ac achubol, daliwyd ni gan athrawiaethau penrhydd ac enaid-ddinystriol y sectariaid newyddion. Ac fel hyn, nid yn unig dirmygasom ein mam ddifrycheulyd—yr Eglwys sanctaidd, yr hon a'n hadgenedlodd trwy y dwfr sanctaidd i fod yn feibion i Dduw, ond cafwyd ni yn wrthwynebwyr i orchymyn anffaeledig Crist Iesu, yr hwn a roddodd allu i'w Eglwys sanctaidd i fod yn anorchfygol gan byrth uffern: nyni hefyd

a bechasom yn erbyn gallu nerthol yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn dysgu Eglwys Crist bob amser i aros yn y gwirionedd anffaeledig; ac yn olaf, nyni a edrychasom yn isel ar ras Duw y Tad, yr hwn a welodd yn dda ein creu yn y ffydd sanctaidd hon, fel yr unig lwybr i ddyfod yn etifeddion ei ogoniant.

"Wele, nyni a ymunasom yn garedig â'r sect annuwiol hon, a pharhasom hyd yn hyn yn gyndyn yn y cyfeiliornad hwn. Ond pan y darfu i'r Eglwys sanctaidd, trwy y gallu a roddodd Duw i'ch archoffeiriadaeth—ar ol rhoddi cynghor eilwaith a thrachefn, ac arfer y moddion anghenrheidiol er ein diwygio—ysgwyd ei chleddyf daufiniog a dderbyniodd gan Grist—yr hwn sydd 'yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, y cymalau a'r mer,' ymollyngodd rhwymau ein henaid yn y fan, a gwasgarwyd y madrondod oedd yn teyrnasu yn ein calonau; ymollyngodd cyndynrwydd ein hewyllys, a deffroisom o'n hafresymoldeb bwystfilaidd cyffelyb i'r eiddo Nebuchodonozor, a daethom yn hysbys o'r hyn a wnaethom yn erbyn y gallu dwyfol, ac nad oedd pregethu y sectariaid newyddion twyllodrus hyn, y rhai a dderbyniasom yn galonog, yn ddim gwell na dyfais trahausder, magl Satan, sect terfysg, a ffordd lydan sydd yn arwain i ddystryw.

"Gan hyny, yr ydym yn edifarhau o herwydd ein gweithredoedd annuwiol, ac o'n hewyllys a'n dewisiad ein hunain, yn ffoi drachefn i fynwes ein Heglwys sanctaidd a difrycheulyd; ac i'r dyben i gyffroi ei thosturi grasol tuag atom, gan dderbyn eich awdurdod ysbrydol a Christionogol fel ein cyfryngwr, yr ydym yn llefain, 'y Tad, pechasom yn erbyn y nef ac o'th flaen dithau,' fel y byddo iddi ganiatâu i ni faddeuant, gydag ebargofiad o'n bywyd penrhydd blaenorol; a pha benyd bynag a esyd arnom, nyni a'i cyflawnwn yn ewyllysgar; ac yr ydym yn cyffesu fod ffydd yr Eglwys sanctaidd yn ddifrycheulyd—ei sacramentau yn ddwyfol—ei defodau o darddiad apostolaidd, a'i defodlyfr yn dduwiol. A pha beth bynag a dderbynia yr unrhyw Eglwys hon, fel pwnc o ffydd neu ddefod, yr ydym ninnau hefyd yn ei dderbyn; a pha athrawiaethau bynag a wrthoda, yr ydym ninnau hefyd, yn gyffelyb iddi, yn eu gwrthod gydag anathemau. Ac yr ydym yn cyffesu y gwirionedd hwn, a osodir allan genym mewn geiriau a llythyr, o'n meddwl a'n calonau, ger bron Duw, chwiliwr y calonau. Ac os ydym, trwy feithrin yn ein calonau rywbeth gwahanol i'r hyn a dystiwn yma, yn bwriadu twyllo yr Eglwys sanctaidd trwy ragrith, yna y bydd i ni gael edrych arnom yn gyfranogion o gamwedd, ac yn agored i gosbedigaeth Ananias a Sapphira, y rhai a ddywedasant gelwydd wrth yr Ysbryd Glân, ffynnonell y gwirionedd.

"Ac os bydd i ni, oddiar ofn neu er mwyn mantais dymmorol, neu, fel na byddo i ni roddi i fyny ein syniadau ein hunain, ar ol gwneuthur y gyffes hon yn awr, ddychwelyd i'n ffordd ddrygionus flaenorol, ac i gyfeiliornad y sectariaid newydd melldigedig hyny, ac ymweled â hwy neu rai cyffelyb iddynt, neu wneyd unrhyw gymdeithas pa bynag â hwy; yna, pe byddai i ni edifarhau, bydded i gosbedigaeth ysbrydol a thymmorol gael ei gweinyddu yn ddioed arnom.

"Ac yn awr, mewn trefn i gadarnhau ein bod yn derbyn â'n holl galon, bob peth yr ydym wedi ei gyffesu, yr ydym yn awr yn arwyddo ac yn rhoddi ein sel bob un â'i law ei hun—unwaith yn casau, ond yn awr trwy ras Duw, yn blant edifeiriol Eglwys sanctaidd a chatholig Armenia."

Nid oedd y dadgyffesiad hwn yn myned yn ddigon pell gan rai o'r blaid erlidgar; ac felly, mynasant gael credo newydd gan y patriarch i osod allan y pynciau anghenrheidiol eu credu mewn geiriau mwy eglur, yr hwn yr oedd yn rhaid i bawb a dderbynid yn ol i fynwes yr eglwys ei arwyddo; a chan ei fod yn rhoddi mantais i'r darllenydd weled pa beth yw egwyddorion Eglwys Armenia, tueddir ni i'w ddyfynu.

"1. A ydych chwi yn cyffesu ac yn derbyn nad all ffydd yn unig achub dyn, ond ynghyd â ffydd y mae yn rhaid fod gweithredoedd da; ac nad gweithredoedd da, ond gwneuthur cyffes mewn cydffurfiad â chred yr Eglwys gyffredinol, ydyw yr arwydd fod Cristion yn meddu gwir ffydd?

"2. A ydych chwi yn cyffesu ac yn derbyn, mai cymdeithas weledig o gredinwyr yw eglwys Crist yn y byd hwn, yn cyffesu ac nid yn cuddio ei ffydd, ac a elwir yr 'eglwys filwriaethus,' ac mai pen yr eglwys sanctaidd hono yw Crist, a'i bod yn cael ei llywodraethu o dan arweiniad yr Ysbryd Glân, ac na bydd iddi beidio na methu hyd ddiwedd amser; na ddarfu iddi erioed gyfeiliorni, ac nas gall byth gyfeiliorni; ac nad oes un gwirionedd yn yr ysgrythyrau sanctaidd nad yw yn cael ei gydnabod gan yr eglwys sanctaidd?

"3. Ac ydych chwi yn cydnabod ac yn derbyn saith sacrament yr eglwys; y rhai ydynt, bedydd, conffirmasiwn, penyd, cymun, ordeiniad, priodas, a'r eneiniad olaf, ac nas gellir gweinyddu y sacramentau hyn gan un Cristion neillduol, ond y *catholicos* a ordeinir yn rheolaidd, neu esgob, neu offeiriad, y rhai yn unig sydd yn meddu awdurdod i'w gweinyddu, a'u bod wedi derbyn yr awdurdod hono gan Grist trwy yr hwn a'i hordeiniodd hwy?

"4. A ydych chwi yn cyffesu ac yn derbyn fod yn rhaid i ddyn gael ei fedyddio mewn trefn i fod yn etifedd iachawdwriaeth dragywyddol; a thra y byddo yn ddifedydd ei fod allan o'r eglwys, ac nad yw yn meddu iachawdwriaeth, hyd yn nod pe na byddai erioed wedi pechu; ac nas gall ychwaith dderbyn maddeuant pechodau a rhyddhâd, na bod yn deilwng o dragywyddol ogoniant, hyd oni chyffeso ei bechodau yn mhob amgylchiad, a chyda pherffaith edifeirwch, o flaen yr offeiriad, ac hyd oni ymostyngo i'r penyd a osodir arno gan yr offeiriad. Ond os bydd wedi cyffesu, ac iddo farw cyn cyflawnu y penyd, neu mewn pechodau dibwys ac anewyllysgar, y mae enaid y cyfryw yn cael ei buro, ac yn dyfod yn deilwng o dragywyddol ogoniant, trwy weddi yr eglwys, trwy yr aberth anfarwol (yr offeren), a thrwy elusenau neillduol?

"5. A ydych chwi yn cydnabod ac yn derbyn fod rhin y cymun sanctaidd yn wir gorff a gwaed Crist, a bod pwy bynag na chyfranogo o'r cymun yn y grediniaeth hon, o dan dragywyddol gollfarnedigaeth?

"6. A ydych chwi yn cyffesu ac yn derbyn fod y forwyn sanctaidd Mair, yr hon a esgorodd ar Grist, yr hwn sydd Dduw, yn fam Duw; a bod ei morwyndod yn berffaith ar ei enedigaeth ac wedi hyny—ei bod hi bob amser yn forwyn, ac yn deilwng o anrhydedd uwchlaw yr holl saint, a bod y croesbren sanctaidd, yr hwn a liwiwyd â gwaed dwyfol Crist, a chroesau sanctaidd eraill—ar y cyfrif eu bod yn ddelw o hon, yn deilwng o anrhydedd?

"7. A ydych yn cydnabod ac yn derbyn fod credu yn yr eglwys yn golygu credu yn y pethau hyny ag y mae yr eglwys sanctaidd gyffredinol mewn undeb yn eu credu, a'u credu yn yr un modd ag y mae hi yn eu credu? A ydych chwi yn credu fel hyn yn yr eglwys sanctaidd, ac a ydych chwi yn anrhydeddu ac yn addaw cadw a chyflawni ei seremonïau allanol o dduwioldeb, a'i defodau Cristionogol, a'r holl bethau a ofynir ganddi fel pethau wedi eu derbyn trwy draddodiad oddiwrth yr apostolion sanctaidd, a'r tadau sanctaidd a'u dilynasant?

"8. A ydych chwi yn credu ac yn derbyn fod yn yr eglwys sanctaidd wahanol swyddau a graddau, y naill uwchlaw y llall, megys darllenydd, diacon, offeiriad, esgob, catholicos; a bod y catholicosiaid a phatriarchiaid pob cenedl yn rhaglawiaid Crist, i reoli yr eglwys sanctaidd, ac i'w llywodraethu mewn trefn gymhwys; ond pe dygwyddai i ymarweddiad un o'r bugeiliaid hyn fod yn ddrygionus, nad yw yr eglwys a lywodraethir ganddo yn cyfeiliorni yn y gradd lleiaf drwy hyny, ac nad oes un brycheuyn yn dyfod ar yr eglwys gyffredinol?

"9. A ydych chwi yn cyhoeddi yn anathema, ac yn ymgadw oddiwrth y dyn hwnw, a'r gymdeithas hòno, sydd yn pregethu fod cyfeiliornad wedi dyfod i'r ffydd unedig a dderbynir gan yr Eglwys Gyffredinol, gan ddywedyd fod yr Ysbryd Glân wedi fy nysgu felly, ac fel hyn yn priodoli ei gyfeiliornad ei hun i Dduw yr Ysbryd Glân; a chan ymddiried i hyny, yn galw mam sanctaidd Duw yn fam Crist, ac yn gwadu ei morwyndod parhaus; ac yn cyfrif yr addoliad a offrymir i'r groes sanctaidd, a'r anrhydedd a delir i weddillion y saint, ac i ddarluniau eneiniedig, a derbyniad eiriolaeth y saint gyda Duw, fel eilunaddoliaeth, ac yn galw eglwys sanctaidd Crist yn eilunaddolgar, ac yn gwrthod ei holl seremonïau duwiol, a'i holl ofynion, fel pethau coel-grefyddol, ac yn gosod

terfyn i anfeidrol allu Duw, trwy wrthod credu ei fod yn gwneuthur gwyrthiau? A ydych yn cyhoeddi dilynwyr y cyfryw gyfeiliornadau yn anathema, ac yn ymgadw oddiwrthynt fel cablwyr annuwiol yr Ysbryd Glân, a gelynion Duw a'r holl saint?"

Yr oedd yn ofynol i'r rhai a dderbynient yr erthyglau hyn roddi eu cydsyniad wrth y dystiolaeth ganlynol o'u derbyniad o honi:—

"Y rhai hyn sydd naw o erthyglau ffydd yr Eglwys Armenaidd, y rhai y mae pob Armeniad yn rhwym o'u derbyn.

"Pa wirioneddau bynag a ganfyddir yn yr ymofynion, i'w cyffesu a'u cydnabod, yr wyf yn eu cyffesu, eu cydnabod, ac yn eu credu oll, mewn cydffurfiad â'r eglwys sanctaidd; a pha beth bynag sydd i'w wrthod, a'i gyhoeddi yn anathema, a'i fwrw ymaith fel cyfeiliornad ac annuwioldeb, yr wyf yn ei wrthod—yn ei gyhoeddi yn anathema, a'i fwrw ymaith; ac yr wyf yn credu mai Eglwys Lân Gatholig Crist ydyw unig golofn a sylfaen y gwirionedd, ac nad yw neb sydd allan o'r eglwys, yn etifedd iachawdwriaeth."—*Chwef.* 4*ydd*, 1846.

Yr oedd yr anathema yn cael ei ddarllen yn gyhoeddus yn yr eglwysi bob Sabboth am gryn yspaid, ac o'r diwedd, gwelodd y patriarch yn angenrheidiol, gan nad oedd dim yn tycio, iddo roddi *bull* allan drachefn, yr hyn a wnaed Mehefin 21ain, 1846, yn esgymuno y rhai oedd yn dal yn gadarn yn yr egwyddorion efengylaidd o bob cysylltiad â'r eglwysi Armenaidd drwy yr holl ymherodraeth Ottomanaidd. Ar hyn, gan nas gallent y pryd hwnw ymffurfio yn gyfundeb gwladol, penderfynasant wneyd eu goreu tuag at sicrhau iddynt eu hunain, mor bell ag yr oedd yn eu cyrhaedd, eu rhagorfreintiau crefyddol. Galwyd cynnifer o genadon Protestanaidd ag a ellid ynghyd i Gaercystenyn, a phenderfynwyd ymffurfio yn Eglwys Brotestanaidd, pa bethau bynag fyddai y canlyniadau. Ar y 1af o Orphenaf, 1846, ymgynnullodd deugain ynghyd, ffurfiwyd eglwys, a dewiswyd diaconiaid a gweinidog, yr hwn a ordeiniwyd yn gyhoeddus yn mhen rhyw yspaid. Ffurfiwyd eglwysi Protestanaidd mewn parthau eraill o'r ymherodraeth yn fuan wedi hyn.

Ond er ymneillduo fel hyn yn hollol, yr oeddynt mewn cyflwr lled anghysurus, ar y cyfrif nas gallent, yn ol cyfansoddiad llywodraeth Twrci, fwynhau rhyw ragorfreintiau gwladol heb fod a wnelent â'r patriarch, yr hyn oedd yn rhoddi mantais iddo i'w poeni. Yr oedd y llywodraeth o blaid iddynt gael llonydd, ond nid mor hawdd oedd cael llwybr i'w hamddiffyn. O herwydd fod rhai o ddylanwad yn eu herbyn, ac nad oeddynt ond ychydig, teimlid anhawsder iddynt ymffurfio yn gyfundeb mewn ystyr wladol, a chael cynnrychiolydd o'r eiddynt eu hunain. Tu yma i hyny, yr oedd yn anghenrheidiol iddynt gael eu trwyddedau i briodi o law y patriarch; yr oedd enw pob plentyn a fedyddid i gael ei gyflwyno trwyddo ef i'w roddi ar y coflyfr, ac nid ellid claddu ychwaith heb dderbyn caniatâd oddiwrtho ef. Tybiai y llywodraeth y gallai y patriarch fod yn gynnrychiolydd iddynt mewn ystyr wladol, a bod iddynt fwynhau eu rhyddid fel Protestaniaid heb fod dan ei awdurdod; ond canfuwyd yn fuan fod hyny yn annichonadwy. Pa fodd bynag, wedi bod yn y sefyllfa hon am tua blwyddyn a hanner, llwyddodd Arglwydd Cowley, cenadwr Prydain, i gael llythyr oddiwrth y prif weinidog yn cydnabod y Protestaniaid yn gyfundeb gwahanol ac annibynol yn Twrci, a dewiswyd un o honynt eu hunain i fod yn gynnrychiolydd. Gwelir oddiwrth y dyfyniad a ganlyn o lythyr y prif weinidog, eu bod yn cael eu rhyddhau i fesur helaeth oddiwrth eu hanghyfleusderau blaenorol:—

"Gan fod y Protestaniaid [illegible] mewn cyfundeb â'r credo a broffesant, yn [illegible] y mae ewyllys a [illegible] ei Fawrhydi ymherodrol [illegible] y Protestaniaid [illegible] gael ei ymddiried i'ch [illegible] iddynt trwy [illegible] a'u marwolaethau yn [illegible] yr ymddygir tuag at y deiliaid [illegible]; fod i chwi [illegible] a thrwyddedau i briodi; fod i unrhyw berson o [illegible] ac ymarweddiad da, gael ei ddewis ganddynt i [illegible] yn y Porte er dwyn ymlaen, a threfnu eu hamgylchiadau a'i [illegible] i'r dyben hwnw."

Trefnir hefyd na byddo iddynt gael eu gorthrymu yn y trethi; "na byddo trethi yn cael eu codi oddiar y Protestaniaid am ganiatâd i briodi a chofrestriad;" bod pob rhwyddineb yn cael ei roddi iddynt yn eu hamgylchiadau; ac "na byddo unrhyw ymyraeth pa bynag yn eu pethau tymmorol nac ysbrydol, o eiddo patriarchiaid, mynachod, neu offeiriaid sectau eraill, yn cael ei ganiatâu: ond fod iddynt fwynhau rhyddid i wneuthur proffes o'u cred mewn diogelwch, ac na byddo iddynt gael eu gorthrymu mewn dim yn y modd hwnw, nac mewn un modd arall."

Y mae llythyr y prif weinidog wedi ei ddyddio Tachwedd 15, 1847. Ond nid oedd sefyllfa y Protestaniaid ar dir diogel o lawer er hyn. Cyfnewidiad yn y weinyddiaeth a allasai beri cyfnewidiad yn eu hamgylchiadau hwythau. Pan ddaeth Arglwydd Stratford i Gaercystenyn, yn y flwyddyn 1850, penderfynodd gael rhyddid crefyddol i'r graddau helaethaf ag oedd yn ddichonadwy, mor bell ag y gallai ei ddylanwad ef gyrhaedd er sicrhau hyny, a choronwyd ei lafur â llwyddiant. Cafwyd *firman* yn cadarnhau rhyddid y Protestaniaid, o ba un y rhoddwn y dyfynion canlynol o flaen y darllenydd. Wedi cyfarch y gweinidog, dywed:—

"Pan gyrhaeddo y gorchymyn goruchel ac ardderchog hwn chwi, bydded hysbys, fod y rhai hyny o'm deiliaid Cristionogol a dderbyniasant y ffydd Brotestanaidd, gan nad ydynt dan unrhyw arolygiaeth uniongyrchol, a chan nas gall patriarchiaid a phenaethiaid y pleidiau hyny yr ymwrthodasant â hwynt dalu sylw i'w hamgylchiadau, hyd yma wedi dyoddef cryn lawer o anghyfleusdra a chyfyngder; ond mewn cydffurfiad â'm tosturi ymherodrol, yr hyn yw cynnalydd pob peth, a'r hyn a ddangosir i bob dosbarth o'm deiliaid, y mae yn wrthwyneb i'm hyfrydwch ymherodrol, fod un dosbarth o honynt yn agored i ddyoddef.

"Am hyny, gan fod y rhai a grybwyllwyd uchod, ar gyfrif eu ffydd, yn gyfundeb gwahanol, fy ewyllys freninol a thosturiol yw, fod i berson ffyddlawn, ac o ymddiried, ac wedi ei ddewis ganddynt eu hunain, gael ei benodi dan yr enw 'Goruchwyliwr y Protestaniaid,' ac iddo fod mewn cysylltiad â rhaglawiaeth swyddogion y ddinas, i'r dyben i rwyddhau dygiad ymlaen eu hamgylchiadau (y Protestaniaid), ac fel y byddo iddynt gael heddwch, llonyddwch, a diogelwch.

"Rhaid i'r goruchwyliwr fod yn meddu coflyfr o enwau y gwrywiaid a berthyn i'r cyfundeb, yr hwn a gedwir yn swyddfa y ddinas; a rhaid i'r goruchwyliwr beri fod yr holl enedigaethau a'r marwolaethau yn y cyfundeb yn cael eu cofnodi ynddo. A rhaid i bob cais am deitheb, trwyddedau priodas, a'r holl ddeisebau a fwriedir eu cyflwyno i'r Porte ardderchog, neu i unrhyw lys arall, gyda golwg ar amgylchiadau a berthyn i'r cyfundeb, gael eu rhoddi o dan sel swyddol y goruchwyliwr."

Yna wedi gorchymyn hyn, cyferchir y goruchwyliwr a nodwyd uchod fel y canlyn:—

"Na byddo i chwi ganiatâu i ddim gael ei ofyn ganddynt, o dan yr enw *tâl* am drwyddedau priodas, neu gofrestriadau, neu oddiar unrhyw ymhoniad arall.

Bydded i chwi edrych eu bod yn cael pob rhwyddineb, a phob cymhorth angenrheidiol, fel cyfundebau eraill yn yr ymherodraeth, yn eu holl amgylchiadau, megys cael mynwentydd, a lleoedd addoliad. Na byddo i chwi oddef i neb o unrhyw gyfundebau eraill i ymyraeth mewn un modd â'u hadeiladau, neu gyda'u pethau bydol, neu, yn fyr, gyda dim o'u hamgylchiadau, pa un bynag ai bydol ai crefyddol—fel hyn, fod iddynt gael ymarfer yn ddirwystr â defodau eu ffydd.

"A gorchymynir i chwi beidio a goddef iddynt gael eu haflonyddu mewn un iod o'r pethau hyn, nac mewn dim arall, a bod pob sylw a dyfalwch yn cael ei roddi mewn gweithrediad i'w hamddiffyn mewn tawelwch a diogelwch. Ac, mewn amgylchiadau o anghenrheidrwydd, fod iddynt gael rhyddid i wneuthur eu deisyfiadau yn hysbys i'r Porte ardderchog trwy eu goruchwyliwr gyda golwg ar eu hamgylchiadau."

Gorchymynir fod i'r pethau yma gael eu cofnodi, a'u trosglwyddo i ddwylaw y deiliaid hyn; a bod iddynt, yn y canlyniad, gael eu cyflawni "yn eu llawn ystyr." Y mae wedi ei ysgrifenu a'i ddyddio yn "Constaniniyeh, yn y mis sanctaidd Moharrem, 1267;" sef Tachwedd, 1850.

Yn awr dyma y Protestaniaid wedi eu gosod ar dir diogel yn eu perthynas â'r gyfraith. Y mae ei gweinyddiad, mewn llawer o amgylchiadau, yn dygwydd bod yn nwylaw rhai nad ydynt yn meddu y cydymdeimlad lleiaf â'r diwygwyr, a thrwy hyny nid ydynt heb ddyoddef graddau o erlidigaeth weithiau, mewn rhyw lwybrau anuniongyrchol. Ac yn wir, dywed Mr. Dwight fod y Mahometaniaid yn fwy tyner tuag atynt o lawer na'u cyd-Gristionogion; sef y pleidiau sydd yn hŷn, ac wedi dyfod i fwy o awdurdod.

Nifer y cenadon oddiwrth y Bwrdd Cenadol Americanaidd yn Asia Orllewinol yw deuddeg a deugain. Y mae yno ddeunaw a deugain o ferched yn llafurio gyda'r genadaeth, ac un ar bymtheg o bregethwyr brodorol, ynghyd â nifer o Fibl-gludwyr (*colporteurs*), y rhai sydd yn barhaus yn dosbarthu gair Duw, a thraethodau crefyddol, yn mysg y trigolion. Y mae y wasg yn cael ei defnyddio i raddau helaeth. Cyhoeddwyd o bryd i bryd tua chant a deunaw o wahanol lyfrau, a rhai o honynt o gryn faintioli. Nifer yr eglwysi mewn cysylltiad â'r genadaeth Armenaidd yn nechreu y flwyddyn hon (1854) yw pymtheg, heblaw dwy eraill o Armeniaid, a rhai o genedloedd eraill ynghyd. Y mae y rhai hyn oll yn cynnwys tua phedwar cant o gymunwyr, tra y mae nifer y rhai a gyfrifir yn Brotestaniaid o fewn cylch y genadaeth yn ddwy fil a thri chant. Ymddengys fod golwg siriol a llwyddiannus iawn ar lafur y cenadon. Rhoddwn un dyfyniad eto ar hyn, ac yna yr ydym yn terfynu:—

"Y mae yr olwg bresennol ar waith yr Arglwydd, yn mysg Armeniaid Twrci, yn dra siriol. Byddai rhoddi cyfrif rhifyddol o nerth y cyfundebau efengylaidd sydd ar y maes, yn gosod golwg hollol gyfeiliornus ar wir nerth Protestaniaeth yn y wlad hono. Yn yspaid y deunaw mlynedd o lafur cenadol ar ran y bobl hyn, y mae llawer o ymofynion a dadleuon—meddyliau a syniadau newyddion—wedi cael lle yn nghalonau lluaws. Nid yw arddangos gwirionedd yr Ysgrythyr am gyhyd o amser, mewn ymddyddan ac o'r pulpud, wedi bod yn ddieffaith ar y cyfundeb Armenaidd fel y cyfryw. Y mae y naill gyfeiliornad ar ol y llall wedi rhoddi lle i'r gwirionedd; ac yn awr, y mae llawer o'r rhai sydd eto yn ymhoni eu bod yn feibion ffyddlawn yr Eglwys, yn ymogoneddu fod yr Armeniaid yn rhydd oddiwrth amryw o bethau coelgrefyddol, y rhai oeddynt, ychydig flynyddau yn ol, yn cael eu hystyried fel maen prawf eu bod yn uniongred—y pethau a ystyrient yn ogoniant iddynt. Y mae arwyddion coelgrefydd yn myned o'r golwg, yn raddol, o'u heglwysi. Y mae parch i'r clerigwyr, ac arswyd eu hanathemau, wedi rhoddi lle, i raddau helaeth, i deimlad o ffieidd-

dod o'u hunanoldeb a'u rhagrith—gwrthdarawiad yn erbyn eu creulondeb, a dirmyg o'u hawdurdod. Y mae y Bibl, mewn iaith ddealladwy, yn cael darlleniad helaeth; ac y mae daliadau a defodau yr eglwys, yn barhaus, yn cael eu cymharu â'r hyn y mae yn ei ddysgu. Y mae miloedd o'r rhai sydd yn aros eto ynddi, wedi eu bargyhoeddi, o ran eu deall, fod Protestaniaeth efengylaidd yn wirionedd; ac y mae rhai o honynt, yn ddiammheu, wedi derbyn yn galonog yr athrawiaethau ag yr oedd eu deall yn eu cymeradwyo. Ceir rhai yn perthyn i'r dosbarth yma yn ddiwygwyr bywiog, ac yn barhaus yn dosbarthu yr Ysgrythyrau a chyhoeddiadau eraill o'n gwasg, ac yn gwneuthur y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu yn hysbys. Caniateir yn awr hefyd, i weinidogion ac aelodau yr eglwysi efengylaidd rydd-ymddyddan â'u brodyr sydd yn aros yn yr hen eglwys. Y mae nerth yr anathema wedi pallu, ac y mae cymdeithas gyfeillgar yn cael ei chynnal, unwaith eto, rhwng y pleidiau Protestanaidd ac Armenaidd. Anfonir plant y rhai olaf i'r ysgolion Protestanaidd, ac y mae y rhai sydd mewn oedran yn arfer yn fwy yn barhaus o fynychu lleoedd addoliad y Protestaniaid. Y mae syniadau efengylaidd yn ymledanu yn y tir. Y mae ysbryd ymchwiliad yn cynnyddu i raddau helaeth, a dadleuon rhydd yn cael eu caniatâu. Ni welodd y genadaeth Armenaidd, er y dechreuad, ddydd mwy llawn o ddyddordeb—ag sydd yn addaw llwyddiant mor eglur a'r un presennol. Y mae gelynion crefydd ysbrydol eto yn brysur, ac felly hefyd y mae ei chyfeillion. Rhaid i ryw gyfnod arall ddyfod ymlaen yn fuan—rhyw fynediad allan o eglwys lygredig, ond bydd ar gylch llawer mwy eang nag o'r blaen. Rhaid i'r cynnydd fyned ymlaen tua'r goleuni, ac nid yn ol tua 'r tywyllwch. Pa fodd bynag, nis gall dim ond goleuni, adnewyddiad, a dylanwadau sancteiddiol yr Ysbryd Glân, wneuthur y symudiad yn wir fendith."

YR EPISTOL AT DIOGNETUS.[1]

Y MAE pob tebygolrwydd fod yr epistol hwn yn un o gynnyrchion yr oes a ganlynodd yr oes apostolaidd; ac y mae mwy o naws apostolaidd ynddo nag yn ysgrifeniadau y rhai a elwir y "Tadau apostolaidd" eu hunain. O'n rhan ni, ni welsom ddim yn nghynnyrchion yr un o'r tadau a ddeil gymhariaeth âg ef o ran symledd a phurdeb; yn yr ansoddau hyn y mae yn nes i'r eiddo yr apostolion nag un o gynnyrchion yr oesau boreuaf. Mae ynddo brofion tufewnol ddarfod ei gyfansoddi mewn oes pan nad oedd yr efengyl yn cael ei lefeinio gan surdoes cyfeiliornadau, nac yn cael ei daearoli a'i chadwyno i lawr gan ysbryd cyfoeth, a rhwysg y byd, yr hyn bethau a'i niweidiodd ac a arafodd ei symudiadau yn fwy nag ystrywiau cyfeiliornwyr ac ymosodiadau blinion erlidwyr. Y mae awdwr anhysbys yr Epistol at Diognetus "fel angel yn ehedeg yn nghanol y nef;"—mae ei ysgogiadau mor rwydd ynddo ag ehediad aderyn, ac mae yn hawdd gweled ma;

[1] Hyderwn na fydd gan ein darllenwyr un gwrthwynebiad i'r epistol hwn ymddangos yn y "Traethodydd" wedi y darllenont ef, er mai cyfieithiad yw. Dichon na chawsai y nifer fwyaf o honynt y fraint o'i weled ond mewn cyfieithiad. Er mai yn y Groeg y cyfansoddwyd ef, eto teg ydyw i ni addef mai nid o'r Groeg yr ydym ni yn ei gyfieithu. Un rheswm am hyny ydyw, nad oes genym gopi o hono yn y gwreiddiol, ac y mae yr un rheswm hwn yn ddigon. Nid ydym yn berffaith sicr nad allasem roddi rheswm arall, pe na buasai hwn yn ddigonol. Yr ydym yn ddyledus i awdwr yr erthygl ar y testun hwn yn y "*British and Foreign Evangelical Review,*" am Mawrth 1853, am amryw o'r syniadau yn yr ysgrif hon.

"yn nghanol y nef" y mae yn ehedeg. Darllener gweithiau y Tadau yn y canrifoedd canlynol—y mae sawyr pridd y ddaear ar eu duwinyddiaeth; mae yr efengyl, yr hon a wisgir gan Paul fel morwyn bur, yn cael ei gwisgo ganddynt hwy yn addurniadau y butain; ond yn yr Epistol at Diognetus y mae yn sefyll ger ein bron yn ei symledd a'i phrydferthwch ei hunan. Ysgrifenwyd ef yn yr iaith Roeg, a chyfrifid ef yn gyffredin fel un o weithiau Justin Ferthyr. Cyhoeddwyd ef yn un â'i weithiau ef. Llythyr ydyw at genedl-ddyn, o'r enw Diognetus, gwr o dras a dysgeidiaeth, ac un tra ymofyngar am y gwirionedd; a'i amcan ydyw dangos pa beth a pha fath ydyw y grefydd Gristionogol. Dechreua trwy ddangos ar ba dir y mae y Cristion yn ymwrthod â defodau yr Iuddewon, ac âg ynfydrwydd eilunaddoliaeth y Groegiaid. Gogana addoliad eilunod, nid, mae yn wir, gyda manylder yr athronydd, ond gyda difrifwch y Cristion. Yna â ymlaen i feio aberthau a gwyliau yr Iuddewon, yr hyn sydd yn nodwedd a berthyn i'r holl gyfansoddiad. "Fel hyn, wedi rhwyddhau y ffordd, y mae yn darlunio Cristionogaeth fel gorddangosiad (*phenomenon*) oedd yn y byd y pryd hwnw, gan ddangos nad yw yn ymwneyd ond ychydig âg allanolion, ond ei bod yn dylanwadu ar y galon, y bywyd, a'r ymddygiadau. Mae y desgrifiad a roddir yn y fan hon yn rhan arbenig o'i ysgrif. Ar ol rhoddi golygiadau pruddaidd ar sefyllfa dynolryw cyn dyfodiad Mab Duw, mae yn mawrhau y dadguddiad hwn, ac yn ymdori mewn moliant i gariad Duw, a gwaith prynedigol Crist. At y rhai hyn chwanegir dau baragraph, y rhai nad ystyrir yn ddilys."

Gwnaed yr argraffiad cyntaf o'r Epistol at Diognetus dan olygiad Henry Stephanus. Yr oedd yn gyfrol pedwarplyg, argraffedig yn Paris yn y flwyddyn 1592. Rhoddwyd hi allan fel un o ysgrifeniadau Justin Ferthyr. Yr oedd yr argraffiadau dilynol yn ddyledus i'r argraffiad hwn. Cynnwysid yr epistol yn argraffiad Heidelberg o weithiau Justin, gan un Franciscus Sylberg, yn y flwyddyn 1593; yn yr eiddo Morel, Paris, 1615, ac wedi hyny yn 1636; ac yn Cologne, yn 1686; yn argraffiad, Maran yn 1742; yn "*Bibliotheca*" Galland, yr hwn a argraffwyd yn Venice yn 1765; yn y "Tadau Groegaidd," gan Oberthur, yn 1779; yn nghasgliad Olshausen, yn 1822; yn "Opuscula Boehl," yn 1826; yn y "Tadau Apostolaidd," gan Hefele, yn 1839; ac yn nghasgliad Greenfell, a argraffwyd yn Llundain yn 1844. Trwy gymhorth cyfysgrif sydd yn Strasburg, parotodd Proffeswr Otto argraffiad newydd o'r epistol, i'w chyhoeddi mewn argraffiad o weithiau Justin, yn Jena, yn 1843 ac 1849.

Dywedir y bu amser maith yn ystod yr hwn nad anturiodd neb briodoli yr epistol hwn i neb ond i Justin, fel na phetrusodd yr Esgob Bull ddyweyd, "Nid oes un gwr dysgedig yn bresennol yn petruso ystyried yr epistol hwn fel un o gynnyrchion dilys Justin." Y cyntaf a ddechreuodd betruso, ac a betrusodd nes o'r diwedd wadu hyn, oedd Tillemont, yr hwn oedd Janseniad, ac yn feirniad dysgedig a manwl; dilynwyd ef yn hyn gan liaws o feirniaid y Cyfandir, a chan amryw yn Mhrydain, ac yn eu plith, Dr. Lardner. Dygwyd gwrthddadleuon mwy pwysig, yn cael eu casglu trwy gymharu duwinyddiaeth yr epistol â'r eiddo ysgrifeniadau addefedig Justin. Cyfrifid, ar y llaw arall, ei awduriaeth i'r Merthyr, gan feirniaid nid llai enwog; a dadleuent yn gryf dros eu golygiad: yn eu plith y mae Teutzel, Fabricius, Cotta, Rudelbach, Hoffman, ac amryw eraill.

Byddai yn orchwyl ofer i ni geisio penderfynu pwy oedd gwir awdwr yr epistol dan sylw. Pan y mae beirniaid galluocaf yn taeru, yr ydym yn teimlo mai ein dyledswydd ni ydyw tewi. Y maent hwy mor amrywiol yn eu barnau am hyn ag ydynt am bob peth, braidd, fel y mae yn annhosibl dyfod o hyd i'r gwirionedd o barth awdwr yr epistol. Priodolant ei awduriaeth i ddynion mor wrthwyneb—mor bell oddiwrth eu gilydd o ran ansawdd eu meddyliau ag y mae yn bosibl bod. Ceir un gwr dysgedig, er anghraifft, yn dadleu yn dŷn mai Apollos oedd ei awdwr, ei fod mor debyg i'r hyn a allasem ddysgwyl oddiwrth un a ddesgrifir yn "ŵr ymadroddus, a chadarn yn yr ysgrythyrau," fel ag y mae sail gadarn dros farnu fod yr Epistol at Diognetus yn un o'i gynnyrchion. Dyma farn Galland. Os nad ydym yn ymfoddloni ar y dybiaeth yna, gadawer i ni ymofyn â rhyw feirniad dysgedig arall. Dyma fe—nid neb llai na Chevalier Bunsen, cenadwr diweddar Prussia yn Lloegr, ac awdwr y gwaith rhagorol ar "Hippolytus a'i Oes." Pwy, tybed, y mae y gwr hwn yn ei ystyried fel awdwr y llythyr dan sylw. O, meddai Bunsen, nid all fod yn neb amgen na Marcion yr heretic. Syndod! Apollos *seu* Marcion! Rhyfedd, onide, bod yr un ysgrif yn cael ei chyfrif i ddau ŵr mor annhebyg: un yn ŵr cadarn yn yr ysgrythyrau, wedi bod dan addysgiaeth apostol y cenedloedd, yn ddyn apostolaidd, mor fawr ei ddylanwad yn yr Eglwys Apostolaidd fel nad oedd un blaid yn Corinth yn petruso rhoddi iddo y flaenoriaeth ar Cephas a Paul; a'r llall yn heretic, ac yn fath heretic fel y galwyd ef gan Polycarp, yr hwn oedd yn nodedig mewn addfwynder a thynerwch, yn "gyntafanedig Satan," yr hwn nad oedd ei gyfundraeth yn *gyfundraeth* mewn gwirionedd, ond yn gymysgedd annhrefnus o syniadau wedi eu casglu o bob man, a'u cysylltu â'u gilydd, ond nid eu gwir uno, yn gymaint ag nad oedd ynddynt ddefnydd undeb. Efallai, ar yr un pryd, y dylid hysbysu rhesymau Bunsen dros ei olygiad; sef ydynt—y parch mawr a delir i ysgrifeniadau Paul, â'r hyn y nodweddir ysgrifeniadau Marcion yn gystal—gwrthwynebrwydd y naill a'r llall i Iuddewaeth—y desgrifiad a roddir ynddo o Gristionogaeth fel cyfundraeth cwbl newydd, yr hyn sydd hefyd yn amlwg yn ngweithiau yr heretic—y syniad sydd ynddo am Dduw fel yn gwbl anadnabyddus i ddynolryw, hyd oni hysbyswyd ef yn Nghrist. Ond gwrthwynebir y dybiaeth hon gan eraill, ar seiliau cadarnach na 'r rhai y cyfodir hi arnynt. Cadarnheir, fod y syniadau oeddynt yn arbenig yn nghyfundraeth Marcion, yn cael eu gadael o'r epistol, er fod pob achlysur a dueddai i'w dwyn allan ger bron. "Mae Marcion yn rhoddi lle dibwys i'r egwyddor o gyfiawnder; mae yr epistol yn ei gwneyd yn briodoliaeth hanfodol. Gwrthoda Marcion yr Hen Destament; mae yr epistol yn ei ddefnyddio. Gwrthoda Marcion Efengyl Ioan, gan ei hystyried yn Iuddewaidd; mae awdwr yr epistol yn dyfynu yr efengyl a'r epistolau."

Daeth yr Epistol at Diognetus i gael ei briodoli i Justin, o herwydd y tebygolrwydd a dybir sydd rhwng ei arddull ag eiddo gweithiau addefedig Justin; a bod yr unig gyf-ysgrif o hono yn gysylltiedig â'i weithiau ef. Dadleuir yn erbyn ei ddilysrwydd oddiar y ffaith nad yw Eusebius na Jerome yn ei enwi yn mysg gweithiau y merthyr. Y ddwy brif wrthddadl a ddygir yn erbyn cyfrif ei awduriaeth i Justin ydynt, fod drychfeddyliau yr epistol yn gwahaniaethu oddiwrth yr eiddo ef; a bod yr arddull, er yr ychydig o debygolrwydd a welir ynddi, eto, ar y cyfan, yn amrywio llawer oddiwrthi. Edrycha Justin ar dduwiau y cenedloedd fel

demoniaid (*dæmons*); gwawdia awdwr yr epistol hwynt fel eilunod mudion. Y mae syniadau y ddau yn cael eu hystyried yn wrthwyneb i'w gilydd o barth i'r defodau Iuddewig—yr enwaediad, y gŵyliau, a bwydydd. Dadleuir, wedi y cwbl, pa un a oes yma wir wahaniaeth ai peidio. Haera amddiffynwyr Justin, nad yw ond gwahaniaeth mewn ymddangosiad yn unig, a bod hyny yn cael ei achosi gan y gwahaniaeth oedd yn ei safleoedd i edrych ar Gristionogaeth oddiarnynt; ei fod yn ysgrifenu y gwaith a gynnwys y naill o'r syniadau hyn mewn atebiad i Trypho, yr hwn oedd *Iuddew*, a'i fod yn ysgrifenu yr Epistol at Diognetus, yr hwn oedd *genedlddyn*; mai ei safle yn y naill oedd yr Hen Destament, ac mai ei safle yn y llall oedd rheswm, a goleuni naturiol y meddwl dynol.

O barth i'r wrthddadl arall, sef yr arddull, haerir fod arddull yr Epistol at Diognetus yn tra rhagori mewn trefn a thlysni ar yr eiddo gweithiau Justin. I wneyd i ffordd â'r wrthddadl hon, dywedir y gallasai Justin ysgrifenu yr epistol yn fuan wedi ei ddychweliad at Gristionogaeth; a bod arddull llawer o ysgrifenwyr enwog yn newid llawer yn ngwahanol gyfnodau eu hoes. Cyn gadael y ddadl am awduriaeth yr epistol, yr hon yr ydym yn ei gadael, fel eraill, heb fod ddim yn nes i'w phenderfynu, rhoddwn ddau ddyfyniad o awdwyr ag y mae graddau helaeth o ddibyniad i'w roddi ar eu barnau, mewn ymchwiliadau fel y presennol, sef Lardner a Neander:—"Cyfrifir," medd y cyntaf, "yr Epistol at Diognetus, gan y mwyafrif o'r beirniaid, i Justin, er fod hyny yn cael ei ammheu gan rai, oblegid fod ei arddull yn dlysach nag eiddo ei ysgrifeniadau eraill. O'm rhan fy hun, nis gallaf berswadio fy hunan i'w ddyfynu fel un o gynnyrchion Justin; oblegid addefir fod ei ddullwedd yn tra ragori ar ei eiddo ef, ac ni wneir un crybwylliad am dano gan Eusebius na Jerome. Buasai ei ystyried yn ddilys yn ateb fy mhwrpas i, am fod ynddo fwy o gyfeiriadau at epistolau Paul nag sydd yn holl weithiau eraill Justin. Ond y mae hyn yn wrthddadl arall, trwy nad yw yn beth cyffredin gan Justin arfer arddull y Testament Newydd, fel y mae yr ysgrifenydd hwn yn gwneyd. A pha fodd y gall neb briodoli unrhyw ysgrif i awdwr, pan na restrir hi ymhlith ei weithiau gan yr henafiaid, a phan y mae yn wahanol oddiwrth arddull gyffredin ei holl weithiau addefedig, a phan nad oes dim yn ei theitl, nac yn ei diweddiad, i benderfynu pwy ydyw? Y mae Tillemont, yr hwn sydd yn ystyried yr arddull yn tra rhagori ar arddull Justin, yn ceisio profi ei fod yn fwy henafol, ac wedi ei ysgrifenu cyn dinystr Jerusalem. Mae y rhesymau hyn yn cael eu gwrthwynebu yn llwyddiannus gan Basnage, yr hwn sydd yn barod i dderbyn yr epistol fel yn ddilys. ¶ Y Cristionogion, cyn ysgrifeniad yr epistol, a ddyoddefasant lawer o erlidiau; yr hyn nis gellir ei ddyweyd am danynt cyn dinystr Jerusalem. Y mae yn epistol ardderchog. A chan fod yn eglur ddarfod ei ysgrifenu pan oedd y Cristionogion mewn erlidiau, mae yn rhaid ei fod wedi ei ysgrifenu cyn amser Cystenyn. Yr wyf yn barnu, gan hyny, mai rhyw hen ysgrifenydd Cristionogol anhysbys oedd ei awdwr, amser yr hwn nis gellir ei benderfynu."[1]

"Ymhlith gweddillion prydferthaf henafiaeth Gristionogol," medd Neander, "y saif y Llythyr at Diognetus ar nodweddiad yr addoliad Cristionogol, yn gyferbyniol i Iuddewaeth a phaganiaeth, yr hwn a geir yn mysg gweithiau Justin. Cynnwysa ddarluniad ardderchog o'r bywyd Cristionogol. Y mae ei iaith, ei feddyliau, ynghyd â dystawrwydd yr hen

[1] "*Lardner's Works*:" cyf. i, tudal. 342.

[illegible] yn profi na ddaeth o law Justin. Eto, y mae y symledd [illegible] sydd yn treiddio trwyddo yn brawf ei fod o awduriaeth pur [illegible] A[illegible] y gellir ychwanegu, fod yr awdwr yn rhestru paganiaeth a [illegible] yn yr un dosbarth; nad yw yn ystyried y defodau Iuddewig [illegible]; ac eto, nid oes dim perthynol i syniadau y Gnosticiaid [illegible] cyfansoddiad. Mae yn rhaid i ni olrhain hyn i'r dybiaeth [illegible] i oes dra chynnar. Nid yw y ffaith ei fod yn llefaru am [illegible] yr Iuddewon fel yn barhaus mewn bod yn ddigon i [illegible] wedi ei ysgrifenu cyn dinystr Jerusalem, oblegid mewn [illegible] gallasai arddangos sefydliad oedd wedi diflanu fel yn [illegible] Ac nid yw ei fod yn galw ei hun yn ddysgybl i'r [illegible] un goleu ar ei amseriad; oblegid gallasai ystyried ei [illegible] am ei fod yn ddilynwr iddynt yn eu hysbryd a'u hys-[illegible]

[illegible] sydd ar y pwnc o'i awduriaeth, eto, y mae y cwestiwn [illegible] yn cael ei benderfynu gydag unffurfiaeth mawr. [illegible] yn gwneyd dyfyniadau o, a chyfeiriadau at, [illegible] y Testament Newydd, yn milwrio yn erbyn y dybiaeth [illegible] yn yr oes apostolaidd; profa hyn ddarfod ei ysgrifenu [illegible] y Testament Newydd wedi eu casglu, ac yn cael eu dar-[illegible] Mae yn eglur, hefyd, fod y Cristionogion, ar amser ei [illegible] mewn cyflwr o wasgariad, ac yn hawdd eu gwahaniaethu oddi-[illegible] Yn erbyn, ar y llaw arall, ddwyn amser ei gyfansodd-[illegible] na diwedd y ganrif gyntaf, a'r ail, y mae dystawrwydd [illegible] pynciau sydd yn arbenig yn ngweithiau y tadau, [illegible] dyddiau apwyntiedig, gwleddoedd ac ymprydiau, [illegible] y gwahaniaeth rhwng y lleygion a'r offeiriaid, a'r [illegible] Dywedir nad yw ei ranau dilys yn cynnwys un [illegible] Pabydd seilio un rheswm teg o blaid ei ffoleddau.

[illegible] darllenwyr yr hyfrydwch o ddarllen yr Epistol at [illegible] yr ystyrir un rhan o hono gan bawb o'r beirniaid yn [illegible] i'r drafferth o'i ysgrifenu.

YR EPISTOL AT DIOGNETUS.

[illegible] mod yn deall, O ardderchocaf Diognetus, dy fod yn dra [illegible] crefyddol y Cristionogion, a bod dy ymholion [illegible] gydag eglurder a manylwch, mewn trefn i wybod [illegible], a pha fodd y maent yn cyflwyno addoliad, [illegible] dinystru angeu, tra nad ydynt yn parchu y duwiau [illegible] gan y Groegiaid, nac ychwaith yn dilyn ofer-[illegible] y serchogrwydd tyner a ddangosant y naill [illegible] paham y daeth y sefydliad newydd hwn i fod yn [illegible] Yr wyf yn dy ganmawl am yr awyddfryd hwn, ac yn [illegible] rhoddi y gallu i lefaru a gwrandaw, ar fod i [illegible] i'r hwn sydd yn gwrandaw gael ei wneyd [illegible] yn y fath fodd, na ofidier yr hwn sydd yn llefaru. [illegible] dy hun oddiwrth bob meddyliau a feddian-[illegible] oddiwrth bob moes twyllodrus, a'th wneyd [illegible], fel un ar fedr bod yn wrandawr ar [illegible] a ddadgenaist ti dy hun; edrych, nid yn unig â'r [illegible] darf neu sylwedd y pethau a elwch neu a [illegible]

[illegible] llyfr ii, tudal. 425.

ystyriwch yn dduwiau. Onid careg yw un, fel yr hyn y sathrwn arno; ac un yn bres, heb fod yn well na'r llestr a doddir at ein gwasanaeth; ac un yn bren, eisoes wedi pydru; ac un yn arian, ac yn rhaid iddo wrth ddyn i'w wylied, rhag iddo gael ei ysbeilio; un yn haiarn, yn cael ei ddyfetha gan rwd; ac un yn bridd, heb fod mewn un modd yn fwy prydferth na'r pethau a barotoir at y gwasanaeth iselaf? Oni chyfansoddir y rhai hyn oll o ddefnydd treuliadwy? Onid ydynt oll yn cael eu gwneyd trwy gymhorth dur a thân? Oni wnaeth y cerfiwr un, y gof pres y llall, y gof arian y trydydd, a'r crochenydd y pedwerydd? Cyn iddynt gael eu ffurfio i'r agweddau hyn trwy gelfyddwaith y dynion hyny, oni thaflwyd pob un i'r ffurf y mae ynddi gan weithiwr pob un? Onid allasai y llestri, y rhai ydynt o'r un defnydd, pe buasent yn cyfarfod â'r un gweithwyr, gael eu gwneyd yn gyfryw a'r rhai hyn? Ac ymhellach, y rhai hyn a addolir yn awr genych, onid ellir eu gwneyd gan ddynion yn llestri fel y lleill? Onid ydynt oll yn fyddarion? Oll yn ddeillion? Oll yn ddifywyd? Oll yn amddifad o bob synwyr? Oll heb ysgogiad? Oll yn llygredig? Oll yn llygru? Y rhai hyn a elwch yn dduwiau; y rhai hyn a wasanaethwch; y rhai hyn a addolwch; ac yr ydych yn myned yn gwbl yr un fath a hwynt! Yr achos eich bod yn casau y Cristionogion ydyw, am nad ydynt yn eu hystyried yn dduwiau. Ond chwy-chwi, y rhai ydych yn meddwl am danynt, ac yn eu hystyried felly, onid ydych yn eu dirmygu hwynt yn fwy nag y maent hwy? Onid ydych chwi yn eu gwawdio a'u diystyru yn llawer mwy, gan addoli y duwiau ceryg a phridd heb ddim gwarchodaeth arnynt, ond yn cau y duwiau aur ac arian dros y nos, ac weithiau, yn gosod gwyliadwriaeth arnynt yn ystod y dydd, rhag iddynt gael eu lladrata? Os oes ganddynt wybodaeth, yr ydych yn hytrach yn eu cosbi trwy yr anrhydedd a roddwch iddynt; ond os ydynt yn annheimladol a difywyd, trwy eu difwyno â gwaed ac â brasder, yr ydych yn eu haddoli. Bydded i un o honoch chwi eich hunain oddef hyn! Bydded i rywun ymostwng i gael ei drin yn y modd yma! Ond nid ymostyngai neb dyn yn ewyllysgar i'r fath boenedigaeth, oblegid y mae ganddo synwyr a rheswm; ond y mae y gareg yn ei oddef, am ei bod yn annheimladol. O barth i ryddid y Cristionogion oddiwrth iau y cyfryw dduwiau, gallaswn ddyweyd llawer o bethau eraill; ond os nad ydyw y pethau hyn yn ymddangos yn ddigon, yr wyf yn barnu y byddai yn afreidiol dyweyd ychwaneg.

III. Yn y lle nesaf, tybiwyf dy fod yn awyddus i wybod am y gwahaniaeth sydd rhwng eu haddoliad dwyfol ag eiddo yr Iuddewon. Os ydyw yr Iuddewon yn ymwrthod â'r gwasanaeth rhag-grybwylledig, ac yn dewis addoli yr Un Duw, sydd uwchlaw pawb, gan ei ystyried yn Arglwydd, *y maent yn iawn farnu;* eto, os rhoddant iddo Ef addoliad yn y modd a fynegwyd o'r blaen, y maent yn cyfeiliorni. Oblegid y pethau hyny, y rhai y mae y cenedloedd, gan eu cyflwyno i'r annheimladol a'r byddar, yn eu hamlygu fel prawf o'u ffolineb, gallasai y rhai hyn gyfrif, efallai, yr un pethau yn ffolineb, yn hytrach nag yn addoliad dwyfol, gan eu bod fel pe y tybient eu bod yn eu hoffrymu i un ag y mae arno eu heisieu. Canys nid oes arno Ef ei hun, yr Hwn a wnaeth nefoedd a daear, a'r hyn oll sydd ynddynt, ac sydd yn ein cyflenwi oll â pha bethau bynag sydd arnom eu heisieu, anghen am ddim o'r hyn y mae yn roddi i'r rhai a feddyliant eu bod hwy yn rhoddi iddo Ef. Ond nid yw y rhai hyny a dybiant eu bod, trwy waed, a brasder, a phoethoffrymau cyfain, yn aberthu iddo Ef, a thrwyddynt yn ei anrhydeddu, yn ymddangos i mi yn wahanol oddiwrth y cyfryw ag a ddangosant yr un haelfrydedd tuag at bethau disynwyr, y rhai nis gallant deimlo oddiwrth yr anrhydedd.

IV. Trachefn, yr wyf yn tybied dy fod yn dra awyddus i ddysgu oddiwrthyf o barth i'w petrusder ynghylch bwydydd, a'u hofergoeledd ynghylch Sabbothau, a'u gwagymffrost o'r enwaediad, a'u rhagrith gydag ymprydiau a newyddloerau, yr hyn bethau ydynt haeddawl o ddiystyrwch, ac annheilwng o ystyriaeth. Oblegid ymhlith y pethau a grewyd gan Dduw er gwasanaeth dyn, pa fodd y mae yn iawn derbyn rhai pethau fel wedi eu creu er buddioldeb, a gwrthod y lleill, fel pe byddent ddiddefnydd ac afreidiol? Yna i farnu fod Duw wedi

[illegible] y byd. [illegible] Mae yr [illegible]

[illegible] Mae yr [illegible] y byd, [illegible] yr ysbryd, [illegible] Mae yr [illegible] Mae yr enaid, pan

[illegible] Paul: 1 Cor. [illegible]

gamdrinir ef, o ran bwydydd a diodydd, yn cael ei berffeithio a'i wellhau; ac y mae y Cristionogion, pan yn cael eu cosbi, yn cynnyddu o ddydd i ddydd. Mae Duw wedi eu gosod dan y fath drefniant, ac y byddai yn anghyfreithlawn iddynt ei gadael.

VII. Oblegid, fel y dywedais, nid dadguddiad daearol ydyw yr hwn a draddodwyd iddynt; ac nid ffrwyth ymchwiliadau marwolion, ydyw yr hyn sydd yn ennill cymaint o'u sylw a'u dyfalwch; ac nid ymddiriedwyd iddynt ychwaith â gweinyddiad dirgeledigaethau dynol. Ond Efe ei hun, yr hwn, yn wir, ydyw Penllywydd pawb a Chrewr oll, y Duw anweledig, Efe ei hun, o'r nef, meddaf, a blanodd ac a sefydlodd y gwirionedd, a'r gair sancteiddiol ac annirnadwy yn nghalonau dynion: nid, fel y buasai yn naturiol i ni ddyfalu, trwy anfon at ddynolryw ryw was, neu angel, neu dywysog, neu un o'r rhai a reolant faterion daearol, neu un o'r rhai yr ymddiriedwyd y taleithiau nefol iddynt; ond Cynlluniwr, Pensaer, a Chrëwr y bydysawd, Efe ei hun—trwy yr hwn y gwnaeth Duw y nefoedd—trwy yr Hwn y cauodd Efe y môr o fewn ei derfynau—dirgelion yr Hwn y mae yr holl elfenau yn eu cadw yn ffyddlawn—oddiwrth yr Hwn y cymerodd yr haul fesur ei yrfa i'w rhedeg—yr Hwn yr ufuddha y lloer iddo, gan lewyrchu yn y nos yn ol ei orchymyn—i'r Hwn y mae y ser yn ufuddhau, gan ddilyn cwrs y lloer—gan yr Hwn y trefnir, yr amderfynir, ac y darostyngir pob peth—y nefoedd, a'r pethau yn y nefoedd—y ddaear, a'r pethau ar y ddaear—y môr, a'r pethau yn y môr—tân, awyr, y dyfnder, y pethau sydd uchod, y pethau sydd isod, y pethau sydd yn y canol. A wnaethpwyd hyn, fel y gallai rhai yn mysg dynion dybied, er mwyn dybenion gormesol, ac er cyffroi dychryn? naddo, mewn un modd; ond mewn tiriondeb a thynerwch. Fel brenin yn anfon ei fab, efe a anfonodd y brenin—a'i hanfonodd fel Duw at ddynion—fel Iachawdwr—fel un yn perswadio, nid yn dirgymhell: canys trais nid yw gyda Duw. Anfonodd ef fel yn gwahodd, nid yn ymlid; fel un yn caru, nid yn barnu. Fel un yn barnu, yn wir, efe a'i henfyn un diwrnod; a phwy a oddef ei ddyfodiad? Onid wyt yn gweled rhai yn cael eu taflu i blith gwylltfilod, i beri iddynt wadu yr Arglwydd, eto heb eu gorchfygu? Ac, mai po fwyaf ydyw nifer y rhai a gosbir, mwyaf yr amlhëir eraill? Nid ymddengys y pethau hyn fel gwaith dynion; y pethau hyn ydynt allu Duw; y pethau hyn ydynt brofion o'i ddyfodiad.

VIII. Oblegid pwy ymhlith dynion a allasai wybod pa beth yw Duw, cyn iddo ddyfod? A wyt ti yn cymeradwyo geiriau ofer ac ynfyd y rhai a gyfrifir yn ddoethion credadwy, o ba rai y mae rhai yn dyweyd, 'Tân yw Duw' (hwy a ânt iddo, gan eu bod yn ei alw yn Dduw); a rhai yn dyweyd mai dwfr ydyw, a rhai, mai elfenau eraill crëedig gan Dduw ydyw? Ond yn wir, pe byddai un o'r tybiaethau hyn yn deilwng o dderbyniad, gallai unrhyw un o'r creaduriaid eraill roddi ei hun allan fel Duw. Ond y pethau hyn ydynt aruthr-bethau, ac ystrywiau twyllwyr. Nis gwelwyd Ef gan neb o ddynolryw, ac nid hysbyswyd ef ganddo ond Efe a'i dadguddiodd ei hunan. Dadguddiodd ei hun trwy ffydd, trwy yr hon yn unig y gellir gweled Duw. Oblegid Duw, Arglwydd a Chrewr pob peth—Efe, yr Hwn a wnaeth yr oll, ac a'u rhoddes mewn trefn—oedd, nid yn unig yn garuaidd tuag at ddyn, ond hefyd yn hirymarhous. A'r Duw hwn oedd, sydd, ac a fydd byth, yn dosturiol a daionus, ac heb lid, ac yn ffyddlawn, ac yn unig ddaionus; ac wedi iddo greu meddylddrych mawr ac annhraethadwy, y mae yn ei hysbysu i'w Fab yn unig. Cyhyd o amser ag y cadwodd mewn dirgelwch ei gynghor doeth, yr ymddangosai i ni fel pe buasai yn ein hesgeuluso, ac yn ddifater am danom; ond wedi iddo, trwy ei anwyl Fab, ddadguddio a hysbysu i ni y pethau a ddarparwyd o'r dechreuad, Efe ar unwaith, ac mewn un cyfnod, a gyfranodd i ni bob peth; ac a roddes i ni i gyfranogi o'i rasau yn gystal ag i weled Duw, a gwneuthur ei ewyllys Ef. Pwy o honom ni byth a allasai ddysgwyl hyn? Felly, Efe a wyddai bob peth ei hun, gyda 'r Mab, yn ol y drefn ddwyfol.

IX. Gadawodd ni dros yspaid yr oesau a aethant heibio i gael ein cario ymaith gan wyniau anllywodraethus, yn ol ein hewyllys ein hunain, gan gael ein harwain ar gyfeiliorn gan bleserau a thrachwantau; nid fel pe buasai yn ymfodd-

loni yn ein beiau, ond yn eu goddef—nid yn cymeradwyo yr amser o anghyfiawnder a aeth heibio, ond yn dwyn i fod y cyfnod presennol o gyfiawnder; fel y gwneler ni, ar ol i ni yn yr amser hwnw brofi ein hunain, trwy ein gweithredoedd, yn annheilwng o fywyd, yn deilwng o hono trwy ras Duw; ac fel y gallem, wedi i ni ddangos ein hanallu ein hunain i fyned i mewn i deyrnas Dduw, gael ein nerthu i wneyd hyny gan ei allu Ef. Ond wedi i fesur ein hanghyfiawnder gael ei gyflawni, ac iddi ddyfod yn gwbl eglur fod cosb a marwolaeth i'w dysgwyl yn fuan, ac wedi dyfod yr amser a ragordeiniodd Duw i arddangos ei ddaioni a'i allu (oblegid at ddyn y mae cariad Duw yn anghymharol), ni chasäodd ni, ac ni fwriodd ni ymaith, ac ni chofiodd ein hanwiredd, ond rhoddes ei Fab ei hun yn iawn drosom—y sanctaidd dros y digyfraith, yr hwn nid adnabu ddrygioni dros y drygionus, y cyfiawn yn lle yr anghyfiawn, yr anllygradwy dros y llygradwy, yr anfarwol dros y marwol. Oblegid pa beth arall a allasai guddio ein pechodau, ond ei gyfiawnder Ef? Yn mhwy yr oedd yn bosibl i ni, y rhai digyfraith ac annuwiol, gael ein cyfiawnhau, ond yn uniganedig Fab Duw? O! gyfnewidiad hyfryd! O! fwriad anolrheinadwy! O! drugareddau nas gallasem byth eu dysgwyl! Fod i anwireddau llawer gael eu cuddio mewn un cyfiawn; fod i gyfiawnder un gyfiawnhau llawer o anghyfiawnion! Wedi iddo gan hyny mewn oesau a aethant heibio, ein hargyhoeddi pa mor anmhosibl i'n natur oedd cyrhaedd bywyd; ac wedi iddo yn awr ddangos i ni Waredwr galluog i achub, yr hyn oedd o'r blaen yn anmhosibl; trwy y naill a'r llall o'r pethau hyn, efe a amcanai ar fod i ni ymddiried yn ei ddaioni, a'i ystyried ef fel ein Maethwr, ein Tad, ein Hathraw, ein Cynghorwr, ein Meddyg, ein Doethineb, ein Goleuni, ein Anrhydedd, ein Gogoniant, ein Gallu, a'n Bywyd, ac i beidio bod yn rhy bryderus ynghylch ymborth a dillad.

X. Os byddi hefyd yn dymuno am y ffydd hon, gelli hefyd dderbyn yn gyntaf adnabyddiaeth o'r Tad. Canys carodd Duw ddynion, o herwydd y rhai y gwnaeth y byd, i'r rhai y darostyngodd yr holl bethau sydd ar y ddaear, y rhoddodd reswm a dealldwriaeth, y rhai yn unig a oddefodd i edrych i fyny ato ei hun, a ffurfiodd ar ei ddelw ei hun; iddynt hwy yr anfonodd ei Uniganedig Fab, ac a addawodd deyrnas nefoedd, ac a'i rhydd i'r rhai a'i carant Ef. A phan ddeui i'w adnabod Ef, â pha lawenydd yr wyf yn tybied y'th gyflawnir? Neu, pa fodd y ceri eilwaith yr Hwn a'th garodd di yn y fath fodd? A phan y byddi yn caru, deui yn ddilynwr Duw yn ei ddaioni. Ac ni ddylit ryfeddu y gall dyn ddyfod yn debyg i Dduw—gyda chaniatâd Duw, fe a all. Oblegid bod yn ddedwydd, nid yw yn gynnwysedig mewn arglwyddiaethu ar gymydogion, mewn trachwantu oddiar ddynion gwanach, neu mewn bod yn gyfoethog, ac arfer trais tuag at yr anghenus—nis gall neb fod yn ddilynwr Duw yn y cyfryw bethau, oblegid y mae yr holl bethau hyn yn anghytunol â'i fawredd. Ond y mae yr hwn a gymero faich ei gymydog arno ei hun, yr hwn a ewyllysio leshau y rhai iselradd yn y pethau y mae efe yn uwch na hwynt, yr hwn a gyfrano i'r anghenus y pethau a dderbyniodd gan Dduw, yn dyfod fel duw i'r rhai sydd yn derbyn.—Y dyn hwn yw dilynwr Duw. Yna cei weled ar y ddaear fod Duw yn teyrnasu yn y nefoedd; yna y dechreui lefaru dirgeledig bethau Duw; yna y ceri ac y rhyfeddi y rhai a gosbir am nad ydynt yn gwadu Duw; yna y condemni dwyll a hoced y ddaear, wedi i ti ddysgu byw yn wirioneddol yn y nefoedd, wedi i ti ddyfod i allu dibrisio a diystyru yr hyn a ystyrir yma yn farwolaeth, wedi i ti ddyfod i arswydo yr hyn sydd yn farwolaeth yn wir, yn cael ei gadw i'r rhai a draddodir i dân tragywyddol, i fod yn gosb ar y rhai a fwrir yno hyd y diwedd; yna y rhyfeddi y rhai, er mwyn cyfiawnder, a ddyoddefasant y tân amserol; ac y dadgeni hwynt yn wynfydedig, ar ol i ti wybod am y tân arall."

MAELERIAETH A MAELERWYR.

LLYTHYR ODDIWRTH MORGAN MEURIG, O HENDRE 'R CWM, AT DAFYDD EI NAI YN NHREF LLANFARCHNAD.

FY ANWYL NAI,

Dyma fi yn awr yn cymeryd mewn llaw fy mhin ysgrifenu, i anfon atat, yn ol dy ddymuniad, ryw gymaint o gynghorion a allant fod yn addas a phriodol i ti yn dy sefyllfa newydd fel maelerwr ar dy ran dy hun. Y gair goreu, dybygaf, yn Gymraeg, am *shopkeeping*, yw maeleriaeth, ac am *shopkeeper*, yw maelerwr; a thi a wyddost fod cryn dipyn o awydd wedi bod ynof, ar amserau, am ymddangos yn o fedrus mewn Cymreigiaeth da. Ond dylasai hyna fod rhwng cromfachau; yn awr, at y pwnc. Er fy mod bellach yn hen amaethwr, mi fum innau yn fy ieuenctyd yn ymarfer â maeleriaeth. Gwasanaethais fy mhrentisiaeth (dyro di y gair yna mewn gwell Cymraeg, os myni,) yn y faelfa fwyaf oedd y pryd hyny yn Aberdyfrdon; ac ymlaen yr aethwn gyda masnach oni buasai am farwolaeth annysgwyliadwy Gruffydd, fy mrawd hynaf, trwy yr hyn y daeth Hendre 'r Cwm i fy mherchenogaeth, ac y'm cymhellwyd i adael cyfyngle y *counter* am ëangfaes yr aradr. Yr wyf, er y pryd hwnw, wedi sylwi cryn dipyn ar faeleriaeth a maelerwyr; ac felly, tybied yr ydwyf fy mod, trwy y cyfan, wedi ennill rhyw gyfran o gymhwysder i anerch fy nai ar yr achlysur o'i ymsefydliad yn ei faelfa newydd yn nhref Llanfarchnad.

Mae yn rhaid i mi addef fod gwedd bresennol maeleriaeth wedi cyfnewid yn fawr er y pryd yr oeddwn i yn freintwas—dyna y gair iawn yn ein iaith ni, onide, am *apprentice*—mewn maelfa yn Aberdyfrdon. Yr oedd y masnachwyr y pryd hyny yn myned ymlaen yn araf a diantur, heb ddychymygu am un drefn arall na rhoddi archebion i deithwyr ail llaw o'r Amwythig a Chaerlleon, a myned eu hunain unwaith yn y flwyddyn i Ffair Gwrecsam, ac weithiau i Ffair Gaer. Ond am y maelerwyr presennol, nid yw yn ddim ganddynt hwy bicio i Liverpool, Manchester, Leeds, ïe, a Llundain, amryw weithiau yn y flwyddyn, i ddewis a chyrchu y nwyddau anghenrheidiol. Nid oedd y maeldai yn y dyddiau hyny ond lleoedd bychain cynnwys, cwbl ddiaddurn oddi fewn ac oddiallan; ond wele y maeldai presennol yn ystordai ëang eu maint, a gwychion eu hymddangosiad. Ac y mae y gwelliadau ymddangosol wedi cyrhaedd y gwas cyflog a'r breintwas. Anfynych yn awr y gwelir y ffedog wen, ac y mae y llewys dros y breichiau wedi eu halltudio i dir ebargofiant; mae pob math a rhith ar faelyn yn nhref Aberdyfrdon, ac felly yn Llanfarchnad mae yn debyg, yn ei osod ei hun allan mewn diwyg, dull, a moes, càn debyced ag y medro i'r *London cut*. Ond yr oedd gan yr hen faelerwyr eu mantais yn gystal a'u hanfantais. Os yn y modd drutaf yr oeddynt yn prynu eu nwyddau, yr oeddynt hefyd yn cael eu gwerthu yn y modd drutaf. Ac nid oeddynt ond ychydig o ran nifer i wrthymgeisio â'u gilydd. Mae yn y dyddiau hyn yn Aberdyfrdon dri masnachdŷ, o leiaf, am bob un oedd yno yn fy nhymmor masnachol i; a phawb wedi myned i werthu am yr iselaf; a da iawn os yw rhai o honynt yn ddieuog o geisio andwyo eu gilydd

trwy siarad yn fach ac yn ysgafn am gymeriad moesol a masnachol y naill y llall.

Ond er y cyfnewidiadau a nodwyd, ac eraill y gellid eu henwi, mae yr egwyddorion mawrion moesol sydd yn ofynedig tuag at faelera yn iawn a phriodol, yn para yr un fath yn mhob oes; a chyfeirio dy sylw at rai o'r cyfryw yw fy amcan yn hyn o lythyr.

Ac ymlaenaf dim, gofala yn wastad, fy anwyl Ddafydd, am ymgadw at gyfiawnder a gwirionedd, heb wyro i drwch y blewyn oddiwrth yr hyn sydd uniawn a chywir. Yr wyf yn gwybod fod, yn sefyllfa presennol masnach, demtasiynau lawer i anghywirdeb yn ngalwedigaeth maelierydd. Mae y fath gydymryson tost rhwng masnachwyr a'u gilydd, o herwydd fod cymaint o honynt, y naill ar draws y llall, yn mhob tref a phentref, fel y mae llawer, mae lle i ofni, yn arfer yn ddibryder bob moddion, teg neu annheg, gwir neu gelwydd, sydd yn ymddangos iddynt hwy yn fwyaf tebyg o sicrhau, nid yn unig fywioliaeth iddynt eu hunain, ond goruchafiaeth ar eu cymydogion. Ond gonestrwydd perffaith yw y callineb goreu yn mhob gwaith, ac yn mhob masnach. *Honesty is the best policy.* Gobeithio, fy nai, y cei fod yn dra llwyddiannus yn dy anturiaeth; ond, llwyddo neu beidio, cofia fod Duw a dynion yn dysgwyl i ti fod yn uniawn a didwyll. Myn ennill i ti dy hun enw da, bid a fyno; ac wedi ei ennill, glŷn wrtho am byth.

Wedi i ti roddi y pris sydd deg a chymhwys ar dy nwyddau, eadw at y pris hwnw, ac na fydd, er dim, yn un o faelerwyr y ddau bris. Y mae hyny, meddir wrthyf, wedi myned yn arferiad tra chyffredin mewn llawer parth o Gymru, yn enwedig wrth werthu brethynau, llïeiniau, cotwmau, a sidanau. Ond nid yw pobl y ddau bris, er gwerthu am y tro, yn ennillwyr yn y diwedd. "Beth yw pris hwn?" dywed y prynwr. "Hyn a hyn," ebe y gwerthwr; "ac yr wyf yn ei ystyried yn rhad iawn am hyny." Yna bydd yr hyn a elwir yn *ddodsio* am y pris yn cymeryd lle; ac yn niwedd y ddadleuaeth, gwerthir y nwydd am bris is nag a ddywedwyd yn y dechreu. Bydd y prynwr, neu yn hytrach, efallai, y brynwraig, yn myned allan, gan feddwl, "Rhyw Iuddew o ddyn yw y *shopwr* yna; pe buaswn càn waned fy mhen ag ildio i'r pris a enwodd gyntaf, buaswn wedi cael fy ngwneyd ganddo—buasai wedi fy nhwyllo; mi gymeraf ofal rhag y dyn yna o hyn allan." Yr oedd tair cymydoges, amser yn ol, ac ill tair yn wragedd tra pharchus a chyfrifol, mewn cydymddyddan, yn son am ryw *shawl* arbenig oedd ar werth mewn maelfa nid anenwog yn Aberdyfrdon, yr hon a ddangosasid ac a gynnygiasid i'r naill a'r llall gan y masnachwr. Erbyn iddynt gymharu eu nodiadau—*comparing notes*, fel y dywed y Sais—yr oeddynt yn cael fod tri phris wedi eu rhoddi ar y *shawl* (pe dywedwn gwàrug, neu wàrgob, pwy a'm deallai?) gan ŵr y *shop*, sef pris gwahanol i bob un o'r tair gwraig. Dwy bunt oedd y pris i un; ac yr ydoedd, meddai efe, yn colli dau swllt i hòno, gan mai dau gini oedd yr uniawn bris; yr oedd yn ardystio na werthai efe mo honi yn is, serch iddo ei chadw am flyneddau. Pymtheg swllt ar hugain oedd y pris i'r ail. A phan ddaeth y drydedd, gan ddangos, dybygasid, awydd am y *shawl*, yr oedd y gwerthwr yn barod i'w rhoddi iddi hi, fel ffafr fawr, am ddau swllt ar bymtheg ar hugain a chwe' cheiniog. Nid rhaid dywedyd fod y gŵr hwnw wedi colli am byth ei gymeriad am gywirdeb yn nghyfrif y gwragedd hyny; ac nid yn eu cyfrif hwy yn unig, ond yn nghyfrif eu teuluoedd a'u

cydnabod; canys yr oedd yn anmhosibl i'r merched, fel y gellid meddwl, gadw eu tafodau mewn segurdod. Mi wn y dywedir gan faelerwyr fod yn annichonadwy gwerthu i ryw fath o bobl gyda dim ond un pris. Gan y bydd y rhai hyny yn sicr o ammheu a gwrthddadleu, hyd yn nod pe byddai y gwerthwr yn gofyn llai na'r pris arferol, nid oes, meddynt, ddim i'w wneyd â hwy, ond gofyn pris uwch i ddechreu, a gostwng, yn wyneb eu gwrthresymiadau, i'r pris penodedig. Ond na chymer di hyny, na dim o'r fath, yn esgus dros ddyweyd un peth, a meddwl peth arall. Os rhaid i'r prynwyr anmharchu eu dynoliaeth, paham y bydd raid i ti anmharchu dy hun i'w hefelychu? Dal di yn gydwybodol at un pris, nes i wlad a thref ddyfod i wybod mai dyna dy arfer sefydlog a diymmod; a thi a gei, mewn diddigrwydd, drafnyd (*custom*) pawb y byddo yn werth i ti eu cael; ac mewn amser, ni bydd na checryn na checren yn meiddio gofyn genyt am ostyngiad pris.

Ar ddechreu dy fyd masnachol, na feddwl am ennill pobl i'th faelfa trwy gymeryd arnat werthu nwyddau yn is na'u gwir werth. Ti a fyddit, pe gwnelit werthu felly, yn gwneuthur anghyfiawnder â'th gydfaelerwyr, ac â thi dy hun. Mae pobl gall yn myned yn ddrwgdybus o'r maelerwyr sydd yn son llawer iawn am radlonrwydd a phrisiau isel. Digrif iawn genyf yw gweled yr hysbysiadau parhaus a geir mewn newyddiaduron, ac ar y muriau mewn tref a gwlad, ac yn wir, ar goedydd a chamfëydd ar ochrau y ffordd fawr, fod yn *Emporium*, neu *Establishment*, neu *London*, neu *Liverpool*, neu *Manchester*, neu *Glasgow House*, neu ryw enw mawreddig arall, a gedwir gan hwn a hwn, nwyddau rhatach nag ellir gael mewn un masnachdŷ arall yn yr holl wlad. Ni bydd genyf fi ond dywedyd, ar ol eu darllen, gyda Mr. Burchell, yn y "*Vicar of Wakefield*," wrth wrandaw ar ymddyddanion blodeuog Lady Blarney, a Miss Carolina Wilelmina Amelia Skeggs—"*Fudge!*" Dichon y ceir yn y cyfryw leoedd rywbeth yn isel iawn; mae yno ryw nwydd cyffredin yn cael ei werthu, ysgatfydd, *under prime cost*, fel y dywedir; ond nid yw hwnw ddim ond megys abwyd i dwyllo y pysgodyn i lyncu y bach. Ffraethwyr y Seison a alwant y cyfryw nwyddau yn *leading articles*—nwyddau i dywys a denu y bobl i fewn i'r masnachdŷ. "Gyda y *drapers*," meddai un dyn craffus yn ddiweddar, "*calico* sydd yn gwneyd i fyny y *leading article;* mae yn gwerthu hwnw am ddimai y llath yn îs na'r pris a gostiasai iddo; ac ar ol iddo fel hyn ennill enw am radlonrwydd, gall wedi hyny ofyn llawer o sylltau, ac hyd yn nod punnoedd, yn fwy na'r gwerth am *shawls*, a phethau eraill, y rhai y mae eu gwerth yn amrywio. Gyda y *grocer*, siwgr a ddefnyddir fel y nwydd deniadol, gan fod y bobl yn gyffredin yn hysbys o'i werth, a gwerthir ef am ddimai y pwys yn îs na'r pris y cafwyd ef. Mae y prynwr fel hyn yn cael ei arwain i feddwl y gall efe hefyd gael tê rhad yn yr un lle; a chan y maelerwyr, gelwir, yn bur briodol, y ddyfais hon yn *sugar-trap*. Prin y mae yn anghenrheidiol dywedyd, fod y masnachwr, yn ngwerthiad y tê, yn cymeryd digon o ofal i fŷnu tâl iddo ei hun am y siwgr." Y maeldai yr hysbysir cymaint am danynt fel y rhai rhataf, nid hir y bydd cyn y cenfydd y wlad mai hwynt-hwy mewn gwirionedd ydynt y rhai drutaf. Y mae genyt ti gydwybod, fy anwyl nai, a hòno a'th geidw di, hyderaf, rhag pob gauddyfeisiau i sicrhau dy fasnach a llanw dy logell.

Nid rhaid i mi, yn ddiau, ddywedyd wrthyt ti am gadw dy nwyddau gwerthadwy yn bur, heb eu cymysgu â dim defnyddiau salwach i'r dyben

o amlhau dy elw. Fe ddywedir fod yn y dyddiau hyn lawer iawn o faelerwyr yn arfer cymysgu nwyddau masnachol â chyffyriau rhad neu ddiwerth, os nad â phethau sydd yn wir wenwynig. Ysgrifenydd cydnabyddus â thrafnidiaeth yn Lloegr, a ddywed—"The grand object with unconscientious tradesmen is, to get up a reputation for cheapness, and to undersell the honest dealer. This is effected by the adulteration of every article in which detection is difficult. It would be endless to enumerate all the speices of adulterations that are resorted to. Ground rice is mixed with white pepper; a composition called P. D., costing about one penny per pound, with black pepper; chicory with coffee; potato-flour with sugar; tea, when not a mere compound of herbs and sloe-leaves, is adulterated with such things as starch, gum, dirt, and paint." Buasai yn hyfryd genyf allu credu mai yn nhrefydd Lloegr yn unig y cyfarfyddir â'r fath gymysgiadau; ond y maent, ysywaeth, wedi medru eu ffordd i lawer man yn Nghymru. Pan oedd dy fodryb, o fewn ychydig fisoedd yn ol, yn ffair Trefirfon, cymhellwyd hi gan wraig y Gwyrddgoed i fyned gyda hi i faelfa a elwid Ystordŷ Newydd y Tê a'r Siwgr, am ragoroldeb pa un yr oedd hysbyseb argraffedig yn daenedig ar draws ac ar hyd yr holl wlad oddiamgylch. Wel, yr oedd y tê a gafwyd yno, wedi i ni ei ddyfrhau, yn drwyth du ei olwg, a hollol ferfaidd ei flas; ac am y siwgr, yr oedd yn rhywbeth llwydwyn, glydiog, ac yn rheidiol wrth lawer o hono tuag at felysu ychydig. Dyna oedd cynnyrch ymweliad cyntaf ac olaf dy fodryb âg Ystordŷ Newydd, &c., Trefirfon. Myfi a allwn, ar y pen hwn, fyned ymlaen i nodi fod rhai blawdwyr yn cymysgu gwahanol ddefnyddiau â'u peilliaid; a thi a wyddost am y cwyno sydd yn y trefi mawrion o herwydd anmhuredd y llaeth a'r hufen a werthir yno. Ac nid nwyddau bwytadwy yn unig sydd yn agored fel hyn i gael eu llygru; ond y mae nwyddau gwisgo hefyd yn cyfarfod â chyffelyb dynged. Adroddwyd i mi am bregethwr a gafodd ei dwyllo mewn *suit* ddu yn ddiweddar; yr oedd cotwm wedi cael ei gydwëu yn gywrain â'r brethyn, fel yr oedd yn gwaethygu yn gynt na phryd. Mae yn wir mai rhyw giwed yn Lloegr neu Scotland oedd wedi gwneyd y brethyn hwnw; eithr dylasai y maelierydd fod yn ofalus rhag derbyn y cyfryw frethyn ffuantus i'w fasnachdŷ; ond yn lle hyny, yr oedd efe yn ei arganmawl fel defnydd gwerthfawr a da. Yr oedd yn gwneyd hyn yn ei anwybodaeth, gobeithio; ond os felly, yr oedd yn feius am ei anwybodaeth yn y lle cyntaf, ac am ei ganmoliaeth gyfeiliornus yn yr ail le. Canwyllau hefyd, meddant hwy, sydd yn cael eu gwneyd yn bethau drwg a thwyllodrus gan rywrai yn y dyddiau hyn. Y mae gwêr y ganwyll yn hen feddyginiaeth arferedig at fân friwiau ac archollion; ond darllenais yn ddiweddar am rai wedi syrthio i safn angeu trwy ei ddefnyddio felly, oblegid fod *arsenic* a *vitriol* wedi eu cymysgu â'r gwêr yn ngwneuthuriad y canwyllau. Cofia di, fy nai, nas gelli ateb i'r gorchymyn, "Cadw dy hunan yn bur," heb gadw nwyddau dy faelfa felly.

Y mae pwysau a mesurau cywir, hefyd, yn rhan anhebgorol o gyfiawnder masnachol. Mor eglur, ac mor bwysig, yr oedd y Llywydd Dwyfol yn siarad am hyn wrth yr Israel gynt; "Na fydded genyt yn dy gôd amryw bwys, mawr a bychan; na fydded genyt yn dy dŷ amryw fesur, mawr a bychan;" pwys a mesur mawr i brynu, a bychan i werthu; nid felly, ond "bydded genyt gareg uniawn a chyfiawn; bydded genyt epha uniawn a chyfiawn; fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear yr hon y mae

yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti; canys ffiaidd gan yr Arglwydd dy Dduw bob un a wnelo hyn, sef pawb a'r a wnel anghyfiawnder." Y mae arolygiad gwladol yn cael ei gadw ar fesurau a phwysau: ac y mae hyny yn dda; er nad yw holl arolygwyr y pwysau a'r mesurau yn gweithredu yn y modd goreu bob amser. Gwn am rai o'r gwŷr gonestaf a fuant erioed yn sangu daear, yn cael eu cyhuddo gan yr *inspector*, a'u dirwyo am bwysau na byddent byth yn eu harfer, ond a gaed yn rhywle dan eu cronglwydi, tra yr oedd ganddynt gymydogion anghyfiawn yn cael dianc yn ddisylw trwy ddylanwad cyfeillach neu lwgr-wobraeth. Wrth bwysau a mesur, a chyda phob peth a wnelych, gwna di, anwyl Dafydd, i eraill, fel yr ewyllysiech i eraill wneuthur i ti.

Yn mhob trafodaeth o'r eiddot, ymogela rhag manteisio ar anwybodaeth neu ar anghenrheidiau neb pwy bynag. Na ofyn gan ddyn dyeithr ond yr un faint o bris ag a ofynit i'th gymydogion; gwertha i'r negeseuydd dylaf yn hollol yr un modd ag i'r hwn y mae yn hysbys i ti ei fod yn gydnabyddus âg ansawdd y nwydd; a dyro i'r plentyn yr hyn, o ran math a maint, a fuasit yn ei roddi i'w rieni.

Edrych arnat dy hun bob amser fel un cysegredig i ddyweyd yr hyn sydd wir, a gwneyd yr hyn sydd uniawn; a'th arwyddair a fyddo, Mi a wnaf fel y dylwn, a doed fel y delo. Na phriodola i'th nwyddau werthfawrogrwydd y gwyddost nad ydyw ynddynt. Na ddywed am y gwael mai gwych ydyw, ac am y gwallus ei fod yn ddifai. Os bydd bai neu ddiffyg ar y nwydd, dywed hyny yn onest; a thi a gai weled na byddi yn golledwr yn y pen draw. Wrth bwffio erthygl salw, nis gellir gwneuthur dim ond twyllo y dosbarth mwyaf anwybodus o'r boblogaeth, ac nis gellir eu twyllo hwy ychwaith ond unwaith. Onid llawer iawn gwell a mwy hyfryd i'r masnachwr fyddai clywed y rhai a brynasant ganddo, yn mynegu, pan yn dyfod i'w fasnachdŷ drachefn, iddynt gael eu boddhau yn y nwyddau a gawsant, na gorfod gwrandaw arnynt yn tystio iddynt gael eu siomi ganddo—nad oedd y nwyddau, o ran eu defnyddioldeb a'u parhâd yn gyfryw ag yr oedd ei ardystiadau ef wedi peri iddynt ddysgwyl eu bod? Dywedir i mi, yn wir, fod nid ychydig o faelerwyr i'w cael, y rhai sydd yn rheolaidd (pe byddai yn rheol hefyd) yn dysgu, trwy eu hesiamplau a'u hyfforddiadau, eu cynnorthwywyr a'u prentisiaid i ddywedyd celwydd er mwyn ymadael â'u nwyddau, ac yn edrych ar y mwyaf tafod-lithrig i adrodd anwiredd, yr un mwyaf cymhwys i sefyll o'r tu ol i'r *counter*. Dyna y meistr, pan yn ceisio gwerthu ryw nwydd i foneddiges, yn appelio at John, gan ddywedyd, "Tri swllt a chwe cheiniog oedd y *prime cost*, onide, John? edrychwch." "Iĕ, syr," ebe John, gan wneyd rhith ymchwiliad; pan y gwyddai ei feistr ac yntau, nad ydoedd y nwydd wedi costio yr un hanner coron y llath. "Fel hyn, *ma'am*," medd y masnachydd wrth y foneddiges, "chwi a welwch nad wyf fi yn cael dim ond ceiniog o elw ar hwn; mae pob peth wedi myned yn awr y fath, y rhaid i chwi agos eu rhoi am ddim, os mynwch wneyd *business*." Mae John yn yfed ei ddysg yn rhwydd iawn o dan feithriniad y fath athraw, ac yn debyg o ddyfod yn ben campwr mewn dywedyd celwydd. Ah! bychan y mae y masnachwr yn meddwl ei fod wrth hau yn ei weinyddwyr anghywirdeb at y cwsmeriaid, yn debyg, os nad yn sicr, o fedi oddiarnynt anghywirdeb ac anghyfiawnder ato ei hun. Wedi unwaith beri iddynt neidio dros furiau cydwybod a gwirionedd, nid oes wybod yn mha anialwch y diwedda eu hynt.

Nid oes bosibl i rieni fod yn rhy ofalus wrth rwymo eu plant yn freintweision gyda dyeithriaid. Dylent edrych yn y modd manylaf ar fod eu meistriaid yn bobl uniawn, geirwir, a chydwybodol; yn rhai y byddo eu holl nodweddiad yn dangos eu bod yn mhob peth yn awyddus am ofni Duw a chadw ei orchymynion. Dylent hefyd feithrin yn eu plant y fath gariad at eirwiredd, ag na fedro un dylanwad, na deniad, na bygythiad, eu perswadio byth i droi oddiwrtho. Ped ennillid y byd wrth ddywedyd celwydd, ennill fyddai hwnw ar draul colli enaid.

Bydd egwyddor o uniondeb a chyfiawnder yn dy ddysgu i beidio dywedyd na gwneyd dim a fyddo yn tueddu i ddrygu maelerwyr eraill. Fe welwyd rhai masnachwyr, heb "gyflawni y gyfraith freninol yn ol yr Ysgrythyr, "Câr dy gymydog fel ti dy hun," yn siarad yn ysgafn ac yn anmharchus am eu cymydogion yn yr un fasnach, gan dduo eu cymeriadau, difrïo eu nwyddau, a drygliwio eu hymddygiadau, er mwyn tynu eu cwsmeriaid oddiwrthynt, a'u denu atynt eu hunain. Gwelwyd eraill yn ymgadw rhag lledanu adroddiadau anhyfryd yn uniongyrchol am eu cydfaelerwyr; ni wnaent yn gyhoeddus ddim cyhuddiadau yn eu herbyn; ac ymddangosent yn gyfeillgar iawn pan yn cyfarfod â hwy; ac eto pwy ond y rhai hyn, mewn modd cudd-gyfrwys a gŵyrgyrchol, a amcanent ac a wnaent y niwed mwyaf iddynt! Dyna un o brif bobl Manchester yn gofyn i ŵr y *White Elephant Establishment* pa gyfrifiad sydd i'w gymydog o'r *American House* o ran galluogrwydd masnachol; a'i ateb yntau ydyw, "Ni ddywedaf fi ddim byd." "Chwi a wyddoch pa un a ydyw ef yn debyg o allu talu ei ffordd ai peidio." "Gwell genyf fi beidio dywedyd dim," yw yr holl ateb. Wel, meddir, nid oedd yna ddim i'w feio; ni ddywedodd y gŵr ddim drwg am ei gymydog. Naddo, yn uniongyrchol; ond yr oedd ei ateb nacaol yn dywedyd, "Nid oes genyf fi ddim da i'w ddywedyd am dano. Gwell i chwi beidio ymddiried ynddo, gan nas gellir dywedyd gair o'i blaid." Yr oedd gŵr y Tŷ Americaidd wedi dyfod yn mlaen yn dda hyd yn hyn, ac yn dechreu cefnu ar ei anhawsderau fel masnachwr ieuanc; ond oddiar genfigen ac anghariadoldeb, dyma ŵr y *White Elephant Establishment* (onid oes enwau òd ar fasnachdai yn nhrefi Cymru yn awr?) trwy beidio dywedyd dim, yn dywedyd digon i dywyllu ei olygfeydd addawol, ac i'w lwytho â maith ddyryswch. Dyna rywun yn adrodd drygair am fasnachwr y *Bee-hive* yn nghlyw masnachwr y *Sheep-fold*, yr hyn y gŵyr hwnw yn dda sydd yn anghywir ac anghyfiawn; ond y mae yn ystyried mai gwell yw iddo, er ei fantais ei hun, beidio amddiffyn ei gymydog; ac felly y mae yn gwrando gydag ymfoddlonrwydd dirgel ar yr hyn a ddywedir yn ei erbyn. Y mae ymddygiadau fel hyn yn iselwael ac yn ddrygionus, ac, yn wir, y maent yn andwyol i'r neb a'u gwnelo. Y mae y dyn a feddylio, ac a wnelo ddrwg i'w gymydog, yn gwneuthur drwg mwy iddo ei hun. Cancr o anghysur ac annedwyddwch yw enaid y masnachwr hwnw sydd yn ofni llwyddiant, ac yn ceisio niwed y masnachwr arall.

Wedi aros cymaint a hynyna ar gyfiawnder a geirwiredd, dymunwn yn nesaf alw dy sylw at ddoethineb, neu bwyll, neu gallineb ymarferol—*prudence*, fel y dywed y Sais—fel cymhwysder gwir anghenrheidiol i wneuthur maelerwr da. Mae y gynneddf yma yn dysgu i'w pherchen ochel pob ymddygiad byrbwyll, diofal, tramgwyddus, ac enbydus; rhagolygu yr hyn sydd, neu a all fod o'i flaen, a darpar at hyny; a dewis yr adegau goreu, a'r trefniadau mwyaf priodol, i gyrhaedd ei amcanion. Siaredir yn fynych

am y rhai a lwyddasant yn y byd, fel pe byddent yn ddyledus yn unig i ffawd neu lwc dda; ond os edrychi di yn graff, fy nai, ti a gei weled am un a aeth yn oludog trwy ryw ychydig o brawfgeisiau ffortunus, filoedd wedi ennill cyfoeth, yn unig trwy ddilyn yn araf a chyson reolau doethineb. Na fydd awyddus, mewn un modd, am i bobl allu dywedyd am danat, "Dyna ddyn lwcus," fel y dywedir yn ol yr iaith sathredig; llawer mwy anrhydeddus i ti a fydd iddynt allu dywedyd, "Dyna ddyn gwir gall."

Y mae yn dda genyf glywed i ti fod mor gall, yn nechreu dy hynt drafnidiol, a sicrhau masnachdŷ mewn lle cyfleus at fasnach, a gobeithiol am lwyddiant. Y mae llawer wedi gwario eu harian, a gwastraffu eu harian, yn yr ymgais i sefydlu trafnidiaeth mewn lle hollol anhylaw ac anghyfaddas; a phan aethant oddiyno i agor masnachdŷ mewn lle arall, yr oedd eu haflwyddiant blaenorol yn gwanychu eu hysbryd, yn fferu eu gobaith, ac felly yn nychu eu hegniadau; ac yr oedd y wlad yn edrych arnynt fel rhai anghymhwys at wneyd *business*, ac o herwydd hyny, yn anhaeddol i'w cefnogi. Mae rhai masnachdai, fel rhai dynion, wedi colli eu cymeriad; nid oes byth barch a llwyddiant yn dygwydd iddynt; maent megys wedi eu tyngedfenu i aflwyddiant a siomedigaeth. Dyna y *Shop* Fraith yn Aberdyfrdon; mi welais yno lawer yn dyfod ac yn myned o bryd i bryd er ys deugain mlynedd; ond ni welais neb yn gwneyd eu ffortun, fel y dywedir, ynddi. Bu yno rai yn gwneyd cais ar bob math o fasnach, yn chwcgyddwyr, brethynwyr, hetwyr, cyfferwyr, canwyllwyr, blawdwyr, gwerthwyr lluniaeth, gwneuthurwyr rhaffau, gwneuthuresau bonhetiau a chapiau, ac felly yn y blaen; ond yr oedd yr hen *shop* yn ddiduedd i bawb fel eu gilydd; ni wnaeth les i neb o honynt; ac aethant oll o honi yn waeth eu sut nag y daethant iddi. Ond y mae genyt ti, pa fodd bynag, le da i ddechre; wel, gwna yn fawr o hono, ac na feddwl, hyd nes elo blynyddoedd heibio, am symud i le gwell. Os gelli gael *lease* gan dy feistr tir, goreu a fydd; gelli wed'yn fod yn galonog i wneyd pob gwelliadau anghenrheidiol ar yr adeilad.

Bydded i ti amlygu dy bwyll a'th synwyr, trwy beidio bod yn rhy anturiaethus, a pheidio gwneyd gormod o arddangosiad a rhwysg, yn awr ar dy gychwyniad allan gyda maeleriaeth. Cyfaddasa yr esgid at y troed, fel y dywed yr hen air; a myn wybod yn wastad yn mha le y byddi yn sefyll. Hyfrydach a gwell o lawer a fydd i ti ledu yn dy fasnach fel yr elych ymlaen, na gorfod meinhau a chyfyngu o herwydd dechreu yn rhy fawr. Pa gynnifer o faelerwyr a welwyd, pan wedi cael benthyg arian tuag at gychwyn eu masnach, a phob peth yn galw arnynt i arfer cynnildeb a gofal, yn ymhoewi yn ddirfawr gyda eu bod wedi agor eu maelfa, yn llanw eu tŷ â dodrefn ysplenydd, yn byw yn wych, ac yn tori ffigiwr mawr, nes yr oedd y dylaf yn gallu darogan eu bod ar y llithrigfa, ac yr äent yn gyflym i'r pen. Wedi methu ateb i un gofynwr, byddant yn codi eiddo gan un arall; hwy a dalant ryw gyfran i hwnw drachefn, ac a roddant *orders* i'r trydydd; ond ar ol marchogaeth am enyd ar gefn coel ac *accommodation bills*, syrthiasant i'r llawr, gan golledu eu gofynwyr, a gwarthruddo eu henwau eu hunain am byth.

Yr wyt eto yn ŵr ieuanc sengl; ond mi a gymeraf yn ganiatäol nad ydwyt wedi derbyn yr hyn a elwir yn ddawn gweddwdod, ac nad oes bwriad ynot am ddybenu dy ddyddiau yn sefyllfa hen lanc. Yr wyf yn gobeithio, Dafydd, y cymeri lawer o bwyll wrth chwilio am gymbares oes,

[illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]

iant hyny genyt. Y gyfundrefn o "Arian Parod" yw yr unig drefn iawn a sicr gyda masnach; a gwn am rai maelerwyr yn Nghymru a ennillasant gyfoeth lawer wrth nacâu coelio undyn, a gwerthu yn unig a chwbl am arian parod. Ond ti a ddywedaist wrthyf, pan yr oeddyt yma, fod amgylchiadau yn peri nad oes bosibl maelera yn Llanfarchnad heb roddi coel i ryw raddau. Mae yn ddrwg genyf hyny; ond, gan mai felly y mae, ti a ddylit edrych yn fanwl pwy i'w coelio. Y mae rhai pobl wedi arfer mudo dan faich o ddyled o faelfa i faelfa; wedi rhedeg i ddyled yn y naill, diangant i wneyd yr un gyflafan yn y llall. Adnebydd y cyfryw rai, a gochel hwy. Wrth nacâu eu coelio, ti a fyddi yn ddoeth i ti dy hun, ac yn gwneyd yr hyn sydd wirioneddol dda iddynt hwythau. Paham y rhaid i ti foddhâu craill ar draul dy niweidio dy hun. Gwir yw fod y *County Court* weithiau yn offeryn hwylus iawn i godi mân-ddyledion oddiwrth y rhai nad all dim ond gorfodaeth cyfraith eu dysgu i wneuthur cyfiawnder; ond, rywfodd, nid yw y masnachwr sydd yn rhoi llawer o waith i wŷr y gyfraith, yn ennill nemor barch oddiwrth y wlad; ac os cyll dyn ei barch, fe gyll ei gwbl. Y ffordd oreu yw bod yn benderfynol i beidio coelio o gwbl y rhai sydd o nodweddiadau sicr ac ammheus; a gwell i ti gymeryd tafod drwg ganddynt, os bydd raid, am eu gommedd i fyned i'th ddyled, nag am ofyn iddynt dalu eu dyledion; canys mynych iawn y mae y gofynwr yn ennill digofaint a geiriau caledion am ei waith yn ceisio yr eiddo ei hun. Mae rhai maelerwyr i'w beio yn fawr am demtio trueiniaid i ddyfod i'w dyled, ac nid mor rhyfedd os bydd i'r cyfryw gael eu siomi am eu harian. Arddangosant, arganmolant, a thaer-gynnygiant ryw nwyddau neillduol i bobl weiniaid; a phan y dywedant hwythau nad oes ganddynt fodd i'w cael, er mor ddymunol ydynt, "O, mi a'ch coeliaf," medd y maelerwr, "a chewch dalu pan alloch." Na fydd di yn mysg y rhai sydd yn gwneuthur felly.

Bydd ochelgar rhag ymyryd â galwedigaethau, ac ymaflyd mewn anturiaethau, gwahanol oddiwrth achosion cyfreithlawn neu uniongyrchol dy fasnach; o leiaf, nes yr elot yn ŵr cefnog yn y byd, os nad i allu byw yn annibynol ar faeleriaeth. Fe welwyd aml un, yn ei frys am fod yn gyfoethog, yn neidio rhag blaen at y *speculation* yma, a'r anturiaeth draw, a thrwy hyny yn ysigo ei fasnach, yn lle gwella ei hun, fel yr oedd yn amcanu ac yn daroganu. Mae y gorphwylldra mawr gyda phrynu a gwerthu cyfranau mewn ffyrdd heiyrn, wedi darfod, o drugaredd, cyn i ti ddechreu trin y byd; eithr y mae lliaws dirif, ac yn eu mysg faelerwyr lawer, yn cofio yn chwerw am y *mania* hwnw, yn yr hwn y llosgasant eu hedyn, fel y pryf yn y ganwyll. Ond y mae eto ryw *company* neu gilydd yn ymffurfio yn barhâus, ac yn hysbysedig yn y papyr newydd, ac yn gymhelledig gan siaradwyr hyawdl, fel y moddion goreu a sicraf i ennill cyfoeth mawr mewn byr amser a chydag ychydig draul. Hwyrach y gall llawer o'r cyfryw droi allan yn dda, a rhoddi mewn amser elw cysurus i'r cyfran-feddiannwyr; ond dyma sydd genyf fi i'w ddywedyd,—nid tydi fel masnachydd ieuanc yw y dyn i chwilio am aur Dolgellau, na phlwm sir Fflint, na llechau mynyddoedd Arfon a Meirion, na glo, na chyffelyb, yn unlle arall; dy bwnc di yn awr yw gwrandaw ar y dywediad sathredig, "Cadw di dy *shop*, a'th *shop* a'th geidw di." Yr wyf yn cofio yr hen weinidog cywir a gonest, y diweddar Barch. John Parry, Caerlleon, yn dywedyd, "Mi fum i cyn hyn yn *mentro* yn y *mines*; ond fy rheol i gyda hyny a fyddai hyn:—Dyma

gan' punt: mi ddymunwn ennill gyda hwy; ond os collaf hwy, ni bydd hyny yn golled i neb arall, nac yn un anhwylusdod mawr i mi fy hun." Ond nid oes genyt ti eto, Dafydd, yr un can' punt yn dy ymyl ag y gellit fforddio eu taflu ymaith, os hyny a ddygwyddai. Yn yr alwedigaeth y'th alwyd, yn hono yr wyt ti i aros ac i roddi allan dy ymadferthoedd, nes cael dy hun yn dra llwyddiannus ynddi. Mi wn am rai maelerwyr sydd yn trin tir ac anifeiliaid; ac mewn pentrefi bychain, gall y tyddyn a'r faelfa fod yn help i'w gilydd; ond yn gyffredin yn y trefi, rhai clyd arnynt, wedi cau pen eu mwdwl, fel y dywedir, yw y masnachwyr sydd yn arfer âg amaethyddiaeth: eithr gwelwyd ereill yn eu handwyo eu hunain trwy gymeryd ffermydd na wyddent pa fodd i'w trin, a thrwy esgeuluso eu masnachdai i edrych ar eu hôl. Os myner i'r ffrwd fyned yn afon fawr, rhaid peidio ei hacio i lawer o ffosydd, a'i throi i amryw gyfeiriadau, ond gadael iddi ddylifo ymlaen mewn un rhedle.

Yr wyf yn nodi ymhellach fod diwydrwydd a dyfalwch yn llwyr angenrheidiol tuag at dy lwyddiant fel maelerydd. Yn wir, y mae fel hyn yn mhob galwedigaeth—nid y dyn mwyaf ei ddawn, ond y dyn mwyaf ei ddiwydrwydd yw y cyntaf i gyrhaedd camp llwyddiant. Nid y gŵr athrylithgar neu dalentog yn gymaint, ond y "gŵr diesgeulus yn ei orchwyl," yw yr hwn a saif ger bron breninoedd, ac nid ger bron rhai isel-radd. "Nid oes un gelfyddyd neu wyddor," medd yr hen Arglwydd Clarendon, "yn rhy anhawdd i ddiwydrwydd ei chyrhaeddyd; dyma yw dawn yr amryw dafodau sydd yn gwneyd i ddyn gael ei ddeall a'i brisio yn mhob gwlad, a chan bob cenedl; dyma gareg yr athronydd sydd yn trin pob metel, ac hyd yn nod ceryg yn aur, ac na oddef i anghen dori i'n trigfanau; mewn gair, mae yn gorchfygu pob gelyn, ac yn gwneyd i ffortun ei hun dalu teyrnged."

Y mae eithafion, rhaid addef, gyda phob peth; ac fe welwyd ambell un wedi myned mor bell i un ochr yn ei ddiwydrwydd a'i ofal, fel nad oedd yn cymeryd iddo ei hun y gyfran ddyledus o gwsg nac o ymborth; yr oedd yn byw fel caethwas, ac yn gormesu ar ei iechyd, gan ei bryder anghymedrol ynghylch ei alwedigaeth. Ond nid yn yr ochr hyna y mae mwyafrif y maelerwyr yn methu yn gyffredin. Nage; nid rhedeg tu hwnt i'r nôd yw y coll mynychaf, ond sefyllian yn oediog cyn ei gyrhaedd. "Ychydig gysgu, ychydig hepian, ychydig wasgu dwylaw i gysgu: felly y daw dy dlodi megys ymdeithydd, a'th anghen fel gŵr arfog." Byddai yn dda pe ceid rhywun gonest i ddywedyd yn llythyrenol ar foreuau wrth lawer masnachwr, "Na châr gysgu rhag dy fyned yn dlawd; agor dy lygaid, fel y'th ddigoner â bara." A ddysgaist ti y pennill hwnw o eiddo y Ficer Prichard?—ceir ef yn mysg ei gynghorion i'w fab:—

"Côd y bore ar y wawrddydd,
Am y cyntaf â'r ehedydd,
Hyn a'th helpa i gael hir iechyd,
Dysg, a dawn, a chyfoeth hefyd."

Un hen fasnachwr cyfoethog oedd yn byw mewn tref ar lan y môr yn Ngogledd Cymru, i ba le y mae boneddigion ac eraill yn cyrchu yn yr haf, a adroddai wrth gyfaill, mai dechreuad ei lwyddiant oedd, iddo trwy yr haf agor ei faelfa o bump i chwech o'r gloch y bore. "Byddai llawer," meddai, "yn rhedeg i fy *shop* cyn i'w lletywyr godi, a gwasanaethyddion yn dyfod cyn i'w meistri a'u meistresi ddyfod i lawr o'u gorweddfäau; ac felly mi fyddwn yn fynych wedi gwneuthur llawer o bunnoedd cyn i'r un

shopwr arall yn y dref agor ei *shutters*." Myn dithau fod yn un o'r rhai cyntaf yn Llanfarchnad, os nid y cyntaf oll, yn agor dy faelfa bob bore; a bydded pob cwr o honi yn lân, a phob peth ynddi yn drefnus yn eu lleoedd, a phawb yn barod at orchwyl, erbyn y byddo trafnydyddion yn troi i mewn.

Na chaffer di, fy nai, yn mynychu lleoedd o ddifyrwch, neu yn dal i fyny gyfeillach neu ymddyddan segurllyd a diwerth, pryd y dylit fod yn edrych ar ol dy faelfa. Mae rhai maelerwyr na welir mo honynt ond yn bur anfynych yn eu masnachdai; a dichon y ceir hwy yn ymesgusodi trwy ddywedyd, "O, y mae genym ni *shopmen* bywiog, hylaw, a gonest; gallwn ni anturio myned i'r lle a fynom, gan fod genym bob ymddiried ynddynt hwy." Ond mi ddymunwn ddywedyd rhyw bedwar neu bump o bethau yn ddystaw wrth y cyfryw rai. 1. Nid anmhosibl i chwi gael eich twyllo trwy ymddangosiadau teg, fel llawer o'ch blaen. 2. Mae y gwasanaethwyr goreu yn cyflawni eu dyledswyddau yn gysonach a siriolach pan y byddo eu meistri gyda hwy. 3. Nid oes wybod pa mor fuan y gall y gweinyddwyr a'r cynnorthwywyr hyn eich gadael. 4. Os gosodant i fyny drostynt eu hunain, odid fawr na byddant hwy, trwy eu diwydrwydd, wedi lladrata calonau y cwsmeriaid oddiwrth y meistr diofal. 5. Bydd y rhai oll a ddeuant atoch i brynu, yn hoffi eich gweled chwi eich hunan gerllaw; rhaid, gan hyny, i bwy bynag a ddymunai ennill ewyllys da tref a gwlad fel masnachwr, ofalu am fod ei wyddfod yn ei fasnachdŷ mor ddibaid ag y byddo bosibl. Yr wyf yn cofio am Thomas, mab y Cochfryn, maeleriaeth yr hwn a derfynodd mewn methdaliad gwaradwyddus. Nid oedd bosibl i un maelierydd gael cychwyniad mwy gobeithiol. Rhoes ei dad swm helaeth o arian iddo i ddechreu; yr oedd perthynasau ei wraig yn gryfion a chyfrifol yn y dref, a'r ardaloedd oddiamgylch; a chafodd fod yn olynwr i'r hen Mr. Wmffre yn y faelfa lle y gwnaethai efe ei holl olud. Ond aeth Thomas, druan, fel pytatws Llwynffynnon, yn ormod cyn myned yn ddigon. Yn lle cymeryd pleser yn ei fasnach, esgeulusai ei fasnach i chwilio am bleser. Dygwyddodd i mi ei gyfarfod yn mhen tua blwyddyn a hanner wedi iddo ddechreu fel masnachydd; a phan ofynais iddo pa fodd yr oedd yn myned ymlaen yn y dref, atebai ei fod yn myned ymlaen yn *noble*, yr oedd wedi cael ei dderbyn yn aelod o'r *Bowling-club*, ac yr oedd hyny yn beth pur *respectable*; yr oedd y dydd o'r blaen wedi bod yn pysgota am ddiwrnod gyda Mr. Puw, y cyfreithiwr; yr oedd yn mhen tridiau i fyned i hela gyda Mr. Sharper, goruchwyliwr Syr Rhodri; efe a gawsai yr anrhydedd o fod yn gadeirydd yn nghiniaw *house-warming* y Llew Glâs; ac yr oedd y bardd cudynog, Ap Meurig, wedi ei gyhoeddi ef i fod yn islywydd Eisteddfod ddyfodol *sign* yr Hwrdd. Wel, wel! ebe fi ynof fy hun, yr wyt ti wedi syrthio yn mysg lladron, Tom bach; bydd dy *shop* ar ben yn fuan, mi welaf. Ac felly y bu. Cyn pen chwe mis ar ol hyny, yr oedd enw Thomas yn y *London Gazette*—nid yn y *List of Sheriffs*—ond yn mhlith y *Bankrupts*. Yno yn gymhwys yr oedd yr holl fawredd crybwylledig wedi ei arwain. Ti a wyddost pwy a ddywedodd, "Y neb a garo ddifyrwch, a ddaw i dlodi;" ac y mae y geiriau hyny yn cael eu gwirio, ysywaeth, yn feunyddiol.

Yr wyf yn hyderu dy fod yn dal yn benderfynol a gwresog at dy ymrwymiad fel llwyrymwrthodwr â gwlybyroedd meddwol; bydd hyny yn ddiogelwch i ti rhag temtasiynau lawer. Gofidus yw genyf glywed am

iselder yr achos dirwestol yn Llanfarchnad. Yno, mae y rhai a fuant areithwyr zelog ar Ddirwest, ddeunaw a phymtheng mlynedd yn ol, yn awr, meddir i mi, yn yfed y diodydd meddwol yn ddigywilydd, ac yn hudo eraill gyda hwy i dafarndai. Na ildia i gydymffurfio â'r cyfryw ddynionach anwadal, er dim; ond dangos fod genyt ysbryd ac egni i nofio yn erbyn y ffrwd. Mae'r trafaelwyr masnachol yn gwneuthur yn fynych lawer o ddrwg, trwy wahodd y maelerwyr i'r gwestdai atynt, ac yno yn eu hanrhegu â gwin a gwirod, ac â diodydd cedyrn eraill. Dyma gochl glyd gan y maelierydd chwannog i ddiod: yn yr *inn* ar *fusness* gyda *thraveller*, yr oedd efe, siwr; a phwy a all ei feio am hyny? Mae yn awr amryw o fechgyn Cymru yn teithio y Dywysogaeth dros deiau mawrion Manchester, a'r trefi eraill. Dymunwn ddywedyd wrthynt lle y clywont, Gwyliwch, am eich bywyd, rhag temtio eich cydwladwyr i yfed y gwlybwr meddwol er mwyn eu denu i brynu yn helaeth genych, a thrwy hyny, fe allai, eu gwthio ymlaen i'r arferiad o ddiota, nes eu gwneyd cyn hir yn ddiwerth i chwi, iddynt eu hunain, ac i'r byd! Clywais rywrai yn ceisio haeru fod yn anhawdd, os nad yn anmhosibl, i ddyn faelera yn llwyddiannus, a bod yn llwyrymattaliwr. Ond nid yw hyna ond siarad geiriau ofer. Mae y masnachwr mwyaf yn Nhrefirfon yn ddirwestwr cwbl a chyson er ys blynyddau lawer. Nid yw dirwestiaeth yn drygu neb, ond y mae annirwestiaeth yn dyfetha miloedd. Ymofyn â'r bobl henaf yn Llanfarchnad am hanes ei masnachwyr a'i chelfyddydwyr, er ys triugain mlynedd; a gallant roddi i ti gofrestr hir o enwau y rhai a syrthiasant o fri a llawnder i dlodi a gwarth, neu a gwympasant i'r bedd cyn eu hamser, yn unig o herwydd meddwdod. Un gŵr yn yr America, yr hwn a gasglodd ddau can' mil o bunnoedd mewn deuddeng mlynedd, mewn llythyr at gyfaill, yn cynnwys cyfarwyddiadau pa fodd i lwyddo mewn galwedigaeth, a ddywed yn mysg pethau eraill, "Nac ymarferwch âg un math o ddiodydd meddwol. Fel nad all un dyn lwyddo yn ei alwedigaeth oddigerth fod ganddo ymenydd i'w alluogi i dynu ei gynlluniau, a rheswm i'w arwain yn y cyflawniad o honynt, felly, ni waeth pa mor gyflawn y byddo dyn wedi ei fendithio â dealltwriaeth, os bydd ei ymenydd wedi ei gwirioni, a'i farn wedi ei gwyro gan wlybwr meddwol, bydd yn anmhosibl iddo ddwyn ei orchwyl i ben yn llwyddiannus. Pa sawl cyfleusdra daionus a gollwyd, nid i ddychwelyd mwyach, pan yr oedd dyn yn llymeitian y 'gwydraid cyfeillgar' gyda chyfaill! Pa sawl bargen ynfyd a wnaed o dan ddylanwad y ddiod, pan yr oedd y colledwr am yr amser yn ei deimlo ei hun yn gysurus a chyfoethog! Pa sawl mantais bwysig a daflwyd heibio hyd yfory, ac felly am byth, oblegid fod cwpan y gwirod wedi taflu y cyfansoddiad i gyflwr dinerth a diymroddiad!" Fel hyn, heb son am lesoldeb dirwest yn yr ystyr foesol a chrefyddol, mae yn wir fanteisiol mewn ystyr fydol a thymmorol. "Llaw y diwyd a gyfoethoga;" ac y mae cyfeddach, diota, a meddwdod, yn llyffetheirio ac yn lladd pob diwydrwydd.

Dyma beth arall sydd yn anhebgor i ti fel masnachwr,—ymddygiad moesgar a thirion. Nid oes neb yn hoffi bod gyda phobl afrywiog eu tymherau, pigog eu geiriau, a geirwon eu harferiadau; yr ydym yn ymgadw, os gallwn mewn modd yn y byd, rhag myned yn agos at y cyfryw gacwn colynog. Pwy bynag fyddo yn uchelfrydig, sarug, ac anfwyn, ni ddylai maelerwr, yn anad neb, fod felly; onidê ni byddai waeth iddo gau ei fasnachdŷ càn gynted ag y gallo. Gofynwyd i un o'r marsiandwyr cyfoeth-

ocaf yn ei oes beth oedd y gyfrinach neu y dirgelwch am y ffordd i ennill arian; a'i ateb ydoedd, "Bod yn fwynaidd tuag at bawb." Cofia hyn, fy nai, bob amser. Pa mor dlawd bynag y byddo y prynwr, ymddwyn di yn barchus ato. Pa mor fychan bynag y byddo yr hyn a geisir, dyro hyny mewn sirioldeb. Daw weithiau, fe allai, bersonau i'th faelfa i ymofyn am nwyddau tra diwerth, a thithau yn gwybod eu bod yn arfer myned i leoedd ereill am nwyddau mwy a gwerthfawrocach; na ddiystyra hwy er hyny; dy ddoethineb fydd eu gwasanaethu gyda phob hynawsedd a pharodrwydd; gall y deuant atat am ychwaneg y tro nesaf. Hwyrach y bydd pobl ddyeithr yn awr ac eilwaith yn troi i mewn i'th fasnachdŷ i ofyn hysbysrwydd am bersonau neu drigfanau, neu am rywbeth arall: na fydded i ti, fel y gwelwyd ambell fasnachydd ffol, ateb y cyfryw mewn dull cwta a difoes, am na bydd golwg ar y pryd am elwa ceiniog wrthynt; ond gwrandaw arnynt yn rhwydd, a dyro yr hyfforddiant gofynedig iddynt gyda phob ewyllys da. Mae dynoliaeth, pe na byddai dim arall, yn peri i ti wneuthur hyny; a dichon y byddi, ar y pryd, yn ychwanegu un at liaws dy gyfeillion. Mae rhai cwsmeriaid, fe wyddys, yn hynod o flinderus ac anhawdd eu boddhau; a rhai y bydd raid troi a throsi, mudo a lledu, nwyddau lawer i'w dangos iddynt; beiant yn ddiachos ar y peth hwn, ac achwynant yn afresymol ar y peth arall; ac, hwyrach, na phrynant ddim yn y diwedd. Digon tebyg y bydd yn brofedigaeth i ti ar amserau ddyweyd ambell air garw wrth y fath rai; ond ymgroesa, ymgosba, ac ymattal; anghofia fod genyt gig a gwaed o'th amgylch, a marweiddia bob digofaint a theimlad nwydwyllt a fydd yn ymgodi ynot; dywed dy reswm wrthynt yn siriol, canys dyna y ffordd debycaf i gywilyddio ac i wellhau y teulu trafferthus hyn. Pa gymaint bynag fyddo ystôc dy faelfa, nid digon fydd heb i ti dy hun gadw ystoc dda o amynedd bob amser.

Dangos bob addfwynder, ewyllys da, a charedigrwydd at dy gyd faelerwyr yn y dref. Nac attal ddaioni oddiwrthynt pan fyddo ar dy law ei wneuthur; ond gwna gymwynasau iddynt yn ol yr anghenrhaid, gan na wyddost pa mor fuan y bydd yn dda i tithau gael help oddiar eu dwylaw hwythau. Os cyfyd maelierydd newydd yn dy ymyl, na ddangos un gwrthwynebiad iddo, ac nac arfera unrhyw foddion i attal trafnid oddiwrtho. Cofia fod ganddo ef gystal hawl i fyw yn Llanfarchnad ag sydd genyt tithau, a bod y byd mawr yn fyd iddo ef megys ag y mae i tithau. Na chenfigena wrth y neb a fyddo uwch na thi, ac nac ysgornia y neb a fyddo is, ond cais gymhorth i ufuddhau i'r ail orchymyn mawr, "Car dy gymydog fel ti dy hun."

Ymddyga gyda phob tiriondeb at dy freintweision a'th wŷr ieuainc. Gwn am rai maelerwyr sydd yn nodedig am eu gofal tadmaethol o'u prentisiaid; maent yn ymddwyn atynt fel pe byddent blant iddynt, gan edrych ar ol eu moesau, a dwyn ymlaen eu cysur yn mhob modd. Ond y mae ereill yn hyn yn ymddwyn yn dra gwahanol; ni chaiff y gwŷr ieuainc a'r prentisiaid byth olwg hawddgar, na gair tirion oddiwrthynt; y natur ddrwg, na feiddiant ei gollwng allan ar ereill, a arllwysant arnynt hwy; rhoddant i'w herbyn feiau na byddant yn euog o honynt; gorfodant hwy i wneuthur swyddau isel, a gorchwylion hollol anghysylltiol â'r alwedigaeth eu rhwymwyd iddi. Mŷn di ennill serch dy ddeiliaid, a bydd yn hawdd i ti eu llywodraethu. Dywed wrth y rhai sydd dan dy ofal, "Deuwn a gwnawn," ac nid, "Ewch a gwnewch." Mae yn dda genyf weled fod y masnachdai mewn

rhai trefi yn Nghymru, fel yn Lloegr, yn awr yn cael eu cau yn gynnar, fel y caffo y gwŷr ieuainc fwy o amser iddynt eu hunain, er eu llesiant corfforol a meddyliol. Dyma ysgogiad er daioni. Gobeithiaf y cymer y diwygiad hwn le yn fuan yn Llanfarchnad, ac y byddi di, fy nai, yn un o'r rhai parotaf i'w gefnogi.

Mae yn bryd i mi bellach ddwyn y llythyr maith hwn i derfyniad. Swm yr hyn a ysgrifenwyd ydyw,—Yn gyntaf, Bydd gyfiawn a geirwir. Yn ail, Bydd ddoeth a phwyllog. Yn drydydd, Bydd ddiwyd a sobr. Ac yn bedwerydd, Bydd foesgar a thirion. Purion penau, pa fodd bynag.

Yr oeddwn wedi bwriadu, fel diweddglo priodol i'r hyn a ysgrifenwyd, cymhell i'th feddwl rai ystyriaethau o natur grefyddol, er mwyn dy annog i "wneuthur y goreu o'r ddau fyd." Eithr rhag myned yn rhy faith, ni chaf yn unig ond cyflëu o'th flaen rai adnodau penodol o Ysgrythyr y gwirionedd. "Bendith yr Arglwydd a gyfoethoga, ac ni ddwg flinder gyda hi. Yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef, ac efe a hyfforddia dy lwybrau. Anrhydedda yr Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth penaf o'th holl ffrwyth; felly y llenwir dy ysguboriau â digonoldeb, a'th winwryfoedd a dorant gan win newydd. Gwnewch i chwi gyfeillion o'r mammon anghyfiawn; fel pan fo eisieu arnoch, eich derbyniont i'r tragywyddol bebyll. Yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef; a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg. Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod, nid ar bethau sydd ar y ddaear. Un peth sydd anghenrheidiol; a Mair a ddewisodd y rhan dda, yr hon ni ddygir oddi arni. Nid yn ddiog mewn diwydrwydd; yn wresog yn yr ysbryd, yn gwasanaethu yr Arglwydd. Os byw yr ydych yn ol y cnawd, meirw fyddwch; eithr os ydych yn marweiddio gweithredoedd y corff trwy yr ysbryd, byw fyddwch." Darllen yr adnodau hyn yn dy Fibl o un i un; aros yn dy fyfyrdod rai mynydau, o'r hyn lleiaf, uwch ben pob un o honynt; a phenderfyna gymeryd yr egwyddorion mawrion a argymhellir ynddynt yn rheolau dy fywyd; felly y cei ddaioni oddiwrth waith dy ddwylaw, ac y byddi fendigedig yn dy ddyfodiad i mewn ac yn dy fynediad allan, ac y'th gedwir gan Dduw oddi amgylch.

Ydwyf, fy anwyl Dafydd, dy ewythr ffyddlawn,

MORGAN MEURIG.

UDGORN Y MILFLWYDDIANT.

Chwythwch yr udgorn ar glogwyn Moriah!
Adref, Iuddewon, adref!
Agorwyd pob porthladd ar lan Palestina,
Adref!
Nid oes ar ffiniau 'r wlad
Un fyddin mwy dan arfau:
Yn ol, anfarwol had
I'r mel ororau!
Mae 'r ffordd yn rhydd,
Mae 'r lle yn barod,
Hawddamor ddydd
Gollyngdod!

Chwythwch yr udgorn ar glogwyn Moriah!
Udgorn rhyddhâd
Yr Israelaidd hâd.
A chwyddod yr adsain,
Eryrol arwyrain,
O wawl lys y dwyrain,
Hyd derfyn pob gwlad.
Wyntoedd y nefoedd
Yr anthem, O! eiliwch!
Dros fânau 'r mynyddoedd,
Dros dônau y moroedd,
Ei hadsain danfonwch.

A chwi 'r addewidion,
Hoff berlau plant Sion, [wch.
Yn fil ac yn fyrdd eich bendithion gawod-
Bellach try 'ch geiriau
Oll yn drysorau.
I lawr o'r nefoedd gwlawia
Eich perlau dwyfol, drud,
Eich golud tywalltedig
A gyfoethoga 'r byd.

Ond chwythwch yr udgorn ar glogwyn
Adref, Iuddewon, adref! [Moriah!
Yn ol yn ddinag
Mae phiol y felldith yn wag.
Mae 'r pomgranadau 'n pyngu
Gan addfedrwydd llawn yn fyrdd:
A choed tewfrigog
Yn orludog
Mewn aeron eurog
Bereiddiaf lwyth, yn plygu
A'u cysgod dros y ffyrdd.
Dewch fyrdd i'r wledd! mae 'r cangau eur-
Gan olud ffrwythau [og wawr
A harddwch blodau
Oll yn cusanu 'r llawr.

Libanus wisg ei fantell werdd,
Gan ychwanegu swyn pereiddiaf gerdd
Adeiniog gorau
Rhwng bythwyrdd gangau,
I 'ch croesaw adref
Dan faner tangnef.
A'r diliau mel trwy 'r dolau mad
Yn llawn llifeiriant,
A'ch llon wahoddant
Yn fyrdd i'r Ganaan fad.

Chwythwch yr udgorn ar frig Himaleh!
Iuddewon y dwyrain trowch adref i gyd
O gonglau y byd!
Yn ol yn ddi nag,
O Dan hyd Beersheba
Mae Canaan yn wag.
Poblogwch ei chaerau!
Esgynwch ei bryniau! [ydd,
A thaenwch eich pebyll dros lenyrch ei bro-
A phlanwch eich baner ar gopa pob mynydd
Sef hen faner Dafydd,
Dan nawdd yr hon gynt,
Anturiodd eich tadau
Yn fyrddiwn ar hynt, [rhengau
A bloedd buddugoliaeth yn chwyddo o'u
Nes holloll ddystewi hyf gorau y gwynt.

Ar lanau y Danube yr udgorn, O! chwyth-
Adref Hebreaid, adref! [wch!
Dan chwyfawl luman tangnef,
O Poland fel dylif ar Ganaan tywelltwch!
Gwisg Mynydd yr Olewydd
Ei fantell orysplenydd:
Mae 'r myrtwydd yn eu bythol wyrdd
A'u harddwch yn tecäu ei agwedd
A'r palmwydd uchel, mal
Breninoedd beilchion, tal,
Ar ddeiliaid fyrdd,
Mor syth yn sefyll ar ei lechwedd!
Yn arluniau bri a mawredd.

A'r olewydden fras
Ar chwyf, dan awel nen
Ac awgrym wybren las,
Goronai 'i ben.

A Charmel ar roesawol wedd,
Grechwena dan ffrwythlonrwydd,
Fel brenin ar ei sedd
Rhwng amldra a digonolrwydd.
Mae 'i frasder yn llifeirio
Dros ei ysgwyddau i lawr,
A choed yn taflu drosto
Eu gwisg o eurog wawr.
O odrau Môr Canoldir, mân
Y gylch ei draed yn nghawg y dòn,
Hyd ddyffryn Jezreel ymestyna, tan
Fil myrdd o winwydd llon,
Y rhai orphwysant ar ei fynwes
Eu cangau gwan, dan lwyth o rin
Yn flin gan wres,
Yn drwm gan win.

I làn Iuddewig lu
I làn i'r Ganaan gu.
Mae glànau 'r afon sy'n
Arianu bronau Escol,
Yn wlyb gan ddagrau gwin,
Yn llif o frasder bywiol,
Ac yn huddedig
Dan gangau tewfrig,
Cyffebyb i'r oludog gangau gynt,
A dorwyd yno
Gan Osea at ysbiol gynt,
Rhwng blodlawn goed y werddfro.

Pentrefydd glànau Môr Tiberias, sydd
A mwd o flodeu dros eu muriau'n hudd,
Yn dysgwyl eich myrddiynau i làn
I'w llanw mwy,
A gyru ffwrdd Mahommet didrain, gwan,
Sydd yn halogi
A'i gân a'i weddi
Eu cyssegredig awyr hwy.

I làn Iuddewig lu!
I làn i'r Ganaan gu!
Dirymwyd braich y pagan.
Dychwelwyd sedd y Sultan,
A chwalodd anadl barnol wynt
Holl ddeddfau y Divan!
Hebreaid! ar fuddygol hynt
I làn—yn fyrdd i làn!

Mae baner Calfari
Yn chwyfo 'n uchel fry,
Uwch tyrau Caer Cystenyn!
I làn, waredig lu!
Ond chwythwch yr udgorn ar glogwyn
Calfaria!
Lle rhoes eich Messiah
Hebreaid, brydnawn

I gyfraith Iehofah
  Oludoedd o Iawn.

Edrychwch ar ei glwyfau
  Yn arllwys llif o waed,
A'r porphor ddyferynau
  Ddrud berlau dan ei draed.

O! syllwch ar y bywiol ffrwd
  O'i ystlys lif brydnawn:
Mae fyth yn newydd, fyth yn frwd
  Gan rinwedd dwyfol Iawn.

  I lân brynedig lu!
  I lân i'r Ganaan gu!
  A baniar Cristionogaeth,
  Yn chwyfo ar bob tu.

    Ehed côr yr awelon
      A pherarogiau 'r wlad
    Dros fronau 'r gerddi gwyrddion.
      I ddyblu eich mwynhâd.

I Hebron arddyrcha
  Ei ben i'r wybr arian,
Dàn goron o eira
  I'ch croesaw i Ganaan.

Mae'r ffordd yn rhydd,
  Mae'r lle yn barod,
Croesawiad sydd
  A bloedd gollyngdod.

Clywch chwythad yr udgorn ar glogwyn
    Moriah!
Yn ol yn ddi nâg!
  O Dan hyd Beersheba,
Mae Canaan yn wag.

NODIADAU AR LYFRAU.

Y METHODIST: *sef Cylchgrawn Misol.* Rhif. 1, 2, 3.

Dyma ail-gychwyniad da ar y cyhoeddiad bychan (ac nid mor fach) a gwerthfawr hwn. Yr oedd ei hen olygydd, ein cyfaill hoff, y diweddar Barch. Lewis Jones, Bala, wedi llawn fwriadu ei ail-ddechreu gyda y Parch. Edward Morgan, Dyffryn; ond er ein colled a'n chwithdod ni, efe a ddiangodd i'r fro dawel lle "y gorphwys y rhai lluddedig," ac ni cheiff Cymru ei gyfansoddiadau gwreiddiol a tharawiadol mwyach. Mae y nefoedd, dybygem ni, yn ei chyfoethogi ei hun yn gyflym ar gost y ddaear yn y dyddiau hyn. Byddwn yn meddwl yn fynych am bregeth a glywsom ar y wlad nefol gan y Parch. John Jones, Talsarn. Wedi son llawer am ei dedwyddwch a'i gogoniant, dywedai, "Ond y mae yn rhaid i ni ddyweyd yr holl wir am dani; rhyw go galed, ar un olwg, y mae hi yn ein trin ni. Os bydd genym ryw gyfaill gwell na chyffredin—rhywun pur dduwiol a hynod hoff—rhaid iddi hi ei gael ef iddi ei hunan yn union, ac ni welwn mo hono byth mwy ar ddaear hon." Bu marwolaeth Mr. Lewis Jones yn gryn ddigalondid i Mr. Morgan fyned ymlaen gyda'r "Methodist;" ond annogwyd ef gan amryw o gyfeillion i'w ddwyn allan; ac yr ydym yn gobeithio y calonogir ef yn ymarferol gan y wlad. Gŵyr y rhan fwyaf o'n darllenwyr fod Mr. Morgan, fel y dywed ein cymydogion, yn llu cyfan ynddo ei hun. Y mae yn un o'r rhai galluocaf fel meddyliwr, ac fel ysgrifenydd; a chaiff ei gydgenedl les, ac nid niwed, wrth wrandaw arno.

Y mae y tri rhifyn sydd ger ein bron yn cyfarfod yn llawn â'n dysgwyliadau. Yn wir, y mae yr erthyglau ar "John Angell James," "Lewis Jones," a "John Hughes, Pontrobert," yn fwy na digon o dâl am werth y rhifynau.

DIWEDD LLYFR X.

DINBYCH: ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.